WIDENER LIBRARY
HX CY4H V

Celt 5217.30.30

HARVARD COLLEGE
LIBRARY

THE GIFT OF

FRED NORRIS ROBINSON

Class of 1891

OF CAMBRIDGE

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

# CANTREF MEIRIONYDD:

EI

*CHWEDLAU, EI HYNAFIAETHAU, A'I HANES.*

GAN Y DIWEDDAR

ROBERT PRYS MORRIS,

DOLGELLAU.

DOLGELLAU:

E W EVANS, ARGRAFFYDD, SMITHFIELD LANE.

MDCCCXC.

Digitized by Google

Celt 5217.30.30

HARVARD COLLEGE LIBRARY
GIFT OF
PROF. FRED N. ROBINSON
May 20, 1936

Digitized by Google

(3)

# HYSBYSIAD.

FEL y gwelir oddiwrth y wyneb-ddalen, bu Mr. R. Prys Morris farw cyn cwblhau y gwaith ag yr oedd wedi gosod ei fryd yn gymaint arno. Wedi nychdod blin am rai wythnosau, bu farw Ddydd Gwyl Dewi, 1890, yn 59ain mlwydd oed, ac y mae yntau erbyn hyn yn gorphwys yn ymyl ei rieni, y rhai y cyfeiria mor dyner atynt yn nghyflwyniad y gyfrol. Ond er na chafodd yr awdwr fyw i weled y llyfr wedi ei gyhoeddi, darllenodd bron yr oll o'r prawfleni; ac y mae tegwch tuag ato ef yn gystal a'r argraffydd, yn galw arnom ddweyd mai yr awdwr yn gwbl a hollol sydd yn gyfrifol am y gwaith hwnw hyd o fewn dau blyg i ddiwedd y llyfr. Ei brif ddymuniad ydoedd am gael llaw rydd; ond cydnabyddai cyn cwblhad y llyfr ei fod, oherwydd prysurdeb a phwysau llawer o waith arall, wedi gadael i amryw wallau lithro i mewn. Bwriadai gywiro rhai o'r pethau hyny, ond cymerwyd ef ymaith cyn cwblhau y gwaith. Felly nid oes genym ond cyflwyno y llyfr i'r cyhoedd fel y daeth o law yr awdwr, gan obeithio y rhoddir i'r anturiaeth y gefnogaeth a ddisgwyliai efe.

*Ebrill*, 1890. Y CYHOEDDWR.

Digitized by Google

# RHAGYMADRODD YR AWDWR.

WEDI llawer o draul mewn amser a llafur, ac ymroddiad yn ngwyneb anhawsderau, anturir dwyn y llyfr hwn i sylw y darllenydd. Ac yr ydwyf yn dymuno defnyddio y cyfleustra presenol i ddiolch i bawb a'm cynorthwyodd i'w gwblhau, ac y maent yn lliosog. Nid yw ei hynafiaethau yn cynwys holl Gantref Meirionydd, er hyny, ar ol dwys ystyriaeth, dewiswyd ei alw CANTREF MEIRIONYDD. A chynwysa y plwyfydd,—Dolgellau—Llan Fihangel y Pennant—Llan Egryn—Llan Gelynin—Tal y Llyn—Penal—a Thywyn. Hefyd, benodau ar Feirionydd—Y dull llosgol o gladdu—Meini hirion—a Charneddau—Cadair Idris ac Idris Gawr—Ffyrdd Rhufeinig—a Chantref Gwaelod.

Digitized by Google

5

## CYFLWYNEDIG I
## GOFFADWRIAETH FY NHAD A FY MAM.

BWRIEDID ar y cyntaf gyflwyno y llyfr hwn i goffadwriaeth fy mam yn unig, ond gan im golli fy nhad hefyd cyn ei ddygiad allan, y. wyf yn dymuno ei gyflwyno i goffadwriaeth y ddau. Ymadawodd fy mam â'r fuchedd hon yn Nolgellau, nos Sul, y 12ed o Fedi, 1875, a dodwyd hi i orwedd yn mynwent Capel Salem, Dolgellau, brydnhawn y dydd Iau dilynol.

Ar ol mwy na phedair blynedd wedi, cymerwyd fy nhad hefyd ymaith gan angau, yn yr un dref, brydnhawn dydd Llun, y 5ed o Ebrill, 1880. A dodwyd yntau i orwedd wrth ochr fy mam, brydnhawn y dydd Iau canlynol.

Eu hunig fab,

ROBERT PRYS MORRIS.

Digitized by Google

6

Digitized by Google

(7)

# Y CYNWYSIAD.

## MEIRIONYDD.

Am enw Meirionydd—Ei meddianiad gan y Gwyddyl—Ennilliad Meirionydd a lleoedd eraill gan y Cymry—O barth amseriad ymgyrchoedd y Gwyddyl, a'u gorchfygiad—Ganfael Wyddel, Gwydion ab Don, a Gwyddyl eraill y ceir son am danynt mewn cysylltiad â'r helyntion hyn—Hefyd Cynedda Wledig a'i feibion, ac eraill o Gymry y ceir eu henwau mewn cysylltiad â'r unrhyw ryfelwaith—Ciwdodau o wahanol enwau yn cael eu cyd alw yn Wyddyl, a Gwyddyl Ffichdi neu Ffichti—Am y Pictiaid, y Gwyddyl Ffichdi, a'r Gwyddyl Gaflachawg, a Gwyr Denmarc ... ... .. ... ... 1—13

Am yr ymrafaelion blin a gwaedlyd a fu rhwng y Cymry â'u gilydd yn Nghantref Meirionydd, neu mewn cysylltiad â'r fan—Y penaethiaid milwrol yn y cwerylon—Y Cymry yn defnyddio Saeson ac eraill ynddynt—Llaw gan frenin Lloegr yn gyru penaethiaid Cymreig yn erbyn eu gilydd, a Meirionydd yn dioddef o'r herwydd—Cyfeiriad at yr helyntion ynglŷn â'r Cymry yn eu cyngrair a'r Barwniaid a ymladdent am fwy o ryddid cyfansoddiadol—Dewis Llywelyn ab Gruffydd ac Ywain ei frawd yn dywysogion Gwynedd, mewn adeg wasgedig ar y Dalaeth—Y ddau dywysog yn d'od i heddwch a brenin Lloegr—Gorchfygiad y tywysogion Ywain a Dafydd, gan Lywelyn eu brawd—Y tywysog Llywelyn yn enill y Berfeddwlad oddiar wyr y tywysog Edwart, ac yn cymeryd Meirionydd iddo ei hun—Sefydliad Mynachlog y Cymer—Y tywysog Dafydd ab Llywelyn, Harri frenin Lloegr, y Pab ac Abadau Aberconwy a'r Cymer ... ... ... ... ... 13—28

Am helaethder Meirionydd henafol, neu Gantref Meirionydd,

Digitized by Google

ei Chwmydau a'i Chantrefydd perthynol—O barth Ardudwy, Penllyn, ac Edeyrnion, mewn cysylltiad â Meirionydd—Gwahanol drefniadau i amrywio maintioli Sir Feirionydd yn nheyrnasiad Harri VIII. ... ... ... ... ... 23—24

Y tebygrwydd fod y gyfundrefn sirol yn llawer boreuach yn Lloegr nag yn Nghymru—Am Gantrefydd, Cwmydau, a Swyddi—Am darddiad yr enw Sir, mewn perthynas a'r gyfundrefn sirol—Am nifer y siroedd yn Nghymru cyn y seithfed flwyddyn ar hugain o deyrnasiad Harri VIII—Ac o barth "tayawctref" a "myleindref" ... ... ... ... 24—28

Y DULL LLOSGOL O GLADDU, MEINI HIRION, A CHARNEDDAU.

Sylwadau rhagarweiniol—Y dull llosgol o gladdu—Meini Hirion—A Charneddau—Cyfeiriad at ddull o gladdu gan y Daeniaid, a morherwyr y cenhedloedd gogleddol—Am y beddau a gynwysant arfau ceryg—Am pa rai yw y Carneddau a godwyd ar yr anrhydeddus—Am Grugiau heblaw Carneddau—Claddu mewn tyllau, neu feddau heb nemawr o addurniadau—O barth pa bryd y rhoddwyd heibio gladdu mewn bri o dan Garneddau neu Grugiau ... ... ... ... ... 30—40

PLWYF DOLGELLAU.

Yr achlysur tebygol o ffurfiad y plwyf—Safle tref Dolgellau—Am ystyr ei henw—Maint ardreth gwriogaethwyr pentref Dolgellau i'r goron yn amser Edwart I. neu'r II.—Lladdiad Gruffydd ab Dafydd yn Nolgellau—Credlythyr Ywain Glyndwr at Frenin Ffrainc, dyddiedig o Ddolgellau—Llythyr Henry Percy (Hotspur) mewn cysylltiad â rhyfel Ywain Glyndwr—Ac am Gwrt Plas yn Dre' ... ... ... ... 41—49

ADEILADAU, &C.

Eglwys Dolgellau, neu Lanfair Bryn Meurig, ac Eglwys Bryncoedifor—Y Marchnatty, ynghyd ag amseriad y ffeiriau a'r marchnadoedd—Y Llysdy a'i chwe' darlun—Y Brawdlysoedd ... ... ... ... ... ... ... 51—66

Lleoedd, a hanesion, neu draddodiadau perthynol iddynt:—Bwlch Oerddrws—Lletty Lladron—Moel Caerynwch, neu Foel Esgidion—Gwanas, ac Ysbytty Gwanas—Gweddillion hen garnedd—Tir Stent—Carnedd Sais—Y Ddewisbren a Thyddyn y Gareg—Llyn y Gadair Goch—Y Bryn Mawr—Ffridd Ucha'r Gilfachwydd—Cae Careg y Big—Craig y Castell—Rhos Ty'n Llidiart—Llyn yr Hwylfa—Pared y Gefnir—Capel Elis ... 67—96

FFYNONAU.

Ffynon Fair—Ffynon Rydd—Ffynon Lygaid—Ffynon y Ffridd Arw—a Ffynon y Gro ... ... ... ... 97—100

Digitized by Google

Y Rhyfel Cartrefol ... ... ... ... ... 101

ACHAU.

Dolserau—Y Llwyn—Bryngwin... ... ... ... 103—113
Y Gweoedd ... ... ... ... ... ... 114—128
Y Crynwyr, neu y Cyfeillion ... ... ... ... 129—182

PERSONAU.

Gruffydd ab Adda, ab Dafydd—Lewis Ywain, y barwn—Gruffydd Nanau, a'i gweryl a hil y barwn crybwylledig—John Thomas—Coch Mawr y Fedw—Henry Owen—Robert Gruffydd—Dafydd Elis—Richard Elis—Rowland Rowlands (Ionoron)—Gruffydd James (Gutyn ab Iago)—Evan Jones (Ieuan Gwynedd)—Owen Roberts (Owain Aran)—Robert Lewis—Thomas Jones—a Robert Oliver Rees ... ... ... 182—235
Yr Elusenau ... ... ... ... ... ... 236—243

PLWYF LLANFIHANGEL Y PENNANT.

Tarddiad enw'r plwyf—Ffynon Mihangel—Olion Eglwys Mihangel draddodiadol—Y Llan Fihangel bresenol ... ... 244

LLEOEDD, &C.

Y Garnedd Lwyd—Am enw Pont Ystumaner—Gwaith Deu-wr Duon—Caffaeliad Cistfeini yn Abergynolwyn, ac am darddiad enw Abergynolwyn—Hendref Wallog—Bryn yr Eglwys—Llwybr Cadfan — Pistyll Cadfan, ac Eisteddfa Cadfan—Beddau'r Gwroniaid ... ... ... ... 246—262

HEN GAERAU, &C.

Castell y Bera, a'i Freintlen—Castell tua phen Coed Dysefin—Craig y 'Deryn a'i chaerfa henafol ... ... ... 263—274
Meini Hirion ... ... ... ... ... ... 275—277
Achau'r Yweniaid o Gaerberllan ... ... ... 278—280

PERSONAU.

William Hugh, Llechwedd—Edward Puw, ei haner brawd—Lewis Jones, Bala—a Dr. William Owen Pughe (Idrison) 280—289
Yr Elusenau ... ... ... ... ... ... 289

PLWYF LLANEGRYN.

Man grybwyllion—Yr Eglwys a r Degwm ... ... ... 291—293

LLEOEDD.

Talybont—Y Domen Ddreiniog—Hen adeilad—A Ffynon y Fron ... ... ... ... ... ... ... 294—311

CARNEDDAU.

Carnedd oddiar y Goleuwern—Carnedd ger Pont y Cwm Llwyd—Carneddau ar ben yr Allt Lwyd.

Digitized by Google

ACHAU.

Peniarth—Peniarth Uchaf—Peniarth Ganol—Y Waun Fach —Y Pant—A Chyfanedd Fawr ... ... ... ... 316—327

PERSONAU.

Huw Ywain, o Fronclydwr—Y Parch. Edward Anwyl—Ellen Evans (Ellen Egryn)—a W. W. E. Wynne, Ysw., o Beniarth ... ... ... ... ... ... 327—338

## PLWYF LLAN GELYNIN.

Am Celynin, neu Clynin—Llangelynin, a Chapeli Arthog a Rhoslefain—Llanfendigaid, a'r Eglwys Goel—Y Capeli Ymneillduol ... ... ... ... ... ... 350—353

LLEOEDD.

Llwyngwril—Y Gaer—Llys Bradwen—Ffynon Gwern Gylfan—Ogof Owain—Bedd y Milwr—Rhos Lefain—Pen y Gromlech—a'r Ddwy Ardd Gladdu... ... ... ... 353—367

Meini Hirion ... ... ... ... ... ... 367—371

Ceryg Terfyn ... ... ... ... ... ... 371—373

Carneddau ... ... ... ... ... ... 373—375

Y Crugiau Mesuronol Trionglog, neu Gyflegrol ... ... 375—376

Achau Pantphylip ... ... ... ... ... 376—379

PERSONAU.

John Williams (Ioan Rhagfyr)—Lewis Morris—Richard Jones, Tydu—John Vaughan, Ysw.—Y Parch. Evan Evans—John Pugh (Ieuan Awst)—John Evans, B.A.—Y Meddygon—a Mari Thomas ... ... ... ... ... ... 380—411

Yr elusenau ... ... ... ... ... ... 411—415

## PLWYF TAL Y LLYN.

Am enw'r plwyf—Coll tiriogaeth plwyf Llanwrin oddiwrth gwmwd Ystumaner ... ... ... ... ... 416—417

YR EGLWYSYDD.

Eglwys Tal y Llyn, neu Llanfair Bryn Muallt—Eglwys Corus, ei degwm, a cheryg terfynau ei rhanbarth ... ... 418—419

Y LLYNAU, &C.

Llyn Tal y Llyn—Llyn Cau—Llyn Bach, neu Llyn Tri Graienyn ... .. ... ... ... ... 420—422

Ffynon y Cwm ... ... ... ... ... ... 422

CARNEDDAU A BEDDAU.

Carnedd yn Llyn Tal y Llyn—Carnedd ar fynydd Llwydiarth Bach—Gweddillion Cistfaen yn Nghwmsoeglyd—Bedd Rhyfelwr—Beddau yn Llwyn Dol Ithel—Beddau eraill ... 423—428

Hafottai ... ... ... ... ... ... 428—429

Digitized by Google

Traddodiadau ... ... ... ... ... ... 429—431
Achau ... ... ... ... ... ... 431—435
Aber Llwyfeni. Aber Corus, ac Aber Cwm Eiddaw ... 435—441

PERSONAU.

Ywain o Gymru, neu *Ivain de Galles*—Vaughan Jones neu Fychan y Gwyndyll (Gwyngyll) a'i Gywydd Canmoliaeth i Dal y Llyn—John Athelystan Owen (Bardd Meirion)—Syr Owen ab Gwilym—Huw Puw o Riwogo—Dafydd Hymphre, Aber Corus ... ... ... ... ... ... 442—483
Yr Elusenau ... ... ... ... ... ... 484—485

## PLWYF PENAL.

Safle y plwyf mewn cysylltiad a gwahanol raniadau tirol—Ystyr yr enw Penal a Dannwc a Samarws ... ... ... 486—490
Llythyr Ywain Glyndwr, dyddiedig o Benal ... ... 490—491

ADEILADAU.

Yr Eglwys, a'r Capelau Ymneillduol ... ... ... 491—492

LLEOEDD A HELYNTION.

Cefn Caer, a'r ffordd tan ddaearol—Traddodiad am ferch Cefn Caer a'i chariad—Bwlch Pawl—Brwydr yn y Maes yn Mhenal, ac ymladdfa dau fywyd rhwng Dafydd Gough (Goch) a Thomas ab Gruffydd, a hanesion ynghylch yr olaf a rhai o'i deulu—Y ddwy Domen Las—Helynt mewn cysylltiad a'r Rhyfel Cartrefol tua Phont ar Ddyfi—Lladdiad Siencyn Fychan, o Faeswerngoch, a chosbedigaeth yr un a'i lladdodd —Siambr Wmphra—Lleucu Llwyd o Benal ... ... 493—521

ACHAU.

Pantlludw a Thalgarth... ... ... ... ... 521—524
Yr Elusenau ... ... ... ... ... ... 524

## PLWYF TYWYN.

Am ystyr enw y plwyf—Tywyn yn cael ei ddwyn i sylw mewn cysylltiad â chyfnod lled foreu—Yr Archesgob Baldwyn a Giraldus Cambrensis ... ... ... ... ... 525—526

YR EGLWYSYDD.

Eglwys Tywyn, neu Lan Gadfan, ac Eglwys Aberdyfi—Eglwysi'r Gwyddelod ... ... ... ... .. 527—531
Careg Cadfan ... ... ... ... ... ... 531—541

HEN AMDDIFFYNFEYDD

Bryn y castell, neu Gastell Cynfal—Y Cefn Coch... ... 542—545

CARNEDDAU, BEDDAU, CISTFEINI, &C.

Carnedd ar fynydd Ysgairgyfela—Carneddau eraill—

Digitized by Google

Carneddau ar ben mynydd Cwmffernol—Bryn y Beddau—Bedd ger Dolaugwyn—Bryn y Cistiau—Llain y Bedd—Safle Cromlech, a hen weddillion Rhufeinig ... ... ... 546—550

MEINI HIRION.

Y Groesfaen, &c., a'r traddodiad am y wiber ... ... 550—551
Tomen Cilparc, &c. ... ... ... ... ... 551—552
Ffynon Dywyn... ... ... ... ... ... 552

ACHAU, HELYNTION, &C.

Y Ddol Goch—Ynys Maengwyn—Gwyddgwian—Y gyfraith ynghylch Cilcemes—Am ystyr enwau Erwporthor a Chaethle 553—562

PERSONAU.

Harri Jones, neu Harri Shon, o Nant y Mynach, &c.—Owen William—Parch. Owen William—Dafydd Richard (Dafydd Ionawr)—a'r Parch. Henry Vaughan ... ... ... 563—573
Enwau rhai personau penodedig i dalu Arian Porth yn amser Charles I. ... ... ... .. ... ... 573—577
Yr Elusenau ... ... ... ... ... ... 577—584
Dysychiad Morfeydd Glanau Afon Dysyni ... ... 584—586
Achau'r Awdwr, gan Mr. John Jones (Myrddin Fardd) ... 586—587
Ffyrdd Rhufeinig ... ... ... ... ... 588—591
Cantref Gwaelod ... ... ... ... ... 592—601
Cadair Idris ... ... ... ... ... ... 602—604

# MEIRIONYDD.

GAN mai yn Swydd Feirionydd y gorwedd y rhanbarth sydd yn dwyn cysylltiad arbenig â'r llyfr hwn, nid anmhriodol cyfleu yn ei ddechreu y sylwadau cyffredinol a ganlyn am y swydd a'r diriogaeth y cafodd ei henw oddiwrthi, sef Meirionydd, neu Gantref Meirionydd.

Nid unfarn pawb am y rheswm y gelwir y fan yn Feirionydd. Dywed rhai i'r enw darddu oddiwrth Merfyn Frych, tad Rhodri Mawr. Ond pa faint bynag o debygolrwydd a ganfyddwyd yn yr enwau, y mae yn rhaid ystumio llawer ar Merfyn cyn gwneyd Meirionydd o hono.

Dywed eraill mai oddiwrth Meirion ab Tybiawn, ab Cynedda Wledig, y tarddodd yr enw. Ond yn Ngwehelyth Iestyn ab Gwrgan, yn Ysgrifau Iolo, mynegir y gelwid y fan yn Feirionydd oddiwrth Meirion ab Dingad, ac iddo fod yn "arlwydd" yno cyn myned yn frenin. Ymddengys mai rhwng y ddau hyn y mae'r dorch am darddiad yr enw oddiwrthynt. Ac os nad oddiwrth y blaenaf o'r ddau y cafodd yr enw i ddechreu, yna, feallai i bwysigrwydd yr helynt rhyfelawg y cyfeirir ato gan hanesyddiaeth neu draddodiad, fel wedi cymeryd lle yn erbyn y Gwyddyl yn ei amser, achlysuro priodoliad tarddiad yr enw oddiwrtho, a dodi y llall heibio i gryn fesur yn yr achos hwn. Pa fodd bynag, dywed Achau a Gwelygorddau Saint Ynys Prydain ddarfod i Cynedda Wledig ddanfon ei feibion i Wynedd yn erbyn y Gwyddyl a ddaethant gyda Serigi Wyddel i Fon, a manau eraill, ac i'r meibion hyn fyned "ym mlaen y Cymry," a gyru'r "Gwyddyl o'r wlad," gan eu lladd "a dodi'n Gaethion y rhai a rodded iddynt eu heneidiau," ac ddarfod i wyr Gwynedd roddi meddiant iddynt o'r tiroedd a enillasant. Ac y mae yr un awdurdod yn ychwanegu trwy ddywedyd:—"Tybiawn ap Cynedda Wledic a ddynnillwys y Cantref gan yrru'r Gwyddyl ar ffo, ag yn y frwydr honno efe a las, a Goreugwyr y Wlad a roddasant Oresgynnaeth a'r Bendefigaeth ar Feiriawn ei fab, ag o'i enw ef y gelwir y wlad honno Meirionydd, ai alw yntau Meirion Meirionydd."* Feallai nad ydys

* Iolo MSS. tud 122.



Digitized by Google

i gymeryd yn llythyrenol bod a fynai Tybiawn fwy ag enilliad Meirionydd fel penaeth milwrol nag un o'i frodyr eraill, er rhoddiad yr "Oresgynnaeth a'r Bendefigaeth" i Feirion ei fab. Pa fodd bynag, dywed y Proffeswr Rees* iddo farw yn Ynys Manaw, ond feallai mai mewn rhanbarth o'r enw Manaw, yn yr Alban, y cymerodd hyny le,—"in regione que vocatur Manau Guodotin," medd yr Achau Cymreig cysylltiedig a Nennius.†

Yr ydys eisoes wedi crybwyll y mynegir yn Ngwehelyth Iestyn ab Gwrgan mai oddiwrth Meirion ab Dingad y cafodd Meirionydd ei henw. Ac ymddengys mai hwn yw yr unig awdurdod sydd yn dal hyny allan. Ond nid ydyw hyn yn penderfynol gollfarnu y mynegiad. Er hyny y mae pwys yr hanesion yn wahanol. Eithr i ddyfynu y mynegiad crybwylledig, "Meirion ab Dingad, ei ewyrth, a fu frenin ar ei ol ef ag o'i enw ef y gelwid Meirionydd, lle bu ef yn Arlwydd cyn bod yn frenin."‡

Nid eir yma i ymyraeth am pa un a fu rhyw giwdod o bobl yn trigianu yn Ngwynedd yn flaenorol i'r Celtiaid ai ni fu. Ac ni cheisir honi na ddichon fod ciwdod Wyddelig wedi ei meddianu cyn dyfodiad y Cymry i'w phreswylio. Nac ychwaith i ddal nad oedd llu mawr o'r Gwyddyl yn parhau i aros ynddi ar ymadawiad y Rhufeiniaid. Ond ceir nodi y dengys yr hanesion traddodiadol yn Ysgrifau Iolo, i'r Gwyddyl a'r Llychlyniaid ymgyrchu i'r diriogaeth fel goresgynwyr, ac iddynt gael eu llwyr orchfygu gan feibion Cynedda Wledig a'i wyrion. Ac o barth amseriad y gorchfygiad hwn gan ei feibion, ymddengys iddo gymeryd lle rywdro yn y bumed ganrif. Ac feallai mai yn yr unrhyw eu gorchfygwyd hefyd gan ei wyrion, Caswallon Law Hir, ac eraill o honynt. Eithr os mai yn y ganrif hon y cafodd y rhai olaf y maes arnynt, tebygol na fu hyny cyn yr haner olaf o honi. Canys, yn ol Skene, yr oedd Maelgwn Gwynedd, mab Caswallon Law Hir, yn wr mewn oed pan oedd Gildas yn ysgrifenu yn y flwyddyn 560; wedi unwaith ymneillduo yn fynach oddiwrth helyntion rhyfel, a thrachefn ymafaelyd megis yn y bicell a'r cledd. Gesyd yr Annales Cambriæ farwolaeth Maelgwn yn y flwyddyn 547, amseriad sydd yn ymddangos y rhaid ei fod yn rhy foreu os mai ato ef y cyfeiria Gildas fel y golyga amryw haneswyr, a hyny yn gywir gellir meddwl. Y mae y flwyddyn 586 hefyd ymhlith eraill yn cael ei nodi fel yr un y bu farw Maelgwn Gwynedd. Ystyria Stephens, Merthyr, y flwyddyn 517 fel yr un oddeutu yr hon y cafodd Caswallon Law Hir y llaw uchaf

* **Rees Welsh Saints.** † **Four Ancient Books of Wales, Skene, Cyf. i. tud. 82.**

† **Iolo MSS. tud. 6.**

‡ **Iolo MSS.**

Digitized by Google

ar y Gwyddyl. A gesyd y Proffeswr Rees mai yr amseriad ellir roddi i'r gorchfygiad gan feibion Cynedda Wledig gymeryd lle ydyw rhwng y blynyddoedd 420 a 430. Dywed Nennius ddyfod Cynedda Wledig a'i feibion i'r Deheudir, ac i Wynedd hefyd y mae yn ymddangos, 146 o flynyddoedd cyn dechreu o Faelgwn—Maelgwn Gwynedd, deyrnasu. Ac os cywir hyn, ac iddo ddechreu teyrnasu tua'r flwyddyn 517, a bod gan Nennius gyfeiriad at Wynedd yn ogystal ag at y Deheudir, yna dygir yr amseriad yn ol i'r 4edd ganrif, ymha un, o'r flwyddyn 328 i'r flwyddyn 389, y gesyd Dr. W. O. Pughe ddyfododiad Cynedda Wledig. Ond prin y gellir ystyried bod cynifer a 146 o flynyddoedd rhwng dyfodiad y penaeth hwn gyda'i feibion i'r ymgyrch, ag adeg dechreuad teyrnasiad ei orwyr Maelgwn Gwynedd, bydded hyny y pryd y bo. Tybia Syr John Price, neu Humphrey Llwyd, neu bob un o'r ddau, ddarfod i Cynedda anfon ei feibion i'r ymgyrch tua'r flwyddyn 540. Eithr ymddengys fod yr amseriad a ddyry Dr. Pughe yn rhy foreu, a bod yr un nodwyd olaf yn rhy ddiweddar. A thebygol nad ellir yn ddiogel ei dynu o'r bumed ganrif. O dan y penawd "Serigi," yn y Man-Gofion yn Ysgrifau Iolo, gosodir allan mai ar ol ymadawiad y Rhufeiniaid y daeth meibion Cynedda Wledig i Wynedd. A chymerodd prif ymadawiad y rhai hyn le yn neu tua'r flwyddyn 409, ac ymadawodd y llu olaf o'r cynorthwyon a anfonasant yma ymhen oddeutu 24 o flynyddoedd gwedi, neu yn ol Carnhuanawc,* ymadawodd y diweddaf o'r byddinoedd Rhufeinig â'r ynys hon o gylch y flwyddyn 446.

Y mae y nifer 129 o flynyddoedd fel hyd amser gormesiad y Gwyddyl yn Ngwynedd wedi cymeryd gafael cryf yn hanesion y Man-Gofion, yn Ysgrifau Iolo. Ac er nad ellir penderfynu yn fanwl at ba ddigwyddiad penodol yn hanes y gormesiad honedig hwn y cyrhaeddant, eto ymddengys yr ymestynant hyd y frwydr y cwympodd Serigi Wyddel ynddi.

Y mae y Man-Gofion hyn yn dra phwysig, yn gymaint ag y dangosant ryw gipdrem o'r helyntion gwaedlyd a fu gynt yn Nghymru rhwng y Cymry a'r Gwyddyl. Ond rhaid addef fod ynddynt groesddywediadau dybryd, fel ag y mae yn ofynol bod yn ochelgar gyda hwy. A thebygol y dylid edrych arnynt yn fwy fel dangoseg ddarfod i ymladdau gwaedlyd gymeryd lle rhyngddynt nag fel hanesion manwl o'r hyn a fynegant mewn cysylltiad â hwy. Er hyny, ymddengys y ceir ynddynt grybwyllion gwirioneddol. Y mae digon o brofion i'w cael mewn enwau hen olion, neu fanau yn Ngwynedd, i'r Gwyddelod fod yma yn aros dros ryw hyd o amser. Ond nid yw hyn

---

* **Hanes Cymru, Carnhuanawc, t., 150.**

Digitized by Google

ynddo ei hun yn profi cywirdeb y Man-Gofion, neu hanesion traddodiadol o dan benau eraill yn Ysgrifau Iolo a gyfeiriant at y Gwyddelod, nac ychwaith yn dangos pa un ai fel goresgynwyr ai fel cyn-breswylwyr y buont. Eto, gan y ceir yn y Man-Gofion y fath enwau personol a Dar, neu Dar ap Daronwy, Daronwy, Gwydion, Brynach, Meirion, a Machno, ynghyd âg enw lleol o'r fath a Dinas Ffaraon, mewn cysylltiad a phreswyliad y Gwyddelod a'r Llychlyniaid yma, a bod y fath enwau ar leoedd yn y Dalaeth â Chantref Meirionydd, ar yr hen Gantref sydd rhwng afon Maw, neu afon Fawddach, a'r afon Ddyfi, Moel Dar, yn nghymydogaeth Abergynolwyn; Pen Machno, yn Sir Gaernarfon; Brynach, a Daronwy, gerllaw Llanfachraith, yn Mon; Gwydion gerllaw Llanerchymedd; a Dinas Ffaraon gerllaw Moelfro, yn yr unrhyw ynys, y mae hyn yn cyd-daraw yn rymus ymhlaid eu cywirdeb. Heblaw a nodwyd ceir hefyd yn awr yn mhlwyf Tywyn, Meirionydd, gymaint a thri o olion neu weddillion yn dwyn bob un ar wahan yr enw Eglwys y Gwyddelod, a hen gorlan defaid yn yr un plwyf yn cael ei hadnabod fel yr Eglwys Wyddelig, yr hyn sydd yn awgrymu yn gryf i'r Gwyddelod fod yma ar ol i Gristionogaeth gymeryd cryn afael yn y rhan yma o'r wlad. A chan y dywed y Man-Gofion mai Brynach Wyddel, sef yr un ag Eurnach Hen, a gyfododd eglwysydd gyntaf yn Ngwynedd, y mae y pethau hyn ynghyd yn gyfryw ategion ymhlaid cywirdeb eu honiad o barth y buont yma fel ymosodwyr, bydded eu hawl wreiddiol y peth y bo, fel ag y mae yn rhy anhawdd eu gwrthdroi trwy unrhyw ddyfaliadau gwrthwynebol.

Dywedir o dan y penawd "Don Brenin Llychlyn," i Don Brenin Llychlyn a Dulyn, yn y flwyddyn 267 o'r cyfrif presenol, ddwyn y Gwyddelod i Wynedd. Ac wedi "gwladychu o'r Gwyddelod a'r Llychlyniaid yng Ngwynedd" 129 o flynyddoedd, ddyfod o feibion Cynedda yno o'r Gogledd, a threchu y "Gwyddyl a'u cilyddion." Ac ddarfod i Caswallon Law Hir a'i gledd ei hun ladd "Syrigi Wyddel ab Mwrchan, ap Eurnach hen ap Eilo ap Rhechgyr ap Cathbalug, ap Cathal, ap Machno, ap Einion, ap Celert, ap Math, ap Mathonwy ap Trathol ap Gwydion ap Dôn Brenin Mon ag Arfon a'r Cantref a Dulyn a llychlyn, a ddaeth i Ynys Fôn ganmlynedd a nawmlynedd ar hugain cyn dyfod Crist ynghnawd." A mynegir yn mhellach, "Eurnach Hên a fu yn ymladd Gledd yng Nghledd ag Owain Vinddu ap Macsen Wledig yn Ninas Ffaraon, ag efe a laddodd Owain, Owain a laddodd ynteu."

Diameu fod yr amseriad o 129 o flynyddoedd cyn geni ein Ceidwad, hyd yn nod yn foreuach na'r dull o gyfrif y dylai fod ynddo,—y presenol. Ac ymddengys fod yr amseriad a roddir o ddyfodiad Don

Digitized by Google

i Wynedd yn y flwyddyn 267, o'r cyfrif presenol, lawer yn rhy foreu. Canys o dan y penawd "Taliesin" yn y Man-Gofion, dywedir ddarfod i "Taliesin Ben Beirdd" gael ei wahodd "i gyfoeth Gwyddnyw ap Gwydion yn arlechwedd arfon a chael braint yno ar Dir a daear, ag yno ymansoddi hyd yn amser Maelgwn Gwynedd, llam y dygwyd hynny oddiarno. ag yno y canes Taliesin ei felldith ar Faelgwn ac ar yr oll a feddai." Tebygol mai wyr i Don oedd y Gwyddnyw ab Gwydion hwn, ac os cywir y syniad yna rhaid bod yr amseriad crybwylledig yn rhy foreu.

Dengys yr achau o dan yr unrhyw benawd mai gorwyr i Gwydion ab Don oedd Math ab Mathonwy. Eithr ymddengys nad yw hyny gywir, oblegid dywed y Trioedd* Math ab Mathonwy i ddysgu "Hut" i Wydion ab Don. Ac yn un o'r Mabinogion† gosodir Gwydion ab Don yn frawd i Gilfaethwy ab Don, nai i Math ab Mathonwy.

Ceir yn y Man-Gofion, o dan y penawd "Tair Gormes Gwyddyl," y mynegiad dilynol:—"Trydydd oedd Don (a Daronwy medd eraill) Brenin Llychlyn a ddaeth hyd yng Ngwerddon ag ynnill Gwlad yno, a chwedi hynny efe a ddug hyd yn Ngwynedd drigain mil o'r Gwyddyl a'r Llychlynwys, ag yno gwarseddu hyd ymhen can mlynedd a naw ar hugain." Llawn mwy cydunol â'r Man-Gofion ydyw mai Don a wnaeth hyn.

Yr un yw Eurnach Hen ag a elwir yn y Man-Gofion o dan y penawd "Gwynedd" yn Urnach Wyddel, ac o dan benawd arall yn Brynach Wyddyl, neu fel ag y mae geiriad y penawd ei hun, Brynach Wyddel. O dan y penawd hwn nodir ei fod yn byw yn oes Macsen Wledig, yr hwn a gollodd ei fywyd yn y flwyddyn 388. Ac os golygir hefyd i Owain Vinddu ac yntau gwympo yn oes yr un gwr, yn eu hymladdfa angeuol yn erbyn eu gilydd, yn enwedig os mai mab iddo oedd Serigi Wyddel, yn ol fel y mynegir o dan y penawd "Gwynedd" yn y Man-Gofion, ymddengys na chymerodd hyny le mor foreu. Ac os mai wyr iddo ydoedd, fel y dangosir o dan benawd arall, yr hyn hefyd sydd fwyaf tebygol, nid yw hyny yn ddigon o brawf iddynt ladd eu gilydd yn amser y gwr hwnw. Cyfeirir, fel yr ymddengys, o dan y penawd Brynach Wyddel, at Feirionydd, neu y rhanbarth a'i ffurfia, wrth yr enw Cantref yn unig, lle y dywedir ddarfod i'r ddau hyn ymladd am "Bendefigaeth Gwynedd nid amgen na Maw a Manaw a Mon ag Arfon, A'r Cantref, ar naill a laddes y Llall, ac yn Ninas Ffaraon y bu hynny, a'r gwaed ar y main hyd yr awr honn."

---

* Myf. Arch. ail arg. t. 397.

† The Mabinogion Cyf. iii. t. 189—193.

O dan y penawd "Don Brenin Llychlyn," fel y dengys y dyfyniad a roddwyd eisoes, gesyd yr achlin bod Gwydion ab Don yn un o hynafiaid Eurnach Hen. Ond o dan y penawd "Gwynedd" fe'i gosodir yn ddisgynydd o'r un Eurnach, neu, fel ei gelwir yno, Urnach Wyddel, yn y modd hwn:—"Gwdion Wyddel, ap Don, ap Dar ap Daronwy, ap ap Urnach Wyddel o Ddinas Ffaraon a las gan Owain Vinddu ap Maxen Wledig, a'r Urnach hwnnw a ddug Ugain Mil o'r Gwyddelod i Wynedd o'r Werddon lle tiriasant ag a fuant yno ganmlynedd a naw ar hugain." Gwelir nad ydyw y ddwy achlin hyn yn cytuno, yr hyn a brawf nad yw un o honynt yn gywir, ac ymddengys nad oes yr un o honynt felly ychwaith. Dywedir dan yr unrhyw benawd, wedi adrodd am laddiad Serigi Wyddel gan Caswallon Law Hir, y cafwyd "ar lawr y Difalldrain" fab bychan o frawd i Serigi, sef "Daronwy ap Urnach Wyddel o Ddinas Ffaraon," ac ddarfod i bendefig urddasol o fewndosturio wrtho "rhag ei deced ai ymddifatted," a'i fagu "mal yn un o'i blant ei hunan." Ac ddarfod i'r Daronwy hwn a faged yn Mon, fod wedi hyny yn un o dair gormes yr ynys hono, gan iddo "adymluyddu a'r Gwyddyl," "a dwyn y bendefigaeth o iar ai dylai o Gymro." O barth amseriad Daronwy, gellir dweyd mai os oedd mewn gwirionedd yn frawd i Serigi, a'i fod o oedran mor ieuanc pan gwympodd Serigi, y rhaid ei osod rywbryd rhwng lladdiad Serigi a dyfodiad Maelgwn Gwynedd i afael a llywodraethiad Gwynedd. Sylwa y Proff. John Rhys* mai llygriad o ryw enw tebyg i Sitrig ydyw Serigi, wedi ei gymeryd allan yn fwngleraidd o gyd-destyn Lladin, ac mai tywysog o'r enw Cadwallon o'r 10fed ganrif oedd Caswallon, ac nid tad Maelgwn. Ond nis gellir dymchwelyd hanesyddiaeth y Man-Gofion o barth Syrigi neu Serigi trwy ddyfaliad o'r fath.

Yn y crybwyllion Cof Cyfarwyddyd, yn Ysgrifau Iolo, dywedir mai o dwyll y cafodd Gwydion ab Don "fraint Coron a Phendefigaeth Ar Fon ac Arfon a'r Cwmmwd y Gan amherawdr Rhufain am yrru Cenedl y Cymry o'u Tiroedd a rhoi rhoi y tiroedd hynny ir Gwyddelod a Gwir Llychlyn." Wrth y "Cwmmwd" yn y fan hon golygir Meirionydd, fel yr ymddengys, neu ynte y rhanbarth lle y saif. Ond pa faint bynag o nawddogaeth a ddichon i'r ciwdodau hyn gael gan ymerawdwyr Rhufain, nid o dan nawdd yr un o honynt y cafodd Gwydion afael ar y gwledydd hyn.

Y mae yn ymddangos mai yn y cyfwng rhwng lladdiad Serigi Wyddel a meddianiad y llywodraeth ar Wynedd gan Maelgwn Gwynedd yr ydys i osod amseriad rhwysg Don, a Gwydion ei fab, yn y rhan yma o'r wlad. Canys o dan y penawd "Maelgwn Hir" yn

* Celtic Britain tud. 243.

Digitized by Google

y Man-Gofion, ceir bod y ddau yn oesi yn amser Maelgwn Hir, bardd Sant Teilo. Ac ystyrir, yn ol y Gwyddoniadur, bod y sant hwn yn byw yn y chweched ganrif. Heblaw hyn y mae grym y sylw a wnaed eisoes mewn cysylltiad â "Gwyddnyw ap Gwydion" yn ategiad cryf i gywirdeb yr amseriad hwn. Crybwyllwyd yn barod y gosodir allan, o dan y penawd "Serigi," mai ar ol mynediad y Rhufeiniaid o ynys Prydain y daeth meibion Cynedda i Wynedd. Ac y mae yr un awdurdod yn dywedyd ddarfod i Serigi, sef Serigi neu Syrigi Wyddel, gymeryd "arnaw unbennaeth Môn a Gwynedd ar Cantref."* A bod cymaint gormes y Gwyddelod nes y danfonwyd cenhadau at Cynedda Wledig ac iddo yntau anfon ei feibion i Wynedd. Penaeth oedd Cynedda Wledig o ogledd Lloegr, neu ddeheubarth yr Alban, ond hawliai amryw ardaloedd yn Nghymru oddiwrth Gwawl, ei fam, ferch Coel Godhebawg. Wrth y Cantref yn y dyfyniad hwn yr ydys newydd roddi y golygir Meirionydd hynafol, neu y fan a'i cynwysa fel yr ymddengys. Ceir cyfeiriad hefyd tebygol at yr unrhyw fan wrth yr enw "Cwmmwd" yn y dyfyniad dilynol, allan o Cof Cyfarwyddyd yn Ysgrifau Iolo:—"307, Bu haint mawr achos Celaneddau ymladdau a bu farw anferthrif yn wir a gweision a merched a Gwragedd cyflawnoed gwr a gwraig a mwy na hanner plant Ynys Prydain, achos hynny y bu Gormes y Gwyddyl Ffichti yn y Gogledd a'r Gwyddyl gaflachawg a'r Llychlynwys ym Môn ag Arfon a'r Cwmmwd."

O barth yr amseriad dyfynedig mewn cysylltiad â'r cof hanesyn uchod nid gwiw rhoddi pwys arno. Wrth y "Gogledd" y golygir, fel yr ymddengys, yr Alban, neu yn hytrach ran o honi, ynghyd â chyffinydd Lloegr. Yn y Trioedd, gosodir yn ail, o'r "Tair Ciwdawd Ormes" y mynega iddynt ddyfod i ynys Prydain a myned o honi; "Lluoedd Ganfal Wyddel a ddaethant i Wynedd, ac a fuant yno nawmlynedd a'r hugain, hyd yn a'u gyrrwyd hwynt i'r Môr y gan Gaswallawn ab Beli ab Mynogan." Trioedd arall a esyd yn gyntaf o dair "Haint Echrys ynys Prydain:" "Haint o Gelanedd y Gwyddyl a laddwyd ym Manuba gwedi gormesu ohonynt ugain mlynedd a naw a'r wlad Wynedd."

---

* Gwelir y gosodir yn y dyfyniad uchod, Fôn a'r Cantref y tuallan i Wynedd.

† O barth Meirionydd a lleoedd eraill yn Nghymru ag y dywedir eu galwyd ar enwau meibion Cynedda Wledig, sylwa Mr. Breese, yn ei Kalenders of Gwynedd, t. 9, mai tebycach ydyw "megis y dyfalwyd gan ysgolaig Cymreig diweddar," y ceir felly nid enwau personau, eithr enwau llwythau bychain o'r un cyff-genedl a ddaethant i lawr yn raddol o Ogledd Prydain, gan yru y Gaeliaid o'u preswylfeydd yn Ngwynedd. Wrth yr ysgolhaig Cymreig uchod, golygir W. Basil Jones awdwr y *Vestiges of the Gael in Gwynedd*. Ond ymddengys nad yw y dyfaliad hwn ganddo yn haeddol o'i ddilyn. Y mae yn ymddangos y tybia rhai mai coll ei wlad ei hun a wnaeth Cynedda Wledig.

Digitized by Google

Wrth "Manuba" yn y dyfyniad hwn dichon mai ynys Manaw a olygir. O leiaf, ceir rhyw debygrwydd yn yr enw hwn i "Monabia," sef y dull y gosodir yn ngwaith Cambden a John Lewis,* bod Pliny yn galw yr ynys hono. Ymddengys mai at yr un gorchfygiad mewn ystyr y cyfeirir yn y naill Drioedd fel y llall. A chan mai yr un faint yw nifer y blynyddoedd a roddir yma fel hyd amser trigianiad y lluoedd estronol hyn yn Ngwynedd, ag a osodir dros ben can' mlynedd y dyfyniadau blaenorol, nid ydyw yn rhy annhebyg mai at yr unrhyw gyfnod, mewn rhan, o leiaf, y cyfeiriant. A chan fod Caswallon yn enw ar Gadflaenor perthynol i'r hanesion neu'r traddodiadau hyn hefyd, er y rhoddir gwahanol ddisgyniad achyddol iddynt, y mae yn hytrach yn fwy o rym i synio felly. Ond os mai Caswallon ab Beli mewn gwirionedd yw un o'r ddau y cyfeirir ato, yna cymerodd y gorchfygiad ganddo le, fel yr ymddengys, yn y ganrif flaenorol i'r cyfrif presenol. Derbynia R. W. Morgan, Tregynon, y gorthrechiad hwn fel yn perthyn i Caswallon ab Beli ab Manogan, ac y mae Carnhuanawc yn ei gymeryd fel peth tebygol. Ond gogwydda W. Basil Jones i dybio mai Caswallon Law Hir ydoedd, ac mai at orchfygiad y Gwyddelod yn y rhyfel hwnw y cyfeirir mewn gwirionedd. Yr ydys yn cael yn y crybwyllion hyn enw penaeth,—Ganfal Wyddel,—na chaed sôn am dano mewn cysylltiad â rhyfel Caswallon Law Hir.

Pa un bynag a ddarfu i'r Gwyddyl ymsefydlu yn Meirionydd ar ol y chweched ganrif ai naddo, ymddengys y bu ganddynt afael ar Ardudwy, neu ryw gyfran o honi, yn yr haner olaf o'r ddegfed ganrif. Canys yn Mrut y Tywysogion, adysgrifenedig gan Iorwerth ab Iorwerth, dywedir i Rhodri ab Eidwal gael ei ladd gan Wyddelod Môn, yn y flwyddyn 966. Ac o'r herwydd i Iago ab Eidwal ddiffeithio Aberffraw, lle yr oedd y Gwyddelod yn trigianu, gan eu lladd "hwynt yn eu holl anneddfäoedd ym Môn, ac nis gallasant fyth wedi hynny ymluyddu yn erbyn y Cymry." Ar ol hyn aeth i "Arfon, a Lleyn, ac Ardudwy," gan yru'r Gwyddelod "yn gwbl" ymaith "o'r Gwledydd hynny ac nis gallwyd Cenedl o honynt fyth wedi hynny yng Ngwynedd." Ffodd llawer o honynt i Geredigion, a "Dyfed, a Gwyr, ac Einion ab Owain ab Howel Dda a aeth yn eu herbyn, ac au gorfyges yn aruthrawl, ac a laddes Wyr Denmarc a ddaethant yng Ngyfnerth y Gwyddelod."

Bellach, ceir sylwi ynghylch y gwahanol enwau wrth y rhai y

* **Cambden Britannia, Gibson, arg. 1695, t. 1052. Hist. of Gt. Britain till the death of Cad........by John Lewis....tud. 228.**

dynodir y gelynion hyn. Ymddengys bod y rhai a elwir yn Wyddelod, Scotiaid, Pictiaid, ac Attocatiaid, ynghyd â llwythau eraill, yn myned o dan yr enw Gwyddyl Ffichti. Hefyd hiliogaeth o Frytaniaid trwy ymgymysgiad, neu Frytaniaid o fodd arall; ynghyd â chyfran o Saxoniaid, unedig ar adegau o leiaf a'r Gwyddyl Ffichti. Ond ymddengys fod Gwyddelod y Werddon a'r Llychlynwyr yn cael eu galw weithiau yn Wyddyl mewn perthynas â'u helyntion yn Nghymru. Eithr dynodir hwy hefyd yn Wyddelod a Llychlynwyr, neu Wŷr Llychlyn, yn ol fel y gelwir y rhai olaf bryd arall. O barth yr enw Gwyddyl Gaflachawg, y mae yn ymddangos mai cyfeiriad sydd yn y gair Gaflachawg at eu heirf rhyfel, ac y buasai eu galw yn Wyddyl Picellawg o'r un ystyr. Ymddengys hefyd bod yr enw Gwyddyl ynddo ei hun yn gyfystyr â Gwyddelod. Dywed y Proffeswr J. Rhys nas gellir priodoli yr un ystyr gwahanol i Scotiaid Nennius nag mai Gwyddelod oeddynt.* Ond er hyn, caniatäer nodi yma, nad yw yn ymddangos bod un lle rhesymol iddo i daflu amheuaeth nad Gwynedd ydyw'r man neu un o'r manau eu gorchfygwyd gan Cynedda a'i feibion, yn unol âg yr enwir eu tad mewn cysylltiad â hwy yn neu gan Nennius.

O barth yr enw Gwyddyl Ffichti a geir ar y giwdod grybwylledig, y mae yn rhy anhawdd penderfynu o ba achos y tarddodd. Awgryma'r enw bod rhyw gysylltiad rhwng y Ffichtiaid a'r Gwyddyl. Ac os oes coel i'w roddi ar yr hanesion traddodiadol mewn perthynas iddynt, tardd oherwydd cymysgiad y ddwy genedl trwy briodasau. Ond ystyria y Proff. J. Rhys mai chwedl wedi ei dyfeisio ydyw'r traddodiad hanesyddol am y priodasau, oherwydd dieithrwch y dull o beri i olyniaeth ddisgynol eu brenhinoedd ddisgyn o'r fam ac nid o'r tad. Ac ymresyma fod y ddefod o osod y llywodraeth yn nwylaw disgynyddion llinellol o'r fam ac nid o'r tad yn dangos mai tebycach ydyw fod y cyfryw i'w phriodoli i breswylwyr cyntefig an-Ngheltaidd yr ynys hon.† Y Trioedd a ddywed ddyfod o'r "Gwyddyl Ffichti" i'r Alban drwy Fôr Llychlyn. Ac os ydys i ddeall eu bod yn dwyn y cyfryw enw cyn eu dyfodiad hônedig i'r Werddon trwy Fôr Llychlyn, prin y gellir ystyried hyn yn cydfyned â'r traddodiad. Ond i gyfeirio ato, dywed y Brut, a elwir Brut G. ab Arthur,‡ yr un mewn ystyr a Brut y Brenhinoedd, ddyfod "Rodryc brenyn y Ffychtyeyt," a "llyghes vawr kanthaw o Scythya," gan ddisgyn yn ngogledd yr ynys yn "y lle a elwyr yr Alban." Mynega hefyd fyned o'r brenin Meurig a llu yn ei erbyn, a'i ladd, a chael y fuddugoliaeth. Ac wedi rhoddi

* Celtic Britain, t. 243
† Celtic Britain, t. 166, 7.
‡ Myf. Arch., ail arg., tud. 504, 5.

o hono ran o'r Alban i'r gweddill gorchfygedig i breswylio ynddi, ddarfod i'r rhai hyny "erchy" i'r Brytaniaid roddi "eu merchet ac eu kareseu" yn wragedd iddynt, yn yr hyn eu gwrthodasant. "Ac wrth hynny yd aethant wynteu" i'r "Werddon at y Gwyddyl," a chymerasant "eu merchet ac eu kareseu yn wraged udunt, ac or rey hynny yd hylyasant eu kenedyl gwedy hynny. Ac ar hynny y peydywn ar kenedyl honno. kanys ny bu darpar kennym ny traethu oc eu hystorya wynt nac or Yscotyeyt yr rey a dechrewys y kenedyl or Gwyddyl Ffychty ac or Gwyddyl yawn." Gellir nodi hefyd y dywed yr un Brut fyned o Suliên, tywysog ar lu o Frytaniaid, i Scythia i ymofyn am Ffichtiaid i'w gynorthwyo yn erbyn y Rhufeiniaid, ac iddo lwyddo yn ei gais. Ond y mae y crybwylliad hwn wedi ei groniclo ymhellach ymlaen ar yr hanes na'r cyfeiriad at y brenin Meurig, yr hwn y mae yn debygol oedd wriogaethol i wŷr Rhufain.

Edrydd Beda, oddiar draddodiad llafaredig neu ysgrifenedig, i genedl y Pictiaid o Scythia, ar ol myned i'r môr mewn ychydig o longau hirion, gael eu gyru o flaen y gwynt hyd at lanau'r Werddon.* Ac i'r trigolion, mewn atebiad i'w cais am le i drigianu yn yr ynys, ddywedyd wrthynt nas gallai eu cynal hwy a hwythau. Ond ddarfod iddynt ddywedyd y gallent roi cyngor da iddynt beth i'w wneuthur, bod ynys arall heb fod ymhell, yr hon yr arferent ei gweled yn aml ar ddyddiau goleu. Ac os elynt yno y caent le i breswylio, neu os eu gwrthwynebid y deuent hwy i'w cynorthwyo. Mynega hefyd nad oedd gan y Pictiaid wragedd, ac na roddai y Scotiaid mo'u merched yn wragedd iddynt ond yn unig ar yr amod y dewisent frenin o'r llinell fenywaidd yn hytrach nag o'r un wrywaidd pan godai rhyw ddyryswch. Yn ol Keating,† mynega Cormac Mac Cuillenan, yn ei Psallter Cashal, ar ol iddo adrodd am helynt y Pictiaid yn Thracia, ac yna yn Ffrainc, a thrachefn yn y Werddon, ddarfod iddynt ar eu hymadawiad o'r ynys hono, yn herwydd drwg a gyfododd rhyngddynt â Heremon y brenin, geisio cael rhai o'r Miliesiaidesau i fyned gyda hwynt. A thyngasant yn ddifrifol y cai llywodraeth y wlad, os deuai i'w dwylaw, dreiglo yn nheulu y rhai hyny. Yna Heremon, ar y cyfryw sicrwydd, a roddodd iddynt dair o wragedd gweddwon o nod, un o ba rai a gymerodd y prif lywydd iddo ei hun. Yn ol yr un awdurdod hefyd, cafodd y bobl hyn dderbyniad croesawgar ar y cyntaf yn y Werddon, a hyny, fel yr ymddengys, gan un a eilw yn Criomthan

*** Mynega John Lewis i'r ystyr yr hôna rhai mai i ororau Ynysoedd yr Æbudas yr aethant. Gweler Hist. of Gt. Britain........to the death of Cadwanddo, t. 58.**

**† Keating Hist. of Ireland, t. 110—21.**

Digitized by Google

Sciathhheil, llywodraethwr Leinster, o dan Heremon, er cael eu cynorthwy i ymladd â rhyw Frytaniaid niweidiol a elwid Tuatha Fiodhga, y rhai er dychrynu y milwyr Milesiaidd, a dorasant y gyd-ddeddf genedlaethol, trwy wenwyno penau eu saethau.

Ond i gyfeirio oddiwrth yr hanesion neu'r traddodiadau, gellir nodi y golyga George Chalmers,* mai yr un bobl oedd y Pictiaid a'r Celyddoniaid. Ac mai'r Celyddoniaid oedd y Brytaniaid gogleddol a ymladdasant yn erbyn Agricola wrth droed y Grampian a wyddom, meddai, "oddiwrth natur y dygwyddiadau, a thystiolaeth Tacitus: mai disgynyddion o'r Cynfrodorion Celtaidd ydoedd Brytaniaid Gogleddol y ganrif gyntaf, y rhai oeddynt yr un bobl a'r Brytaniaid Deheuol yn ystod yr amseroedd boreuaf sydd wedi ei brofi yn foddlonol fel sicrwydd moesol." Ac y mae Carnhuanawc,† er yn golygu fod yn anhawdd dweyd dim yn benderfynol am darddiad y Celyddoniaid, eto yn ystyried fod yr awdurdodau "a roddir gan Chalmers, dros darddiad Cymraeg y Celyddonwys, yn ymddangos mor gedyrn fel na ellir eu dymchwelyd, oddieithr cael allan ryw hysbysiadau nad ydynt wedi eu mynegu." Golyga Cambden,‡ fel yr ymddengys, mai yr un genedl a'r Brytaniaid oedd y Pictiaid,--hiliogaeth y Brytaniaid mwyaf hynafol, ac nid dyfodiaid mo honynt. Yr esgob Llwyd‖ a olyga mai yr un genedl oeddynt a'r Celyddoniaid, a dywed mai math mwy gerwin o Frytaniaid oedd y Pictiaid. Ac y mae Edward Llwyd yn ystyried mai hen Frythoniaid oeddynt. A Charnhuanawc a fyn mai yr un bobl oeddynt a hen drigolion yr 'Alban, ac nad oes ond "ychydig hyder yn ddyledus" i unrhyw hanes a noda allan eu dyfodiad. Golyga y Proffeswr J. Rhys,§ mai cyfran oedd rhai o honynt o drigolion ynys Prydain ag oeddynt yma cyn dyfodiad y Celtiaid, ac mai ciwdod an-Ngheltaidd wedi dyfod o'r Werddon yn y flwyddyn 360 oedd cyfran arall o honynt, ac i'r rhai olaf gael eu galw yn Scotiaid,—gair Celtaidd o'r un ystyr (neu agos felly) a'r gair Pictiaid, a olyga pobl baentiedig. Ond nid yw yn ystyried fod y naill na'r llall o'r rhai hyn yn arddel y cyfryw enwau eu hunain. Ond yma gellir sylwi y noda Edward Llwyd fod yn y Werddon ddwy genedl wahanol a chyd-drigianol, sef y Gwyddelod a'r Ysgotiaid. Y rhai cyntaf yn ddisgynyddion o Frythoniaid mwyaf hynafol Prydain, a'r lleill yn ddyfodiaid o Spaen. Ac y mae hyn yn milwrio yn erbyn

---

* **Caledonia........by George Chalmers, t. 191—2.**

† **Hanes Cymru, Carnhuanawc, tud. 98.**

‡ **Britannia........by William Cambden, translated by Phil. Holland, t. 115.**

‖ **Stillingfleet's........with Lloyd's Hist. Acc. of Church Gov., cyf. ii., t. 40—43.**

§ **Celtic Britain, t. 235—6.**

Digitized by Google

y syniad yr ydys newydd nodi am y Pictiaid mewn perthynas â'r Werddon, oblegid y gwisga wedd rhy ddiweddar.

Cyfeirir at y Celyddoniaid gan Tacitus * fel Brytaniaid, ond golyga iddynt darddu o'r Ellmyn, gan eu hystyried yn wahanol eu disgyniad i'r rhai o breswylwyr Prydain ag a dybia eu bod yr un bobl a'r Gâliaid, neu drigolion tir Gâl. Ac ymddengys eu golyga yn wahanol eu tarddiad i holl breswylwyr eraill yr ynys. Ond cymer yr Almaen mewn helaethder eangfaith, yn cynwys y cenhedloedd mwyaf gogleddol o'r Cimbriaid, Gothoniaid, a Sueoniaid; o'r rhai y dywed Stillingfleet † bod yn dra thebygol y disgynodd y Celyddoniaid. Ac ymddengys y golyga Pezron‡ i luoedd o'r Cimbriaid a'r Celtiaid, neu'r Gâliaid, ymsefydlu yn yr Almaen. Er hyny, nis gellir casglu oddiwrth a ddywed Tacitus i'r Celyddoniaid darddu oddiwrth y Celtiaid na'r Gâliaid. Dywed Stillingfleet, wrth gyfeirio at y Celyddoniaid:—"A'r rhai hyn, os nad wyf yn camgymeryd, ydoedd y Pictiaid gwreidd-iol, ond heb gael eu galw wrth yr enw hwnw hyd nes y daeth trefed-igion newyddion drosodd i boblogi'r wlad ar ol ei hangyfaneddiad dychrynllyd trwy barhad y rhyfeloedd Rhufeinig." Sylwa hefyd mai o'r Scythiaid Ewropaidd y tarddodd y Celyddoniaid, a dywed y cynwysa Scythia Ewropaidd "yr holl genhedloedd mwyaf gogleddol, 'ab Extremo Aquilone,' medd Pliny: ac mewn man arall dywed, bod y Getiaid, y Daciaid, a'r Sarmatiaid, ac hyd yn nod yr Ellmyniaid yn cael eu galw yn Scythiaid." Ac o barth y rhai mwyaf penodol o'r Scythiaid ag y gesyd ddisgyniad y Pictiaid, dywed nad ydyw dyfaliad Hector Boethius o gwbl yn annhebygol, yr hwn, meddai, sydd yn eu tynu "o'r Aythyrsiaid, h.y., oddiwrth 'breswylwyr glan mor Llych-lyn,'" neu fel yr eglura ei hun: "oddiwrth y rhai a ddaethant gyntaf allan o Sarmatia i Chersonese y Cimbriaid, ac oddiyno i'r Alban."* Ond gellir sylwi yma y dywed Pezron y byddai y Gomeriaid a bres-wylient yn Asia yn cael eu galw yn yr oesoedd boreuaf gyda chen-hedloedd eraill o dan yr enw Scythiaid. Ac wedi eu dyfod i Ewrop y byddai y Groegiaid yn eu galw yn Geltiaid Scythiaidd. Sylwa y Proff. John Rhys mai Gwyddelod oedd y Celyddoniaid. Nid oes ond ychydig o eiriau o'r Pictaeg wedi dyfod i lawr yn uniongyrchol i ni. A dywed Skene am yr iaith hon nad ydyw Gymraeg na Gaelaeg, ond mai tafodiaith Gaelig ydyw yn cyfranogi yn ehelaeth o arddulliau Cymreig.‖

---

* Tacitus Ox., trans., Bohn's Class. Lib., cyf. ii., t. 355—6.

† Stillingfleet's Antiq. of the Br. Churches, cyf. ii., t. 367—8.

‡ Antiq. of the Nations........by Monzieur Pezron. Engl. by Mr. D. Jones t. 218—20.

‖ The Four Ancient Books of Wales, gan W. F. Skene, cyf. i., t. 127, 135.

Digitized by Google

Wrth Wŷr Denmarc, yr ydys i olygu rhyw gyfran o'r ciwdodau ffyrnig a chreulawn hyny a ddeuent gynt yn aml, ac yn wahanol finteioedd ymgyrchol ac ysbeilgar i Frydain o Denmarc, a'r cyffiniau hefyd tebygol; y rhai er cymaint a ddioddefasant eu hunain yn eu hymgyrchoedd a fuont yn ffrewyll ofnadwy ar y Saeson, a gwnaethant lawer o niwed i'r Cymry. Bu iddynt ymhen amser ymsefydlu mewn rhan o Loegr, a llwyddasant i gael pedwar brenin o'r eiddynt i eistedd ar orsedd y wlad, fel llywodraethwyr ar y Saeson, yn ogystal ag arnynt hwy eu hunain. Yr olaf o ba rai ydoedd a'i fam yn dywysoges o Normandi, ac yn weddw Ethelred II., un o frenhinoedd y Saeson. Cyfeirir atynt yn Mrutiau y Tywysogion dan yr enwau Paganiaid, Paganiaid Duon, Daeniaid, Daeniaid Duon, Normaniaid Duon, Llu Du, Gwŷr Duon, Cenhedloedd Duon, "y genedl ddu," "bobyl Dulyn," a "pobloed," hefyd, y mae yn debygol.

Yr oedd y dywysoges hon o Normandi, ag yr ydys newydd gyfeirio ati, yn chwaer i Richard II., duc Normandi, disgynydd o Rollo, un o flaenoriaid byddin o'r Llu Du a oresgynasant Neustria, sef Normandi wedi hyny. Disgynydd o'r Richard hwn, a Judith ei wraig, yr hon oedd Lydawes, ydoedd William y Gorchfygwr.

---

Yr ydys yn awr yn gadael heibio yr helyntion gwaedlyd a fu rhwng y Cymry a'r Gwyddelod a'u gilydd am feddiant o Wynedd, a chysylltiad Meirionydd â hwy, ynghyd â'r sylwadau o barth y Pictiaid a'r Gwyddyl Fficti, a chiwdodau eraill;— gan fwriadu dwyn i sylw yn nesaf yr ymrafaelion a fu rhwng y Cymry â'u gilydd yn Nghantref Meirionydd, neu mewn cysylltiad â'r fan. Am lawer o ganrifoedd wedi i Faelgwn Gwynedd (o barth amseriad yr hwn y cyfeiriwyd eisoes) lwyddo i gael ei ddyrchafu yn dywysog Gwynedd, tebygol i Feirionydd yn y cyffredin berthynu mewn ystyr i'r sawl a ddigwyddai fod yn dywysog y Dalaith hono. Ond yr oedd cynwrf yr amseroedd y fath fel yr ymddengys y bu yn cael ei dal yn annibynol ar dywysog Gwynedd.

Daeth Meirionydd, a holl wledydd eraill Gwynedd, i feddiant Cadwallon, ab Ieuan, ab Idwal Foel, ab Anarawd, ab Rhodri Mawr, yn neu tua'r flwyddyn 984. Yr oedd Hywel ei frawd wedi cael ei ladd gan elynion cyhoeddus o Saeson, neu trwy dwyll ffug-bleidwyr o honynt, neu eraill a ddichon fod wedi cymeryd arnynt ymheddychu âg ef. Ac feallai iddo syrthio yn yr ymgyrch yn erbyn y Saeson hyny a bleidient Iago ei ewythr o frawd ei dad, o leiaf dyna fel y

Digitized by Google

Dichon bod Ionafal ab Meurig, cefnder Cadwallon, wedi, neu wedi dywed un Brut. Ond pa un bynag am hyny, gwr ydoedd a ymgystlynodd ormod o lawer â'r genedl hono,—y genedl a fynodd ei waed yntau yn y diwedd,—a hyny yn erbyn ei dras a'i genedl ei hun. dechreu, cymeryd gafael o Wynedd neu ran o honi trwy ryw ymgystlyniad â Saeson a Daeniaid, cyn neu tua'r amser ag y gafaelodd neu yr ymgeisiodd Cadwallon am yr unrhyw afaelaeth, ac y bu gorfod iddo eu gorchfygu cyn cael y meddiant i'w law. O leiaf bu llu o'r ciwdodau hyn gydag Ionafal yn rhyfela yn erbyn Cadwallon tua'r pryd hwn, ond cwympodd Ionafal yn y rhyfel, a hyny trwy law Cadwallon ei hun medd un neu ddau o'r Brutiau.

Yr oedd yn adeg flin a gwaedlyd y pryd hwn, a hyny mewn rhan oherwydd yr anghydfod creulawn a enynodd o'r ymrafael a gymerodd le rhwng Ieuan ac Iago, meibion Idwal Foel, y cyntaf yn dad a'r llall yn ewythr i Hywel a Chadwallon. Daliwyd Ieuan gan ei frawd, a chafodd ei ddallu a'i garcharu ganddo, ond feallai na chrogwyd ef, er bod rhai Brutiau yn dweyd hyny; o leiaf dengys y Brut a adysgrifodd Iorwerth ab Iorwerth yn wahanol. Ni wnaeth hyn ond "gyru'r drwg yn waeth," a rhyfel blin a ganlynodd, os nad oedd wedi dechreu cyn dalliad Ieuan. Bu'r helyntion hyn yn fantais i'r Saeson a'r Daeniaid i golledu'r Cymry yn dost; a defnyddid yr estroniad gan y naill blaid a'r llall i ddial ar eu gilydd, ac i enill yr oruchafiaeth.

Ni chafodd Cadwallon fawr o amser i ddal meddiant o'i gyfoeth, canys ymhen rhyw flwyddyn, neu lai, daeth Meredydd ab Ywain, ab Hywel Dda i oresgyn ei dywysogaeth, a chollodd Cadwallon ei feddiant a'i fywyd. Nid oedd ymosodiad Meredydd yn cyfodi yn uniongyrchol oherwydd yr ymrafael a enynodd rhwng y brodyr Iago a'r Ieuan a nodwyd. Ond gellir meddwl fod llawer a wnelai ymgyrchoedd Hywel, brawd Cadwallon, yn erbyn Einion ab Ywain, brawd Meredydd, —a'i ymosodiad. Ac feallai fod Cadwallon ei hun hefyd gyda Hywel ei frawd yn ymosod ar Einion. Ac heblaw hyn, ynghyd âg uchelgais Meredydd ei hun, tebygol y gellir olrhain ei gyfodiad trwy'r ymrysonfeydd gwaedlyd a fu rhwng yr Iago a'r Ieuan crybwylledig ag Ywain, tad y Meredydd hwn, hyd at yr ymryson rhyfelawg a gyfododd rhwng y tywysogion Anarawd a Chadell, meibion Rhodri Mawr, yn yr haner olaf o'r ganrif flaenorol. Dywedir o barth yr helynt yn y Brut a adysgrifodd Iorwerth ab Iorwerth,* ddyfod o Feredydd a llu mawr i Wynedd yn y flwyddyn 985, lle yr ymladdwyd brwydr rhyngddo a'r brodyr Cadwallon a Meurig. Lladdwyd Cadwallon, a Meredydd a ddug "Wlad Wynedd danaw ac a lywodraethawdd arni, ac a ddodes

* Myf. Arch. ail arg. t. 692.

Digitized by Google

Lywodraeth ar Fôn, ac Arfon, a Meirionydd, lle nid oedd Llywodraeth ddyledus wedi bod er yn hir o amser."

Yn yr un flwyddyn ag y digwyddodd hyn, neu y ddilynol,—yr un yn ol y Brut yr ydys newydd ddyfynu o hono,—collodd Meredydd ei afael o Feirionydd a holl Wynedd, a methodd ei adenill er iddo ymladd brwydr i'r diben hwnw tua Llangwm, yn neu oddeutu y flwyddyn 993, yn erbyn Idwal ab Meurig. Mawr oedd trallodion y Cymry yn yr helyntion blinion hyn, a cheir trem yn y Brutiau ar eu dioddefaint tostlym. Dywed un o honynt,* ddarfod i bleidwyr Ieuan ab Idwal, sef Idwal Foel, yn y flwyddyn 985, ddwyn "Gotffrid ab Harallt y drydy waith i Fôn, a chydag ef y gosodasant y Cymry a'r Daeniaid ar Lywarch ab Owain, Brawd y Tywysawg Maredydd, ac a'i daliasant a dwy fil o'i wyr, ac a dynnasant eu llygaid o'u pennau." Gorfu ar Feredydd "ffoi o Wynedd i Geredigiawn lle y bu mawr a thaer ei wroldeb yn amddiffyn ei gyfoeth yn erbyn cyrch y Daeniaid, a'r Saeson, a Gwyr Gwynedd."

Yn y rhan olaf o'r ganrif ddilynol, sef tua'r flwyddyn 1073, ymladdwyd brwydr waedlyd yn Meirionydd rhwng Trahaiarn ab Caradog a Gruffydd ab Cynan. Y frwydr hon oedd y gyntaf o dair a ymladdwyd rhwng y tywysogion hyn. Enillodd Gruffydd y gyntaf, collodd yr ail, ond cafodd fuddugoliaeth derfynol yn y drydedd a chwympodd ei wrthwynebydd yn farwol ynddi. Yr oedd Gruffydd ab Cynan wedi cael ei eni yn ninas Dulyn yn y Werddon, oherwydd bod ei dad wedi myned ar ffo i'r ynys hono mewn canlyniad i laddiad ei dad Iago ab Idwal tywysog Gwynedd. Ac ni bu ond ofer ymdrechion Cynan i geisio dyfod i feddiant o'r Dalaith hono. Eithr wedi i Ruffydd ei fab dyfu i fyny yn llanc ieuanc, cafodd nifer o wyr arfog o'r Werddon i'w gynorthwyo i enill meddiant tywysogol ynddi. Gan hyny bu iddo forio trosodd tua glanau Cymru, "a chaffel Porth Abermenei" yn ddiogel. Y pryd hwn yr oedd Trahaiarn yn dywysog Gwynedd, neu ynte yr oedd Cynwrig ab Rhiwallawn yn dywysog ar un rhan o honi, ac yntau yn dywysog ar y rhan arall. Llwyddodd Gruffydd i gael pleidwyr i'w achos, a syrthiodd Cynwrig o dan rym arfau y rhai hyny. Ac ymhen amser ymdeithiodd Gruffydd ymlaen "parth a Chantref Meirionydd" yn erbyn Trahaiarn. A chymerodd y frwydr le "rhyngthunt yng glyn Cyning y lle yn Gymraeg Gwaeterw, neu y tir Gwaetlyt, o achaws y frwydr a fu yna." Fel y crybwyllwyd cafodd Gruffydd y fuddugoliaeth, ac y mae ei Hanes† yn dywedyd i filoedd

* Myf. Arch., ail arg. t. 692.
† Myf. Arch. ail arg. t. 721.
‡ tud. 141.

gwympo o du Trahaiarn, ac mai o'r braidd y diangodd a'i fywyd ganddo, ag ychydig wyr gydag ef. Sonir am y frwydr hon yn Marwnad Gruffydd ab Cynan,‡ gan Meilir brydydd, a hyny fel un a ymladdwyd yn Meirionydd mewn lle o'r enw "Waederw."*

Bu Cantref Meirionydd drachefn yn dwyn cysylltiad arbenig a'r helyntion rhwng y ddau benaeth hyn, ond y waith hon fel llochesfa. Canys rhag ofn Gruffydd ab Gynan, a'r llu o Wyddyl a Daeniaid a gafodd yn gynorthwy o'r Werddon, lle y bu yn aros dros amser ar ol colli o hono yr ail frwydr grybwylledig, Trahaiarn a fudodd ato i Gantref Meirionydd gymaint a gafodd o wyr Lleyn ac Ardudwy a'u daoedd hefyd yr un modd. A Gruffydd "ae lu a ddugant y rhann arall o Leyn ac Arfon hyt ym Mon, fal i gellynt bot yno yn ddiogel dan ei amddeffyn ef."

Ymhen llawer blwyddyn wedi hyn, sef o gylch 1107, dioddefodd Meirionydd yn dost yn herwydd anghydfod blin rhwng y Cymry a'u gilydd, ond nid heb fod a wnelai brenin Lloegr yn anuniongyrchol a'r helynt. Canys wedi iddo ganiatau i Iorwerth ab Bleddyn brynu ei ryddid ar ol iddo fod yn hir yn ngharchar ganddo mewn modd anghyfiawn a maleisus, ac iddo felly ddyfod i afael a'i ran o'r wlad yn Mhywis, daeth i benbleth oherwydd ei neiaint Ywain ab Cadwgan, ab Bleddyn, a Madog ab Ririd, ab Bleddyn. Oblegid tua'r amser y cymerodd ei ryddhad, a'i ddyfodiad i afael o'r diriogaeth le, ymheddychodd y ddau hyn a'u gilydd. Ac fel canlyniad o'u hymheddychiad gwnaethant "lawer o drygeu y gwlat y Ffreinc ac yn Lloegr." Tebygol mai tiriogaeth y Normaniaid yn Nghymru a feddylir wrth wlad y Ffreinc. Y gwyr hyn a ddefnyddient ranbarth Iorwerth i breswylio ac i ddwyn eu hysbail iddi. Ac o'r herwydd ceisiodd yntau ganddynt fel eu câr a'u cyfaill, a gorchymynodd iddynt fel eu harglwydd i ymadael o'i derfynau, a pheidio a myned ychwaith i randir Cadwgan ei frawd. Rhag ofn iddynt, drwy hyny, dynu arnynt lid Harri frenin, a cholli o honynt eu tiroedd, os nad eu rhyddid neu eu bywydau. Gan y mynai y teyrn hwnw na roddai neb o'r Cymry unrhyw nawdd iddynt, ond ceisio cael gafael ynddynt i'w dodi yn ei law, gael iddo eu carcharu neu eu lladd yn ol fel yr ewyllysiai. Yn enwedig gorchmynodd i Iorwerth a Chadwgan na fyddai cystlyniad rhyngddynt a hwy.

Ond er hyn parhau i ddefnyddio tiriogaeth eu hewythr a wnaethant fel o'r blaen, os nad yn fwy felly. A phan ddeallodd yntau hyny, cynullodd fyddin i'w hymlid ymaith. Yna ciliasant ymaith gyda'u

* Ond pa le y mae ei safle?

Digitized by Google

cymdeithion i Gyffeiliog, lle yr oedd meibion Uchtryd ab Edwyn, ewythr iddynt o gefnder eu tadau, yn gwladychu. Y meibion hyn yn rhy wan i'w gwrthladd a anfonasant i Feirionydd am i wŷr y wlad hono ddyfod i'w hymlid ymaith. Canys yr oedd gan Uchtryd fath o afael ar Feirionydd a Chyffeiliog y pryd hwn. Felly gwŷr Meirion a ymbarotoisant yn ddiymaros i fyned yn eu herbyn. Ond cyn iddynt wybod dim am fwriadau y Meirionwyr, y mae yn ymddangos, cychwynasant yn y boreu i fyned i letya yn Meirionydd heb fwriadu "dim drwc amgen." Ac fel yr oeddynt ar eu taith tuag yno, dyma wŷr Meirionydd yn eu cyfarfod "ygkyfrwg mynyded ac anyalwch," "Ac yn eu ruthraw. ac yn dodi gawr arnunt." Hwythau, heb ddisgwyl dim am danynt, a ffoisant ar y rhuthriad cyntaf. Yna daeth Ywain* ymlaen. "A phan gwelas gwyr Meiryonyd ef yn kyrchu yn wrawl ac yn barawt y ymlad. ffo yn deissyfeit a orugant. Ac wynteu ae hymlidyassant hyt eu gwlat. a diffeithaw y wlat a orugant. a llosgi y tei ar ydeu a llad yr ysgrybyl kymeint ac a gawssant heb dwyn dim gantunt." Wedi hyny aeth Madog ymaith i Bywis, ac Ywain i Geredigion, lle yr oedd ei "dat yn gwledychu ac yn presswylaw."

Yr oedd Cadwgan, tad yr Ywain hwn, a hyny, tebygol, pan oedd alluocach nag yn awr, wedi rhoddi Meirionydd a Chyffeiliog i Uchtryd, ar yr amod y byddai gywir iddo ef a'i feibion, ac yn gynorthwy iddynt yn erbyn eu holl elynion. Ond ni chadwodd Uchtryd at y telerau hyn. A phan laddwyd Ywain yn y Deheudir, yn neu oddeutu y blynyddau 1113 neu 1114, tybiodd Uchtryd nad allai meibion eraill Cadwgan ei ddwyn i gyfrif. Ac felly cyfododd gastell "yn y lle a elwit Kymer ym Meirionnyd." A dynodid y castell hwn yn yr hen amser yn Gastell Uchtryd ab Edwyn, ond yn ddiweddarach yn Gastell y Cymer. Ond ni thyciodd ei gyfodiad i Uchtryd, canys Einion ab Cadwgan, a Gruffydd ab Meredydd, a fyddinasant eu gwŷr, a chan gyrchu yn erbyn y castell a'i llosgasant â thân.† Ac wedi ffoi o rai o'i geidwaid, a dyfod eraill o honynt i'w heddwch, hwy

* Yn ol rhediad Brut y Saeson, yr oedd Ywain yno ar y rhuthr cyntaf. Myf. Arch., ail arg., 671. Hefyd gweler Brut y Tywysogion, t. 614, yn yr un argraffiad.

† Nid ydys yn gallu nodi yn fanwl safle y castell hwn. Ond yn unol âg a ddywed yr hynafiaethydd R. Fychan, o'r Hengwrt (Camb. Reg. am 1795, arg. 1796, t. 190), safai ar frynoyn yn ymyl y tyddyndy a elwir y Pentre'. Yr oedd nifer o aneddau, ynghyd â melin flawd a gefail gof yn sefyll gynt gerllaw yr amaethdy hwn. A bu Ty'nyfelin (Tyddyn y Felin ?), un o'r aneddau hyn, yn cael ei breswylio mor ddiweddar a'r fl. 1876, neu oddeutu yr unrhyw. Safai y tŷ hwn megis yn ngenau croesffordd y Pentre', ac y mae peth o'i fur allanol yn aros ac yn rhan o glawdd y cae y mae ei fangre ynddo, pa un a berthyn i'r Pentre'. Y tu isaf i'r groesffordd a nodwyd, ac yn un o gaeau y Faner y mae olion hen dŷ o'r enw Odyn a phreswylid hwnw ddiweddaf tua'r flwyddyn 1860 neu 1861.



Digitized by Google

a achubasant Feirionydd, Cyfeiliog, a Mawddwy o law Uchtryd. Ac yn eu rhaniad rhyngddynt, daeth Meirionydd a rhan o Benllyn i feibion Cadwgan. A diameu fod Einion yn un o honynt.

Ymhen rhyw flwyddyn ar ol hyn, feallai, neu o leiaf nodir o dan amseriad y flwyddyn 1115, yn Mrut y Tywysogion, a adysgrifenodd Iorwerth ab Iorwerth, ddarfod i feibion Cadwgan ddwyn ysbail ddirfawr o ŷd a gwartheg i Feirionydd, a hyny fel canlyniad brwydr a ymladdwyd yn Nyffryn Clwyd. Ymladdai y meibion hyn i Gadwgan, Einion, a Madog, ymhlaid Hywel ab Ithel, yr hwn a gynhaliai Rhos a Rhyfoniog dan wriogaeth iddynt hwy a Meredydd ab Bleddyn, eu hewythr o frawd eu tad, yr hwn hefyd oedd yn y frwydr. O'r tu arall yr oedd meibion Ywain ab Edwyn, y rhai a gynhalient Ddyffryn Clwyd, ac o'u plaid yr oedd Uchtryd ab Edwyn eu hewythr, neu ei feibion, ynghyd â nifer o Normaniaid. Ar ol ymladd chwerw, cafodd ochr meibion Cadwgan y fuddugoliaeth, ond ni feiddiasant feddianu'r wlad rhag ofn y Normaniaid. Y fath resyn fod y Cymry yn gwanychu eu hunain fel hyn. Nid ydyw y Brut yn ol y Llyfr Coch o Hergest, na'r Brut a ddygwyd allan o dan olygiad ab Ithel, na Brut y Saeson, yn sôn dim am yr ysbail grybwylledig.

Ymhen rhyw bump neu chwe' blynedd wedi hyn, sef yn y flwyddyn 1121, bu Einion ab Cadwgan farw, a gadawodd ei ran o Bywis a Meirionydd i Feredydd ab Cadwgan ei frawd, neu yn fanwl ei haner brawd. Ond Meredydd ab Bleddyn, ei ewythr, yn lle gadael iddo gael meddiant heddychol o'r manau hyn, a'u dygodd hwy oddiarno, ac feallai fod Ithel ab Ririd, ab Bleddyn, yr hwn a ollyngwyd o garchar gan Harri frenin Lloegr tua'r pryd hwn, yn gyfranog âg ef yn y weithred. Pan glybu Gruffydd ab Cynan ddwyn ei diroedd fel hyn oddiar Meredydd ab Cadwgan, anfonodd ei ddau fab, Ywain a Cadwaladr, neu Cadwallon, gyda llu cadarn i'w mynu yn ol iddo. Ac yn yr helynt dygasant holl ddynion Meirionydd, a'u däoedd gyda hwy, i Leyn. Meddyliasant hefyd wneyd yr un peth wedi hyny â gwlad Pywis, ond dychwelasant adref heb allu cyflawni hyny.

Yn y flwyddyn 1145 neu 1146, daeth dychryn mawr ar bobl Meirionydd, oherwydd canlyniadau yr ymrafael a gyfododd rhwng Hywel a Chynan, meibion Ywain Gwynedd o un tu, a Chadwaladr, eu hewythr o frawd eu tad, o'r tu arall. Canys yn herwydd yr anghydfod hwn, daeth Hywel a Chynan i Feirionydd i'w darostwng tanynt. A chynyrchodd eu dyfodiad, neu y sôn eu bod yn dyfod, gymaint o ofn ar y trigolion nes y ffoisant am noddfa i'r eglwysydd. Ond cadwodd y penaethiaid hyn noddfeydd yr eglwysydd yn gysegredig, a gwahoddasant y ffoaduriaid yn heddychol allan. Wedi hyn, cyrchasant yn erbyn Castell Cynfael, safle pa un, y mae yn debygol, sydd yn nghymydogaeth Tywyn, Meirionydd. Cedwid y castell yn ffyddlon i

Digitized by Google

Cadwaladr gan Moruran, neu Morfran, abad y Ty Gwyn, ac nis rhoddai i fyny er nac addewidion na bygythion. Ond er ei holl benderfyniad, cymerwyd y lle trwy ystryw rhyfel, a chafodd yntau yn brin ddianc â'i fywyd ganddo.

Yr oedd Meirionydd, fel yr ymddengys, yn cael ei dal gan Gruffydd ab Cynan, ab Ywain Gwynedd, mewn rhan neu yn gyfangwbl, pan oedd yr Archesgob Baldwin yn teithio trwy Gymru yn y flwyddyn 1188, i bregethu Rhyfel y Groes. Ac feallai fod Ardudwy y pryd hwn yn sefyll yn hawl Meredydd ei frawd; neu ynte fod gan y ddau bob i gyfran o Feirionydd, neu ei cyd-ddalient, pa fodd bynag am Ardudwy. Gelwir Meirionydd gan Giraldus Cambrensis, yr hwn a gyd-deithiai â Baldwin, yn dir meibion Cynan. Ac os ydyw yn gywir, meddai y ddau afael arni, yn rhyw fodd neu gilydd. Modd bynag, nid annhebyg nad yw yn gywir wrth gyfeirio at Ardudwy fel tiriogaeth Cynan. O leiaf, dengys Syr John Wyn o Wydir y penodwyd, wedi marwolaeth Ywain Gwynedd, fod i Ardudwy a Nantconwy berthynu i Iorwerth ei fab,—Iorwerth Drwyndwn. Ac ddyfod o Feirionydd y pryd hwnw i ran Cynan, mab arall iddo. Hefyd, yr oedd Cynan wedi marw oddeutu pedair blynedd ar ddeg cyn y daith grybwylledig o eiddo Giraldus. Dichon fod gan Meredydd ab Cynan afael ar Ardudwy, neu ran o honi, yn adeg y daith hon, canys ymddengys oddiwrth a ddywed Giraldus, mai yn y gantref hono y cyfarfu Meredydd â Baldwin.

Er i Feirionydd ddyfod i feddiant Cynan ab Ywain Gwynedd, fel y crybwyllwyd, nid yw yn ymddangos agos yn sicr i'w blant gael meddiant o'r lle yn ddioed ar ol ei farwolaeth. Ond os cawsant ymddengys mai byr fu eu gafael ynddi ar y pryd, o leiaf felly ei feibion. Canys dywed dau o'r Brutiau i Ddafydd ab Ywain Gwynedd, yn y flwyddyn 1174,—yr un ag y gosodant i Cynan farw ynddi,—ymlid ymaith ei holl frodyr a'i ewythrod, yn ol un o honynt; ond ei frodyr a'i gefndyr, medd y llall, a meddianu Gwynedd. Ymddengys ddarfod i Ddafydd, yn neu tua'r pryd hwn, garcharu rhai o'i frodyr neu haner brodyr, a pherthynasau eraill. Ond mai byr amser y buont yn gaeth felly, gan i Faelgwn ei frawd dori ei garchar ei hun, a'u carchar hwythau; a ffoi o rai ohonynt i Forganwg, ac eraill i'r Werddon.

Yn ol Warington, rhoddodd brenin Lloegr Feirionydd i'r Arglwydd Rhys, tywysog y Deheubarth, yn y senedd a gynhaliwyd yn Rhydychain yn y flwyddyn 1177, yr hwn ar y pryd oedd yn ei heddwch. Y flwyddyn hon, neu y ddilynol, dygodd meibion Cynan, sef y

Digitized by Google

Gruffydd a'r Meredydd a nodwyd, gyrch yn erbyn Rhys. A thebygol fod llawer a wnelai y rhoddiad crybwylledig o Feirionydd iddo gan y brenin â'r ymgyrchiad. Ond ymddengys na lwyddasant yn eu hymgyrch, oblegid dywed un Brut mai gorfod ffoi yn gywilyddus a wnaethant. Eithr fel y crybwyllwyd eisoes, yr oedd gan un o honynt, neu'r ddau, afael yn y gantref hon, fel yr ymddengys, yn y flwyddyn 1188.

Diameu fod y ddau benaeth hyn yn wyr pwysig yn Ngwynedd gynt. Yn y flwyddyn 1193, ar ol i'w hewythr, Rhodri ab Ywain, gymeryd meddiant o Fon, trwy nerth Gwrthrych, brenin Manaw, neu ei feibion, llwyddasant i'w ymlid ymaith. Ond yn fuan wedi, sef yn yr un flwyddyn, neu y ddilynol, cyd-ymunodd Rhodri a'i ddau nai hyn â Llywelyn ab Iorwerth yn erbyn y tywysog Dafydd ab Ywain Gwynedd. A hyny, tebygol, ar y dealltwriaeth mai Llywelyn oedd i gael bod yn dywysog y Dalaith. Llwyddasant gymaint yn eu hamcan nes y collodd Dafydd ei holl feddiant o Wynedd, oddigerth tri chastell, y rhai a ddaliai, fel yr ymddengys, trwy nerth y Saeson. Eithr tebygol mai wedi gallu cael ad-afael mewn rhyw ran o honi yr ydoedd tua'r pryd hwn, canys yn y flwyddyn 1188, pan oedd Baldwin yn pregethu Rhyfel y Groes yn Nghymru, ni feddai ond castell Rhuddlan a'r ardal gyffiniol, y rhai a ddaliai o nerth gwarchodlu Seisnig. Ymhen amryw flynyddoedd wedi hyn, sef yn y flwyddyn 1201,* ceir fod drwg wedi cyfodi rhwng Llywelyn ab Iorwerth a Meredydd ab Cynan, canys mynegir i Iorwerth ymlid y llall allan o Leyn y pryd hwn. A'r rheswm a ddyry y Brut dros ei yriad ymaith, ydyw, o achos ei dwyll. Yn y flwyddyn ganlynol, cafodd ei wrthladd o Feirionydd gan Hywel ei nai, fab y Gruffydd crybwylledig. Ac ysbeiliwyd ef o bob peth ond ei farch. Ond rywdro rhwng yr amser hwn a'r flwyddyn 1210, neu 1211, alltudiwyd yr unrhyw Hywel o Wynedd gan Llywelyn ab Iorwerth. Ond ar ol i helyntion rhyw bedair neu bum' mlynedd fyned heibio, ceir yr un Hywel, ynghyd a Llywelyn ei gefnder, mab y Meredydd a nodwyd, mewn undeb â'r tywysog Llywelyn ab Iorwerth, ac eraill o wyr mawr Cymru.

Yr oedd gan y Llywelyn ab Meredydd, cefnder yr Hywel a nodwyd, frawd o'r un enw ag ef ei hun; a dynodid y naill yn Llywelyn Fawr, a'r llall yn Llywelyn Fychan. Cyfeirir atynt mewn nodyn yn yr Achlyfr gan Lewis Dwnn fel arglwyddi Meirionydd. Yn eu hamser hwy rhwygwyd y tir a orwedd rhwng yr afon Ddyfi a'r afon Ddulas, sef

* **Brut y Tywysogion.**

Digitized by Google

holl blwyf Llanwrin, oddiwrth Gwmwd Ystumaner, ac felly oddiwrth Gantref Meirionydd. Delid y diriogaeth hon ar y pryd, fel yr ymddengys, dan wriogaeth i un neu'r ddau hyn, gan Einion ab Seisyllt, yr hwn sydd yn cael ei alw yn arglwydd Meirionydd. Ond wedi i ryw ymrafael gyfodi rhyngddo â hwy, ffodd at arglwydd Pywis, ac felly collwyd y diriogaeth oddiwrth y cwmwd hwnw.

Bu agos i frwydr gael ei hymladd mewn perthynas i Feirionydd, a thebygol hefyd o fewn ei therfynau, yn y flwyddyn 1221, rhwng y crybwylledig dywysog Llywelyn ab Iorwerth, a Gruffydd ei fab. Cymerodd Gruffydd afael yn y Gantref, a chymaint oedd digter ei dad o'r herwydd fel y dygodd lu o wyr yn ei erbyn. Eithr yn hytrach nag ymostwng yn fabol iddo, fel y dylasai, parotodd Gruffydd ei wyr i'w wynebu. Ond â'r gwyr doethion o bob tu yn gweled y perygl, hwy a'i hanogasant i roddi ei hun a'i eiddo i ewyllys ei dad, gan anog y llall hefyd i faddeu iddo, ac felly cafwyd heddwch. Eithr er hyn, dygodd Llywelyn Feirionydd oddiar ei fab, a Chwmwd Ardudwy hefyd. Ymhen rhyw ugain mlynedd wedi hyn, sef yn y flwyddyn 1241, ceir crybwylliad am Feirionydd mewn cysylltiad â thelerau cytundeb rhwng Harri III. a Dafydd ab Llywelyn, tywysog Gwynedd. Sef fod i Ddafydd dalu i feibion Meredydd ab Cynan, "eu holl dylyet ym Meirionyd,"* neu a berthynai iddynt oddiwrth y fan.

Mab i Gruffydd ab Llywelyn, ab Iorwerth, oedd y tywysog Llywelyn ab Gruffydd a gwympodd yn y Deheudir mor ddiamddiffyn a diarwybod i'w fyddinlu ffyddlon a dewr. Dewiswyd Ywain ei frawd,—Ywain Goch, ac yntau, gan wyr Gwynedd yn dywysogion arnynt ar adeg tra gwasgedig ar y Dalaith, sef yn y flwyddyn 1246. Ymhen blynyddoedd ar ol hyn, a chanlyniadau helyntion cynhyrfus yr amser wedi taflu Ywain i garchar, ceir Llywelyn a'i wyr, gyda Meredydd ab Gruffydd, ab Rhys Grug, ac eraill o wyr y Deheudir, yn cychwyn tua'r cyntaf o Dachwedd, y flwyddyn 1255, neu yr un ddilynol, yn erbyn y Saeson, neu yn fanylach, Normaniaid y berfeddwlad. A chyn pen wythnos, yr oedd wedi ei henill, oddigerth y cestyll Digerth a Dyganwy. A chyn pen llawer o ddyddiau yn mhellach, yn ol un hanesydd,† yr oedd wedi enill yr holl wlad hyd at byrth Caer,—Caerlleon, er gwaethaf gwyr y tywysog Edwart, oddieithr y mae'n ymddangos y cestyll a nodwyd. Tebygol fod hyd yn nod

* Brut y Tywysogion, t., 328.

† Woodward, Cyf. ii., t. 423. Dengys Hist. of Wales........augmented and improved by W. Wynne, A.M., t. 272—3 mai y flwyddyn ddilynol i'r ymgyrchiad i'r Berfeddwlad y bu hyn, os nad ydys i ddeall iddo ymgyrchu ddwywaith hyd byrth Caer, sef yn 1257.

Digitized by Google

Meirionydd yn cael ei dal y pryd hwn gan elyn i Llywelyn, o naill ai un o'r Normaniaid, neu un o'r genedl Gymreig dan eu nawdd. Canys mynegir ddarfod iddo yn awr, sef cyn diwedd y mis a nodwyd, gymeryd y fan iddo ei hun. Ac y mae Carnhuanawc yn nodi iddo enill Meirionydd yr amser dan sylw.

Y flwyddyn flaenorol i'r ymgyrchiad crybwylledig gan Llywelyn i'r berfeddwlad, bu farw Meredydd ab Llywelyn o Feirionydd, gan adael un mab ar ei ol yn etifedd iddo, "o Wenllian uerch Vaelgwn." Ymhen llawer o amser wedi hyn, sef yn y flwyddyn 1277, pan oedd y Tywysog Llywelyn ab Gruffydd mewn rhyfel ag Edwart,—erbyn hyn Edwart I., brenin Lloegr, ceir cyfeiriad at Feirionydd mewn cysylltiad âg amodiad y brenin i Dafydd, brawd y tywysog Llywelyn. Y pryd hwn yr oedd Dafydd dan arfau yn myddin Lloegr, yn erbyn ei frawd, fel yr oedd yn fwyaf gresynus. Addawodd y brenin i Ddafydd, ymhlith pethau eraill, os gorchfygid Llywelyn yr ymgymerai a dyfarnu mewn cysylltiad a Meirionydd, yn unol â chyfreithiau Cymru, os delai rhywun i'w hawlio, sef heblaw Dafydd, neu Ywain ei frawd, neu bob un o'r ddau. Ond er mai digon darostyngedig i Llywelyn oedd y cytundeb heddwch yr ymostyngodd iddo, eto ni ddaeth pethau i hyn.

Cyn troi ymaith at benawd arall, ceir dwyn i sylw rai pethau y dylesid o ran amseriad eu cofnodi yn gynt. Cynwysant hysbysiad ddyfod cynulleidfa mynachlog "y Cwm Hir y bresswylaw y Gymer y Nannav y Meirionydd." Ond feallai nad ymsymudodd ond rhan o'r gynulleidfa hono i'r Cymer. O leiaf, preswylid mynachlog y Cwm Hir, neu yn hytrach ei haneddau perthynol, yn y flwyddyn 1231; ac hefyd yn amser Ywain Glyndwr, milwyr yr hwn a'i hanrheithiasant.

Yn y flwyddyn 1244, pan oedd Dafydd ab Llewelyn, tywysog Gwynedd, mewn rhyfel a Saeson y Cyffindiroedd, sef yn y flwyddyn flaenorol i ddyfodiad brenin Lloegr ei hun i'w erbyn, daeth y Cymer, neu Fynachlog y Faner, i gryn sylw mewn cysylltiad â'r Abad yn y modd hwn. Er mwyn cael cynorthwy yr eglwys i ddarostwng Dafydd, ceisiodd brenin Lloegr gan Esgob Caerwrangon ei esgymuno, a hyny oddiar sail cytundeb ei ymddarostyngiad iddo fel ei uchdeyrn, a chadarnhad yr unrhyw trwy fygythiad o gerydd eglwysig os byddai iddo ei dori. Dichon i Dafydd glywed am hyn cyn gweithredu, fel yr ydys ar fynegu. Pa fodd bynag, darfu iddo, er mwyn cael amddiffyniad y Pab yn erbyn Harri, geisio gan hwnw ei ryddhau oddiwrth

Digitized by Google

ei lŵ i fod yn wriogaethol iddo. Ac i wneyd yn dda ei gais, mynegai mai ei orfodi a gafodd i gymeryd y fath lŵ. Hefyd, addawai ddal ei dywysogaeth yn wriogaethol i'r esgobaeth sanctaidd, a thalu yn flynyddol 500 o farciau fel teyrnged. Ond â'i sancteiddrwydd yn hoffi'r cynygiad, eto heb ewyllysio penderfynu yr achos heb well dangoseg o gyfiawnder y cais na hòniad unigol cenadwri Dafydd, a awdurdododd Abadau Aberconwy a'r Cymer trwy lythyr, dyddiedig y 26ain o Gorphenaf, 1244, i chwilio i mewn i'r orfodogaeth hònedig. A rhoddodd hawl, medd Rapin,* i'r ddau hyn i ddirymu y cytundeb â'r brenin, a rhyddhau y tywysog oddiwrth ei lŵ, os ymddangosai iddynt mai ei ddirgymell i'w gymeryd a gafodd. Y ddau Abad, wedi derbyn yr awdurdod, a wysiasant y brenin trwy lythyr, i ymddangos ger eu bron yn Ngeri, ar noswyl St. Agnus, yr 20fed o Ionawr, 1245, os barnai yn angenrheidiol, i ateb i'r cyhuddiadau a ddodid yn ei erbyn. Ond ni fynai Harri wrando ar hyn, a chynlluniodd i gasglu byddin i ddarostwng Dafydd trwy rym arfau. Trefnodd hefyd tuag at geisio dwyn y Pab o'i du, a hyny mewn rhan trwy rodd arianol,—eli calon ei sancteiddrwydd. O'r diwedd, ymddieithrodd y Pab oddiwrth Dafydd, ac ar yr 8fed o Ebrill y flwyddyn hono, anfonodd allan ei Bab-archiad, yn collfarnu hòniadau Dafydd, a galwodd yn ol y llythyrau oeddynt yn ei amodol ryddhau oddiwrth ei wriogaeth i'r brenin, ond ni ddychwelodd arian Dafydd yn ol iddo.

O barth maintioli Meirionydd henafol, neu Gantref Meirionydd, bu ei helaethder rywbeth yn debyg i'r tiriogaethau a gynwysir yn awr gan Gantrefydd Talybont ac Ystumaner, gan gynwys hefyd ar un adeg diriogaeth plwyf Llanwrin. Mewn un hen Parthau † Cymru, nas gwn ei amseriad, gadewir Penal allan o fod yn gwmwd perthynol i Gantref Meirionydd, ond gosodir ynddo Ystumaner a Thalybont fel cwmydau perthynol. Yn ddilynol, ceir yr enw cantref, ond heb ddynodiad pa Gantref, ac fel cwmydau perthynol iddi y mae Cyfelawch a Maden. Ac oni bai am hyn, dichon y gallesid yma osod maintioli tebygol Meirionydd o amser y crybwylledig Meirion ab Tybiawn, ac am ganrifoedd wedi hyny, yn ol fel y dangoswyd eisoes. Ond ymha le, tybed, y gorwedd Cyfelawch a Maden, ac a fuont yn ymyraeth â Chantref Meirionydd fel ag i'w rhwystro i gymeryd yr holl wlad a nodwyd o fewn ei therfynau? Eithr wrth holi fel hyn, gellir nodi fod yn nghymydogaeth Aberdyfi dyddyn o'r enw

* Hist. of Eng. by Rapin de Throyes.

† Myf. Arch., t. 738.

Esgairgyfela, rhan olaf o ba un a debyga i Cyfelawch. Mewn ysgriflyfr * yn Llyfrgell yr Amgueddfa Brydeinig, gosodir tri chwmwd yn perthyn i Feirionydd, sef Talybont, Penal, ac Ystumaner. Felly hefyd y gwna Syr John Price, yn ei ddarluniad o Gymru.†

Yn ol fel y dangosir yn Mharthau Cymru,‡ fod rhaniadau'r wlad yn ol "i mesurwyd ac i rhanwyd Cantrevydd a Chwmydau holl Gymru, yn amser Llywelyn ab Gruffydd," yr oedd tair Cantref yn perthyn i Feirionydd, sef Cantref Meirion, yn cynwys y Cwmydau Talybont, Penal, ac Ystumaner. Cantref Arwystli, yn cynwys y Cwmydau Uwchcoed, Iscoed, a Gwarareinion. A Chantref Penllyn, yn cynwys y Cwmydau, Penllyn, Uwchmeloch, Ismeloch, a Migneint.

Yn y ddegfed flwyddyn o deyrnasiad Edward I., trefnwyd ar i gwmwd Ardudwy, cwmwd Penllyn, a chwmwd Edeyrnion fod yn rhan o Feirionydd. Ond fel y sylwyd eisoes, mewn ystyr bu Penllyn fel Cantref, gyda nifer o gwmydau cysylltiol, yn perthyn i Feirionydd yn amser Llywelyn ab Gruffydd. Yn ol cyfraith a benodwyd yn y 27ain o deyrnasiad Harri VIII., trefnwyd i Arwystli gael ei thynu oddiwrth Sir Feirionydd, a bod i gwmwd Gwarthrynion fyned i ffurfio rhan o Sir Faesyfed, ac i'r ddau gwmwd eraill, Uwchcoed ac Iscoed, fyned i wneyd i fyny ran o Sir Drefaldwyn. Unwyd Mawddwy â Meirionydd o dan gyfraith a wnawd yn y 27ain o deyrnasiad yr unrhyw Harri. A sylwa Mr. Breese § na chyfnewidiwyd dim ar derfynau y sir ar ol y ddeddf hon, oddieithr un eithriad bychan, sef oedd hwnw, tynu oddiwrthi dref a Maesdref Abertanad, a'u huno â Sir Amwythig, fel cyfran o Gantref Croesyswallt, o dan gyfraith a benodwyd yn y blynyddau 34-5 o deyrnasiad yr un teyrn.

Ymddengys fod y gyfundrefn sirol mewn arferiad yn Lloegr ymhell cyn ei bod felly yn Nghymru. O barth ei ffurfiad yn Lloegr, mynegir‖ fod Camden, ar awdurdod Ingulphus o Croyland, ysgrifenydd a gydoesai a'r gorchfygiad, yn cymeryd iddynt gael eu ffurfio gan neu oddeutu amser y brenin Alfred. Dywed Hallam ** y byddid arferol a phriodoli sefydliad y trefniant hwn i Alfred, oddiar awdurdod Ingulphus, ond nad yw Asserius, bywgraffydd Alfred, na chyfreithiau arosol y tywysog hwnw, yn dwyn tystiolaeth i hyny. Ac mewn perthynas i'r rhaniad yn siroedd, a'u llywodraethiad gan siryddion, fod yn sicr y bodolai y naill a'r llall cyn ei amser. Hefyd, mai yr

---

* 14,896 Plut. clxvii.

† Argraffedig yn Hist. of Wales; Caradoc, Powell, Wynne, tud. vii.

‡ Myf. Arch., ail arg. t. 735.

§ Kalendars of Gwynedd, tud. 13.

‖ Eto tud. 8.

** Hallam Middle Ages, arg. 1853, cyf. ii., t. 277; ac arg. 1869, t. 413.

Digitized by Google

eithaf a ellir dybio ydyw, y gallai iddo mewn rhai amgylchiadau sicrhau terfynau ansefydlog. Nid ymddengys, meddai, "bod tystiolaeth gyfartal i hynafiaeth rhaniadau llai. Tybiaf mai mewn cyfraith i Edgar y sonir gyntaf am gantrefydd, ac mai mewn un i Canute y sonir gyntaf am y degtrefydd. Ond dylid cofio, gan na fu Alfred erioed yn feistr ar fwy na haner y deyrnas, na ellir, trwy unrhyw dybiaeth, briodoli iddo gyflawn barthiad Lloegr i'r rhandiroedd hyn." Ac yn unol â mynegiad Hallam o barth y siroedd, nodir fod crybwylliad am danynt yn nghyfreithiau Ina, ac yr oedd Ina wedi peidio a theyrnasu fwy na chant a deugain mlynedd o amser cyn i Alfred ddechreu.

Sylwa ysgrifenydd yn y Gwyddionadur, y dywedir ddarfod i Hywel Dda ranu Cymru yn rhandiroedd, neu swyddi a chantrefydd, yn ol dull Alfred, ac i'r Normaniaid eu had-drefnu yn gwmydau. Os wrth y swyddi hyn y meddylir siroedd, fel mae'n debygol mai ïe, nid yw y dywediad yn gywir. Canys cyn amser Edward I., nid oedd yr un sir yn ol y gyfundrefn sirol bresenol yn bodoli yn Nghymru, nac ond wyth yn flaenorol i'r seithfed flwyddyn ar hugain o deyrnasiad Harri'r VIII., sef oeddynt, Arfon, Callestr, Mon, a Meirion, yn y Gogledd; ac Aberteifi, Caerfyrddin, Morganwg, a Phenfro, yn y De. Yr oedd math o ddosbarthiadau tirol o dan yr enw swydd yn Nghymru yn amser y tywysogion Cymreig eu hunain, fel y gellir casglu oddiwrth fod cwmydau yn dwyn enwau o'r fath mewn rhan, yn y "Parthau Cymru" trefnedig yn oes Llywelyn ab Gruffydd, ac un o honynt yn rhan-enw ar gantref. Eithr nid oedd eu maintioli, yn ol y mae'n ymddangos, ond tebyg i helaethder cwmydau. Ymddengys fod cyfeiriad unwaith at swydd fel enw ar ddosran o dir yn hen Gyfreithiau Cymru. Ac os ydys yn gywir yn hyn, tebygol fod y cyfryw ddosbarthiadau yn Nghymru cyn y deddfiad gan Hywel Dda a'i ddoethion yn y ddegfed ganrif. Ond y mae prinder y cyfeiriadau atynt yn yr hen Gyfreithiau crybwylledig yn brawf lled gryf na ddosbarthwyd y wlad gan Hywel Dda i swyddi. Ac wrth ddywedyd hyn, nid ydys heb ystyried y gwnawd cyfnewidiad ar y Cyfreithiau ar ol ei amser. Gellir crybwyll y golygir yn Mrut y Saeson, fod swyddi, fel dosbarthadau tirol, yn bodoli yn Lloegr cyn ei goresgyniad gan y Saeson, ond i'r rhai hyny newid yr enw "swyd" i "sire."*

Mewn nodyn cysylltiedig âg Arnodiadau Blackstone,† lle y cefnogir yr honiad am hawl Alfred yn adraniad Lloegr i siroedd, cantrefydd, a degtrefydd, dywedir y ceir y *comes*, y *centenarius*, a'r *decanus*, ymha le bynag yr ymsefydlodd goresgynwyr barbaraidd yr ymerodr-

* Myf. Arch., ail arg., t. 652.
† Blackstone's Commentaries, cyf. i., t. 114, arg., 1830.

Digitized by Google

raeth Rufeinig. Ond yr un awdurdod a fynega i'r blaenaf fenthyca ei deitl oddiwrth swyddog milwraidd Rhufeinig, penodedig i wylio terfynau'r ymerodraeth. Dywed hefyd fod yn amlwg oddiwrth Vegetius nad oedd yr enwau *centenarius* a *decanus* yn anhysbys i'r fyddin Rufeinig yn niwedd y bedwaredd ganrif. Y mae Blackstone yn dywedyd mai gair Saxonaidd yw *shire*, yn golygu rhaniad, a bod yn amlwg y tardd *county*, comitatus, o *comes*, *count* y Ffrancod, sef *earl* neu *alderman* (yn ol ei geilw y Saxoniaid) y *shire*, llywodraethiad pa un a ymddiriedid iddo. Arferai hwn weinyddu ei llywodraethiad trwy ddirprwywr a elwir eto yn Lladin *vice-comes*, ac yn Saesneg *sheriff*, *shrieve*, neu shire—*reeve*, gan olygu swyddog y sir,* sef y sirydd yn ol y ffurf Gymreig arno. Ac nid yw sir ond dullwedd Cymreig o *shire*. O barth yr enw swydd, sydd yn cael ei roddi ar sir, ymddengys naill ai y tardd oddiwrth yr hen *swydd* ydoedd yn enw ar ddosran o dir gynt, neu ynte y daw yn rhywfodd oddiwrth swyddog llywodraethol y *sire*, neu'r swydd yn ol y gyfundrefn sirol.

Mewn perthynas i Gantrefydd a chwmydau, gellir dywedyd, er ddarfod i'r Normaniaid wneuthur cyfnewidiadau arnynt, eu bod yn ddosranau tirol yn Nghymru o dan lywiad y tywysogion Cymreig eu hunain. I ba genedl y perthynent ar y cyntaf, nid yw yn ymddangos y gellir penderfynu. Dichon y perthynent i fwy nag i un o'r hen genhedloedd, a'u bod yn fath o ffurf wladol gyd-genedlaethol i nifer o honynt. Dywed Hallam, fel y dangoswyd eisoes, ei fod yn tybio mai mewn cyfraith i Edgar y sonir gyntaf am gantrefydd. Ond ystyriai Blackstone eu bod yn ddyledus am eu ffurfiad yn ol y drefn bresenol i Alfred. Eithr dywed mai eu mabwysiadu yn hytrach a wnaeth na'u dyfeisio. Oblegid yr ymddengys y ffynent yn Denmarc, a bod trefniant o'r fath wedi ei roi ar waith gan Clotharine, a Childebert, oddeutu dau can' mlynedd yn foreuach. Ac y gellir olrhain rhywbeth tebyg i'r gyfundrefn Gantrefol, mor bell yn ol a'r hen Ellmyn, o'r rhai y gesyd ddisgyniad y Ffrancod a oresgynasant dir Gâl, a'r Saxoniaid a ymsefydlasant yn Lloegr.

Ond nid yw a ddywed Blackstone mewn un modd yn profi nad oedd y fath gyfundrefn ymhlith y Cymry eu hunain, yn annibynol ar y cenhedloedd a nodwyd. Gosodir allan yn ol y Rhaglithiau i hen Gyfreithiau Cymru, a gyhoeddwyd o dan olygiad Dr. Wotton, ac yn

---

* **Blackstone's Commentaries, i., t. 115, sef y tu de i'r ddalen. Y rhif 115 sydd ar y ddau du iddi.**

Digitized by Google

ddiweddarach o dan olygiad Aneurin Owen, y bodolai naill ai cwmydau ai cantrefydd yn Nghymru yn flaenorol i'r deddfiad yn amser Hywel Dda, yn y ddegfed ganrif. Hefyd y mae y fath gyd-darawiad enwol rhwng y fan a elwir Cantref Gwaelod â'r amaethdy a elwir Hendref Waelod, pa un sydd rai milldiroedd o bellder oddiwrth forlan y gantref ddwfr orchuddedig hon, fel y gellir ystyried mai dyna ei henw cyn y gorlifiad honedig. A thebygol i Hendref Waelod gael yr enw Gwaelod naill ai oddiwrth ffurf y tir islaw a cherllaw y fan, neu ynte oddiwrth ryw berson yn dwyn y cyfryw enw. A gellir ystyried mai oddiwrth ddullwedd y tir y cådd Cantref Waelod ei henw, neu ynte y dyga ei dynodiad Gwaelod enw personol o'r fath. Heblaw hyn, ceir yr enw Cantref yn y llinell ganlynol o un o benillion Llywarch Hen, yn ei Farwnad i Urien Reged:—

"Neum rodes i Run rwyf yolyd
Cantref: a chant eidyonyd
Ac vn oed well nogyd,"

Y mae y pethau hyn yn ddadl o gryn bwys ymhlaid fod Cantrefydd, fel rhaniad tirol, ymhlith y Cymry, nid yn unig cyn geni Alfred, ond hefyd cyn i ddylanwad y Saxoniaid yn Mrydain beri eu ffurfiad.

Nid yw y gair cyfansawdd Cantref, yn ei gysylltiad tiriogaethol fel enw ar ranbarth, yn golygu y cynwys gynifer a chant o drefydd cyffelyb i'r hyn a olygir yn gyffredin yn awr wrth dref, yn enwedig yn y Gogledd. Eithr yn y Deheudir, defnyddir y gair unigol *tref* fel yn golygu yr un peth a'r gair cyfansawdd cartref. Ond yn fanwl, golyga Cantref yn hytrach diriogaeth benodol wedi ei ffurfio o gynifer a chant o ddosranau tirol o'r enw tref, pa un a ffurfid o wahanol ddosraniadau llai. A'r dull mwyaf arferol yn Ngwynedd i ffurfio tref o'r fath yma oedd rhoddi pedair erw i wneyd tyddyn,—pedwar tyddyn ymhob rhandir,—pedwar rhandir ymhob gafael,—a phedwar gafael ymhob tref.*

Yr oedd yr enw tref hefyd yn golygu preswylfod yn yr hen amser, ac ymddengys y byddai yn cael ei ddefnyddio i ddynodi crynswth o dai wedi eu cyfodi yn ymyl eu gilydd, rywbeth yn tebygu i'r trefydd neu y pentrefydd presenol. Ceir tref yn y gair cyfansawdd Hendref, ag sydd yn enw ar amryw o amaethdai Cymru. Ac mewn cân o waith Taliesin i Urien Reged,—cyfansoddiad yn perthyn i'r chweched

---

* Ancient Laws and Inst. of Wales, t. 90. Gosododd Bleddyn ab Cynfyn 12 erw i berthyn i dyddyn mab uchelwr, 8 i berthyn i un mab aillt, a 4 i berthynu dyddyn y "godayawc." Gweler t. 81 o'r Anc. Laws and Inst. uchod.

Digitized by Google

ganrif, yn ol Stephens,* Merthyr, y mae tref yn cynorthwyo i ffurfio y gair "trefret" neu "trefred," gan olygu cartref neu breswylfod. Yn niwedd y llinell gyntaf o'r rhai dilynol, allan o'r Gododin, ceir y gair trefydd yn y ffurf o "Dreuyd,"a rhed y llinellau fel hyn:—

"Tutuwlch hir ech e dir ae dreuyd.†
Ef lladei Saesson seithuet dyd.
Perheit y wrhyt en wrvyd
Ae govein gan e gein gyweithyd.
Pan dyvu dutvwlch dut nerthyd.
Oed gwaetlan gwyaluan vab kilyd."

Sonir yn hen Gyfreithiau Cymru am "tayawctref," a "myleyntref," neu "vileintref." Y ffurf flaenaf, sef "tayawctref," ydyw yr hynaf. Nid yw y rhan gyntaf o'r ddau eraill namyn enw o iaith estronol wedi ei gysylltu â'r gair Cymraeg tref. Math o lafurwyr tirol oedd y Taeogogion, y rhai yn ddiweddarach a elwid yn Fileiniaid,—ag oeddynt yn rhwym wrth gyfraith i gyflawni gosodiadau penodol i'r tywysog neu ei swyddogion. A pherthynai iddynt reolau cyfreithiol yn ol eu safle yn y wladwriaeth. Y mae yr enw Mileintref, neu Fileintref, i'w gael eto yn y dull gwerinol o enwau ag sydd ar dyddynod neu ragdyddynod, megis Flindre, neu Fylindra, neu Flindra.

---

*** The Literature of the Kymry, t. 271. † Four Ancient Books of Wales Skene, cyf. II., t. 66. Yn ail arg. o'r Myf. Arch., t. 3, "drewydd" yw y ffurf. Ac fel dar. eraill yn ngodreu y ddalen y mae "Dreuyd," "trewydd," "drevyd," a "drefydd."**

## Y DULL LLOSGOL O GLADDU; MEINI HIRION; A CHARNEDDAU.

---

Y RHESWM dros uno yr uchod fel un penawd ydyw, fod cysylltiad arbenig cydrhyngddynt â'u gilydd. Ond er eu cysylltu fel hyn, bwriedir ymdrin yn eu cylch ar wahân mewn rhyw ystyr. Ac oddigerth ychydig o sylw, megis yn rhagarweiniol, ceir dechreu gyda'r arferiad o gladdu trwy losgiad, yna y Meini Hirion, ac yn olaf y Carneddau. Y mae cryn lawer o'r rhai a ystyrir fel Meini Hirion, a Charneddau hynafiaethol, mwy neu lai cyfan, yn parhau i aros yn weddilliedig mewn gwahanol barthau o'r wlad. Eto, y mae amaethyddiaeth ac adeiladaeth wedi dwyn ymaith liaws o honynt. Yr oeddynt gynt o fawr fri, a dalient gysylltiad arbenig â'r preswylwyr, neu â digwyddiadau a gymerasant le yn y fro. Ac y maent yn parhau i fod yn wrthddrychau o gryn ddyddordeb gan y meddylgar, a'r hynafiaethydd. Diameu fod arbenigrwydd difrifol a phwysigrwydd trwmddwys yn perthyn i achlysuron eu cyfodiad, yn enwedig rai o honynt, pa mor ddibris bynag y bu llaw yr anystyriol a'r diwybod yn eu cwympo, eu chwalu, eu malurio, neu yn eu dwyn ymaith. Ond y mae yn anhawdd weithiau, ac, ysywaeth, yn ormod o waith cael allan wir ddiben cyfodiad rhai o'r Meini Hirion a'r Carneddau. Nid ydys yn bwriadu cyfeirio yn neillduol yn y benod hon at yr un o'r gweddillion hynafol hyn a safant o fewn cylch yr ymchwiliad perthynol i'r llyfr hwn, oddieithr mewn cysylltiad â sylw cyffredinol. Gwneir hyny ymhellach ymlaen yn nghorff y gwaith. A cheir cyfeirio y pryd hwnw at ddiben cyfodiad y cyfryw o honynt ag y bydd rhyw sail yn ymddangos o blaid yr hyn a ddywedir. Cyfeirir ymlaenaf yn y lle hwn at y DULL LLOSGOL O GLADDU.

Ystyrir mai yr arferiad boreuaf o gladdu ydoedd gosod y marw yn ei fedd yn ei ffurf naturiol, er nas gwyddis pa fodd yr amwisgid ef gogyfer â hyny. A dywed yr hanesydd dyddorus, Carolus Rolin,*

---

* The Ancient Hist. of the Egyptians, Carthaginians, Assyrians, &c., &c., cyf. o'r Ffrancaeg i'r Saesneg, degfed arg. Cyf. II., tud. 433.

Digitized by Google

nad oedd y cenhedloedd dwyreiniol, yn enwedig y Persiaid, yn arfer gwneyd coelcerth angladdol i losgi cyrff eu meirw yn y fflamau. Ond a chaniatau fod hyn yn wirionedd cyffredinol, ymddengys nad oedd yr oll o drigolion y Dwyrain bob amser yn cadw yn hollol at hyn, a bod rhai o honynt yn arfer a llosgi o dan amgylchiadau blinion. Canys hysbysir yn ail Lyfr Samuel,* ddarfod i wŷr Jabes Gilead losgi cyrff Saul a'i feibion. Hefyd, ceir yn Llyfr y Prophwyd Amos † gyfeiriad at losgi y corff, a hyny, feallai, oherwydd y pla. Daeth yr arferiad o losgi cyrff y meirw i ffynu ymhlith hen genhedloedd Ewrop yn lled foreu ar eu hanes, ac hefyd i gael ei ddwyn ymlaen mewn rhwysg a pharchedigaeth mawr. Canys ceir amryw gyfeiriadau at hyn yn ngwaith Homer ‡ wrth ganu ei arwrgerdd am helynt rhyfelawg gwarchaead Caerdroia, oddiwrth yr hyn yr ymddengys fod yr arferiad yn hen, ac ei dygid ymlaen mewn bri a rhwysg nodedig. Ac y mae yn gosod y gwnelid hyny gan y Groegiaid a'r Troianiaid fel eu gilydd y pryd hwnw. Gesyd Virgil hefyd fod yr arferiad o losgi y cyrff yn cael ei gweinyddu ymhlith y Lladiniaid cyn adeiladu Rhufain. Canys ymsynia yr arferent hyny yn amser y rhyfel honedig yn erbyn yr ymnoddwyr Troianaidd. Ond dylid sylwi, fod hyd yn nod dyfodiad Eneas a'i wŷr i'r Eidal o gwbl yn cael ei ameu. Eithr os na ddaethant, ni fyddai hyny yn penderfynu nad oedd yr arferiad yn bodoli ymhlith y Lladiniaid yn y cyfnod boreu hwnw. Gesyd yr un bardd hefyd fod y Tuscaniaid yn arfer yr unrhyw ddefod y pryd hwn. Ac nid yw ei fod yn mynegu yr arferai y Troianiaid losgi y meirw yn adeg y rhyfel ond peth a allesid ddisgwyl wrth ystyried a ddywed Homer am danynt.§ Hysbysir y gwnelid hyn hefyd gan y Scandinafiaid, Sarmatiaid, Daeniaid, Ellmyniaid, Rhufeiniaid, a Gâliaid, ac yn ddiweddarach gan yr Indiaid. Ac ymhlith yr hen genhedloedd hyn, ceir fod y Cymry yn arfer y dull llosgol o gladdu.

Nid ydys yn gwybod pa ddefodau oedd gan y Cymry wrth ddwyn hyn ymlaen. Er hyny, tebygol nad oeddynt hwy, mwy na'r Groegiaid a'r Troianiaid, ac eraill heb eu defodau yn nghyflawniad y gwasanaeth, heblaw pentyru coed, a gosod y corff ar le uchaf y pentwr, ac yna osod tân yn y crug. Ond pa faint bynag neu pa fath bynag oeddynt, nid yw yn ymddangos fod nemawr, os dim cyfeiriad at hyn yn ngwaith y cyn-feirdd Cymreig. Eithr feallai fod diweddarwch cymhariaethol eu hamseriad yn rhwystr i hyny mewn rhan, os oedd

* Pen. xxxi. ad. 11, 12.
† Pen vi. ad. 10.
‡ The Iliad of Homer, cyf. llyth., gan Theodore Alois Buckley, tud. 422, &c.
§ The Works of Virgil. Cyf. gan John Dryden, t. 131–137.

Digitized by Google

yn bod o gwbl. Y mae yr hen haneswyr Cymreig hefyd yn ddistaw ar hyn. Er hyny, y mae yn rhaid fod pwys mawr yn cael ei roddi ar y llosgiad angladdol, pa wedd bynag ei dygid ymlaen, ac y mae yn ymddangos oddiwrth y Trioedd * y byddai rhywfaint o gyrchu gan bobl at y fan yn adeg y cyflawniad.

Ymddengys na chleddid yn y maes agored, yn yr ynys hon, mo bawb o'r meirw y llosgid eu cyrff, eithr y cyflĕid rhai o honynt mewn adeiladau yn y dinasoedd, neu yn hytrach, feallai, yn y prif ddinasoedd. O leiaf, dengys Brut G. ab Arthur ddarfod cuddio lludw y brenin Beli mewn llestr euraidd, ymhen y tŵr ydoedd uwchben Porth Beli, yn Nghaer Llundain.† Ac y mae Virgil yn ymsyniad y dygid cyrff brenhinoedd a chadbeniaid o fri ymysg y Lladiniaid, yn y rhyfel honedig y cyfeiriwyd ato eisoes, i'w claddu yn y ddinas, ond wrth nodi hyny ni fynega a gladdwyd y cyfryw trwy losgiad, pa un bynag a olygai hyny ai ni wnai. Ond ceir yr hyn y cyfeirir ato yn y llinellau dilynol o'i eiddo :‡—

"Nec minus et miseri diversâ in parte Latini
Innumeras struxêre pyras, et corpora partim
Multa virûm terrœ infodiunt, avectaque sartim
Finitimos tollunt in agros, urbique remittunt ;
Cætera, confusæque ingentem cædis acervum,
Nec numero nec honore. cremant ; tunc undique vasti
Certatim crebris collucent ignibus agri.
Tertia lux gelidam cœlo dimoverat umbram :
Mœrentes altum cinerem et confusa ruebant
Ossa focis, tepidoque onerabant aggere terræ.
Jam vero in tectis, prædivitis urbe Latini,
Præcipuus fragor, et longi pars maxima luctûs."

Arferid llosgi y marw yn y pentwr coelcerthol, a elwir yn y Trioedd, a chan yr hen feirdd Cymreig, yn Fygedorth. Yna cesglid gweddillion y corff yn ofalus i'w claddu,—y lludw, ynghyd â'r mân esgyrn a fyddent heb falurio yn llwch. Weithiau dodid y gweddillion hyn mewn ysten bridd yn y ddaear, waith arall amgylchynid yr ysten â chistfaen wedi ei gwneyd o geryg anghelfydd. Brydiau eraill, cyflëid hwy mewn cistfaen heb yr ysten. A dichon eu cleddid weithiau mewn tyllau yn y ddaear, heb eu hamgylchynu gan nag ysten na chistfaen, na dim arall, oddieithr i un dybio fod y cyfryw weddillion wedi eu

* Myf. Arch., ail arg., tud. 394, 396.
† Myf. Arch., ail arg., t., 42—3
‡ Æneidos Lib. xi., gan ddechreu yn y llinell 203.

Digitized by Google

casglu ar y cyntaf i ddefnydd gweuedig o wlân, neu arall, neu i ryw fath o lestr a fai wedi dychwelyd o dan ddylanwad amser i ddaear naturiol. Ond byddid ar brydiau, fel yr ymddengys, yn gosod llechfeini ar eu hymylau ar ochrau y tyllau, er diogelwch y cyfryw weddillion llosgedig; eithr heb fod, bob amser o leiaf, yn eu llwyr amgylchynu. Ymddengys hefyd y byddid bryd arall yn eu cyfleu ar wyneb y tir o dan garnedd, heb ddim yn eu hamgylchynu, oddigerth fod yn debygol y trefnid y ceryg agosaf atynt yn y fath fodd fel ag i'w diogelu rhag pwysau y garnedd, os nad oeddynt ar y cyntaf wedi eu dodi mewn rhyw ddefnydd a bydrodd neu a ymfaluriodd yn nhreigliad amser. Tebygol hefyd y cydlosgid, ac y cydgleddid lluoedd o feirwon cyffredin rhyfel, pa arwydd bynag a roddid ar y manau y dodid eu gweddillion llosgedig. Ac y mae llinellau gan Virgil mewn cysylltiad â'r rhyfel honedig rhwng y Troianiaid a'r Lladiniaid, yn dangos hyn. Hefyd y mae un darlleniad o Drioedd y Meirch, yn y cyfeiriad at Fygedorth llu Gwenddoleu, yn hytrach yn cefnogi hyn. Lled fâs ydyw dyfnder y beddau a gynwysant y gweddillion llosgedig hyn, sef oddeutu haner llath, neu dair rhan o bedair o lathen.

MEINI HIRION.—O barth y rhai hyn, y mae yn ddiameu i rai o honynt gael eu cyfodi yn feini beddau, ac ymddengys y cyfodwyd eraill yn gof-arwyddion o frwydrau, ac i ddibenion eraill heblaw hyny. Gosodid meini ar eu penau yn y ddaear yn yr hen amser at amcanion beddrodol; ac i ddibenion cofnodol eraill, feallai, heb eu bod o ran hyd yn gymwys i'w dynodi fel Meini Hirion. Er hyny, crynhoir hwy yma dan yr un pen. Dywed Carnhuanawc mewn perthynas i'r Meini Hirion, "Y mae yn ddilys fod y rhan fwyaf o honynt mor hen a'r oesoedd Derwyddol." Ond pa nifer bynag sydd wedi eu cyfodi er eu hamser hwy, y mae yn ymddangos y cyfodwyd rhai o honynt mor ddiweddar a thua'r chweched ganrif, pa faint bynag yn ddiweddarach. Canys dywed Carnhuanaw ei hun fod Beli ab Benlli Gawr yn dywysog ar ardal yn nghymydogaeth Dinbych, o gylch y chweched ganrif, ac y mae yn amlwg oddiwrth y dyfyniad canlynol a geir yn ei Hanes Cymru, argraffedig yn 1842, y codwyd meini ar eu penau i ddynodi beddrod y tywysog hwnw. Dyma y dyfyniad:—"Main Hirion Maes Mawr. Mae man ar y mynydd rhwng Iâl ac Ystrad Alun, uwchben Rhyd y Gyfartha, a elwir y Maes Mawr, lle bu y frwydyr rhwng Meilir ab........a Beli ab Benlli Gawr, lle y llas Beli, ac y gosodes Meirion ddau faen yn eu sefyll yn mhob pen i'r bedd; y rhai hyn a fuant yno

Digitized by Google

hyd o fewn deugain mlynedd........." Cyfeiria Englynion y Beddau ato yn y llinellau dilynol:—

"PIEU yr bed yny maes mawr
Balch y law ar y lafnawr,
Bet beli ab benlli gawr."

Cyfeirir yn hen Gyfreithiau Cymru at Feini o dan wahanol enwau dynodol, ac felly y mae yn rhy anhawdd penderfynu pa beth oedd diben cyfodiad y rhai a geir yn aros fel yn weddilledig yma ac acw, oddigerth y cynorthwya rhywbeth heblaw yn unig eu bod yno i gael hyny allan. Ceir yr enwau Pentanfaen, Esgynfaen, Maen terfyn, Maen gwyn gorsedd, Maen gobaith, Pyst neu feini'r brenin, a Meini odyn. Am yr Esgynfaen, ystyria ab Ithel yn gywir gellir meddwl, mai y Gareg farch ydoedd; ac nid oedd hono ond o uchder cyfaddas i un esgyn ar gefn ei anifail. A rhesymol golygu ei bod o ran ffurf dipyn yn fanteisiol i'r cyfryw wasanaeth. Y mae yr enw Meini odyn yn ddigon arwyddocaol i amlygu mai meini perthynol i odyn oeddynt, ac y mae yn ddiameu mai maen pentan aelwyd a feddylir wrth y Pentanfaen. Ond er hyn, dichon nas gellir adnabod y naill na'r llall o'r cyfryw yn niffyg olion perthynol. Gosodir allan yr Esgynfaen, y Meini Odyn, a'r Pentanfaen, fel tri* "pheth a gadwant gov tir a thyle, ac a savant yn mraint tystadon........,canys nod y genedl a vydd ernynt; a hawl lledrad vydd ar a'u symuto, heb genad arglwydd y cyfoeth, gan varn llys a chyvraith; achaws tystion cedeirn ydynt; ac eneidvaddeu pob un a ddinystrio dystiolaeth gadarn."

Am ddiben y Maen Terfyn, y mae hyny yn ddigon hysbys, ond feallai nad oedd pob un o honynt yn ddigon o hyd i ddyfod yn briodol dan y dynodiant o feini hirion. O barth y Maen Gwyn Gorsedd, tebygol mai math o eisteddle neu orseddfainc mewn ystyr ydoedd, perthynol i frawdle yn y maes agored. Mewn perthynas i'r Maen Gobaith, dywed ab Ithel mai ei ddiben oedd cyfarwyddo teithwyr tros fynyddoedd a lleoedd anial heb feddu ffyrdd da. Yr oedd hawl lledrad ar y neb a symudai y meini hyn o'u lle, ac yr oedd y sawl a wnelai, ar un adeg o leiaf, yn agored i'w gosbi â dienyddiad. Ond ceir fod taliad a chamlwrw yn gwneyd tro yn achos symudiad maen terfyn "a fo honnaid y rhwng dwy dref." Dywed ab Ithel hefyd y tybid mai yr un oedd y Maen Gobaith a Phost neu Faen y Brenin. Ac o barth Pyst neu Feini'r brenin ceir y crybwylliadau cyfreithiol a ganlyn: "Tri dyn nis dylit eu cospi: mud a byddar geni; a phlentyn cyn deall; ac ynvyd cynnwynawl; sev y dywedir, nid a

* Ancient Welsh Laws, &c., dan ol., Aneurin Owen, tud. 655.

cosp ar ynvyd; eithr rhybudd gwlad yn ysgriven ar byst neu veini y brenin, yn waedd gadarn er i bawb ymochel a'r ynvyd, ac a'r mud byddar geni; a'u dodi dan eu nodau gan gorn a gwaedd gwlad a chywlad; achaws hyny y dywedir: ynvyd a a ar y post."*

"Tri dyn y dylit eu cadw rhag arvau: caeth; mab cyn pedwar ar ddeg oed; ac ynvyd cyhoedd ar byst gwlad ac arglwydd."†

"Tri chas cyhoedd cenedl: a latho ddyn o'i gyd-genedl; lleidyr; a thwyllwr: sef a'u gelwir felly, am y bydd iawn i ddialwr y genedl eu cyhoeddi gan gorn gwlad yn llys, ac yn llan, ac yn mhob tyrfa ddosparthus, ac ar byst ynfydion y brenin."‡

CARNEDDAU.—Byddid yn aml yn yr hen amseroedd yn arfer cyfodi Carneddau ar y fan y byddai gweddillion marwol gwyr o nod wedi eu dodi, ac feallai y gwnelid hyny hefyd âg eraill a fyddent heb gyraedd enwogrwydd cyhoeddus. A dichon hefyd y gellir cymhwyso yr un sylw at grugiau beddrodol o ddaear. Eithr mynega ab Ithel y dywedid mai personau o nod yn unig a gaent garnedd yn wyddfa feddrodol yn amser y Derwyddon. Dywed Carnhuanawc § wrth gyfeirio at garneddau fel gwyddfäau y meirw, mai "Lle nid oedd cerrig yn ddigon aml i ffurfio carn, cyfodent grug o bridd, o'r un llun crwn." Ond heblaw y crugiau crynion o dyweirch a phridd, cyfodid hefyd grugiau hirion weithiau. Ceir yn y dyfyniad canlynol, wrth y dynodiant "rhysswr," gyfeiriad at ryw ymladdwr neu benaeth milwrol wedi cael carnedd ar ei fedd,- "E mynydd hagen i bu y frwydyr ynddaw a eilw ciwdawt y wlat y Mynydd Carn sef yw hynny Mynydd y Garnedd, canys yno i mae dirfawr Garnedd, o fein adan yr hon i claddwyt rhysswr yng cynnoesoedd gynt."‖ Wrth y frwydr y cyfeirir ati yma y golygir yr un y cwympodd Trahaearn ynddi pan ymladdodd yn erbyn Gruffydd ab Cynan. Ond pwy, a pha bryd, a pha fodd y cyfarfu y "rhysswr" crybwylledig a'i angau nid yw yn hysbys.

Byddid ambell dro yn amgau carnedd oddeutu maen wedi ei osod ar ei ben yn y ddaear, ond feallai y codid llawer mwy o garneddau heb fod ynddynt y cyfryw feini. Gorchuddient gistfaen yn lled gyffredin, fel yr ymddengys, yn yr hon weithiau y byddai ysten bridd yn cynwys gweddillion corff llosgedig, ac ar rai troion byddai

* Ancient Laws and Institutes of Wales. t. 636.

† Ancient Laws and Institutes of Wales, 656.

‡ Eto, t. 661.

§ Hanes Cymru........Carnhuanawc, t. 32.

‖ Myf. Arch., ail arg., t. 728.

Digitized by Google

ychwaneg nac un ysten yn y gistfaen, ond waith arall ni fyddai ynddi yr un ysten o gwbl. Hefyd ymddengys y codid carneddau beddrodol heb na'r maen ar ei ben yn y ddaear na'r gistfaen ychwaith. Eithr pan gyfodid rhai felly, tebygol yr amddiffynid gweddillion y sawl a gleddid danynt rhag gwasgiad pwysau'r garnedd trwy gyfleu y ceryg mewn dull priodol tuag at hyny. Y mae yn ymddangos y gorchuddid cromlechau hefyd â charneddau, yr hyn sydd yn rym mawr i'r syniad mai gwyddfäau beddrodol ydynt, ac nid allorau Derwyddol.

Fel y dangoswyd, bu cael carnedd ar fedd yn arwydd o barch ac anrhydedd yn y cynoesoedd. Dechreuodd yr arferiad yn foreu ar hanes y byd, a pharhaodd dros amser maith. Ac nid yw yn ymddangos fod cael crug neu wyddfa feddrodol o bridd a thyweirch yn ddim llai o fri na chael carnedd felly. Nid gweddillion cyrff llosgedig yn unig a gleddid o dan grugiau, pa un bynag a fyddent ai o geryg ai o bridd a thyweirch; ond cleddid hefyd rai yn eu ffurf naturiol. Dengys Pennant, gan gymeryd fel awdurdod Pomponius Mela, y byddai y Daeniaid ar un cyfnod o'u dull o gladdu, yr hwn a ddynodir *Hoigold* neu *Hoielse-tude*, sef oes y crugiau neu fryncrynau, yn claddu y corff yn gyfan gyda phob addurniadau a wisgid ganddo yn ystod ei fywyd. Gosodid breichledau neu arfau, ac hyd yn nod farch yr arwr ymadawedig gydag ef odditan y crug. Hefyd arferent gladdu ei arian, a'i holl gyfoeth gwerthfawr gydag ef oddiar yr ystyriaeth fod yr enaid yn anfarwol, ac y byddai arno angen am danynt yn ei sefyllfa arall. Byddai morherwyr y cenhedloedd gogleddol yn yr amser yr ystyrient for-herwriaeth yn waith anrhydeddus, yn cyfarwyddo ar i'w holl ysbeiliadau cyfoethog gael eu claddu gyda hwy er symbyliad i'w plant gynal eu hunain, a chadw i fyny enwogrwydd eu henwau trwy waith arfau. Nodir yn ngwaith Sammes* ddarfod i Woden ddeddfu ar i'r meirw gael eu llosgi gyda'u heiddo symudadwy, yn enwedig eu harian, gan ystyried mai y rhai y difäai y tân fwyaf o gyfoeth gyda eu cyrff a fyddent fwyaf eu croesaw gan y duwiau. Ac iddo benodi hefyd ar fod i grugiau enfawr o ddaear gael eu codi ar frenhinoedd a gwyr mawr er oesol goffadwriaeth, a bod estyll uchel yn dwyn ar-ysgrifen mewn llythyrenau Rhwnaeg i'w codi ar feddau y rhai a fyddent wedi cyflawni gorchestion mawrion.

Yr ydys wedi cael yn Nghymru, o dan grug feddrodol yn agos i'r Wyddgrug, weddillion hen ryfelwr yn ei ffurf naturiol, esgyrn yr hwn ar fynediad yr awyr atynt a aethant yn llwch. Ar ei ddwyfron gorweddai lluryg, fel yr ymddengys, o aur, yn addurnedig â lliaws mawr o gleiniau gwefrol, a thybia y Dr. W. O Pughe mai Benlli

* Sammes' Britannia, tud. 410.

Digitized by Google

Gawr oedd yno yn gladdedig odditani. Hefyd caed yn yr ynys hon esgyrn y march, y fuwch, yr afr, y mochyn, a'r ci, yn agos i, neu gyda'r gweddillion dynol claddedig. Mewn un man caed ysgerbwd ci bychan yn gorwedd yn union o dan yr ysten, a'i ddanedd yn parhau i aros yn ddiogel yn eu lle. Yr ydys hefyd wedi cael arfau gwneuthuredig o geryg neu elydr. Caed cwpanau pridd bychain mewn ystenau, ac waith arall yn gyfleuedig gyda gweddillion dynol dilosg. A thybia Mr. Fenton, yn ddigon afresymol, oddiwrth rai neu yr oll o'r mân lestri hyn, fod yn y wlad hon gynt genhedlaeth o gorachod yn trigianu.

Bernir gan rai fod y beddau a gynwysant arfau ceryg yn perthyn i ryw genedl a fu yn Mrydain yn flaenorol i'r Brytaniaid, oherwydd fod elydr yn adnabyddus i'r Celtiaid,—y genedl yr ystyrir y Brytaniaid neu y Cymry yn rhan o honi. Ond ni ddylid derbyn y cyfryw dyb heb amgenach sail. Canys dywed Dr. Schlieman * fod ei gloddiad yn Nghaerdroia yn profi mai cyfeiliornus hollol ydyw'r dybiaeth fod y cyfarfyddiad o arfau ceryg yn dynodi yr "Oes Geryg." Iddo yn fynych ddarganfod arfau ceryg hyd yn nod odditan y malurion perthynol i'r trefedigion Groegaidd, hyny yw, yn y dyfnder o chwe' troedfedd a haner, a'u bod yn digwydd mewn amledd mawr iawn o'r dyfnder o dair troedfedd ar ddeg i waered. A bod y rhai oedd yn yr haen Droianaidd o 23 i 33 o droedfeddi islaw'r arwyneb yn llawer gwell eu gwneuthuriad na'r rhai oeddynt uwchlaw.

Ond er y bu carneddau neu grugiau unwaith yn cael eu cyfodi yn wyddfäau beddrodol anrhydeddus, ymhen amser wedi dechreu claddu mewn mynwentydd ac eglwysydd, aeth cael y cyfryw wyddfäau dan warth, ac yn gymaint felly nes na chleddid neb ond y rhai condemniedig odditanynt. Ac aed i ddweyd "Carn ar dy wyneb" wrth rywun y dymunid drwg iddo.

Buasai yn ddymunol gallu dynodi y gwahaniaeth yn ddigon manwl cydrhwng y carneddau a godid ar yr anrhydeddus ragor y condemniedig. Ond er fod hyn yn rhy anhawdd, eto ymddengys y gellir yn lled ddiogel briodoli y rhai a gynwysant olion llosgol yn perthyn i bersonau o nôd, neu rai a gleddid o dan nawdd cyfraith. Canys er y dywedir yn hen Gyfreithiau Cymru † mai tair cosb enaidfaddeu y sydd; ac hefyd fod "llosg am ffyrnigrwydd" yn

---

* Schlieman, "Troy and its Remains." Translation. Edited by Philip Smith, B.A., t. 21.

† Ancient Laws and Institutes of Wales, dan olygiad Aneurin Owen, t. 636 a 708.

Digitized by Google

un o'r tri dienyddiad cyfreithiol, ac y ceir yn Ysgrifau Iolo * i'r brenin Morgan ab Bleddyn osod cyfraith ar fod i bob llofrudd a bradwr gael eu llosgi. Ac er y dywed y Brut i'r brenin Morud † beri blingo rhai o'i elynion yn fyw ac yna eu llosgi, nid ydyw yn debygol yr anrhydeddid y rhai hyn â charneddau neu grugiau yn wyddfâau beddrodol, oddigerth y gallai fod eithriadau. Hefyd, y mae yn amlwg mai at gladdiad y corff heb ei losgi y cyfeiria y dywediad sarhaus o "Carn ar dy wyneb," onide ni soniasid am wyneb o gwbl.

Y mae yn ymddangos fod yr oll o'r crugiau beddrodol nad ydynt garneddau wedi cael eu codi ar wŷr o nôd, neu a gleddid yn nawdd gwlad a chyfraith. Ond dichon nad yw pob crug, neu garnedd feddrodol, wedi eu codi gan gyfeillion. Modd bynag, ymddengys oddiwrth Frut y Brenhinoedd ‡ mai ei elynion a bentyrodd grug ar feddrod Hengist, pa un bynag ydoedd ai o bridd a thyweirch ai o geryg.

Mewn perthynas i weddillion rhai o'r cyfryw a gladdwyd yn y dull llosgol, os nad ydys i ddeall eu crynhowyd i ryw ddefnydd a ymddadansoddodd trwy ddylanwad amser, ymddengys eu dodwyd yn noeth mewn tyllau yn y ddaear, yn ochrau pa rai y gosodid ychydig lechfeini ar eu cyllill, ond heb fod, ymhob amgylchiad o leiaf, yn eu llwyr amgylchu. Deuir i'r casgliad hwn oddiwrth gyflead y gweddillion llosgedig a gaed yn un o'r beddau a elwir Beddau'r Gwroniaid, safle pa rai sydd ar fynydd y Pentre' (Pentref Maestrefnant), yn nghymydogaeth Abergynolwyn. Ac ymddengys fod y rhai a gladdwyd yno yn ddynion a edmygid, onide nas galwesid eu beddau yn Feddau'r Gwroniaid. Dichon hefyd na chodwyd un math o grug arnynt, o leiaf nid ymddengys fod yr arwynebedd presenol yn rhoddi un lle i gasglu ddarfod. Gellir ystyried wrth hyn nad ydys i dybied mai dibarch neu anenwog y personau y perthyna iddynt y gweddillion llosgedig ag a ddichon gael eu darganfod mewn tyllau o'r fath, pe heb hyd yn nod na charnedd na thomen i'w hanrhydeddu. Ac hefyd ymddengys oddiwrth yr hen linellau canlynol yn Englynion y Beddau, fod pobl barchus neu enwog yn cael eu claddu weithiau heb nemawr o addurniadau ar eu beddau, canys dywedir :—

"Y BEDDEU yny morua
Ys bychan ay haelewy.
Y mae sanauc syberw vun

---

* Iolo MSS., t. 5.

† Myf. Arch., ail arg., t. 493. ‡ Chron. of the Kings of Brit., t. 124. Myf. Arch. ail arg., t. 524 a 584.

Y mae run ryuel aswy.
Y mae aerrwen verch hennin
Y mae lledin allywy."

Y mae yn rhy anhawdd penderfynu pa bryd y llwyr roddwyd heibio gladdu yn anrhydeddus o dan grugiau neu garneddau, pa un bynag ai wedi ai heb losgi y cyrff. Ond y mae yn ddiameu y gwnelid y naill a'r llall ar ol dechreu claddu yn y llanau a'r mynwentydd perthynol, ac ymddengys y bu y gwahanol arferiadau hyn yn cydredeg â'u gilydd am hirfaith amser—ganrifoedd rai. Ond tebygol y dechreuodd yr arferiad o gladdu fel hyn dan grugiau a llosgi y corff â cholli ei rym gan gofleidwyr Cristionogaeth yn fuan wedi i'r efengyl ddyfod i gael ei derbyn yn yr ynys, a'u bod yn prysur fyned o fri ymysg y Cymry tua diwedd y chweched ganrif. Ac ymddengys fod yr arferiad o losgi y meirw ar gael ei llwyr roddi heibio yn eu plith, os nad wedi cael, oddeutu diwedd yr unrhyw ganrif. Ymddengys oddiwrth y llinellau dilynol gan Llywarch Hen * ddarfod i Sawyl, un o feibion yr hen fardd hwn, gael ei gladdu yn Eglwys Llangollen, ac i ddau arall o'i feibion, sef Gwell a Llafyr, gael eu claddu yn y maes agored :—

"Bedd Gwell yn y Rhiwfelen
Bedd Sawyl yn Llan Gollen
Gwarcheidw Llavyr Bwlch Llorien."

Cwympodd pedwar mab ar hugain Llywarch Hen yn flaenorol i farwolaeth eu tad, a thybir iddo ef farw tua chanol y seithfed ganrif. Ceir cyfeiriad at gladdu trwy losgiad yn y dyfyniadau canlynol o wahanol ddulliau, fel yr ymddengys, o'r un Trioedd, y naill yn darllen fel hyn: —"Yr eil Marchlwyth a dduc Cornan march meibion Elifer Gosgorddfawr, a ddwg Gwrgi a Pheredur arnaw a Dunawt uwr a Chynfelyn Drwscyl y edrych ar fygedorth Gwenddoleu yn Arderydd."†

Ond y darlleniad arall a ddywed: "ar eil Marchlwyth aduc Cornann March meibion Eliffer gosgortuawr, a duc Gwrgi a Pheredur arnaw. ac nys gordiuedawd neb namyn Dinogat vab Kynan Garwyn yar y Kethin kyflym ac aruidiawt. ag aglot a gauas yr hynny hyd

* O barth Llywarch Hen, sylwa rhyw ysgrifenydd yn y Gwyddoniadur yn dra hyderus nad yw y caniadau a briodolir iddo namyn casgliadau rhyw fardd o'r 15fed ganrif y fan bellaf; a theifl amheuaeth hyd yn nod ar fodolaeth Llywarch Hen y chweched ganrif o gwbl. Ond nid ystyriwyd yn briodol yma beidio dilyn yr hen syniad.

† Myf, Arch., ail arg., t. 394.

Digitized by Google

hediw. a Dunawd wr vab Pabo, a Chynvelyn drwscyl y edrych ar vygedorth llu Gwendoleu yn Arderydd."* Darlleniad arall, pa un sydd yn nghodreu y ddalen, a red fel hyn, "Ar eil marchlwyth fu Goron march meibion. Oliffer Gosgorddfawr, a ddug Gwrgi a Pheredur a Dunod vurr a Chynfelyn Drwscl, i edrych mygedorth Gwenddole."† Cwympodd y penaeth Gwenddoleu yn mrwydr Arderydd, yr hon a ymladdwyd yn y flwyddyn 573. Ac ymddengys oddiwrth y darlleniad blaenaf a'r olaf ddarfod i'w gorff gael ei losgi. Ond ni chyfeirir yn y llall at pa beth a wnawd iddo ef, eithr ceir cyfeiriad at "vygedorth" neu goelcerth angladdol ei "lu," a gwympodd yn yr unrhyw frwydr.

Ymddengys na losgwyd Cynddylan ab Cyndrwyn, yr hwn a gwympodd yn yr haner olaf o'r unrhyw ganrif, ac hefyd ddarfod ei gladdu mewn ysgrin, yn ol fel y gellir casglu oddiwrth y llinellau dilynol o'i farwnad gan Llywarch Hen:—

"Gan vy nghalon i mor dru,
Cyssylltu ystyllod du,
Gwyn-gnawd Cynddylan cynran can llu!"

Hefyd, ymddengys oddiwrth ddefnyddiad y dynodiant "gelain veinwen" yn y llinellau dilynol, dyfynedig o farwnad Urien ab Cynfarch, neu Urien Rheged, gan Llywarch Hen, ddarfod i'r penaeth hwn gael ei gladdu heb y ddefod losgol. Cwympodd yn y rhan olaf o'r chweched ganrif, a hyny, yn ol a osodir allan, trwy law dau o lawruddion a anogwyd i'r gwaith melldigaid gan Morgant, o eiddigedd ato oherwydd ei dalent uwch a'i ragoriaeth fel milwr. Ond dyma'r llinellau:—

"Y gelain veinwen a oloir heddiw,
A dan bridd a main—
Gwae vy llaw, lladd tâd Owain!

Y gelain veinwen a oloir heddiw,
Ynmhlith pridd a derw—
Gwae vy llaw, lladd fy nghefnderw!

Y gelain veinwen a oloir heno,
A dan vain ai dewid
Gwae vy llaw, llam rym tyngid!

---

* Eto 396.
† Hefyd 414.

Y gelain veinwen a oloir heno
Ynmhlith pridd a thywarch :--
Gwae vy llaw, lladd mab Cynvach !

Y gelain veinwen a oloir heddiw
Dan weryd ac arwydd :—
Gwae vy llaw, lladd vy arglwydd !

Y gelain veinwen a oloir heddiw
A dan bridd a thywawd :
Gwae vy llaw, llam rym daerawd !

Y gelain veinwen a oloir heddiw,
A dan bridd a main glâs :—
Gwae vy llaw, llam rym gallas !

Y gelain veinwen a oloir heddiw,
A dan bridd a dynad :—
Gwae fy llaw, llam rym gallad !' *

---

* **The Heroic Elegies........of Llywarch Hen, with Lit., trans. gan William Owen (sef y Dr. Wm. O. Pughe wedi hyny), tud. 28—30.**

Digitized by Google

# PLWYF DOLGELLAU.

Y MAE plwyf Dolgellau mewn rhan yn gorwedd ar bob ochr i'r afon Wnion (Wynion?), ond gan mwyaf ar y tu deheuol a de-ddwyrain iddi. A chynwys o fewn ei derfynau gyfran helaeth o fynydd arddunol Cadair Idris. Cynwysai ei boblogaeth yn y flwyddyn 1881, adeg y cyfrifiad diweddaf, 3963 o rifedi. Nid yw y plwyf hwn mwy nag amryw blwyfydd eraill, yn cael ei enw oddiwrth ei Eglwys berthynol,—Eglwys y Plwyf, sef Llan Fair Bryn Meurig, ond yn hytrach oddiwrth yr hyn a elwid ar y pryd, neu a gyn-alwyd yn Ddol Gellau. Ac er bod yr Eglwys hon yn cael ei galw yn gyffredin yn Eglwys Dolgellau ar lafar gwlad, nid oes dim a fyno Dolgellau fel enw lleol â Llan Fair Bryn Meurig. Y mae yn cael ei galw yn Eglwys Dolgellau yn herwydd ei pherthynas safleol â thref Dolgellau yn nghwr pa un y saif.

Gorwedda ystyr neu darddiad y rhan olaf o'r enw Dolgellau mewn gormod o dywyllwch i allel penderfynu yn ei gylch. Ond ymddengys y saif tref Dol Gellau yn nghymydogaeth os nad mewn rhan ar y ddol a elwid Dol Gellau neu Dol Gelli. Eithr erbyn hyn, nis gellir dweyd dim yn benodol o barth ei maintioli a'i safle. Yr ydoedd gynt, yn ol a ddywedir, lain fechan o dir yn ngwely yr afon Wnion, yr ochr ddeheuol iddi, ac yn ymyl y Bont Fawr, y tu uchaf iddi, yn cael ei galw Dolgellau. A oedd y dernyn bychan hwn yn weddill o'r wir Ddol Gellau ai nad oedd, nis gellir dywedyd. Canys dichon mai dychymyg ysmala rhyw un neu gilydd a barodd iddi gael ei galw felly. Ac feallai mai oddiwrth fod ei safle fel hyn yn ngwely yr afon y daeth y dywediad canlynol i gael ei arferyd:—

> "Dol Gellau dol a gollir
> Daiar a'i llwnc dwr yn ei lle."

Digitized by Google

Ond gan yr adroddir y ddwy linell ganlynol mewn perthynas i Gaerfyrddin, tebygol i'r naill gael eu cymeryd mewn ystyr oddiwrth y lleill, pa rai bynag o honynt a feddant yr anrhydedd i fod yn hynaf. Yr un pryd, gall eu bod yn gwbl annibynol ar eu gilydd. Y llinellau crybwylledig ydynt:—

"Caerfyrddin cei oer fore,
Daiar a'th lwnc, daw dwr i'th le."

Ysgrifena un * ddarfod achlysuro y llinellau o barth Dolgellau trwy i Robin Ddu y dewin ddywedyd wrth gydymaith o frodor o'r dref hon, pan yn myned tros y Garneddwen i'r Bala, yr elai llong yn ei llawn hwyliau dros y bwlch hwnw. Felly yr oedd yn ddigon amlwg os codai y dwfr dros y Garneddwen y byddai yn sicr o orchuddio Dolgellau.

O barth y rhan gyntaf o'r enw Dol Gellau, ymddengys mai yr hyn sydd i'w olygu wrtho yn y cysylltiad hwn ydyw maesdir gwastad neu led wastad mewn glyn, dyffryn, neu gwm, neu lawrbant. Ond nis gellir gymaint a phenderfynu beth oedd priod-ddull cyntefig y rhan olaf o'r enw. Eithr y mae y geiriau neu yr enwau *celli* a *cuelli* i'w cael yn ngwaith un o'r hen feirdd Cymreig. Ac yn ddilynol, ceir y llinell a gynwys yr enw blaenaf yn llawn, a'r un a gynwys y llall, felly mewn rhan:—

"Pan colled kelli.
† Caffad cuelli."

Ymddengys y golygir yn y cyfieithiad Saesneg o'r llinellau hyn yn llyfr Skene ‡ mai enwau o ryw fath a olygir wrth y celli a cuelli y bardd. Y mae amaethdy yn mhlwyf Llanwrin o'r enw Cwmcelli. Ond feallai nad ydyw y dynodiant Celli a geir arno ond enw personol rhyw un neu gilydd gynt, a roddwyd i ddechreu ar y cwm. Canys ceir cymoedd yn cael eu galw ar enwau personol. Eithr pe mai geiriau cyffredin, megis, ydynt, celli a'r cuelli dan sylw, gall y golyga y cyntaf gysgodfa, a'r llall ffyrnigrwydd neu echrysder. Ond hwyrach mai enwau personol neu leol ydynt yn y llinellau crybwylledig.

Dichon mai oddiwrth celli, gan olygu coedwig, llwyn, nen wyddgell, y tardd y rhan olaf o'r enw Dolgellau. Ac os felly, Dolgelli yw y ffurf briodol o'i ysgrifenu. O'r tu arall, feallai mai *cellau* yn syml a

* Bye-gones am Hydref, 1880.
† Four Ancient Books of Wales, Skene, cyf. ii., t. 51.
‡ Cyf. i., t. 262.

Digitized by Google

olygir, heb unrhyw gyfeiriad at eu defnydd, sef bwthynod neu anedd-au o ryw fath. Ac os hyn sydd gywir, Dolgellau ydyw y modd y dylid ei ysgrifenu. Y dull ei hysgrifenir yn niwedd y cred-lythyr a arwyddwyd gan Ywain Glyndwr, yn Nolgellau, yn y flwyddyn 1404, ydyw *Doelguelli*. Ond dichon mai ffurf Ladinaidd ar Dolgelli ydyw hyn, o leiaf, yn yr iaith hono yr ysgrifenwyd y cred-lythyr. Ceir ei fod wedi ei lythyrenu yn *Dolgelle* mewn dyfyniad o hen lyfr Madog ab Llywelyn ab Hywel, Ysw., yn yr Ach-lyfr gan Lewis Dwnn.

Mae Dolgellau yn cael cyfeirio ati mewn cyfnod lled foreu yn yr Ach-lyfr a nodwyd. Canys nodir ynddo fod Sandde, yr hwn y mae'n debygol oedd yn byw tua'r seithfed neu'r wythfed ganrif, yn ar-glwydd "castell Beer & Dolgelley," (ai castell y Bera ger Llan-fihangel y Pennant tybed?) Nid yw hyn, pa fodd bynag, yn penderfynu pa un a oedd ai nad oedd yma aneddau yr amser hwnw. Ond mwy tebygol fod ar y pryd gymaint ag un anedd o leiaf yn sefyll yn rhywle tua safle y ddol—Dolgellau. A thebygol fod rhyw gyfran o'r wlad gymydogol yn perthyn i'r arglwyddiaeth. Dygir y lle i sylw yn yr un Ach-lyfr mewn cysylltiad ag adeg ddiweddarach, ond un sydd er hyny yn lled bell yn ol. Canys nodir fod Ednywain ab Bradwen yn arglwydd Dolgellau, yr hwn a oesai yn yr unfed ganrif ar ddeg neu'r ddeuddegfed, ac ydoedd un o Bymtheg Llwyth Gwynedd.

Y cyfeiriad nesaf at y fan ydys yn feddu ydyw yn nheyrnasiad Edward I., neu II.,—y cyntaf tebygol. Y pryd hwn ceir fod yn ddyledus i'r goron oddiwrth ddalwyr tiroedd yn ardal Dolgellau yr ardrethoedd dilynol:—"Oddiwrth wriogaethwyr (villanis) pentref Dolgellau dros hiliogaeth eu buchod 30s. Oddiwrth yr unrhyw wr-iogaethwyr yn lle cludiad 8c. Oddiwrth ddeg o amaethwyr o dan y dywededig wriogaethwyr Dolgellau yn lle eu llafur 7s. 4c. Oddiwrth yr unrhyw yn lle 7 crynog? (*crannocis*) o flawd 14s. Ac oddiwrth yr unrhyw am hiliogaeth eu buchod 6s. ac 8c."* Yn y bedwerydd ganrif ar ddeg, cymerodd digwyddiad angeuol le yn Nolgellau, trwy i'r bardd Gruffydd ab Adda ab Dafydd gael ei ladd yma. Ac y mae yn ymddangos oddiwrth y ddwy fraich flaenaf o'r llinellau canlynol, dyfynedig o'i gywydd marwnad gan Dafydd ab Gwilym, iddo gael ei gladdu yn Eglwys Dolgellau. Ymddengys hefyd oddiwrth rai o honynt, iddo gyfarfod â'i angau trwy law câr iddo pan ydoedd yn ŵr ieuanc; a hyny o ergyd cledd fel y dengys y llinell

* Camb. Arch., 3rd ser., cyf. xii., neu xiii., t. 184.

Digitized by Google

"Cyn lladd dewrwas a glas gledd."

dyfynedig o ran arall o'r cywydd. A cheir cyfeiriad i'r un ystyr yn nghorff y llinellau dilynol, crybwylledig eisoes:—

"Gruffydd Adda ab Dafydd,
Ynghôr Dolgelle sy' ngudd.
Dyrys i'w gâr ei daraw,
Dewr o lid a dur i'w law;
Trwy fanwallt y gwalch balchlin,
Och fi! fu awch ei fin.
Arf a roes eirioes orofn,
Ar fy mrawd gelfydd-dawd ddofn.
Tra awch ei gledd pand truan?
Trwy felynflew dyn glew glân.
Toriad fal lladdiad a llif,
T'rawiad hagr trwy iad digrif.
Dig wyf un doriad a gwydd,
Deuddryll heb ddim gwladeiddrwydd.
Dau ruddliw angel melyn,
Diriaid oedd daraw y dyn."

Nid ydys yn gallu nodi yr amser y dechreuwyd galw yr aneddau a elwid Dolgellau yn dref. Mewn cysylltiad â'r ardrethion y cyfeiriwyd atynt, dygir y fan i sylw dan y dynodiant pentref. Yn Nghoflyfr * Caernarfon, mewn cysylltiad âg amser Edward III., dynodir y fan fel pentref—*villa de Dolgethely*. Ond y mae Cambden, yr hwn a aned yn y flwyddyn 1551, yn ei dwyn i sylw fel tref—tref farchnad fechan. Diameu mai at Ddolgellau y cyfeirir dan yr enw tref yn achlin Lewis Ywain, y Barwn, mewn cysylltiad â Meurig ab Ieuan y dref, neu âg Ieuan y dref, yr olaf o ba rai a oesai ryw dair cenhedlaeth cyn geni Cambden. A nodir yn fanwl yn Hanes Pywis † gan Mr. Lloyd, Clochfaen, mai dyna'r dref a olygir lle y rhydd y mynegiad "Meurig ab Ieuan y Dref Dolgelli." Ond Leland, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 1552, sef yr un ddilynol i'r hon y ganed Cambden ynddi, ai dynoda fel pentref eithr fel yr un goreu yn Nghwmwd Talybont. Eithr cyfeirir ati fel tref gan Gruffydd Nanau, yr hwn a gynrychiolai Sir Feirionydd fel aelod seneddol yn y flwyddyn 1593.

* **Record of Caernarvon, neu Public Records, t. 142.**

† **History of Powys, Fadog, cyf. iv., t. 284—5.**

Digitized by Google

Ceir yn awr ddwyn i sylw Gred-lythyr y penaeth galluog a'r gwladgarwr aiddgar Ywain Glyndwr, dyddiedig yn Nolgellau y degfed o Fai, yn y flwyddyn 1404. Ei amcan ydoedd cael cyngrair ffurfiedig rhyngddo â brenin Ffrainc, a dangosa ynddo fod awdurdod gan ei berthynasau anrhydeddus, Gruffydd Yonge, ei ganghellydd, Archddiacon Meirionydd, a John Hangmer i'w ddwyn i ben, ac hyd yn nod i'w gwblhau gan un o honynt ar wahân os byddai achos yn gofyn. Neu yn mhellach, pe byddai angen arnynt am awdurdod neillduol y gallai ei roddi os byddai yn ymyryd yn bersonol. Llwyddwyd yn yr amcan, a gwnaed cytundeb rhyngddynt, yr hwn a arwyddwyd yn Mharis yn mis Mehefin yr unrhyw flwyddyn, ac a gadarnhawyd gan Ywain Glyndwr yn Ionawr y flwyddyn ddilynol--1405. Noda * un awdwr i'r Ffrancod roddi peth cynorthwy yn ddiameu i Ywain mor gynar ag Ionawr neu Ebrill, 1404. Ymddengys mai tua diwedd Mehefin, neu yn niwedd Gorphenaf y flwyddyn 1405, yr anfonwyd y cynorthwyon o honynt yn ngrym y cytundeb a nodwyd. Rhed cyfieithiad o'r Cred-lythyr crybwylledig fel y canlyn :—

"Gweithred ymdriniol Ywain Glyndwr am Gyngrair gyda Brenin y Ffrancod.

"Ywain, trwy râs Duw, Tywysog Cymru, yn anfon anerch i bawb a wel y llythyr hwn.

"Gwybydder fel oherwydd yr hoffedd a'r cariad cywir ag y mae yr enwocaf Dywysog, arglwydd Charles, trwy yr unrhyw râs Duw, Brenin Ffrainc, wedi ei ddal hyd yn hyn tuag atom ni a'n deiliaid, a thrwy y ffafrau y mae yn ddangos i ni yn ddyddiol; yr ydym yn dymuno glynu wrtho, ac wrth ei lesiant cyn belled ag yr ydys yn ein dal wrthynt trwy ei gymwynasau i ni.

"Ac am hyny, trwy y gwyddfodolion hyn, yr ydym yn gwneyd, sefydlu, a phenodi Meistr Yonge, [Doethawr mewn cyfreithiau, ein canghellydd], a John Hangmer, [ein huchel gariadus berthynasau] yn ymdrinwyr gwirioneddol a chyfreithlon, trefnwyr, dirprwywyr, a negeseuwyr neillduol,

"Yn rhoddi a chaniatau i'n dywededig ddirprwywyr ac i bob un o honynt, yn wahanedig ac yn unedig, allu cyffredinol ac awdurdod arbenig [nid yw hyn fel y gallai fod gwell moddion i dwyllo, ond fod i'r hyn fyddai wedi ei ddechreu gan yr un, ar fod gan y llall hawl i'w gwblhau] i weithredu cydrhwng ac i orphen trosom ni ac yn ein

* **Cymmrodorion Transactions, 4yd 1 ran, t. 317.**

Digitized by Google

henw achosion cysylltiedig gyda'r Cyngrair hir-barhaol neu amserol, yr hyn sydd i gael ei drafod gyda'r dywededig enwocaf dywysog,

"Ac i ddechreu, gwneuthur a chadarnhau yr unrhyw Gyngrair ar ein rhan,

"Heblaw hyn i gymeryd yn ein henw ba lŵ cyfreithlon bynag fydd yn angenrheidiol yn y cymeriad hwn,

"I gyflunio, rhwymo gweithredoedd a berthyn i gyngrair o fath hwn,

"Ac i geisio a derbyn pa sicrwydd bynag arall a fydd yn angenrheidiol yn yr achos yna i'w wneyd tuag atom ni gan y dywededig enwocaf dywysog, arglwydd Charles, trwy râs Duw, brenin y Ffrancod,

"Ac i gyflawni a gwneuthur yr holl bethau eraill a phob peth neillduol, yr hyn a ddichon fod yn angenrheidiol yn ac oddeutu y gwrthddrychau a grybwyllwyd o'r blaen, neu mewn unrhyw fodd yn gyfleus, hyd yn nod pe byddai raid iddynt wrth awdurdod neillduol yr hyn allem wneyd ein hunain pe byddem yn ymyryd yn bersonol mewn Cytundeb o fath hwn.

"Yn mhellach, yr ydym yn addaw, o dan sicrwydd a rhwymyn ein holl ddeiliaid daionus, a thrwy y gwyddfodolion hyn, yn cyhoeddi rhybudd, fod yr hyn a benderfynwyd gan y dywededig ddirprwywyr yn cael ei ystyried yn sefydledig ac yn rhwymol.

"Yn dyst o'r hyn beth yr ydym wedi achosi i'r llythyr hwn gael ei gyhoeddi.

"Dyddiwyd yn Nolgellau ar y degfed dydd o fis Mai, yn mlwyddyn ein Harglwydd un fil pedwar cant a phedair, ac yn y bedwaredd flwyddyn o'n llywiad ninau."*

Nid yw yn annhebyg i Ywain Glyndwr fod yn Nolgellau neu'r gymydogaeth ryw dair blynedd yn flaenorol i ddyddiad y llythyr hwn. O leiaf, ymddengys oddiwrth y llythyr canlynol o eiddo Henry Percy, yr hwn a elwir Hotspur, y cyflawnwyd gweithredoedd o'i blaid yn y cyffiniau gan foreued a hyny neu foreuach. Ac y mae yn ymddangos mai gweithredoedd o niwed i'w wrthwynebwyr oeddynt, neu o ddinystr rhag i'w elynion gael mantais yn eu cad-gyrchoedd. Ysgrifen-

* Rymer Foedera, etc., Ton. 8, 1397—1413, t. 356.

wyd y llythyr yn y Ffrancaeg Normanaidd, a chafodd ei ddyddio yn Ninbych y 4ydd o Fehefin, 1401. Rhed ei gynwys yn ol yr ystyr a ganlyn:—

"Fy ngwir barchedig dadau yn Nuw, a'm gwir anrhydeddus, a'm gwir anwyl Bendefigion, yr wyf yn cyflwyno fy hun i'ch sylw, ac yr wyf yn disgwyl newyddion oddiwrthych trwy law y dygiedydd, os gwelwch yn dda, sef ddarfod i mi ysgrifenu llythyrau atoch er's dim llawer er sicrhau trwy fy nhra anwyl James Strangways y newyddion mewn perthynas i helynt y wlad hono; ond wedi ei ymadawiad yr wyf yn gweled mwy o ysbeiliad a niwed yn y wlad nag yr oeddwn yn wybyddus ar y pryd, ac os na chyraedd rhyw ddaioni ac ymwared buan ar fôr yn gystal ag ar dir, y mae yr holl wlad mewn mawr berygl o gael ei distrywio yn ddiamheuol gan wrthryfelwyr os gadawaf y wlad hon cyn i'm gorchymynion gyrhaeddyd i'r amcan hwn, yr hyn sydd i mi yn llwybr angenrheidiol oherwydd nis gallaf ddwyn gyda mi y gosgorddau hyn heb orchymynion eraill oddiwrthych. Ac mewn perthynas i'r hyn a wnawd gan fy nhra anrhydeddus ewythr a'r personau eraill yn ei fintai, gobeithiaf.... ddarfod iddo gadarnhau i chwi fy nghadwaith yn y cythrwfl hwn ar dir a môr, a chan fy milwyr taledig allan o'm côd fy hun, ac ynghylch y daith a wnes y 30ain dydd o Fai o'r Aran i Gadair Idris i Dduw bo'r diolch, yr oedd dygiedydd y rhai'n yn bresenol (John Irby) gyda mi, a thystiolaetha efe i chwi yr hyn a welodd y pryd hwnw yn ogystal ag am y weithred a gyflawnais a'r ymchwiliad a wnaethum hyd yn nod tuhwnt i'm gallu ynghylch y niwed sydd yma, ac mewn perthynas i'r cynorthwy gadawedig i mi i'r daith hono. Yr oedd Mr. Hugh Browe gyda mi a 12 o bicellwyr a 100 o fwawyr perthynol i'm tra anrhydeddus gefnder, yr Iarll Arundel, heb unrhyw gymorth arall oddiwrth neb pwy bynag, ond ar fy nhraül fy hun, a thrwy y gorchymynion dywededig hyn, fel ag y dichon ymddangos i chwi, cymerwch ofal am benodi i'r wlad hon, oblegid nid ydwyf yn disgwyl am eich atebiad yma, a'ch dymuniadau trwy y dywededig James Strangways ynghylch achosion a enwyd eisoes. Ar y llaw arall, cofiwch a gwybyddwch i'm dderbyn newyddion hyd yn nod heddyw oddiwrth arglwydd Pywys (modd y darfu iddo ef) ymladd âg Ywain Glyndwr, a'i guro, ac archolli amryw o'i wŷr ar ei daith, ac oddiwrth fy nhra anrhydeddus ewythr, pa fodd y darfu iddo fy nghryfhau i, am yr hyn yr wyf yn diolch i Dduw, ac hefyd cefais newyddion heddyw oddiwrth fy ngwŷr, y rhai a orchymynais i'r môr pa fodd y cymerasant.... wrth Enlli, y rhai a gymerwyd gan y Saeson a'r Ysgotiaid, a pha fodd y maent yn myned i ymlid llong o Escoc (Yscotland?) hyd oror Aberdaugleddyf, a chymerant y llong

Digitized by Google

hono yn hawdd gyda 35 o wŷr, am yr hyn yr wyf yn diolch i Dduw. Fy ngwir barchedig dadau yn Nuw, a'm gwir anrhydeddus ac anwyl bendefigion, pethau eraill nid wyf yn hysbys yn awr, ond yr wyf yn gweddio Duw ar fod iddo eich cymeryd o dan ei ofal mwyaf cysegredig. Ysgrifenwyd yn Ninbych y 4ydd dydd o Fehefin.*

"HENRY PERCY."

Dywedir i Ywain Glyndwr fod yn cynal ei senedd yn Nghwrt Plas yn Dre, neu Plas yn Dre. Ond mewn perthynas i'r ddau enw hyn, diameu mai yr olaf sydd gywir ar yr hen dŷ, ac nad ydyw Cwrt Plas yn Dre namyn enw benthyciol, ac wedi ei gymeryd, tebygol, oddiwrth y buarth a'r tai yn ei gefn. Dywed Mr. Wynne o Beniarth, dan ei lythyren arwydd W.,† y gwyddai am Ddolgellau er ei faboed, ac na chlywodd erioed hyd y blynyddoedd diweddar ei alw wrth yr un enw amgen na Chwrt Plas yn Dre. Ond ni ddywed nas gall y safai yr adeilad lle y dywedir y cadwodd Ywain Glyndwr yn ystod ei wrthryfel yr hyn a elwir ei senedd ar y fan y safai Cwrt Plas yn Dre. Ond dywed rhai o drigolion hynaf Dolgellau neu'r cyffiniau nad oeddynt yn cofio adeg na fyddai yn cael ei alw ar droion yn Senedddy Ywain Glyndwr, neu i fod yn fanwl, ar yr enw Saesneg cyfystyr.

Ystyria Mr. Wynne nad ydoedd yr hen dŷ dan sylw yn foreuach nag amser Philip a Mari, sef yn yr unfed ganrif ar bymtheg, os oedd gan hyned. Ond dywedir am dano gan Mr. A. B. Phipson, cynllunydd:—"Y rhan fwyaf addurnol yw y gwaith coed gyda'r drws a'r capan ceugom a'r pedrynau lliain-gynllun ar y pen eithaf wrth y llythyrdŷ, arddengys hwn ddyddiad heb fod yn foreuach nag yn ddiweddar yn y bymthegfed ganrif, ond y mae mor wahanol mewn nodweddiad a gwneuthuriad oddiwrth yr holl ranau arhosol eraill, fel y credaf fod y tŷ ei hun o ddyddiad boreuach, tebygol, o ganol neu ran ddiweddarach o'r bedwaredd ganrif ar ddeg."

Y mae yn ymddangos nad oedd yr un Senedd-dy penodol yn Nghymru yn amser gwrthryfel Ywain Glyndwr o gwbl, ond y cedwid cynghorau mewn gwahanol fanau yn ol yr amgylchiadau. Ond nid yw hyn yn milwrio yn erbyn y gall y gelwid rhai o'r manau hyny yn Seneddau. A dichon y buwyd yn ymgynull i un neu rai o'r cyfryw leoedd ar wahanol adegau am gryn amser i gynal cynghorau. A chan ddarfod

* Nicholas Proceedings & Ordinances of the Privy Council Cyf. i., t. 652—3.

† Yn y Bye-gones am y flwyddyn 1875. Tud. 229. Bu farw Mr. Wynne yn 1880 yn 79 oed.

Digitized by Google

i Ywain Glyndwr ddyddio ei Gred-lythyr crybwylledig o Ddolgellau, gellir tybio y cynhaliodd gyngor yn rhywle neu gilydd yn y dref, ond pa un ai yn Mhlas yn Dre, neu tua'i safle, ai yn rhyw fan arall sydd erbyn hyn yn rhy anhawdd mynegu. Ond gan nas gellir, fel yr ymddengys, olrhain yr enwad Senedd-dy Ywain Glyndwr ar yr hen dŷ dan sylw lawer pellach yn ol na dechreu y ganrif bresenol, hwyrach mai cymharol ddiweddar oedd yr enw hwn arno. Modd bynag, y mae wedi ei dynu * i lawr, a maelfa ac anedd-dy cysylltiol wedi eu codi ar ei safle.

* Dechreuwyd ei dynu i lawr yn y flwyddyn 1881.



Digitized by Google

## ADEILADAU.

YR adeilad y ceir ei ddwyn i sylw gyntaf o dan y penawd hwn ydyw yr Eglwys—Eglwys Dolgellau, neu yn ol ei henw arbenig Llan Fair Bryn Meurig. Yr ydys yn ei galw fel hyn mewn rhan am ei bod wedi ei chysegru i Mair; ac mewn rhan hefyd, oherwydd y saif ar ymgodiad o'r enw Bryn Meurig. A thebygol i'w safle gael ei alw felly oddiwrth Meurig ab Ynyr Fychan, y pumed mewn disgyniad o Cadwgan, arglwydd Nanau. Canys y mae maen-gerflun beddrodol mewn gwisg filwrol yn cynrychioli y gwr hwn yn gorwedd ar waelod y ffenestr ogleddol agosaf i'r gangell yn yr Eglwys hon, ac yn gerfiedig ar ei darian y geiriau "Hic jacet, Meuric filius Ynyr Vychan." Yr oedd y beddfaen hwn unwaith yn aros o dan fwa yn mur gogleddol y gangell, ond a symudwyd i'w orweddle bresenol yn y flwyddyn 1872. Ac adeiladwyd mur y gangell tua'r flwyddyn 1716, am a thros y fan lle yr arosai o dan fwa yn y fynwent y tuallan i'r Eglwys.

Dywed Cambden, yr hwn a oesai rhwng y blynyddoedd 1551 a 1623, am yr adeilad eglwysig oedd yma yn ei amser ef, fod y tu allanol iddo yn edrych yn weddus, eithr nad ydoedd y tu mewn ond ychydig gwell nag ysgubor fawr, ei do yn cael ei gynal gan ddwy res o bolion derw geirwon, a brwyn yn daenedig dros ei lawr pridd, fel y rhan fwyaf o'r Eglwysydd Cymreig. Cynhelir gortho yr Eglwys bresenol hefyd gan ddwy res o byst derw, yn cynwys pedwar post ymhob rhes.

Uwchlaw y fynedfa i'r Eglwys, y mae y darlleniad canlynol wedi ei dori ar lechfaen gosodedig ar y mur y tuallan iddo:—

"Yr eglwys hon a adeiladwyd 1716 ac a adgyweiriwyd 1864.

Gwylia ar dy droed pan fyddech yn myned i dŷ Dduw a bydd barotach i wrando nag i roi aberth ffyliad. Preg. v. 1.

Digitized by Google

Anneddfawr sanctaidd noddfa—gorbreiniol
Ger bron Duw ar dyrfa;
Er dim na thyred yma,
Y dyn ond â meddwl da."

Yn osodedig ar ei hymyl, wrth fur yr Eglwys, y mae llechfaen a fu gynt yn sefyll uwchben porth yr Eglwys, man y saif yr un bresenol. Ond y mae ei chornel, a gynwysai amseriad adeiladiad yr Eglwys, wedi tori ymaith, ond diameu mai yr un ydoedd ag a nodwyd eisoes yn y dyfyniad oddiar y llechfaen arall. Ac heblaw yr englyn uchod, cynwysa yr hen lechfaen hon yr englyn canlynol yn gerfiedig odditano, eithr y mae ambell un o'i lythyrenau wedi myned yn annealladwy:—

"Awn i'w Borth a'n Aberthau—gwedd Dduwiol,
Gweddiwn ar liniau,
Am drugaredd breisgwedd brau
Yn un nod i'n eneidiau."

Dylasai y darlleniad sydd ar y llechfaen uwchben porth yr Eglwys fod yn helaethach nag ydyw, fel ag i ddangos y bu ar y man y saif yr Eglwys bresenol adeilad eglwysig arall yn flaenorol. Eithr nid ydoedd yr adeilad eglwysig hwnw o gymaint maintioli. Yr oedd llawr yr Eglwys bresenol yn gynwysedig unwaith o lechfeini, llawer o ba rai oeddynt geryg beddau. Ond yn awr y mae yn gynwysedig mewn rhan o briddfeini lliwiedig, ac mewn rhan hefyd o ystyllod. Cafodd ei gyflunio fel hyn tua'r flwyddyn 1856, a hyny ar uchaf yr hen lawr, eithr rhyngddynt gosodwyd gwely o galch a brâs-raian, ac o glygymrwd a graian. Adeiladwyd yr Eglwys bresenol mewn ystyr gan yr Archddiacon George Lewis, yr hwn a gladdwyd yn ei changell. A'r gŵr hwn a roddodd yn anrheg fwrdd yr allor, defnydd pa un sydd yn farmor du. Nid oes yr un lofft yn awr ar yr Eglwys, eithr bu un yn gyfleuedig ar ei thalcen gorllewinol, ond cafodd ei thynu ymaith yn y flwyddyn 1809.

Perthyna i'r Eglwys bresenol glochdŷ petryal, yn cynwys wyth o glychau, y rhai a osodwyd i fyny yn y flwyddyn 1809. Ymddengys mai un gloch a berthynai i'r Eglwys cyn dygiad y rhai hyn yma, a thorwyd hono pan ydoedd etifedd Caerynwch, mab y Prif Farwn Richard, yn dyfod i'w oed. Ac nid rhyfedd ei thori, canys heblaw ei chanu fel arferol, curid hi â throsolion. Dengys Fuller, yn ei lyfr argraffedig yn 1662, fod y gloch neu y clychau yn hongian wrth goeden ywen.

Digitized by Google

Perigloriaeth yw y fywoliaeth yn archddeoniaeth Meirionydd, ac yn esgobaeth Bangor, a than nawddogaeth y Goron; a nodir mai ei gwerth yn ol llyfr y brenin yw 13p. 1s. 8c. Y mae y degwm perthynol yn 500p., ond nid oedd dim tir yn gysylltiedig â'r fywoliaeth hyd nes y cauwyd y tir gwyllt yn y flwyddyn 1811, pryd y rhoddwyd ati 5 neu 6 o erwau, y rhai a werthwyd yn y flwyddyn 1668. Adeiladwyd y periglordŷ yn y flwyddyn 1873, ac y mae tuag erw a haner o dir yn gysylltiedig â'r tŷ.

Ond heblaw yr Eglwys hon y mae un arall hefyd yn y plwyf, set Eglwys Bryncoedifor,* yn ol fel yr ysgrifenir yr enw. Cafodd ei hagor yn y flwyddyn 1853. Mewn ystyr eglwysig, perthyna rhan o'r plwyf iddi, ond nid ydyw hyny yn effeithio dim ar ei raniad gwladol.

---

## TY CYFARFOD.

Yr adeilad y cyfeirir ato yn y fan hon wrth yr enw Tŷ Cyfarfod sydd anedd-dy preswyliedig, a'i safle yn y dref—Dolgellau. Ond y mae yn y plwyf adeilad arall, a elwid gynt Tŷ Cyfarfod, ac a adnabyddir felly eto. Eithr ei enw penodol yn awr mewn ystyr ydyw Capel Tabor, a pherthyna i'r Annibynwyr. Ond y mae yn cael ei alw mewn ymddiddan ar lafar gwlad â dynodiant cyfystyr i Gapel y Crynwyr, eithr y gair Saesneg am Grynwyr a arferir yn gyffredin pan gyfeirir ato felly. Perthyna yr enw Tŷ Cyfarfod i Gapel Tabor, yn herwydd y byddai y Cyfeillion neu y Crynwyr yn arfer ymgynull yno i gynal gwasanaeth crefyddol, ac o ran hyny gan yr enwad manwl grefyddol hwnw ei cyfodwyd. Ond am y Tŷ Cyfarfod yn nhref Dolgellau, fe'i gelwir ar yr enw hwn fel yr ymddengys oddiwrth waith yr Annibynwyr yn arfer ymgynull iddo i gynal moddion crefyddol, neu am yr ymgynullid ynddo i wrandaw pregethiad y Gair gan un yn arddelwi yr unrhyw enwad. Eithr yn gyffredinol, perthyna y dynodiant Tŷ Cyfarfod i adeiladau y cynhelid gwasanaeth crefyddol ynddynt gan Anghydffurfwyr.

Perthyna i'r Tŷ Cyfarfod yn Nolgellau gryn bwysigrwydd yn y cysylltiad hwn, oherwydd ei fod yn un o'r manau y byddai yr enwog Huw Owain, o Fronclydwr, a gyfenwir Apostol y Gogledd, yn arfer pregethu ynddynt pan ar ei deithiau cylchynol trwy ranau o'r wlad

---

* Ond ai dyna ystyr y Bryncydiwer neu Bryncydiwar llafar gwlad, nis gwn i.

Digitized by Google

bob oddeutu tri mis o amser. Ac y mae yn ymddangos iddo bregethu ynddo y waith gyntaf ryw dro o'r flwyddyn 1662 i tua diwedd y flwyddyn 1664. Ymddengys y bu John Owain ei fab hefyd yn pregethu yn y tŷ hwn. A dywedir am dano, yn Nghofiant* y Parch. John Roberts, o Lanbrynmair, ei fod "yn weinidog ieuanc o ddoniau gobeithiol a dwys ddifrifoldeb; a'r hwn a fu farw yn mlodau ei ddyddiau, Mehefin 27, 1700, oddeutu pymtheg mis ar ol ei dad, yn nhŷ taid yr enwog Job Orton, o'r Amwythig, er colled fawr i eglwys Dduw yn Ngogledd Cymru." Ymddengys hefyd i Mr. Edward Kenrick, mab-yn-nghyfraith yr ymroddgar Huw Owain, fod yn pregethu ynddo.

Bu y gŵr hwn farw yn y flwyddyn 1842. Ond er ei fod, yn ol a fynegir, "yn ddyn da iawn, nid yw yn ymddangos iddo fod yn weinidog mor llwyddianus a chymeradwy a'i ragflaenwyr ardderchog; modd bynag, rai blynyddau cyn ei farwolaeth..... Cafodd yr hyfrydwch o weled yr achos yn adfywio, a llawer yn cael eu hychwanegu at yr eglwys, yn benaf trwy weinidogaeth Mri. L. Rees a John Morgan, ynghyd â diwygwyr eraill o ddeheudir Cymru."

Ond er yr ymdrechion a wnaed gan y gwŷr da hyn, dichon nad oedd yma achos yn parhau gan yr Annibynwyr yn ddidòr yn y dref o'u hamser hwy hyd y pryd y sefydlwyd yr un presenol gan y diweddar Barch. Hugh Pugh, Brithdir. Er hyny, feallai y trigianai ynddi aelodau perthynol i'r enwad, ac y pregethid ambell dro o'i mewn gan rai o'r pregethwyr perthynol i'r unrhyw. Modd bynag, bu Mr. Griffiths, Caernarfon, gweinidog gyda'r Annibynwyr, yn pregethu ynddi yn y flwyddyn 1785,—adeg tra blinderus mewn cysylltiad â dechreuad y Trefnyddion Calfinaidd yn y dref.

Yr achlysur a barodd iddo bregethu yr adeg hon, o leiaf mewn rhan, oedd gwaith cyfreithiwr o Gaerlleon, ag a ddaethai i'r dref ar dro ar y pryd. Y gŵr hwn, wedi deall am y gwrthwynebiad ffyrnig a roddid i neb o'r Trefnyddion Calfinaidd i bregethu yr efengyl o'i mewn, ac yn ei chyffiniau, a aeth "i chwilio am rai o'r crefyddwyr, gan ymofyn â hwynt, a oedd yr un pregethwr yn y fan a'r lle a roddai gais ar bregethu." Wedi ymholi fel hyn, cafodd allan fod y gweinidog a nodwyd yn y dref, a'i fod yn foddlon i anturio pregethu. Ond yr anhawsder wedi hyn ydoedd cael tŷ iddo bregethu ynddo, ond boddlonodd un o'r enw Shôn Lewis i adael ei dŷ ef iddo at ei wasanaeth i'r diben hwnw. Eithr addefai i fath o gryndod ei gymeryd, "o'r mynyd cyntaf yr addawodd ei roddi hyd nes y dechreuwyd yr oedfa, trwy ganu y penill canlynol:—

* Tudalen 8.

Mewn coffin cul o bren caf fod,
Heb allu symud llaw na throed;
A'r corff yn llawn o bryfed byw,
A'm henaid bach lle myno Duw."

Yn ystod y gwasanaeth, cadwai y cyfreithiwr wyliadwriaeth o'r tu-allan, gan gerdded yn ol a blaen oddeutu drws y tŷ, ac anog y bobl i fyned i mewn. Hefyd, yr oedd wedi gosod ei was wrth y ddôr fel y gellid nodi yn fanwl y sawl a aflonyddai ar y cynulliad. Ond ni ddarfu i neb y tro hwn aflonyddu arno, a hyny, yn ol yr hanesydd, rhag ofn cyfraith Lloegr.*

Fel yr ydys wedi mynegu eisoes, gelwid yr adeiladau y cedwid moddion crefyddol ynddynt gan yr Anghydffurfwyr yn Dai Cyfarfod. Ac yn unol â hyn, dynodid y ddau fan y cyfeiriwyd atynt yn barod bob un wrth yr enw Tŷ Cyfarfod. Canys math o Anghydffurfwyr oeddynt y Cyfeillion neu y Crynwyr, a'r Annibynwyr, yr un modd ag eraill. Cyfeirir at gyfarfodydd perthynol i'r Anghydffurfwyr mewn deddf seneddol a wnaed yn y bymthegfed flwyddyn ar hugain o deyrnasiad y Frenhines Elizabeth. Ond nid oes ynddi, fel yr ymddengys, gyfeiriad penodol at Dai Cyrddau neu Dai Cyfarfod; er hyny diau y cymer i fewn gyfarfodydd a gynhelid yn anghydffurf â threfn osodedig Eglwys Loegr, pa un bynag ai eu cynhelid mewn tai ai yn yr awyr agored, neu pa le bynag. Ac ymddengys y cymerai i mewn yn ei deddfiad gyfarfodydd o'r fath, perthynol i'r Gwrthdystwyr a'r Pabyddion fel eu gilydd, cyhyd ag y cyrhaeddai terfynau ei hawdurdod.

Y mae y ddeddf hon gryn lawer yn foreuach na Deddf y Tŷ Cwrdd, fel ei gelwir, a thebygol yn llai adnabyddus. Perthyna i'w gosodiadau gryn hynodrwydd o'u dal ar gyfer y rhyddid crefyddol a fwynheir yn yr oes hon. A diameu y ceir sylw ar ei dechreu o'i gymhwyso at y Gwrthdystwyr ag sydd yn hollol anmhriodol. Ond rhoddwn ei chynwys yn ddilynol yma. Ei dynodiant yw—

Deddf i gadw Deiliaid ei Mawrhydi y Frenhines yn eu hufudddod dyladwy.

A rhed ei chynwys i'r ystyr a ganlyn:—

* "Methodistiaeth Cymru," cyf. I., t. 509, 10.

Digitized by Google

Er ataliad a gocheliad y cyfryw anghyfleusderau a pheryglon mawrion ag a ddichon ddigwydd a chodi trwy ymarferiadau drygionus ac enbydus gan ymbleidwyr terfysglyd a phersonau an-nheyrngarol; (2) Deddfer gan ei godidocaf fawrhydi y frenhines, a chan yr arglwyddi ysbrydol a thymhorol a'r cyffrediniaid, ymgynulledig yn y Senedd hon, a thrwy awdurdod yr unrhyw, Os bydd i unrhyw berson neu bersonau a fyddont uwchlaw un mlwydd ar bymtheg oed, ag a gyndyn omeddant fyned i unrhyw eglwys, capel neu le arferol Gweddi Gyffredin, i wrando gwasanaeth crefyddol sefydledig trwy gyfreithiau a deddfau ei mawrhydi parthed yr achos, a pheidio gwneyd hyny o fewn y mis a ddilynai nesaf heb unrhyw achos cyfreithlon, ac ar unrhyw amser ar ol y deugain niwrnod, nesaf wedi diweddu eisteddiad y Senedd bresenol a wnant trwy argraffu, ysgrifenu, neu draethu geiriau neu areithiau, arfer neu fyned oddiamgylch yn ystyriol neu o fwriad i anog neu ddarbwyllo neb o ddeiliaid ei Mawrhydi, neu unrhyw un arall o fewn tiriogaethau neu lywodraeth ei huchelder, i wadu, gwrthsefyll neu wrthwynebu awdurdod a gallu ei Mawrhydi mewn achosion eglwysig, unedig a chysylltiedig â choron ymerodrol y deyrnas hon; (3) neu i'r diben a'r amcan hwnw gynghori ac anog mewn drwg-fwriad neu ddarbwyllo unrhyw berson arall pwy bynag i beidio neu ymatal oddiwrth ddyfod i'r eglwys i glywed gwasanaeth crefyddol, neu i dderbyn y cymun yn unol â'r dywededig gyfreithiau a deddfau ei Mawrhydi, neu ddyfod i neu fod yn bresenol mewn unrhyw gynullfeydd, cyfarfodydd neu gymanfeydd, o dan rith neu esgus o unrhyw ymarferiadau crefyddol, croes i'r cyfreithiau a'r deddfau dywededig ei Mawrhydi; (4) Neu os bydd i unrhyw berson neu bersonau ag a gyndyn omeddant fyned i ryw eglwys, neu gapel neu le arferol Gweddi Gyffredin, gan beidio o fewn ystod mis o amser a gwrando gwasanaeth crefyddol, fel y rhag-ddywedwyd, naill ai o hono ei hun neu eu hunain, neu trwy gymhelliad, darbwylliad, hudoliaeth neu lithiad unrhyw un arall, ymuno ar ol y deugain niwrnod dywededig, yn wirfoddol â neu fod yn bresenol yn, unrhyw o'r cyfryw gynullfeydd, cyfarfodydd neu gymanfeydd, o dan rith neu esgus unrhyw o'r cyfryw ymarferiadau crefyddol, croes i gyfreithiau a deddfau y deyrnas hon, megis y rhag-ddywedwyd; (5) Yna bydd i bob cyfryw berson a droseddo felly, ac a gyfreithlon euog-fernir, gael ei draddodi i garchar, i aros yno heb feichiau na mechwys, hyd nes y cydymffurfiant ac yr ymostyngant i ddyfod i ryw eglwys, capel neu le arferol Gweddi Gyffredin, a gwrando gwasanaeth crefyddol, yn unol â'r rhag-ddywededig gyfreithiau a deddfau ei Mawrhydi, ac i wneuthur y cyfryw ymostyngiad a datganiad o'u dywededig gyd-ffurfiad, ag sydd ar ol hyn yn benodedig a datganedig yn y ddeddf hon.

Digitized by Google

II. Darparer yn wastad, a deddfer yn mhellach trwy'r awdurdod a rag-ddywedwyd, Os na fydd i unrhyw berson neu bersonau, a droseddont yn erbyn y ddeddf fel y rhag-ddywedwyd, o fewn y tri mis nesaf ar ol eu heuogfarnu o hyny gydymffurfio i ufudd-dod y cyfreithiau a deddfau y deyrnas hon, trwy ddyfod i'r eglwys i glywed gwasanaeth crefyddol, a gwneyd y cyfryw gyffesiad cyhoeddus ac ymostyngiad, ag sydd ar ol hyn yn benodedig a datganedig yn y ddeddf hon, cyd y byddont wedi eu rhybuddio neu wedi ceisio ganddynt hyny gan esgob yr esgobaeth, neu unrhyw Hedd Ynad o'r swydd ag y digwydd i'r unrhyw berson fod, neu gan y gweinidog neu is-beriglor y plwyf; fod i bob troseddwr ymhob achos o'r fath, wedi ei rybuddio a cheisio ganddo gan Ynad Heddwch lle y bydd y cyfryw droseddwr ar y pryd, dyngu ar ei lw ef a hwythau o flaen yr Hedd Ynadon yn Mrawdlysoedd Tri-misol agored yr unrhyw Swydd, neu yn Mrawdlysoedd a Charchar-drosglwyddiad yr unrhyw Swydd, o flaen Ynadon yr unrhyw Frawdlysoedd a Charchar-drosglwyddiad, i ymadael â'r deyrnas hon Lloegr, ac â phob tiriogaeth arall i'w Mawrhydi dros byth; (2) Ac ar hyny ymadael allan o'r deyrnas hon yn y cyfryw aber neu borthladd, ac o fewn y cyfryw amser, ag a osodir ac a benodir yn yr achos hwnw gan y dywededig Ynadon o flaen y rhai y gwneir y cyfryw dynghediad, oddigerth y bydd yr unrhyw droseddwr yn adawedig neu ataliedig trwy y cyfryw foddion neu achosion cyfreithlon a rhesymol, ag a ganiateir ac a addefir gan gyfreithiau cyffredin y deyrnas mewn achosion o dynghediad am gyflafan; ac yn y cyfryw achosion o adawiad neu ataliad, yna o fewn y cyfryw amser rhesymol a chyfleus wedi, a hawlia y gyfraith gyffredin mewn achos o dynghediad am gyflafan fel y rhag-ddywedwyd: (3) Ac fod i'r Hedd Ynadon o flaen pa rai y digwydd i'r cyfryw dynghediad gael ei wneuthur, fel y rhag-ddywedwyd, beri i'r unrhyw gael ei ddodi yn ebrwydd ar gof-lyfr ger eu bron, a gwirio yr unrhyw i Ynadon y Brawdlysoedd a Charchar-drosglwyddiad y ddywededig Swydd, yn y Brawdlysoedd nesaf idd eu cynal yn yr unrhyw Swydd.

III. Ac os bydd i unrhyw gyfryw droseddwr, yr hwn trwy amcan a diben y Ddeddf hon sydd i'w dynghedu fel y mae yn rhag-ddywededig, omedd a gwneuthur y cyfryw dynghediad, neu ar ol i'r cyfryw dynghediad gael ei wneyd, nad êl i'r cyfryw aber, ac o fewn y cyfryw amser ag sydd benodedig, ac oddiyno ymadael allan o'r deyrnas hon, yn unol â'r Ddeddf bresenol, neu ar ol ei ymadawiad ddychwelyd drachefn i unrhyw o deyrnasoedd neu dirogaethau ei Mawrhydi, heb iddo yn gyntaf gael a derbyn Trwydded neillduol ei Mawrhydi yn yr

Digitized by Google

achos hwnw; yna fod ymhob achos o'r fath i'r person a droseddo felly gael ei ddedfrydu yn gyflafanwr, a dioddef fel yn achos cyflafan heb fraint eglwyswyr.

IV. A deddfer yn mhellach trwy awdurdod y Senedd bresenol, Os bydd i unrhyw berson neu bersonau a droseddant ar unrhyw amser ar ol hyn yn erbyn y Ddeddf hon, cyn iddo ef neu hwy gael eu rhybuddio neu eu galw i wneuthur tynghediad yn unol âg amcan y Ddeddf hon, fyned i ryw eglwys plwyf ar unrhyw Sabbath neu ddydd gwyl, ac yno ar y pryd wrando gwasanaeth crefyddol, ac ar amser gwasanaeth, o flaen y bregeth, neu ddarlleniad yr efengyl, wneuthur ymostyngiad a datganiad cyhoeddus ac agored o'i gydymffurfiad ef neu hwy â chyfreithiau a deddfau ei Mawrhydi, fel ag y maent yn ddatganedig a phenodedig ar ol hyn yn y Ddeddf hon; yna fod i'r unrhyw droseddwr ar hyny gael ei hollol ryddhau oddiwrth yr oll a phob un o'r dirwyon a'r cosbedigaethau gosodedig neu arddodedig trwy y Ddeddf hon am unrhyw un o'r troseddau a rag-ddywedwyd. Y cyfryw ymostyngiad i'w wneyd fel y canlyn ar ol hyn; hyny yw,

V. Yr wyf fi A. B. yn cyfaddef yn ostyngedig a chydnabod, ddarfod i'm droseddu yn ddifrifol yn erbyn Duw wrth ddiystyru llywodraeth ac awdurdod dduwiol a chyfreithlon ei Mawrhydi, trwy gadw allan o'r eglwys, ac oddiwrth glywed gwasanaeth crefyddol, yn groes i Ddeddfau a gosodiadau duwiol y deyrnas hon, ac yn fy ngwaith yn defnyddio a mynychu cyfarfodydd a chymanfeydd afreolaidd, o dan esgus a rhith ymarferiad o Dduwioldeb: (2) Ac y mae yn ddrwg gan fy nghalon am hyny, ac yr wyf yn cydnabod ac yn tystiolaethu yn fy nghydwybod, Na fedd ac na ddylai yr un person arall gael unrhyw allu neu awdurdod dros ei Mawrhydi. (3) Ac yr wyf yn addaw ac yn ardystio, heb unrhyw ffuantrwydd, neu unrhyw rith neu foddion o unrhyw oruchwyliaeth, Yr ufuddhaf o hyn allan ac y cadwaf ddeddfau a gosodiadau ei Mawrhydi, trwy fyned i'r eglwys a gwrando gwasanaeth crefyddol, a gwneyd fy ngoreu i gynal ac amddiffyn yr unrhyw.

VI. Ac fod i bob gweinidog neu is-beriglor pob plwyf lle y gwneler y cyfryw ymostyngiad a datganiad felly ar ol hyn gan unrhyw gyfryw droseddwr fel y rhagddywedwyd, gofnodi yr unrhyw yn uniongyrchol mewn llyfr sydd i'w gadw ymhob plwyf i'r diben

Digitized by Google

hwnw, ac o fewn y deng niwrnod dilynol nesaf sicrhau yr unrhyw mewn ysgrifen i esgob yr unrhyw esgobaeth.

VII. Darparedig er hyny, Os bydd i unrhyw droseddwr o'r fath fel ag y rhag-ddywedwyd adlithro, neu yn fuan wedi gyndyn omedd dyfod i unrhyw eglwys, capel neu le arferol Gweddi Gyffredin, i glywed gwasanaeth crefyddol, ac ymgadw o honynt, fel y rhag-ddywedwyd, neu ddyfod i neu fod yn bresenol mewn unrhyw gyfryw gynullfeydd, cyfarfodydd neu gymanfeydd, o dan rith neu esgus o unrhyw ymarferiad o grefydd yn groes i ddeddfau a gosodiadau ei Mawrhydi; yna cyll y cyfryw droseddwr yr oll o'r cyfryw fudd ag y gallasai hi neu ef fel arall eu cael neu eu mwynhau yn ngrym y Ddeddf hon yn herwydd eu rhag-ddywededig ymostyngiad, ac arosant yn y cyfryw agwedd, sefyllfa a chyflwr, i bob amcanion fel pe buasai y cyfryw ymostyngiad heb gael ei wneyd.

VIII. Ac yn gymaint a bod pob person sydd yn meddu tŷ neu deulu, yn rhwym wrth ddyledswydd i neillduol ofalu am iawn lywodraethiad a threfniad yr unrhyw; Deddfer trwy'r awdurdod a ragddywedwyd, Os bydd i unrhyw berson neu bersonau ar unrhyw bryd ar ol hyn gynorthwyo, cynal cadw a gwarchod yn ei neu yn eu tŷ neu trwy unrhyw fodd arall, unrhyw berson a gyndyn omedda ddyfod i ryw eglwys, capel neu le arferol Gweddi Gyffredin, i glywed gwasanaeth crefyddol, ac a oddefa hyny am lawn mis ynghyd, yn groes i Ddeddfau a gosodiadau y deyrnas hon; Yna pob person a gynorthwyo, gynhalio, geidw neu warchgeidw unrhyw gyfryw berson yn troseddu felly, ar ol rhoddiad rhybudd o hono iddo ef neu hwy gan Ynad eglwysig yr esgobaeth, unrhyw Ynad Brawdlysoedd y Gylchdaith, neu unrhyw Hedd Ynad y swydd, neu y gweinidog, is-beriglor neu warcheidwaid eglwysig y plwyf lle y bydd y cyfryw berson ar y pryd, neu gan unrhyw o honynt, a gyll i'w Mawrhydi y Frenhines am bob person yn cael ei gynorthwyo felly, ei gynal, ei gadw, neu ei warchgadw, ar ol y cyfryw Rybudd ag a rag-ddywedwyd, ddeg punt am bob mis y bydd iddo ef neu hwy felly gynorthwyo, cynal, cadw neu warchgadw y cyfryw berson yn troseddu.

IX. Darparedig er hyny. Na bydd i'r ddeddf hon mewn un modd gyrhaeddyd i gosbi neu geryddu unrhyw berson am gynorthwyo cynal neu gadw ei, neu eu, gwraig, tad, mam, plentyn, neu blant,

Digitized by Google

gwarcheidwyr, brawd, chwaer, neu dad neu fam ei wraig, na fai ganddynt eu hunain un man neillduol i drigianu ynddo, neu wŷr neu wragedd unrhyw rai o honynt; neu oherwydd cynorthwyo, cynal neu eu cadw ganddynt; er unrhyw beth yn gynwysedig yn y Ddeddf hon yn groes i hyny.

X. Ac er mwyn casgliad a chaffaeliad idd a chan ei Mawrhydi y Frenhines, yr oll a phob un o'r cosbau, dyledion, dirwyon a thaliadau y rhai ar unrhyw bryd ar ol hyn a darddant, ychwanegant neu a ddeuant yn daladwy trwy effaith y gyfraith hon neu y ddeddf a wnaed yn y drydedd flwyddyn ar hugain o deyrnasiad ei Mawrhydi parthed ymwrthodwyr; (2) Deddfer trwy'r awdurdod a ragddywedwyd, Fel y caiff ac y galler enill a chasglu yr oll a phob un o'r rhagddywededig gosbau, dyledion, dirwyon a thaliadau, idd i wasanaeth ei Mawrhydi, trwy hawl dyled, ysgrifeb, cwyn, hysbysrwydd neu o fodd arall, yn unrhyw un o'r llysoedd a elwir yn gyffredin Meinclys y Brenin, Llŷs Cyffredin neu Drysorlys, yn y fath fodd, ac ymhob ystyron fel gyda'r dull arferol drwy gyfreithiau cyffredin y deyrnas hon y dylid neu y gellir codi neu gasglu unrhyw ddyled ddyledus gan unrhyw gyfryw berson mewn unrhyw achos arall, lle na byddo esgusawd, nawdd, neu gyngwystl cyfraith yn cael ei dderbyn neu ei oddef.

XI. Darparedig yn wastad, Fod y drydedd ran o'r dirwyon fydd i'w cael neu eu derbyn trwy effaith y Ddeddf hon, i gael eu defnyddio a'u rhoddi i'r cyfryw ddybenion daionus ac elusengar, ac yn y cyfryw foddion a dull, ag sydd yn derfynedig a phenodedig yn y Ddeddf a wnaed yn yr wythfed flwyddyn ar hugain o deyrnasiad ei Mawrhydi parthed ymwrthodwyr.

XII. Darparedig yn wastad, Na fydd i'r un ymwrthodwr pabyddol, neu wraig briod, gael eu gorfodi neu eu rhwymo i dynghedu trwy effaith y Ddeddf hon.

XIII. Darparedig hefyd, Fod i bob person a dyngo trwy effaith y Ddeddf hon, neu a wrthyd dyngu, ag y ceisiwyd ganddo fel y rhagddywedwyd, gamlwrio a cholli idd ei Mawrhydi ei holl ddaoedd a'i anifeiliaid dros byth; (2) ac ym mhellach golli ei holl diroedd, tyddynod ac etifeddiaethau dros ac yn ystod bywyd y cyfryw droseddwr

yn unig, a dim hwy; (3) Ac na fydd i wraig yr unrhyw droseddwr, trwy effaith y Ddeddf hon, golli ei gwaddol: Ac na chyfyd ac na fydd unrhyw lygriaeth gwaed yn herwydd unrhyw drosedd crybwylledig yn y Ddeddf hon; ond bod i etifedd pob cyfryw droseddwr, trwy rym y Ddeddf hon, feddu hawl a gallu, ar ol marwolaeth pob troseddwr i gael a mwynhau tiroedd, tyddynod ac etifeddiaethau y cyfryw droseddwr, fel pe buasai y Ddeddf hon heb gael ei gwneuthur; (4) A'r Ddeddf hon i barhau ddim hwy na diwedd tymor nesaf y Senedd."

## Y MARCHNATTY.

Cyn codi y tŷ marchnad hwn, nid oedd yn Nolgellau yr un ystafell farchnad gyhoeddus. Ond cedwid y marchnadoedd, fel y gellid, ar yr heol, ac o dan bendistiau, ac yn ystafelloedd tafarndai, a gwerthid llawer i faelfeydd y dref. Agorwyd y Marchnatty yn y flwyddyn 1870, mewn ciniaw cyhoeddus a drefnwyd yn y brif lofft, yr hon a fesura 76 o droedfeddi wrth 39 o droedfeddi. Ond gellir sylwi mai ar lawr yr adeilad y mae lle y farchnad. Eithr gwneir llawer o fasnach o'r tu-allan iddo megis, canys eir a thoraeth yr ymenyn, yr wyau, a'r dofednod i'r maelfeydd ac i gwsmeriaid, ac eraill a'u pryn.

Dyddiau y marchnadoedd ydynt ddydd Mawrth a dydd Sadwrn,—yr olaf yn fwyaf neillduol. Ond bychan yn gyffredin yw y marchnadoedd, oddieithr y rhai hadyd yn y gwanwyn. Cynhelir tair Marchnad Hadyd yma yn flynyddol. Ac amser y flaenaf o honynt yw y dydd Mawrth cyntaf ar ol marchnad hadyd y Bala, yr hon sydd i'w chynal ar y Sadwrn cyntaf ar ol ffair Corwen, y ddeuddegfed o Fawrth. Amser yr ail ydyw y dydd Mawrth dilynol ar ol y farchnad gyntaf yma, ac amser y drydedd yw y dydd Mawrth canlynol i'r ail.

Cynhelir ffeiriau yn y dref yn flynyddol, ac y mae eu hamseriad fel y canlyn:—Ffair Ynyd, ar yr 20fed o Chwefror. Arferid ei chynal gynt ar Ddydd Mawrth Ynyd, a dechreuwyd ei chadw fel yn awr yn y flwyddyn 1828. Ffair Blodau, ar yr 21ain o Ebrill; Ffair Galanmai, ar yr 11eg o Fai; Ffair Wyl Ifan, ar y 27ain o Fehefin; Ffair Awst, ar yr 8fed o Awst; Ffair Dyniewaid, ar yr 20fed o Fedi; Ffair Wyl Fihangel, neu fel arall, Ffair Caws, ar y 9fed o Hydref; Ffair Unfed

Digitized by Google

ar ddeg o'r Gauaf,* ar yr 22ain o Dachwedd; a Ffair Dom, ar yr 16eg o Ragfyr. Ond heblaw yr hen ffeiriau hyn, penododd Bwrdd Lleol Dolgellau, fel y dengys hysbysiad dyddiedig y 26ain o Hydref, 1881, ar fod i ddwy ffair ychwanegol gael eu cynal, y naill ar y 18fed o Fawrth, a'r llall ar y 1af o Fehefin.

## Y LLYSDY.

Saif yr hen Lysdŷ yn ymyl porth dwyreiniol y fynwent, ond y mae safle yr un presenol yn ymyl y Bont Fawr, a chafodd ei adeiladu yn y flwyddyn 1825. Yn yr hen Lysdŷ † hwn tebygol y safai yr enwog a'r llafurus efengylydd ffyddlon Vavasor Powell ei brawf yn neu cyn y flwyddyn 1642, dan gyhuddiad oblegid y cynwrf a godwyd pan ydoedd yn pregethu yn y dref heb fod lawer o amser yn flaenorol. Cafodd ei ryddhau, ond bu mewn perygl mawr am ei fywyd pan o flaen y fainc. Canys rhyw grythor drygionus, a gyflogwyd i'w ladd, a geisiodd ddwy waith gyflawni y fath amcan llawruddiog gydag erfyn cuddiedig o dan ei gôb, ond a rwystrwyd. Pan ydoedd fel y crybwyllwyd, yn pregethu yn y dref, ymosodwyd arno gan haid anfad gyda chleddyfau, a ffyn, a phawl-fwyill, y rhai a'i bygythiasant ef a llawer o'i fintai, ond cafodd ei waredu o'u dwylaw mewn modd rhyfedd.

Yn y Llysdy presenol y mae yn gyfleuedig nifer o ddarluniau mewn ystramiau, ynghyd â cherflun bychan o glai yn arddangos y pen a'r ddwyfron, ac yn cynrychioli John Wyatt, cyfreithiwr dros Ogledd Cymru. A chynrychiola y darluniau Syr Robert Vaughan, o Nannau; R. W. Price, Ysw., o'r Rhiwlas, ger y Bala; Edwart Lloyd, Ysw., o Ragat, Corwen; a Lewis Williams, Ysw., o Fronwnion, ger Dolgellau. Saif y cerflun a'r darluniau o'r rhai hyn yn ystafell y Brawdlysoedd. Ac mewn ystafell arall perthynol i'r Llysdy yn yr hon yr arfer yr Ynadon gynal eu llysoedd weithiau, y mae darlun arall o Syr Robert Vaughan, ond sydd yn llawer llai na'r llall. Y mae yno hefyd ddarlun o Richard Richards, Ysw., o Gaerynwch, mab y Prif Farwn Richards. Bu feirw yr oll o'r gwyr hyn, a'r olaf o honynt yn fyw oedd Lewis Williams, Ysw., o Fronwnion. Bu ef farw yr 17eg o

* Gelwir hi fel hyn yn ol yr hen drefn neu yr Hen Gyfrif, fel yr ymddengys.
† Canys nis gwn am yr un Llysdy arall heblaw y ddau hyn yn y dref.

Digitized by Google

Fawrth, yn y flwyddyn 1879, yn 87 mlwydd oed. Yr oedd yn hanu o Lewis Ywain y Barwn, ac felly o Ednywain ab Bradwen, un o Bymtheg Llwyth Gwynedd. Rhed ei achlin o'r gwyr hyn trwy Yweniaid Pantphylip, yn mhlwyf Celynin. Canys yr oedd ei nain Beti (Elizabeth) Owain, yn ol ei chyfenw gwyryfol, yn ferch i Dafydd Ywain, hen daid Mr. Edward Owen, presenol o Bantphylip.

## Y BRAWDLYSOEDD.

Cynhelir y Prif Frawdlysoedd yn awr yn Nolgellau, a'r rhai Trimisol bob yn ail yma ac yn y Bala. Ond feallai na chynhaliwyd yr un brawdlys yn Nolgellau hyd amser Philip a Mari. Yn y teyrnasiad hwnw, cynhelid y Prif Frawdlysoedd, ac feallai hefyd y rhai trimisol yn y Bala, Dolgellau, a Harlech. Eithr er y flwyddyn 1688, buwyd am hir amser yn cynal y Brawdlysoedd yn y Bala a Dolgellau bob yn ail. Ond yn Mhasg y flwyddyn 1869, gorchymynwyd cadw y Brawdlysoedd Trimisol yn y dyfodol yn Nolgellau. Ond wedi hyn, penderfynwyd ar iddynt gael eu cynal bob yn ail yn Nolgellau a'r Bala. A chynhaliwyd y Llys Trimisol cyntaf yn ol y penderfyniad hwn yn y dref a nodwyd olaf, ar yr 8fed a'r 9fed o Ebrill, 1884. Symudwyd Brawdlysoedd y Grawys i Ddolgellau yn y flwyddyn 1872.

Ni chynhelid y Llysoedd Trimisol yn un man yn Swydd Feirionydd hyd y seithfed flwyddyn ar hugain o deyrnasiad Harri VIII. Cyn yr amser hwn, byddai rhai o swyddogion y goron yn ymddwyn yn dra llawdrwm a thrahaus at y deiliaid o dan gochl eu swyddau. Canys arferent gadw math o lysoedd bob pedwar diwrnod ar ddeg, yn y mynyddoedd, creigiau, neu ryw leoedd anghysbell, yn ol eu mympwy a'u hunainfantais, er mawr drafferth a phoen i'r gwladwyr, ac yn enwedig i swyddwyr eraill ag y byddai yn ofynol iddynt ymddangos yn fynych ger eu bron. Ac yn aml ni fyddid yn gwybod pa le na pha bryd y cynhelid y cyfryw lysoedd, ac ar brydiau byddai pellder y ffordd iddynt yn fawr, weithiau 20, ac weithiau 30, mwy neu lai o filldiroedd, eithr er y cwbl, cosbid yn drwm am eu habsenoli, mewn dirwyon neu camlwrwyon, yn groes i'r deddfau a ddarbodwyd yn y cyfryw achos.

Wedi canfod trwy achwynion yn erbyn y swyddogion hyn, eu bod yn gweithredu mor annheg a gormeslyd, gorchymynwyd yn Mrawdlys Sir Feirionydd, yr hon a gynhaliwyd yn Nghaernarfon, ar y dydd cyntaf o flaen Gwyl St. Magdalen, yn y seithfed flwyddyn ar hugain

Digitized by Google

o deyrnasiad Harri VIII., nad oedd y cyfryw swyddwyr i gynal llysoedd yn rhinwedd eu swydd o hyny allan mewn lleoedd o'r fath, nac yn amlach nac unwaith mewn chwarter blwyddyn, oddigerth y byddai *diem clausit extremu* i ymholi yn achos y brenin, neu fod ganddynt drwydded oddiwrth y barnwr, neu ei ystafellydd, neu eu dirprwywr ar y pryd. Ac nad oeddynt i gynal y llysoedd hyn ond yn y manau y byddai y sirydd yn cynal ei gylchdeithiau arbenig, o dan boen dirwy o ddeg punt, i'w codi at wasanaeth y brenin, oddiar eiddo, anifeiliaid, tiroedd a deiliadaeth y sawl o honynt a dorai y cyfryw orchymyn. Perthynai y gorchymyn hwn hefyd i ddwy o swyddi* eraill, ac ymddengys mai Swydd Fôn a Swydd Gaernarfon oeddynt.†

Yn ddilynol ceir gosod o flaen y darllenydd gywydd i'r Llysoedd, o waith Simwnt Fychan, yr hwn a fu farw y 5ed o Ebrill, y flwyddyn 1606.‡ Enw y Cywydd yn llawn, yn ol un Ysgriflyfr o'n blaen yw

"Cywydd i'r Cyrtiau er dangos faint yw eu ffalsder."

Ond fel isod y mae yr enw mewn Ysgriflyfr arall o'n blaen, oddigerth mai C sydd yno yn nechreu y gair cyfraith ac nid G fel yma—

"Cowydd i'r Cyrtiau a'r Gyfraith."

Defnyddiwyd o'r ddau Ysgriflyfr crybwylledig yn ngosodiad y Cywydd fel ei ceir yn ddilynol :—

"Duw sy' ben nid oes neb uwch,  
Daw i'm cof na dim cyfuwch;  
Duw iawn enw i gadw'n Hynys,  
I'w pherchenawg lwyddawg lŷs;  
Brenhines gynes ei gwedd,  
Biau'r Ynys bur rinwedd;  
A theg rym *Elsbeth* ei gras,  
Ydyw eurnerth y deyrnas;  
Grasol Dduw i'w gwir groesi,  
A wnaeth gyfraith i'n hiaith ni;

* Neu fel arall, siroedd.  
† Publick Records neu Record of Carnarvon, t. 297.  
‡ "Eminent Welshmen," gan y Parch. Robert Williams, M.A., tud. 515.

Pur iawn i bob rhyw weiniaid,
I'n hiaith yw cyfraith pe'i ceid;
Y trachwant a'i trecha hi,
Am hyn ni cheir mo honi;
Och wir Dduw hael ni cherdd hon,
Yn rhigl heb gael anrhegion;
Mân swyddwyr am ansoddau,
Mewn chwant a suddant nos iau;
Un a rhodd drom yn rhwydd draw,
A'i ffrind a gaiff ei wrandaw;
Ystwrdi yw'r stiwardiaeth,
Ysbail i gwrt oes blag gwaeth?
Di iawn farn adwaen ei fod,
Di obaith cael cydwybod;
Ein *cwrt* ni at bwnc o wir,
Ond at 'wyllys y twyllir;
A rheini o wyr hynaws,
I droi drwg amnaid ar draws;
Ac ni throir er gwneuthur iawn,
At ran y mater uniawn;
Un ynfyd a'i liw'n anfwyn,
Esgud rol yn wysg ei drwyn;
Goresgyn a fyn ar fai,
Suddas, arian nis haeddai;
Beili Siri blŷs arian,
A'i gyr o'i go ddyn egr gwan;
Casglu a fyn denyn der,
Costog crin y cwest crwner;
Part concwerio ffalsdro ffug,
Pyrsau eraill pry' sarug;
Manwl freibio a mynu,
Mewn coed on a'r mîn ci du;
Chwaryddion yw'r dynion dig,
Chwarau drwy bechu orig;
A'u chwarau gwych a wiriwyd,
Yn llesg fel eirionyn llwyd;
Yn gwlwm llyna g'wilydd,
A rhan a fynant yn rhydd;
Barwn na farwn yw fo,
Y cwrt dylai rai 'i cortio;
Cyfraith rhoent cof waith y rhain,
A hwy'n ei thori'u hunain;

Digitized by Google

Y cam llawn yn uniawn wnânt,
Ac yma'r iawn a gamant;
Rhyfeddod ar benod byr,
Na suddant aflan swyddwyr;
Os uchel yw'r gwyr sychion,
Uwch yw Duw gwir iechyd Ion;
Gall Duw Nef geill daw'n wir,
Gamp rinwedd gwympo'r enwir;
Acw rhifir y cryfa,
Yn ei gwymp yn wan a gâ;
Tebyg yw'r gyfraith fraith frŷ,
A'i chrediad i chwareudy;
A êl yno ceisio cair,
I enill ond haws cael anair;
Och oered ddechreu chwarau,
Wrth dori 'stad brith dristhau;
O daw'n gôf medd y dyn gwan,
O Fair ple'r aeth fy arian;
Och o'r drwg fu'r chwarau draw,
I'r tŷ'r aethant er teithiaw;
Ystoc aeth gwr tost ei caid,
I law un o'r beiliaid;
Talu gydag Atolwyn,
Drwy roi'r gost am entro'r gwyn;
A *ffis* a'r arian yn ffo,
I'r twrnau rhad Duw arno;
Yntau'n chwarau delwau dig,
Yn ddiboen a'i ffon ddwybig;
Rhoi'r arian mwy yw'r hiraeth,
Tost iawn wedd er tystio * wnaeth;
Rhoddi'r pot wrth ddiota,
Roi canwyl tywyll nid da;
Rhoi'r cardiau i'r *Recorder*,
Rhoi'r tyngwyr gwyr gerwin,
Rhoi i'r breibwyr cribwyr crin
Y sieler wrth noswylio,
Arian a fyn i'w ran fo;
Os gwan a fydd goresgynwr,
A'i cyfoethog enwog wr;

* Darlleniad arall—Tost iawn wedd i'r tystion aeth.



Digitized by Google

Os ceisir y *secisiwn*,*
Fo fyddir yn hir heb hwn;
Ond chwarau er lleihau'r lles,
O law i law ryw loles;†
Troi isod mewn trahausair,
O'u hamserau'r cyrtiau cair;
Eu cyfraith mewn pwnc afrad,
A'u cweryl yw mocio'r wlad;
Yn ol y camau a wnant,
Wedi chwerw-ddal cyd chwarddant;
Aeth yr enill wrth ranu,
Do, do i'r chwareudy du;
Gwell i'r wlad yn rhad wârhau,
A'ch erydr oll gyd-chwarhau;
Cym'rwch gyngor rhagorol,
Ewch yn un gwnewch yn ei ol;
Y gwyrda gwnewch gydgordiad,
Wrth hir les a nerth i'r wlad;
Ymgroeswch dyddiwch bob dau,
Chwi wyr rhag y fath chwarau;
A'ch aur rhudd gadewch y rha'in,
I'ch anwyl byrsau'ch hunain;
A gadewch weilch beilch lle bôn,
Yn egr a'u pyrsau'n weigion.

---

* *Execution.*

† Ymddengys mai "riw" sydd yn y gwreiddiol. Darlleniadau eraill—Yn lawaw a rhyw loles—O law i ryw law ryles.

Digitized by Google

# LLEOEDD A HANESION, NEU DRADDODIADAU PERTHYNOL.

---

## BWLCH OERDDRWS.

Y MAE safle y bwlch hwn rhwng Dolgellau a Dinas Mawddwy (Dinas Mywddu, yn ol llafar gwlad), ac y mae y brif-ffordd a rêd o'r lleoedd hyn i'w gilydd yn myned trwyddo. Hynodwyd y bwlch gan ddigwyddiadau yr amser gynt, canys dywed Pennant ei fod yn un o'r tri manau lle y byddai prifwyr rhai rhanau o'r wlad, chwe' blynedd ar ol rhyfel Ywain Glyndwr yn ymgyfarfod er ceisio gweinyddu cyfiawnder ymysg y preswylwyr trwy eu gallu eu hunain. Aeth y gwŷr hyn i gytundeb â'u gilydd yn y Bwlch hwn a'r bylchau eraill i beri i gyfiawnder gael ei wneyd am yr holl gamau a wnaed cyn ac wedi y rhyfel, ond nid am y rhai a wnaed yn ystod y tymor terfysglyd hwnw. Yr oedd pob un i gael ei eiddo neu dir a dreisiwyd oddiarno yn ol heb fyned i gyfraith o'i herwydd. Ond yr oedd pa eiddo bynag a atelid wedi hyn i gael ei ystyried yn lladrad. Neu os gwerthai ei arglwydd hwy yr oedd i gael ei ddirwyo i ddeg punt, a'r eiddo neu eu gwerth i fyned i'r perchenog. Ond os byddai yr anufudd wedi cael ei grogi, neu wedi marw yn naturiol, safai y gofyn yn dda yn erbyn ei wraig, etifeddion neu ôl-weinyddion. Eithr os gwedid y trosedd ganddynt, yr oedd yn rhaid i'r hawliwr ddwyn ei gymhuryddion, sef chwech o bersonau, i dyngu fod ei gais yn gyfiawn; ond yr oedd gan yr un a wadai uniondeb y cais hawl i wrthod un o'r chwech os ewyllysiai, ac yr oedd un arall i gael ei ddarparu yn ei le. Yr oedd y goreugwyr crybwylledig wedi trefnu amryw reolau er adferu llywodraeth y wlad

Digitized by Google

yn gyffredinol, gan osod cyfreithiau yn dal perthynas â phethau diarddaledig, ac anifeiliaid crwydredig, crwydriaid, mechnïaeth, adgaffaeliad dyledion, dyn-laddiad, lladradau, dyledswyddau swyddogion, &c. Hefyd, yr oedd prisiau penodol wedi eu penu ar ddaoedd a nwyddau. Prisid ceffyl neu gaseg yn ddeg swllt, ar lŵ y perchenog, a dau gymydog; ebol yn ugain ceiniog; ŷch yn un marc (13s. 4c.); a buwch yn ddeg swllt. Hefyd, prisid hur ŷch, a llaeth buwch. Cyfrifid mamog yn werth un geiniog ar bymtheg, a'i gwlan yn werth pedair ceiniog, a'i llaeth yn ddwy geiniog, a'i hoen yn wyth geiniog. Prisid cleddyf deuddwrn yn ddeg swllt, ac un unllaw yn chwe' swllt ac wyth geiniog; a tharian ddur yn ddau swllt ac wyth geiniog. Pris bwa oedd un geiniog ar bymtheg, a saeth oedd chwe'cheiniog.*

Ond er i'r gymydogaeth hon fod fel hyn yn gynullfan gwŷr i adfer trefn, gwnaed gweithred o drais ac anghyfiawnder dybryd yno wedi hyny, canys dywedir yn "Llyfryddiaeth y Cymry" fel hyn:—"Ymofyner am un S— H—, o L-n-ll-ch-d, yn agos i Fangor; gwr du, byr, llydan-ysgwydd, a chydnerth ei wneuthuriad. Bu yn ymladd o dan y Cadben Rowland Fychan yn ymladdfa Naseby, lle y cymerwyd ef yn garcharor. Anfonwyd ef â phenweig neu ysgadan cochion, i un Mr. Wyn, yn agos i Gaerwragon, yr hwn a fuasai yn ddiweddar yn swydd Gaernarfon, yn prynu gwartheg, ac a gyflogasai y dywededig S— H— i'r gorchwyl uchod. Gwelwyd ef yn ddiweddar yn dychwelyd adref, y pedwerydd dydd ar bymtheg o Ionawr diweddaf, ar Fwlch Oerddrws, lle y tagodd efe ryw gylchwerthwr (pedlar), gan yr hwn yr oedd ceffyl yn llwythog o dobaco, triagl, dwr y bywyd (brandy), lliain, & &.; a chymerodd y cwbl ymaith."

Yn y pen agosaf i Ddinas Mawddwy i'r Bwlch hwn, lle y mae bryncyn bychan yn bodoli yn agos i'r brif-ffordd, ac ar y tu deheuol iddi, yr oedd beddrod, meddir, wedi ei ffnrfio o lechfeini wedi eu dodi ar eu cyllill er cyflunio yr ochrau; ond nid oedd fy hysbysydd yn cofio a oedd ceryg wedi eu gosod ar eu talcenau ai nad oedd. Bedd hir ydoedd, ac nid fel y cistfeini byrion. Yn agos i'r lle hwn caed un Shon Dafydd wedi marw yn yr hâf; ond ymddengys na wyddis amcan faint o amser sydd er hyny.

Yn mynydd Ty'ntwll, yn ochr ddeheuol y Bwlch, y mae lloches fechan yn dwyn yr enw Llety Lladron. Ac yn ol y traddodiad, llechai lladron ynddi gynt i wylio y teithwyr a ddelent y ffordd hono. Ac ar ol eu canfod yn dyfod o gyfeiriad Dinas Mawddwy, Rhydymain, neu Ddolgellau, byddent yn myned i'w cyfarfod ac yn eu hysbeilio.

* "Pennant's Tour in Wales." Cyf. II., tud. 95, 96, 97.

Digitized by Google

## MOEL CAER YNWCH, NEU MOEL ESGIDION.

Saif y Foel hon yn nghymydogaeth Bwlch Oerddrws. A thua'i godreu, saif palasdy Caer Ynwch. Ac ymddengys i'r Foel a'r tŷ hefyd gael eu henwau yn herwydd caer o'r enw hwn a safai gynt, tebygol, yn rhywle yn y gymydogaeth. Ond nid yw yn ymddangos fod olion unrhyw gaer i'w canfod erbyn hyn yn yr ardal gyfagos, nac unrhyw fan yn cael ei enwi yn Gaer Ynwch ag y gellir ystyried, o ran dim olion arhosol, y bu yno gaer o'r fath. Eithr ymddengys i Ty'n y Gaer (Tyddyn y Gaer?), tyddyndy yn y gymydogaeth, gael ei enw yn herwydd caer a safai gynt yn rhywle yn ei ardal, pa un bynag ai hono ai arall oedd y Gaer Ynwch. Enw personol yw Ynwch a gysylltir â'r manau hyn, fel yr ymddengys oddiwrth eu dynodiant enwol hwy eu hunain, ynghyd â'r hysbysiadau a ganlyn. Gelwid Moel Caer Ynwch gynt yn Foel "Esgityawn," yn ol hen ddull o lythyrenu yr enw, ac y mae y fan yn adnabyddus yn awr fel Moel Esgidion. Nodir y mynega "Sylwad mewn ysgrif o'r cyfreithiau o'r drydedd ganrif ar ddeg, a ysgrifenwyd i Faeldaf," yr hwn oedd fab i'r Ynwch ag yr ydys yn ystyried i'r manau dan sylw gael eu henwi o'u herwydd, pwy oeddynt breswylwyr cyntaf y Foel hon. Canys dywed "bod Maeldaf yr hynaf yn fab Ynhwch Unarchen, ab Ysbwys ab Ysbwch; y ddau olaf wedi dyfod o Spaen gydag Uthyr ac Emrys, ac oeddynt y rhai cyntaf a ymsefydlasant ym Moel Esgidion." Ac er cywiro hanesion amryfus, ychwanega mai mab oedd Maeldaf, arglwydd Penardd yn Arfon, i Menwyd, ab Ririd, ab Ruol, ab Tegog, ab Einion Yrth, ab Cunedda Wledig, yr hwn oedd yn byw yn amser Iago [y trydydd mewn disgyniad o Faelgwn."*] Dywedir, o dan y penawd "Am Ddewis Brenin" yn yr hen Gyfreithiau Cymreig, a adolygwyd gan Aneurin Owain: "Gwedy dwyn coron Lundein ae theyrnwialen y gan genedyl Gymry ac eu dehol o Loegyr y gossodassant [oet] dadleu y edrych pwy a vei vrenhin pennaf o nadunt. Sef lle y gossodassant, ar draeth Maelgwn yn Aber Dyui; ac yno doethant gwyr Gwyned a gwyr Powys, a gwyr Deheubarth, a Rieinwc, a Morgannwc, a Seisyllwc. Ac yna y dodes Maelda hynaf mab Unhwch Vnachan pendeuic Moel Esgityawn y Meiryonhid kadeir winithedig o adaned [cvyredic] y dan Vaelgwn; a phandoeth y llanw: ny allawd neb y arhos namyn Maelgwn ehun, o achaws y gadeir. Ac o achaws hynny y kafas ynteu bot yn vrenhin pennaf, ac Aberffraw yn ben priflys idaw; a jarll Mathrafyl, a iarll Dinefwr, a jarll Kaer

* Gweler nodyn yn hen Gyfreithiau Cymru, dan olygiad Aneurin Owain. Tud. 412–13.

Digitized by Google

[Llion] y danaw ynteu; ac yn eir y eir ynteu ar bawp o nadunt wy; ac yngyfreith yr eidaw; ac nid reit idaw ef kadw eu kyfreith wy. Ac o achaws Maelda hynaf y kauas Pennard y breint ae bot yn hynaf kygelloryaeth." Y mae yr Unhwch hwn yn cael ei ysgrifenu yn Ynwch Unarchen, ac Unhwch Unarchen.

Ond i adael hyn ceir nodi fod lle ar fynydd Caerynwch o'r enw y Farchnad Fach, ac y mae rhan o'r lle a elwir y Farchnad Fawr ar y mynydd hwn hefyd, a dywedir y cedwid marchnadoedd yma gynt.

---

## GWANAS.

Saif Gwanas y tu agosaf i Fwlch Oerddrws i'r afon a red i lawr rhyngddo a'r groesffordd, lle y canghena un ffordd i fyned i gyfeiriad Bwlch y Llyn Bach, ac un arall i gyfeiriad Bwlch Oerddrws, ac ar yr ochr ddeheuol i'r un a nodwyd olaf. Ar y tu arall i'r ffordd hon, y mae Plas Gwanas, ond nid yw hwn namyn adeilad lled ddiweddar, eithr trigiana tirddeiliaid Gwanas ynddo yn awr. Nid yw yn ymddangos y gellir nodi paham y gelwir y blaenaf ar yr enw hwn. Canys yn ngweithiau rhai o'r hen awduron Cymreig, ceir y gair Gwanas wedi ei ddefnyddio mewn gwahanol ystyron. Yn y llinell ganlynol allan o'r ymddiddan honedig rhwng Ugnach ab Mydno a Thaliesin, golyga foglwm,—

"Ac eur coeth ar diwanas."*

Y mae y gair i'w weled yn niwedd yr olaf o'r ddwy linell nesaf:—

"Afallen peren pren hyduf glas.
Pvwaur y chagev hy ae chein wanas."

Gesyd cyfieithiad Saesneg D. Sylvan Evans, y golygir wrtho yma ffurf neu gwedd.† Ond pa beth bynag ydyw ei ystyr yn y fan hon,

---

* "The Four Ancient Books of Wales." Cyf. ii., t. 57; a'r Gyf. i., t. 289.

† Eto, Cyf. ii., t. 18; a'r Gyf. i., t. 370. Y cyfieithiadau sydd yn y manau nodwyd o'r Gyf. .

Digitized by Google

caniataer i ni ddweyd nad yw yn ymddangos yn eglur mai dyna ydyw, a gall mai y paladr neu y bonyn a feddylir. Yn y llinell ganlynol allan o awdl i Fadawg, esgob Bangor, yr ystyr ydyw cynhalydd,—

"Gwanas pob urddas eurddull Padrig"*

Yn y triban canlynol, golyga gyffion neu garchar,—

"Marchwiail bedw briclas
A dyn vyn troed a wanas
Nac addef dy rin y was"†

Yr ystyr sydd i'r gair Gwanas yn y penran canlynol o'r hen Gyfreithiau Cymreig, yn ol cyfieithiad Saesneg Aneurin Owen o'r unrhyw ydyw, gorphwysfa,—

"Tri gwanas gwaew mewn dadleu: un yw gwan yr arllost yny dayar ac un llaw yny uo abreid y tynnu a dwylaw; eil yw gwan y pen ymwyn twyn yn y cudyo ymwn; trydyd yw y dodi ar lwyn [auo] kyuuwch agwr ac ony byd ar un o'r teir gwanas hynny amynet dyn arnaw mal y bo marw trayan y alanas a a ar perchennawc y gwayw."‡

Ond yn y penran dilynol, yr ystyr sydd i'r gair Gwanas, yn ol cyfieithiad Saesneg yr un gwr, ydyw cynhalydd, neu ategydd, "Teir gwanas gwystyl: llaw y yru; breich ac ysgwydd i arwein."§

Cyfeirir yn hanesyddol at le o'r enw Gwanas, yn Englyn Beddau Milwyr Ynys Prydain fel hyn.—

"Bet gwrgi gnychit a gwyndodit, ler,‖
A Bet llawr llu ovit
Y gwarthaw guanas guir yssit"

"E Beteu hir yg guanas ny chavas ae dioes
Pwy vynt uy pwy eu neges"

"Teulu oeth ac anoeth a dynn y noeth
Yeu gwr yeu guas
Ae keissio uy calet guanas"

* Myf. Arch., ail arg., t. 347.
† Eto, t. 102.
‡ "Ancient Laws and Institutes of Wales," t. 383.
§ Eto, 711.
‖ Lev, yn ol darlleniad arall.

Digitized by Google

Bu gynt gapel eglwysig tua Gwnanas, yr hwn fel yr ymddengys a berthynai i'r pabyddion. Y mae yn aros gerllaw tŷ Gwanas hen olion, lle, yn ol un dywediad y safai hen eglwys gynt. Ond yn ol dywediad arall, safai yr eglwys am yr afon â Ty Bach y Llan, yr hwn sydd yn awr yn feudy. Eithr pa fodd bynag am safle yr hen gapel eglwysig, dywedir fod y fynwent wrth yr hen olion a nodwyd uchod, ac y mae coeden ywen yn tyfu ar y fan a nodir ei mangre. Ond ai at hon y cyfeirir yn yr hen benill dilynol? Tebygol mai ê. Gwneir cam â'r ywen gan ddwy o'r coed sydd gerllaw, a choeden onen ydyw un o'r ddwy. Wrth y gair "yno" a geir dair gwaith yn y penill, golygir Gwanas ymddengys:—

"Mae yno ynn ac ywen drefnus,
Mae yno ywen lan gariadus;
Mae yno gapel mawr ei rinwedd,
Lle mae'r ddelw lwyd yn gorwedd."

Gelwir llanerch o dir sydd ar fin yr afon a red o dan Bont y Bylan yn Ddol y Ddelw, a thebygol fod a wnelai y ddol hon yn rhyw fodd na'i gilydd â'r ddelw a nodwyd. Sonir am arglwyddiaeth Gwanas, a thebygol i'r fan fod yn lle enwog gynt.

---

## YSBYTY GWANAS.

Ni ellir dynodi yn fanwl y llecyn lle y safai yr Ysbyty hwn. Ond ymddengys fod ei safle yn, neu tua'r fan y mae yr anedd-dŷ (tyddyn-dŷ gynt,) a elwir Dol Ysbyty, pa un sydd yn nghymydogaeth Gwanas. Cyfeirir ati yn amser Edward y I., neu yr II., y blaenaf tebygol, dan y dynodiant "Hospitalis de villa de Wona," a "Hospitalis de Wemias;" a'r pryd hwn yr oedd ar wyr yr Ysbyty hon 8s. 4c., i'w talu i'r goron yn ol y trethiad. Dengys y cofnodiad dilynol i ba Urdd y perthynai "Literæ de acquietantia pro priore et fratribus hospitalis Sancti Johannis Jerusalem pro terris in Wanas in Merioneth."*

* "Archæologia Cambrensis," am Hydref 1884, t. 277.

Digitized by Google

Yn yr ysgrif-lyfr "Trefydd Marchnad Cymru allan o lyfr Llelo Gwta o M. S. Ll ap Meredydd ano 1563, Copyed by John Jones Gelli Lyfdy;" gosodir Ysbyty Gwanas yn blwyf, a gwneir felly hefyd yn Hynafiant Cymru. Ond ymddengys nad ydoedd blwyf priodol, ac nad oedd namyn tref-ddegwm yn cynal ei thlodion ei hun.

---

## BWLCH Y LLYN BACH.

Mewn perthynas i'r Bwlch hwn—Bwlch y Llyn Bach, ceir mynegu y dywedir mewn nodyn i'r ystyr mai tebygol fod a fynai yr unrhyw â'r hanes dilynol; ac y mae yn ymddangos fod y fath awgrymiad yn gywir. Yr hanes y cyfeirir ato a ddywed ddarfod i Wmphra, mab hynaf Hywel ab Siencyn, o Ynys Maengwyn, gwympo allan â'i gefnder Hywel Fychan, o Lwydiarth, yn Mhywis, yr hwn ar y pryd a drigianai yn Nghaergai. Ac er nad ydoedd fel hyn yn byw yn ei ardal ei hun cafodd ddigon i'w bleidio yn y wlad hon. Canys heblaw ei ddau fab, John ac Wmphra, y rhai oeddynt wŷr ieuainc cryfion, a Morgan ab John o Gynllwyd, brawd-yn-nghyfraith Hywel, dyn o allu mawr yn Mhenllyn, cafodd o Dal y Bont, Tudur Fychan ab Gruffydd ab Hywel, allan o wŷr penaf y wlad hono, a Wiliam ab Siencyn a Morgan, meibion Siencyn ab Iorwerth, dau ewythrod yr Wmphra a nodwyd gyntaf, y rhai a ddietifeddwyd oherwydd camwri Hywel eu brawd. Er hyny, Wmphra ab Hywel ab Siencyn, yn rhinwedd ei swydd fel sirydd Meirionydd, yn ol a ddywed yr hanes, a gyfododd nifer mawr o wŷr yn Ystumaner, gan fyned i Gaergai, a gafaelyd mewn cymaint a allodd gael o anifeiliaid Hywel Fychan, a'u dwyn ymaith tua Thalybont. Canlynwyd ar eu holau yn galed gan Hywel Fychan a'i gyfeillion, ond heb lwyddo i'w goddiweddyd nes i Tudur Fychan, wedi cael hysbysiad am yr helynt, gyfarfod gyda haner cant o fwawyr âg Wmphra ab Hywel ab Siencyn a'i wŷr yn gyru'r anifeiliaid, gan ddechreu ymladd â hwy. Ar hyny, daeth Hywel Fychan i'r golwg. Yna Wmphra ab Hywel ab Siencyn, yn canfod y cai y gwaethaf, a adawodd yr anifeiliaid ac a roddodd ffordd. Ond erlyniwyd yn galed ar ei ol gan Tudur Fychan a'i wŷr, ac adgaffaelodd Hywel Fychan ei ddaoedd, a dychwelodd yn ol gyda'i wŷr, gan dybio fod pob peth drosodd. Ond ag Wmphra ab Hywel ab Siencyn yn gweled nad oedd neb yn erlid ond Tudur Fychan a'i wŷr, y rhai oeddynt gan mwyaf ar

Digitized by Google

draed, a barodd i'w wyr barhau i encilio nes dyfod i'r Bwlch, lle y dymunai arnynt sefyll; ac os deuai Tudur Fychan ymlaen, ar iddynt gwympo arno yn sydyn a'i ddal, yr hyn hefyd a wnaed. Canys trwy ei fod ar farch, a'r rhan fwyaf o leiaf o'i wŷr ar draed, a ddaeth ymlaen yn gynt na hwynt, ac felly a gymerwyd yn garcharor, a churwyd ei wŷr yn ol. Yna anfonwyd ef i Gastell Aberystwyth, o ba le y cafodd ei ryddhau cyn hir, a dychwelodd i'w wlad ei hun.

Yr ydys wedi sylwi fod yr hanes, mewn cysylltiad â'r helynt hwn, yn gosod Wmphra ab Hywel ab Siencyn, o Ynys Maengwyn, yn Sirydd Meirionydd. Ond nid yw Mr. Breese yn ei ddodi yn ei restr o Siryddion y swydd neu y sir hon. Dywed y diweddar Mr. Wynne o Beniarth, mewn nodyn yn ngodreu dalen yr un llyfr,* ei fod yn Dyst fel Sirydd wrth Weithred, dyddiedig y 6ed o Fedi, y drydedd flwyddyn ar ddeg o deyrnasiad Harri VIII. A sylwa yr un gŵr mai tebygol mai Gweithredydd† y swydd hono ydoedd o dan John Sendamore. Yn ol Mr. Breese, penodwyd John Sendamore yn Sirydd Meirionydd ar yr 22ain o Fehefin y flwyddyn 1520, sef y ddeuddegfed flwyddyn o deyrnasiad Harri VIII., a pharhaodd yn y swydd hyd yr 20fed flwyddyn o'i deyrnasiad neu hyd yr amseriad 1528.

Y mae hen Gywydd o waith Tudur Aled yn ysgrifenedig o'm blaen yn dwyn y dynodiant—

"Cywydd Cymod rhwng Humphrey ab Hywel ab Siancyn o Dygwyn, a Thudur Fychan, a Sion ab Howel Vychan, ac eraill."

Yn awr, y mae yn ymddangos y ceir yn y dynodiant hwn o'r Cywydd, enwau rhai o'r personau a enwir mewn cysylltiad â'r helynt ymrafaelgar yr ydys newydd nodi. Ac yn y Cywydd ei hun ceir enwau yr oll o honynt, fel yr ymddengys. Ond pa un ai ar ol yr helynt y cyfeiriwyd ato ai yn flaenorol iddo ei cyfansoddwyd, nid yw yn ymddangos y gellir penderfynu. Mynegir fod ei awdwr yn blodeuo rhwng 1480 a 1520. Ac o ddilyn hyn a'r amseriadau eraill a roddwyd, nid yw yn eglur mai yn ddilynol i'r helynt y cafodd ei gyfansoddi. Modd bynag, cyteiria fel y sylwyd, at yr un gwyr ag y ceir eu henwau ynglŷn a'r unrhyw, a dichon ei fod o ddyddiad diweddarach.

Ond dyma y Cywydd:—

---

* "Kalendars of Gwynedd," t. 70.

† "Farmer" ydyw'r gair a ddefnyddia Mr. Wynne, am ba un y dodwyd uchod y dynodiant Gweithredydd. Golyga un yn cyflawni y swydd o Sirydd er heb fod yn dal y swydd hono ei hun, gan ei gwneyd, fel yr ymddengys, ar deler neu delerau penodol.

Digitized by Google

Y ceirw mawr 'u ceir eu medd,
Sydd o'r un sir o Wynedd;
Imp Ynyr hên am pen rhaith,
Am ffriw dal Humphrey dalaith;
Aer Hywel bu'n rheol byd,
Ap Siancyn a'n pwys encyd;
Mor wych gwaed marchog ydwyd,
A deg o Ieirll a Dug wyd;
Na choller hyn o'ch llaw rhawg,
O ddrwg cyngor dderw cangawg;
O'ch athrod a'ch Ewythredd,
Mae'n iau wâg ym mon y wedd;
Morgan enw 'mrigyn Einion,
William ffyrf a'i law am ffon;
Deugorft dros uncorph Siancyn,
Dau o ras Derwas ynn;
Cyfyrdyr y'ch caf wyr draw,
Coed Ynyr yn cadwynaw;
Tudyr Fychan tarian tir,
Tarw Derwas traed eurir;
Hywel oedd a hil iddaw,
Fychan draig o Fechain draw;
Sion o'i wraidd syn wr addwyn,
Ag Wmphre aur gem ei ffrwyn;
Morgan son mor gymwys ym,
O Benllyn garw buan-llym;
Y gwr sy uwch nag aur sêl,
A chyd iechyd waed uchel;
Dy ryw 'n gry' fal derw'n eu gwraidd,
A'r llwŷn derw oll yn d..wraidd;
A pha le bu cyffelyb wydd,
Pe bai goel pawb i'w gilydd;
Wyrion Einion o Nannau,
Och gwae ni hwnt eich gwanhau;
O bu lid rhwng blodau Rhos,
Edrycher a'i da'r achos?
Tra chas gwaith trwy achos gwán
A ddug ymladd i Gamlan;
Tair ofer-gad trwy fawr-gas,
Tri amhwyll hen trwm y llas;
Gwaed Collwyn yn dwyn i'r dydd,
Gweithred oer, gwaith rhŷ derydd;
Mwy ydyw twyll Medrod hen,
Modd y gwnai am ddwy gneuen;

Digitized by Google

Rhwng dau fugail boed ail dydd,
A rhyw adar, yr hedydd;
Mae oes heddyw am swyddau,
Megis yn ymagoshau;
Sy' ddrwg sy' heddyw ar wir,
A'r un da ni wrandawir;
Drwg a llid drwy golledwaith,
Dyddwyr gynt a doddai'r gwaith;
Nid dim gan y to yma,
Trwy lid oll ond treulio da;
Nid er da 'r un y doi 'r draul,
Ond drwg weithred rhyw gythraul;
Cymru 'n waeth caem oer noethi,
A Lloegr yn well o'n llwgr ni;
Can Bil a roi acw 'n bwn,
Croes Iesu rhag rhyw *sessiwn;*
Câr yn cyhuddo arall,
Hawdd i'r llaw gyhuddo'r llall;
Noethed pawb nithied heb wir,
Fai eu gilydd fe'i gwelir;
Gair a drig ar y drygwaith,
A'i liwio i'r gwaed lawer gwaith;
C'wilydd y câr dros arall,
O bai wir llwyr yn beio'r llall;
Goreu yw dal y gair du,
A niweidiol na'i wadu;
Atal saeth nid dilys hyn,
Ael unwaith o linyn;
Anedwydd iawn nad oedd wiw,
Ach amled a chwi ymliw;
Fe a gaid dysg fagad hardd,
Gan ynfyd union-fardd;
Mae llun rhod i'm llaw yn rhôl,
A drych wyneb drwy 'i chanol;
Gwiliwch y droell amgylch draw,
Gwir pedwar gair hap peidiaw;
Heddwch, pybyrwch y byd,
Cyfoeth a faca hefyd;
Cyfoeth y balch caf waith y bêl,
A fo crŷf a fâg ryfel;
Rhyfel a fâg rhyw lafar,
Dlodi byth at lid a bâr
Tlodi ond trueni trwch,
A fo coedd a fag heddwch;

Digitized by Google

Mae'r geiriau hyn yn mrig rhod,
Pe ceid neb i'w cydnabod;
Codiad dyn nis ceidw tani,
A chwymp sydd o'i chwmpas hi;
O try unwaith trwy anhap,
Duw na throi'r rhod eitha'r hap;
Doe'r oedd ddeudu urddedig,
Am ffrae neu ddwy Wmphre'n ddig;
Heddychu heddyw uchod,
A wna parhau yn nhop y rhod;
Coded ei chefn ceidw Duw chwi,
I'ch gwaed gedwch gyd godi;
Coed a ddyly cyd ddeiliaw,
Cedwch y llwyn coed i'ch llaw;
Y gwyr sy' uwch nag aur sêl,
Ag y dowch o'u gwaed uchel;
Er bod gwg arbed a gant,
Am ryw wg ymrywiogant;
Ni bu fyw'r un na bu frau,
A glaned eu calonau;
Elusen oedd ni lâs neb,
Ar lendid eiriol undeb;
Os oer fu ei sori'n faith,
Gras enyn y gwres unwaith;
Gwaed rhywiog wedi rhewi,
Datod dy waed atat ti;
Iti rhodded dwr heddyw,
Tàn yr ia teneu oer yw;
Tyn y rhew o'r tân y rhawg,
Tawdd dy lid hydd dyledawg;
Treiwch wenwyn trowch iawn-waed,
Triagl yw gwynt arogl gwaed;
Cymer reswm trwm bod rhoch,
A dod reswm da drosoch;
Rhoch o'r gwyr rhowch ar geraint,
Ac wrth râs oll gwyrthiau'r saint;
Er Iesu gwyn o'r wayw sgwâr,
Er y loes a roi Lasar;
Y Drindod a ro undeb,
Er deigr Mair deg ar ei Mâb.

Digitized by Google

## MYNWENTYDD.

Yn Nghoed Helygog, yn y Brithdir Uchaf, oddiar a cherllaw y ffordd haiarn a red o Ddolgellau tros y Garneddwen, y mae mangre hen fynwent yn ol a ddywedir, ynghyd a gweddillion ei chapel perthynol. Neu yn fanylach, mwy cyson dywedyd y perthyna y fynwent i'r capel. Cludwyd ymaith ran o'r hen gapel tybiedig hwn er's blynyddau yn ol. Dywedir i lawer gael eu claddu yn y fynwent hon, ac y byddid yn arfer myned o'r claddedigaethau i dafarn o'r enw Llety'r Pincyn, pa un ydoedd encyd o bellder o'r fangre, ac y cedwid y gwleddoedd yno ar yr achlysur. Dichon y cynhelid yno yr hyn a elwir *shot*, ac mai at yr arferion cysylltiedig â'r cyfryw y cyfeirir yma wrth y dynodiant gwleddoedd. Ymddengys mai yr un enwad a *Scot* ydyw *Shot*, y cynhebryngau claddedigol ac y golyga gyfran neu gyfrif; a bod talu'r *shot* yr un peth a thalu'r gyfran neu'r cyfrif. Saif hen olion Llety'r Pincyn yn min y nant a elwir Afon Helygog, yr hon a red rhwng coed Helygog a thyddyn-dir Cefncraian Isaf.

Hefyd y mae yn y Brithdir uchaf, ond ar dir Cefncraian Uchaf, faes o'r enw Cae Maes y Bedd. Ac ymddengys oddiwrth yr enw, ddarfod i rywun neu gilydd gael ei gladdu yn y maes hwn neu ar ei bwys. Eithr nid yw'r enw yn rhoi lle i dybio y claddwyd ychwaneg nag un, neu o leiaf nad ydoedd yno namyn un beddrod. Ac felly, yn ol yr ystyr a roddir i'r enw mynwent yn gyffredin, nis gellir golygu y bu y cyfryw o fewn terfynau y maes hwn.

Ond yn y Brithdir Isaf y mae maes o'r enw Cae'r Fynwent; ac ymddengys oddiwrth yr enw ynghyd ag y caed esgyrn (dynol fel y tybir,) yno pan yn aredig y tir, a hyny fel yr ymddengys yn y flwyddyn 1821, y bu yma gynt fynwent yn yr ystyr yr arferir y gair yn gyffredinol.

Gellir sylwi fod yn y cymydogaethau hyn ddwy fynwent wedi eu ffurfio yn y ganrif hon, y naill wrth gapel Siloh, perthynol i'r Trefnyddion Calfinaidd, yn y Brithdir Uchaf, a'r llall wrth gapel yr Annibynwyr, yn y Brithdir Isaf. Adeiladwyd yr un a nodwyd flaenaf yn y flwyddyn 1841, y waith gyntaf, ac amgauwyd ei fynwent berthynol ar y pryd. Cyfodwyd y capel presnol gerllaw ei safle yn y flwyddyn 1874, ac helaethwyd ychydig ar y fynwent yr un adeg. Adeiladwyd y capel arall yn y flwyddyn 1860, ond ymddengys mai y flwyddyn ddilynol yr amgauwyd y fynwent berthynol. Yr oedd gan yr Annibynwyr gapel yn lled agos i'r fan yn flaenorol i hwn.

Digitized by Google

## GWEDDILLION CARNEDD.

Yn nghyffiniau Bwlch y Llyn Bach (Llyn Tri Graienyn), ymddengys fod yn aros weddillion un o'r hen garnddau hynafiaethol. Y mae ei mangre ar y mynydd yn nghwr mawnwg, ac islaw yr hen ffordd a gyfeiria tua Dolgellau tros y Bwlch Coch. Nis gellir fel hyn namyn bron grybwyll am dani, ac y mae ei hanes hithau fel lliaws eraill wedi myned i ebargofiant ymhlith pethau a fu. Y mae yn ymddangos i ran fawr o'i cherig gael eu dwyn ymaith i ryw ddiben neu gilydd.

---

## TIR STENT, NEU TIR YSTENT.

Gorwedd y tir hwn yn nhrefddegwm Garthgynfawr; ac y mae gan amryw dyddynwyr, neu berchenogion y cyfryw dyddynod ag sydd a'u safle yn y drefddegwm, fath o hawl ynddo o dan reolau penodol. A cheir cyfeirio at y cyfryw reolau ymhellach ymlaen, gan nodi pa faint o wartheg oedd i gael eu troi iddo perthynol i'r tyddynod hyny yn y flwyddyn 1654. Ac hefyd y nifer oedd i gael pori arno o'r tyddynod perthynol yn ol y Rheolau yn y flwyddyn 1871.

O barth y dynodiant enwol *Stent* ag sydd iddo, ymddengys mai llygriad ydyw o *Extent*. Ac feallai mai ei ystyr yma ydyw prisiedig, a bod Tir Extent yn golygu tir prisiedig yn y cysylltiad hwn. Perthyna i Extent yr un ystyr a'r dynodiant Estyn neu Ystyn a geir yn yr hen Gyfreithiau Cymreig. Ceir yr enwau dynodol Tir *Extent* mawr a Tir *Extent* bach yn y dyfyniadau cytundebol a ganlyn a gymerwyd allan o adysgrifau Saesneg mewn perthynas i'r fan:—

"Ionawr, Tri deg ag un, 1633.

"Cofnod fy mod i Richard Lloyd drwy hyn yn cydnabod ddarfod imi dderbyn sicrwydd oddiwrth Mr. Hugh Nanney, Mr. David Lloyd Tuder, a Mr. Robert Vaughan am y swm o chwech ugain punt, y cydnabyddiaeth am y tir cydnabod Extent mawr i'w drosglwyddo genyf fi i'r dywededig Hugh Nanney, David Lloyd Tuder, a Robert Vaughan yn dir cydnabod, gan gadw yr ardreth blynyddol o dri swllt ar ddeg a phedair ceiniog a hawl a rhyddid cyttirol i bob math o anifeiliaid cydymbawr i ddalwyr y tyddynod a elwir Brynycastell, ac Extent bach, y rhai ydynt diroedd y dywededig Richard Lloyd. Ac yr ydwyf trwy hyn yn addaw i a chyda y dywededig Hugh Nanney, David Lloyd Tuder, a Robert Vaughan drosi ar eu cais neu ar gais nebun o honynt ar neu cyn y dydd cyntaf o Ebrill nesaf, y cyfryw sicrwydd ag a hawlir ganddynt.

Digitized by Google

Yn dyst wrth hyn llawnodais—

Ric. Lloyd.

Cytunwyd arno a llawnodwyd
yn ngwydd
Edm. Haughan
John Morgans
Robert Price.

Yn Nolgellau y 29fed o Fedi 1633.

Nodyn o gytundeb a orphenwyd ac a gytunwyd arno gan a chydrhwng Richard Lloyd, Dulasau, yn swydd Gaernarfon o un blaid Yswain, a Rhydd feddianwyr tref ddegwm Garthgynfawr yn swydd Feirionydd y rhai sydd a'u henwau yn ysgrifenedig islaw o'r blaid arall, mewn perthynas i bryniad y tir cydnabod o'r holl diroedd hyny a elwir ac a adwaenir wrth yr enw Tir Extent mawr, yr hwn a orwedd ac sydd yn y ddywededig dref ddegwm Garthgynfawr, yn y ddywededig swydd Feirionydd. Yn gyntaf, ymgyfamoda, addawa, a chaniata y dywededig Richard Lloyd i a chyda y rhydd feddianwyr enwedig islaw, trwy y cyflwyniadau hyn, y gwna, am, ac mewn ystyriaeth o'r swm o chwech ugain punt o arian cyfreithlawn Lloegr, i'w talu iddo gan y rhydd feddianwyr enwedig, islaw, drosglwyddo yn ddigonol a sicrhau ar gais rhesymol y dywededig rydd feddianwyr, y tiroedd a elwir Extent mawr gyda eu perthynolion i'r dywededig rydd feddianwyr a'u hetifeddion a'u dirprwywyr am byth, neu i unrhyw ddau, tri, neu un o honynt gosodedig mewn ymddiried dros neu yn enw y rhelyw. Hefyd, cytunwyd ym mhellach rhwng y dywededig bleidiau, na chaiff tiroedd y dywededig Richard Lloyd, y rhai a elwir Brynycastell, a Tir Extent bach eu dyledu gyda thaliad unrhyw ran o'r swm o chwech ugain punt er eu bod i cael cydbawr yn y tiroedd a elwir Extent mawr ar bob amserau a thymhorau o'r flwyddyn heb wrthwynebiad unrhyw berson neu bersonau. Yn dyst o hyn y mae yn ogystal y dywededig Richard Lloyd ac hefyd y dywededig rydd-feddianwyr wedi llawnodi eu henwau.

"Ric Lloyd.

Hugh Nanney
David Lloyd Tudder
Robert Vaughan
nôd X Morris ap Ellise
nôd X Owen Lewis.

Yn canlyn y mae sylwedd Nodyn o Gytundeb, dyddiedig yn Nolgellau yr 28ain o Awst, 1654:—

Digitized by Google

Nodyn o Gytundeb a wnaed rhwng Griffith Nanney, Ysw.; John Lloyd, Ysw., Robert Vaughan, Ysw., Tuder Vaughan, David Ellis, Owen Lewis, Ellis Moris, Griffith Lloyd ap Ellisey, Owen Tuder, Richd Humphreys, a Howel Vaughan, o'r un blaid, Lewis ap John Griffith, Griffith Simon, John William, Griffith ap Robert, Lewis ap Rees, Ellis Lewis ap Tuder, Syr Richard Lloyd, a Lewis Anwyl o'r blaid arall.

Yn Gyntaf, Cytunwyd gan a chydrhwng y pleidiau a nodwyd fod i'r darn tir a elwir Ystent Mawr, gael ei gadw yn flynyddol o'r 15fed dydd o Ebrill [H. G.]* rhag cael ei bori gan unrhyw fath o ysgrubliaid hyd y 19eg o Fehefin [H.G.] a ddilynai nesaf, ar draul a dyledion cyfamranol y personau cyfranog ynddo.

Hefyd cytunwyd ar i'r personau a enwyd gael ar y 19eg o Fehefin [H. G.] yn flynyddol droi iddo, a phorfau cymaint o wartheg ag sydd wedi eu nodi ar gyfer eu gwahanol enwau yn yr atodlen gysylltiedig, ac i'r cyfryw gael aros yno hyd y 10fed o Gorphenaf a ddilynai nesaf.

Ym mhellach, Cytunwyd bod i'r tir a nodwyd gael ei gadw drachefn ar y 10 dydd o Gorphenaf [ ] yn flynyddol rhag cael ei bori hyd y 10, o Awst [H. G.] a ddilynai nesaf a'r pryd hwnw bod i'r personau a enwyd eisioes gael troi iddo yr hafal gyfran i aros, a hyny hyd y 30, o Fedi a ddilynai nesaf os byddai achos gan neb un o honynt yn wahanredol, ac oddiyno ym mlaen hyd y 15, o Ebrill [H. G.] a ddilynai nesaf. A bod y tir hwn i'w gydbori a phob math o ysgrubliaid a fai gan y pleidiau cyfranogol dywededig yn eu gwahanol leoedd. Hefyd, fod mawnog gyffredin yno i bawb o'r personau cyfranog a'u tirddeiliaid, ond dan amod nad oedd y mawn a dorid ganddynt i gael eu symud cyn i'r tir gael ei bori a'i wneyd yn llwm.

Hefyd, Cytunwyd ar fod i dri neu ychwaneg o bersonau cyfranog yn y tir hwn gael eu dewis yn arolygwyr arno, ac i ofalu am benodi un neu ychwaneg i gadw ac edrych ar ei ol ar draul a gofynion y personau cyfranog ynddo. yn gyfartal yn ol eu gofynion gwahanredol.

Yr un modd, Cytunwyd i'r rhai hyny o'r pleidiau cyfranogol ag a ffiniant ar Ystent Mawr i gau a dyogelu yn briodol eu tiroedd cysylltiedig a'r lle ar eu traul eu hunain.

Cytunwyd ym mhellach ar fod i bwybynag a droai iddo yn wirfoddol ychwaneg o anifeiliaid nag a osodwyd i lawr ar gyfer eu gwahanol enwau, o'r 15, o Ebrill yn flynyddol hyd y 30, o Fedi yn flynyddol neu droi dim o gwbl ar yr amserau ag sydd wedi eu penodi yma rhag

---

* Gan olygu Hen Gyfrif, fel yr ymddengys. O. S. yw y llythyrenau a geir yn yr adysgrif Saesneg y cymerwyd y Nodyn Cytundeb hwn allan o honi.



Digitized by Google

hyny, i golli pob ymddiriedaeth, enill, elw, rhan, neu fantais ynddo. Ac yn dystion o hyn rhoddodd y pleidiau eu henwau wrth y Cytundeb.

| | | |
|---|---|---|
| Griffith Nanney | | Griffith Lloyd |
| Jon. Lloyd | | Owen Tuder |
| Robt. Vaughan | | Richd. Humphreys |
| David Ellis | | Ellis Moris |
| Owen Lewis | Nod | Ellis Lewis Tuder |
| | Nod | Jon. William |
| | Nod | Griffith Simon |

Yn ddilynol, ceir nifer y gwartheg penodedig i'r gwahanol bersonau a feddent hawl i droi iddo i'w bori, a'r cyfanrif ydoedd 151, a'r oll i fod yn wartheg banyw, fel yr ymddengys. Ac at y rhestr hon y cyfeirir wrth yr atodlen a nodwyd :—

| | |
|---|---|
| Cyfran Syr Richard Lloyd dros Bryn y Castell a Thir Stent Bach .. .. .. .. .. | 9 |
| Griffith Nanney, Ysw., dros Plas yn Brithdir .. | 7 |
| Jon. Lloyd, Ysw., dros Trefeilia, Hafod Las, Tyddyn Ednyfed, a Phen yr Allt .. .. .. | 18 |
| Robt. Vaughan, Ysw., dros y ddau Gwengraig Uchaf .. | 7 |
| Tuder Vaughan dros Cefn Coch Uchaf ac Isaf .. | 7 |
| Howell Vaughan dros Gwengraig Eitha a Chefn Clawdd | 8 |
| David Ellis dros Gwanas .. .. .. | 6 |
| Owen Lewis dros Tyddyn Mawr a Thyddyn y Gareg .. | 16 |
| Ellis Morris dros Dolgun Uchaf .. .. .. | 5 |
| Richard Humphrey dros Tyddyn y Pwll, neu Coed .. | 8 |
| Lewis Jon. Griffith dros Dewisbren a Dreberfedd .. | 9 |
| Owen Tuder dros Pandu'r Gadair a Maescoch .. | 8 |
| Griffith Simon dros Cwmcorysyl .. .. .. | 8 |
| Jon. William dros yr haner o Gwengraig Isa .. | 5 |
| Griffith ap Robert dros yr haner o Gwengraig Isa .. | 8 |
| Griffith Lloyd ap Ellisey dros Ffridd yr Eurych a Thregeryg .. .. .. .. .. | 6 |
| Lewis ap Rees dros Hendre'r Gefeilliaid a Maes yr Helmau .. .. .. .. | 5 |
| Lewis Anwyl dros Tyddyn y Patti .. .. | 5 |
| Ellis Lewis ap Tuder dros Cwmcorysich .. .. | 6 |

Bellach, rhoddir enwau y lleoedd, a nifer y gwartheg perthynol

Digitized by Google

iddynt ag oedd i borfau ar Dir Stent yn ol Rheolau y fan yn y flwyddyn 1871:—

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cefn Coch .. | 7 | Tirstent Bach.. | 2 | Dol Yspytty .. | 6 |
| Coed .. | 3 | Fronoleu .. | 5 | Trefeilia .. | 3 |
| Hafod Las .. | 3 | Pen'r Allt .. | 6 | Tyddyn Ednyfed | 6 |
| Ty'nsarn .. | 6 | Tyddyn y Gareg | 11 | Hendregefeilliad | 5 |
| Tyddyn Mawr | 3 | Ty'n Clawdd .. | 2 | Pen y Bryn .. | 5 |
| Llety'r Goegen | 7 | Cefn y Clawdd | 8 | Dre Geryg .. | 4 |
| Cae Newydd | 2 | Ty'n y Bryn .. | 3 | Bwlch Coch .. | 3 |
| Ty'nffordd .. | 2 | Maes Coch .. | 6 | Pandy'r Gadair | 2 |
| Plas yn Brithdir | 7 | Bryn y Castell | 7 | Hafod y Meirch | 11 |
| Penyfron serth | 2 | Dewisbren Isaf | 7 | Dewisbren Uchaf | 2 |

---

## CARNEDD SAIS.

Nid ydys yn gwybod ymha fan yn benodol y safai y garnedd hon; ond ystyrir bod ei safle ger pen y rhiw sydd rhwng y Fronoleu a Thir Stent, fel yr elir o Ddolgellau ar hyd yr hen ffordd dros y Fronserth. A gelwir pen y rhiw hwnw yn Pen Rhiw Carnedd Sais. Yn ol y cerdd y chwedl, nid carnedd feddrodol ydoedd, ond carnedd a gyfodwyd yn dystiolaeth am y cytundeb y ceir cyfeirio ato yn y traddodiad canlynol:—

Yr oedd y gŵr a brynodd ddegwm Llan Fachraith a Llanelltyd yn byw yn y Wengraig; a phan ddaeth swyddog o Sais i'r wlad i werthu eu degwm, aeth ato er cael cyfarwyddyd i weled y plwyfydd hyn, gan na wyddai am neb arall yn yr ardal. Gan hyny, ar ol i'r swyddog gyraedd y Wengraig, wedi dyfod o hono ar ei daith dros Fwlch Oerddrws, a chael gafael yn y gŵr a nodwyd, ymhen amser aethant gyda'u gilydd i ben bryn oddiar y tai a elwir Ty'nycornel, o ba fan yr oeddis yn gallu lled ddangos terfynau y ddau blwyf. Nid oedd y Llywodraeth yn cael fawr oddiwrthynt, ac o'r herwydd daeth y swyddog crybwylledig i edrych a oeddis yn cael cyfiawnder mewn perthynas iddynt. Ond wedi iddo eu gweled oddiar y bryn hwnw, dywedodd wrth ei arweinydd pe cawsai ryw swm penodol a enwai ar y pryd am danynt, nad aethai gam pellach yn eu cylch. Yna addawodd y llall roddi iddo ei bris, ac felly prynodd eu degwm ar y fan.

Digitized by Google

Ac yn gôf neu dystiolaeth o'r cytundeb hwn y codwyd y garnedd—Carnedd Sais. Y mae degwm y plwyfydd hyn yn awr yn aros yn meddiant teulu Nannau, sef cangen o Fychaniaid y Wengraig, yr un fel yr ymddengys ag yr oedd y gŵr a nodwyd yn perthyn iddynt. Unwyd teulu Nannau â Fychaniaid yr Hengwrt trwy briodas, y rhai oeddynt yr un teulu a Fychaniaid y Wengraig.

Ond yr oedd Fychaniaid y Wengraig yn dwyn cysylltiad perthynasol â theulu Nannau trwy ddisgyniad. Eithr y briodas y cyfeirir ati ydyw yr un rhwng Robert Fychan o'r Hengwrt, yr Hynafiaethydd, â merch i Gruffydd Nannau, o Nannau. A rhieni ei phriod, sef yr Hynafiaethydd a nodwyd, oedd Margaret, merch Edwart Ywain o'r Hengwrt, yr hon oedd yn wyres i Lewis Ywain, neu Lewis ab Ywain y Barwn. Fel y mae yn hysbys, cafodd y barwn hwn ei ladd gan Wylliaid Cochion Mawddwy, a hyny yn y flwyddyn 1555. Ac yn ddilynol ceir cywydd marwnad iddo o waith y bardd Ywain Gwynedd.

"Cywydd Marwnad Lewis ab Owen y Barwn."

Y mae'r gair am wr gwrol,
Ond truan yw ein troi'n ol;
Gair o adwyth garw ydyw,
Ni esgyr un os gwir yw;
Os gwir lladd ysgwier llwyd,
Yn iach heddwch o chuddiwyd;
E sai 'rhawg yn y sir hon,
Yn waeth llywodraeth lladron;
Caen y deiliaid cwyn dilyw,
Canoes gwae'r iaith can's gwir yw;
Llamai fry'n fud llym fraw'n f'ais,
Lladd y Marwn llesmeiriais;
Awr a ddaw herwydd a wn,
Am Lewys yr ymliwiwn;
Och o'r modd ucho roi main,
Aer ei ryw Eryr Owain;
Bwriad blin-drefn brâd blaen-drwyth,
Bwrw edn o lin Bradwen lwyth;
Bwrw Cun i beri can-och,
Bwrw osglawg braisglew coch;
A bwrw saith heibiaw o'r ser
Ywrw gwinben fro Gamber;
A bwrw nen wybr yn unawr,
Yw bwrw aur llew obry'r llawr;

Digitized by Google

.. weled rhoi y wlad draw,
Oll i gawdd allu 'i guddiaw;
Oer heb eu dawn yw'r byd oll,
Oer gwae Farged o'r gyfrgoll;
Gwae'r gweiniaid a gai'r gwenwyn,
Gwae Wynedd oll gan ei ddwyn;
Gwae'nthwy'r beirdd gaent aur a bwyd,
A gwae'r epil a gropiwyd;
Duw wyn ar frys dôn' i'r frau,
Dial golled Dolgellau;
Enwog wr yn ei guras,
Maeddu llu ym Mawddwy llâs;
Och i'r llafn mor wych fu'r llaw,
Na ddaliodd yn ei ddwylaw;
Adwy anhap adwaenir
Erioed yw'r Du-goed ar dir;
Os hoenus dros y siawns draw,
Y drygwyr am ei drigaw;
Oer a fydd na ryfeddon',
Iddyn' hwy y ddïen hon;
Os oer aml iso'r ymladd,
Nid da ar llês hwyntau'r llâdd;
Mae fo i'r côr myfyr cau,
Maent hwy allan mewn tyllau;
Be gwnelsai bob rhai eu rhan,
A sefyll megis Ifan;
Er cais trwy falais tra fai,
Na thrwy gâs ni thrigasai;
O saeth orn adwyth arnom,
A gofid trwy gafod drom;
O Dduw byth ni obeithiwn,
Ddial rhyw ddolur a hwn;
O caem hwynt hwy cymaint un,
A dyrnu ynyd arnun';
Ni chaid tros a nychwyd draw,
Werth ei fŷs wrth ddyfeisiaw;
Eu bro hwyntwy braint hayach,
A bwysai ben y bŷs bach;
Cadw'r oedd accw od yw raid,
Rhag herwyr y cywiriaid;
Ammeu 'roedd ymarweddiad,
A bwrw i lawr beiau'r wlad;
Ei farn ef a fwriai'n us,
Y to lladron twyllodrus;

Digitized by Google

Hwyntau eu gyd hwnt a gaid,
Y nghweryl anghywiriaid;
Ifan a'i oen a fu'n ail,
Fedyddiwr fywyd addail;
Am ammeu beiau bywyd,
Herod a'i briod ryw bryd;
Yn ol i'r rhai'n eiliaw rhwyd,
E lâs Ifan lysieu-fwyd;
Am yw gorph ammeu y gau,
E lâs hwnt Lewis yntau;
Un gweryl yn ei guras
A'r un lliw a'r oen y llâs;
Un ofeg a'r hên Ifan,
Eithr ef draw a wnaeth ei ran;
Nag wylwn dros y glyn draw,
Yn rhybell er ein rheibiaw;
Os Duw wyn âd distawn ni,
Siôn îr iawn sy'n aer inni;
Ir ydyw Mair yw adael,
A nef i'r hen Ifor hael.

---

## DEWISBREN A THYDDYN Y GARREG.

Fel y mae yn hysbys, y mae yn y plwyf hwn ddau dŷ o'r enw Dewisbren, yn ol fel ei ysgrifenir, y rhai a ddynodir y naill yn *uchaf* a'r llall yn *isaf*. Tyddyndy ydyw yr Uchaf, ond y mae y llall erbyn hyn (1886), yn dŷ rhag-dyddynol, a hyny er y flwyddyn flaenorol. Eithr hyd yn gymhariaethol ddiweddar, nid oedd yma namyn un tŷ o'r cyfryw enw, a hwnw oedd yr hwn a elwir Dewisbren Uchaf. Ar y cyntaf, gelwid Dewisbren Isaf, yn Llety Gawsom. Ac yn ol a ddywedir, cafodd ei adeiladu gan deulu Dewisbren Uchaf megis, i rai o'u plant, pa rai a'i galwasant yn Llety Gawsom. Ac feallai ei cyfodwyd cyn y ganrif hon, sef rywdro yn y rhan olaf o'r ganrif flaenorol. Yn ol a ddywedir, y mae amryw feddau hunan-leiddiaid ar ffridd y Dewisbren Isaf, tua Phen y Bwlch Coch. Ar faes perthynol i'r Dewisbren Isaf, ond a berthynai gynt i'r Fedw, y mae maen gwyn yn sefyll ar ei ben yn ddaear, ac yn mesur rhyw dair troedfedd o uchder oddiar yr arwyneb. Gelwir y maes Cae Maen Gwyn, a diameu iddo gael ei ddynodi felly oherwydd y maen hwn.

Digitized by Google

Ar dir Tyddyn y Garreg, ac yn lled agos i Gae Maen Gwyn, yr oedd gynt faen yn sefyll ar ei ben yn y ddaear, yr hwn, fel yr ymddengys, a gwympwyd ryw bryd rhwng tua'r flwyddyn 1811, a thua'r flwyddyn 1817. Gelwir y maes lle y safai yn Gae Maen Hir.

## LLYN Y GADAIR GOCH.

Amrywia y llyn hwn yn ei faintioil ar wahanol amserau, ac y mae ei fangre yn yr afon Wnion, wrth y Bont Fawr, ac ar y tu isaf iddi. Cafwyd golygfeydd ysmala yn ei gymydogaeth y mae'n debygol, canys byddid yn ei ddefnyddio gynt i gosbi mathau penodol o droseddwyr yr ardaloedd cyfagos trwy eu trochi yn ei ddyfroedd. Cafodd ei alw yn Llyn y Gadair Goch, am mai mewn offeryn o'r enw y Gadair Goch y trochid y cyfryw droseddwyr. Rhwymid yr euog yn y gadair hon, gan ei daraw tros ei ben a'i glustiau dan y dwfr ynddi yn wysg ei gefn ar waith un neu ychwaneg yn trin yr offeryn yn ddyladwy. Yna, trwy gyfnewid y dull, ei gyfodi allan drachefn, ac felly i lawr ac i fyny tros ei ben i'r llyn, ac allan wedi cynifer o weithiau ag a benodwyd yn y ddedfryd. Ni thynwyd allan Ddeddf Seneddol mewn perthynas i'r Gadair Goch, eithr offeryn cosbedigaeth leol ydoedd. Cosbid fel hyn enllibwyr celwyddog a thafod-drwg, yn enwedig ferched o'r fath. Ac ymddengys y cosbid hefyd felly feddwon afreolus, ynghyd â'r sawl na chydfyddent yn weddus yn yr ystad briodasol. Yr adeg olaf y cosbwyd fel hyn yn Llyn y Gadair ydoedd tua'r 1807, pryd y trochwyd menyw ynddo oherwydd ei drwg dafod. Bygythir yn yr hen englyn canlynol y cai y gwragedd tafod-drwg eu bwrw i'r Gadair gosbol hon:—

> "Y gwragedd rhyfedd eu rhoch—ysgeler,
> Ysgowliwch pan fynoch
> 'E'ch bwrir a'ch bai arnoch,
> Gwedi'r gair i'r Gadair Goch."

Isaac Lewis a'i cânt, medd llyfr Henry Parry, 1730, yr hwn sydd, neu o leiaf a oedd yn Mryntanad, Llanerful, Sir Drefaldwyn, yn y flwyddyn 1876.

Bu Llyn y Gadair Goch yn cael ei ddefnyddio wedi hyn i ddiben anghymarol mwy urddasol, sef i fedyddio aelodau perthynol i'r Bedyddwyr. Ond y mae gan yr enwad hwn yn awr le penodol i fedyddio yn eu capel ar gwr y dref.

Digitized by Google

## BRYN MAWR.

Rhoddir enw yr amaethdy hwn i lawr am fod bedd wedi ei ddarganfod gerllaw iddo. Fel yr oeddid yn tori sylfeini cutiau moch perthynol i'r fan, ar y 18fed dydd o Ragfyr y flwyddyn 1875, darganfyddwyd beddrod ac ychydig weddillion o'r un a gladdwyd ynddo yn aros. Ymddengys ei claddwyd mewn ysgrîn, canys caed ynddo ddeuddarn bychain,—un o honynt ond bychan iawn,—gweddillion ystyllen perthynol iddi ag ydoedd fel hyn heb orphen malurio pan ganfyddwyd y beddrod. Yr oedd yn y darnau hyn nifer o hoelion copr penau crynion, y rhai oeddynt yn gwpanau odditanynt. Ac ymddengys eu bwriedid i fod yn addurn ac i roi peth hysbysrwydd ynghylch yr un a orweddai yn yr ysgrîn. Ffurfiai rhai o'r hoelion lun calon, ac ymddengys yr arddangosai y gweddill lythyrenau a rhifnodau. Eithr ni ellir penderfynu oddiwrthynt pa lythyrenau, neu rifnodau a olygid wrthynt. Ond gellir sylwi yr arddengys y rhifnod sydd ar y dernyn lleiaf naill ai 6 ai 9. Yr oedd llechfaen yn gorwedd ar y bedd â'r llythyrenau penigol A ac H yn amlwg arni; a dywedir fod rhifnodau arni hefyd pan ei darganfyddwyd gyntaf, ond ddarfod i weithiwr, yn ei frys am drysor arianol ag y tybiai oedd yn gorwedd dani, ei thori ar ei thraws yn y fan yr oeddynt. Ond cafodd ei lwyr siomi: a bydded hyny yn rhybudd dwys i eraill rhag tori careg o'r fath os digwydd iddynt daraw wrth un.

Gellir sylwi fod ar gael hen Ddeintysgrif berthynol i Bryn Mawr, pa un sy'n dwyn amseriad y flwyddyn 1649. Gweithred briodas ydyw rhwng Ellis Price, ail fab Rees Lewis ap John Griffith, o Dyffrydan, âg Anni Humphrey, un o ferched Humphrey ap Hugh o Lwyngwril. Ac fel hyn y mae y llythyrenau penigol ar y llechfaen yn cyd-daraw â rhai penigol yr Anni Humphrey sydd yn y Ddeintysgrif. Ond nid gwiw rhoi gormod pwys ar hyn fel ag i synio mai yr un person a olygant.

---

Digitized by Google

## FFRIDD Y GILFACH WYDD, &c.

Perthyna y ffridd hon i'r tyddyn y mae yn cael ei henw oddiwrtho, sef y Gilfach Wydd. Yn mis Medi y flwyddyn 1823, caed torch aur ar lawr ynddi, yr hon a fesurai oddeutu dwy fodfedd a deugain o hyd. Ac yr oedd gwerth priodol ei delid tua 30p. Dywed y "Parthiadur," gan Samuel Lewis, mai James Hughes, Ysw., mab periglor Dolgellau, a'i darganfyddodd pan oedd allan yn saethu. Yn ol a ddywedir, gwelwyd hi gan wraig y Gilfachwydd cyn hyny; ond gan na wyddai beth ydoedd gadawodd hi yno. Caed bwyell rhyfel o elydr yn rhywle rhwng Llyn Gafr a Llyn y Gadair, a hyny tua'r flwyddyn 1878.

Yn nghymydogaeth y llynau hyn y mae Llwybr Madyn, i ba un y rhoddir enw Saesneg cyfystyr â llwybr y llwynog. Diameu fod y geiriau, neu yr enwau llwynog a madyn, yn golygu y creadur gwyllt hwnw ag sydd hefyd yn myned o dan yr enw cadnaw. Ond er hyny, y mae yn rhy amheus i gymeryd yn derfynol mai at y cyfryw y cyfeirir yn nynodiant y llwybr hwn. Canys feallai mai enw personol ydyw Madyn a gysylltir â'r unrhyw yn herwydd rhyw achlysur neu gilydd. Modd bynag, ceir yn y llinell olaf o'r penill canlynol o'r "Gododin" enw personol yn y ffurf o Madyein. Ond feallai mai at yr unrhyw y cyfeirir hefyd dan y ffurf o Madyeith yn y "Gododin" yn mhellach ymlaen ar y llyfr yr ydys yma yn dyfynu o hono. A rhedant fel hyn:—

"Angor dewr daen
Sarph seri raen
Sengi wrymgaen
  Emlaen bedin.
Arth arwynawl drussyat dreissyawr
Sengi waewawr
En dyd cadyawr.
  Yg clawd gwernin.
Eil nedic nar;
Neus duc drwy var.
Gwled y adar
  O drydar drin.
Kywir yth elwir oth enwir weithret;
Ractaf rwyuyadur mur catuilet
Merin a madyein mat yth anet.*
* * * * * *

* The Four Ancient Books of Wales. Skene, cyf. ii., t. 81—2.

Digitized by Google

Angor deor dain sarph saffwy grain. blaen bedin
Enwir yt elwir oth gywir gverit.
Kewir. yth elwir oth kywir werthret.
Rector rwyvyadur mur pob kiwet.
Meryn mab madyeith mat yth anet."*

---

## CAE CAREG Y BIG.

Y mae y cae hwn yn gorwedd am y clawdd gogleddol a'r ffordd fawr, ac yn nes i Ddolgellau o ryw chwech ar hugain o gamrau na Phont Dyffrydan, ac hefyd am y clawdd dwyreiniol âg Wtra yr Afon Goch. Yr oedd gynt yn sefyll ar y cae hwn, ddau faen ar eu penau yn y ddaear o fewn oddeutu dwy lath i'w gilydd; ond yr oedd un o honynt yn fwy na'r llall, ac ymddengys mai oherwydd y mwyaf y rhoddwyd yr enw ar y maes. Rywdro tua'r flwyddyn 1822, cafodd y maen mwyaf ei fwrw i lawr mewn disgwyliad am gael gafael mewn crochan aur odditano, eithr yn hyn ni chafwyd namyn siomiant. Ond wrth chwilio am drysor euraidd cafwyd bedd yn gylch crwn rhwng y ddau faen hyn, ac esgyrn gwynion ynddo. Yna cauwyd y bedd a throwyd y maen leiaf i ochr y clawdd, a gadawyd y mwyaf yn y gwely a dorwyd er iddo gwympo iddo yn ei fwriad i lawr yn yr hwn yr ymddengys yr erys eto, ac mewn rhan yn y golwg.

---

## CRAIG Y CASTELL.

Math o fryncyn creigiog a phawrdirog mewn rhan ydyw y fan yma. Ymgyfyd ar dir y Tyddyn islaw'r dre', ar ucheldir bryniog yr ardal, ac yn nghymydogaeth godreu Cadair Idris. Cymerwyd mantais ar y fan i godi caerfa neu gastell arno, ond nid ydyw yn lle manteisiol iawn wrth natur i gadw yr unrhyw yn erbyn gelyn. Y mae llinellau y muriau i'w canfod mewn rhan; ond y mae y muriau mor

---

* The Four Ancient Books of Wales. Skene. Cyf. ii., t. 101.

ddymchweledig fel nad oes ond tra ychydig o ôl saerniaeth yn aros. Ymddengys na ddefnyddiwyd calch yn gymrwd wrth eu hadeiladu, nac ychwaith feallai unrhyw fath o gymrwd. Diameu y cymerai yr amddiffynfa feddiant o'r oll o gopa y bryncyn; ond nid oes nemawr o olion gwarchglawdd i'w ganfod ar y tu gogleddol. A thebygol mai prin yr oedd gwaith celfyddyd mor gryf ar yr ochr hon, gan ei bod yn fwy anhygyrch wrth natur. Ymddengys fod dosran amgauedig o'r gaer ar y pen gorllewinol; ond feallai nad oedd y clawdd a'i dosranai o nemawr gadernid. Yr oedd y fynedfa ar y cwr dwyreiniol i'r bryncyn, ac feallai fod yma ddwy fynedfa ar naill fel yn arwain i'r llall.

I'r gogledd oddiwrth y gaer hon, ac yn y pellder o ryw filldir a haner o gerdded yn y cyfeiriad hwnw, y mae lle arall o'r enw Craig y Castell, ac y mae yn llawer mwy adnabyddus na'r llall wrth yr enw hwn. Erys ychydig o olion hen gaer ar y fan hon, ond am ryw bedwar ar ddeg o gamrau ar y cwr gogledd-ddwyrain y mae y gweddillion i'w canfod gryfaf, pa un sydd yn gynwysedig o feini gwarchglawdd dymchweledig. Nid yw yn ymddangos y defnyddiwyd cwmrwd o galch yn adeiladiad yr amddiffynfa hon ychwaith, nac feallai gwmrwd o un math. Y mae arwynebedd ei safle yn guddiedig gan mwyaf oddiwrth safle y llall gan fryn arall. Nid ydys yn gallu dywedyd dim am yr helyntion blin feallai a gymerodd le mewn cysylltiad â'r hen gaerfeydd hyn. Elai y Ffordd Rufeinig heibio yn rhywle yn lled agos atynt, yn enwedig i'r flaenaf a enwyd o honynt, fel y mae yn hytrach yn fwy tebygol. Ac y mae ei hôl i'w ganfod yn y cyfeiriad de-orllewinol iddi yn dringo yn igam-ogam i fyny lethr y mynydd. Ac adnabyddir yr ôl ar lafar gwlad wrth yr enw Llwybr Camrhedynen. Eithr rhy brin y gellir awgrymu i'r Rhufeiniaid erioed wneyd defnydd o honynt. Tebygol mai gan Gymry neu Wyddyl eu cyfodwyd. Ac y mae peth sail i gysylltu y Gwyddyl â hwy yn rhyw fodd neu gilydd heblaw yn yr hanes traddodiadol ag y cyfeiriwyd ato eisoes. Canys ar dir y Ty Newydd, tyddyndir sydd yn terfynu ar yr un y saif arno Graig y Castell a nodwyd gyntaf, y mae adeilad amaethyddol o'r enw Erw Gwỳddyl. Gelwir yr adeilad hwn ar enw tyddyndy oedd yma gynt, ac feallai y cynwys gyfran o hwnw. A chyfeirir at y fan fel Erw'r Gwyddyl yn ewyllys Owen Tudyr, Cefnyrywen (Cefn yr Erw Wen), dyddiedig y flwyddyn 1683.

Digitized by Google

## PARED Y GEFNIR.

Ar Bared y Gefnir, ac yn y pellder o tua dwy filldir a phedwaran neu fwy o gerdded oddiwrth y gaer ar y Graig y Castell y cyfeiriwyd ati sydd ar dir y Tyddyn, y mae gweddillion hen gaerfa i'w chanfod. Ymgyfyd y pared hwn yn gefnen hir-gul a chreig-gerygog gerllaw Llynau Crygenan. Tua chanolbarth ei rhanau uchaf, y mae gweddillion dau wrthglawdd, y rhai a fwriadwyd i gadw allan o'r un cyfeiriad. Nid yw yn ganfyddadwy eu bod yn gysylltiedig â'u gilydd; eto tebygol fod gynt rhyw fath o amddiffyn-glawdd o'r naill i'r llall. Ond tebygol hefyd eu bod yn cynorthwyo i wneyd dosranau gwahanol. Ymddengys fod mynedfa i mewn i'r amddiffynfa ar y tu gogleddol, ac megis rhwng y ddwy ddosran awgrymedig hyn, gan arwain yn benodol i'r ochr ddeheuol lle yr ymddengys y cynullid y daoedd, ar adeg o berygl o leiaf. Ac feallai fod y bwlch bychan sydd yn y graig trwy ba un y cyfeiriai y fynedfa, wedi ei dori gan waith llaw. Gryn bellder o ffordd i lawr yr ochr ddeheuol i'r Pared, ac mewn pantle yno y mae gweddillion hen glawdd, pa un, fel yr ymddengys, ydoedd warchglawdd milwrol. Encyd o ffordd i'r gogledd-ddwyrain o'r fan yma, ac ar gwr allanol math o fwlch bychan, y mae olion gwarchglawdd i'w ganfod, pa un sydd megis parhad o'r llall. Ac ymddengys fod mynedfa i mewn trwy y gwarchglawdd yn y ddau le hyn. Ac i'r amgauad y tu fewn iddo yr arweiniai mewn rhan y fynedfa grybwylledig ar y tu gogleddol. Ymddengys y bwriadwyd yr amddiffyn-glawdd hwn yn fwyaf penodol er amddiffyn y preswylwyr, a'r daoedd a gynullid tebygol ar adeg o berygl o leiaf, i'r ddosran eang y cynorthwyai i'w hamgau. Ymddengys oddiwrth gyfeiriadau hyny o weddillion sydd yn aros o'r hen warchglawdd cerig milwrol hwn, nad oedd y rhanbarth y cynorthwyai i'w ffurfio yn cymeryd i mewn ond canolbarth ystlys y rhan orllewinol o'r Pared. Ac y mae y fath amddifadrwydd o olion gwarchgloddiau i'w canfod ar uchaf y fan, fel y mae yn rhy anhawdd penderfynu pa faint o ucheledd y rhan orllewinol a ddefnyddid fel amddiffynfa. Er hyny, tebygol y ceisid amddiffyn yr oll o'r gyfran hono yn rhyw fodd neu gilydd. Feallai fod dwfr yn codi megis ar ben safle yr hen gaer hon. Ond tebygol mai y diffyg o ddwfr codi o fewn hen gaerfydd mynyddig Cantref Meirionydd yn gyffredin ydoedd eu prif wendid.

Y mae cryn lawer o ychydig yn aros eto o olion adeiladwaith ar yr hen warchglawdd tua'r pantle y cyfeiriwyd ato eisoes, lle y mae gweddillion o hono i lawr ystlys ddeheuol y Pared. Ond feallai nad

Digitized by Google

ydys i briodoli hyn i ddiffyg hynafiaeth. A dichon fod y gaer o amseriad mor foreu a'r cyfnod rhyfelgar a fu rhwng y Gwyddyl a'r Cymry, os nad o amser y Rhufeiniaid neu foreuach. Ond wrth enwi y Rhufeiniaid, nid ydys yn golygu y perthynai i'r genedl hono. Gellir sylwi yr ymddengys oddiwrth y gweddillion sydd yn aros o honi na ddefyddiwyd calch yn ei hadeiladwaith. A hyn hefyd sydd yn ymddangos yn ffaith mewn perthynas i'r oll ymron o'r hen amddiffynfeydd y ceir eu holion o fewn y Gantref a nodwyd. Y mae Castell y Bera yn eithriad, a thebygol hefyd mai felly yr hen oısaf Rufeinig a oedd tua Chefn Caer.

Yn ngodreu Pared y Gefnir, ac i'r dwyrain oddiwrth yr hen amddiffynfa sydd arno, eithr yn wynebu tua'r de yr oedd unwaith garnedd feddrodol. Chwalwyd hi yn y flwyddyn 1863 fel yr ymddengys, er cael ceryg i gynorthwyo i wneyd clawdd ceryg, wrth ymyl pa un yr oedd. Caed ynddi gistfaen, ac y mae un o'i llechfeini yn aros yno eto, eithr ar ei gogwydd. Yr oedd nifer o geryg gwynion lled fychain wedi eu dodi ar waelod y gistfaen, ac wrth ei thalcen neu yn ei ymyl, ac yn amgylchynedig gan y garnedd, faen o tua phedair troedfedd a haner o hyd, wedi ei osod ar ei ben yn y ddaear, a llechfaen odditano. Symudwyd y maen ymaith yr amser a nodwyd, a chafodd ei osod yn bost llidiart mynedfa math o fuarth bychan cysylltiedig â gwyneb tyddyndy (annhrigianol yn awr,) o'r enw Ty'nyllidiart, lle y mae eto yn aros.

---

## FOEL FYNYDD ISA'.

Ffridd perthynol i Hafod Dywyll ydyw y foel hon. Saif ar y tu gogleddol i hen ffordd Drefddegwm, ac yn nghymydogaeth y ddwy Graig y Castell yr ydys wedi cyfeirio atynt. Erys ar y ffridd hon hyd yn awr ddwy garnedd lled fawr, ac y mae eu mangreoedd yn lled agos i'w gilydd, a'r naill o honynt i'r cyfeiriad de-ddwyrain oddiwrth y llall. Y mae yn amlwg wrth yr olwg arnynt iddynt gael eu hagor, ond a gaed ynddynt olion claddedigol ai nado nid wyf yn gwybod. Ymddengys eu bod naill ai yn gôf-arwyddion o ddigwyddiadau pwysig, neu ynte yn wyddfäau beddrodol, a mwy tebygol mai yr olaf ydynt yn fwyaf penodol o leiaf. Y mae yr un ar y tu gogledd-

Digitized by Google

orllewin i'r llall yn nodedig oherwydd y nifer o geryg byrion sydd wedi eu gosod ar eu penau yn y ddaear, gan eu hamgylchu mewn rhan, a thebygol ei llwyr amgylchynid gynt â rhai o'r fath.

Cyn troi ymaith oddiwrth y carneddau hyn ceir sylwi y dywedir fod careg yn mur y Tyddyn islaw'r dre' (Tyddyn Ifan Fychan) yn dwyn cerfargraff i'r ystyr a ganlyn :—" Yma y claddwyd meibion y gwr." Ac yn ol a ddywedir y mae yr ochr i'r gareg sydd yn dwyn yr argraifft hon yn guddiedig o'r golwg yn y mur. Ond a oedd y gareg hon yn mur yr hen dŷ ai ynte y safai yn rhywle gerllaw.

---

## LLYN YR HWYLFA.

Heblaw y gelwir y llyn ar yr enw hwn, gelwir ef hefyd yn Llyn Ffridd Fawr. Y rhai hyn yw ei enwau llafar gwlad, eithr yn Mharthlen y Llywodraeth Llyn y Wylfa ei gelwir. Ar ei làn ogleddol y mae math o gefnen, ar warthaf pa un y saif olion hen amddiffynfa ag ydoedd, fel yr ymddengys, yn un lled ehelaeth. Math o dir dyfriog a siglenog ydyw llawer o'r llyn ; a byddid gynt yn defnyddio y brwyn neu'r hesg a dyfent ynddo i wneyd coleri meirch. A buwyd yn gwneyd y cyfryw mor ddiweddar a thua'r flwyddyn 1844, pryd eu gwerthid am ddeunaw ceiniog yr un. Byddid hefyd yn gwneyd cefndresi o honynt y pryd hwn.

---

## OGO'R FLEIDDIAST, NEU TWLL Y FLEIDDIAST.

Y mae lle o'r enw Twll y Fleiddiast wrth neu o dan hen glawdd adfeiliedig, yr hwn sydd yn derfyn rhwng mynydd Cefnyrywen Isa (Cefn yr Erw Wen) a Chefnyrywen Ucha. Dywed traddodiad, pa un, fel yr ymddengys, oedd yn tynu at fyned ar ddifancoll, i fleiddiast a'i chenawon gael eu lladd mewn lle o'r enw Ogo'r Fleiddiast yn rhywle yn y gymydogaeth, a thebygol mai dyma'r fan y cyfeirir ato. A thybir fod yr amser eu lladdwyd tua'r flwyddyn 1785. Yr oedd cryn ddinystr yn cael ei wneyd ar ŵyn yn yr ardal ; ac o'r herwydd aeth mab Cefnyrywen Fawr neu Cefnyrywen Isa, yr hwn a ystyrid yn un craff iawn fel bugail, a brawd iddo yn ei ganlyn, i geisio cael allan pa beth oedd yn eu hysgleifio. Nid oedd y brawd feallai mor

Digitized by Google

gyrhaeddgar a'r cyffredin; ac yr oedd diffyg ar ei siarad. Ac wedi gweled arwyddion o'r dinystr tua'r fan, aeth y brawd o fugail i mewn i edrych beth a ganfyddai, gan roi gofal ar y llall rhag gadael i ddim fyned i mewn ar ei ol. Wedi iddo fyned i'r twll, canfyddodd y cenawon, a dechreuodd ymosod arnynt i'w lladd. Tynodd eu nadau y fam ar frys gwyllt tuag atynt; ond fel yr oedd yn rhuthro i mewn, cipiodd y gwyliwr afael tyn yn ei chynffon. Pan glywodd y llall sŵn y cynwrf mewn canlyniad, gofynai ynghylch yr helynt, pryd ei hatebwyd gan ei frawd yn ei ddull aneglur i'r ystyr mai os gollyngai y gynffon y cai wybod. Ar hyn, daeth yr holydd atynt, a chan ymosod ar y bwystfil cafwyd y trechaf arni yn ei lladdiad.

Dichon yr ystyrir nad oedd bleiddiaid i'w cael ar fynyddoedd Meirionydd mor ddiweddar a hyn. Modd bynag, nid yw yn ymddangos y gellir dilyn y traddodiad yn well, yn ol eglurhad fy hysbysydd, na thrwy osod yr amseriad fel y gwnaed. Ond ymddengys yn rhyfedd hefyd i'r traddodiad am y digwyddiad fyned yn lled agos ar ddifancoll yn y cymydogaethau, fel yr ymddengys, os cymerodd le mor ddiweddar; ac feallai wedi'r cwbl iddo gymeryd lle yn foreuach o rai ugeiniau o flynyddoedd. Dywed Cambden, ar un llaw, i'r ystyr y porai y defaid ar fynyddoedd Meirionydd yn ddiberygl oddiwrth fleiddiaid, y rhai yr oeddis yn tybio eu bod wedi eu dinystrio pan osododd y brenin Edgar deyrnged o dri chant o grwyn bleiddiaid ar dywysog Gwynedd. Talwyd y deyrnged hon am ddwy neu dair blynedd,—tair, ebr Cambden, ar awdurdod William o Malmesbury, ac y peidiwyd y bedwaredd, gan yr hònai nas gallai gael hyd i'r un yn ychwaneg. Ond ar y llaw arall, dywed Cambden yn eu cylch: "Pa fodd bynag fod rhai yn aros hir amser wedi sydd eglur oddiwrth Gofnodion diamheuol."* Ac o ran hyny, sylwir yn y "Gwyddoniadur Cymreig" dan y gair Blaidd, ddarfod i Edward I. benodi Pedr Corbet yn oruchwyliwr dinystr arnynt. Bu farw Edgar yn y flwyddyn 975, ac Edward yn y flwyddyn 1307,

---

## RHOS TY'NLLIDIART.

Cyfran o dyddyn o'r enw Ty'nllidiart yw y rhos hon, a dygir hi i sylw yma oherwydd y cerflun a gafwyd yno yn y flwyddyn 1832. Yr oedd y cerflun neu y ddelw hon pan ei darganfyddwyd wedi ei rhoddi

---

* **"Cambden Britannica." Gibson. Arg. 1695, colofn . 655.**

Digitized by Google

mewn cistan. Ac yr oedd o ran llun wedi ei gwneyd ar ddull rhan uchaf merch, a dywedir fod argraff arni, ond ni wybyddwyd pa beth ydoedd. Dichon nad oedd ond cof-ddarlun o ryw un neu gilydd; eithr o'r tu arall, feallai mai eulun-ddelw ydoedd. Pa fodd bynag, ar ryw ddydd Sabbath, darfu i blant y lle wisgo am dani, a phan ganfyddwyd hyny gan Shôn Gruffydd eu tad, dywedodd mai tebygol i rai fod yn ei haddoli, ond na chaent hwy wneyd hyny, ac yna ymaflodd ynddi, ac aeth a hi i'r tŷ gan ei gosod ar y tân. Bu farw y gŵr a'i llosgodd yn flaenor gyda'r Annibynwyr, ac feallai ei fod wedi dechreu ar y swydd barchus hono pan ei bwriodd i'r tân.

## CAPEL ELIS.

Saif yr adeilad a ddyga yr enw hwn ar dir yr Erw Goed. Ac yn ol a ddywedir, cafodd ei godi i fod yn fath o eglwys, a hyny feallai er's tua chwech neu saith ugain mlynedd yn ol i'r flwyddyn 1879. Ond bu farw y boneddwr a feddai y prif law yn ei gyfodiad cyn iddo gael ei agor, fel y dywedir. Ac nid yw yn ymddangos y cynhaliwyd gwasanaeth eglwysig ynddo erioed. Bu yr adeilad hwn yn cael ei breswylio gan un o'r enw Elis Jones, yr hwn a fu farw yn y ganrif hon chysylltir yr enw Elis â'r lle oherwydd ei driganiad ganddo.

Digitized by Google

## FFYNHONAU.

### FFYNON FAIR.

Tardd y ffynon hon gerllaw y dref—Dolgellau. Ystyrir fod ei dwfr yn llesol i wella y gewynwst, a gwnaed gwaith maen o'i hamgylch yn flwyddyn 1837 neu 1838. Yn y flwyddyn 1850, gosodwyd llechau ar ei gwaelod, a chauwyd hi i mewn â mur; a chodwyd pendist o fewn yr amgauad ar ei thalcen gogledd-ddwyreiniol er mantais y rhai elent iddi. Gwnaed y cyfnewidiadau hyn yn y flwyddyn a nodwyd olaf, trwy offerynoliaeth un o'r enw Beti Davies, a hyny ag arian y cyhoedd, yn ol a ddywedir. Ond erbyn hyn, y mae y pendist wedi myned i lawr er's amryw flynyddoedd. Ac nid yw y ffynon yn awr yn cael ei chadw yn drefnus.

Yn ol a ddywed Pennant, os byddai Ffynon Fair, neu ffynon ar enw rhyw sant arall yn agos i eglwys, byddid gynt yn arfer bob amser a chyrchu dwfr i fedyddio o'r cyfryw un, ac y byddai hen fenywod yn dra hoff o olchi eu llygaid yn nwfr y fedyddfaen ar ol bedyddiad.

Caed nifer o fathynau Rhufeinig yn y ddaear yn agos i'r ffynon hon rai blynyddoedd cyn y flwyddyn 1695, yn ol fel y gellir casglu yr amseriad oddiwrth yr ychwanegiad at waith Cambden, a'r amser yr argraffwyd Britania Cambden,* a gynwys yr unrhyw, cyhoeddedig gan Gibson.

Perthynai y naill i'r ymerawdwr Trajan, a'r llall i Hadrian. Ar y blaenaf yr oedd yr argraff dilynol:

IMP. TRAIANO AVG. GER. DAC. P.M. TR. P. COS. V. P. P. S. P. Q. R. OPTIMO PRINC.

Trophæum de Dacis.

A'r llall:—

* Cambden Britania, arg. 1695, colofn 657.

IMP. CAESAR TRAIAN HADRIANVS AVG. P. M. TR. P. COS. III.

Mars Gradivus cum hasta & spoliis.

Yn agos i Ffynon Fair y mae neu yr oedd mewn ystyr y Ffynon Rydd. Yr oedd mangre y Ffynon hon er's amser yn ol,—amryw flynyddoedd, feallai, yn muarth Brynmair megis, canys yr ydoedd wedi ei chyfleu gan mwyaf yn nghlawdd y Buarth hwnw. Ond ymddengys fod ei mangre hono erbyn hyn (1886,) wedi ei chau i fyny.

---

## Y FFYNON LYGAID.

Y mae yn ymddangos fod y fangre lle tardd y ffynhonau hyn dipyn yn nodedig am ddwfr o wahanol natur meddyginiaethol. Canys yn lled agos atynt y mae y Ffynon Lygaid, yr hon sydd a'i dwfr yn cael ei ystyried yn llesol i'r llygaid. Y mae ôl llaw ddynol wedi bod yn gweithio er ei chyflunio yn ffynon megis; ond nid ydyw yn cael edrych ar ei hôl yn briodol. Y mae ei mangre mewn darn o dir perthynol i anedd neu balasdy bychan yn dwyn enw Saesneg cyfystyr a Bwthyn y Graig, ac megis wrth y fagwyr geryg ag sydd yn derfyn iddo ar y tu deheuol.

---

## FFYNON Y FFRIDD ARW.

Y mae y Ffynon hon ar graig yn min y ffordd fawr a arwain o Ddolgellau o gyfeiriad Pont yr Aran, ac ychydig o dan filldir o bellder oddiwrth Lysdŷ y Sir neu y Swydd, pa un sydd yn ymyl y Bont Fawr. Y rhinwedd meddyginiaethol a briodolir iddi ydyw fod ei dwfr yn llesol i gryfhau y corff. Yn ol a ddywedir, cafodd ei threfnu yn ffynon gan wehydd o'r enw Richard Griffith, a hyny ymhen rhai blynyddoedd ar ol gwneyd y ffordd fawr sydd yn myned heibio iddi.

Digitized by Google

## FFYNON Y GRO.

O barth pa le yn benodol y mae y tarddiad a elwir Ffynon y Gro, nid wyf yn gwybod, ond rhed ei dwfr yn ffos loew ar hyd gwastadedd tir y Llwyn, gan aberu yn yr Afon Wnion, y tu gogleddol iddi, ac ychydig oddiar y Bont Fawr. Yr ydoedd unwaith ffynon neu lynyn bychan ar y gwastad hwn yn mlaen tir y Llwyn, a thua'r terfyn rhyngddo â thir Dolserau. Ond ymddengys y cyfnewidiwyd mangre y darddell neu y crynhoad dwfr hwn, mewn cysylltiad â'r ffordd haiarn, sydd yn myned heibio tua'r fan, ac nid ydyw yn bodoli yn awr fel cynt, fel yr ymddengys. Ystyrir neu gelwir y ffos a rêd o gyfeiriad y lle hwnw ag yr ymffurfiai y darddell neu y llynyn hwnw, yn Ffynon y Gro. Ond perthyna i'r ffos hon hefyd y dynodiant o Ddwr Ffynon y Gro.

Bu y bardd Dafydd Ionawr yn ymdrochi yn ol a ddywedir yn y ffos o ddwfr gloew a nodwyd, a chlywais dybio neu nodi, mai gyferbyn â phalas y Llwyn y gwnai. Ceir yn y llyfr a elwir Gwaith Dafydd Ionawr, nifer o englynion o ganmoliaeth i Ffynon y Gro, ac mewn nodyn yn ngodreu'r ddalen mewn cysylltiad â hwy, sylwir i'r ystyr nas gwyddid ymha le yr ydoedd. Eithr ymddengys y golygai awdwr y nodyn a chyhoeddwr y llyfr, sef y diweddar Mr. R. O. Rees, mai gyferbyn neu tua bod gyferbyn â'r Llwyn yr oedd y fan y cyfeiria eu hawdwr ati fel Ffynon y Gro. Yr amseriad a roddir i'r englynion yn y Gwaith crybwylledig ydyw 1796, a chyfeiria y bardd at y gwellhad a gafodd yn y ffynon, ac at ei mangre yn modd canlynol :—

O flin haint ac o aflan hwyl—farwol
Adferodd fi eilchwyl;
Cefais iechyd, hyfryd hwyl,
Yn y ffynon hoff anwyl.

Ym min dwyffrwd mewn dyffryn—gwyrdd y tardd
(Gerddi teg gyferbyn)
I fardd ac i oferddyn
Yn gan' gwell nag yw gwin gwyn.

* * * *

Digitized by Google

Brenhinbren, derwen sydd dyst,—haul eurwawr
Sydd lariaidd oleudyst;
D'wedant (a digon deu-dyst)—
Ewch i hon, a dim ni chyst.

Y mae gan y bardd ddeg o englynion iddi, ac yn un o honynt cyfeiria ati fel "Ffynon gro gwynion." Ystyrid bod dwfr Ffynon y Gro yn llesol i wella'r gewynwst; a dywed Idris Fychan yn ei Hanes Dolgellau a'r Cymydogaethau, ei bod "yn dda at lawer o anhwylderau.* Ond beth oedd yr afiechyd a boenai y bardd ar y pryd nis gwyddis. Eithr prin y gellir ystyried bod y gair "aflan" yn y llinell flaenaf o'r englynion a ddyfynwyd yn caniatau tybio mai'r gewynwst ydoedd. Ond pa beth bynag ydoedd, dywed yn yr englyn blaenaf a ddyfynwyd iddo gael gwared o hono.

* Gweler tudalen 67.

Digitized by Google

## Y RHYFEL CARTREFOL.

Cafodd Dolgellau a'i hardaloedd deimlo yn lled dost oddiwrth helyntion blin y Rhyfel Cartrefol, sef y rhyfel a fu rhwng Siarl y cyntaf a'r Senedd. Canys heblaw gorfod dwyn eu rhan o'r draul trwy dalu cat-trethiad, cawsant eu hysbeilio hefyd; ac un tro bu y dref yn dioddef dan bwys rhuthrgyrch disymwth yn y nos. Pa faint bynag o breswylwyr y cymydogaethau hyn a ddichon fod wedi colli eu bywydau yn yr ymladdau a gymerodd le yn ystod y rhyfel mewn gwahanol barthau eraill o'r deyrnas, nid yw yn ymddangos y lladdwyd ond un yn yr ardaloedd hyn, a chollodd hwnw ei einioes yn nghynwrf yr ymgyrch nosawl fu ar dref Dolgellau, am yr hwn y ceir adrodd yn mhellach ymlaen.

Dechreuodd y rhyfel yn y flwyddyn 1642, a pha beth bynag a fu helynt y broydd hyn mewn perthynas iddo am lawer o amser ar ol ei gychwyniad, yr ydym yn cael fod Dolgellau yn goddef o dan ei bwys yn y flwyddyn 1644; canys nodir ddarfod tua diwedd mis Tachwedd y flwyddyn hono, i frethynwyr y dref hon gael eu hysbeilio o 140p. mewn arian, heblaw mewn nwyddau, gan Syr William Vaughan, a gŵyr y brenin o Gastell Aberadan.

Yn nechreu Gorphenaf y flwyddyn ddilynol, sef 1645, daeth Syr Marmaduke Langdale, gyda nifer o wyr meirch perthynol i fyddin y brenin o Fachynlleth i Ddolgellau. Ond wedi iddynt aros yn y dref am ddwy noswaith, aethant ymaith tua Chaernarfon. Oddeutu y rhan ddiweddaf o fis Tachwedd, fel yr ymddengys, yn yr unrhyw flwyddyn, anfonodd y rhai oedd mewn awdurdod yn y Castell Coch am eu gweddillion o'u cat-trethiad o Ddolgellau a Llanfachraith. Gan hyny anfonwyd arian iddynt ar ol yr Ystwyll gan bobl Llanfachraith a Dolgellau; a chymerasant hwythau yn ol 6p. ar y Swydd, a rhoddasant eu derbyneb i ddydd y taliad, a rhoddasant eu diffyneb hefyd. Yr oedd Dolgellau yn cael ei hamddiffyn tua'r pryd hwn gan wyr y brenin o dan lywyddiaeth y Cadben John Nannau, yr hwn fel yr ymddengys oedd yn fab i Gruffydd Nannau, o Nannau; a'i is-gadben Dafydd Llwyd, a chynwysai eu llu tua deg ar hugain

Digitized by Google

neu ddeugain o wyr ceffylau, a rhai gwyr traed. Ond oddeutu tri o'r gloch, foreu y 31ain o Dachwedd yr un flwyddyn, sef 1645, daeth Mr. Edward Vaughan a mintai o filwyr, a gwŷr Swydd Drefaldwyn yn ddisymwth ar eu gwarthaf, ac a ysbeiliasant rai tai yn y dref, yna ffoisant ymaith tuag amser codiad yr haul.

Ar y chweched o Ebrill y flwyddyn ddilynol, sef 1646, daeth rhwng tri a phedwar cant o filwyr y brenin, y rhai oeddynt wyr meirch a gwyr traed Arglwydd Byron, o dan arweiniad y Milwriad Vane, i Ddolgellau. A boreu y nawfed dydd o'r mis a nodwyd, ymdeithiodd cant o honynt i Fawddwy, gan ladrata ac ysbeilio ar hyd yr holl ffordd, a dychwelasant erbyn un ar ddeg o'r gloch gydag ysbail fawr. Yna derbyniasant 28p. 10s., yr hyn oedd gat-trethiad un mis; a chan syrthio ar Uwchcrygenan, a gorchymyn i'r ail gat-trethiad gael ei thalu mewn brethyn gwyn, yn Nghastell Harlech, ar yr 16eg o Ebrill crybwylledig, yr hyn yr ymgymerodd y trigolion i'w gyflawni. Y dydd canlynol, wedi ysbeilio yr holl dref, a llawer o fanau yn y wlad, dychwelasant i Drawsfynydd, ac aethant oddiyno i Ffestiniog a Maentwrog.

Yn mis Mai, yn y flwyddyn 1648, daeth Syr John Ywain, Clenenau, a'i lu i Ddolgellau, y rhai oeddynt o du y brenin. Ymddygodd y rhai hyn yn anrhydeddus, ac yn dra gwahanol i ysbeilwyr byddinog Byron o dan Vane. Yr oedd yn canlyn Syr John Ywain y tro hwn oddeutu cant o swyddogion heb ganddynt fyddin, y rhai oeddynt agos i gyd yn llywyddion, ac yn eu plith yr oedd y Milwriad Llwyd o Llwynymaen, Milwriad Seriven, Milwriad Lee, Mr. Morgan Herbert, a Chadben Blodwst, Cadben Kynaston, a Chadben Philips, &c. Arosasant yn y dref ddwy noswaith; ac wrth ymadael, talasant am eu lletyon, ac ni wnaethant niwed i undyn. Yna aethant ymaith i Ddyffryn Ardudwy, ac oddiyno aethant i Swydd Gaernarfon; ac ar y dydd Llun canlynol daethant yn ol i Ardudwy. Prydnhawn dydd Llun, daeth oddeutu cant o wŷr y Senedd i Ddolgellau o dan arweiniad.... Twistleton a Chadben Stontley. Wedi i'r rhai hyn gael rhyw hysbysrwydd ddyfod nifer o wŷr traed dros afon Ddyfi oddiwrth Syr Richard Price i gyfnerthu Syr John Ywain; cymerasant eu ceffylau, ac aethant i Benal, ac oddiyno i Dywyn, a goddiweddasant rai o'r gwŷr traed hyny wrth Lwyngwril. Y rhai hyn yn tybio mai rhai o'u gwŷr eu hunain oeddynt, ni wnaethant un gwrthwynebiad na darbodaeth drostynt eu hunain; felly cymerwyd tuag 48 o honynt yn garcharorion, ac yn eu mysg yr oedd Cadben Vaughan, mab Henry Vaughan, o'r Gelli Aur, un Cadben Llwyd o ——, a ——, ac a ddychwelasant i Ddolgellau erbyn chwech o'r gloch yn y prydnhawn. Dydd Mawrth, oddeutu haner nos, hwy a gymerasant eu carcharor-

Digitized by Google

ion, ac a aethant ymaith i'r Bala, ac ymlaen tua Dinbych. Wedi i Syr John Ywain gael hysbysrwydd o'r Bala, i wŷr y Senedd ymdeithio i Ddolgellau, dychwelodd gyda'i wŷr yn ol i Ardudwy yn ddiweddar o'r prydnhawn. Ond yr oeddynt wedi bwriadu bod yn eu lletyon yn Nolgellau. Eithr ar ol clywed, fel yr ymddengys, fod gwŷr y Senedd yn dra gwyliadwrus, cyfnewidiasant yn eu bwriadau a dychwelasant i Swydd Gaernarfon.*

# ACHAU.

## BRYN Y GWIN.

Daeth y cyfenw Reveley i gael ei arfer yn nheulu Bryn y Gwin trwy i Hugh Reveley, Ysw., ymbriodi â Jane, merch Robert H. Owen, Ysw., o Fryn y Gwin. Mab o'r briodas hon ydyw Hugh John Reveley, Ysw., o Fryn y Gwin, Ynad Heddwch, ac Is.gadben Dirprwyol Swydd Feirionydd, ac Uchel Sirydd yr unrhyw yn y flwyddyn 1859. Ac ymbriododd â Jane ei gyfnither, merch Agernon Reveley, Ysw., yn ngwasanaeth gwladol Bengal. Hàna o du ei fam o Simon Ywain, un o feibion Lewis Ywain y Barwn, disgynydd o Endnywain ab Bradwen, un o Bymtheg Llwyth Gwynedd. O du ei dad y mae yn dwyn cysylltiad â'r Perciaid, hen dduciaid Northumberland, a'r Selbys, yr Ordes, y Burells, a'r Mittfords, o Gastell Mittford, ac â'r Greys, o Gastell Chillingham. A geill y Reveleys, trwy y Mowbrays, duciaid Norfolk, a'r Plantagenets, hawlio eu disgyniad o'r Brenin Edward I., a Margaret ei wraig, merch Phylip y Caled, Brenin Ffrainc.

Cyfeirir at Simon Ywain, chweched mab Lewis Ywain y Barwn, o'r hwn y disgyn Mr. Reveley, yn ei linell Gymreig, yn y ddwy linell olaf ond dwy o'r rhai canlynol. Awdwr y llinellau oedd Ywain Gwynedd y bardd, a cheir ynddynt ddwy linell yn unig yn gyfeiriedig at bob un o saith mab y barwn hwn, a rhedant fel hyn :—

* "Cambrian Quarterly Magazine." Cyf. I., tud. 63—6, a 70—1.

Digitized by Google

Sion Lewis anwyl Owain,
Sy'n aer hael os enwir rhain;
Gardd gwiwfraint gwraidd y gyfraith,
Hugh ydyw'r ail hyder iaith;
Tyrau o daw taro dart,
Y trydydd twr yw Edwart;
Glain gwrol glân a garwn,
Gruffydd hael corph Adda yw hwn;
Da yw Robert wr hybarch,
Dyn hoff iawn mewn dawn a pharch;
Os yw'r nerth i'n sir ni
Simwnt hael sy' i'w mantoli;
Purlan yw bryd eurlan brau,
Ellis siriol lwys eiriau.

Ymbriododd y Simon Ywain, neu y Simwnt a nodwyd, â merch ac etifeddes Gruffydd ab Hywel ab Gruffydd, o'r Hafod Dywyll. A disgynai, o du ei fam, o'r Pulestoniaid. Canys Margaret ydoedd hono, merch Robert Puleston, M.A., Rheithor Whitford a Gresford, a brawd* Syr John Puleston, cyllidydd y brenin yn Ngogledd Cymru, yn ol a ddywed Hanes Pywys Fadog, gan J. Y. W. Clochfaen, Ysw. Tad y Robert Puleston a nodwyd oedd John Puleston o Bers a Hafod y Wern, a'i fam oedd Elen, gwraig y John Puleston hwn, a merch Robert Witney, ab Syr Robert Whitney, marchog, ab Syr Robert Whitney, marchog. A thad John Puleston o Bers, a Hafod y Wern, oedd John Puleston, o Bers, ac Alson,† ail wraig hwn oedd ei fam, yr hon oedd ferch ac etifeddes Hywel ab Goronwy, o Hafod y Wern, yn ol a ddywedir yn Hanes Pywys Fadog, crybwylledig eisoes. A'r John Puleston a nodwyd olaf oedd fab ac etifedd i Madog Puleston

---

* Hist. of Powys Fadog. Cyf. iv., t. 285. a Cyf. iii., t. 27—8.

† History of Powys Fadog, cyf. iv., t. 285, a cyf. iii., t. 27—8

Mewn âch-lin mewn âch-ysgriflyfr yn fy meddiant, tud. 27, ad-ysgrifenedig o gasgliad y Parch. Edwart Jones, gwr eglwysig yn Llandegai, Swydd Gaernarfon, gosodir John Puleston Hen yn briod i Alice ferch Hugh Lewis, Prysaddfed, ac yn fab i John ac Alsiorn ei wraig ferch Hoel ap Ifan ap Gruffydd o Bersham; lle hefyd y gosodir yr unrhyw John yn fab i Madog Puleston. Ac mewn nodyn yn ngodreu'r ddalen, gosodir y John Puleston Hen hwn yn Gyllidydd Gogledd Cymru. Nodir yn Hanes Pywys Fadog a nodwyd, cyf. iii., t. 27, 28. fod i John Puleston o Bers, a Hafod y Wern, tad Syr John Puleston y Cyllidydd, ail wraig o'r enw Alice, yr hon a esyd yn ferch i Hugh Lewis, Tir Môn, ac iddo gael mab o honi o'r enw John Puleston, Tir Môn, ac i'r mab hwn gael Hafod y Wern, a'i fod yn Uchel Sirydd Swydd Ddinbych, yn y flwyddyn 1544. Ni cheir yn yr achlin y cyfeiriwyd ati sydd yn yr ach-ysgriflyfr crybwylledig, fynegiad pwy oedd priod Madog Puleston; ond rhedir ei achau ynddi yn mhellach yn ol nag yn yr achlin y defnyddir o honi yn y llyfr hwn allan o Hanes Pywys Fadog, mewn cysylltiad âg Achau Bryn y Gwin a Dolserau.

Digitized by Google

o Bers, ail fab Robert Puleston o Emeral yn Maelor Saesneg, ab Richard ab Syr Roger Puleston. A'i fam oedd Angharad, gwraig y Madog Puleston uchod, a merch Dafydd ab Goronwy, o Burton a Llai, yr hon ynghyd a thad oeddynt yn fyw yn y flwyddyn 1415.

Gesyd yr âch-ysgriflyfr crybwylledig yn y nodyn * islaw, ac yn yr un blaenorol mai priod Robert, tad y Madog Puleston a nodwyd, a mam yr unrhyw Fadog oedd Lywri ferch Gruffydd Fychan ap Gruffydd o'r Rhuddallt; a nodir mewn cyfeiriad ati yn ngodreu'r ddalen yno ei bod yn chwaer i Ywain Glyndwr. A noda yr unrhyw ach-ysgriflyfr mai ei rieni oeddynt Lleucu, merch Madog Foel a'i gŵr, sef y Richard a nodwyd, A gesyd yr unrhyw awdurdod yn hynafiaid y Richard hwn. Robert Puleston yn gyntaf, yr hwn a ddaeth o Normandi medd nodyn cyfeiriedig ato yn ngodreu'r ddalen. Yna Richard, ac yn ddilynol Syr Roger o Emeral; yna Syr Richard a'i wraig Anne Warren o Wareshal, marchog, rhieni Syr Richard, priod Anne merch John Wisham, swydd Gaerloyw. A'u mab hwy Syr Roger, priod Margred merch Llywelyn ap Ynyr o Ial, rhieni y crybwylledig Richard.

Enwau plant Mr. Reveley a Mrs. Reveley, ag a gyraeddasant addfedrwydd oedran, ydynt Fanny Jane Reveley, yr hon a briododd Edward Petit Jelf, Ysw., mab y diweddar Barch. W. E. Jelf, o Eglwys Crist Rhydychain, gynt o Gaerdeon, yn mhlwyf Llanaber, Swydd Feirionydd;—Annie Clara, yr hon a briododd Humphrey Lloyd Williams, Ysw., o Ddolgellau, meddyg, ac Ynad Heddwch;—Mary Rosamond, priod Claude Henry Shute Buckle, unig fab y Llyngesydd Syr Claude Buckle, K.C.B., yr hon a fu farw y 7fed o Dachwedd 1884;—Bertha Gwendoline—a Mabel.

---

## DOLSERAU.

Daeth Charles Edwards, Ysw., Dolserau, i feddiant o'r fan yn y flwyddyn 1858. Hàna trwy Yweniaid Dolserau, o Lewis Ywain neu Lewis ab Ywain y barwn, disgynydd o Ednywain ab Bradwen, un o

---

* Yn yr Ach-lyfr crybwylledig uchod, ac yn y nodyn blaenorol, gosod'r yn wraig i John, fab Madog Puleston, yr un a'r John Puleston uchod tebygol, Alsiorn Fechan, merch Hoel ap Ifan ap Gruffydd o Bersham ag y cyfeiriwyd ati yn yr unrhyw nodyn. Yn Hanes Pywys Fadog, gosodir mai gwraig gyntaf y John Puleston hwn oedd Alson merch Hywel ab Ieuan ab Gruffydd ab Ednyfed Goch o Bers.

Digitized by Google

Bymtheg Llwyth Gwynedd. Hàna hefyd o Ednywain ab Bendew, un arall o Bymtheg Llwyth Gwynedd, ac o Madog ab Meredydd, Tywysog Pywys, neu yn fanylach, Pywys Fadog.

Ymbriododd Lewis Ywain, neu Lewis ab Ywain y Barwn, â Margaret,* merch Robert Puleston, M.A., Rheithor Whitford a Gresford, a brawd* i Syr John Puleston, Cyllidydd y Brenin yn Ngogledd Cymru, yn ol a ddywed Hanes Pywys Fadog, gan J. Y. W. Clochfaen. Mab oedd y Robert Puleston, M.A., Rheithor Whitford a Gresford, i John Puleston o Bers, a Hafod y Wern, ac Elen, merch Robert Whitney ab Syr Robert Whitney, marchog, ab Syr Robert Whitney, marchog. A mab oedd John Puleston o Bers a Hafod y Wern i John Puleston o Bers, ac Alson,† ei ail wraig, ferch ac etifeddes Hywel ab Goronwy o Hafod y Wern, yn ol a ddywedir yn Hanes Pywys Fadog ag y cyfeiriwyd ato eisoes. Ac ail fab oedd y John Puleston a nodwyd olaf i Madog Puleston o Bers, mab Robert Puleston o Emeral yn Maelor Saesneg, ab Richard ab Syr Roger Puleston. A'i fam oedd Angharad, gwraig y Madog Puleston uchod, merch Dafydd ab Goronwy o Burton a Llai, yr hon ynghyd â'i thad oeddynt yn fyw yn y flwyddyn 1415. Yn ol yr âch-ysgriflyfr crybwylledig yn y nodyn blaenorol, tud. 104, ac y cyfeirir ati hefyd yn yr olaf o'r ddau, gwraig Robert, tad y Madog Puleston a nodwyd, a mam yr unrhyw Fadog Puleston, oedd Lywri, merch Gruffydd Fychan ap Gruffydd o'r Rhuddallt, a nodir yn ngodreu'r ddalen ei bod yn chwaer i Ywain Glyndwr. A'r un âch-lyfr a ddywed mai ei fam oedd Lleucu, merch Madog Foel, gwraig y Richard a nodwyd eisoes fel ei dad. Dywed hefyd mai gwraig Syr Roger Puleston a mam y Richard hwn oedd Margaret, merch Llywelyn ap Ynyr o Ial. Mab oedd Syr Roger i Syr Richard ac Anne ei wraig, merch John Wisham, o Swydd Gaerloyw. A mab oedd y Syr Richard hwn i Syr Richard ac Anne ei wraig, merch Syr William Warren, o Wareshal, marchog. Ac yn hynafiaid i Syr Richard, gesyd yn agosaf i'w enw Syr Roger o Emeral, yna Richard, ac yn nesaf, a'r uchaf ar y rhestr, Robert Puleston, yr hwn, medd nodyn cyfeiriedig ato yn ngodreu'r ddalen yn yr âch-ysgriflyfr a nodwyd, a ddaeth o Normandi.

Yr ydys wedi nodi eisoes yr hàna Mr. Edwards, Dolserau, o Madog ab Meredydd, ac yr oedd y Madog hwn felly yn ŵyr i Bleddyn ab Cynfyn, tywysog Pywys. A disgyna teulu y lle hwn o'r unrhyw Fadog, trwy ei fab Einion Efell. Canwyd yr awdl ganlynol i Gruffydd

---

* Gweler y Nodyn ar waelod tudalen 104.

† Gwêler y Nodyn yn tudalen 105.

Digitized by Google

Maelor, un arall o feibion Madog ab Meredydd. A cheir ei dynodiant uwch ei phen ynghyd â mynegiad pwy yw ei hawdwr fel hyn :—

Awdl y Ruffut Maelor. M. Madawc.
Llygad Gwr ae cant.

Y syt yn arglwyt eurglet ganllau
Yssaut y gynnelu ardelu vrthau
Ys da y gampeu heb gwympau yn afyrdul
  Ysyaun difygul oe uygythyau
Grymus vthr yn ruthyr yn anreithyau
Greddyf ddiletyf ddilesc wrth gymrau
Gruffut eur dilut duylau egored
  Guaur maelaur drefred ged gyfluytau
Goreu kyrcelam ym byrchu attau
Kanyd hart y uart uod y urthau
Guraul yn y haul yn huylau y gryd
  Gwr hyfryd yr byd bod y danau
Nyd anamyl y uyt heb orchutyau
Nyd etiu heb da dyn y urthyau
Nyd anheirt yn ueirt uyrtoet uallau
Nyd annaud tafaud diuyd itau
Araf toruoet teruyn achubau
Aruyt coeluein brein bryneich dreissyau
Ar oleu ys mev myuyryau y gert
  Arureit angert ongyr uriuau
Ruyf kynir ker tir Tyssilyau
Ruythaus deus diofyn racddau
Ruysc aerllau tryleu yn treulyau arueu
  A guyr dros uylcheu yn ualch arnau
Ruyl carrec oua cauas yndau
Raud Saesson lladron yn eu lludnau
Ys dir oe uareu ddifuryau pob tur
  Ys anant i ur y arueityau
Drud a glud guladoet ymandau
Doeth a choeth kyuoeth kyfunau
Duys aerguys pouys poed eityau
Detfeu teg tygu oe eurllau
Dinam ddreig dragon eitunau
Diryad cad kedeirn ordduyau
Dawn yssyt yn seuyll ganthau
Duu o nef a uo nerth itau*

* "Myf. Arch." Ail arg. t.. 237.

Digitized by Google

Ymddengys mai y cyntaf o deulu Edwardiaid Dolserau a wisgodd y cyfenw Edward neu Edwards oedd Robert Edwards, Ysw., o Rydycroesau, neu Lledrod, yn Sir Ddinbych, mab Edward Thomas, Trefonen, mab Thomas ap Llywelyn, o Gynllaith, disgynydd o o Einion Efell, arglwydd Cynllaith. Ymbriododd y Robert Edward hwn âg Anne, merch Robert Kyffin, boneddwr, o Gynllaith. Prynodd John Edwards, mab hynaf y rhai hyn, Ness Strange, yn Swydd Amwythig, a chafodd ei anrhydeddu â rhyddid yr Amwythig yn y flwyddyn 1668. Cymerodd yn wraig Dorothy, merch Thomas Barnes, Ysw., o'r The Lowe. Eu mab hynaf, oedd John Edwards, Ysw., o Ness Strange, neu Great Ness, yr hwn a ymbriododd ddwywaith, a'i wraig gyntaf oedd Mari, merch Richard Muckleston, Ysw., o Swydd Amwythig, brawd i Gofrestrydd Croesyswallt. Bu iddynt fab a merch, ac ymbriododd Mari y ferch â'r Parch. William Parri. Eu mab oedd John Edwards, Ysw., o Ness Strange, neu Great Ness, yr hwn a gymerodd yn wraig Margaret, merch Robert Lowndes, Ysw., o Winslow, yn Swydd Bucks. Ymbriododd John eu mab, cydefaill â Rowland, âg Anne, merch Lewis Owain o Ddolserau. Ymbriododd Edward Edwards, Ysw., trydydd mab y pâr priodasol a nodwyd olaf, â Mari Williams, o'r Gwyndy a Nantyllyn, Swydd Ddinbych, a mab iddynt ydyw y crybwylledig Charles Edwards, Ysw., o Ddolserau.

Cafodd Mr. Edwards ei eni yn Llundain, a bu yn farchog dros Windsor Newydd o'r flwyddyn 1858 i 1898, ac yr oedd yn Uchel Sirydd Meirrionydd yn y flwyddyn 1871. Ymbriododd â Mari, unig ferch oloesydd, ac etifeddes William Tate, Ysw., Trognel House, Hamstead, a Kilbucho, Peebleshire, a Mari ei wraig, merch yr Uchgadben John Munro, yr hwn a archollwyd wrth gymeryd Seringapotam, ac a fu farw yn fuan ar ol enilliad y lle hwnw. Eu plant ydynt Charles Edward Munro, YnadHeddwch, Robert Lloyd, Wynne Howard, YH. Mary GraceCatherine, Margaret Augusta, ac Elinor Alexandrina. Ac y mae y tair merch wedi priodi. Cyfarfu Robert Lloyd, yr ail fab, â'i angau yn yr India, ar yr 17eg o Hydref, 1877. Yr oedd yn swyddog milwrol; ac ar y dydd a nodwyd aeth gyda rhai o'i gydswyddogion i saethu i Srinigur, a chwympodd dros ddibyn serth, i'r dyfnder o fil o droedfeddi, a chafodd ei ladd yn y fan.

Digitized by Google

## Y LLWYN.

Disgyna teulu y Llwyn trwy William Wyn, Glyn Cywarch, yn Meirionydd, o Osbwrn Wyddwalch,* un o hynafiaid Wyniaid Peniarth, a lliaws o deuluoedd eraill. Hànant hefyd trwy Cathrin, gwraig y William Wyn hwn, yr hon oedd ferch William Lewis Anwyl, o'r Parc, Llanfrothen; o'r Tywysog Ywain Gwynedd, mab y Tywysog Gruffydd ab Cynan, disgynyddion o Rhodri Mawr. Y mae iddynt fel hyn hen gysylltiad âchyddol a theulu Nanau, trwy Gwenllian, ferch y dywededig Gruffydd ab Cynan, oblegid hiliogoeth y Gwenllian hon a Chadwgan, ab Bleddyn ab Cynfyn, tywysog Pywys ydyw teulu Nanau. Heblaw hyn y maent wedi canghenu o honynt, canys ymbriododd Elis, trydydd mab y Willian Wyn a nodwyd a Cathrin ei wraig, ferch William Lewis Anwyl o'r Parc, Llanfrothen, ar y 4ydd o Ionawr, 1639, â Lywri, ferch ac etifeddes Edward Thomas ab John o Gwm Nantcol, yr hwn oedd frawd i'r nodedig Filwriad John Jones, a anwyd yn Nghwm Nantcol, ddisgynydd o deulu Nannau, yr hwn ymbriododd â chwaer i Olifer Cromwel, yr Ardderchog Amddiffynydd, ac yn Yr oedd y Milwriad John Jones yn un o'r barnwyr a brofodd y brenin Siarl y cyntaf, ac a lofnododd ei ddien-lythyr.

Wyr i'r rhai hyn, sef i'r Elis a'r Lywri a nodwyd oedd y Parch. Elis Wyn o Lasynys, priod Lywri Llwyd† o Hafod Lwyfog, ac awdwr enwog y "Bardd Cwsg." Ymbriododd Lywri ferch y pâr hwn â'r Parch. John Hughes, periglor Llandanwg a Llanbedr, yn nghymydogaeth Harlech. Ac ymbriododd Ann, ei merch hwythau, â John Hartley,‡ ac aethant i fyw i Ynys Gyffylog, yn mhlwyf Llan Gelynin. Ac ymbriododd Thomas Hartley, ail fab y ddau a nodwyd olaf, yr hwn a ddaeth yn Ynad Heddwch ac Is-gadben Dirprwyol Swydd Feirionydd, â Mari Nannau, merch y Parch. Robert Nannau o'r Llwyn, y rhai oeddynt rieni y ddiweddar Anne Hartley o'r Llwyn, ac hefyd Mari, priod Gruffydd Williams, cyfreithiwr, rhieni Thomas Humphrey Williams, o'r Llwyn, Ynad Heddwch dros Feirionydd. Y

* A elwir yn gyffredin Osbwrn Wyddel.

† Ail wraig i'r Parch. Elis Wyn uchod oedd hon.

‡ Yr oedd y John Hartley hwn yn frawd i Robert H. Owen, neu yn llawn Robert Hartley Owen, taid Mr. Reveley, presenol o Fryn y Gwin. Mabwysiadu y cyfenw Owen a wnaeth.

Digitized by Google

mae i'r dywededig Thomas Humphrey Williams frodyr, a dwy chwaer yn fyw, a'i frodyr ydynt Robert Nannau Williams, a Meurig Meredydd Williams, yr hwn sydd yn feddyg.

Fel y sylwyd, trydydd mab William Wyn, o Glyn Cywarch, a Catherine ei wraig, merch William Lewis Anwyl, o'r Parc, Llanfrothen, oedd Elis, priod Lywri, ferch ac etifeddes Edward Thomas ab John o Gwm Nantcol, o ba rai yr hana teulu y Llwyn. Mab oedd William Lewis Anwyl (yn ol âchlin* o deuluoedd o'r Anwyliaid o'm blaen) i Lewis Anwyl ac Ellizabeth ferch Morys ab Ifan, Plasynywern. Mab oedd Lewis Anwyl i Robert ab Morys, o'i Parc a Lywri ferch Lewis ab Ifan ab Dafydd o'i wraig, Cathrin, ferch Meredydd ab Ifan ab Robert o Wydyr. Mab oedd Robert ab Morys i Morys ab Sion ab Meredydd ac Angharad, ferch Elisau (Elis) ab Gruffydd ab Finion. Mab oedd y Morys ab Sion ab Meredydd hwn i Sion ab Meredydd a Gwenhwyfar, ferch Goronwy ab Ifan o Gollwyn. Mab oedd Sion ab Meredydd i Meredydd ab Ifan ac Angharad, ferch Eirion ab Ithel, etifeddes Rhiwaedog. Mab oedd Meredydd ab Ifan i Ifan ab Meredydd a Lleucu, ferch Hywel Sele o Nannau. Mab oedd Ifan ab Meredydd i Meredydd ab Hywel a Morseydd, ferch Iorwerth Goch ab Dafydd ab Trahaiarn. Mab oedd Meredydd ab Hywel i Hywel ab Dafydd ac Efa, etifeddes Ystumcegid, ferch Ifan ab Hywel ab Meredydd. Mab oedd Hywel ab Dafydd i Dafydd ab Gruffydd ac Annes, (neu yn ol achlin arall Eva)* ferch Gruffydd Fychan ab Moriddig. Mab oedd Dafydd ab Gruffydd i Gruffydd ab Cariadog a Lleucu, ferch Llywarch Fychan ab Llywarch. Mab oedd Gruffydd ab Cariadog i Cariadog ab Thomas ac Eva ferch Gwyn (neu Cynon ychwanega yr achlin arall) ab Gruffydd (ab Beli ychwanega yr achlin arall). Mab oedd Cariadog ab Thomas i Thomas ab Rhodri ac Annes (Marged yn ol yr achlin arall) ferch Einion ab Seisyllt. Mab oedd Thomas ab Rhodri i Rhodri ab Ywain Gwynedd ac Annes (Agnes yn ol yr achlin arall) ferch yr Arglwydd Rhys .Mab oedd y Rhodri ab Ywain i Ywain Gwynedd a Christian ferch Goronwy ab Ywain ab Edwyn. A mab oedd Ywain Gwynedd i Gruffydd ab Cynan ac Angharad ferch Ywain ab Edwyn.

Y mae yn ysgrifenedig o'm blaen "Gywydd Marwnad i Robert ab Morus ab Sion ab Meredydd o'r Parc, o waith y bardd William

---

* Nid ydys yn dilyn ei llythyreniad o'r enwau yn fanwl.

* Wrth yr achlin arall a nodwyd, golygir yr un a geir yn y Table i.. yn Hist. of the Gwydir family, arg., 1878. Dilyuir yr unrhyw uchod yn yr enw Cariadog. canys nid yw mor eglur mai *og* yw ei derfyniad yn yr achlin grybwylledig o deuluoedd o'r Anwyliaid.

Digitized by Google

Lleyn." A chan fod enw yr un y canwyd y cywydd marwnad hwn iddo yn yr achau hyn, ceir ei roddi yma. A rhed fel y canlyn:—

"Bardd wyf i heb rodd i fyw,
Er y sydd i'r oes heddyw;
Y mae eraill ym Meirion,
Heb ffawd fal y crupl heb ffon;
Rhoes Addaf gyntaf heb gel,
Loes ebwch pan lâs Abel,
Fal onn a dur neu flaen dart;
Y mae'r ebwch am Robert;
AmMhorus lle mae hiraeth,
A dwbl oer och! Duw b'le'r aeth;
Y mae son fal am y saint,
I farw carw oedd frig ceraint;
Lle'r oedd wr llariaidd ei wen,
Llawn fâr aeth yn Llanfrothen;
Am wyr Sion fal mawr synu,
Amrhedydd y mae'r dydd du;
Gwyr Duw agoriad awen,
Dewis cŷff o d'wysog hen;
Oed Iesu wr dewisol,
Pan aeth a hwn penaeth hael;
Pymthegiant moliant miloedd,
Chwech a deg saith anrhaith oedd;
Gwener dydd Ebrill gwanwyn, [1576]
Doe Dduw! y chwechel i'w ddwyn;
Gwae'r wlad! o nâ'd yn ei ol,
A wyr eisiau ei wen rasol;
Ba eisiau fu i'r llu 'n llwyr?
Eisiau 'i wyneb a'i synwyr.
Byddai ddâf byddai ddifalch,
Byddai ban fynai yn falch;
Ni bu'n ei ddydd ban oedd iach,
Garw degiaingc garedicach;
Ni werthai gâr nerthog oedd,
Er aur Llew Eryr lluoedd;
Breibied rhai heb arbed rhodd,
Nef i Robert ni freibiodd;
Cam drawsdeb, a neb ni wnai,
Na cham awr ni chymerai;
Ni bu chwanog enwog oedd,
Na thaer am dda na thiroedd;

Digitized by Google

Caru y bu cyn cau'r bedd
Un Duw gwyn a digonedd;
A chynal tŷ 'n wych anian,
A rhoi ei dda 'n rhwydd i wan;
Pur ei chwedl mewn parch ydoedd
Pendefig dysgedig oedd;
A wyr neb awr ar ei ol,
Blodau gwybodau bydol?
Cywrain glwys mewn cronigl oedd,
A blodau'r holl Beibl ydoedd;
Ddaeth iawn yni daith yna,
Od oedd doeth weithredoedd da;
Ni fynai swydd rhwydd ben rhaith,
Er ei chynig drichanwaith;
Goreu swydd mewn gras hoewddoeth,
Garu Duw a goreu doeth;
A duwioliaeth hyd elawr,
A wna 'i blant mewn meddiant mawr;
Eu parch drwy gyfarch a gaf,
A'u pen yw y mab hynaf;
Lewis Anwyl sy' uniawn,
Pîau'r llŷs a'r *power* llawn;
Trysor ni âd ein treisio,
Trwsio beirdd teir oes y bo;
Oes naw ail Sion a William,
Yn enwog weilch ni wnan' gam;
Marsiandwyr mawr ras undeb,
A swydd yn Llundain a Sieb;
Na bôn' waeth yn benaethiaid,
Trwy gariad a'r tad na'r taid;
Wmphre uwch cant moliant mawl,
A ro Iesu yn rasawl;
Da'i fodd yw llaw Dafydd Llwyd,
Fodd praff Ddafydd y Prophwyd;
Gwr o ddysg mewn gwraidd ysgol,
Gwr da ni ad gair Duw'n ol;
Astudio mae'n wastadawl,
Astudio mae ystad mawl;
Gwen duwiol ganaid ewig,
Margred aeth mewn mawrgur dig;
Catrin sydd irwydd eirian,
Flodau cred Sioned a Sian;

Digitized by Google

Ac Eslsbeth ddifeth ddwyfol,*
A Duw nef! nis gâd yn ol;
Canwn i rhai'n mae cenad,
Cân tost i'w cwyno o'u tad;
Agos yw pawb a gais part,
Nid rhybell neb ond Rhobart;
Trugarog cyn troi 'r gweryd,
I ddyn fu wrth ddwyn ei fyd;
Trugaredd draw yn llawen,
O Dduw mawr! iddo Amen.

* Duwiol.

## Y GWEOEDD.

Yr oedd llawer o Weoedd yn cael eu gwneyd yn Nolgellau a'r cymydogaethau yn yr amser aeth heibio, ond nid cymaint fel yr ymddengys ag a fynegir gan rai. Ymae gan Samuel Lewis, yn ei Barthiadur,* yr hwn a argraffwyd yn y flwyddyn 1803, rai sylwadau tra chyfeiliornus yn eu cylch fel yr ymddengys. Canys dywed fod oddeutu 1400 o bersonau yn gweithio arnynt, ac y gwnelid tua 30,000 o ddarnau gweoedd, yn 110 o latheni yr un o hyd ar gyfartaledd. Ond yn lle y cyfrif mawr hwn o ddarnau gweoedd ystyria un gŵr craffus † a fu yn y fasnach, fod oddeutu 3500 o'r cyfryw ddarnau yn ddigonol ar gyfer yr amser hwnw. Y mae llyfr arall ‡ hefyd yn defnyddio cryn lawer o ormodiaeth pan yn nodi fod nifer y gorpheniadau a wnaed yn y tair blynedd blaenorol i'r flwyddyn 1839, yn 6153. Ond yn wyneb hyn, ystyrir y buasai tua 4500 o orpheniadau yn ddigonol i'w gosod ar gyfer y tair blynedd hyny, os mai darnau gweoedd sydd i'w golygu wrth yr unrhyw orpheniadau, fel tebygol mai iê. Ac ystyriai y gŵr y cyfeiriwyd ato eisoes na wnelid mwy nac o tua 5000 i 6000 yn flynyddol o ddarnau gweoedd yn y dref a'r gymydogaeth yn yr amser pan oedd y fasnach ynddynt yn fwyaf blodeuog. Ond diameu nas gellir yn awr roi cyfrif agos yn gywir am y nifer o ddarnau gweoedd a wnelid yn yr amser gynt, pryd yr oedd y fasnach yn fwyaf llwyddianus, oddigerth i hyny ddigwydd megis, ac hwyrach fod y nifer o tua'r 5000 i'r 6000 a nodwyd, islaw y rhif gwirioneddol.

Dywed Samuel Lewis, yn ei Barthiadur crybwylledig, ddarfod, yn ystod y cyfnod o tua deng mlynedd a fu rhwng terfyniad y rhyfel Americanaidd a dechreuad yr ymdrechfa fawr Ewropaidd, i wneuthurwyr gweoedd Dolgellau sefydlu ystordy wrth borthladd Abermaw, ac iddynt anfon tuag un rhan o dair o'u gwneuthuriadau ar hyd y môr i

---

* Lewis Topog. Dict.

† Mr. Hugh Jones, o Ddolgellau, yr hwn a fu farw y dydd 1af o Awst, y flwyddyn 1882.

‡ Parliam. Gazeteer, for Eng. & Wales.

Digitized by Google

Lundain. Dywed hefyd y cariai y llestri a ddefnyddid i'w cludo tua 300 o weoedd yn ddeuddarn yr un, a hyny ar falysarn o geryg palmantu, ac y cyrhaeddai y nifer o latheni a allforid yn flynyddol i oddeutu 25,000. Ond ymddengys nad yw hyn agos yn gywir, canys pe cariasai un llestr 300 gwe o ddeuddarn yr un, buasai hyny yn 600 o ddarnau gweoedd, os ydys i ddeall fod pob darn yn cynwys 110 o latheni o hyd, gweler tud. 114, yr hyn a gyrhaeddai i tua 66,000 o latheni. Yn ngwyneb hyn, ystyrir fod o tua 1700 i 2000 o ddarnau gweoedd yn flynyddol yn ddigonol i'w dodi ar gyfer yr unrhyw amser o wneuthuriadau y dref a'r cymydogaethau.

Mynega yr un awdwr i'r drafnidiaeth forawl bedio yn y flwyddyn 1793, ac y bu yn ofynol dychwelyd at yr hen drefn lawer drutach o'u cludo ar hyd y tir, ac i hyn ynghyd a phethau eraill fod yn foddion cymaint marweiddiad yn y fasnach, fel ag y bu raid i lawer o'r gwehyddion chwilio am rywbeth arall i'w wneyd.

Ymadnewyddodd y fasnach yn y flwyddyn 1797, a daeth i gymaint bri ag ydoedd tuag adeg y drafnidiaeth forawl. Ac oddeutu'r flwyddyn 1799 neu 1800, codwyd pedrolfen fechan i'w cludo i'r Amwythig tros Fwlch Oerddrws, ac weithiau byddid yn cludo rhai mewn trol yr un adeg a thymor y bedrolfen hon. Ond yn flaenorol i hyny, elid a hwy ar gefnau ceffylau a bastardiaid mulod. Cyn hir aed i ddechreu trin gwlân gyda pheirianau, ac yr oeddid wedi codi rhai yn nghymydogaeth Dolgellau yn y flwyddyn 1801, fel yr ymddengys,—un o honynt yn Esgair Wen, yn Mhlwyf Llanfachraith, a'r llall yn Nghlywedog, yn Mhlwyf Dolgellau, ac mae yn ymddangos mai i Glywedog y daeth y gyntaf. Tröid y ddwy â llaw. Yn Nhwll y Bwbach y bu y gyntaf yn myned wrth ddwfr yn nghymydogaeth Dolgellau.

Byddai gweoedd yn cael eu gwneyd gynt gan amaethwyr o gynyrch eu diadelloedd, ond rhoisant yr arferiad i fyny yn y cyffinydd hyn tua'r flwyddyn 1836. Bu adeg pan y byddid yn allforio y gweoedd gan mwyaf i Charlestown, yn neheudir America, trwy oruchwylwyr, a defnyddid hwy i ddilladu y caethion. Ond yn y rhyfel mawr a fu rhwng y Taleithiau Deheuol a'r Taleithiau Gogleddol, cafodd y caethion eu rhyddhau, a pheidiodd y fasnach arnynt i'r diben hyny. Ac er y pryd hwnw, gwerthir hwy i fasnachwyr Manceinion a'r Drefnewydd, eithr yn Nghymru eu defnyddir gan mwyaf. Ac ystyrir na wneir yn flynyddol yn y blynyddoedd hyn yn diweddu hâf y flwyddyn 1886 namyn oddeutu 400 o ddarnau gweoedd, a'r rhai hyny yn mesur ar gyfartaledd tua 120 o latheni yr un o hyd. Ond ystyrid y gwnelid yn flynyddol

Digitized by Google

yn y blynyddoedd yn diweddu 1882 o tua 500 i 600 o 'ddarnau gweoedd.

Dywed y crybwylledig Samuel Lewis, fod gwneuthuriad gweoedd yn Nolgellau o ddechreuad pell yn ol, a seilia ei reswm dros hyny oddiwrth ddeddfau seneddol a wnaed meddai yn y flwyddyn gyntaf a'r drydedd o deyrnasiad Iago I., ac hefyd oddiar ddau orchymyn y dywed gael o honynt eu danfon oddiwrth Gyfringyngor Charles y I.; y naill at Ynadon Swydd Feirionydd, a'r llall at arglwydd y cyffiniau. Nis gwelais y gorchymynion crybwylledig, eithr o barth y deddfau y cyfeiriai atynt fel yr ymddengys, os oes prawf o hyn ynddynt, y mae yn ymddangos y rhaid golygu fod yr hyn a elwir yn y flaenaf yn y *Welsh Cottons*, a'r *Coarse Welsh Cottons* yn y llall, yn cyfeirio at y gweoedd. Modd bynag, y mae yn ddiameu fod gweithio gwlân, yn frethyn neu wlanen, o ddechreuad boreuach yn yr ardaloedd hyn na'r deddfau a nodwyd, ac feallai weoedd hefyd. Ond dichon mai yn amser caethwasiaeth America y daethant i fri mawr.

Ymddengys mai at y Deddfau dilynol o amser Iago I., y cyfeirir atynt gan Samuel Lewis mewn perthynas i ddechreuad gwneuthuriad gweoedd yn Nolgellau. A cheir y flaenaf o honynt fel Ban, ymhlith haner cant o rai eraill, mewn cyfraith yn dwyn y penawd,

Deddf er parhad ac adnewyddiad amryw Ddeddfau, ac er diddymiad rhai eraill.

Ac y mae yn gyfleuedig ymysg y deddfau a ffurfiwyd yn yr ail flwyddyn "[vulgo primo]" o deyrnasiad Iago I. ar Loegr, sef y flwyddyn 1604, o'r cyfrif cyffredinol. Canys dechreuodd ei gyfryw deyrnasiad yn y flwyddyn flaenorol (1603). Ac yn ol yr hysbysiad ag sydd o flaen y deddfau hyn, dechreuwyd a chynaliwyd y Senedd y'i rhoddwyd mewn grym, yn Westminster, ar y pedwerydd dydd ar bymtheg o fis Mawrth, y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad y brenin hwnw ar Loegr, &c., a pharhaodd yno hyd y seithfed dydd o fis Gorphenaf y flwyddyn 1604, pryd ei gohiriwyd hyd y seithfed dydd o Gorphenaf y flwyddyn a ddilynai nesaf. Yn awr, wele rif y Ban a nodwyd ynghyd â'i gynwysiad:—

XXVIII. Darparer hefyd, a bydded yn ddeddfedig, Na byddo i neb person neu bersonau gael unrhyw gosbedigaeth o eisiau hyd, lled neu bwysau cotymweoedd* Cymreig, o dan y pris o bymtheg

* "Cottons," yn ol y gwreiddiol.

ceiniog y llath, neu ddau swllt y wialen, cyd ag y byddont heb fod yn gymysgedig gyda blew neu ddefnydd twyllodrus arall; (2) nac am unrhyw rai eraill dros y pris hwnw, oddigerth y byddont gymysgedig fel ag y rhagddywedwyd, neu y cwtogant fwy na'r gradd o haner llath mewn deuddeg llath o hyd, neu bwyso llai na phedair wns ar ddeg y llathen, neu heb fod yn llawn dri chwarter llath o led.*

Y Ddeddf arall o deyrnasiad Iago I, ag y cyfeiria Samuel Lewis ati, fel yr ymddengys, ydyw y ganlynol, yr hon a wnaed yn y flwyddyn 1605. Ei henwad ydyw,

Deddf o barth Cotymweoedd Cymreig.

A rhed fel y canlyn :—

Yn gymaint ag y darparwyd ac y Deddfwyd ymhlith pethau eraill, mewn Deddf a wnawd yn yr Eisteddiad Seneddol cyntaf a gynhaliwyd yn Westminster yn y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad ei Fawrhydi, Na byddai i unrhyw berson neu bersonau fod yn ddarostyngedig i unrhyw gosbedigaeth oherwydd diffyg mewn hŷd, lled neu bwysau cotymweoedd Cymreig, o dan y pris o bymtheg ceiniog y llath, a dau swllt y wialen, cyhyd na byddont yn gymysgedig gyda blew neu ryw ddefnydd twyllodrus arall, nac am unrhyw rai eraill dros y pris hwnw, oddieithr y byddont yn gymysgedig, fel ag y rhagddywedwyd, neu y cwtogant dros haner llath mewn deuddeg llath o hŷd, neu bwyso llai na phedair wns ar ddeg y llath, neu heb fod yn cynwys llawn dri chwarter llathen o hŷd, fel yr ymddengys oddiwrth yr unrhyw Ddeddf; (2) Pa Amod yn ol Eglurhad amrywiol bersonau nid yw yn amddiffyn y cyfryw ag sydd yn gwneuthur neu yn gwerthu Cotymweoedd Cymreig breision, rhag y gosb a'r perygl o beidio atddodi sel i gynwys yr hŷd, lled neu bwysau y Cotymweoedd dywededig, pa atddodiad o sel sydd afreidiol pan na bydd na hŷd, na lled neu bwysau yn benodedig iddynt; (3) A heblaw hyn, gan fod y dywededig Gotymweoedd yn cael eu defnyddio yn gyffredin yn wrthlieiniau yn yr holl oesoedd blaenorol, ni atafaelwyd hwynt erioed fel wedi eu camlyrio o eisiau bod sel y gwneuthurwyr wedi ei gosod wrthynt, ac ni arferwyd eu

* "Statutes at Large." Cyf. III., tud., 29. Arg. MDCCLXX.

Digitized by Google

profi trwy ddwfr ond yn unig gan y prynydd; (4) Bydded gan hyny yn ddeddfedig gan ein goruchaf arglwydd frenin, a chan yr arglwyddi ysbrydol a thymhorol, a'r Cyffrediniaid yn y Senedd-gynulliad presenol, a thrwy Awdurdod yr unrhyw, Fel o hyn allan na bydd i un person neu bersonau fod yn ddarostyngedig i Gosbedigaeth o eisiau unrhyw foddlonol sel i gadw y lled, hŷd neu bwysau unrhyw Gotymweoedd Cymreig; (5) Ac na byddo i unrhyw Gotymweoedd Cymreig o hyn allan ar unrhyw amser neu amserau gael eu chwilio neu eu profi gan unrhyw berson neu bersonau, amgen na chan eu prynydd; (6) Ar y boen o gamlyrio am bob cyfryw drosedd gan y sawl a wnelo unrhyw gyfryw chwiliad neu brawf croes i amcan y Ddeddf hon, pum' punt o arian cyfreithlon Lloegr; un haner o honynt i fyned i'w Fawrhydi y Brenin, ei etifeddion a'i olynwyr; a'r haner arall i'r sawl a flinwyd; i'w codi trwy Weithred o Ddyled, Dyleb, Cwyn neu Gyhuddiad, lle na bo Asswyniad, Nawdd, neu Gyngwystl Cyfraith yn ganiataedig.*

Mewn Deddf† o amser Harri VIII., ceir cyfeiriad at Feirionydd, fel eraill o ddeuddeg Swydd Cymru, ynghyd â Swydd Fynwy, mewn cysylltiad â brethyn wedi ei wneyd o wlân. Un o ddeddfau y blynyddoedd tri deg a phedair a thri deg a phump o deyrnasiad Harri VIII. yw hon, y rhai a ddigwyddasant yn y blynyddoedd 1542—3, o'r cyfrif cyffredin. Ei dynodiant yw, Deddf o barth rhai Gosodiadau yn Nheyrnedd y Brenin a Thywysogaeth Cymru. Cynwysa gant a thri deg o Erthyglau neu benau, a'r rhai o honynt sydd yn dwyn cysylltiad fel hyn â brethyn gwlân Cymru ydynt y rhai dilynol:—

CXXI. Hefyd, Bydded yn mhellach yn ddeddfedig a gosodedig trwy'r Awdurdod a rag-ddywedwyd, Yn gymaint ag i'w Fawrhydi y Brenin presenol, trwy ei Freint-lythyrau yn dwyn dyddiad y dydd cyntaf o Fai yn y bedwaredd flwyddyn ar hugain o'i lwyddusaf deyrnasiad, osod a chaniatau i William Webbe yr Arian porth ac Arfer am yr oll o'r Brethynau Gwlân gwneuthuredig neu a wneir yn Swydd Fynwy, ac yn neuddeg Swydd Cymru, hyny yw, yn Swydd Frycheiniog, Maesyfed, Trefaldwyn, Caerfyrddin, Morganwg, Penfro, Aberteifi, Môn, Callestr, Dinbych, Caernarfon, a Meirionydd, ac ymhob tref a manau eraill beth bynag a fyddont, o fewn amgylchedd a therfynau

---

* "Statutes at Large." Cyf. III., t. 60. Arg., MDCCLXX.

† Eto, cyf. II., t. 358—9. Arg. MDCCLXX.

Digitized by Google

y Swyddi dywededig, neu unrhyw fan arall o fewn tiriogaeth Cymru; i'w cael a'u dal gan y dywedig William Webbe a'i ddirprwywyr, am rai blynyddoedd eto i barhau, (2) y caiff y dywededig William Webbe, ei ddaeredwyr a'i ddirprwywyr, o hyn allan lawn gallu ac awdurdod, yn ngrym y Ddeddf hon, i gymeryd am selio Brethyn Gwlân a wneir ar ol hyn yn y deuddeg Swydd ddywededig, neu mewn unrhyw fan arall o fewn tiriogaeth Cymru, fel y mynegir yn ol llaw, a dim fel arall; hyny yw, am bob darn cyfan o Frethyn cribiedig tewban* 1c.; pob haner darn o dewban cribiedig "ob;" pob darn o Gotymwe a Gwrthlain, yn xxiv o latheni a than hyny "ob;" ac am bob darn o'r unrhyw dros xxiv o latheni 1c.; am bob brethyn llydan 1c.; am bob darn neu gersi yn xviii llath a throsodd 1c.; am bob darn o gersi fai o dan xviii llath "ob."

CCXXII. Darparer bob amser, Nad yw y Ddeddf hon na dim sydd gynwysedig ynddi, yn ymestyn i ddyledu unrhyw fath o berson neu bersonau, sydd neu a fydd ar ol hyn yn breswylydd unrhyw o'r dywededig ddeuddeg swydd, neu mewn lle arall o fewn tiriogaeth Cymru, am unrhyw frethynau, tewbanau,† cersiau, neu wrthleiniau, wedi eu gwneyd neu i'w gwneuthur ar ol hyn ac yn cael eu defnyddio yn eu tai eu hunain, ac nid i'w rhoddi ar werth i unrhyw berson neu bersonau heblaw i'w gweision er eu gwisgo.

CXXIII. A bydded yn mhellach yn ddeddfedig trwy'r awdurdod a ragddywedwyd, Fod yn rhaid i'r dywededig Lathellydd‡ yn Nghymru, ei hunan, neu trwy ei ddirprwywr neu ddirprwywyr cymwys, yn yr holl bethau perthynol i'w swydd, wneuthur a bod yn rhwym i wneuthur ac ateb ymhob Achos, fel ac yn ol ag y gwna neu y dylai yr oll a phob Llathellydd arall yn y deyrnas hon Lloegr wneyd, yn ol Cyfreithiau Deddfau teyrnas Lloegr; ac am weithrediad neu ymarferiad croes i'r swydd ddywededig, caiff ddioddef ymhob achos a mesur, fel ag y mae yn osodedig trwy y Cyfreithiau a'r Deddfau dywededig, awduredig neu ddeddfedig parthed Llathellwyr o dan arglwydd drysorydd Lloegr am y pryd.

---

* "Piece of Frize," medd y gwreiddiol.

† "Frizes," medd y gwreiddiol. Gweler "Statutes at Large." Cyf. II., t. 358.

‡ "Aulnager" i'w y dynodiant a geir yn y gwreiddiol. (Gweler Statutes at Large, Cyf. II., tud. 359,) a chyfeirir wrtho at y William Webbe, crybwylledig yn yr Erthygl rhif CXXI. Golyga fesurydd wrth y llathen; swyddog twng ag oedd a'i orchwyl gynt i arolygu talbeniad brethyn gwlân.

Digitized by Google

Ceir cyfeiriad at frethynau neu gotymweoedd Cymreig mewn Deddf* o'r blynyddoedd y pumed a'r chweched o deyrnasiad Edward VI. Dyga y dynodiant—

"Deddf o barth cywir wneuthuriad Brethynau Cymreig."

Cyfeirir ynddi at Gymru yn y penranau dilynol, a rhedant i'r ystyr hwn :—

XVI. Ac na chaiff yr oll a phob Cotymwe a Chotymweoedd Cymreig a wneir ac a weithir yn barod i'w gwerthu ar ol yr wyl† ddywededig fel darn cyfan ddim eu hestyn ar y Deintyr nac o fodd arall fwy nac Ewinfedd o lathen mewn lled, a chânt fod mewn hŷd yn ddeuddeg ar hugain o wialenau yn y dwfr o'r mwyaf, ac mewn lled dri chwarter llath yn y dwfr o'r lleiaf, ac wedi eu gweithio felly yn llawn, caiff bob darn cyfan o honynt bwyso xlvi. o bwysi o'r lleiaf; a phob haner darn o Gotymwe Gymreig wedi ei weithio felly yn llawn, fel ag y rhagddywedwyd, a ddeil mewn hŷd, pwysau a lled yn ol yr un gradd.

XVII. Rhaid i'r oll o'r Tew Frethynau‡ cribiedig Cymreig, a wneir ac a weithir ar ol yr Wyl rag-ddywededig o fewn Swyddi Aberteifi, Caerfyrddin, a Phenfro, neu unrhyw o honynt, neu o'r un math hwn o wneuthuriad mewn lle arall, parod i'w gwerthu fel darn cyfan, gynwys mewn hyd yn y dwfr, dri deg a chwech o latheni ar y mwyaf, Llathen a modfedd, o'r Mesur,§ ac mewn lled dri chwarter llathen; ac yn llawn weithiedig felly bwyso bob darn cyfan o hono XLVIII., o bwysi o leiaf; a phob haner darn o Frethyn tewban Cymreig llawn weithiedig fel ag y rhag-ddywedwyd, a gynwys mewn hyd, lled, a phwysau yn ol yr un gradd.

Diddymwyd mewn rhan y penran XVI., o'r Ddeddf a nodwyd ddiweddaf, mewn Deddf ffurfiedig yn y Senedd a gynhaliwyd yn y bedwaredd a'r bumed flwyddyn o deyrnasiad Phylip a Mari. Deddf oedd hon

---

* "Statutes at Large." Cyf. II., t. 440—6. Arg. DCCLXX.

† Gwyl Fihangel. A chyfeirir ati hefyd yn y penran nesaf.

‡ "Frizes" ydyw y gwreiddiol.

§ Yard and Inch of the Rule, sydd yn y llyfr. Gweler "Statute at Large." Cyf ii., t. 442.

Digitized by Google

mewn perthynas i wneuthuriad Brethynau Gwlân, ac y mae iddi dri deg ac wyth o benranau neu ethyglau. A rhoddir cynwysiad dau o honynt yma, a'r cyntaf o'r rhai hyny sy'n diddymu y penran crybwylledig o'r ddeddf arall, ac y mae ei gynwys i'r ystyr a ganlyn :—

XI. Hefyd, y caiff un Erthygl grybwylledig yn y ddywededig Ddeddf parthed Cotymweoedd, gyda golwg ar yr hyd, a'r pwysau, fod yn hollol ddirym, (2) ac y caiff pob gwialen o wrthlain Gymreig gynwys tri chwarter llath o led yn y dwfr a phwyso un pwys a haner chwarter; (3) a phob llathen o Gotymwë llawn weithiedig a Chotym-edig bwyso un pwys o leiaf.

Rhif ac ystyr y penran neu yr erthygl arall a nodwyd sydd fel hyn :—

XII. A bydded yn mhellach yn osodedig, na chaiff yr un person neu bersonau a bryno i werthu drachefn mewn ffordd o fân-werthiant, neu o fodd arall, unrhyw o'r gwrthleiniau Cymreig dywededig, drwsio neu weithio, neu achosi trwsiad neu weithiad o fewn ei anedd neu eu haneddau, neu unrhyw le arall, ganddo ei hun neu ei was neu weision, unrhyw o'r dywededig wrthleiniau Cymreig, ond rhoddi yr unrhyw i ryw gyfryw berson neu bersonau o'r gelf neu'r wyddor o Welleifwyr, Cotymwyr * neu Drinwyr,* i'w trin a'u gweithio ganddynt, ar y boen o gamlyrio vi.s., viii.c., am bob cotymwë trwsiedig * neu gotymedig* i'r gwrthwyneb.

Yn ddilynol ceir dwy gyfraith yn dwyn perthynas â brethynau a Chotymweoedd Cymreig, a hyny mewn cysylltiad â brethynwyr yr Amwythig, ac y mae yr olaf mewn rhan yn diddymu y flaenaf, ond yn cadarnhau y gweddill o honi. A chyfeirir yn yr olaf at Feirionydd. Gwnaed y gyntaf yn yr wythfed flwyddyn o deyrnasiad y frenhines Elizabeth, a'r llall yn y bedwaredd flwyddyn ar ddeg o'i theyrnasiad. A rhed cynwys y flaenaf i'r ystyr a ganlyn :—

Yn gymaint ag y bu yn nhref Amwythig yn Swydd Amwythig er's amser cyn cof dyn, a bod eto Drafnid-gymdeithas, brawdoliaeth neu gorfforaeth o gelf a gwyddor brethynwyr, pa drafnid-gymdeithas, brawdoliaeth, neu gorfforaeth ag sydd er's amser maith wedi ei

* "Cottoners or Friser," a "frised or cottoned" a ddywed y gyfraith yn yr iaith Saesneg.

Digitized by Google

chydgorffori a'i gwneyd yn gorff gwladol: (2) Pa Gymdeithas Gorfforedig a Brawdoliaeth yn herwydd masnach a galwedigaeth benodol o brynu a gwerthu brethyn a gwrthlain Cymreig, a elwir yn gyffredin y Cotymweoedd,* Brethynau* tewban cribiedig a Brethynau* cyffredin,† ag a gawsant ac a ymarferasant yn eu plith eu hunain, a fuont alluog nid yn unig i fyw trwy hyny, ond y maent hefyd ar eu traul gyffredin wedi darparu tai ac angenrheidiau eraill i bobl dlodion o fewn y ddywededig dref Amwythig, y rhai hefyd â chymorth pellach a gyfnerthant ac a gynhaliant yn wythnosol: (3) A thrwy eu hunrhyw fasnach ragddywededig wedi arfer rhoi ar waith yn fwyaf cyffredin dros chwe' chant o bersonau o'r gelfyddyd a gwyddor o Welleifwyr§ neu Drinwyr,§ o fewn y ddywededig dref Amwythig, trwy yr hyn y mae yn ogystal hwy, a'u gwragedd tlodion a'u teuluoedd, yn cael eu llwyr gadw a'u cynal: (4) Er rhwystr ac afrwydd-deb y ddywededig fasnach darfu i amrywiol gelfyddydwyr, a phersonau eraill o fewn y ddywededig dref Amwythig heb fod o'r ddywededig Gymdeithas a gwyddoriaeth, nac wedi eu dwyn i fyny mewn ymarferiad o'r ddywededig fasnach, yn ddiweddar gyda mawr annhrefn oddiar ddymuniad a meddwl trachwantus yn unig, ymyryd â ac arferyd y ddywededig fasnach o brynu brethyn a gwrthlain Cymreig, heb feddu gwybodaeth, ymarferiad neu fedr; oherwydd yr hyn y mae y dywededig bersonau anwybodus ac anfedrus wedi ac yn prynu yn gyffredinol a dyddiol gyfryw frethyn a gwrthleiniau Cymreig, ag sydd ddiffygiol, ac heb fod wedi eu gwneuthur yn ffyddlon yn unol â Deddfau a Gosodiadau daionus y deyrnas hon darparedig parthed hyny: (5) Trwy ba foddion y mae y ddywededig fasnach wedi gwanychu ac anmharchuso yn fawr, er llawer c golled a rhwystr i'r cyfryw Welleifwyr a thrinwyr tlodion, ag a oeddynt arferol o gael eu rhoddi ar waith drwy hyny, ac i bawb eraill oeddynt arferol o gael eu cynal a'u cynorthwyo trwy y fasnach ddywededig, yn gystal yn ngwneuthuriad ag yn ngweithiad y dywededig Frethynau twrban cribiedig, cotymweoedd a brethynau cyffredin, ac er mawr dwyll, niwed a rhwystr yr oll o ddeiliaid ei mawrhydi y frenhines ag a brynant ac a ddarparant yr unrhyw, er drygair a difriad y dywededig nwyddau mewn parthau tramor, ymha fanau trwy y rhagddywededig achlysur a aethant allan o gyfrifiad a derbyniad.

---

* "Cottons, Frizes, and Plains," yn ol iaith y Ddeddf. Gweler "Statutes at Large." Cyf. II., t. 574. Arg. MDCCLXX.

† Nid ydys yn honi y llwyddwyd i roddi yr enwau mwyaf priodol am y defnyddiau Cymreig ag y cyfeirir atynt yn rhai o'r Cyfreithiau hyn, nac ychwaith am y dynodiant perthynol i gelfydwyr ag y ceir cyfeiriad atynt.

§ "Sheermen or Frizers."

Digitized by Google

II. A lle yn mhellach yn y Senedd a gynhaliwyd yn Westminster yn y bedwaredd a'r bumed flwyddyn o deyrnasiad ein diweddar Ben-arglwydd ac arglwyddes Phylip a Mari, trwy gyngor da a phwyllog, y deddfwyd ymysg pethau eraill, Na chai yr un person neu bersonau a brynai i werthu drachefn, mewn ffordd o fân-werthiant neu o fodd arall, unrhyw o'r dywededig wrthleiniau Cymreig, drwsio neu weithio, neu achosi trwsiad neu werthiad o fewn ei neu eu hanedd neu aneddau, neu mewn unrhyw fan arall ganddo ei hun neu ei was neu weision, unrhyw o'r dywededig wrthleiniau Cymreig, ond rhoddi yr unrhyw i ryw gyfryw berson neu bersonau o'r gelf a'r wyddor o welleifwyr, cotymwyr neu drinwyr, i'w gweithio a'u trwsio ganddynt, ar y boen o gamlyrio chwe' swllt ac wyth geiniog am bob brethyn neu wrthlain Gymreig trwsiedig neu gotymedig yn amgen, fel ag y mae yn ymddangos yn yr unrhyw Ddeddf: (2) Er pa amser y mae amrywiol bersonau er troseddiad y Ddeddf ddywededig wedi achosi eraill i brynu y dywededig Frethynau* twrban, cotymweoedd,* a brethynau* cyffredin, ac yna gymeryd eu gweithiad iddynt eu hunain oddiar y cyfryw brynwyr, gan arferyd y cyffelyb dwyll wrth brynu a throi gwaith drosodd i'r unrhyw bersonau gan ba rai y derbyniant waith, er eglur ddifuddiad amcan ac ystyr daionus y Ddeddf ddywededig:

III. Er gwellhad o hyn, ac er lleshad ac adgyfnerthiad y dynion tlodion a fyddant Welleifwyr a Thrinwyr: (2) Bydded ddeddfedig trwy awdurdod y senedd bresenol, Fel o ac ar ol Gwyl y Pasg a ddilyno nesaf na chaiff neb person neu bersonau pwy bynag, yn cyfaneddu a phreswylio o fewn y ddywededig dref Amwythig, neu gyffiniau a breint-diroedd y dref ddywededig, amgen na'r cyfryw ag a wasanaethasant neu a wasanaethant fel egwyddor-weision yn y ddywededig alwedigaeth a chelfyddyd o Frethynwyr, sydd neu a fyddant yn rhydd o'r ddywededig gelfyddyd neu gyfriniaeth, ddilyn, defnyddio, arferu neu fynychu y ddywededig fasnach, celfyddyd, cyfriniaeth neu wyddor o brynu y dywededig frethyn neu wrthlain Cymreig, cotymweoedd,† brethynau twrban † a rhai cyffredin,† na meddu unrhyw ryngfaelydd neu weithredydd drosto ef neu hwy yn yr unrhyw, na thrwy unrhyw rith, moddion neu dwyll, fod yn unrhyw feddianydd o'r dywededig frethynau tew cribiedig, cotymau a brethynau cyffredin, (3) ar y boen y caiff pob person neu bersonau yn cyf-

* **"Frizes, Cottons, and Plains."**
† **"Cottons Frizes and Plains."**

aneddu fel ag y rhag-ddywedwyd, ac yn dal, defnyddio neu arferu y dywededig fasnach, galwedigaeth neu wyddor o brynu brethyn a gwrthlain Cymreig, ac heb fod yn awdurdodedig trwy y Ddeddf hon, golli a chamlyrio, chwe' swllt ac wyth geiniog, am bob darn o'r dywededig frethynau wedi eu prynu felly.

IV. A mwy na hyny, Bydded ddeddfedig yn mhellach, Na chaiff yr un person yn preswylio ac yn cyfaneddu fel y rhagddywedwyd, ac yn arferyd a dilyn y fasnach ddywededig o brynu brethynau twrban cribiedig,* cotymau,* neu frethynau cyffredin,* ddefnyddio neu arferyd yr alwedigaeth o drwsio* neu gotymu,* ar y boen o ddwyn arno ei hun gyfryw fath o gamlyrwyon am bob trosedd fel y mae yn grybwylledig uchod: (2) caiff haner yr oll o'r cosbedigaethau a'r camlyrwyon hyn, crybwylledig uchod, fyned i'n penarglwyddes y frenhines, ei hetifeddion a'i holynwyr, a'r haner arall i'r cyfryw berson neu bersonau ag a gwynant parth yr unrhyw, mewn unrhyw Goflŷs, trwy gyngaws, cwyn neu achwyn am ddyled; lle na byddo Amddiffyniad, Asswyniad, Gwaharddiad neu Gyngwystl cyfraith yn ganiatäedig neu dderbyniedig.

V. Darparer yn wastad, a bydded yn ddeddfedig hefyd trwy yr awdurdod rag-ddywededig, na chaiff y Ddeddf bresenol hon, nac unrhyw beth, brawddeg neu destyn cynwysedig oddifewn, gyraedd neu fod mewn unrhyw fodd yn golledus neu niweidiol i unrhyw gyfryw berson neu bersonau ag a fuont yn arfer, dilyn a mynychu y ddywededig fasnach, celfyddyd, cyfriniaeth neu wyddor o brynu neu werthu Brethynau neu wrthleiniau Cymreig rhagddywededig, ond fel y caffo ac y gallo pob cyfryw berson neu bersonau a arferasant y ddywededig fasnach neu wyddor modd ag y mae yn rhagddywededig, fwynhau y cyffelyb fudd, cyfleusdra, a mantais, yn gystal mewn prynu a gwerthu y dywededig frethynau a gwrthleiniau Cymreig a phe amgen, mewn dull neu fodd mor fawr, rhydd ac eang a phe buasai y Ddeddf hon erioed heb ei gwneyd.

VI. Ac yn mhellach, i'r amcan y gallo y dywededig Welleifwyr, Trinwyr, a Chotymwyr tlodion, gael eu cynal a'u cadw yn well; (2) Bydded yn ddeddfedig trwy'r Awdurdod ragddywededig, Fod i'r oll

---

* "Frizing or Cottoning."

Digitized by Google

a phob person neu bersonau yn dilyn ac arferyd, neu y sawl a ddilyno neu a arfero ar unrhyw amser ar ol hyn, y fasnach ddywededig, gwydd-or neu gelfyddyd o brynu a gwerthu brethyn a gwrthleiniau Cymreig rhagddywededig, ac a drosglwyddo o Wyl y Pasg a ddilyno nesaf unrhyw frethyn neu wrthleiniau Cymreig rhagddywedig i'w cotymu, cribo, trwsio neu i'w gweithio, i unrhyw welleifiwr, cotymwr neu drin-iwr, roddi, boddloni a thalu i'r dywededig welleifiwr, cotymwr neu gribwr, arian parod am yr oll o'i waith dywededig, heb unrhyw rith, twyll, neu foddion pa bynag, ac na chaiff roddi unrhyw nwydd neu beth arall pa bynag yn foddlondeb neu ad-daliad am ei waith dywed-edig neu unrhyw ran o hono ; (3) ar y boen y caiff pob person yn troseddu yn yr achos hwn, golli yn ddioed yr oll o'r cyfryw nawdd-edigaethau, rydd-debau a breiniau, ag a fedd neu a gaiff feddu fel un o'r ddywededig drafnid-gymdeithas, brawdoliaeth neu gorffor-aeth o'r ddywededig gelfyddyd a chyfriniaeth brethynwyr, ac hefyd fod fyth gwedi hyny yn hollol analluog a gwaharddedig i arfer dilyn neu fwynhau trwyddo ei hun na thrwy unrhyw un arall drosto neu i'w wasanaeth, y ddywededig fasnach, celfyddyd, cyfriniaeth, neu wydd-or o brynu neu werthu brethynau neu wrthleiniau Cymreig; y Ddeddf hon, er pob pwnc neu beth pa bynag mewn unrhyw fodd gwrthwyneb iddi.

Yn awr ceir rhoddi y Ddeddf y cyfeiriwyd ati eisoes, ag sydd mewn rhan yn diddymu yr un yr ydys newydd gyfleu o flaen y dar-llenydd, ond y sydd hefyd yn cadarnhau cyfran o honi. Ei phenawd yw,—

Cyfraith er diddymu Deddf a wnaed yn yr wythfed flwyddyn o deyrnasiad ei mawrhydi y frenhines mewn perthynas i dref Am-wythig.

A rhed fel hyn :—

Yn y Senedd a gynhaliwyd yn Westminster y dydd olaf o Fedi, yr wythfed flwyddyn o deyrnasiad ein pen-arglwyddes, ei hardderchocaf fawrhydi y frenhines, gwnaed cyfraith, a elwir, Gweithred parthed Brethynwyr, Cotymwyr, a Thrinwyr,* yn nhref

* **"Cottoners and Frizers."**

Digitized by Google

Amwythig yn Swydd Amwythig: ac yn yr unrhyw gyfraith y mae yn gynwysedig achos ag a dybid yn llesol i'r ddywededig dref Amwythig, er hyrwyddiad y Gorfforaeth o Frethynwyr, Cotymwyr, a Thrinwyr o'r ddywededig dref: (2) A thrwy yr unrhyw deddfwyd, Na chai o ac ar ol Gwyl y Pasg yr un math o berson neu bersonau pa bynag, a gyfaneddai ac a breswyliai o fewn y ddywededig dref Amwythig, neu gyffinydd, neu freintdiroedd yr unrhyw dref (amgen na'r cyfryw ag ydoedd ar y pryd wedi, neu ar ol hyny a wasanaethai fel egwyddorwas yn yr alwedigaeth neu wyddor o Frethynwyr, neu ag ydoedd y pryd hyny wedi dyfod, neu a fyddai ar ol hyny, yn rhydd o'r ddywededig wyddor neu gyfriniaeth) ddilyn, defnyddio, arferyd neu fynychu y ddywededig fasnach, celf, cyfriniaeth, neu wyddor o brynu y dywededig frethyn neu wrthlain Cymreig, cotymoedd, Brethynau twrban, neu gyffredin, na meddu unrhyw ryngfaelydd neu weithredydd drosto ef neu hwy yn yr unrhyw, na thrwy unrhyw rith, moddion, neu dwyll, brynu unrhyw o'r dywededig Frethynau twrban, gwrthleiniau, Cotymoedd, a brethyn cyffredin; (3) ar y boen y cai pob person neu bersonau yn preswylio fel y rhagddywedwyd, ac yn dilyn, defnyddio neu arfer y ddywededig fasnach, celf, cyfriniaeth, galwedigaeth neu wyddor o brynu brethynau a gwrthleiniau Cymreig, &c., ac heb fod yn awdurdodedig gan y Gyfraith, golli a chamlyrio am bob Darn o'r dywededig frethynau prynedig, chwe' swllt ac wyth geiniog.

II. A lle er pan wnaed y Gyfraith ddywededig, Y mae profiad wedi dysgu yn eglur yn y ddywededig dref, nid yn unig na ddygodd y Gyfraith ddywededig mo'r effaith daionus a ddisgwylid ac a leddybid y pryd hyny, ond hefyd a fu ac sydd yn awr yn debyg o fod yr achos mwyaf i gyd o dlodiad ac andwyad y crefftwyr tlodion ac eraill, ar gwyn y rhai y caffaelwyd y Gyfraith ddywededig, gan fod yno yn awr, er pan wnaed y ddywededig Ddeddf, lawer llai o bersonau i'w rhoddi ar waith nac yn flaenorol; (2) a thrwy atal yr oll o'r preswylwyr eraill o'r ddywededig dref Amwythig oddiwrth yr hen fasnach gyfreithlon a arferid bob amser cyn hyn o brynu brethynau Cymreig, brethynau twrban, cotymau, gwrthleiniau a brethynau cyffredin (gan adael yr unrhyw er hyny yn rhydd i'r oll o ddeiliaid Lloegr, heb unrhyw ataliad, oddigerth i'r dywededig breswylwyr tref Amwythig a chyffinydd a breintdiroedd yr unrhyw dref yn unig) bu yr achos eglur o adfeiliad mawr, nid yn unig yn y ddywededig dref a chyffinydd a breintdiroedd yr unrhyw, ond hefyd i nifer mawr ac afrifed o bobl dlodion yn Ngogledd Cymru, hyny yw, yn swyddi Trefaldwyn,

Digitized by Google

Dinbych, Meirionydd, ac hefyd i dref Croesyswallt, a'r rhan fwyaf o'r wlad oddiamgylch, lle y gwneir ac y gwerthir y dywedig Frethynau Cymreig, Brethynau tewban cribiedig, Cotymau, Gwrthleiniau a brethynau cyffredin, y rhai a arferent gael eu cadw a'u cynal trwy'r alwedigaeth o wneyd neu weithio y dywededig frethynau twrban, cotymau, &c. croes i'r disgwyliad ag ydoedd y pryd hyny wedi ei gynyrchu.

III. Bydded gan hyny yn ddeddfedig ar gais gostyngedig y dref ddywededig, ac hefyd y dywededig grefftwyr, er lles y rhai yr oeddid yn tybio bod y gyfraith ddywededig i fod yn ddarparedig, Fod y ddywededig Gyfraith, a phob pwnc ag sydd yn gynwysedig yn y ddywededig Gyfraith, o hyn allan yn cael ei galw yn ol a'i diddymu; er unrhyw beth yn y ddywededig Ddeddf yn wrthwynebol.

IV. Darparer bob amser, Fod i gymaint o'r ddywededig Ddeddf o'r wythfed flwyddyn i'n pen-arglwyddes ei mawrhydi y frenhines bresenol, a phob erthygl a phob rhan o honi, cynwysedig oddifewn ag sy'n dal perthynas a'r taliad mewn arian parod i Welleifwyr, Cotymwyr, a Thrinwyr, am eu gwaith, ac hefyd parthed rhwystriad i'r cyfryw a wnel neu sydd yn dilyn neu arferyd y fasnach o brynu brethynau twrban cribiedig, cotymau neu frethynau cyffredin, rhag defnyddio neu arferyd yr alwedigaeth o drwsio neu gotymu, sefyll a bod mewn grym; er unrhyw beth yn y Ddeddf yn wrthwyneb.*

Yr ydys wedi sylwi eisoes yn mhellach yn ol, mai i Glywedog a'r Esgairwen y daeth peirianau gwlân gyntaf yn y fro hon. Ac ymddengys mai saer coed o'r enw John Jerman a'u gwnaeth, neu o leiaf, yn ol a ddywedir, fe mewn ystyr a wnaeth yr un yn Nghlywedog. Ymddengys nad oedd enedigol o Ddolgellau neu'r gymydogaeth, ond mae trigianydd am dymor ydoedd. Aeth y gŵr hwn i Loegr, a march dano, gan ddisgwyl y cawsai ganiatad i dynu cynllun o'r peiriant. Ond yn gymaint na cheid hyd yn nod fyned i mewn i'w gweled, ac yntau yn medru gwau, a werthodd ei farch oedd tano ar ei daith gan ymrithio fel un yn ceisio gwaith fel gwehydd. Ac wedi iddo gael addewid am waith, gan nad dyna ei brif amcan, gofynodd ganiatad i orphwys dridiau. Caniatawyd hyn iddo, a chafodd gerdyn i fyned i mewn ac allan fel y dymunai, a

* "Statutes at Large." Cyf. II., t., 610. Arg. MDCCLXX.

Digitized by Google

defnyddiai yntau yr amser i dynu cynllun o'r peiriant goreu gallai mewn modd dirgelaidd. Ond nid oedd ganddo namyn ceisio ei osod yn ei feddwl a'i roddi ar bapyr ar ol myned allan. Trwy fod yn rhoddiog i'r gweithwyr, aeth arian gwerthiad y march i gerdded yn lled lwyr, a phan yn talu am ei fara a chaws mewn tafarndy agos i 80 milldir o'i gartref, dywedai mai dyna'r swllt olaf feddai. Ar hyny sylwai y dafarnwraig wrtho i'r ystyr a'i ni fu yno yn flaenorol gyda march ganddo, ac wedi iddo yntau ateb yn gadarnhaol, ac adrodd o barth ei helynt; dywedodd wrtho fod yno foneddwr wedi methu cael cynllun o'r peiriant. Ac yn ol a ddywedir, cadwyd ef yno gan y boneddwr dridiau o amser i drwsio y cynllun a'i ail dynu, a thalodd ei gludiad ymlaen i Ddolgellau, gan roddi iddo 50p. yn ei logell am y cynllun, ac addawodd y cai ychwaneg os gweithiai yr unrhyw.

Digitized by Google

## Y CYFEILLION, NEU Y CRYNWYR.

Nid ydyw yn ymddangos yn eglur ymha flwyddyn y dechreuodd yr enwad parchus a manwl-grefyddol y Cyfeillion, neu y Crynwyr, yn ardaloedd Dolgellau a Llwyngwril, ond cymerodd hyn le rywdro oddeutu canol yr eilfed ganrif ar bymtheg. Yn ol yr amseriad sydd ar ymyl y ddalen yn Nyddiadur George Fox, un o brif gychwynwyr yr enwad hwn, cyhoeddwyd yr efengyl yn Nolgellau gan John ap John,* fel un perthynol iddo, yn y flwyddyn 1657. Ac yr oedd y ddau hyn yn y dref gyda'u gilydd y pryd hwn, a bu y cyntaf yn siarad hefyd yno yr unrhyw amser mewn cysylltiad â phregethiad yr efengyl gan y llall. Ond a ydoedd yn yr ardaloedd a nodwyd neb yn aelodau o'r enwad hwn yn flaenorol? Eithr wrth holi fel hyn nid ydys yn dywedyd fod. Modd bynag, yr hyn sy'n achlysuro y gofyniad mewn rhan ydyw gwaith Mr. William Norris, Coalbrookdale, wrth ysgrifenu ar y seithfed dydd ar hugain o seithfed mis y flwyddyn 1867, yn mynegu y neillduwyd darn o dir tua'r flwyddyn 1646, wrth Dyddyn y Gareg, i fod yn gladdfa i'r bobl a elwir Crynwyr, ac y neillduwyd hefyd ddarn o dir oddeutu yr yr unrhyw flwyddyn, ac i'r un amcan, ar dreftadaeth Llwyndu. Ond ceir gadael hyn yn awr i farn y darllenydd.

Ymddengys mai dros y Bwlch Coch, neu y Fron Serth,—y blaenaf mwyaf tebygol,—y daethant i'r dref. Ac yn ol a ddywedai George Fox am dano ei hun, yr oedd yn gallu canfod i bellder mawr y ffordd oddiyno;† ac anogwyd ef yn ei feddwl i droi ei wyneb i amryw ffyrdd, ac i seinio Dydd yr Arglwydd yno. A dywedodd wrth John ap John ymha fanau y cyfodai Duw bobl iddo ei hun, i eistedd dan ei ddysgeidiaeth. Cymerwyd sylw o hyn gan ei gydymaith, ac yn ol yr hanes bu i hyny gymeryd lle. Ar ol iddynt ddyfod i lawr i'r dref, aethant i westy, ac yn ddilynol cyhoeddodd John ap John trwy'r heol, a chododd

---

*** Yr hwn hefyd a elwir Sion ab Sion mewn llyfr arall, fel yr ymddengys.**

**† "From the side of this Hill I could see a great way," medd y gwreiddiol, gan olygu Cadair Idris wrth yr "Hill" a noda, fel yr ymddengys.**

K

Digitized by Google

y bobl allan, ac ymgasglasant o'u deutu. A chan fod yn y dref ddau offeiriad * Annibynol, daethant hwythau ato, gan siarad âg ef eu dau ar unwaith. Yna aeth George Fox ymlaen atynt, ac wedi deall mai yn Gymraeg y siaradent, gofynodd iddynt beth oedd testyn eu hymddiddan, a phaham nad oeddynt yn fwy cymedrol, gan siarad bob yn un; mai pethau trymion oedd pethau Duw, ac y dylent siarad am danynt gydag ofn a pharch. Yna, ar ei gais, siaradasant yn Saesneg, a sicrhasant mai goleu crëedig, naturiol, gwneuthuredig ydoedd y daethai John i ddwyn tystiolaeth iddo. Yn ganlynol i hyn, cymerodd George Fox y Beibl, gan ddangos mai y goleuadau naturiol y rhai a wnaed ac a grewyd oeddynt yr haul, a'r lleuad, a'r sêr. Eithr mai y Goleuni yr oedd John yn dwyn tystiolaeth iddo, ag a alwai y Gwir Oleuni, ag "sydd yn goleuo pob dyn ar sydd yn dyfod i'r byd," ydyw y Bywyd yn Nghrist y Gair, trwy yr hwn y gwnaed ac y crewyd pob peth. Yr un ag a elwir y Bywyd yn Nghrist, a elwir y Bywyd mewn dyn. Mai Goleuni dwyfol, nefol ydoedd yr hwn sydd yn gadael i ddynion ganfod eu geiriau a'u gweithredoedd drygionus, gan ddangos iddynt eu holl bechodau. Ac os dalient arno y dygai hwynt at Grist, oddiwrth yr hwn y daethai, fel y gallent ei adnabod i'w hachub oddiwrth eu pechod a'i ddileu.—Bod y goleuni hwn yn llewyrchu yn y tywyllwch yn eu calonau, a'r tywyllwch oedd ynddynt, ni allai ei ddirnad. Eithr yn y calonau hyny lle yr oedd Duw wedi peri iddo lewyrchu allan o dywyllwch, ei fod yn rhoddi i'r cyfryw wybodaeth o ogoniant Duw, yn wyneb Iesu Grist eu Hiachawdwr. Yna, meddai, agorais iddynt yr Ysgrythyrau yn ehelaeth, gan eu troi at Ysbryd Duw yn eu calonau, yr hwn a ddatguddiai iddynt y dirgelwch yn yr Ysgrythyrau, ac a'u harweiniai i'r holl wirionedd o hono, fel ag y byddant yn dyfod yn ddarostyngedig iddo. Cyfeiriais hwy at yr hyn a roddai i bob un o honynt wybodaeth o Grist, yr hwn a fu farw drostynt, fel ag y gallai fod eu ffordd at Dduw, ac y gallai wneuthur heddwch rhwng Duw â hwy. Yr oedd y bobl yn astud, a pharodd i John ap John sefyll i fyny a thraethu yr efengyl wrthynt yn Gymraeg; ac yn ol yr hanes, darfu iddynt yn gyffredinol ei derbyn, a chyda dwylaw dyrchafedig fendithio a chlodfori Duw. Bu y ddau y cyfeiriwyd atynt fel offeiriaid Annibynol yn ddistaw yr holl amser, a therfynwyd y cyfarfod ar yr heol mewn heddwch, a dilynwyd George Fox a John ap John i'r gwesty gan lawer, y rhai a lawenychent yn y gwirionedd a draethwyd wrthynt. Ac yr oedd cymaint o effaith ar y bobl fel pan aeth y gwŷr

---

* **Two Independent Priests, medd y gwreiddiol, yn yr hen lyfr darn pydredig yr ydys yma yn cymeryd o hono, sef yw hwnw, "George Fox his Journal," yn ol fel y mae yn argraffedig ar ben ei ddalenau.**

allan o'r dref y codasent eu dwylaw gan fendithio yr Arglwydd am eu dyfodiad.

Ysgrifena George Fox, dan yr un amseriad—fod gan yr Arglwydd had gwerthfawr y ffordd hono, a bod llawer o bobl yn y parthau hyny er y pryd wedi eu casglu at yr Arglwydd Iesu Grist, i eistedd dan ei ddysgeidiaeth ac i oddef llawer erddo. Oddiwrth a ddywed y gŵr hwn, ac oddiwrth ddywediadau a hanesion eraill, ymddengys y trigianai yn y bröydd hyn gryn nifer o grefyddwyr perthynol i'r enwad hwn. Eithr nis gellir nodi eu nifer fel ag i allu rhoddi nemawr o bwys ar yr hyn a osodir i lawr yma. Er hyny, feallai na fyddid ryw bell iawn o'r nôd pe gosoder eu rhifedi pan oeddynt liosocaf o tua 90 i tua 120, a chymeryd i mewn ardal Llwyngwril. Mynegir yn ngodreu'r ddalen yn Nghofiant a Gweithiau Ieuan Gwynedd, ddarfod i dros 100 o gymydogion Rolant Ellis, Bryn Mawr, ger Dolgellau, gychwyn ar eu mordaith gydag ef o Bristol. Ac os ydys i ddeall mai rhai o gymydogaethau Dolgellau a Llwyngwril yr oedd y cymydogion hyny i gyd, a'u bod, gan mwyaf o honynt, yn Grynwyr, tebygol fod yr amcangyfrif a roddwyd yn rhy fychan. Modd bynag, nid yw yn ymddangos y gellir yn ddiogel eu cymeryd felly. Eithr os barna y darllenydd yn amgen, gall ychwanegu at yr amcanrif a roddwyd yn ol ei dybiaeth.

Crybwyllwyd eisoes o barth adeg dechreuad yr enwad yn y broydd hyn, pa un nid ydys yn gallu nodi yn fanwl. Ond bu farw yr olaf o'r aelodau perthynol iddo yn ardal Llwyngwril, sef oedd hono Cathrine Morgans, Hendref, Llwyngwril, yn y flwyddyn 1837; a'r olaf yn ardal Dolgellau, yn y flwyddyn 1849.

Dechreuodd Crynwyr yr ardaloedd hyn oddef erledigaeth yn lled foreu ar eu hanes. Canys fel yr oedd pedwar ar ddeg o honynt yn y flwyddyn 1660, wedi ymgyfarfod i gynal cyfarfod crefyddol yn Meirionydd, yn ol a nodir, daeth un Alban Vaughan, ynghyd ag amryw bersonau drygfoes eraill, yn arfogedig â chleddfau ar eu gwarthaf, gan eu llusgo allan o'u man cyfarfod, a'u gyru oddeutu chwe' milldir* o bellder oddiwrth y lle, gan eu taraw yn aml â'u cleddyfau. Wedi hyny, gadawsant iddynt fyned, ond ymhen ychydig ddyddiau

* Gweler "Sufferings of the Quakers." Cyf. I., pen. 35, tud. 713. Dywed yr hanes y bygythiwyd eu dwyn y pryd hwn i Gastell Caerfyrddin, yr hwn a osodir yn 25 o filldiroedd o bellder o'r fan y cadwent eu cyfarfod. Ond ymddengys wrth hyn fod rhyw gamgymeriad yn yr adroddiad.

Digitized by Google

wed'yn, daeth yr un blaid arfog ar feirch at aneddau y bobl a gamdriniasant felly, gan eu difrïo a'u llusgo allan trwy orthrech,—rhai o honynt o'u gwelyau, ac archolli, curo, a chleisio amryw o honynt, a'u gyru o'u blaenau ar draed i'r Bala. Ceisiwyd gan bedwar o honynt gymeryd y Llywodlŵ, a chan na wnaent, traddodwyd hwy i ofal ceidwad y carchar, yr hwn a'u rhoddodd mewn gefynau, gan wneyd iddynt gerdded felly oddeutu deuddeg milldir o ffordd i'r carchar, lle eu cadwodd gydag eraill o'u cyfeillion am tua phymtheg neu un wythnos ar bymtheg o amser, heb adael i neb ddwyn na bwyd nac angenrheidiau eraill iddynt. A chymerodd oddiarnynt eu Beiblau, eu cyrn inc, eu cyllill, a'u harian, gan eu camdrin a'u sarhau yn ddyddiol mewn modd barbaraidd. Enwau y rhai a ddioddefasant o dan law y carchar-geidwad gorthrymus hwn oeddynt,—Thomas Lewis, Rice Jones, John Humphry, William Jones, John Meredith, a gwraig weddw o'r enw Joane Owen, Samuel Humphry, Robert Owen, John Williams, ieu., Thomas Ellis, Lewis ap Humphry, Joane Humphrey, John William, Owen Lewis, John Evan, Hugh ap Rees, Meredith Edward, Katherine Williams, Evan Jones, Owen Humphrey, Richard Jones, William ap Rees, a Henry Thomas. Atafaelwyd yn ngwartheg amryw o'r gwyr hyn tra yr oeddynt yn ngharchar, a hyny i'r nifer mawr o tua chwe' chant a haner. Aed a'r gwartheg hyn i'r Bala, lle y cawsant eu gwerthu, a threfnwyd yr arian wrth ewyllys yr erlynwyr, heb roddi dim cyfrif o honynt i'w perchenogion.*

Ymhlith y personau a gamdriniwyd fel hyn, ymddengys fod Owain Lewis, o Dyddyn y Gareg, a Robert Owain, o Ddolserau, yn y plwyf hwn, ac Owain Humphrey, o'r Llwyndu, yn mhlwyf Llangelynin, a Samuel Humphrey a John Humphrey ei frodyr. A thebygol fod un neu ddau, pa faint bynag yn ychwaneg o'r gwyr hyn yn y cyfarfod yr ymddygwyd atynt mor frwnt gan Alban Vaughan, a'i blaid arfog.

Yn y flwyddyn 1661, yr ydys yn cael ddarfod traddodi i garchar y personau canlynol o Feirionydd am wrthod cymeryd y Llywodlŵ, sef Samuel Humphry, Owen Lewis, Owen Humphry, Robert Owen, John Evan, John Davis, a Thomas Ellis, a thebygol fod y tri neu'r pedwar blaenaf yr un rhai ag y cyfeiriwyd atynt o barth yr helynt blaenorol. Wedi pymtheg wythnos o amser, dygwyd hwy i'r Brawdlysoedd Chwarterol, pryd, ar eu hardystiad o'u ffyddlondeb i'r brenin, eu gollyngwyd yn rhyddion. Yn fuan wedy'n carcharwyd hwy

* "Sufferings of the Quakers." Cyf. I., pen. 35, tud. 753.

drachefn, ond cawsant eu rhyddhau yn y Brawdlysoedd, ond cyn diwedd y flwyddyn, "daliwyd y saith a enwyd olaf y dydedd waith," medd yr hanes,* a thraddodwyd hwy i gadwraeth Penswyddog,† yr hwn a'u cauodd mewn cut budr, cyfyng, lle yr arferai gadw moch. Yna'r moch druain, wedi eu cau allan fel hyn o'u gorweddfa arferol, a gadwent gymaint o sŵn wrth y ddôr a than y mur, fel nas gallasai y carcharorion gysgu ond ychydig. Ac yr oedd y fan mor agored i'r tywydd, fel pan y gwlawiai nas gallent gael lle i orwedd i lawr, ac yr oeddynt yn gorfod taflu y dwfr allan âg ystenau. Cadwyd hwy yn y cut moch hwn am ddeng wythnos, ac yna fe'i symudwyd i gadwraeth Penswyddog arall, ddeuddeng milldir yn mhellach oddiwrth eu teuluoedd. Hwythau yn gomedd ymostwng i'r eirchion anghyfreithlon ac afresymol hyn, cauwyd hwy i fyny gan y Penswyddog hwn am ddau ddiwrnod a dwy noswaith mewn ystafell, heb adael i un math o gynhaliaeth gael ei ddwyn iddynt. A'u lletyfan y pryd hyny oedd y llawr noeth heb ddim gwellt arno. Ond o'r diwedd, y Penswyddog yn canfod fod eu dioddefgarwch yn drech na'i greulondeb, a ymddygodd tuag atynt gyda rhywfaint o ddyngarwch.

Ar ol pymtheg wythnos ar hugain o amser, cymerwyd Samuel Humphrey, un o'r carcharorion hyn, gan wŷr y sirydd, a rhoddwyd ef yn y carchar cyffredin lle y bu am naw diwrnod a chynifer o nosweithiau, heb na gwely na dillad gwely, na chymaint a gwellt i orwedd arno, ac ni chai ei wraig chwaith ddwyn dim angenrheidiau iddo; a phan ddaeth un o'i weision a pheth cynhaliaeth iddo, cadwasant hwnw yn ngharchar. A phan anfonodd lythyr at rai o'r Ynadon ynghylch ei driniaeth anghyfreithlon, gwobrwyasant y genad a'i dygodd â charchariad. Ond o'r diwedd, ar ol saith wythnos o barhad amyneddgar o dan y cyfryw driniaeth farbaraidd, gollyngasant ef yn rhydd.‡

Yn y flwyddyn 1661, neu y ddilynol, hawliwyd buwch gwerth 2p. 15s., yn lle 1p. 15s., oddiar Owain Lewis, sef Owain Lewis o Dyddyn y Gareg, fel yr ymddengys. Yr oedd wedi ei esgymuno yn flaenorol am wrthod tâlu dwy geiniog o ffug-ddyled ynghylch caws. Ymhen rhyw 24 o flynyddoedd neu fwy wedi hyn, cymerwyd yn lle degwm oddiar

---

* Gweler "Sufferings of the Quakers." Cyf. I., t. 746.

† "Marshal" yn ol y gwreiddiol.

‡ "Suffering of the Quakers." Cyf. I., t. 746.

| | £ | s. | c. |
|---|---|---|---|
| Humphrey Owen, Llangelynin, gwerth .. | 2 | 1 | 6 |
| Lewis Owen, Dolgellau .. .. .. | 1 | 18 | 0 |
| Rowland Ellis, eto .. .. .. | 1 | 10 | 0 |
| Rowland Owen, eto .. .. .. | 3 | 7 | 0 |

Dichon mai nid yn yr un flwyddyn a'u gilydd y gwnaed hyn â'r personau a enwyd. Ceir mewn hen Weithred* dyddiedig y 15fed o Ionawr, 1694, yr enwau Lewis Owen, o Dyddyn y Gareg, Humphrey Owen, o Lwyngwril, a Rowland Ellis, yr hwn a ddynodir ynddi fel mab ac etifedd Ellis Prise, o'r Brynmawr, boneddwr. Ac oddiwrth hyn tebygol mai yr un personau yw y tri cyntaf ar y rhestr uchod ag sydd yn y Weithred. Mewn Gweithred arall,* dyddiedig y 9fed o Ionawr, yn yr wythfed flwyddyn o deyrnasiad William III., sef dwy flynedd yn ddiweddarach, y mae yn cael ei ddynodi yn Rowland Ellis, Brynmawr, boneddwr. Mynegir mewn llyfr† enwedig islaw, fel y dangosir eto ychydig ymlaen, ddarfod i Rolant Elis fyned i Bensylfania yn y flwyddyn 1686, i barotoi cartrefle i'w wraig a'i deulu, ac iddo ddychwelyd gyda hwy yno yn y flwyddyn 1697. Ac yn ngodreu'r ddalen yn Nghofiant a Gweithiau Ieuan Gwynedd ag y cyfeiriwyd ato eisoes, y mae nodiad dyfynedig yn rhedeg fel hyn:—"Yn 1686 daeth Rowland Ellis, Bryn Mawr, ger Dolgellau, Meirion, drosodd. Cychwynodd ef a thros gant o'i gymydogion o Bristol, ac ar ol mordaith galed o 24 o wythnosau, a cholli, drwy afiechyd, dioddefiadau a newyn, dros 30 o'u cwmni, tiriasant yn Philadelphia." Ymddengys oddiwrth hyn mai wedi dychwelyd o hono o edrych am gartref i'w deulu yr arwyddodd yr hen Weithredoedd crybwylledig. Y mae yn ymddangos i'w ferch Anne—Anne Jonson, yn ol ei chyfenw priodasol, aros ar ei ol yn y wlad hon am ryw hyd o leiaf.

Mewn perthynas i'r gŵr hwn, dywed y dystiolaeth am dano o Gyfarfod Misol Gwynedd yn Mhennsylfania, cyfleuedig yma allan o'r llyfr a enwyd yn ngodreu'r ddalen †:— Ganwyd ein hen gyfaill cyfrifol Rowland Ellis, yn Swydd Feirionydd, Gogledd Cymru, yn y flwyddyn 1650. Argyhoeddwyd ef o'r gwirionedd pan ydoedd tua dwy flwydd ar hugain oed, a dioddefodd amryw flynyddoedd o

* Y mae y ddwy Weithred a nodwyd uchod yn meddiant Edward Griffith Ysw., Y.H., Dolgellau.

† "A Collection of Memorials concerning divers deceased Ministers and others of the people called Quakers in Pensylvania, New Jersey, and parts adjacent from nearly the first settlement to the year 1787," &c., t. 85—6.

Digitized by Google

garchariad yn ddianwadal, yn herwydd ei dystiolaeth, gan ei bod y pryd hyny yn amser o erledigaeth flin, Mynegwyd ar gyhoedd yn y brawdlysoedd gan y ddau farnwr a'i traddodasant ef a llawer o rai eraill, oherwydd gwrthod cymeryd y llŵ o ffyddlondeb,* 'Mai os gwrthodent ei gymeryd yr ail waith, yr erlynid yn eu herbyn fel bradwyr, y crogid ac y chwarthorid y dynion, ac y llosgid y merched." Daeth trosodd i Bennsylfania yn y flwyddyn 1686, i barotoi cartrefle i'w wraig a'i deulu, gyda y rhai y dychwelodd yn y flwyddyn 1697. Cynysgaeddwyd ef â dawn yn y weinidogaeth, ac er nad ymddangosai ynddi yn aml iawn, yr oedd ei wasanaeth yn dderbyniol, ac er adeiladaeth, gan ei fod o farn gref, yn barod ac ewyllysgar i gynorthwyo ei gymydogion a'i gyfeillion ymhob achos pan geisid ganddo, pa un bynag fyddent a'i gwladol a'i crefyddol. Yr oedd yn aiddgar dros gynorthwyo ein disgyblaeth Gristionogol, ac yn esiampl yn ei ymddygiad cyd-unol â hyny, gan ddywedyd weithiau, 'os na byddai i glawdd disgyblaeth gael ei gadw i fyny, y gwnelid gwaith y llafurwr yn fuan yn ddiffaethwch.' Yr oedd yn ofalus am addysgu ei blant yn grefyddol, gan ymdrechu i argraffu ar eu meddwl egwyddorion duwioldeb a rhinwedd, ac arferiad o'i eiddo a orbwysai at hyny ydoedd cynal cyfarfodydd yn fynych yn ei deulu, yr hyn a barhaodd i wneyd am hir amser. Cymerwyd ef yn glaf yn y Cyfarfod Misol diweddaf y bu ynddo; ond wedi hyny, dywedai wrth amryw gyfeillion oeddynt bresenol, 'Y mae yn dda genyf fy mod yma heddyw, canys cefais gyfarfod gwresoglym, ac er fy mod yn teimlo gwendid mawr, a'r llesgedd sydd yn dilyn fy henaint, eto gallaf ddywedyd fod y gwirionedd mor anwyl ag erioed.' Dywedai hefyd, 'mae satan weithiau yn cynllwyn megis llew rhuadwy i'm difetha i, ond yr wyf yn cael allan ei fod wedi ei gadwyno gan law ddirgel, yr hyn sydd yn cadw ei allu o fewn terfynau, fel nad all fy niweidio.' Parhaodd ei anhwyldeb am ychydig ddyddiau, yr hwn a ddioddefodd gydag amynedd Cristionogol, gan ddatgan ei syniad fod ei fynediad i borthladd o orphwysdra a llonyddwch yn agos, lle nad allai neb ei wneyd yn ofnus. Bu farw yn nhŷ John Evans,† ei fab-yn-nghyfraith, yn y bedwaredd ugeinfed flwyddyn o'i oedran, a chladdwyd et yn nghladdfa y Cyfeillion ym Mhlymouth, (i gyfarfod penodol pa le y perthynai,) yn y seithfed mis, 1729. Ac yr ydym yn ymddfried y gellir dweyd am dano, Gorphwysa gan fwynhau gwobr y cyfiawn, ac y mae ei weithredoedd yn canlyn.

---

* Ymddengys mai yn y Bala y bu hyn; ac ymddengys y diddymwyd y Ddeddf a roddai yr hawl i hyn, yn yr unrhyw flwyddyn, ac y bu gan y Cynghawsydd Corbet law yn ei symudiad.

† "Collection of Memorials," a nodwyd eisoes, tud. 85—6.

Digitized by Google

Yn ddilynol ceir rhoddi y Dystiolaeth am ei ferch, sef Ellen Evans, yn ol ei chyfenw priodasol. A'r penawd i'r unrhyw ydyw:

Tystiolaeth o Gyfarfod Misol Gwynedd yn Mhennsylfania, mewn perthynas i Ellen Evans, henadures y cyfarfod dywededig.

Rhed y Dystiolaeth i'r ystyr hyn:—

Merch ydoedd i Rolant a Margared Elis, wedi ei geni yn agos i Ddolgellau, yn Nhywysogaeth Cymru, yn y flwyddyn 1685. Cafodd ei chynysgaeddu â dealltwriaeth ragorol, yr hyn wedi ei gynyddu trwy addysgiaeth grefyddol, a sylw manwl i hyfforddiadau dwyfol ras, a'i dynododd fel un yn ceisio trysor nefol, yr hyn mewn oedran addfetach, a'i gwnaeth yn aelod anrhydeddus o gymdeithas.

Priododd ein cyfaill clodwiw a thra chyfrifol John Evans, o'r lle yma, i'r hwn y bu yn gynorthwyes wirioneddol, yn fwy neillduol mewn gwasanaeth crefyddol. Oblegid pa bryd bynag y darganfyddai ynddo y duedd leiaf i ymweled â chyfarfodydd y Cyfeillion, pa un bynag ai ymhell ai agos, gwnaeth gymaint ag a fedrai i galonogi ac anog yr ysgogiad. Bu hefyd yn gynorthwy mawr iddo yn ei ymdrechion ysbrydol tuag amser ei ymddangosiad cyntaf mewn tystiolaeth gyhoeddus.

Yr ydoedd yn ei theulu yn gynllun o dduwioldeb a diwydrwydd, yn boreu-godi, ac anog eraill i wneyd yr un modd, gan sylwi yn aml fod y rhai a orweddent yn hwyr, yn colli prydferthwch ieuangaidd y diwrnod; mai canwyll y byd oedd yr haul a alwai arnom i gyfodi ac arfer ein gwahanol ddyledswyddau. Ar ol gorphen goruchwylion y boreu, ei harferiad gwastadol bron, oddigerth ar ddyddiau cyfarfodydd, fyddai ymneillduo oddeutu canol dydd gyda'r Beibl, neu ryw lyfr crefyddol arall, lle y byddai rhan o'i hamser yn cael ei dreulio ar ei phen ei hun. A dychwelai yn aml o'r ymneillduaeth hyny gydag arwyddion amlwg i'w llygaid gael eu golchi â dagrau.

Yr ydoedd yn nodedig o gydnabyddus â'r Beibl, ac hefyd âg ysgrifeniadau a chymeriadau ein hen gyfeillion clodwiw, ynghyd â rhai o'i hamser ei hun. Mynegai yn fynych y manteision lliosog a dderbyniai wrth aml gymdeithasu â'r marw a'r absenol; gan egnio meithrin yr un tueddfryd yn ei theulu, trwy eu galw yn fynych ynghyd yn nghyfnosau'r gauaf, a cheisio gan un o'i phlant ddarllen y Beibl yn hyglyw, neu ryw lyfr crefyddol arall. Ail adroddai wrthynt y budd oedd i'w gael o gadw cymeriadau y gweinidogion a'r henuriaid ffyddlon hyny yn yr eglwys, y gallai eu bywyd duwiol a'u dadgorfforiad dedwydd, os eu cynhelid i fyny yn ngolwg olofiaid, fod yn foddion

Digitized by Google

i enyn ynddynt yr unrhyw sel a phenderfyniad i sangu yn ol eu traed. Ac fel y deuai Cyfeillion gweinidogaethol (y rhai o'i mebyd a garai yn wirioneddol fel brodyr a chwiorydd yn nghymdeithas yr efengyl) y ffordd hon yn ngyrfa eu hymweliadau, lletyent yn gyffredin yn eu tŷ, ar ba amserau anfynych y methai barotoi ei theulu a hysbysu ei chymydogion am y bwriad o gyd-eistedd dros enyd yn y prydnhawn. A chafodd y cyfleusderau dewisol hyny, pa rai y gall llawer eto eu cofio, eu bendithio yn aml yn anghyffrediu â chymorth ac adeiladaeth ddwyfol.

Nid oedd ei dyfalwch yn mynychu cyfarfodydd er addoliad crefyddol yn llai eglur nag oedd ei hawydd sefydlog a gwastadol i gynal i fyny ein disgyblaeth eglwysig, ac fel y gallem harddu athrawiaeth Duw ein Hiachawdwr ymhob peth. Er hyny, yr oedd ei thaerfryd yn gymysgedig â chariad, oblegid wedi cael hir brofiad mor ychydig oeddynt gyfaddasedig i osod uniondeb wrth y llinyn a chyfiawnder wrth blymlin, tybiai mai diogelach yn hytrach oedd tueddu at yr ochr drugarog, gan gwbl gredu ddarfod i ras Duw, yr hwn sydd yn dwyn iachawdwriaeth, ymddangos i bob dyn. Hoffai ymddiddan gyda'r Indiaid anhyfforddedig parthed eu syniadau am y Bôd Goruchaf, a dywedai yn aml y canfyddodd olion amlwg o ddaioni dwyfol yn eu meddyliau anniwylledig.

Yn ei chymdeithas yr oedd yn wresog a gwastad, ac ar ei gwely angau pwysai yn ddifrifol ar ei phlant, i beidio anghofio cyfeillion eu tad a'u mam, a gwnelai teimladrwydd ei chalon hi yn dra gofalus tuag at eisiau y tlawd yn ei chymydogaeth.

Rai blynyddoedd cyn ei marwolaeth, collodd briod ei hieuenctyd, cyfaill mynwesol, a chynorthwy penaf ei henaint, yr hyn a drodd allan yn brofedigaeth mor fawr, fel y dywedodd mai pe na buasai i Dduw yr hwn a garai dros holl ystod ei bywyd, ei galluogi i'w dwyn, y rhaid y buasai wedi suddo o dani. Darfu i'r oruchwyliaeth hon o eiddo Duw ei diddyfnu oddiwrth bob mwynderau tymhorol. Daliai i fyned i gyfarfodydd, ac yn aml i ymweled â'r claf a'r trallodedig tra y caniataodd ei nerth, a phan ballodd hwnw treuliodd lawer o'i hamser yn narlleniad yr Ysgrythyr Sanctaidd, ac mewn myfyrdod.

Yr oedd ansawdd boreuol crefydd yn y diriogaeth hon yn destyn ymddiddan dymunol ganddi yn mhrydnawn ei dydd; ond wrth droi ei llygaid at yr amser presenol, dywedai gydag ochenaid, "O! beth a ddaeth o'r 'gwlith boreol' a'r gwlaw nefol a arferai ddisgyn ar ein cynulliadau?" A gweddiai yn aml ar fod ganddi archwaeth fywiog i'r gwirionedd hyd y diwedd, yr hyn a ddarfu i Dduw o'i ras weled yn dda ganiatau iddi.

Digitized by Google

Dechreuodd ei saldra olaf oddeutu blwyddyn yn flaenorol i'w marwolaeth, a theimlodd yn ei ddechreuad y fath iselder a digalondid meddwl ag a barodd iddi lefain, "Mynega i mi, yr hwn a hoffodd fy enaid, pa le yr wyt yn bugeilio, pa le y gwnei iddynt orwedd ganol dydd?" Ond ryw dro ar ol hyn, galluogwyd hi i ddywedyd, "A'i faner *drosof* ydoedd gariad."

Ac fel hyn, trwy gofio ei Chreawdwr yn nyddiau ei hieuenctyd, a dyfalbarhad yn hyny, galluogwyd hi i gyfarfod brenin dychryniadau gyda gwynebpryd siriol, a dymroddodd ei hanadl heb ochenaid na gruddfaniad y nawfed dydd ar hugain o'r pedwerydd mis, a chladdwyd hi yn Ngwynedd yr 2il o'r pumed mis, 1765, wedi ei derbyn, yr ydym yn credu, "I gymanfa a chynulleidfa y rhai cyntaf-anedig, y rhai a ysgrifenwyd yn y nefoedd."*

Yn nesaf rhoddir tystiolaeth am John Evans, ei phriod, yn nhŷ yr hwn fel yr ymddengys y bu farw ei thad,† a hyny yn ol ei ceir yn y llyfr y caed y dystiolaeth a roddwyd eisoes am dani hithau. Ei phenawd ydyw:

Tystiolaeth o Gyfarfod Misol Gwynedd yn Mhennsylfania, o barth John Evans.

A rhed yr unrhyw i'r ystyr a ganlyn:—

Ganyd ef yn Swydd Ddinbych, yn Nhywysogaeth Cymru, yn y flwyddyn 1689, a chyrhaeddodd i Bennsylfania gyda'i rieni yn y flwyddyn 1698, dan y rhai y derbyniodd addysg grefyddol. Yr ydoedd yn ddyn da ei ddeall, ac wedi ei gynysgaeddu yn foreu ar ei fywyd i weled yr angenrheidrwydd am wrandawiad dyfal ar lais dwyfol ddoethineb, i'w sefydlu a'i gadw yn nhangnefedd Duw; a thrwy ffyddlondeb diysgog iddi, daeth i fod yn barchus mewn cymdeithas, ac yn dra gwasanaethgar yn eglwys Crist. Ymddangosodd yn ngweinidogaeth yr efengyl yn y drydedd flwyddyn ar hugain o'i

---

* "A Collection of Memorials concerning Divers deceased Ministers, and others of the people called Quakers in Pennsylvania, New Jersey, and parts adjacent from nearly the first settlement thereof to the year 1787.........Tud. 218—221. Dywedir ar waelod y ddalen lle y mae ei enwad. "Philadelphia Printed: London Reprinted and sold by J. Phillips, George-yard, Lombard-street. MDCCLXXXVIII.

† Gweler yn y Dystiolaeth am dano, tud. 135.

Digitized by Google

oedran. Yr oedd ei ymarweddiad ynddi yn barchus, megis ag y gweddai i feddwl teimladol o bwysigrwydd ofnadwy y gwasanaeth. Meddai ddull eglur ddeniadol o draddodiad; yr oedd yn ddyfn mewn pynciau nefol, ac yn eglur wrth eu traethu. Gan ei fod yn gyfarwydd iawn â'r Ysgrythyrau Sanctaidd, fe'i gwnaed yn fedrus i agoryd yr athrawiaethau a gynwysant, ac arweinid ef yn fynych i dynu cyffelyb. iaethau bywiog ac addysgiadol oddiwrth y greadigaeth weledig. Teithiodd trwy y rhan fwyaf o'r trefedigaethau gogleddol yn ngwasanaeth y gwirionedd, ac amryw weithiau trwy y diriogaeth hon. Darbwyllwyd ef yn aml i fod yn bresenol mewn cyfarfodydd cyffredinol, claddedigaethau, ac achosion cyhoeddus eraill, yn enwedig ar ol eu sefydliad cyntaf, dros ba rai y meddai ofal tyner a thadol, megis bugail da yn cymeryd sylw o'r ddeadell, a bendithiodd Bugail mawr Israel ei lafur, a rhoddodd iddo weithiau lawer o foddlonrwydd a chysur. Gwnaeth dirywiad eglur llawer oddiwrth fywyd a gallu y gwirionedd, yr adeg olaf o'i amser, i dristyd ag wylofain dwys i fod ei ran yn fynych. Yr oedd ei lafur gyda'r ieuenctyd yn wresog, mewn llawer o gariad ac awyddfryd, ar iddynt allu dyfod i adnabod Duw drostynt eu hunain, gostwng eu gyddfau dan yr iau, a gosod eu hysgwyddau dan y gwaith, gan ddywedyd y byddai eu cofiad o'u Creawdwr yn nyddiau eu hieuenctyd fel mêr i'w hesgyrn. Yr oedd yn llawenydd mawr ganddo yn sicr weled "heddychol ffrwyth cyfiawnder" a'i lafur yn ei hyrwyddo, yn ei wneyd yn anrhydeddus ymysg pobl o wahanol raddau a galwedigaethau, a'i dystiolaeth yn gyffredinol dderbyniol ganddynt.

Yr ydoedd yn aiddgar, bywiog, a diflin yn naliad i fyny ein disgyblaeth Gristionogol, ac wedi ei gynysgaeddu â chymhwysder i gynghori mewn gwahanol achosion, pa un yn anfynych a fethai lwyddo. Yr oedd ei dystiolaeth yn fanwl yn erbyn rhagrith, ac arddangosiad allanol yn unig o grefydd, ond yn llawn o dynerwch tadol at y trallodedig, egwan, neu ddigalon o ysbryd. Yr oedd o farn gref, a dwfn ei brofiad mewn duwioldeb, er hyny yn weddaidd a gostyngedig; ac yn gymaint a'i fod wedi ei ffafru â disgyniadau o gariad y Tad, ag a ymddangosai ar amserau yn ei ddilladu fel â mantell, meddai ddrws agored i galonau ei gyfeillion, a goruchafiaeth ar ysbrydoedd gwrthddywedwyr. Yr oedd yn gefnogwr aiddgar i ymweliad â chyfeillion yn eu teuluoedd, a bu lawer gwaith yn rhwymedig yn hyny, ac yr oedd ei lafur yn adfywiad ac yn fuddiol. Byddai yn aml ar waith yn ymweled â'r claf, y weddw, a'r amddifad, ac eraill mewn trallod. Ar yr achlysuron hyn, anfynych y byddai yn helaeth mewn ymadroddion, ond byddai ei gydymdeimlad distaw, a'i anadliad ddirgel am eu hesmwythâd yn fwy cysurol iddynt na llawer

Digitized by Google

o eiriau. Treulid cryn ran o'i amser yn nghynorthwyad gweddwon, a gwarchodaeth plant amddifaid, yr hyn, er ei fod yn llafurus iddo ef, oedd o lawer o fudd iddynt hwy.

Yr ydoedd yn dra ymsyniol o'r pwysigrwydd am gariad a thangnefedd mewn cymdeithas wladol a chrefyddol, gan anog hyn yn ddyfal trwy gyfarwyddyd ac engraifft, ac yr oedd yn llwyddianus mewn adferu cydgordiad lle yr ymddangosai unrhyw doriad o hono. Yr oedd ei ymddygiad a'i ymddiddan mewn bywyd anghyhoedd yn engreifftiol, ac yn gyfryw a arwyddocäi archwiliad manwl i weithrediadau dirgelaidd ei galon ei huu.

Yr ydoedd yn ystyried fod ei ddiwedd yn agoshau er's rhyw amser yn flaenorol i'w saldra olaf, a dywedodd wrth gyfaill na fyddai byw yn hŵy nac un flwyddyn, a rhyfeddai hwnw ei fod mor bendant, eithr ni atebodd amgen na dywedyd, "Edrych beth a ganlyn." Dywedai hefyd yn fynych yn ei dystiolaeth gyhoeddus na feddai ond modfedd o amser i ymddiddan â ni. Yn y rhan gyntaf o'i saldra, aeth i rai cyfarfodydd—un o honynt yn fawr, a rhoddwyd iddo nerth i siarad mewn modd grymus ac addysgiadol wrth yr ieuenctyd, dros lwyddiant pa rai yr oedd ei ddymuniadau yn wresog. Araf a gohiriog oedd ei selni, a chadwyd ei ddealltwriaeth iddo ynddo ymron i'r diwedd. Ac er y byddai ar rai adegau yn pryderu llawer oherwydd tywyllni yr amseroedd mewn ystyriaethau crefyddol a gwladol. Er hyny, ar y cyfan yr ydoedd yn feddianol ar radd fawr o dawelwch a sirioldeb meddwl, gyda llwyr ymroddiad i ewyllys Duw, pa un bynag ai bywyd ai marwolaeth fyddai ei ran. Y diwrnod yr ymadawodd, wrth sylwi ar ei wraig yn drallodedig, dywedodd gyda gwynebpryd siriol, "Yr ydwyf fi yn dawel," a dymunai arni hithau i fod yn dawel hefyd. Yn sicr, ymddangosai ddarfod i Dduw ei nerthu ar ei nych wely, a chyweirio "ei holl wely yn ei glefyd." Ac fel hyn, wedi gwasanaethu Duw yn ei genhedlaeth, ymadawodd ar y trydydd dydd ar hugain o'r nawfed mis, 1756, yn drigain a saith mlwydd oed, wedi, yr ydym yn gobeithio, ymysgwyd oddiwrth y llwch, a gwisgo ei harddwisg, a myned i mewn i ystafell briodas priodfab ei enaid, a mwynhau gwobr ei ffyddlon lafur, a gladdwyd ar y pumed dydd ar hugain o'r unrhyw fis, yn nghladdfa y Cyfeillion yn Ngwynedd.

Yn nesaf, rhoddir yma Dystiolaeth y Rolant Elis a nodwyd am Robert Owain, sef Robert Owain o Ddolsera a Jane ei wraig:—

Pan feddyliwyf am yr amseroedd gynt a'r dyddiau a aethant

Digitized by Google

heibio, yn y rhai yr ymwelodd yr Arglwydd â gweddill trwy law-gynull ei allu yn ngwlad ein genedigaeth, i ddisgwyl am adnewyddiad o'i gariad o'r naill gyfarfod i'r llall, er ein mawr adfywiad a'n calonogiad dyddiol i redeg ein gyrfa trwy lawer o brofedigaethau oddifewn ac oddiallan. A bu yr Arglwydd y disgwyliasom wrtho yn nerth i'w bobl yn ein hoes a'n cenhedlaeth ni megis ag yn yr holl oesau a aethant heibio. Felly y mae yr adgof am y dyddiau a'r amseroedd hyny, a'r gyfeillach agos hono ag ydoedd cydrhwng y gweddill bychan yn y parth hwnw o'r wlad, yn awr wedi eu dwyn o flaen fy meddwl, er fod y rhan fwyaf o'r hynafiaid a ddygasent boethder gwres y dydd wedi eu symud erbyn hyn, eto tybiaf y dylai eu henwau a'u gweithredoedd teilwng gael eu cadw mewn côf, fel y gallo yr oesau a ddel weled a deall trwy ba offerynau y gwelodd yr Arglwydd yn dda ddwyn ei waith ymlaen, trwy wneyd yn amlwg y ffordd dda unwaith a gollwyd yn nos gwrthgiliad, ymhlith pa rai yr oedd fy nghyfeillion Robert Owen a Jane ei wraig. Ac er na ddylem osod i fyny neu ganmol yr hyn sydd yn darfod mewn gwr neu wraig, ond gan y dewisasant hwy y golud gwell a'r mwyaf parhaol, caiff eu henwau eu cadw mewn coffadwriaeth.

Yr oedd yn disgyn o deulu tra hynafol, ac (yn ol cyfrif y byd) un o'r teuluoedd mwyaf yn y parthau hyny, ac yn meddu etifeddiaeth ddigonol trwy ei dad, a chanddo y llaw ddehau yn ei holl amser ymysg ei gydradd, wedi ei ddwyn i fyny yn ysgolhaig, yn gyflym o ddealltwriaeth, a pha beth bynag a gymerai mewn llaw efe a'i gwnai â'i holl egni. Yr oedd yn selog ymgyflwynedig i grefydd, ac yn chwiliwr mawr am y perl o uchel bris, yn un o'r rhai cyntaf a'i cafodd yn y parthau hyny; ac wedi ei gael, efe a werthodd yr oll i'w bwrcasu.

Ar ol i'r Brenin Charles II. ddyfod i'r Goron, dioddefodd bum mlynedd o garchariad caeth, am omedd cymeryd y llw o ffyddlondeb ac uchaflaeth, wedi ei gau i fyny yn nhref Dolgellau, yn Swydd Feirionydd, Gogledd Cymru, o fewn tua milldir oddiwrth ei gartref, i ba un ni chafodd ganiatad i fyned trwy'r holl amser. A sylwyd ddarfod i'r un a feddai y llaw uchaf yn ei erlyniad gael ei gymeryd yn glaf, pryd y gafaelwyd ynddo mor dyn gan adgno cydwybod, fel nad allai gael na gorphwysdra nac esmwythyd, hyd nes yr anfonodd genad neillduol i'w ryddhau.

Ac mewn perthynas i Jane Owen ei wraig, merch ydoedd i Ynad Heddwch, gŵr o uniondeb mawr, ac uwchlaw y rhan fwyaf o'i sefyllfa ar y pryd. Yr oedd yn wraig wedi ei chynysgaeddu â llawer o dalentau naturiol, fel mai anfynych yr oedd ei bath, yn gynorthwyes i'w gŵr yn ei lafur, diwegi yn ei hymarweddiad, ac heb fod yn

Digitized by Google

chwanog i lawer o eiriau. Yn eu holl gyd-lafur er mwyn y gwirionedd, ni chiliasant ac ni roisant ffordd oherwydd ofn neu weniaeth; nid yn unig yr oedd eu calonau, ond yr oedd eu tŷ yn agored i bawb yn achos y gwirionedd; cyfarfodydd yn cael eu cynal yno dros lawer o flynyddoedd. Yr oeddynt o wasanaeth yn eu lleoedd, ac yn garedig iawn yn eu gwlad enedigol, ymha fan wedi dioddef eu cyfran o boethder y dydd, y moriasant ymaith y pumed mis, 1690. a daethant i Bennsylfania, lle y gorphenasant eu gyrfa, a chladdwyd hwy o fewn ychydig ddydiau i'w gilydd.*

Yn ddilynol rhoddir Tystiolaeth Hugh Roberts am yr un gŵr:--

Yr oedd yn un a ofnai'r Arglwydd o'i ieuenctyd, wedi ei argyhoeddi o'r gwirionedd pan oddeutu dwy flwydd ar bymtheg oed; hoffai gwmni y rhai hyny o'i gydnabod ag oeddynt gadarnaf mewn crefydd, ac yr oedd hefyd yn garedig ganddynt hwy ynghyd a phob math o bobl ar a'i hadwaenai; yr oedd yn gynorthwy mawr i'w frodyr, a gwnaeth achos o lawenydd i'w dadau yn y gwirionedd. Agorodd yr Arglwydd nid yn unig ei galon, megis Lydia gynt, ond agorodd ei enau hefyd i gyhoeddi ei enw a'i wirionedd ymysg llaweroedd, gan deithio amryw weithiau trwy Gymru, ei wlad enedigol, lle y bu o wasanaeth da. Daeth i Bennsylfannia yn 1690, lle y bu fyw oddeutu saith mlynedd gan ymweled â'r dalaeth hon a'r taleithiau cyfagos, ac yr oedd hefyd yn dra defnyddiol yn y cyfarfod lle y trigianai, mewn athrawiaeth a disgyblaeth; mewn gwirionedd yr oedd yn golofn gref yn yr eglwys. Nis gwelais ef erioed yn ochri gyda'r hyn fyddai gyfeiliornus. O fel y teimlaf ei eisiau! Ei le sydd eto yn wâg. Yr wyf yn gweddio Duw am iddo ei lenwi i fyny os bydd hyny yn ol ei ewyllys. O fy mrawd, fy anwyl gydymaith! Pa fodd y gall y rhai a adnabuant dy ffyddlondeb a'th wirionedd, lai na gadael cofeb i'r oesau a ddêl oblegid y mae dy enw yn deilwng o gael ei gofnodi yn Israel. Yr oedd yn ŵr tangnefeddus a chasäai bob ymddangosiad o gynen, ac mewn gwirionedd yr oedd yn athrywynwr medrus, wedi ei gynysgaeddu â doethineb ac awdurdod, eto'n llawn trugaredd a chydymdeimlad at bob ymddangosiad o ddaioni. Y mae ei symudiad yn golled fawr i ni y rhai a adawyd. Wel, fy anwyl frawd, mewn adgof am danat, a'r lliaws cyfleusderau daionus a gwerthfawr a gawsom gyda'n gilydd, y mae fy enaid wedi ei ddarostwng, ac yn barod i

* "A Collection of Memorials Concerning......of the People called Quakers, tud. 30—2.

Digitized by Google

ddywedyd na chaf fyth y cyffelyb gydymaith, mor agweddedig a chyd-gysylltiedig ymhob ystyriaeth, a pha fwyaf y meddyliaf am fy ngholled o honot, mwyaf oll yr ymddengys; felly terfynaf fy nhystiolaeth hon, a dychwelaf at fy ngwaith am gwasanaeth, modd y gallwyf fod yn barod i ganlyn ar dy ol.

Hugh Roberts.

Bu farw yr 8fed o'r pumed mis, 1697, a chladdwyd ef y 10fed o'r unrhyw, yn nghladdfa y Cyfeillion yn Meirion, yn Mhennsylfania."

Bu y gŵr hwn yn Hedd Ynad ac yn swyddog milwraidd yn amser Oliver Cromwel. A bu Owain Lewis o Dyddyn y Gareg, ac Owain Wmphra, brawd Samuel Wmphra, Llwyndu, Llwyngwril, hefyd ill deuodd yn Hedd Ynadon yn amser yr un gŵr. Canys dywed Richard Dauies,* ddarfod iddo fyned "i dŷ Owen Lewis, Tyddyn y Garreg, yn agos i Ddolgellau, yn Swydd Feirionydd, gŵr a fuasai yn ynad yr heddwch yn nyddiau Oliver, ac oedd newydd ddyfod o'r carchar o'r Bala, yr hwn am derbyniodd i yn garedig: argyhoeddasid ef gyntaf gan Thomas Briggs. Oddiyno aethum at Robert Owen, Dol-y-caerau,† yn agos i Ddolgellau, yr hwn hefyd a fuasai yntau yn Ynad Heddwch, ac yn swyddog milwraidd yn amser Oliver. Derbyniodd fi am tystiolaeth; megis y gwnaeth hefyd Owen Humphrey o Lwyngwril, yn agos i lan y môr, Swydd Feirionydd; yr hwn oedd ynad yr heddwch yn nyddiau Oliver, a'i dad a'i frodyr Samuel a John Humphrey. Y rhai hyn gyda llawer yn ychwaneg yno, a dderbyniasant y gwirionedd yn y cariad o hono, ac a barasant yn ddynion ffyddlawn, gwasanaethgar yn eu gwlad; cadwasant gyfarfodydd yn eu tai, a chasglwyd llawer at yr Arglwydd, ymysg y creigiau a'r mynyddoedd yn y parthau hyny: hyn oedd yn y flwyddyn 1662.

Mewn llyfr‡ a enwir yn ngodreu'r ddalen, rhoddir yr ychydig hanes a ganlyn am un Elis Lewis, o Dyddynygareg. Tebygol ei fod yn fab neu ryw berthynas arall i'r dywededig Owain Lewis. Cyfeirir ato dan ei enw i'r ystyr a ganlyn :—Ellis Lewis, hen gyfaill o Dyddynygareg, yn agos i Ddolgellau, yn Swydd Feirionydd, Gogledd Cymru, a anwyd o rieni yn proffesu y gwirionedd yn ol fel ei delid gan y bobl a elwid Crynwyr, ac a gafodd ymweliad gan gariad dwyfol pan yn

* "Hanes bywyd Richard Davies," tud. 45—6.

† Gan olygu Dolsera, neu Dolserau.

‡ "Piety Promoted." The Ninth Part. All Arg., tud. 41, 2.

Digitized by Google

dra ieuanc, yr hyn a effeithiodd gymaint arno fel yr ymddangosodd mewn tystiolaeth gyhoeddus pan oddeutu 13eg. yn yr iaith Saesneg [yn yr hon nid oedd wedi ymgynefino] mewn dull nodedig o dyner. Parhaodd yn ffyddlon, a theithiodd yn ngwaith y weinidogaeth, amryw droion, drwy y Dywysogaeth, ac hefyd trwy amryw barthau o Loegr, gan addurno yr athrawiaeth a bregethai mewn buchedd ddiniwed a chyd-siarad; ac yn fawr ei barch gan gyfeillion mewn llawer o barthau y deuai iddynt.

Ychydig cyn ei farw, analluogwyd ef i deithio gan lesgedd a henaint, er hyny cadwai ymwybyddiaeth fywiog o'r gwir, gan feddu yr addurn hwnw o feddwl Cristion, sef ysbryd gostyngedig a thawel, a chan ymroddi yn amyneddgar i'r ewyllys ddwyfol, gosododd ei ben i lawr mewn tangnefedd ar y 23ain o'r unfed mis ar ddeg o 1764, a chladdwyd ef yn nghladdfa y Cyfeillion ger Tyddynygareg, yr 28ain o'r unrhyw, yn bedwar ugain a saith oed, a gweinidog o saith deg a phedair blynedd.

Heb fod ymhell o Dyddyn y Gareg, ac yn y tyddyndy a elwir Pen Rhos y ganwyd Elis Pugh, yr hwn ydoedd weinidog ffyddion ymhlith y Crynwyr, ac awdwr yr "Anerch i'r Cymry." Aeth y llyfr hwn trwy amryw o argraffiadau, ond ymddengys nad yw "Llyfryddiaeth y Cymry" yn gywir wrth ddweyd na chafodd ei argraffu yn Gymraeg cyn y flwyddyn 1782. Canys yn y gyfrol gyntaf o "Hanes Cymry America," gan y Parch. D. Thomas (Iorthyn Gwynedd) dywedir iddo gael ei argraffu yn Philadelphia,* Pennsylvania, America, yn y flwyddyn 1721, ac ymddengys mai at ei ddygiad allan yn Gymraeg y cyfeirir. Cyfeiria "Llyfryddiaeth y Cymry" at ddau argraffiad Saesneg o hono,—un o honynt yn Philadelphia, yn y flwyddyn 1727, a'r llall yn Llundain yn y flwyddyn 1739. Cafodd ei argraffu yn Gymraeg yn Llundain yn y flwyddyn 1782,† gan James Phillips, ac

---

* Os nad yn Philadelphia yr argraffwyd darn gweddilledig a welais o'r Anerch, dichon y perthyna i argraffiad na chyfeirir ato yma.

† Y mae un o lyfrau argraffiad 1801 ger fy mron yn awr, ac y mae un o rai 1782 yn fy meddiant, wedi ei anfon i mi yn anrheg gan Arthur John Naish, Birmingham, a hyny cyn i mi erioed ei weled, ond gwyddai am danaf trwy fy ngwaith yn holi ynghylch y Crynwyr. Anfonodd i mi hefyd yn anrheg yr un modd y "Collection of Memorials concerning Divers deceased Ministers, and others of the people called Quakers"........ag y cyfeiriwyd ato eisoes. Ac yn ysgrifenedig arno—Presented to R. Pryb Morris by his unknown friend Arthur John Naish in the hope that the pious examples here recorded may encourage him and others also may read this book to trust in the Son of God for the forgiveness of their sins and in the Holy Spirit as the guide of their lives. 26—10—78.

Digitized by Google

argraffwyd y llyfr yn yr unrhyw iaith gan William Phillips, yn y flwyddyn 1801. Dywed Llyfryddiaeth y Cymry y cyhoeddwyd argraffiad o hono yn y flwyddyn 1802, ond yn ngodreu y ddalen, sylwir mewn nodyn, yr ymddengys mai at un 1801 y cyfeirir.

Mynegir yn yr hanes a roddir am Ellis Pugh yn nechreu yr ANERCH iddo gael ei eni yn mhlwyf Dolgellau, yn y chweched mis o'r flwyddyn 1656. Ei rieni medd yr unrhyw hanes oeddynt bobl grefyddol, ac yntau a adawyd yn amddifad fel aderyn y tô, unig ar ben y tŷ, ei dad wedi marw cyn ei eni, a'i fam ychydig ddyddiau ar ol. A phan yr oedd yn ei ieuenctid yn myned gyda'r lliaws i ynfydrwydd, rhyngodd bodd i Dduw sefyll yn ei ffordd ef a'i farn, a pheri iddo ystyried y pethau a berthynent i dragwyddol heddwch ei enaid. Ac yn dair ar bymtheg oed, ymwelodd Duw âg ef yn fwy hynod trwy enyn ynddo sel i wasanaethu ei Greawdwr yn fanylach, wedi cael ei gyrhaeddyd hefyd trwy dystiolaeth Shon ap Shon, un o'r bobl a elwir Crynwyr. A Duw, yr hwn a addawodd y byddai yn dad i'r amddifad, a'i hymgeleddodd, ac a'i cynysgaeddodd a'i ras; ac ynghylch y flwyddyn 1680, a roddes iddo ran o weinidogaeth efengyl Crist, (er nad oedd un o ddoethion y byd nac wedi cael dysgeidiaeth ddynol) gwnaeth ef yn offeryn buddiol i droi amryw oddiwrth oferedd, ac i anog a chadarnhau llawer ar eu taith ysbrydol yn ngwlad ei enedigaeth, ac yn y wlad yma, lle y gorphenodd ei ymdaith.

Yn y flwyddyn 1686, efe a'i deulu ac amryw o'u cydnabyddiaeth a ddechreuasant eu taith i Bennsylfania, a thra yr oeddent yn aros am y llong i fod yn barod daeth blinder a thrallod mawr arno, gymaint nes yr aeth yn glaf am rai dyddiau, ac yn y cyfyngder hwnw dangosodd Duw iddo y byddai i drallodion a blinderau eu cyfarfod ar eu taith, a bod ganddo waith iddo yn y wlad hono, ac y byddai raid iddo ddychwelyd yno drachefn. Ac ar ol iddynt gychwyn ar eu mordaith, cyfarfuwyd hwy gan dymhestloedd, cyfyngderau, a blinderau, ac wedi bod ar y mor terfysglyd trwy y gauaf, aethant yn y mis cyntaf o'r flwyddyn i Barbadoes, lle y cawsant eu derbyn a'u croesawu yn gariadus gan eu cyfeillion, ac yn yr haf dilynol, yn y flwyddyn 1687, aethant i Bennsylfania. Ar ol iddo fyw yno hyd y flwyddyn 1706, perthynas oedd yn aros wrtho ef am ymweled â thrigolion gwlad ei enedigaeth, yn ol y peth a ddatguddiwyd iddo cyn ei ddyfod oddiyno. Ac wedi cyflawni o hono y gwasanaeth hwnw, pa un a fu yn llesol a chymeradwy gan laweroedd, dychwelodd at ei deulu yn y flwyddyn 1708, a pherthynas a arhosodd wrtho i ysgrifenu'r llyfr sydd a'i enw islaw,* yr hwn a ysgrifenodd gan mwyaf yn ei glefyd diweddaf.

* Sef "Yr Anerch i'r Cymry."



Digitized by Google

Yr oedd ei ymddygiad yn ei deulu, yn ei gymydogaeth, ac yn yr eglwys, yn addfwyn, yn hawddgar, ac yn heddychol, a'i weinidogaeth yn fywiol, yn llesol ac er adeiladaeth, a'i ymarweddiad yn ddiniwaid, yn ddiwair ac yn ofn Duw, yn barchedig ymhlith ei gyfeillion ac o air ymysg pob math o bobl yn gyffredinol, yn amyneddgar yn ei glefyd, yr hwn a fu yn faith, yn foddlongar, yn disgwyl amser yr Arglwydd, fe a hunodd gyda'i dadau y trydydd dydd o'r degfed mis, 1718, mewn ffafr gyda Duw gan roddi gogoniant iddo ef.

O flaen ei lyfr Anerch i'r Cymry, ceir "Tystiolaeth Y Cyfarfod Misol yng-wynedd yn sir Philadelphia Ymhensilvania" am dano, wedi ei harwyddo gan 16eg o bersonau, ymha un y rhoddir cymeriad rhagorol iddo fel Cristion. Nodir ynddi am ergyd drom a gafodd ar ol dychwelyd yn ol o'i ymweliad â Chymru, sef ddarfod i dri o'i blant feirw yn mlodau eu hoedran yn yr un mis a'u gilydd, y rhai oeddynt wedi rhodio yn weddus a gobeithiol yn eu hieuenctid. Yn ei afiechyd diweddaf bu yn wael am tua blwyddyn a thri mis heb allu dilyn fawr ar ei alwedigaeth. Ond yn y cyfamser, er fod ei fywyd naturiol yn gwanychu, yr oedd yn disgleirio yn gryfach fel Cristion. Yn agos i'w ddiwedd aeth am y tro olaf i'r Cyfarfod Misol a nodwyd, ac er ei fod yn wan yn ei gorff yr oedd yn wresog yn ei ysbryd. A chyda llawer o rywiogrwydd a thynerwch, fel un yn cymeryd ei genad ddiweddaf, dywedai iddo gael ei ddymuniad o ymweled â hwy unwaith yn rhagor. A mynych y coffâai am iddynt ymgadw mewn undeb cariad, a chadw o'u plith hyd y gallent bob ymryson a gwahaniaeth. A phan ymddangosai dim ag a fai yn tueddu at hyny ar iddynt osod dwylaw arno yn ebrwydd i'w ddiweddu, ac na bai i neb ymddiried i'w law, i'w lygad, nac i'w glorian ei hun mewn barn. Dywedir hefyd am dano yn yr unrhyw Dystiolaeth ei fod wedi ei gymhwyso i gynghori eraill oherwydd fod ei fywyd a'i ymarweddiad yn gyfatebol i'w Dystiolaeth, ymhlith ei deulu yn dyner ac yn ofalus i'w cynghori i fyw yn ofn Duw.

Arwyddwyd y Dystiolaeth y cyfeiriwyd ati yn ei gylch gan y personau a enwir yn ddilynol yma :—

| | |
|---|---|
| John Hugh, | David Meredith, |
| Edward Foulk, | Thomas Evan, |
| John Humphrey, | Robert Evan |
| Edward Robert, | Owen Evan, |
| Hugh Griffith, | Cadwalader Evan, |

Digitized by Google

| | |
|---|---|
| Meredith David, | Robert Jones, |
| Thomas Pugh, | Evan Evans, |
| Rowland Ellis, | John Evans, |

Yr oedd rhifedi y Cyfeillion wedi eu dwyn i nifer bychan iawn yn ardaloedd Dolgellau erbyn tua chanol yr haner olaf o'r ganrif ddiweddaf, oherwydd symudiadau a marwolaethau. Ond trwy egni ac ymdrechion chwaer dra chrefyddol o'r enw Dorothi Owain, cynyddodd eu rhifedi gymaint, fel erbyn oddeutu diwedd y flwyddyn 1791, neu 1792, yr adeiladasant gapel bychan a elwid Tŷ Cyfarfod.* Ac ystyrir mai y Dorothi Owain grybwylledig oedd y prif offeryn i'w gyfodi trwy ei llafur cyhoeddus a'i hadnabyddiaeth o'r Cyfeillion yn Lloegr, yn enwedig rhai Swydd Amwythig. Yr ydoedd yn bregethwres ymysg y Cyfeillion, a theithiodd lawer trwy Gymru a Lloegr. Arferai fyned i'r cyfarfod blynyddol i Lundain bob blwyddyn, a chan nad oedd y pryd hyny ond ychydig gyfleusderau i deithio byddai yn arfer cerdded yno bob cam. Ysgrifenai awdures traethawd buddugol bychan ar hanes Tabor, sef y capel crybwylledig a elwid unwaith Tŷ Cyfarfod; y credai pe buasai Dorothi Owain yn byw yn amser y chwiorydd enwocaf y mae hanes am danynt yn y Testament Newydd y buasai yn deilwng i'w rhestru yn eu plith.

Mewn llyfr † sydd a'i enw ar odreu'r ddalen, dywedir am dani fel hyn: Dorothi Owain o'r Dewisbren, yn agos i Ddolgellau, yn Swydd Feirionydd, ydoedd ferch i Rowland a Lywri Owain o'r un lle. Cafodd ei haddysgu yn mhroffes y Cyfeillion, er hyny darfu iddi yn ei hieuenctid ganlyn pobl ieuainc eraill mewn pleserau gwâg ac anfuddiol. Ond pan oedd tuag un mlwydd ar bymtheg oed, wedi cael ei ffafrio âg ymweliad cariad dwyfol, daeth yn ymwybodol o gyfeiliornadau y ffyrdd hyny, a thrwy sylw manwl i geryddon hyfforddiant, ac ymostyngiad i weithrediad y gwirionedd, profodd waredigaeth oddiwrth gariad ac ysbryd y byd hwn. Pan oddeutu tair blwydd ar hugain oed, ymddangosodd mewn tystiolaeth gyhoeddus, a chan fod ei bucheddiad yn cytuno â hyny, gwnaed hi yn offerynol i argyhoeddi a chasglu amryw at egwyddor a phroffes o'r gwirionedd yn y gymydogaeth yr oedd yn byw, lle oherwydd symudiadau a diffyg, yr oedd aelodau ein cymdeithas wedi eu dwyn i nifer bychan iawn. Meddai hawddgarwch ei hesiampl aiddgar, gostyngedig, ac addfwyn, a'i

* Yr hwn sydd yn agos i Dyddyn y Gareg.

† "Piety Promoted," the ninth part' Ail arg. 169—200—1.

Digitized by Google

chysegriad o'i hamser, galluoedd, ac eiddo (er mewn amgylchiadau isel) i ogoniant Duw a lles ei chyd-greaduriaid, gyfeiriad grymus er argraffu yr athrawiaeth a bregethai. Yr oedd yn nodedig am ei dyfalwch i fyned i gyfarfodydd o addoliad a disgyblaeth, o'r rhai nis cedwid hi draw gan na phellder na thywydd tra yn alluog, ac elai yn aml agos ddeugain milldir o ffordd ar draed yn y wlad fynyddig hono, er mwyn bod yn y Cyfarfodydd Misol, a hyny pan fyddai gerwindeb yr hin yn peri fod nid yn unig yn anhawdd myned, ond yn beryglus. Ymfoddlonai ar y dull rhataf o fywiolaethu ac ymddilladu, er meddu mwy i gyfranu at angenrheidiau eraill, gan gydymdeimlo yn dyner â'r preswylwyr tlodion o'i hamgylch. Ac yr oedd ei hesiampl mor ddisglaer fel y dywedai un nad oedd yn proffesu gyda ni, Pregetha i ni yn ddyddiol.

Yr oedd ei hafiechyd olaf yn nychlyd a phoenus, yr hwn a ddioddefodd mewn amynedd gwerth i'w ddilyn, a chafodd gymaint o dangnefedd sanctaidd, fel ag i effeithio yn deimladwy i dynu meddyliau y rhai a ymwelent a hi i ymsyniad o'r cyffelyb ddylanwad bendithiol. Yr oedd ei rhagolwg am ddedwyddwch dyfodol yn ddigwmwl, a dywedodd yn agos iawn i'w diwedd; 'Mae breichiau trugaredd ddwyfol yn llydan agored i'm derbyn.'

Bu farw y 12fed, a chladdwyd hi yn nghladdle y cyfeillion wrth Dyddyn y Gareg, yr 17eg, o'r sethfed mis, pan ydoedd oddeutu dwy flwydd a deugain oed, a gweinidoges o tua phedair blynedd ar bymtheg."

Fel y gwelir nid yw y flwyddyn y bu farw wedi ei nodi yn y mynegiad uchod o barth dyddiad ei marwolaeth, ond ymddengys i hyny gymeryd lle cyn diwedd y ganrif ddiweddaf.

Byddai ychydig o hen chwiorydd perthynol i'r enwad hwn yn arfer cydgyfarfod yn y capel a nodwyd hyd ddiwedd eu hoes. Ac yr oedd un ffyddlon o honynt o'r enw Lywri Jones yn byw yn nhŷ y capel hyd y flwyddyn 1847, pryd y bu farw. Bu dwy neu dair eraill o honynt byw hyd yn nghorff y ddwy flynedd dilynol.

Gan fod y Cyfeillion neu y Crynwyr wedi myned mor fychan o rifedi yn yr ardal, cafodd yr Annibynwyr ymsefydlu yn eu capel yn y flwyddyn 1847, gan ei ddal o dan ardreth am ychydig flynyddau. Yna meddyliasant am ei brynu, ac amlygodd ei ymddiriedolwyr nad oeddynt yn erbyn ei werthu i fod yn dŷ addoliad, ac i'r gladdfa gael ei chadw yn ddiogel, ac yr ewyllysient i'r eglwys Annibynol fynegu pa faint a allai roddi am dano. Felly cynygiwyd 80p. am y capel ar fynwent, a boddlonodd yr ymddiriedolwyr i'r cynygiad. Ac

Digitized by Google

fel hyn prynwyd y ddau le, sef y fynwent a'r capel, yn mis Rhagfyr y flwyddyn 1854. A rhoddodd yr ymddiriedolwyr 3p. 15s., yn rhodd i'r eglwys Annibynol pan dderbyniasant y tâl am dano. Cyfeiria W. Norris, Coalbrookdale, at eu gwerthiant, ond fel cymdeithas o Drefnyddion Cymreig y noda yr Annibynwyr wrth wneyd hyny.

Yr ydys wedi crybwyll eisoes o barth neillduad claddfeydd y Crynwyr wrth Dyddyn y Gareg, ac ar dir y Llwyn Du, ac hefyd o barth yr amseriad; a gall y darllenydd gyfeirio yn ol at hyny. O ganlyniad, ni wneir yn awr ond nodi yr ysgrifenai William Norris, Coalbrookdale, ar y 27 o'r 7 mis 1867; yn ol y dyddiad yn ngodreu yr ysgrifen, ddarfod i Owen Lewis Owen, o Dyddyn y Gareg, oddeutu'r flwyddyn 1646, neillduo darn o dir yn Nhyddyn y Gareg i fod yn gladdle i'r bobl a elwir y Crynwyr. Ac ddarfod hefyd i Owen Humphrey, o'r Llwyn Du, neillduo i'r un diben ddarn o dir a elwir Bryn y Tallwyn, ar dreftadaeth y Llwyn Du. Ac ar ol i ŵyr y dywededig Owen Lewis Owen briodi wyres i'r dywededig Owen Humphrey, drosglwyddo o Ellis Lewis Owen, a Hugh Rees Owen, y meibion o'r briodas hon, trwy Weithred dyddiedig yr 2il o Ragfyr, 1756, y ddwy gladdfa a nodwyd, i Abraham Darby, o Coalbrookdale, yn Swydd Amwythig, ac eraill, a'r olynwyr o honynt mewn ymddiried i fod at wasanaeth Cymdeithas y Cyfeillion (a elwir yn gyffredin Crynwyr) i gladdu eu meirw, ac nid i un diben arall pa bynag.

Dywed hefyd yr adnewyddwyd yr Ymddiriedolwyr ar amseroedd fel y byddai yn angenrheidiol, ac mai y tro olaf oedd y 25ain o Gorphenaf, 1816, a bod pump o honynt yn fyw ar y pryd yr ysgrifenai.

Yn y flwyddyn 1876, darfu i Gyfarfod Chwarterol Gorllewinol, perthynol i'r Crynwyr, ganiatau, o dan reolau penodedig, i Gyfundeb y Wesleyaid yn Llwyngwril, gael defnyddio rhan o'r gladdfa y cyfeiriwyd ati ag sydd ar dir y Llwyn Du, a cherllaw Llwyngwril, i gladdu eu meirw. Ac mewn perthynas i hyn, ceir rhoddi yr hysbysiadau dilynol allan o adysgrifau a gymerais er's amser yn ol o'r ysgrifau gwreiddiol, y rhai oeddynt yn Saesneg:—

A chais wedi ei wneyd at Gyfarfod Chwarterol Cymdeithas y Cyfeillion, gan Robert Pugh, o Lwyngwril,* yn agos i'r Abermaw, yn

* O'r Llwyndu, ger Llwyngwril, gan yr hwn y cefais fenthyg yr ysgrifau gwreiddiol. Y mae wedi marw er's amser yn ol.

gweithredu dros ac ar ran Cynulleidfa Cyfundeb y Wesleyaid yn Llwyngwril, am ganiatad i ddefnyddio y Gladdle ger Llwyndu, yn lle i gladdu eu meirw, a chan yr ymddangosai ar ymchwiliad fod yno gryn lawer o le yn y ddywededig Gladdle heb gael ei ddefnyddio, y mae y Cyfarfod Chwarterol dywededig yn foddlon i ganiatau, a chydsynia â'r cais o dan y rheolau canlynol :—

Yr encyd o le a orwedd i'r gorllewin o ac yn cynwys y llinell o feddau a nodwyd yn y cynllun sy'n dilyn, A hyd at B, i fod yn nghadw i'r ddywededig Cymdeithas o Gyfeillion, y dywededig Robert Pugh neu ryw berson arall wedi ei benodi gan y rhagddywededig gynulleidfa a chymeradwyol gan Oruchwylydd y Gladdle am y pryd, i gymeryd gofal y tir, ac ymhob achos o gladdiad hysbysu y goruchwylydd o fewn tri diwrnod o'r dyddiad o hono, enw trigias y marw, oedran, dyddiad ei farwolaeth a'i gladdedigaeth, er mwyn gallu cofnodi yr unrhyw yn Nghofnodlyfr yr Angladdau, megis y gofynir gan Ddeddf Seneddol, ac ni chaiff ganiatau i unrhyw gladdedigaeth gymeryd lle heb i drwydded Cofrestriad gael ei dwyn ymlaen yn nghyntaf.

Y beddau i'w gosod mewn trefn reolaidd ac mewn pellder cyfartal yn rhesi ar draws y tir er mwyn cynilo y lle gwag a'u cyflead dangosedig ar gynllun.

Caiff crug o dyweirch o ychydig uchder ei godi ar bob bedd, ac os dymunir gellir rhoddi wrth ben y bedd gareg fedd syml ar ei phen heb fod yn fwy na thair a haner o droedfeddi wrth ddwy a haner uwchlaw y ddaear, heb ddim cerfysgrifen ar y ddywededig gareg heblaw yr enw, trigias, oedran, a dyddiad marwolaeth ; y coed ddim i gael eu tori i lawr neu eu haflonyddu heb ganiatad, a'r cloddiau i gael eu cadw mewn trefn dda, ac arwyneb y tir mewn agwedd drefnus.

Arwyddwyd ar ran y Cyfarfod Chwarterol a gynhaliwyd yn Nghaerwrangon y 19eg o'r 4ydd mis 1876, fel y mae yn awdurdodedig yn yr unfed cofnod ar ddeg o hono.

Thomas Westcombe.

Fel y gwelir, atebiad yw y dilynol i nodyn a anfonwyd gan Robert Pugh, ynghylch y gladdfa dan sylw. A'r un ydyw ag y mae ei enw mewn cysylltiad â'r mynegiad yr ydys newydd roddi parthed y gladdfa hono.

Rhed yr atebiad i'r ystyr a ganlyn :—

Caerwrangon, 5 mis, 1876.

Barchus gyfaill,

Robert Pugh,

Mewn atebiad i'th nodyn, o'r 15fed, meddaf yr hyfrydwch i'th hysbysu ddarfod i'r Cyfarfod Chwarterol gydsynio â'ch cais, ac ar y telerau a dynwyd i fyny gan y Pwyllgor, oddieithr nad yw y rheolau o dan ba rai y caniateir ceryg beddau yn ein claddfeydd yn goddef unrhyw gerf-ysgrifen pellach nag enw, oed, a dyddiad marwolaeth, nid ystyria y Cyfarfod Chwarterol fod ganddo allu i roddi caniatad i ychwaneg, heblaw trigias y marw, yn erbyn yr hyn nid oedd unrhyw wrthwynebiad, gan y gall fod yn ddefnyddiol er hunaniaethiad, ac mewn achosion o bersonau yn moreu oes gellir rhoddi enwau y rhieni. Yr ydwyf yn amgau adysgrif o'r rheolau, ac yr ydym yn dy gymeryd di fel un yn meddu cadwraeth y tir dros Gymdeithas y Cyfeillion.

Gosodwyd y ceryg beddau ag sydd yn awr yn y Gladdfa yno heb genad Cymdeithas y Cyfeillion, ac ni chenadesid y gerf-ysgrifen ar un Gwen Richard, os wyf yn deall y cyfieithiad Saesneg o honi.

Gan obeithio y bydd yn hir cyn y bydd ar eich cynulleidfa angen defnyddio y rhyddid a roddwyd.

Dy gyfaill gwirioneddol,

Thomas Westcombe.

Yr ydys wedi crybwyll eisoes am Grynwyr o'r cymydogaethau hyn wedi dioddef yn dost yn herwydd eu crefydd, ac ymddengys i rai o'r Annibynwyr hefyd oddef rhan o bwys yr erledigaeth gyda hwy mewn cysylltiad ag un o'u helyntion o leiaf. Canys dywedir yn y *Traethodydd* am y flwyddyn 1868, mewn cysylltiad a Huw Owen, o Fronclydwr, a'i amserau fel hyn; "Yr oedd niferi o Grynwyr, ac amryw Annibynwyr, oddeutu Dolgellau, a godrau Cader Idris, ar y pryd, a yrwyd i, ac a adawyd ar, làn y mor dros y nos, rhywle o Abermaw i Aberdyfi, ac felly yn nghymydogaeth Broncludwr." Yn yr hanesion a roddwyd cyfeiriwyd at helynt rhai o'r Crynwyr ynglŷn â'u hymgynulliad mewn cyfarfod crefyddol, ond yn benaf mewn perthynas â'u gwrthodiad i gymeryd y Llywodlw, er i'r naill fod yn achlysur i arwain i'r llall parthed hyn yn uniongyrchol ar un adeg. A cheir yn ddilynol osod allan beth a ddywedir yn nghyfreithiau y deyrnas yn mherthynas a gwaith y Crynwyr yn ymgynull i gyfarfodydd, a'u gwrthodiad i gymeryd eu llw. Deddfwyd ynghylch hyn mewn cyfraith yn nheyrnasiad Charles II. Un o'r Cyfreithiau yw

hon a ddynodir yn y Deddflyfr ei cymerwyd allan o hono, fel y "Cyfreithiau a wnaed yn y Senedd a ddechreuwyd ac a gynhaliwyd yr wythfed o Fai, Anno decimo tertio Caroli secundi Regis: ac a barhawyd hyd y pedwerydd ar bymtheg o Fai, decimo quarto Caroli Regis; ac a ohiriwyd o'r pryd hwnw hyd y deunawfed o Chwefror a ddilynai nesaf."

Ond er mai y drydedd flwyddyn ar ddeg a'r bedwaredd ar ddeg i Charles II. a nodir fel amseriad y cyfreithiau crybwylledig yn yr hysbysiad dyfynedig, nis gall hyny fod yn gywir os ei cymerir parthed ei lywodraethiad ar Loegr. Canys er iddo gymeryd arno ei hun y cyfenwad o frenin yn y flwyddyn 1649, yn uniongyrchol ar ol clywed yn yr Hague am ddienyddiad ei dad y brenin Charles I., ac er ei coronwyd yn yr Alban gan yr Ysgotiaid, ar y cyntaf o Ionawr y flwyddyn 1651, ac iddo gael ei gyhoeddi yn frenin mewn un neu ddau o fanau yn Lloegr yn adeg ei ymgyrch aflwyddianus yno am yr orsedd yn yr un flwyddyn, ni ddaeth i fod yn frenin Lloegr mewn ystyr lywodraethol hyd y flwyddyn 1660, ac ni chafodd ei goroni hyd y flwyddyn ddilynol.

Penawd y gyfraith y cyfeiriwyd ati yw:

Cyfraith er lluddias y niweidiau a'r peryglon a all gyfodi trwy bersonau penodol a elwir *Crynwyr* ac eraill, yn gomedd cymeryd Llŵ cyfreithlon.

A rhed ei chynwys i'r ystyr ddilynol:—

Yn gymaint ag y darfu, yn ddiweddar, i rai personau o dan yr enwau *Crynwyr*, ac enwau eraill o Ymneillduad, gymeryd i fyny a chynal amryw ddaliadau a thybiau peryglus, ac (ymysg eraill) fod cymeryd Llŵ mewn unrhyw achos, pa bynag, er y byddo o flaen penswyddog cyfreithlon, yn hollol anghyfreithlon a chroes i Air Duw; ac y mae y personau dywededig yn ddyddiol yn gomedd cymeryd Llŵ, er ei gynyg yn gyfreithlon, trwy yr hyn y mae yn digwydd yn fynych fod y gwir yn cael ei lwyr ddirgelu, a gweinyddiad cyfiawnder yn cael atal llawer arno: A chan fod y personau dywededig o dan ymhoniad o addoliad crefyddol, yn ymgynull yn aml yn niferi mawr mewn amrywiol barthau o'r deyrnas hon, er mawr berygl i'r heddwch a'r diogelwch cyhoeddus, ac er dychryn i'r bobl, trwy gynal gohebiaeth ddirgelaidd a manwl yn eu plith eu hunain, ac yn y cyfamser yn ymneillduo ac ymranu oddiwrth y rhelyw o ddeiliaid daionus ei fawrhydi, ac oddiwrth y cynulleidfaoedd cyhoeddus a lleoedd arferol addoliad crefyddol.

Digitized by Google

II. Er diwygiad, gan hyny, a sicrach rhwystrad i'r niweidiau a'r peryglon lliosog ag sydd ac a allant gyfodi trwy y cyfryw ddaliadau peryglus a'r cyfryw gynulliadau, (2) Bydded yn ddeddfedig gan ei ardderchocaf fawrhydi y brenin, a thrwy a chyda chyngor a chydsyniad yr arglwyddi ysbrydol a thymhorol, a'r cyffrediniaid, cynulledig mewn senedd, a thrwy awdurdod yr unrhyw, Os bydd i unrhyw berson neu bersonau, a ddaliant fod cymeryd Llŵ mewn unrhyw achos, pa bynag, (er o flaen penswyddog cyfreithlon) yn hollol anghyfreithlon a gwrthwyneb i Air Duw, gyndyn a gwirfoddol omedd cymeryd Llŵ, o ac wedi y pedwerydd dydd ar hugain o Fawrth yn y flwyddyn bresenol i'n Harglwydd un mil chwe' chant a thriugain ac un, a thrwy gyfreithiau y deyrnas hon, y bydd ef neu hi yn rhwym o gymeryd yr unrhyw, wedi ei gynyg yn gyfreithlon a rheolaidd; (3) neu a gais ddarbwyllo unrhyw berson arall, i'r hwn y caffo y cyfryw Lŵ, yr un modd ei gynyg yn rheolaidd a chyfreithlon, i omedd a pheidio cymeryd yr unrhyw; (4) neu fyned oddiamgylch gydag argraffwaith, neu ysgrifeniad, neu c fodd arall, i gynal ac amddiffyn fod cymeryd Llŵ mewn unrhyw achos pa bynag yn hollol anghyfreithlon; (5) Ac os êl y dywededig bersonau, a elwir yn gyffredin Crynwyr, ar unrhyw amser ar ol y dywededig bedwerydd dydd ar hugain o Fawrth, o leoedd eu gwahanol breswylfeydd, ac ymgynull i'r nifer o bump neu ychwaneg, o'r oedran o un ar bymtheg a throsodd, ar unrhyw amser, mewn unrhyw le, o dan rith ymuno mewn addoliad crefyddol, heb fod yn awdurdodedig trwy gyfreithiau y deyrnas hon; (6) yna rhaid yn yr oll, a phob achos o'r fath, i'r sawl a droseddo felly, wedi ei euogfarnu yn gyfreithlon trwy ddedfryd deuddeg o wyr, neu trwy ei hunan gyfaddefiad, neu trwy ddilysrwydd cyhoeddus y ffaith, golli a chamlyrio i'w fawrhydi y brenin, ei etifeddion a'i olynwyr, am y trosedd cyntaf, y cyfryw swm ag a osodir arno ef neu hi, ag na fyddo dros bum' punt; (7) ac os bydd i unrhyw berson neu bersonau, a euogfarnwyd unwaith am y cyfryw drosedd, droseddu yn hyny drachefn, ac a ddedfrydir yn gyfreithlon yn y modd a ragddywedwyd, rhaid iddo am yr ail drosedd gamlyrio i'n penarglwydd y brenin, ei etifeddion a'i olynwyr, y cyfryw swm ag a osodir arno ef neu hi, heb fod uwchlaw deg punt: (8) Y dirwyon gwahanredol dywededig i'w codi trwy atafaeliad ac arwerthiad eiddo y pleidiau dedfrydedig felly, trwy warant y pleidiau eu dyfarnwyd felly o'u blaenau, gan droi yn ol a fyddo ormod i'r perchenogion, os bydd unrhyw; (9) ac yn niffyg y cyfryw atafaeliad neu ddiffyg taliad o'r cyfryw ddirwy o fewn un wythnos ar ol y cyfryw ddyfarniad, yna caiff y dywededig bleidiau dyfarnedig felly eu traddodi i'r carchar cyffredin neu y cyweirdy, am yr ystod o dri mis am y trosedd cyntaf; ac am yr ail drosedd, cyhyd a chwe' mis,

Digitized by Google

heb fach neu fechwys, i'w cadw yno mewn llafur caled; (10) pa ddywededig arian idd eu codi felly, a gânt eu talu i'r cyfryw berson neu bersonau ag a benodir gan y rhai hyny eu dyfernir o'u blaenau, i'w defnyddio er ychwanegiad trysorfa y cyweirdy ei traddodir iddo, a darpariad defnyddiau i'w rhoddi ar waith: (11.) Ac os trosedda unrhyw berson y drydedd waith wedi iddo, yn y modd a ragddywedwyd, fod ddwywaith yn euog-farnedig o unrhyw o'r dywededig droseddau, a bod o hyny, yn y dull a ragddywedwyd, yn gyfreithlon ddyfarnedig, yna fod i bob cyfryw berson yn troseddu felly, ac yn ddyfarnedig, dyngu y deyrnas am ei drydydd drosedd ef neu hi; neu o fodd arall, bydd a gall fod yn gyfreithlon i'w fawrhydi, ei etifeddion a'i olynwyr, orchymyn, ac achosi iddo ef, hi neu hwy, i gael eu halldudio mewn unrhyw long neu longau, i unrhyw o drefedigaethau ei fawrhydi y tu draw i'r moroedd.

III. Ac y mae yn osodedig a deddfedig trwy yr awdurdod a ragddywedwyd, Y caiff yr oll a phob Barnwr Llys clyw a dosbarth, Barnwyr y brawdlysoedd a charchar-drosglwyddiad, ac Ynadon yr heddwch, feddu llawn allu ac awdurdod yn yr oll o'u brawdlysoedd cyffredin agored, i chwilio, gwrando a phenderfynu yr oll a phob un o'r troseddau dywededig o fewn terfynau eu swyddogaethau terfynedig iddynt, ac i weithredu tuag at weinyddiad yr unrhyw, fel ag y gallant wneuthur yn erbyn unrhyw berson cyhuddedig o'u blaenau am drosedd, neu yn gyfreithlon ddyfarnedig o hono.

IV. A bydded hefyd yn ddeddfedig, Y bydd ac y gall fod yn gyfreithlon i unrhyw Ynad yr Heddwch, Maer, neu benswyddog arall o unrhyw gorfforaeth o fewn eu brawdoliaethau gwahanredol, i draddodi i'r carchar cyffredin, neu rwymo drosodd gyda meichiafon cymwys i'r brawdlysoedd chwarterol, unrhyw berson neu bersonau a droseddant yn y lleoedd rhagenwedig, mewn trefn i'w euogfarniad ef neu hwy a ragddywedwyd.

V. Darparer yn wastad, a bydded trwy hyn yn ddeddfedig yn mhellach, Os bydd i unrhyw o'r dywededig bersonau ar ol y cyfryw euogfarniad ag a ragddywedwyd, gymeryd y cyfryw Lw neu Lwon, oherwydd yr hyn y saif ef neu hi yn draddodedig, ac hefyd roddi sicrwydd y bydd iddo ef neu hi am yr amser a ddaw ymatal rhag cyfarfod yn unrhyw o'r cyfryw gyfarfodydd anghyfreithlon, fel ag y

rhagddywedwyd, y caiff y cyfryw berson neu bersonau y pryd hwnw ac o hyny allan, eu rhyddhau oddiwrth yr oll o'r dirwyon rhagddywededig: er unrhyw beth yn y Weithred hon yn wrthwyneb.

VI. Darparer yn wastad, a bydded yn osodedig a deddfedig trwy yr awdurdod ragddywededig, Y caiff yr oll a'r unigol o arglwyddi y Senedd, am bob trydydd trosedd gwneuthuredig yn erbyn amcan y ddeddf hon, eu profi gan eu harglwyddi ac nid o fodd arall.

Gwnaed y Gyfraith yr ydys newydd ddwyn i sylw, yn y flwyddyn 1662, fel yr ymddengys; ond ymhen rhai blynyddoedd gwedi, sef yn y flwyddyn 1668, ffurfiwyd Deddf, trwy yr hon y rhyddhawyd y Crynwyr ac eraill, ar delerau penodol, oddiwrth ei chosbau. Ffurfiwyd y ddeddf a'u rhyddhäi fel hyn, yn y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad William a Mari, a'i dynodiant yw, Gweithred er rhyddhau Gwrthdystwyr Deiliadol eu mawrhydi, Ymneillduol oddiwrth Eglwys Loegr, oddiwrth gosbau rhai cyfreithiau. Cynwysa bedair ar bymtheg o erthyglau, a cheir dechreu yma gyda'r drydedd ar ddeg o honynt, lle y cyfeirir mewn ystyr at y Crynwyr. Ac fel y gwelir cynwysa hon Ddatganiad neu Fynegiant, ynghyd â Phroffesiad, y rhai y caniateid i Grynwyr ac eraill, ar delerau penodol, eu gwneyd yn lle cymeryd eu Llw.

Rhed yr Erthygl a nodwyd ynghyd â'r lleill sy'n ddilynol, i'r ystyr hyn:—

XIII. A chan fod rhyw bersonau eraill, Ymneillduwyr oddiwrth Eglwys Loegr, y rhai sydd yn ameu 'y cymeredigaeth o unrhyw Lŵ;' bydded yn ddeddfedig trwy yr awdurdod ragddywededig, Y caiff pob cyfryw bersonau wneyd a llofnodi y rhagddywededig Ddatganiad,*

* Wrth y rhagddywededig Ddatganiad uchod, y golygir yr un sydd mewn cyfraith a wnaed yn nheyrnasiad Charles II., ac yn y flwyddyn 1677. A rhed i'r ystyr a ganlyn:—Yr wyf fi A. B., mewn modd difrifol a chywir yn ngwydd Duw yn proffesu, tystio a datgan, Fy mod yn credu nad oes yn Sacrament Swper yr Arglwydd unrhyw draws-sylweddiad ar elfenau y bara a'r gwin i gorff a gwaed Crist, yn neu ar ol ei gysegriad gan unrhyw berson pa bynag: (2.) Ac fod y galwad ar neu addoliad y Forwyn Fair neu unrhyw sant arall, ac aberth yr offeren, fel ag y maent yn awr yn arferedig yn Eglwys Rhufain, yn ofergoelus ac eilunaddolgar; (3.) Ac yr wyf yn ddifrifol yn ngwydd Duw yn proffesu, tystio a datgan, Fy mod yn gwneyd y datganiad hwn, a phob rhan o hono, yn ystyr

Digitized by Google

ac hefyd y Mynegiant canlynol hwn o Ffyddlondeb, sef

Yr ydwyf fi A. B. yn addaw yn gywir ac yn mynegu yn ddifrifol gerbron Duw a'r byd, y byddaf gywir a ffyddlon i'r brenin William a'r frenhines Mari; ac yr wyf yn difrifol gyffesu a mynegu fy mod o'm calon yn cashau, ffieiddio, ac ymwrthod, fel yn annuwiol a gaugredol â'r Athrawiaeth a'r Gosodiad damniol hyn; *Y gellir diorseddu neu lofruddio gan eu deiliaid Dywysogion ysgymunedig neu ddifuddiedig gan y Pab, neu unrhyw awdurdod i Esgobaeth Rhufain neu unrhyw arall pa bynag.* Ac yr wyf yn mynegu, na fedd ac na ddylai fod, gan yr un tywysog tramor, person, esgob, llywodraeth neu benadur, unrhyw allu, awdurdod, rhagoriaeth, uchafiaeth, neu unrhyw awdurdod eglwysig neu ysbrydol o fewn y deyrnas hon.

A chânt lofnodi proffes o'u credo Cristionogol yn y geiriau hyn:—

Yr wyf fi A. B. yn proffesu ffydd yn Nuw y Tad, ac yn Iesu Grist ei Dragwyddol Fab, y gwir Dduw, ac yn yr Ysbryd Glân, un Duw bendigedig yn oes oesoedd, ac yr wyf yn addef fod Ysgrythyrau Santaidd yr hen Destament a'r Newydd "wedi eu rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw."

Pa Ddatganiadau a llofnodiad a gânt eu gosod i lawr a'u cofnodi yn Mrawdlysoedd Chwarterol Cyffredinol yr Heddwch ar gyfer y Swydd, dinas, neu le y trigiano y cyfryw berson ar y pryd. A chaiff pob cyfryw berson ag a wnêl ac a lofnoda y ddau Ddatganiad a'r Proffesiad a ragddywedwyd, yr hyn sydd yn ofynedig iddo, ei ryddhau oddiwrth yr oll o'r cosbedigaethau a'r dirwyon o'r oll a phob un o'r Deddfau rhag-grybwylledig a wnaed yn erbyn Ymwrthodwyr Pabyddol neu Wrthdystwyr Anghydffurfiol, ac hefyd oddiwrth ddirwyon y Gyfraith a wnaed yn y bumed flwyddyn o deyrnasiad y ddiweddar frenhines Elizabeth, a elwir, Cyfraith er dilysiant gallu penadurol y frenhines dros bob etifeddiaeth a deiliad o fewn ei thir-

---

**eglur ac arferedig y geiriau a ddarllenwyd i mi, fel ag eu deallir yn gyffredin gan Wrthdystwyr Seisnig, heb unrhyw ocheliad, mwysiaith, neu argeliad meddyliol pa bynag, ac heb unrhyw oddefiad caniataedig i mi eisoes i'r amcan hwn gan y Pab, neu unrhyw awdurdod neu berson pa bynag, neu heb unrhyw obaith am unrhyw gyfryw ollyngdod oddiwrth unrhyw berson neu awdurdod pa bynag, neu heb feddwl fy mod neu y gallaf fod yn rhydd o flaen Duw neu ddyn, neu yn rhyddedig o'r datganiad hwn neu unrhyw ran o hono, ped fai i'r Pab, neu unrhyw berson neu bersonau eraill, neu allu pa bynag, roddi heibio neu ddirymu yr unrhyw, neu ddatgan ei fod yn ddirym a gwag o'r dechreu.**

Digitized by Google

iogaethau, oherwydd y cyfryw bersonau nad ydynt yn cymeryd, neu a wrthodant gymeryd y Llŵ crybwylledig yn y ddywededig Gyfraith; ac hefyd oddiwrth ddirwyon Cyfraith a wnaed yn y drydedd a'r bedwaredd flwyddyn ar ddeg o deyrnasiad Charles yr ail, a elwir, *Cyfraith er lluddias niweidiau a all gyfodi trwy rai personau a elwir Crynwyr, yn gwrthod cymeryd Llwon cyfreithlon*; a mwynhau yr oll o'r buddianau, rhagorfreintiau, a manteision o dan yr un fath gyfyngiadau, amodau, a thelerau, ag a gaiff neu a ddylai Ymneillduwyr eraill eu mwynhau yn rhinwedd y Gyfraith hon.

XIV. Darparer yn wastad, a bydded yn ddeddfedig trwy yr awdurdod ragddywededig, Pe digwyddai i unrhyw berson omedd cymeryd y dywededig Lwon pan yn gynygiedig iddynt, yr hyn y mae gan bob Ynad yr heddwch allu drwy hyn i'w wneuthur, ni chaniateir i'r cyfryw berson i wneuthur a llofnodi y ddau Ddatganiad rhagddywededig, pe ceisid at hyny naill ai o flaen Ynad yr heddwch, neu yn y Brawdlysoedd Cyffredinol neu Chwarterol cyn neu wedi unrhyw euogfarniad o anghydffurfiad Pabyddol, fel y rhagddywedwyd, oddieithr i'r cyfryw berson allel o fewn deng niwrnod ar hugain ar ol y cyfryw gynygiad o'r Datganiadau iddo, ddwyn gerbron ddau Dyst o Wrthdystwyr cymwys, i dystio ar Lw eu bod yn credu ei fod yn Wrthdystiwr Ymneillduol, neu Drwydded o dan ddwylaw pedwar o Wrthdystwyr, y rhai ydynt yn cyfateb i Eglwys Loegr, neu a gymerasant y Llwon ac a arwyddasant y Datganiad crybwylledig uwchlaw, ac hefyd arddangos Trwydded o dan law, a seliau chwech neu ychwaneg o wyr cymwys o'r Gynulleidfa y perthyna iddi, yn ei arddelwi fel un o honynt.

XV. Darparer hefyd, a bydded yn ddeddfedig trwy yr awdurdod ragddywededig, Y caiff fod ac y mae trwy hyn yn ofynol, hyd nes y dygir gerbron y cyfryw Drwydded, o dan ddwylaw chwech o'i Gynulleidfa, fel y rhagddywedwyd, ac i ddau dyst o Wrthdystwyr ddyfod i dystiolaethu ei fod yn Wrthdystiwr Ymneillduol, neu i Drwydded o dan ddwylaw pedwar o Wrthdystwyr, fel y rhagddywedwyd, gael ei dwyn gerbron, i'r Ynad yr heddwch gymeryd cydnabyddiaeth gyda dau feichiau mewn deg punt a deugain o swm cosbawl, i'w codi oddiar ei ddaoedd a'i foddion, tiroedd a thyddynod, i wasanaeth eu mawrhydi y brenin a'r frenhines, eu hetifeddion a'u holynwyr, er mwyn iddo arddangos yr unrhyw; ac os na fedr roddi y cyfryw sicrwydd, i'w

Digitized by Google

draddodi i garchar, i aros yno hyd nes y dwg gerbron y cyfryw Drwyddedau, neu ddau dyst, fel y rhagddywedwyd.

XVI. Darparer yn wastad, a gwir amcan a meddwl y Gyfraith hon ydyw, Fod i'r oll o'r Cyfreithiau a wnaed ac a ddarparwyd er mynychiad Gwasanaeth Crefyddol ar Ddydd yr Arglwydd, a elwir yn gyffredin Dydd Sul, barhau mewn grym, a'u gosod yn erbyn pob person a droseddo yn erbyn y Cyfreithiau dywededig, oddigerth y cyfryw bersonau yn dyfod i ryw Gyfarfod neu Gynulleidfa o addoliad crefyddol, cenadedig neu oddefedig yn y Gyfraith hon.

XVII. Darparer yn wastad, a bydded yn ddeddfedig trwy yr awdurdod a ragddywedwyd, Na chaiff na'r Ddeddf hon, nac unrhyw adran, erthygl, neu beth cynwysedig yn hyn, estyn neu gael ei ddehongli yn estyn i roddi unrhywesmwythder, budd neu fantais i unrhyw Babydd neu Ymwrthodydd Pabyddol pa bynag, neu unrhyw berson a wado Athrawiaeth y Drindod Fendigedig yn ei bregethiad neu ysgrifeniad, fel ag y mae yn ddatganedig yn yr Erthyglau crefyddol rhagddywededig.

XVIII. Darparer yn wastad, a bydded yn ddeddfedig trwy yr awdurdod a ragddywedwyd, Os bydd i unrhyw berson neu bersonau, ar unrhyw bryd neu brydiau ar ol y degfed dydd o Fehefin, ddyfod yn wirfoddol ac o ddiben, yn faleisus neu ddiystyrllyd i unrhyw Gadeirlan neu Eglwys blwyfol, Capel, nen Gynulliad arall cenadedig gan y Gyfraith hon ac aflonyddu neu gythryblu yr unrhyw, ac anmharchu unrhyw Bregethwr neu Addysgydd, rhaid i'r cyfryw berson neu bersonau, ar brawf o hyny, o flaen unrhyw Ynad yr heddwch, gan ddau neu ychwaneg o dystion, gael dau feichiau i'w rhwymo i ail gydnabyddiaeth, mewn deg punt a deugain o swm cosbawl, ac yn niffyg y cyfryw feichiafon a draddodir i garchar, i aros yno hyd y Brawdlysoedd Cyffredinol neu Chwarterol nesaf; ac ar euogfarniad o'r dywededig drosedd yn y dywededig Frawdlysoedd Cyffredinol neu Chwarterol, rhaid iddo ddioddef y gosb a dirwy o ugain punt, tuag at wasanaeth eu mawrhydi y brenin a'r frenhines, eu hetifeddion a'u holynwyr.

XIX. Darparer yn wastad, Na fydd i'r un cyfarfod neu gynulliad

Digitized by Google

er addoliad crefyddol gael ei ganiatau neu ei oddef gan y Gyfraith hon, hyd nes y byddo i le y cyfryw gyfarfod gael ei hysbysu i esgob yr esgobaeth, neu i archddiacon yr archddiaconiaeth, neu i Ynadon yr Heddwch yn y Brawdlysoedd Cyffredinol neu Chwarterol dros y swydd, dinas, neu le, ymha un y cynhelir ac y cofnodir y cyfryw gyfarfod yn nywededig Lys yr Esgob neu yr Archddiacon, yn wahanredol neu yn gofrestredig yn y dywededig Frawdlysoedd Cyffredinol neu Chwarterol; ac y mae yn ofynol trwy hyny i Gofrestrydd neu Ysgrifenydd yr heddwch o'r rhai hyn yn wahanredol i gofrestru yr unrhyw, ac i roddi Trwydded o hono i'r cyfryw berson ag a geisia yr unrhyw, am ba un ni bydd mwy o dâl neu wobr, na'r swm o chwe' cheiniog.

Ymhen amryw flynyddoedd wedi rhoddiad y Ddeddf y cymerwyd o honi ddiweddaf mewn grym, gwnaed un mewn cysylltiad â'r Crynwyr, yn rhoddi mwy o ganiatad iddynt parthed y Datganiad yn benodol. Ond fel y gwelir oddiwrthi yn mhellach ymlaen, deddfir ynddi i gadw allan bob Crynwr neu a gyfrifid felly rhag rhoddi tystiolaeth mewn unrhyw achosion troseddol, neu wasanaethu fel rheithiwr, a rhag dal unrhyw swydd neu le o enill yn y Llywodraeth. Hefyd ceir ynddi ddarpariad mewn cysylltiad a gomeddiad y Crynwyr i dalu degwm a threth eglwys. Gwnaed y ddeddf hon yn y flwyddyn 1696, ac ymddengys, oddiwrth a ddywedir yn ei dechreu, y carcherid rhai o'r Crynwyr yn aml yn flaenorol, ac y niweidid hwy a'u teuluoedd yn ddirfawr yn eu hamgylchiadau.

Penawd y Ddeddf hon yw,

Cyfraith yn awdurdodi fod sicrhad a datganiad difrifol y bobl a elwir Crynwyr, yn dderbyniol yn lle Llŵ yn y ffurf arferol.

Rhed y Gyfraith i'r ystyr a ganlyn :—

Gan fod amryw o Ymneillduwyr, a elwir yn gyffredin yn Grynwyr, yn gomedd cymeryd Llŵ mewn Llysoedd Cyfiawnder a lleoedd eraill, yn cael yn fynych eu carcharu, a'u hetifeddiaethau eu neillduo, trwy Gyngaws tremygol yn tarddu allan o'r cyfryw Lysoedd, er eu dinystriad hwy eu hunain a'u teuluoedd. Er meddyginiaeth i hyn, bydded yn ddeddfedig gan ei ardderchocaf fawrhydi y brenin, trwy a chyda chyngor a chydsyniad yr Arglwyddi ysbrydol a thymhorol, a'r cyffrediniaid yn y senedd gynulledig bresenol, a thrwy awdurdod yr unrhyw, Y caiff fod yn ganiatäedig i bob Crynwr o fewn teyrnas

Digitized by Google

Lloegr, Tiriogaeth Cymru, neu dref Berwick ar y Tweed, o ac ar ol y pedwerydd dydd o Fai, yr hwn a fydd yn mlwyddyn ein Harglwydd un mil chwe' chant naw deg a chwech, ag y ceisir ganddo gymeryd Llw ar unrhyw achlysur cyfreithlon, mewn unrhyw achos lle bo Llw yn ofynol trwy Gyfraith, wneuthur, yn lle y ffurf arferol, ei sicrhad a'i ddatganiad difrifol yn y geiriau canlynol:—

Yr wyf fi, A. B., yn ngwydd yr Hollalluog Dduw, y tyst o wirionedd yr hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd.

II. Pa ddywededig ddifrifol sicrhad neu ddatganiad a gaiff ei ddyfarnu a'i gymeryd, ac y mae trwy hyn yn ddeddfedig ac yn ddatganedig i fod, o'r un grym ac effaith i bob dibenion ac amcanion, ymhob Llys Cyfiawnder a lleoedd eraill lle trwy Gyfraith y mae Llw yn ofynol o fewn y deyrnas hon Lloegr, Tiriogaeth Cymru, neu dref Berwick ar y Tweed, yr un modd a phe cymerasid Llw gan y cyfryw Grynwr yn y ffurf arferol.

III. A bydded yn ddeddfedig yn mhellach, trwy'r awdurdod a ragddywedwyd, Fel os bydd i unrhyw Grynwr, yn gwneuthur y cyfryw Sicrhad neu Ddatganiad difrifol, gael ei gyfreithlon euogfarnu, o fod wedi sicrhau neu ddatganu yn wirfoddol, yn ffugiol a gwyrog, unrhyw achos neu beth, yr hyn, pe buasai yn y ffurf arferol, a gyrhaeddasai yn anudon gwirfoddol a llygredig; rhaid i bob Crynwr a droseddo felly fod yn ddarostyngedig i'r unrhyw gosbedigaethau a chamlyrwyon, ag sydd yn ddeddfedig yn Nghyfreithiau a Deddfau y deyrnas hon yn erbyn personau euogfarnedig o anudon gwirfoddol a llygredig.

IV. A chan, am y rheswm honiadol o amheuaeth cydwybod, y gomedda Crynwyr dalu degymau, a thalu unrhyw drethoedd eglwys, Bydded yn ddeddfedig trwy yr awdurdod a ragddywedwyd, lle bynag y gomedda unrhyw Grynwr a thalu neu gyfrandalu dros ei ddegymau mawr neu fach, y bydd ac y gall fod yn gyfreithlon i'r ddau agosaf o Ynadon yr Heddwch yr unrhyw swydd (amgen na'r cyfryw Ynad Heddwch ag sydd yn noddwr i'r eglwys neu y capel o'r lle y cyfyd y dywededig ddegwm, neu mewn unrhyw fodd a llaw ganddo yn y dywededig ddegymau) ar achwyniad unrhyw beriglor, ebrwyad, cymerwr, neu berchenog degymau, gwarcheidwad neu warcheidwaid

Digitized by Google

eglwysig, yr hwn a ddylai gael, derbyn, neu gasglu y cyfryw, trwy Waesaf o dan eu dwylaw a'u seliau, i wysio ger eu bron y cyfryw Grynwr neu Grynwyr a esgeulusant neu a omeddant dalu neu gyfran-dalu dros yr unrhyw, ac i holi ar Lŵ (pa Lŵ y mae gan y dywededig Ynadon drwy hyn allu i'w roddi) neu yn y cyfryw fodd ag sydd ddarparedig trwy y gyfraith hon, y gwirionedd a'r cyfiawnder o'r dywededig achwyniad, ac i sicrhau a sefydlu, yr hyn sydd ddyledus ac i'w dalu gan y cyfryw Grynwr neu Grynwyr i'r blaid neu y pleidiau achwynol, a thrwy archiad o dan eu dwylaw a'u seliau i hwylio a phenodi ei daliad, tra na byddo y swm archedig, fel y rhagddywed-wyd, ddim uwchlaw deg punt; ac ar omeddiad y cyfryw Grynwr neu Grynwyr i dalu yn ol y cyfryw archiad, bydd a gall fod yn gyfreithlon i unrhyw un o'r dywededig Ynadon, trwy Waesaf dan ei law a'i sêl, igodi yr arian archedig drwy hyny i'w talu, trwy atafaeliad ac ar-werthiad eiddo a moddion y cyfryw droseddwr, ei wyllys-weinyddion a'i olweinyddion, gan adferu a fai'n ormod yn unig iddo ef, hi, neu hwy, costau gofynol atafaeliad wedi eu tynu allan o hyny yn gyntaf, a'u caniatau gan y dywededig Ynad; a chaiff a gall unrhyw berson yn ymsynio ei hun, hi, neu eu hunain yn ormesedig trwy unrhyw ddedfryd a roddwyd gan y cyfryw ddau Ynad yr Heddwch wrth-hawlio yn Mrawdlysoedd Chwarterol Cyffredinol nesaf i'w cynal dros swydd, traian, dinas, cyffin, neu dref gorfforedig; a chaiff Ynadon yr Heddwch a fyddant yno yn bresenol, neu y rhan fwyaf o honynt, fyned ymlaen yn derfynol i wrando a phenderfynu yr achos, ac i ddadwneyd y cyfryw ddedfryd, os gwelant achos; ac os bydd i'r Ynadon presenol ar y pryd, neu y rhan fwyaf o honynt, gael allan achos i barhau y ddedfryd a roddwyd gan y ddau gyntaf o Ynadon yr Heddwch, cânt y pryd hyny sicrhau yr unrhyw trwy archiad y Brawdlysoedd, ac hefyd fyned ymlaen i roddi y cyfryw gostau yn erbyn y Gwrth-hawlydd, i'w codi trwy atafaeliad ac arwerthiad ar eiddo a moddion y dywededig Wrth-hawlydd, ag a ymddangoso iddynt yn gyfiawn a rhesymol; ac ni chaiff unrhyw weithrediadau neu ddedfryd a gaed neu a geir trwy rinwedd y Ddeddf hon eu symud neu eu diddymu trwy unrhyw Waesafwys,* neu Wys arall, allan o Lysoedd ei Fawrhydi yn Westminster, neu unrhyw Lys arall pa bynag, os na fydd hawlfraint y cyfryw ddegymau mewn dadl.

V. Darparer yn wastad, Os gwneir y cyfryw wrth-hawliad, fel ag

---

* "Writ of *certiorari*," medd y gwreiddiol.

y rhagddywedwyd, ni chaniateir unrhyw Waesaf o atafaeliad hyd ar ol y penderfynir y cyfryw wrth-hawliad.

VI. Darparer, a bydded yn ddeddfedig, Na fydd yr un Crynwr neu un a gyfrifir yn Grynwr yn gymwys, neu yn cael caniatad trwy rinwedd y Ddeddf hon i roddi tystiolaeth mewn unrhyw achos troseddol, neu wasanaethu ar unrhyw reithiau, neu ddal unrhyw swydd neu le o enill yn y Llywodraeth, er unrhyw beth cynwysedig yn y Gyfraith hon mewn unrhyw fodd i'r gwrthwyneb.

VII. Darparer, Y caiff y Ddeddf hon barhau mewn grym am yr ysbaid o saith mlynedd, ac o hyny hyd ddiwedd yr eisteddiad seneddol nesaf, a dim yn hwy.

Yr oedd y Ddeddf yr ydys newydd osod gerbron yn un o'r rhai a wnaed yn y seithfed a'r wythfed flwyddyn o deyrnasiad William y trydydd. Ond pan wnaed yr un ag y dygwyd ond nifer o Erthyglau o honi i sylw, yr oedd ei briod y frenhines Mari yn cydoesi ag ef. Yn ol yr amseriad sydd ar ben y ddalen yn y Deddflyfr y cymerwyd yr Erthyglau hyny allan o hono, ffurfiwyd y Ddeddf y maent yn rhan o honi yn y flwyddyn 1688, ac nid yn y flwyddyn 1668, fel y nodwyd mewn amryfusedd yn nhudalen 155 o'r llyfr hwn. Yn y drydedd flwyddyn ar ddeg o deyrnasiad yr unrhyw deyrn gwnaed Deddf i estyn yr amseriad ag oedd yn benodedig i fod mewn grym i'r un a gyflewyd yma perthynol i'r seithfed a'r wythfed flwyddyn iddo. Ei phenawd yw,—

Cyfraith er parhau Cyfraith a elwir, Cyfraith ar i Sicrhad a Datganiad difrifol y bobl a elwir Crynwyr, fod yn dderbyniol yn lle Llŵ yn y ffurf arferol.

Nid yw y Ddeddf hon ond ber, ac y mae ei chynwys yn ol yr ystyr ddilynol :—

Yn gymaint ag y gwnaed y Gyfraith a luniwyd yn y seithfed a'r wythfed flwyddyn o deyrnasiad ei fawrhydi presenol,a elwir, "Cyfraith ar i Sicrhad a Datganiad y bobl a elwir Crynwyr fod yn dderbyniol yn lle Llŵ yn y Ffurf arferol," i barhau am saith mlynedd, ac o hyny i ddiwedd yr Eisteddiad Seneddol nesaf; a dibena yr unrhyw yn

Digitized by Google

niwedd yr Eisteddiad Seneddol nesaf, ar ol yr eilfed dydd ar hugain o Dachwedd nesaf: Yn awr er gochelyd yn mhellach yr Anghyfleusderau a grybwyllwyd yn y Gyfraith a ddywedwyd, i'r bobl hyny a'u teuluoedd, Bydded yn ddeddfedig trwy yr ardderchocaf fawrhydi y brenin, trwy a chyda chyngor a chydsyniad yr arglwyddi ysbrydol a thymhorol, a'r cyffrediniaid yn y cynulliad Seneddol presenol, a thrwy awdurdod yr unrhyw, Y caiff y ddywededig Gyfraith a fynegwyd gyda yr holl adranau a'r gallu sydd gynwysedig ynddi, barhau a bod mewn grym am ac yn ystod yr ysbaid o un mlynedd ar ddeg ar ol terfyniad y ddywededig Gyfraith, ac o hyny hyd ddiwedd yr Eisteddiad Seneddol nesaf.

Perthyna y Ddeddf ddilynol mewn cysylltiad â'r Crynwyr i'r flwyddyn gyntaf o deyrnasiad George y cyntaf, ac i'r flwyddyn 1714 o'r cyfrif cyffredinol, yn ol fel y mae yr amseriad ar ben y ddalen yn y Deddflyfr. Dywedir o barth iddi yn ei phenawd i'r ystyr a ganlyn:—

Cyfraith er gwneuthur yn barhaol Gyfraith o'r seithfed a'r wythfed flwyddyn o deyrnasiad ei ddiweddar fawrhydi y brenin William y trydydd, a gyfenwir, Cyfraith y caiff Sicrhad a Datganiad difrifol y bobl a elwir Crynwyr, fod yn dderbyniol yn lle Llŵ yn y ffurf arferol; ac er egluro a rhoddi y ddywededig Gyfraith mewn grym yn mherthynas i daliad y degymau a threthoedd eglwys; ac er penodiad y ffurf o Ddatganiad i'w gymeryd gan y dywededig bobl a elwir Crynwyr, yn lle y Llŵ o Dynghediad.

Ac wele y Gyfraith yn ol ei hystyr yn y Deddflyfr:—

1. Gan i Gyfraith a wnaed yn y seithfed a'r wythfed flwyddyn o deyrnasiad ei ddiweddar fawrhydi a gyfenwir, *Cyfraith y derbynir difrifol Sicrhad a Datganiad y bobl a elwir* Crynwyr *yn lle Llw yn y ffurf arferol*, gael ei gwneuthur i barhau am saith mlynedd, ac o hyny i ddiwedd yr eisteddiad Seneddol nesaf, pa gyfraith a derfynasai ar ddiwedd yr eisteddiad seneddol nesaf ar ol yr eilfed dydd ar hugain o Dachwedd yn mlwyddyn ein Harglwydd un mil saith gant a dwy; pa eisteddiad a ddechreuodd ar y nawfed dydd o Dachwedd yn mlwyddyn ein Harglwydd un mil saith gant a thair; ac a ddiweddodd y trydydd dydd o Ebrill, yn mlwyddyn ein Harglwydd un

Digitized by Google

mil saith gant a phedair; ond trwy Gyfraith Seneddol arall a wnaed yn y drydedd flwyddyn ar ddeg o deyrnasiad ei ddiweddar fawrhydi, a elwir *Cyfraith er parhad Cyfraith*, o'r enw, *Cyfraith y caiff Sicrhad a Datganiad difrifol y bobl a elwir* Crynwyr, *fod yn dderbyniol yn lle Llw yn y ffurf arferol*, a barhawyd am ysbaid o un mlynedd ar ddeg wedi penderfyniad y ddywededig Gyfraith, ac o hyny hyd ddiwedd yr eisteddiad Seneddol desaf: a chan y terfyna y dywededig Gyfreithiau ar ol y trydydd dydd o Ebrill un mil saith gant a phymtheg. Yn awr, er gocheliad pellach o'r anghyfleusderau a grybwyllwyd yn y ddywededig Gyfraith gyntaf a fynegwyd, i'r bobl a elwir Crynwyr, a'u teuluoedd, Bydded yn ddeddfedig trwy ei ardderchocaf fawrhydi y brenin, a thrwy a chyda chyngor, yr arglwyddi ysbrydol a thymhorol, a'r cyffrediniaid, cynulledig yn y Senedd bresenol, a thrwy awdurdod yr unrhyw, Y caiff y ddywededig Gyfraith gyntaf a fynegwyd, a'r oll o'r dosranau a'r gallu cynwysedig ynddi, barhau a bod mewn grym am byth, o ran pob Llwon gofynedig trwy Gyfraith, neu a ofynir ar ol hyn, amgen ac oddigerth ag sydd yn y ddywededig Gyfraith a fynegwyd gyntaf.

II. A chan fod meddyginiaeth wedi ei darparu yn y Gyfraith ddywededig a wnaed yn y seithfed flwyddyn o deyrnasiad y brenin William y trydydd, er adgaffaeliad y degymau a'r trethoedd eglwys, lle y gomeddai unrhyw Grynwr a thalu yr unrhyw: Bydded yn ddeddfedig trwy yr awdurdod a ragddywedwyd, Y bydd, ac y mae y cyfryw feddyginiaeth trwy hyn yn estynedig, a cheir a gellir defnyddio y cyfryw feddyginiaeth yn erbyn unrhyw Grynwr neu Grynwyr er adgaffaeliad unrhyw ddegymau neu drethoedd, neu unrhyw arferion neu iawnderau, dylyedion neu daliadau perthynol i unrhyw eglwys neu gapel, pa rai o iawnder trwy Gyfraith ac arferiad a ddylent gael eu talu fel cyflog neu gynhaliaeth unrhyw weinidog, neu is-beriglor yn gweinyddu mewn rhyw eglwys neu gapel, ac y mae unrhyw ddau neu ychwaneg o Ynadon dros yr unrhyw swydd neu le, amgen na'r cyfryw Ynad yr Heddwch ag sydd yn Noddwr i unrhyw gyfryw eglwys neu gapel; neu a chanddo law mewn unrhyw ffordd yn y dywededig ddegymau, ar achwyniad unrhyw beriglor, ebrwyad, is-beriglor, cymerwr, neu berchenog y cyfryw ddegymau, neu unrhyw warcheidwad Eglwys neu warcheidwad capel, neu berson arall, yr hwn a ddylai gael, derbyn neu gasglu unrhyw gyfryw ddegymau, trethoedd, dylyedion neu daliadau, fel y rhaddywedwyd, trwy hyn wedi eu hawdurdodi ac yn ofynol iddynt wysio mewn ysgrifen o dan eu dwylaw a'u seliau, trwy rybudd rhesymol, y cyfryw Grynwr

Digitized by Google

neu Grynwyr, yn erbyn y neb y gwneir y cyfryw achwyniad, ac ar ei ymddangosiad ef neu hwy, neu yn niffyg ymddangosiad, wedi i'r cyfryw rybudd neu wysiadau gael eu profi ar Lw, fyned ymlaen i wrando a phenderfynu y cyfryw achwyniad, ac i wneyd y cyfryw archiad yno, fel ag y mae yn gyfyngedig ac yn gyfeiriedig yn y ddywededig Gyfraith, ac hefyd i orchymyn y cyfryw gostau a gofynion, ag a farnant yn rhesymol, heb fod uwchlaw deg swllt, fel ag yr ymddengys yn deg ar haeddiant yr achos; pa orchymyn a gaiff ac all gael ei roddi yn y fath fodd, ac ar y cyfryw wrthhawliad a ellir ei gyfnewid neu ei gadarnhau yn Mrawdlysoedd Chwarterol Cyffredinol y swydd neu'r lle, gyda'r cyfryw gostau a meddyginiaeth gogyfer a'r unrhyw, ac ni chaiff ei symud i unrhyw Lŷs oddieithr y byddo hawlfraint y degwm, dylyedion neu daliadau mewn dadl, yn yr un modd ag y mae yn gyfyngedig a darparedig yn a thrwy yr unrhyw Gyfraith.

III. A chan fod amryw ddadleuon wedi cyfodi mewn perthynas i sylwedd y Tynghediad i'w gymeryd gan y bobl a elwir Crynwyr, ar eu sicrhad difrifol, fel ag y cyfarwyddir trwy Gyfraith Seneddol a wnaed yn y chweched flwyddyn o deyrnasiad ei ddiweddar fawrhydi: Yn awr er ataliad anghyfleusderau o'r fath yn y dyfodol, Bydded yn ddeddfedig trwy yr awdurdod a ragddywedwyd, Fel ymhob achosion ymha le bynag y gellir yn gyfreithlon dderbyn sylwedd y dywededig Dynghediad Lŵ, neu ei ofyn oddiar y dywededig bobl a elwir Crynwyr, neu unrhyw o honynt, caiff ef neu hwy gymeryd ei sylwedd yn y geiriau dilynol (sef),

Yr wyf fi, A. B., yn cydnabod, addef, tystio a datgan, yn wirioneddol a difrifol, yn ngŵydd yr Hollalluog Dduw, y Tyst o wirionedd yr hyn yr wyf yn ddywedyd, mai y brenin George ydyw brenin cyfreithlon a chyfiawn y deyrnas hon, a'r oll o'i diriogaethau a'i wledydd eraill perthynol iddynt. Ac yr wyf yn datgan yn ddifrifol a chywir, Y credaf na fedd y person a ymhonai yn ystod bywyd y diweddar frenin James mai fe ydoedd tywysog Cymru, ac a ymhona ar ol ei farwolaeth ei fod, ac a gymer arno ei hun y cyfenwad a'r urddenwad o frenin Lloegr o dan yr enw James y trydydd, neu o'r Alban, wrth yr enw James yr wythfed, neu y cyfenwad neu yr urddenwad o frenin Prydain Fawr, unrhyw iawnder neu hawlfraint pa bynag i goron y deyrnas hon, nac unrhyw o'r tiriogaethau eraill perthynol iddi; ac yr wyf fi yn gwrthod ac yn gomedd pob gwarogaeth ac ufudd-dod iddo. Ac yr wyf yn addaw yn ddifrifol, y byddaf

Digitized by Google

gywir a ffyddlon, ac y dygaf warogaeth wirioneddol i'r brenin George, ac y byddaf ffyddlon iddo yn erbyn pob cydfwriadwyr bradwrus, ac amcanion pa bynag, a wneir yn erbyn ei berson, ei goron neu uchelfraint. Ac yr ymdrechaf fy ngoreu i ddatguddio ac i wneyd yn hysbys i'r brenin George, a'i olynwyr, bob troseddau a chydfwriadau bradwrus ag y gwybyddaf eu bod yn cael eu cynllunio yn ei erbyn ef, neu unrhyw o honynt. A byddaf gywir a ffyddlon i olyniaeth y goron yn erbyn y dywededig James a phob person arall pa bynag, fel ag y mae ac y saif yr unrhyw yn sefydledig trwy Gyfraith, a elwir *Cyfraith yn datgan hawliau a breintiau y deiliaid, a sefydliad olyniaeth y goron*, i'r ddiweddar frenhines Anne, ac etifeddion o'i chorff, ag a fyddont Wrthdystwyr; fel ag y mae yr unrhyw trwy Gyfraith arall, a elwir *Cyfraith er cyfyngiad pellach y goron, a rhagorach sicrhad hawliau a breintiau y deiliaid*, sydd ac a saif yn benderfynedig hawl-rwymol, ar ol marwolaeth y ddywededig ddiweddar frenhines, ac oherwydd diffyg hiliogaeth i'r ddywededig ddiweddar frenhines, i'r ddiweddar dywysoges Sophia, etholes a duges waddolog Hanover, a'r etifeddion o'i chorff, ag a fyddont Wrthdystwyr. A'r holl bethau hyn yr ydwyf yn eglur a difrifol gydnabod, addaw a datgan, yn unol â'r geiriau pendant hyn a lefarwyd genyf, ac yn ol ystyr gyffredin a synwyr yr unrhyw eiriau, heb unrhyw amwysedd, gocheliad meddyliol, neu argeliad cyfrinachol pa bynag. Ac yr wyf yn gwneuthur y cydnabyddiad, addefiad, gwrthodiad ac addawiad hyn yn galonog, ewyllysgar a gwirioneddol.

IV. Darparer yn wastad, Y caiff cymaint o'r Gyfraith hon ag sydd yn perthyn i'r Sicrhadau a wneir gan y bobl a elwir Crynwyr, fod yn estynedig am byth i'r rhan hono o Brydain Fawr, ag a elwir yr Alban, ac i'r Trefedigaethau perthynol i goron Prydain Fawr, am bum' mlynedd, ac i ddiwedd yr eisteddiad seneddol nesaf ar ol y dywededig bum' mlynedd, a dim yn hwy.

Cyfeirir at y Crynwyr yn y bedwerydd Adran o Ddeddf o'r flwyddyn gyntaf o deyrnasiad George I., a ddynodir, Cyfraith er pellach ddiogelwch person a Llywodraeth ei fawrhydi, ac olyniaeth y goron yn etifeddion y ddiweddar dywysoges Sophia, ag a fyddont Wrthdystwyr; ac er diffodd gobeithion yr ymhoniadol dywysog Cymru, ai gefnogwyr dirgel ac amlwg. Ac yn ddilynol wele ystyr yr unrhyw Adran :—

Digitized by Google

IV. A chan fod rhyw led-dybiau ac amheuon wedi cyfodi o berthynas i synwyr ac ystyr yr adran ganlynol, cynwysedig mewn cyfraith a wnaed yn y chweched flwyddyn i'w diweddar fawrhydi y frenhines Anne, a gyfenwir, "Gweithred i wneyd darpariad pellach i ethol a gwysio un ar bymtheg o bendefigion yr Alban, i eistedd yn Nhŷ y pendefigion yn Senedd Prydain Fawr; ac er profi pendefigion am droseddau wedi eu cyflawni yn yr Alban; ac er rheoleiddiad pellach Etholwyr yn Etholiadau Aelodau i wasanaethu yn y Senedd"; trwy yr hon y mae yn ddeddfedig, Ni chaiff pob person a omeddo gymeryd y Llŵ olaf ynddi a fynegwyd yn flaenoroi, neu ag yntau yn Grynwr, a omedd ddatgan y sylwedd o hono ar ei ddifrifol Sicrhad, fel y cyfarwyddir trwy Gyfraith Seneddol a wnaed yn y seithfed flwyddyn o deyrnasiad ei ddiweddar fawrhydi y brenin William, a gyfenwir, "Gweithred ar i Sicrhad a Datganiad difrifol y bobl a elwir Crynwyr, fod yn dderbyniol yn lle Llw yn y ffurf arferol" (pa Lw neu Ddatganiad, y mae y Sirydd, Llywydd y cyfarfod, neu Brif Swyddog a fyddo yn cymeryd yr enwau mewn unrhyw Etholiad aelodau i wasanaethu yn Nhy y Cyffredin dros unrhyw fan yn Mhrydain Fawr, Dirprwywr er dewis bwrdeiswyr dros unrhyw le yn yr Alban, ar gais unrhyw Ymgeisydd, neu unrhyw berson arall a fyddo bresenol mewn unrhyw Etholiad, drwy hyn yn meddu gallu ac yn ofynol iddynt ei wasanaethu) fod yn alluog i roddi unrhyw bleidlais er etholiad unrhyw gyfryw aelod i wasanaethu yn Nhy y Cyffredin dros unrhyw le yn Mhrydain Fawr, neu Ddirprwywyr i ddewis Bwrdeisiwr dros unrhyw le yn yr Alban; ar gyfrif pa eiriau y mae rhai wedi hòni hawl i bleidleisio yn Nghyfarfodydd y rhydd Etholiadau yn yr Alban yn newisiad Llywydd neu Ysgrifenydd y Cyfarfod, heb gymeryd y Llw crybwylledig yn y Gyfraith olaf a fynegwyd, drwy yr hyn y mae wedi digwydd fod Rholiau yr Etholwyr wedi eu gwneyd i fyny mewn modd nas dylesid, a cham adroddiadau wedi eu rhoddi. Ac hefyd gan fod amryw o ddeiliaid daionus ei fawrhydi, y rhai a roisant nodau argyhoeddiadol o'u ffyddlondeb i'w berson brenhinol a'r Llywodraeth, wedi petruso cymeryd y dywededig Lŵ, gan dybio y gellir esbonio fod y cyfeiriad sydd yn y dywededig Lŵ yn anghyson, ar rai golygon, â sefydliad yr eglwys yn yr Alban yn ol y Ddeddf, ac âg Adran ynghylch Llwon i'w harddodi yn yr Alban ar ol yr Undeb, cynwysedig yn y Gyfrafth a wnaed yn Senedd yr Alban, yn y flwyddyn un mil saith gant a saith, a elwir, "Cyfraith er sicrhau y grefydd Wrthdystiol, a Llywodraeth Eglwysig Henadurol;" pa Gyfraith a ddatganwyd ei bod yn amod sylfaenol a hanfodol Gweithred yr Undeb; I'r diben gan hyny ag y gall y dywededig amheuon, a'r oll o'r camgymeriadau a'r rhaniadau a godant ar gyfrif hyny beidio,

Digitized by Google

Bydded yn mhellach yn ddeddfedig a datganedig trwy yr awdurdod a ragddywedwyd, Y caiff pob person ag a omeddo gymeryd y dywededig Lŵ o Dynghediad, neu ag yntau yn Grynwr, a omedd ddatgan y sylwedd o hono ar ei sicrhad difrifol, yn y modd a ragddywedwyd (pa Lŵ a Datganiad y mae yr Aelod a etholwyd ddiweddaf dros unrhyw swydd, neu Ddysteinbarth yn yr Alban, neu yn ei absenoldeb y Sirydd neu Ysgrifenydd y Goruchwylydd, hyd nes dewisir person i fyned ymlaen (*a*) yn y Cyfarfod, yn unol â'r cyfarwyddiadau cynwysedig yn yr unfed Gyfraith ar hugain o'r drydedd Senedd i Charles yr ail, a gynhaliwyd yn yr Alban a elwir, "Cyfraith o barth Etholiad Dirprywyr dros y Swyddi," ac ar ol y cyfryw ddewisiad fod i'r person dewisedig fyned ymlaen, neu unrhyw berson dewisedig i fyned ymlaen mewn unrhyw gyfarfod unrhyw Swydd neu Ddysteinbarth yno, ymha un y digwydd i Roliau parthed Etholiadau gael eu gwneyd i fyny, trwy hyn yn awdurdodedig ac yn ofynedig i'w weinyddu, ar gais unrhyw Ymgeisydd neu unrhyw berson a fyddo bresenol yn y cyfryw Gyfarfod er Etholiad, cyn neu ar ol dewis y Llywydd i'r Cyfarfod, neu wneuthur i fyny y Rholiau) fod yn analluog i roi unrhyw bleidlais dros etholiad Llywydd y Cyfarfod, gwneyd i fyny y Rholiau, neu i unrhyw Aelod i wasanaethu yn Nhy y Cyffredin dros unrhyw le yn yr Alban, neu Ddirprwywr i ddewis Bwrdeiswr dros unrhyw le yno; ac ymhellach nid ydys ac nid oeddid yn meddwl trwy ddim Geiriau arddodedig gynt, a chynwysedig yn y dywededig Lŵ neu Lwon, rwymo deiliaid dywededig ei fawrhydi wrth unrhyw Weithred neu Weithredoedd anghyson mewn unrhyw fodd âg Eglwys Sefydledig yr Alban, unol â'r Gyfraith.

Gwnaed Deddf seneddol arall hefyd mewn cysylltiad â'r Crynwyr yn adeg teyrnasiad y brenin George y Cyntaf. Ac aeth hon trwy y Senedd yn yr wythfed flwyddyn o'i deyrnasiad, ac yn y flwyddyn 1721, o'r cyfrif cyffredinol. A rhoddir gwedd ganmoliaethol ynddi ar ymddygiad y Crynwyr yn eu cysylltiad â'r Rhyddid caniataedig iddynt trwy Ddeddf. Ei phenawd yw:

Cyfraith er caniatau i'r bobl a elwir Crynwyr, y cyfryw Ffurfiau o Sicrhad a Datganiad, ag a all symud yr Anhawsderau y mae llawer o honynt yn gorwedd tanynt.

Ac ystyr ei chynwys yw:—

I. Gan y gwnaed Cyfraith yn y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad eu

Digitized by Google

diweddar uchelder y brenin William a'r frenhines Mari, er rhoddi rhyw esmwythâd i Gydwybodau pryderus, a elwir, *Gweithred er rhyddhau Deiliaid Gwrthdystiol eu mawrhydi, a ymneillduant oddiwrth eglwys Loegr, rhag cosbau rhai Cyfreithiau*, trwy yr hyn (ymhlith pethau eraill) y penodwyd Datganiad o Ffyddlondeb, i gael ei wneyd a'i arwyddo yn y ffurf fynegedig ynddi, gan rai personau, Ymneillduwyr oddiwrth eglwys Loegr, y rhai a betrusant gymeryd unrhyw Lŵ: A chan y gwnaed Cyfraith yn y seithfed a'r wythfed flwyddyn o deyrnasiad ei ddiweddar fawrhydi y brenin William y trydydd, a elwir, *Gweithred er bod Sicrhad a Datganiad difrifol y bobl a elwir* Crynwyr *i gael eu derbyn yn lle llw yn y ffurf arferol*, o dan y Darpariadau crybwylledig ynddi, pa Gyfraith gan ei bod ar y cyntaf yn unig dros amser, a wnaed wedi hyny i barhau yn mhellach trwy Gyfraith ffurfiedig yn y drydedd flwyddyn ar ddeg a'r bedwaredd ar ddeg o deyrnasiad ei ddywededig ddiweddar fawrhydi, ac y mae yr unrhyw Gyfraith wedi ei gwneyd yn ddidawl trwy Gyfraith a wnaed yn y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad ei fawrhydi presenol trwy yr hon Gyfraith a grybwyllwyd ddiweddaf y mae Ffurf, yn cynwys sylwedd y Llŵ Tynghediad, wedi ei osod i lawr i'w gymeryd gan y bobl a elwir Crynwyr; A chan fod yr Anghyfleusderau i'r dywededig bobl a elwir Crynwyr, a'u teuluoedd, ac i eraill yn galw am eu Tystiolaeth, mewn llawer o achosion heb eu gochelyd yn ddigonol, oherwydd Anhawsderau ymysg y dywededig Grynwyr, mewn perthynas i ffurfiau y Datganiad, Sicrhad, a Thynghediad crybwylledig yn flaenorol, fel ag y mae yr unrhyw yn awr yn osodedig: A chan fod yn amlwg, na ddarfu i'r bobl a elwir Crynwyr gamddefnyddio y Rhyddid a'r Goddefiad caniataedig trwy Ddeddf, ac y maent wedi rhoddi tystiolaeth o'u ffyddlondeb a'u hoffder tuag at ei fawrhydi a sefydliad y goron yn y llinell Wrthdystiol, ac y mae yn rhesymol rhoddi iddynt esmwythâd a chymorth pellach: Rhynged bodd eich ardderchocaf fawrhydi y brenin, y gall fod yn ddeddfedig, a bydded yn ddeddfedig, trwy a chyda cydsyniad yr arglwyddi ysbrydol a thymhorol, a'r Cyffrediniaid, cynulledig yn y Senedd bresenol, a thrwy awdurdod yr unrhyw. Fod yn yr holl achosion, lle trwy Ddeddf y mae neu y bydd yn ofynol i unrhyw Grynwr, neu y caniateir iddo wneyd a llawnodi y Datganiad o Ffyddlondeb yn y Ffurf benodedig trwy y ddywededig Gyfraith a grybwyllwyd gyntaf, neu i wneyd sicrhad neu Ddatganiad difrifol yn y Ffurf benodedig trwy y ddywededig Gyfraith o'r seithfed a'r wythfed flwyddyn o deyrnasiad ei ddywededig ddiweddar fawrhydi y brenin William y trydydd, neu gymeryd sylwedd y Llŵ Tynghediad yn y Ffurf benodedig trwy y ddywededig Gyfraith o'r flwyddyn gyntaf o

deyrnasiad ei fawrhydi presenol, caiff pob cyfryw Grynwr, yn lle y cyfryw Ddatganiad o Ffyddlondeb a grybwyllwyd gyntaf, wneyd a llawnodi Datganiad o Ffyddlondeb yn y geiriau dilynol, sef,

Yr ydwyf fi A. B., yn addaw ac yn datgan yn ddifrifol a chywir, Y byddaf gywir a ffyddlon i'r brenin George; ac yn difrifol, cywir a gwirioneddol addef, tystio a datgan, fy mod o'm calon yn ffieiddio, cashau a gwrthod, fel yn annuwiol a gau-gredol, yr athrawiaeth a'r gosodiad drygionus hyny, Bod yn rhydd diorseddu neu lofruddio tywysogion esgymunedig neu a amddifadwyd gan y Pab, neu unrhyw awdurdod i esgobaeth Rhufain, gan eu deiliaid neu unrhyw arall pa bynag. Ac yr wyf yn datgan na fedd ac na ddylai yr un tywysog tramor, person, esgob, llys na phenaeth feddu unrhyw allu, arglwyddiaeth, rhagoriaeth, uchafiaeth neu awdurdod, eglwysaidd neu ysbrydol, o fewn y deyrnas hon.

Ac yn lle y difrifol sicrhad neu Ddatganiad, yn y ffurf ddatganedig trwy y ddywededig Gyfraith o'r seithfed a'r wythfed flwyddyn o deyrnasiad ei ddiweddar fawrhydi y brenin William y trydydd, caiff pob cyfryw Grynwr wneyd y Datganiad neu sicrhad difrifol a ganlyn, sef,

Yr ydwyf fi, A. B., yn difrifol, cywir a gwirioneddol ddatgan a sicrhau.

Ac yn lle y Ffurf benodededig trwy y ddywededig Gyfraith o'r flwyddyn gyntaf o deyrnasiad ei fawrhydi presenol, er sylweddoliad y Llŵ Tynghediad, caiff pob Crynwr gymeryd ei sylwedd yn y geiriau a ganlyn, sef,

Yr ydwyf fi A.B., yn ddifrifol, cywir a gwirioneddol, addef, tystio a chydnabod, Mai y brenin George yw cyfreithlon a chywir frenin y deyrnas hon, ac ei holl diriogaethau a gwledydd eraill perthynol iddi; ac yr wyf yn difrifol a chywir ddatgan, Fy mod yn credu na fedd y person a ymhonai, yn ystod bywyd y diweddar frenhin James, ei fod yn dywysog Cymru, ac sydd er pan fu farw yn ymhoni ei fod, ac yn cymeryd arno ei hun y cyfenwad a'r urddenwad o frenin Lloegr, wrth

Digitized by Google

yr enw James y trydydd, neu o'r Alban, wrth yr enw James yr wythfed, neu y cyfenwad a'r urddenwad o frenin Prydain Fawr, unrhyw iawnder neu hawlfraint pa bynag i goron y deyrnas hon, neu unrhyw o'r tiriogaethau eraill perthynol iddi; ac yr ydwyf yn gwrthod ac yn gomedd unrhyw warogaeth neu ufudd-dod iddo. Ac yr ydwyf yn addaw yn ddifrifol, y byddaf gywir a ffyddlon, ac y dygaf warogaeth gywir i'r brenin George, ac y byddaf iddo yn ffyddlon yn erbyn pob cydfwriad bradwrus ac amcanion pa bynag, ag a wneir yn erbyn ei berson, coron neu urddas. Ac ymdrechaf fy ngoreu i amlygu a gwneyd yn hysbys i'r brenin George, a'i olynwyr, bob bradwriaeth a chydfwriadau bradwrus, ag y gwybyddaf eu bod yn cael eu gwneyd yn ei erbyn ef neu unrhyw o honynt. A byddaf gywir a ffyddlon i olyniaeth y goron yn ei erbyn ef y dywededig James, a phob person arall pa bynag, fel ag y mae ac y saif yr unrhyw wedi ei sefydlu trwy Gyfraith, a elwir, "Cyfraith yn datgan hawliau a breintiau y deiliaid, ac yn sefydlu olyniaeth y goron," i'r ddiweddar frenhines Anne, a'r etifeddion o'i chorff, a fyddont Wrthdystwyr; ac fel y mae ac y saif yr unrhyw, trwy Gyfraith, a elwir, "Cyfraith er cyfyngiad pellach y goron, a rhagorach sicrhad hawliau a breintiau y deiliaid," yn drefnedig a hawlrwymol, ar ol marwolaeth y ddywededig ddiweddar frenhines, ac oherwydd diffyg hiliogaeth i'r ddywededig ddiweddar frenhines, i'r ddiweddar dywysoges Sophia, Etholes a duges waddolog Hanover, a'r etifeddion o'i chorff ag a fyddont Wrthdystwyr. A'r holl bethau hyn yr ydwyf yn eglur a difrifol gydnabod, addaw a datgan, yn ol y geiriau pendant hyn a lefarwyd genyf fi, ac yn ol meddwl a synwyr eglur a chyffredin yr unrhyw Eiriau, heb unrhyw amwysedd, gocheliad meddyliol neu geledigaeth cyfrinachol pa bynag. Ac yr ydwyf yn gwneuthur yr ymrwymiad, cyfaddefiad, gwrthodiad a'r addawiad hyn, yn galonog, ewyllysgar a gwirioneddol.

A'r holl bersonau awdurdodedig neu ofynedig i weinyddu neu i gynyg naill ai y dywededig flaenorol Ddatganiad o Ffyddlondeb, neu y dywededig flaenorol Sicrhad neu Ddatganiad difrifol, neu y blaenorol Sylwedd o'r Llŵ Tynghediad rhagddywededig, a gânt fod ac ydynt trwy hyn yn awdurdodedig ac yn ofynedig i weinyddu a chynyg yr unrhyw yn wahanredol i'r dywededig bobl a elwir Crynwyr, yn y Geiriau sydd yn wahanredol wedi eu penodi yn y Gyfraith hon.

II. A bydded yn ddeddfedig ymhellach trwy yr awdurdod a rag-

Digitized by Google

ddywedwyd, Y bydd i'r Datganiad o Ffyddlondeb a'r difrifol Sicrhad neu Ddatganiad, a Sylwedd y Llŵ Tynghediad, penodedig trwy y Gyfraith hon i'r dywededig bobl a elwir Crynwyr, yn lle y ffurfiau gwahanredol a benodwyd i'r unrhyw, trwy y dywededig Gyfreithiau, gael eu gwahanredol dyfarnu a'u cymeryd i fod o'r cyfryw ar unrhyw rym ac effaith, ac nid yr un arall, yn gyflwyr, ymhob Llys Cyfiawnder a lleoedd eroill, a phe buasai y cyfryw Grynwr wedi gwneyd a llawnodi y Datganiad o Ffyddlondeb, neu wedi gwneyd y Sicrhad neu y Datganiad difrifol, neu wedi cymeryd Sylwedd y Llŵ Tynghediad, yn eu Ffurfiau gwahanredol penodedig trwy y dywededig Gyfreithiau a fynegwyd: Ac os bydd i unrhyw berson a wnel y cyfryw Sicrhad neu Ddatganiad, fel ag y mae yn benodedig trwy y Gyfraith hon iddo wneuthur, yn lle y Sicrhad a'r Datganiad yn y Ffurf benodedig trwy y Gyfraith a grybwyllwyd yn flaenorol o'r seithfed a'r wythfed flwyddyn o deyrnasiad ei ddywededig ddiweddar fawrhydi y brenin William y trydydd, gael ei gyfreithlon euogfarnu o fod wedi sicrhau a datgan yn wirfoddol unrhyw achos neu beth yn dwyllodrus ac anwireddus, yr hyn pe wedi ei dyngu yn y Ffurf gyffredin neu arferol, a gyrhaeddasai i anudon gwirfoddol a llygredig; caiff pob cyfryw berson a droseddo felly fyned dan a dioddef y cyfryw a'r unrhyw gosbedigaethau, dirwyon a chamlyrwyon, ag ydynt wedi eu gosod a'u deddfu trwy Ddeddfau a Gosodedigaethau y deyrnas hon, yn erbyn personau euog-farnedig o anudon gwirfoddol a llygredig.

III. Darparer yn wastad, Y caiff yr holl Ddosranau, Darpariadau a'r Eithriadau, cynwysedig yn y dywededig Gyfreithiau a fynegwyd, neu unrhyw o honynt, heb fod wedi eu newid a'u diddymu yn bendant trwy hyn, fod o'r cyfryw a'r unrhyw rym ac effaith ag a oeddynt yn flaenorol i wneuthuriad y Gyfraith hon.

Ceir darpariad o barth y Crynwyr yn yr wythfed Ban o Gyfraith,* a ffurfiwyd yn y ddeuddegfed flwyddyn o deyrnasiad George yr ail. Ac y mae ystyr yr unrhyw fel hyn:—

A bydded yn ddeddfedig trwy yr awdurdod a ragddywedwyd, Y caiff unrhyw berson ag a fyddo yn un o'r bobl a elwir Crynwyr, yr hwn a ddichon fod wedi gwasanaethu, neu a wasanaetha ar ol hyn, y swydd o ysgrifenyddiaeth gyda chyfreithiwr, ac yn gymwysedig yn ol y mae yn ofynol trwy y Gyfraith ddywededig yn flaenorol, ar ei

* **Statutes at Large. Cyf. 6, *Cap.* xiii., arg. MDCCLXIX.**

Digitized by Google

gymeriad o'i ddifrifol Sicrhad yn lle y Llwon cyfarwyddedig trwyddi i'w cymeryd, o flaen y cyfryw Farnwyr ac eraill ag ydynt trwy hyn awdurdodedig a gofynedig i weinyddu y Sicrhad dywededig, ei dderbyn a'i gofrestru fel cyfreithiwr, megis pe buasai wedi cymeryd y Llwon a ddywedwyd; er unrhyw beth sydd yn y Gyfraith ddywededig yn wrthwyneb.

Y mae deddfiad o barth y Crynwyr yn y ddwy adran olaf o Gyfraith o'r eilfed flwyddyn ar hugain o deyrnasiad George yr ail. Ac y mae yn y gyntaf o'r ddwy hyn gyfeiriad penodol at y Ddeddf yr ydys newydd ddodi.

Rhed eu hystyr fel hyn :—

XXXVI. A chan y cyfododd amheuaeth pa un a ellir caniatau a chymeryd Sicrhad neu Ddatganiad difrifol y bobl a elwir Crynwyr, penodedig trwy Gyfraith a wnaed yn yr wythfed flwyddyn o deyrnasiad ei ddiweddar fawrhydi y brenin George y cyntaf (a elwir, "Cyfraith er caniatau i'r bobl a elwir Crynwyr, y cyfryw Ffurfiau o sicrhad neu Ddatganiad ag a ddichon symud yr Anhawsderau y gorwedd llawer o honynt danynt") yn lle Llw, mewn unrhyw achos yn yr hwn y mae Llw yn ofynol trwy unrhyw Gyfraith neu Gyfreithiau Seneddol, oni fydd y dywededig Sicrhad neu Ddatganiad trwy y cyfryw Gyfraith neu Gyfreithiau Seneddol wedi cael ei nodi allan yn neillduol a phendant ei fod i'w ganiatau a'i gymeryd yn lle y cyfryw Lw; oherwydd pa amheuaeth y mae Tystiolaeth y dywededig bobl a elwir Crynwyr yn cael ei gwrthod yn fynych; trwy yr hyn y mae y dywededig bobl a elwir Crynwyr ac eraill fyddo yn gofyn am eu tystiolaeth, yn ddarostyngedig i anghyfleusderau mawrion; gan hyny er symud ymaith yr amheuaeth a ddywedwyd, Bydded ddeddfedig a datganedig trwy'r awdurdod ddywededig, Fod ymhob achos yn y rhai trwy unrhyw Gyfraith neu Gyfreithiau Seneddol yn awr mewn grym, neu i'w gwneuthur ar ol hyn, ag y mae neu y bydd Llw yn ganiataol cyfarwyddedig neu ofynedig, caiff sicrhad neu Ddatganiad difrifol unrhyw o'r bobl a elwir Crynwyr; yn y Ffurf a benodwyd trwy y ddywededig Gyfraith a wnaed yn yr wythfed flwyddyn o deyrnasiad ei ddywededig fawrhydi, ei ganiatau a'i gymeryd yn lle y cyfryw Lw, er na byddo yr un Ddarpariaeth benodol neu bendant wedi ei gwneyd i'r diben hwnw yn y cyfryw Gyfraith neu Gyfreithiau; a'r holl bersonau ag ydynt neu a fyddant wedi eu hawdurdodi neu yn

Digitized by Google

ofynol iddynt roddi y cyfryw Lw, a gant fod, ac y maent trwy hyn, yn meddu awdurdod ac yn ofynedig iddynt roddi y dywededig Sicrhad neu Ddatganiad; a chaiff y dywededig Sicrhad a Datganiad difrifol, wedi ei wneyd fel y rhagddywedwyd, ei farnu a'i gymeryd, ac y mae trwy hyn wedi ei ddeddfu a'i ddatgan i fod o'r un grym a sylwedd, yn gyflwyr yn yr holl Lysoedd Gyfiawnder, a manau eraill, lle trwy Gyfraith y mae neu y bydd Llw yn cael ei ganiatau, ei gyfreithloni, a'i nodi allan neu ei ofyn, megis pe buasai y cyfryw Grynwr wedi cymeryd Llw yn y Ffurf arferol; ac os bydd i unrhyw berson a wnelo y cyfryw Sicrhad neu Ddatganiad gael ei gyfreithlon euog-farnu o wirfoddol twyllodrus a llygredig sicrhau a datgan unrhyw bwnc neu beth, yr hyn, ped fuasai yr unrhyw wedi ei dystiolaethu yn y Ffurf arferol a gyrhaeddasai i anudon gwirfoddol a halogedig, caiff pob person yn troseddu felly fyned dan a dioddef y cyffelyb gosbedigaethau, dirwyon a chamlyrwyon, ag ydynt trwy Ddeddfau a Gosodedigaethau y deyrnas hon i'w gosod ar bersonau wedi eu heuog-farnu o anudon gwirfoddol a halogedig.

XXXVII. Darparer er hyny, a bydded ddeddfedig, Na chaiff yr un Crynwr yn rhinwedd y Gyfraith hon, fod yn gymwys, ac na chaniateir iddo roddi tystiolaeth mewn unrhyw achosion troseddol, neu wasanaethu ar reithiau neu ddal unrhyw swydd neu le o enill yn y Llywodraeth; er unrhyw beth cynwysedig ynddi yn y gwrthwyneb.*

Sylwir yn y llyfr† a enwir yn ngodreu'r ddalen y caniateid gynt i Grynwr wneyd Sicrhad yn lle Llw mewn achosion gwladol o dan Gyfraith o'r seithfed a'r wythfed flwyddyn o deyrnasiad William III., penod 34; a'r adranau 36 a'r 37‡ o Gyfraith o'r eilfed flwyddyn ar hugain o deyrnasiad George II., (cynwys y rhai a gyflewyd eisoes yn y llyfr hwn).—Ac hefyd Ddatganiad Morafaidd dan Gyfraith o'r eilfed flwyddyn ar hugain o deyrnasiad George III., penod 30; ond y mynegid yn bendant trwy y Deddfau hyn na chai na Chrynwr na Morafiad eu galluogi trwyddynt i roddi tystiolaeth mewn achosion troseddol, neu wasanaethu ar reithiau os na faent wedi tyngu. Eithr

* "Statutes at Large," cyf. VII., t. 47. Arg. MDCCCLXIX.

† "Archbold's Pleading and Evidence in Criminal Cases," t. 316. Arg. 1878.

‡ Pen. 46.

Digitized by Google

trwy y Gyfraith o'r drydedd a'r bedwaredd flwyddyn o deyrnasiad William IV., y caniateid i Grynwr neu Forafiad ag y bai yn ofynol iddynt roddi tystiolaeth, wneyd Sicrhad neu Ddatganiad difrifol, yn lle cymeryd llw yn y ffurf arferol; a hyny mewn geiriau sydd â'u hystyr fel hyn:—"Yr wyf fi, A. B., yn sicrhau a datgan yn ddifrifol gwirioneddol a chywir," &c. Rhed y Gyfraith ag y cyfeiriwyd ati a rydd ganiatad fel hyn, i'r ystyr ddilynol:—

Gan fod yn weddus a rhesymol i sicrhad difrifol personau o gredo y bobl a elwir Crynwyr, ac o'r Morafiaid, gael ei ganiatau yn yr holl achosion lle y mae neu y bydd llw yn ofynol: Bydded gan hyny yn ddeddfedig trwy ei ardderchocaf fawrhydi y brenin, trwy a chyda chyngor a chydsyniad yr arglwyddi ysbrydol a thymhorol, a'r cyffrediniaid, yn y Senedd gynulledig bresenol, a thrwy awdurdod yr unrhyw, fod i bob person o gredo y bobl a elwir Crynwyr, a phob Morafiad, gael caniatad i wneyd ei sicrhad neu ei ddatganiad ef neu hi yn lle llw yn yr holl leoedd ac i bob amcanion pa bynag lle y mae neu y bydd llw yn ofynol trwy naill ai y gyfraith gyffredin neu unrhyw Weithred Seneddol sydd wedi ei gwneyd eisoes neu a wneir ar ol hyn, pa sicrhad neu ddatganiad a gaiff fod o'r un grym ac effaith a phe cymerasai ef neu hi lŵ yn y ffurf arferol; ac os bydd i unrhyw gyfryw berson a wnelo y cyfryw ddifrifol sicrhad neu ddatganiad gael ei gyfreithlon euogfarnu o fod wedi sicrhau neu ddatgan yn wirfoddol, twyllodrus a halogedig unrhyw achos neu beth, yr hyn pe buasai yr unrhyw yn y ffurf arferol a gyrhaeddasai i anudon gwirfoddol a halogedig, caiff ef neu hi ddioddef yr unrhyw ddirwyon a chamlyrwyon ag ydynt ddeddfedig trwy ddeddfau a gosodedigaethau y deyrnas hon yn erbyn personau euog-farnedig o anudon gwirfoddol a halogedig, er unrhyw ddeddf, gosodiad, neu ddefod i'r gwrthwyneb; Darparer yn wastad ar i bob cyfryw sicrhad neu ddatganiad fod yn y geiriau canlynol, (sef,)

"Yr ydwyf fi, A. B., ag sydd yn un o'r bobl a elwir Crynwyr [neu un o gredo y bobl a elwir Crynwyr, neu o'r brodyr unedig a elwir Morafiaid, yn ol fel y byddo yr achos,] yn datgan a sicrhau yn ddifrifol, gwirioneddol, a chywir,"*..........

Yn ol a nodir yn yr arddadl a'r dystiolaeth yn ngwaith Archbold

* The Statutes Revised. Cyf. vii., t. 457—8.

Digitized by Google

......ag y cyfeiriwyd ato yn flaenorol,* yr oedd rheolau y Gyfraith yr ydys newydd ddwyn i sylw yn gymhwysiadol trwy Osodiad y 1af a'r 2il i Victoria, pen., 77, at unrhyw berson a fyddai neu fu Grynwr, neu Forafiad, gan y byddid yn dal nad oedd person a ymwahanasai oddiwrth y blaid hono ar rai pynciau ac athrawiaeth gan barhau i ymlynu wrth eu tybiau o barth yr anghyfreithlondeb o dyngu, ond a omeddai sicrhau o dan y ffurfiau a roddwyd yn y blynyddoedd 3 a 4 i William IV., penod 49, a'r benod 82, yn cael ei derbyn fel tyst mewn achosion roseddol ar ei sicrhad, yn ol y 9fed flwyddyn i George IV., pen 32.†

Cafodd y ddeddf sydd dan rif y benod a nodwyd ddiweddaf (sef pen. 32) ei dwyn drwy y Senedd yn y flwyddyn 1828. Ei phenawd yw, Cyfraith er gwelliad Deddf Tystiolaeth mewn rhai Achosion.

Ac y mae cynwys y Gyfraith hon i'r ystyr ddilynol :—

Gan fod yn weddus i Grynwyr a Morafiaid gael caniatad i roddi Tystiolaeth ar eu Sicrhad difrifol, ymhob achosion, Troseddol yn gystal a gwladol; ac y dylai y sawl fydd a llaw mewn Erlyniadau am Ffugiaeth gael ei gyfrif yn Dyst cymwys: Bydded gan hyny yn ddeddfedig gan ei ardderchocaf fawrhydi y brenin, trwy a chyda chyngor a chydsyniad yr arglwyddi ysbrydol a thymhorol, a'r cyffrediniaid, yn y senedd gynulledig bresenol, a thrwy awdurdod yr unrhyw, Y caiff pob Crynwr neu Forafiad ag y ceisir ganddo roddi Tystiolaeth mewn unrhyw Achos pa bynag, Troseddol neu Wladol, yn lle cymeryd Llŵ yn y ffurf arferol, ganiatad i wneuthur ei Sicrhad neu ei Ddatganiad difrifol ef neu hi yn y geiriau hyn ; sef, Yr ydwyf fi A.B., yn difrifol, gwirioneddol, a chywir ddatgan a sicrhau; pa ddywededig Sicrhad neu Ddatganiad a gaiff ymhob Llys Cyfiawnder, a lleoedd eraill ag y byddo Llŵ yn ofynol trwy Ddeddf, fod o'r unrhyw rym ac effaith a phe cymerasai y cyfryw Grynwr neu Forafiad Lŵ yn y ffurf arferol; ac os bydd i unrhyw berson yn gwneyd y cyfryw sicrhad neu Ddatganiad gael ei farnu yn euog o wirfoddol

---

* Gweler t. 316.

† Cyfeirir yn "Archbold's Pleading and Evidence in criminal cases......ag yr ydys wedi defnyddio o hono uchod at 5 a 6 William IV. pen. 62, mewn perthynas i Ddatganiadau yn lle llwon o flaen Ynadon, &c., mewn rhai achosion ; a'r 11 a 12 Vict. pen. 10, parthed llwon a datganiadau yn y Canghellys. Cyfeirir ynddo hefyd at 17 a 18 Vict. pen. 12; a'r 20 a'r 21 adran. (Pa ddarpariadau yn ol y llyfr a nodwyd oeddynt gymwysiadol mewn erlyniadau gwladol yn unig. Gweler t. 316—317, o'r llyfr a nodwyd).

sicrhau neu ddatgan unrhyw bwnc neu beth yn dwyllodrus, a halogedig, yr hyn pe buasai yr unrhyw wedi cael ei dyngu yn y ffurf arferol a gyrhaeddasai i anudon gwirfoddol a halogedig, bydd pob cyfryw Droseddwr yn ddarostyngedig i'r unCosbedigaethau, Dirwyon, a Chamlyrwyon â'r rhai y mae neu y bydd personau wedi eu heuogfarnu am anudon gwirfoddol yn agored iddynt.

II. A bydded yn ddeddfedig, Fod ar unrhyw Erlyniad trwy gyhuddgwyn neu hysbysrwydd, naill ai yn ol Deddf Gyffredin, neu trwy rinwedd unrhyw Osodiad yn erbyn unrhyw berson am ffugio unrhyw Amodeb, Ysgrif, Gweithred, neu unrhyw Beth pa bynag; neu am unrhyw draethiad neu drefniad o unrhyw Amodeb, Ysgrif, Gweithred, neu unrhyw beth pa bynag, gan wybod fod yr unrhyw yn ffugiol; neu am fod yn Affeithydd cyn neu wedi y weithred yn unrhyw drosedd, os bydd yr unrhyw yn lladrad; neu am gynorthwyo, neu anog y cyflawniad o unrhyw gyfryw drosedd, os bydd yr unrhyw yn gamymddygiad; ni chaiff yr un person ei ystyried yn Dyst anghymwys mewn unrhyw erlyniad o'r fath yn herwydd unrhyw law y gall fod neu y tybir fod ganddo yn y cyfryw Amodeb, Ysgrif, Gweithred, neu ddim arall.

III. A chan ei bod yn fuddiol i atal Amheuon o barth iawnderau gwladol personau euogfarnedig o droseddau heb fod yn rhai marwol, y rhai a ddioddefasant y gosbedigaeth eu dyfarnwyd iddi; Bydded ddeddfedig gan hyny, lle yr euogfarnwyd neu yr euogfernir unrhyw droseddwr o unrhyw drosedd nad oedd gosbadwy â marwolaeth, ac y dioddefodd neu y dioddefa y gosbedigaeth i ba un y dyfarnwyd neu y dyfernir y cyfryw droseddwr am yr unrhyw, fod y gosbedigaeth a ddioddefwyd felly yn cael ac i gael effeithiau a chanlyniadau hafal a maddeuant o dan y Sel Fawr mewn perthynas i'r ddrwgweithred am yr hon y cafodd y troseddwr ei euogfarnu fel hyny: cyd y darparer bob amser, na chaiff dim ag sydd gynwysedig yn hyn, neu ddioddefiad y cyfryw gosbedigaeth, atal neu leihau unrhyw gosbedigaeth i ba un ped amgen y gallai ei fod wedi ei gyfreithlon ddedfrydu ar euogfarniad dilynol am unrhyw ddrwgweithred arall.

IV. A chan fod rhai camymddygiadau a wnant y Pleidiau euogfarnedig o honynt yn Dystion anghymwys, ac fod yn weddus adferyd cyfaddasrwydd y cyfryw Bleidiau wedi y dioddefont eu cosbedigaeth;



Digitized by Google

Bydded gan hyny yn ddeddfedig, Na chaiff unrhyw Droseddwr a farnwyd neu a fernir yn euog o unrhyw gyfryw gamymddygiad (oddigerth Anudon neu Dystlogiad o Anudoniaeth), ac a ddioddefodd neu a ddioddef y gosbedigaeth i'r hon y dyfarnwyd y cyfryw Droseddwr am yr unrhyw, ei ystyried wedi iddo ddioddef felly yn Dyst anghymwys oherwydd y cyfryw gamymddygiad, mewn unrhyw Lys neu Erlyniad, Gwladol neu Droseddol.*

Aeth y Ddeddf† o'r flwyddyn gyntaf a'r ail i'r frenhines Victoria, ag y cyfeiria Archbold ati, trwy y Senedd, ar y degfed o fis Awst, y flwyddyn 1838. Ei phenawd yw :

Cyfraith er caniatau i Sicrhad gael ei wneyd yn lle Llŵ mewn rhai Achosion.

Ac y mae ei chynwys i'r ystyr ddilynol :—

Gan ei bod yn ddeddfedig trwy Gyfraith a basiwyd yn nheyrnasiad y brenin William y trydydd, a ddynodir, "Cyfraith y derbynir gweinyddiad, sicrhad, a datganiad y bobl a elwir Crynwyr yn lle llŵ yn y ffurf arferol," yn mynegu fod amryw Ymneillduwyr, a elwir yn gyffredin Crynwyr, a omeddant gymeryd llŵ mewn llysoedd cyfiawnder a lleoedd eraill, yn cael yn fynych eu carcharu a'u hetifeddiaethau eu gorfodogi trwy gwyn tremygiad yn tarddu allan o'r cyfryw lysoedd, er eu dinystr hwy eu hunain a'u teuluoedd, y caiff pob Crynwr, ar bob achlysur (oddigerth ar brawfiad troseddau) lle y mae llŵ yn rheidiol trwy Gyfraith, ganiatad i wneuthur sicrhad a datganiad difrifol yn ei gyferyd: A chan fod yr unrhyw ragorfraint trwy Gyfreithiau Seneddol dilynol wedi cael eu hestyn ymhob achosion i'r personau a elwir Crynwyr. A chan mai llesol ac addas ydyw i'r rhagorfraint a rag-ddywedwyd fod yn estynedig i'r cyfryw bersonau ag a fuont Grynwyr a Morafiaid, ond a beidiasant berthynu i bob un o'r cyfryw enwadau crefyddol o Gristionogion, eto yn parhau er hyny i ddal gwrthwynebiadau cydwybodol i'r cymeriad o lŵ: Bydded gan hyny yn ddeddfedig gan ei harddderchocaf fawrhydi y frenhines, trwy a chyda chyngor a chydsyniad yr arglwyddi ysbrydol a thymhorol, a'r cyffrediniaid yn y senedd gynulledig bresenol, a thrwy awdurdod yr unrhyw, y bydd yn gyfreithlon i unrhyw berson ag a fu Grynwr neu Forafiad i wneyd difrifol sicrhad a datganiad yn lle cymeryd llŵ, mor gyflawn ag y byddai yn

---

* "Statutes at Large." Cyf. XI. t. 377, 8. Arg. 1829.

† Gweler yn ei chylch wrth y dynodiant o Osodiad yn tud. 176.

gyfreithlon i unrhyw gyfryw berson i wneuthur pe yr arosasai hyd yn hyn yn aelod o'r naill o'r enwadau crefyddol hyn o Gristiongion, pa sicrhad neu ddatganiad a gaiff fod o'r un grym ac effaith a phe cymerasai ef neu hi lŵ yn y ffurf arferol; ac os bydd i unrhyw gyfryw berson a wnelo y cyfryw ddifrifol sicrhad neu ddatganiad gael ei euogfarnu o wirfoddol, twyllodrus, a llygredig sicrhau neu ddatgan unrhyw bwnc neu beth pa un, ped fuasai wedi ei dyngu yn y ffurf arferol, a gyrhaeddasai i anudon gwirfoddol a llygredig, caiff pob cyfryw droseddwr fod yn ddarostyngedig i'r un cosbedigaethau, dirwyon, a chamlyrwyon, â'r rhai y mae neu y bydd personau euogfarnedig o anudon gwirfoddol a llygredig yn ddarostyngedig: Cyd y darparer bob amser fod pob cyfryw sicrhad neu ddatganiad yn y geiriau dilynol, sef,

Yr ydwyf fi A. B., wedi bod yn un o'r bobl a elwir Crynwyr, [neu un o'r enwad a elwir Crynwyr, neu o'r brodyr unedig a elwir Morafiaid, yn ol fel y bydd yr achos,] ac yn dal gwrthwynebiadau cydwybodol i gymeriad llŵ, yn difrifol, gwirioneddol, a chywir ddatgan a sicrhau *

O barth y Ddeddf a adwaenir fel Deddf y Pum' Milldir, tybia Macaulay na ddarfu iddi gyffwrdd â na Phabydd na Chrynwr yn nheyrnasiad James II., yr hwn a ddaeth i'r Llywodraeth yn y flwyddyn 1685, er y sylwa ei bod feallai y fwyaf blinderus i Wrthdystwyr Anghydffurfiol o'r un sydd ar y Deddflyfr. Ffurfiwyd y Ddeddf hon yn y flwyddyn 1665, pryd yr oedd ei frawd Charles II. ar yr orsedd. Ei phenawd yn Llyfr y Gyfraith yw,† "Cyfraith er atal Anghydffurfwyr i breswylio mewn Corfforiaethau." Ond nid yw yn ymddangos fod dim yn y Ddeddf hon yn esgusodi na Phabydd na Chrynwr o'r rhai y mae yn ddeddfedig ynddi yn eu cylch. Ac os cafodd troseddwyr o honi o'r enwadau hyn lonyddwch ar y pryd oddiwrthi, ymdengys fod hyny i'w briodoli i ddylanwad o'r tuallan iddi.

Yr amseriad boreuaf yr ydys yn gallu nodi yn benodol mewn cysylltiad â blinderau y Crynwyr yn y cyffiniau hyn yn y flwyddyn 1660, sef yr un ag yr esgynodd Charles II. i orsedd Prydain. A dichon mai y flwyddyn hon y dechreuasant oddef erledigaeth yma mewn dull cyhoeddus, er hwyrach yr ymddygid atynt yn flaenorol ar brydiau gyda math o ddirmyg. Modd bynag, dioddefodd yr enwad hwn ei erlid yn yr ynys hon ac allan o honi yn amser y Werinlywodraeth.

* "The Statutes Revised." Cyf. viii., t. 271–2.

Digitized by Google

Er hyny nid yw yn ymddangos y gellir yn deg gyhuddo yr Amddiffynydd Cromwell yn bersonol o beri un blinder iddynt o achos eu daliadau crefyddol, a cheir y datganai yn senedd yn y flwyddyn 1656; Os damsang gwr o un ffordd ar sodlau gwr o ffordd arall; os er engraifft y dirmyga Annibynwr, ef yr hwn sydd o dan Fedydd, a'i ddifenwi, a'i edliw, a'i gythruddo, nis goddefaf hyny ynddo. Ymddygodd yn garedig at George Fox; un tra nodedig ac ymroddgar o'r Crynwyr; pan yn ei wyddfod. Canys pan yr oedd y gŵr hwnw yn troi ymaith oddiwrtho, wedi dyfodiad eraill i mewn, gafaelodd yn ei law, a chyda dagrau yn ei lygaid, gwahoddodd ef i ddyfod i'w dŷ drachefn, oblegid, meddai, pe buasai ti a minau ond awr allan o ddiwrnod gyda'n gilydd, buasem yn agosach y naill i'r llall, gan ychwanegu nad oedd yn dymuno mwy o ddrwg iddo nac a wnai i'w enaid ei hun.

Yr ydys wedi nodi eisoes mai fel Cymdeithas o drefnyddion Cymreig y cyfeiria W. Norris (neu a dilyn ei dalfyriad ef ei hun o'i enw yn fanwl, "Wm. Norris,") Coalbrookdale, at yr Annibynwyr, wrth grybwyll am werthiad claddfa y Crynwyr a'u Ty Cyfarfod, ger Tyddyn y Gareg, iddynt. Fel Cyfeillion hefyd y mae yn cyfeirio at y Crynwyr yn yr un cysylltiad. Eithr sylwa, rhwng cromfachau, o barth y Cyfeillion, yn mhellach yn ol yn yr ysgrifen ag y cyfeiria ynddi at yr unrhyw werthiad, mai Crynwyr eu gelwid yn gyffredin. A dywed am eu gwerthiad mewn geiriau Saesneg cyfystyr â'r rhai Cymraeg dilynol, "Y maent wedi eu gwerthu er's ychydig o flynyddoedd yn ol gan Gyfeillion i Gymdeithas o Drefnyddion Cymreig." Yr ydys wedi defnyddio yn barod * o'r ysgrifen y cymerwyd y sylw hwn allan o honi. A'i dyddiad, pa un sydd yn ngwaelod yr ysgrifen yw y 27 o'r 7 mis 1867.

Yn ychwanegol at y personau o'r Crynwyr a ddygwyd i sylw, bwriedir dwyn enwau rhai eraill o honynt gerbron yn mhellach ymlaen. Ond ceir diweddu y benod hon âg englynion o waith un Thomas Llwyd, o'r Penmaen. Pa Benmaen nis gwyddis. Y mae yr englynion yn argraffedig mewn cyfrol, (cyf. I.) o'r enw Gwaith Gwallter Mechain, allan o ba un eu dyfynwyd yma. Ac yn flaenorol iddynt yn yr unrhyw gyfrol, ceir y sylwad dilynol, lle y dangosir yr achlysur o'u cyfansoddi:—

* Gweler tud. 149 o'r llyfr hwn.

Digitized by Google

"Thomas Llwyd o Benmaen.--Mae dau* Benmaen ym Meirionydd; un yn agos i Fachynlleth, a'r llall gerllaw Dolgellau. Byddis yn ddiolchgar i unrhyw gofiadur a fynega i ni ymha un o'r ddeu-fan uchod yr oedd y Thomas Llwyd hwn yn cyfaneddu, o gylch teyrnasiad Charles II. Efe a newidiasai ran o'i gredo, gan droi at y blaid a elwid gan eraill Crynwyr. Hen gyfaill iddo a amcanai ei argyhoeddi o'i amryfusedd, mewn chwech englyn, y pedwerydd fel y canlyn:—

"Sethrwch a gwyliwch, wr gwiwlan—awydd,
Wyau'r *Sarff* yn fuan,
Rhag i'r cywion moelion mân
A drewllyd dori allan."

Yn yr englynion eraill soniai y cyfaill am ddawn brydyddol yr enciliwr, gan ei gynghori i ddychwelyd i fynwes yr Eglwys, o'r hon y buasai yn aelod. Yntau a draethai ei sylfaeniad yn ei egwyddorion presenol fel hyn:—

"At awdlwyr, gogangerddwyr, a masweddwyr."

"Nid haeddawl im' fawl am fod—fy nyfais
Mewn ofer fyfyrdod;
I goeg druthio gwag draethod,
Swydd y glêr nis haeddai glod.

"Bendith, a melltith, a mawl,—a gogan,
A gau gerdd ragrithiawl;
'R un tafod yn gwneud deu-fawl!
Dyna arwyddion dynion diawl.

"Euog a rhanog â rhei'ny—a fûm,
Wyf yma 'n chwennychu
Adferawl edifaru
Am ffolion arferion fu.

---

* Y mae ychwaneg na dau Benmaen yn Meirionydd. Y mae yr enw Penmaen Ucha' oedd ar amaethdy yn nghymydogaeth Dolgellau wedi ei newid erbyn hyn i Penmaen *Cliffe*. Gan i'r fan ddyfod i feddiant Saeson, nid yw i synu ato yr arddodwyd y rhan-enw Saesneg hwn yn lle yr un Cymraeg. Ond y mae gwaith Cymry yn galw eu tai ar enw Saesneg, mewn rhan, neu yn gwbl, yn wrthuni dybryd. Y mae y Penmaen Ucha' wedi ei chwalu er's blynyddoedd yn ol, a rhan o'r neuadd a ddyga'r enw Penmaen *Cliffe* wedi ei godi ar ei safle.

Digitized by Google

"Bu 'mron y cyfion a'i cyfyd—o'r swydd,
Nyth i'r sarff wenwynllyd;
Trof hi allan, freu-lan fryd,
Drylliaf ei hwyau drewllyd.

"Paul glau ár eiriau a roes,—yn fynych,
Yn f' enaid ddychryn-loes;—
'A hauo dyn hyd ei einioes,
A feda ef wedi oes.'

"Ni chwanegais, llais llesol,—yn hela
Fy nhalent ysbrydol,
Ond ei chuddio, ffieidd-dro ffol,
Yn 'y naiar annuwiol.

"Gochelaf, ciliaf rhag caled—godwm
Gyda'r byd sy'n cerdded;
Ceisiaf, newyddaf nodded,
Ganlyn Crist, goleuni Cred.

"O'r Eglwys gymwys, deg ammod,—ferth
Briodferch y Drindod,
Carwn, dymunwn fy mod
Yn oreu-lan wir aelod."

"T. LLWYD."

Digitized by Google

# PERSONAU.

---

## LEWIS YWAIN, Y BARWN.

Nid yw yn ymddangos y gellir nodi yn fanwl ymha le y ganed y gŵr hwn, o ba un y disgynodd cryn nifer o deuluoedd o urddas. Ond y mae yn ymddangos iddo fod yn byw yn Nolgellau dros ryw hyd, ac nid annhebyg mai yn y dref hon, neu'r gymydogaeth, y cafodd ei eni. Canys yn ei âch-restr, nodir ei daid, o du ei fam yn un o'r dref, a thebygol mai Dolgellau a feddylir. A chyfeirir ato gan Mr. Lloyd, Clochfaen,* fel Meurig ab Ieuan y dref Dolgelli. Dywed Mr. Wynne, o Beniarth, mewn un man yn y "Bye-gones"† iddo fod yn byw yn Nghwrt Plas yn Dre'; ond mewn lle arall yn yr unrhyw,‡ a hyny yn mherthynas â dyfyniad, y mae yn nodi Plas yn Dre fel ei breswylfod. Ac ymddengys mai cywirach dywedyd Plas yn Dre na Chwrt Plas yn Dre yn y cysylltiad hwn.

Y mae rhai pethau fel yn awgrymu iddo hefyd fod yn byw yn y Llwyn, gerllaw Dolgellau. Canys yn un peth, cysylltir ei enw â'r Llwyn, ac mae traddodiad yn dweyd mai i'r Llwyn yr aeth Rhydderch Benlas ato i fradychu rhai o Williaid Cochion Mawddwy a lechent o dan ei aden. Hefyd, cyfeirir ato feallai yn Achau'r Friog, yn Mhlwyf Llanfachraith, yn yr âch-lyfr gan Lewis Dwnn, fel Lewis ab Owen, o'r Plas yn y Llwyn. Ac yn nynodiant o gywydd marw-

---

* Gweler "History of Powys Fadog." Cyf. iv., t. 214—5. Hefyd gellir edrych tud. 44 o'r llyfr hwn.

† Gweler y "Bye-gones" am fis Mai, 1872.

‡ Am Ebrill y flwyddyn 1872.

nad Huw Arwystl iddo, dywedir, "Cywydd Marwnad Lewis Owen y Barwn, o'r Llwyn, gerllaw Dolgellau, yr hwn a lâs y Gwilliaid yn Nugoed Mowddwy 1555." Ond tebygol na fu y lle erioed yn ei feddiant, ac mai John Lewis Ywain ei fab a'i prynodd, yn ol fel y mynega Mr. Wynne. Gesyd yr âch-lyfr crybwylledig, ei ddisgyniad yn y llinell wrywaidd o Gwrgan, tywysog Morganwg. Eithr dodir ei haniad, yn yr unrhyw linell mewn âch-ysgriflyfr o gasgliad y Parch. Edward Jones, gŵr eglwysig yn Llandegai, Swydd Gaernarfon, o Meurig, brenin Dyfed. Ond y mae'r ddau, yr âch-lyfr a'r âch-ysgriflyfr yn gosod ei ddisgyniad yn y llinell fenywaidd o Bradwen, tad Ednywen ab Bradwen, un oBymtheg Llwyth Gwynedd. Ond er yr haniad uchel hwn, dywedir * fod amgylchiadau ei deulu y fath pan oedd yn blentyn nes ei harweinid gan ei fam ar hyd heolydd Dolgellau i gardota. Eithr nodir hefyd mai ar awdurdod teulu Nannau y dywedir hyny, rhwng y rhai â theulu y Barwn yr oedd gelyniaeth chwerw yn bodoli. Ond pa fodd bynag am y tlodi honedig, cyfododd i sylw ac urddas mawr yn ei wlad, a bu mewn swyddau uchel a phwysig,—yn Rhag-ystafellydd Gogledd Cymru; Barwn Trysorlys Caernarfon; Ceidwad Rholiau Swydd Feirionydd; Uchel Sirydd Swydd Feirionydd, yn y flwyddyn 1546 a 1555, a Marchog yr unrhyw Swydd yn y senedd a ymgyfarfu ar yr 8fed o Dachwedd 1547; y 1af o Fawrth 1552—3; yr 2fed o Ebrill 1554, a'r 12fed o Dachwedd 1554.

Cyfarfu y gŵr hwn â'i angau trwy ddwylaw llofruddiog Gwilliaid Cochion Mawddwy, yn Nugoed Mawddwy, mewn lle a adwaenir wrth yr enw Llidiard y Barwn, ar yr 11eg o Hydref, 1555, ac y mae y digwyddiad gwaedlyd a chreulon hwn yn cael ei gadw o hyd ar lafar gwlad. Yr oeddid wedi barnu nifer o'r Gwilliaid hyn i'r crogbren, ond mam un o honynt a daer erfyniodd am arbediad bywyd ei mab, ond yn hollol ofer, a mynodd y gyfraith ei ffordd yn drylwyr. Pan welodd y fam nas gwrandawai y Barnwr ar ei deisyfiadau, yn ei chynddaredd dialgar a'i gorphwylledd torcalonus, dynoethodd ei mynwes, gan ddywedyd wrtho, "Bu rhai yn sugno y ddwy fron felen yma a olchant eu dwylaw yn ngwaed dy galon." Ond er mor ysgeler y bygythiad cythruddog, cafodd ei gyflawni i'r llythyren ymhen amser wedi hyn, fel y ceir dangos wrth roddi hanes y llofruddiad fel yr elir ymlaen.

Adroddir hanes ei laddiad gan ei orŵyr, sef yr Hynafiaethydd

---

* Gweler y "Byegones" am Hydref, 1872.

Digitized by Google

Robert Fychan o'r Hengwrt, i'r ystyr hwn:—Yr oedd Lewis Ywain, Ysw., Rhag-ystafellydd a Barwn Trysorlys Gogledd Cymru, mewn hawl ac ymddiried mawr yn amser y brenin Harri yr 8fed, ac Edward y 6ed, a'r frenhines Mari, fel yr ymddengys trwy eu llythyrau dan eu llaw-ysgrifen eu hunain, cyfeiriedig ato ef a John Wyn o Wydir ab Mredydd o Wydir, Ysw., yn cyffwrdd o barth heddwch a llonyddwch llywodraeth y wlad. Megis dal a chosbi cyflafanwyr a hèrwyr [y rhai o amser* y rhyfeloedd cartrefol rhwng Caerefrog a Chaerwerydd a heidient yn y wlad, ac heb fyth adael heibio ysbeilio, llosgi tai, a llofruddio dynion. Ac yn gymaint a'u bod yn dra lliosog, darfu iddynt yn aml yru minteioedd mawrion, weithiau i'r nifer o gant a mwy o anifeiliaid, o un wlad i'r llall ar ganol dydd, fel yn amser rhyfel, heb ofn na chywilydd, tosturi, na chosbedigaeth, er llwyr andwyaeth y rhai tlotaf].

A hwy yn nghyflawniad y ddyledswydd, gofynedig yn rhai o'r llythyrau hyny [wedi eu hawdurdodi i godi gallu y gwledydd i'w cynorthwyo, ac hefyd i gynal brawdlysoedd carchar-drosglwyddiad pan fai achos yn gofyn] a godasant lu mawr o wŷr tàl a grymus, a chymerasant ar fin nos Nadolig, fwy na 80ain o gyflafanwyr a herwyr, y rhai a gosbasant yn ol natur eu beiau, fel y dywedodd Syr Jo: Wyn o Wydir, wrthyf lawer gwaith [awdwr hanes teulu Gwydir, yr hwn a fu farw y 1af o Fawrth 1626, tebygol 1626—7], ac wyr y John Wyn blaenorol, Barwnig. Gwelais a darllenais y llythyrau y dywedwyd am danynt yn flaenorol, ac y maent eto ar gael yn nhy Gwydir. Wedi hyny, y dywededig Lewis Ywain, ac yntau yn uchel sirydd Swydd Feirionydd, a chanddo achos i fyned i frawdlysoedd Swydd Drefaldwyn, i gytuno âg Arglwydd Mawddwy o barth priodas ag oedd i gymeryd lle rhwng John Ywain, ei fab, â merch y dywededig Arglwydd Mawddwy; a gyfarfuwyd ar ei ddychweliad gan giwaid ysgeler o ladron a herwyr, y rhai oeddynt yn gwylio ei ddyfodiad yn nghauad lwyni Mawddwy, ac wedi tori i lawr goed hirion i groesi y ffordd a rhwystro ei fynediad, a phan ddaeth i'r man, gollyngasant ato gawod o saethau, a suddodd un o honynt yn ei wyneb, yr hon a dynodd allan â'i law, ac a'i torodd; yna syrthiasant arno gyda'u gleifiau a'u gwaewffyn, ac a'u lladdasant. Ffodd ei wŷr ar yr ymosodiad cyntaf, gan ei adael heb neb gydag ef ond yn unig John Lloyd o Geiswyn, ei fab yn nghyfraith, yr hwn a'i hamddiffynodd nes y cwympodd i lawr fel marw, lle ei cafwyd gydag uwchlaw 30ain o archollion gwaedlyd yn ei gorff. Cyflawnwyd y llofruddiaeth

---

* Diameu fod i Williaid Mawddwy ddechreuad boreuach, pa nifer bynag a ddichon gael eu hychwanegu atynt yn amser y rhyfel cartrefol a nodwyd.

Digitized by Google

greulawn hon tua chalangauaf yn mlwyddyn ein Harglwydd 1555. Ac yn fuan gwedi, daliwyd a dienyddiwyd y llofruddion gan mwyaf; ond diangodd ychydig o'r tir, ac ni ddychwelasant byth. Ac felly gyda cholliad ei fywyd, a enillodd dangnefedd a llonyddwch i'w wlad, yr hyn, moliant i Dduw, yr ydym yn ei fwynhau hyd y dyddiau hyn.

Y mae y traddodiad canlynol ar gael mewn hen lyfr ysgrifenedig o eiddo y diweddar Dafydd Elis, gŵr eglwysig a anwyd yn Hafod-y-meirch neu Gwanas, o barth ei fab-yn-nghyfraith ar adeg y llofruddiad, a gwaith y lleiddiaid yn cyflawni bygythiad creulawn eu mam:—"ac un o honynt a daflodd ei fâb ynghyfraith dros y clawdd i fewn cae, a blaen ei waewffon, ond gwregys oedd am ei ganol a ataliodd y waewffon rhag trywanu ei gorph, fel na dderbyniodd ddim niwaid namyn ei ddychryn felly efe a lechodd yno nes eu myned ymaith. Yn y cyfamser, tra yr oeddynt yn golchi eu dwylaw yngwaed calon y Barwn, yn ol gorchymyn eu mam, efe a glywodd un o honynt yn dywedyd wrth yr hwn a'i taflasai drosodd, "a wyt ti yn sicr ddarfod iti ladd y cyfreithiwr côch, os nad do fo fydd sicr o'n crogi ni oll:" ebr y llall, "os nas lleddais ef, ni wnaf byth goel ar fy llaw," ac ar hyny ymadawsant. Ond y cyfreithiwr côch a fynodd grogi y rhan fwyaf o honynt, yn ol eu cyfiawn haeddiant."

Ceir ychydig ychwanegiad o barth yr helynt gwaedlyd hwn yn yr "Henafion Cymreig," lle y mynegir i un o'r llofruddion hyn gofio nad oeddynt wedi cyflawni bygythion eu mam, ac iddynt o'r herwydd droi yn eu holau o tua chwarter milldir o'r fan y gorweddai, a brathu eu cleddyfau i'w gorff, a golchi eu dwylaw yn ngwaed ei galon. Nid oedd arnynt eisiau niweidio John Llwyd o Geiswyn, ei fab-yn-nghyfraith; a dywedasant wrtho, "Cerdd di i ffwrdd, y Llwyd main;" ac y mae nodyn yn yr unrhyw "Henafion" yn mynegu mai yr achos o'r teimlad da hwn oedd, i un o'r Gwilliaid, yr hwn oedd yn hynod gyflym ar ei droed, fod trwy amryw barthau o'r wlad dan nawdd y Llwyd hwn, fel pen-campwr mewn rhedegfeydd.

Ymddengys oddiwrth draddodiad a adroddid gan hen ŵr yn hâf y flwyddyn 1885, yr ymsynid fod y John Llwyd hwn i raddau o blaid arbed y Gwilliad yr achlysurodd ei gollfarniad y fath fygythiad gwaedlyd gan ei fam. O leiaf, dywedai yr adroddydd, wrth fynegu o barth y traddodiad, i'r ystyr fod y barwn am ei golli, pan oedd yn sefyll ei brawf yn Nolgellau, ond fod "Lloyd" braidd am ei arbed. Ac ymddengys mai hyn a olygid yn y traddodiad fel rheswm am ei arbediad. Nid oeddid yn sôn yn yr unrhyw adroddiad o'r traddodiad hwn am dafliad mab-yn-nghyfraith y barwn ar flaen gwaewffon dros y

clawdd. Eithr mynegid am fygythiad cythruddog y fam wedi y dedfrydiad o'i mab i'w golli. Gan hysbysu hefyd y gwylid pawb a dramwyent ar hyd y ffordd gan y Gwilliaid, ac ddarfod wedi deall o honynt fyned o'r ddau hyn dros Fwlch y Fedwen, iddynt eu gwylied yn dyfod yn eu holau, a thori coed ar draws y ffordd, fel nas gallent yru eu ceffylau ymlaen, er mwyn gallu eu dal. A phan y daethant i'r fan, iddynt ddywedyd wrth "Lloyd" lân am fyned heibio, ond y lladdasant y barwn. Nid oedd yr adroddydd, fel yr ymddengys, yn gwybod amcan pwy oedd y barwn a laddasid fel hyn, ond mai rhyw farwn neu gilydd ydoedd. Mynegai i'r Gwylliaid, wedi cychwyn o honynt ymaith ar ol ei ladd, ddywedyd wrth eu gilydd nad oeddynt wedi cyflawni gorchymyn eu mam, ac yna droi yn eu holau i'w wneuthur, sef golchi eu dwylaw yn ngwaed ei galon.

Fel y gwelir oddiwrth a nodwyd eisoes, cyfeiria Robert Fychan, o'r Hengwrt, at fab-yn-nghyfraith y barwn, o dan yr enw John Lloyd. A chyfeirir ato yn yr "Henafion Cymreig" wrth yr un enw mewn ystyr trwy ddodi sillebiaeth y cyfenwad yn Llwyd yn lle Lloyd. Ond y mae amheuaeth wedi cyfodi pa un ai John ai Ieuan oedd ei enw yn gywir. A chyfododd yr amheuaeth, yn ol a ddywedir, yn y "Cambrian Quarterly Magazine," am fis Hydref, y flwyddyn 1831, yn herwydd tebygrwydd y talfyriadau o John ac Ieuan yn yr hen ysgrifeniadau. Nodir hefyd fod y dywededig Robert Fychan, o'r Hengwrt, mewn ysgrif ddyfynedig ynddo, wrth roddi priodasau merched Lewis Ywain (sef y barwn) yn sylwi ddarfod i "Catherine briodi Dd. Lloyd, al's *(alias)* Jon Lloyd, o Geiswyn, Ysw." Sylwir ynddo hefyd i'r ystyr, yr ymddengys enw y dyn hwn yn sicr mewn rhestr o Ynadon yr Heddwch dros Swydd Feirionydd, yn yr Ysgrif Harleiaidd, a rifwyd yn 1218 (pa Ysgrif a gasglwyd i wasanaeth Arglwydd Burleigh, enwog brifweinydd y frenhines Elizabeth) fel "Joh' es Dd. Lloyd:" er hyny, gan fod yr enw Ieuan yn hollol anadnabyddus yn Lloegr, y gallai yr un a adysgrifenodd y rhestr i gyfrol Arglwydd Burleigh yn hawdd ei gamgymeryd am John.

Gellir sylwi yr enwir y gŵr hwn mewn âch-restr ysgrifenedig ger fy mron, o hen deulu Cae'r Berllan, yn Ieuan ap David Lloyd, canys gosodir ynddi i Catherin, y degfed o blant y barwn, briodi Ieuan ap David Lloyd, o Geiswyn, Ysw., Sirydd Meirionydd yn y flwyddyn 1558 a'r flwyddyn 1562. Ac yn Achau Y Plas Yngheiswyn, yn yr Ach-lyfr gan Lewis Dwnn, rhedir âch-restr teulu y lle hwn yn ol at Beli Mawr trwy roddi yn nghyntaf yr enwau dilynol o Ieun ab Dd Lloyd, Ysw.*

* "Esge." ydyw y talfyriad yn yr âch-lyfr.

ab Ieun ab Dd Lloyd ab Llewn ab Gronwy...... Ac feallai fod yr âch-restr hon yn dechreu yn neu tua'r flwyddyn 1601. Hefyd ceir mewn lle arall yn yr unrhyw âch-lyfr* ddarfod i Catrin, un o ferched Lewis ab Ywain y barwn, briodi "Ieun ab Dd. Lld. o Geiswyn."

Yn y rhestr o Siryddion Meirionydd, gan y diweddar Mr. Breese, yn ei lyfr "Kalenders of Gwynedd," ceir yr enw John David Lloid fel Sirydd yn y flwyddyn 1549—50, yn adeg teyrnasiad Edward VI. Ac hefyd am y flwyddyn 1561—2, yn nheyrnasiad y frenhines Elizabeth. Ac fel hyn, y mae yn ymddangos mai yr un person ydyw John Llwyd yr Henafion Cymreig, a'r John Lloyd y cyfeiriwyd ato gan Robert Fychan o'r Hengwrt, yn yr hanes a rydd o barth lladdiad y barwn, a'r Ieuan ap David Lloyd, a geir yn yr âch-restr grybwylledig o hen deulu Cae'rberllan, ynghyd âg un o'r ddau Ieun ab Dd Lloyd a nodwyd, allan o'r âch-lyfr gan Lewis Dwnn, ac mewn lle arall yn yr unrhyw fel Jeun ab Dd Lld o Geiswyn. Hefyd ymddengys y ceir ei enw yn llyfr Mr. Breese, fel John David Lloid, ac y cyfeirir ato o dan wahanol ddulliau enwol yn yr hyn a nodwyd allan o'r cylchgrawn enwedig. O barth y gwahanol ddulliau o Ieuan a John nid yw yn ymddangos y gellir penderfynu paham yr amrywiaeth. Dichon modd bynag, mai Ieuan ei gelwid ar y cyntaf, ond cafodd ei adnabod wrth y dynodiant John, fel ei enw, neu ei ran enw, ar un adeg ar ei oes.

Cyfeiriwyd yn flaenorol at achau y Friog, yn mhlwyf Llanfachraith, a cheir yn ddilynol eu gosod gerbron y darllenydd. Ond yn gyntaf, y mae yn deg sylwi yr ymddangosant, fel y maent gerbron, yn anghyflawn, pa un bynag a yw hyn i'w briodoli i adysgrifeniad o honynt er's amser yn ol, ai ynta yw'r diffygion yn eu ffurf adysgrifenedig a nodwyd yn bodoli yn yr âchlyfr. Modd bynag, ceir yn yr achau hyn y dynodiant sy'n achlysuro yr ymsyniad y gall y cyfeirir ynddynt at Lewis Owen, y barwn, fel trigianydd y Llwyn, ger Dolgellau. A'r dynodiant hyny yw y canlynol, sef "Lewis ab Owen o'r Plas yn y llwyn." Ond wele yr achau hyny ynghyd â'u penawd:—

"LLAN VACHRETH Y VRIOG."

"Plant Morys ab uwmphrey ab Jeun ab Howel ab Gr Robt John,

* "Heraldic Visitations of Wales." Cyf. II. t. 257.

Digitized by Google

Cadr Wm John, Gwen, Mary, Elin. Mam yrhain Mary v: Richd Nanney o Gevn Deuddwr. Mam Elsbeth v: Lewis ab Owen o'r Plas yn y llwyn. Plant Wmphrey ab Jeun ab Howel Morys, Jenkn Jemwnt, Wm Harry, Mallt Marred. Mam yrhain Catrin."

Yr ydys wedi sylwi eisoes y gesyd yr âch-lyfr* gan Lewis Dwnn, ddisgyniad y barwn, yn y llinell wrwyaidd, o Gwrgan, tywysog Morganwg. Ond fod yr âch-ysgriflyfr o gasgliad y Parch. Edward Jones, yn dodi ei haniad yn y llinell hono, o Meurig, brenin Dyfed. Rhedir ei achau yn ol at Gwrgan yn yr âc-hlyfr a nodwyd, yn y wedd hon yn flaenorol i roddiad y priodasau, gan ddechreu yn John Lewis Ywain ei fab hynaf:—

"John mab agaer Lewn ab Own ab Howel ab Llewn ab Gr ddu ab Jeun ab Cadwgn ab Jeun ab Madog ab Cadwn Vawr ab Gr ab Cadwn ab Llewn ab Ivor ab Llewn ab Gwrgan tywysog Morganwg ag un o pump Brenhinllwyth Cymru a Barwn Caer Dyf."

Yn y rhan o'r âchlin ddyfynedig allan o'r âch-lyfr gan Lewis Dwnn, gosodir "Ivor" yn ŵyr i Gwrgan, tywysog Morganwg. Ond yn yr âchlin o gasgliad y crybwylledig Barch. Edward Jones, gosodir un o'r enw "Ivor" yn dad i un o'r enw Gwrgan, ond heb ddangosiad pwy ydoedd y Gwrgan hwnw. Hefyd yn yr âchlin a nodwyd ddiweddaf, ceir enw tri Gruffydd rhwng John Lewis Ywain, mab y barwn, a Gwrgan. Eithr yn y llall nid oes namyn dau Gruffydd rhwng John Lewis Ywain a Gwrgan tywysog Morganwg. Ac oddieithr hyn, y mae yr enwau sydd rhyngddynt yn y llinell wrywaidd yr un yn y ddwy âchlin, ond nid ydynt yn yr un drefn, a thalfyrir rhai o honynt yn y naill, fel y gwelir. Y boncyff-dad yn y llinell wrywaidd yn yr âchlin gan Lewis Dwnn ywGwrgan,tywysogMorganwg ond yn yr âchlin arall Meurig, sef Meurig brenin Dyfed (Demetia) a roddir ar ben y llinell. Ac fel disgynyddion iddo hyd at y crybwylledig Ivor, ceir enwau saith o bersonau, sef yn gyntaf Saul Felyn, yna Cynan Cynhysgwydd, ac yn ddilynol Cynfyn, Seisyllt, Llawrodd Dyfed, Collwyn, a Gwyn. Ymddengys hefyd y gosodir yr Ifor yn fab i Gwrgan mewn âchlin arall a redir yn ol at Meurig, brenin Dyfed, fel hyn: "Llewelyn ap Ifor ap Gwrgan ap Gwyn."

Nodir o barth y "Cadwgn ab Jeun ab Madog" a geir yn yr âchlin gan gan Lewis Dwnn, i'r ystyr ganlynol:—Priododd boneddiges o Ogledd Cymru, merch "d'd ap Ieuan Van" (Dafydd ap Ieuan

---

* Sef yr "Heraldic Visitations of Wales."

Digitized by Google

Fychan) o Wyddel Fynydd, yn mhlwyf Tywyn, un o wŷr penaf y wlad hon, a gwerthodd ei diroedd yn Nghydweli, a daeth i fyw i Ogledd Cymru at gyfeillion ei wraig, lle y prynodd diroedd yn Nghantref Talybont ac Ystumaner, a gadawodd yr unrhyw i Ifan ei fab o'i ddywededig wraig.*

Yn awr, pa un bynag ai o Meurig brenin Dyfed, ai o Gwrgan, tywysog Morganwg yr hana Lewis Ywain, y barwn, yn ei linell wrywaidd, tebygol y ceir yn y sylw hwn hysbysiad am ddyfodlad un o'i hynafiaid yn y llinell hono i gysylltiad priodasol âg un o rianod bro Gwynedd. Canwyd cywyddau marwnad i r barwn gan y beirdd, Ywain Gwynedd, Huw Arwystl, a Syr Ywain ab Gwilym. Ac yr ydys wedi cyfleu y cywydd o waith y blaenaf a enwyd eisoes, ac yn awr ceir yn ddilynol ddwyn gerbron yn gyntaf gywydd (llinell yn eisiau) o eiddo Huw Arwystl, at ddynodiant pa un y cyfeiriwyd eisoes:—

Megis pan lâs oer-gas wedd,
Brawd gain y brïwyd Gwynedd;
Ni charodd Duw chwerwedd dig,
Laddiad Abel oedd debig;
E wnai hyn gwaith ein hên gâr,
I Dduw felldigo'r ddaear;
Ag ail dialedd goel dulas,
Drwy anian llid dwr Noe'n llâs;
Ni ddug wedi'r ddig adwyth,
Dir na phren draian eu ffrwyth;
Nid oer oedd ym wedi'r ddau,
Ond ail golled Dolgellau;
Mawr fu weled marw fel-was,
Am farwn llwyd mwy fu'n llâs;

---

* Nodyn yn yr "Heraldic Visitations of Wales" cyf. II, t. 236. Ceir yn yr un llyfr a thudalen nodyn mewn cysylltiad â Llewn. ab Ifor ab Llewn. ab Gwrgan, tywysog Morganwg, i'r ystyr hwn:—Achyddwr arall a ddug y llinell hon oddiyma fel hyn:—"Llewelyn ap Gwrgan ap Gwyn, disgyniad yr hwn a olrheinir i benaeth a enwir Meurig, arglwydd Dyfed. Y mae holl ganghenau y teulu hwn ymron yn dwyn pais-arfau a briodolir i Meurig, asur. cwpl rhwng tri cheiliog, ariant; ac y mae yr awduron goreu yn hòni ei ddisgyniad oddiwrtho. Gosodir allan yn yr âchlin uchod y blodeuai Meurig yn y flwyddyn 600, ond oddieithr y gadawyd llawer cenhedlaeth allan yn nisgyniad Lewys ap Owen oddiwrtho (dim ond tri ar hugain yn cael eu crybwyll) rhaid ei bod yn ddiweddarach; neu mai y disgyniad gwirioneddol yw yr un a roddir uchod, o Gwrgan ab Ithel tywysog Morganwg yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 1030. Diau i mi weled achau teulu yr Oweniaid yn cael eu holrhain i Iestyn ab Gwrgan, un o Bum' Llwyth Brenhinol Cymru." Tad Iestyn ab Gwrgan oedd y Gwrgan ab Ithel uchod.

Digitized by Google

Pan laddwyd poen luydd-waith,
Lewys gwae! ni lesgau'n iaith
Och! Fair wen och fwrw Wynedd,
Ysgwier byth is gro bedd;
Och farw adwyth, och friw-darf!
Siryf liw nos, ar flaen arf!
Och Dduw lwyd fyth chwydd-lid fu,
Fwrw dichell i'w fradychu;
Hwynt hwy'n ei gael yn ael nos,
Yntau yn wr hwnt yn aros;
Ni chai wr tal o'ch o'r twrn,
Einioes wedi nos Sadwrn;
Oer yw dolur y Dalaith,
Ni chai wŷr gwir och o'r gwaith!
Gwae 'mron dan gofion dyn gwych,
Gurio calon gwraig haelwych;
O llâs gwae'n plith llesgau'n plaid,
Llawr plas dawn lloer Pilstyniaid;
Mae'n drist a minau drostaw,
Mair a'i gŵyr trist Margred draw;
Meibion gwych am benaig chwyrn,
A wna'r coed yn wŷr cedyrn;
Yn winwydd e enynnir,
O ferched hwn fraich y tir;
E gyfyd tw'r gafod hon,
Gadeiriau'n goed o'i wyrion;
Fe ddaw'r glyn fu dda i'r gler,
Yn des goleu disgwilier;
Ni bydd y dewr winwydd draw,
Encyd awr yn cadeiriaw;
Awr flin yn ar flaen anwyd,

* * * * * * * * *

Cawsai eur-feistr cysur-fawr,
Gan Dduw'n fwyn gynnyddu'n fawr;
Dysg frŷ i dwysgo i'w fron,
Y da'r golud a'r galon;
A'r swydd mewn urddas mawr,
A driniodd hyd yr unawr;
Llwyr wae ni 'n llawr ei neuadd,
Roi gwn du 'n lle'r gwin-dai'n lladd;
O llas gwalch lliosawg wedd,
Llas gweiniaid a lles Gwynedd;

Digitized by Google

Fe las gynt heb falais gwaeth,
Y rhai goreu 'u rhagoriaeth;
Bu raid ucho bradychwyd,
Nos iau i'w ladd Iesu lwyd;
Oer yw adwyth a'i rydid,
Arthur a las wrth ryw lid;
Fo las pen Cymru flysig,
Ym Muallt wen amwyll dig;
Ac oer flin Ector flaenawr,
O Droia las draw i lawr;
E las arglwydd lŷs eur-glos,
Blin waith mab Ieua liw nos;
Lladdiad un fath lludd dawn fudd,
Fu oer anhap Feirionydd;
Och Fair hael wych frau helynt,
Am wyrth a gâs Martha gynt;
Lles yw oedd gael llysieuyn,
O farw ddoe 'n fyw a ro'i ddyn;
Och am groes wych yma i gred,
I gael einioes gu laned;
Gwae fi na thygia 'i fywyd,
Ddoe am ryw help wedi mrhyd;
Och am oen o chymynwyd,
Obry mal oen Abra'm lwyd;
Och fi! na bum uwch ei fedd,
Accw 'n deilwng cyn dialedd;
Ni ddaw 'n lles roi Dduw 'n llaswyr,
Gwedi 'n lladd i gyd yn llwyr;
Di doi fyn'd dy dâd i'w fedd,
Tyr'd Sion tro des i Wynedd;
Na chwsg yn nechreu ysgol,
Nad oeri 'n iaith draw 'n ei ol;
O meddyli am ddialedd,
Nad oll ei gael yn lle gwedd;
Na werth Wynedd wrth anwir,
Na chur goed oni chair gwir;
Llwyddaw er coeliaw celwydd,
Nid oes fab ond an'aws fydd;
Nad o gwnei'n iawn d'egni'n wyllt,
Ni ddaw'n gadarn ddyn gwaed-wyllt;
Wedi'r un-dyn da rwndal,
D'aros di'n dawn drosto'n dâl.

Huw Arwystl a'i cânt.

Digitized by Google

mae yn ymddangos oddiwrth linellau yn y cywydd mai yn y nos, neu yn hytrach feallai ar fin nos y lladded y gŵr y canwyd y cywydd marwnad hwn iddo. Y llinellau cyfeiriedig atynt, ydynt yr ail a'r drydedd o'r rhai dilynol:—

"Och farw adwyth, och friw-darf,
Siryf liw nos ar flaen arf;"
* * * * *
"Hwynt hwy'n ei gael yn ael nos,
Yntau yn wr hwnt yn aros."

Yr ydys wedi nodi eisoes ddarfod canu cywydd marwnad iddo gan Syr Ywain ab Gwilym. Nid yw y cywydd hwn yn gyflawn fel y mae yn ysgrifenedig o'm blaen. A'i benawd yw:—

"Cywydd Mar. Lewys Owen y Barwn, heb y dechreu."

Ond wele gryn gyfran o hono:—

* * * * *

Barwn a lâs breiniol îr,
Wr diarswyd ar deir-sir;
Lewys sad wiwlwys ydoedd,
Ab Owain gynt benaig oedd;
Siryf ar war sir fawr wych,
Swyddog calonog glanwych;
Ustus fu ystofes fil,
Ystod gwn ystâd gynil;
Gwae fil oedd o gau ei fedd,
Goresgynwyd gras Gwynedd;
Yn rhad o chafad och wyr,
E ddaw'n brid i ddwyn bradwyr;
Glain odiaeth un glân ydoedd,
A'i grys yn waed gresyn oedd;
Gwae yma feirdd mewn gwin fu,
Gwae'r gweiniaid rhag oer ganu;
I'r cywir cryf rhag gair cras,
Ei ddaearu oedd ddiras;
F'aeth synwyr faith es enyd,
I gôr Dolgellau i gyd;
F'aeth dawn a gair fyth dan gudd,
Yn y dderw-gist ddaear-gudd;

E fu irad am Farwn,
N' buasai help am bwys hwn;
Chwarddent ladron hyd....
Wylent gywiriaid eilwaith;
Eu chwerthin fel drycin draw,
Adre'n ol a dry 'n wylaw;
Duw wyn i fil dyna fâr,
Dwyn gras Duw dan grys daear;
Ni welant edrychant draw,
O dir alaeth drwy wylaw;
Wyneb i neb yn ei ol,
Ar sessiwn mor rasusol;
Pen barn oedd pwy 'n bwrw nod,
Peraidd gwestiynau parod?
Oer yna fu ei ran fo,
Roi pereiddrwydd i'r pridd-ro;
Bu yn dysg a bôn a dawn,
Ben cofiawdr yn baun cyfiawn;
Nid â ni bu dan y bedd,
Y fath hwn fyth o Wynedd;
Beibler oedd heblaw yr un,
A dysgeiddiad dysg yddun;
Ni ddoi o'i fin air trin trigl,
Angrhyno ynghoronigl;
Ni chaid hefyd o'r byd bach,
Gwrdd gwrel ddyn gerddgarach;
Digiais wrth ffordd y Dugoed,
Dwyn yr un di wan erioed;
Gwae ni'r awr ei gwyno'r ys,
I Williaid gael eu h'wyllys;
Gwae Farged trymmed fu'r traidd,
Powls don wawr Pilsdwn iraidd;
Mae iddo lwyn mal Adda,
Meibion, merched, wyrion da;
Un gwrol sy'n ei garu,
Meddai bawb y modd y bu;
Sion Wyn ei aer sŷ'n ei ol,
Pen teiriaith un naturiol;
O'r ddâr y cair y dderwen,
Ac o'r hydd e gair carw hen;
A'r hydd ar ben mynydd maith;
O'i Elen y da'i eilwaith;

Digitized by Google

O'r eryr y cair ar war coed,
Eryr ifanc araf-oed;
O'r llew y daw eur-lliw don,
Ail toriad llewod hirion;
Y gwalch enwog gweilch un-air,
Y pysg y gleisiaid a'u pair;
Mae iddo goed nid modd gwan,
* * * * * *

Gwir yw'r ddiareb i gyd,
A didwyll y mae'n dywedyd;
Neb nid call er deall dau,
Yn yr ing yn awr angau;
Rhodau y sydd a'i rhaid son,
Ddwy a aned i ddynion;
Rhod ffortyn ni estyn oes,
Rhai adwanai rhod einioes;
Un a nŷdd yn rhŷdd yr hawg,
Edef ar gogail oediawg;
Anodd er hyn lle nŷdd rhod,
Ochel tynghedfen uchod;
E droi'r anhap drwy'r ynys,
Dros yr awr nid ai'r Syr Rŷs;
Da i'n y rhoes doe i'n rhaid,
Duw a ran da i'r enaid;
Da iawn wyd un Duw o Nef,
Dial golled Dolegellef."

Syr Owain ap Gwilym a'i cânt.

Ymddengys oddiwrth y ddwy linell ganlynol sydd yn y rhan-gywydd ag ydys newydd roddi, ddarfod i Lewis Ywain y Barwn gael ei gladdu yn Eglwys Dolgellau. Y llinellau hyny ydynt :—

"F' aeth synwyr faith es ennyd,
I gôr Dolgellau i gyd."

GRUFFYDD NANNAU, A'I GWERYL A HIL LEWIS YWAIN Y BARWN.

Yr ydys wedi nodi eisoes y bodolai gelyniaeth chwerw rhwng teulu Nannau â rhai o ddisgynyddion y barwn hwn. Ac un o deulu Nannau ydyw y Gruffydd Nannau sydd â'i enw yn y penawd. Ac yn ol

a nodir yn yr "Archæologia Cambrensis,"* yr oedd yn fab hynaf Huw Nannau (Hugh Nanney) o Nannau, Ysw., ac yn cynrychioli Swydd Feirionydd yn y Senedd a ddechreuodd ar y 19eg o Chwefror, 1592-3. Ac yn ol yr un awdurdod yr oedd Lewis Ywain (Owen) a Harri Ywain ag y mae eu henwau yn y Deisyfiad a geir ychydig yn mhellach ymlaen, yn feibion i Johu Lewis Ywain, Ysw., o'r Llwyn, ger Dolgellau, mab y dywededig farwn. Enwir eu tad hefyd o'i fewn, a hyny fel "John Owen." Ac yr oedd yntau yn farchog dros Swydd Feirionydd, yn y Senedd a ymgyfarfu ar yr 8fed o Fai, 1572, yn ol a ddywed yr unrhyw awdurdod, yr hon oedd y bedwaredd flwyddyn ar ddeg o deyrnasiad y frenhines Elizabeth. Yn mherthynas i'r Senedd hon, mynegir mewn nodyn yn ngodreu'r ddalen yn y "Kalendars of Gwynedd," tud. 116, ei gohiriwyd hyd y 18fed flwyddyn iddi, pryd ei gohiriwyd yn mhellach hyd y 23ain o'i theyrnasiad. Yr oedd John Lewis Ywain † yn sirydd Meirionydd yn y blynyddoedd 1565-6, 1572-3, ac 1589-90. A Lewis Ywain ‡ ei fab yn sirydd yr unrhyw yn y flwyddyn 1597.

Ystyrir mai at Arglwydd Lywydd Cyffindiroedd Cymru y cyfeiriai Gruffydd Nannau y Deisyfiad crybwylledig, a dynoda ei hun ynddo fel "Gruf. Nanney" o Faelan.

Rhed ei gynwys i'r ystyr ddilynol:—

"DEISYFIAD."

"Yn dangos‖ yn y modd gostyngeiddiaf i'ch anrhy. A.,§ eich deisyfydd gruf, Nanney o Faylan yn Swydd Feirionydd, Ysw. Yn gymaint ag y bu eich deisyfydd yn meddu yn gyfreithlon eisteddle, côr, neu le i benlinio o fewn eglwys plwyf Dolgellau, yn yr ochr ogleddol i gangell y ddywededig eglwys, penodedig i'ch deisyfydd trwy orchymyn a thrwydded y gwir Barchedig dad yn Nuw, esgob Bangor, fel yr ymddengys trwy y drwydded dan sel y glwys-ynad, ac ei fod hefyd yn lle yr arferai eich deisyfydd a'i hynafiaid benlinio & gwrando gwasanaeth sanctaidd er ys amser cyn côf. Felly y mae osgwel eich A., yn dda ddarfod i Lewes Owen a Harry Owen bon., yn

* Third Series. Cyf. X.

† "Kalendars of Gwynedd," t. 71, 2, 3.

‡ Eto eto eto.

‖ "Arch. Camb." Third Series. Cyf. X.

§ Golyga arglwyddiaeth—i'ch anrhydeddus arglwyddiaeth,

Digitized by Google

foneddwyr ieuainc gwylltion, cyndyn, ac afreolus [wedi dwyn casineb marwol er's hir amser at eich deisyfydd] ac hyd yma ar amryw droion trwy wahanol foddion ar gais John Owen, Ysw., eu tad, yr hwn hefyd sy' ddyn yn erlid eich deisyfydd â chasineb marwol, geisio dwyn oddiamgylch farwolaeth a dyrysedd eich deisyfydd, ac yn awr yn ddiweddar [heb fod yn alluog i ddwyn oddiamgylch eu malais eithaf] anfonodd y dywededig lewes Owen a Henry Owen, trwy y cais crybwylledig, am amryw o'u perthynasau, cyfeillion, a chydbleidwyr o wledydd eraill i'r nifer o xx neu xxx o wyr ieuainc dibris, enwau pa rai a lle eu preswylfod nid yw eich deisyfydd yn gwybod eto, ac yn nghymdeithas y coegwyr gorphwyllog hyn, ac amryw o rai anfad eraill y rhai sydd a'u henwau yn ysgrifenedig islaw, o ba rai y ffodd rhyw gymaint o'u preswylfeydd blaenorol o herwydd llofruddiaethau, ysgelerau a throseddau gwarthus eraill. A'r holl giwed hon wedi ymgynull yn y nos yn anghyfreithlon, a chanddynt wahanol fathau o arfau, megis, gleifiau, cleddyfau, llaw-ynau, ffyn hirion, &c., ar y xxv o Rhagfyr presenol pa un oedd ddydd Nadolig, [heb feddu ofn Duw o flaen eu llygaid nac yn parchu y cysegredigrwydd dyledus ac arferol ar yr uchelaf wyl hono am enedigaeth Crist ein Harglwydd a'n Gwaredwr, ond eto yn arddangos eu malais arferol tuag at eich deisyfydd] oddeutu dau neu dri o'r gloch ar ol haner nos, a aethant i mewn neu a dorasant yn agored yn modd mwyaf terfysgus a gwrthryfelgar, yr eglwys a ddywedwyd, ar pryd hwnw gyda bwyill a chymynau a dorasant i lawr gan lwyr ddyfetha pared-eisteddfa neu gôr lle yr arferai eistedd & phenlinio i wrando gwasanaeth sanctaidd, (pa un a osodwyd i fyny yno trwy drwydded y glwys-swyddog fel y dywedwyd yn flaenorol) ac heb foddloni ar hyn, y diwrnod nesaf yr hwn oedd ddydd St. Stephan, darfu i'r dywededig lewes owen & Harry owen ar gais y dywededig John Owen osod amryw o'u dywededig gymdeithion afreolus gydag arfau, mewn amrywiol dai yn nhref Dolgellau, i wylio eich deisyfydd neu rai o'i weision fel y deuai ef neu hwy i'r eglwys, ac i gynyg ychwaneg o sarhâd i'ch deisyfydd, ac heblaw hyn gan feddwl cyffroi eich deisyfydd i anghofio ei hun, y dywededig Harry Owen yn arfogedig â chleddyf byr & dagr, pethau anarferol o'u gwisgo yn y parthau hyny, yn yr eglwysydd, oni wneir pan fydd boneddigion yn ymdaith, a chyda hyny gan fod yn ei goeswisg a'i ddwbled heb unrhyw fantell (cymaint a hyny parotach i wneyd ymosodiad) a ddaeth i'r ddywededig eglwys Dolgellau, ac a eisteddodd yn y benlinfa lle yr oedd eich deisyfydd, megis y dywedwyd yn flaenorol, wedi cael ei benodi i eistedd a phenlinio gan y glwys-ynad, trwy yr hyn y gorfodwyd eich deisyfydd i benlinio am y diwrnod hwnw gyda pherson y plwyf. Ac ar ol i'r gwasanaeth derfynu, a'ch deisyfydd yn dyfod allan o'r eglwys,

Digitized by Google

canlynodd y dywededig Harri Ywain eich deisyfydd o'r tu ôl i'w gefn, gan arfer amryw eiriau cythruddol & chwerylus; ond ni wnaeth eich deisyfydd nac ateb na chymeryd arno glywed ei eiriau goganol a'i fôst, ac felly mewn rhan, o herwydd na roddodd eich deisyfydd ddim achlysur neu foddion tramgwydd neu gecraeth, ac mewn rhan oblegid bod y cynulliad o'r bobl mor fawr y diwrnod hwnw y dygwyd eich deisyfydd adref yn ddyogel, eto er hyn oll y maent yn parhau gyda'u gilydd er y pryd hwnw yn y cyfryw fodd anghyfreithlon, fel na feiddia eich deisyfydd ddyfod i eglwys ei blwyf, nac ychwaith gyrchu i'r ddywededig dref Dolgellau o barth gwasanaeth y brenin, heb warchodlu crŷf, neu ynte fod mewn perygl mawr am ei fywyd. Y pethau a grybwyllwyd o'r blaen yn ystyriedig; ac am fod y dywededig derfysgoedd, terfysg-bleidiau, a chynulliadau anghyfreithlon & eraill, a'r camymddygiadau a grybwyllwyd yn groes i gyfreithiau & gosodiadau ei fawrhydi y brenin & yn dra brawychus i bobl o ymddygiad gweddaidd, bid wiw gan eich A., ganiatau erlyniad, &c."

Ymddengys mai ymhen rhywfaint o amser ar ol ysgrifeniad y Deisyfiad ag yr ydys wedi ei roddi yr anfonwyd yr hèr-lythyr dilynol gan Gruffydd Nannau yn atebiad i un a dderbyniodd oddiwrth Lewis Ywain ag y ceir ei enw ynddo. Ceir yn yr hèr-lythyr ateb hwn enw brawd arall i Lewis Ywain, sef John Ywain, ac ymddengys ei fod yntau am wynebu Edmwnd Llwyd, cefnder i Gruff. Nanau. Nid ydys wedi gweled y llythyr herfeiddiol a achlysurodd anfoniad yr hèr-lythyr canlynol, ac felly nid oes ond ei roddi yma yn unigol:—

"HER."

"Mr. lewes owen, derbyniais lythyr yn dwyn eich enw, yn golygu fel yr ymddengys her i mi ac Edmond lloyd fy nghefnder. Yr wyf yn llwyr anhoffi, yn nghyntaf, eich dull o anfon, bod negesydd mor iselwael yn cael ei yru rhwng bon., mewn achos o'r natur hwnw, hefyd, fod y llythyr i'w roddi i mi ar g'oedd y farchnad, a'r holl dref i wybod ei gynwys cyn iddo ddod im dwylaw i; ac y mae yn fy marn i oherwydd hyny wedi ei gam drefnu. Gallwn yn briodol hefyd dramgwyddo wrth ei gynwys, gan ei fod yn anmherffaith yn mhob brawddeg, oblegid crybwyllwch am ychydig o ymrafael cydrhyngom, ond heb fynegi pa beth ydyw. Ac yr ydych hefyd yn gwneud Edmond Lloyd & John owen eich brawd yn gyfranogion yn

y weithred hon yr hyn nid wyf yn ei ganiatau. Os oes rhyw gasineb rhyngddynt gadewch rhyngddynt a'u gilydd. Nid wyf yn ameu na chyflawna fy ngefnder Edmond ran bon. Ni chaiff neb fod yn blaid nac yn gyfranog yn fy ngweithrediadau i yn yr helynt hwn, ond ni ein dau, er bod eich llythyr wedi ei ledaenu ar hyd y wlad eisoes; a lle y soniwch am lw, nid yw byth yn cael ei arfer oblegid y mae cymeriad bon., yn ddigonol yn yr achos hwnw canys y geiriau a'r anrhydedd ydynt y seiliau ar ba rai yr ymddibyna pynciau yr arfau, am yr hyn yr wyf yn synu yn fawr eich bod yn anwybodus; ac am ddirgeledd peidiwch a meddwl y caiff crys Gruff. Nanney wybod am ein cyfarfod. Ac yn eich ol-ysgrif yr ydych yn enwi tri math o ymladd, yr olaf o ba rai a gondemnir yn gyffredinol i fon., i'w arfer. A chan farnu pa un sydd gymwysaf ymddengys y cyfarwyddwch fi sydd ddiffygiol ond nid wyf mor grai fel nas gwn mai myfi sydd i benodi yr arfau, yr amser a'r lle, a'r dull cytunol a rheolau eirf. I ateb eich herfeiddiad gan hyny (er y gallwn gymeryd llawer o dramgwyddiadau ato er hyny i esgoi dedfryd gyffredinol dynion) yr wyf yn addaw ar air bon., i fod yn nglan y mor o fewn nôd y gorlanw, oddeutu haner y ffordd rhwng yr Abermaw a Harlech yn union islaw eglwys Llanddwywe ddydd Gwener nesaf erbyn viii o'r gloch yn y boreu & ac i aros am awr o leiaf; yr arfau a ddygaf gyda mi fyddant ddim ond cleddyf hir a dagr a'r gymdeithas fy hunan yn unig o herwydd ni fynaf yr un person byw yn gyfranog o'r gyfryw weithred ar fy rhan. Yr wyf yn anfon hyd fy nghleddyf hir gyda'r dygiedydd, ond ni wyr beth y mae yn ei olygu. Ni phallaf gyflawni yr hyn a ysgrifenais trwy gymorth y Duw cyfiawn i'r hwn yr wyf yn cyflwyno fy amddiffyniad, ac yn yr hwn yn unig yr wyf yn ymddiried

G. N.

O.Y. Gan i chwi anfon eich dyn gyda'ch llythyr yr wyf inau yn anfon fy nyn, yr hwn yr wyf yn gwybod sydd anagweddus.

Buasai yr hanes yn llawer mwy gorphenol pe gallesid mynegu beth fu canlyniad yr hèr-lythyrau dan sylw. Eithr gan nad ydys yn gwybod, nid oes ond eu gadael, ar hyn o bryd o leiaf, yn y wedd yma. Ond dichon na chwympodd yr un o honynt trwy law y naill y llall pa un bynag a gyfarfuont ai naddo. O leiaf, nis gwn ddarfod i ganlyniad yr ymrafael fod yn angeuol. Y mae "Lewes owen" a "Harry owen" yn cael eu gosod allan yn y Deisyfiad fel boneddwyr ieuainc, ac os ydys i ddeall wrth hyn eu bod yn ddibriod ar y pryd, ymddengys y goroeswyd yr adeg gan "Lewes owen." Canys ceir

Digitized by Google

yn yr âch-lyfr gan Lewis Dwnn ei fod wedi priodi Elin ferch Hugh Gwyn Bodwel.

---

JOHN THOMAS, D.D.,

A anwyd yn Nolgellau, yn y flwyddyn 1681. Mab oedd i gludydd yn ngwasanaeth darllawydd. Cafodd ei addysg yn Ysgol y Dilleddyddion Masnachol, ac oddiyno, ar draul meistr ei dad, symudwyd ef i Goleg Llys Cathrin, Caergrawnt, lle y cyrhaeddodd yn rheolaidd ei râdd o Ddoethawr. Wedi derbyn urddiad eglwysig, aeth yn gaplan i weithfa Seisnig yn Hamburg, lle yr arhosodd am lawer blwyddyn, pryd y dysgodd yr Ellmynaeg gystal nes y daeth yn olygydd cyfnodolyn yn yr iaith hono o'r enw *Patriot*. Tua'r pryd hwn attynodd sylw cyweithas Sior yr II.; ac o achos ei allu i siarad yr Ellmynaeg, dilynodd y brenin yn y rhan amlaf o'i ymchwiliadau i'r *Electorate*. Daenyddes oedd ei wraig gyntaf, ac ymbriodasant yn Copenhagen, lle y cafodd sylw brenin Denmark, a buont yn gohebu yn ganlynol. Yn y flwyddyn 1736, penodwyd ef i berigloriaeth St. Vedast's, Foster Lane, Llundain, ac yn y flwyddyn 1740, i ddeoniaeth Peterborough. Yn y flwyddyn 1748, ymbriododd â Miss Sherlock, nith Esgob Salisbury, ac yn yr un flwyddyn gwnaed ef yn or-beriglor Westminster, a chanon trigianol St. Paul. Yn y flwyddyn 1743, codwyd ef i esgobaeth Llanelwy; ond cyn ei gysegru, cafodd ei symud i esgobaeth Lincoln, a chysegrwyd ef ar y 1af o Ebrill, 1744. Cafodd ei symud i Salisbury yn y flwyddyn 1761, a bu yno hyd ei farwolaeth, yr 20fed o Gorphenaf, 1766. Dywedir yn gyffredinol iddo roi sylwedd y geiriau dilynol yn modrwy briodas ei bedwaredd wraig:—"Os goroesaf mynaf bump;" a chan i hono farw yn y dwyddyn 1757, cadwodd ei air.*

* Williams Eminent Welshmen.

---

## SYR RICHARD RICHARDS, CAER YNWCH,

Ydoedd gyfreithiwr enwog ac a anwyd yn ardal y Brithdir, yn mhlwyf Dolgellau, yn Nhachwedd y flwyddyn 1752. Derbyniodd ei addysg foreuol yn Rhuthyn, o ba fan yr aeth i Rydychain, ac ymhen amser cafodd ei ethol i gymrodoriaeth Michel yn Ngholeg y Frenhines. Cafodd ei ddyrchafu i'r ddadleufa fel aelod o Gymdeithas Anrhydeddus y Deml Fewnol. Penodwyd ef yn y flwyddyn 1813 yn Brif Ynad Caer, ac yn y flwyddyn 1814, yn un o Farwniaid yr Argedlys; ac yn y flwyddyn 1817, ar farwolaeth Syr Alexander Thompson, yn Arglwydd Brif Farwn y llys hwnw. Dywedir am dano mewn marwgofiant o'i amser:—"Yn holl gylch ei alwedigaeth ni safai undyn yn uwch mewn cyfrifiad anghyhoedd, nac yn fwy ei barch yn y cyhoedd. Darfu i'w hynawsedd a'i garedigrwydd neillduol a nawseiddiai bob symudiad o'i eiddo, enill iddo serch ac ymlyniad pawb a gawsant yr hyfrydwch o fod yn gydnabyddus âg ef. Treuliai ei holl fywyd pan yn rhydd oddiwrth ei ddyledswyddau ynadol, mewn gweithredoedd dyngarol, a swyddogaethau cymdeithasol."

Fel cyfreithiwr a barnwr yr oedd ei benderfyniadau yn ddiogel. Meddai gyfeillgarwch ac ymddiriedaeth arglwydd Eldon yn drwyadl, a bu droion yn llywyddu drosto fel Llefarydd Ty y Cyffredin. Yn y flwyddyn 1785, priododd gyda Catherine, ferch ac etifeddes Robert Vaughan Humphreys, Caer Ynwch, yn mhlwyf Dolgellau, a bu iddynt ddeg o blant, wyth o feibion a dwy ferch. Bu farw yn Llundain, ar yr 11eg o Dachwedd, 1823, a chladdwyd ef yn naeargell y meirw, yn eglwys y Deml. Olynwyd ef yn yr etifeddiaeth gan Richard Richards, Ysw., ei fab hynaf, un o Feistri Rheolaidd Uchel Lys y Cangell-lys, ac un a fu amryw flynyddoedd yn aelod seneddol dros Swydd Feirionydd yn y senedd.

Yr oedd Syr Richard Richards, yn Arglwydd Brif Farnwr ar adeg ei farwolaeth, canys er iddo osod gerbron gynygiad am ymddiswyddiad yn ei saldra olaf, gwrthododd yr Arglwydd Ganghellydd Eldon ei dderbyn.*

* Williams Eminent Welshmen.

Digitized by Google

## COCH MAWR Y FEDW.

Dygir y gwr hwn i sylw oherwydd y nerth mawr y mae traddodiad yn ei briodoli iddo, ac oddiar yr unrhyw awdurdod yr ydys yn mynegu yr hanesion dilynol yn ei gylch. Cafodd ei eni yn y Fedw a bu yn trigianu yno am ddigon o hyd fel ag i gysylltu y fan â'i ddynodiant enwol gwerinaidd y Coch Mawr. Bu yn pia y Fedw ar un amser, eithr dywedir iddo ei roddi am ei gadw yn niwedd ei ddyddiau, a gall mai yno eu diweddodd. Y mae y tyddyndy hwn yn cael ei ddefnyddio yn awr i ddibenion amaethyddol, a'r tyddyn perthynol wedi ei gysylltu â'r Dewisbren Isaf. Yr oedd Coch Mawr y Fedw yn gryf iawn pan yn blentyn, canys cariodd becaid o ŷd neu flawd o dref Dolgellau i'r Dewisbren pan yn seithmlwydd oed. Ac yr oedd iddo tua milldir a haner neu fwy o ffordd yn cynwys cryn lawer o riw rhwng y ddeufan. Pan yn gorphwyso ar ei daith, cai sugn gan ei fam fel anrheg iddo am ei waith. Eithr nid oedd i barhau i gael y rhodd foddhaus hono am amser hir wedi, gan ei diddyfnwyd pan ydoedd yn saith oed. Ymddengys mai ei enw priodol oedd Lewis Jones, ac y mae prif lythyrenau yr unrhyw yn doredig ar fantell simddai y Fedw, ynghyd â rhifnod y flwyddyn * 1648, a thebygol y golyga yr amseriad hwn y flwyddyn ei gosodwyd yn ei lle, neu yn fanylach, yr un y gosodwyd hi ynddo ganddo ef ei hun.

Pan ydoedd y gweithwyr mewn penbleth pa fodd y ceid y fantell simddai hon i'w lle, daeth Coch Mawr y Fedw i'w galw i geisio bwyd, a chynghorai hwy i fwyta yn gyntaf cyn cynyg ar y gorchwyl, yr hyn a wnaethant. Eithr yn hytrach na myned ymaith gyda hwy ar y pryd, ymdrôdd oddeutu'r fan, eto aeth atynt cyn iddynt gyfodi oddiwrth y bwrdd; ond yn y cyfamser cododd y fantell simddai ei hun i'w lle, yr hon oedd o bren trwm o dderw, pa un sydd yn aros yn ei lle hyd yn hyn. Dro arall profodd ei hun yn ddyn o nerth mawr wrth ddwyn pren tuag at fod yn drawst i ysgubor Tyddyn y Gareg. Yr oedd y pren hwn wedi tyfu mewn man na ellid myned â cheffylau ato, ac o'r herwydd gwahoddwyd llawer o ddynion i'w ddwyn ymaith, ac yn eu plith Coch Mawr y Fedw. Wedi iddo fwrw

* Dichon mai nid y pryd hwn yr adeiladwyd y Fedw yn newydd, ond mai gwneyd cyfnewidiad yr oeddid arno trwy osod y fantell simddai hon, yr hyn nid yw annhebygol.

Digitized by Google

golwg drosto, ceisiodd ganddynt godi ei fonyn ar ei ysgwydd, ac wedi llwyddo o honynt i wneyd hyny aeth cymaint a allai gael lle o'r lleill o dan ei ben blaen, ac felly ei cariwyd ymaith—y pen blaen ar ysgwyddau y lliaws a'r bonyn trwm ar ysgwydd Coch Mawr y Fedw yn unig.

---

## Y PARCH. HENRY OWEN, M.A., M.D., F.R.S.

Ganwyd y gŵr hwn yn Nhan y Gadair, yn y flwyddyn 1716, a disgynai o deulu hynafol a pharchus. Mab ydoedd i William Owen, o Dan y Gadair a Brynrhyg, cyfreithiwr. Yr ydoedd yn dduwinydd tra dysgedig, ac yn awdwr llawer o lyfrau. Bu o dan addysg yn ysgol Rhuthyn, a phan yn 19eg oed aeth i Goleg Iesu, Rhydychain. Un o'i ddewis olrheiniadau, pan ddechreuodd ar ei astudiaeth athrofaol, oedd Mesuroniaeth, yr hyn a ddilynodd yn dra aiddgar a chydag ymroddiad. Wedi cael ei raddio yn y celfyddydau ar yr amserau rheolaidd, trôdd ei sylw i astudio meddyginiaeth, a chafodd ei raddio yn Febydd mewn Meddyginiaeth yn y flwyddyn 1746, ac ymarferodd fel meddyg am dair blynedd. Ond gan ei gorfodwyd oherwydd ei iechyd a'i deimladau i adael yr alwedigaeth, cyfeiriwyd ei feddwl yn hollol at yr offeiriadaeth, a dywedir iddo gael ei wneyd yn gaplan i Syr Mathew Featherstonehaugh yn foreu ar ei fywyd, yr hwn a'i cyflwynodd i fywoliaeth Terling, yn Essex. Yn y flwyddyn 1760, cafodd beriglориaeth St. Olave, Hart Street, yn ninas Llundain, pryd y rhoddodd fywoliaeth Terling i fyny. Yn fuan ar ol hyn, cafodd ei benodi yn gaplan i Esgob Llandaf. yr hwn a fu wedi yn Esgob Durham. Graddiwyd ef yn Ddoethawr Meddyginiaeth yn Rhydychain, yn y flwyddyn 1753. Yn mis Medi, y flwyddyn 1760, ymbriododd â merch i Dr. Butts, yr hwn a fu yn gyntaf yn Esgob Norwich, ac wedi hyny yn Esgob Ely. Yn y flwyddyn 1775 neu 1776, cafodd ei benodi gan yr Esgob Barrington i Ficeriaeth Edmonton, ynMiddlesex. Blinwyd ef â hir nychdod yn y rhan olaf o'i oes, pa un a ddiweddodd yn ei farwolaeth ar y 15fed o Hydref, 1795, yn 80 mlwydd oed.

Yr oedd yn awdwr llawer o weithiau, y rhai ydynt, un o'r enw "Harmonia Trigonometrica;" neu draethawd bychan ar Drionglaeth, 8 plyg. "Observations on the Scripture Miracles." "Observations on the Four Gospels," 8 plyg. "Directions to young students in

Divinity." "Enquiry into the state of the Septnagint Version." Cafodd ei benodi i bregethu y Ddarlith a sefydlwyd gan yr Anrhydeddus Robert Boyle, ac yn y flwyddyn 1773, cyhoeddwyd yr ymresymiadau hyny o dan yr enw "The Intent and Propriety of the Scripture considered and explained in a series of Sermons preached in the parish church of St. Mary-le-bow," &c., mewn dwy gyfrol 8 plyg. Yn ystod y flwyddyn ganlynol cyhoeddodd ei "Critica Sacra," neu Ragdraethawd byr i Feirniadaeth Hebreig," pa un a ddilynwyd gan "A Supplement," yn atebiad i rai sylwadau arno gan Mr. Raphael Baruh, yr hwn oedd Iuddew dysgedig.—Dau "Critical Disquisitions." un o honynt yn cynwys rhai sylwadau ar gyhoeddiad Masius o Lyfr Joshua; a'r llall ar Hexapla enwog Origen, pa rai ydynt yn dreiddgar a galluog, a chyfranasant i ychwanegu clod yr awdwr ymysg ysgoleigion Beiblaidd. "A brief Account, Historical and Critical, of the Sepnagint Version of the Old Testament; to which is added a Dissertation on the comparative exellency of the Hebrew and Samaritan Pentateuch." Hefyd "The Modes of Quotation used by the Evangelical Writers explained and vindicated," 4 plyg. Y Dr. Henry Owen hefyd oedd awdwr "A Collation of the Account of the Dedication of the Temple in Bowyer and Nichol's Origin of Printing." Hefyd ysgrifenodd sylwadau ar yr amser a dreuliodd Cæsar yn ei ddau gadgyrch i Frydain, pa rai a argraffwyd yn yr ail gyfrol o'r Archæologia.

Yn y flwyddyn 1778, golygodd gymhariad o ysgrif werthfawr llyfrgell Cotton, gydag un y Vatican o Lyfr Genesis, pa un a wnaed gan y dysgedig Grabe, yn y flwyddyn 1703, ond a adawyd yn anorphenol ar ei farwolaeth. Yn y flwyddyn 1776, cyhoeddodd yr ail argraffiad o Rowland's Mona Antiqua, wedi ei gywiro mewn iaith a defnydd, gyda nodau ychwanegol gan Lewis Morris. Argraffwyd y rhan fwyaf o'r llyfrau hyn gan Bowyer, yr hwn a adawodd gan' punt ar ei ol iddo, a'r cyfryw rai o'i lyfrau Hebreig a'i weithiau beirniadol ar y Testament Newydd ag yr ewyllysiai gymeryd. Cynorthwyodd i osod o flaen y cyhoedd "Bowyer's Conjectures on the New Testament." A chynorthwyodd hefyd fel yr ymddengys yn ngolygiad "Bowyer's Greek Testament yn y flwyddyn 1783. Mab i'r gŵr mawr hwn oedd y Parch. Henry Butts Owen, M.A., B.D., Cymrawd o Goleg St. John, Rhydychain. Ac wyr iddo oedd y Parch. Charles G. Owen, M.A., o Goleg y Frenhines, Rhydychain. Hefyd wyr iddo oedd y Parch Octavins F. Owen, M.A., o Eglwys Crist, Rhydychain, yr hwn oedd yn awdwr amryw o weithiau dysgedig.

---

Digitized by Google

## Y PARCH. ROBERT GRUFFYDD, DOLGELLAU,

Oedd weinidog ffyddlawn gyda'r Trefnyddion Calfinaidd. Mab oedd i Gruffydd a Margaret Roberts, o'r Tŷ Mawr, yn yr unrhyw dref, a ganwyd ef y 12fed o Hydref, yn y flwyddyn 1770. Cafodd ysgol dda pan yn ieuanc, ac yna cafodd ei freintweisio i ddysgu gwneyd hetiau. Ymddengys iddo fod o dan argraffiadau crefyddol yn foreu ar ei oes, ond iddo er hyny geisio dilyn arferion gwylltion yr amser. Un tro, pan mewn noswaith lawen, digwyddodd iddo fyned allan ar y canol, a chan edrych i fyny ar y lleuad a'r sêr, daeth y meddwl am y dawnsio i bwyso mor drwm ar ei feddwl nes y gorfu arno fyned adref a gadael ei gymdeithion ofer. Oddeutu y pryd hwn, cafodd glefyd trwm, eithr ni feddyliodd fawr am grefydd yn ystod ei afiechyd. Eithr pan ddechreuodd wella, meddyliodd fod yr Arglwydd yn galw arno, ac ni chai lonydd i fyw yn ei chwantau pechadurus. Un o'r pethau a barodd iddo feddwl hyn oedd, am y byddai yn hollol aflwyddianus i guddio ei bechodau. Yn yr amser hwn, ac yntau o 15 i 17 oed, bwriadai fyned yn gyllidydd, ond derbyniodd lythyr oddiwrth y boneddwr oedd wedi addaw ei gynorthwyo, yn mynegu nas gallai wneyd hyny, ac mai gwell fai iddo droi ei olwg at rywbeth arall. Oherwydd y siomiant hwn, aeth yn lled isel ei feddwl, ac yn y cyfryw deimlad ceisiodd weddio, a thybiodd yn sicr iddo gael ei wrandaw. Yr adeg yma penderfynodd fyned i Lynlleifiad; a phan yn dra digalon ar ei ymdaith yno gan bryder am ei amgylchiadau bydol, teimlodd gymhelliad cryf i weddio, a thybiodd iddo gael y fath gymorth i roddi ei hun yn ngofal yr Arglwydd, nes yr aeth ymlaen yn llawen. Cyrhaeddodd ben ei daith yn ddiogel, a chafodd waith, eithr mewn lle tra annuwiol. Ond er hyny, yr oedd y pwys o feddu crefydd yn dwyshau ar ei feddwl. Yr oedd yn ymdrechgar i wrandaw pregethau, a methai beidio gweddio am oruchafiaeth ar y chwantau oeddynt fwyaf o brofedigaeth iddo. Ac ar ryw Sabbath yn mis Tachwedd, 1791, darbwyllwyd ei feddwl mewn modd grymus i ymuno â chrefydd, ac ar y nos Lun canlynol aeth i'r gyfeillach grefyddol, a pharhaodd i fyned yno tra yr arhosodd yn y dref. Dychwelodd adref yn mis Ebrill y flwyddyn 1793, yn ol a ddywed un awdwr, ond nid oedd wedi dechreu pregethu eto. A bu

yn myned gyda chyfaill i ardal Bronclydwr* i gynal cyfarfodydd gweddiau ar brydnawniau Sabbothau. Dechreuodd bregethu yn y flwyddyn hon neu yn y flwyddyn 1795. Ac efe oedd y cyntaf a neilldüwyd i waith y weinidogaeth o bregethwyr Swydd Feirionydd, a chymerodd hyn le yn Nghymdeithasfa y Bala, yn Mehefin, yn y flwyddyn 1814. Yr oedd yn ddyn tra pharchus pa un bynag ai fel gwladwr, Cristion, a'i gweinidog, ac yr oedd yn nodedig am ei bwyll a'i gallineb. Meddai ysbryd eang arhydd, ac yr oedd yn awyddus i wneuthur daioni ymhob modd. Ymdrechodd lawer dros ryddhad y caethion yn yr India Orllewinol, a mawr oedd ei lawenydd pan ddeallodd i lywodraeth Prydain eu cyhoeddi yn rhyddion. Ymunodd â dirwest yn fuan wedi i'r sefydliad daionus hwn ddechreu cynhyrfu Cymru, a pharhaodd yn ddirwestwr selog dros y gweddill o'i oes. Yr oedd yn bleidiwr aiddgar i Gymdeithas y Beiblau er adeg ei sefydliad, ac ef oedd ysgrifenydd y gangen gynorthwyol o honi yn Nolgellau. Teithiodd amryw weithiau trwy Gymru i bregethu yr efengyl, a byddai yn fynych yn gwasanaethu yr achos Cymreig yn Llynlleifiad a Manceinion, a bu unwaith am dymor yn Llundain. Ond daeth dydd ei lafur yntau i ben, ac ymadawodd â'r fuchedd hon ar yr 17eg o Gorphenaf, 1844, yn 74 mlwydd oed. Dioddefodd boenau corphorol mawr yn ei gystudd olaf, ond yr oedd ei feddwl yn dawel er hyny.

Anrhydeddwyd ef â mangre beddrod yn y sedd fawr, yn nghapel Salem, Dolgellau, lle y mae dernyn o bres yn dwyn yr ymadrodd dilynol wedi ei osod i fyny yno mewn ystram o goed yn goffadwriaeth am dano.†—

---

* Nid yn hawdd y gallasant gael ty agored yma i gadw cyfarfodydd gweddiau. ond cawsant dderbyniad gan ryw dyddynwr yn y gymydogaeth trwy dalu swllt bob Sabbath. Weithiau deuai llon'd y ty i'w gwrando, ac waith arall ni fyddai yno neb heblaw hwy ill dau a theulu y ty. Nid oedd yr ardalwyr yn dangos nemawr o barch at y cyrddau hyn, canys aent i mewn ac allan yn ol eu mympwy. A llawer gwaith y bu ofn mawr ar un o'r ddau iddynt fyned allan i gyd cyn i'r hwn oedd wedi dechreu y cyfarfod derfynu.

† Ni anrhydeddwyd neb arall â beddrod yn y capel hwn. Bu yn briod deirgwaith, ac ol-oeswyd ef gan yr olaf o'i wragedd.

Digitized by Google

Er Coffadwriaeth
Am y
PARCHEDIG ROBERT GRIFFITH,
o'r Dref hon;
Gŵr pwyllog, synhwyrol, a chariadus
yn mysg yr holl bobl.
Cristion didwyll,
A Gweinidog efengylaidd, ffyddlon, a difefl;
Wedi gwasanaethu ei genhedlaeth fel
Pregethwr Cymmeradwy
gyda y
Trefnyddion Calfinaidd
am 50 o flynyddau,
Hunodd mewn tangnefedd, Gorphenaf 22ain,
MDCCCXLIV,
yn y 74ain fl. o'i oedran.
Ei lŵch a orphwys mewn gobaith islaw yr
Areithfa hon, lle y safai yn fynych
I efengylu pethau daionus.

---

Ei enw da yn perarogli sydd;
Caiff felys hûn hyd foreu'r olaf ddydd.

---

Y PARCH. OWEN OWENS,

Gweinidog yr efengyl gyda'r Annibynwyr yn Rhesycae, a anwyd yn Maes Angharad, ar yr 21ain o Awst, 1772. Bu am dymor yn cadw ysgol yn Ninas Mawddwy, ac yno y dechreuodd bregethu. Ond byddai yn arfer dywedyd ychydig mewn cyrddau gweddi, mewn ffordd o esbonio ambell benod neu dynu addysgiadau byrion oddiwrthi cyn ymadael o Ddolgellau. Ar ol treulio cryn dymor yn cadw ysgol yn Ninas Mawddwy, ymsymudodd i Rhesycae, y 23ain o Fai, 1821, ac urddwyd ef yn weinidog i'r eglwys Annibynol ar y 30ain o Hydref dilynol.

Wrth ddyfod o gymanfa Rhos Llanerch Rugog, yn Mehefin 1861, cwympodd oddiar ei ferlen, ac effeithiodd hyny gymaint arno nes y gorfu iddo roi ei weinidogaeth i fyny yn Nhachwedd y flwyddyn hono. A bu farw y 13eg o Hydref, 1862, a chladdwyd ef yn Nanerch y dydd Gwener canlynol yn mynwent eglwys y plwyf.

Digitized by Google

Cyhoeddodd "Holwyddoreg yr Ymneullduwyr Protestanaidd; Yn Cynwys Hanes Byr Am Yr Ymneullduwyr, A Rhesymau Dros Ymneullduo O'r Eglwys Sefydledig. Gan y Parch. S. Palmer. Wedi Ei Helaethu Fel Ag I Gynwys y Cyfnewidiadau Diweddaf A Gymerasant Le Yn Iawnderau Yr Ymneullduwyr, Gan O. Owens, Rhes-y-Cae."

---

Y PARCH. DAFYDD ELIS,

Oedd ŵr eglwysig a aned yn Hafod y Meirch neu Wanas, yn y flwyddyn 1739. Dypwyd ef i fyny yn ysgol Ystrad Meurig, o dan ofal Mr. Edward Richard. Urddwyd ef yn ddiacon yn Llanelwy yn y flwyddyn 1794, ac yn offeiriad yn Mangor, yn y flwyddyn 1795. Bu yn gwasanaethu fel is-beriglor yn Llanberis, ac yn Llangeinen yn Môn. Ymhen amser, rhoddwyd personoliaeth fechan Llanberis iddo, ac yn y flwyddyn 1790, cafodd bersonoliaeth Criccieth. Bu farw yn mis Ebrill 1795, yn 56 mlwydd oed. Gadawodd amryw roddion yn ei ewyllys, ac yn eu mysg 200p., tuag at ysgol i dlodion Criccieth, Treflys, ac Ynys Cynhaiarn, tra rhed y dwfr. Cydnabu ei ddiolchgarwch i Ysgol Ystrad Meurig trwy ei hanrhegu â'r Mona Antiqua Restaurata, gwaith y Parch. Henry Rowland. Gadawodd ei holl ysgrif-lyfrau barddonol i'w gyfaill Mr. D. Thomas, (Dafydd Ddu Eryri), pedwar o ba rai sydd yn awr yn meddiant Myrddin Fardd.

Y mae pob carwr llenyddiaeth Gymreig yn dra dyledus i Dafydd Elis am ei waith yn ad-ysgrifenu Gweithiau yr hen feirdd allan o hen lyfrau darn-bydredig. Ni wyddis a gyhoeddodd nemawr o ddim gwreiddiol o'i walth ei hun, oddigerth ychydig o gywyddau a charolau plygain. Ond argraffwyd o leiaf dri llyfr o'i gyfeithiadau, sef Gwybodaeth ac ymarfer o'r Grefydd Gristionogol, neu gynygiad i athrawiaethu yr Indiaid, o waith yr esgob Wilson; Llawlyfr o Weddiau at Achosion Cyffredinol o waith James Merrick; a Histori yr Iesu Sanctaidd, gwaith W. Smith. A chyhoeddwyd y tri hyn pan oedd yn is-beriglor Derwen.

Cyfieithodd y *Penitent Shepherd*, cerdd o waith Ieuan Brydydd Hir, o'r Saesneg, ar fesur cerdd deuair hirion, yr hon sydd argraffedig yn "Mlodau Dyfed." A chyfansoddodd alarnad ar ol yr un bardd, yr hon a gyhoeddwyd yn "Nhrysorfa Gwybodaeth," 8 plyg: Caernarfon, 1807. Dywed ei feddfaen yn mynwent Criccieth ei fod

Digitized by Google

yn Ieithydd a Bardd godidog; diwyd yn ei weinidogaeth o Weinidog yr Efengyl, gweniaith a rhagrith ydoedd gas gan ei enaid; ac efe a'i ceryddai yn llym yn eraill.

Yn un o'i Ysgriflyfrau y mae cân o'i waith, wedi ei chyfansoddi ar "Ben Tir Ystent," yn y flwyddyn 1760. Ond cyn ei gosod yma o flaen y darllenydd ceir nodi mai anghywir yr amseriad 1794 a 1795, sydd ar y tudalen ar y llaw chwith—y naill mewn perthynas âg adeg ei urddiad yn ddiacon, a'r llall o barth y pryd ei urddwyd yn offeiriad. Ac yn ol y "Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru," gan y Parch. Josiah Thomas Jones, 1764 ddylai y cyntaf fod, a'r olaf 1765. Penawd y Gân yw, "Ystyriaeth ar Freuolder Einioes Dŷn, ar Amor Illis." Nid ydys yn cadw yn fanwl at ei llythyraeth, fel y mae yn y llyfr, ac ni roddwyd y cyfeiriadau Ysgrythyrol ag sydd gyferbyn â rhai llinellau, a newidiwyd y rhif 9 i 4 yn yr ail gyfeiriad, gan felly nodi y bedwaredd adnod ar hugain yn lle y 29ain. Ac fel hyn wele gynwys y Gân:—

1. Ansicir ydyw difri daith,
Ber hoedl Cristion union iaith, Job. 14, 10
I fyw mewn gwychder wiwber waith,
A pherffaith iawnwaith wynfyd;
Er cael pob pleser hoewber hedd,
Mewn gwiwlan wedd a golud,
Nid eill un dyn sydd dan y Ne',
Pan ddel dydd ange ddiengyd.

2. Nid aeth ond dau heb angau du,
Mewn ufydd fraint i'r Nefoedd frŷ,
Sef Enoc ac Elias gu, Gen. 5. 24. 2 Bren. 2. 11.
I nodded Iesu D'wysog;
Fe'i cym'rai Duw am fyw'n ddifai,
Da hylwydd rai dihalog,
Yn ddiwair hawl o'r ddaear hon,
Mewn moddion union enwog.

3. Holl blant Adda mwyna modd,
Heblaw rhei'ny cledi a'u clôdd;
Yr angau trwch i'r ing a'u trôdd,
Fe'u duodd daliodd dolur; Rhuf. 6. 12.
Fe fyn ufudd-dod gan bob cnawd,
Fe rwyma wawd yr amur.

4. Er bod Absalom heb wâd,
A'i frŷd yn llwyr er lladd ei dâd,



Digitized by Google

(Yr hwn oedd frenin yn y wlâd)
Mewn gerwin fwriad garw, 2 Sam. 18. 14, 15.
I'r ing ar ffrwst yr angau ffraeth,
Iaith oleu, ddaeth i'w alw.
Gostyngodd Duw ei feddwl blin,
I'r hynod frenin hwnnw.

5. Cyrhaeddodd angau Samson gawr, Barn. 16. 30.
Ac Alexander filwr mawr,
Ac Arthur gefnog enwog wawr,
A thramawr ddirfawr derfyn;
Er iddynt yru dan y sêr,
O'r golwg lawer gelyn,
Fe'i bwriodd angau hwythau i'r bedd
Mewn agwedd sadwedd sydyn.

6. Y gwr goludog cefnog cu, Luc 12. 16—20.
Trwy lawnaidd daith a luniodd dŷ,
Wael ofer frŷd i'w lafur frŷ,
I lawenychu 'n uchel,
Er maint ei amcanion dewrion da,
Trwy degwch tra diogel,
Y noswaith hono 'r aeth o'r bŷd,
Fe ddarfu hyd ei hoedel.

7. Pan ydoedd Herod hynod hawl,
Yn llawn o falchder gwychder gwawl,
Angau a'i cwympodd yn ddifawl,
I annibenawl boeni;
Ac yntau yn meddwl ar bob cam
Yn gadarn am ymgodi, Act. 12. 23.
Pan oedd ond odid leia' ei frŷd,
Câdd fyn'd o'r bŷd heb oedi.

8. Nid oes un gynes loches lân,
I wr i'w chael er aur na chân,
Fe derŷ angau fawr a mân
Mewn anian egwan agwedd,
Yr henwr oediog enwog un
A'r ieuanc ddŷn arafedd, Jer. 23. 24.
Y gwan un wedd a'r croewedd crŷ,
I'r lletty a'r gwely gwaeledd.

Digitized by Google

9. Y neb sy'n byw ar ddaear gron,
Yn cym'ryd gwynfyd hawddfyd hon,
Gan wneuthur trawster breuder bron,
Mewn llon amcanion cynnar, Rhuf. 2. 8. 9.
Pan elo'r corff o'r anedd drwch,
I dduo i lwch y ddaear,
Am bob drwg weithred yn ddigudd,
A dyfais bydd edifar.

10. Yr awrhon dewch wel dyma'r dŷdd,
Fel ufudd weision ffyddlon ffydd,
A chywir fwriad rhodiad rhŷdd,
At burffydd crefydd berffaith ;
Nid rhaid i'n ofni angau gawr,
A'i fwriad mawr a'i fariaeth, Salm 16. 10.
I weision Duw bob nos a dydd,
Mawr elw fydd marwolaeth. Phil. 1. 21.

11. Mae Duw 'n ein gwahodd oll yn blaid,
Awn ato 'n rhwydd mae 'n angenrhaid,
Fe ddywed deuwch oll yn haid,
Chwi bechaduriaid oerion ; Math. 11. 28.
Chwi ellwch gael eich esmwythau,
O'ch tramawr feichiau trymion,
Ond i chwi 'mostwng oll yn glir,
Arch mwynedd i'r gorch'mynion.

12. I'r fath wahoddion wiwlon wawr,
Cyd-drown ein clustiau un foddau 'n fawr,
A chyflawn frŷd bob enyd awr,
Cyn delo dirfawr derfyn; Deut. 5. 1.
A chawn ein hachub yn ddifeth,
Rhag poenedigaeth dygyn,
Trwy waed Cyfryngwr rhwyddwr rhôl,
Oen nefol rasol rofyn.*

13. Fe roddwyd yma i bawb ger bron,
Ddwy ffordd i fyn'd o'r ddaear hon,
Mae 'rhai'n fal cyrchfa tynfa ton,
Gristnogion gwiwlon gwelwch ;

* Arofyn.

Digitized by Google

Mae un yn arwain yn ddi wâd,
I frodir gwlad hyfrydwch.
A'r llall sy'n myn'd i uffern dân,
Drwy aflan drwstan dristwch.

14. Ymrown a cheisiwn Deyrnas Dduw,
A ffordd cyfiawnder tra fo'm byw,
Cawn daledigaeth odiaeth yw,
Gwn heddyw i gynyddu, Luc 12. 31.
Cawn angenrheidiau 'n cyrff trwy glód,
Mae 'n ddigon hynod hyny,
Cawn fyn'd i'r nef o'r ddaear hon,
Fel union weision Iesu.

"David Ellis a'i Cânt,
ar Ben tir Ystent, 1760."

Heblaw y Gân hon, y mae yn yr unrhyw Ysgriflyfr amryw o gyfansoddiadau barddonol o'i waith. A chynwysant gywydd marwnad, pedwar carol plygain, un carol diolch, pa un "a ganwyd yn Nannau Yngwyliau'r Nadolig, 1761." Testynau y lleill ynt, "Dedwyddwch y Cristion, ar y King's Farewell." "Llef ar Bechaduriaid, Ar Eluseni Meistres." "Anerch i Gyfaill oedd yn glaf, ar Eluseni Meistres." "Cerdd Anerch un newydd briodi, ar Anhawdd ymadael." "Cerdd i ofyn Pren gan David Lewis o Fron Wion Wr boneddig, i Huwcyn Trawsfynydd, hen Gardottyn tlawd, ar Freuddwyd y Frenhines." "Cyngor i ferched, ar Amor Illis." "Cyffes Merch ifangc wedi i'w Thad ei gyrru allan o'r Wlad, Ar Eluseni Meistres." "Penill a wnaed pan ddewiswyd Nicholas Baily, Esqr. yn Farchog dros Sir Fôn, ar Beleisle March." A cheir cyfleu yma un o'r rhai hyn, sef y Gân sydd ar y testyn, Dedwyddwch y Cristion. Ac wele hi:—

1. Dyro genad diwair gynydd,
Oen Duw Nefol mewn dawn ufydd,
I'm fyfyrio er maint f' oferedd,
Mewn da fwriad am dy fawredd;
O Iesu berffaith clyd-faith clod-fawr,
Iawn wych hael-fodd Iôn uchel-fawr,
Pa beth yw dyn, gwaela' gwyn, trwy ei derfyn tra dirfawr?
Pan ystyrit ei boen dosturwawr,
Ef bob munyd enyd un-awr;

Digitized by Google

O! drugaredd da ragorol,
Un Duw Iesu Oen dewisol,
Sydd ger ein bron, ar ddaear hon, rhyw foddion rhyfeddol,
A'i dynerwch da yn eiriol,
Dros y pechadur budur bydol!

2. Ni chlywodd clust ni welodd llyged,
Ni ddaeth i galon dyn ei ystyried
Mor daioni mawr da union,
Sydd gan Iesu gwyn i'w weision;
O'i gred a'i addwyn gariad iddynt,
Fe gafodd cofiwch dristwch drostynt,
O'i wir ddawn dioddefodd lawn anhwylus iawn helynt,
Rhag ofn colli'r un o honynt,
Ca'dd friw ysig oer-ddig erddynt;
O! mor hyfryd enyd union,
Yma drwyddynt ei ymadroddion,
Wrth roddi ei oes, ar y groes, rhyw gre-loes rhy greulon,
At ei gofus Dâd oedd gyfion,
E droes weddiau dros Iuddewon.

3. I'r neb a wnelo'r deunydd gorau,
Diwael antur o'i dalentau,
Mae aur goron gwlâd y Drindod,
Dda iawn berwyl iddo 'n barod;
Geilw Crist ei frodyr dedwydd,
Trwy fawr gariad holiad hylwydd,
Dewch trwy glôd, dan wir nôd, gwych eur-glod eich Arglwydd,
Chwi gewch feddiant yn dragywydd,
O'r Nef ei hunan eirian arwydd;
Er da heddwch Duw a'i haeddiant,
Yno'n ufydd iawn y nofiant,
Nefol dir, clau ddawn clir, hoff union wir ffyniant,
Efo'r Iesu fwyn oreu-sant,
Mewn cred rhyfedd y cartrefant.

4. Daethant drwy y byd a'i donau,
A gwych gu lanwaith iâch galonau,
Er bod ystorm a gwynt yn uchel,
'Roedd ganddynt ddigoll ffydd ddiogel;
Pan y t'rawent wrth orthrymder,
Oer aflendid neu ryw flinder,

Digitized by Google

Rhoent weddi fâd, ar Dduw Tâd, a chodiad gwych hyder,
A chaent gymorth ganddo ar fyrder
Eurwych haeldaith o'i uchelder,
Hwy a ddysgasant fod yn fodlon,
Mewn cwerylus boenau creulon,
A meddwl rhŷdd, nôs a dydd, a dewraidd ffydd dirion,
Enw cofus yn Nuw cyfion,
Pura rhinwedd pererinion.

5. Daethant at y porthladd nefol,
Iawn gais arwydd yn gysurol,
I'w da yrfa Duw o'i wir-fodd,
O'i wiw gariad a'i hagorodd;
Cawsant feddiant haeddiant heddwch,
Mwyna frodyr mewn hyfrydwch;
O nefol fan, rwydd-deg ran a diddan ddedwyddwch,
A gorsedd feinciau golau gwelwch,
Iawn hedd gywrain a hawddgarwch,
Cawsont union goron gwiw-ras,
A da nodded Duw yn addas,
Cant etto o hyd, wel'd ei bryd, cadernyd ei deyrnas,
Yn odiaethol a'i gymdeithas
Mewn anherfynol ddoniol ddinas.

6. Dyna'r fan lle cant hwy drigo,
A theyrnwiail yn eu dwylo,
A chydseiniant fawl hosanna,
Er gwir achos i'r Gorucha';
O mor hyfryd enyd unol,
Iawn dro gweddus yn dragwyddol,
Byw 'n ddiboen, gyda'r Oen, da ddawnus hoen ddiddanol,
Cant folianu'r Iesu rasol,
Mewn hir fwyniant anherfynol;
Cant deyrnasu oll ar gyhoedd,
Gyda'r Iesu gwedi'r oesoedd,
Lle clywant frau, foliant clau, mawr ddoniau myrddiwnoedd,
Pwy fydd mor ffol a cholli'r Nefoedd?
Er mael fudur mil o fydoedd.

7. O Grist'nogion gwiwlon gwelwch,
Ymgais tirion ac ystyriwch,
Gan fyfyrio tra boch chwi yma,
Byth i'ch gorfod beth yw'ch gyrfa:

Digitized by Google

Mewn dawn rhwydd mae Duw yn rhoddi,
Hyfforddd anian y ddwy-ffordd inni,
A hyn hyd fedd, hynod hedd, hap rhyfedd, i'n profi,
Mae un yn myn'd i wlad goleuni,
A'r llall i oernych dallnych d'wyllni;
Am hynny cofiwn ar y siwrne,
Am yr hir dragwyddol gartre',
Cyn del frŷ, 'r angau du, i ddylu'n meddyliau,
Cofiwn ddewis oll yn ddiau,
Hoff hardd arwydd y ffordd orau.

8. O Dduw Iachawdwr rhanwr rhinwedd,
Ior tra gwrol aer trugaredd,
Dyro gymorth ini ochel,
Twyll y byd y cnawd a'r cythrel,
'Rym ni wrth natur oll yn farwol,
Ac yn cnydio gwyniau cnawdol,
Dyro râd, nefol Dâd, trwy gariad rhagorol.
A gwir ffyniant gair hoff unol,
Mewn da fwriad edifeiriol,
Dyro ras iawn addas nodded,
A dwg ni i'r ffordd y dylem gerdded,
Mae'r byd yn ddrwg, erwin wg, rhyw gilwg rhŷ galed,
O chwith awydd a chaethiwed,
Dâd y mawredd dod ymwared.

9. O Dduw os ei di i farn a'th weision,
Ni cheir un dyn o'th flaen yn gyfion,
Nid allwn wrando heno haner,
Llais cyfundeb llŷs cyfiawnder;
Gwyddom fod yn fyw ein Prynwr,
Saif ar y ddaear ini'n swccwr,
Hwn yw'n maeth, rhag bryd caeth, wych odiaeth Iachawdwr,
Hwn ar alwad yw'n Heiriolwr,
Iawn wych obaith a'n Hachubwr,
O! Greawdwr rhanwr rhinwedd,
Er mwyn dy gymwys Fâb di gammwedd,
Boed iti'r clod, tan y rhod, iawn amod na omedd,
O'th fawrhydi a'th anrhydedd
Drwy eiriau gwir i ni Drugaredd.

"David Ellis a'i Cant, 1758."

Digitized by Google

Ymddengys y rhaid ddarfod i'r Parch. Dafydd Elis gael personoliaeth Cricieth cyn y flwyddyn a nodwyd (1790), canys yn niwedd Carol Plygain o'i waith, yn yr Ysgriflyfr crybwylledig, dynoda ei hun fel "Person Crickieth 1789." Ceir yn yr "Adgof Uwch* Anghof," gan Myrddin Fardd, lythyr o'i eiddo at Dafydd Ddu Eryri, dyddiedig y 9fed o Awst y flwyddyn 1794, sef yr un flaenorol i'r hon y bu farw ynddi (1795). A dywed ynddo nad ydoedd "ond lled gwla" yn ei iechyd, a'i wraig yn waelach nag yntau, heb fod "dros Erchwyn y gwelŷ er dechreu mis Mai, ond i'w esmwytho, a hynny nid bob dydd."

---

O barth y Parch. Henry Owen, M.A., M.D., F.R.S., y cyfeiriwyd ato yn tudalenau 203 a 204, gellir ychwanegu iddo gael ei fedyddio yn Eglwys Dolgellau, ar y 29ain o fis Ionawr, 1716, ac mai enw ei fam, gwraig y crybwylledig William Owen ei dad, ydoedd Janet. Derbyniodd y gŵr hwn ei addysg athrofaol a'i raddiad yn Ngholeg yr Iesu, yn Rhydychain. Bu ganddo o blant dri o feibion a chwech o ferched. Bu dau o'i feibion feirw yn eu mabandod, a'r llall, sef y crybwylledig Henry Butts Owen, a ddaeth yn ysgolhaig a chymrawd o Goleg St. John, Rhydychain, lle y graddiodd yn M.A. a B.D., a Doethawr mewn Duwinyddiaeth. Wedi hyn daeth i fod yn beriglor Throcking, Herts, ac ar ol hyny yn beriglor St. Olave, Heol Hart. Ni phriododd ond un o'i chwiorydd, sef Anna Maria Owen, a'i gŵr ydoedd Christopher Roberts Wren, disgynydd llinellol o Syr Christopher Wren. Ymbriododd y Dr. Henry Butts Owen yn y flwyddyn 1798, gyda Miss Elizabeth S. Travers, a bu iddynt o blant wyth o feibion a dwy o ferched. Ymbriododd chwech o'r meibion, ond y ddau arall ac un o'r merched a fuant feirw yn eu mabandod, ac arosodd y llall heb briodi. Henry Travers, mab hynaf y Dr. Henry Butts Owen, ydoedd Farnwr yn yr India; George Adolphus ydoedd Gyfreithiwr; Conrad John ydoedd yn Is-filwriad yn 3ydd Marchlu Bombay, a chafodd ei wneyd yn "C.B.;" Albert, mab arall iddo, a aeth yn feddyg; a Charles Gustavus, M.A., o Goleg yr Iesu, Rhydychain, ydoedd beriglor Pinxton, Derby, unig fab yr hwn ydyw Henry, ebrwyad presenol Eglwys Crist, Ontario. Mab arall i Dr.

---

* Tud. 76–8. Yn lle cerdd deuair hirion yn nhud. 208, darllener *cywydd* deuair hirion. Sylwais y gwahaniaethir oddiwrth beth a nodwyd yn yr unrhyw dudalen mewn cysylltiad â dau o'r llyfrau cyfleithiedig gan y Parch. D. Elis. A dichon nad cywir yr awdurdod am a nodais. Ymddengys iddo fod yn is-beriglor yn Amlwch yn Môn.

Digitized by Google

Henry Butts Owen * ydoedd y Parch. Octavius Freire Owen, M.A., o Eglwys Crist, Rhydychain, a Pheriglor Burstow, Surrey. Yr ydoedd y gŵr hwn yn awdwr amryw o weithiau dysgedig, fel yr ydys wedi sylwi yn mhellach yn ol. Ei feibion ydynt y Parch. Theodore Montague Owen, M.A., ysgolhaig o Goleg St. Clare, Caergrawnt; Eustace Clare Lennox Owen; a Rupert Kenneth Wilson Owen.

---

## ELIS JONES, DOLGUN, A MERCH TYDDYN Y GAREG.

Yr oedd y ddeuddyn hyn yn dwyn mawr serch at eu gilydd; ond fel y bydd yn digwydd weithiau yr oedd rhieni y ferch yn anfoddlawn iawn i'r garwriaeth. Ac er ceisio oeri ei serch tuag ato, anfonwyd hi i Loegr, gan ddisgwyl y buasai pellder ffordd a diffyg cyfleusderau i ymgyfarfod yn peri iddynt ymddieithrio oddiwrth eu gilydd. Ond druain o'r rhieni gyda'r cyfryw amcan--ni ellir diffoddi cariad cywir gyda rhwystrau o'r fath. Ymhen amser dychwelodd y ferch adref ac yn ol a ddywedir, yr oedd ei phryder yn ogymaint am ei chariad y noson gyntaf ar ol ei dyfodiad, fel na allai gysgu na byddai yn ei weled drwy ei hun yn ei chyfarfod mewn man rhwng eu cartrefi, o'r enw y Graig Wen. O'r diwedd, cyfododd o'i gwely ac aeth i'r lle e gwelsai ef yn ei breuddwyd, a chyfarfu âg ef yno. Yr oedd yntau hefyd wedi breuddwydio ei fod yn ei chyfarfod yn yr un lle; ac anesmwythodd gymaint yn ei chylch nes y cododd o'i wely i fyned yno i chwilio am dani. Dranoeth holai y ferch ei mam am hwn a'r llall yn yr ardal, eithr heb sôn am ei hanwylyd, ac am hyny gofynodd ei mam iddi sut yr oedd heb holi am fab Dolgun; ac atebodd hithau ei bod wedi ei weled. Yna deallodd ei mam nad oedd wiw ceisio eu cadw oddiwrth eu gilydd. Tybir mai iddi hi y cyfansoddodd Elis Jones ei gerdd sydd mewn llyfr o gasgliad o ganiadau Cymreig, a elwir Blodeugerdd Cymry. Ei phenawd yw, "Hiraeth gwyn Cariad, i'w ganu ar fesur a elwir Morfa Rhuddlan." Yr oedd y ferch hon yn un nodedig o brydferth, ac mor wyn ei gwedd, nes y dywedir fod lliw y gwin i'w weled pan y rhedai i lawr ei gwddf wrth ei yfed. Ond wele y gerdd y cyfeiriwyd ati:—

---

* Gada... wodd y meddyg a'r Crynwr, Henry Owen, unwaith o'r Llwyndu, plwyf Llangely...in, ran o'i feddianau i'w berthynas, y Dr. Henry Butts Owen. Gweler dan y pr... benawd Plwyf Llangelynin.

Digitized by Google

Gwrando gwyn *Fenws* fwyn, Dyn sy'n dwyn dolur,
Wedi ymroi, oni ddoi, ar gais i roi cysur;
Cyn i bur, arw gur, saethau dur dori,
Dan fron ddi-nwy, friwiau mwy attal hwy ati;
O serch i'th bryd, Drŷch y byd, daliodd hudoliaeth,
O'm blaen fel mân, wreichion tân, anwyl lan eneth
Nes myn'd fy swm, fel bowl o blwm, ddygn drwm ddigon
Briwo a wnaeth, y ganaid ffraeth, giliau'r gaeth galon:
Er dim a fo harddwch brô, tyn fi o'm gofalon,
Gad fi 'n fyw, seren wiw, hynod liw hinon.

Celu yn hir, seren Sir, gerydd gwir gariad,
Yn deg a'i ddwyn, er dy fwyn, heb achwyn fy nychiad
Am gwnaeth i'n glâ, gwn yn ddâ *Feinir* gwna fynach
A'i ngyru o'r byd, i'r ddaiar fud, hi aeth yn bryd bellach,
O mentra heb sen, eneth wen, gwna ryw ben baunes,
Nac ofna fâr, at fab a'th gâr, ddoniol wâr ddynes;
Ond tyr'd lliw'r wy, er allo'r plwy, ymroed ein dwy galon
I droi yn rhwydd, dan obaith llwydd, fun deg yngwydd digon:
I ddwyn yr iau, yn deg ein dau, er dwned rhai dynion,
Eneth wiw, am fodd i fyw, cawn gan Dduw ddigon.

Mae ngobaith i, lliw ewyn lli, na fydd iti hefyd,
Ddewis fun, luniaidd lun, o flaen y Dyn olud;
Gwybydd hyn f' enaid gwyn, *perl* pob glyn perffaith
Nad ydyw fael, iti gael, *Carl* a gwael gywaeth;
O chwant i ddâ, blodeu hâ, arian a yrodd,
O serch i'w trin, mel ei min, rai mewn blin gaethfodd;
Beth a dâl, golud sâl, gwynt a'i chwâl ymaeth,
Na ddyro bwys, arno'n ddwys, unig lwys eneth;
Ond gwell na mur, fel y dur, yw cariad pur perffaith,
Na myn'd ynghyd, at bethau'r byd, ddiles hudoliaeth.

Meinir lon, clâ' ydyw mron, a'm calon coeliwch,
'Rwy' mewn clwy, am liw'r wy, haeddwn fwy heddwch;
Ni allwn ddal, pe bawn wal, i ymgynal gwelwch,
Ond rhoi bloedd, o gân ar g'oedd, dinasoedd dyneswch:
Fy 'wyllys yw, o bydd gwiw, gan fenyw fwynedd,
Boed i'm rhan, i gwyno i'r gwan, rwy'n egwan o agwedd;
A rhoed drô, *ffeind* heb ffo, i ymgomio yn gymwys,
Ac onide gwn fy lle, câf arogle yr eglwys,
Ac yno'r â, fy nghorph heb drâ, fel Arpha i orphwys
Am henaid i, brâf yw'r bri, priodi Paradwys.

Digitized by Google

## RICHARD ELIS,

A anwyd yn Nolgellau, yn y flwyddyn 1775, ac ymbriododd ar y 6ed o Fawrth, 1803, a bu farw yn y flwyddyn 1855, yn 80 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn hen fynwent Eglwys Dolgellau. Yr oedd yn gerddor a chyfansoddwr, ac mewn casgliad bychan o Salmau, Hymnau, ac Anthemau yn Gymraeg a Saesneg a gasglwyd, ac a gyhoeddwyd ganddo; argraffedig yn Nolgellau gan R. Jones, yn y flwyddyn 1810; ymgyfenwa yn Athraw Cerddoriaeth. Mewn perthynas i'r dôn "Hyder," gosodir J. Williams, Dolgellau, yn awdwr iddi, yn y Llyfr Tonau ac Emynau gan y Parch. E. Stephen a J. D. Jones. Ond yn y Llyfr Tonau Cynulleidfaol gan Ieuan Gwyllt, nodir mai Richard Elis yw ei hawdwr, ac er na nodir ynddo un o ba le ydoedd mae yn sicr mai Richard Elis o Ddolgellau a feddylir. Canys dywed y diweddar deyrn Gerddor hwnw mewn nodyn ataf, dyddiedig yr 21ain o Ebrill, 1876, fel hyn:—"Pan oeddwn yn casglu fy *Llyfr Tonau Cynulleidfaol*, tuag 20 mlynedd yn ol, y penderfyniad y daethum iddo, oddiwrth bob peth a allwn ei gael ar y pryd, oedd mai Richard Ellis, *Dolgellau*, oedd awdwr y dôn "Hyder." Clywais hyny yn cael ei ameu ymhen rhai blynyddoedd ar ol hyny; ond ni chefais gyfleusdra i wneyd ymchwiliad mwy manwl i'r mater."

Ond er yr amheuaeth grybwylledig, &c., ymddengys y rhaid mai fe oedd ei hawdwr, canys mynegir y dywedai Richard Elis ei hun mai ar y ffordd yn agos i Drawsfynydd, wrth glywed sŵn taranau, y cafodd y drychfeddwl o honi. A dywedir hefyd mai yn ei dŷ yn nghymydogaeth Penbryn yn Nolgellau y gwnaeth y dôn dan sylw. Cyfansoddodd liaws o donau, ac hefyd anthem ar gân Simeon.

---

## JOHN ROBERT ELIS, NEU SHON RHOBERT,

Ydoedd fab i Robert Elis, o Bandŷ Aberneint, gerllaw Dolgellau, a Margaret ei wraig; a ganwyd ef yn Mhandŷ Aberneint yn y rhan olaf o'r ganrif ddiweddaf. Bu farw yn y flwyddyn 1865, yn 86 mlwydd oed. Yr oedd yntau yn gerddor, a chyfansoddodd liaws

Digitized by Google

mawr o donau ac anthemau. Ei fab Isaac Roberts, yr hwn oedd yn arweinydd corawl, a anwyd yn Nolgellau, a chyfansoddodd donau ac anthemau. Ond nid yw yn ymddangos i ddim o gyfansoddiadau y naill na'r llall o honynt fod mewn argraffiad. Bu farw yr 11eg o fis Ebrill, y flwyddyn 1869, yn 60 mlwydd oed. A gorwedd y ddau yn hen fynwent Eglwys Dolgellau, a'r blaenaf o honynt ar y llwybr sy'n arwain i'r Eglwys o'r cyfeiriad de-ddwyrain.

---

## ROWLAND ROWLANDS (*Ionoron*),

Ydoedd enedigol o Ddolgellau, a bu farw yr 8fed o Hydref, yn y flwyddyn 1835. Dywedir am dano yn y "Gwladgarwr" am Rhagfyr, 1835, fel hyn :—"Ychydig amser cyn ei farwolaeth, oherwydd ei afiechyd, aeth i ymweled â'i fro enedigol, mewn gobaith o gael gwelliant drwy hyny; ond nôs yr 8fed o Hydref, ar ei ffordd wrth ddychwelyd tuag adref i Lerpwl, cymerwyd ef yn glaf yn Nghaernarfon, ac yno bu farw! Gadawai wraig a 4 o blant i alaru ar ei ol. Yr oedd yn ddyn hynaws, cymydogol; yn Gymreigiwr rhagorol, yn Fardd awenyddol, yn ddarllenwr llafurus, yn hanesydd cyfarwydd, ac yn dwyn mawr ddyhewyd dros ei iaith a'i genedl."

---

## GRUFFYDD JAMES (*Gutyn ab Iago*),

A anwyd yn y Tymawr, Dolgellau, tua'r flwyddyn 1759; ei dad oedd y cywrain Evan James, yr Oriadurwr. Ond ymddengys na fu y mab erioed yn dilyn yr alwedigaeth hono. Bu yn fuddugol yn Eisteddfod Gwrecsam yn 1820, ar y testyn "Beth yw Awen." Gallasai wneyd telyn a'i chanu; ac ymddengys ei fod wedi tynu cynllun o'r Delyn Bedawl yn ei feddwl. Arferai fyned i Rydychain yn flynyddol am ryw hyd erbyn y cyntaf o Fawrth, i chwareu y Delyn Gymreig. Bu farw yn yr Amwythig, yn 70 mlwydd oed, wrth ddychwelyd o fod ar ymweliad â'i hen dref enedigol lle yr oedd chwaer iddo yn byw. Yr oedd Aneurin ei fab yn ei ganlyn yn yr ymweliad

Digitized by Google

hwn, yn fachgen tua chwech neu saith oed, a byddai yn chwareu y delyn yn yr oedran ieuanc a nodwyd. Nid ymddengys fod ganddo gartref arhosol ar y pryd,—nac iddo fod yn cadw tŷ am nemawr o amser ar ol marwolaeth ei wraig, ond dywedir mai o Lundain y daeth ar yr ymweliad crybwylledig.

---

## EVAN JONES (*Ieuan Gwynedd*).

Oedd weinidog yr efengyl gyda'r Annibynwyr. Ganwyd ef yn Mryntynoriad, yn mhlwyf Dolgellau, ar yr 20fed o Fedi, 1820, a bu farw y 23ain o Chwefror, 1852, cyn cyraedd ei ddeuddeng mlwydd ar hugain oed. Cafodd ei gladdu yn mynwent y Groeswen, Swydd Forganwg, a chodwyd gwyddfa odidog ar fan ei fedd, er coffadwriaeth am dano, trwy gyfraniadau gwirfoddol o wahanol barthau o'r Dywysogaeth. Mae coffadwriaeth am dano hefyd ar faen a osodwyd ar y mur yn nghapel y Brithdir, yn yr ardal ei ganwyd. Ond er y coffadwriaethau parchus hyn,

> "Gwell co am dano a'i daith fydd gweithiau
> Ei awen a'i eiriau na mynorwaith."

Yr oedd yn amddiffynydd cadarn a gwladgar i gymeriad ein cenedl, a bydd ei enw fel y cyfryw yn hoff gan bob gwir Gymro a fydd yn gwybod am dano. Dynoethai ddrygioni maleisus llawer un a fu yn camddarlunio ac yn gorliwio cymeriad y Dywysogaeth, a daeth ei enw yn adnabyddus yn mwthyn y tlawd a phalas y boneddwr trwy ei ymdrechion eofn yn mhlaid ein cymeriad moesol, yn erbyn anwireddau a gormodiaeth anfad y rhai a geisient ein pardduo. Cyhoeddwyd ei gyfansoddiadau gan y diweddar Mr. Robert O. Rees, Dolgellau, ynghyd â chofiant am dano gan y cyhoeddwr ei hun,—gyda hefyd adolygiad ar ei gymeriad a'i lafur gan y Parch. William Williams, Abercarn.

---

Digitized by Google

PARCH. LEWIS ROBERTS (*gweinidog gyda'r Bedyddwyr*).

Mab ydoedd y gŵr hwn i Rowland a Mari Williams, Dolgellau. Y mae iddo dri brawd a chwaer yn ei ol-oesi, a dau o honynt, sef Mri. Rowland Williams a John Williams yn preswylio yn yr unrhyw dref. Ganwyd ef y 9fed o fis Rhagfyr, yn y flwyddyn 1817, a bu farw y 4ydd o fis Awst, y flwyddyn 1861, a chladdwyd ef yn mynwent addoldy y Bedyddwyr yn Llanrwst. Dygai gyfenw gwahanol i un ei dad. Dechreuodd bregethu yn Nolgellau, ond ymhen amser ymsymudodd i Fachynlleth, lle y parhaodd gyda'r un gwaith, gan ddilyn ei alwedigaeth fydol hefyd yn y cyfamser. Yn ol a ddywed ei briod, cafodd ei ordeinio i gyflawn waith y weinidogaeth yn Lleyn, yn Swydd Gaernarfon, lle yr oedd ganddo dair eglwys dan ei ofal, y brif un o ba rai oedd Llanguain. Bu yn weinidog ar yr eglwysi hyn am bedair blynedd, fel y tybir. Wedi hyny aeth i Borthdinllaen, lle y bu yn weinidog ar eglwys y Bedyddwyr am ddwy flynedd. Aeth oddiyno i Lanrwst, lle y bu yn trigianu am dros bum' mlynedd, yn niwedd pa amser y bu farw. Y pryd hwn yr oedd eglwys Llanrwst, fel y brif un, ac eglwys Llandoged o dan ei ofal. Priododd yn addoldy y Bedyddwyr yn Mhwllheli pan ar ei ymadawiad o Borthdinllaen i Lanrwst.

Yr ydoedd yn ŵr o feddwl galluog, a chyfododd i gymaint safle ymysg yr enwad nes cael ei benodi i bregethu am ddau o'r gloch, yn Nghymanfa "Dinbych,* Fflint, a Meirion," a gynhaliwyd yn Magillt y 24ain a'r 25ain o Fehefin, 1861, sef y flwyddyn y bu farw. Traddodwyd pregeth angladdol iddo yn Llanrwst, Awst 11eg, gan y Parch. J, Roberts, oddiar 1 Cor. xv. 26, yn ol a ddywed "Y Greal" am fis Medi † y flwyddyn hono. Ac ychwanegir yn yr un Rhifyn ei fod "i ddechreu ar ei weinidogaeth yn Llanfairtalhaiarn a Llansannan y Sabbath, Awst 4ydd, ond er galar i lawer bu farw boreu y dydd hwnw." Yr oedd yn dyfod adref o Fanceinion y Mercher blaenorol, ac nid oeddid "yn tybio ei fod ond fel arferol o ran ei iechyd; ond nid oedd er's blynyddau yn dda; ond cyn yr wythnos yr oedd yn nhragwyddoldeb." Cyhoeddodd lyfryn bychan ar athroniaeth bedydd. A cheir yn "Y Greal," am fis Mawrth, 1862, nifer o

* "Y Greal" am Awst, 1861, t. 186.

† Eto, t. 211.

Digitized by Google

benillion coffadwriaethol am dano, yn y rhai y rhoddir canmoliaeth mawr iddo.

O ran ei ddisgyniad teuluaidd, yr ydoedd yn hànu o Lewys Ywain y barwn, yr hwn a hànai o Ednywain ab Bradwen, un o Bymtheg Llwyth Gwynedd. Canys Mari Williams ei fam oedd ferch i Lewis Robert a Gwen ei wraig, yr hwn oedd fab i Mari a'i phriod Robert Parri, Waunfechain, yn mhlwyf Dolgellau. A merch ydoedd y Mari hon a enwyd olaf i Owain Tudur ac Elen Fychan ei wraig ferch Gruffydd Fychan o Ddolmynllyn, pedwerydd mab Robert Fychan, yr Hynafiaethydd o'r Hengwrt. Tad yr Hynafiaethydd hwn ydoedd Hywel Fychan o'r Wengraig, yn mhlwyf Dolgellau, fab Gruffydd ab Hywel o'r Wengraig a Catherin ferch Lewys ab Ywain, yr hwn a hànai o Waithfoed Fawr, arglwydd Pywys. Mam Robert Fychan yr Hynafiaethydd ydoedd Margaret, ŵyres Lewys Ywain y barwn crybwylledig.

---

OWEN ROBERTS (*Owain Aran*),

A anwyd yn Nolgellau, ac a fu farw yn yr un dref y 18fed o Fedi, y flwyddyn 1863, yn 27 mlwydd oed. Yr oedd yn ddyn ieuanc talentog, a'i allu fel bardd cynghaneddol wedi tori allan yn gyhoeddus pan nad ydoedd ond bachgen o ran oedran. Canys yn Eisteddfod Madog, yn y flwyddyn 1851, daeth allan yn fuddugol yn Nghyfarfod y Beirdd yn yr Eisteddfod hono, fel y cyntaf o'r cynulliad yn y cyfarfod hwnw i wneyd englyn byrfyfyr cywir ar destyn cynygiedig ar y pryd. Y testyn oedd, Llwch y Fynwent. Nid am yr englyn goreu, na'r cywiraf mewn duwinyddiaeth ac athroniaeth y cynygid gwobr, ond am y cyntaf a wnelid yn rheolaidd ar y pryd, a daeth yntau allan o'r ymdrechfa yn fuddugoliaethus. Ond er y dengys yr englyn byrfyfyr hwn barodrwydd meddwl a gallu mawr mewn un mor ieuanc, rhaid dweyd mai cyfeiliornus fel duwinyddiaeth yw y llinell olaf mewn perthynas â'r gair "cnawd," er bod athrawiaeth yr adgyfodiad yn cael ei chadarn arddel yn yr englyn. Ond dyma yr englyn ei hun:—

"Y cnwd hwn yw cnawd dynol,—Pwy edrych
  Wedi pydru 'n hollol;
Drwy un o fedrau Anfeidrol
Ei gnwd a wneir yn gnawd yn ol."

Digitized by Google

Darfu i'r diweddar Mr. Robert O. Rees, pan yn dwyn allan Waith Dafydd Ionawr, yn y flwyddyn 1851, gynyg un o'r llyfrau yn wobr am yr Englyn neu y Toddaid goreu i'w osod ar gofgolofn yr awdwr. Daeth 94 o gyfansoddiadau i law ar y testyn, ac yn eu plith englyn o waith Owain Aran. A'i englyn ef a ddyfarnwyd yn oreu. Nid ydoedd ar y pryd ond rhyw 15 neu 16 oed. Ymddengys fod y gystadleuaeth yn un dra thyn, canys ceisiodd y beirniad Eben Fardd gynorthwy Mr. Ellis Owen, o Gefn Meusydd, i benderfynu pa un oedd y goreu. Rhêd yr Englyn buddugol fel hyn :—

"I'r anfeidrol Ior yn fydrydd—y bu
Gyda'i bêr awenydd
A'i holl waith ddiwall ieithydd,
O'i ol yn anfarwol fydd."

Yn rhyw fodd neu gilydd ni osodwyd yr englyn hwn ar y fedd-golofn.

Ceir cofnodi y tri englyn canlynol o'i eiddo, gan yr ymddengys eu cyhoeddwyd mewn newyddiadur fel yn eiddo un arall ac nid eu gwir awdwr Owain Aran. Eithr mae yn ymddangos mai rhy brin yr oeddynt yn argraffedig ynddo fel eu cyfansoddwyd ganddo. Anfonodd eu hawdwr hwy i gystadleuaeth yn Nghorus, ond oherwydd yr unig reswm, yn ol a ddywedir, am na ddaethant i law yn ddigon prydlon, ni enillasant y wobr. Ond wele hwy :—

"O cheir hwyl i'r chwarelwr—y canaf
Dacw hynod weithiwr;
Onid yw gamp nodi gwr,
Mewn teiroes mwy anturiwr.

Efe ar lithrig ddirfawr lethredd,—craig,
Neu 'n crogi 'n ei danedd,
Bwyai dyllau 'mhob dullwedd,
O hyd mewn bywyd,—min bedd.

Ond rhag oerwynt a rhew garwaf,—rhag gwlaw;
Rhag gwlyb dywydd gauaf,
Uwch fy mhen cysgodlen caf,
Mân lechau, mwy ni wlychaf."

Yr oedd yn fardd gwreiddiol a thra phert, cyflym o feddwl, a chyflym o gyfansoddwr. Eithr ymddengys mai at englynion yr oedd ei dueddfryd fwyaf, o leiaf ni chyfansoddodd nemawr ond ar y mesur

Digitized by Google

hwn. Ond nid fel bardd yn unig yr oedd ei dalent yn rhedeg, canys yr oedd yn gywrain fel llais-daflydd, ac mewn cerf-ysgrifen ar ddelid neu gorn. Ystyriai mai i lafur yn llawer yr oedd ei ragoriaeth ef ac eraill fel beirdd i'w briodoli, ac nid yn gymaint i allu cynhenid. A mynai alltudio y syniad, nad oedd ond eisiau geni dyn yn fardd i wneyd bardd o hono,—bod yn rhaid wrth lafur. Ond er hyn i gyd y mae yn ddiameu y meddai ef dalent naturiol gref.

Ysgolfeistr ydoedd wrth ei alwedigaeth. A bu yn athraw yn ysgol Bryncydiwer; hefyd yn y Bala, ac yn Mryn Eglwys yn Iâl. A phan yn cadw ysgol yn y lle olaf collodd ei iechyd, a hyny, fel y tybiai ei hun, yn ol a ddywedir, mewn cysylltiad â myned i blygain foreu Dydd Nadolig, i ryw eglwys tua phedair milldir o bellder oddiyno. Bu yn cadw ysgol yno dros rywfaint o amser wedi hyn; ond ni welodd Ddydd Nadolig fyth mwy ar y ddaear hon, canys, fel y sylwyd, bu farw yn mis Medi y flwyddyn 1863. Yr oedd yn ŵr ieuanc caredig, boneddigaidd, a thra pharod i addysgu eraill.

Ceir terfynu y sylwadau hyn yn ei gylch trwy ddodi dau Hir a Thoddaid, a gyfansoddwyd fel ei feddargraff, gan ddau a fuont yn derbyn addysg ganddo yn y mesurau caethion. Un o destynau Eisteddfod Meirion am 1875 oedd i'r ystyr, Hir a Thoddaid i'w ddodi ar ei feddfaen. Anfonwyd deg o gyfansoddiadau ar y testyn i'r gystadleuaeth, ond ni osodwyd beddfaen iddo hyd yn awr. Y cyntaf o'r ddau Hir a Thoddaid hyn oedd y buddugol, pa un a gyfansoddwyd gan y cadeirfardd Graienyn, a'r un dilynol iddo a ddyfarnwyd yn drydydd buddugol, a chyfansoddwyd hwn gan Robert Roberts, o'r Garleg, yn y plwyf cyffiniol, Llan Fachraith, yn Meirionydd. Hir a Thoddaid Ieuan Ionawr, cadeirfardd arall, a farnwyd yn ail oreu. Ond wele y ddau Hir a Thoddaid y cyfeiriwyd atynt gyntaf:—

"Llyncu da addysg wnai y llanc diddan,
Ei dasg anwyl oedd dysgu ei hunan;
A thrwy ei feroes athraw fu Aran
Garai ddiwygio y rhai oedd egwan;
A thlos farddoniaeth lân—o'i ddwylaw gaid,
Dilynai 'i enaid oleuni anian."

---

"Marw oddiweddodd yn moreu 'i ddyddiau,
Aran, fardd anwyl, rhin ei fawr ddoniau
A gwefr ei ddidwyll gyfarwyddiadau
A godai eraill i farddol gadeiriau
Rhoes wawr uwch hen drysorau uchelddysg,
Lledaenai addysg a'i holl adnoddau."



Digitized by Google

## ROBERT LEWIS.

Ei rieni ydynt Mr. Robert Lewis, Dolgellau, ac Ann ei wraig, a ganwyd ef yn yr unrhyw dref Gorphenaf 4ydd, 1848, a bu farw y 14eg o Ebrill, 1868, a chafodd ei gladdu yn y fynwent newydd berthynol i Eglwys Dolgellau. Bu'n fuddugol ar Bryddest ar "Geubren yr Ellyll," prif destyn barddonol Eisteddfod Llanfachraith, Meirionydd. Hefyd bu yn fuddugol ar Farwnad i'r Archddiacon White, Periglor Dolgellau, prif destyn barddonol Cyfarfod Llenyddol Gwŷr Ieuainc Dolgellau. A thrachefn bu yn fuddugol ar brif destyn barddonol Cyfarfod Cystadleuol yr unrhyw dref, yn Nadolig 1867, pa un ydoedd Bryddest ar "Yr Hen Feibl Teuluaidd." Ni fu y dyn ieuanc hwn yn briod.

---

## THOMAS JONES (*Meddyg*),

A anwyd yn Nolgellau ar y 30ain o fis Mai, 1822, ac a fu farw yn Llandegla yn y flwyddyn 1854. Dywedir am dano yn y "Methodist" am fis Mai, 1855, fel hyn:—"Feallai y bydd yn newydd i lawer o ddarllenwyr y 'Methodist,' a misolion eraill, mai Thomas Jones, Ysw., Meddyg, Dolgellau, ydoedd 'Gogrynwr' yr ymddangosodd ei ysgrifau galluog yn yr 'Amserau' er's tro maith bellach. Ac er colled ddirfawr i gerddoriaeth Gymreig, bu farw yn Llandegla, Swydd Ddinbych, Mawrth 13eg, 1854, yn 31 mlwydd oed. Ni fydd a fynom ni âg ef yn bresenol fel cerddor, ond yn unig grybwyll y cawn ein siomi yn ddirfawr os na chaiff ei Dônau a'i Anthemau eu cyhoeddi yn ddioed, yn enwedig ei anthem ar 'Weddi Habacuc,' yr hon a farnai un o'r beirniaid (y Parch. J. D. Edwards, Rhosymedra) yn ail oreu. Treuliodd gwrthddrych ein sylw y rhan ddiweddaf o'i oes yn Llandegla, yn dilyn ei alwedigaeth fel meddyg." Mab ydoedd i'r diweddar Mr. Thomas Jones, cyfferydd, a Mrs. Elizabeth Jones ei wraig, yr hon sydd yn awr yn byw yn y Fronallt, gerllaw tref Dolgellau.

Digitized by Google

## ROBERT OLIVER REES

Oedd fferyllydd a llyfrwerthydd yn Nolgellau,—ei dref enedigol. Bu farw tua phump o'r gloch foreu dydd Sadwrn, y 12fed o Chwefror, 1881, yn 62 mlwydd oed, a rhoddwyd ei ran farwol i orwedd yn ei fedd yn mynwent newydd Eglwys Dolgellau, ar y dydd Mercher canlynol, sef yr 16eg o'r un mis. Bu yn flaenor gyda'r Trefnyddion Calfinaidd am lawer o flynyddoedd, ac yr oedd yn ddyn ymdrechgar, llawroddiog, a gweithgar gydag achosion daionus. Cyhoeddodd amryw lyfrau ar ei gyfrifoldeb ei hun neu dros eraill, sef Gwaith Dafydd Ionawr, yn cynwys cofiant am dano, wedi ei ysgrifenu gan y cyhoeddwr. Hefyd cyhoeddodd "Gysondeb y Pedair Efengyl," sef cyfieithiad o Waith Robinson, yn cynwys llawer o nodiadau gan Mr. Rees ei hun. Arolygodd gyfrol fechan o Ganiadau Cranogwen. Cyhoeddodd Gofiant a Gweithiau Ieuan Gwynedd, gan ysgrifenu y Cofiant ei hunan. Ond y gwaith a wnaeth ei enw yn fwyaf adnabyddus oedd llyfryn bychan yn rhoi "Hanes Mari Jones, y Gymraes fechan heb yr un Beibl," yr hwn sydd wedi ei gyfieithu i amryw ieithoedd. Argraffodd fil o lyfrau o hono yn yr iaith Gassiaeg, gan eu rhoddi yn anrheg i'r Gymdeithas Genhadol ar Fryniau Cassia. Ysgrifenodd gryn lawer i'r "Goleuad," newyddiadur wythnosol; ac hefyd i'r "Frythones," cyhoeddiad misol, dan olygiad Cranogwen, rhifyn cyntaf o ba un a ddaeth allan yn y flwyddyn 1879. Ysgrifenodd mewn rhan hanes ei ymweliad âg Ysgolion Sabbothol Dosbarth Dolgellau yn hâf y flwyddyn 1879, ond ni fu fyw i'w orphen. Argraffwyd mil o nifer o'r ysgrif anorphenol hon ar draul ei chwaer, erbyn hyn y ddiweddar Mrs. Williams, Dolgellau, i'w rhoddi yn anrheg ymysg aelodau Ysgolion Sabbothol y Dosbarth hwn.

Ni fu erioed yn briod. Yr oedd yn hànu o du ei fam o Yweniaid Pantphylip, yn mhlwyf Llan Gelynin, y rhai a hànent o Lewys Ywain y barwn, disgynydd o Ednywain ab Bradwen, un o Bymtheg Llwyth Gwynedd. Daliai gysylltiad perthynasol â'r Yweniaid hyn trwy fod Cathrin Rees ei fam yn ŵyres i Beti (Elizabeth) Ywain, yn ol ei chyfenw gwyryfol, yr hon oedd fodryb o chwaer ei dad i Mr. Elis Owen, tad Mr. Edward Owen, preswylydd a pherchenog presenol y lle. Brawd i Mr. Robert Oliver Rees ydoedd y diweddar Mr. William Rees, blaenor gyda'r Trefnyddion Calfinaidd yn Nhywyn Meirionydd. Y mae un o'i chwiorydd yn fyw, sef Mrs. Elizabeth Roberts, gynt o

Digitized by Google

Ddolgellau. Ond bu farw ei chwaer, Mrs. Margaret Morgans, priod y diweddar Barch. Henry Morgans, gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn yr un dref. Hefyd yn flaenorol iddi bu farw chwaer arall iddo, sef Mrs. Jane Williams, gweddw y diweddar W. Williams, Ysw., Ivy House, Dolgellau.

Ymbriododd Gwen, merch i'r un a nodwyd olaf, sef Mrs. Jane Williams, âg Edward Griffith, Ysw., Dolgellau, yr hwn sydd flaenor gyda y Trefnyddion Calfinaidd, ac yn Ynad Heddwch dros Swydd Feirionydd, a disgynydd o'r tywysog Bleddyn ab Cynfyn trwy Cadwgan ei fab arglwydd Nannau, ac o'r tywysog Gruffydd ab Cynan trwy Gwenlliain ferch y tywysog hwnw. Ac y mae y ddau yn dwyn cysylltiad achyddol â'u gilydd. Ymbriododd Owen Tudder, ab Tudder Owen a Catherine ei wraig, ab Owen Tudder, âg Elen Vaughan ferch Griffith Vaughan, o Ddolmynllyn, yn y Ganllwyd, pedwerydd mab Robert Fychan, yr enwog hynafiaethydd o'r Hengwrt. Yr oedd Margaret, mam yr hynafiaethydd, yn ŵyres i Lewis Ywain y barwn, a'i dad ydoedd Hywel Fychan o'r Wengraig, yn mhlwyf Dolgellau, fab Gruffydd ab Hywel o'r Wengraig, a Catherine ferch Lewis ab Ywain, disgynydd o Waithfoed fawr arglwydd Pywys.

Yr oedd gan y dywededig Owen Tudder ac Elen Vaughan saith o blant, pedwar o ba rai a fu yn briod. Ac ymbriododd Lewis Owen un o honynt â Margaret, chwaer Griffith Lewis, Bwlchcoch, yu mhlwyf Dolgellau, a bu iddynt un plentyn, sef Mrs. Elen Edwards, Ty'nycoed, ger Dolgellau, i'r hon nid oedd hiliogaeth. Ymbriododd Elen, un arall o'u plant, â'r unrhyw Griffith Lewis, Bwlchcoch, yr hwn ydoedd fab i Lewis Griffith o'r un lle ac Anne ei wraig ferch Morys Owen, o'r Tygwyn (Abergwynant yn awr) yn mhlwyf Dolgellau. Ymbriododd Lewis Griffith, mab y dywededig Elen Vaughan a Griffith Lewis, âg Anne ferch John Jones, Brynrhyg, yn mhlwyf Dolgellau, y rhai oeddynt rieni Mrs. Jones, Victoria Buildings, Dolgellau (Penmaen dro yn ol, yn mhlwyf Dolgellau). Ymbriododd Catherine, un arall o ferched yr unrhyw Elen Vaughan ac Owen Tudder, â John Evans, Gellilwyd Fawr, yn mhlwyf Dolgellau, i'r rhai y bu un plentyn, yr hwn a fu farw yn ieuanc. Ymbriododd Mari, merch arall i'r dywededig Elen Vaughan, â Robert Parri, Waunfechan, yn mhlwyf Dolgellau, a bu iddynt ddeuddeg o blant. Aeth Harri, yr hynaf o honynt, yn filwr, a chollodd ei fraich mewn brwydr yn Gibraltar, ac ymbriododd yno âg un Mari Cars, a bu iddynt ddau o blant, ond bu Catherine, un o honynt, farw yn ddihiliogaeth. Ymbriododd Mari y ferch arall â Griffith Dafydd, Llanelltyd, saer llongau, a mab iddynt hwy ydoedd Dafydd Griffith, tad y crybwylledig Edward Griffith, Ysw., Dolgellau, Ynad Heddwch, i'r hwn y mae dau frawd

Digitized by Google

a thair chwaer yn fyw, pa rai ac yntau hefyd a feddant hiliogaeth. Ond bu brawd a chwaer iddo farw, y blaenaf yn ddibriod, eithr y llall yn briod ac yn meddu hiliogaeth.

---

## ROWLAND OWEN *(gynt o'r Dewisbren)*.

Yr ydoedd yn foneddwr cariadus yn ei fro, ac wedi ei fendithio â pherchenogaeth cyfran o dir ei wlad. Mab ydoedd i Rowland a Lywri Owen o'r Dewisbren, ac ymddengys ei fod yn dwyn cysylltiad perthynasol â hen Grynwyr parchus Tyddyn y Gareg. Yr hyn a'i hynododd ymysg ei ardalwyr fel ag i'w enw gael ei ddwyn i sylw yma ydoedd, ei fedrusrwydd i feddyginiaethu esgyrn toredig ei gyd-ddynion. Yr ydoedd yn feddyg esgyrn rhagorol, ac feallai iddo fod dan addysg broffeswrol * yn y gelfyddyd dros ryw gymaint o amser. Ond ymddengys nad dyna ydyw'r dyb yn gyffredin ymysg y rhai a wyddant am dano. Nid arferai y gelfyddyd ond fel gwladwr cywrain ynddi, ac ni chodai na thâl na thraul am ei wasanaeth, oddigerth a roddid iddo yn anrheg gan hwn a'r llall. A chyfeirir yn un o'r englynion beddargraff iddo am ei waith yn meddyginiaethu yn ddi-dâl. Ac yn ddilynol dodir yma yr hyn sydd wedi ei gofnodi yn ei gylch ar ei feddfaen :—

Coffadwriaeth
Mai dyma'r fan lle y claddwyd
Rowland Owen o'r Dewisbren,
Yn y Plwyf yma,
Yr hwn a fu farw y 9fed dydd o Dachwedd, 1825,
Yn 73ain blwydd oed.

Ei ddiweir-oes a wnai ddirwyn,—ŵr hael
Ar ei ol mae mawr-gwyn ;
Da wiw-naws, a di-wenwyn,
A rhywiog gymydog mwyn.

---

* Awgrymir yr uchod o barth ei addysgiad oddiar a ddywedir gan berson unigol.

Digitized by Google

Glin neu ben-elin anhylwydd,—os cern
Mewn escyrnig aflwydd,
Esgair, troed, clûn, neu ysgwydd,—
Oll yn rhad rhoi 'n eu lle 'n rhwydd.

Clwyfus a rheidus atto rheden,—oll
Caent ddiwallu 'u hangen,
Bendithiant (Ieuant a Hên)
Un Duw, a Rowland Owen.

Yr ydys fel hyn ar ei feddfaen yn ei ddynodi fel Rowland Owen o'r Dewisbren, ac o ran hyny yr oedd yn berchenog y fan, a bu yno yn trigianu. Ac ymddengys mai mab y Dewisbren—Dewisbren Ucha' ydoedd. Ond ymhen rhyw faint o amser ar ol priodi, ymsymudodd i fyw i Ddolgellau, ac yn yr unrhyw dref y bu farw. Ac y mae ei feddrod yn hen fynwent Eglwys Dolgellau.

Bu iddo fab o'r un enw ag yntau yn feddyg. Ymddengys i hwn ymuno â'r fyddin neu'r llynges (fel meddyg, feallai) a myned i le yr oedd clefyd yn cyniwair ar y pryd a marw yno yn ŵr ieuanc. Ac y mae coffadwriaeth am dano, fel y mae yn ymddangos, ar feddfaen sydd gyfochrog âg un ei dad, yn y geiriau hyn: "Rowland Owen o'r Dewisbren, Meddyg, a fu farw yn Surinam, yn America, Rhagfyr 4ydd, 1804, yn 25 oed. Ei Rieni hiraethlawn a osodasant yma hyn o Goffadwriaeth am ei Mab." Ac islaw ceir y coffadwriaeth ddilynol am ei fam:—"Hefyd Isod y mae yn gorwedd Gorph Anne, Merch Rice Jones* o'r Blaenau, a Gwraig Rowland Owen o'r Dewisbren, yr hon a fu farw y 10fed dydd o Chwefror, 1833, yn 80ain mlwydd oed." Yna yn ddilynol y mae englyn beddargraff iddi yn gerfiedig ar y feddfaen.

Er engraifft o allu Rowland Owen fel meddyg esgyrn, a'r sylw a delid iddo fel y cyfryw, gellir mynegu ddarfod, pan oedd dau feddyg rheolaidd un tro mewn ymgynghoriad o barth coes doredig rhyw berson neu gilydd, ac un o honynt yn ystyried mai gwell oedd ei thori ymaith; a'r llall yn hytrach na hyny yn dewis ei gael ef i'w golwg. Ac wedi iddo ddyfod, a'i golygu, yr ydoedd yn barod i ymgymeryd âg asiad yr asgwrn. Yna wedi i'r meddyg rheolaidd ofyn iddo a gai ryw gyfran benodol ag a nodai o le i fyned at y briw, ac iddo yntau ddywedyd y cai fwy, yr ydoedd hwnw yn

* Sef Rhys Jones o'r Blaenau, y bardd.

barod i ymgymeryd â meddyginiaethu yr archoll. Ac felly gwellhawyd y goes yn drwyadl.

Yr oedd Rowland Owen yn frawd i Dorothi Owen, y bregethwres gyda'r Crynwyr, ag y cyfeiriwyd ati yn y tudalenau 147—8, ac yn y Dewisbren, Dewisbren Ucha', y bu hon farw. Idd eu chwiorydd* hwy yr adeiladwyd y Dewisbren Isaf (gweler tud. 86). Y mae i Rowland Owen hiliogaeth, a'r ddau Ddewisbren, yr Isaf a'r Uchaf, yn parhau i aros yn meddiant un neu ychwaneg o honynt.

---

CELLI A CUELLI.—Dygwyd *celli* a *cuelli* i sylw ymhellach yn ol (tud. 42) mewn cysylltiad âg ystyr y rhan olaf o'r enw Dolgellau. Yn y llinell a'r rhan linell a geir yno, perthynol i gân hynafol y mae y blaenaf yn y naill a'r olaf yn y llall yn y modd hyn :—

"Pan colled kelli.
Caffad cuelli."

Yn Ystori Kulhwch ac Olwen, neu Y Twrch Trwyth, yn y Mabinogion, ceir yr enwau "keli a chueli." Diameu mai personau a olygir wrth yr enwau hyn yn y Mabinogi. Ac y mae yn ymddangos mai personau a olygir wrth *kelli* a *cuelli* yr hen gân, ac mai at yr un rhai y cyfeirir yn y naill a'r llall o honynt. Pe dyfalid mai oddiwrth un o'r enwau personol hyn y cafodd Dolgellau neu Dolgelli ei rhan enw olaf, ymddengys mai y blaenaf sydd fwyaf cydfynedol â'r dull enwol presenol, o gymaint mai *gell* ac nid *guell* a arferir. Ond y ffurf o *guell* a ddefnyddiodd Ywain Glyndwr yn ei gred-lythyr dyddiedig o'r dref hon at frenin Ffrainc. Rhoddwyd cyfieithiad o'r llythyr hwnw eisoes;

---

* Ymddengys mai mewn tipyn o genfigen y galwyd neu y dywedwyd o barth yr anedd a elwir yn awr Dewisbren Isaf, "Lletty Gawsom" gan y chwiorydd crybwylledig uchod. A hyny oherwydd eu bod yn cael myned o'u cartref, y Dewisbren, ar ddyfodiad ei chwaer-yn-nghyfraith yno, sef gwraig y dywededig Rowland Owen, eu brawd. A dichon mai fe a gododd yr anedd hono yn breswylfa iddynt, ac nid eu rhieni.

---

O barth Dafydd Ellis, Person Cricieth, ag yr ydys wedi ei ddwyn i sylw yn mhellach yn ol, gellir dweyd yr ymddengys yn ddiameu iddo fod yn fab Hafod y Meirch ar ryw adeg o'i oes. A dichon fod y mynegiant mai yno ei ganed yn gywir. Nid yw yn ymddangos fod cofnodiad am ei fedyddiad yn Nghofnodlyfr Eglwys Dolgellau.

a defnyddiwyd ynddo y ffurf o Nolgellau. Ond y ffurf wreiddiol, yn ol fel ag y mae yn argraffedig yn "Rymer Fœdera," yw Doleguelli, lle ceir yr enw fel mynegiant o'r fan y dyddiwyd y cred-lythyr ynddo, ac y nodir amser y dyddiad yn y modd hyn:—" Dat. apud *Doleguelli* Decimo Die Mensis Maii, Anno Domini Milesimo c c c c. Quarto; & Principatûs nostri quarto."

Ond pa un ai Dolgelli oddiwrth ryw berson o'r enw Celli, yr *c* wedi meddalu i *g*, ai ynte Dolgelli neu Ddolgellau, y blaenaf yn golygu coedwig, llwyn, neu gysgodfa; a'r llall yn golygu bwthynod, cutiau, neu ogofau, nid eir yma i gynyg penderfynu.

---

## LEWYS YWAIN, O DYDDYN Y GAREG.

Yr oedd y gŵr hwn yn fardd, ac yn oesi yn amser Shon Dafydd Lâs, yr hwn a elwir yn gyffredin Bardd Nannau. Canai yr olaf o tua'r flwyddyn 1650 i'r flwyddyn 1690, ac yr oedd Lewys Ywain yn canu yn ei amser, Yr oedd Shon Dafydd Lâs, er ei ddirfawr niwed, yn hoff o ddiodydd meddwol, ac er ei ddarbwyllo i newid ei arferiad ynfyd o'u hyfed yn anmhwyll fel y gwnai, canodd Lewys Ywain fel hyn iddo:—

" Hir ofer arfer a orfydd—sadrwydd
Cais edrych dy ddefnydd;
Sad iawn barch, a sydyn bydd
Eisieu yn dyfod, Sion Dafydd.

---

NODYN.—Mewn perthynas i'r Gadair Goch ac awduriaeth yr Englyn iddi cyfleuedig yn nhudalen 87, ceir dyfynu a ganlyn allan o'r "Brython" am fis Rhagfyr y flwyddyn 1860:—" .... Yn agos i borth gorllewinol y castell (Biwmares) y mae Neuadd y dref, a adeiladwyd gan y diweddar arglwydd Bucley, ar y lle y safai yr hen Neuadd, a adeiladwyd yn y flwyddyn 1563, o dan yr hon yr ydoedd yr ystafell, lle gynt y cedwid offerynau poenydiaeth, megis y cyffion, y rhigod, a'r *droch gadair goch*, er cosbi y menywod tafod-ddrwg â throchiad dan y pistyll, i ba un y canai yr hen fardd, William Phylip, yr englyn canlynol:—

Chwi'r gwragedd rhyfedd eu rhoch—ysgeler
Ysgowliwch pan fynoch;
E'ch bwrir a'ch bai arnoch,
Gyda'r gair i'r gadair goch.

Ysgrifenydd yr erthygl yn y *Tracthodydd*, ar Biwmares a'i chyffiniau, sy gyfrifol am a ddywedir."

Digitized by Google

Ofer, pand ofer! i'r pen doeth,—ofer
Yfed gwin yn chwilboeth;
Ac yfed, naws gofid noeth
Glasdwr enwyn glas dranoeth.

Mab Dafydd, awenydd wiw-nod, cyn d' orwedd
Gwna derfyn ar feddwdod—
Mab i ddiawl, anneddfawl nod,
Mab Duw oni bai diod."

Atebwyd gan Shon Dafydd Lâs yn y modd hyn:—

"Gwir yw'r gair, pur-air, heb ball,—a chadarn,
Ychydig a'i deall;
Oferedd, neu fai arall,
Buan y gwel boen a gwall.

Pechodau moddau meddwon,—a'm daliodd,
Dilyn ofer ddynion;
Ail i'r mab, di arab dôn,
A fu rydlawd afradlon.

At fy Nhad, fwriad edifeirwch,—af,
I ofyn ei heddwch,
Gan grynu, llechu 'n y llwch,
A darostwng i dristwch.

Wrth fy Naf glynaf yn glau,—a'i gyfarch,
A gofyn ar liniau,
Am ras im', wiw resymau,
A mwy llwydd i mi wellau."

Canmolodd Lewys Ywain ef yn yr englyn dilynol am y modd y canodd yn herwydd ei bechod, gan ei gynghori i wneyd fel yr addawodd:—

"Am bechod, ddu nod, a wnest,—y prydydd,
Pur odiaeth y cenaist;
Gwna dithau, Sion ffyddlon ffest,
Fawl didwyll, fel y dywedaist."

Yr oedd y beirdd hyn ryw dro efo eu gilydd mewn llŷs agored yn

Nghors y Gedol, yn Ardudwy, ac ar ol iddi fyned yn hwyr o'r nos. Dymunai Lewys Ywain gael myned i'w wely, canys gŵr ydoedd "yn gweled rhagoriaeth dirwest ar feddwdod." Ac felly fe a ofynodd ar y ddau englyn dilynol "i'r gwr oedd ddarparwr y wledd am genad i fyned i gysgu:"—

"Gruffydd Fychan lan haelioni—a mawredd,
Ymwared a elli
A geir heno'r gwr heini,
Le i orwedd yn d' annedd di ?

Myned o ludded i lawr—i orwedd,
Erfyn 'r wyf yn ddirfawr;
Tirion fai cysgu teir-awr,
Os ceir myn'd ysgweier mawr."

Y mae cerdd o waith yr un gŵr yn y "Blodeugerdd," tudalen 284-5.

---

## TUDYR FYCHAN.

Yr oedd y Tudyr Fychan hwn yn berchenog Caerynwch, ac yn dad, fel yr ymddengys, i Robert Fychan o Gaerynwch, gorhendaid Catherine Humphreys, priod Syr Richard Richards, Arglwydd Brif Farwn y Canghellys. Dygir ef i sylw yma fel un sydd â'i enw yn y Wyseb ddilynol a anfonai y Milwriad John Jones i'r Senedd fel Marchog dros Swydd Feirionydd. Y Milwriad hwn wedi hyny ydoedd un o'r barnwyr a brofasant ac a lawnodasant ddien-lythyr Charles I. Ond wele gynwys y Wyseb hono, ac enw Tudyr Fychan ynddi yn y ffurf o Theodore Vaughan:—

"HÆC 'INDENTURA fact' in pleno Com' Comitat' Merioneth' tent' ap'd Harlech die Martis (vizt.) decimo secund' die Octobris Ano Regni dm̄i nr̄i Caroli Dei grac' Anglie Scotie ffrancie et Hib'nie Regis fidei deffensoris, etc: vicesimo tertio, inter Lodovic' Owen Ar' vicecom' com' p'd'cti ex vna parte, et Owinū Salesbury Ar Gruffinu Nanney Ar Johannē Lloyd Ar Humffreidū Hughes Ar Griffinū Lloyd Ar Rowlandū Vaughan Ar Johē Nanney Riceū

Lloyd Ricũ Lloyd Willmu Wynne Robtũ Wynne Ricũ ap Robt Wynn Robtũ Maesmor Willmũ Nanney Willmũ Humphreys Johẽ Vaughan Hugonẽ Davies Theodorũ Vaughan Hugonẽ Lloyd Edwardũ Lewis Mauriceũ ap Rees David Lloyd Elliceũ Wynne Edwardũ Wynne generosos Edwardũ Lloyd Cleric' et multos alios p'son Com' p' dct' et Elect' vnius Milit' ad Parliament in bre' huic Indentur' consut' specificat' ex altera parte qui vt maior pars totius Com' prdct' tunc ib'm existens Jurat' et examinat' secund' vim forma' et effectũ diũsor' statut' inde edit' et p'visor', elligerunt Johanẽ Jones Armigẽr infra Com̄ p'dct comorant gladio cinct' milit habilem, et mauis idoneũ et discret' dantes et concedentes p'd'ct, Milit' plenâ et sufficient' potestat' p' se et tot' Com' Com' p'd'ct', ad faciend et consentiend' hiis que ad Parliament' in d'cto brevi de comuni consilio Reg' d'ct d'mi Regis nunc Anglie contingerent ordinari sup' negotiis in d'cto brevi specificat'. In cuius rei Testimoniũ vn' parti huius Indentur' penes d'ct dominũ Regem remanent' partes p'd'ct Sigilla sua opposuerunt, alteri vero parti eiusd'm Indentur' p'dct vicecom' Sigill' suũ aposuit. Dat die Ano et loco suprad'ct.*

Lodovicus Owen
Ar' Vicecom' Com' p'd'ct."

Y Lodovicus Owen sydd â'i enw wrth y Wys hon ydoedd Lewys Owen o Beniarth, mab hynaf Richard Owen o'r Morben, yn Swydd Drefaldwyn, a Marged ei wraig, etifeddes Peniarth.

Yn ol a nodir yn y Wyseb hon cafodd ei gwneyd ddydd Iau, y 12fed o Hydref, yn y drydedd flwyddyn ar hugain o deyrnasiad Charles I. Ond er y cyfeirir ato fel hyn ynddi at amseriad teyrnaspryd yn herwydd gwaethygiad ei achos yn y Rhyfel Cartrefol. Ac un o filwyr y Senedd ydoedd y Milwriad John Jones.

* "Cambrian Magazine" am 1831, t. 201.

# YR ELUSENAU.

Ceir yn awr roi hysbysrwydd o barth yr Elusenau perthynol i'r plwyf hwn, wedi ei gymeryd allan mewn rhan o Adroddiadau y Dirprwywyr, ag y gorchymynwyd eu hargraffu o'r flwyddyn 1815 i 1839. Dyddiwyd eu Hadroddiad o barth yr Elusenau perthynol iddo y 10fed o Ionawr, 1834, a dodwyd yr unrhyw o flaen y Senedd yn y flwyddyn hono.

Darfu i JOHN ELLIS, periglor Dolgellau, trwy ei Ewyllys, dyddiedig y 4ydd o Ragfyr, 1665, adael tyddyn o'r enw Penrhyn, yn mhlwyf Llanaber, Swydd Feirionydd, ynghyd â phobpeth perthynol iddo, i beriglor plwyf Dolgellau, a gwarchodwyr eglwysig yr unrhyw blwyf, o bryd i bryd, ynghyd â 12 o bersonau gonest eraill, i'w dal am byth i gynal yn flynyddol athraw galluog a duwiol i ddysgu 12 o blant tlodion, yn enwedig rai amddifaid, a hyny heb dâl ar eu derbyniad i'r ysgol, neu dâl arall ar unrhyw adeg. A'r plant hyn, bechgyn, i fod y perthynasau agosaf i'r rhoddwr os byddai rhai i'w cael, ond os yn amgen eu bod i'w dewis yn gyffredinol heb un math o wahaniaeth. A'i ewyllys oedd fod i'r cyllidau a'r ardrethoedd hyn fyned i dalu am ddarllen gweddiau dair gwaith yn y dydd naill ai yn y lle yr addysgid y cyfryw blant, neu yn yr eglwys.—Ac nad oeddynt i gael eu haddysgu fel y mynegwyd ar ol iddynt fyned dros 16 mlwydd oed, ond fod rhai eraill cyffelyb i gael eu dewis yn ddioed i lanw eu lle.

Ni feddai swyddogion y plwyf, ar adeg ymweliad y Dirprwywyr, ddim gweithredoedd trosglwyddol mewn perthynas i'r tyddyndy hwn.

Digitized by Google

ac nid oeddid wedi penodi neb er's rhai blynyddoedd i weithredu gyda'r periglor a'r gwarchodwyr eglwysig, a chan yr athraw yr oedd holl reolaeth yr eiddo.

Y pryd hwn yr oedd y tyddyn a elwir Penrhyn, safledig yn mhlwyf Llanaber, ynghyd â'i berthynolion, yn naliad un Owen Jones, ac wedi ei osod iddo gan y diweddar athraw dan gymeriad o flwyddyn i flwyddyn am lawn 14p. o ardreth.

Mynegwyd i'r Dirprwywyr ddarfod, oddeutu 50 mlynedd yn flaenorol pan yn ystod dyspeidiad a fu heb yr un athraw, i'r ardrethoedd gynyddu i 80p., y rhai a osodwyd ar lôg yn ol 5p. y cant ar dollau y ffordd fawr a arwain o Ddolgellau i Ddinas Mawddwy.

---

## RHODD ELIS LEWIS.

Gadawodd y Parch. Elis Lewis, Ebrwyad Rhuddlan, drwy ei Ewyllys a ddyddiwyd yr 21ain o Awst, y flwyddyn 1727, ei dyddyn, a'i berthynolion, a saif yn Nghilgwyn, yn mhlwyf Llandrillo yn Rhos, yn Swydd Ddinbych, i ddeon a glwysgor Bangor, yn Swydd Gaernarfon, mewn ymddiried ar fod i'r ardrethoedd blynyddol a'r enillion oddiwrthynt fyned i gynorthwyo i gynal Ysgol Ramadegol Rad yn nhref Dolgellau, er rhydd wasanaeth, addysgiaeth, a manteision plant plwyf Dolgellau yn unig, ac i fod mewn cysylltiad â chymyneg y Dr. John Elis. A phenododd beriglor plwyf Dolgellau ar y pryd, ynghyd â'i olynwyr, i fod yr unig etholydd a penodwr athraw i'r ysgol hon, ac i'w roi yn y swydd a'i droi allan yn ol fel y barnai yn oreu. Ond os byddai i fwyafrif o'r plwyfolion mewn cwrdd plwyfol dybio yn gydwybodol a datgan ddarfod i'r periglor osod ynddi athraw anghymwys neu droi allan un cymwys, gosododd hawl yn nwylaw y cyfryw fwyafrif i alw am farn y dywededig ddeon a glwysgor Bangor, ac mai yr hyn a benderfynid ganddo yn yr achos hwnw i fod yn safadwy ac yn derfynol mewn perthynas â'r farn-alwad hono, neu âg unrhyw un arall ar unrhyw amser a allai gymeryd lle yn mherthynas i hyny neu amgylchiad o'r fath. A'i ewyllys oedd ar i bwy bynag a ddewisid yn athraw i'r ysgol hon ar unrhyw adeg, fod o leiaf wedi graddio yn Wyryf yn y Celfyddydau, yn Rhydychain neu Gaergrawnt, ac na fyddai i neb un yn gwasanaethu unrhyw fugeiliaeth eneidiau, oni roddai i fyny y cyfryw fugeiliaeth, yn addasedig i'w ddewis i fod yn

athraw iddi; neu os yn ddewisedig, iddo wedi hyny dderbyn unrhyw fugeiliaeth eneidiau, na fyddai iddo barhau yn athraw, ond fod i un arall gael ei ddewis yn ei le, gan y tybiai nad allai neb wneyd ei ddyledswydd yn y fugeiliaeth ac mewn ysgol yn Nolgellau. A Gwyllysiodd ar i ymgeisydd am y swydd o athraw yn yr ysgol hon ag a fedrai ddangos ei berthynas âg ef (pobpeth arall yn gyfartal) i gael ei ddewis o flaen un arall, a bod cynwysiad ei gymyneg i'w osod yn ysgrifenedig mewn ystram gyda chymyneg y Dr. Elis.

Hefyd gadawodd yr unrhyw Wyllysydd 100p. i'r dywedig ddeon a glwysgor Bangor mewn ymddiried y defnyddid 50p. o honynt i godi clochdŷ wrth Eglwys Dolgellau, cyfaddas i gynwys pump o glychau o leiaf, a thuag at ddarpariad y nifer hyny neu ychwaneg; a'r 50p. arall tuag at adeiladu ysgol rad yn nhref Dolgellau.

Trwy Ddeintysgrifau o Afaeleb a Gollyngeb, dyddiedig Awst 24ain a'r 25ain, 1738, rhwng Thomas Lloyd, o Fangor, Swydd Gaernarfon, clerigwr, a John Roberts, o Blas Tan y Bwlch, Swydd Feirionydd, o'r blaid gyntaf; deon a glwysgor Bangor y pryd hwnw o'r ail blaid; Hugh Wynne, Ll.D., periglor plwyf Dolgellau, Swydd Feirionydd, a Robert Jones, boneddwr, o'r drydedd blaid; yn mynegu i'r dywededig

Elis Lewis, trwy ei Ewyllys dyddiedig Awst 21ain, 1727, adael 100p. i'r dywededig ddeon a glwysgor mewn ymddiried, un 50p. o honynt tuag at adeiladu ysgol rad yn nhref Dolgellau, ac iddo benodi y dywededig beriglor Dolgellau a'r dywededig Robert Jones i fynu gweled yr 50p. hwnw yn cael ei wario fel y dywedwyd eisoes. Y mae yn dystiolaethedig ddarfod mewn ystyriaeth o'r 5p. 5s. a dalwyd gan y dywededig Hugh Wynne a Robert Jones, i'r dywededig Thomas Lloyd a John Roberts ganiatau, cytuno, a gwerthu i'r dywededig ddeon a glwysgor ddarn o dir, ar ba un y pryd hwnw y gosodwyd sylfaen y ddywededig ysgol rad yn bedair llath ar ddeg ac un droedfedd o hyd, ac wyth llath o led, yn mhen uchaf maes yn nhref Dolgellau;* a mynegodd y dywededig ddeon a glwysgor, fod y darn tir dywededig a brynwyd trwyddynt a'r ysgoldŷ oedd i'w adeiladu arno, i fod ac aros byth i'r dibenion elusengar eu bwriadwyd trwy Ewyllys y dywededig Elis Lewis.

Yn amser ymweliad y Dirprwywyr yr oedd y tyddyn yn nhrefddegwm y Cilgwyn, a elwid Cilgwyn isaf wedi ei osod i Owen Jones, fel

---

* Y mae ei sefyllfa o'r tufewn megis i'r lle yr oedd y tollborth—tollborth Penbryn, ond mewn ystyr fel ar fin y dref y saif.

Digitized by Google

deiliad o flwyddyn i flwyddyn, am lawn 12p. o ardreth blynyddol. Ac yr oedd y fan wedi ei osod gan y diweddar athraw.

Cynwysai yr ysgoldŷ ar y pryd ddwy ystafell, y naill uwchben y llall, a'r uchaf o honynt oedd yr ystafell ysgol. A dosbarthwyd yr isaf gan yr athraw blaenorol i ddwy ddosran, y rhai a osodwyd ganddo fel aneddau am 4p. 10s. y flwyddyn.

Gwariwyd yr 50p. arall a adawyd trwy Ewyllys Mr. Lewis, gan ddeon a glwysgor Bangor, yn nghyfodiad y clochdŷ.

Cyfarwyddodd y Dirprwywyr ar fod i'r etifeddiaethau i gyd gael eu mesur a'u prisio yn ddioed, ac i'r ymddiriadau gael eu hadferu yn unol âg Ewyllysiau y rhoddwyr.

---

## RHODD JOHN TAMBERLAIN.

Trwy Ddatganiad o Ymddiried, dyddiedig y 13eg o Fedi, 1793, gan y Gwir Barchedig John Arglwydd Esgob Bangor; y Parch. Thomas Lloyd, D.D., Deon Bangor, a'r Parch. John Tamberlain, clerigwr, periglor Dolgellau, yn Swydd Feirionydd, yn mynegu ddarfod i John Tamberlain, yn ddiweddar, gan fod yn awyddus i ffurfio trysorfa tuag at y diben elusenol mynegedig ynddi ymhellach ymlaen, osod allan a phrynu â'i arian ei hun, gyfalaf o 266p.13s.4c.,tair y cant. Cedsoddion Blwydd-daliadau Ariandŷ, y rhai a drosglwyddwyd i ac a safent ar y pryd yn enwau y tri gŵr a nodwyd, yn y trosglwydd lyfrau yn Ariandŷ Lloegr; mynegwyd wrth hyny, a chytunwyd ar i'r arian hyn a'r cynyrch blynyddol oddiwrthynt i aros yn eu meddiant hwy a'u holynwyr yn eu swyddi crybwylledig, mewn ymddiried i'r perwyl a ganlyn. Sef yn gyntaf i dalu allan o honynt y gofynion mewn cysylltiad â'r rhoddion elusenol hyn, ynghyd â phob treulion eraill mewn sefydlu a dwyn ymlaen amcan eu rhoddiad o amser i amser. Ac yn y lle nesaf dalu y llôg-ranau crybwylledig neu y gweddill o honynt pan eu derbynid i'athraw yr Ysgol Rad grybwylledig yn addaliad iddo am ei drafferth yn addysgiaeth chwech o blant tlodion plwyf Dolgellau, mewn darllenyddiaeth, ysgrifenyddiaeth, a rhifyddiaeth. Y plant hyn i gael eu dewis gan y dywededig John Tamberlain, yn ystod ei fywyd, ac ar ol ei farwolaeth gan ei olynwyr, clerigwyr Dolgellau am y pryd.—Ac ar ei ymddiried pellach y byddai i'r tri wŷr a enwyd ar y dechreu, ynghyd â'u holynwyr crybwylledig

Digitized by Google

gymhwyso a thalu o bryd i bryd lôg y dywededig Flwydd-dalion Ariandŷ neu ryw ran o honynt yn y cyfryw fodd neu i'r cyfryw ddibenion ag a farnont oreu, sef tuag at addysgiaeth, cynorthwy, budd, neu esmwythâd unrhyw rai o dlodion plwyf Dolgellau am y pryd. Darparedig yn wastad fod i'r ymddiriedolwyr hyn feddu hawl i werthu, trosglwyddo, a threfnu y dywededig Gyfalaf, neu unrhyw ran o honi, ac i osod allan ac elw soddi yr arian a gyfodai trwy hyny yn unrhyw un o Gedsoddion newyddion neu eraill y Llywodraeth, cronfeydd, neu ymddiriedau, i'w newid a'u hamrywio pa mor aml bynag ag y byddai achos yn gofyn, ond yr oll o'r rhai hyn neu a fyddent ar drysorfeydd eraill y Llywodraeth, a'u llôg-ranau i sefyll yn hawl yr Ymddiriedwyr hyny, i'r un ymddiried ag a fynegwyd eisoes.

Yn adeg ymweliad y Dirprwywyr safai 300p., tair y cant, Cedsoddion yn enwau yr Ymddiriedolwyr, gan gynyrchu 9p. o lôgran yn flynyddol. Cyllid yr ysgol ar y pryd oddiwrth bob ffynhonell oedd fel hyn :—Oddiwrth y tyddyn Penrhyn, 14p.; llôg Tollborth, 4p.; y tyddyn yn Nghilgwyn, 12p.; ardreth ystafell yr ysgol, 4p. 10s.; llôg-ranau ar drysorfeydd, 9p. Yr oll gyda'u gilydd yn 43p. 10s.

Yr athraw ar y pryd hwnw oedd Mr. David Pugh, A.B., yr hwn a benodwyd i'r swydd gan beriglor Dolgellau, ar y 9fed o Awst, 1133. Ei gyflog ar y pryd oedd y 43p. 10s. crybwylledig, am yr hyn yr addysgai 18 o blant tlodion plwyf Dolgellau yn ddidraul, 12 o ba rai a benodwyd gan y periglor a'r gwarchodwyr eglwysig, a 6 gan y periglor ei hun. Addysgid hwy mewn gramadeg Saesneg, ysgrifenyddiaeth, a rhifyddiaeth. Cymerai yr athraw hefyd ysgolheigion dan dâl y rhai a addysgid yn yr uch-lyfrau. Y tâl drostynt ydoedd 1p. 1s. y chwarter yr un am uch-addysgiaeth; a 10s. 6c. am addysgiaeth gyffredin. A nifer yr holl fechgyn yn yr ysgol ar y pryd oedd 26, o'r rhai yr oedd 8 yn blant talu.

---

## ELUSENAU URSULA OWEN A JOHN DAFYDD.

Dengys bwrdd yr Elusenau yn Nghwrdd Ystafell yr Eglwys, ddarfod i Ursula Owen, Tanygadair, yn mhlwyf Dolgellau, trwy ei Hewyllys dyddiedig yr 28ain o Fai, 1729, adael llôg blynyddol o 30p. i'w ddosbarthu yn fara bob Sabbath ymysg tlodion y plwyf.

Digitized by Google

Dengys yr un bwrdd hefyd ddarfod i John Dafydd, Fronserth, yn mhlwyf Dolgellau, roddi yn ystod ei fywyd 24p., ac hefyd iddo trwy ei Ewyllys dyddiedig rywbryd yn y flwyddyn 1798 adael llôg blynyddol o 30p. i'w ranu yn fara yn rheolaidd bob Sabbath ymysg tlodion yr unrhyw blwyf.

Mynega Adroddiadau y Dirprwywyr i'r Elusenau hyn, y rhai a gyrhaeddent i 84p., gael eu helwsoddi yn ol 5p. y cant gan y periglor a'r gwarchodwyr eglwysig, ynghyd â gwarcheidwaid plwyf Dolgellau, ar dollau y ffordd fawr a rêd o Ddolgellau i Ddinas Mawddwy, fel yr oedd yn ymddangos oddiwrth Ysgrifrwym y tollborth, dyddiedig y 12fed o Dachwedd, 1827. Mynega hefyd y derbynid eu llog, pa un oedd 4p. 4s., gan y periglor, oddiwrth Drysorydd yr Ymddiriedolwyr, ac eu gwerid ganddo yn mhryniad bara, yr hwn a ddosberthid yn dorthau ceiniog, bob Sabbath ar ol y gwasanaeth crefyddol, ymysg tlodion y plwyf yn gyffredinol, yn unol â rhestr wedi ei gwneyd i fyny gan y cwrdd plwyfol.

Dengys bwrdd yr elusenau ddarfod i William John Evan, Dolgledr, trwy ei Ewyllys, yn y flwyddyn 1651, adael etifeddiaeth a elwid Tyddyn Du yn Nglan y Wern, yn Maenol Tywyn, yn y ddywededig Swydd Feirionydd, ar ei ol yn y drefn ddilynol, sef fod cyfran o'i ardrethion a'r enillion oddiwrtho i'w rhanu bob Sabbath, yn 12 torth geiniog o fara, i dlodion Dolgellau; a'r gweddill o honynt i'w rhoddi iddynt yn ol barn y gweinidog a'r gwarchodwyr eglwysig.

Yn ol Adroddiad y Dirprwywyr, cynwysai y fan amaethdŷ, a thai allan, ynghyd â 34 o erwau, a dwy wialen o dir âr a phorfa. Ac yn adeg eu hymweliad yr oedd wedi ei osod i Rowland Edwards, fel tirddeiliad o flwyddyn i flwyddyn, am 21p. llawn o ardreth, yr hyn, yn ol a nodir, oedd ei lawn werth. Yr oedd wedi ei osod iddo gan y periglor blaenorol.

Yn amser ymweliad yr unrhyw Ddirprwywyr rhenid 12 torth geiniog bob Sabbath ymysg tlodion y plwyf yn gyffredinol; a'r gweddill, pa un oedd 18p. 8s., a renid yn arian a dillad, gan y periglor a'r gwarcheidwaid eglwysig, yn ol fel y byddai achos yn gofyn, ymysg gwrthddrychau mwyaf teilwng o elusen o fewn y plwyf.



Digitized by Google

## ELUSEN DAFYDD JONES.

Dengys bwrdd yr elusenau yn nghwrdd ystafell yr Eglwys, ddarfod, yn y flwyddyn 1786, i Dafydd Jones, o Dan y Fedw, yn mhlwyf Dolgellau, roddi trwy ei Ewyllys, lôg blynyddol o 20p., i'w ddosbarthu bob dydd Nadolig, gan etifedd Brynrhyg, a'r gwarcheidwaid, ymysg tlodion y plwyf a nodwyd.

Ceir cyfeiriad at Elusen y gŵr hwn, yn ol fel yr ymddengys, yn Adroddiadau y Dirprwywyr, lle ei dynodir fel Dafydd Jones, o Frynrhyg. Y mae y cyfeiriad crybwylledig yn llawnach ac i'r ystyr ddilynol :—Rhoddodd a gwyllysiodd, Dafydd Jones, o Frynrhyg, yn mhlwyf Dolgellau, trwy ei Ewyllys dyddiedig y 18fed o Fai, 1785, 10p. i'w nai, John Jones, o Frynrhyg, a'i etifeddion, John Tamberlain, clerigwr, periglor plwyf Dolgellau, ynghyd â gwarcheidwaid eglwysig a gwarcheidwaid tlodion plwyf Dolgellau y pryd hwnw, a'u holynwyr am y pryd, ar ymddiried fod iddynt osod yr arian allan ar lôg mewn lle diogel, a thalu a defnyddio eu llôg yn flynyddol, ar y 24ain o Ragfyr, am byth, er a thuag at gymorth elusenol a chynhaliaeth y cyfryw bersonau anghenus a thlodion yn y dywededig blwyf Dolgellau ag y byddai iddynt hwy, y dywededig John Jones a'i etifeddion, a'r dywededig beriglor, a gwarcheidwaid eglwysig a gwarcheidwaid tlodion y plwyf dywededig, a'u holynwyr am y pryd, neu y rhan fwyaf o honynt, yn ol eu doethineb eu barnu yn gymwys.

A'r 10p. hyny a wyllysiwyd ganddo, fel y rhagddywedwyd oeddynt ychwanegiad at y 10p. crybwylledig mewn Deintysgrif, yn dwyn dyddiad y 10fed dydd o Fedi, 1764, ac wedi ei gwneyd rhwng y Dafydd Jones hwn, o un blaid, a gwarcheidwaid plwyf Dolgellau y pryd hyny, o'r blaid arall.

Dyledodd John Jones, Brynrhyg, ei eiddo personol, trwy ei Ewyllys, dyddiedig y 19eg o Ionawr, 1826, a'r taliad o 20p., gadawedig i dlodion plwyf Dolgellau, trwy Ewyllys Dafydd Jones, ei ewythr, dyddiedig y 18fed o Fai, 1785 ; a chyfarwyddodd ei ôl-weinyddes i dalu a defnyddio eu llôg yn flynyddol yn unol â chyfarwyddiadau ei ddywededig Ewyllys.

Yn amser ymweliad y Dirprwywyr, perthynai yr etifeddiaeth a elwid Brynrhyg i Mrs. Anne Griffiths, yr hon a ddosbarthai 20s. yn rheolaidd ymhlith y tlodion ar nos Nadolig, yn ngŵydd y gwarcheidwaid, mewn dognau yn amrywio o 1c. i 6c.

Digitized by Google

## ELUSENAU HUMPHREY JONES AC ERAILL.

Dywed Adroddiadau 1834 fod yn ymddangos oddiwrth yr Adroddiadau a wnaed i'r Senedd yn y flwyddyn 1786, ddarfod i Humphrey Jones, yn y flwyddyn 1741, roddi 30p. tuag at freintweisio plant tlodion.

Ac fod yn ymddangos oddiwrth Ddeintysgrif, dyddiedig y 10fed o Fedi, 1766, i Dafydd Jones roi 10p. i warcheidwaid y tlodion, i'w dosbarthu ymysg y tlodion a phersonau gwanllyd y plwyf.

Ac yr ymddengys oddiwrth gofnod yn llyfr y plwyf, dyddiedig y 30ain o Hydref, 1827, y penderfynwyd ar i'r 10p., gwyllysiedig gan Humphrey Jones, Ty'n y Gaer, llôg pa rai oedd i'w ddefnyddio tuag at freintweisio plant tlodion, gael eu rhoddi at yr arian ag oeddynt wedi eu helwsoddi eisoes yn y Tair y Cant. Cedsoddion, i'r unrhyw ddiben, a bod i'r plwyf gyflenwi allan o drethoedd yr Eglwys yr hyn oedd yn eisiau i wneyd i fyny y drysorfa hono o 100p.

Yn ol Adroddiadau 1834, yr oedd 100p. Tair y Cant, yn sefyll, yn amser ymweliad y Dirprwywyr, yn enwau y Parch. Thomas Griffith Roberts, y diweddar beriglor, a Richard Richards, Ysw., Caerynwch, yn mhlwyf Dolgellau, mewn ymddiried dros y plwyf, gan gynyrchu 3p. o lôg-ran blynyddol, y rhai a dderbynid gan Mrs. Richards.

Ac yn ol yr unrhyw Adroddiadau yr oedd dau fachgen wedi cael eu breintweisio er y flwyddyn 1827, wrth 3p. yr un o freintobr. Ac yr oedd llôg-ran dwy flynedd yn ddyledus yn adeg gwneuthuriad yr Adroddiadau hyny, pa rai oeddynt i'w defnyddio i ddiben o'r fath.

Cyfnewidiwyd ac adgyweiriwyd yr ysgol a nodwyd mewn cysylltiad â'r Elusenau hyn yn y flwyddyn 1853, ac nid oes neb yn byw yn awr mewn un rhan o honi.

---

Digitized by Google

# PLWYF LLAN FIHANGEL Y PENNANT.

Cymer y plwyf hwn ei enw oddiwrth ei Lan berthynol, sef Llan Fihangel y Pennant, megis ag y gwna amryw o blwyfydd eraill oddiwrth eu Llanau perthynol hwythau. Wrth Fihangel neu Mihangel y golygir Michael yr archangel, ac y mae Llan yn y cysylltiad hwn yn golygu yr Eglwys. Ond os mai nant mewn gwirionedd, fel yr ymddengys maie, yw ffurf briodol y rhan olaf o enw yr Eglwys hon, y mae yn ofynol sylwi o barth pa nant a feddylir.

Yn nghymydogaeth y Llan hon ac ar Ffridd Ceryg y Felin, y mae ffynon o'r enw Ffynon Mihangel. Ac yn y pellder o tua 223 o gamrau i'r de-ddwyrain oddiwrthi, erys gweddillion hen adeilad, ag y dywedir mai Eglwys Mihangel ydoedd. Mesura y tu fewn i'r muriau bedair troedfedd ar hugain o hyd, ac ychydig llai na deuddeg troedfedd o led. Tua mangre yr hen olion hyn y mae dyfroedd yn codi, a rhêd y dwfr yn rhidys i waered efo clawdd cae sydd encyd o bellder yn îs i lawr, ac am ran o'i daith, yr ochr fewn iddo i'r cae. Ac er nad yw namyn math o ridys o ran maintioli, eto cyfeirir ato fel nant, canys gelwir y cae crybwylledig yn Gae'r Nant. Cyfeiria y nant hwn ymlaen heibio y Llan bresenol, gan olchi clawdd y fynwent ar ei daith, ar y tu agosaf i Foel Cae'r Berllan, ac ymuna â'r Gegidan islaw Castell y Bera.

I ddilyn traddodiad, ymddengys mai at y nant a nodwyd y cyfeirir yn yr enw. Er hyny, y mae y ffaith mai Pennant neu Penant yw enw tyddyndy sydd yn lled agos yn achosi fod peth anhawsder i hollol benderfynu mai nant sydd ddealledig yn niwedd yr enw, neu mai at yr un dan sylw y cyfeirir. Canys nid yw perthynas sefyllfa y naill i'r llall yn dangos fod y fath enw a Pennant yn briodol iddo yn ei gysylltiad â'r nant hwn. Ond yn ngwyneb hyn, gan y ceir y cyfryw

Digitized by Google

enwau a Llan Fihangel Genau'r Glyn, a Llan Fihangel y Traethau, y rhai, mewn rhan, a feddant ddynodiant lleol, ymddengys mai *nant* ydyw y terfyniad yn y Llan Fihangel y Pennant dan sylw. Ac y mae y traddodiad am yr hen adeilad crybwylledig yn cadarnhau hyn, gan gyfeirio hefyd at y nant a nodwyd fel yr un a olygir.

Bu llaw ddynol wrthi yn trefnu ac yn adeiladu i gyflunio Ffynon Mihangel, ond y mae erbyn hyn wedi ei gadael i syrthio i annhrefn. Ystyrid hi yn rhinweddol i wella y gewynwst, a dywedir y cyrchai llawer iddi gynt am iachâd oddiwrth yr anhwylder blin hwn. Mesura y ffynon oddeutu dwy lath o hyd a llathen o led, ond ychydig yn llai tua'r pen uchaf, ac oddeutu dwy droedfedd o ddyfnder.

Bu Llan Fihangel yn cael ei dal gynt megis capel eglwysig perthynol i'r fam-eglwys yn Nhywyn a'r plwyf neu ei ehangder yn rhan o fywoliaeth Tywyn. Ond yn awr y mae yn annibynol ar y fam-eglwys, ac heb fod a fyno periglor Tywyn â'i gwasanaethu na phenodi gweinidog iddi.

O ran ei hamseriad ymddengys ei bod yn hynach nag Eglwysydd Tal y Llyn a Phenal, neu, ynte, ei cysegrwyd i'w nawdd Sant Mihangel yn flaenorol i'w cysegriad hwy i'w nawdd saint. Canys dywed y Proffeswr Rees yr arferid cysegru i Mihangel cyn y cysegrid i Pedr a Mair.

Digitized by Google

# LLEOEDD.

## Y GARNEDD LWYD.

Gelwir yr enw hwn ar ddarn lled helaeth o dir ag a ffurfia ran o ben mynydd Nantcaw Fawr. Ar uchaf y fan hon y mae carnedd o geryg wedi ei phentyru i ryw ddiben neu gilydd. Cafodd ei hagoryd gan Mr. Wynne o Beniarth, a Mr. W. Wynne Ffoulkes er's llawer o flynyddoedd yn ol, ond ni lwyddasant i gael dim olion beddrodol ynddi, nac ychwaith i gael allan ddiben ei chyfodiad. Rhydd yr olaf yn yr hanes a ddyry am eu hymchwiliad iddi yn yr "Archaiologia Cambrensis" y sylw disail a ganlyn, gan nodi yn ngodreu'r ddalen mai un o'r gweithwyr a'i dywedodd wrtho:—"Tybid ei bod yn gadwrfa trysor, a rhai blynyddoedd yn ol, hen wraig, wedi ei hanog gan weledigaethau nosawl a breuddwydion, a ddaeth mor argyhoeddedig gan y syniad hwn fel ag y gwnaeth ymosodiad egniol arni, ond tarawyd ymaith y dymuniad am drysor oddiwrth ei gwefusau gan ystorm ddialeddol o fellt a tharanau, fel yr honodd ei hun."

Ond yn ngwyneb a nodwyd, gan yr amheuwn a fu a wnelai yr hen wraig, ag y cyfeirir yn ddiameu ati fel hyn, a'r fan yn y cysylltiad honedig, er cymaint fu ei helynt gyda breuddwydion ac arian cuddiedig, aethum i ofyn iddi a oedd yr honiad yn wirionedd, pryd y dywedodd na fu erioed wrth y garnedd hon. Gan hyny, pwy bynag a ddarlleno y sylw a nodwyd, na rodded goel arno.

Digitized by Google

## PONT YSTYMANER.

Y mae y bont hon yn rhychwantu afon Syni neu y brif gainc iddi, gerllaw tyddyndŷ o'r enw Rhiwlas. Gelwir hi, weithiau o leiaf, yn Bont Styrmana neu Strymana ar lafar gwlad. Dyga y gantref lle y saif yr enw Cantref Ystymaner, ond yn yr hen amser, pryd nad oedd sôn am y gantref hon, gelwid rhan o honi yn Gwmwd Ystymaner. Ac yn Mharthau Cymru, argraffedig yn Henafiant* Cymru, rhoddir enw yr unrhyw Gwmwd yn y ffurf o *Ystum anner*. Ond yn y gwahanol ddarlleniadau yn ngodreu y ddalen o'r un llyfr, ceir y dulliau *Ystymofir*, ac *Ystym aner*. Eithr yn yr ysgriflyfr "Trefydd Marchnad Cymru allan o lyfr Llelo Gwtta o M.S. Ll. ap Mredydd ano 1563. Copyed by John Jones Gelli Lyfdy," ceir *kwmwd ystym aniel*. Ac fel hyn nis gellir penderfynu beth yw ffurf gyntefig terfyniad yr enw, ac y mae y diffyg hwn ynddo ei hun, erbyn hyn, yn ormod rhwystr i allu egluro yr ystyr. Nid yw yn ymddangos fod y ffurf *ystym* neu *ystum* yn fanwl gywir am ystyr y rhan gyntaf o'r enw. Eto ysgrifenir rhanau blaenaf o enwau lleoedd fel hyn yn aml, pryd yr ymddengys y dylesid eu hysgrifenu yn *Ystyn* neu *Estyn*. Ac os mai Ystyn neu Estyn (llygrol—Ystym neu Ystum, &c.), sydd guddiedig yn y ffurf werinaidd o hono, ymddengys mai rhoddiad meddiant yw ei ystyr gyfreithiol. Y mae Ystyn neu Estyn yn ddynodiant arferedig yn Hen Gyfreithiau Cymru,† a dyma un pwnc o honynt yn ei gysylltiad:— "Tri ryw perchenogaeth yssyd ar dir herwyd kyfreith vn yw estyn hep oresgyn; eil yw goresgyn hep estynn; trydyd yw goresgyn ac ystyn." Y mae y dynodiant cyfreithiol hwn yn rhyw fodd wedi dod yn rhan o enwau lleoedd, fel yr ymddengys. Ac mewn llyfr a ellir ei alw llyfr ardreth y brenin, ceir yr enw Gwerglodd Ystym Gronw ar fan yn nhrefddegwm Peniarth. Y mae yn eglur mai enw personol ydyw Gronw,—Goronwy, yn y fan hon, ond yma eto ceir Ystym yn lle Ystyn neu Estyn.

---

* Myf. Arch., ail arg., t. 735.
† "Ancient Laws and Institutes of Wales," t. 591

GWAITH DEUWR DUON, GWAITH GWR DU, A PUMWR DUON.

Yn y penawd hwn ceir enwau tri o leoedd ag sydd yn perthyn i wahanol dyddynod. A pherthyn y cyntaf i Nantcawfawr a'r ddau eraill i Gedris. Y gwaith y cyfeirir ato yn yr enwau hyn yw tori gwair. Ac yn y berthynas â'r cyntaf golygir gwaith dau ŵr o dori gwair mewn diwrnod, ond gwaith un dyn o dori gwair mewn diwrnod yn yr ail. Ac er nad ydyw y gair gwaith yn gysylltiedig â'r olaf, eto gwaith pump o ddynion o dori gwair mewn diwrnod a olygir. Ond y mae i'w ystyried ai cyfeiriad dynodol at y tir sydd yn y rhan-enwau Duon a Du mewn cysylltiad â'r lleoedd hyn, neu ai at galedrwydd y gwaith o dori eu gwair, ynte at y pladurwyr eu hunain. Y mae fod yr enwau Cae Du a Ffridd Cae Du ar fanau ar dir Nantcawfawr fel yn bleidiol i'r blaenaf. Ond a chaniatau mai at bersonau y cyfeirir, naturiol gofyn pwy oedd y Gwyr Duon hyny, tybed? A phaham y dynodir du a duon mewn perthynas iddynt? Nid yw yn ymddangos fod un math o draddodiad ar lafar gwlad yn yr ardal a gynorthwya i gael hyn allan. Gallai mai duon o liw a olygid; ond o'r tu arall feallai nad ydoedd namyn arddynodiant enwol heb gyfodi o gwbl yn herwydd tywyllni eu gwedd. Canys ceir ddyfod ciwaid ysbeilgar a chreulawn i ymosod ar ranau o Gymru yn y nawfed ganrif, y rhai, feallai, a fuont dostach trwy eu rhuthrgyrchoedd echryslawn wrth Loegr nac hyd yn nod at y Dywysogaeth ei hun. Gelwir y llu ysgeler hwn yn Ddaeniaid Duon, Llu Du, Paganiaid Duon, a'r Gwŷr Duon. Dichon y cysylltir y dynodiant *duon* â hwy oblegid creulondeb eu gweithredoedd, ac ymddengys eu gelwid yn Ddaeniaid i ddynodi o ba genedl yr oeddynt, neu yr oedd y prif gorff o honynt.

Nid ydys yn gwybod paham y cysylltir y gair *duon* âg enwau y giwaid waedlyd a nodwyd. Dywed Carnhuanawc o barth hyny fel y canlyn :—" Pa ham y rhoddwyd iddynt y cyfenw *du* ni wyddys. Cyttunir yn gyffredinol, na allasai yr enw hwn, ddim cael ei roddi o herwydd gwedd-arnodiad y bobl, a lliw eu crwyn ; canys oddiwrth a welir yn y gwledydd hynny y dydd heddyw, a'r hyn a ellir ei farnu oddiwrth ansawdd yr awyrad yno, pobl croenwyn pengoch, neu penfelyn oedd gwyr Denmarc a Llychlyn. Rhai a dybiant, mai oddiwrth liw eu harfau, y daeth ; eithr nid oes awdurdod eu bod yn dduach yn eu plith hwy, na'r cenhedloedd eraill. Rhai ynte, a feddyliant,

Digitized by Google

mai oddiwrth y llun ar eu lluman, sef y Gigfran, y deillia yr enw. Ond nid ydyw hyn oll namyn dychymyg yn unig; ac felly ychwanegaf atto, ddychymmyg arall o'm heiddo fy hun; sef, mai oddiwrth eu sefyllfa gadarn yn ninas Dulyn, yr hon yn y Wyddelaeg, a elwir Dubhlin, y daw yr enw. Dubh, yn y Wyddelaeg sydd yr un a *Du*, yn y Gymraeg. Ac felly, cyfieithir enw y lle, *nigra therma*, a'r Daniaid yn y lle yma, a elwir Gwyr Dulyn. Gelwid hwy hefyd gan y Gwyddelod, yn *Dubh-Gal*, hyny yw, yr *Estroniaid duon*."

"O ran eu hanianawd a'u hymddygiad," ebai yr un gŵr am danynt, "pobl anwar, bwystfilaidd, a chreulawn, oedd y Daniaid, didrugaredd, a dideimlad; ac oddieithr fod profion diamheuol, perthynol iddynt, braidd y credwn y gallai yr anian ddynol, syrthio i'r fath raddau dieflig o atgasrwydd. Er engraifft o'u hanian, gellir adrodd, mai un o'u harferion defodol, pan afaelent ar ryw ardal neu dref annedwydd, yn eu cadruthriadau, oedd cymeryd y plant bychain oddiwrth eu mammau, a'u taflu â'u gwaewffyn, o un i'r llall, o bicell i bicell, gan eu derbyn ar y blaenau; a'r arfer hyn oedd mor sefydlog yn eu plith a'i fod yn ddefod gwastadol, nes iddo gael ei ddiddymu trwy gyfraith, yr hon a wnaethpwyd gan un o'u brenhinoedd, mwy gwaraidd, na'r lleill."

---

## ABERGYNOLWYN.

Pentref ydyw Abergynolwyn a gymer ei enw oddiwrth *aber* sydd gerllaw, megis ag y gwna Aber Dyfi, ac Abermaw, a llawer man arall. Ond ceir sylwi o barth ei enw yn mhellach ymlaen. Hyd y flwyddyn 1864, nid oedd ond pentref bychan, eithr er y pryd hyny, oherwydd gweithgarwch yn chwareli Bryn yr Eglwys a Chantrybedd, helaethwyd llawer arno, nes ydyw erbyn hyn yn gryn bentref. Cynhelir tair o ffeiriau yno yn flynyddol er y flwyddyn 1871; a'u hamseriad yw Mai 31ain, Medi 15fed, a Hydref 16eg.

Dydd Sadwrn, yr 16eg o Awst, 1877, darganfyddwyd cistfaen yno yn ddamweiniol, fel yr oeddis yn tori lle geudŷ y tu ol i aneddau newyddion a godasid ar ystlys y pentref megis. Gorweddai o fewn rhyw naw modfedd i'r arwyneb, a'i thalcenau yn pwyntio y naill i'r gogledd-ddwyrain a'r llall i'r de-orllewin. Yr oedd ychydig o'r pen de-orllewin iddi heb fod yn orchuddiedig gan ei chareg orchudd, ond tebygol y gorweddai dros ei gwyneb oll ar y cyntaf. Mesurai y

Digitized by Google

gistfaen oddeutu tair troedfedd a phum' modfedd o hyd, a thua throedfedd a thair modfedd o led, a thua throedfedd a thair modfedd o ddyfnder. Yn y pen de-orllewinol iddi, cafwyd math o ddwy ystên bridd, ac yn yr agosaf i'r talcen o honynt yr oedd cynwys o liw llwyd, a thipynau gwynion heb fod yn galed, yn nghymysg; ac yr oedd llechen ar wyneb y bridden hon. Yr oedd yr ystên arall yn wâg, a'r ochr agosaf iddi i'r llall yn ngholl. Rhwng yr ystenau a'r pen gogledd-ddwyrain, yr oedd mân ddarnau o esgyrn; ac yr oedd ceryg wedi eu gosod yn y pen hwnw fel pe i leihau hŷd y gistfaen mewn ystyr. Dywedir nad oedd gwaelod i'r llestri hyn, ond ymddengys oddiwrth ddull rhai o'r darnau toredig fod gwaelod i un o honynt. Meddai y ddwy addurniadau oddeutu eu geneuau, o'r tu fewn ac o'r tu allan, ond addurnwyd y ddwy yn wahanol i'w gilydd, y naill gyda thyllau lled fychain a'r llall gyda math o resi. Ond fel y mae yn fwyaf gresyn, cafodd yr ystenau hyn eu darnio, a hyny, fel yr ystyrir, am na adawyd iddynt ymgaledu yn yr haul, ac oherwydd dibrisdod ac awydd y gwyddfodolion oedd yno ar y pryd am arian neu aur, ynghyd â'u hanwybodaeth am bethau o'r fath.

Tua mis Tachwedd y flwyddyn 1883, fel yr oeddid yn tori sylfaen Ysgoldy y Bwrdd—Bwrdd Ysgol, yn y pentref hwn, caed dwy ystên bridd yn llawn o fân esgyrn a lludw gwyn, ac amryw o esgyrn a thipyn o faint o honynt wedi duo; ac yr oedd yn y ddwy ddarnau o esgyrn pen. Yr oedd eu gosodiad â'u gwynebau i lawr a chlwt o lechfaen o dan eu geneuau, ac yr oedd addurniadau ar un o honynt. Yr oedd yno weddillion amryw eraill, meddir. Ymfaluriodd y ddwy ar ol eu codi o'r ddaear, un o honynt rhag blaen, a'r llall dranoeth.

Caed ystên arall hefyd gerllaw, sef oddeutu tair llath o'r tu allan i'r sylfaen, yn llawn o esgyrn a lludw gwyn, ac esgyrn a thipyn o faint o honynt wedi duo, ac yr oedd ynddi ddarnau o asgwrn pen. Nid oedd dim addurniadau ar yr ystên hon, ac ymfaluriodd yn ebrwydd.

Ymhlith Englynion y Beddau y mae yr hen englyn canlynol, yr hwn a ddyfynir yma mewn dau ddull gwahanol, y cyntaf fel ei argraffwyd yn y Myfyrian* Archaialogy, a'r llall fel ei argraffwyd yn un o lyfrau† Skene allan o Lyfr Du Caerfyrddin:—

"Yn Abergenoli y mae Bet Pryderi
Yn y tereu tonneu tir
Yg Carrawc bet Guallauc hir."

* Ail arg., t. 66.
† "The Four Ancient Books of Wales," t. 29. W. F. Skene.

"En aber gwenoli. y mae
Bet pryderi yny terw tonnev tir
Yg karrauc bet gwallauc hir."

Ceir yn yr enwau Abergenoli ac aber gwenoli gwahanol ddulliau yr englyn hwn gryn debygolrwydd i Aberganolwyn neu Abergynolwyn. Ond y mae anhawsder yn yr englynion eu hunain i brofi mai dyna'r fan a feddylir. Yr anhawsder ydyw y geiriau *Yn y tereu tonneu tir*, neu fel y maent yn yr englyn arall, *yny terw tonnev tir*. Ystyrir mai eu meddwl yw *Lle tery y tonau yn y tir*. Ac os mai at safle bedd Pryderi y cyfeiriant, yr hyn sydd debygol, ac os mai tonau'r môr a olygir ac nid tonau dwfr croew, yna rhaid dweyd fod y môr yn rhy bell oddiyno fel ag i gynyg cymhwyso y darluniad at y fan. Ond os tonau dwfr croew a olygir, gellir sylwi mai nid rhy annhebyg y bu yma lyn o gryn faintioli gynt, neu, ynte, le dyfriog. Eithr pa un bynag nid ydys yn dymuno rhoi unrhyw bwys ar hyn fel ag i ogwyddo ymhlaid mai at donau y cyfryw y mae cyfeiriad y geiriau.

Bu llawer o ddyfalu ac esbonio o barth ystyr enw Abergynolwyn, a lliosog yw y dulliau o'i osod allan, megis Abergwernolwyn, Abergwernol Wy, Aber Cynolwyn, Aber Cantolwyn, Aber Gwenolwyn, Aberganolwyn, ac Abergynolwyn. Ond y ddau a nodwyd ddiweddaf yw dulliau llafar gwlad, neu o leiaf yr olaf o honynt. Y mae i Abergwernolwyn neu *Abergwernol Wy* rywfaint o hawl i gael ei ystyried yn enw priodol y lle. Canys ar dalcen cyd-fynydd Nantllwyngwedd a Hendrefwallog, yn gwynebu Moel Goch Hendref Wallog y mae ffynon a elwir Ffynon Gwernol, o ba un y tardd rhan-gangen o'r afon y derbyn y pentref ei enw oddiwrthi, neu oddiwrth ei haberiad neu ei haber. Eithr nid yw yn ymddangos fod hyn ynddo ei hun yn ddigon cryf i fod yn derfynol mewn perthynas i'r enw.

Ac fel y crybwyllwyd yn flaenorol, medd aber gwenoli ac Abergenoli yr englyn gryn debygrwydd i'r enwau Aberganolwyn neu Abergynolwyn. Ac oni bae fod yn rhy amheus mai yr un ydynt, er y fath debygrwydd, gallesid priodoli yr un ystyr i *gan* yn Aberganolwyn, ag i *gwen* yn aber gwenoli yr englyn, ac ystyried y naill fel y llall yn golygu *gwyn*, yr *c* wedi meddalu i *g*. A synio hefyd mai llygriad o *gwen* ydyw *gen* yn Abergenoli yr englyn mewn dull arall. Ac mai llygriad o *gan* yn Aberganolwyn, ydyw y *gyn* yn Abergynolwyn, llafar gwlad.

Os mai golygu *wy*, neu ddull mwy hynafol *gui*, sef afon neu ddwfr y mae y ffurf derfynol *i* yn yr englyn; pe caniateid mai yr un man a

Digitized by Google

olygir a'r lle dan sylw, gellir nodi y ceir yma ar lafar gwlad ffurf o derfyniad tra gwahanol yn Abergynol*wyn*. Ac o ran hyny gellir gwneyd camsyniad dybryd, weithiau o leiaf, wrth briodoli mai *wy* sydd guddiedig yn yr *i* derfynol mewn enwau afonydd, os byddis wrth hyny yn golygu mai enwau darluniadol o'r unrhyw fyddant. Canys ceir *wy* yn derfyniad enwau personol. Ac hwyrach na fydd unrhyw berthynas rhwng yr *i* derfynol âg *wy* o gwbl.

Y mae yn nghymydogaeth Aberdyfi, ar dir Glygyrog Wen, faes o'r enw Cae Cynolwyn. Ac ymddengys mai enw neu ffugenw perthynol i rywun neu gilydd ydyw y dynodiant Cynolwyn a geir ar y fan hon. Gall mai ffugenw yw yn herwydd rhyw gysylltiad o eiddo yr unrhyw âg Abergynolwyn. Ond os mai enw personol gwirioneddol ydyw, mwy tebygol mai enw personol o'r un ystyr yw *gynolwyn* yn Abergynolwyn, yr *c* yn y naill wedi meddalu i *g* yn y llall. Ond y mae lle o'r enw Abergwennol tua Llanddyfri, ac er nad ydys yma am roi un awgrym yma mai at y fan hon y cyfeiria yr hen englyn pa un bynag, eto gan ei fod yn dyfod mor agos o ran ffurf enwol i Abergenoli neu aber gwenoli yr englyn, yr ydys trwy hyn, ynghyd âg a ddywedwyd yn flaenorol yn tueddu i wrthod Abergynolwyn fel y lle y cyfeirir ato ynddo.

---

## HENDREF WALLOG.

Amaethdŷ ydyw y fan sydd yn dwyn yr enw hwn, a saif gerllaw ac ar y tu uchaf i'r ffordd a arwain dros y mynydd o Abergynolwyn i Fachynlleth, ac yn y pellder o tua thair ran o filldir oddiwrth y lle a enwyd flaenaf. Golyga y rhan olaf o'r enw ryw berson neu gilydd a elwid Gwallog. Y mae dwy o hen gerddi ar gael i Wallawg ab Lleenawg. Penawd y naill yn y Myfyrian Archaiology * ydyw "I Wallawg." A gelwir y llall ynddo "Kerdd I Wallawg ap Lleenawg." Ac yn yr un y cyfeiriwyd ati ddiweddaf ceir y llinellau hyn:—

"Hir ddychyferfyddain
O Brydain gofain
O Berth Maw i Eiddin."

---

* Ail arg., t. 52, a 55.

Dyfalai Mr. Stephens, Merthyr, mai Abermaw a feddylir wrth Berth Maw y gerdd. Ond y mae Mr. Skene, gyda gwell sail, tebyg-ol, yn ei lleoli yn Mhrydyn, yn y Gogledd. Eithr ystyria y ddau mai Edinburgh a feddylir wrth *Eiddin*. Y mae y cyntaf hefyd yn dyfalu fod Hendref Wallog yn gartref i Gwallawg y gerdd, a gesyd i rai o'i frwydrau y cyfeirir atynt ynddi gael eu hymladd yn Nghymru. Mr. Skene, o'r tu arall, a leola safle o'r oll o'r brwydrau yn yr Alban, oddieithr Kat y gwensteri, ac y mae'r ddau yn golygu i hono gael ei hymladd yn Lloegr.

Gŵr o ogledd yr ynys oedd Gwallawg ab Lleenawg, neu o leiaf ymddengys y bu yn aros yno. Ond nis gwn i a oes digon o sail i'w gysylltu â Chymru fel ag i allu amddiffyn syniadau Mr. Stephens. Cysylltir rhyw Owein Mon âg ef yn un o'r hen gerddi a nodwyd, ac y mae hyn ,feallai, o blaid iddo fod yn Nghymru. Hefyd y mae yr enw Brecheinawc yn yr ail linell o'r rhai dilynol, yn hytrach na heb, yn pwyntio i'r un cyfeiriad :—

" Ym prydein yn eidin yn adeueawc.
Yggafran yn aduan brecheinawc.
Yn erbyn yn yscwn gaenawc.
Ny wyl gwr ny welas gwallawc."

Dywed Skene o barth Brecheinawc yn y linell hon mai tebygol ei cymhwysir yma at yr ardal oddeutu yr Eiddin crybwylledig yn y llinell flaenorol, pa un a breswylid gan y Catbregion. Ond modd bynag am hyn, ni ddug ddigon o reswm dros ei honiad i roddi gwedd gadarn arno.

Yn ddilynol ceir rhoddi y ddwy gerdd y cyfeiriwyd atynt eisoes, o un o ba rai yr ydys newydd gyfleu ychydig o linellau. Dodir hwy yma wedi eu cymeryd o un o lyfrau Skene, ymha un y maent wedi eu cymeryd allan o lyfr* Taliesin. Nid oes yr un penawd iddynt yno, eithr dug y naill y rhif XI., a'r llall y rhif XXXVIII. Ond wele y cerddi :—

XI.

En enw gwledic nef goludawc.
Y drefynt biewyd gyneil uoawc.
Eiric y rethgreu riedawc.
Rieu ryfelgar gewheruawc.

* "The Four Ancient Books of Wales." Cyf. II., t. 149, a 193.

Ef differth aduwyn llan lleenawc.
Toryt vn hwch ardwyawc.
Hir dychyferuydein.
O Brydein gofein.
O berth maw ac eidin.
Nẏ chymeryn kyuerbyn.
Kyweith kyweithyd clytwyn.
Digonwyf digones lyges.
O beleidyr o bleigheit prenwres.
Prenyal yw y pawb y trachwres.
Aghyfnent o gadau digones
Gwallawc gwell gwyd uwyt noc arthles.
Kat yr agathes o achles
Gwawt gognau y brot digones.
Kat ymro vretrwyn trwy wres
Mawr tan. meidrawl yw y trachwres.
Kat yr ae kymrwy kanhon.
Kat kat cryney yn aeron.
Kat yn arddunyon ac aeron
Eidywet. eilywet y veibon.
Kat ygcoet beit boet ron dyd.
Ny medylyeisti dy alon.
Kat yn rac uydawl amabon.
Nyt atrawd adurawt achybyon.
Kat y gwensteri ac estygi lloygyr.
Safwawc yn awner.
Kat yn ros terra gan wawr.
Oed hywst gwragawn egurawn.
Yn dechreu yghenyat y geirawr.
O rieu o ryfel ry diffawt.
Gwyr a digawn godei gwarthegawc.
Haeardur a hyfeid a gwallawc.
Ac owein mon maelgynig deuawt.
A wnaw peithwyr gorweidawc.
Ym pen coet cledyfein.
Atuyd kalaned gwein.
A brein ar disperawt.
Ym prydein yn eidin yn adeueawc.
Yggafran yn aduan brecheinawc.
Yn erbyn yn yscwn gaenawc.
Ny wyl gwr ny welas gwallawc.

Digitized by Google

## XXXVIII.

En enw gwledic nef gorchordyon.
Rychanaut rychwynant y dragon.
Gwrthodes gogyfres gwelydon
Lliaws run a nudd anwython.
Ny golychaf an gnawt beird o vrython.
Ryfed hael o sywyd sywedyd.
Vn lle rygethlyd rygethlic
Rydysyfaf rychanaf y wledic.
Yny wlat yd oed ergrynic
Nym gwnel nys gwnaf ec newic
Anhawd diollwg awdloed
Ny diffyc y wledic ny omed.
O edrych awdyl trwm teyrned
Yn y uyw nys deubyd hud bed.
Ny dygonont hoffed oe buchynt.
Kaletach yr arteith hael hynt.
Toryf pressennawl tra phrydein
Tra phryder rygohoyw rylyccrawr
Rylyccrer. rytharnawr rybarnawr.
Rybarn pawb y gwr banher
Ae ninat yn ygnat ac eluet.
Nyr y gwr dilaw y daeret
Gwas greit a gwrhyt gotraet.
Er eichawc gwallawc yn llywet.
Hwyrwedawc gwallawc artebet.
Ny ofyn y neb a wnech ud
Neut ym vd nac neut ych darwerther
Tewued yn diwed haf.
Nys kynnyd namyn chwech.
Chwechach it gynan o hynnyd
Chwedlawc trwydedawc traeth dyd.
Terned y gwned nwys med mat
Tebic heul haf huenyd somed gan mwyaf
Kenhaf gan doeth y gan llu eilassaf
Bint bydi derwyt bryt haf pryt mab
Lleenawc lliawc. hamgwrwl gwnn
Gwawl. gwnn gwres. tarth gwres gwres tarth
Tragynnis yd eghis heb warth.
Cleda cledifa cledifarch.

Digitized by Google

Nyt am tyrr y lu yledrat.
Nyt amescut y gaw y kywlat.
Tyllynt tal yscwydawr rac talen y veirch.
O march trwst moryal. rith car riallu
Gwynawc ri gwystlant gweiryd goludawc
O gaer glut hyt gaer garadawc.
Ystadyl tir penprys a gwallawc
Teyrned tewrn tagwedawc.

Ceir yn nesaf ddwyn ymlaen y Tribanau dilynol, allan o'r Myfyrian Archaiology,* a chyfeirir yn rhai o honynt at Gwallawc. Eu penawd yw,

Ymryson Gwyddneu a Gwyn ab Nudd,

Kanis koegawc sy mor eurawc
A hin yn ymyl llys Gwallawc
Minneu byddaf goludawc

Boed emendigeit ir gwydd
A dynnwys y lygad yn y wydd
Gwallawc ap Lleinawc arglwydd

Boet emendigeit ir gwydd du
A dynnwys i lygad oed ddu.
Gwallawc ap Lleinawc penn llu.

Boet emendigeit ir gwydd gwenn
A dynnwys i lygad o'i benn
Gwallawc ap Lleiniawc unben

Boet emendigeit ir gwydd glas
A dynnwys y lygad yngwas
Gwallawc ap Lleinawc urddas

Tarw trin an vyddin blawdd
Arbennic llu llid anhawdd
Dinam eiroes am oes nawdd

* Myf. Arch. of Wales. Ail arg., t 126–7.

Ygan gwr gwrdd i kynnyad
Arbennic llu llid Owydd
Ath wrdd nawdd kanys erchydd

Canys nawdd ym a roddyt
Mor verth a thogyvethyd
Gwawr lu py du pan ddoyd

Ban ddeuaf ogat a chymynad
Mawr ag aesawr in anghad
Briwint pennavr peleidrad

Ath gyvarchaf huyscwn
Gwr ai yscwid yn anghen
Nebir gwr pan yw dyechen.

Karngrwn vy march kat trabludd
Hud im gelwir i Gwin Mab Nudd
Gordderch kreurddillad merch Lludd

Kanys ti Gwin gwr kywir
Rhagot ni ry ymgelir
Minnew Gwiddnau Garanhir

Nim gad i gan gyvlafaredd
A thi wrth ei frywn yd wedd
Diwris im trwm Tawy annedd

Niu Tawve i nessaf a lafaraf
Wrthyt namvin Tawve i eithaf
Erir mor teruin treiaf

Yscithreid fy modrwy eur gywrwy
Kanu y gan vy Afarwy
Gweles aer rac Kaer Fandwy

Rhag Mandwy llu a weleis
Aessawr briwhed torrhid eis
Mygedawl kein a ddygei dreis

Gwin ap Nudd budd bytinawr
Cynt i syrthiei cadoedd rhag Carneddawr
Dy vreich no brwyn briw i lawr



Digitized by Google

Ystec fy ki as ystrwn
Ag ys ev oreu or kwn
Dormarchedd hwnw a vu y Maelgwn

Dormarth drwynıhydd ba syllydd
Arnaw can yssamgyffredydd
Dy grwidir ar Wiber wynydd

My wn yn y lle y llas Gwenddoleu
Mab ceidiaw Colowyn kerdeu
Ban ryerchint brein ar kreu

Mi a wnn yn y ile y llas Bran
Mab y Werydd glod lydan
Ban ryerhint Brein garthan

Mi a wn lle y llas llacheu
Mab Arthur vthr yngherteu
Ban ryerhint brein ar kreu

Mi a wn lle i llas Meiric
Mab Kerreian clad etmic
Ban ryreeint brein da kic

*Mi a wn lle i llas Gwallawc
Mab Goheleth teithiawc
Addwod Lloegyr mab Lleynawc

Mi a wn lle i llas milwyr Brydein
Or dwyrein ir Gogledd
Mi wi wiw vinteu y bedd

Mi a fum lle llas milwyr Prydein
Or dwyrein i'r deheu
Mi wi wiw uinteu y hagheu

Golyga Skene fod Gwyddno Garan Hir, y gwr y ceir ei enw yn un

*Yn lle "Mi a wn," y darlleniad yn ngodreu'r ddalen yw *Ni bum lle*, gan olygu —Ni bum lle i llas Gwallawc. Yn ol yr ystyr olaf hefyd y mae y llinell gan Skene, allan o Lyfr Du Caerfyrddin, a rhed fel hyn:—"Ny buum lle llas Gwallawc."

NODYN.—Dichon fod y sylw sydd yn y tud. 253, i'r ystyr y golyga Skene a Stephens, Merthyr, i Kat y Gwensteri gael ei hymladd yn Lloegr, yn ymadrodd rhy gryf o barth hyny.

Digitized by Google

o'r Tribanau dyfynedig, yn berson hanesyddol ymysg gwŷr y Gogledd neu Brydyn, ond mai un chwedlonol ydoedd fel brenin Cantref Gwaelod. Eithr yn ngwyneb hyn gellir sylwi nad yw yn ymddangos fod sail ddigonol i'w wrthod fel person hanesyddol yn nghysylltiad â Chantref Gwaelod, canys ceir ei enw fel arglwydd y Gantref hono mewn hen achrestrau.

*Mynegir fod Gwallawg, sef Gwallawg ab Lleenawg, yn un o'r pedwar brenin a ymladdasant yn erbyn Hussa fab Ida, yr hwn ydoedd frenin ar gyfran o'r Saeson. Y brenhinoedd ag yr ydoedd Gwallawg yn cyd-ymladd gyda hwy yn erbyn y gelynion cyffredinol hyn oeddynt Urien—Urien Reged (Urbgen), Rhydderch, neu Rhydderch Hen (Riderch-hen), a Morgant, yr hwn a anogodd lofruddiad y blaenaf, sef Urien Reged. (Gweler tud. 39 o'r llyfr hwn).† Mynegir‡ i Hussa deyrnasu saith mlynedd, pa rai yn ol Skene|| oeddynt o'r flwyddyn 567 i 574.

Ac fel hyn yr ydys yn cael fod Gwallawg yn fyw yn yr haner olaf o'r chweched ganrif.

Ceir cyfeiriad at Gwallawg yn y Triban canlynol, allan o Farwnad Urien Reged, gan Llywarch Hen:—

"Pwyllai Wallawg marchawg trin
Erechwydd gwneuthur dyvin
Yu erbyn cyvrysedd Elphin."

Mab ydoedd yr Elphin hwn i Urien Reged, yn ol a ddywedir yn ngodreu'r ddalen mewn cyfeiriad ato, yn y tud. 37 o'r "Heroic Elegies and other Pieces of Llywarch Hen, Prince of the Cumbrian Britons, with a Literal Traslation by William Owen. Sef y Dr. William Owen Pughe, wedi hyny.

Camgymerodd Cambden wrth wneyd Gwallawg ab Lleenawg yr un a Galcagus, penaeth y Celyddonwys a ymladdasant â'r Rhufeiniaid o dan Agricola. Cyfeirir ato mewn dau o'r Trioedd. Ac yn y naill yn y modd hyn:—"Tri phost cad ynys Prydein. Dunawt Fur§ Mab

---

*Nennius, t. 53.

†Ymddengys mai trwy law un llofrudd y cwympodd Urien Reged ac nid dau. Ac yn Marwnad yr unrhyw Urien, dywedir yngbylch ei lofrudd fel hyn gan Llywarch Hen:—

"Angerdd Urien is gro genyv
Cyrchwyniad yn mhob bro
Yn wrysc Llovan Llawdivo."

*Cyfeirir yn y* Trioedd at ei weithred lofruddiog fel un o dair anfad gyflafan Ynys *Brydain.* Y mae yn cael ei alw hefyd yn Llofan Llaw dino.

‡Nennius.

||The Four Ancient Books of Wales, cyf. I., t. 175.

§*Myf. Arch* - ail arg. t. 389. Darll. arall yn ngodreu'r ddalen, 'Dunawd fwr' *Index*,—'Dunawd Fyrr,' a 'Dunawt awr.'

Digitized by Google

Pabo Post Prydein, Gwallawc mab Lleenawc, a Chynfelyn yn drwsgl." *A'r llall a ddywed,—"Tri Arfeddawg ynys Pryd, Selyf mab Cynan Garwyn, ac Afaon mab Taliessin, a Gwallawc mab Lleenawc, sef achaws y gelwit hwynt yn Arfedogion wrth ddial eu cam ac oe bed." Ystyrir gan rai mai at Gwallawg ab Lleenawc y cyfeirir yn yr hen englyn dilynol a ddyfynwyd eisoes. Ond yr hyn a ddywed Carnhuanawc yn flaenorol i'w ddyfyniad o hono yw, "Ysgatfydd mai ato ef y cyfeiria." Ond dyma yr englyn drachefn:—

"En Abergenoli y mae Bet Pryderi
Yn y tereu tonneu tir
Yg Carrawc bet Guallauc hir."

## BRYN YR EGLWYS.

Gelwir yr enw hwn ar anedd a fu unwaith yn amaethdy, pa un sydd a'i safle yn y pellder o filldir a haner o Abergynolwyn. Gerllaw iddo y mae anedd-dŷ neu amaethdŷ wedi ei godi i oruchwiliwr y gloddfa neu y cloddfeydd llechi sydd tua'r fan. Cysylltir yr enw Bryn yr Eglwys â'r tŷ hwn hefyd; ond ynglŷn â hyn ychwanegir gair Saesneg cyfystyr a neuadd. Diameu fod yr hen amaethdŷ a nodwyd yn dwyn yr un enw ag a wnai y bryn, ar gwr pa un y saif, ac y gelwid y bryn ei hun ar yr unrhyw enw, oherwydd eglwys a safai gynt yn ei gymydogaeth. Yr oedd mangre yr eglwys hono, yn ol fel yr ystyrir, yn ochr Cantrybedd i'r nant a rêd heibio godreu y bryn, ac o fewn ychydig iddo. Y mae y fan lle y tybir yr oedd ei safle wedi ei orchuddio âg ysbwriel y gloddfa, ond symudwyd ymaith lawer o geryg adfeilion oedd a'u safle ar neu tua'r fan a elwid yr Hen Fynwent a'r Fynwent Fach, o gyraedd yr ysbwriel, gan ei ffurfio yn fath o amgławdd, a phlanwyd coed oddifewn i'r amgauad megis.

Gellir crybwyll mai un mlynedd ar ddeg ar hugain yn ol i'r 12fed o Fai, 1874, y caed y Brydles gyntaf ar Gloddfa Bryn yr Eglwys, a dechreuwyd ei gweithio o dan yr hawl yma yn yr un flwyddyn. Bu gan dri o ddynion afael arni y flwyddyn flaenorol, a bu gafael arni gan un Robert Roberts rai blynyddau cyn hyny. Gwerthwyd hi gan

*Myf. Arch. ail Arg. t. 392.

Digitized by Google

y tri dyn a nodwyd i'r diweddar Mr. John Pugh, Craig y Don, Aberdyfi, am 120p., yr hwn a'i gweithiodd ar raddfa fechan am rai blynyddoedd, ac ar ol ei ddydd dygwyd hi ymlaen gan ei weddw am nifer o flynyddoedd. Wedi hyny bu yn sefyll am dymor; yna cymerodd pump o Gymry hi ganddi o dan ardreth yn neu tua'r flwyddyn 1857, y rhai a'i dygasant ymlaen am dair blynedd. Bu yn sefyll eilwaith nes y daeth ar delerau i feddiant Mr. John Lloyd Jones, Nantlle, Llanllyfni, yr hwn a'i dygodd ymlaen am dymor, gan ddechreu ei gweithio yn mis Tachwedd, y flwyddyn 1862. Ond wedi hyny gwerthodd ei hawl o honi i'r diweddar Mr. T. H. Maconal, yr hwn a ffurfiodd blaid i'w hagor ar raddfa eang, ac yr oedd telerau y gwerthiad yn gosod ar iddi ddyfod i'w feddiant y dydd cyntaf o Ionawr 1864. A dechreuwyd gweithio y ffordd haiarn ar hyd pa un y rhed y gerbydres sydd yn dwyn ceryg oddiyno i lawr tua gorsaf Tywyn, yn mis mai yr unrhyw flwyddyn, a gorphenwyd hi yn y flwyddyn 1865.

Dywedir fod math o argraff ar graig lefn yn y nant a rêd rhwng Bryn yr Eglwys a thir* Cantrybedd, ond ei fod yn orchuddiedig gan domen y chwarel er's blynyddoedd. Y mae cryn lawer o ryw fath o nodau ar wyneb y graig sydd yn y maes wrth hen dyddyndŷ Bryn yr Eglwys, eithr a ydynt yn fwy pwysig na math o waith chwareus nid eir yn awr i gynyg ateb.

---

## BEDDAU'R GWRONIAID.

Saif y rhai hyn ar fynydd Pentref Maes Trefnant. Dywedir eu bod unwaith yn fwy tebyg i feddau nac ydynt yn bresenol; ac y mae yn amlwg ddarfod i rywun fod yma yn chwalu. Er hyny, erys digon o arwyddion i ddangos fod yma feddau; ac y mae yr enw yn gadarnhad diogel ymhlaid hyn. Yn ngwanwyn y flwyddyn 1877, cafwyd, o dan tuag un modfedd ar hugain o ddaear, beth golosg mewn ychydig o sylwedd gwahanol i'r pridd oedd o'i ddeutu. Yr oedd

---

*Y mae Chwarel Cantrybedd yn cael ei gweithio mewn cysylltiad â Chwarel Bryn yr Eglwys.

Digitized by Google

careg ar ei hymyl ar un tu i'r golosg* a'r sylwedd a nodwyd, ac ychwaneg nag un gareg ar y tu arall iddynt, mewn ystyr, ond nid oedd cistfaen yn eu hamgau. Ac ymddengys oddiwrth y pethau hyn mai beddau personau dynol oeddynt, a barotowyd i'r gladdfa trwy losgiad. Buasai yn ddymunol gwybod hanes y dynion a gladdwyd yno. Ond y mae y wybodaeth pwy oeddynt, ar hanes am danynt, yn hollol anhysbys. Er hyny, pwy bynag oeddynt, neu pa fodd bynag y cwrddasant a'u hangau, dengys yr enw sydd ar eu beddau yr ystyrid hwy yn ddynion gwrol, onide ni alwesid eu hargelfan yn Feddau'r Gwroniaid.

*Os ydwyf yn gywir trwy, ddylanwad fferylliaeth y caed allan mai golosg oedd. Yr oedd Mr. Hugh Pugh, un o bregethwyr, y Trefnyddion Calfinaidd ar y pryd o'r Erw, lle yn y gymydogaeth gyda mi pan gawsom y golosg a'r sylwedd a nodwyd.

Digitized by Google

# HEN GAERAU.

---

## CASTELL Y BERA.

Saif y castell hwn ar greigfryn gerllaw Llan Fihangel y Penant, pa un a ymgyfyd ar gwr y dyffryn swynol a gyfeiria heibio ei ystlys i lawr ac i fyny. Noda Gruffydd Hiraethog ei safle a'i gymeriad y modd hyn :—"Kwmwd Ystymaner Llanvi hangel y Pennant, ar lan afon Dyssyni Kastell y Byr, lle bu adeilad mawr Cadarn, wedi ei ddistrywio a'i fwrw i lawr, ac a elwir yn y Secr Sinadon Castell." Dywed yr hynafieithydd Robert Fychan, o'r Hengwrt,* am dano mewn cysylltiad â phlwyf Llanfihangel,—"Yno, ar lan yr afon fechan Llaethnant, ar graig, y safai castell cadarn a elwid Castell y Biri."

Ymddengys oddiwrth y dyfyniad olaf, mai yr afon a rêd heibio y tu cefn i'r amaethdŷ a elwir Maes y Llan, a feddylir wrth y Llaethnant. Ond ni elwir yr afon hono felly yn awr, ac o ran hyny nid oes enw penodol arni, heblaw y gelwir hi ar enwau y gwahanol dai yr êl heibio iddynt, oddigerth y gelwir hi weithiau yr Afon Fach. Eithr yr ydys yn awr yn galw Llaethnant ar un o'r ffrydiau a redant i'r afon hon ; ond cyll yr enw encyd cyn cyraedd Hafotty Gwastadfryn. Camsynia Cathral yn hollol wrth ddynodi y Llaethnant yr un a'r Gegidfa.† Rhed y Gegidan heibio y castell ac yn nes ato na'r un a elwir, fel yr ymddengys, yn Llaethnant gan Pennant. Mewn nodyn yn ngodreu'r ddalen yn O. Jones Welsh Bards,‖ cyfeirir ato wrth yr enw Castell Tref Seri. Castell Teberri y'i gelwir gan Pennant,§ yr hwn a sylwa mai tebygol mai dyma Gastell y Bere a berthynai i'n Llywelyn olaf, ac a gymerwyd gan William de Valence, Iarll Penfro. Tybia Ieuan Brydydd Hir mai Castell yr Aberau yw tarddiad ei enw.

---

*Camb. Reg. am y flwyddyn 1795. t., 189.

†Canys tebygol mai yr un afon ar Gegidan a feddylir wrth y Gegidfa.

‖Tud. 78.

§Pennant's Tour in Wales. Cyf. ii. tud. 103—4.

Digitized by Google

Tarddiad tebygol arall, medd Cathral, yw Castell y Beri, a dyga i sylw yr enw Castell y Bera fel tarddiad iddo.

Ond o barth ei enw, gellir sylwi yn ychwanegol, yr ymddengys, *os* nad ydym i ddeall ei gelwir ar enw personol, iddo gael y dynodiant Bera mewn cysylltiad â dullweddiad y creigfryn ei codwyd arno. Y mae nant yn ei gymydogaeth yn cael ei alw Nant y Bera.

Ystyrir ddarfod i'r ymchwiliadau a ddechreuwyd arno gan Mr. Wynne o Beniarth, a'i gyfeillion, yn y flwyddyn 1850, brofi fod y castell hwn, nid yn unig yr helaethaf (gydag eithriad, mae'n debygol, o gastell Caernarfon, a Biwmares), ond yn or-fawr fwy addurnedig nag adeiladau castellawg Gogledd Cymru. O barth y sawl a'i hadeiladodd, dywed yr hynafiaethydd Robert Fychan, o'r Hengwrt, *i'r* ystyr: Yr ydwyf yn meddwl mai Iarll Caerlleon a adeiladodd y castell hwn pan ydoedd Gruffydd ab Cynan, Tywysog Cymru, yn aros *yn ei* garchar. Darllenwn yn awdwr hanes bywyd Gruffydd ab Cynan, ddarfod i'r iarll wneyd amryw gestyll yn Ngogledd Cymru, ac un *yn* Swydd Feirionydd; ac os nad hwn yw, nis gwn ymha le y mae*

Yn ol fel yr ymddengys wrth geisio cymharu hanes Gruffydd ab Cynan â Brut y Tywysogion, tebygol fod y tywysog hwn yn ngharchar rhwng y blynyddoedd 1080 a 1100. Ond mewn perthynas mai yr iarll hwn a'i cyfododd, awgryma y diweddar Mr. Wynne o Beniarth mai yr ystafell hirgul ag a saif ar uchedd y graig, pa un sydd nesaf i'r buarth llydan, ac i'r gorllewin iddo, oedd y fan a gyfododd, os darfu gyflunio unrhyw ran iddo. Gan yr ystyria fod yr ystafell hono yn tebygu i gedwidfa y Normaniaid.

Ceir yn ngodre'r ddalen o Hanes Cymru, gan Warington, ddyfaliad cyfeiliornus o barth ei leoliad, lle y dywedir am dano i'r ystyr mai tebygol mai y gaerfa hon yw yr un sydd yn sefyll wrth Lyn Llan Beris, gweddillion pa un sydd yn parhau i aros, ac a elwir Castell Dolbadarn. Hefyd golygir yn amryfus yn Hynafiaethau Llandegai a Llanberis, mai yr un yw Castell y Bera a Chastell Dolbadarn. Ond ymddengys fod yn ei freintlen berthynol, ystyr yr hon a gyflëir yn mhellach ymlaen, ddigon o brawf yn y cyfeiriad a geir ynddi at afon Abermaw, sef yr Afon Faw neu Fawddach, ac afon Defi (Dyfi), *mai* rhwng yr afonydd hyn y saif. A diameu fod Mr. Wynne, ac eraill sydd yn ei leoli yn y man a ddynodwyd o fewn y plwyf *hwn,* yn eu lle o barth ei leoliad.

Ymddengys y bu y Castell hwn yn cael ei gadw gan warchodlu y Tywysog Llywelyn ab Gruffydd am ryw hyd ar ol ei laddiad galarus yn Muallt. Canys noda Robert Fychan,† o'r Hengwrt, y dywed

---

*Cambrian Register am y flwyddyn 1795 t. 189.
†Camb. Reg. am 1795, t. 189.

Digitized by Google

Thomas Walsingham, ddarfod i Iarll Penfro, ar ol marwolaeth yr unrhyw Lywelyn (1284) yn ei gymeryd oddiar warchodlu y tywysog hwnw. Ond tebygol i'r gwarchodlu hwn ar y pryd, neu dros ryw ysbaid o'r amser, ei ddal i'r Tywysog Dafydd, brawd yr unrhyw Lywelyn. Canys dywedir mewn sylw yn Hanes Cymru gan Warington i'r ystyr a ganlyn: "Yr oedd caerfa a elwid castell y Bere, yn dra chadarn gan gelfyddyd a natur, yr hon oedd yn gyfleuedig yn y Wyddfa, yn nghanol cors, yn hygyrch yn unig trwy un sarn, ac ni ellid agoshau ati ond trwy fylchau geirwon a chulion. Yr ydoedd Dafydd wedi parotoi y gaerfa â gwarchodlu cryf. Ond yr oedd y Cymry mor ddiysbryd ar ol marwolaeth eu tywysog, fel y darfu hyd yn nod y castell hwn ymroddi i'r brenin, ar ol gwarchaued tyn am beth amser." Yn y dyfyniad hwn, pa un, tebygol, sydd yn cynwys mewn rhan, o leiaf, fynegiad yn Nghronicl T. Wikes, lleolir Castell y Bera yn y Wyddfa, trwy ba reswm bynag neu gamgymeriad y gwneir hyny ynddo. O barth y darluniad dyfynedig ag a esyd sefyllfa y castell yn nghanol cors, nis gall ei fod yn fanwl gywir. Er hyny, y mae yn ymddangos fod llawer o'r tir tua godreu y creigfryn y saif arno yn fath o gorsdir, neu feddaldir ar y pryd. Ac y mae y fath enw a Weirglodd Bant ag sydd ar eangfaes gwastad gerllaw, ynghyd â'r enw Rhos Goch ag sydd ar faes arall gerllaw, ac am y terfyn â'r weirglodd a nodwyd, yn gadarnhad i hyn. Torwyd llawer o fawn yn y Rhos Goch oddeutu canol y ganrif bresenol, tuag at fod yn ddefnydd tanwydd yn Nghae'r Berllan. Ond yn ddiweddarach buwyd yn ceisio ei dysychu, a gosodwyd pibellau i lawr i'r unrhyw ddiben yn y flwyddyn 1863.

Mewn nodyn yn ngodreu'r ddalen mewn cysylltiad â Chywydd o waith Lewis Glyn Gothi i Dafydd Goch o'r Pennant, lle ei geilw "Barwn Ystepltwn," dywedir i'r ystyr hwn: "Wedi i Dafydd Gough wneyd ei hun yn feistr ar gastell Llanfihangel, a elwir yn gyffredin Castell y Bery, safledig ar odreu Cader Idris, cafodd fynych gyfleusderau, o ba rai gyda'i ganlynwyr, y gwnaeth ddefnydd i gyrchu allan o'r gaerfa hon i flino y Caerefrogiaid. O'r diwedd bu orfod ar y rhai olaf geisio am gymorth. Gan hyny, i atal 'Coch o'r Pennant' yn ei wibdeithiau ysbeilgar anfonodd Herbert, Iarll Penfro, lu dewisedig o'i wyr o ddeheudir Cymru, dan lywyddiaeth Thomas ab Griffith ab Nicholas, yr hwn a ystyrid yn nhriniad y march, y cledd, a'r waewffon, &c., yn dra medrus." Hefyd, sylwa yr enwog Thomas Pennant* y dywedid yr amddiffynid y lle gynt gan un "Coeh o'r Pennant," sef yr un a'r Dafydd Goch a nodwyd.

*Pennant's Tour in Wales. Cyf. II. t., 101.

Digitized by Google

Tueddai Mr. Wynne i gredu i'r Castell hwn beidio a chael ei gadw yn gaer freninol yn mhen ychydig flynyddoedd ar ol cwymp Llywelyn, os oedd hyd yn nôd yn cael ei breswylio. Hefyd, ystyria fod pob rheswm i dybio iddo gael ei ddistrywio cyn marwolaeth Edward I., neu yn foreu yn amser ei ddilynydd. O barth ei feddianiad gan Dafydd Gough (Goch), dywed y gallai yr hanes yn y nodyn crybwylledig fod yn wir; ond noda na roddwyd yr awdurdod am dano. Sylwa hefyd yr ymddengys yn debygol pe cadwasid ef fel caerfa freninol am unrhyw amser rhwng teyrnasiad Edward y I., a'i gymeriad honedig gan Dafydd Gough, y rhaid y buasai cyfeiriad ato yn rhai o'r cofianau cyd-amserol â'r adeg hono, neu pe buasai yn breswyliedig, mai tebygol y buasai ei breswylwyr mewn digon o safle yn y byd fel ag i'w henwau fod yn mysg rhai o achau prif foneddigion swydd Feirionydd, o'r hyn meddai nid oedd yr un engraifft. Sylwa hefyd, os oedd y gosodiad mewn perthynas i Dafydd Gough yn gywir, nad oedd yn annhebyg iddo, gan gymeryd meddiant o hono, ei adgyweirio a'i gadarnhau, ac wedi ei farwolaeth ar Faes Penal, iddo gael ei oddef drachefn i ymddadfeilio.

Dichon bod sylwadau Mr. Wynne, o barth helynt y Castell yn mhen ychydig ar ol cwymp Llywelyn hyd amser Dafydd Goch yn gywir. Eithr os yw hanes ei feddianiad gan Dafydd Goch yn ffaith, am gywirdeb yr hyn mae'n debygol, nad oes na hanes na thraddodiad yn gwrthwynebu; ymddengys i'r castell wedi lladdiad Dafydd Goch (neu Gough) wrth Benal, rhwng y blynyddau 1460 a 1485, gael ei chwalu gan allu prysurach nac ymddadfeiliad. Ac ymddengys oddiwrth ymadrodd Gruffydd Hiraethog, yr hwn oedd yn byw rhwng y blynyddoedd 1520 a 1560; mai ei chwalu gafodd trwy allu dynol, pan y dywed am dano ei fod "wedi ei ddistrywio a'i fwrw i lawr."

Mae traddodiad yn yr ardal i'r gelynion geisio ei chwalu o Ben y Bylan, yr hwn sydd le ar ochr Moel Cae'r Berllan; ond oherwydd agosrwydd y fan iddo, nad oedd y pelenau yn cael yr effaith a ddymunid, ac felly y methwyd ei gymeryd o'r lle hwnw. Eithr dywedir iddynt lwyddo yn eu hymgais o fan uwchlaw Ty'n y Bryn. Nid yw yn annhebygol fod olion gwersyllfan yn Nghoed Ty'n y Bryn. Eithr pa wasanaeth bynag y dichon i'r lleoedd hyn wneud i'r gwarchaewyr nid ymddengys y bu ganddynt beirianau a daflai beleni a'i niweidiau o'r fath bellder. A thebygol i ddull diweddarach o warchae â chyflegrau effeithio ar y traddodiad.

Dywedir hefyd o barth ei enilliad mai sychedu y gwarchodwyr a wnaethpwyd, a thrwy hyny eu gorfodi i'w roddi i fyny o eisiau dwfr. Yr oedd dwfr yn cael ei ddwyn iddynt, meddir, trwy bibellau tan y ddaiar allan o ffynon sydd ar ochr y foel gyferbyn,—Moel Cae'r-

Digitized by Google

berllan, ac oddiar y Tyddyndŷ a elwir Llechwedd. Ac ddarfod i'r gelyn gael hyd i dramwyfa y dwfr, a'i atal i fyned i'r castell. Hefyd, dywedir y caed pibell blwm yn nghwr un o gaeau Cae'rberllan, ag sydd yn ffinio â thir y Llechwedd, ac am y clawdd a'r foel lle y tardd y ffynon.

Ceir yn awr roddi cofnodion o barth y castell yn nghyda'r freintlen berthynol iddo neu i'w dreflan:—

"(1) Y'nghylch cyflwyniad Castell y Bera i ofal Walter o Huntercwm, ac ynghylch ei alwad i Gaernarfon, 20 Mawrth, 12 flwyddyn o deyrnasiad Ed. I., (1284). *O'r Rhestr o Ysgrifau yn y Twr gan Ayloffe. Tudal.* 90.

(2) Cyflwynodd y Brenin, Gastell y Bere i ofal Walter o Huntercwm y'nghyd a'r gwyr arfog a phob peth ag sydd ynddo er amddiffyniad y castell i'w gadw yn hyd boddlonrwydd y Brenin. Caniataodd iddo hefyd oddiwrth y Brenin yn Nghaernarfon ddau cant o Farciaid y flwyddyn, i'w derbyn trwy law ystafellydd y Brenin am y pryd, fel y canlyn; un haner ar wyl yr Holl Saint, a'r haner arall ar wyl y Sulgwyn. Fe roddir hyn iddo, fel y byddo ganddo yn barhaus er mwyn amddiffyn y castell hwnw, ddeugain o wyr amddiffynol o ba rai rhaid i bymtheg fod yn fwa beirianwyr, un Caplan, un Saer troliau, un Saer maen, ac un Gof; am y gweddill gallant fod yn ddryswyr, Gwylwyr, a gweinidogion eraill angenrheidiol i'r Castell. Gorchmynwyd hefyd i'r holl Feiliaid, &c., fod yn ufudd i'r dywededig Walter fel ceidwad y castell crybwylledig. I'r hyn & y Brenin yn dyst yn Nghaernarfon 21 dydd o Hydref, (1284.)—*O'r Ysgrif Gymreig wreiddiol yn y Twr, am y 12fed flwyddyn o Edward I.*

(3). Y Brenin at yr Archesgobion, &c., yn anfon anerch Gwyddoch ein bod ni yn ewyllysio, ac yn caniatau ar ein rhan ein hun, a'n hetifeddion, fod i'n treflan yn Bere, gael ei gwneyd yn fwrdeisdref rydd oddiwrth bobpeth, ac i'n dynion yn yr un dreflan fod yn fwrdeiswyr rhyddion, ac i Gwnstabl ein Castell yn Bere am y pryd hwnw fod yn Faer y fwrdeisdref hono, gan gymeryd ei lŵ i ni, ac i'r bwrdeiswyr hyny, yr hwn, wedi iddo yn gyntaf gymeryd y Cymun i gadw ein hawliau ni, a dwng hefyd i'r unrhyw fwrdeiswyr uwchben Efengylau sanctaidd Duw, y bydd iddo gadw y rhyddfreintiau a ganiatawyd genym i'r unrhyw fwrdeiswyr, a chyflawni yn ffyddlawn yr hyn a berthyn i ddyledswydd Maer yn yr un Fwrdeisdref. Yr ydym yn caniatau hefyd fod i'r Bwrdeiswyr eu hunain, bob

blwyddyn, ar Wyl St. Michael, ddewis o'u plith eu hunain ddau Feili cymwys a chyflawn, a'u cyflwyno i'r Cwnstabl dywededig, fel eu Mhaer, pa rai, yn mhresenoldeb y dywededig Faer a'r Bwrdeiswyr, a dyngant y bydd iddynt gyflawni a dilyn dyledswydd Beiliaid yn ffyddlawn. Yr ydym yn ewyllysio hefyd, ac yn caniatau fod i'r Bwrdeiswyr dywededig feddu eu carchar rhydd eu hunain yn y fwrdeisdref ddywededig ar gyfer pob trosedd ynddi, oddigerth achosion o fywyd ac aelodau, am ba rai bydded i bawb Bwrdeiswyr yn gystal ag eraill, gael eu carcharu yn ein castell yno. Er hyny os bydd i rai o'r Bwrdeiswyr dywededig gael eu gwysio, eu cyhuddo, neu eu nhodi, gyda golwg ar unrhyw drosedd, nid ydym yn foddlawn yn y cyfryw achosion iddynt gael eu carcharu ar unwaith, cyhyd ag a gallont gael meichniaeth dda a digonol, y bydd iddynt yn uniongyrchol sefyll yno o flaen ein Prif Farnwr, neu unrhyw Farnwr arall o'r Eiddom a ddirprwywyd i'r perwyl hwn. Yr ydym yn caniatau yn mhellach, mewn perthynas i'r un Bwrdeiswyr, fod i bob tir a arwyddir drosodd i'r Fwrdeisdref hon, fod yn hollol rydd oddiwrth hawliau helwriaeth ar gwning-gaer, neu goedwig, ac na byddo i Iuddewon ymdroi ar unrhyw adeg yn y Fwrdeisdref. Yr ydym hefyd ar ein rhan ein hun, a'n hetifeddion, yn caniatau i'r un Bwrdeiswyr y rhyddfreintiau a ganlyn; hyny yw, na byddo i'r un Is-Sirydd o'r Eiddom ar unrhyw adeg wthio ei hun arnynt mewn perthynas i unrhyw orchymyn, neu gwyn, neu achlysur, neu unrhyw beth pa bynag yn dwyn cysylltiad â'r dreflan ddywededig. Er hyny, golygir i'n diogelwch ein hun, a'n hetifeddion, gael ei sicrhau yn y mynegiad hwn o Ewyllys da ein Coron. Yn mhellach, caniateir iddynt feddu y Gymdeithas fasnachol a elwir *Gilda*, gyda'r breintiau a elwir *Hansa*, ac arferion eraill, ynghyd â'r rhyddid perthynol i'r gymdeithas hono. Ac nid oes i neb na pherthyn i'r gymdeithas hono ddwyn ymlaen fasnach yn y dreflan oddieithr drwy Ewyllys da y Bwrdeiswyr dywededig. Yr ydym yn caniatau hefyd i'r un Bwrdeiswyr, os bydd i unrhyw frodor o un lle arall aros yn y dreflan ddywededig, a dal tir yn yr unrhyw, a bod yn un o'r Gymdeithas rydd-freiniol ddywededig, a bod yn ddarostyngedig i'r trethoedd presenol, y *Scot** a *Lot* gyda'r unrhyw, sef ein dynion, am un diwrnod heb unrhyw anair, yna na bydd modd ei adfeddianu gan ei feistr, ond y gall aros vn ŵr rhydd, yn y dreflan hon. Yn mhellach, yr ydym yn caniatau fod i'r un Bwrdeiswyr gael

---

***Y *Scot* a *Lot* oedd gyfraniad arferol ag oedd yn osodedig ar yr holl ddeiliaid yn ol eu gallu. Pwy bynag a drethid i unrhyw gyfraniad, a ddywedid eu bod yn talu *Scot* a *Lot*. Gweler Warton's Law Lexion, seventh edition, by J.M. Melley, Esq.**

Digitized by Google

Sok* & Sak,† *Tot* & *Theam*,‡ ac *Infrangenethief*,§ ac iddynt gael llonyddwch drwy ein holl dir oddiwrth *theolonium*, *lestagium*,‖ treth amddiffynfeydd, treth pontydd, treth gwerthleoedd, treth y Daeniaid, *Gaytwyte*, ynghyd â phob arferiad a threthiad arall drwy ein holl lywodraeth yn Lloegr, yn gystal a phob gwlad arall o'r Eiddom. Ac na byddo iddynt hwy eu hunain, na dim o'u heiddo a geir a fewn ein tiriogaeth neu Ein hawdurdod, gael eu hatafaelu am unrhyw ddyled, i'r hon na bu meichniyddion, neu brif ddyledwyr yn perthyn. Gyda'r eithriad os bydd y dyledwyr Eu hunain o'r un Cyfundeb ac awdurdod, a chanddynt allu o'u dyledion Eu hunain i wneyd ad-daliad mewn rhan neu yn gyfangwbl, a bod Ein Bwrdeiswyr dywededig yn fyr o wneyd cyfiawnder i ofynwyr yr unrhyw ddyledwyr, ac o'r hyn y mae prawf digonol yn bod. Na byddo i'r unrhyw Fwrdeiswyr am drosedd neu weithred eu gweinidogion y tuallan, golli eu daoedd na'u heiddo a gaffer yn Eu dwylaw eu hunain, neu wedi eu gosod yn rhywle arall gan eu gwasanaethwyr, cyhyd ag y gellir profi yn foddhaol mai eu heiddo hwy oeddynt. Ac yn mhellach, os bydd i'r Bwrdeiswyr hyn, neu un o honynt farw yn ddiewyllys, neu gydag Ewyllys, na bydd i ni na'n hetifeddion atafaelu eu daoedd, ond y bydd i'w hetifeddion hwy eu cael yn gyfan, cyhyd ag yr ymddengys mai daoedd y meirw dywededig oeddynt, a rhybudd ac ymddiried digonol wedi Eu cael gan yr etifeddion dywededig. Ac na byddo i'r Bwrdeiswyr hyn gael eu barnu drwy unrhyw swyddog oddiallan mewn un apeliad, toriad, niwaid, camwri, trosedd, anair, gofyniad, wedi neu i gael ei roddi arnynt hwy rhwng afon yr Abermaw ac afon Devi; ond yn unig drwy y Bwrdeiswyr dywededig, oddieithr mewn rhyw achos yn cyffwrdd â'r Fwrdeisdref ddywededig fel cyfundeb, a'r pryd hwnw, ac yn yr achos hwnw, fe'i dygir ymlaen yn unol â'r rhyddfreintiau a gymeradwywyd, ac hyd yma sydd wedi bod mewn arferiad rhesymol yn ein tref yn Henffordd. Am hyny, yr ydym yn ewyllysio, ac yn cadarn orchymyn ar ein rhan ein hun a'n hetifeddion, fod ein treflan yn Bere i fod yn Fwrdeisdref

---

*"Sok" a olyga frawdwriaeth *(jurisdiction)*; gallu neu ragorfraint i weinyddu cyfiawnder, gwneyd cyfreithiau; hefyd, sir, amgylchedd, neu diriogaeth.

†Sak, yr un a *Sac*, tebygol. Golyga *Sac* y rhagorfraint a fwynheid gan arglwydd maenawr i gynalllysoedd, profi achosion, a dirwyo.

‡Y mae *Theam* yn golygu breninfraint neu ragorfraint a ganiateid, trwy freintlen frenhinol, i arglwydd maenawr, er meddianiad, ataliad, a barnu caethion a bileinaid, gyda'u plant, eiddo ac ysgrubliaid.

§Tebygol mai yr un yw "Infrangenthief" ag *Infangthef*, ac os felly golyga ragorfreintiau arglwyddi maenorau penodol i farnu unrhyw leidr a ddelid o fewn eu gwriog-afaelau.

‖*Lestagium* a olyga lwyth doll osodedig ar lwyth llong.

Gweler "Wharton's Law Lexicon," Seventh edition, by J. M. Melly, Esq.

Digitized by Google

rydd oddiwrth y gweddill, a bod i'n dynion o'r un dreflan fod yn Fwrdeiswyr rhyddion, ac i Gwnstabl Ein Castell yn Bere am y pryd hwnw fod yn Faer y Fwrdeisdref hono, gan gymeryd ei lŵ i ni ac i'r Bwrdeiswyr hyny, yr hwn, wedi iddo yn gyntaf gymeryd y Cymun i gadw Ein hawliau ni, a dwng hefyd i'r unrhyw Fwrdeiswyr uwchben Efengylau sanctaidd Duw y bydd iddo ddiogelu y rhyddfreintiau a ganiatawyd genym ni i'r unrhyw Fwrdeiswyr, a chyflawni yn ffyddlawn yr hyn a berthyn i ddyledswydd Maer yn yr unrhyw Fwrdeisdref. Yr ydym yn caniatau hefyd fod i'r Bwrdeiswyr Eu hunain, bob blwyddyn, ar wyl St. Michael, ddewis o blith Eu hunain ddau Feili cymwys a chyflawn, a'u cyflwyno i'r Cwnstabl dywededig, fel Eu Mhaer, pa rai, yn mhresenoldeb y dywededig Faer a'r Bwrdeiswyr, a dyngant y bydd iddynt gyflawni a dilyn dyledswydd Beiliaid yn ffyddlawn. Yr ydym yn ewyllysio hefyd, ac yn caniatau fod i'r Bwrdeiswyr dywededig feddu eu carchar rhydd Eu hunain yn y Fwrdeisdref ddywededig ar gyfer pob trosedd ynddi, oddigerth achosion o fywyd ac aelodau, am ba rai bydded i bawb Bwrdeiswyr, yn gystal ag Eraill, gael eu carcharu yn ein castell yno. Er hyny, os bydd i rai o'r Bwrdeiswyr dywededig gael eu gwysio, eu cyhuddo, neu Eu nhodi, gyda golwg ar unrhyw drosedd, nid ydym yn foddlawn yn y cyfryw achosion iddynt gael eu carcharu ar unwaith, cyhyd ag y gallont gael meichniaeth dda a digonol, y bydd iddynt yn uniongyrchol sefyll yno o flaen Ein Prif Farnwr, neu unrhyw Farnwr arall o'n heiddom a ddirprwywyd i'r perwyl hwnw. Yr ydym yn caniatau yn mhellaeh. mewn perthynas i'r un Bwrdeiswyr, fod i bob tir a arwyddir drosodd i'r Fwrdeisdref hon, fod yn hollol rydd oddiwrth hawliau helwriaeth ar gwning-gaer neu goedwig, ac na byddo i Iuddewon ymdroi ar unrhyw adeg yn y Fwrdeisdref. Yr ydym hefyd yn ewyllysio, ac yn caniatau ar ein rhan ein hun a'n hetifeddion, fod i'r Bwrdeiswyr dywededig gael pob rhyddfreintiau eraill, a phob arferion a grybwyllir uchod yn llawn ac yn heddychol, ac heb unrhyw rwystr neu atalfa oddiwrthym ni, na'n hetifeddion, na'n Barnwyr, na'n Is-Siryddion, neu Feiliaid eraill, neu unrhyw weinidogion eraill o'r Eiddom pa bynag, a bod hyn i barhau yn ddiddiwedd, megis ag y cyhoeddwyd uchod. Y tystion hyn, y Parchedig Dad, R. Esgob Bath & Wells, Ein Canghellydd William, o Valencia, Ein Hewythr Richard de Burch, Count Ultonis, John de Vesci, Otto de Grandi Sono, Robert Tilbot, Richard de Brus, Robert mab John, John de Montealto, ac Eraill. Rhoddwyd drwy ein llaw yn Aberteifi, ar yr eilfed dydd ar hugain o Dachwedd, yn y drydedd flwyddyn ar ddeg o'n teyrnasiad (1284).

*O gopi yn llawysgrif yr Hynafiaethydd o Feirionydd, Robert Vaughan, Ysw., yn Llawysgrif Hengwrt,* 119. *Y mae y Freint-*

Digitized by Google

*len hon wedi ei hysgrifenu hefyd ar y Rholysfrif Gymreig wreiddiol y 13eg o Edward I. yn y Twr.*

(4). Ynghylch Castell y Bere yr hwn a ymddiriedwyd i ofal Hugo de Turberville,* 3 Hydref, 13eg Edw. *I.* (1285). *Y Rhestr o Rolysgrifau Cymreig yn y Twr gan Ayloffe, Tud.* 94.

(5). Rhyddid yn cael ei roddi i Hugo de Turberville i ymlid pob math o anifeiliad gwyllion islaw Swydd Feirionydd, 20 Mehefin 18 Ed. I. (1290). *Eto Tudalen* 98.

(6). Ynghylch caniatau can' punt i Hugo de Turberville at gadw Castell y Bere, a'r gadwraeth yn cael ei ymddiried iddo ef *Yr un dyddiad. Eto Tudal.* 98.

(7). Ymgyngoriad yn cael ei wneyd yn nghylch rhoddi Castell y Bere i'w gadw gan Robert de Staundon. 28, Tach., 21 Edw. I. (1292). *Eto Tudal.* 99.

(8). Ar fod i Robert mab Walter gael can' punt tuag at gadw Castell y Bere, 28, Mehefin, 21 Edw. I. (1293). *Eto Tud.* 99.

(9). Rhyddid yn cael ei roddi i Robert mab Walter, Cwnstabl Castell y Bere, i ymlid pob math o anifeiliaid gwyllion islaw Swydd Feirionydd, 30, Mehefin, yn yr un flwyddyn. *Eto Tud.* 99.

(10). Fod i Robert de Staundon, Barnwr, Gogledd Cymru, ryddhau cadwraeth Castell y Bere, yn nghyd a'r arfogion &c., 2, Gorphenaf, yr un flwyddyn. *Eto Tud.* 99."†

*Hugh Twrbil.
†Arch. Camb. Cyf. iv. Tud. 211—217.

Digitized by Google

## CASTELL.

Tua phen coed Dysefin neu Mysefin, (Maes Hefin tebygol) y mae yn aros ychydig o hen olion caerfa, a gelwir y fan wrth yr enw unigol Castell. Y mae yno beth adeiladwaith hefyd yn aros, a dichon fod ol toriadau ar y graig wedi eu gwneud er rhyw fantais neu gilydd i'r trigianwyr. Tuag eithaf cwr de-orllewin ei safle, codwyd math o haf-dŷ yn un o'r blynyddoedd diweddar hyn, ac ymddengys y torwyd rhan o'r graig mewn cysylltiad a'i wneuthuriad.

Yn y mynydd ac encyd o bellder yn uwch i fyny na safle y Castell hwn, y mae lle o'r enw Tap Spi, neu Tap Yspi. Ac ymddengys ar wyneb yr enw, megis, ei defnyddid fel edrychfan. A chan ei fod yn lle manteisiol i wylio dynesiad gelynion, dichon y cafodd ei alw felly am ei defnyddid yn y cysylltiad hwn gynt. Yr un pryd, hwyrach mai yn ddiweddarach nag amser helyntion y castell y cafodd y fath ddynodiant, ac oherwydd achlysur gwahanol.

---

## CRAIG Y DERYN, A'I CHAERAU HENAFOL.

Prawf gweddillion yr hen warchgloddiau milwrol sydd ar y graig hon, a thu ol megis i'w gwyneb nodedig, pa un a elwir y Palis—Palis Mawr—y bu yma gaerfa fawr a phwysig yn yr hen amser. Cymerid mantais ar gadernid erch y Palis fel amddiffyniad diogel ar y tu gogleddol hyd y cyrhaedda, i ffurfio y gaerfa ar ei bwys. Ymgyfyd y Palis oddiar ei osail gan arddangos gwyneb-graig fawr ramantus ac ardderchog ar y tu deheuol i'r dyffryn islaw.

Ymddengys mai yn lled agos i gwr dwyreiniol y gaerfa, gan wynebu i'r de, yr oedd y fynedfa iddi. Ar y cwr dwyreiniol i'r gaerfa y mae rhanbarth wedi ei ffurfio gan glawdd a redai o gyfeiriad y de tua'r gogledd, ac arweiniai y fynedfa i mewn iddi. Ac oddiallan i'w gwarchglawdd ar y tu dwyrain a'r de-ddwyrain y mae olion fel

Digitized by Google

yn dangos y ffurfiwyd yno atalfa i'r gelyn yn ei ymosodiad. Erys gweddillion clawdd amddiffynol heb fod yn gadarn, ar y tu deheuol i'r gaerfa, gan redeg ymlaen oddiwrth y fynedfa i gyfeiriad y gorllewin; ond rhy brin y gellir nodi ei linell i'w therfyniad. Tebygol y cyfodwyd y gwarchglawdd hwn, mewn rhan o leiaf, i'r diben o ddiogelu anifeiliaid a phobl a arosent yn ei gysgod. Ond y mae yn syn na arddengys fwy o gadernid. Ac y mae y gaerfa yn colli llawer o'i chadernid ymddangosiadol oherwydd y diffyg o hyn. Er hyny, diameu ei bod yn un dra phwysig mewn cadernid a maintioli. Ac y mae yn ymddangos yn fwy fel yn perthyn i dywysog galluog, neu i genedl, nag i benaeth lleol.

Encyd o bellder i'r de oddiwrth yr hen amddiffynfa hon y mae bryn, o'r enw Y Gaer Wen, ond enw ydyw ag oedd yn mron myned i golli mewn cysylltiad â'r fan. Ar gopa y bryn hwn y mae crynswth o geryg, y rhai, fel yr ymddengys, sydd adfeilion adeilad bychan a godwyd yno ryw amser gynt. Y maent yn sefyll yn ymyl ac o'r tu mewn, megis, i olion y gellir tybio ydynt weddillion cerygog rhan o warchglawdd milwrol. Ac os dyna ydynt, yr oedd yma hefyd gaerfa yn yr hen amser, a chadarnheir hyn gan enw y bryn; canys ymddengys mai oddiwrthi y cafodd ei ddynodiad, ac mai ei henw hithau oedd y Gaer Wen.

Yn y cyfwng sydd rhwng y Gaer Wen a'r gaerfa ar Graig y 'Deryn, ymgyfyd bryncyn llai o faint ac îs o uchder, ac ymddengys y bu caer filwrol ar ei gopa yntau gynt. Ac yn unol â hyn, perthynai llawer mwy o bwysigrwydd milwrol i'r gymydogaeth nag mewn cysylltiad unigol â'r gaer ar Graig y 'Deryn, yn enwedig os oedd y ddwy gaerfa grybwylledig yn dal cysylltiad cyd-amddiffynol â hi.

Mynegir yn yr *Archæologia Cambrensis* y caed, mewn sylfaen cut ar Graig y 'Deryn ryw wrthddrych wedi ei ffurfio o alcan, a'i rolio yn dyn i ffurf tebyg i blymen-bwys bychan a thwll ynddo. A chaed yn y cut hefyd ddarn o alcan plygedig, ynghyd â rhai pridd-lestri Rhufeinig-Brydeinig. Tebygol mai yn rhywle o fewn rhagfur yr amddiffynfa y caed gafael ar y pethau hyn.

Er trymed, tebygol, oedd pwys yr helyntion a fu mewn cysylltiad â'r hen gaerfeydd hyn, yn enwedig yr un ar Graig y 'Deryn, nid ymddengys fod na hanes ar gael na thraddodiad ar gof yn mynegu am danynt.

Y mae dau le yn eu cymydogaeth ag y gellir rhoi ystyron i'w henwau ag a ddynodant ddarfod i frwydrau gael eu hymladd arnynt, pa un bynag ai dyna'r ffaith a'i nadê. Canys dyna'r tyddyn Erw Waedd yn un o'r manau hyny, ac y mae yn rhesymol dweyd y gallai i frwydr gael ei hymladd yno, oblegid canlyniad naturiol brwydr ydyw *gwaedd*. A dyna dyddyn arall a elwir Rhiwerfa, ped



Digitized by Google

ychwanegid y llythyren *a* rhwng yr *w* a'r *e* yn y sill canol iddo, gwnai felly yr enw Rhiw *Aerfa,* neu mewn dull arall, Rhiw'r *Frwydr.* Yn nes i'r hen gaerfeydd hyn, y mae man o'r enw Cestyll; eithr ymddengys mai ei ardebwedd mewn rhan a barodd ei alw felly, gan nad oes yno olion yr un amddiffynfa i'w gweled.

Cyfeiria Ieuan Brydydd Hir at yr hen amddiffynfa ar Graig y 'Deryn yn y cyntaf o'i englynion canlynol i'r graig ramantus a hynodol hono. Ond mewn nodyn yn y "*Welsh Bards,*"* gan O. Jones, golygir yn ddigon camsyniol mai at Gastell y Bera y cyfeiria, neu at Gastell Tref Seri yn ol fel ei gelwir yn y nodyn. Rhêd yr englynion crybwylledig fel y canlyn:—

"Bryn yr aderyn ar diroedd,—uchel
Iachaf dan y nefoedd:
Caer gynt yn y creigiau oedd
I filwyr mewn rhyfeloedd,

Maen' weithian yma'n nythu,—mân adar
Mwyn ydynt yn canu;
Clywir lais y clauar lû,
Yn dyddan gyhydeddu.

Mae'r vrân ar aran ar oror,—y graig
Yn groew yn eu tymmor
Unan' yn y gân in' gôr
Peraidd yw llais pob puror.

Hedyddion mwynion uwch mynydd,—seiniant
Yn gysonol beunydd
Wi! o'r sain goelvain gelvydd
Mwyn yw y dôn ym min dydd.

Clywch ddethol siriol fesurau,—mwyn ydynt
Mân adar y creigiau;
Eu hacen vry a'u cân frau,
Pencerdd nis gwyr eu pynciau.

Miwsig sydd ddiddig i ddyn—naturiol
Yw Cantorion Telyn;
Melysach, rhyddach er hyn,
Yw d' araith, Graig y Deryn!

---

*O. Jones "Welsh Bards," tud. 78.

Digitized by Google

## MEINI HIRION.

Wrth gyfeirio at y meini hyn ceir nodi yn gyntaf yr un sydd ar ffridd perthynol i Gwastadfryn. A saif ar y lle a elwir y Cefn Mawr, ac ar ochr y ffordd sydd yn arwain o Lan Fihangel y Pennant, dros Riwgredydd, i Ddolgellau. Saif y maenhwn ar ei ben yn y ddaear, a mesura fwy na phedair troedfedd o uchder oddiar wyneb y tir. Gryn bellder oddiwrtho ac ar wastadedd swynol "Cwm," neu ddyffryn Llan Fihangel, ac yn ymyl y clawdd, ar y cae a elwir y Maes Ucha,' yr hwn a berthyn i dyddyndir Maes y Llan, erys maen ar ei ben yn y ddaear, yn mesur oddeutu tair troedfedd uwchlaw yr arwyneb. Yn ei ymyl, ond ar ei orwedd yn ffos y clawdd, y mae un arall, yr hwn a fesura oddeutu pum' troedfedd o hyd. Bu yntau unwaith ar ei ben yn y ddaear gerllaw y llall, eithr a fwriwyd i lawr tua'r flwyddyn 1854. Ymddengys oddiwrth safle gyntefig y meini hyn ar eu penau yn agos i'w gilydd, gael o honynt eu cyfodi yn goffadwriaeth fedd-rodol am rywun neu gilydd. Yn Maes Isa', Ty'nyfach, y mae maen wedi ei osod ar ei ben yn y ddaear, ac yn mesur pum' troedfedd namyn oddeutu dwy fodfedd uwchlaw arwyneb y tir. Bron yn ei ymyl y mae carnedd fawr o geryg wedi ei chrynhoi; a hyny mewn rhan o leiaf; trwy ddylanwad amaethyddiaeth, pa un bynag a oedd yno garnedd feddrodol yn flaenorol ai nad oedd. Y mae un cae yn gorwedd rhwng y ddau faes yr ydys newydd nodi mewn cysylltiad â'r tri maen crybwylledig, a pherthyna yn awr i Ty'nyfach, er's nifer o flynyddoedd, ond yn flaenorol i hyn perthyna i dyddyn o'r enw Tŷ Croes.* Encyd o bellder oddiwrth y meini hyn, a cherllaw godreu y creigfryn y saif Castell y Bera arno, yr oedd unwaith ddau faen yn sefyll ar eu penau yn y ddaear. Enw y maes lle yr oeddynt yn safedig felly, yw Maes Ceryg y Dwr' Ucha,' a pherthyna i Faes y Llan. Ac yn ol yr ystyrir yr oedd tua llathen o honynt allan o'r ddaear ar y pryd, ac oddeutu llathen a haner neu ddwy lath o le rhyngddynt a'u gilydd. Yr oedd careg ar ei gorwedd rhwng y ddwy. Cawsant eu cwympo tua'r flwyddyn 1854.

Yn agos i Gae'r Berllan, a thua'r fan a elwir Clwt Maen Hir, y mae maen yn osodedig ar ei ben yn y ddaear, yr hwn a ddefnyddir fel

---

*Y mae y Tyddyn hwnw ei hun hefyd wedi ei ddodi at Ty'nyfach, yr un modd.

cil-bost llidiard, a dichon mai oddiwrtho y cafodd y Clwt hwnw ei enw dynodol. Er hyny, nid yw yn ymddangos yn eglur y perthyna y maen hwn i Feini Hirion yr hen oesoedd. Modd bynag, mesura oddeutu chwe' throedfedd a haner oddiar yr arwyneb.

Gryn bellder o ffordd o Glwt Maen Hir, ac ar y mynydd oddiar Bont Llaeron, ffordd yr elir tros y mynydd i Fachynlleth, y mae yn aros dri* o feini wedi eu gosod ar eu penau yn y ddaear, a'u safle heb fod ymhell oddiwrth eu gilydd. A thybia rhai mai diben eu cyfodiad oedd i ddangos y ffordd i'r teithydd yn y tywyllwch. Ryw dro gynt, fel yr oedd tri o ddynion yn dyfod tros y mynydd o Fachynlleth, ar dywydd caled, bu un o honynt farw tua'u safle. Ond digwyddodd, hyn feallai, ar y tu arall i'r ffordd i'w safle, ac ar ba du hwyrach, yr oedd careg gyffelyb yn sefyll flynyddoedd yn ol. Modd bynag, arosodd un o'r ddau oedd yn fyw gyda'r trancedig, tra yr aeth y llall i ymorol am gynorthwy, ond bu agos iddo yntau fethu dal allan heb drengu ei hun.

---

## TRADDODIAD AM WR TAN COED ISAF.

Tua chan' mlynedd a haner,yn ol, neu fwy, deuai gŵr Tanycoed—Tan Coed Isaf, a gŵr Hendref Wallog, adref gyda'u gilydd o Ddinas Mawddwy, o fod yn gwerthu gweoedd. A phan oeddynt wedi cyraedd o dan Goed y Fedw, ger Abergynolwyn, lle heb fod ymhell oddiwrth eu cartrefi; dywedai gŵr Tan y Coed, fod rhyw ofn wedi ei gymeryd i'r fath raddau fel nas gwyddai sut yr elai adref. Yna, gan ei fod yn y fath gyflwr trallodus, ceisiai ei gydymaith ganddo fyned gydag ef i Hendref Wallog tan y boreu; a chydsyniodd yntau i hyny. Ond fel yr oeddynt yn myned i fyny yn y nant sydd rhwng tir y Pandy a thir Nant Llwyngwer, cawsant ŵr Tŷ Gwyn yn eistedd yno. Gan hyny, wedi i ŵr Tan y Coed weled ei gymydog, sef gŵr y Tŷ Gwyn, yn y fan hono, teimlodd awydd i fyned adref yn lle myned i Hendref Wallog, ac felly cychwynasant eu dau. Ond yr oedd gŵr Tŷ Gwyn wedi dyfod at y nant a nodwyd i ddyben drygionus, sef i ysbeilio gŵr Hendref Wallog. A bwriadai gyflawni y fath weithred ysbeiliol er mwyn dial arno, canys yr oeddynt wedi

*Un o honynt yn lled fèr, a'r ddwy arall heb fod yn hir, ac un o honynt ychydig ar ei gogwydd.

Digitized by Google

cwympo allan a'u gilydd yn flaenorol, eithr rhwystrwyd ef yn ei amcan trwy fod y ddau arall gyda'u gilydd. Ond er ei lluddiwyd fel hyn i roi ei falais ysbeilgar mewn grym ar ŵr Hendref Wallog, cyflawnodd weithred waedlyd ar ei gymydog gŵr Tan Coed Isaf, canys lladdodd hwnw druan wrth gydgerdded gydag ef tuag adref, a thaflodd ei gorph i gae yr Erw.* Ac y mae y darn o'r cae lle y cafwyd ei gorph wedi ei gau allan oddiwrtho, ac yn gorwedd yn agored ar fin y ffordd sydd yn arwain o Abergynolwyn i Dywyn, ar yr hen† derfyn rhwng plwyf Tywyn a'r gyfran anghysylltiol o blwyf Tal y Llyn ag sydd yn yr ardal. Tranoeth ar ol y weithred ysgeler, cyfododd y llofrudd yn foreu, ac aeth mor bell ag Aberdyfi, gan feddwl croesi yr afon trosodd i swydd Aberteifi. Ond erbyn iddo gyraedd i Aberdyfi yr oedd wedi dyddhau, a chan y canfyddwyd gwaed ar ei ddillad gomeddwyd gadael iddo fyned tros yr afon. Gan hyny trodd yn ei ol ac aeth adref i'r Tŷ Gwyn. Ac erbyn iddo gyraedd yno yr oeddynt wedi cael hyd i gorff marw gŵr Tan y Coed, ar ol chwilio llawer am dano. A chan fod gŵr Tŷ Gwyn wedi dianc, ynghyd ac oherwydd arwyddion eraill, tybiwyd fod ganddo law yn ei laddiad. Ac wedi iddo gael ei holi cyfaddefodd y cyfan, yr hyn a benderfynodd ei dynged yn y fan, a chrogwyd ef ar goeden o flaen drws ei dŷ. Claddwyd y llofrudd yn ffridd y Tŷ Gwyn, ond claddwyd y llofruddedig yn mynwent Tal y Llyn.

*Erw Benlas, &c., gweler nodyn yn ei chylch yn mhellach ymlaen.

†Y mae y gyfran grybwylledig uchod o blwyf Talyllyn, wedi ei phenodi erbyn hyn i fod yn rhan o blwyf Tywyn, a'r cyfnewidiad hwn i fod mewn grym y pumed-ar-hugain o Fawrth, y flwyddyn hon, 1887. Hefyd y mae tramwyfa yn awr trwy y darn tir a gauwyd allan felly o'r cae, ac adwy wedi ei thori yn nglawdd y fan, a llidiard yn osodedig arni.

## ACHAU HEN DEULU CAE'R BERLLAN.

Yn ol y gosodir allan mewn achrestrau hana hen deulu y lle hwn o Meurig, Brenin Dyfed, un o'r pedwar marchog ar hugain a garient y pedwar cledd aur o flaen y brenin Arthur, yn ngwledd fawr Caerlleon ar Wysg. Ymbriododd Cadwgan ab Ieuan, disgynydd o Cadwgan Fawr, ab Cadwgan, ab Gruffydd, ab Llywelyn, ab Cadwgan, o lin y Meurig hwn, â Gwenllian, ferch Dafydd ab Ieuan Fychan, ac ymlaen i Waithfoed, arglwydd Aberteifi, disgynydd o Élphin, fab Gwyddno Garanhir, arglwydd Cantref Gwaelod. Ymbriododd Ywain, ab Hywel, ab Llywelyn, ab Gruffydd ddu, ab Madog, ab Ieuan, â Gwenhwyfar ferch ac etifeddes Meurig ab Ieuan, y dref, disgynydd o Ednywain ab Bradwen, un o bymtheg Llwyth Gwynedd. Mab o'r briodas hon ydoedd Lewis Ywain, y Barwn, yr hwn a briododd Margared, ferch Robert Puleston, periglor Witford a Gresford, a brawd i Syr John Puleston, marchog ac ystafellydd Gogledd Cymru. Ail fab y rhai hyn ydoedd Huw Ywain, o Gae'r Berllan, Ysw., a phriododd yntau Catherine, ferch John Pugh ab Ieuan o Fathafarn, Ysw., disgynydd o Einion ab Sitsyllt, arglwydd Meirionydd, a hynafiad i'r Puwiaid oeddynt gynt yn Mathafarn, yn Nghyfeiliog. Mab o'r briodas hon oedd John Ywain, Ysw., o Gae'r Berllan, yr hwn a briododd Elisabeth, ferch Cadwaladr Price o'r Rhiwlas, Ysw., a disgyyndd o Marchweithian, un o Bymtheg Llwyth Gwynedd. A'u mab hwythau oedd Huw Ywain, Ysw., o Gae'r Berllan, yr hwn a briododd ferch i Ywain ab Gruffydd ab John ab Ieuan. Ursula, un o ferched y rhai hyn a briododd yn gyntaf John Evans, yr hwn oedd yn frawd i Richard Evans, o Ddolgellau, gwr Catherine ei chwaer. Ond ni bu iddo blant o honi, a phriododd hithau yn ail ŵr Richard Wilson, o rywle yn y Werddon, ac yn ol dwy archrestr, bu iddynt un mab, sef John Ywain, Ysw., o Gae'r Berllan. Ymbriododd John Ywain, o Gae'r Berllan, Ysw., (pa un bynag ydoedd ai mab ai brawd i'r Ursula a nodwyd) â Susanah, ferch Richard Ywain, o'r Morben, ab John, ab Ywain, ab Hywel Goch, ab Gruffydd, ab Llywelyn, ab Gruffydd, ab Phylip, ab Madog, ab Gruffydd Hirgwm, ab Llywelyn, ab Hywel, ab Madog, ab Gruffydd, ab Goronw, ab Gwrgenau, ab Hedli, ab Cadwgan, ab Elystan Glodrydd. A bu iddynt bump o blant, sef un mab a phedair o

Digitized by Google

ferched. Ymbriododd Margaret, un o'r merched, âg Edward, neu yn ol "History of Powys Fadog," Edward Owen, ab Hugh, ab Edward Owen. Merch arall iddynt' ydoedd Elisabeth, gwraig Meredydd Jones, ab Gruffydd, ab John, ab Lewis, ab Gruffydd, ab Hywel, Bedo. Yna Jane. Ac yn bedwaredd Bridget, gwraig—yn ol dwy âch-restr—i Rolant Ywain, ab Edwart Ywain, ab Robert Ywain, o'r Tŷ Gwyn, ab Simon Ywain, o Hafod Dywyll. Neu, yn unol âg âch-restr arall, gwraig ydoedd y Bridget hon i Rolant Ywain, ab Edwart Ywain, ab Robert Ywain o'r Tŷ Gwyn, ab Huw Ywain o Hafod Dywyll. Ymbriododd chweched mab Lewis Ywain y barwn, sef Simon Ywain, â merch ac etifeddes Gruffydd ab Hywel Gruffydd o Hafod Dywyll, ac o'r briodas hon yr hanodd Yweniaid Ty Gwyn, Garth Angharad, a Phant Phylip, &c.

Mab y crybwylledig John Ywain, Ysw., a Susanah ei wraig, oedd Huw Ywain, Ysw., o Gae'rberllan, yr hwn a briododd yn gyntaf Margared, ferch John Nannau, Ysw.; a bu iddynt un ferch, yr hon a briododd Edwart Wyn o Langywer. A'i ail wraig oedd Jane, ferch ac etifeddes Wiliam Tudur o Egryn, ab Huw, ab Wiliam, ab Tudur, ab Gruffydd, ab Ednyfed, ab Gruffydd Llwyd, ab Llywelyn, ab Ednyfed; disgynydd o Marchydd, un o Bymtheg Llwyth Gwynedd. A bu iddynt dri o feibion, ond bu John Ywain, un o honynt, farw yn ieuanc. Gwraig Huw Ywain, Ysw., o Gae'rberllan, sef yr ail fab, ydoedd Ann ferch Dafydd Wiliams, Ysw., Glan Alaw, yn Môn, ac Uchel Sirydd y wlad hono yn y flwyddyn 1692, a disgynydd o Cadrod Hardd, arglwydd Talybolion.

Lewis Ywain, Ysw., o Gae'rberllan, ail fab y rhai hyn a briododd Catherine, ferch Wiliam Lewis, o'r Trysglwyn, yn Môn, ac Uchel Sirydd Môn 1079—10, a disgynydd o Hywel ab Cynddelw, un o Bymtheg Llwyth Gwynedd. Bu iddynt bedwar o feibion, ac un ferch, sef John Ywain, neu John Lewis Ywain, Wiliam Lewis Ywain, Huw Ywain, Edwart Ywain, ac Ann Ywain.

Ymbriododd Wiliam Lewis Ywain, Ysw., (neu,tebygol, *Owen* fyddai fwy cydunol â dull y teulu o ysgrifenu ei gyfenw), eu hail fab, â Mari, ail ferch Edwart Pugh o Gwmllywy, disgynydd o Buwiaid Mathafarn yn Nghyfeiliog. Cyfarfu y gwr hwn â'i angau yn herwydd y niwed a dderbyniodd oddiwrth ergyd o lawddryll pan yn dychwelyd adref o Bodilen Fawr, pa un a ollyngwyd gan is-beriglor Llanfihangel y Pennant. Dywed rhai mai papyr, ac eraill mai pys oedd cynwys yr ergyd. Dywedir na ddywedodd yr is-beriglor "Na ladd" wrth ddarllen y gwasanaeth fyth wedi hyn; ond dichon mai am ystod ei arhosiad i wasanaethu yn y Llan hon y cyraedd y dywediad. Ymddengys i Wiliam Lewis Ywain, Ysw., fyw rai dyddiau ar ol cael ei saethu; ac mai yn Mhen Meini yr oedd ei

gartref ar y pryd. Yr ydoedd yn adeg ei farwolaeth ar, neu wedi, dyfod i afael o etifeddiaeth Cae'rberllan. Bu iddynt amryw o blant, John, Mari, Cathrin, Esther, Edwart, Gaynor, a William. Aeth y blaenaf, sef John,—John Ywain, neu John Lewis Owen, i'r fyddin, a chollodd ei fywyd yn Jamaica, trwy gael ei ladd mewn brwydr, neu farw o'r clefyd melyn, yn ol y gwahanol ddywediadau. Daeth Edwart ei frawd,—Edwart Pughe Owen,—i afael o etifeddiaeth Cae'rberllan, a chymerodd yn wraig Jane Pugh, merch Maesypandy, yr hon o du ei mam a hànai o Buwiaid Rhiwogo a Chwmrhwyfor. Gwerthwyd etifeddiaeth Cae'rberllan, yn amser yr Edwart Pughe Owen hwn, a hyny i'r diweddar Mr. Scott, o Beniarth Uchaf, yn y flwyddyn 1857.

Ymbriododd Gaynor, un o chwiorydd y dywededig Edwart Pughe Owen, â Humphrey Owain, mab Owain Owain o Ddolffanog. (Gweler achau Dolffanog yn mhellach ymlaen). Bu iddynt ddeg o blant, a'r rhai sydd yn awr yn fyw o honynt, ydynt William Lewis Owen o Ddolgellau, yr hwn sydd yn briod; Mari Ann,—Mrs. Cadben Hill, Gay; Mrs. Williams, yn awr o Abermaw; Catherine Anwyl Owen, a Louisa Caroline Owen. Aeth un brawd iddynt i Awstralia a bu farw yno yn ddibriod. Ei enw oedd Owen Parri Pughe Owen. Bu farw un o'r mercheddd ag ydoedd wedi priodi, sef Mrs. Dorothi Jones, yn ol ei chyfenw priodasol, ond y mae iddi hiliogaeth.

## PERSONAU.

### WILLIAM HUW, NEU WILLIAM PUW, Y LLECHWEDD.

Yr oedd y gwr hwn yn bregethwr gyda'r Trefnyddion Calfinaidd. Cafodd ei eni yn Maesyllan, yn yr unrhyw blwyf (Llanfihangel y Pennant), a hyny yn y flwyddyn 1749. Yr oedd ei rieni yn bobl fucheddol, ac ystyrid hwy y pryd hyny yn ddynion crefyddol. Teimlai oddiwrth ddylanwad crefydd yn lled ieuanc wrth fugeilio defaid ei dad, ond gwisgodd yr ofnau a'r dylanwadau oedd ar ei feddwl y pryd hwnw ymaith fel y tyfai mewn oed. A dilynodd yntau

Digitized by Google

arferion ffol yr oes fel lliaws o ieuenctyd yr ardaloedd. Ac ymddengys iddo gyraedd cryn enwogrwydd yn rhai o'r campau ofer a ffynai ymysg ei gyfoedion. Dysgodd ddarllen yn dra ieuanc, a byddai yn arfer myned a'r *Llyfr Gweddi Gyffredin* i'w ganlyn pan yn bugeilio, ac yr oedd ei feddwl drwy hyn yn fwy diwylledig na llawer o'i gydoeswyr. Ac ymddengys mai wrth ddarllen y llyfr hwn y teimlodd yr argraffiadau crefyddol cyntaf. Profodd argyhoeddiadau mor ddyfnion nes yr ofnai ddyrysu yn ei synhwyrau, ac ni fynasai er y byd orfod goddef eu cyffelyb gwedi.

Ar ol iddo ef ac un John Lewis glywed fod pregethu mewn lle o'r enw Maesafallen, ger Abermaw, ceisiai ei gyfaill ganddo fyned yno i wrando, oblegid y gallai ef farnu os byddai gan y pregethwr rywbeth gwerth i'w ddweyd, ac os byddai y deuai yntau yno i wrandaw wedi hyny. Felly, un boreu Sabbath, aeth William Huw i Faesafallen, a'r sawl oedd yno yn pregethu y boreu hwnw ydoedd bregethwr Ymneillduol o'r enw Benjamin Evans. Eithr rhyw fodd neu gilydd aeth pregeth y boreu heibio heb iddo ddeall yr un gair o honi, na gwybod pa beth oedd y gwr yn ei draethu. Ond yn oedfa y prydnhawn* cafodd fendith i'w enaid, a gosodwyd argraff ar ei feddwl na ddilewyd byth. Ac edrychai ar y tro hwn yn gychwyniad ei yrfa grefyddol.

Bu am flynyddoedd wedi hyn heb ymuno â'r un enwad crefyddol, eithr yr oedd arwyddion o gyfnewidiad meddwl i'w canfod yn amlwg arno. Canys heblaw iddo adael yr hen arferion llygredig, dechreuodd geisio cynghori ei gymydogion a'u dysgu yn ffordd y bywyd. Elai i'w tai i ddarllen y Beibl a gweddio pan y caffai, ac ymddengys mai y gweddiau o'r Llyfr Gweddi Gyffredin a arferai y pryd hyn, neu o lyfr y Parch. Gruffydd Jones, Llanddowror. Dywed mab iddo, ei fod wedi gweled ffurf o weddiau o'i waith ei ef hun, pa rai a ddefnyddia yn moreuddydd ei oes grefyddol.

Nid oedd dim pregethu gan y Methodistiaid yn agos i'w gartref y pryd hyn; a byddai ef ac ychydig eraill, yn llafurus iawn yn myned i wrando i ardaloedd eraill lle y deallent y byddai yno bregethu. Ac aml dro yr aeth ef i'r Bala nos Sadwrn, ac adref nos Sabbath, wedi gwrando dwy bregeth yno.

Ymunodd â chymdeithas eglwysig y waith gyntaf yn Nolgellau. Yr oedd ef a'i gyfaill John Lewis, wedi myned yno un boreu Sabbath, gan ddisgwyl y byddai yno rywun yn pregethu, ond y boreu hwnw nid oedd yno ond cyfarfod, eglwysig gan y Trefnyddion Calfinaidd. Oherwydd hyny ar ol iddynt fyned i'r cyfarfod a deall mai cyfeillach eglwysig a gedwid yno ar y pryd, aeth y ddau allan gan dybio nad

*Testyn y bregeth oedd Rhuf. i. 16.

oedd caniatad iddynt aros ynddi. Ond cyn iddynt fyned ymhell goddiweddwyd hwy gan genad yn mynegu bod iddynt gyflawn groesaw i fod yn y gyfeillach os dymunent. Gan hyny aethant yn eu holau a chawsant dderbyniad gwresog, a derbyniwyd hwy y pryd hwnw yn aelodau o'r gymdeithas grefyddol ymhlith yr enwad a nodwyd, a chyn hir cawsant gyfranogi o'r Cymun yn Nolgellau.

Bu am yspaid o amser yn cadw yr ysgol râd, a gynelid o fan i fan dan arolygiaeth y Parch. Thomas Charles, o'r Bala, ac addysgodd lawer i ddarllen yr Ysgrythyr yn yr iaith Gymraeg trwy y moddion hyn. Dechreuodd bregethu pan oedd oddeutu deugain mlwydd oed. Ymhen pump neu chwe' blynedd ar ol iddo ddechreu, digwyddodd iddo gadw oedfa yn Nhywyn Meirionydd, a mynegwyd hyny i Mr. Corbett, o Ynys Maengwyn, yr hwn oedd Ynad Heddwch. Ac wedi i'r Ynad hwn ddeall iddo fod yno yn pregethu, gorchmynodd i ddeuddeg o'r milwyr a gadwai ar y pryd i fyned i'w ddal yn ei gartref. Cymerodd un o'r deuddeg arno ei fod yn glaf, a chychwynodd y lleill yn araf tua'r Llechwedd, gan obeithio, meddir, i rywun ei rybuddio o'u dyfodiad, er mwyn rhoddi cyfleustra iddo ddianc ymaith. Ond cyrhaeddodd y gwyr i'w gartref ar foreu dydd Gwener, yn nechreu haf y flwyddyn 1795, a daliasant ef yn ei wely. Yna dygasant ef gyda hwy o flaen yr Ynad, yr hwn a'i dwrdiodd yn llym ac a'i dirwyodd i 20p. Ond trwy egnion ei wraig a hynawsedd cyfeillion talwyd y ddirwy y diwrnod hwnw, a chafodd yntau ei ollwng yn rhydd.

Ataliwyd ef trwy hyn rhag pregethu am rai wythnosau, ond rhyw dro gwedi pan aeth i ymweled a'i gyfeillion crefyddol yn Nolgellau, cymhellwyd ef i bregethu y nos Sabbath canlynol, ac felly fu. Eithr dywedir y mynegwyd hyny i Mr. Corbett erbyn nos tranoeth. Ond er bod rhai fel hyn yn dra pharod i achwyn arno, dangosid llawer o anmharodrwydd i symud llaw na throed yn ei erbyn. A chyn iddo gael ei ddal yr ail waith, yr oedd wedi gwybod am y bwriad, ac ymguddiodd o'r gafael i aros y Frawdlys Drimisol oedd i'w chynal yn y Bala.*

Fel y sylwyd o'r blaen, cafodd ei eni yn Maes y Llan, ond yn foreu ar ei oes ymsymudodd gyda'i rieni i'r Llechwedd, lle yr ymbriododd ac y cafodd hiliogaeth. Bu farw yno yr 17 o Fedi, 1829, yn 79 mlwydd oed. A rhoddwyd ei ran farwol i orphwys yn mynwent Llan Fihangel y Pennant.

Trwyddedwyd y Llechwedd yn lle i bregethu ar yr 17eg Gorphenaf,

*Hanes Methodistiaeth Cymru. Bywgraffiad Enwogion Cym.—arg. Aberdar.

1795, ac y mae y Drwydded* ar gael ac wedi ei hysgrifenu yn Saesneg ar ddernyn o groen, i'r ystyr a ganlyn :—

MEIRONYDD (sef) } ARSEDDAU THOMAS A BECKET 1795 a gynhaliwyd o flaen Rice Anwyl, Thomas Davies, Gwyr Eglwysig Ynadon yr Heddwch yn a thros y Swydd ddywededig —Hyn sydd i Dystiolaethu fod Tŷ Cyfarfod penodol neu le Addoliad Crefyddol a elwir Llechwedd ym Mhlwyf Llanfihangel y Pennant yn Swydd Feirionydd wedi ei Gofrestru yr Eilfed Dydd ar Bymtheg hwn o Gorffenaf 1795 fel lle i Wasanaeth Ymneillduwyr Gwrthdystiol Yn unol a'r Ddeddf a wnaed ac a ddarparwyd yn y cyfryw Achos.

EDWARD ANWYL Ysgrdd Dirpr
yr Heddwch

---

## EDWARD PUW.

Yr ydoedd yr Edwart Puw hwn, yn haner brawd i'r crybwylledig William Huw o'r Llechwedd, am yr hwn yr ydys newydd fod yn son. Ganwyd yntau hefyd yn Maesyllan, fel ei haner brawd. Byddai yn cael ei alw *Doctor* Puw gan y wlad, ond er hyny nid oedd wedi ei ddwyn i fyny fel meddyg. Ystyrid ei fod yn gonsuriwr, ac yr oedd yn adnabyddus fel y cyfryw trwy y wlad, a chyrchid ato o amryw o swyddi y De a'r Gogledd, pan fyddai anhwyl ar ddyn neu anifail; a chafodd y gair o fod y goreu yn y wlad am ddadreibio. Eithr yn ol ei dystiolaeth ei hun wrth un ydoedd yn byw y naill ben iddo, fel y

*Rhoddwyd y Drwydded grybwylledig i mi gan Martha William, merch y dywededig William Huw, o'r Llechwedd. Bu hi a'i phriod Ellis William, yn byw yn y Llechwedd ar un tymor o'u bywyd priodasol, ond yn Llanfihangel y Pennant y buont feirw. Bu farw Ellis William, ei gwr, y 27ain o Fai, 1863, yn 78 mlwydd oed, a bu hithau farw y 30ain o Gorphenaf, 1882, yn 82 mlwydd oed. Y mae iddynt ddau fab ac un ferch yn eu holoesi, ill trioedd yn briod ac yn meddu hiliogaeth. Ond bu tair o'u merched feirw, ac hefyd William Williams eu mab hynaf. Yr oedd y tair hyn wedi priodi, a gadawodd un o honynt un mab ar eu hol; ac un arall ferch, yr hon sydd yn briod; a gadawodd y llall ddau fab ac un ferch ar ei hol. Bu farw y crybwylledig William Williams, eu mab hynaf, yn eu gartref yn y Llechwedd cyn i'w rieni fyned oddiyno, a hyny ar y 27ain o Ragfyr 1880, yn 37 mlwydd oed.

dywedir, nid ydoedd yn coelio fod y fath beth a rheibio yn bod, ac oblegid hyny, gofynai ei gymydog iddo, paham ynte y rhoddai beth i'r bobl rhag hyny, pryd yr atebai i'r ystyr,—Beth, waeth i mi roi peth i'r ffyliaid deillion na rhywun arall gan eu bod yn credu ynof. Dygid ato liaws o rai wedi anmhwyllo, a byddai ganddo un neu ddau yn ei dŷ ei hun, a rhai mewn tai eraill dan ei ofal. Ei ddull meddygol o'u trin oedd eu gwanychu yn eu nerth corfforol trwy eu gwaedu a rhoi ychydig o luniaeth gwanaidd iddynt. Dywedai o barth iddo ei hun a William Huw, ei haner brawd, mai nid yn gyffredin y magodd yr un fam ddau fab fel a ddarfu i'w fam ef,—" Bod Will yn gyru pobl o'u coiau ac yntau yn eu dwyn i'w coiau." Treuliodd lawer o'i oes yn Mhenal. Bu farw yn y flwyddyn 1809. Yr oedd yn daid i'r Parch. Hugh Pugh, Mostyn.

Adroddir ddarfod iddo fygwth William Jones, un o bregethwyr yr Annibynwyr, â marwolaeth os byth y deuai i Benal i bregethu ar ol hyny. Ond bu yn llawer gwell na'i air, canys ryw dro gwedi, a'r un pregethwr ar ei daith tua Phenal i bregethu yr efengyl er maint y bygythiad, ac yn dechreu ymddiosg i groesi afon Ddyfi i'r amcan, gwelwyd ef yn parotoi fel hyn gan y bygythiwr, yr hwn yn hytrach na gwneyd unrhyw niwed iddo, a gynygiodd fod yn gymwynasydd. Canys, a'r pregethwr heb allu nofio, rhybuddiodd ef i beidio cynyg croesi oherwydd y perygl o hyny, gan erchi arno aros nes y deuai ef ato i'w gario drosodd. Ac felly, yn lle ei ladd cynorthwyodd ef i groesi yr afon, pan yn myned tua'r pentref hwnw (Penal) i wneuthur ei hoff waith o bregethu yr efengyl.

Digitized by Google

## MARI JONES.

Y mae pwysigrwydd mawr ynglŷn â'r wraig hon; canys hi a fu yn achlysur i gychwyniad Cymdeithas y Beiblau. Ganwyd hi yn Nhy'nddol, yn y flwyddyn 1784. Ei rhieni oeddynt Jacob a Mari Jones. Gwehydd oedd ei thad wrth ei alwedigaeth, a dyna hefyd oedd ei galwedigaeth hithau. Yr oedd ei mam yn aelod gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, ac arferai fyned a hi yn dra ieuanc i'w chanlyn i foddion crefyddol a gedwid weithiau yn y Cwrt, a throion eraill yn y Llechwedd. Pan ydoedd tua deng mlwydd oed, sefydlodd y Parch. Thomas Charles, o'r Bala, un o'r ysgolion dyddiol yn Abergynolwyn, ac Ysgol Sabbothol hefyd mewn cysylltiad â hi, o dan ofal John Elis, o Abermaw wedi hyny; ac yn ddilynol dan ofal Lewis William (Lewis William, Llan Fachraith, wedi hyny). Yr oedd Mari Jones yn un o'u hysgolheigion cyntaf a chysonaf, a hynododd ei hun yn fawr yn yr Ysgol Sabbothol mewn deall, dysgu allan, ac adrodd yn gyhoeddus ranau helaeth o'r Ysgrythyrau. Ond nid oedd yn Nhy'nddol yr un Beibl cyflawn, a byddai hithau o ganlyniad yn arfer myned bellder o'i chartref i gael gafael ar un. Ac yn ol a ddywedir, Bodilen Fawr oedd y fan, pa un oedd oddeutu milldir a haner o bellder o'i chartref. Caniateid iddi fyned yno i'w ddarllen gan deulu'r tŷ pan y mynai, ac elai hithau yno yn fynych bob wythnos am oddeutu chwe' blynedd o amser i'w ddarllen, ac i ddysgu allan o hono erbyn yr Ysgol Sabbothol. Ond yn ystod yr holl amser hwn dymunai yn ei chalon feddu Beibl ei hun, a chadwai yr ychydig arian a dderbyniai am orchwylion a negeseuau er prynu ei hoff Lyfr. Ac felly, pan ydoedd yr eneth egnïol hon yn un mlwydd ar bymtheg oed, meddai ddigon o arian i'w bwrcasu. Y pryd hwn aeth i'r Llechwedd at William Huw i ofyn pa le y gallai gael Beibl ar werth; ac wedi cael gwybodaeth ganddo nad oedd yr un i'w gael ar werth yn nes na'r Bala,* penderfynodd fyned yno i brynu un. Ond cyn iddi gychwyn i'w thaith rhoddodd modryb iddi arian i brynu un iddi hithau hefyd, ac ysgrepan i gario y ddau adref. Dywedir mai yn ei chlocsiau yr aeth i'r daith hon; ond mynegir y sicrhâi hi ei hun mai esgidiau oedd ganddi, eithr mai

*Pellder o tua 46 o filldiroedd y ffordd agosaf, yn ol a blaen, o Dy'nddol, lle yr ydoedd yn byw.

yn droednoeth y cerddodd y rhan fwyaf o'r ffordd, gan gario yr esgidiau yn yr ysgrepan. Ar ol iddi gyraedd y Bala, aeth yn ol cyfarwyddyd William Huw at Dafydd Edward, yr hwn oedd yn hen bregethwr parchus. Dywedodd hwnw wrthi fod yr amser yn rhy hwyr iddi fyned at Mr. Charles y noswaith hono, ond y byddai yn arfer codi gyda'r dydd; a chan hyny y cai gysgu yn ei dŷ ef, ac yr elai yntau gyda hi at Mr. Charles mor gynted ag y cyfodai y gŵr parchedig hwnw, er mwyn iddi allu cyraedd adref erbyn nos. Wrth iddynt gyfeirio boreu dranoeth at dŷ Mr. Charles, gwelent oleu yn ffenestr ei astudfa; ac ar ol i Dafydd Edward guro wrth y ddôr, daeth Mr. Charles ei hun i'w agor, a gwahoddodd hwy i fyny i'w astudfa. Yna, wedi iddo wybod ei neges a'i helynt gyda'r Beibl, cwynai yn dost nad allai werthu yr un iddi heb dori ei addewid i eraill, gan fod yr ystor o Feiblau a gafodd o Lundain i gyd ar ben. Ond pan feddyliodd yr eneth nad oedd obaith iddi i gael yr un Beibl ganddo, torodd allan i wylo yn hidl; ac effeithiodd yr olygfa gymaint ar Mr. Charles nes iddo fethu ei nacau. Ac meddai wrthi, "Wel, fy ngeneth anwyl i, mi welaf fod yn rhaid i ti gael Beibl, er mor anhawdd i mi ei hebgor heb siomi rhai eraill; mae yn anmhosibl dy wrthod." Felly gwerthodd un iddi hi, ac un arall i'w modryb. Wylai yr eneth o lawenydd wrth roddi ei thrysor dymunedig yn yr ysgrepan, ac wylai Dafydd Edward a Mr. Charles yn yr olwg arni, a dywedai yr olaf wrthi, "Os ydyw yn dda genyt ti, fy ngeneth i, gael Beibl, mae yn dda iawn genyf finau gael ei roddi i ti; darllen lawer arno, a bydd yn eneth dda." Yna ychwanegai wrth Dafydd Edward, yn ei ddagrau, "Onid ydyw y fath olygfa yn ddigon i hollti calon undyn,—geneth dlawd yn gorfod cerdded yr holl ffordd o Lan Fihangel yma i geisio am Feibl? Mae y Gymdeithas a argraffodd y Beiblau hyn i ni wedi gwrthod argraffu i ni ddim ychwaneg; pan âf i Lundain y tro nesaf, orphwysaf fi ddim byth ar ol hyn nes cael rhyw lwybr i gael mwy o Feiblau i Gymru."

Pan ydoedd Mr. Charles yn dadleu o flaen Pwyllgor y Traethodau Crefyddol yn Llundain, yn mis Rhagfyr, 1802, am sefydliad cymdeithas i gyflenwi angen Cymru am Feiblau, yr hyn oedd y symbyliad cyntaf tuag at sefydlu Cymdeithas y Beiblau yn y flwyddyn 1804, adroddai helynt yr eneth hon fel engraifft o angen Cymru am Air Duw. A dywedai wrth y crybwylledig Lewis William, o Llan Fachraith, i hanes Mari Jones, ei ddisgybles ef, sef yr eneth sydd dan sylw, gynyrchu teimlad dirfawr drwy y cynulliad o blaid ei gais. Cydnabyddodd hefyd wrth Mari Jones ei hun i'r hanes am dani fod o wasanaeth mawr iddo.

Amlygai Mari Jones hyd ei bedd ddyddordeb neillduol yn y Gymdeithas ogoneddus y bu y fath gysylltiad rhwng ei helynt gyda'r

Digitized by Google

Beibl â'i sefydliad. Rhanai ei derbyniadau am ei chŵyr gwenyn cydrhwng y Gymdeithas hon a'r Gymdeithas Genhadol, gan gadw cynyrch y mêl at ei chynhaliaeth ei hun. Ac yr ydoedd yn un nodedig trwy yr ardal am ei gwenyn, a'i mêl, a'i chŵyr gwenyn.

Treuliodd y rhan fwyaf o'i hoes yn Mryn Crug a'r gymydogaeth, a phan wnawd y casgliad yno yn 1854 tuag at anfon y miliwn Testamentau i China, cafwyd yn y casgliad chweugen felen, yr unig un oedd ynddo. Ofnid mai mewn amryfusedd yr ydoedd rhywun wedi rhoddi y dernyn melyn hwn i mewn, ond deallwyd gwedi mai nid felly y gwneuthpwyd, eithr mai Mari Jones, yn weddw dlawd, a'i rhoddodd mewn eithaf ymwybyddiaeth.

Tuag adeg ei hymadawiad â'r fuchedd hon, yr oedd yr adnodau a ddysgasai yn hyfryd ar ei chof yn gweinyddu cysuron iddi; a dywedai yn groew yn ei chystudd olaf mai i'r nefoedd yr ydoedd yn myned, ac "yno yr âf er pob gwrthwynebiad," meddai. Bu farw y 29ain o Ragfyr, 1864, yn 80 mlwydd oed, a rhoddwyd ei chorff i orphwys yn mynwent Bryncrug.

---

## DR. WILLIAM OWEN PUGHE (Idrison).

Ganwyd y geirlyfrwr a'r llenor enwog hwn yn Nhy'n y Bryn, ar y 7fed o Awst, 1759; ond ymsymudodd oddiyno gyda'i rieni i fyw i Egryn, yn nghymydogaeth Abermaw, pan yn saith mlwydd oed. Aeth i Lundain yn mis Mai y flwyddyn 1776, a bu yno hyd oddeutu'r flwyddyn 1782, heb wybod fod neb o'i mewn heblaw ei hunan yn meddwl am yr iaith Gymraeg nac am ei llenyddiaeth. Ond tua'r pryd hwn, digwyddodd iddo gyfarfod â'r bardd a'r beirniad Mr. Robert Hughes, o'r Caint Bach, yn Môn. Cyflwynodd y gwr hwn ef i Owain Jones, ac eraill o sefydlwyr Cymdeithas y Gwyneddigion, pryd ei synwyd trwy ganfod eu trysorau o lawysgrifau Cymreig. Rhoddodd hyn yni newydd ynddo yn ei olrheiniadau mewn llyfrau Cymreig, a gosododd sylfaen i'w eiriadur, gan agor gwahanol ffynhonellau o hysbysiadau tuag at ei ddwyn i ben.

Yn gynar yn y flwyddyn 1785, meddai, "dechreuais gorffori gwahanol gasgliadau bychain o eiriau gyda'r geiriadur argraffedig cyflawnaf; ac wedi hyny chwanegais y casgliad hwn trwy wahanol foddion, ond yn benaf trwy dreulio tua thair blynedd yn chwilio llyfrau Cymreig, naill ai yn argraffedig ynte yn ysgrifenedig.

Digitized by Google

Chwyddodd hyn y defnyddiau i gymaint sum, nes peri fod yn angenrheidiol ad-ysgrifenu yr oll, a hyny yn unig er cyraedd yn agos i drefn lythyrenol, fel yr unig ffordd i fyned yn mhellach. O'r cyfryw ad-ysgrif, ag oedd yn parhaus gynyddu, yr oedd yn ofynol wedi hyny, gyflunio un arall i'r wasg, a chenyf ei hamrywiol ranau i'w llanw i fyny âg egluriadau, a dyfyniadau, er egluro geiriau tywyll, neu bwysig, a'u cyfieithiadau i'r Saesneg.

"O'r braidd y geill y rhai hyny a fuont ond yn unig yn arfer diwygio geiriaduron blaenorol, ag oeddynt eisoes wedi eu dwyn i drefn weddol; ffurfio drychfeddwl cywir am y llafur ofynir fel hyn, trwy ba un yr ychwanegwyd cynwysiad geirlyfrau blaenorol nad oeddynt yn lliosocach yn rhif eu geiriau na 15,000 i tua 80,000, a hyny hefyd yn ychwanegol at ddygiad i mewn fwy na 12,000, o ddyfyniadau, er egluro tywyllni iaith, ynghyd a'r lliaws anhawsderau o'u troi yn llythyrenol i'r Saesneg. Mewn gwirionedd yr oedd yn waith mor fawr i mi feddwl am ei gwblhau, fel y'm darbwyllwyd i aberthu llawer o bynciau yn ei ddygiad i ben, a allasent gynorthwyo i'w wneyd yn fwy perffaith; i'r effaith a gyfodai o gyfrif hyd tebygol bywyd."

Daeth dau argraffiad o'i Eiriadur allan yn ystod ei fywyd, yr olaf o ba rai a ymddangosodd yn y flwyddyn 1832, wedi ei ddiwygio a'i arolygu ganddo ef ei hun. Eithr er cymaint ydoedd ei lafurwaith mawr hwn, nid oedd ond megis rhan o'i gynyrch llenyddol, canys ysgrifenodd lawer iawn yn ychwaneg, er hyny, hwn oedd ei brif waith.

Yn y flwyddyn 1806, gadawyd etifeddiaeth iddo yn nghymydogaeth Dinbych, ac mewn canlyniad i hyny, cymerodd y cyfenw *Pughe* at ei gyfenw blaenorol *Owen*, canys gelwid ef unwaith yn William Owen. Cafodd ei ddewis yn aelod o'r Gymdeithas Hynafiaethol, ac oddeutu y flwyddyn 1824, cafodd ei anrhegu â'r gradd o Ddoethawr yn y Cyfreithiau Gwladol, gan Brifysgol Rhydychain.

Ymbriododd yn y flwyddyn 1790 â merch ieuanc o'r enw Sarah Elizabeth Harper, a bu iddynt un mab a dwy ferch. Yr oedd Aneurin Owen, y mab, yn ysgolhaig Cymreig enwog, a golygodd "Hen Gyfreithiau a Sefydliadau Cymru*" a ddygwyd allan yn y flwyddyn 1841.

Y mae ysgrifenwyr yn cam ddywedyd wrth nodi mai yn Nolyddcau y bu y dyn mawr hwn farw, canys nid yno y bu, ond mewn ty gerllaw o'r enw *Cottage*. Yr oedd wedi dod yno er's tua mis cyn hyny er mwyn ei iechyd. Ac, yn ol a ddywedir, bernid mai yr achos o'i farwolaeth oedd i wythien yn ei dalcen dori, oherwydd ei fod yn gwella yn rhy gyflym. Bu farw yn ei ystafell wely heb neb yn ei

* "**Ancient Laws and Institutes of Wales.**"

Digitized by Google

weled. Felly, collodd Cymru yn marwolaeth y gwr enwog hwn, a ymneillduodd i'w ystafell wely nos y 3ydd o Fehefin, 1835, ond a gaed yn farw y boreu canlynol, un o'i meibion mwyaf egniol a llwyddianus ar ran llenyddiaeth ei wlad, ac un y dylai ei enw fod yn dra pharchus ac anwyl gan ei genedl.

## YR ELUSENAU.

Dywed yr Adroddiadau a roddwyd o flaen y Senedd yn y flwyddyn 1834, y mynega yr Adroddiadau a osodwyd ger ei bron yn y flwyddyn 1786, ddarfod i Dafydd Evan, trwy ei Ewyllys dyddiedig yn y flwyddyn 1724, roddi 10p. i'r tlodion, a'u bod ar y pryd hwnw yn osodedig yn meddiant y Parch. John Owen.

Ymddengys y rhoddwyd yr arian hyn gan y gweinidog a'r gwarcheidwaid eglwysig yn fenthyg i Hugh Owen, o Gae'rberllan, yn y plwyf hwn (Llanfihangel y Pennant), ar Ymrwymeb dyddiedig y 4ydd o Ragfyr, 1724, taledig iddynt hwy a'u holynwyr, gweinidog a gwarcheidwaid eglwysig Llanfihangel y Pennant.

Dywed yr Adroddiadau a roddwyd o flaen y Senedd yn y flwyddyn 1834, y derbynid 10s. yn flynyddol oddiwyth John Dafydd, tir-ddeiliad "Pen y Bryn yr Mwr" (Penau'r Bryniau Mawr), tyddyn ag oedd y pryd hwnw yn mherchenogaeth Edward Owen, Ysw., ac y'u rhenid ymhlith tlodion y plwyf, ond yn benaf i'r rhai nad oeddynt yn derbyn cymorth wythnosol, a hyny mewn dognau yn amrywio o 6c. i 2s.

Bu y rhodd hon yn cael ei thalu am amser gan y diweddar Mr. Griffith Griffiths, ag ydoedd yn dir-ddeiliad Cae'r Berllan. Ond llwyr gollwyd hi tuag amser gwerthiad etifeddiaeth Cae'r Berllan yn y flwyddyn 1857.



Digitized by Google

# PLWYF LLAN EGRYN.

Cymer y plwyf hwn ei ddynodiant oddiwrth y Llan a saif o fewn ei derfynau, sef Llan Egryn, ei eglwys berthynol. Y mae y plwyf yn cynwys pentref yn dwyn yr un dynodiant o Lan Egryn, a'r naill fel y llall yn cael eu henwau oherwydd y Llan hon. Perthyna i'r plwyf ddwy o dref ddegymau, sef tref ddegwm Peniarth, a thref ddegwm *Rhycryw*, yn ol fel y gelwir yr enw olaf ar lafar gwlad. Eithr os oes coel i'w roddi ar hen ddulliau o'i ysgrifenu, ymddengys mai *rhyd* yw y rhan gyntaf iddo. Modd bynag am hyn, y mae y rhan olaf mor dywyll fel na wneir yma yn awr ond "tewi a son a gadael iddo."

Cafodd y Llan ei henw oddiwrth Egryn, yr hwn a ystyrir ei sylfaenydd, a'r hwn a restrir ymhlith Saint Ynys Prydain. Yn Monedd neu achau Saint yr unrhyw ynys, yn ol fel y maent ar lawr yn y Gwyddionadur Cymreig, gosodir Cadell Deyrnllwg fel ei foncyff-dad, eithr nid yw y Myfyrian Archaiology yn dwyn ymlaen ei enw fel y cyfryw. Er hyny feallai mai heb redeg y llinell achyddol mor bell yn ol a'r gŵr hwn yr ydys yno, ac mai yr un yw yr achlin achyddol yn y ddau lyfr crybwylledig. Modd bynag, felly yr ymddengys oddiwrth fel y gesyd William Owen, F A.S. (Dr. William Owen Pughe), yn ei Cambrian Biography. Dywedir yn ei gylch yn y Gwyddoniadur* crybwylledig yn y modd hyn,—"*Egryn* ab Gwrhydr drwm, (Gwel *Edeyrn ab Gwrhdyr* yn y gyfres hon):—7fed canrif. Ei eglwys ef, Llanegryn, yn Meirion." Yna i ddilyn y cyfeiriad hwn, ceir disgyniad Gwrhydr Drwm ei dad yn yr unrhyw lyfr fel hyn:—"Gwrhydr Drwm, ab Gwrhydrawc, ab Geraint, ab Caranawc, ab Cleddyfgar, ab Cynan Glodrydd, ab Cadell Deyrnllwg."

Ond yn ol a ganlyn y mynegir yn y Myfyrian Archaiology†--"Egryn ap Gwydr drwm, ap Gwedrawc, ap Geraint, ap Garanawc, ap Glewddigar, ap Cynwae Rychwain o fod Rychwain yn Ros. C. Velly Tho W. 2, eithr Cynwag Rhychwain.—LLANEGRYN."

---

*Cyfrol II. tud. 20.

†Myf. Arch., ail arg., t. 424.

"Egryn ab Gwydrdrwm, ap Gwedrawg, ap Geraint, ap Caranog, ap Glewdigar, ap Cynwal, ap Rychwin o vod Rhychwin yn Rhos. T. W. 1."

Eithr i'r ystyr a ganlyn y gosodir o barth iddo yn ngodreu'r ddalen yn y Cambrian Biography crybwylledig: "Mab ydoedd i Gwrydr Drwm, ab Gwedrog, ab Geraint, ab Garanog, ab Glewddigar, (Cleudyoyar), ab Cynwal Rychwain (Cynan Glodrydd), ab Cadell Deyrnllwg."

---

## YR EGLWYS.

Cafodd yr Eglwys, neu yn hytrach y Llan hon ei henw dynodiadol oddiwrth y gwr y buwyd yn son am dano, sef Egryn ab Gwrhydr neu Gwydr drwm, yr hwn a oesai yn neu tua'r seithfed ganrif. Cysegrwyd y Llan hon i Mair, a disgyn diwrnod ei Chofwyl ar y seithfed o Awst. Ceisia rhai ddweyd ei bod wedi ei chysegru i Egryn, ond nid yw yn ymddangos fod yr hen gofianau yn son am hyny, a thebygol na wnaed namyn ei galw ar ei enw.

Perthynai degwm y plwyf hwn gynt i Fynachlog y Cymer. Yr oedd gwerth meddianau ysbrydol a bydol y Fynachlog oddiwrtho, yn ol cyfrif y Dirprwywyr, y 27ain o deyrnasiad Harri VIII., fel y canlyn :—

*Bydol.*

| | P. | S. | C |
|---|---|---|---|
| Adeiladau ac ardrethion yn nwylaw y gwahanol ddeiliadon yn nhref ddegwm y Rhycryw, yn flynyddol .. | 3 | 0 | 0 |

*Ysbrydol.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Degwm ŷd Llan Egryn yn flynyddol .. | 4 | 0 | 0 |
| Degwm gwlan wyn yno yn flynyddol ydoedd 1p. 13s. 4c. neu | 2 | 13 | 4 |

*Y taliadau ysbrydol.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog blynyddol Ifan ab John, hwsmon y tiroedd yn Llanegryn neu Rhycryw .. | 0 | 13 | 4 |

*Y taliadau ysbrydol.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tâl blynyddol arolygiaeth yr esgob .. | 0 | 10 | [illegible] |

Digitized by Google

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tâl blynyddol arolygiaeth yr archddiacon .. | 0 | 3 | 4 |
| Gwobr blynyddol ebrwyad Llanegryn* .. | 1 | 6 | 8 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cofnodau Dugdale, allan o Rol y 29 o deyrnasiad Harri VIII., o barth Mynachlog y Cymer, a ddywed fod addaliadau deiliadon tref ddegwm y Rhycryw, trwy amodeb ac wrth ewyllys yn cyraedd i .. | 3 | 5 | 4 |
| Yr oedd degwm Llanegryn y pryd hwn yn ol yr un awdurdod† yn .. | 13 | 13 | 4 |

Rhoddwyd Prydles gan Abad y Cymer, a'i gyfaint, ar dyddyn yn Rhycryw, fel y dengys a ganlyn :—

"Prydles oddiwrth Lewis Abad y Cymer a'i gynulleidfa i Llywelyn ab Dafydd Powis a Dyddyn ferch Llywelyn ab Dafydd ei wraig ar dyddyn yn Redcrewe (yn mhlwyf Llanegryn) a elwir Pant Cynerth, dyddiedig Mehefin y 6ed, 1521."

Perthynai degwm y plwyf yn yr unfed ganrif ar bymtheg i deulu o'r enw Powis. Yn yr eilfed ganrif ar bymtheg, yr oedd yn meddiant Herbertiaid Dolguog. Ac yn y ganrif ddilynol, meddienid ef gan S. Davies, yr hwn a'i trosglwyddodd i'r Parch. John Tamberlain, Dolgellau, yn Mehefin y flwyddyn 1760 neu 1761. Ac yr oedd y gwr hwn yn ei ddal yn mis Mai, yn y flwyddyn 1784. Gwerthwyd y degwm ganddo ef neu ei deulu i'r Titliaid o Lanrwst, y rhai a'i daliasant hyd yn ddiweddar heb ei ranu. Ond erbyn hyn y mae un gangen o'r teulu hwn wedi gwerthu tua'i haner i Gruffydd Williams, Ysw., ond parha y rhan arall yn meddiant y Titliaid crybwylledig; pa rai hefyd sydd yn parhau i ddal nawddogaeth y fywoliaeth.‡

Gwaddolwyd y fywoliaeth â 400p. o flaendâl brenhinol, y rhai a elw-soddwyd yn mhryniad tyddyn yn Swydd Drefaldwyn. Heblaw hynyna, cafodd 1000p. yn anrheg gan y Senedd. Maint cyfnewidiol degwm y plwyf yn y flwyddyn 1879, oedd 371p. 15s. 10¾c. Prisiad degwm y plwyf ydyw 331p. 4s.

Nodir mewn perthynas i Lan Egryn, "Ymhlith yr achwyniadau yn erbyn offeiriaid esgobaeth Bangor ar ymweliad Lewys Bayly, esgob Bangor, a gynhaliwyd yn Mehefin 1623." "Llanegryn,—Namyn a bregeth yma, Lleygwr yn meddu tir eglwysig (Priodolydd) Mr.

* "Arch. Camb." am Hyd. 1846.

† "Arch. Camb." eto 1847.

‡ History of the Parish of Llan Egryn, by W. W. E. Wynne, Esq., o Beniarth.

Digitized by Google

Herbert yw meddianydd y degwm (yr hwn sydd yn ei osod) yma. Dim cyd-gerdded yn wythnos y gweddiau."

Yn ol dyfyniad Lladinaidd gan y diweddar âchyddwr Mr. Wynne, o Beniarth, yn ei *History of the Parish of Llanegrn*, allan o'r *Valor Ecclesiasticus*, Cyf. iv., tud. 427, yr oedd gwerth digoll ebrwyaeth Llan Egryn mewn blynyddoedd cyffredin, "per Scrutin,"* ac arholiad y dirprwywyr yn 5p. 6s. 8c., ynghyd a 1p. 6s. 8c. fel tâl blynyddol yr ebrwyad yno, ac yn cael ei dalu gan Abad y Cymer. Yna yr oedd Degymau yn cyraedd i 10s. 8c. Ac yn ol yr unrhyw ddyfyniad, perthynai perigloriaeth Llan Egryn, Llanelltyd, ynghyd âg Eglwys plwyf Llanfachraith i Fynachlog y Cymer. Sylwa Browne† Willis fod Llanfachraith a Llan Egryn yn perthyn i'r unrhyw Fynachlog.

Mewn perthynas i wyr eglwysig Llan Egryn, dywed Mr. Wynne yn ei hanes crybwylledig iddynt am hir amser gael eu galw yn *gurad-iaid* (*curadiaid* parhaol), eithr eu bod bob amser, a siarad yn briodol, yn ebrwyaid, ac iddo o ganlyniad eu dynodi felly. Ac yn ol yr un awdurdod, darfu i Dominus John ap Llywelyn, ar y 6ed o Ionawr, y seithfed flwyddyn o deyrnasiad Edward IV., ardystio gweithred dyddiedig yn Maes Peniarth, mewn perthynas i Fryn y Froches. Ac mewn cysylltiad â'r gwr hwn, dywed Mr. Wynne yn mhellach ei fod yn ddiamheuol yn offeiriad, a chan mai annhebygol fod dau offeiriad yn y plwyf ar yr un pryd, y gellir tybio mai ef ydoedd yr ebrwyad.

*Trwy chwiliad.
†Tud. 23—4.

Digitized by Google

# LLEOEDD.

---

## TAL-Y-BONT.

Saif yr amaethdy a ddyga yr enw Talybont yn lled agos i Bont Syni, ac enw ydyw o'r un ystyr a Phen y Bont, neu uwchlaw y bont. Ond golyga y chwedl ganlynol nad dyma yr ystyr yn y fan hon, a gesyd allan mai dal neu afaelyd mewn un ydyw. Eithr nid gwiw rhoddi dim pwys arni, canys ymddengys yn ddiameu mai ei llunio gafodd fel eglurhad ar yr enw. Dywed y chwedl ddarfod i ryw hen frenin a fu dan warchäedigaeth gan ei elynion yn Nghastell y Bera, neu yn Nhalybont (canys nid ymddengys bod sicrwydd pa un), fyned allan am dro, gan dybio gilio o'i elynion ymaith wedi methu cymeryd y fan, eithr yn lle hyny nid oeddent ond wedi cymeryd arnynt ymadael. A phan gyrhaeddodd yntau i Bont Syni, wele y cynllwynwyr a lechent wrth ei deuben yn rhuthro o'u hymguddfa, ac yn ei ddal ar y bont.

Gelwid gynt un o'r cymydau a wnelent i fyny Gantref Meirionydd yn Gwmwd Talybont; ond er's llawer o amser bellach trowyd y cwmwd hwn yn Gantref Talybont, a diddymwyd hen Gantref Meirionydd o fod yn ddynodiant gwladol.

Yr oedd Talybont yn dreftadaeth gan hen dywysogion Gwynedd, a gosodir mai oddiyma y dyddiodd Llywelyn ab Gruffydd ei lythyr dyddiedig y 6ed o Hydref, 1275, ysgrifenedig at Robert, Archesgob Caergrawnt, prif esgob Lloegr, ac esgob Caerefrog a'u hesgobion, cynwys pa un sydd i'w weled yn mhellach ymlaen.

Cyn hir wedi marwolaeth y tywysog galluog hwn, aeth y fan i feddiant coron Lloegr. A cheir yn y *Cambrian Journal** am y flwyddyn 1863, fynegiad ddarfod i'r brenin James I., yn hawl coron

---

*Gweler tud. 100-3.

Digitized by Google

Lloegr, afaelyd yn Nhywysogaeth Cymru, ac yn ganlynol gymeryd meddiant o holl diroedd, teyrnfreintiau, ac etifeddiaethau tywysogion Cymru, sefydledig ynddo ar eu hanaddwyniad,* gan gadw iddo ei hun ardreth benodol, caniataodd faenol Talybont a maerdref Llan Egryn, a chyda hyny bob llyn, bryn, afon, dyfrffos, teyrnfraint, ac etifeddiaeth, a fwynheid gan, neu a berthynent i Wotton a Bingley, y rhai trwy Ddeintysgrif gofrestredig a ganiatasant yr unrhyw i Gruffydd Ywain, ac Elisabeth ei wraig, ynghyd â Lewis Ywain, eu mab a'u hetifedd. Mab i Lewis Ywain y barwn ydoedd y Gruffydd Ywain hwn, ac Elisabeth ei wraig ydoedd ferch i Dafydd Llwyd ab William, o Beniarth. Mynegir yn y dyfyniad o'r hen ddeintysgrif grybwylledig nad oeddis yn meddu† adysgrif o arolygiad‡ yr anaddwyniad‖ trwy yr hwn y sefydlwyd y tiroedd a'r rhagenwedigion yn y goron, eithr y meddid rhai nodiadau ymha le i gael hyd i'r unrhyw, ac fod gan "Mr. Owen"§ amryw Afaelebau a Gweithredoedd a Gollyngebau eraill a Quietus Est oddiwrth y Prawiad, ar daliad ardrethoedd, yn crybwyll fod yr unrhyw yn nghadw ac yn daladwy oddiwrth ac ar faenol Talybont a maertref Llan Egryn, cyfran o Dywysogaeth Cymru, ac mai fel hyn yr oedd pob cofnodiad yn llyfr y Profwr cyfrifon ac yn swyddfa y Mwyadlys.¶ Mynegir hefyd yn yr unrhyw ddyfyniad nas meddid adysgrif o roddiad y rhagenwedigion i Wotton a Bingley, eithr fod yr unrhyw i'w gweled yn y "Rolls Chapel," ac y mynegid am ganiatad y brenin yn eu caniatad i'r dywededig "Mr. Owen."

Yr oedd Gweithredoedd Wotton a Bingley yn meddiant y diweddar hynafiaethydd Mr. Wynne, o Beniarth. A mynegir mai trosglwyddiad oedd, cofrestredig yn y Cangellys, dyddiedig y 12fed o Dachwedd yn y flwyddyn 1615, trwy ba un y trosglwyddodd John Wotton a George Bingley i "Griffith Owen" ac "Elisabeth" ei wraig, ac i Lewis Owen, eu mab a'u hetifedd, dyddynod penodol,* a'r holl faerdiroedd hyny o Lanegryn, gyda yr oll o'u perthynolion pa bynag, cyflëedig, gorweddedig, ac yn bodoli o fewn cwmwd Talybont, ag oeddynt ar y pryd neu yn ddiweddar yn naliad Robert Wood, marchog; ac hefyd yr oll a phob tyddyn unigol, tai, maer-diroedd,

---

* "attainder."

†Sef yn Mheniarth, neu gan deulu Peniarth.

‡"Survey."

‖"attainder."

§Disgynydd o'r Gruffydd Ywain a nodwyd, ac un o hynafiaid y diweddar hynafiaethydd Mr. Wynne, o Beniarth.

¶Llys i fwyhau cyllid y Goron.

*Ni roddir eu henwau yn y "Cambrian Journal" am 1863, tud. 101.

Digitized by Google

gwyllt-diroedd, rhosydd, morfeydd, &c., ac hefyd offrymau, dyfr-oedd, ffrydiau, dylyedion (*redditus*), a gwasanaethau *daliedig ar unrhyw edringau neu gyfarwysau o'r tiroedd*, defion, arglwyddiaethau, breintiau, &c., &c., &c., mor llawn, rhydd, a chyflawn ag y darfu i'r brenin James trwy ei freintlythyrau dyddiedig y 29ain o Ebrill diweddaf, ganiatau yr unrhyw i'r dywededigion Wotton a Bingley; oddigerth, er hyny, ei fod bob amser ac am byth yn ddaliedig yn llaw, pob glwys nawddogaeth, rhoddion, rhydd drefniadau, a hawliau nawddogaeth i'r oll a phob eglwys ar ei phen ei hun, capelydd, ac ebrwydai, ac adeiladau eglwysig pa bynag. I ddal yr oll o'r rhagenwedigion fel o Dywysogaeth Cymru, trwy deyrngarwch yn unig, o dan ddaliad rhydd swch a chwlltwr cyff-redin,* ac nid yn uniongyrchol oddiwrth y brenin, na thrwy unrhyw wasanaeth milwrol, gan dalu yn flynyddol 23s. 4c. i'r brenin a'i olynwyr am y tiroedd dywededig a'r rhagenwedigion eraill o fewn cwmwd Talybont a nodwyd; ac hefyd dalu pob hawl arferol dyledus oddiwrth y tiroedd hyny, &c.

Ac fel hyn, tebygol, aeth llawer o diroedd a rhagorfreintiau yn Nghymru perthynol i'n hen dywysogion i gael eu rhoddi ar ddisperod megis, yn ol ffafrau a manteision teyrnedd estronol.

Yn awr, ceir rhoddi cynwys y llythyr crybwylledig o eiddo ein Llywelyn ab Gruffydd, tywysog enwog Cymru, yr hwn a gwympodd dan arf y gelyn ym Muallt:—

At y tra pharchedig Dadau yn Nghrist ac Arglwyddi, Robert trwy ras Duw, Archesgob Caergrawnt, blaenor yr eglwys trwy Loegr, ac Archesgob Caerefrog a'u hesgobion cynorthwyol, yn awr yn nghyd mewn cyngor yn Llundain, anerch gyda dyledus ufudd-dod, parch, ac anrhydedd ym mhob peth oddiwrth eu hymroddgar fab Llywelyn, Tywysog Cymru, ac arglwydd y Wyddfa.

Bydded hysbys i chwi barchedig Dadau tra y cododd cyn hyn ymryson ac ymrafael (o'r hyn y bu rhyfel ac y parhaodd yn hir) rhwng y brenin o uchel goffadwriaeth, Harri brenin Lloegr, ar un tu, a ninau ar y tu arall, ddarfod i'r unrhyw ymrysonau ac ymrafael gael eu cymodi o'r diwedd trwy awdurdod yr esgobaeth Apostolaidd a thrwy law y parchedig dad, arglwydd Atobonus, Diacon a Chardinal St. Adrian, y Genad i Loegr; megys y gwelir yn ffurf y cyfamod a'r heddwch rhwng y dywededig frenin, ac Edwart ei fab cyntafanedig, yr arglwydd Edwart, yn awr brenin Lloegr a'u holynwyr ar y naill du, a ninau a'n holynwyr ar y tu arall gyda llwon y ddwy blaid wedi eu sicrhau: Yr hwn ffurf o heddwch a ysgrifenwyd gan y dywededig

*"In free and common socage."

Digitized by Google

Genad gyda sel y dywededig frenin a sel y dywededig arglwydd Edwart, y brenin yn awr, a chyda'n sel ninau hefyd. Yn yr hwn heddwch y cynwysir, yn mhlith pethau eraill (fel y gwyddoch yn dda yn ol ein cred ni) fod i ni a'n holynwyr ddal gan y brenin a'i olynwyr, dywysogaeth Cymru, modd y byddai i'r Barwniaid Cymreig ddal eu Barwniaethau a'u tiroedd genym ni a'n holynwyr *in capite* a gwneyd eu llw o warogaeth a ffyddlondeb i ni a'n hetifeddion (gyda'r eithriad o un Barwn) am yr hyn y bydd i ni a'u holynwyr wneyd llw o warogaeth a ffyddlondeb i'r arglwydd frenin a'i olynwyr. Cynwysir ym mhellach yn yr un heddwch na bo i'r dywededig frenin na'i olynwyr dderbyn neb o'n gelynion a ddiango ymaith oddiwrthym ni neu ein holynwyr. Yr holl bethau hyn a gynwysir yn y ffurf o heddwch, ystyr yr hwn y gall y parchedig Dadau o Ystrad-fflur ac Aberconwy, dygiedyddion y llythyr hwn, ei ddangos i chwi.

Ond gwelwch barchedig dadau, fod yr arglwydd Edwart, yn awr anrhydeddus frenin Lloegr, ar ol yr heddwch dywededig yn cymeryd i'w law diroedd Barwniaid yn Nghymru y rhai a feddienid ganddynt hwy a'u hynafiaid er ys hir amser, ac yn cadw yn ei law Farwniaeth a ddylai fod yn eiddom ni yn ol y ffurf o heddwch. Barwniaid eraill o'n tir, fföedigion oddiwrthym, yn rhedeg ato ef, y mae yn eu cynorthwyo a'u cadw, megis Dafydd ap Gruffydd a Gruffydd ab Gwenwynwyn yr hwn a fwriadai ein marwolaeth a'n dinystr. Er eu bod ar ol eu hymadawiad wedi yspeilio o fewn ein tir, wedi cyflawni llofruddiaeth, a llosgi tai, ac yn ddyddiol yn cyflawni yr unrhyw yn erbyn yr heddwch a nodwyd; ac er i ni yn fynych anfon ein cam a'n cwynion trwy ein cenhadon arbenig i'r dywededig anrhydeddus arglwydd Edwart, yn ogystal cyn ei fod yn frenin a chwedi hyny, eto hyd y dydd hwn nid ydyw wedi uniawnu dim yn y pethau hyny. Hefyd, peth mwy peryglus, fe a'n galwodd i le (nid diogel i ni) yn mysg ein gelynion marwol, ein fföedigion a'n drwgweithredwyr, yn nghyd a'u hyspiwyr a llofruddion, i dyngu gwarogaeth a ffyddlondeb iddo: lle nis gallwn mewn un modd ddyfod heb berygl corff: yn enwedig gan fod ein gelynion dywededig yn y lle hwnw wrth fwrdd y brenin ac weithiau mewn cyngor, ac ymffrost agored. Ac er i esgusodion cyfreithlawn a rhesymol gael eu dwyn gan ein cenhadon o flaen y brenin a'i gyngor, a phan nad oedd y lle na diogel na dibwys eto efe a omeddodd ganiatau neu benodi unrhyw le arall i ni i dyngu ein gwarogaeth a ffyddlondeb, yr hyn yr oeddym ac ydym barod i'w wneyd iddo mewn unrhyw le dyogel i'w benodi ganddo ef os penoda, ac i gyflawni rhanau eraill yr heddwch a benderfynwyd ac a dyngwyd. A chan nad oedd foddlawn ganddo ef ddyfod i unrhyw le, y gallem wneyd ein gwarogaeth iddo, ni a ddymunem arno anfon rhywrai oddiwrtho ef i dderbyn ein llw a'n

Digitized by Google

gwarogaeth hyd oni foddlonai i benodi lle, y gallem yn bersonol wneyd gwarogaeth iddo, yr hyn beth a wrthododd yn hollol ei wneyd. Yr ydym gan hyny yn deisyf arnoch Dadau difrifol, ystyried pa berygl a all ddigwydd i bobl Lloegr a Chymru, o herwydd tori amodau yr heddwch a enwyd uchod, pe dilynai rhyfeloedd ac ymrafaelion yn awr, yr hyn na ato Duw; gan sylwi a galw i gof waharddiad y tad sanctaidd, y Pab, yn ddiweddar yn y cyngor yn Lions, na wnelid un rhyfel ym mhlith Cristionogion, rhag drwy hyny i helynt y Tir Sanctaidd gael ei esgeuluso, fod boddlawn genych hefyd ein cynorthwyo a'ch cyngor gyda'r arglwydd frenin, fod iddo ein trin a'n gorchymyn yn ol yr heddwch y cytunwyd arno, yr hwn na bydd i ni mewn un modd ei dori. Ac oni wrendy ef ar eich cyngor chwi, yn hyny (yr hyn na ato Duw), fod i chwi ein cymeryd ni yn esgusodol, canys ni cheisiwn mewn unrhyw fodd, hyd y mae ynom ni, drallod ac aflonyddwch y deyrnas; ac, o bydd boddlawn genych, roddi cred i'n cenhadon (y rhai a anfonwn at y brenin ar y dydd penodedig ganddo ef i ni) i ddatgan ein hesgusodion cyfreithlawn yn y pethau hyn, y rhai a adroddant hwy ar air i chwi ar ein rhan ni. Gorphwyswn i wneyd eich ewyllys a'r hyn a fynoch os bydd boddlawn genych ysgrifenu eto.

Dyddiedig yn Nhalybont y 6ed dydd o Hydref Bl. 1275.

---

## Y DOMEN DDREINIOG.

Saif y crug a elwir y Domen Ddreiniog, ychydig i'r dehau oddiwrth Dal y Bont, ac ar lan ogleddol afon Syni. Cafodd yr enw yna, feallai, oddiwrth gnwd o ddrain ag oedd, hwyrach, yn tyfu arni ar y pryd. Ond, os oddiwrth y cnwd drain y derbyniodd yr enw presenol, y mae yn ymddangos nad dyna yr enw cyntefig, pa beth bynag ydoedd hwnw. Yr ochr arall i'r dyffryn sydd yn ymestyn o flaen y domen hon, a chryn encyd o bellder oddiwrthi, y mae lle yn dwyn yr enw Tomen Bryn Castell. Eithr y mae gwahaniaeth trwyadl mewn ystyr rhwng y ddwy domen neu y crugiau hyn; canys tra nad yw Tomen Bryn y Castell ond math o grug wedi ei ffurfio mewn rhan trwy dori o ddeutu y tir naturiol oedd yno o'r blaen; crug gelfyddydol hollol, fel yr ymddengys, yw y Domen Ddreiniog, wedi ei chyfodi ar y fan gan law ddynol. Y mae yn amlwg fod y flaenaf wedi bod yn osail amddiffynfa gynt; ond gellir tybio oddiwrth ym-

Digitized by Google

ddangosiad pen uchaf y Domen Ddreiniog, na fu erioed felly. Er hyny, y mae y traddodiadau mewn perthynas â'r ddwy yn milwrio yn erbyn gosod allan na fu mewn rhyw fodd yn gysylltiedig âg amddiffynfa. Y mae crug, rywbeth yn debyg, wedi ei godi o fewn amgaerau yr hen amddiffynfa Rufeinig yn nghymydogaeth Traws-Fynydd, yr hon a elwir Tomen y Mur a Chastell Tomen y Mur, sef Heriri Mons y Rhufeiniaid. A bu ein henwog Fuddug, gynt, yn anerch ei gwŷr i wroldeb yn erbyn y Rhufeiniaid oddiar grug o dywyrch. Byddid hefyd yn ol a ddywed Carnhuanawc, yn arfer codi crug o bridd ar weddillion y marw, lle na byddai digonedd o geryg i ffurfio carnedd.

Ond i gyfeirio at y traddodiadau crybwylledig. Dywed y rhai hyn i'r byddinoedd a arosent, y naill ar Fryn y Castell, a'r llall ar y Domen Ddreiniog, gyfarfod â'u gilydd droion mewn brwydr ar y gwastadedd rhwng y ddau le; a phan gollai un o'r pleidiau gelynol y dydd yr enciliai y blaid orchfygedig i gysgod un o'r manau a nodwyd. Cyfarfuant â'u gilydd un tro, yn ol yr unrhyw awdurdod, mewn lle a elwir Dol y Ffrwd, pa un sydd yn mhlwyf Tywyn, ac o'r tu arall i'r afon, gan ymladd mor erchyll, nes y rhedai eu gwaed yn ffrwd goch ar lawr y fan, ac o ganlyniad y galwyd hi yn Ddol y Ffrwd. Ond, a chaniatau y bu ymladdfa waedlyd yno, mwy tebygol mai y ffrwd ddwfr a lifai heibio oedd wedi ei chochi gan waed yr ymladdwyr, na bod y gwaed ei hun yn rhedeg yn ffrwd ar y gwastadedd hwnw.

Un tro, aeth y fyddin oedd ar Fryn y Castell tros afon Syni, a churasant eu gelynion oddiwrth y Domen Ddreiniog; a buont yn ymladd gerllaw mewn man o'r enw Waen Llywelyn, a chafwyd gweddillion arfau rhyfel, megis blaenau gwaewffyn, a darnau o fwäau saethau yn y fan hon.

Y mae rhai lleoedd yn y plwyf ag y ceir eu dwyn i sylw yma mewn perthynas â'u henwau, neu eu rhan enwau. Ac o'r cyfryw, ceir yn mlaenaf nodi Bredyn Fach a Bredyn Fawr, lleoedd sydd yn awr megis rhag-dyddynod. Ymddengys mai un tyddyn oedd y ddau hyn ar y cyntaf, ond iddo, ymhen amser, gael ei ddosbarthu i ddau. A thebygol y cysylltid y dynodiant o dyddyn â'r fan yn flaenorol i'r cyfryw ddosbarthiad. Ymddengys hefyd mai talfyriad yw y rhan gyntaf o Bredyn, a dichon mai llygriad o'r ffurf briodol yw y rhan olaf. A cheir mai Bredydd ddywed rhai hen bobl; er hyny, nid yw yn ymddangos fod eu dull hwythau chwaith yn gywir. Tebygol mai dwyn dynodiant personol un o'r enw Peredur, pwy bynag ydoedd, y mae y manau hyn. Gellir dwyn ymlaen yr un sylw mewn rhan yn nghysylltiad â lle yn Swydd Drefaldwyn o'r enw Melin Byredyn. Dengys

Digitized by Google

yr achau mai Peredur ydoedd enw taid Ednywain ab Bradwen, yr hwn Bradwen sydd ag olion ei lys gerllaw Pant y Llan, yn mhlwyf *Celynin. A cheir yr enw Peredur yn y ffurf o Pheredur, fel enw personol yn y Trioedd. Ac yn Achau Saint Ynys Prydain, yn *Iolo M.S., ceir enw un o'r seintiau hyn yn y ffurf o Peredur, lle y mynegir am dano ef a Gwrgi fel hyn :—

Gwrgi } Peredur } Meibion Elifer Gosgorddfawr, ab Arthwys ab Mor, ab Morydd, ab Cenau ab Coel Godebog, Saint ym Mangor Illtud oeddynt, a Phen raith Peredur yno.

---

## MOELMON.

Yr oedd yn y plwyf unwaith dyddyn yn cael ei alw Moelmon, ond y mae yn awr fel rhan o'r tyddyn a berthyn i'r Tymawr. Safai tyddyndy Moelmon ar fin y ffordd dref-ddegwm sydd yn dyfod i lawr heibio yn agos i'r Tyddyndy a elwir Rhiwfelen, gan ganghenu ymlaen tua phentref Llanegryn. Cauwyd mangre tyddyndy Moelmon i mewn fel rhan o gae perthynol i'r Tymawr yn y flwyddyn 1885.† Ond yr oedd ei dyddyndir wedi ei osod at y Tymawr flynyddoedd yn flaenorol.

Gellir sylwi fod Mr. Owen Davies (Eos Llechid), yn or-wyr i un a fu yn trigianu yn Moelmon pan oedd dyddyndy, ac yn dal ei dyddyn perthynol o dan ardreth, a dygai ymlaen ei gelfyddyd o ddilledydd yr un pryd. Ei enw ydoedd Arthur Ifan. Buwyd yn trigianu yn Moelmon fel tŷ anedd mor ddiweddar a'r flwyddyn 1875, fel yr ymddengys.

Dichon y cyfarfyddir âg enw personol rhyw un neu gilydd yn nynodiant y lle hwn, Ond os na wneir, gellir awgrymu fel dyfaliad,

---

*Tud. 105. Cyfeirir atynt hefyd dan y penawd Achau, a Gwelygorddau Saint Ynys Prydain yn nhud. 128, ond ni ddywedir yno fod Peredur yn Benrhaith.

†Yr oedd anedd wrth dalcen Moelmon ac yn gysylltiedig wrtho. Hefyd yn agos iddo yr oedd tri o aneddau eraill, un o honynt fel tŷ wrtho ei hun, a'r ddau eraill dan yr unto, ond cauwyd mangreoedd y tri hyn i mewn i ganlyn yr unrhyw gae cyn y gwnaed felly a safle Moelmon. Y tŷ oedd wrtho ei hun, sef ty Marged Morris fel ei gelwid, aeth i lawr gyntaf o honynt, a digwyddodd hyny oddeutu'r flwyddyn 1846. Dywedir nad adeiladwyd ond dau dy newydd yn y plwyf, oddieithr y ty cysylltiedig a'r ysgol, er's haner cant o flynyddoedd. Yr amseriad blynyddol yn awr yw 1887. Ond aeth nifer o dai i lawr yn ystod yr amser, ac ail adeiladwyd eraill. Y ddau dy newydd crybwylledig ydynt dai Waterloo.

Digitized by Google

yr ystyr o foel y fuwch iddo, neu ynte, ei fod i'w olygu fel darluniad o sefyllfa moel mewn cysylltiad ardebweddol, megis neillduedig, neu ganol. Eithr os un o'r ystyron hyn sydd i'r enw, ymddengys fod safle y cyfryw foel yn rhywle encyd o bellder oddiwrth fangre hen dyddyndŷ Moelmon. Ceir, mewn cysylltiad âg ardreth y brenin, y fath ffurfiau enwol a "Tir Moel rinion, als* Tir Moelmon," a "Bryn Moelmon." Yn y Cambrian Biography, gan William Owen, F.A.S. (Dr. William Owen Pughe wedi hyny) ceir un o'r enw Rhinion Rhin Barnod yn cael ei ddwyn i sylw fel person chwedlonol. A gellir sylwi fod tebygolrwydd enwol rhwng *rhinion* yn yr enw hwn a'r ffurf o *rinion* yn y Tir Moel Rinion dyfynedig uchod. Ond er hyn, nid ydys yn rhoi un awgrym yma fod a fyno y Rhinion Rhin Barnod crybwylledig ddim a'r Moelmon dan sylw. Eithr a gadael hyn, ymddengys yn debycach y ceir yn yr enw llafar gwlad Moelmon† gyfeiriad at ryw berson neu gilydd, pwy bynag ydoedd hwnw, er hwyrach nad yw namyn talfyriad o'r unrhyw ddynodiant. Modd bynag, dyna Cynfarch mewn cysylltiad â'r Pant,—Pant Cynfarch, ac Eunydd‡ yn enw yr anedd-dy a elwir Bron Eunydd wedi eu cymeryd oddiwrth enwau rhyw bersonau neu gilydd. Ac feallai mai dwyn enw personol y mae y dynodiant Cynog a geir ar y tyddyndy a elwir Nant Cynog. Yn ol a ddywed y diweddar Mr. Wynne o Beniarth yn ei History of the Parish of Llanegryn, darfu i Lewis Owen o Beníarth adael Moelmon yn ei ewyllys, dyddiedig y 12fed o Ionawr 1632, i Susannah ei ferch ieuangaf, yr hon a briododd Humphrey Owen, ail fab John, ail fab John Lewis Ywain, mab Lewis Ywain y barwn. Ond y mae y fan yn perthyn yn awr eilchwyl i etifeddiaeth Peniarth, a hyny trwy bryniad.

---

*Sef Alias.

†Yn ol a ddywedir, *Moelmaen* oedd y ffurf a roddwyd ar yr enw Moelmon llafar gwlad, yn mhapyr arwerthiant Bronclydwr, a rhai aneddau yn mhlwyf Llanegryn, er's nifer o flynyddoedd bellach. Ond nid oes pwys i'w osod ar fod y cyfryw ffurf wedi ei roddi arno yn yr unrhyw.

‡Y mae y tyddyn a adnabyddid fel Bron Eunydd yn rhan o dir y Castell mawr, ac ymddengys iddo beidio a bod yn dyddyn gwahanol er's mwy na chan mlynedd yn ol.

Digitized by Google

## TRYCHIAD.

Y mae yn y plwyf ddau dyddyndy o'r enw arbenig Trychiad, y rhai a wahaniaethir wrth yr enwau Trychiad Isaf a Trychiad Uchaf. Ymddengys fod yn rhy anhawdd penderfynu beth a olygir yma wrth Trychiad. Hwyrach ei fod yn air darluniadol o, neu ynte lysenw o'r fath ar ryw ddynes dal, afrosgo, a fu yn trigianu tua'u safleoedd, neu a ddaliai ryw gysylltiad â'u tyddyndir perthynol. Eithr o'r tu arall, gall ei fod yn ddynodiant cymeriadol o ymddygiad priodoledig i ryw berson neu gilydd. Neu feallai y ceir ynddo gyfeiriad at wrthlafn y turnwr, neu at fath o erfyn, megis cledd, neu gyllell fawr, pa un bynag ai o ddelid ai o bren yr oedd hono.

Eithr os mai dynodiant yw mewn cysylltiad â pherson yn herwydd ei waith, neu weithred neu weithredoedd a briodolid iddo, golyga dorwr, cymynwr, ysgythrwr, neu lofrudd. Ac hwyrach mai un o'r ystyron hyn sydd iddo yma. Modd bynag, ceir y gair trychiad yn yr ail linell o'r rhai canlynol a gymerwyd allan o gân i Llywelyn ap Iorwerth, o waith "Eingyawn vab Gwgawn:"—

"Ae lyw kyueryw kyfwyrein a thrin
A thrychyad gwerin caer uyrtyn uein
Ny seuis na thwr na bwr bu krein
Nac argoed na choed na chadlys drein
A rac pyrth bu syrth saesson ygkrein
Oet trist maer oet claer cletyf heb wein."

Y mae Dr. William Owen Pughe wedi dyfynu y ddwy linell flaenaf yn ei Eiriadur, ond yno rhoddir *trychyad* yn y ffurf liosog o trychiaid. A defnyddia yr awdwr galluog hwnw yn ei gyfieithiad Saesneg o honynt air am *trychiaid* ag sydd gyfystyr i lurgunwyr neu gigyddwyr.

---

## CEMMAES.

Y mae yn y plwyf dyddyn, ynghyd â'i dyddyndŷ perthynol, pa rai sydd yn dwyn yr enw Cemmaes, ac hefyd, anedd-dŷ o'r enw Rhyd

Digitized by Google

Gemmaes. Tebygol mai nid Cefn y maes neu Cefnfaes a olygir yma yn yr enwau hyn wrth y dynodiant o Cemmaes a Gemmaes. Ymddengys y ceir y ffurf o *Cefnfaes* fel enw ar faes neu ddarn o dir, ac mewn cysylltiad âg adeilad ar dir Drain Llwydion, yn mhlwyf Penal, wedi ymffurfio ar lafar gwlad o Cefn y maes neu Cefnfaes. Ac y mae hyn yn ategiad yn mhlaid a nodwyd. A'r meddwl, feallai, sydd i Cemmaes neu Gemmaes y lleoedd dan sylw yw amchwareufa, neu ymddyrchfa tuag at chwareufeydd neu ymdrechfeydd.

---

## BRYN YR ORSEDD.

Yn ol a ddywedir, yr ysgubor a berthyn i'r amaethdŷ a elwir yr Hen Shop yw yr hen gynt dyddyndŷ a elwid Bryn yr Orsedd. Ond y mae yr ysgubor hon wedi ei gwneyd yn fwy nag oedd helaethder yr hen dyddyndŷ hwnw. A thebygol fod ei safle tua'r fan a elwid Bryn yr Orsedd, sef y bryn lle yr oedd yr orsedd, neu y cynelid yr orsedd arno. Gelwir cae perthynol i'r Waen yn Gae Bryn yr Orsedd, a pherthyna gweirglodd o'r enw Bryn yr Orsedd i'r amaethdŷ neu y tyddyn a elwir Hen Shop.

Yr oedd cynal a sefydlu gorsedd yn drefniant a ffynai ymysg y Cymry er's amser boreu. Ac ymddengys y cynaliwyd y cyfryw sefydliad ar y fangre a elwid Bryn yr Orsedd, yr un ag oedd yr hen dyddyndŷ a nodwyd yn dwyn ei enw. Pa mor foreu, neu pa mor ddiweddar y bu y fan yn neillduedig fel lle Gorsedd, neu y cynaliwyd Gorsedd neu Frawdle yno, y mae yn rhy anhawdd mynegi; eithr tebygol na chynaliwyd yr un wedi i'r Cymry golli nawdd eu tywysogion eu hunain. Nis gellir nodi chwaith pa un ai Gorsedd mewn cysylltiad â barddoniaeth, neu wybodau llenyddol, neu frawdle yn trafod achosion gwladol, oedd yma; ond, feallai, y cynaliwyd Gorsedd yn y fan mewn cysylltiad â'r naill a'r llall. Modd bynag, tebygol y cynaliwyd un fel brawdle wladol o ryw fath. Ceir amryw gyfeiriadau at Orsedd yn yr hen nodion Cymreig. Cyfeirir yn y Trioedd at faen gwyn gorsedd, a thebygol mai dyma y brif eisteddle neu yr orsedd, os ydis i'w olygu mewn cysylltiad â sedd. Ond dywed y Trioedd yn ei gylch fel hyn:—

Digitized by Google

"Tri maen arall y sydd â hawl lledrad ar a'u symmito: maen tervyn, maen gwyn gorsedd, a maen gobaith; ac enaidvaddeu â wnelo hyny."

Ceir yn y Trioedd hefyd y sylwadau canlynol ynghylch gorseddau, y rhai a roddir yma, gan mwyaf, allan o'r "Myfyrian Archaiology of *Wales":—

"Tri lle breiniawl ni bydd arv yn erbynu: gorsedd gwlâd ac arglwydd; gorsedd cynghyd cynnal, sev yw hòno gorsedd ddygynnull, a gorsedd beirdd."

"Tair gorsedd vreiniawl Ynys Prydain yn nawdd cenedyl y Cymry: gorsedd beirdd, a hòno yn hynav ei bonedd; gorsedd gwlâd ac arglwydd, sev hòno llŷs cyvraith ac yngneidiaeth o ddygynnull yngnaid a brawdwyr rhaith; a gorsedd cynghyd cynnal, sev hono gorsedd ddygynnull gwlâd a gorwlad gan wŷr teyrnedd, a phencenedloedd, a doethion gwlâd a gorwlad, er deddvu cymmrawd a chyvraith yn ngwlâd a chywlad, a rhwng gwlâd a gorwlad, o gymhwyll a chymmrawd a chymmod gwlâd a gwlâd, a thëyrn a thëyrn, a rhaid a rhaith, er iawn a thangnev, a braint à ddylit yn ngwlâd a chywlad: ac nis dylit noethi arv rhag y rhyw orseddau o vewn eu swyddau, na rhag eu hamseroedd.

Tair gorsedd vreiniol y sydd, ac iawn iddynt warogaeth y gan y neb à vythont parth nawdd, neu swydd, neu urddas, neu dda wrth gelvyddyd a gwybodau, yn mraint a brawd un ac arall o'r gorseddau hyny, ar wàrogaeth à vydd herwydd braint, ac a ddylit i'r orsedd yn nghysbwyll: gorsedd beirdd Ynys Prydein, ac wrth eu barn y bydd pob un o wàrogaeth à geisio dda wrth gerdd a chelvyddyd barddoniaeth, a phawb à vythont yn nawdd yr orsedd hóno dan dervynau ei swydd a'i breiniau; gorsedd brenin, neu arglwydd cyvoeth, a'i vrawdwyr, a'i yngnaid, a brëyrïaid, sev hyny pob Cymro tiriawg, er cynnal llŷs a dadlau cyvraith; a gorsedd cynghyd cynnal, sev gorsedd ddygynnull gwlâd a chywlad; ac i hon y dylyid warogaeth y ddwy eraill, ac à vont yn eu braint; canys cyd y bo hyn av yn monedd gorsedd beirdd, o ba un y henyw pob gwybodau, eisoes hyn av ym mraint rhaid a gorvod, gan bwyll a gallu cenedyl, yw gorsedd rhaith ddygynull gwlâd a chywlad, er trefnu a chadarnhâu iawn a nawdd ac amddiffyn gwlad a chywlad, a chenedlodd cymmrawd,

*Tudal. 922—4.

a'u gwahanredolion yn gywiriaid gwlâd a chyvoeth; ac hebddi, sev gorsedd cynghyd cynnal, nis gellid braint na chadarn ar un o'r ddwy orsedd ereill; canys o dri pheth y mae gorsedd rhaith ddygynnull gwlâd a chenedyl; nid amgen, pwyll, nerth, ac ewyllys gwlâd a chywlad, a chenedyl a chydgenedyl, er gwneuthur, a gwellâu, a chadarnâu cyvraith a chymmrawd; a chadarnâu iawn a braint i vrodorion gwlâd a chywlad a'u gwahanredolion, ai *Aillt* ai *Cymro*, gan gyspwyll hyd a lle nad eler yn erbyn y cŷd cyvoll; canys gorsedd ddygynnull cywlad á gau yn erbyn pob arall o vraint, a gallu, a chyvraith, ac awdurdawd, na vont gymmrawd â hi. Ac yn nawdd gorsedd cynghyd cynnal y cawsant gyntav eu braint a'u cadernid gorseddau arglwydd cyvoeth a'i wlâd, a gorseddau beirdd; ac yn amgen nid oes ac nid oedd braint yn y byd, namyn syberwyd gwlad a chenedyl iddynt.

61. Tair gorsedd yn mraint gwlâd a chenedyl y Cymry y sydd: cyntav, gorsedd beirdd Ynys Prydain, a'u bonedd a'u braint â vydd o bwyll, ansawdd, a gorvod; neu herwydd ereill athrawon a doethion, o bwyll, ansawdd, a dichwain. A'u braint a'u swydd, noddedigion gorsedd beirdd, yw cynnal a chadw a dodi addysg warantedig ar wybodau dwyvoldeb, a doethineb, a syberwyd; a chôv a chadw ar bob moliannus ar wr a chenedyl; a phob dichwain amserau; a phob rhyveddawd anianawl; a rhyveloedd; a dosparthau gwlâd a chenedyl; a dialeddau; a gorvodaethau moliannus; a chadw côv gwarantedig ar achau, a phrïodasau, a bonedd, a breiniau, a devodau cenedyl y Cymry: a bod wrth raid gorseddau ereill yn darogan à orfer ac à ddylawr dan osteg a rhybudd cyvreithawl. Ac amgen na hyn nid oes nac o swydd nac o vraint ar orsedd beirdd; sev ydynt y beirdd athrawon gwarantedig gwlad a chenedyl y Cymry; a thrwydded iddynt yn warantedig o'u swydd yn amgen noc à ddylaint yn Gymry cynhwynawl; sev i bob un ei bumerwi rhyddion, a moddion celvyddyd yn warantedig i bob un.

Ail, gorsedd gwlâd a chyvoeth; sef gorsedd yngneidiaeth a brawd cyvraith, er iawn a nawdd gwlad a chenedyl, a'u noddedigion, a'u heillion; sev y gwnant y gorseddau hyn, nid amgen gorsedd cynghyd cynnal á wna gyvraith lle bo achaws, ac a'i cadarnâa yn ngwlâd a chywlad; ac nid rhydd i wlâd heb gywlad hyny. Gorsedd brawd ac yngneidiaeth á varn ar à wnelo yn anghyvraith ac a'i cysp: a gorsedd beirdd á ddysg wybodau moliannus ac à varn arnynt, ac á geidw bob covion cenedyl yn ddosparthus a gwarantedig; ac nid iawn i un o'r gorseddau gymwneuthur â chyspwyll un o'r ddwy ereill, namyn eu cadarnâu a'u cyvnoddi yn gynneddvawl.

Trydedd orsedd, sev cynghyd cynnal, ei phwyll cysevin a thervynedig yw gwneuthur à vo raid o newydd ac o wellâad ar gyvreithiau

gwlâd a chywlad gan raith cywlad o bencenedlodd, a doethion, a theyrnedd benadur; sev yw teyrnedd benadur, neu deyrnedd benraith yr hynav ei oresgyn o'r breninodd a'r tywysogion cywlad; ac ar hwnw bydd y cyfraw cadarn; a gair ei air ev ar bob gair arall yn nghyfraw gwlâd.

62. Tair gorsedd anghyvarch y sydd: swyddawg gwarantedig o gyvraith yn dafar lluniaeth yn nghyvoeth ei arglwydd, er dyspwyllaw barn, neu gynhenau, neu anmrawd, megis symmud neu wrthladd cyvreithiau y brenin; sev y bydd y dafar hyny er cynnal gorsedd wahanredawl neu ddygynnull gwlàd a chenedyl yn rhaith, lle bo galw ac achaws; ac ni ddyly gwlâd erbynu y swyddawg à wnelo y dafar; canys nid braint i neb ond i arglwydd wneuthur cyvraith; ac nid braint hyny iddo yntau namyn o ddyundeb ei wlâd a'i genedyl yn nygynull; ac nis gellir dygynull heb luniaeth o le, ac amser, ac amcan, a bwyd, a llyn, a gwasgawd, a gorphwys, a thân, a chynnorthwyon.

Ail, gorsedd rhaith gwlâd gan bencenedyl, o gwyn anmrawd ac anghyvraith y gan y brenin a'i yngnaid; neu lle nas cefir cyvraith à wnelo iawn amlwg a chadarn; a lle na bo hyny iawn i bob Cymro cynhwynawl ei raith; ac ar ei bencenedyl y bydd y cyfraw teyrnedd, a lluniaethu gan gymhorth a chynnorthwy ei genedyl a'i ddoethion; ac ni ddylai gwlâd ei herbynu; canys braint i bencenedyl cyfraw teyrnedd, ac i bob Cymro cynhwynawl hyny yn nawdd braint ei bencenedyl; a llw trichannyn o wŷr cyvraith, sev dyledogion o dirogion à gadarnâa à wnelawr gan raith gwlâd o gyfraw gwr o Gymro cynhwynawl, yn nawdd a braint ei bencenedyl. Sev iawn yw i bob Cymro ei lafar, a'i gwyn, a'i hawl, o bwyll anianawl, yn nawdd a braint ei bencenedyl; ac iawn i bob pencenedyl ei wlad a'i raith; a lle govyner, iawn i bob rhaith ei theyrnedd; ac iawn i bob teyrnedd ei chywlad yn rhaith ddygynnull, rhag gadael i a gauai yn erbyn cyvraith a braint gymmrawd; ac yn hyn o nawdd, braint i bob Cymro cynhwynawl ei wlâd, a'i raith, a'i deyrnedd, a'i gywlad, yn nygynull.

Trydydd vydd er dyspwyll teilyngdawd dwy gyvraith, neu vwy, lle bo gosodedig y naill yn ogyvuwch â'r llall, ac o ddichweiniau amserau, a newidiau byd, a bywyd, a chyvlwrw; tyvianus anghyviawnder ar un yn amgen noc ar y llall; ac nis gellir iawn cyn adnabod y cam: ac nis dylit iawnâu heb yn wybod i wlad ac arglwydd; ac nis dylai arglwydd a'i wlâd hyny, ond o wybod a dyundeb ei gywlad yn ddevodawl. Achaws y pwyllau hyn, iawn dan osteg a rhybudd cyvreithawl undydd o blwyddyn, cynnal gorsedd raith drwy wybod i wlâd a chenedyl, er ymgyspwyll â'r á vytho yn ngham, ac er ei iawnâu gan gymmrawd deilwng, a threiglaw y cyfraw hyd y bo achaws gyviawn ac anghenawl; a lle symuter cyvraith rhaid vydd rhybudd-

iaw gwlâd a chenedyl yn deilwng, mal y gallont adnabod a ddoter yn lle a symmutawr.

63. Tri pheth nis dylit eu gwneuthur ond o ddyundeb gwlâd a chywlad a chenedyl benbaladr: symmud cyvraith y brenin, di-arglwyddiaethu y brenin, a dysgu gwybodau newyddion yn ngorsedd beirdd; canys nis dylit hyny cyn y gwypo wlâd a chenedyl eu rhywiau, a'u cynneddvau, a'u dosparthau o varn a dangos cyvreithawl dysgedigion a doethion o athrawon gwarantedig yn ngorsedd gyvallwy beirdd Ynys Prydain yn ngwlâd a chywlad. A lle ydd eler yn erbyn hyny o bwyll a chysbwyll, overion y gelwir y gwybodau hyny; ac nis dylit braint a da wrth gelvyddyd arnynt; ac nid oes i na chyfraith na dosbarth, na chelvyddyd, nac i unrhyw bwyll ar wybodau, vraint yn y byd onis cafawr ar ddangaws ac addysg; ac o hyny barn athrawon a doethion gwarantedig o ddysg, a gwybodau, ac awdurdawd, yn mraint dosparthau gwlâd a chenedyl. Ac o ddi-arglwyddiaethu brenin, nis dylit hyny namyn gan raith gwlâd a chywlad; sev o gywlad y bydd llw trichannyn yn rhaith yn mhob cyvoeth arglwydd breiniawl gorseddawg y dan y brenin penraith; a'r trechav, sev y mwyav o riv cyvoethau, yn cadarnâu à wneler yn rhaith. Sev yw brenin penraith, brenin neu dywysawg y bo hynav ei oresgyn o'r breninodd.

Cymerwyd yr adran a ganlyn o barth gorseddau allan o hen gyfreithiau Cymru yn yr argraffiad o honynt a elwir *Ancient Laws and Institutes of Wales*, tud. 392, "Teyr gorset breynyauc adele bod gorsed er argluyd agorset abatt pop un onadunt a dele y orset trudau e hun."

Yr adranau dilynol a gymerwyd allan o hen Gyfreithiau Cymru, yn y llyfr a elwir ar ei glawr "Wottoni Legis Wallicae," tud. 342, "Tair Gorsedd frenjawg sydd: 1 Gorsedd Brenin; 2 Gorsedd Esgob; 3 a Gorsedd Abad, canys pob un o honunt a ddyly ddal Gorsedd wrtho ei hun." '*Dav.* in v. *Gorsedd.*'

"*Al.*" "Tair Gosgordd frenhinawl [*rectius* freinjawl] y sydd: 1 Gosgordd Brenin, 2 ac Esgob, 3 ac Abad. Canys Llys frenhinawl [*rectius* freinjawl] a ddyly pob un o honunt." 'Cott 5.'

"*Al.*" "Tri Gorseddawg a allant wneuthur eu cabidwl trwy eu cyfraith eu hun yn y lle na lesdeiront gyfraith y Brenin, sef ynt; 1 Esgob, 2 ac Abad, 3 a Meisdr ysbydwyr." 'S. 3.'

"*Al.*" "Tair Gorsedd gyfreithawl y sydd: 1 Gorsedd Arglwydd, 2 a hon [*al.* Gorsedd S. 3] Esgob, 3 a hon [*al* Gorsedd S. 3] Abad. A'r tair hynny [a ddylyant, S. 3.] wrogaeth gwyr. 4 Ac ni ddyly gwr o [*al.* yr, S. 3] un o honunt wneuthur jawn namyn yn ei orsedd ef ei hun, oni bai ddamchweinaw i wr i'r Esgob wneuthur cam *yngorsedd*

Digitized by Google

yr Arglwydd, neu wr i'r Arglwydd yngorsedd yr Esgob, neu wr i'r Abad yn un o'r ddwy eraill; pob un o'r rhai hynny gwnaed jawn [yn y, S. 3] lle [y, S. 3.] gwnel y cam." 'S. 2.'

---

### ALITER.

"Tair Gorsedd frenhinawl [*rectius forte* freinjawl] y sydd: 1 Gorsedd Arglwydd, 2 a Gorsedd Esgob, 3 a Gorsedd Abbad. 4 Pob un o honunt a ddyly gosbi trwyddaw ei hun; or gwna un a naddunt gam i wr y llall, ni ddyly neb o naddunt wneuthur jawn namyn yngorsedd ei Arglwydd ei hun.

O derfydd i wr Arglwydd wneuthur cam yngorsedd yr Esgob, nac aed o honai heb wneuthur jawn. Ac felly gwr yr Esgob yngorsedd yr Arglwydd. Ac felly gwr yr Abad yn y ddwy orsedd eraill."

---

### HEN ADEILAD.

Mynegir y dywed yr hen fardd enwog Gruffydd Hiraethog mewn ysgriflyfr ysgrifenedig yn y flwyddyn 1560, am hen adeilad mewn lle heb fod ymhell oddiwrth Beniarth. A dyma fel y dywed y gwr hwnw am dano:—

"Sir Veirionydd, Kwmwd Talybont, tre Beniarth, plwy Llanegryn.

"Yn y dre kou lle y gelwid Llwyn y Gardd, yn ymyl Maes y Neuadd, rhwng moel gwely y sarff a deau orllewin, mae lle y bu adail mawr o brigs eto i'w gweled, a ffenestri yn y dayar, ac i'r oedd y llawr wedi pavio o ȝeric ysgwar callestredig ar lun disie yn disgenu tô o glai yn gyntaf, tô o dywod yn nesaf, a thô o galch, ac yn hwnw y cerric ysgwar wedi gosod."

Digitized by Google

## FFYNON Y FRON.

Ystyrir fod dwfr Ffynon y Fron yn llesol at wella y gewynwst, a chafodd ei hadgyweirio yn drefnus gan y diweddar Mr. John Lloyd (Llwyd) o Lan Egryn, tua'r flwyddyn 1835. Y mae yn gronfa helaeth, o tua naw troedfedd o led, ac oddeutu tair troedfedd ar ddeg o hyd. Amgauir hi gan wrthfur ceryg yn cyfeirio oddiwrth bob tu i risiau a arweiniant i lawr iddi. O'r tu allan i'r gwrthfur hwn a gynorthwya i groni y ffynon, amgauir yr amgylchedd mewn rhan â chlawdd ceryg, ac mewn rhan hefyd gan geulan drefnedig y tir. Cyfodwyd bwthyn wrth ymyl y ffynon er mantais i ddadwisgo ac ymwisgo, ond nid oes debyg am dano erbyn hyn. Ac er y trefnu fu fel hyn ar y ffynon, y mae yn awr yn cael ei gadael yn annrhefnus. Gosodwyd rhai pibellau i ddwyn y dwfr iddi flynyddoedd yn ol; ond trwy fod cryn lawer o'i dyfroedd perthynol yn dylifo neu'n mân bistyllio iddi tros gyfran o'r arwyneb, nid ŷnt, yn ol ei hannrhefniad presenol, o nemawr ddiben.

Gerllaw i Ffynon y Fron, y mae cronfa arall o ddwfr wedi cael ei ffurfio, a hyny fel yr ymddengys yn y flwyddyn 1864; ond y mae y gronfa hon yn orchuddedig â phridd a main, a rhed dwfr o honi at wasanaeth teuluaidd Peniarth, i'r hyn ddiben ei cyfluniwyd, canys gryn encyd yn îs i lawr y mae math o ddyfrgist wedi ei ffurfio, mewn rhan o briddfeini, i ba un y rhed y dwfr o'r gronfa grybwylledig, trwy bibell danddaearol. Ac yna o'r unrhyw ddyfrgist, cludir rhan o'r dwfr i Beniarth, trwy bibell danddaearol, ond rhed y gormodedd allan i'r arwyneb trwy ddwy o bibellau cyfochrog.

Yn ol a ddywedir, yr oedd unwaith dyddyndy o'r enw y Fron,—neu Ty'nyfron,—yn sefyll gerllaw Ffynon y Fron; eithr y mae wedi myned i lawr, a'i dyddyndir perthynol wedi ei ddodi at Glanmachles, er's tua'r flwyddyn 1814, fel yr ymddengys.

Bu farw Mr. Lloyd (Llwyd), y gwr y cyfeirir ato fel yr hwn a adgyweiriodd Ffynon y Fron, yn y flwyddyn 1858, fel y dengys ei feddfaen yn mynwent Llan Egryn. A dywedir yn ei gylch ar yr unrhyw fel hyn:—

Yma y claddwyd
JOHN LLOYD,
O BENTRE' LLANEGRYN, MAELIERYDD,
Yr hwn a ymadawodd â'r bywyd hwn ar y 31ain o Gorphenaf, 1858.
Yn 72 mlwydd oed.

Digitized by Google

O ran ei ddisgyniad teuluaidd hanai o Ednywain ab Bradwen, un o Bymtheg Llwyth Gwynedd, ac y mae ei enw i'w ganfod yn yr âchrestr o wehelyth y Pant a Gwydd Fryniau yn mheilach ymlaen. O ran ei alwedigaeth fydol cafodd ei ddwyn i fyny yn faelierydd, trwy gael ei freintweisio mewn maelan yn Rhuthyn, ac ymhen amser symudodd oddiyno i Lundain, lle y trigianodd am saith mlynedd, a hyny ar y pryd yr ydoedd y Dr. William Owen Pughe a'i gyd-lenorion, yn eu gweithgarwch mwyaf. Ar ol marwolaeth ei dad dychwelodd o Lundain, gan fwriadu gwneyd ei gartref yn Nolgellau gyda'i fam a'i chwiorydd, i ysgrifenu a chyhoeddi llyfrau, a hyny a wnaeth dros dymor. A chyhoeddodd felly ddau o lyfrau, cynwysiad gwyneb ddalen pa rai sydd yn y geiriau a ganlyn:—

ETIFEDDIAETH Y CRISTION.
CASGLIAD
O
ADDEWIDION YR YSGRYTHYRAU
TAN EU PENAU PRIODOL,
*Yn ddwy ran*
YN ARDDANGOS
I. Y BENDITHION ADDAWEDIG.
II. Y DYLEDSWYDDAU I'R RHAI Y MAE YR ADDEWIDION YN CAEL EU GWNEUD.
YNGHYD AG
ATTODIAD
Perthynol i ansawdd yr eglwys rhagllaw,
A RHAGDRAETHAWD,
Yn cynnwys Sylwadau ar ragoroldeb a defnyddioldeb yr addewidion, a chyfarwyddiadau i'w cymhwyso yn iawn.
GAN SAMUEL CLARK, D.D.
Hefyd rhagymadrodd canmoliaethol
Gan DR. WATTS.
DOLGELLAU:
ARGRAFFWYD GAN R. JONES,
Dros I. Llwyd.
1819.

---

DILLYNION DOETHINEB
CENEDYL Y CYMRY,
SEF
DETHOLION
O
DRIOEDD MOES A DEFAWD,
A
THRIOEDD DOETHINEB
BEIRDD YNYS PRYDAIN.

Digitized by Google

Hefyd,
ATHRAWIAETH Y BARDD GLAS
O'R GADAIR.
"Tri pheth y dylai pob dyn synwyrawl eu gwneuthur: Darllen er gwybod, Ystyr er addysg,
A chofiaw er daioni iddo ei hun ac i bawb ereill."
GOMERIAN PRESS:
Argraffwyd yn Nolgellau gan R. Jones,
Dros I. Llwyd.
1819.

Gwelir mai *Llwyd* yw y modd y sillebir ei gyfenw ar waelod y mynegiadau hyn o barth y llyfrau a nodir, ac y mae ystyr i'r unrhyw yn y wedd hon. Cytunodd â'r R. Jones a'u hargraffodd, sef Mr. Richard Jones, argraffydd, Dolgellau, i gyfieithu esboniad Mathew Henry, a chyfieithodd o hono, yn ol fel y tybir, i hyd yn agos i ddiwedd Llyfr Lefiticus. Ond tua'r pryd hwn aeth i Lanegryn i drefnu amgylchiadau cefnither iddo o du tad, ag ydoedd wedi ei gadael yn amddifad; ond trwy nad ydoedd llawer o afael gan hono gyda'r faelan oedd ganddi, ac ddarfod i weinidog efo'r Annibynwyr ei chymeryd yn wraig briod iddo, daeth y faelan i afael Mr. Lloyd. Ac felly cartrefodd weddill ei oes yn Llanegryn, yn hen lanc dibriod, eithr gwnaeth hyny mewn rhan mewn maelan a gododd o'r tu arall i'r ffordd i'r un y crybwyllwyd am dani mewn cysylltiad â'i gefnither. Ganddo ef y gweithiwyd Cloddfa'r* Benguwch neu Gloddfa'r Perfeddnant, pa un sydd encyd oddiar y Perfeddnant yn y plwyf cymydogol, Tywyn, oddieithr ychydig a weithiwyd arni wedi ei farwolaeth. Ac ymddengys fod yno dwll lle y codwyd ceryg o hono yn flaenorol iddo ddechreu ei dwyn ymlaen. Gwariodd lawer o arian yn chwilio am blwm ger y fan, ond ni tharawyd wrth fawr o werth o hono, er y cafwyd rhyw ychydig.

Ystyrir ei fod yn Gymreigiwr goreu yn ei ddydd ar ol meirw y cedyrn cydoesol, a'r Dr. William Owen Pughe, a'i fod yn deall teithi yr iaith yn rhagorol. Meddai ar lyfrgell dra phwysig, ond gwerthwyd hi ymaith ar ol ei farwolaeth. Yr ydoedd yn aelod gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, a bu yn dra charedig a chynorthwyol i'r achos yn ei amgylchiadau allanol.

*Nid yw yn ymddangos y cludwyd ceryg o'r gloddfa hon i wledydd tramor.

## CARNEDDAU.

Yn ol a nodir yn yr 'Arch. Camb.,' am y flwyddyn 1852, safai un o'r carneddau hyn ar y mynydd yn nghymydogaeth y cynt dyddyndy y Gleuwer, canys dywedir ynddo i'r ystyr mai dyma'r fan agosaf ati. Ymddengys iddi gael ei hagor yn y flwyddyn 1851. Mesurai 34 o droedfeddi wrth 38 o droedfeddi o dryfesur, ond nid oedd ond isel fel crug, ac agos a bod yn wastad. Mynegir y cynwysai gistfaen a chareg orchudd o fewn rhyw droedfedd a haner i'r arwyneb. Ni ddarganfyddwyd ynddi weddillion esgyrn, ond tybid y gallai i'r cyfryw fod wedi briwsioni yn gymysg â'r haen bridd oedd ynddi.

Yn agos i gloddfa y Gleuwer, eithr o dan glawdd y mynydd, ac encyd o bellder oddiwrth y cynt dyddyndy y Gleuwer, darganfyddwyd bwyell o elydr o un pwys o drymder, yn haf y flwyddyn 1855. Caed gafael arni yn ddamweiniol gan un wrth chwilio am nyth aderyn a gyfodai ar ei aden tua'r fan. Gorweddai y fwyell megis ar wyneb y tir, a bron ar fin torlan ffordd a wnaed ryw ddeng mlynedd yn flaenorol, oherwydd y pwysai tomen ysbwrial y gloddfa yn rhy agos at yr hen ffordd. Y mae y fwyell yn meddiant Mr. Edward Vaughan, Celynin, ac y mae o wneuthuriad celfydd, mewn cadwraeth dda, ac yn meddu dolen ar ei chanol. Nid oedd dolen yn perthyn i'r fwyell o elydr y cyfeiriwyd ati yn tudalen 89, ond pwysai hono tua dau bwys, pa un sydd yn meddiant Mr. Llewelyn Pritchard, Gorsaf-feistr,* Dolgellau.

---

### CARNEDDAU GERLLAW PONT CWM LLWYD.

Y mae mangre y garnedd hon ar y gefnen sydd rhwng Pont Cwm Llwyd a Chyfanedd Fawr, a cher terfyn darn o fynydd-dir a elwir

---

* **Perthynol i linell y Cambrian.**

Digitized by Google

Gwely'r Meibion, ond o'r tufewn i'r terfyn hwnw. Y mae hon yn garnedd lled fawr, a chafodd ei hagor, fel yr ymddengys, yn y flwyddyn 1851. Odditani yr oedd cistfaen yn meddu careg orchudd fawr ar ei gwyneb. Diameu mai gwyddfa feddrodol oedd y garnedd hon. Ac ymddengys y caed yn y gistfaen ychydig fân esgyrn perthynol i'r marw claddedig o'i mewn yn ol y dull llosgol.

Nid ydys yn gallu mynegi meibion pwy oeddynt y rhai y mae y darn tir crybwylledig yn cael ei alw oddiwrthynt yn Wely'r Meibion, nac ychwaith beth oedd eu henwau hwythau. Byddid gynt yn rhanu trefdadaeth yn ol yr amgylchiadau digwyddiadol, rhwng brodyr, yna rhwng cefndyr, ac wed'yn rhwng cyfyrdyr. Ac ymddengys hefyd y deuai yr wyrion i mewn am eu cyfran yn nhreigliad digwyddiadau. Ac wrth wely yn y cysylltiadau hyn y golygir etifeddiaeth, a dichon i'r fath ddynodiant gael ei gymhwyso at hyn, gan mai ar cyfryw gyfran etifeddol yr oedd eu harosfan dreftadol neu eu gorphwysfa.* Canys y mae gwely mewn ystyr arall yn lle i orphwyso. Ceir yn y llyfr a adnabyddir fel y Record of Caernarvon sôn am Wely Wyrion, a dyfynir yma y cofnodiad canlynol am Wely Wyrion Madog, pa gofnodiad a gyraedd yn ol, tebygol, i amseriad y flwyddyn 1576. A gosodir yn yr unrhyw lyfr fod man y gwely hwn yn nhref ddegwm y Rhycryw ('RYTKRYWE'). Ond dyma y cofnodiad oddigerth y nodau talfyriadol:—

"In eadem Villa est quedam pcella terr de Wele Wyrion Mad. Et sunt hered die pell Hoell ap Ieuan Vichan lli ap Tangust v Jeuan ap Hoell & allũ & dant inde Dno Princ quolibt t mino, &c. xvjd. ob qa."

## CARNEDD AR BEN YR ALLT LWYD.

Y mae y garnedd y cyfeirir ati y bresenol yn un o faintioli mawr. Caed ynddi gistfaen yn cynwys pridd du, a golosg tebyg i esgyrn llosgedig, yn ol a ddywedir. Ymddengys mai yn hon y dywed y diweddar Mr. Wynne y caed cist yn cynwys esgyrn llosgedig, ac y cafwyd hefyd ymhen rhyw ddwy flynedd ar ol ei hagor, un o'r llafnau cellt arferol.

*Gweler yr Introduction i'r Record of Carnarvon, neu y Public Records, tud. vii.—viii. Gan Henry Ellis.

Ymddengys oddiwrth geryg ar eu hymylau mewn carnedd o geryg sydd wedi ei hagoryd, ac â'i safle encyd yn nes i gwr dwyreiniol yr Allt Lwyd na'r Garnedd fawr a nodwyd, y cynwysai hithau hefyd gistfaen gynt; ac iddi fod yn argel-fan gweddillion corff a gladdwyd yn ol y dull llosgol.

Gryn encyd o bellder oddiwrth y carneddau hyn, y mae ar y mynydd, tua chwr uchaf Ochr Rhiwfelen, ac oddiar Cae'rmynach a Thai'r Mynydd, olion Carnedd lled fawr, fel yr ymddengys. Gellir sylwi hefyd o barth safle yr olion hyn, eu bod yn agos i'r Fforddlas, ac ar y tu agosaf i Lwyngwril iddi.

---

## DAU FAEN HIR A CHISTFAEN HIR.

Y mae ychydig nifer o feini ag sydd yn dyfod i fewn o dan y penawd Meini Hirion, a'u safle o fewn terfynau y plwyf hwn. Ond yn flaenorol i osodiad cyfran o hono yn ddiweddar at ei blwyf cymydogol, Llangelynin, yr oedd ychwaneg o honynt felly. Eithr megis ag y bwriadwyd, yn flaenorol i'r symudiad hwnw ar y terfyn, ceir eu dwyn i sylw yn mhellach ymhlith hynafiaethau yr unrhyw blwyf, Llangelynin. Ond ceir yma hefyd ddynodi dau o honynt mewn cysylltiad â lleoliad y Gistfaen Hir y cyfeirir ati yn y penawd.

Saif y ddau faen hyn ar fynydd Cyfanedd Fawr, ar fin hen ffordd dref ddegwm, lle y mae llinell hen orglawdd clawdd ceryg anorphenol, a fwriadwyd i amgau ffridd i mewn, oddeutu'r flwyddyn 1827. Safant ar gyfer eu gilydd tua bod o'r dwyrain i'r gorllewin, ac yn y pellder o ychydig dros driugain llath oddiwrth y naill a'r llall. Mesura yr hwyaf o'r ddau oddeutu saith droedfedd a haner o uchder, ond nid yw y llall yn cyraedd hyn o ryw ddwy droedfedd. Saif gweddillion y Gisfaen Hir hefyd ar Fynydd Cyfanedd Fawr, ac i'r gorllewin oddiwrth y tŷ, ac yn y pellder o 170 o latheni islaw yr hwyaf o'r meini hyn. Ymddengys y bu gynt garnedd yn gorchuddio y Gistfaen hon, ond y mae maintioli hyd yr unrhyw Gistfaen yn profi nas bwriadwyd hi i dderbyn gweddillion corff yn ol y dull llosgol o gladdu, eithr fel arall, i fod yn argel wely corff marw yn ei ffurf naturiol.

## CAREG Y BIG.

Saif y gareg hon ar fynydd y Waen, ond nid ydys yn ei dwyn ymlaen fel un o Feini Hirion hanesyddol yr hen oesoedd. Ac nid yw yn ymddangos ei bod yn osodedig yn ei man gan law ddynol, eithr mai trwy weithrediadau natur y mae yn safledig yno. Er hyny y mae yn dwyn cysylltiad â thraddodiad, a dyna paham ei dygir i sylw yma. Y traddodiad hwnw yw, ddarfod, wedi i rywun gynt gyflawni hunanladdiad yn y gymydogaeth, gael o hono ei gladdu ar y groesffordd ger Cefncoch, gan na chaniateid claddu un o'r fath yn y fynwent. Ond gan yr honid fod rhywbeth yn ymddangos ac yn aflonyddu ar y preswylwyr tua'r fan, symudwyd ei gorff oddiyno at Gareg y Big. Gosodwyd pren ar ei ben i nodi'r lle ei ail gladdwyd fel hyn, ac ymddengys ei fod yn aros yno hyd o fewn tua 107 mlynedd yn ol. Canys tua'r pryd hwn, yn ol fel y cesglir, pan yr oedd hogyn oddeutu pymtheng mlwydd oed yn myned yn y cyfeiriad wedi colli y ffordd ar y mynydd, daeth i wrthdarawiad â'r pren, a dychrynodd gymaint trwy hyny nes y cafodd ymadawiad llwyr â'r saldra hwnw a elwir y cryd.

Gellir sylwi fod unwaith ddeuddeg o dai tua chroesffordd Cefn Coch, ond nad oes yno erbyn hyn namyn un o honynt yn aros, sef y tafarndy. Aeth y cyntaf o honynt i lawr oddeutu'r flwyddyn 1845, a phreswylid yn yr olaf mor ddiweddar a'r flwyddyn 1883. Gelwid hwn y Cefn Coch Ucha', ond yn ddiweddar yr oeddid yn ei adnabod fel Cefn Coch Bach, ac y mae adfeilion o hono yn parhau i aros. Yn ol a ddywedir, yr oedd trigianydd un o'r tai hyn, sef Lewis Owen wrth ei enw, yn saer coed o ran ei alwedigaeth, ond hefyd yr ydoedd yn ysbaddwr* (torwr) rhagorol ar ddefaid, ac hefyd mor chwimwth ar ei droed, fel, pan oeddid yn adeiladu ysgubor Maesypandy, yn mhlwyf Talyllyn, Meirionydd, y llam-neidiai o'r naill drawst cwpwl i'r llall, gyda llif a bwyell un ymhob llaw iddo. Bu farw yn Rhiwgaeron, yn mhlwyf Llangelynin, yn aelod crefyddol gyda'r Annibynwyr, oddeutu y flwyddyn 1857, yn hen lanc oedranus.

*Y mae ei heiyrn tori (yspaddu) yn meddiant Mr. William Lloyd, Waen, Llanegryn.

Digitized by Google

# ACHAU, &c.

---

## PENIARTH.

Ymddengys mai yn y bumed flwyddyn o deyrnasiad Harri V. (1417) y dechreuodd y lle ddyfod dan fath o afael gan un o hynafiaid perchenog presenol yr etifeddiaeth. A'r gafael hwnw oedd mewn cysylltiad â thirwystlaeth *(in prida)* gan Gruffydd ab Aron. Canys yn *ol* a nodir, rhoddodd y gwr hwn 7p. ar feichniaeth Maes Peniarth a Bryn y Froches am yr ystod o bedair blynedd, o Wyl Mihangel y flwyddyn a nodwyd, ac felly ymlaen o bedair blynedd i bedair blynedd hyd nes y telid yr arian hyny i fyny. A thebygol y gorweddai Maes Peniarth tua'r fan y saif neuadd Peniarth yn awr arno. Daliai Gruffydd ab Aron hefyd leoedd eraill yn yr ardal o dan delerau mechniaeth, fel yr ymddengys. Canodd Lewis Glyn Cothi gywydd Marwnad iddo, a gelwir yr unrhyw, Marwnad* Gruffydd ab Aron, o Lanegryn. Cyfeirir yn y cywydd at ei elusengarwch fel hyn :—

> "Saith rinwedd trugaredd gynt,
> Un wedd arno a oeddynt;
> Rhoi gwely, a thy, a thân,
> A bwyd oll rhag bod allan;
> Ei blas oedd bob elusen
> I hael, i ieuanc, i hen;
> Lle caid ymddivaid, bob ddau,
> Lle'r â'i weddwon holl raddau;
> *Cripliaid*, gweiniaid deg ynys,
> Deunaw tlawd nid ânt o'i lys.
> Yno cevais gan' cyvarch,
> Yno y bu i ni y barch.

---

*Gwaith Lewis Glyn Cothi, tudalen 431—6.

Digitized by Google

Dengys y ddwy linell ganlynol iddo gael ei gladdu yn Llanegryn :—

"Wyneb Gruffydd a guddiwyd
A gro yn Llanegryn llwyd.

Mynegir bod i Aron ei dad ddau fab mwy enwog na'r lleill o'i blant, ac un o'r rhai hyny oedd y Gruffydd ab Aron y soniwyd am dano, ac y canmolir cymaint arno yn ei farwnad. Y llall ydoedd Ednyfed ab Aron, yr hwn y dywedir iddo gynal Ywain Glyndwr pan dan gêl yn min y mor islaw Llanfendigaid, mewn lloches a elwir Ogof Ywain. Disgynydd o Ednyfed ab Aron oedd Morgan ab Gruffydd ab Einion, yr hwn, medd ei geraint,† a gyfarfyddodd yn ddamweiniol yn un o ystrydoedd Llundain, yn hwyr y nos, â'r brenin Harri VIII., pan ydoedd hwnw gyda gwarchodlu bychan o'i amgylch yn rhodio'r ddinas i gael gweled pa drefn a gedwid ynddi. A chan nad ysgöai y naill y llall, diweiniasant ac ymladdasant yn galed hyd nes y darfu i gydymaith Morgan beri iddo edrych beth yr ydoedd yn ei wneuthur, oblegid yr ofnai mai â'r brenin yr ymladdai. Ar hyny, gan ymbil am ei hynawsedd, a roddodd i fyny ymdrechu, ac erfyniodd am arbediad. A gadawodd y brenin iddo fyned, gan ddywedyd ei fod yn ddyn corffol. Ystyrir fod y ddwy linell ganlynol yn cadarnhau y traddodiad :—

"Morgan hir mawr gan Harri
Mae Llundain dan d' adain di."

Un o gyff-ach teulu Peniarth yn y llinell Gymreig ydyw Ednywain ab Bradwen, un o Bymtheg Llwyth Gwynedd, o'r hwn yr hanai Gruffydd ab Aron yn llinellol, a disgyna mewn llinellau canghenol o Marchudd, un arall o'r Pymtheg Llwyth hyn, ac o Collwyn ab Tangno, yr hwn yntau hefyd oedd un o'r Pymtheg Llwyth. Rhed achlin y teulu hefyd i fyny i Rhys ab Tewdwr, Tywysog y Deheubarth.

Y cyfenw cyntaf a ddygai y teulu hwn oedd Llwyd neu Lloyd, a gwisgid ef gan Dafydd Lloyd neu Llwyd ab William, o Beniarth, goresgynydd i Gruffydd ab Aron, a bu farw yn y flwyddyn 1570. Ei wraig oedd Agnes, ferch Gruffydd John Gruffydd, o Gefnamwlch, yn Swydd Gaernarfon, ac yr ydoedd hon yn fyw y 14eg o Hydref, 1587. Y cyfenw nesaf oedd Ywain (Owen), pa un a ddaeth i'r teulu trwy i Gruffydd Ywain, o Dal y Bont, pedwerydd mab Lewis Ywain, y Barwn, briodi Elisabeth, ferch y Dafydd Llwyd ab William a nodwyd, a'u mab hwy oedd Lewis Ywain, o Beniarth, yr hwn a briododd Lywri, ferch Robert Edward, o'r Llwyn Du, yn mhlwyf Llanaber. Merch i'r rhai hyn oedd Margaret Ywain, o Beniarth, yr hon a briododd Richard Ywain, o'r Morben, yn Swydd Drefaldwyn. Yna

†Cambrian Register am y flwyddyn 1795, tudal. 153—4.

Digitized by Google

yn y bedwaredd briodas olynol o'r rhai hyn, daeth y cyfenw Williams i'r teulu, trwy i Jane Owen, etifeddes Peniarth, yr hon a aned oddeutu y flwyddyn 1711, ac a fu farw y 7fed o Fawrth, 1765, briodi Edward Williams,* mab ieuangach i John Williams, o Gaer a Bodelwyddan, ac ŵyr yr Anrhydeddus Syr William Williams, Llefarydd Tŷ y Cyffredin, yn nheyrnasiad Siarl II. Ond ni pharhaodd y cyfenw hwn nemawr yn y teulu, canys Jane Williams, merch ac etifeddes y rhai hyn a briododd William Wynne, o'r Wern, yn Swydd Gaernarfon. Ac yr oedd y diweddar achyddwr a hynafiaethydd W. Watkin Edward Wynne, Ysw., yn ŵyr iddynt. Etholwyd yr olaf a nodwyd yn aelod Seneddol dros Swydd Feirionydd, yn y blynyddoedd 1852, 1857, a 1859. Ac yr oedd yn Uchel Sirydd dros yr un Swydd yn y flwyddyn 1867. Ei wraig ydoedd Mari, ail ferch a chyd-etifeddes Robert Aglionby Slaney, Ysw., o Faenor Walford a Hatton Grange, yn Swydd Amwythig, yr hwn a fu yn aelod Seneddol dros Amwythig am lawer blwyddyn. Eu plant ydynt Wm. Robt. Maurice Wynne, Ysw., yr etifedd, yr hwn a fu yn Farchog dros Swydd Feirionydd o Gorphenaf, 1865, hyd ddadgorfforiad y Senedd yn y flwyddyn 1868. A'r llall yw Owen Slaney Wynne, Ysw., A.M., yr hwn a briododd Mari, ail ferch Edward Owen, Ysw., o Garth Angharad, a gweddw F.P. Davies, Ysw., meddyg.

Ganwyd y diweddar achyddwr a hynafiaethydd, Mr. Wynne, o Beniarth, yn Swydd Ddinbych, mewn anedd o'r enw Pickhill Hall, ar y 23ain o Ragfyr, 1801, a chafodd ei addysgu yn ysgol Westminster, ac yn Ngholeg yr Iesu, Rhydychain. Ymbriododd ar yr 8fed o Fai, 1839, â'r foneddiges a enwyd eisoes, sef Mari, ail ferch a chyd etifeddes Robt. Aglionby Slaney, Ysw., o Faenor Walford a Hatton Grange, yn Swydd Amwythig. Newidiodd ei breswylfod rai gweithiau yn ystod ei fywyd priodasol, ac o'r diwedd, ymsefydlodd yn Mheniarth yn y flwyddyn 1860. Cafodd ei benodi yn Hedd Ynad dros Fwrdeisdref Croesyswallt yn y flwyddyn 1850. Yr ydoedd hefyd yn Hedd Ynad dros Swydd Amwythig. Cafodd ei benodi hefyd yn Hedd Ynad dros Swydd Feirionydd, ac yn Is-raglaw yr unrhyw Swydd. Ysgrifenodd gryn lawer i'r cofnodolion hynafiaethol, ac yr oedd ei gyfraniadau iddynt yn bwysig, yn enwedig mewn cysylltiad âg achyddiaeth. Meddai gof nodedig o barth hanes teuluoedd, ac yr ydoedd yn dra hysbys ynghylch treigliad etifeddiaethau yn Swyddi Meirionydd ac Arfon. Cafodd ei ddewis yn Gymrawd o'r Gymdeithas Hynafiaethol yn y flwyddyn 1852, ac yr ydoedd yn un o'i Hysgrifenyddion yn adeg ei farwolaeth. Cafodd ei benodi yn Geidwad Castell Harlech, yn lle yr Anrhydeddus T. Pryce Lloyd,

* Ei hail wr ydoedd. Nid oedd ganddi hiliogaeth o'r cyntaf.

Digitized by Google

wedi i'r gwr hwnw farw, a dygodd allan hanes yr unrhyw gastell mewn cysylltiad â'i gyfaill, Mr. Clark, o Ddywlas. Y mae o'm blaen lyfryn o'i eiddo yn dwyn yr enwad "History of the Parish of Llanegryn," pa un a adargraffwyd allan o'r cyfnodolyn Seisnig a elwir "Archæologia Cambrensis." Ceir nodiadau o'i eiddo yn yr achlyfr gan Lewis Dwnn, sef ei "Heraldic Visitation of Wales," pa un a ddygwyd allan gan Gymdeithas yr Ysgrifau Cymreig, yn y flwyddyn 1846, o dan olygiad Syr Samuel Rush Meyrick. Y mae nodiadau o'i eiddo hefyd yn y "Kalendars of Gwynedd," gan y diweddar hynafiaethydd a chyfreithiwr, Mr. Breese, Morfa Lodge, Porth Madog, ac hefyd yn "History of the Gwydir Family," a gyhoeddwyd gan y diweddar Mr. Askew Roberts, awdwr y "Gossiping Guide for Wales." Ysgrifenai wrth ei arwydd-lythyren "W" i golofn hynafiaethol y "Bye-Gones,"* i ba un yr oedd y gwr a nodwyd olaf yn olygydd. Ceir mewn darn dyfynedig o'i lythyr yn y "Bye-Gones,"† dyddiedig y 1af o Fawrth, 1880, sef y flwyddyn y bu farw ynddi, ei fod wedi anfon Achau Maesmochnant i'r "Archæologia Cambrensis." Hefyd mewn dyfyniad arall o sylwadau o'i eiddo mewn llythyr dyddiedig y 3ydd o Hydref y flwyddyn flaenorol (1879), dywedai ei fod yn dechreu "Hanes Plwyf Tywyn" i'r "Archæologia Crambrensis," hafal i un Llanegryn, gan sylwi yr ofnai y byddai yn orchwyl trafferthus. Ond ymddengys nad oes dim o'r gwaith bwriadedig hwn ar gael, ac hwyrach nad ysgrifenodd nemawr neu ddim o hono.

Yr ydoedd Mr. Wynne yn dra hyddysg mewn adeiladaeth eglwysig, ac o dan ei gyfarwyddyd yr adgyweiriwyd Llan Aber, yn Meirionydd, ryw ugain mlynedd cyn ei farwolaeth. I'w feddiant ef yr aeth ysgrifau hen lyfrgell yr Hengwrt, yr hyn oedd yn gaffaeliad rhagorol iddo. Bu farw yn ei gartref yn Mheniarth ar y 9fed o Fehefin, yn 1880, yn 79 mlwydd oed. Ac er iddo gael cyraedd cryn oedran, yr oedd yn anhawdd ei hebgor ar y pryd fel achyddwr a hynafiaethydd.

---

## CYMERYD LEWIS YWAIN O BENIARTH YN GARCHAROR GAN WYR Y SENEDD.

Yr oedd y Lewys Ywain o Beniarth sydd a'i enw yn y penawd hwn, yn bleidiwr i Siarl I. yn amser y Rhyfel Cartrefol. Ac yn amser

---

* Y mae y golofn hon yn cael ei dwyn allan yn rhifynau.

† Gweler "Bye-Gones" am Mehefin, 1880, tud. 69. 70—eithr ynghylch y llythyrau crybwylledig. tud. 70.

Digitized by Google

Siarl II. penodwyd ef yn un o'r rhai oeddynt i dderbyn Urdd y Dderwen Frenhinol, ond ni ddaeth yr urdd hono i gael ei harfer. Cafodd ei eni oddeutu'r flwyddyn 1626. Yr ydoedd yn Sirydd Meirionydd yn y flwyddyn 1647; ac etholwyd ef yn aelod seneddol dros Feirionydd yn 1658. Bu farw yr 22ain o Ionawr, 1691—2.

Fel yr ydoedd yn ei wely ryw noswaith, oddeutu yr 8fed o Ragfyr, 1645, neu 1646,* daeth y Milwriad Jones o Nanteos ac oddeutu 20 o filwyr y Senedd ar ei warthaf yn ddisymwth yn Mheniarth, ac a'u cymerasant yn garcharor yno yn ei wely. Yr oedd Mr. Francis Herbert o Ddolguog yn aros yn Mheniarth y pryd hwnw, gan ofn gwyr y Senedd; a chymerasant yntau hefyd yn garcharor yn ei wely yno yr un amser. Yna dygasant y ddau gyda hwy ymaith i Swydd Aberteifi.

---

## PENIARTH UCHAF.

Gelwid y lle hwn gynt yn Pen Glasan, a Bryn Glasan, a buwyd unwaith yn galw Peniarth Uchaf ar yr amaethdy a elwir yn awr Peniarth Ganol. Adeiladwyd y palasdy a elwir yn bresenol Peniarth Ucha', yn lled agos i neuadd o'r enw Bryn Glasan, a thebygol mai oddiwrth y bryn y cafodd y neuadd y cyfryw enw. Mynegir mai y pwys cyntaf o dê a ddaeth i Gymru erioed oedd i foneddiges a drigianai yn Mheniarth Uchaf, yn anrheg oddiwrth foneddiges o Gaerludd (Llundain), yn y flwyddyn 1700. Ond nid annhebyg mai y Peniarth Ganol presenol oedd y Peniarth Uchaf hwnw.

Perchenogid Pen Glasan neu Bryn Glasan yn yr eilfed ganrif ar bymtheg gan un Ywain Gruffydd, ap John, ap Ifan. Ac yr ydoedd yn dad i'r Gruffydd Ywain a roddodd gyfoeth tuag at Ysgol Rad yn mhlwyf Llanegryn, enw yr hwn sydd i'w weled ynglŷn â'r Elusenau. Darfu i'r teulu hwn, yn gyntaf trwy dirwystlaeth, ac yna trwy werthiad, feichio, yna drosglwyddo, eu heiddo. Prynwyd y lle yn gynar yn yr eilfed ganrif ar bymtheg, gan Dafydd ap William Rheinallt,† yr hwn y mynegir ei fod yn ddisgynydd o Gruffydd Derwas, un o deulu

---

*Ymddengys mai y flwyddyn 1616 a olygir yn y "Civil War in Wales and the Marches," Cyf. I., tud. 355.

†Ymddygodd William Williams, Yswain, orwyr i'r dywededig Dafydd ap William Rheinallt, yn dra chanmoladwy mewn perthynas i helynt fu ynghylch yr ymddiriedau perthynol i Ysgol Rydd Llanegryn.

Digitized by Google

Nannau. Yr ydoedd William Dafydd, mab Dafydd ap William Rheinallt, yn 44ain mlwydd oed yn y flwyddyn 1650. Bu Peniarth Uchaf yn meddiant y teulu hwn hyd y rhan gyntaf o'r ganrif bresenol, pryd y'i gwerthwyd, ar ol marwolaeth John Williams, Ysw., gan ymddiriedolwyr, i dalu cynysgaeth ei blant ieuangaf. Cafodd y'i werthu fel hyn i Richard Scott, Ysw., masnachydd cyfoethog o'r Amwythig, ac un o hen deulu o'r enw Scott, o Scott's Hall, yn Nghaint. Gadawodd hwn y lle i'w berthynas, y diweddar George Jonathan Scott, Ysw., yr hwn a briododd Augusta Frances, chwaer y diweddar âchyddwr a hynafiaethydd, Mr. Wynne, o Beniarth, yr hon sydd yn ei ôl-oesi. Y mae iddynt un ferch yn fyw, ac yn meddu hiliogaeth.

## PENIARTH GANOL.

Nid yw hwn yn awr ond amaethdŷ, ac yn cael ei breswylio gan y tir-ddeiliad; a pherthyn y lle yn bresenol i etifeddiaeth Peniarth (Fawr neu Isaf). Preswylid y fan gynt gan y'i berchenogion, ac yr oedd Ty'rgawen ac yntau yn ffurfio rhan o'r etifeddiaeth. Yn y drydedd flwyddyn i Siarl I., darfu i Ywain Gruffydd, yr hwn y gwelir ei enw dan y penawd Peniarth Ucha, dirwystlo Peniarth Ganol a thiroedd eraill, i Gruffydd John Lewis, o'r Brithdir, boneddwr. Gwerthwyd Peniarth Ganol yn y flwyddyn 1703, gan Robert Jones, Plas Canol, yn Meirionydd, i Richard Owen, o Beniarth, Ysw. Yr oedd cryn gyfran o'r hen breswylfa yn sefyll hyd yn un o'r blynyddau diweddar. A gadawyd hen fwa y drws heb ei dynu i lawr, wrth ail adeiladu y lle y pryd hyny. Yr ydoedd y Gruffydd Ywain, a roddodd gyfoeth tuag at Ysgol Rad Llanegryn, yn fab i'r Ywain Gruffydd y mae ei enw uchod, ac Ursula, ei wraig, ferch Gruffydd Ywain, o Dalybont, pedwerydd mab Lewis Ywain y barwn,—ac yn wyr i Elin, ferch Huw ab John ab Meredydd o Dalyllyn, a Gruffydd ei gwr, ab John ab Ifan ab Llywelyn ab Dafydd ab Gruffydd.*

---

NODYN.—Am y Trioedd, dyfynedig yn mhellach yn ol, allan o'r Myf. Arch., yn nghysylltiad â Bryn yr Orsedd, y mae yn ymddangos fod eu hawdurdod cyfreithiol yn rhy amheus i roddi pwys arnynt fel cyfanwaith. Gweler i ddechreu tudalen 304.

* Gweler y crybwylledig *History of Llanegryn* gan Mr. Wynne.

Dywedir ddarfod i dri brawd ymgymeryd âg adeiladu preswylfeydd iddynt eu hunain, a'r aneddau hyny oeddynt y Nant,—Nant Madyn, Ty'n Llwyn, a Pheniarth Ganol. Y mae yr anedd neu y tyddyndŷ a nodwyd flaenaf yn parhau i aros mewn rhan, eithr y gyfran iddo a elwid y groes wedi myned i lawr. Ond yn Mheniarth Ganol y mae y groes yn aros, a gadawyd hi felly yn ail-adeiladiad y tŷ er's nifer o flynyddoedd yn ol. Eithr y mae Ty'n Llwyn wedi myned i lawr, ac unwyd ei dyddyndir perthynol â thir Glanmachlas, oddeutu'r flwyddyn 1809. Yr oedd y tri wedi eu hadeiladu ar gynllun hafal i'w gilydd.

---

## Y WAEN FACH.

Y cyfenw cyntefig a ddygai perchonogion y Waen Fach, ag y cyfeirir atynt yn awr, ydoedd Ywain (Owen). Ond trwy briodas Mari Ywain, nain Evan Garnons Lloyd, Ysw., yr etifedd perchenogol presenol, âg Evan Lloyd (Llwyd), Blaen Glyn, yn mhlwyf Llan Fachraith, Meirionydd, daeth y cyfenw presenol Lloyd i gymeryd lle y cyntaf. Yr oedd Robert Ywain, hen daid y perchenog presenol wedi priodi un yn dwyn y cyfenw Lloyd, sef Jane Lloyd, ferch Pierce Lloyd, Gelli, Llanrug, ab William Lloyd. Ond gan mai ymuno â'r teulu drwy briodas ddarfu i'r ferch hon, ymgollodd ei chyfenw hefyd yn nghyfenw y teulu.

Disgyna Evan Garnons Lloyd, Ysw., y perchenog presenol, o Ednywain ab Bradwen, un o Bymtheg Llwyth Gwynedd; ac y mae yn disgyn hefyd o'r tywysogion Cymreig, Gruffydd ab Cynan, a Bleddyn ab Cynfyn. Hana o Ednywain ab Bradwen, trwy John Lewis Ywain, mab hynaf Lewis Ywain y Barwn; a rhed ei linellau achyddol o'r tywysogion crybwylledig trwy Gruffydd Derwas, y pumed disgynydd o Cadwgan, Arglwydd Nannau, ab Bleddyn, ab Cynfyn, a Gwenllian ferch Cruffydd ab Cynan. Canys goresgynydd ydyw Evan Garnons Lloyd, Ysw., i Lewis Ywain, o'r Waen Fach ac Erw Goed, (yr olaf yn mhlwyf Dolgellau); goresgynydd i John Lewis Ywain, mab Lewis Ywain y barwn; ac yn ol yr achau yr ydoedd y dywededig Lewis Ywain hefyd, o'r tu arall, yn orwyr i Dafydd ab William Reinallt, yr hwn y gwelir ei enw mewn cysylltiad â Pheniarth Ganol a Pheniarth Ucha'. Ac yr oedd y

Digitized by Google

Dafydd ab William Reinallt hwn yn bumed mewn disgyniad o'r Gruffydd Derwas a nodwyd. Disgyna hefyd o Lewis Ywain y barwn mewn llinell arall, sef trwy Jane, ferch Gruffydd Fychan, fab Robert Fychan, yr hynafiaethydd o'r Hengwrt.

Ymbriododd Evan Garnons Lloyd, Ysw., â Caroline Janet, ferch James Gordon, llyngesydd yn y llynges frenhinol, a'u plant ydynt Wm. Wesley Gordon Lloyd a Charles Evan Lloyd.

Ceir yn awr ddodi gerbron gywydd o waith y bardd Ywain Gwynedd i John Lewis Ywain, neu, fel ei gelwir o flaen yr unrhyw gywydd, Sion Lewis Owain, yr hwn sydd a'i enw yn yr achau hyn fel un o hynafiaid Evan Garnons Lloyd, Ysw.; ac yn ol a ddywed y'i benawd cafodd y'i gyfansoddi iddo yn myw ei dad, a rhed fel y canlyn :—

Y mae Eryr yn Meiriawn,
Yn ffriw y sir, yn ffres iawn ;
A'i ddwrn sad ddewr ewin sydd,
Am ei ran ym Meirionydd ;
Dwrn arall deyrn irwych,
Draw ar Sir Gaer drysor gwych ;
A'i nyth, a'i dai; yn waith dis,
Ar odreu Cadair Idris ;
Ei adenydd a daenai,
Dros y sir deiroes a sai ;
A'r eryr a oreurwyd,
A gwawd y beirdd gwedi bwyd ;
A minau a ddymunwn,
Oreuio rhyw'r eryr hwn ;
Gwau doe y'm cylch gwawd y'm caid,
I gyw'r Eryr goreuraid ;
Sion Lewys anwyl ieuanc,
Sy'n arf uwch synwyr y fainc ;
Dyn a grym da iawn ei gred,
Dug o Wynedd da'i ganed ;
Da'n Gamber dyn a gymbell,
Dyn a bair daioni i bell ;
Da tyn gwys d'weton y gwir,
Draw arswyd drwy deirsir ;
Dwyn a wnai da iawn yn un,
Did ierthi ei dad wrthun ;
Dilyno Sion, del yn syr,
Dan yr aur don yr Eryr ;
A magu serch megis hwn,

Digitized by Google

Y mae eryr fy marwn:
Coelio wna beirdd cael yn ben,
Cair prydu carw Paradwen;
Aeth yn benaeth i'n beunydd,
Gwaed Ynyr aed gadwyn rydd;
Gosawg lliosawg llysoedd,
Gylynin wych glân iawn oedd;
Gosawg a gwalch gwisgi gwyn,
Glain gwin-faeth glân o Gynfyn;
Ucha gwaed yn achau Gwent,
Uchel iawn âch o Linwent;
Euraid fo'i war hyd ei frig,
Aur yw talaith Rhyd-helig;
Gwisg euraid gosawg arwydd,
Glyn dwfr hawg, glân difyr rhwydd;
Proffwydwr praff ei aden,
Pilstwn hap Elystan hen;
Pennaeth arglwyddiaeth gwlad,
Parch mawr pôr a chymeriad;
Mawl *seiens* melys awen,
Aml yw ei ryw Maelor wen;
Ni bo'm oes neb o'i *nasiwn*,
Laesu hap Lewys i hwn;
Ni chåd yn nhyniad ein hawg,
Dolc erioed, ail Caradawg,
Gloyn Duw fal aur glân di flwng,
Gallu Dolgellau deilwng;
Ni äd hwn i niwed hael,
Ar y dref ar ei drafael;
Nag ar y sir, nag er swydd,
Oresgyn na goresgwydd;
Ni myn i'w dwyn mwy na'i dåd,
Yn y ddôl neu'n y ddwy-wlad;
Yngham nag yn nghymwys,
Fel cun gwyn falc yn y gwys.

Pabyddiaeth noeth.
Ydolwg golwg celi,
Yt wir Fair etto'r wyf fi;
Gadwo'n Sion a'i godi'n syr,
Uwch ben pawb ŷch bon pybyr;
Yr ail rodd eiriol yr hawg,
Mair gadwo edn mawr godidawg.

## Y PANT, NEU PANT CYNFARCH.

Unwyd y Pant,—Pant Cynfarch, a Gwydd Fryniau, fel un etifeddiaeth, trwy briodas Dafydd Lloyd (Llwyd), o Wydd Fryniau, taid Mr. D. Lloyd, o'r Pant, yr etifedd presenol, â Mari, ferch ac etifeddes Humphrey Dafis, o'r Pant. Perthynai Gwyddfryniau, yn nheyrnasiad Charles I., i hynafiaid y Lloyd neu y Llwydiaid hyn, ac yr ydoedd William Lloyd, o Wyddfryniau, yn blaid wrth weithred ar y 10fed o Fedi, 1637. Ymbriododd â Catherin ferch John ——, clerigwr, yn fyw ar y 3ydd o Ionawr, 1648. Mab iddynt hwy ydoedd John Lloyd, o Wyddfryniau, yr hwn a briododd Elisabeth, ferch Richard Owen, o'r Morben, a'i wraig Margaret Owen, etifeddes Peniarth. Cyfamodai ar ol ei briodas, pan dros 21ain mlwydd oed, mewn gweithred ddyddiedig y 3ydd o Ionawr, y drydedd flwyddyn ar hugain o deyrnasiad Charles I., 1648 Mab i'r rhai hyn ydoedd William Lloyd, o Wyddfryniau, yr hwn a aned cyn y trydydd o Ionawr, 1648, ac yn fyw y 24ain o Fawrth, 1710, ac yr ydoedd Abigail ei wraig hefyd yn fyw yr amseriad hwnw. Ymbriododd John ei mab a'u hetifedd cyn y 24ain o Fawrth 1710, ac yr ydoedd yn blaid wrth weithred dyddiedig yr eilfed o Awst, 1732. Enw ei wraig oedd Elinor, a mab iddynt hwy ydoedd John Lloyd o Wyddfryniau, yn Llanegryn, yr hwn a briododd ar yr 22ain o Hydref, 17.. Enw ei wraig oedd Susannah, a chladdwyd hi yn Llanegryn, yr 8fed o Chwefror, 1776. Eu mab hwy ydoedd William Lloyd, yr hwn a fedyddiwyd yn Llanegryn, y 3ydd o Hydref, 1733, ac yr ydoedd yn warcheidwad eglwysig yn y flwyddyn 1761. Ei wraig ydoedd un o'r enw Margaret, a bu iddynt amryw o blant, ac un o honynt ydoedd Mr. John Lloyd, o Wyddfryniau, yr hwn a fu farw y 14eg o Ionawr, 1806, yn 47ain mlwydd oed. Ei wraig ydoedd Jane, ferch Mr. Dafydd Jones a Mrs. Catherine Jones, o'r Crynllwyn, yn mhlwyf Llanegryn, yr hon a fu farw y 30ain o Ebrill, 1841, yn 84ain mlwydd oed. Eu plant hwy ydoedd Mr. Dafydd Lloyd, o Wyddfryniau, yr hwn a fu farw yr 28ain o Fai, 1849, yn 64ain mlwydd oed. Ymbriododd, fel yr awgrymwyd eisoes, â Mari, ferch ac etifedd Mr. Humphrey Dafis, o'r Pant, a bu hithau farw y 6ed o Fehefin, 1861, yn ei hunfed flwyddyn ar bymtheg a thriugain o'i hoedran.*—Hefyd, Mr. John Lloyd (Llwyd), Llanegryn, cyfeiriad at yr hwn a geir yn mhellach yn ol, o dan y penawd Ffynon y Fron; ynghyd â chwaer o'r enw Catherine, ac un arall o'r enw Jane, yr hon a briododd Mr. Humphrey

* Gweler *History of Llanegryn* gan Mr. Wynne, o Beniarth.

Digitized by Google

Pugh, unwaith o Ryd-y-Garnedd, i'r rhai y mae un ferch yn eu holoesi, sef Mrs. Jane Thomas, priod Mr. D. Thomas, y rhai sydd yn trigianu yn Llynlleifiad, ac yn meddu hiliogaeth.

Plant y dywededig Mr. Dafydd Lloyd, o Wyddfryniau, a Mari ei wraig, ferch ac etifeddes Mr. Humphrey Dafis, o'r Pant, ydoedd Mr. John Lloyd, o'r Pant a Gwyddfryniau (at yr hwn y cyfeirir eto), William, yr hwn a farw yn ieuanc, Mr. Dafydd Lloyd, unwaith o'r Hendŷ, ger Tywyn, Meirionydd, ond sydd wedi ymfudo gyda'i deulu i'r America; Elizabeth, yr hon a briododd y diweddar Mr. William Pugh, o Lanfendigaid, ac wedi hyny o Nant y Mynach, i'r rhai y mae hiliogaeth; a Jane, gwraig Mr. William Jones, mab Tallyn, yn mhlwyf Llandecwyn, yn Meirionydd. Daeth i fyw ar ol priodi at ei wraig i Wyddfryniau, ond y maent ill dau wedi meirw. Y mae iddynt ferch yn eu holoesi, ac yn byw yn Ngwyddfryniau, yn wraig briod, ac yn meddu hiliogaeth.

Ymbriododd y crybwylledig Mr. John Lloyd, o'r Pant, â Catherine, merch y Parch. Edward Dafis, o Wynfynydd, plwyf Trawsfynydd, gweinidog gyda'r Annibynwyr. Bu ef farw y 6ed o Fedi, 1869, yn 60ain mlwydd oed, ond y mae ei briod yn ei ôloesi, a'u mab yw y Mr. D. Lloyd presenol, yr hwn sydd yn trigianu yn y Pant—Pant Cynfarch. Hana trwy yr Elisabeth a nodwyd, gwraig John Lloyd, Gwyddfryniau, o Ednywain ab Bradwen, un o Bymtheg Llwyth Gwynedd, canys orwyres ydoedd hono i Gruffydd Ywain, pedwerydd mab Lewis Ywain, y barwn, yr hwn a ddisgynai o'r unrhyw Ednywain ab Bradwen.

---

## CYFANEDD FAWR.

Y mae Mr. Thomas Jones Stevens, perchenog y lle hwn, yn awr yn trigianu yn yr amaethdy a elwir yr Henddol, pa un sydd yn y gymydogaeth. Ond bu am gyfran o'i oes yn preswylio yn Nghyfanedd Fawr. Dywed Mr. Wynne, o Beniarth, yn ei "History of the Parish of Llanegryn," at ba un y cyfeiriwyd droion eisoes, mai tebygol y perthynai y lle i un Thomas Jones yn foreu yn y ddeunawfed ganrif, a noda fod yr argraff ganlynol ar yr hen dŷ (Cyfanedd Fawr) islaw 'fleur de lys:'—

M.
J. E.
1748.

Mynega, hefyd, y perthynai y lle hwn yn y ganrif bresenol i Humphrey Owen, o deulu Dolserau, un o liaws disgynyddion y barwn Ywain, ac ddarfod i ferch* ac etifeddes Humphrey Owen ddyfod yn wraig i foneddwr ieuanc o'r enw Stevens.

Y boneddwr ieuanc hwn ydoedd Mr. Thomas Jones Stevens, dinesydd o Lundain, a thad y crybwylledig Mr. Thomas Jones Stevens, perchenog presenol Cyfanedd Fawr. Ymddengys y disgynai ei daid, y crybwylledig Humphrey Owen, o Robert Ywain, pumed mab Lewis Ywain, y barwn a nodwyd. Canys ymsefydlodd yr unrhyw yn Nolserau, ac, yn ol y dyfyniad o'm blaen, yr oedd iddo fab o'r enw Humphrey Owen, tad Robert Owen, o Ddolserau, boneddwr (y ddau yn fyw ar y pryd y cyfansoddwyd y gwreiddiol o'r unrhyw ddyfyniad), a Harri Owen, hiliogaeth yr hwn a gartrefai yn Llundain, Simon Jones, Mr. John Owen, pregethwr gair Duw, Ludovice, a thair merch.

Yr oedd y crybwylledig Robert Ywain, pumed mab Lewis Ywain, y barwn, yn gyfreithiwr yn Llys Cyffindiroedd Cymru. A dywedai Ywain Gwynedd, y bardd, am dano yn ei ddarluniad o saith mab y barwn hwn fel y canlyn,—

"Da yw Robert, ŵr hybarch,
Dyn hoff iawn mewn dawn a pharch."

---

## PERSONAU.

---

### HUGH YWAIN O FRONCLYDWR;

Yr hwn a gyfenwid apostol y Gogledd. Ganwyd Hugh Ywain yn Mronclydwr, yn y flwyddyn 1637; sef yn y flwyddyn y dechreuodd y brenin Siarl I. geisio sefydlu esgobyddiaeth, glwysbenogaeth, a ffurf-wasanaeth eglwysig Lloegr yn yr Alban; a'r flwyddyn flaenorol i'r un y darfu i'r holl wlad hono yn mron arwyddo y Cyfamod, i

* Yr ydoedd yn ferch iddo, ond nid wyf yn tybio ei bod yn etifeddes iddo, ar adeg ei phriodas o leiaf.

Digitized by Google

wrthwynebu hyny mewn ystyr; oddigerth uchel swyddogion eglwysig a gwladol, y rhai yn rhinwedd eu swyddi, y bu'r brenin yn ddigon gwirion-ffol i dybio y buasent yn ddigon o bwysau i hyrwyddo ei amcan. Arweiniodd y gwrthdarawiad hwn rhwng y brenin a'i ddeiliaid yn y rhan hon o'r wlad i beth ymladd rhyngddynt. Ond mwy na hyny, bu yn rhan o'r achlysuron a arweiniodd i'r rhyfel cartrefol rhwng y brenin a'r senedd, yr hwn a fu mor waedlyd i'r Cymry, yn ogystal ac eraill yn y deyrnas, ac a gostiodd ei einioes i'r brenin hefyd yn y diwedd. Gan hyny, mae yn amlwg i'r gwr da hwn gael ei eni ar fin adeg ofnadwy o ystormus yn y deyrnas hon, yn wladol ac eglwysig.

Mab ydoedd Hugh Ywain ac etifedd i Humphrey Ywain, o Fron-y-clydwr, a'i fam oedd Susannah, ail ferch Lewis Ywain, o Beniarth; ac felly, yn disgyn o Lewis Ywain y Barwn o du tad a mam. Yr oedd iddo frawd a chwaer iau nag ef. A dynodir ei frawd fel Lewis Owen, o Lincoln's Inn. Gadawyd Bronclydwr, a lle arall o'r enw Moelmon, i'w fam yn ewyllys ei thad. Ail fab oedd Wmphra Ywain ei dad i John Ywain, ail fab John Lewis Ywain, mab hynaf Lewis Ywain, y barwn, disgynydd yn y llinach fenywaidd o Ednywain ab Bradwen, un o Bymtheg Llwyth Gwynedd. Yn ystod oes fachgenaidd Huw Ywain, yr oedd ei berthynas gwrol, galluog, defnyddiol a brwdfrydig, y doethawr John Ywain, wedi dyfod i enwogrwydd mawr yn y deyrnas. A dilynwyd ef mewn amser yn ngrymusder ei benderfyniad, a chrefyddolrwydd ei feddwl, ganddo yntau. Ond ni chyfododd i fri yn y deyrnas fel ei gâr mawrfrydig, ac ni chyfansoddodd weithiau fel efe, sydd fel creigiau ansymudol gan au-dduwinyddiaeth yr oesau. Er hyny, y mae ei enw yntau yn fendigedig, ac yn perarogli y wlad. Derbyniodd gyfran o'i addysg yn Rhydychain, ac yr oedd tua gorphen ei addysgiaeth yn y Brifysgol yno yn y flwyddyn 1662. Ar yr adeg hon, pan ydoedd yn bwriadu cael ei urddo ar gyfer y weinidogaeth, rhoddwyd y gyfraith a elwir Deddf Unffurfiaeth mewn grym, ar y 24ain y Awst, y flwyddyn 1662. Penodwyd iddi ddyfod i rym y diwrnod hwnw, fel na chai y gweinidogion a omeddent gydymffurfio eu talu am eu gwasanaeth y flwyddyn hono. Gosodai y gyfraith hon nad oedd yn gyfreithlawn i'r un gweinidog ddal bywoliaeth eglwysig, neu gynal neu ddwyn ymlaen unrhyw wasanaeth crefyddol cyhoeddus heb iddo gael ei urddo, os nad ydoedd wedi ei urddo gan esgob, ac heb iddo ddatgan ei fod yn hollol gydsynio â phob peth oedd yn y Llyfr Gweddi Gyffredin, fel yn gyson â Gair Duw; heb iddo ymrwymo i ufuddhad canonaidd, ac i beidio cefnogi unrhyw gyfnewidiad yn nghyfansoddiad yr eglwys na'r wladwriaeth;

Digitized by Google

ac heb ddal bod yn anghyfreithlawn cymeryd arfau yn erbyn y brenin o achos unrhyw beth. Ond nid dyn oedd Hugh Ywain i blygu i'r fath ddeddf orthrymus ac afresymol; a safodd ymhlith y dorf o wyr da eraill heb gydymffurfio â hi. Eithr nid rhoddi i fyny fywoliaeth a wnaeth ef, ond gwrthod cydymffurfio er mwyn cael urddau i feddu bywoliaeth. Ac yr oedd yn hyn mewn ystyr yn dilyn esiampl ei berthynas dysgedig, y Dr. John Ywain; yr hwn a adawodd y Brifysgol yn hytrach nag ymostwng o dan hen ddefodau ofergoelus, fel y gorchymynai y Canghellydd Laud, dan boen bwriad allan o'r Brifysgol os gomeddid. Ond yr oedd ef wedi cael urddau yn flaenorol.

Wedi i'r ddeddf grybwylledig ddyfod allan, dychwelodd Huw Ywain adref i Fronclydwr, a dechreuodd geisio gwneyd daioni i'w gydwladwyr trwy wahodd ei gymydogion yno i wrando arno yn pregethu yr efengyl. Yn fuan wedi hyn cafodd ddrws agored i fyned i bregethu i Bant Phylip, ac yna yn y "Ty Cyfarfod" yn Nolgellau. Rhoddwyd lle iddo bregethu mewn tai anedd yn y Bala a'r cylchoedd hyny; ac ymwelai yn achlysurol â siroedd eraill. Pregethai mewn anedd-dai, a manau eraill a gaffai yn agored i'r perwyl, yn ardaloedd Llanbrynmair, Drefnewydd, Llanfyllin, Gwrecsam, Dinbych, Pwllheli, a manau eraill. Dywedir am dano yn Nghofiant y Parch. John Roberts, Llanbrynmair, fel hyn,—"Tua diwedd y flwyddyn 1662, dechreuodd y 'llafurus, hunan-ymwadol' Hugh Owen, o Fronclydwr, ei ymweliadau rheolaidd â Llanbrynmair; a pharhaodd i ddyfod bob tri mis, ac weithiau yn amlach, am ddeunaw mlynedd ar hugain. Yr oedd ganddo ddeg neu ddeuddeg o gynullfeidfaoedd dan ei ofal—rhai yn Sir Feirionydd, a rhai yn Sir Drefaldwyn."

Ymddengys fod y pump neu chwech o'r deg neu'r deuddeg cynulleidfa y cyfeiriwyd atynt yn y dyfyniad blaenorol, yn bodoli yn Swydd Feirionydd, canys ymddengys yn sicr mai at y swydd hon y cyfeirir yn yr hanes dilynol am dano. "Daeth i'w wlad ei hun, ac a fu fyw ar ei dir ei hun, gan bregethu yn rhad i'r bobl. Yr oedd yn ganwyll oleu a disglaer mewn lle tywyll. Yr oedd ganddo bump neu chwech o leoedd i bregethu, a rhai o honynt tuag ugain milldir o ffordd oddiwrth eu gilydd; a chynifer a hyny yn Sir Drefaldwyn; elai hefyd drosodd i Sir Gaernarfon a lleoedd eraill. Gorphenai ei gylchdaith mewn o gylch tri mis, ac yna dechreuai drachefn; yr oedd yn bregethwr serchiadol a deffrous iawn, a llawer yn ei wrandaw, ac arddeliad mawr yn bod ar ei weinidogaeth. Ychydig gig a fwytâi, ac ni yfai ddim diod gadarn. Llaeth oedd ei ymborth mwyaf, ac ar welyau gwellt y byddai yn cysgu yn gyffredin. Yr oedd yn addfwyn a gostyngedig iawn, ac yn cyfrif ei hun y gwaelaf o weini-

Digitized by Google

dogion Crist. Nid oedd yn eiddigeddu wrth ddoniau neb arall, ond am fod yn ffyddlawn ar ei dalent ei hun. Efe a gafodd lawer o waredigaethau mewn atebiad i weddi. Unwaith, wrth ddyfod tua thref, ar noson dywell, efe a gollodd y ffordd, mewn lle peryglus, ac ni wyddai pa ffordd i fyned. Yn y cyfyngder hwn, efe a ddisgynodd oddiar ei anifail, ac a weddiodd ar Dduw, a chyn iddo orphen, goleuodd yr awyr, ac efe a ganfu ei ffordd, ac a achubwyd rhag niwed. Dro arall, wrth fyned i bregethu, ar amser rhew ac eira, a hithau yn nos, cododd ystorm, yr hon a yrodd yr eira yn ei wyneb, fel na allai yr anifail fyned ymlaen, gadawodd i'r anifail fyned rhagddo, hyd nes y deallodd ei fod mewn perygl mewn corsydd oedd yno. Ar ol gorchymyn ei hunan i Dduw mewn gweddi, gadawodd i'r ceffyl ymdaraw drosto ei hun, a cherddodd ei hunan yn yr eira hyd haner nos; ond yr oedd lludded a'r oerfel wedi effeithio cymaint arno fel yr oedd yn anobeithio am ei fywyd. Ond mewn ychydig amser daeth at feudy, eithr y drws oedd yn nghlo, ac ni allai ar un modd fyned i mewn. O'r diwedd, gwelodd dwll yn un pen iddo, ac aeth i mewn, ac a orweddodd rhwng yr anifeiliaid hyd y boreu. Pan ddaeth allan, a gweled tŷ gerllaw, efe a gurodd wrtho, ac agorwyd iddo, a da oedd hyny, canys yr oedd ei wallt a'i farf wedi rhewi, a braidd y gallai ddweyd dim. Ond yn ol gwneuthur tân da, a rhoddi llaeth brwd iddo, a'i osod mewn gwely cynes, lle y gorweddodd rai oriau, efe a gyfododd ac aeth i'r cwrdd, ac a bregethodd heb fod ddim yn waeth. Daliwyd ef yn ei dŷ gan sirydd Meirionydd, a boddlonodd yntau fyned gydag ef, ond iddo gael gweddio yn gyntaf gyda'i deulu; effeithiodd hyny gymaint ar y sirydd, fel yr aeth ymaith, gan adael ei garcharor yn rhydd. Daliwyd ef drachefn, a chaethiwyd ef yn Nghastell Powys, gan Arglwydd Powys, yr hwn, er mai Pabydd oedd ei hun, wrth ei glywed yn gweddio, a ddywedodd mai Cristion rhagorol ydoedd; ac wrth ei ryddhau, a'i rhybuddiodd i ddyfod yno ato bob Nadolig. Bu Mr. Owen yn cyd-lafurio enyd a Vavasor Powel, yn Llanbrynmair, &c., er nad oeddynt yn cyduno yn eu golygiadau ar yr ordinhad o fedydd. Yr oedd efe yn caru pob dyn ag y gwelai arwyddion fod gras Duw ynddo."

Rhoddwyd ei ran farwol i orphwys yn mynwent Llanegryn; a dodwyd a ganlyn ar gareg ei fedd:—

"Hugh Owen o fron y clydwr,
Pregethwr yr Efengyl yn ol ei lafar sydd yma
Yn gorphwys. Oed 60 mlwydd a haner,
Bu farw y 15 o Fawrth, 1699.
Y Cymro anwyl, edrych yma

Digitized by Google

Ar fy medd, a dwys ystyria
Fel yr wyt ti y bum inau
Fel yr wyf fi y byddi dithau:
Gan nad wyf mwy i bregethu,
O'm bedd mynwn wneuthur hynny;
O! cred yn Nghrist a bydd grefyddol,
Casâ bob drwg, a bydd fyw'n dduwiol."

Canwyd "myfyrdodau" uwchben ei fedd gan Elen Egryn, y rhai sydd i'w gweled yn mhellach ymlaen, mewn cysylltiad âg enw y farddones "awenyddol" hono.

---

## Y PARCH. EDWARD ANWYL.

Gweinidog gyda'r Wesleyaid, a anwyd yn Nhy'n Llan, Llan Egryn, yn mis Ebrill, 1786. Ei rieni oeddynt Owen Anwyl ac Ann ei wraig. Dychwelwyd ef at grefydd o dan bregeth Gruffydd Hughes, yr hon a draddododd, fel yr ymddengys, wrth y Tŷ Newydd, Llanegryn, y waith gyntaf y traddodwyd pregeth yn yr ardal gan neb o'r enwad yr oedd mewn cymundeb âg ef. Dechreuodd dynu sylw yn lled fuan, oherwydd ei sel, cryfder naturiol ei feddwl, a'i ddawn ymadrodd parod. Dechreuodd arfer ei ddawn yn gyhoeddus fel pregethwr yn y flwyddyn 1808; ac wedi hyny bu am ychydig fisoedd yn cadw ysgol Gymraeg yn Mhenrhyn Deudraeth. Ond gan ei galwyd i'r weinidogaeth symudol yn Awst yr unrhyw flwyddyn, bu yn ofynol arno roi yr ysgol i fyny yn y lle cyn hir wedi iddo ddechreu ymgymeryd â'r gwaith. Y lle cyntaf yr aeth i wasanaethu yn ei gylchdaith oedd Swydd Fôn. Bu yn llafurio yn ngwaith y weinidogaeth am naw mlynedd a deugain, yn ystod pa amser, yn ol fel y nodir, cerddodd dros gan' mil o filldiroedd, a bu un mlynedd ar bymtheg o'r unrhyw amser yn gadeirydd talaeth Gogledd Cymru. Dyn teneu, esgyrnog, ydoedd o ran ei gorff, cryf o gyfansoddiad; ac yr oedd yn alluog i oddef llafur mawr i deithio ar draed. Pregethai heb ymddangos yn goddef dim anfantais, ar ol cerdded 50 milldir mewn diwrnod. Yr oedd yn ddyn selog, hyf, a gwrol. Darllenai lawer, a meddai allu mawr i gadw mewn cof yr hyn a ddarllenai, ac yr oedd yn nodedig o hysbys am wledydd y byd a'u trigolion.

Digitized by Google

Yn y flwyddyn 1814, ymbriododd â merch ieuanc o'r cyfenw Mathews, o Drelai, Morganwg, a bu iddynt 11eg o blant. Cafodd ei anrhegu gan ei gymydogion â'i ddarlun, ynghyd â swm o arian, yr adeg yr ydoedd yn ymneillduo o'r weinidogaeth gylchdeithiol reolaidd, yn y flwyddyn 1854, ac aeth i restr yr hen bregethwyr. Nid ydys yn gwybod iddo ddwyn allan unrhyw waith drwy y wasg, ond ysgrifenodd rai erthyglau i'r *Eurgrawn Wesleyaidd*. Bu farw yn Nhreffynon, ar y 23ain o Ionawr, 1857, yn 71 mlwydd oed.

---

## ELINOR EVANS (ELEN EGRYN).

Merch ydoedd y farddones Elen Egryn i Mr. John Evans,* Ty'n Llan, yn mhlwyf Llanegryn, a Rebecca Vincent, yn ol ei chyfenw gwyryfol, ei wraig, ferch y Felin Fach,† ger pentref Llanegryn. Bu ei thad yn athraw yn Ysgol Rydd Llanegryn am faith flynyddoedd, ac yr ydoedd yn yr ysgol y diwrnod y bu farw. Gŵr ydoedd, o ran ei enedigaeth, o Ddolgellau, neu'r gymydogaeth, yn ol fel y tybir.

Bu iddi ddau frawd a phum' chwaer, ond ni thyfodd ond pedwar o honynt i addfedrwydd oedran. Y mae y ddau frawd wedi marw, ond nid yw yr oll o'r chwiorydd. Aeth un o'r ddau frawd, sef y Parch. Evan Evans, i America, a daeth i fod yn weinidog gyda'r Annibynwyr ar ol ei fyned; ond yr ydoedd yn bregethwr gyda'r enwad hwn yn flaenorol i'w fynediad trosodd. Ymbriododd ei frawd, y diweddar Mr. William Evans, Heol Northgate, Caerlleon, â merch i'r diweddar hybarch weinidog a bardd, William Rees (Gwilym Hiraethog), yr hon sydd yn ei oloesi.

Ganwyd Elen Egryn,—Elinor Evans,—ar y 12fed o Dachwedd, 1807, a chafodd ei bedyddio ar y 15fed o'r un mis. Bu farw yn nhŷ ei brawd, y crybwylledig Mr. William Evans, yn Nghaerlleon, ddydd Sadwrn, y 29ain o Ebrill, 1876, yn 68 mlwydd oed, a rhodd-

---

* Cyfeirir ato, yn mhellach ymlaen, mewn cysylltiad âg elusenau y plwyf hwn.

† Gellir sylwi mai yn y Felin Fach, a nodir uchod, neu, yn fanylach, yn y tŷ perthynol iddi, y ganed y diweddar Dr. Arthur Jones, Bangor, gweinidog gyda'r Annibynwyr; ond yn ol a ddywedir, ymadawodd â'i le genedigol pan o dan flwydd oed. Hefyd, yn y Tŷ Newydd, tyddyndy yn ymyl yr unrhyw bentref, y ganwyd tad y Dr. John Owen, yr enwog dduwinydd. Ni ddefnyddiwyd y Felin Fach at falu er's yn agos i ddeugain mlynedd yn ol i eleni (1887).

Digitized by Google

wyd ei rhan farwol i orphwys yn y gladdfa gerllaw y ddinas hono. Gadawodd un ferch ar ei hol, yr hon sydd wedi priodi.

Yn y flwyddyn 1850, cyhoeddwyd llyfr bychan, yn cynwys cyfansoddiadau barddonol o'i heiddo, o dan yr enw "Telyn Egryn," a dywedir mewn rhan o Raglydd ei olygydd yn ei gylch fel hyn:— "Golygwn ganiadau y Delyn, nid yn unig o deilyngdod uchel fel cynyrchion ceinion awenyddiaeth bur, ond hefyd ar gyfrif y chwaeth goeth, a'r teimladau tyner y tueddant i'w meithrin yn y darllenydd, —yr ieuanc yn neillduol. Gedy lliaws o feibion a merched ieuainc Cymru aelwydydd eu rhiaint, a gwlad eu genedigaeth, i ymsefydlu yn Lloegr, a buan y gollyngant dros gof garedigrwydd tad a mam, a mwynder cartref, ac iaith a defodau eu bro enedigol; ac felly, collant rai o elfenau hanfodol nodwedd hawddgar a rhinweddol, canys 'Cas gŵr na charo y wlad a'i maco,' ac yn enwedig y rhiaint a'i magodd, a'r cartref y magwyd ef ynddo. Gwel y darllenydd fod amryw o ganiadau Elen yn llawnion o'r gwresogfrydedd hawddgarol hwn, ac y tueddant i'w enyn a'i feithrin ymhob mynwes a ymgydnabyddo â hwy." Ceir dyfynu yma ranau o'i gwaith allan o hono, ac yn gyntaf "Myfyrdodau uwchben bedd y Parch. Hugh Owen, o Fronclydwr," at y rhai y cyfeirir mewn nodyn yn mhellach yn ol:—

"Och athraw ardderchog! ai yma mae'th drigfa?
Rhyw syndod a'm llanwodd uwchben dy orweddfa;
Mor ddirgel y llechu! mae'r llysiau bron cuddio
Yr annedd ddiaddurn lle 'rwyt ti'n gorphwyso;
Mudanaidd yw'r tafod fu gynt yn cyhoeddi
Y ffordd i bechadur ochelyd trueni!

Ai yma gorweddi dan draed yr ynfydion,
Yr hwn mae dy goffa'n ddifyrwch gan ddoethion?
Ar lwybr dy fywyd blodeuodd rhinweddau,
Y rhai sydd yr awrhon yn ber eu haroglau;
Er grym erledigaeth, a thwrw bygythion,
Ni wyrwyd dy gamrau, ni lygrwyd dy goron.

Er amled dy wawdwyr, er cryfed eu byddin,
Er carchar, ni siglwyd dy sel dros dy Frenin;
Gwroldeb goronodd dy holl ymdrechiadau,
D'amynedd ni phallodd er amled y croesau;
A'th bwys ar dy briod wynebaist y tonau,
Dyrchefaist ei faner y'nghanol y brwydrau.

Digitized by Google

Er maint anwadalwch fy meddwl crwydredig,
Fe'i daliwyd wrth syllu ar d'anedd lygredig;
Och! OWAIN ardderchog! paham ceir dy enw
Ar gareg lwyd waeledd, y'mhlith y rhai meirw?
Oes modd dy ddihuno pe bloeddiwn yn uchel,—
Tyr'd allan oddiyma?—mae pob peth yn dawel.

Mae rhyddid trwy'r gwledydd, mae mwynder pregethu,
Mae mil o galonau a garent dy gwmni;
Mae'r haul yn pelydru, fe ffodd y cymylau,
Teyrnfradwyr dy Frenin daflasant eu harfau;
Mae braidd yn rhyw syndod dy fod yn gorphwyso
A'r gwaith heb ei orphen—mae'n bryd i ti ddeffro.

Er dweyd am felysder ein goruchel freintiau,
'Does ond swn yr awel yn ysgwyd y llysiau;
Ni chlywaf i'm hateb un llais o'r daeardy,
'Rwy'n ofni it' gyfarfod â pheth mwy na chysgu;
A raid i mi adael dy wely mewn dagrau,
Heb gael, er taer ymbil, un cyngor o'th enau?

Paham y dychmyga fy meddwl fath wagedd,
'Does yma ond mân-lwch ei gorffyn mewn llygredd;
Ymdrechodd deg ymdrech, ehedodd i wynfyd,
Gorphenodd ei yrfa, coronwyd ef hefyd;
Enillodd y rhyfel, ca'dd goncwest yn ddibrin,
Boed dyfal fy ngweddi am gymorth i'w ddilyn."

Yn nesaf ceir dyfynu* o'i gwaith yma, y penillion dilynol, a ddynodir:—

BWTHYN FY NHAD, A GYFANSODDODD PAN ODDICARTREF.

Er bod mewn mawr lawnder a'i fwynder yn fad,
Gofidus feddyliau sy am fryniau'r hen, hen wlad;
Ar deimlad dedwyddol 'does modd cael mwynhad,
Nes cyraedd ail olwg ar fwthyn fy nhad,
Hoff, hoff, gorhoff wlad,
Lle gwelir cu olwg ar fwthyn fy nhad.

---

* Bwriedir dyfynu yn mhellach ymlaen englynion o'i heiddo ar farwolaeth Dafydd Ionawr.

Digitized by Google

Mor felus fu'r dyddiau a dreuliais yn hwn,
Boddlondeb mewn gafael, heb ofal yn bwn;
A phawb yn cyduno er llunio 'ngwellhad,
Fe'm tirion goleddwyd ar aelwyd fy nhad,
Hoff, hoff, gorhoff wlad, &c.

Pan oeddwn yn faban gwael truan a gwan,
Gofalwyd yn rhyfedd yn hwn ar fy rhan;
Am riaint mor dyner rho'f glod i Dduw mad,
A'i fendith fo'n disgyn ar fwthyn fy nhad,
Hoff, hoff, gorhoff wlad, &c.

Mor felus ac addfwyn rhag ymddwyn ar gam
Cawn wrando cynghorion rai mwynion fy mam;
Er prawf o'i serch beunydd cawn gerydd heb wad,
Mae'n fuddiol ail gofio gwialen fy nhad;
Hoff, hoff, gorhoff wlad, &c.

Wrth weled mawr weniaeth, twyll bariaeth y byd,
Gofynais i'r awen fy nghysur i gyd,—
Pa le mae gwir gariad heb fwriad oer frad?
Atebodd mor addfwyn, "Yn mwthyn dy dad:"

Y galon doredig, mae'n anhawdd dy ddwyn,
Heb gyfaill mewn adfyd i ddwedyd fy nghwyn;
'Does modd celu hiraeth, rhaid adde'n ddiwad,
Mai cartref y meddwl yw bwthyn fy nhad.
Hoff, hoff, gorhoff wlad, &c.

## YR AWEN.

Rhaid addef mai hiraeth ysywaeth y sydd,
Ond paid â'th achwynion, anfoddlon na fydd;
Rho heibio alaru, cais olwg ar wlad,
A'th wna yn fwy dedwydd na bwthyn dy dad;
Draw, draw, ar Galfari,
Mae golwg ar Geidwad i'th enaid llesg di.

## *Elen.*

Er pob rhyw flinderau hir groesau oer gri,
Dy lais a wna'n hyfryd fy mywyd i mi;

Digitized by Google

Ond pa le mae'th deimlad pan soni am wellhad
I'r fynwes friwiedig o fwthyn fy nhad?
Hoff, hoff, gorhoff wlad, &c.

*Yr Awen.*

Mawr ffoledd hiraethu am amser fu'n bod,
Heb feddwl yn ddifrif am amser sy'n dod;
'Rwyt ti o gynwysiad sy'n hwy o barhad
Nag unrhyw ddifyrwch sy'n mwthyn dy dad;
Draw, draw, ar Galfari, &c.

Ehedodd yr amser pan oeddit mor llon,
Yn nyddiau babandod heb drallod i'r fron;
Ac eto ar fyrder fe dderfydd coffhad
Am bob rhyw addfwynder sy'n mwthyn dy dad:

Mae uchel ddiolchiad trwy syniad tra syw,
Mai nid yno yn unig y triga dy Dduw;
Gorseddfainc y Brenin, a rhin ei Fab rhad,
Nid rhaid myn'd i'w mofyn i fwthyn dy dad;
Draw, draw, ar Galfari, &c.

Am hyny na fydded dy galon mor drist,
Cei lawer melusach cyfeillach â Christ;
Cyflwyna dy hunan i hwn ymhob gwlad,
Cei fwynder pan ballo llaw dyner dy dad:
Draw, draw, ar Galfari, &c.

Yn y flwyddyn 1848, canwyd Cathl rhyngddi ag un a ymgyfenwai ei hun yn "Eos," yr hon a ddynodir, "Cynhadledd y Pigyn, rhwng Elen a'r Eos." Mynegir ar ei dechreu nad "oedd yr Elen a'r Eos erioed wedi gweled eu gilydd pan gymerodd y Gynhadledd Gathliadol a ganlyn le rhyngddynt. Digwyddai i'r hwn a ymgyfenwa "Eos," pan ar ymweliad achlysurol yn Nolgellau, yn Chwefror, 1848, glywed fod Elen mewn mawr ofid a thristwch meddwl, a'i dagrau yn fwyd iddi ddydd a nos; ysgrifenodd yn ddioed lythyr caredig ati, ar ddiwedd yr hwn y gofynai, A oedd yn gallu canu ambell benill yn ei gofid? gan grybwyll y chwedl am yr Eos, sef, mai *pan fyddo pigyn dan ei bron y cana bereiddiaf*. Yn ei hateb i'r llythyr hwnw, dyddiedig Mawrth 15fed, 1848, canai Elen fel hyn:—

Digitized by Google

Eos fwyn, pa fodd y gelli
  Ar y gainc â llafar llon,
Daro tant mor ber a melus
  Pan fo pigyn dan dy fron?

Tybio 'rwyf fy mod yn deall
  Dy ddirgelwch, Eos fach,—
O'r tuallan mae dy bigyn,
  Oddimewn yr wyt yn iach.

Mae'n dy fynwes ddiniweidrwydd,
  Neu ni ellit fod mor llon,
Na chael blas na hwyl i ganu,
  Gyda'r pigyn dan dy fron.

Dedwydd ydwyt, Eos wisgi,
  Ond, pe ceit brofi'r fynwes hon,
Gwn y tawet megis ELEN,
  Pan ddaeth pigyn dan ei bron.

Anfonwyd chwech o benillion ateb i'r rhai hyn, gan yr Eos, dyddiedig, Mawrth 18fed, 1848, ac atebai hithau iddynt mewn pedwar o benillion, dyddiedig y 29ain o'r un mis. Ceir pump o benillion ateb i'r rhai hyny gan yr Eos, dyddiedig y 1af o Ebrill, yr un flwyddyn, yn yr olaf o ba rai dywedai,—

Tyn dy delyn 'ddiar yr helyg,
  C'weiria danau mwynion hon,
Cana am rinwedda'r Meddyg
  Dŷn y pigyn o dy fron.
Rhaid i'r Eos ymfoddloni
  Dan ei phigyn, er ei bri;
Nid oes unrhyw falm ond angeu
  Esmwythâ ei phigyn hi.
Pan ddarfyddo *poen* fy mhigyn,
  Derfydd hefyd *sain* fy nghân;
Ond cei di, 'nol gwella'th bigyn,
  Ganu byth yn Sion lân.

Atebai Elen mewn chwech o benillion, dyddiedig Ebrill 12fed, o'r unrhyw flwyddyn, yn y cyntaf o ba rai y dywedai:—



Digitized by Google

O! na fyddai i fyd y gofid
Arbed bron yr Eos wiw,
A gadael iddi dreulio 'i dyddiau,
Heb adnabod poen na briw.

Yna, wedi cyfeirio yn yr ail benill at waith yr Eos yn canu yn y nos, dywed:

Yn y nos y clywais inau
Lais dy donau mwynion di,
Pan oedd hyll gysgodau'r fagddu
Yn amdoi fy enaid i.

Ti 'm harweiniaist at y mynydd,
Lle bu Meddyg dynolryw
Yn cymysgu 'r balm anwylaf,
Er iachau fy mynwes friw.

Ac oddiyno y canfyddais,
O! fel llonai f' enaid prudd,
Ryw oleuni trwy'r cymylau,
Tebyg iawn i wawr y dydd.

Ar yr helyg bu fy nhelyn
Yn grogedig amser maith;
Ond, os caf iachau fy mhigyn,
Canu bellach fydd fy ngwaith.

---

## YR ELUSENAU.

Cymerwyd y mynegiadau dilynol o barth yr Elusenau, gan mwyaf, allan o Adroddiadau y Dirprwywyr ag y cyfeiriwyd atynt eisoes yn yr hysbysiadau mewn cysylltiad â'r plwyfydd eraill, y rhai a osodasant eu Hadroddiadau o flaen y Senedd yn y flwyddyn 1834. A cheir i ddechreu gyfeirio at Ewyllys Huw Ywain, o Dalybont, tuag at gadw Ysgol Rydd yn mhlwyf Llanegryn, am byth.

Gadawyd 400p. gan Huw Owen, o Dal y Bont, yn ei Ewyllys,

dyddiedig y 18fed o Gorphenaf, 1650, i'w nai, Lewis Owen, o Beniarth, Dr. John Ellis, periglor Plwyf Dolgellau, a Robert Owen, periglor Llan Gelynin, ac i'w etifeddion a'u holynwyr, fel y byddai iddynt hwy, ei etifeddion a'u holynwyr, roddi ardreth blynyddol yr arian hyn i athraw i gadw ysgol rydd o fewn plwyf Llanegryn, am byth. Yr oedd y 400p. hyn, yn adeg gwneuthuriad yr Ewyllys, yn llaw Griffith Nanney, Dolaugwyn, Yswain, yn ol fel yr ymddangosai oddiwrth Ymrwymiad am 800p., gyda meichiau am daliad 400p. yn mis Mai, 1650; a'i Ewyllys oedd, fod i ardreth blynyddol y dywededig 400p. gael ei rhoddi bob amser ganddynt hwy, ei etifeddion a'u holynwyr, i athraw, i gadw ysgol rydd o fewn plwyf Llanegryn, am byth.

Trwy Archiadeb, dyddiedig y 4ydd o Fehefin, 1652, o eiddo Dirprwywyr o barth achosion elusenol, a benodwyd o dan Weithred y 43ain i Elisabeth, yn mynegi Ewyllys Huw Owen, ac yn mynegi yn mhellach nad oedd yr un ysgoldy wedi ei godi y pryd hwnw, nac unrhyw foddion eraill ar gyfer hyny, neu er prynu darn o dir cyfleus yn fangre iddo, a bod llog arian yn ansicr, a'r eiddo yn parhau mewn arian, yr hyn a barai eu bod yn agored i gael eu colli trwy unrhyw fethiant achlysurol ar etifeddiaeth y sawl a fenthyciai yr unrhyw, penderfynwyd, trwy gydsyniad pob plaid perthynol i'r hawl, ar i'r dywededig Lewis Owen dderbyn llog y 400p. idd ei wasanaeth ei hun, am y ddwy flynedd nesaf ar ol marwolaeth y gwyllysydd, ac mewn ystyriaeth o hyny, drosglwyddo dwy erw a haner o dir rhydd-ddaliadol yn y rhagddywededig Lanegryn, megis ag y penodai y dywededig Dr. Ellis a Robert Owen, at wasanaeth yr ysgol a nodwyd, am byth; ac fod i'r dywededig Lewis Owen gymeryd yr unrhyw 400p. i'w wasanaeth ei hun, ac mewn ystyriaeth o hyn ddyledu ei diroedd a'i dyddynod yn mlwyf Llanegryn i'r gwerth o 24p. digoll o ardreth blynyddol, ynghyd â gallu atafaelol digonol am 20p. y flwyddyn, a throsglwyddo yr unrhyw i'r cyfryw berson neu bersonau, ei etifeddion a'i olynwyr ef neu hwynt-hwy, am byth, ag a benodid ganddynt hwy, y dywededig Dr. Ellis a Robert Owen, ar neu cyn gwyl yr Holl Seintiau, yn y flwyddyn 1653, i'r dibenion dilynol, sef bod i'r dywededig ymddiriedolwyr gymeryd y ddywededig ardreth flynyddol am y pum' mlynedd a ddilynai nesaf y pryd hwnw tuag at adeiladu ysgoldy cyfleus, a thuag at amgau y gweddill o'r ddwy erw a haner, i fod yn fuarth i'r ysgoleigion i chwareu ynddo, a phenderfynwyd yn mhellach ar fod i'r dywededig Lewis Owen, Dr. Ellis, a Robert Owen, ei etifeddion a'u holynwyr, geisio gyda hyny ddefnyddiau i ac adeiladu cyn Gwyl yr Holl Seintiau, 1659, ac o fewn y tri mis a ddilynai nesaf benodi y cyfryw berson i fod yn athraw

yno,[7] graddoledig yn un o Brifysgolion y wlad hon, ac yn ddysgedig yn yr ieithoedd Groeg a Lladin, a medrus mewn gramadeg a rheitheg, ag a gyflwynai y dywededig Lewis Owen a'i etifeddion iddynt; ac wedi marwolaeth neu symudiad y cyfryw athraw, osod yr un modd o bryd i bryd yn ei le o fewn y tri mis a ddilynai nesaf, berson arall a fai o'r un cymhwysderau, a chyflwynedig fel y rhagddywedwyd; ac ar ol terfynu o'r dywededig bum' mlynedd, fod i'r dywededig dderbyniwr neu dderbynwyr weled a chymeryd y dywededig 20p., ardreth blynyddol, a thalu yr unrhyw i'r athraw a fai am y pryd, tuag at adgyweirio y dywededig ysgol a'r buarth, ac ei un cyflog; eithr os esgeulusai neu os gomeddai y dywededig athraw a'u hadgyweirio mor aml ag y byddai yn angenrheidiol, yna fod i'r dywededig dderbyniwr neu dderbynwyr ddal oddiwrtho gymaint o'r ddywededig ardreth ag a fernid yn ofynol gan y dywededig Lewis Owen, Dr. Ellis, a Robert Owen, ei etifeddion a'u holynwyr, er adgyweiriad dyladwy yn ol eu cyfarwyddyd, ac fod i'r gweddill yn unig gael ei dalu i'r athraw am y pryd fel ei gyflog, hyd nes y llawn orphenid y cyfryw adgyweiriad; ac os byddai i unrhyw un o'r dywededig athrawon brofi yn esgeulus yn ei le, neu o fodd arall gamymddwyn ynddo, ac ar ol i ddau rybudd gael eu hanfon iddo, o dan ddwylaw a seliau y dywededig Lewis Owen, Dr. Ellis, a Robert Owen, neu ei etifeddion neu eu holynwyr, y cyntaf o ba rai i'w roddi yn ei law dri mis yn flaenorol i anfoniad yr ail iddo, nad ymddiwygiai o fewn tri mis ar ol rhoddiad yr ail iddo, yna, fod i'r dywededig Lewis Owen, Dr. Ellis, a Robert Owen, neu ei etifeddion neu eu holynwyr, ei ddiswyddo, ac o fewn y tri mis nesaf gwedi, gyflwyno a gosod yno un arall yn y modd cyfarwyddedig eisoes, ac fod i'r dywededig dderbyniwr neu dderbynwyr dalu y dywededig gyflog blynyddol i'r newydd-ddewisedig hwnw; a phenodwyd yn mhellach fod i'r ysgol ddywededig fod yn rhydd ond yn unig i gwmwd Tal y Bont, yn Swydd Feirionydd, trwy mai hyny oedd fwyaf cydweddol â'r cyflog a adawyd gan y Gwyllysydd i'r dywededig athraw, yr hwn, os ei gadewid yn gyffredinol rydd, a allai fod mewn eisiau cynhaliaeth.

Ni feddai yr ymddiriedolwyr, yn ol adroddiad y Dirprwywyr, a roddwyd o flaen y Senedd yn y flwyddyn 1834, unrhyw ysgrif yn dyledu tiroedd Lewis Owen* a'r taliad o 20p. yn y flwyddyn; eithr y fan a ddyledwyd â'r flwydd-dal, oedd dyddyn o'r enw Tal y Bont, yn

*Gwelais nodyn wedi ei ysgrifenu â phwyntil, yn llawysgrif y diweddar Mr. Wynne, o Beniarth, yn dwyn yr amseriad 1857, ar ymyl dalen o Adroddiadau y Dirprwywyr crybwylledig, yn mynegi fod y Weithred o ddyledu yn ei feddiant ef y flwyddyn hono (1857).

cynwys oddeutu tri chant o erwau, ac yn gorwedd ym mhlwyf Llanegryn, ac ar y pryd yn eiddo William Wynne, Yswain, o Beniarth.

Mynega y Dirprwywyr yr ymddangosai ddarfod i ystafell* ysgol sylweddol gael ei hadeiladu, digonol i gynwys dros gant o blant, pa un a amgylchynid gan yn agos i ddwy erw o dir.

Mynega y rhai hyn hefyd yr adroddid ddarfod i raddolwr o un o'r Prifysgolion gael ei benodi yn athraw, ac yr addysgid yr ieithoedd Lladin a Groeg yn yr ysgol i lawr i'r flwyddyn 1812, gan y diweddar athraw, y Parch. John Owen, pan yr ymddiswyddodd. Derbyniai oddiwrth Mr. Wynne y flwydd-dal o 20p. yn flynyddol. Yr oedd yr ysgol, yn ystod ei feistrolaeth, yn rhydd i blant cwmwd Tal y Bont

Nodai y Dirprwywyr nad oedd yn ymddangos y talwyd y flwydd-dâl er y flwyddyn 1812, ac nad oedd, ychwaith, unrhyw dreulion wedi eu talu allan o honi er adgyweiriad yr ystafell ysgol. A chan hyny, ystyrient fod gweddill o 420p.† yn ddyledus y pryd hwnw i'r ysgol oddiwrth Mr. Wynne; a chyfarwyddasant ar fod i'r ystafell ysgol gael ei gosod mewn cyflawn adgyweiriad allan o'r arian hyn, ac fod i'r rhelyw gael eu helwsoddi yn y Tair y Cant Cedsoddion. yn enwau yr ymddiriedolwyr, ac i'r llôg oddiwrthynt fyned tuag at gyflog yr athraw oedd i gael ei benodi, galluog i addysgu yn yr uch-lyfrau, yn unol â chyfarwyddiadau yr archiadeb.

Yr ymddiriedolwyr yn amser ysgrifeniad yr adroddiadau a roddwyd ger bron y Senedd yn y flwyddyn 1834 oeddynt William Wynne, Ysw., disgynydd llinellol o Lewis Owen; y Parch. H. W. White, periglor Dolgellau; a'r Parch. John Parry Jones Parry, periglor Llan Gelynin.

---

## RHODD GRIFFITH OWEN.

Gadawodd Griffith Owen, diweddar ddinesydd a chwegydd o Lundain, 400p., trwy ei Ewyllys, dyddiedig y 3ydd o Chwefror, 1668,

---

* Yr oedd ei safle encyd oddiwrth yr ysgoldy presenol. Dywedir ei bod yn anferth o faint, yn gynwysedig o chwe' duad, ac un ar ddeg o ffenestri arni, chwech o honynt yn gwynebu tua'r deheu, a phump tua'r gogledd Yr oedd y drws ar yr ochr dde iddi, pa un oedd yn ddrws mawr. Y gloch ar y pen gorllewinol, a'r corn simddau, a'r alch i ddal y tân, ar y pen dwyreiniol. Ac ar ganol yr ystafell yr oedd bwrdd mawr, ar yr hwn y byddai yr ysgoleigion yn ysgrifenu.

† Teg yw hysbysu y dywedir ddarfod i'r diweddar hynafieithydd Mr. Wynne, o Beniarth, dalu yr arian a nodir uchod.

Digitized by Google

idd eu talu o fewn un flwyddyn ar ol ei farwolaeth, i Lewis Owen, o Lan Egryn, yn Swydd Feirionydd, Yswain; neu, os byddai ef wedi marw, yna i John Owen, o Gae'rberllan, yn yr unrhyw swydd, boneddwr; neu, os byddai yntau wedi marw, i'w frawd yn nghyfraith, William David, o'r rhag-ddywededig Lan Egryn, boneddwr; neu, os byddai pob un o honynt wedi meirw, yna i Robert Owen, o Lan Gelynin, yn y ddywededig swydd, gŵr eglwysig, ar yr ymddiriedaeth benodol y byddai i'r person, neu y personau, i'r rhai y telid y dywededig 400p., osod yr arian hyn allan trwy gyngor a chydsyniad y dywededig Lewis Owen, William David, David William,* a Robert Owen, a Hugh Owen, o Fronclydwr, yn y ddywededig swydd, boneddwr, a Lewis Owen, ei frawd, neu y rhan fwyaf o honynt ag a fyddent fyw, yn mhryniad tiroedd, tyddynod, ac etifeddiaethau, i'w trosglwyddo i'r cyfryw bersonau ag a benodid ganddynt hwy, y dywededig Lewis Owen a'r pedwar eraill, neu yr oloeswyr o honynt, neu y rhan fwyaf o honynt, i'r amcan fod i'r personau, i'r rhai y caffai y dywededig diroedd, &c., eu trosglwyddo fel y rhagddywedwyd, o fewn tri mis wedi i etifeddiaeth hawlrydd gael ei throsglwyddo a'i sicrhau iddynt gan y dywededig Lewis Owen a'r pedwar eraill, a'r oloeswyr o honynt, neu y rhan fwyaf o honynt, y rhai y byddai iddynt eu trosglwyddo felly ar yr ymddiriedaeth benodol hon, idd eu mynegu yn y trosglwyddiad trwy unrhyw afaeleb neu afaelebau ag a dybiont hwy yn addas am yr ystod o un mlynedd ar hugain, neu lai, am gymaint o ardreth flynyddol ag a ellid gael am yr unrhyw, i'w thalu i'r dywededig Lewis Owen a'r pum' person eraill enwedig eisoes; ar yr ymddiriedau pellach, fod iddynt hwy, y dywededig Lewis Owen a'r pump eraill a enwyd, ddefnyddio un drydedd ran o ardrethoedd ac enillion y lleoedd tuag at gynal athraw ysgrifenu yn y rhagddywededig ysgol Llanegryn am byth, yr hwn athraw ysgrifenu ydoedd i gael ei ddewis o bryd i bryd gan y dywededig Lewis Owen a'r pump eraill, neu gan y cyfryw bersonau eraill ag a ddichon fod o bryd i bryd yn feddiantroddwyr neu ymddiriedolwyr y dywededig diroedd, &c.; ac fod i'r dywededig athraw ysgrifenu am y pryd addysgu ac hyfforddi i ysgrifenu y plant tlodion ag a fyddont ysgolheigion yn y ddywededig ysgol ysgrifenu; ac, hefyd, allan o'r ddywededig drydedd ran, dalu am binau ysgrifenu, inc, a phapyr i'r dywededig blant tlodion; ac os byddai athraw y ddywededig ysgol ysgrifenu am y pryd yn ddigon galluog i'w haddysgu i ysgrifenu llaw deg ac eglur, ac yn gwneyd hyny, yna fod

---

* Nid ydyw enw David William ar lawr yn flaenorol i hyn yn adroddiadau y Dirprwywyr sydd o'm blaen o barth yr Ewyllys hon.

Digitized by Google

i'r dywededig feddiantroddwyr dalu o bryd i bryd, neu achosi taliad, iddo am ei ofal a'i drafferth yn addysgu y dywededig blant tlodion, gymaint o'r dywededig drydedd ran o ardrethion y dywededig diroedd, &c.,ag a farnont yn gyfleus, ac hefyd am ysgrif-binau, inc, a phapyr fel ag y rhagddywedwyd, a'r gweddill o'r dywededig drydedd ran (os byddai peth) i'w dalu tuag at freintweisio y dywededig blant tlodion, megis ag y mae yn grybwylledig yn ol hyn oddifewn, er unrhyw beth gwrthwynebol cynwysedig ynddi. A'i ewyllys, yn mhellach, oedd ar i'r meddiantroddwyr dewisedig, neu y rhan fwyaf o honynt, roddi un drydedd ran arall o ardrethion ac enillion y lleoedd dywededig i athraw y dywededig ysgol am y pryd, neu i'r cyfryw berson arall ag a farnai y dywededig feddiantroddwyr yn gymwys, yr hwn a egwyddorai y dywededig ysgolheigion tlodion, ynghyd âg ieuenctyd eraill y dywededig blwyf Llanegryn, neu rai o honynt, yn mhynciau sylfaenol y grefydd Gristionogol, yn flynyddol a phob blwyddyn am byth, unwaith ymhob pythefnos o leiaf, o ddechreu y Grawys hyd ddiwedd Awst, neu yn hwy os barnant yn gymwys, a'r holwyddoriad dywededig i gymeryd lle ar ddydd yr Arglwydd o flaen y brydnawnol weddi, yn Eglwys y crybwylledig blwyf Llanegryn; ac fod iddynt ddefnyddio y drydedd ran arall o'r ardrethion ac enillion yr unrhyw leoedd er rhwymo yn egwyddorweision y cyfryw blant tlodion cyfreithlon ag a fuont ysgolheigion yn y ddywededig ysgol Llanegryn, ac wedi eu geni yn y dywededig blwyf, ag yr oedd eu rhieni, neu un o honynt, yn enedigol o'r dywededig blwyf Llanegryn. Ac ar yr ymddiriedaeth bellach hon, fod i'r ddywededig Lewis Owen a'i gydymddiriedolwyr, a'r oll o'r meddiantroddwyr dyfodol, drosglwyddo, o bryd i bryd, ac mor aml ag na byddai ond dau feddiantroddwr yn fyw, y dywededig diroedd, &c., i'r cyfryw bersonau eraill o gymeriad da, yn y dywededig blwyf neu'r gymydogaeth, ar yr ymddiriedau mynegedig oddifewn, fel y gallai yr elusen hon a'i hymddiriedaethau barhau am byth. A'i ewyllys yn mhellach oedd, mai pan fyddai feirw y meddiantroddwyr cyntaf o dan yr ewyllys hon, yna fod i'r ymddiriedaeth am beri dygiad ymlaen yr achos ac arolygu ar i'r oll o'r ardreth gael ei threfnu yn dda, yn unol â'i feddwl mynegedig oddifewn, i gael ei gosod i aros bob amser am byth ar beriglor Dolgellau a pheriglor Llan Gelynin, yn y ddywededig Swydd Feirionydd, am y pryd, a'u holynwyr; ac hefyd ar y ddau Ynad yr Heddwch ag a fyddant a'u preswylfod o bryd i bryd yn agosaf i'r ddywededig ysgol, ynghyd a'r rhan fwyaf o'r meddiantroddwyr am y pryd. A'i ewyllys yn mhellach oedd, ar i'r dywededig feddiantroddwyr ag a fyddant o bryd i bryd, allel allan o ardrethoedd ag enillion y ddywededig diroedd, &c., wario yn flynyddol y swm o 20s. am ymborth yn

Digitized by Google

eu cyfarfod yn nghyflawniad yr ymddiriedaeth osodedig trwy hyn arnynt (os tybiant yn angenrheidiol) er unrhyw beth gwrthwynebol oddifewn.

Y trosglwyddiad cyntaf ar yr eiddo ymddiriedol, pa un a gofnodwyd mewn llyfr perthynol i'r ymddiriedolwyr, sydd ddeintysgrif dyddiedig y 14eg o Fedi, 1717, crynhoad o ba un sydd i'r ystyr a ganlyn:—

"Trwy Ddeintysgrif, dyddiedig y 14eg o Fedi, 1717, rhwng William Williams, o Fryngiasan, yn mhlwyf Llanegryn, ac yn Swydd Feirionydd, Yswain, a Lewis Owen, o'r Waen Fach, yn y plwyf a'r swydd a ragddywedwyd, o un blaid; John Owen, o'r Inner Temple, Llundain, Yswain; John Nanney, Yswain, mab ac etifedd John Nanney, o Faesypandy, Yswain; Hugh Owen, o Gae'r Berllan, Yswain; Humphrey Owen, Yswain, cadben y Winchelsea. llong ei Fawrhydi; Edward Kenrick, Bronclydwr, boneddwr; Hugh Owen, Carn Gadell, boneddwr; Edward Morgan, Castell, ebrwyad Tywyn ar y pryd; Francis Williams, mab ac etifedd y dywededig William Williams; John Owen, mab ac etifedd y dywededig Lewis Owen; Evan Owen, mab ac etifedd Edward Owen; John Lloyd, Gwyddfryniau; John Davies, Cemmaes, a Lewis Williams, o'r ail blaid; yn adrodd Ewyllys y dywededig Griffith Owen, a bod yr ymddiredolwyr penodedig gan y gwyllysydd wedi meirw i gyd, oddieithr Hugh Owen, o Fronclydwr, a Lewis Owen, ei frawd, y rhai a ddewisasant ymddiriedolwyr eraill, sef Richard Owen, o Beniarth, Yswain; John Owen, o Gae'r Berllan; Edward Owen, o Gwastadfryn; John Owen, o Fronclydwr, a'r dywededig William Williams,* o Beniarth Ucha', a Lewis Owen, o'r Waen Fach, y rhai oeddynt oll wedi meirw oddieithr y dywededig William Williams a Lewis Owen; ac yn mynegu yn mhellach, mai gan y dywededig a'r trancedig Richard Owen, pan yn fyw, yr oedd cadwraeth yr oll o'r gweithredoedd, y prawfion, a'r ysgrifau ynghylch pryniad y dywededig dyddynod, tiroedd, ac etifeddiaethau perthynol i'r ddywededig ysgol, a brynwyd â'r dywededig 400p., neu ryw ran o honynt, pa rai o iawnder a berthynent i'r dywededig ymddiriedolwyr; ac yn mynegu yn mhellach, ddarfod, ar farwolaeth y dywededig Richard Owen, i'r oll o'r gweithredoedd dywededig, ynghyd âg adysgrif o Ewyllys y Rhoddwr, y Weithred Ymddiriedol gyntaf a'r ail, a phob gweithred ac ysgrifen arall perthynol i'r

* Yr un ag y cyfeiriwyd ato yn flaenorol fel William Williams, o Beniarth Ucha.

ymddiriedaeth, ddyfod i feddiant Lewis Owain, Yswain, mab ac etifedd y dywededig Richard Owen; ac i'r dywededig William Williams, ar ol marwolaeth y dywededig Richard Owen, geisio gan y dywededig Lewis Owen, Yswain, roddi i fyny y dywededig weithredoedd ac ysgrifeniadau, fel y gellid adnewyddu yr ymddiriedau, ond ddarfod iddo omedd gwneuthur felly.—Ac mewn cysylltiad â sylwadau eraill, yn mynegu yn mhellach, fod y dywededig William Williams a Lewis Owen yn ewyllysgar i gynal i fyny y ddywededig ymddiriedaeth, yn unol â'r ddywededig Ewyllys, ac i'r amcan nad allai y dywededig Lewis Owen, Yswain, droi buddiant y ddywededig elusen er breintweisio plant tlodion tuag at ei ddibenion teuluaidd* ei hun, ond fel y gellid cymhwyso yr unrhyw yn unol âg Ewyllys y Rhoddwr, er yr anhawsderau oedd ar ffordd y dywededig William Williams a Lewis Owen, o eisiau y gweithredoedd a'r ysgrifeniadau rhagddywededig, ac yn neillduol y Weithred o Ymddiried a wnaed gan Lewis Owen, diweddar o Lincoln's Inn, Yswain, brawd y dywededig Hugh Owen. Tystiolaethwyd ddarfod i'r dywededig William Williams a Lewis Owen, fel ymddiriedolwyr oloesol, ganiatau a throsglwyddo yr holl dai, tiroedd, tyddynod ac etifeddiaethau hyny a elwir yn wahanredol, Ty'nybryn,† Nant Cynog, a Nantpŵl, ag a oeddynt yn nghymeriad gwahanredol y rhai a grybwyllir oddifewn, ynghyd â Bwlch y Gloddfa, pa un oedd ar y pryd yn naliad Lewis Owen, Yswain, gyda'u perthynolion, i'r dywededig John Owen, ac eraill o'r ail blaid, eu hetifeddion a'u dirprwywyr, i ddal yr unrhyw i'r dywededig John Owen, ac eraill, yn ganlynol i'w gallu hwy y dywededig William Williams a Lewis Owen, fel yr oedd yr unrhyw yn benodedig iddynt trwy y ddywededig Ewyllys, i'w gyflawni ymhob peth ganddynt hwy, y dywededig John Owen ac eraill, pa ryw allu i ddechreu yn uniongyrchol ar ol marwolaeth William Williams a Lewis Owen, neu un o honynt.

Trwy Ddeintysgrifau o Afaeleb a Gollyngeb, dyddiedig yn wahanredol y 12 a'r 13 o Hydref, 1796, rhwng Lewis Owen, Waenfach, yn Swydd Feirionydd, gwr eglwysig, Edward Owen, Pantphylip, a William Lloyd, Gwyddfryniau, y ddau yn y ddywededig swydd, o'r blaid gyntaf; Charles Jones, Machynlleth, yn Swydd Drefaldwyn, o'r ail blaid; a Syr Robert Williames Vaughan, Nannau, yn y ddywededig Swydd Feirionydd, barwnig, John Williams, Peniarth

---

* "To the use of his own domestics or relations."

† "Bryn" y gelwir y lle ar lafar gwlad. Tebygol mai talfyriad o Tyddyn y Bryn yw Ty yn y Bryn, neu Ty'n y Bryn. Yr un lle yw ag a elwir mewn man arall, "Tyddyn y Bryn y Gwyshion duon,"—gweision duon, onide?

Digitized by Google

Uchaf, yn yr un swydd, Ysw., Robert Owen, Waenfach, a ragenwyd, gwr eglwysig, Ellis Owen, Pantphylip, a ragenwyd, boneddwr, a John Lloyd, Gwyddfryniau, rhagenwedig, boneddwr, o'r drydedd blaid; yn mynegu ewyllys y dywededig Griffith Owen, dyddiedig y 3ydd o Chwefror, 1668; ac yn mynegu yn mhellach ddarfod i'r dywededig 400p., gael eu rhoddi allan yn mhryniad y tiroedd, tyddynod, a'r etifeddiaethau crybwylledig yn ol hyn oddifewn, ac y'u trosglwyddwyd i'r ymddiriedolwyr enwedig yn yr Ewyllys ddywededig, mewn etifeddiaeth hawlrydd, ar yr un ymddiriedau mynegedig oddifewn; ac hefyd yn mynegu i'r tiroedd a'r etifeddiaethau ddyfod trwy drosglwyddiad canol, yn arosedig ym meddiant y dywededig Lewis Owen, Edward Owen, a William Lloyd, yr unig ymddiriedolwyr oloesol, y rhai a benodasant Syr Robert Williames Vaughan ac eraill, o'r drydedd ran, i fod yn unedig gyda hwy fel ymddiriedolwyr y ddywededig elusen. Tystiolaethwyd ddarfod i'r cymdeithion dywededig o'r blaid gyntaf, o herwydd yr ystyriaeth enwol crybwylledig oddifewn, ganiatau i'r dywededig Charles Jones, a'i etifeddion, yr oll o'r gwahanol dai, tyddynod, tiroedd, a'r lleoedd hyny safledig ym mhlwyf Llanegryn, y rhai a elwir Nantypwl,* Tŷcoch, Nantcynog, a Thyddyn y Bryn y gwyshion (gweision) duon, ynghyd a'u perthynolion, i'w dal i'r crybwylledig Charles Jones, ei etifeddion a'i ddirprwywyr am byth i wasanaeth y dywededig gymdeithion o'r blaid gyntaf a'r drydedd, eu hetifeddion a'u dirprwywyr am byth, ar yr ymddiried y defnyddiant yr ardrethoedd, a'r enillion oddiwrthynt i'r dibenion cyfarwyddedig trwy ddywededig Ewyllys y Griffith Owen a nodwyd.

Y trosglwyddiad diweddaf y mynega y Dirprwywyr crybwylledig am dano yw un a wnaed trwy Ddeint-ysgrifau, o bryniad a gwerthiad, dyddiedig yn wahanredol y 19eg a'r 20fed o Fehefin, 1829, odan ba rai yr oedd yr ymddiriedolwyr dilynol, sef:—Hen Ymddiriedolwyr, Syr Robert Williames Vaughan, Nannau, barwnig; y Parch. Robert Owen, Waenfach, gwr eglwysig; Ellis Owen, Pantphylip, boneddwr; William Wynne, Peniarth, Ysw.; Griffith Howel Vaughan, Hengwrt, Ysw.; a'r Parch. William Lloyd, Blaenyglyn, gwr eglwysig; y rhai fel ymddiriedolwyr oloesol, a benodasant yn Ymddiriedolwyr newyddion,—Robert Williames Vaughan, Nannau, Ysw.; y Parch. John Jones, Ynysfaig, gwr eglwysig; Edward Owen, Pantphylip, boneddwr; John Lloyd, Gwyddfryniau, boneddwr; a

---

* **Nant y Pwll medd y Reports am y lle hwn yn y tudalen, 568.**

Digitized by Google

John Lloyd, Llanegryn, Maelanydd;* ac Edward Owen, ieu., Garthangharad, Ysw.

Desgrifir y lleoedd a drosglwyddwyd felly, fel yr oll o'r gwahanol dai, tyddynod, tiroedd, a'r lleoedd hyny sydd a'u mangreoedd yn mhlwyf Llanegryn, ac a elwir wrth y gwahanol enwau o Nantpŵl Tycoch, Nant Cynog, a "Tyddyn y Bryn y Gwyshion duon," yn ngwahanol feddiant daliadol William Dafis, John Roberts, a Robert Lloyd. Yn adeg adroddiadau y Dirprwywyr:—

| | P | S. | C. |
|---|---|---|---|
| Yr oedd y tyddyn a elwir Nantpŵl, ym mhlwyf Llan Egryn, cynwysedig o dyddyndy a thai allan, "ac o 30 i 40 erwi o dir," yn osodedig i Robert Lloyd, fel deiliad o flwyddyn i flwyddyn, am yr ardreth flynyddol o...... | 12 | 0 | 0 |
| Yr oedd y lleoedd hyn wedi cael eu rhoddi yn ddiweddar mewn cyflawn adgyweiriad gan yr ymddiriedolwyr, ac yr oedd dealltwriaeth gyda'r deiliad, ei fod i'w cadw mewn adgyweiriad da, neu dalu ychwanegiad o 10p. y cant ar ei ardreth. | | | |
| Yr oedd y tyddyn a elwir "Tyddyn y Bryn y Gwyshion-duon," ym mhlwyf Llan Egryn, cynwysedig o dyddyndy a thai allan, "ac oddeutu 60 erwi o dir," ynghyd â bwthyn a gardd o'r enw Ty Coch, yn osodedig i Martha Dafydd, am yr ardreth flynyddol o...... | 30 | 0 | 0 |
| Y deiliad i gadw y lleoedd mewn adgyweiriad. | | | |
| Yr oedd y tyddyn a elwir Nant Cynog, ym mhlwyf Llan Egryn, cynwysedig o dyddyndy a thai allan, "ac oddeutu 60 erwi o dir," wedi ei osod i John Roberts, fel deiliad o flwyddyn i flwyddyn, am yr ardreth blynyddol o.................................... | 25 | 0 | 0 |
| Yr oedd y tyddyn hwn hefyd yn ddiweddar wedi cael ei roddi mewn adgyweiriad gan yr ymddiriedolwyr, ac yr oedd dealltwriaeth gyda'r deiliad ei fod i'w cadw mewn adgyweiriad, neu dalu 10p. y cant o ychwanegiad at ei ardreth. | | | |
| Yr oedd yr ymddiriedolwyr hefyd mewn meddiant o 475p., Tair y Cant, Cedsoddion, y rhai ar y pryd oeddynt yn cynyrchu cyfran flynyddol o................ | 14 | 5 | 0 |
| | P81 | 5 | 0 |

* Shopkeeper medd y Reports. Gweler yn ei gylch mewn cysylltiad a Ffynnon y Fron. Tudal 309—11.

Digitized by Google

Mynegir i'r ariansawdd hon ddygroni oddiwrth gasgliad o'r ardrethoedd yn ystod dysbeidiad ar yr ysgol.

Yr athraw yn adeg ysgrifeniad Adroddiadau y Dirprwywyr ydoedd John Evans, a mynegir ar gareg ei fedd, yn mynwent Llanegryn, iddo fod yn athraw "Ysgol Rad Llanegryn am 47ain o flynyddoedd," ac iddo orphen ei yrfa yr 21ain o Chwefror, 1845, yn 74 mlwydd oed. Cafodd ei benodi yn athraw, yn ol Adroddiadau y Dirprwywyr, ar y 3ydd o Fehefin, 1812, a hyny gan yr ymddiriedolwyr.* Caniateid iddo ddwy drydedd ran o gyllid yr ysgol ysgrifenu, allan o ba swm y darparai inc, a phapyr, a phinau ysgrifenu i'r plant tlodion. Hefyd, yr oedd gwasanaeth y buarth chwareu† ganddo ag a amgylchynai yr ysgol. Ar y pryd hwnw derbynid i'r ysgol bob un a geisiai o holl blant rhanbarth Talybont, ac addysgid hwy yn rhydd oddiwrth draul. Ac yn ol yr unrhyw Adroddiadau, yr oedd 67 o blant, yn feibion a merched, yn ei mynychu, ond amrywiai eu nifer yn ol y tymor o'r flwyddyn, ac yn misoedd y gauaf byddai weithiau gynifer a 90 yn myned iddi. Addysgid hwy mewn darllenyddiaeth Saesneg, ysgrifenyddiaeth, a rhifyddiaeth, a holwyddorid hwy gan yr athraw bob dydd Sadwrn.

Breintweisiwyd rhwng y blynyddoedd 1807 ag 1833, a chymeryd y ddwy i fewn, gynifer a 44 o blant, yn feibion a merched, ac amrywiai

* Dywed y diweddar Mr. Wynne, o Beniarth, yn ei "History of the Parish of Llanegryn," tud. 27, ddarfod i John Owen, offeiriad, roddi i fyny y swydd o athraw yr ysgol hono yn y flwyddyn 1812. Ac i'r Feistrolaeth fod wedi hyny ar orddisgwyliad, ac i Mr. John Evans gael ei benodi yn athraw ysgrifenu, o dan ewyllys Griffith Owen. Yn awr, yn ol a ddywedir ar gareg fedd John Evans, y mae yn ymddangos ei fod yn addysgwr yn yr unrhyw ysgol yn amser y gwr parchedig a nodwyd. Ond dichon y cafodd osodiad mwy penodol yn y flwyddyn 1812. Nid ydoedd yn raddoledig o un o Brifysgolion y wlad hon, ac felly nis gallai gael ei benodi o dan ewyllys Hugh Owen. Yn ol a ddywed Mr. Wynne, penodwyd — Phillips, A.B., o Goleg y Drindod, Dublin, yn athraw yr ysgol hon yn y flwyddyn 1806. Bu ef farw yn fuan, a chafodd Mr. Owen Lloyd Griffith ei benodi yn athraw ysgrifenu dros dymor, ac yn mhen blynyddoedd gwedi penodwyd Griffith Arthur Jones, offeiriad, M.A., yn athraw yno. Bu newidiadau dilynol gwedi hyn, ond gadewir ar hyn yn awr.

† Rhoddwyd math o hèr yn amser meistrolaeth y dywededig Mr. John Evans, nad oedd yn gyfreithlon rhoddi gwasanaeth y buarth chwareu iddo; canys mynegir ddarfod i gyfreithiwr a ddaethai heibio pan oedd y fan o dan gnwd o ŷd ag oedd wedi ehedeg, ofyn i'r plant, wrth eu gweled yn chwareu ar ffordd y Talwrn, paham nad elent i'r buarth. Ac wedi iddynt hwythau ateb na chaent fyned, fod gwenith wedi cael ei hau ynddo, ceisiodd ganddynt fyned i chwareu i'r cae neu'r buarth hwnw, ac er eu darbwyllo i fyned, disgynodd oddiar ei farch gan ei roddi yn ngofal un o honynt, a darbwyllodd hwy i fyned gydag ef iddo. A dywedai wrthynt am beidio malio nac ysgolfeistr na neb, a dweyd mai "Twrna'r Trwyn" a barodd iddynt. Andwywyd cymaint ar yr ŷd trwy chwareuyddiaeth y plant ynddo, fel na chaed cnwd arno ar y pryd.

Digitized by Google

eu breintobrau o 7p. i 10p. A'r rhai hyn oeddynt bob amser blant tlodion cyfreithlon, ag a fuont yn ysgolheigion yn yr ysgol hon, ac wedi eu geni yn mhlwyf Llanegryn. Ond yn ol yr unrhyw Adroddiadau, gan nad oedd nifer digonol o blant priodol cymwysedig wedi cynyg eu hunain yn ddiweddar, chwyddodd yr arian i gymaint a 72p. 18s. 6c., o ba rai yr oedd 44p. 16s. 7½c. wedi eu rhoddi yn Ariandy Cynilion Dolgellau, eithr yr oedd yr oll yn gymwysiadol tuag at freintweisio, fel y deuai cyfleusderau i hyny. Dywed yr Adroddiadau a roddwyd gerbron y Senedd yn y flwyddyn 1834, mai Mr. Richard Jones, argraffydd, Dolgellau, oedd goruchwyliwr yr ymddiriedolwyr, ac y caniateid iddo 2p. 2s. o gyflog blynyddol. Nid oedd y meddiant-roddwyr mewn blynyddoedd diweddar wedi cymeryd yr ugain swllt caniataedig tuag at luniaeth yn eu cyfarfod.

Y draul am bedair blynedd, yn diweddu y 23ain o Orphenaf, 1833, oedd fel y canlyn :—

| | P. | S. | C. |
|---|---|---|---|
| Cyflog yr athraw .. .. .. .. .. .. | 169 | 14 | 10 |
| Cyflog y goruchwyliwr .. .. .. .. .. .. | 8 | 8 | 0 |
| Costau cyfraith am wneuthur trosglwyddiad i ymddiriedolwyr newyddion .. .. .. .. .. .. | 17 | 6 | 0 |
| Breintweision .. .. .. .. .. .. .. | 36 | 10 | 0 |
| Ardreth y Goron .. .. .. .. .. .. | 1 | 14 | 0 |
| Mân dreulion .. .. .. .. .. .. .. | 0 | 8 | 0 |
| Adgyweiriadau .. .. .. .. .. .. .. | 39 | 4 | 0 |
| | P273 | 5 | 5 |

Y gweddill ar y pryd yn llaw yr ymddiriedolwyr oedd 8p. 15s. 10½c.

Cynhelid cyfarfod blynyddol gan yr ymddiriedolwyr yn gyffredinol, yn mis Gorphenaf, pryd yr edrychid dros y cyfrifon, ac y trefnid gogyfer â gweinyddiad yr elusen yn briodol. Dechreua llyfrau y cyfrifon yn y flwyddyn 1807.

## ELUSEN HUGH OWEN I'R TLODION.

Dengys yr adroddiadau a roddwyd o flaen y Senedd yn y flwyddyn 1834 y mynegir yn y rhai a osodwyd gerbron y Senedd yn y flwyddyn 1786 ddarfod i Hugh Owen roddi 4p. yn flynyddol i'r tlodion, ond na wyddid y pryd hyny pa amser neu trwy ba foddion. Derbynid 4p. y

Digitized by Google

flwyddyn yn rheolaidd hyd y flwyddyn 1826, gan y gwarcheidwaid eglwysig, oddiwrth dirddeiliad Tyddyn y Blaidd, yn mhlwyf Llanegryn, man, yn ol adroddiadau 1834, oedd yn meddiant William Wynne, Ysw., Peniarth. Ac yr oedd cais i gael ei•wneyd ato yn ddioed am y gweddill, ynghyd a thaliad rheolaidd parhaol o'r flwydd-dal. Pan y'i derbynid, yr oeddid yn ei dosranu ymhlith tlodion y plwyf, mewn dosranau yn amrywio o 3s. i 6s. 6c., a hyny yn fwyaf neillduol i'r sawl nad oeddynt yn derbyn cymorth plwyfol.

Dywedir y talwyd yr ol-ddyled hon gan y diweddar hynafiaethydd Mr. Wynne, o Beniarth.

---

## PLWYF LLAN GELYNIN.

Y Celynin a fu mewn rhan yn achlysur o'r enw sydd ar y plwyf hwn ydoedd fab i Heli, neu Helyg ab Glanog, ag y goresgynodd y môr ei dir tua'r fan a elwir Traeth Lafan. Rhestrir ef yn un o Saint Ynys Prydain, a gosodir ei amseroedd yn y seithfed ganrif. Yn y crybwyllion Cof Cyfarwyddyd, yn Ysgrifau Iolo, nodir o barth amseriad a boddiad cyfoeth ei dad, a'i leoliad fel hyn: "331 y bu llifeiriant mawr o fôr ac o dir, ac y boddes gyfoeth Helig ap Glannog, o Dyno helig, ac ei collwyd yn anesgorol, sef oedd y cyfoeth hyny am yr elai Glwyd yn Aerfen hyd ydd elai Afon Branc ym Môr y Gogledd." Ond i fod yn unol â'r adeg yr oesai Celynin ei fab, y mae yr amseriad sydd yn y dyfyniad hwn yn llawer rhy foreu, a thebygol mai felly y mae. Yr ydoedd Celynin, gyda bod yn sylfaenydd y Llan Gelynin dan sylw, yn sylfaenydd Llangelynin ger Aberconwy hefyd. Ac fel hyn ymddengys ei fod yn wr o gryn ymroddiad yn achos crefydd. O ran teulu, hanai o gyff-âch tywysogol, a rhed ei âchlin fel hyn: Celynin ab Helyg Foel, ab Glanog o Dyno Helyg, ab Gwgan Gleddyfrudd, ab Caradawc Freichfras, ab Llyr Merini, ab Einion Yrth ab Cynedda Wledig.

Ceir enwau amryw o frodyr iddo yn rhestr Seintiau Ynys Prydain, ond ymddengys nas gellir penderfynu eu nifer. Canys yn ol Llyfr Hafod Uchtryd,* gosodir Bedo, Gwynin, a Brothen yn feibion Glanawg fab Helyg Foel o Dyno Helyg, ac yn unol â hyn ewythrod

* Gweler Myf. Arch., arg. MDCCCLXX, tudal. 146.

Digitized by Google

oeddynt i Celynin. Ond yn Monedd y Saint, fel ei ceir yn Henafiant Cymru,* wedi ei godi allan o'r unrhyw lyfr, ni sonir am Celynin, nac am yr un mab arall i Helyg. Eithr mewn manau eraill, yn yr unrhyw henafiant, gosodir hwy yn feibion i Helyg, ac yn ol hyny yn frodyr i Celynin, ac y mae y rhai dilynol hefyd yn cael eu nodi yn feibion iddo, sef Bedwas, Brenda, Boda, Gwyar, Peris, Aelgyfarch, Ernin, Rhychwyn, Euryn y Coed Helyg, a Bodfan—Bodwan.

Ceir nifer meibion Helyg ab Glanog, a'u henwau, ac o barth iddynt fel hyn yn ysgrifau Iolo † :—

| | |
|---|---|
| 1. Gwyar.<br>2. Celynin.<br>3. Euryn y Coed helic.<br>4. Gwynnwn.<br>5. Boda.<br>6. Bodwan.<br>7. Bedwas.<br>8. Brendaf.<br>9. Rychwyn.<br>10. Brothen.<br>11. Elgyfarch.<br>12. Peris. | Deuddengmab Helic ap Glannawc, o Dyno Helic yn y Gogledd, a oresgynnes y Mor eu Tiroedd, a Saint ym Mangor fawr ym Maelawr y buant. a gwedi hyny ydd aethant rai o honynt i Gôr Cadfan yn Enlli, ag yn Amser Rhun ab Maelgwn y buant. |

Mewn man arall yn ysgrifau Iolo,‡ nodir Ernin yn un o feibion Helyg ab Glanog, lle, hefyd, y dynodir ei dad yn Helic ap Glannawc, o Faes Gwyddnaw, fel hyn :—

| | |
|---|---|
| Bodfan<br>Brothen<br>Ernin<br>Brenda | Meibion Helic ap Glannawc, o Faes Gwyddnaw, a oresgynnes mor eu tiroedd, Saint yng Ngwynedd ydynt o Fangor Enlli. |

Saif hen Lan Gelynin § tua dwy filldir yn nes i Aberdysyni na Llwyn Gwril, a cherllaw y môr, ond rhed llinell y ffordd haiarn rhyngddynt â'u gilydd. Pa faint bynag o gyfnewidiadau a fu ar yr hen Lan er

* Sef y Myf. Arch. of Wales.
† Iolo MSS., tudal. 124.
‡ Eto, tudal. 106.
§ Dywed hen chwedl y bwriadwyd adeiladu Llan Gelynin mewn man sydd ar dir Bodgadfan, ond y byddai cymaint o gerig ag a ddygid i'r fan hono y dydd, tuag at ei hadeiladu, wedi eu dwyn ymaith erbyn y boreu i fangre lle y mae Llan Gelynin. Y mae rhai meini ar y fan a nodir yn y chwedl y bwriadwyd ei chyfodi ar y cyntaf.

Digitized by Google

amser ei sefydliad, y mae yn parhau i ddwyn enw ei sefydlydd; ond nid ydys yn dal i gynal gwasanaeth eglwysig ynddi yn awr, eithr cynhelir y gwasanaeth yn yr Eglwys sydd gerllaw pentref Llwyn Gwril, yr hon a adeiladwyd yn y flwyddyn 1842. Y mae, hefyd, ddau gapel eglwysig yn y plwyf, y naill yn Arthog, yr hwn a elwir Capel Arthog, ac a agorwyd tua'r flwyddyn 1807, a'r llall ger Rhoslefain,* pa un a agorwyd yn Ngorphenaf y flwyddyn 1870.

Ond heblaw yr adeiladau eglwysig hyn, bu gynt hen eglwys yn sefyll gerllaw, neu tua'r fan y saif yr amaethdy neu y neuadd a elwir Llan Fendigaid. Ac ymddengys yn amlwg mai Llan Fendigaid oedd enw yr hen eglwys hono, a bod yr amaethdy a nodwyd yn dwyn ei enw yn awr. Tybir mai ar y maes a elwir Cae'r Capel, ychydig o bellder oddiwrth y tŷ, y safai; a dywed Cathral yn ei chylch yn ei hanes o Ogledd Cymru, argraffedig yn y flwyddyn 1828, i'r ystyr ddilynol:—

"Yr oedd wrth Lanfendigaid, yn y plwyf hwn, tua deugain mlynedd yn ol, gapel bychan, yr unig ran arosol o hen eglwys. Tua'r pryd yna symudwyd cysgodlen gain i dŷ a elwir Maes y Pandy ym mhlwyf Tal y Llyn, a defnyddiwyd rhan o honi fel cysgodlen gwely." Tebygol mai eglwys babyddol oedd yr hen Lan hon, o leiaf y mae y dynodiant o Fendigaid fel yn awgrymu y bu a fynai y Pabyddion â hi.

Yn Nghof-lyfr (†) Caernarfon, o dan y penawd "Extenta Com' Meryoneth," a wnaed fel yr ymddengys yn y seithfed flwyddyn o deyrnasiad Harri y pumed, ceir cofnodiad i'r ystyr a ganlyn:—

"LLANFENDIGAID.—Yn yr unrhyw dreflan mae darn penodol o dir a elwir Llanfendigaid, ag a osodir am 14s. 4c., taledig bob blwyddyn i'r arglwydd dywysog, mewn rhanau cyfartal ar wyliau y Pasg a St. Mihangel. Ac y mae yn yr unrhyw dreflan, ddarn arall o dir a elwir tir M'edd Foel ab Conofan, ag a osodir am 13s. 4c., yn y flwyddyn, &c., yn daledig ar y gwyliau a gyn-enwyd. Ac y mae yn yr unrhyw dreflan, ddarn penodol arall o dir, ag a elwir, tir Gwyn ab Ieuan, yn Llanfendigaid, ag a osodir am 5s. y flwyddyn, yn daledig ar y gwyliau a gyn-enwyd. Ac yr oedd yn yr unrhyw dreflan yn yr hen amser ddau (hoies) a elwir Eign ab Ph' & Grono ab Ph', y rhai a arferynt roi i'r arglwydd dywysog ym mlwyddyn gorchfygiad Cymru, ac am hir amser gwedi, i frenhinoedd Lloegr, a thywysogion Cymru, y swm o 5s. ar y gwyliau a gyn-enwyd.

Cyfanswm blynyddol, 31s. 8c."

* Ar dymhorau neu adegau y cynhelir gwasanaeth yno.

(†) Record of Caernarvon, tudal. 272.

Eithr heblaw yr adeiladau eglwysig a nodwyd, y mae gan yr enwadau Ymneillduol wyth o leoedd i gynal gwasanaeth crefyddol ynddynt yn y plwyf, sef dau gapel gan y Trefnyddion Wesleyaidd, tri gan y Trefnyddion Calfinaidd, a dau gan yr Annibynwyr.

---

## LLEOEDD.

---

### LLWYN GWRYL.

---

Fel y crybwyllwyd eisoes y mae yn y plwyf bentref o'r enw Llwyn Gwryl, a saif ar gwr eithaf gwastadedd bychan dymunol, sydd ar lan y môr a ymdona yn ei rwysg ar hen fangre Cantref Gwaelod. Hefyd y mae un o'r trefddegymau perthynol i'r plwyf yn dwyn y dynodiant Llwyn Gwryl. Safai y llwyn a elwid Llwyn Gwryl, yn ol fel y dywedir, yn agos i'r amaethdy a elwir y Borth Wen, a dywedir mai ystyr yr enw yw *llwyn gwyr fil*, oherwydd i gynifer a mil o ryfelwyr fod yn aros yno. Ond pa fodd bynag am ymladdwyr a ddichon fod yn sefyll tua'r fan yn yr hen amser, diameu nad ydyw y dywediad gwerinol hwn am danynt, ac am gael o'r lle yr enw Llwyn Gwryl oddiwrth y *gwyr fil* honedig, namyn ymgais wan i gael ystyr iddo. Ymddengys yn hytrach mai enw personol yw Gwril, neu Gwryl, ac ddarfod i'r llwyn gael ei alw ar enw rhyw un neu gilydd a ddygai y cyfryw. Ac ddarfod ymhen amser i'r drefddegwm a'r pentref gael eu henwau yn herwydd yr unrhyw lwyn. Ceir Gwyril a Gwyryl, yn enw ar ferch yn yr âch-lyfr, gan Lewis Dwnn. A gelwir un o feibion Efroc frenin yn Gwryl.

Y mae yn y plwyf amryw dyddyndai yn cael eu galw ar enwau personol. Ac fel y cyfryw ceir nodi Bod Gadfan, Bodwlan, Tyddyn Sieffre, Carn y Gadell, Pant Engian (Einion), Pant Phylip, ac Ynys Faig.

O barth *Faig* yn Ynys Faig, gellir sylwi y ceir y fath enw personol a *Maig*, yn Monedd, neu yn Achau Saint Ynys Prydain,* yn y

---

* Yn y Myf. Arch. td. 430. Yn Iolo MSS. ceir y sylw :—"Tudfyl ferch Frychan oedd gwraig Cynghen ap Cadell Deyrnllwg, a mam Brochwel Ysgithawc," gwelor td. 121.



Digitized by Google

cysylltiad dilynol; "Tangwystl verch Brychan, gwraig Cyngen ap Cadell deyrnllyg, mam Brochwel ysgithrog a Maig a Ieuaf."

Feallai fod Arthog yn enw yr hen dyddyndy a elwid Pwll Arthog, pa un a safai ar y fan y mae y lle a elwir Arthog Hall, wedi ei gymeryd oddiwrth enw personol. Canys yn Monedd, * neu yr Achau crybwylledig, ceir yr enw personol Arthog yn y ffurf o Arthawc ac Arthawg yn y cysylltiadau hyn,—" Kyngar. ap Arthawc ap Keredic, &c., C."

"Cyngar ap Arthawg ap Ceredig ap Cunedda Wledig, T.W. 2."* Hefyd, ceir " Gwynlleu ap Cyngar ap Garthauc ap Cunedda wledig. B." Ar ffurf o "Gwynlleu m. Cyngar m. garthauc m. Keredic m. Cuneda wledic. D.L.M." Ynghyd â "Gwenlliw ap Kyngar ap arthawg ap Keredig ap Cunedda wledic, C."†

Dichon mai dwyn enw personol y mai *Silig* neu *Siling*, yn nynodiant y tyddyndy a elwir ar lafar gwlad yn *Nantsilig* neu *Nantsiling*, pa enw a ddygid unwaith, fel yr ymddengys, gan y nant a red heibio gerllaw iddo. Hyny yw, os nad ydys i ddeall fod y dynodiant hwn yn golygu y dernyn arian a elwir *shilling* yn Saesneg. Ond, a chaniatau mai dynodiant yw wedi ei gymeryd yn anuniongyrchol oddiwrth enw personol, ymddengys fod yn ormod o ystumiad arno, gan y gosodir *g* fel terfyniad iddo, i honi yn benodol ei fod yr un enw a Sulien neu Silin, a geir yn y dyfyniad canlynol allan o gofnod yn y Gwyddoniadur Cymreig, Cyf. ii., t. 27. Er hyny, dichon maie. Ac y mae cymaint o debygolrwydd rhyngddynt mewn ystyr, fel yr ymddengys yn briodol ei ddwyn i sylw, a rhed fel hyn:— "Sulien=Silin, ab Hywel, ab Emyr Llydaw:—6ed canrif. Efe a wnaeth eglwys Llansilin a chapel Silin yn Ngwynedd, ac eglwys Sulien a chapel Silin yn Nyfed." Ceir yr enw Sulien yn y Myfyrian Archaiolygy ‡ yn y ffurf o Sylien fel hyn:—" Sylien neu Suiien a ddaeth gyda Chadvan i'r ynys hon."

Hefyd dyna y tyddyndy a elwir ar lafar gwlad, *Part* y Gwyddwch, neu *Part* Gwyddwch, dichon mai oddiwrth enw personol y cafodd ei ran ddynodiant o Gwyddwch, ac mai *Parth* neu *Fuarth* sydd i'w olygu wrth *Part*, y rhan arall iddo. Ceir yn un o englynion y beddau, yn llyfr Skene, yr enw personol Gwythwch, ac wele yr englyn lle ei ceir:—

---

* Myf. Arch., arg. MDCCCLXX, Cyf. ii., td. 33. 421, 426. † Eto.
‡ Argraffiad MDCCCLXX, td. 429.

Digitized by Google

PIEV y bet hun nid
Aral Guythwch urth ervid
Trath lathei chvarchei vrthid.

Ond o'r tu arall gall mai hwch y coed neu hwch wyllt a olyga Gwyddwch yn enw y tyddyndy dan sylw. Canys yn y Gododin * ceir y gair neu yr enw Gwythwch, yn yr ail linell o'r rhai canlynol yn golygu hwch wyllt, neu yn ol y cyfieithiad Saesneg yn y Gyf. ii., td. 406, o'r *Four Ancient Books of Wales*† (Skene,)—baedd gwyllt, ond wele y llinellau y cyfeirir atynt :—

"Pan elei dy dat ty e vynyd.
Dydygei ef penn ywrch pen gwythwch penn hyd.
Penn grugyar vreith o venyd.
Penn pysg o raydyr derwennyd.
O'r sawl yt gyrhaedei dy dat ty ae giewein
O wythwch a llewyn a llwyuein
Nyt anghei oll ny uei oradein."

Yn ol gosodiad Aneurin Owen, dywed dull Gwent o hen Gyfreithiau Cymru, fel hyn : "Gwythwch un werth ac un ardyrchauel a hwch tref."

Y mae man'neu fanau ar dir y Deildref yn dwyn yr enw Creigiau'r Morwydd ; ac, feallai, mai dynodiant personol yw Morwydd sydd ar y Creigiau hyny. Ystyria amaethydd a fu yn trigianu yn yr ardal, gan gymeryd ei ddyfaliad oddiwrth yr hanes mewn cysylltiad â'r Morwydd yn amser Gideon, iddynt dderbyn y dynodiant hwn am fod yn eu mangre swn gwynt i'w glywed, pryd mai distawrwydd fyddai mewn manau eraill, ac heb nemawr o wynt, ychwaith, yn chwythu yn y cyfamser. Modd bynag, nid ymddengys hyn yn derfynol ; a'r rheswm dros osod y gall mai dynodiant oddiwrth enw personol ydyw *Morwydd*, yn y cysylltiad hwn yw, yr oesai un gynt ag a ddygai y cyfryw enw. Canys ceir yn y Liber Landavensis enw un *Morwydd* fel tyst lleygol, ymysg eraill, o roddion Eglwysig yn y Deheudir, cyflwynedig gan y brenhinoedd Iddon ab Ynyr Gwent, a Gwrfodw, yr hwn ydoedd frenin gwlad Ergyng. Gosodir allan o barth un o'r cyflwyniadau gan Iddon ddarfod iddo, yn gyfnewid am wlad dragwyddol, aberthu un o'i drigfanau, sef Llan Garth, a'i holl

* *The Four Ancient Books of Wales.*
† Gweler Cyf. i., td. 406, o'r unrhyw *Four Ancients Books of Wales.*

diriogaeth, pa un a berthynai gynt i'r Archesgob, St. Dubricius, gyda'i holl ryddid, a nawdd Eglwys St. Pedr, yn Llandaf, i'r Archesgob Teilo, a'r oll o'i olynwyr, heb unrhyw daliad daearol, mawr neu fach, heblaw i Dduw, ac i Eglwys Llandaf, a chyda chyflawn gydbawrfraint oddifewn ac oddiallan, mewn maes ac mewn coed, mewn dwfr ac mewn porfa. A'r brenin yn myned oddiamgylch yr holl diriogaeth, ac yn cario yr Efengyl ar ei gefn, gyda'r offeiriaid yn dwyn croesau yn eu dwylaw, ac yn taenu dwfr sanctaidd, a llwch palmant yr Eglwys a'r beddau, yn ei holl derfynau, a ymdeithiasant yr oll, a chyhoeddwyd melldith ac esgymundod neillduol yn unfrydol ar bawb a wahanai y lle hwnw, gyda'r diriogaeth a'r terfynau gosodedig, oddiwrth Eglwys Llandaf, a'i phorfeydd, am byth; a bendith ar y rhai a'u cadwent mewn heddwch.

Yn nghymydogaeth Creigiau Morwydd y mae anedd, annrhigianol yn awr, o'r enw Bwlch Gilbert, pa un a gafodd y rhanddynodiad *Bwlch* oddiwrth ddullwedd y tir tua'r fan, ac y mae Gilbert yn golygu enw personol. Ond ymddengys y gelwid yr enw Bwlch Gilbert ar ryw fan tua'i safle, cyn dodiad yr unrhyw arni.

Y mae yn ardal Llwyngwryl dyddyndy o'r enw Rhiwgaeron, ac yn agos i safle yr hen Gaer ag y cyfeirir ati gyntaf o'r ddwy a nodir yn ddilynol. Ac os nad yw yr unrhyw yn dwyn y rhan-enw Gaeron yn herwydd y Gaer hono, fel amddiffynfa filwrol, tebygol mai dwyn enw personol y mae, yn anuniongyrchol; canys yn yr Iolo MSS, t.d. 35, ceir y sylwad dilynol:—"Caeron ab Hywel ab Elged, Arlwydd Llanfaes Illtyd, a ddug Asur [sabl] Triphorth Castell, yn egored o'r aur, bu fyw chweugeinmlwydd a phumtheg." Yn y dyfyniad hwn ceir yr enw Caeron; ond, ymddengys mai *rhiw* penodol tua'r Gaer neu'r tyddyndy a dderbyniodd yr enw Rhiwgaeron gyntaf, pa un bynag ai oddiwrth yr hen Gaer, fel amddiffynfa, ai oddiwrth Caeron, fel enw personol y gwnaeth, hyny yw, os nad enw personol yw Rhiwgaeron ei hunan.

## Y GAER.

Saif gweddillion yr hen amddiffynfa hon ychydig o bellder oddiar Lwyn Gwryl, ac ar y tu deheuol iddo. Yn ol traddodiad, cymerodd ymladdfeydd gwaedlyd le o gylch y fan, rhwng y rhai a ddalient y Gaerfa, a'u gelynion. Dywedir y byddai penaeth y gwarchodlu yn

Digitized by Google

trigianu yn yr amaethdy a elwir Carn Gadell Uchaf, ac yr ymladdwyd un o'r brwydrau crybwylledig ar dir y Coed Mawr, rhwng y penaeth hwn a'i elynion. Y mae yn y gymydogaeth ddau amaethdy, yn dwyn yr enwau Carn Gadell, y rhai er mwyn gwahaniaeth a ddynodir,—y naill yn Garn Gadell Uchaf, a'r llall yn Garn Gadell Isaf. Ond diameu mai enw benthyciol yw Carn Gadell ar y manau hyn, ac wedi ei gymeryd oddiwrth Garnedd a orphwysai yn rhywle ar lawr y gymydogaeth. Ac ymddengys fod y Garnedd hono wedi ei rhoddi yn wyddfa feddrodol i'r Cadell y gelwir ei enw arni, pwy bynag ydoedd hwnw. Gelwir un ystafell sydd yn Ngharn Gadell Uchaf, yn siambr yr aglwyddes, eithr y mae mynegu pwy ydoedd yr arglwyddes hono, a pha bryd yr oesai, yn ormod o gamp yn awr.

Y mae yn y plwyf hefyd weddillion hen amddiffynfa arall, a elwir Y Gaer, pa un sydd a'i safle gerllaw tyddyndai y Castell Mawr a'r Castell Bach, y rhai, fel yr ymddengys, a gawsant y dynodiant o gastell yn herwydd yr hen amddiffynfa hono. Er hyny, tebygol mai yn anuniongyrchol y cafodd yr olaf a nodwyd o honynt y cyfryw ddynodiant, gan yr ymddengys nad yw yn y berthynas hon namyn enwad gwahaniaethol oddiwrth y llall.

Y mae yn safledig ar y bryncyn lle yr erys olion o'r hen Gaer hono, feini o gryn faintioli, ac yn gymaint felly fel yr ymddengys yn nodedig ar ryw olwg fod eu bathau yn y cyfryw le. Diameu nad trwy law ddynol eu dygwyd yno, eithr mai trwy weithrediad yn natur. Ond pa weithrediad? Dichon y dywed y naturiaethwr mai dylanwad eir-lithriad. Modd bynag, gellir sylwi fod yno, mewn un man, megis tair maen, ag a fuont ar y cyntaf feallai yn unedig, neu ynte yn rhan o graig holltedig. Gorwedda un o honynt ar y llall, gan gyffwrdd hefyd a'r drydedd. A cherllaw, y mae yn awr ddwy o feini, y rhai yn ol a ddywedir a oeddynt unwaith megis un, er ar y pryd hyny yn holltedig, ac hwyrach heb fod yn gysylltiedig. Ond pa un bynag gwahanwyd hwy oddiwrth eu gilydd tua'r flwyddyn 1847, a hyny trwy waith dynion, er mwyn cael gafael mewn crochan aur ag y dywedid ei fod o dan y gareg hono. Eithr o ran cael hyd i'r fath drysor euraidd ni chafwyd "dim ond y boen am y drafferth."

## LLYS BRADWEN.

Y mae safle ac olion yr hen Lys hwn ger glan ogleddol afon Pant y Llan. Ac yn bresenol, gelwir y maes lle y maent Maes Pant

Digitized by Google

Llan, neu Pant y Llan; ond ei enw yn flaenorol oedd Maes Crygenan, a bu, ar un amser, yn perthyn i'r tyddyn a elwir Crygenan, eithr perthyna yn awr i'r un a adnabyddir fel Pant Llan. Dengys yr olion y perthynai i adeilad Llys Bradwen ddwy ddosran gydgysylltiol. A mesura y fwyaf o honynt, yn un pen iddi, tua chan' troedfedd ar ei thraws megis; ond, y mae y pen arall iddi yn gulach o ryw naw troedfedd. A mesura y ddosran y ffordd arall oddeutu naw deg a chwech o droedfeddi, ac yn yr ochr arall ryw naw deg a dwy o droedfeddi yr un modd. Y mae maintioli y ddosran arall, ar draws un pen iddi, yn rhyw dri deg ac wyth, neu dri deg a naw o droedfeddi; ond, feallai fod cornel allanol y pen arall yn troi i mewn, ac fod yr encyd ryw bedair troedfedd yn llai. Ei hyd sydd oddeutu pedair a deugain o droedfeddi. Mesuriadau y tu mewn i'r dosranau yw y rhai hyn.

Dywed Pennant fod dwy gareg yn sefyll o bob tu i'r fynedfa; eithr y mae y rhai hyny yn awr yn gorwedd yn ddymchweledig wrth y fan,—un o honynt wedi ei bwrw i lawr tua'r flwyddyn 1876, o'r hon yr holltwyd darn ymaith.—A'r llall wedi ei dymchwelyd ryw dro oddeutu'r flwyddyn 1863, os nad tua'r flwyddyn 1854, a bu yr hen bregethwr, Lewis Morris, yn pregethu wrth ymyl y gareg hon ar brydnhawn dydd Sabbath, tua'r flwyddyn 1808, a byddai yn rhoddi pwys ei benelin ar ei phen, weithiau, ar y pryd.

Dywedir mewn nodyn o barth Llys Bradwen, yn y Camb. Reg, Cyf. I., t. 153, y trigianai y penaeth yn y ddosran fwyaf o'r adeilad, ac mai y ddosran leiaf, pa un a ddarlunir ynddo yn gyfeiliornus fel un gron, oedd y llys barn. Nid yw y dosranau hyn yn amgylchynedig gan warchgloddiau a ffosydd milwrol, ac y mae eu talcenau, yn un cyfeiriad, yn y ddaear megis.

Fel y cyfeiriwyd eisoes mewn ystyr, dynodiant oddiwrth enw personol yw Bradwen, a geir ar y Llys hwn. Nid yw yn ymddangos fod ar gael ddim o hanes gweithredoedd y Bradwen y gelwir y llys ar ei enw; ond, y mae yn cael ei ddynodi yn arglwydd Dolgellau, ac yn gyffredin dynodir ei fab, neu ei ŵyr, yn Ednywain ab Bradwen, yr hwn hefyd a ddynodir fel arglwydd Dolgellau. Y mae yr Ednywain ab Bradwen hwn, hefyd, yn cael ei osod yn un o Bymtheg Llwyth

---

**NODYN.—Yr ydys yn y t.d. 23, wrth gyfeirio at yr helynt rhwng Dafydd ab Llywelyn ab Iorwerth, a Harri, brenin Lloegr, a'r Pab, wedi nodi *na ddychwelodd y Pab mo arian Dafydd yn ol iddo.* Yn ol Mathew Paris, cafodd Dafydd lythyrau oddiwrth y Pab, ond nid heb draul fawr mewn arian; ac wrth ystyried a ddywed yr un gwr yn yr achos, dichon mai na ddychwelodd y Pab anrheg arianol Dafydd yn ol iddo fuasai yn fwy priodol i'w ddywedyd, neu ryw eiriau cyfystyr.**

Digitized by Google

Gwynedd, ac yn oesi yn amser y Tywysog Gruffydd ab Cynan. Ac wrth ystyried hyn, tebygol y trigianai Bradwen yn y Llys dan sylw yn yr unfed ganrif ar ddeg, neu y ddeuddegfed.

Y mae achyddwyr yn priodoli disgyniad urddasol i Bradwen o ran teulu, er hyny, gwahaniaethant yn fawr yn eu holreiniad o linell ei darddiad. Rhed lliaws o uchelwyr y wlad eu hachau ato, er mai Ednywain ab Bradwen, mewn ystyr, a gymerir ganddynt fel cyff-âch eu tarddiad, a hyny, tebygol, am ei fod yn un o Bymtheg Llwyth Gwynedd.

Gosodir Ednywain ab Bradwen mewn âch-ysgriflyfr o gasgliad y Parch. Edward Jones, Llandegai, yn arglwydd Llŷs Bradwen, ac y mae amryw o ysgrifenwyr yn ei alw yn arglwydd Meirionydd. Ond o barth y priodoliad o arglwyddiaeth Meirionydd iddo, dywed yr hynafiaethydd Robert Fychan, yr Hengwrt, i'r ystyr a ganlyn :—

Gelwir ef gan lawer o ysgrifenwyr yn arglwydd Meirionydd, yr hyn sydd, yr wyf yn meddwl, yn gyfeiliornad, oblegid yr oedd y tywysogion a'u disgynyddion bob amser yn arglwyddi Meirionydd. Ond pa fodd bynag, gallai iddo ef (fel eraill) gymeryd yr unrhyw dan ardreth, ac felly gellid ei alw yn arglwydd y cyfryw. Er hyny, y mae yn sicr ei fod ef a'i ddisgynyddion yn perchenogi yr oll o Dal y Bont, oddigerth Nanau, a thiriogaethau y tywysog, a'r rhan fwyaf o Gantref Ystumaner. Arfbais Ednywain ab Bradwen ydynt; dair neidr arianaidd mewn cwlwm trionglog yn y maes rhuddgoch.

## FFYNON WEN GYNFAL.

Tardd y ffynon hon mewn rhan o'r maes ag y mae olion Llys Bradwen ynddo, ond encyd islaw iddo, a rhed afon Pant Llan heibio gerllaw iddi. Cyfrifid fod ei dwfr yn rhinweddol i wella y gewynwst, a byddai llawer o gyrchu iddi gynt er cael gwellhad o'r anhwyldeb tostlym hwnw. Codwyd clawdd bychan er cynorthwyo ei chyfluniad yn ffynon megis, ond gwasanaethai y dorlan i'r unrhyw ddiben ar un tu iddi. Eithr, er y gofal hwn a fu yn ei chylch amser yn ol, y mae bellach wedi ei gadael yn ddidrefn.

## YR EGLWYS GOEL.

Y mae safle olion yr hen Eglwys hon yn agos i safle Llys Bradwen, eithr uwchlaw, ac ar y tu deheuol i afon Pant Llan. Ymddengys mai

Digitized by Google

fel Llan, ac nid fel Eglwys, ei hadnabyddid ar y cyntaf, gan mai Pant Llan, neu Pant y Llan, y gelwir tyddyndy gerllaw, canys diameu mai oddiwrth y Llan neu yr Eglwys hon y cafodd ei enw mewn rhan. Y mae lle i dybio, oddiwrth y dynodiant *Goel* a berthyn iddi, y byddid gynt yn cymeryd argoelion oddiwrth ryw ddullweddau neu arferion mewn perthynas â hi; eithr nid oes unrhyw draddodiad yn aros fel sail i dybio hyny, pa fodd bynag. Gellir nodi y bu gynt frenin o'r enw Coel Godebog, yr hwn a restrir yn un o Saint Ynys Prydain. A'r brenin hwn a gyfododd Eglwys Llandaf, a dichon mai oddiwrth ryw un neu gilydd a elwid Coel, fel ei sefydlydd, y cafodd yr Eglwys hon ei henw. Ceir yr enw personol Coel yn yr hen englyn dilynol, allan o Englynion y Beddau :—

> "PIEV y bet yn llethir. y brin.
> Llauer ni guir ae gowin
> Bet y Coel mab Kinvelin."

Ceir yr enw Coel, hefyd, yn y llinell ganlynol :—

> * "A cheneu vab Koel bydei kymwyawc."

Y mae yn ymddangos oddiwrth yr olion fod rhan o'r Eglwys a'i hadeiladwaith yn y ddaear, a thebygol mai ei thalcen oedd; ac os felly, yr oedd ei gyfeiriad i'r de-orllewin. Bu yr Eglwys hon yn cael ei phreswylio fel anedd-dy neu dyddyndy mor ddiweddar a thua'r flwyddyn 1796, neu, hwyrach, ryw ddeng mlynedd yn ddiweddarach. Y mae yn ymddangos, oddiwrth yr olion, y bu yma ddwy ystafell gysylltiol; ond a oeddynt felly pan oedd yn adeilad Eglwysig, ai ynte cyfnewidiad dilynol a barodd hyny, nis ceisir penderfynu yma. Y mae olion gardd neu fuarth i'w ganfod fel yn gysylltiedig âg olion yr adeilad.

## OGOF YWAIN.

Fel y crybwyllwyd mewn lle arall, y mae mangre yr ogof hon yn mîn y môr islaw Llanfendigaid. Dywedir i'r gwron Ywain Glyndwr fod yn llechu ynddi pan oedd digwyddiadau rhyfel wedi troi yn ei erbyn, yn adeg ei ymgodiad dewrwych ef a'i Gymry ffyrnigwyllt a gwrol yn erbyn Llywodraeth Lloegr. Ac yn ol a ddywedir, cynorthwyid ef i ddiogelu ei hun trwy gael ei gynal â lluniaeth ynddi gan Gymro o lîn Ednywain ab Bradwen, sef Ednyfed ab Aron. Gweler cyfeiriad ato yn t.d. 317.

---

* The Four Ancient Books of Wales, Skene, Cyf. II., t. 189.

Digitized by Google

Gellir sylwi, oddiar awdurdod* y diweddar hynafiaethydd Mr. Wynne, o Beniarth, fod yn y 133 o Ysgrifau yr Hengwrt (ysgrif o deyrnasiad Harri VIII., yn cynwys dyfyniadau o, neu ddarnau o'r gweithiau a briodolir i Merddin a Taliesin) ddwy ddalen o femrwn teg wedi eu gosod, o amseriad llawer boreuach, ac yn cynwys yr hyn a ymddengys ei fod yn rhan o goflyfr o ddygwyddiadau nodedig. Ar un o'r dalenau hyn, y mae yr hysbysiad canlynol am farwolaeth Ywain Glyndwr:—"Obitus Owain Glyndwr die sancti mathei apostoli anno domini millimo ccccxv."

## BEDD Y MILWR.

Gerllaw Ogof Ywain y mae, neu mewn ystyr, yr oedd man yn dwyn yr enw Bedd y Milwr. Ond nid oes dim o hanes y rhyfelwr hwnw ar gael, ac nid yw yn ymddangos y gellir dynodi yn fanwl fan ei feddrod, eithr, er hyny, y mae yn debygol ddarfod i ryw filwr neu gilydd gael beddrod yn y fan. A'r hyn sydd yn awgrymu hyny yw, y dynodiant, "Bedd y Milwr," a roddir ar fangre sydd yn rhywle gerllaw yr ogof grybwylledig. Dywedir y bu careg ag argraff arni yn aros unwaith oddiar ac yn ymyl yr ogof hon, a rhyngddi â'r hen ffordd drefddegwm sydd yn myned heibio gerllaw. Mynegir hefyd ddarfod i'r gareg hono gael ei thaflu dros y fôr-geulan mewn direidi gan saer-maen o Lwyn Gwryl. Ac ymddengys i'r fath weithred wirion-ffol gael ei chyflawni yn y rhan olaf o'r ganrif ddiweddaf.

## RHOS LEFAIN.

Y mae yn y plwyf dyddyndŷ, ynghyd a'i dyddyndir perthynol, yn dwyn yr enw Rhos Lefain. Ond y mae yn ddigon eglur mai enw yw a fu unwaith ar rosdir gerllaw, pa un, erbyn hyn, sydd wedi ei lwyr golli, o ran dynodiant arbenig ar unrhyw ran o'r tir yn fwy na'i gilydd. Dywed traddodiad, neu ymsynir gan y werin, ddarfod i frwydr gael ei hymladd ar Ros Lefain; ac y mae y dynodiant o *lefain* yn ffafriol i gywirdeb y cyfryw draddodiad neu ymsyniad, canys canlyniad naturiol ofnadwyaeth aerfa yw llefain neu waeddi. Gellir sylwi fod yn agos i'r tyddyndŷ ddau gae, y naill yn cael ei alw Cweryl Bach, a'r llall Cweryl Mawr. Eithr ymddengys mai dynodiant o faintioli y

* Arch. Camb., Cyf. ix. neu x., t. 170.

Digitized by Google

caeau yw *bach* a *mawr* yn y cysylltiadau hyn, ac nad oeddynt namyn un maes ar y cyntaf.

Gellir casglu oddiwrth enwau y rhai hyn y bu cryn helynt mewn perthynas i'r tir y maent yn ei gynwys. Ond nid yw hyn yn penderfynu fod dim a fynai yr anghydwelediad yn ei gylch â'r frwydr grybwylledig.

### PEN Y GROMLECH.

Enw yw Pen y Gromlech ar fan heb fod ymhell oddiwrth Lan Gelynin. Nid yw yn ymddangos fod unrhyw weddillion yno ag y gellir eu dynodi fel yn perthyn i gromlech gelfyddydol, hafal i'r rhai a geir mewn manau yn Nghymru. Ond ymddengys oddiwrth yr enw, naill ai y bu un gelfyddydol yno yn sefyll gynt, neu y cysylltir Cromlech âg ef oddiwrth ryw gilfach naturiol yn y creigiau tua'r fan.

### YR ARDD GLADDU.

Mae dau fan yn dwyn yr enw hwn ym Mhlwyf Celynin. Saif un o honynt ar dir Cyfanedd Ucha', ond nid yw yn ymddangos fod dim hanes am dani yn ysgrifenedig. Dywed traddodiad mai mynwent y Crynwyr ydyw, ac fod rhai wedi eu claddu ynddi. Saif yn y pellder o tua chant a deuddeg a thriugain o droedfeddi oddiwrth y tyddyndŷ, ac ar y tu dwyreiniol iddo. Buarth amgauedig lled fychan yw, a'i amglawdd wedi dechreu adfeilio.

Y fan arall a elwir yn Ardd Gladdu, yw hen fynwent y Crynwyr, ar Fryn Tallwyn, ar dir y Llwyn Du, gerllaw Llwyn Gwryl, at ba un y cyfeiriwyd eisoes. Ond ceir yn ddilynol roddi hysbysiad helaethach

---

NODYN.—Yn mherthynas i'r *Dorch Aur* y cyfeiriwyd ati yn nhudalen 89, cafwyd hi gan James Hughes, Ysw., yn ol yr hanes a ddyry y Dr. Wm. Owen Pughe, yn Cyf. I. o'r Cambrian Quarterly Magazine, t. 242—3, ar yr eilfed dydd o'r mis a nodwyd (Medi), a chynygiwyd hi ganddo am bum' swllt i foneddwr, fel cywreinbeth, yr hwn a wrthododd y cynygiad. Gan hyny, rhoddodd Mr. Hughes hi i Dafydd Jones, Ysw., o Dy y Cyffredin, er mwyn cael allan beth oedd, heb dybio ei bod yn werthfawr. Ac ar y 13eg o fis Chwefror y flwyddyn 1829, tebygol, rhoddodd y gwr hwnw hi yn Nghyfarfod y Royal Institution, Heol Albermarle, i'w harchwilio. Mesurai ddwy fodfedd a deugain o hyd, a phwysai wyth wns ac wyth ceiniog-bwys, ac fyr oedd gwerth priodol ei dêlid oddeutu tri deg a chwech o bunoedd. Clywais mai hogyn oedd gyda Mr. Hughes a ddarganfyddodd y dorch ar y cyntaf, yr amser y cyfeirir yma ato.

Digitized by Google

o barth neillduad y fynwent hon, ynghyd â'r un sydd ger Tyddyn y Gareg, nag a wnaed yn flaenorol:—

At bawb o'r bobl Gristionogol ag y daw y gweithredoedd hyn atynt, neu y bo a wnelont â hwy, ond yn fwyaf neillduol i'n cyfeillion caredig, Abraham Darby, o Colebrookdale, yn Swydd Amwythig, haiarn-feistr, John Younge, o dref Amwythig, yn y ddywededig Swydd Amwythig, sidanydd, John Lewis, o Hwlffordd, yn Swydd Benfro, haiarn-feistr, William Reynolds, o dref Caerfyrddin, yn Swydd Gaerfyrddin, bragwr, John Goodwin, Esgair Goch, yn Swydd Drefaldwyn, boneddwr, Edward Jones, Talgoed, yn Swydd Maesyfedd, boneddwr, a Randle Owen, Talgoed, a ragnodwyd, boneddwr, Ellis Lewis Owen, o'r Dewisbren, yn y rhagddywededig Swydd Feirionydd, boneddwr, yn anfon anerch yn ein Harglwydd Dduw tragwyddol:—

Gan fod Owen Lewis Owen, o Dyddyn y Gareg, yswain (yr hwn sydd wedi marw e'rs llawer o amser) yn feddianol yn adeg ei fywyd (hyny yw) ym mlwyddyn ein Harglwydd 1646, ar ei etifeddiaeth gyfiawn ac anniddymol, ac ar y prif anedd-dŷ henafol hwnw a elwir Tyddyn y Gareg, a ragenwyd, a'r tai allan, ynghyd a'r tiroedd perthynol, a thiroedd eraill a thyddynod, yn nhref ddegwm Garth Gynfawr, a thiroedd eraill a thyddynod yn nhref ddegwm Nannau, yn y ddywededig Swydd Feirionydd, yr hwn yn fuan gwedi a argyhoeddwyd o egwyddorion y gwirionedd yn ol fel ei delid gan y bobl a elwid Crynwyr, ar yr hyn y darfu iddo ef y dywededig Owen Lewis wahanu, a gosod o'r neilldu, ac amgau dernyn penodol o dir yn Nhyddyn y Gareg rhagddywededig, i fod yn gladdfa i'r bobl a elwir Crynwyr, i gladdu eu meirw. A chan i'r dywedededig Owen Lewis Owen, adael ar ei ol amryw o blant, o ba rai yr ydoedd ei fab hynaf a'i etifedd yn un, a Rowland Owen yn un arall, a'r hwn ddywededig Lewis Owen a'i fab hynaf sydd wedi marw er's hir amser, gan adael hil ar ei ol (o Elenor ei wraig, ferch Ellis Morris, o Ddolgun (?), yn y ddywededig Swydd Feirionydd, yswain, yr hon hefyd sydd wedi marw er's hir amser) Owen Lewis Owen, yr hwn hefyd sydd wedi marw, a'r dywededig Ellis Lewis Owen, ac amryw o blant eraill, wyrion y dywededig Owen Lewis Owen a enwyd gyntaf uchod, a'r hwn Rowland Owen, y mab arall i'r dywededig Owen Lewis Owen a enwyd gyntaf uchod, sydd wedi marw er's hir amser, gan

---

NODYN.—Mewn perthynas i'r tair ysten y cyfeirir atynt yn y tudalen 250, ac a ddarganfyddwyd tua mis Tachwedd, 1803, yn mhentref Abergynolwyn, mynegir fod yn yr un o honynt ag oedd oddeutu tair llath y tuallan i'r sylfaen, nifer o delmau wedi eu ffurfio o asgwrn, a thybir mai math o fotymau oeddynt. Cadwyd un o honynt, eithr ymfaluriodd ymhen amser. Hefyd, yr oedd yn un o'r ddwy ysten arall megis ffurf telmau o'r fath, ond ymfalurient wrth eu cyffwrdd.

Digitized by Google

adael ar ei ol amryw blant, o ba rai y dywededig Hugh Rowland Owen ydyw ei unig fab ac etifedd, ac un o wyrion y dywededig Owen Lewis Owen a enwyd gyntaf uchod,

A chan fod Owen Humphrey, o'r Llwyn Du, yn Llwyngwril, yn y ddywededig Swydd Feirionydd, Yswain, yr hwn sydd yn awr wedi marw er's llawer o amser, yn feddianol yn adeg ei fywyd (hyny yw), yn mlwyddyn ein Harglwydd 1646, ar ei etifeddiaeth gyfiawn a didynu oddiwrtho, ac yn y prif dyddyndy henafol hwnw, tyddyn a thiroedd a elwir Tyddyn y Gareg a ragenwyd, a thai eraill, tiroedd a thyddynod yn Llwyngwryl a ragenwyd yn y ddywededig Swydd Feirionydd, yr hwn, yn fuan gwedi, a argyhoeddwyd o egwyddorion y gwirionedd, yn ol fel eu delid gan y bobl a elwir Crynwyr, ar yr hyn y darfu iddo ef, y dywededig Owen Humphrey, wahanu, a gosod o'r neilldu, ac amgau darn penodol o dir a elwir Bryn y Tallwyn, cyfran o etifeddiaeth Llwyn Du, i fod yn gladdfa i'r bobl a elwir Crynwyr i gladdu eu meirw.

Ac yn gymaint ag i'r dywededig Owen Lewis Owen, ŵyr i'r dywededig Owen Lewis Owen a enwyd gyntaf uchod, gyd-briodi âg Anne Humphrey, wyres y dywededig Owen Humphrey, a merch ac unig etifeddes Humphrey Owen Humphrey, gynt o'r Llwyn Du, yr hwn hefyd sydd wedi marw, a'r hwn ydoedd fab hynaf ac etifedd y dywededig Owen Humphrey, a chan yr hwn yr ydoedd plant gwrywaidd, Lewis Owen presenol o Dyddyn y Gareg, a ragddywedwyd, Ysw. : eu mab hynaf, ac Humphrey Owen, o'r Llwyn Du, a ragenwyd, boneddwr, eu mab ieuangaf. A chan i'r dywededig Owen Lewis Owen (ŵyr y dywededig Owen Lewis Owen a enwyd gyntaf uchod), a'r ddywededig Anne, ei wraig (ŵyres y dywededig Owen Humphrey), er mwyn sefydlu a throsglwyddo ei etifeddiaeth henafol ef, y dywededig Owen Lewis Owen (yr ŵyr), ar y presenol Lewis Owen, Ysw., a'i etifeddion am byth ; ac er mwyn sefydlu a throsglwyddo etifeddiaeth y ddywededig Anne ar yr Humphrey Owen presenol, yr ieuangaf, a'i etifeddion am byth, trwy ddeintysgrifau penodol o afaeleb a gollyngeb, yn dwyn y dyddiad gwahanredol y 23ain a'r 24ain o Chwefror, yn y 12fed flwyddyn o deyrnasiad ei Fawrhydi presenol, y Brenin George yr Ail, dros Brydain Fawr, ac felly ymlaen, ac yn mlwyddyn ein Harglwydd 1738 (yr ollyngeb wedi ei gwneyd, neu yn grybwylledig i'w gwneyd, rhyngddo ef, y dywededig Owen Lewis Owen (yr ŵyr), a'r ddywededig Anne, ei wraig, o un blaid ; Ellis Lewis Owen a Rowland Owen, o'r blaid arall, a drosglwyddasant, ac a sicrhasant eu holl wahanol etifeddiaethau i'r dywededig Ellis Lewis Owen a Hugh Rowland Owen, a'u hetifeddion, i'r dibenion crybwylledig ynddynt (hyny yw), yn mherthynas i'r

Digitized by Google

*gwrthdroad yr †hawl ar farwolaeth un arall, a'r etifeddiaeth o'r oll a phob un o'r gwahanol dyddynod, melinau, tiroedd, ac etifeddiaethau llëedig yn Ngarthgynfawr a Nannau, etifeddiaeth y dywededig Owen Lewis Owen (yr ŵyr), yn uniongyrchol o, ac ar ol diweddiad, fforffediad, neu derfyniad arall o'r etifeddiaethau am ystod bywyd cyfyngedig ynddynt, fel ag y terfynai pob un o honynt, ac yn ddyledig a dyladwy, a'r blwydd-dalion neu ardrethion crybwylledig ynddynt (heblaw ac oddigerth yr ardd a chladdfa Tyddyn y Gareg, cyfran o etifeddiaeth y dywededig Owen Lewis Owen (yr ŵyr), lle yr arferai personau o gredo, cyfundeb, neu gymdeithas o Grynwyr a chladdu eu meirw, gyda rhydd-fynediad i newn ac allan yn olynol, neu mor aml ag y byddai angen am gladdu), i wasanaeth ac ar ran y Lewis Owen presenol o Dyddyn y Gareg, mab hynaf y dywededig Owen Lewis Owen (yr ŵyr) o'r ddywededig Anne, ei wraig, ac o'r etifeddion o gorff y dywededig Lewis Owen, cyfreithlon anedig; ac yn niffyg y cyfryw hiliogaeth, i wasanaeth ac ar ran y presenol Humphrey Owen, Llwyn Du, ei ail fab ef, y dywededig Owen Lewis Owen (ŵyr), cenedledig o gorff y ddywededig Anne, ac o'r etifedddion o gorff y dywededig Humphrey Owen, yn hiliogaeth cyfreithlon, gyda marw-hawliau eraill trosodd.‡

Ac yn mherthynas y gwahanol dyddynod, etifeddiaethau, a thiroedd eraill, llëedig yn nhref-ddegwm Llwyngwryl, a ragddywedwyd, gyda'u holl berthynolion, etifeddiaeth y ddywededig Anne, rhoddedig i fyny o, ac ar ol y rhoddiad i fyny, fforffediad, neu derfyniad pob un o'r etifeddiaethau am hyd eu bywyd hwy, y dywededig Owen Lewis Owen (yr ŵyr), ac Anne, ei wraig, yn y ddywededig ddeintysgrif o afaeleb a gollyngeb cyfyngedig, ac fel y terfyna yr unrhyw yn wahanredol (heblaw ac oddigerth yr ardd neu y gladdfa yn Llwyn Du, cyfran o'r tiroedd crybwylledig olaf, lle yr arferai personau o gredo, cyfundeb, neu gymdeithas o Grynwyr, a chladdu eu meirw, gyda rhydd-fynediad i mewn ac allan oddiyno, mor aml ag y byddai angen am gladdu yn digwyddo), yna i wasanaeth ac ar ran yr Humphrey Owen presenol o'r Llwyn Du, ail fab y dywededig Owen Lewis Owen (ŵyr), cenedledig o gorff y ddywededig Anne, a'i etifeddion o'i gorff ef, y dywededig Humphrey Owen, cyfreithlon darddedig gyda marw-hawliau eraill trosodd.

Ac mewn perthynas i'r ardd neu ddarn o dir ar ac yn rhan o diroedd Owen Lewis Owen (yr wyr), a elwir Tyddyn y Gareg, ac hefyd yr ardd neu ddarn o dir sydd yn rhan o diroedd Llwyn Du, cyfran o

---

* Reversion. † Remainder. ‡ With other remainders over.

etifeddiaeth y ddywededig Anne, ei wraig ef y dywededig Owen Lewis Owen (yr wyr), ymha ddwy ardd* neu ddosranau o dir yr arferai teuluoedd y dywededig Owen Lewis Owen (yr wyr) ac Anne ei wraig, ac eraill o gredo, cyfundeb, neu gymdeithas o Grynwyr cyn hyn a chladdu eu meirw, am yr hyn ni wnaed defnydd yn y ddywededig ddeintysgrif o ollyngeb flaenorol gyfyngedig, yr un rhai i aros iddynt hwy, ac ar ran yr oll a phob un o'r personau a elwir Crynwyr i gladdu eu meirw ynddynt, y pryd ac mor aml ag y tybiont hwy yn gymwys ac y byddai achos yn gofyn, ac fod i'r dywededig Ellis Lewis Owen, a Hugh Rowland Owen a'u hetifeddion sefyll yn hawl a meddianu y ddau ddywededig ddarnau neu ddosranau o dir crybwylledig ddiweddaf iddynt hwy, ac ar ran y cyfundeb neu gymdeithas o'r personau rhagddywededig a elwir Crynwyr, a phob person neu bersonau o'r grediniaeth hono i gladdu eu meirw, gyda rhyddid i fyned i mewn ac allan yn ol ac ymlaen iddynt ac o honynt mor aml ag y byddo arnynt eisiau, ac i ddim diben arall pa bynag, megis ag y gall fod yn ymddangos yn fwy llawn a helaeth yn y ddeintysgrif (yn yr hon y mae mynegiad am hyn) o ollyngeb fynegedig mewn rhan.

Yn awr, gwybyddwch chwi i ni y dywededig Ellis Lewis Owen a Hugh Rowland Owen (yn farwolion) ac yn ymddiried yn fawr iawn ar gywirdeb y dywededig Abraham Darby, John Jewry, John Lewis, William Reynolds, John Goodwin, Edward Jones, a Randle Owen, ganiatau trwy y gweithredoedd hyn, penodi, a gosod ar, ac yn gwneuthur drosom ni a'n hetifeddion gwahanredol, genadu, penodi, a gosod dros y dywededig ddeuddarn neu gyfranau o dir a elwir Claddfa Tyddyn y Gareg a Chladdfa Llwyndu iddynt hwy y dywededig Abraham Darby, John Young, John Lewis, William Reynolds, John Goodwin, Edward Jones, a Randle Owen, eu hetifeddion a'u dirprwywyr, i gael ac i ddal y dywededig ddeuddarn neu gyfranau o dir a elwir Claddfa Tyddyn y Gareg a Chladdfa Llwyndu, iddynt hwy y dywededig Abraham Darby, John Young, John Lewis, William Reynolds, John Goodwin, Edward Jones, a Randle Owen, eu hetifeddion a'u dirprwywyr am byth mewn ymddiried i ac er mwyn yr unig wasanaeth priodol ac ar ran y cyfundeb neu gymdeithas o'r personau a elwir Crynwyr, a phob person a phersonau o'r daliad hwnw, i gladdu eu meirw yno, gyda llawn ryddid i fyned i mewn ac allan ac at-ddychwel yno neu oddiyno mor aml ag y byddo

---

* Darfu i'r Crynwyr yn y flwyddyn 1876, ganiatau i'r Trefnyddion Wesleyaidd ddefnyddio y rhan wâg o ardd gladdu y Crynwyr, ger Llwyngwril. Gweler y tudalenau 149—151. Hefyd, yn meddiant yr Annibynwyr y mae yr ardd gladdu ger Tyddyn y Gareg. Gweler tudalenau 148-9.

Digitized by Google

achos yn gofyn, ac i ddim gwasanaeth, diben, neu amcan arall, pa bynag. Yn dystion o'r hyn yr ydym ni y dywededig Ellis Lewis Owen a Hugh Rowland Owen, wedi dodi ein dwylaw a'n seliau wrth hyn, yr 2fed dydd o Ragfyr, yn y ddeunawfed flwyddyn ar hugain o deyrnasiad ein pen-arglwydd George II., trwy rad Duw, Prydain Fawr, Ffrainc, a'r Werddon, Brenhin, Amddiffynydd y Ffydd, ac felly ymlaen, ac yn mlwyddyn ein Harglwydd 1756.

ELLIS LEWIS OWEN ( Ll. S.* )
HUGH ROWLAND OWEN ( Ll. S.* )

Seliedig a throsglwyddedig (y memrwn yn gyntaf wedi ei gyfreithlon argraffnodi) yn ein gwyddfod ni—

HUMPHREY OWEN, Llwyn du.
LEWIS OWEN, Tyddyn y Gareg.
ROBERT OWEN, Pant Phylip.

---

## MEINI HIRION.

Gan yr ymdriniwyd eisoes mewn modd cyffredinol o barth dibencyfodiad Meini Hirion yr Hynafiaethydd, nid eir yma i sylwi mewn cysylltiad â hwy yn y wedd hono. Ond bwriedir dynodi safleoedd y rhai o honynt sydd a'u safle o fewn terfynau plwyf Llan Gelynin, ynghyd a'r rhai sydd o fewn terfynau y plwyf cymydogol Llan Egryn. Ac hefyd, grybwyll am rai meini ag ydynt, hwyrach, o nifer y cyfryw feini, ac sydd a'u safle yn agos i derfyn plwyf Llan Gelynin, ond sydd lëedig o fewn plwyf Dolgellau, plwyf arall cyffiniol â'r unrhyw. Mewn ystyr gymhariaethol, y mae nifer o'r rhai y cyfeirir atynt yn rhy fyrion i'w galw yn Feini Hirion; er hyny, ceir eu dwyn i sylw yma o dan yr un peniad.

Y cyntaf o honynt a ddynodir yw yr un a elwir Careg y Big, a saif y maen hwn yn nghymydogaeth Llynau Crygenan, a mesura tua chwe' troedfedd o uchder. O fewn rhyw dair troedfedd a phedair modfedd iddo, y mae maen arall yn sefyll ar ei ben yn y ddaear fel yntau, ac yn mesur yn agos i ddwy droedfedd o uchder oddiar wyneb y tir. Ymddengys yn sicr eu bod yn arddangos beddrod

* Golyga y llythyrenau uchod Lle Sel.

Digitized by Google

rhywun y mae angau wedi ei gwympo er's oesau meithion bellach, yn ol fel y gellir casglu am danynt oddiwrth yr hanes dilynol am feini eraill rywbeth yn gyffelyb iddynt.—"Mae man ar y mynydd rhwng Iâl ac Ystrad Alun, uwchben Rhyd y Gyfarthfa, a elwir y Maes Mawr, lle bu y frwydr rhwng Meilir ab . . . . . . a Beli ab Benlli Gawr, lle y llas Beli, ac y gosodes Meirion ddau faen yn eu sefyll yn mhob pen i'r bedd."

Yn Maes Pant y Llan, neu yn ol ei enw blaenorol, Maescrygenan, y mae nifer o feini wedi eu dodi ar eu penau yn y ddaear,—un o honynt erbyn hyn ar ei ogwydd. Perthyna iddynt gareg wen, pa un sydd mewn ystyr yn ymddangos yn hytrach fel clamp neu grynswth o faen nag yn gareg ar ei phen, ac y mae un o'r lleill yn ymddangos yn hytrach fel careg wedi ei gosod ar ei hymyl nag ar ei phen. Dywed Mr. Wynne, o Beniarth, pan yn ysgrifenu am danynt yn y flwyddyn 1850, fod rhai ceryg wedi cael eu symud o'r "cylch" yn ei gof ef. Ac y mae yn ymddangos oddiwrth a ddywedir, fod llawer o geryg wedi cael eu dwyn oddiyno gynt. Eithr gellir sylwi, mai os bu yno gylch o gwbl, nad yw yr oll o'r meini sydd yn y fan yn gwneyd i fyny yr unrhyw, er y perthyna yr oll o'r nifer i'w gilydd, fel y gellir gweled oddiwrth eu safle. Tebygol mai gweddillion rhyw adeilad yw y meini hyn, ac nad gweddillion cylch, pa ffurf bynag oedd iddo fel cyfanwaith.

Ar y gefnen sydd yn Ngwaen Bant, Pant y Llan, ac ar y tu agosaf i'r môr i'r ffordd fawr a arwain tros y Rhiw Las, erys maen ar ei ben yn y ddaear, yn mesur oddeutu pum' troedfedd a haner o uchder. Yr oedd un arall unwaith yn sefyll gerllaw iddo, pa un a ddygwyd ymaith tua'r flwyddyn 1850. Heb fod ymhell oddiwrth y maen sydd ar y gefnen a nodwyd, y mae maen wedi ei osod yn y ddaear yr un fath. Saif yn mynydd Hafod Dywyll, ac ar y tu arall i'r ffordd grybwylledig, ac y mae hwn o ran ymddangosiad yn faen llydan.

Yn nghymydogaeth y ddau faen hyn, ag y dynodwyd eu safleoedd presenol, eithr o fewn terfynau plwyf Dolgellau, ac yn ffridd Nant-gwrddol (Nant gwyrdd ddail), saif tair o feini ag y ceir eu dwyn i sylw yma. Y mae un o honynt yn nghwr math o fawnogdir, yn cyn-wys pyllau mawn, cornel orllewinol pa un sy'n ymestyn yn agos i'r llidiart a agora i'r unrhyw ffridd o'r brif-ffordd a gyfeiria heibio ger Hafotty Fach. Mesura oddeutu dwy droedfedd a haner oddiar wyneb y fangre lle y saif, pa un sydd yn agos i'r llidiart a nod-

Digitized by Google

wyd. Saif maen ar fin hen ffordd yn yr unrhyw ffridd ond yn nes i Ros Nantgwrddol (Nant Gwyrddail) na'r llall. Y mae yn sefyll i raddau, fel pe tae ar ei ogwydd, a mesura tua thair troedfedd a haner oddiar yr arwyneb, eithr a yw yn perthyn i'r meini hynafiaethol nid ydys yn awr yn barod i ateb.

Y mae y llall encyd o bellder i'r de-orllewin oddiwrtho, a'i osgo yn dra gogwyddedig, a mesura yr hyn sydd allan o hono o'r ddaear ryw bedair troedfedd o hyd. Dichon y saif ar gwr neu wrth fan lle y bu carnedd yr hynafiaethydd yn osodedig, ac y mae dwy neu dair o bytiau o geryg bychain yn agos iddo, y rhai a ymddangosant fel wedi eu gosod felly gan law ddynol.

Encyd o bellder wedi yr eler tros Ben Rhiw Lâs; y mae ar dir Cyfanedd Fawr, yn mhlwyf Llanegryn bedwar o feini wedi eu dodi ar eu penau yn y ddaear. Saif dau o'r rhai hyn ar y mynydd, a'r ddau eraill mewn maes a elwir Cae Maen Hir. Y mae tua phedair troedfedd a haner rhwng y ddau a nodwyd olaf a'u gilydd, ac nid yw uchder y ddwy oddiar wyneb y tir ond ychydig. A chan hyny, wrth ystyried enw y cae y safant ynddo, nid yw yn ymddangos y cafodd ei enw oddiwrth y naill na'r llall o'r rhai hyn. Eithr trwy gymeryd eu hagosrwydd i'w gilydd i ystyriaeth fel un rheswm, a barnu fel y gwnaed mewn perthynas i'r ddeufaen gerllaw Llynau Crygenan, y mae yn ymddangos mai dynodi argel wely gweddillion marwol rhyw un neu gilydd o'r hil ddynol y maent. Mesura yr hwyaf o'r ddau faen sydd ar dir Cyfanedd Fawr, tua saith troedfedd a haner o uchder oddiar wyneb y tir, ond y mae y llall ryw ddwy droedfedd a haner yn llai ei gyrhaeddiad oddiar arwynebedd y fan y saif. Ac y mae ychydig mwy na thriugain llath o bellder rhyngddynt a'u gilydd.*

Yn nghymydogaeth Pont y Cwm Llwyd, a thua bod ar derfyn gorllewinol Gwely'r Meibion y mae maen ar ei ben yn y ddaear yn mesur ychydig dros ddwy droedfedd oddiar yr arwyneb. Ar y lled wastad brwynog a red i lawr gyda therfyn deheuol Gwely'r Meibion, ond ar y fan a elwir y Braich Du, pa un a elwir felly mewn cysylltiad ar fraich o dir sydd gerllaw yn dwyn yr enw hwnw, y mae maen llydan ar ei ben yn y ddaear, ac yn mesur dros bedair troedfedd oddiar yr arwyneb. Ar y tu agosaf i Lwyngwryl, i'r Braich Du, ac yn lled agos i gornel dwyreiniol Mynydd, neu yn awr Ffridd yr Henblas y mae maen ar ei ben yn y ddaear a'i safle mewn math o garleg, ond feallai nad trwy law ddynol ei gosodwyd felly, eithr mai trwy un o weithrediadau natur.

---

* Cyfeiriwyd at y ddeufaen crybwylledig uchod yn mhellach yn ol yn y td. 314.



Digitized by Google

Ar Ffridd Ynys Faig, yn mhlwyf Celynin, saif tri o feini ar eu penau yn y ddaear, ac arddangosant linell unionsyth yn mron mewn cysylltiad â'u gilydd. Mesura y canol o'r tri maen hyn chwe' troedfedd o uwchder o'r bôn; ond y mae y ddau arall yn fyrach,—yr un ar y dwyrain gryn lawer felly. Y mae saith deg a phedair o droedfeddi o bellder rhwng y byraf ar un canol; a phum' deg a chwech o droedfeddi rhwng y llall a'r un canol. A rhwng y ddau a nodwyd olaf, y mae maen arall ar ei led orwedd, pa un, hwyrach, a berthyna iddynt, ond a ddarostyngwyd i'w osgo presenol trwy ddylanwad amser. Hefyd, encyd i'r dwyrain oddiwrth y byraf o'r tri maen a nodwyd, erys careg ar lawr ar ei gorwedd, pa un, hwyrach, a fu gynt yn osodedig ar ei phen i ryw ddiben neu gilydd.

Yn Ffridd Cefn y Meusydd, pa un sydd am y clawdd â'r un a nodwyd, y mae nifer o'r cyfryw feini, ond y mae eu safle gryn encyd oddiwrth y lleill. Gorwedd yr hwyaf o honynt ar ei hyd ar y ddaear, ond a gwympwyd i'r sefyllfa hon trwy weithrediad llaw ddynol, fel yr ymddengys oddiwrth a ddywedir. Mesura y maen hwn un droedfedd ar ddeg, ac wyth modfedd o hyd. Yn y pellder o dros 19 o droedfeddi oddiwrtho, saif maen, heb fod yn hir, ar ei ben yn y ddaear; ac yn y pellder o tua un droedfedd ar bymtheg ar hugain a haner oddiwrth yr olaf a nodwyd, y mae un arall ar ei ogwydd. Ac feallai fod maen arall, pa un sydd ar ogwyddiad lled isel, ac yn agos i bum' troedfedd ar hugain o bellder oddiwrtho, yn perthyn iddynt.

Gryn bellder oddiwrth y meini hyn, yn mynydd Pantafal, a thua bod gyferbyn â thyddyndŷ Bodwlan, y mae maen ar ei ben yn y ddaear; ac encyd yn mhellach, drachefn, y mae un arall ar ei ben yn y ddaear yn safle hen garnedd, ac yn y pellder o ryw dri ugain a saith o gamau i'r de, oddiar glawdd Ffridd Tyrfana, neu Tryfana. Ar gae o'r enw Cae Ffynon Pella, perthynol i Garn Gadell Isaf, saif maen ar ei ben yn y ddaear, a dywedir y safai dau eraill unwaith ar y maes sydd am y terfyn, ond ddarfod iddynt gael eu symud ymaith oddeutu'r flwyddyn 1851.

Yn agos i Lan Fendigaid, yn ngodreu y fan a elwir y Foel Fawr, y mae maen ar ei ben yn y ddaear, pa un a fesura tua phum' troedfedd oddiar yr arwyneb. Ac ar gae perthynol i Fronclydwr, y mae dau faen ar eu penau yn y ddaear, ac yn sefyll yn y pellder o ryw ddeg troedfedd oddiwrth eu gilydd, ac o'u hamgylch ychydig o geryg a gasglwyd oddiar wyneb y tir. Mewn maes cyffiniol o'r enw Tyrfana, neu Tryfana Uchaf, perthynol i'r tyddyn a elwir Tyrfana, neu Tryfana, y mae maen ar ei ben yn y ddaear yn mesur oddeutu pedair troedfedd oddiar yr arwyneb. Hefyd, ar gae o'r enw

Digitized by Google

Pant Mawr, perthynol i'r tyddyn a nodwyd olaf, y mae maen ar ei ben yn y ddaear, ac, fel y llall, yn mesur oddeutu pedair troedfedd oddiar wyneb y tir.

Yn Ffridd Tyddyn Meurig, y mae maen ar ei ben yn y ddaear; ac hefyd, mewn man a oedd yn ffridd yn lled ddiweddar, sef Ffridd Castell Bach, y mae maen ar ei ben yn y ddaear yn mesur oddeutu tair troedfedd oddiar wyneb y tir. Y mae y ffridd a nodwyd yn awr fel maes, neu feusydd, ac y mae y maen hwnw yn bresenol mewn clawdd a wnaed i'w dosranu, ond safai yn flaenorol yn yr unrhyw fangre ar ei ben ei hun. Y mae ar faes perthynol i Dal y Gareg faen ar ei ben yn y ddaear, yn mesur tua phedair troedfedd oddiar yr arwyneb. Ac yn y gymydogaeth, eithr yn y plwyf cyffiniol, Llanegryn, y mae ar faes perthynol i'r Waen Fach faen ar ei ben yn y ddaear yn mesur tua phum' troedfedd oddiar yr arwyneb. Yr oedd y maes lle y saif yn cynwys unwaith ddau gae gwahanol, ac y mae safle y maen ar yr un o honynt a elwid Cae Bryn yr Eithin.

---

## CERYG TERFYN.

O fewn terfynau presenol y plwyf y mae yn aros nifer o feini a elwir Ceryg Terfyn, sef ceryg yr hen derfyn rhwng plwyf Llan Gelynin, a phlwyf Llanegryn. Nid yw rhai o honynt yn dwyn ffurfiau y Meini Hirion yn gyffredin ond yn fath o delpynau byrion. Eithr ystyrir fod eu cribau neu eu cefnau yn cyfeirio o'r naill at y llall ar hyd y llinell derfyn. Saif y gyntaf* y ceir cyfeirio ati o'r rhai hyn yn y mynydd ar y gyfran o hono a adwaenir fel y Rhos, ac yn y pellder o tuag un droedfedd ar bymtheg oddiwrth Glawdd y Pymtheg, sef clawdd cae y pymtheg cyfar ar hugain. Y mae y gareg hon ac eraill o'r nifer ag ydynt islaw y Figin neu y Siglen Fawr, yn sefyll gerllaw y nant a red i lawr o honi i Lanegryn, ac ar yr ochr agosaf i Lwyngwryl iddo. A chyfeiria llinell y terfyn ar draws y Figyn hon at gareg derfyn sydd ar y tu arall iddi. Ar y

* Yr oedd un o'r Ceryg Terfyn yn Nghae'r Pymtheg, ond chwalwyd hi trwy weithrediad pylor tua'r flwyddyn 1836, a dygwyd ei chynwys ymaith i ail godi a gwellhau y clawdd sydd rhwng y cae a thir y Coed Mawr. Yr oedd yn gareg anferth o faint meddir, ac yn gyfleuedig yno trwy waith natur. Y mae un arall o'r nifer yn aros ar un o gaeau Bredyn Fawr, ac am y ffordd dref ddegwm a Chae'r Pymtheg. Careg o osodiad naturiol yw hon.

Digitized by Google

gefnen sydd fel yn gwahanu rhwng y Figyn hon a'r Figyn Fach neu y Figyn Ucha' y mae nifer o feini wedi eu cyfleu yn y cyfryw fodd fel ag i ffurfio math o gylch, a gelwir y fan, Bedd y Tri Milwr. Ond nid ydys yn gwybod pwy ydoedd y milwyr hyny na dim o'u hanes namyn y dengys yr enw hwn y cawsant feddrod yn y fan hon, a'u bod yn wyr a fuont yn dwyn arfau. Y mae y gareg derfyn y cyfeiriwyd ati ddiweddaf, fel yn sefyll o'r tu uchaf i'r Figyn, a thua chant a saith o droedfeddi oddiwrth Fedd y Tri Milwr, ac ar y tu deheuol iddo. A chyfeiria llinell yr hen derfyn crybwylledig ymlaen oddiwrth y gareg hon yn unionsyth trwy y gyfran o fynydd-dir a adwaenir fel y Rhos, gan fyned heibio y Corlenydd Bach, at faen, lled hir a saif ar ei ben yn dalog mewn ffridd berthynol i'r Hendref, Llwyngwryl, ac oddiyno ymlaen i Ben y Garn. Symudwyd ymaith dair o'r hen geryg terfyn hyn ag oeddynt gerllaw llinell clawdd Ffridd Tyrfana, neu Tryfana (un neu ddwy o ba rai oedd yn safledig o'r tu fewn i'r unrhyw linell) i gynorthwyo i adeilo y clawdd ceryg a'i hamgaua i fewn, yr hwn a wnaed yn y flwyddyn 1878. Ac yr oedd un o honynt yn gorphwys ar ei phen mewn carnedd geryg a orweddai ryw wyth lath a haner i'r de oddiwrth gornel agosaf i Lanegryn i'r ffridd hono, ac ar y tuallan i safle yr unrhyw. Ond ystyrir na pherthynai y gareg i'r garnedd hono, a bod y garnedd yno yn flaenorol i'w gosodiad felly. Hefyd, yn y flwyddyn 1873, symudwyd ymaith o'i mangre gareg arall a restrir fel un o'r ceryg hyn, pa un a safai ar ei phen yn y ddaear yn y ffridd a nodwyd eisoes, perthynol i Hendref, Llwyngwryl, ond a oedd a'i safle encyd oddiar y gareg y cyfeiriwyd ati sydd yn sefyll ar ei phen yn y ffridd hono. Eithr er ei symudiad fel hyn y mae yn aros ar ei gorwedd fel sylfaen adeiladiad bwlch ag oedd wedi cwympo yn nghlawdd yr unrhyw ffridd, pa un sydd rhyngddi a Ffridd y Llechlwyd, ac ar yr ochr nesaf iddi.

Dichon fod rhai o'r Ceryg Terfyn hyn wedi eu gosod ar eu penau yn y ddaiar i ryw ddyben arall yn flaenorol, a gellir sylwi fod careg yn osodedig ar ei phen yn y ddaiar encyd oddiar glawdd ffridd y Llechlwyd, ac yn mynydd neu yn awr ffridd yr Henblas, ond ni nodir hon fel un o'r ceryg terfyn dan sylw. Symudwyd yr hen derfyn a arddangosir ganddynt, gan gyfreithiwr o'r cyfenw Boydell, yn y flwyddyn 1817. Ac ymddengys yr hawlid ychwaneg o dir ar y pryd gan awdurdodau plwyf Celynin neu Lan Gelynin, nac a gawsant mewn rhai manau. A gosodent fod y fangre neu y groesffordd a adwaenir fel Croes Egryn ar yr hen ffordd sydd yn mhellach i'r de na'r fan sy'n cael ei nodi yn awr yn Groes Egryn. Byddai tyrfa o drigolion plwyf Llanegryn yn cynwys tua deugain mewn nifer o fach i fawr, am ryw ddwy flynedd neu dair ar ol yr amseriad a nod-

Digitized by Google

wyd (1817), yn arfer cerdded y llinell derfyn a nodir gan yr hen Geryg Terfyn hyny, gan fyned ar eu taith, ymlaen heibio'r Corlenydd Bach* a heibio i'r hen gorlan adfeiliedig,—y Gorlan Fach, a thros y Ceunant Mawr islaw iddi, mewn man y mae ynysig fechan ffurfiedig gan ei ymgangeniad. Ac ar y teithiau ffiniol hyny ewinid clustiau yr hogiau yn dost mewn manau er mwyn iddynt gofio am nodau y ffin. Ond ni thyciodd hyny i newid gwaith y cyfreithiwr Boydell.

---

## CARNEDDAU.

Yr ydys wedi ymdrin yn flaenorol o barth Carneddau mewn penod arall. Felly ni fwriedir yma sylwi arnynt yn gyffredinol, ond amcenir dynodi safleoedd nifer o honynt ag sydd yn mhlwyf Celynin, ynghyd a mangreoedd rhai eraill, sydd gerllaw ei derfyn yn mhlwyf Dolgellau, gan roddi peth goleu-fyneg ynghylch rhai o honynt.

Yr oedd unwaith garnedd yn sefyll ar fryncyn yn Waen Bant, perthynol i Bant y Llan, a cher ei chornel ddwyreiniol. Ond tua'r flwyddyn 1840, fel yr oeddid yn dwyn ei cheryg ymaith i wneyd clawdd i gau i mewn y Waen grybwylledig, caed ynddi rai ceryg brasach na'r rhai oedd o'i deutu, a lle gwag i'w glywed, ac yn y gwagle caed esgyrn, pa rai yn ol dywediad meddyg, oeddynt esgyrn dynol. Heb fod ymhell oddiwrth y garnedd hon ac ar y mynydd perthynol i'r un tyddyn yr oedd carnedd arall. A chaed lludw ac esgyrn ynddi pan oeddid yn cario ei cheryg ymaith i godi clawdd terfyn rhwng mynydd Pant y Lan, a mynydd Hafod Dywyll, tua'r flwyddyn 1830.

Ar Ros Hafotty Fach, sef darn o dir yn agos i'r lleoedd a nodwyd, erys olion dwy garnedd fawr, y leiaf o honynt yn mesur tua thriugain troedfedd o dryfesur, a'r llall yn mesur tua deuddeg a thriugain o droedfeddi yr un modd. Wrth archwilio y fwyaf o'r ddwy yn neu oddeutu'r flwyddyn 1853, caed ynddi ddwy gistfaen. Ac ymddengys y caed un gistfaen yn y leiaf o honynt. Planwyd coed

* Nid oes namyn un o'r Corlenydd Bach hyny (y rhai oeddynt ddwy mewn nifer) yn aros hyd yn awr, ac nid yw clawdd hono chwaith mewn trefn dda. Cariwyd o geryg y gorlan arall ymaith at adeiladiad o'r newydd hen glawdd mynydd Cae'r Mynach, pa un a ail-adeiladwyd fel hyn yn y blynyddoedd 1846-7. Cyfeiriwyd at y Corlenydd Bach hyn yn mhellach yn ol.

Digitized by Google

ffawydd yn y rhan ddwyreiniol i'r leiaf o honynt yn y flwyddyn 1877, wrth blanu y cyfryw goed ar yr ochr hono i'r rhos lle y mae mangre'r olion a nodwyd.

Yn Ffridd yr Erw Wen pa un sydd am y clawdd a'r rhos grybwylledig, ond yn gorwedd yn mhlwyf Dolgellau, yr oedd gynt garnedd yn cynwys tair cistfaen. Yn un o honynt yr oedd ysten bridd gyda chareg ar ei genau. Ac ymddengys oddiwrth y darluniad a roddwyd o gynwysiad yr ysten hon y cynwysai weddillion dynol. Darganfyddwyd yr ysten a'r cistfeini hyn, oddeutu'r flwyddyn 1820, pan yn ceisio ceryg o'r garnedd i adeilo clawdd Yr oedd ar y ffridd hon garneddau eraill eithr yr oeddynt yn llai na'r un a nodwyd. Ar Ffridd Nantgwrddol (Nantgwyrddail), yr hon sydd am y Ffordd Ddu a Ffridd yr Erw Wen a nodwyd, ond ill dwyoedd yn gorwedd yn yr unrhyw blwyf, saif olion carnedd yn ymyl y ffordd hono, yn mesur tua thriugain troedfedd o drawsfesur. Ymddengys y bu carnedd arall llai ei hamgylchedd yn gorphwys ar fan yn ymyl yr un ffordd ac o fewn amgau yr unrhyw ffridd, ond y mae y fan lle y dywedir yr oedd yn awr yn dipyn o dwll.

Gan fod yn yr ardal gynifer o feini wedi eu gosod ar eu penau yn y ddaear, a chymaint o olion hen garneddau beddrodol y mae yn amlwg i'r gymydogaeth fynyddig hon fod gynt yn lle pwysig. Yn yr un gymydogaeth hefyd y mae safleoedd Llys Bradwen a'r Eglwys Goel. Ond y mae y carneddau a gynwysent y cistfeini a'r ystenau, ganrifoedd yn hynach nag amser Bradwen. Felly, hefyd, tebygol y mae gyda rhai, o leiaf o'r meini y cyfeiriwyd atynt. Ac hwyrach fod y carneddau hyn a'r cyfryw feini wedi eu cyfodi ganrifoedd yn flaenorol i adeiladiad yr eglwys Goel hyd yn nod pe ei cyfluniwyd yn amser Coel Godebog yr hen frenin a'r sant Cymreig crybwylledig, ond o'r tu arall gallai iddynt gael eu cyfodi tua'i amser ef neu gwedi. Y mae yn eglur o barth rhai o'r carneddau mai fel gwyddfäau beddrodol eu ffurfiwyd, ac feallai mai dyna oedd diben yr oll o'r carneddau hynafol hyn yn yr ardal. Ac y mae braidd yn sicr mai dynodi gweddillion rhyw un neu gilydd, y mae y ddau faen y cyfeiriwyd atynt ag sydd a u safle yn agos i Lynau Crygenan. Dyna hefyd feallai oedd diben y ddau faen ar y gefnen yn Ngwaen Bant, Pant y Llan, un o ba rai fel y mynegwyd a ddygwyd ymaith. Ac fel hyn y mae yn ymddangos i'r fan fod unwaith yn fangre ddewisedig i argelu pobl a gwympwyd gan angau y naill ffordd neu'r llall. Neu ynte ddarfod i'r ardal fod yn safle un neu ychwaneg o frwydrau marwol, ac y codwyd y gwyddfäau hyn ar nifer o'r meirw ar y gadfa waedlyd y syrthiasant.

Ond i symud i gymydogaeth arall, yr oedd unwaith, yn gorphwys

ar Ffridd Pen y Grug, pa un a berthyn i'r Borth Wen, garnedd isel o'r enw y Garnedd Ddu. Cafodd ei chwalu oddeutu'r flwyddyn 1840, ac aed a rhyw gymaint o'i cheryg ymaith i wneyd clawdd y ffridd hono. Ymddengys oddiwrth a ddywedir mai gwyddfa feddrodol oedd neu garnedd er diogelu gweddillion y marw claddedig ynddi. Gelwid yr enw Pen y Grug ar y gyfran o'r mynydd lle y gorwedd y ffridd hon, yn flaenorol i'w chauad i mewn, yn ol a ddywedir, ac yr oeddid wedi ei dosbarthu tuag at ei hamgau ryw ugain mlynedd cyn y gwnaed hyny.

Hefyd yr oedd dwy garnedd unwaith yn gorwedd gerllaw clawdd Ffridd Tryfana, ceryg pa rai a gymerwyd i'w adeilo, ond cyfeiriwyd atynt yn mhellach yn ol. Gweler tud. 370 a 372.

Ymddengys fod i un o'r Corlenydd Bach* y cyfeiriwyd ati gael ei chodi mewn rhan â'r hen garnedd, ac fod crynswth o'r garnedd hono yn aros eto ar fan.

---

## Y CRUGIAU MESURONOL TRIONGLOG NEU GYFLEGROL.

Codwyd nifer o'r cyfryw grugiau ag a nodir yn y penawd uchod o fewn terfynau hen Gantref Meirionydd yn agos i ddechreu y ganrif hon. Diben eu cyfodiad ar y pryd oedd er mwyn cynorthwyo y filwriaeth i ddwyn ymlaen eu mesuriad Cyflegrol neu Drionglog. Ac fel hyn codwyd crug neu garnedd ar le o'r enw Pen y Garn yn y flwyddyn 1805. Ond y mae yn ymddangos y cyfodwyd carnedd yno yn flaenorol i ryw ddiben neu gilydd. Yn yr un flwyddyn hefyd y cyfodwyd crug o geryg a adnabyddir fel y Gorlan Fraith, neu a godwyd ar fan a adnabyddid felly. Ac ymddengys y bu yma ryw adail yn flaenorol yn myned dan yr enw hwn. Saif y crug y cyfeiriwyd ato ddiwaethaf, ar y mynydd, yn mhlwyf Tywyn, ac yn nghymydogaethau Bryn Crug o un tu, a Chwm Dyffryn Gwyn o'r tu arall. Ond ymddengys mai yn y flwyddyn 1836 y codwyd crug ar ben Cadair Idris i'r diben hwn. Bu Pen y Cyfrwy, Tyrau Mawr, Pared y Gefnir, Moel Esgudion (neu Foel Cae'r Ynwch), Taren Gesail, Pen Mynydd Cwm Celli, a manau eraill yn cael eu defnyddio i ddwyn ymlaen y mesur-

---

* Cyfeirir yma at yr un o'r Corlenydd Bach ag y cymerwyd o'i cheryg ymaith at adeilo o'r newydd glawdd mynydd Cae'r Mynach. Gwelir nodyn yn tud. 373.

Digitized by Google

iad, ond nis gwn a godwyd crugiau o dywyrch neu geryg ar yr oll o'r lleoedd hyny. Dywed llythyr a ysgrifenwyd trwy gyfarwyddyd yr Is-gadfridog Cameron, ac a arwyddwyd gan y Milwriad J. Bayly. "Ymddengys y mesurwyd rhan ogleddol Swydd Feirionydd yn 1818—1819, gan mwyaf, a'r rhan ddeheuol yn 1832—34, ond gwnaed cyfran fechan mor foreu a 1816, ac ni wnaed cyfran fechan arall hyd 1836." *

Ond heblaw hyn codwyd yn y blynyddoedd 1883—5 fân grugiau† i ddal pawl-nodau, yn hen Gantref Meirionydd, mewn cysylltiad â'r Mesuriad Cyflegrol neu Drionglog yn y blynyddoedd 1883—5. Dygir y gwaith ymlaen mewn cysylltiad â'r mesuriad diweddaraf hwn, ar raddeg o bum modfedd ar hugain i'r filltir ar y parthleni, tra na wneid mewn cysylltiad â'r parthleni blaenorol, ond ar raddeg o un fodfedd i'r filltir. Ac ymddengys nas gorphenwyd y mesuriad neu yr arolygiad yn ei holl ranau erbyn y rhan gyntaf o eleni (1889).

---

## ACHAU PANT PHYLIP.

Meddianydd ‡ a phreswylydd presenol Pant Phylip ydyw Mr. Edward Owen, am yr hwn y dywed y "Traethodydd" ei fod yn hanu o un o feibion Lewis Ywain y barwn. Ac ymddengys mai Simon Ywain, chweched mab yr unrhyw farwn ydoedd yr un yr hanai felly

---

NODYN.—Dygwyd yr ardremiad Daearegol ymlaen yn Swydd Feirionydd fel yr ymddengys yn y blynyddoedd 1850—5.

† Ymddengys y cyfodwyd crugiau ar fanau yn Swydd Feirionydd oddeutu'r flwyddyn 1872, mewn cysylltiad â mesuriad Swydd Gaernarfon. Dygwyd ymlaen yr ardremiad daearegol yn Swydd Feirionydd yn y blynyddoedd 1850—5, fel yr ymddengys.

‡ Dywedir mai o blwyf Llanfachraith y daeth y teulu hwn i Bant Phylip i ddechreu, yn herwydd ymrafael rhyngddynt ag arglwyddes Nannau. Yr oedd hen dŷ Pant Phylip ychydig oddiwrth safle y presenol. O'r tu allan ar lechfaen ar y mur, uwch ben ffenestr lloft y tŷ presenol, y mae y llythyrenau a'r rhifnodau dilynol yn gerfiedig:—

O
E M
1 7 3 1

Golyga y llythyrenau penigol hyn Edward a Margaret Owen, sef gwr a gwraig y tŷ. Merch Gwanas yn mhlwyf Dolgellau ydoedd hi.

Digitized by Google

o hono. Ymbriododd y Simon hwn â merch ac etifeddes Gruffydd ab Hywel Gruffydd o Hafod Dywyll. A gesyd âchrestr o hen deulu Cae'r Berllan fod yr unrhyw Simon yn hynafiad i Yweniaid Pant Phylip, ac hefyd i Yweniaid Garth Angharad a'r Tŷ Gwyn (Abergwynnant yn awr). Dywed Ywain Gwynedd y bardd am dano yn ei ddarluniad o feibion y barwn crybwylledig,—

"Os yw nerth i'n sir ni
Simwnt hael sy' i'w mantoli."

Bu i Edward Owen a nodwyd frawd o'r enw Dafydd Owen, yr hwn a fu farw yn y fl. 1887, eithr y mae ei weddw yn ei oloesi, ond nid oes plant iddynt yn fyw. Yr ydoedd iddo hefyd chwiorydd, ac y mae i un o honynt, sef Beti (Elisabeth) Jones, yn ol ei chyfenw priodasol, gryn lawer o hiliogaeth a chyfrif y plant a'r wyrion a'r orwyrion hefyd. Yr ydoedd i Mr. Ellis Owen, tad y ddau frawd a'r chwiorydd crybwylledig, amryw frodyr a chwiorydd. Eu henwau oeddynt Edward Owen, yr hwn a fu farw yn ddibriod; Beti (Elisabeth) Evan (yn ol ei chyfenw priodasol) i'r hon y mae hiliogaeth; Dafydd Owen, yr hwn a aeth yn forwr, ac nis gwyddis ei hanes, ond tebygol ei fod yntau wedi ymadael â'r fuchedd hon fel y darfu i'r oll o'i frodyr a'i chwiorydd; Evan Owen, yr hwn a fu yn briod, ac y mae iddo hiliogaeth; Mari Jones (yn ol ei chyfenw priodasol) i'r hon y mae hiliogaeth; Robert Owen, Hafod-dyliadau, yr hwn a fu yn briod, ond heb feddu hiliogaeth.

Merch i'r grybwylledig Mari Jones yw Mrs. Beti (Elisabeth) Jones, Hafotty Fach, yn nghymydogaeth Pant Phylip, yr hon a fu'n briod ac sydd yn meddu hiliogaeth. Ac y mae un brawd a chwiorydd iddi yn fyw, a'r oll wedi priodi ac yn meddu hiliogaeth, ond bu un brawd iddi farw, eithr yr ydoedd yn briod, a gadawodd ferch yn fyw ar ei ol.

Merch i'r grybwylledig Beti (Elisabeth) Evan (yn ol ei chyfenw priodasol) ydyw Mrs. Cathrin Dafis, y Fegle Fawr, yn nghymydogaeth Pant Phylip, i'r hon y mae hiliogaeth. A brawd i'r Mrs. Cathrin Dafis hon ydoedd y diweddar Barch. Evan Evans, awdwr Coleg y Darllenydd, &c. Hanai y ddiweddar Mrs. Laura Rees (yn ol ei chyfenw priodasol cynaf, ond Pugh yn ol yr ail) o Gwm Pen Llydan, yn nghymydogaeth y lleoedd a enwyd, o Yweniaid Pant Phylip, trwy Eleanor, chwaer i Dafydd Ywain, taid y crybwylledig Ellis Owen, yr hon a briododd Mr. John Jones, Trefri Fawr, yn nghymydogaeth Aberdyfi.

Disgyna Mr. John Richards, yn awr o Faes y Llan, yn y plwyf cyffiniol Llan Fihangel y Pennant, o Yweniaid Pant Phylip, trwy ei nain o fam ei dad, Dafydd Richard, gynt o Bencoed yn y

Digitized by Google

gymydogaeth,* sef Margaret Richard, yn ol ei chyfenw priodasol, yr hon ydoedd chwaer i dad y crybwylledig Ellis Owen. Ymbriododd y John Richard hwn â Sarah un o ferched y diweddar Mr. John Vaughan, o'r unrhyw Faes y Llan, blaenor gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, i ba le yr aethant i fyw ymhen llawer o flynyddoedd ar ol eu priodas. Bu farw dau frawd ac un chwaer i Mr. John Richard, yn America, ac un brawd a dwy chwaer yn Nghymru. Cyfeirir at un o'r ddwy a nodwyd olaf yn y nodyn islaw, yr hon a fu farw yn mis Mai, y flwyddyn 1886.

Beti (Elisabeth) Evan yn ol ei chyfenw priodasol, chwaer y grybwylledig Fargaret Richard, nain y Mr. John Richard, a nodwyd, ydoedd hen nain y diweddar Mrs. Jones, priod y diweddar Mr. Robert Jones, barcer, Dolgellau, a rhieni Mr. Dafydd Jones, yn awr o Bryn yr Aber, yn nghymydogaeth y Bala, i'r hwn y mae dwy chwaer, un o honynt yn briod, a'r llall yn weddw, ac ill dwy yn meddu hiliogaeth. Ac y mae iddo nith o ferch chwaer a fu farw ym mhriod, yr hon sy'n wraig briod ac yn meddu hiliogaeth.

Yr ydys wedi crybwyll yn barod i Eleanor chwaer Dafydd Ywain, taid y crybwylledig Ellis Owen, briodi Mr. John Jones, Trefri Fawr. Ymbriododd John Jones, mab y ddau hyn, â merch i Mr. Edwards, ebrwyad Llan Badarn Fawr, ac ymbriododd Anne Jones, merch y ddau a enwyd olaf, â Mr. Thomas Griffith, Maesanadlog, Ystrad Meurig. Un o feibion yr Anne hon a'i dywededig wr, Thomas Griffith, ydoedd y diweddar enwog a'r rhyddfrydig Barch. John Griffith, Rheithor Merthyr. A brawd i'r dywededig reithor ydoedd y diweddar Mr. Thomas Griffith, Tan y Foel, yn nghymydogaeth Aberdyfi, yr hwn a briododd Lydia, ferch Mr. John Ellis, Pen y Bryn (Pen y Bryn Hafod Oer), ym mhlwyf Dolgellau, yr hon sydd yn ei oloesi. A meibion i'r ddau hyn ydyw Mr. Richard Evan Griffith, Esgairgyfela, a'i frawd, Mr. Thomas James Griffith, o'r un lle. Hefyd yr ydoedd i'r dywededig reithor chwaer o'r enw Elisabeth Henrietta, neu Mrs. Dafis, yn ol cyfenw Mr. Hugh Dafis ei phriod.

Bu gynt felin flawd ar dir Pant Phylip, ond ryw dro yn amser sychder a phrinder dwfr ati, anfonodd gwr y tyddyndy a elwid Pwll Arthog (yr hwn, yr ymddengys a biodd y lle) ei was yno i gael malu ŷd i'w

---

* Dacth i fyw yno cyn priodi o hono. Bu yn dal y Pennant gyda Phencoed ar yr yr un pryd, pa rai sydd yn ffinio a'u gilydd mewn rhan. Ymneillduodd o drin tir cyn ei farw, yr hyn a gymerodd le yn y Pennant, tyddyndy perthynol i'r tyddyn a nodwyd olaf yn y nodyn hwn, Preswyliai yno ar y pryd gyda mab-ynghyfraith iddo a'i ferch Gwen—Gwen Williams, yn ol ei chyfenw priodasol, y rhai a ddalient neu a amaethent ran o'r tyddyn hwnw ar y pryd. Ond ymadawsant oddiyno flynyddoedd cyn eu marw.

Digitized by Google

gŵn hela, pryd y gomeddodd y melinydd wneyd, gan ddywedyd fod arno "eisiau malu i blant dynion yn nghynta." Ffromodd gwr Pwll Arthog oherwydd hyn, a bygythiodd godi melin ei hun, gan ddywedyd fod ganddo well lle am un. Ac felly, codwyd Melin Pwll Arthog, neu fel ei gelwir yn gyffredin yn awr Melin Arthog. Ymhen amser, trowyd Melin Pant Phylip yn bandy, a hyny i Dafydd Ywain, mab Edward a Margared Ywain ag y mae eu henwau a llythyrenau penigol eu henwau i'w canfod mewn nodyn yn mhellach yn ol yn y tud. 376. Cafodd hwn, yn ol a ddywedir, ei anfon gan ei rieni neu ei fam, i Loegr i ddysgu lliwio brethynau, a'u gwneyd i fyny fel yn y wlad hono. Ymddengys na pharhawyd i ddwyn gwaith panu ymlaen am hir amser yn y pandy hwn,—ddim ond am ryw ddeng mlynedd neu fwy, feallai. Ac ystyrir fod oddeutu wyth ugain mlynedd er pan ei dygid ymlaen fel pandy. Y mae ar dir Pant Phylip gaeau o'r enwau Cae'r Felin a Chae'r Deintur. Nid oes malu yn Melin Pwll Arthog neu Felin Arthog er y flwyddyn 1861.

---

## CADLESYDD* CEILIOGOD.

Y mae olion dau o'r cadlesydd hyn gerllaw Hafotty Fach,—un o honynt ar y fan a elwir Rhos y Fotty Fach, yn ymyl rhidys dwfr a red o gyfeiriad plwyf Dolgellau, ac ar y tu agosaf iddo i'r tyddyndy, a'r llall ar y fan a elwir y Foel—Foel y "Fotty Fach." Olion cylchog ydynt, a'r tir wedi ei dori fel rhyw ffos fechan o'u hamgylch. Mesura arwynebedd un o honynt oddeutu deg troedfedd o dryfesur, a'r llall oddeutu deuddeg neu dair troedfedd ar ddeg ar ei draws. Y mae yr un a nodwyd olaf yn fwy amlwg, ond nid yw ei arwynebedd yn cadw ei ffurf gylchog yn gystal a'r llall. Diben y rhai hyn oedd i fod yn lle i geiliogod ymladd arnynt, a buwyd yn eu dwyn i ymladd â'u gilydd ar y Suliau tua'r "Fotty Fach," fel mewn rhanau eraill o'r wlad, a thebygol y defnyddiwyd un neu y ddeufan a nodwyd i'r diben hwnw ar y cyfryw ddyddiau. Cyngwystlid ar y ceiliogod, a rhoddid arfau dur yn bigau blaenllymion ar eu hyspardunau, i'w grymuso yn nhrywaniad yr aderyn gelynol yn yr ymladdfa benodedig.

---

* *Pit* (lluosog *Pitia*) Ceiliogod, meddir ar lafar gwlad.

Digitized by Google

Dywedir mai wrth Hafotty Fach y pregethwyd gyntaf yn y plwyf hwn gan un o'r Trefnyddion Calfinaidd, ac mai y gwr a bregethodd felly yno ydoedd un Shon Rhys. Cafodd lonydd i bregethu yn yr oedfa ddau o'r gloch, ond erbyn oedfa yr hwyr, darfu i dyrfa o blant y fall hel at eu gilydd i'w luchio, a gorfu arno yntau ddianc i gornel aelwyd Hafotty Fach. Ac o'r herwydd, gadawyd simddau yr aelwyd hono heb ei thynu i lawr yn adeg ail adeiladiad y tyddyndy hwnw, tua'r flwyddyn 1850. Ac yr oedd gadael yr hen gornel aelwyd hono fel hyny i aros yn weithred ystyriol a chanmoladwy. Nid yw yn ymddangos i'r pregethwr dderbyn niwaid oddiwrth yr aflonyddwyr hyny.

Ymhen amser wedi i'r gwr a nodwyd fod yn pregethu wrth Hafotty Fach, bu un o'r Trefnyddion Wesleyaeth yn pregethu wrth y lle oddeutu'r flwyddyn 1821. Enw y gwr a fu yn pregethu wrth Hafotty Fach y tro hwn ydoedd Owen Rhys, a chafodd eithaf llonyddwch i gynal yr odfa. Dywedir fyned o hono i wledydd tramor i bregethu yr efengyl a cholli ei iechyd, ond ei ddyfod yn ol cyn ei farw. Bu un o'r Bedyddwyr o'r enw Walter Dafis yn pregethu yn nhŷ Hafotty Fach rai gweithiau er's mwy na haner can' mlynedd yn ol i'r flwyddyn 1887, yn ol fel y dywedir.

---

## PERSONAU.

---

### JOHN WILLIAMS (IOAN RHAGFYR).

Yr ydoedd John Williams (Ioan Rhagfyr), yn fardd a cherddor, a chafodd ei eni yn Hafotty Fach ar y 26ain o Ragfyr, 1740, sef blwyddyn y Rhew Mawr fel ei dynodir. Cafodd ei ddwyn i fyny yn wneuthurwr hetiau brethyn, sef yr un gelfyddyd a'i dad William Robert Williams. Yr oedd ei fam yn gyfnither i'r bardd a'r cyfieithydd enwog, y Parch. Edward Samuel, periglor Llangar. Pan yn ieuanc, arferai fyned ar hyd a lled y wlad i'r ffeiriau a'r marchnadoedd i werthu hetiau, ond rhoddodd heibio y teithio masnachol hwn, ynghyd â'r gelfyddyd o'u gwneuthur, pan ydoedd tua 33 mlwydd oed. Yn ol a ddywedir, ni chafodd ond rhyw dri mis o ysgol ddyddiol erioed; er hyny, llwydd-

Digitized by Google

odd i dyfu fyny yn gryn ysgolhaig. Cyn hir amser ar ol ei enedigaeth, symudodd ei rieni i fyw o Hafotty Fach i Dal y Waen yn mhlwyf Dolgellau. A phan yno, tynwyd sylw masnachwyr gwlan o'r Amwythig at y bachgen, wrth ei weled mor awyddus i ysgrifenu a darllen, ac yn un synwyrlawn o olwg, llariaidd o fryd, a chymwynasgar o dymer. Felly, hwy a feddyliasant am roi rhyw gymaint o ysgol iddo yn y dref hono, a gan i'w rieni ag yntau gydsynio â'u bwriad caredig a llesol, cafodd felly ychydig ysgol yn Amwythig. A hynododd yntau ei hun yno fel dysgwr cyflym. Yn ol a nodir, byddai ar ol ei ddychweliad adref o'r ysgol yn Amwythig, yn arfer myned a'r bib Almaenaidd gydag ef i'r mynydd y tu cefn i Dalywaen, pan fyddai y tywydd yn braf, i'w chanu wrtho ei hun yn y fan hono. Ond bryd arall, pan fai garwach yr hin, cymerai yr udgorn gydag ef yno i'r un diben. Ac yr oedd seiniau y rhai hyn wrth eu clywed oddi draw wedi peri i'r cymydogion siarad yn eu cylch, hebyn wybod ar y cyntaf beth allasent fod.

Nodir iddo roddi heibio y gelfyddyd ei haddysgwyd ynddi pan ydoedd tua deuddeg ar hugain oed, a myned yn ysgrifenydd at gyfreithiwr yn Nolgellau o'r enw Edward Anwyl. Ond ni pharhaodd i ymgymeryd â'r gorchwyl hwnw am hir amser. Yna ymgymerodd â'r gwaith o gadw ysgol. A bu yn addysgwr felly am hirfaith flynyddoedd, gan ddwyn ymlaen y gwaith hwnw mewn rhai manau gwahanol yn ystod yr amser. Y lle cyntaf, yn ol a nodir, oedd Trawsfynydd, lle y bu am hir amser, ac wedi hyny, bu yn cadw ysgol yn Abermaw a Dolgellau, ac yn olaf yn Llanelltyd. A symudodd o'r lle olaf hwn a enwyd i Ddolgellau, a bu farw yn y dref hono ar y 11eg o fis Mawrth yn y flwyddyn 1821, yn 81 mlwydd oed.

Yr ydys wedi ei osod allan yn y penawd fel bardd a cherddor, ond ymddengys mai yn y cymeriad a nodwyd olaf y daeth i fwyaf o fri, ac ystyrir iddo ymgodi yn uchel yn y cymeriad hwnw fel cerddor eglwysig. Nodir iddo ddechreu prydyddu yn fedrus pan yn 17 oed, ac erbyn ei fod yn 22ain oed, y meddai rai cywyddau, englynion, ac awdlau gorchestol wedi eu cyfansoddi ar amrywiol destynau. Bwriadai gyhoeddi ei weithiau barddonol a cherddorol yn un llyfr o pan yr enw, "Difyrwch y Cymro," ond bu farw heb gael y bwriad hwnw i ben. Cyhoeddwyd llawer o'i dônau, ac hefyd rai o'i anthemau yn y "Brenhinol Ganiadau Seion," ond gan nad arferid rhoddi enwau yr awdwyr wrth eu gweithiau yn y cyfrolau hyny, dichon nas gellir dynodi pob un o'i weithiau ar sydd ynddynt. Ac nid ydoedd yntau yn arfer cadw adysgrifau o'i gyfansoddiadau. Ystyrir nad yw nifer y cyfansoddiadau cerddorol ag y gwyddis mai fe yw eu hawdwr yn agos gymaint ag a gyfansoddodd. Mynegir mai ei waith

Digitized by Google

ef yw "Ymdaith Gwyr Meirion," "Ymdaith Gwyr Abermaw," anthem Nadolig, "Ac yr oedd yn y wlad hono," anthem Job, sef "Onid *oes* amser terfynedig," yr un a elwir anthem fawr Llanllechid, sef "Cenwch i'r Arglwydd ganiad newydd," anthem, "Wrth afonydd Babilon, ac anthem ar y xviii. Salm, "Yn fy nghyfyngder y gelwais." Cyfansoddodd yr anthem a nodwyd olaf ar ol cael ei adferu yn weddol o glefyd trwm a'i goddiweddodd yn y flwyddyn 1797, a chafodd yn y cyfamser hefyd ei daraw âg ergyd o'r parlys. A darostyngwyd ef druan drwy hyn o dan effeithiau tostlym gofynion y gyfraith yn herwydd prinder arianol. A derbyniodd y pryd hwn anrhegion oddiwrth wahanol bersonau. Ac hwyrach mai y pryd hwn yr anrhegwyd ef â phum' gini gan y Milwriad Salisburi, o Rug, am yr ymdeithiau a'r chwai ddawnsiau ag ydoedd wedi eu cyfansoddi at ei wasanaeth. Ond heblaw yr anthemau a nodwyd, gelwir rhai eraill o'i eiddo yn "Te Deum," "Jubilate Deo," a "Deus Mesereatur." Ystyrir mai y dôn fwyaf poblogaidd o'i eiddo yw yr un a elwir "Y Sabbath;" ac yn ol a fynegir, nad yw y dôn hon ag sydd mewn arferiad, namyn un a wnaeth ar y penill cyntaf o emyn ar yr unrhyw destyn, eithr ddarfod iddo gyfansoddi cerddoriaeth ar yr oll o'r penillion ag sydd yn gwneyd i fyny yr emyn hwnw. Cyfansoddodd y dôn "Funeral" pan yn cadw ysgyl yn Abermaw, a hyny ar gais cenad a ddaeth i'w hysbysu fod gweindog eglwysig Llanfachraith wedi marw, ac y dymunai ei deulu iddo gyfansoddi tôn angladdol iddo i'w chanu yn ei gladdedigaeth. Yn ol un ysgrifenydd, cyfansoddodd dôn ar y Salm gyntaf pan yn laslanc; ond yn ol un arall, yr ydoedd yn ymyl diwedd ei oes pan y gwnaeth. Dichon iddo gyfansoddi dwy dôn ar y Salm hono, eithr os naddo, ymddengys mai yr un a'i gesyd yn waith ei ieuenctid sydd yn gywir. Canys nodir o barth iddi y buwyd yn dysgu ei chanu yn eglwys Dolgellau, ac ddarfod ar ryw dro pan ei cenid yno, ddyfod o Mr. John Symons, un o Swydd Drefaldwyn, i mewn, yr hwn a fyddai yn myned oddiamgylch i addysgu cerddoriaeth. Ac wedi iddo ofyn pwy ydoedd awdwr y dôn wael hono, yr atebodd yntau yn lled wylaidd mai efe ydoedd, ac y ceisiai wneyd y nesaf yn well. Ac erbyn i Mr. Symmons ddyfod drachefn, yr oedd y côr yn canu anthem o'i waith ar y geiriau "Parod yw fy nghalon," pan ddaeth hwnw i'r eglwys. Ac wedi deall pwy ydoedd ei hawdwr, ddywedyd o hono ei fod wedi myned a'i damaid o'i ben yn Nolgellau am byth. Buont yn gyfeillion â'u gilydd wedi hyn, ac yn anfon eu gweithiau y naill i'r llall. Ei briod ydoedd Jane, ferch i Mr. William Jones, Brynrhug, ym mhlwyf Dolgellau, yr hon a fu farw cyn hir ar ei ol. Ni fu iddynt blant. Claddwyd y ddau yn hen fynwent Llan Fair, Bryn Meurig. Ac ar gareg

Digitized by Google

ei fedd ar ei gorwedd ger porth yr eglwys, y tu de i'r llwybr a arwain iddi, gan orphwys mewn rhan fechan ar ei gŵr, y mae yr englyn canlynol mewn rhan yn gerfiedig. Diameu fod yr englyn yn gyflawn arni ar y cyntaf pan yr oedd yn gyfanach, ond erbyn hyn, y mae rhai o'r llythyrenau yn ngoll neu yn annarllenadwy. Ond wele yr englyn yn llawn :—

"Mal eos dannau melus donydd,—gwir
Athraw a gwych brydydd;
Gwr ennwog gwir awenydd,
Gwr o ddawn goreu i'w ddydd."

O dan y gareg hono, hefyd, y mae bedd ei briod, yr hon a fu farw yn 78 mlwydd oed.

---

## Y PARCH. LEWIS MORRIS.

Yr oedd Lewis Morris yn weinidog yr efengyl ymhlith y Trefnyddion Calfinaidd. Cafodd ei eni yn Nghoed y Gweddill, yr eilfed o Fehefin, 1760. Yr oedd yn adeg tra isel ar grefydd yn yr ardal y pryd hwnw, ac o ran hyny yn y wlad yn gyffredinol. Nid oedd ond ychydig a allai ddarllen yn yr ardal, ac nid oedd ond ychydig o bregethu yno hefyd. Byddai y Crynwyr weithiau yn cadw moddion yn y Llwyn Du, eithr nid oedd yno yr un enwad arall o Ymneillduwyr yn pregethu yn y fro. Eithr pregethid bob yn ail Sabbath yn y Llan. Yn ol a ddywedai ef ei hun, fel y nodir, agwedd dywyll ac annuwiol iawn oedd ar y wlad yr amser hwn, a champau llygredig yn cario'r dydd, megis gwylmabsantau, nosweithiau canu a dawnsio, cwrw cyfeddach, chwareu cardiau, ymladd ceiliogod, rhedegfeydd ceffylau, a chicio y bêl droed ar y Suliau. Elai ei rieni i'r eglwys yn dra chyson, ac arferwyd yntau hefyd i ddilyn y moddion eglwysig yn gyffelyb. Ond, er hyny, tyfodd i fynu yn ddyn ieuanc gwyllt ac annuwiol, gan ddilyn arferion ofer ac andwyol yr oes. Eithr pan ydoedd yn naw mlwydd ar hugain oed, cafodd drōedigaeth amlwg, a gadawodd yr hen gampau a'r cynulliadau llygredig hyny yn hollol ac am byth. Yr oedd y Trefnyddion Calfinaidd, wedi dechreu pregethu yn yr ardal ar droion tua'r pryd hwn, ond nid oedd eu pregethiad yn cael dim effaith er gwell arno ef, ac erlidid yn dost y pregethwyr a'r crefydd-

Digitized by Google

wyr a berthynai iddynt, a byddai yntau a'i holl egni yn gwrthwynebu y "pregethu newydd," fel ei gelwid. Un prydnawn Sabbath, daeth John Ellis, pregethwr gyda'r Annibynwyr mae'n debygol, ynghyd âg ychydig grefyddwyr drosodd o Abermaw i Lwyngwryl, gan feddwl cadw oedfa yn y pentref y prydnawn hwnw. Ond wedi i Lewis Morris dd'od i'r lle i ddilyn ei ddifyrion llygredig, a chlywed iddynt gael addewid i gynal y moddion mewn tafarndy oedd yno, ac nad oedd wiw iddo ef a'i gymdeithion fyned iddo i yfed cwrw y diwrnod hwnw, aeth yn llawn gwylltineb at ŵr y tŷ, gan ei fygwth os rhoddai ganiatad i'r fath beth ddigwydd tan ei gronglwyd, y rhwystrai iddo gael gwerthu diod o gwbl, ac yr elai a phob achos neu gwrdd yfed i dyfarndy arall oedd yn y pentref. A chan y gwyddai y tafarnwr fod gan y bygythiwr ddylanwad lled drwyadl ar ei gymdeithion, rhwystrodd y crefyddwyr i gael cynal y moddion yn ei dŷ, a gorfu arnynt ddychwelyd yn ol heb gael cario allan eu hamcanion daionus.

Yn mhen oddeutu blwyddyn wedi hyn, sef yn mis Awst, 1789, aeth i Fachynlleth i'r wyl-fabsant, a'r rhedegfa geffylau a gedwid yno yn flynyddol, a phan yno y pryd hwnw cafodd argyhoeddiad disymwth. Canys fel yr ydoedd yn marchogaeth trwy heol Maengwyn yn y dref hono, brydnawn dydd Llun, wrth ddychwelyd o fod yn edrych y lle yr oedd y meirch i redeg, clywai ganu tra gwresog mewn tŷ yn yr heol; ac yn ddisymwth yn y fan, trywanwyd ef â rhyw saeth lem trwy ei galon, nes ei sobri ar unwaith, er maint ei wylltineb. Canu ydoedd hwnw ar ddiwedd pregeth, a daeth i'w feddwl yntau mewn modd anorchfygol eu bod gyda gwell gwaith nag yr oedd ef. A chofiodd mewn dychryn mawr am yr amser yr oedd wedi atal pregethu yn Llwyngwryl, a gwelodd ei fod yn elyn i Dduw ac i'w bobl. Disgynodd oddiar ei farch mewn teimladau difrifol iawn, ac aeth i dy tafarn i geisio cael tawelwch i'w feddyliau cyffrous, a dychrynfawr. Ond nid oedd digon o allu yn holl dafarnau'r byd i'w dawelu. Yr oedd ei fynwes fel a'r dân, a'r syniad mai dyn yn myned i'r farn ydoedd wedi llyncu ei feddwl yn llwyr. Deallodd ei gymdeithion fod rhywbeth o bwys ar ei feddwl, a dywedodd yntau wrthynt fod yn rhaid iddo fyned adref, a chododd i fyned i'w daith. Aeth rhai o'r hen gyfeillion allan ar ei ol, a cheisiasant ei ddarbwyllo trwy bob modd i aros, gan roi fel rheswm mawr dros hyny, mai dranoeth yr oedd y gamp i gymeryd lle, gan feddwl y rhedegfa yn un peth o leiaf y mae yn ddiameu. Ond dywedodd wrthynt ei fod yn ymadael a hwynt am byth, ac os na chai ef a hwythau dröedigaeth y dibenent eu taith yn nhân uffern. Cychwynodd adref yn ddioed, ac yn ol fel y dywedai ei hun, nid oedd dim ond achos ei

enaid ar ei feddwl wrth ddychwelyd, er nad oedd hyny yn pwyso dim arno wrth fyned oddicartref i Fachynlleth y dydd Sadwrn blaenorol. Bu dan loesion dwfn argyhoeddiad am hir amser wedi hyny, cyn i wawr gobaith dori ar ei gydwybod. Yr oedd ei rieni a'i gymydogion yn synu beth allai fod arno, ac yntau heb ddim i ddweyd wrthynt heblaw mynegu yn ddifrifol ei fod yn ddyn colledig. Ceisiai ei fam druan ei ddarbwyllo nad oedd modd i hyny fod,—nad oedd wedi na lladd neb, na lladrata na phuteinio. Ond nid oedd dim yn tycio i dawelu ei arteithiau meddyliol am gryn amser. Yr oedd ei gorff yn curio gan boenau ei feddwl, a thybiai llawer o'i gydnabod fod ei synwyrau wedi dyrysu. Ond oddeutu Gwyl Mihangel yr un flwyddyn, wrth wrando ar y Parch. — Williams, Lledrod, yn pregethu yn Abermaw oddiar yr eilfed adnod o'r ddeuddegfed benod ar hugain o Esaiah, torodd gwawr gobaith ar ei feddwl, a deallodd am y waith gyntaf fod gobaith iddo am achubiaeth i'w enaid. Yn fuan wedi hyn, ymunodd â'r Trefnyddion Calfinaidd yn Abermaw. Ac ar y Calanmai canlynol, aeth i Fryn y Gath, Trawsfynydd, at y dywededig John Elis o'r Abermaw, yr hwn oedd yno yn cadw ysgol ddyddiol ar y pryd. Bu yn yr ysgol yno am dair wythnos, a dyma yr amser y dysgodd ddarllen ei Feibl y waith gyntaf.

Yr un flwyddyn ag yr ymunodd â chrefydd, bu ei fam farw, a throdd ei dad yn dra blin wrtho, a hyny yn unig oherwydd ei duedd grefyddol, a'i ymarferiadau wrth ddilyn y duedd hono. Addawodd iddo gymeriad o'r tir yr oeddynt yn byw ynddo os ymadawai â'r Trefnyddion Calfinaidd, ac os na wnai y byddai raid iddo ymadael o'i gartref yn Nghoed y Gweddil. Gan hyny dewisodd yntau yr olaf, ac aeth i drigo at ewythr yn nghyfraith iddo o'r enw Gruffydd Ifan, yr hwn oedd yn byw yn Nhyddyn Ithel. Arosodd gyda'i ewythr hyd nes y priododd, a chafodd gryn garedigrwydd oddiar ei law. Cai ryddid i fyned i gyfarfodydd crefyddol, ac i gyrchu a danfon pregethwyr i ac o y gymydogaeth fel yr ewyllysiai. Yn fuan wedi iddo fyned at grefydd byddai yn arfer defnyddio pob cyfle i gynghori ei gyd-ddynion i ymadael a'u pechodau, a mynegu iddynt am Iesu Grist, ac am yr angenrheidrwydd o ail enedigaeth. Ond ni feddyliai ar y cyntaf am fyned yn bregethwr, gan dybio y swydd hono yn rhy gysegredig iddo ymaflyd ynddi. Wedi hyny aeth i arfer myned ar y Sabbothau i leoedd amddifaid o foddion gras, i weddio ac i gynghori ei gyd bechaduriaid, ond heb gymeryd adnod benodol fel testyn i siarad arni. Ymddengys mai yn Nolgellau y cymerodd ei destyn y waith gyntaf erioed. Gofynodd un o hen flaenoriaid y dref hono a ddeuai yno ar nos Sabbath, pryd yr atebodd iddo nad oedd ganddo ddim i'w ddweyd wrth grefyddwyr, eu bod yn gwybod

mwy nag ef, ac yn rhagori arno ymhob ystyr. Wedi iddo roi y cyfryw atebiad gofynodd y blaenor iddo wrth bwy yr oedd ganddo beth i'w ddywedyd, ac atebodd yntau mai ceisio achub dynion annuwiol oddiar y ffordd lydan yr ydoedd. Ar hyny dywedodd y llall wrtho fod llawer o'r fath ddynion yn dyfod i'w capel hwy. Wedi cael ei gymell fel hyn anturiodd yno un nos Sabbath, a thrwy fod llawer yn ei adnabod o'r blaen daeth cryn dyrfa i'w wrando. Cymerodd yntau ei destyn i bregethu iddynt yn yr Actau ii. 47. Bu y brodyr o Ddolgellau yn gefnogol iddo yn y Cyfarfod Misol ar iddo gael caniatad i fyned yn bregethwr ar ol yr oedfa hon.

Byddai yn arfer ar yr amseroedd hyn, fyned ar foreuau Sabbothau a thamaid yn ei logell, i Fryn Crug, Bwlch, Llwyn Gwryl, Blaenau Celynin, a lleoedd eraill, gan bregethu dair neu bedair gwaith bob Sul. Deuai llawer o bobl ynghyd a byddai rhai o honynt yn dra gwawdlyd a dirmygus o hono. Ond ni chafodd ei luchio a'i faeddu ganddynt erioed. Er hyny digwyddodd un tro hynod bwysig a difrifol pan oedd yn pregethu yn Mryn Crug, yn nhŷ gwraig weddw o'r enw Beti Shôn. Y pryd yna daeth hen wraig o'r gymydogaeth at ddrws y tŷ ac a'i rhegodd yn dost am ei fod yn pregethu, a rhegodd y bobl hefyd am wrandaw arno. Ond yn ddisymwth, pan ydoedd felly yn nghanol ei gwylltineb digllon a rheglyd, tarawyd hi yn y fan â mudandod, fel na siaradodd air byth mwy, a bu farw mewn ychydig ddyddiau.

Wedi iddo fel hyn ymuno a chrefydd, a chodi i fyny yn bregethwr cyhoeddus, trodd Mr. Corbet, o Ynys Maen Gwyn, yn dra gelynol iddo yntau, fel i bob pregethwr arall o'i fath ar y pryd. Ond cyn hyny, pan ydoedd yn arfer mynychu hen gampau annuwiol yr oes, byddai hwnw yn arfer dangos pob ffafr iddo pan gyfarfyddent. Ac un tro mewn ymladdfa ceiliogod, rhoddodd Lewis Morris wth iddo yn ei wylltineb ar y pryd, ac ni wnaeth y llall ond gofyn Beth sydd arnat ti, ac yr oedd yntau yn ddigon hyf yw ateb trwy ddweyd, Cerddwch chwithau o'r ffordd ynte. Ryw noswaith pan oedd yn pregethu yn Mryn Crug anfonodd Mr. Corbet heddweis i'w ddal; ond rywfodd neu gilydd ni chyffyrddasant ag ef, a'r esgus a roddasant dros eu hymataliad, meddid, ydoedd fod arnynt ei ofn. Dro arall anfonodd filwyr i geisio ei ddal yn ei gartref, ond y noson hono yr oedd yn cysgu yn Mhennant Tigi, ar ei ffordd i fyned i bregethu i Swydd Drefaldwyn. Ni feddai ar y pryd yr un drwydded i bregethu, a mawr oedd pryder rhai o'i frodyr crefyddol rhag iddo gael ei ddal. Canys bwriadai Mr. Corbet os delid ef ei anfon ar long rhyfel neu yn filwr ar y maes.

Oddeutu'r amser hwn, aeth o'r Bala tua Llwyn Gwair, yn Swydd

Digitized by Google

Benfro, yn ol cyngor Mr. Charles a John Evans, o'r Bala, at Ynad Heddwch ag oedd yn byw yn y lle hwnw, ac yn aelod eglwysig gyda'r un enwad ag yntau, i geisio trwydded i bregethu. Ac fel yr ydoedd ar ei daith wrth Dollborth Llan y Mawddwy, yn hwyr y nos, a cheidwad y llidiard wedi myned i'w wely, gwaeddodd arno am gael myned trwodd, a chododd y dyn yn ei grys i agoryd iddo, a gofynodd i ba le yr ydoedd yn myned, ac atebodd yntau yn wagelawg mai ymlaen. Yna, heb holi yn fanylach, dywedai y llall ei bod yn fyd garw tua Thywyn, o waith gŵr boneddig yn erlid pregethwyr y *Methodistiaid*, a'i fod yn cynyg 40p. am ddal Lewis Morris, ac y chwiliai y milwyr* yn ddyfal am dano.

Aeth yn ei flaen ar hyd y nos, a chyrhaeddodd ben ei daith yn ddiogel. Ond ni lwyddodd i gael trwydded hyd ymhen tua phum' wythnos yn mhellach, a hyny yn Mrawdlys Tri Misol Gwyl Mihangel, yn Swydd Gaerfyrddin. Pregethodd lawer yn y Dehau yr amser yna, cyn a chwedi cael trwydded; ac ar ol iddo ddychwelyd adref, aeth y boreu Sabbath dilynol cyntaf i Dywyn i bregethu. Erbyn iddo gyraedd yno, yr oedd y milwyr ar heol y dref, yr hyn oedd yn groes i'w harfer ar y Suliau. Wrth eu gweled felly, ceisiodd rhai o'i gyfeillion ganddo beidio pregethu, ond dywedai wrthynt nad oedd wiw rhoi i fyny, a'i fod yn sefyll dan amddiffyniad cyfraith Prydain Fawr ar y pryd. Felly anturiwyd cadw'r oedfa, a chafwyd llonyddwch gyda'r gwaith.

Yn ystod ei oes faith, teithiodd lawer i bregethu yr efengyl trwy Dde a Gogledd; a bu hefyd lawer gwaith yn nhrefydd Lloegr, lle yr oedd gan yr 'enwad gynulliadau Cymreig. Pan ar un o'r teithiau hyn, cymerwyd ef yn glaf iawn, a bu yn aros yn Nghaernarfon am ddeng wythnos oherwydd yr afiechyd. Am y tair wythnos cyntaf o'r amser hwn, ystyrid nad oedd gobaith am ei wellhad, ac aeth y gair trwy y wlad ei fod wedi marw. Yn ystod yr afiechyd, bu unwaith mewn trallod mawr o barth ei gyflwr ysbrydol. Ymrithiai holl bechodau ei ieuenctid o flaen ei feddwl, ac ofnai nad oedd ganddo grefydd wedi'r cwbl. Ond cyn iddo fyned i anobaith llwyr, llonodd ei ysbryd pan ddaeth i'w feddwl y geiriau,—"Yn gymaint a dioddef o hono ef gan gael ei demtio, efe a ddichon gynorthwyo y rhai a demtir." Cynyrchwyd y fath deimlad ynddo ar y pryd, nes yr oedd arno awydd cael ei ollwng o'i babell glai i ehedeg i fyny at "Dduw yn natur dyn." Ond er mor agos y bu i angau y waith hon, o ran golwg i ddynion, bu fyw flynyddoedd meithion gwedi.

Pan oedd o fewn ychydig flynyddoedd i bedwar ugain oed, daeth

* Sef y rhai a gedwid, fel yr ymddengys, gan y gwr boneddig y cyfeiriwyd ato eisoes,—Mr. Corbet, o Ynysmaengwyn.

Digitized by Google

Dirwest i ddechreu cynhyrfu y wlad at sobrwydd, ac ymunodd yntau â'r gymdeithas ddaionus hon, a bu yn ddirwestwr selog am weddill ei oes. Pan glywodd gyntaf am y gymdeithas, teimlai nad oedd angen arno ef fod yn llwyr ymataliwr, gan nad ydoedd yn arferyd y ddiod feddwol un amser ond yn gymedrol. Eithr wedi iddo glywed ei bod yn sobri'r meddwon, yn lowyr a mwnwyr, hyd Swyddi Callestr a Dinbych, a'i bod yn wynebu ar holl Gymru, ystyriodd y peth, a dywedodd ynddo ei hun,—"Os yw yr Arglwydd yn trafaelio atom ar hyd y ffordd hon, ni byddaf yn ffyddlawn iddo heb ddilyn ei gerddediad trwy bob ffordd y bydd Ef yn myned ar hyd-ddi." Felly, mewn cyfarfod dirwestol yn yr Abermaw, yn y flwyddyn 1836, rhoddodd ei enw yn ddirwestwr, a rhoddodd dros gant eu henwau i'r un diben yn y cwrdd hwnw.

Cyn hir, fel yr ymddengys, wedi iddo roddi ei enw yn ddirwestwr, cyfarfu â thipyn o brofedigaeth yn y cysylltiad hwnw. Canys yn flaenorol i'w ymrwymiad yr ydoedd Mr. Owen, Garth Uchaf, wedi gwneyd ffordd newydd i fyned at ei balasdy, ac yr oedd yn nes i Lewis Morris fyned adref i'r Gefnir ar hyd hono, o gyfeiriad Llyn y Penmaen, nag ar hyd y ffordd arferol. Gan hyny, a thrwy ei bod yn well ffordd i'w theithio na'r llall, rhoddodd y boneddwr ganiatad iddo fyned ar hyd-ddi, pan y mynai, ar yr amod iddo droi i'r tŷ i yfed gwydriad o gwrw bob tro yr elai heibio. Felly cytunodd yntau â'r amod yn ewyllysgar. Ond ar ol iddo ymuno â'r Gymdeithas Ddirwestol, nid elai i'r tŷ fel cynt, eto anturiai deithio y ffordd hono yn ol a blaen fel arfer. Ymhen amser, sylwai y boneddwr nad oedd yn troi i mewn i'r tŷ, fel yr arferai yn flaenorol, a methai ddeall beth allai fod yr achos na wnai. Ystyriai na wnaethai ef ddim i beri hyny. Ac felly ryw dro pan gafodd gyfleusdra, gofynodd iddo beth oedd yr achos ei fod yn myned heibio heb droi i mewn fel arferol, yn ol yr amod am gael teithio y ffordd. Yna mynegodd y llall mai wedi myned yn ddirwestwr yr ydoedd, a chan hyny nad oedd yn teimlo yn rhydd i droi i'r tŷ fel o'r blaen, gan na fwriadai yfed y ddiod feddwol byth gwedi. Yna, gan na chytunai i fyned i mewn i yfed y gwydriad cwrw o anrheg y boneddwr fel o'r blaen, dywedodd hwnw wrtho nad oedd rydd iddo fyned hyd y ffordd hono drachefn fel arfer. A hyny diolchodd yr henafgwr iddo am gael teithio ar hyd-ddi cyhyd, ond nad oedd wiw iddo ef dori ei ardystiad dirwestol, er fo ffordd o'r herwydd. Pan welodd y boneddwr fel y safai yr achos, chan na fwriadai ychwaith, feallai, warafun ffordd ei balas i'r hen ddirwestwr selog, dywedodd wrtho: "Y mae yn arw i hen ŵr fel y chwi orfod peidio cael y fantais o'r ffordd. Beth a gymerwch chwi i yfed, ac i chwi ddyfod i'r tŷ; a gymerwch chwi botes?" "Cy-

meraf," ebai'r llall, "mi gymeraf botes neu rywbeth arall." Felly cytunwyd iddo gael myned hyd y ar ffordd eilwaith, ond iddo yntau fyned i'r tŷ wrth fyned heibio i gael y potes. Ac, meddai y boneddwr wrth adrodd yr ymdrafodaeth cyd rhyngddynt, "potes y mae yn gael yrwan."

Cafodd ei gaethiwo i'w dŷ gan fethiant a henaint am oddeutu dwy flynedd o amser yn niwedd ei oes. Ond, er hyny, byddai yn arfer pregethu yn aml ar nos Suliau a nosweithiau eraill, hefyd, yn ei gartref i wŷr yr ardal, hyd o fewn ychydig wythnosau i'w farwolaeth. Cymerwyd yr henafgwr hwn ymaith gan angau yn y Gefnir, ar ddydd Sabbath, yr 11eg o fis Mawrth y flwyddyn 1855, yn 94 mlwydd oed, a rhoddwyd ei gorff i orwedd yn mynwent capel Salem, Dolgellau, ar y 15fed dydd o'r un mis. Dywedai wrth gyfaill iddo ychydig cyn marw, fod yr Arglwydd wedi rhoi iddo ddau beth a addewir yn yr unfed Salm ar ddeg a phedwar ugain, sef ei ddigoni â hir ddyddiau, a dangos iddo ei iachawdwriaeth, ac felly mai myned adref ato i fyw oedd y peth nesaf a ddisgwyliai.

Ymbriododd yn y flwyddyn 1797, a chafodd yn wraig ferch rinweddol a chrefyddol fel ef ei hun. Bu hi farw ymhell o'i flaen, sef y 24ain o Ionawr, 1821, yn 57 mlwydd oed. Bu iddynt bedwar o blant, ond bu farw un o honynt yn seithmlwydd oed.

---

## RICHARD JONES, TY DU.

Yr ydoedd Richard Jones, Ty Du, yn bregethwr duwiol a myfyrgar gyda'r Annibynwyr, ac yn hynod yn ei ddydd. Ganwyd ef yn y Ty Du, yn y flwyddyn 1770, lle yr oedd ei rieni yn byw yn lled gysurus eu hamgylchiadau fel amaethwyr y tyddyn hwnw. Nid oedd fawr o duedd ynddo at fod yn amaethwr, nac ychwaith i ddilyn unrhyw alwedigaeth fydol arall. Ac heblaw hyny, ni feddai y deheurwydd a fedd bechgyn yn gyffredin, fel yr ydoedd yn hynod o anfedrus efo gorchwylion a geisiai eu cyflawni, a theimlai ei rieni yn ddwys oherwydd ei fod mor ddiymadferth. Cafodd ei ddwyn i fyny yn grydd, a rhoddwyd ef i ddysgu y gelfyddyd gyda William ei frawd. Ond er iddo fod am flynyddoedd yn dilyn yr alwedigaeth hono, pell yn ol ydoedd gyda'r gwaith. Bu yn arfer mynychu ffeiriau i

Digitized by Google

werthu esgidiau, ond cyfrifid hwy bob amser y rhai salaf yn y farchnad. Tra thrwsgl hefyd yr ymddygai fel meiwr; canys ryw dro, fel yr oeddid yn addysgu y meiwyr i drin y dryll, pan ddaeth ei dro ef i saethu at y nôd, crynai gan bryder wrth barotoi y dryll tuag at hyny, ac wedi llwyddo o'r diwedd i feiddio gollwng yr ergyd allan, yr ydoedd mor bell oddiwrth daro y nôd, fel mai i'r ddaear ychydig oddiwrth ei draed yr aeth y belen. A thro arall, pan o dan addysgiaeth filwrol, rhoddodd ddau ergyd yn ei ddryll cyn gollwng yr un o honynt allan. A phan ei gorfodwyd druan i'w gollwng allan, cafodd ei daraw mor drwm gan fôn y dryll nes y syrthiodd ar wastad ei gefn ar y ddaear, a gwaeddai yn ei ddychryn na saethai ergyd byth mwy. Ac heblaw hyn, mynegir amryw o fân hanesion lled drwstan neu ddigrifol yn ei gylch. Ond er mai trwsgl ydoedd a difedr fel hyn gyda helyntion y bywyd hwn, yr ydoedd yn alluog a deheuig i egluro yr Ysgrythyrau, i gynghori a gweddio mewn cyfeillachau eglwysig, a chyfarfodydd eraill, ac i gofio ac adrodd y pregethau a wrandawai, er hynoted neu ddigrifed ei ddull. Ac yr ydoedd ei gof mor nodedig o gryf, fel yr oedd sôn am dano trwy'r ardaloedd ymhell cyn bod sôn am dano fel pregethwr. Ac nid yn unig meddai gof rhagorol, ond yr oedd ganddo ddeall cryf a chyflym. Nid oedd un gangen o dduwinyddiaeth, medd ei gofiantydd, "nad oedd ganddo ef gan helaethed gwybodaeth ynddi a nemawr yn Nghymru. Yr oedd yn deall trefn iachawdwriaeth yn ei hamrywiol ganghenau a'i chysondeb yn rhagorol; a'i olygiadau ar ei phrif bynciau, Iawn, prynedigaeth, gwaith yr Ysbryd, eiriolaeth a meichnïaeth Crist, &c., oeddynt hynod o eglur. A rhoddi pob tegwch i'w gymeriad fel dyn deallus yn yr Ysgrythyrau, anhawdd fyddai cael neb tu hwnt iddo yn hyn." Dechreuodd bregethu oddeutu'r flwyddyn 1817, ond byddai yn arfer esbonio yr Ysgrythyrau, a chynghori yn y cyfarfodydd gweddiau, ymhell cyn hyny. Ac ymddengys mai y rheswm nas anogwyd ef yn nghynt i arfer ei ddawn fel pregethwr oedd, am yr ofnid mai rhy anhawdd fuasai ei gadw gartref gwedi, ac felly fawr golledu yr achos ieuanc yn y lle. Yr ydoedd yn un rhagorol at gynal cyfeillachau crefyddol, ac i gymhwyso gwirioneddau yn ol yr amgylchiadau. Cyfansoddai nifer digonol o bregethau, gan eu trysori yn ei gof mawr. Byddai yn lled hoff o'u traddodi yn y Friog, cyn cychwyn i'w daith, i hen bobl na fyddent yn myned i le o addoliad, druain, ond anfynych. Yr oedd yn nodedig am ddechreu y gwasanaeth yn yr amser y byddai wedi ei gyhoeddi i fod, a chryn golled fyddai i'r sawl na fyddent yn y lle mewn pryd; canys yr oedd cymaint o adeiladaeth i'w gael yn aml yn ei esboniad o'r hyn a ddarllenai ag a geid yn ei

Digitized by Google

bregeth, er y byddai hono yn llawn o feddwl, ac wedi ei pharotoi yn drefnus. Yr oedd yn nodedig am beidio adrodd hen chwedlau gwrachaidd am hanes ei gymydogion, ac eraill, yn ei deithiau, ac ofer fyddai i neb ei holi yn y cyfeiriad hwnw; O, na, pregethu yr efengyl oedd ei bwnc ef. Arferai orphen ei bregeth yn dra swta, a byddai raid i'r codwr canu fod ar wyliadwriaeth fanwl am gael gafael yn y penill a roddai allan ar ol darfod; canys ni byddai dim tor siarad rhwng ei Amen a dechreuad y penill. Yr oedd rhywbeth yn ei ddywediadau wrth bregethu a barai weithiau i rai ysgeifn eu meddwl chwerthin, ac y mae yn ymddangos yr elai llawer o ieuenctyd i'w wrando o ran difyrwch, ac nid hawdd, medd ei gofiantydd, oedd i bobl difrifol beidio gwenu wrth ei glywed. Ond esgusodai pob un ystyriol yn rhwydd y diffygion diniwaid hyny, oherwydd yr adeiladaeth a'r hyfrydwch a geid o dan ei weinidogaeth.

Ond, daeth ei ddyddiau teithio i ben, a bu raid iddo yntau wynebu angau. Ni chafodd ond byr gystudd, ac awgrymodd ychydig cyn marw fod y cyfwng hwnw yn ymyl. Eithr yr oedd yn gwbl foddlawn i ewyllys yr Arglwydd. Canys gofynai ei chwaer iddo pan yn agos i'w angau,—"Dic bach, leiciet ti fyw dipyn eto gyda ni?" "Dim o bwyth," ebai yntau. "A fyddai yn well gen' ti farw?" "Wel y gwelo Fo'n dda," meddai yntau yn ol. Arswydai groesi cornant ar hyd bontbren yn ystod ei fywyd teithiol i bregethu, er hyny yr oedd mor hunan feddianol a hyn ger terfyn ei oes wrth sôn am groesi afon angau megis. Bu farw y 18fed o Chwefror, 1855, yn 73 mlwydd oed. Ni fu erioed yn briod. Gwnaed cofiant iddo gan ei gyfaill, y Parch. Evan Evans, pa un a ddygwyd allan o'r wasg yn llyfryn. Helaethwyd yr unrhyw gwedi hyny gan y Parch. Z. Mather, Abermaw, a dygwyd ei gofiant allan o'r wasg drachefn, yn cynwys yr helaethiad hwnw.

---

## MR. JOHN VAUGHAN, CEFNCAMBERTH.

Gŵr ydoedd hwn a dreuliodd y rhan ddiweddaf o'i oes yn Nghefn Camberth, ond a fu yn trigianu cyn hyny mewn tyddyndy gerllaw o'r enw Tryfana, neu Tyrfana. Bu fyw y rhan gyntaf o'i amser yn angrhefyddol, ond ystyrid ef yn ddyn call iawn a medrus i drin y byd, ac yr oedd yn cael ei barchu yn fawr gan y tlawd a'r cyfoethog. Yr

Digitized by Google

oedd yn dra hoff o ddilyn rhedegfeydd ceffylau, ac ni fyddai odid flwyddyn yn myned heibio heb fod ganddo farch yn rhedeg yn y rhedegfeydd blynyddol ar Forfa Tywyn. Ystyrid ef yn farchogwr rhagorol yn y gamp hon. Ond dichon na fuasai wedi cyflawni dim yn werth i'w gyfodi i fysg y personau a ddygir i sylw yma, oni bai am ei droedigaeth ryfedd a sydyn ar faes y rhedegfa yn y morfa crybwylledig. Un tro pan oedd yn marchogaeth ei farch mewn ymrysonfa yno, clywodd ei geffyl yn gruddfan yn dost odditano; ac yn ddisymwth daeth y geiriau canlynol i'w feddwl:—

> " Bydd gruddfanau ' rhain ryw ddiwrnod,
> O 'th flaen i 'th boeni yn benaf penod."

Yn y fan ymataliodd rhag curo'r anifail, a gadawodd iddo fyned i'r pen mor araf ag y mynai. O hyny allan rhoddodd i fyny am byth a rhedeg ceffylau, a chollodd bob swyn at y fath arferiad yn llwyr. Trodd ei sylw at grefydd, ac ymunodd â'r Trefnyddion Calfinaidd, y rhai oeddynt ar y pryd hwnw yn dechreu lefeinio y wlad. Ond nid oeddynt eto namyn ychydig o bobl ddirmygedig ac erlidiedig. Synid yn fawr fod gwr o'i fath ef yn ymgyfathrachu â hwynt, canys syniad isel feddai y wlad yn gyffredin ar y pryd am y bobl hyn, ac ystyrid ei fod ef yn rhy gall i ymuno â hwy, eithr felly fu, a gwnaeth ei wraig a'u hunig fab yr un peth, ac agorasant eu tŷ i letya pregethwyr. Bu ymuniad gwr o'i fath ef â'r Trefnyddion Calfinaidd, ei dròedigaeth hynod, a'i fywyd dichlynaidd, yn foddion i chwalu ymaith ragfarn pobl yr ardal tuag atynt i raddau pell. Byddai yn fanwl iawn i fynychu pob moddion crefyddol a fai yn y gymydogaeth, pa amser bynag o'r flwyddyn, neu pa awr bynag o'r dydd y digwyddai y moddion fod, ac arferai ef a'i deulu, a'i holl weinidogion fyned yno bob amser yn brydlon. Ac yr oedd ei gymydogion wrth weled hyny wedi myned i ddweyd fod rhywbeth mawr mewn crefydd, neu ni wnai dyn mor gall a Mr. Vaughan y fath beth. Ymhen amser aeth y tŷ lle yr arferid ymgynull i gadw moddion yn rhy fach i'r gynulleidfa. Ac wrth ystyried yr angenrheidrwydd o gael lle helaethach i'r cyfryw ddiben, cododd Mr. Vaughan i fyny yn y cyfarfod un tro, a dywedodd wrth y rhai oedd wyddfodol, fod caniatad i bawb roi hyny a ewyllysient neu a allent at godi capel, ac y talai yntau y gweddill, ac felly codwyd capel y Bwlch, a thalwyd am bob peth wrth ei adeiladu. Symudodd ef a'i deulu i Gefn Camberth, lle a brynwyd ganddo. Ond er iddo gyfodi tŷ newydd hardd yno, ni chafodd fyw yn hir ynddo. Ni chafodd ychwaith y fraint o fyned i'r capel newydd y bu mor awyddus i'w adeiladu. Bu farw ei fab ar y 5ed o Fedi, y flwyddyn 1809, yn

Digitized by Google

ddyn ieuanc tra dymunol, ac yn un gobeithiol gydag achos crefydd, pan nad oedd ond dwy flwydd a'r hugain oed, er dirfawr alar i'w rieni profedigaethus. Bu farw ei dad hefyd wedi cael hir nychdod, ar y 14eg o Chwefror, yn y flwyddyn 1816, yn 58ain mlwydd oed. Arosodd Mrs. Vaughan yn weddw weddill ei hoes, a bu felly flynyddoedd lawer. Yr oedd yn wraig dra chrefyddol, a'i gofal yn fawr am achos crefydd. Ac yr oedd ei charedigrwydd yn fawr at y crefyddwyr a phregethwyr tlodion. Cyflawnai ei gwasanaethau, a'i chymwynasau, yn ddistaw, ac heb arddangosiad. Bu hithau farw ar y 19eg o Ragfyr 1839, yn 80ain mlwydd oed.

Y mae y tri anwyliaid hyn wedi eu rhoddi i orwedd yn mynwent yr hen Lan Gelynin, ac y mae coffadwriaeth am y tad a'r fam ar yr un feddfaen a'u gilydd, a choffadwriaeth am y mab wrtho ei hun ar feddfaen arall yn ymyl. Ar yr un a nodwyd flaenaf, yn y cyfwng rhwng y cofnodiad am farwolaeth y tad a'r fam, y mae y geiriau dilynol yn gerfiedig :—

"Oh na baent ddoethion, na ddeallent hyn, nad ystyrient eu diwedd, Deut. 32, 29." Ac ar feddfaen eu mab y mae yr adnod ganlynol yn gerfiedig:—" Dysg i ni felly gyfrif ein dyddiau fel y dygom ein calon i ddoethineb."

---

**Nodyn.—Oddieithr a ddyfynwyd uchod, yn Saesneg y mae yr oll ymron o'r gweddill sy'n argraffedig a'r y beddfeini hyny.**

---

## Y PARCH. EVAN EVANS.

Yr ydoedd y gwr hwn yn weinidog gyda'r Annibynwyr, ac yn awdwr llenyddol. Ganwyd ef yn y Bwlch gwyn, yn y flwyddyn 1803. Ei rieni oeddynt Lewis ac Elisabeth Evans. A disgynai o du ei fam o Lewis Ywain y barwn, yr hwn oedd yn hanu o Ednywain ab Bradwen, un o Bymtheg Llwyth Gwynedd. Anfonwyd ef pan oedd yn agos i ddeuddeg mlwydd oed i swyddfa cyfreithiwr yn Nolgellau, a bu yno am amryw flynyddoedd fel ysgrifenydd. Tra yn y swyddfa hon ymollyngodd i ddilyn bechgyn gwylltion ac annuwiol y dref yn eu harferion drygionus, yn enwedig i dori y Sabbath. Ond er iddo ymgaledu i raddau pell trwy hynyna, a'i arferiad o ysgrifenu tros

Digitized by Google

ei feistr ar y Suliau, eto nid oedd yn ddiofid o'r herwydd ar brydiau, canys yr oedd wedi ei fagu gartref mewn awyrgylch grefyddol. Un tro, pan oedd yn ysgrifenu yn y swyddfa ar nos Sabbath wrtho ei hun, ymaflodd dychryn arswydus ynddo. Rhuai ei gydwybod mor erchyll fel mai prin y medrai roddi ei ysgrifbin ar y papyr, ac ofnai y syrthiai y swyddfa ar ei gefn. Ac yn y dychryn yna prysurodd allan a'i holl egni, heb ond yn brin gymeryd amser i gloi y drws ar ei ol. Ac wedi iddo gyraedd yr heol neidiodd o lawenydd ei fod yn ddiogel.

Pån yn y swydd o ysgrifenydd cyfreithiol teimlai atgasrwydd mawr i wasanaethu dynion â gwarantau, a gwerthu eu meddianau; ac un tro, wedi rhoddi rhybudd cyfreithiol yn nhŷ rhyw dyddynwr bychan yn y Brithdir, penderfynodd nad arosai yn hir yn y fath swydd anymunol. Felly efe a ymadawodd a'r swyddfa hon ymhen rhyw gymaint o amser ar ol ei benderfyniad crybwylledig. Ac wedi hyny aeth i ddysgu argraffu at Mr. John Pugh (*Ieuan Awst*)* yn yr un dref ag y bu ynddi yn ysgrifenydd cyfreithiol.

Ymhen amser wedi iddo ymuno â chrefydd, cafodd ei arwain i ddechreu pregethu mewn dull swta a digrifol i raddau. Canys ryw nos Sadwrn wedi myned o hono adref i'r Bwlch Gwyn i edrych am ei rieni, aeth dranoeth ar y Sabbath i Lwyn Gwryl gyda'r teulu i wrando ar Richard Jones, Ty Du. Ac wedi cyraedd y capel eisteddodd yn ymyl ei dad wrth y bregethfa. Ar ol i'r hen lanc hynod hwnw o'r Ty Du orphen darllen, a thra yr oedd y gynulleidfa yn canu, dywedodd yn ddistaw wrtho am ddyfod ato, fod yn rhaid iddo ddweyd tipyn o'i flaen. Ond ymesgusodai yntau, a chan nad ufuddhai i'w orchymyn ymaflodd yn ngholer ei gôb, gan ei dynu ato, a dywedyd fod yn rhaid iddo ddyfod. Felly traethodd ychydig wrth y bobl ar y pryd, a dyna y tro cyntaf, ebai ef ei hun, yn ol a nodir, y bu erioed mewn pregethfa yn enw o bregethwr. Yr oeddid wedi ei anog i'r gwaith yn flaenorol, ac yr oedd wedi bod yn siarad yn gyhoeddus mewn amaethdai ar hyd y wlad wrth gadw cyfarfodydd gweddïau, ac hefyd wedi bod yn traethu ar adnod yn y cyfeillachau eglwysig yn Nolgellau. Cafodd ei neillduo i gwbl waith y weinidogaeth yn y Cutiau yn y flwyddyn 1827, i fod yn fugail ar dair eglwys, sef y Dyffryn, Aber Maw, a'r Cutiau. Ar y pryd yna yr oedd yn cadw ysgol ddyddiol yn Aber Maw, ac yn arfer pregethu yn y manau a nodwyd yn lled gyson cyn ei neillduo yn fugail arnynt.

Yn neu tua'r flwyddyn 1840, dewiswyd ef yn weinidog ar eglwys Maen Twrog, ac aeth ei deulu ac yntau yno i fyw o Ddyffryn Ardudwy

* Gweler cyfeiriad ato yn y tud. 396

lle yr oedd wedi myned i drigianu ar ol priodi ryw flwyddyn yn flaenorol. Ond yr ydoedd yn gweinidogaethu yn yr eglwysi a nodwyd gyntaf tra yn aros yn y Dyffryn. Ymhen blynyddoedd wedi hyn derbyniodd alwad oddiwrth eglwysi Llan Gollen, Trefor, a Bron Cysylltau, ac mewn canlyniad i hyny ymsymudodd i Llan Gollen i fyw. Dechreuodd ar waith ei weinidogaeth yn y manau hyn ar yr 22ain o Fai, 1853, a pharhaodd i ofalu am ddwy o'r eglwysi a enwyd hyd hâf y flwyddyn 1870, pryd y rhoddodd eu gofal i fyny, ac y derbyniwyd ef ar Drysorfa y Gweinidogion. Yr ydoedd wedi rhoi gofal eglwys y Fron i fyny cyn hyny.

Ni fu byw ond oddeutu tair blynedd wedi rhoi i fyny ofal y ddwy eglwys grybwylledig, ac ymadawodd â'r fuchedd hon yn y Trallwng, yn dra chynar foreu Llun y 13eg o Fai, 1873. Pan yn rhoddi emyn allan i ganu, ar ol gorphen traddodi ei bregeth yn y lle hwnw y Sabbath blaenorol, sylwyd fod rhywbeth arno, a bod ei lafariad yn methu. Ciliodd yn ol ar y bregethfa, ac ni siaradodd air gwedi ond yn floesg ac anmherffaith. Pan ofynwyd iddo a oedd mewn poen, cyfeiriai ei law aswy at ei ochr. Cludwyd ef i dŷ gerllaw, a cheisiwyd meddyg ar unwaith, ond i ddim diben. Yr oll a allodd siarad ydoedd *ie* a *nage*, a syrthiodd i fath o hun tua thri o'r gloch brydnhawn, ac ni ddeffrodd o hono y tu yma i'r bedd, a bu farw yn dawel tuag un o'r gloch y boreu dranoeth. Rhoddwyd ef i orwedd yn ei feddrod y dydd Iau canlynol, yn mynwent gyffredin y Fron, yn nghymydogaeth Llan Gollen, a chyfodwyd colofn goffadwriaethol iddo ar ei fedd. Daeth rhai o'r gweithiau a gyfansoddodd allan o'r wasg, sef llyfryn bychan ar Areithyddiaeth, Cofiant Richard Jones, Ty Du, at ba un y cyfeiriwyd eisoes, Esboniad ar Ddamhegion Crist, Holwyddoreg ar Fuddugoliaeth Crist fel ymresymwr ar ei wrthwynebwyr, a Choleg y Darllenydd. Mewn perthynas i'r cyntaf, ataliodd ef ei hun ei werthiant yn sydyn, trwy i gywilydd ei daraw pan mewn cyfarfod blynyddol yn Mhen'stryd, Trawsfynydd, am ei fod ef, yr hwn nad ydoedd ond megis bachgen, yn meiddio cymeryd arno gyfarwyddo gweinidogion, ac eraill, pa fodd i areithio. Gadawodd mewn llaw-ysgrifen, Esboniad ar Efengyl Matthew, gyda nodiadau ar ddiwedd pob penod er cyfarwyddyd i'w hiawn ddarlleniad; Gwaith bychan ar Samson, a Chofiant o hono ei hun, o'r hwn y defnyddiwyd i ysgrifenu ar ei awdwr yma. Ystyrir y bwriadai helaethu ei Gofiant, a chafodd ei barotoi i'w argraffu yn llyfryn, gydag helaethiad ato gan Ap Fychan, a'r Parch. J. Morris, Llan Gollen, ei olynydd yno fel gweinidog.

Bu yn briod ddwywaith, y tro cyntaf yn y flwyddyn 1839, âg Elisabeth, merch y Cadben Evan Williams, o Ddyffryn Ardudwy; a'r ail

Digitized by Google

dro â Sarah Francis, gweddw Mr. Robert Francis, masnachydd parchus yn Maen Twrog. Bu iddo dri o blant o'r wraig gyntaf, ond bu feirw dau o honynt yn eu mabandod, ac aeth y llall, sef Lewis Evans, i America. Goroeswyd ef gan ei ail wraig.

---

## JOHN PUGH (IEUAN AWST),

Cafodd ei eni yn Melin Ddraenen, yn mis Awst, y flwyddyn 1783. Yr ydoedd yn fardd grymus, ac ystyriai y Doethawr William Ywain Puw, ei fod yn un o'r Cymreigwyr goreu yn ei oes. Rhoddai Dafydd Ionawr ymddiried mawr yn ei olygiadau a'i awgrymiadau ar bynciau llenyddol. Mewn coffadwriaeth am dano yn y *Dysgedydd* am fis Mawrth, y flwyddyn 1839, mynegir na chafodd ond naw mis o ysgol. Pan yn 13 oed, aeth i Ddolgellau i ymarfer ysgrifenu mewn swyddfa cyfreithiwr, ac wedi bod yn y swyddfa hono am rai blynyddoedd ymrwymodd yn freintwas i ddysgu argraffu. Ar ol hyny ymrwymodd yn freintwas i gael ei ddwyn i fyny yn gyfreithiwr. A bu yn cadw swyddfa argraffu, a swyddfa gyfreithiol yn Nolgellau ar yr un adeg a'u gilydd. Ymbriododd â Jane, merch Mr. Robert Oliver, o Ddolgellau, a bu iddynt wyth o blant, eithr bu farw un o honynt yn ei fabandod, ac erbyn hyn nid oes namyn un ferch o honynt yn fyw. Bu farw ar ol byr gystudd ar yr 16fed o Chwefror, 1839, yn 55 mlwydd oed. Rhoddwyd ef i orwedd yn meddrod ei briod, yn hen fynwent Llan Fair Bryn Meurig, Dolgellau.

---

## JOHN EVANS, M.A., Y SERDDEWIN A'R SWYNWR.

Cafodd ei eni yn mhlwyf Celynin, ac yr oedd yn byw yn amser Elisabeth, ac Iago y Iaf. Bu yn aelod o Brifysgol Rhydychain, ymha le, wedi aros yno rai blynyddoedd, y trodd ei feddwl at serddewiniaeth. Derbyniodd urddau eglwysig, a chafodd fywoliaeth Enfield, yn Swydd Stafford. Wedi aros yn y lle hwnw am rai blyn-

Digitized by Google

yddoedd gorfu arno ymadael oherwydd rhyw ymddygiad gwarthus, a hyny fel yr ymddengys mewn cysylltiad â serddewiniaeth. Yna symudodd gyda'i deulu i Lundain, a daeth i sylw mawr fel serddewin a swynwr. Cyhoeddodd amryw o Almynegau ac argoelion, a chyflwynodd yr un am y flwyddyn 1613, argraffedig yn Llundain, i Esgob Caerwrangon. Yn yr un am y flwyddyn 1625, y mae hysbysiad i'r ystyr a ganlyn:—Yn fy nhŷ y Pedair Onen, yn mhlwyf Enfield, o fewn swydd Stafford, y dysgir y celfau hyn, darllen a deall y Saesneg, Lladin, Groeg, a Hebraeg; hefyd ysgrifenu y llaw redeg, a "set secretary," a'r llaw Rufeinaidd, Italaidd, a'r Llys; hefyd rhifyddiaeth, a gwyddorau mesuronol eraill.

Ond ymddengys y rhaid fod ganddo athraw heblaw ei hun, neu ynte fod gormodiaeth yn yr hysbysiad, canys mynegir nad oedd yn deall Groeg o gwbl; ond y deallai Ladin yn dda iawn. Bu yn dra isel ei amgylchiadau ar un adeg o'i fywyd, oblegid pan aeth Lilly (ei ddisgybl nodedig wedi hyny) i ymweled âg ef yn ei dŷ, cafodd hyd iddo yn gorwedd ar ei wely, os addas fai ei alw yn wely, ac heb feddu ond rhyw ddau lyfr. A dywed yr unrhyw ddyn mai pa pryd bynag yr elai i'w dŷ y tybiai ei fod mewn anialwch. Yn ei ddarluniad o hono dywed,—"Fe oedd y person mwyaf trwm-anhylon a welodd fy llygaid, cyn ac wedi i'm ymarferyd, o faintioli canolog, talcen llydain, ysgwyddau tewion, trwyn gwastad, gwefusau glaswyn, aelguchiog, penisel, gwallt du crych cryf, troedgam. I roi iddo a haeddai, yr oedd yn meddu yn naturiol y farn fwyaf treiddiol am gyflun o ladrad, a lliaws o holiadau eraill, a gyfarfyddais erioed, er hyny rhoddai groes-farnau yn ewyllysgar am arian,—yr oedd yn dra ymroddedig i anghymedroldeb, ar pryd hyny yn sarhaus a chwerylgar, ac anfynych heb lygaid du, neu ryw aflwydd neu gilydd." Nodir mai hwn yw yr Evans a wnaeth gymaint o gwpanau delydrol, ar werthiant pa rai y bu yn ymgynal gan mwyaf am ryw hyd. *

* Eminent Welshmen, a'r Bye-gones.

---

## Y PEDWAR MEDDYG.

Y cyntaf y ceir ei ddwyn i sylw o'r nifer o feddygon a nodir yn y penawd ydyw Richard Williams, M.R.C.S., Lloegr, 1808. Ei rieni oeddynt William Prichard a Lywri Prys, o'r Pentref Bach. Ond

Digitized by Google

rhoddir yma enw morwynol ei fam, canys felly yr arferid ei galw pan yn wraig briod. Yr oedd yn feddyg enwog yn ei ddydd, a'i glod yn dra uchel ar hyd cyffiniau Cadair Idris fel pen campwr yn y gelfyddyd feddygol. Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes feddygol yn Nolgellau. Ar ol iddo roi heibio ei alwedigaeth rai blynyddoedd cyn marw, ymsymudodd i fyw i'r Pentref Bach, lle a ddaeth i'w feddiant trwy bryniad. A bu farw yno ar y 5ed o Gorphenaf, 1871, yn 84 mlwydd oed. Ymbriododd ddwy waith, a bu iddo bump o blant o'r wraig gyntaf, sef dau fab a thair merch; ond bu farw un o'r merched yn blentyn lled ieuanc.

Yr ydoedd ei ddau fab a'i frawd yn feddygon enwog yn eu dydd. Ganwyd Rowland, yr ieuangaf o'r meibion hyn, yn y Pentref Bach, ger Llwyn Gwryl. Bu y mab hwn, y meddyg Rowland Williams, Porthmadog, M.R.C.S., Lloegr; L.S.A., 1840, yn gynar ar ei oes, sef ar yr 28ain o Gorphenaf, 1858, yn 39 mlwydd oed. Ni fu erioed yn briod.

Ni fu ei fab hynaf, chwaith, fyw i fyned yn hen. Ganwyd ef yn Mhlas Brith, Dolgellau, y dref y bu yn dilyn ei alwedigaeth feddygol mor nodedig o alluog wedi iddo gyraedd oedran priodol. Ei enw oedd William, sef William Williams, Bro Heulog, Dolgellau, M.R.C.S., Lloegr; L.S.A., 1839, ac F.R.C.S., Lloegr, 1856. Fel y sylwyd, mewn rhan, yr ydoedd yn feddyg tra galluog, a'i fedrusrwydd fel llawfeddyg yn nodedig. Yn y rhifyn am Hydref, 1843, o adroddiadau Ysbytty Guy, Llundain, y mae hanes (adroddedig ganddo ei hun) am ei waith yn tynu ymaith afiechyd a enynodd ar ochr gwyneb un o'r enw Owen Owens, trwy dori ymaith yr asgwrn dan y llygad. Cyflawnodd y weithred lawfeddygol hon ar yr 16fed o Fai, 1846. Bu y dioddefydd fyw lawer o flynyddoedd wedi hyn, sef hyd haf y flwyddyn 1875, pryd y bu farw o'r clefyd coch, yn amaethydd tyddyn a elwir Nantgwrddol,—Nant y Gwyrdd Ddail, yn mhlwyf Dolgellau, lle y trigianai.

Taenwyd ei glod fel meddyg yn gyflym ar hyd yr ardaloedd yn fuan ar ol iddo ymsefydlu yn ei alwedigaeth yn ei dref enedigol, a chyfododd i gymaint bri, nes yn gyffredin ei gelwid, gan a wyddai am dano, os yn y cyraedd, i roi ei farn a'i gynorthwy wedi iddi fyned i'r pen gyda meddygon eraill. Yr oedd ganddo graffder a chyflymder nodedig i ddeall yr afiechydon a boenai y ddynoliaeth; a dywedai Gutyn Ebrill am dano fel hyn:—

> "Taflai 'i lygaid trwy ddynoliaeth,—
> Pwysai salwch dyn o'i wedd."

Digitized by Google

Anfonid am dano at fawrion ei wlad, er hyny elai weithiau yn gynt at dlawd anghenus, nag at gyfoethog arianol; a dywedai y bardd y cyfeiriwyd ato yn flaenorol am dano:—

"Bu yn gyfaill teg i'r gweithiwr
Nes machludo haul ei oes."

Yr oedd yn feiddgar a gwrol; ac er ar brydiau yn wyllt ei dymer. meddai deimlad tyner, caruaidd a haelfrydig, ac yr oedd yn Gymro twymn galon. Ymbriododd â boneddiges synwyrol a gofalus, sef Miss Sydney Owen, yn ol ei chyfenw gwyryfol, o'r Cann Office, yn swydd Drefaldwyn, yr hon sydd yn ei oloesi. Cafodd godwm oddiar ei farch heb fod ymhell oddiwrth le o'r enw Minffordd, yn mhlwyf Tal y Llyn, yn Meirionydd, yr hyn a brofodd yn angau iddo mewn ychydig ddyddiau. Cludwyd ef yn ol i'r lle a nodwyd, pa fan oedd yn westy ar y pryd, a bu farw yno ar yr 11eg o Hydref, 1868, yn 54 mlwydd oed.

Fel y sylwyd o'r blaen mewn ystyr ganwyd un arall o'r teulu meddygol hyn yn y Pentref Bach, ger Llwyn Gwryl. Yr ydoedd yn frawd i'r meddyg Richard Williams, y cyntaf a nodwyd yma o honynt, ac felly yn ewythr o frawd eu tad i'r ddau arall. Ei enw a'i gyfenw oedd John Williams, a meddai yr urdd-lythyrenau M.R.C.S., Lloegr; L.S.A., 1816. Cafodd ei freintweisio gyda'i frawd, ac ymhen tua saith neu wyth mlynedd ar ol iddo ddechreu ar ei swydd fel meddyg, ymsefydlodd yn nghymydogaeth Llan Ystyndwy, yn swydd Gaernarfon. Dechreuodd ymsefydlu yn y gymydogaeth hono mewn lle o'r enw Plas Hen, ac oddiyno symudodd i'r Ty Newydd, ac oddiyno drachefn i'r lle y bu farw ynddo, pa un elwir Talarfor. Safai yn uchel, fel meddyg, a chyflawnodd lawer gorchest feddygol ag oedd oedd yn syndod i'r wlad. Talai sylw manwl i'w alwedigaeth, ac yr oedd gan y wlad ymddiried mawr ynddo. Yr oedd y lles a wnelai fel meddyg yn rhoddi hawl iddo i gryn annibyniaeth, ac yn gorfodi y wlad i'w barchu fel cymeriad hynod a hollol ar ei ben ei hun. Rhoddodd ei swydd i fyny tua saith mlynedd cyn ei farwolaeth, ac yr oedd er ys nifer o flynyddoedd cyn hyn yn dwyn ymlaen ei alwedigaeth mewn cysylltiad â dau feddyg arall. Bu farw y dydd Llun cyntaf o Fawrth, 1875, yn 78ain mlwydd oed. Ni fu yn briod.

Hanai y meddygon galluog hyn, trwy Lywri Prys (yn ol ei chyfenw gwyryfol), mam y ddau hynaf, a nain y ddau ieuangaf, o Edmwnt Prys, archddiacon Meirionydd, ac y mae eu disgyniad ach-linellol o hono i'w weled yn mhellach ymlaen. Claddwyd y

Digitized by Google

pedwar yn mynwent y plwyf ger eglwys Llwyn Gwryl, ymha un yn flaenorol yr oeddid wedi claddu y ddywededig Lywri Prys, a William Prichard ei phriod, tad a mam y ddau frawd hynaf o'r rhai hyn.

---

## MARI THOMAS.

Bu yr un y cyfeirir ati yn y peniad hwn yn orweiddiog am hir amser. Ar y pryd yr aeth yr hynafiaethydd enwog Pennant* i'w golwg yr ydoedd yn cael ei chadw mewn tyddyndy o'r enw Tyddyn *Bach*, ymha le yn ol a ddywed y gwr hwnw ei cedwid gyda llawer o ddyngarwch a thaclusrwydd. A noda yn mhellach yn ei chylch mewn cysylltiad âg adeg ei ymweliad a hi i'r ystyr ganlynol:—Yr ydoedd yn saith a deugain oed, yn meddu gwynebpryd da, yn dra gwelw a thenau, ond nid mor guriedig ag y gellid disgwyl oddiwrth ddieithrwch yr amgylchiadau yr ydwyf yn myned i'w mynegu, ei llygaid yn weiniaid, ei llais yn isel, wedi ei difuddio o wasanaeth ei rhanau isaf, ac yn hollol orweiddiog, curiad ei gwaed yn hytrach yn gryf, a'i synwyrau yn graff a deallus. Wrth ei holi, hi am hysbysodd, iddi, pan yn saith oed, gael rhai tarddiadau fel y frech goch, y rhai a dyfasant at eu gilydd a chyffredinol, a daeth mor ddolurus, fel na allasai oddef y cyffyrddiad lleiaf, ond derbyniai beth esmwythyd trwy gymhwysiad crwyn defaid newydd eu blingo. Wedi hyn, gafaelwyd ynddi ar darddiad a chwympiad y dail, gan chwyddiadau ac enyniadau, yn ystod pa amser cyfyngwyd hi i'w gwely; ond yn yr hamddenau gallai gerdded oddiamgylch, ac aeth unwaith i Dreffynon, mewn gobaith am wellhad.

Pan ydoedd tua saith ar hugain mlwydd oed, ymosodwyd arni gan yr un dolur, ond mewn dull mwy angerddol. Ac am ddwy flynedd a haner, bu yn ansyniadwy, ac heb gymeryd un math o faeth; er hyny, agorai ei chyfeillion ei genau trwy drais, gyda llwy, i roi rhywbeth i lawr; ond yr eiliad y tynid y llwy ymaith, ymgyfarfyddai ei danedd gyda chlec fawr a gorthrech. Yn ystod yr amser hyny, taflai i fyny ddognau mawrion o waed.

Cofia'n dda ddychweliad ei synwyrau, a'i hadnabyddiaeth o bawb o'i theulu. Tybiai na chysgasai ond noswaith, a gofynai i'w mam a roddasai rywbeth iddi y dydd blaenorol, oblegid teimlai ei hun yn dra newynog. Dygwyd lluniaeth iddi, ond yr ydoedd mor bell oddi-

---

* **Pennant's Tour in Wales, Cyf. tud. 115—6.**

[...]rth fod yn alluog i gymeryd dim sylweddol, fel o'r braidd y gallasai lyncu llwyad o faidd tenau. O'r amser hwn, parhaodd am saith mlynedd a haner heb unrhyw fwyd na diod, oddieithr digon o'r olaf i leithio ei gwefusau. Ar ddiwedd y cyfnod hwn, tybiodd ei bod eto yn newynog, a dymunodd gael wy, a chafodd oddeutu maint cnewyllyn cneuen o hono i lawr. Oddeutu y pryd hwn, deisyfai gael derbyn y cymun, yr hyn a wnaeth trwy gymeryd crystyn bara wedi ei fwydo yn y gwin. Ar ol hyn, er mwyn ei chynaliaeth dyddiol, cymer damaid o fara, o drymder tua dwy geiniog a saith gronyn, ac yfa win-wydryn o ddwfr, weithiau lwyad o win, ond y mae yn aml am ddiwrnodau heb na bwyta nac yfed. Cysga yn ddidaro iawn. Tra bychain yw swyddogaethau cyffredin natur, ac anfynych eu cyflawnir. Dywedai ei gweinyddes wrthyf fod tueddiad ei meddwl yn dyner, ei thymer yn wastad, ei bod yn dra chrefyddol, ac yn daer iawn mewn gweddi. . . . Y mae y pryd hwn (1786) yn parhau yn yr un sefyllfa, a cheidw yr un rheol."

Dywed ymwelydd* diweddarach â hi na Mr. Pennant i'r ystyr ddilynol yn ei chylch:—"Pan ydoedd tua saith neu wyth oed, ymddorodd tarddiad tebyg i'r frech goch allan o honi, yr hyn a barhaodd i'w blino fwy neu lai yn y gwanwyn, ac ar gwympiad y dail, yn ystod pa amser yr ymgadwai yn ei gwely, a cherddai allan rhyngddynt. Holais hi yn dra manwl; er hyny, gwelaf fod hanes Mr. Pennant yn gwahaniaethu ychydig oddiwrth fy un i, o barth y tymor yr aeth yn hollol orweiddiog. Ond nid yw hyn ond dibwys, gan y gallai gyfodi oddiwrth ei mynych gyfyngiad. Pan yn bymtheg oed, dychwelodd ei hafiechyd gydag ychwanegiad. fel y tybid, o oerfel trwm, ac effeithiodd mor rymus ar ei choesau, fel ag i'w hollol ddifuddio o'u gwasanaeth; ac o ganlyniad, bu yn orweiddiog o ddechreu yr ymosodiad. Y mae yn awr yn bedwar ugain a chwe' mlwydd oed; felly bu saith deg ac un o'r nifer yna yn dwyn tystiolaeth o'i sefyllfa resynus. Symudid hi unwaith yn y dydd i wely yn yr unrhyw ystafell tra yr esmwythid ei gwely ei hun. Mae giau ei choesau yn aros mor sefydledig a chrebachlyd nes dwyn yr *os calchis* agos i gyffyrddiad a'r *os sacrum*, gan ei hatal fel hyn ar unwaith â'r hyalledd i estyn ei haelodau, yn ogystal a'r gallu i gerdded. Gwedi treulio cymaint o flynyddoedd yn dioddef dan ddylanwad y boen fwyaf, pa un a orchfygodd fedrusrwydd a'r profiad meddygol yn y wlad, darfu i hynyna, gydag ychwanegiad o eisiau y cyfryw bethau ag sydd yn esmwytho llymder bywyd, ei darostwng i ond ysgrud. Lliw ei gwyneb sydd lwyd-las, a'i llygaid yn ddwfnddu, felly hefyd ei gwallt. Bara a llaeth yw ei bwyd, o'r hyn ni chymer ond ychydig

* Cambria Depicta, by E. Pugh, tudal 216, &c.

o bwysau ceiniogau, a hyny namyn unwaith yn y dydd. Sylwyd yn ddiweddar ei bod yn bwyta mwy nag arferol, eithr ni achosodd hyny adnewyddiad iechyd, fel y gallasai ein harwain i dybio; ond fel arall y mae ei phrofiad, canys anfynych y teimla dor afiechyd, a'i chwsg yn anesmwyth ac aflonyddedig. Collodd Mari yn ddiweddar ddefnydd un llygad. Y mae ei chof yn nodedig o gryf, a'i chlyw mor gyflym fel y clywa ymddiddan a fai mewn pellder gweddol tu allan i'r ty. Y mae mor anwydog fel y barnwyd yn angenrheidiol roi tân mewn crochan haiarn, yr hwn a osodir gyda hi yn y gwely, eithr wedi ei ddiogelu yn ogystal fel ag i rwystro y perygl lleiaf trwy ddamwain nac i fod yn un gormes iddi. Hyd yn ddiweddar, yr oedd wedi arfer a chrasu ei bara ei hun am lawer o flynyddoedd. Gosodid padell fawr ar ochr y gwely, ar yr hon y cynlluniai i dylino a ffurfio ei thoes. Yna gosodid ystol bren drithroed a'i gwyneb yn isaf yno yn ei lle, pa un a dderbyniai grochan haiarn llawn o dân, ar yr hwn hefyd y gosodid padell haiarn neu blâd gyda y deisen; ac fel hyn, mewn amser priodol, gwnelai dorth ragorol. Tynai ei hanes nodedig nifer o ymwelwyr o bob parth, yn enwedig pendefigion ac uchelwyr Lloegr, pan ar eu teithiau trwy y wlad hon. Perthyna i mi nodi i'm ceisiadau i gael allan enw boneddwr, y gwnaeth ei gymwynasau ef yn dra pharchus yma, brofi yn aflwyddianus . . . Anfonodd iddi werth haner can' punt o wahanol angenrheidiau. Anrhydeddwyd hi ryw dro ag ymweliad gan ei uchelder brenhinol William Henry o Gaerloew. Ymddangosai yn dra boddhaus gyda'r syniad iddi weled nai y brenin, ac i'r ymwelydd brenhinol ymostwng i fyned i mewn i'w phreswylfa dlodaidd, a siaradai am y brenin gyda chalon lawn o ddiolchgarwch. Honwyd gan rai pobl mai dynes ystrywgar ydyw, mai ffuantiad yw ei saldra er mwyn twyllo y dieithryn elusengar, ac fod ei hymataliad y dydd yn cael ei wneyd i fyny gan ei glythineb y nos; a dywedwyd hyn gan hyd yn nod foneddwr yn y gymydogaeth." Ond o barth hyn, dywed yr un gwr:—" Y mae y cyfryw dybiaeth yn nodedig o afresymol, wedi ei lled-daenu gan feddwl anwybodus a dideimlad, heb y sail leiaf o wirionedd neu debygolrwydd. Y diwrnod y gwelais i y ddynes hon, gwrthbrofwyd y goganiadau hyn yn llawn a boddhaol gan Mrs. Thomas, Llan Egryn, yr hon a fu'n byw yn yr un ty â hi bum' mlynedd ar hugain yn ol, pan oedd dywediad cyffelyb mewn cylchrediad. . . . ." Pan fu yr ymwelydd hwn yn ei golwg, yr oedd yn trigianu yn Nhan yr Allt, y lle hefyd y bu farw.

Yn yr "Henafion Cymreig," mae y llythyr canlynol, pa un a ysgrifenwyd gan ryw foneddwr at ei gyfaill:—

Digitized by Google

Awst, 31, 1812.

"Anwyl Syr,—Cefais gryn anhawsder i gael gafael yn y wraig oeddych yn holi yn ei chylch, oherwydd ei bod yn awr yn lletya mewn bwthyn ar y ffordd rhwng Dolgellau ac Ynysfaig. Ei henw yw Mary Thomas, ac y mae yn bedwar ugain a saith mlwydd oed oddiar Ystwyll diweddaf. I mi, yr oedd yr olwg gyntaf arni yn ddychrynllyd ddigon, oherwydd fod ei hwyneb yn hongian, ac yn dra gwelw. Ei chlustiau ac eiliau ei llygaid, a'i genau, ydynt yn hynod fawr; yn wir, y mae ei phen oll yn ymddangos yn fwy nag un arall a welais nemawr erioed. Y mae galluoedd ei meddwl yn bur dda, ac yn neillduol felly ac ystyried ei hoed mawr hi. Dywedai iddi gael ei geni yn rhydd oddiwrth bob diffyg naturiol, ac iddi barhau mewn iechyd da nes oedd yn ddeng mlwydd oed, pryd y cafodd dwymyn beryglus iawn, yr hon a adawodd boen yn ei haelodau ar ei hol. Pan oedd tuag ugain mlwydd oed, cymerwyd hi gan ei rhieni i Dreffynon, i ymdrechu adnewyddu ei hiechyd; ond hi a ddychwelodd heb gael un budd. Yr oedd tua deugain mlwydd oed, yr wyf yn meddwl, pan ddechreuodd ymprydio, a thros ddeng mlynedd, dywedai na chymerodd ddim lluniaeth; ond fod ei gwefusau yn cael eu gwlychu yn achlysurol â dwfr a sugyr. Pan oedd yn y cyflwr hwn, pobl y wlad oddiamgylch a ddywedent ei bod mewn gweledigaeth; ond ni chefais allan ei bod yn cofio un peth neullduawl yr holl amser hwnw. Y tamaid sylweddol cyntaf a fwytaodd. gwedi ei hadferiad, a gofiai iddi dderbyn o ddwylaw Mr. Llwyd, offeiriad y plwyf. Oddiar ei dychweliad o Dreffynon, y mae yn wastadol yn cadw ei gwely, er ei bod yn fynych yn cael ei symud o dŷ i dŷ. Ei chynhaliaeth yn bresenol yw torth swllt o'r bara gwynaf yn wythnosol, yr hon a gymera mewn cwrw, o'r hwn, hefyd, y mae yn cael gwerth swllt yn yr wythnos. Y mae yn agos yn ddyblyg yn y gwely, ac nid yw ei breichiau ddim ond croen ac esgyrn. Y mae er's llawer iawn o flynyddoedd yn byw ar haelioni Plwyf Celynin, yr hwn a ganiata ddau swllt yr wythnos iddi tuag at ei chynhaliaeth. Ond heblaw hyny, y mae yn derbyn llawer iawn oddiwrth y rhai a ymwelant â hi, yn enwedig yn yr haf. Y mae teulu Arthog, hefyd, yr hwn sydd yn y gymydogaeth, yn dra elusengar iddi. Ni chefais allan ei bod yn perthyn i un enw crefyddawl o bobl, ond y mae llawer o'i chymydogion duwiawl yn dyfod yn fynych i ddarllen llyfrau crefyddawl iddi, yr hyn a'i boddlona yn fawr. Nis gallaf beidio adrodd un peth hynod a ddyweda ei chymydogion am dani, sef pan oedd yn y dwymyn yn annheimladwy, fel y dywedwyd o'r blaen, meddyliwyd unwaith ei bod wedi marw, ond ei mam a ddymunodd yn daer ar Dduw i'w hadferu mewn rhyw fodd

Digitized by Google

iddi, ac yn y cyflwr hwnw y bu byth gwedi hyny. Sylwais ei bod yn chwenych yn fawr i ddangos ei hunan fel rhyfeddod. Nid yw pobl y tŷ yn gwybod pa bryd, na pha gymaint ar y tro, y mae yn fwyta, gan ei bod yn cymeryd ei hymborth o flwch ag sydd o fewn i'w chyraedd, pryd bynag y byddo yn ewyllysio.—Ydwyf &c."

Gellir sylwi yma, yr adroddwyd wrthyf yn wahanol i fel ag y gwneir yn y llythyr dyfynedig, am a oedd yn achlysur deisyfiad byrbwyll ei mam, sef iddi, pan yn ymdrochi gyda phlant eraill, fod mor agos i foddi, fel y tybid mai marw a wnai, ac ddarfod i'w mam, pan ddaeth yno, waeddi, "O Arglwydd, fy ngeneth i mi yn fyw rywlun."

Bu Mary Thomas, y ddynes orweiddiog dan sylw, farw y 7fed o Ionawr, y flwyddyn 1813, yn 89 mlwydd oed, wedi ei chaethiwo i'w gwely am dros 65 mlynedd, medd coflyfr yr eglwys.

## HENRY OWEN, LLWYN DU, MEDDYG A CHRYNWR.

Yr oedd Henry Owen, Llwyn Du, neu fel arall y "*Doctor*" Owen, Llwyn Du, yn un o'r bobl a elwir Crynwyr, ac hefyd yn feddyg yn ol ei alwedigaeth fydol. Ond ymddengys iddo roddi yr alwedigaeth hono i fyny flynyddoedd cyn ei farwolaeth. Mab ydoedd i Lewis Owen o Dan y Gadair, yn mhlwyf Dolgellau, a Jane Owen ei wraig. Ac yr ydoedd ei dad yn frawd i'r duwinydd y Dr. Henry Owen, M.A., M.D., F.R.S., y cyfeirir ato yn ymhellach yn ol yn y tudalenau 203—4, a 226. Cafodd ei fedyddio ar y 26ain o Fawrth y flwyddyn 1756, a bu farw yr 16eg o Ionawr, 1827, yn 76 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn mynwent y Crynwyr, ger Llwyngwril, lle hefyd y claddwyd ei wraig gyntaf. Bu farw ei dad yn y flwyddyn 1757, a gadawodd ei eiddo dan ofal y dywededig Dr. Henry Owen, idd ei unig fab Henry Owen, y meddyg a'r Crynwr, dan sylw, yr hwn, ar y pryd, nid ydoedd namyn bachgenyn. Bu yn briod ddwywaith, ond nid oedd ganddo hiliogaeth, ac felly gadawodd diroedd o'i eiddo trwy ewyllys i'w gefnder y Parch. Henry Butts Owen, M.A., D.D., yr hwn ydoedd fab i'r dywededig Dr. Henry Owen, y duwinydd, a cheir cyfleu yr ewyllys hono yn mhellach ymlaen.

Bu farw Anne Owen, merch Humphrey Owen, Llwyn Du, gwraig

Digitized by Google

gyntaf Henry Owen, y Meddyg a'r Crynwr, ar yr 28ain o Ebrill, 1810, yn 55 mlwydd oed. Priodasant yn y flwyddyn 1779. Bu farw Sarah Owen, Llwyn Du, merch Humphrey Owen ar yr 20fed o Dachwedd, 1792, yn 35 mlwydd oed, a thybir fod y ddwy hyn yn chwiorydd. Elisabeth Williams, ei ail wraig, a fu farw yr 8fed o Ionawr, 1843, a chladdwyd hi yn mynwent Llan Fachraith, yn Meirionydd.

Bu Henry Owen, Llwyn Du, y meddyg a'r Crynwr dan sylw, yn preswylio ar un adeg o'i oes yn y lle hwnw, pa un sydd a'i safle ger llaw Llwyn Gwril, a glynodd y dynodiant o Llwyn Du mewn cysylltiad â'i enw hyd yn hyn, er iddo fod wedi hyny yn trigianu mewn lleoedd eraill. Canys ymsymudodd oddiyno i le o'r enw Glan Aran, yn, neu wrth Ddolgellau, ac oddiyno i le o'r enw Tan y Gadair House, yn yr unrhyw dref, lle hefyd y bu farw.

Enillodd safle uchel yn ei wlad fel meddyg. Ac fel un o'r Crynwyr, yr ydoedd a'i ymarweddiad yn addas a chrefyddol, ac yn nodedig am ddweyd y gwir. Ni ddywedai *chwi* wrth nebun pwy bynag; ac â'r *ti* unigol y cyfarchai Syr Robert Williams Vaughan,* o Nannau, ar ystryd Dolgellau.

Yr oedd yr Ursula Owen, a roddodd y 30p. blynyddol, er mwyn rhanu bara i dlodion yr unrhyw dref, yn fodryb iddo o chwaer ei daid, William Owen, yr hwn hefyd ydoedd yn daid i'r crybwylledig Dr. Henry Owen, y duwinydd. Ac orwyr i'r olaf a nodwyd yw Mr. Rupert Keneth Owen † y cyfeiriwyd ato eisoes yn nhudalen 217, yr hwn a berthynai i Wasanaeth Gwladol ei Mawrhydi, ond sydd yn awr wedi ymneillduo.

Mewn perthynas i'r teulu hyn, ceir nodi y dylesid rhoddi *Scripture miracles*, ac nid *Scripture* yn unigol, fel y gwnaed yn y 4edd lin o'r tud. 204,‡ ac mai o Goleg y *Frenhines*, ac nid o Goleg yr *Iesu*, fai yn gywir yn y llin 31 o'r tud. 216; hefyd mai o Eglwys *Scarborough*, ac nid Eglwys *Crist* ddylesid roddi yn y llin agosaf ati ond un ar ei hol. Ac nid oes *St* i fod mewn cysylltiad â *Clare* yn y 5ed linell o'r tud. 217.

Bellach, rhoddir cynwys ewyllys Henry Owen, neu y Dr. Owen, Llwyn Du, at ba un y cyfeiriwyd eisoes, ac a gymerwyd yma o adysgrif Saesneg:—

Yn Mreintlys Caergrawnt, yn ewyllys y trengedig Henry Owen, dyddiedig y 13eg o Hydref, 1811, y mae fel y canlyn:—Hon yw

* Tad y Syr Robert diwaethaf.

† Trigiana yn neu tua Rhydychain.

‡ Hefyd yn y llin 1af a'r 15fed o'r tud. 204, *u* ac nid *n* ddylasai fod ar ol y *t* gyntaf yn *Septuagint*. Ac y mae y llythyren c yn ngholl yn y gair *excellency* yn yr unrhyw dudalen. A dylasai yr urdd-lythyrenau D.D. ddilyn y B.D., neu gymeryd eu lle mewn cysylltiad âg enw Mr. Henry Butts Owen.

Digitized by Google

ewyllys a llythyr cymun olaf Mr. Henry Owen, Llwyn Du, yn mhlwyf Celynin, neu fel arall, Llan Gelynin, yn Swydd Feirionydd, boneddwr. Yr ydwyf yn rhoddi, ac yn gwyllysu, fy holl dai, tiroedd, tyddynod, ac etifeddiaethau ag ydynt yn gorwedd yn mhlwyf-ydd Dolgellau a Thrawsfynydd, yn y ddywededig Swydd Feirionydd, i William Williams, Caergriew, yn y ddywededig Swydd, boneddwr; a Griffith Evans, Tymawr, yn mhlwyf Tywyn, yn y ddywededig Swydd, boneddwr, a'u hetifeddion i wasanaeth fy nghefnder, y Parch. Henry Butts Owen, D.D., a'i ddirprwywyr, am, ac yn ystod tymor ei fywyd naturiol, heb gyhuddiad o wastraff; ac o, a gwedi *terfyniad* yr etifeddiaeth hono yn amser ei fywyd, trwy fforffediad neu fel arall, i wasanaeth y dywededig Wm. Williams a Griffith Evans a'u hetifeddion yn ystod bywyd y dywededig Henry Butts Owen, ar yr ymddiried i gynal i fyny yr arferion digwyddiadol a'r etifeddiaeth-au cyfyngedig, *o hyn allan*, rhag cael eu diddymu neu eu dirymu, ac i wneyd pob gweithred addas i'r amcan hwnw; ond er hyn i gyd, genhadu a gadael i'r dywededig Henry Butts Owen a'i ddirprwy-wyr, i dderbyn a chymeryd yr ardrethoedd a'r enillion o honynt yn ystod ei fywyd naturiol, ac ar ol ei farwolaeth, i wasanaeth y mab cyntaf o gorff y dywededig gefnder Henry Butts Owen, cyfreithlon genhedledig, neu a genhedlir â'r etifeddion tarddedig o gorff y cyfryw gynfab; ac yn niffyg y cyfryw hiliogaeth, i wasanaeth yr ail, trydydd, a'r oll; a phob mab neu* feibion fy nywededig gefnder Henry Butts Owen, cyfreithlon genedledig neu a genhedlir yn wahanredol olynol, ac yn addawedig y naill ar ol y llall, yn ol fel y byddont wahanredol yn mlaenoriaeth genedigaeth, ac o'r etifeddion gwahanredol a phenodol yn tarddu o gorff a chyrff yr oll; a phob cyfryw fab a meibion, pob hynaf o'r cyfryw feibion ac etifeddion o'i gorff, i fod bob amser yn ddewisedig, ac i'w gymeryd o flaen yr ieuangaf o honynt a'r etifeddion o'i gorff, ac yn niffyg y cyfryw hiliogaeth, i wasanaeth y ferch gyntaf o gorff fy nywededig gefnder Henry Butts Owen, cyfreithlon genedledig, neu a genhedlir, â'r etifeddion yn tarddu o gorff y cyfryw ferch; ac yn niffyg y cyfryw hiliogaeth, i wasanaeth yr ail, y trydydd, a'r oll, a phob un o ferched eraill fy nywededig gefnder Henry Butts Owen, cyfreithlon genedledig, neu a genhedlir yn wahanredol ac olynol, ac yn addaw-edig y naill ar ol y llall, yn ol fel y byddant yn neillduol mewn blaenoriaeth genedigol; a'r etifeddion gwahanredol a phenodol tarddedig o gorph a chyrff yr oll, a phob cyfryw ferch a merched, pob hynaf o'r cyfryw ferched a'r etifeddion o'i chorff, oll yn ddewis-edig, ac i gymeryd o flaen yr ieuangaf o honynt a'r etifeddion o'i

* **Os nad *a* a fai gywir.**

Digitized by Google

chorff, ac yn niffyg y cyfryw hiliogaeth i wasanaeth fy nghefnither Anne Owen, a'i dirprwywyr, yn ystod tymor ei bywyd naturiol, heb gyhuddiad o wastraff; ac o, a gwedi *terfyniad* yr etifeddiaeth hono, trwy fforffediad neu fel arall, yn ystod ei bywyd, i wasanaeth y dywededig William Williams a Griffith Evans, a'u hetifeddion, yn ystod bywyd naturiol y ddywededig Anne Owen, a'r ymddiried i gynal i fyny y breintiau digwyddiadol,* arferion, a'r etifeddiaethau cyfyngedig, o hyn allan, rhag cael eu diddymu neu eu dirymu, ac i wneyd pob gweithredoedd angenrheidiol i'r diben hwnw; ond er hyn i gyd, i genhadu a gadael i'r ddywededig Anne Owen, a'i dirprwywyr, i dderbyn a chymeryd y rhenti a'r enillion o honynt, yn ystod ei bywyd; ac ar ol ei marwolaeth, i wasanaeth y mab cyntaf o gorff fy nywededig gefnither Anne Owen, cyfreithlon genedledig, a'r etifeddion tarddedig o gorff y cyfryw gynfab.

Profwyd yn Llundain, gyda thair atwllys y 9fed o Fehefin, 1827, o flaen y barnwr, trwy lŵ y wraig weddw, Elisabeth Owen; y weddw, yr unig wyllys-weinyddes a enwyd yn y ddywededig drydedd atwllys i'r hon y caniatawyd gweinyddiaeth, wedi yn gyntaf ei chyfreithlon roi ar lŵ i weinyddu.

---

## LEWYS EDWART, Y CRYNWR, NEU LEWYS EDWART, Y GRAIG.

Y mae safle y Graig, sef y tyddyndy y cyfeirir ato yn y penawd hwn, yn Mhlwyf Dolgellau. Ond gan na lwyddwyd i gael gafael yn ddigon buan ar y defnyddiau y disgwylid am danynt tuag at roddi hanes am y gwr a nodir uchod, fel ag i'w gyfleu ymhlith hynafiaethau Plwyf Dolgellau, ceir ei ddwyn gerbron yn bresenol. Yr ydoedd Lewis Edwart, o'r Graig, nid yn unig yn aelod crefyddol gyda'r Crynwyr, ond yr ydoedd hefyd yn bregethwr neu gynghorydd yn eu mysg. Ac ymddengys mai fe ydoedd yr olaf o breswylwyr y plwyf hwn neu y broydd hyn a fu yn gwasanaethu felly yn eu plith.

Nid ydys yn gallu mynegu yn fanwl ymha fan ei ganed, ond dywed traddodiad mai yn Mhlwyf Trawsfynydd, mewn lle o'r enw Hafotty'r Graig. Yr ydoedd yn wr tra adnabyddus yn ei ddydd, fel cymydog cymwynasgar a charedig, ac yn enwedig fel Cristion; a phregethodd neu cynghorodd lawer ymhlith y Crynwyr.

---

* Contingent remainders.

Digitized by Google

Y lle cyntaf y bu yn preswylio ynddo fel ei gartref, ar ol priodi, oedd Rhiwspardyn; ond ymhen amser ymadawodd oddiyno, er mwyn i'r Trefnyddion Calfinaidd gael prydles ar y lle i adeiladu capel, yn ol yr un faint o ardreth ag a dalai yntau am dano yn y flwyddyn, sef oedd hyny, dau swllt ar hugain, yr hyn hefyd a gawsant, meddir. Wedi iddo ymadael oddiyno, bu am dymor yn byw mewn darn o dyddyndŷ Hafod y Meirch, lle yn y gymydogaeth. Ond ymhen amser cymerodd y tyddyn a'r tyddyndy a elwir y Graig, yn Mhlwyf Dolgellau, lle y bu ei gartref weddill ei oes, ond ni chyrhaeddodd yno i farw, fel y ceir dangos yn mhellach ymlaen.

O ran ei alwedigaeth fydol, saer maen ydoedd. Ac yn ol a ddywedir, ei waith ef, fel prif un neu gymerwr, yw Porthfa Abermaw, neu ynte waith yr Ynys—Ynys Brawd.* Dywed un hysbysydd mai fe a wnaeth waith (Trwyn y Gwaith) yr Ynys, sef yr ynys a nodwyd, —Ynys Brawd, a bod traddodiad iddo wneyd y Borthfa, eithr nad oes sicrwydd. Ac ychwanega iddo enill can' punt ar waith yr Ynys, ac iddo wedi hyny fyned i yru gweoedd, a cholli y can' punt hwnw wrth hyny. Ond dywed y llall iddo wneyd y Borthfa ar ddwywaith, ac enill o hono gan' punt digoll ar y darn cyntaf, ond y bu bron iddo golli yn agos i gan punt ar yr olaf; ac mai yr achos o hyny oedd, am nad ydoedd yn ffafr meistr y porthladd, am nad ymgrymai a thynu ei het iddo, ac ddarfod i hwnw wneyd a allai i'w golledu trwy anfon llongau a ddygent falsarn i'w dadlwytho i ben y Penrhyn, yn lle gadael iddo gael y gwadaliad hyny yn llanw i'r gwaith fel arferol yn ngwneuthuriad y gwaith cyntaf. Eithr ddarfod i un cadben llong sefyll yn ffyddlon i'r Crynwr, a gomedd ufuddhau i feistr y Borthfa; ac felly na fu golledwr. Ond oni bae am hyny, y buasai yn golledwr o yn agos i gan' punt arno. A mynega yr un hysbysydd mai yr achos o wneyd yr ail ddarn i'r Borthfa oedd, fod cryn dramwyad llongau i Abermaw, a chan hyny yr ystyriwyd yn angenrheidiol wneyd darn arall ato. Gormod camp yw penderfynu yma yn awr rhwng y gwahanol ddywediadau hyn; ond bydded fel y bo, dywedir iddo fod yn gweithio ar Drwyn y Gwaith, a bod Edwart Lewis, ei fab, yn gweithio gydag ef yno. Gorphenwyd Trwyn y Gwaith, fel ei gelwir, yn y flwyddyn 1805, yn ol a ddywedir.

Ond i adael hyn yn awr, ceir nodi mai fe a wnaeth y darn newydd sydd fel rhan o'r bont a elwir y Bont Newydd, pa un a groesa yr Afon Wnion, ryw dair milldir o Ddolgellau, yn nghyfeiriad Rhyd y Main (Rhyd y Meini). Ychwanegwyd y darn newydd hwn er mwyn lledu y bont flaenorol, a rhychwanta yr afon yn gyfochrog â hi.

* Gweler o barth yr Ynys hon a'r gweithiau arni, yn mhellach ymlaen, o dan y penawd Cantref Gwaelod.

Digitized by Google

A rhyw dro yn adeg ei wneuthuriad, galwai ei wraig arno i godi o'i wely, gan nodi, fel anogiad, fod y ceiliog wedi canu. Ar hyn cyfansoddodd yntau gân i'r ceiliog, a dywedai mewn rhanau o honi, yn unol ag fel y ceir oddiar gof, fel hyn:—

Cofiwn Beder yn ein bryd,
Bob munyd enyd unawr;
Ac i offrymu yr awr hon
Weddïon trymion tramawr.

Rhyw fater dwys gresynus yw
I'w ddanod i'r rhyw ddynol,
Fod cyw iar o bliscyn wy
'N cymeryd mwy o ofol,
Yn ol ei allel yn ei ryw
I addoli Duw'n wastadol.

Yn ysgrifenedig yn niwedd y Beibl a gynwys "Nodau a sylwadau ar bob penod," gan y Parch. Peter Williams, ac a argraffwyd yn y flwyddyn 1770, y mae yr englynion canlynol o'i eiddo. Ond wrth eu dodi gerbron yma, ni chadwyd yn hollol fanwl at lythyreniad y gwreiddiol:—

Gelynion trymion sy'n tramwy—i Lewis
Lawer o bobtu;
Un Gwr, Carwr cu,
Ar fy rhan sydd er hyny.

Ni fedran' ni allan' ei dwyllo—a 'madrodd
Er medru gweneithio;
A dyn fyth nid una Fo,
A gwên wyneb fo 'n gwenwyno.

Bu iddo wyth o blant, ac y mae iddo genhedlaeth fawr o ddisgynyddion yn oesi yn awr. Mab iddo ydoedd y diweddar Barch. Evan Lewis, yr hwn a fu yn weinidog yn eglwys y Cilgwyn, Llanbedr, Pont Stephan, am 47 o flynyddoedd. A mab i'r Parch. Evan Lewis hwn ydyw Mr. James Lewis (Iago, ger Trichrug), yr hwn sydd yn byw yn hen breswylfa* ei dad, ym Mhant y Gwas. Ac y mae yn awdwr llyfryn† bychan, a ddynodir "Bras Adroddiad o'r RHIF DEUGAIN yr Ysgrythyrau, ar Gan, mewn ffordd o holiadau ac atebion, gan James Lewis (Iago, ger Trichrug)." Wyr i Lewys Edward, y Crynwr dan sylw, ydoedd y diweddar Barch. Lewis Jones, Bala,

* Sef hen breswylfa y dywededig Barch. Evan Lewis.
† Dywed gwyneb-ddalen y llyfr iddo gael ei argraffu yn Aberystwyth, gan Philip Williams, ac mai ei bris yw dwy geiniog.

Digitized by Google

gweinidog yr efengyl yn Nghyfundeb y Trefnyddion Calfinaidd, am yr hwn y ceir sylwi yn mhellach ymlaen yn hynafiaethau plwyf Talyllyn. Ac orwyr i'r unrhyw Lewis Edwart ydyw Mr. Hugh Pugh, Gwynfryn, ger Llanbedr, yn Meirionydd (neu, yn ol enw y tyddyn lle y preswylia, Tyddyn y Llidiart), yr hwn sydd yn bregethwr gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, ac sydd wedi ei alw i fod yn fugail eglwys yn Swydd Gaernarfon.

Yn hen fynwent y Crynwyr, ger Tyddyn y Gareg, y mae englyn o waith yr unrhyw Lewys Edwart wedi ei gerfio ar feddfaen Elisabeth ei ferch, a'i phriod, Dafydd Robert, Pentreglas, Brithdir, yn mhlwyf Dolgellau. Dywed y feddfaen i Dafydd Robert farw yr 8fed o Chwefror, 1850, yn 64 mlwydd oed; ac islaw i hyn, yn mherthynas i'w wraig, y grybwylledig Elisabeth, y mae yr hysbysiad canlynol, ynghyd a'r englyn a nodwyd, a mynegiad mai ei thad ydoedd ei awdwr, fel hyn;—

Hefyd,

Elizth. ei wraig, a fu farw Mawrth 23, 1872, yn 81 mlwydd oed.

Mae marw 'n galw gwelwch—a didwyll
  Dywedaf ystyriwch;
Cyn cysgu yn llety 'r llwch
Heddyw â Duw gwna heddwch.

L. EDWARDS, EI THAD.

Yr ydoedd yr "Elizth."—Elisabeth Robert hon, a elwid yn gyffredin Beti Lewis, yn fam i Mrs. Ann Pugh, Ty'n y Cefn, Brithdir, yn mhlwyf Dolgellau, a'r diweddar, erbyn hyn, Lewis Robert, Trefeilia, yn yr un plwyf, yr hwn oedd yn aelod gyda'r Annibynwyr yn Nolgellau, ac a fu farw ddydd Mercher, Ebrill 3ydd, 1889, yn 67 mlwydd oed; ac hefyd, i'r diweddar Robert Dafydd, y Gribin, yn mhlwyf Llanaber, yr hwn ydoedd yn flaenor gyda'r Annibynwyr, ac yn ŵr cymeradwy a chyhoeddus yn eu plith, yn enwedig gyda'r plant, a bu yn holwyddori y rhai hyny, rai gweithiau, yn Nghymanfaoedd yr Ysgolion yn Nolgellau, ac yr ydoedd wedi ei benodi i wneyd yr un gwaith yn Nghymanfa Ysgolion y flwyddyn 1888, ond cafodd ei atal gan gystudd. Bu farw y 5ed o Gorphenaf, 1888, yn 76 mlwydd oed, a rhoddwyd ei ran farwol i orwedd yn mynwent newydd Llanelltyd, y dydd Llun canlynol. Ac yn gerfiedig ar ei feddfaen y mae y canlynol,—

*Rhoddedig gan Undeb Ysgolion Sabbothol Annibynwyr, Dolgellau.*

Yr ydys eisoes wedi sylwi na chyraeddodd Lewys Edwart adref i farw i'w gartref yn y tyddyndy, a elwir y Graig, yn mhlwyf Dolgellau;

Digitized by Google

canys pan ydoedd yn gweithio fel saer maen yn yr Hengae, yn nghymydogaeth Aberllwyfeni, yn mhlwyf Talyllyn, Meirionydd, torodd ffon yr ysgol dano pan yn cario careg i fyny at yr adeilad, yr hyn a fu yn achlysur o'i farwolaeth ymhen tri diwrnod. Wrth ei weled yn gwaethygu fel yr oeddid yn ei ddwyn adref, aethpwyd ag ef i Hafod y Meirch, a bu farw yno. A chymerodd hyny le, yn ol fel y tybir, tua'r flwyddyn 1815. Yr ydoedd yn fyw yn y flwyddyn 1806, canys y mae ei enw yn ysgrifenedig fel perchenog y Beibl y cyfeiriwyd ato eisoes, yn y modd dilynol:—"Lewis Edwards yw gwir berchenog y llyfr hwn, yn y flwyddyn o oedran yr Arglwydd, 1806."

Rhoddwyd ei gorff i orphwys yn mynwent y Crynwyr, ger Tyddyn y Gareg, a hyny gyferbyn â'r fynedfa iddi, ac o fewn ychydig latheni i'r unrhyw. Nid oes careg goffadwriaethol yn dynodi ei feddrod, gan yr ystyriai yr hen Grynwyr mai tir angof oedd y bedd i fod. Ond erbyn hyn, fel y mae yn naturiol tybio, y mae yn ddrwg gan y Crynwyr presenol am na ddodasid beddfeini i ddynodi gorphwys leoedd yr hen Grynwyr neu Gyfeillion gynt.

---

## YR ELUSENAU.

Yr awdurdod am yr hysbysiadau dilynol ydynt yr adroddiadau gan y dirprwywyr a roddwyd ger bron y Senedd yn y flwyddyn 1834, ac y cyfeiriwyd atynt eisoes mewn cysylltiad âg elusenau y plwyfydd eraill.

### ELUSEN Y PARCH. EDWARD MORGAN.

Trwy ddeintysgrif, ddyddiedig y 18fed o Awst, 1739, rhwng y Parch. Edward Morgan, ebrwyad Tywyn, Swydd Feirionydd, o un blaid, a Thomas Parri, Aberystwyth, Swydd Aberteifi, o'r blaid arall, tystiolaethwyd i'r dywededig, Edward Morgan, mewn ystyriaeth o'r hyn a nodir ynddi, roddi a dilysu i'r dywededig, Thomas Parri a'i etifeddion, yr holl dyddynod hyny a'u perthynolion, a elwir Bryn y Perfedd, a Thyddyn Meurig Fychan, neu Ty Croes, yn nhref ddegwm Bod Gadfan, yn mhlwyf Celynin, yn Swydd Feirionydd, y rhai oeddynt yn ddiweddar yn naliadaeth Humphrey Pugh, yn nghyda'r yr holl dai, tai allan, gerddi, tiroedd,

Digitized by Google

&c., a'r holl etifeddiaethau a pherthynolion, pa bynag, i ddal yr unrhyw i'r dywededig, Thomas Parri, ei etifeddion a dirprwywyr am byth i'r gwasanaeth fod allan o ardrethoedd ac enillion yr unrhyw, i weinidog a gwarcheidwaid eglwysig am y pryd, plwyf Llan Aber, dderbyn a chael talu iddynt yn flynyddol 40s. digoll o ardreth flynyddol, ac fod i weinidog a glwys warcheidwaid plwyf Tywyn, am y pryd, dderbyn yn flynyddol, a chael talu iddynt ardreth-dâl flynyddol o 20s. hefyd yn ddigoll, a bod i weinidog a glwys warcheidwaid, am y pryd, plwyf Llan y Mawddwy, dderbyn yn flynyddol a chael talu iddynt ardreth-dâl flynyddol o 20s., ac i'r gwasanaeth pellach, fod i weinidog a glwys warcheidwaid, am y pryd, y dywededig blwyf Llan Gelynin, bob blwyddyn, am byth, dderbyn a chymeryd yr holl ardrethoedd yn ngweddill ac enillion y dywededig ragenwedigion, ar ol taliad y dywededig ardreth-dalion, pa ddywededig ardreth-dalion, ac ardrethoedd, ac enillion sydd i'w defnyddio a'u dosbarthu gan y dywededig wahanol weinidogion a glwys warcheidwaid, am y pryd yn wahanredol (pob rhai yn eu plwyfydd gwahanredol hwy eu hunain), fel y canlyn, sef un haner i'w roddi a'i ddosbarthu ar ddydd Llun y Pasg bob blwyddyn, am byth, ymhob plwyf, yn ol ei gyfartaledd rhwng cynifer o'r gwrthrychau elusen tlotaf a hynaf, a fai yn gyfreithlon sefydledig, ag a adroddant ar y pryd Holwyddoreg yr Eglwys allan o'u côf, yn cynwys bob amser Weddi yr Arglwydd, Credo yr Apostolion, a'r Deg Gorchymyn, o flaen y gweinidog gweinydddol, gerbron y gynulleidfa, gan ddewis y mab neu'r ferch ag a adroddai oreu yr unrhyw, i gael y rhan oreu o'r elusen yn ol fel y barnai y gweinidog a'r glwys warcheidwaid yn gymwys, a'r haner arall o'r ardreth-dalion arosol dywededig i'w dosbarthu ar yr un diwrnod, am byth, ymhob plwyf, rhwng chwech o blant tlodion cyfreithlon sefydledig, neu gynifer ag a farnai y gweinidog a glwys warcheidwaid pob plwyf yn gyfleus, ag a fedrant ddarllen Cymraeg ac adrodd Holwyddoreg yr Eglwys o flaen y gynulleidfa, gan ddewis bob amser y darllenydd a'r adroddydd goreu, gan mai amcan a dymuniad y dywededig Edward Morgan ydoedd, ar fod i wybodaeth Gristionogol gael ei chefnogi yn mysg y rhai tlotaf o'r bobl. Cynwys y ddeintysgrif hefyd allu atafaelol.

Dywed adroddiadau y dirprwywyr (1834) fod y tyddyn a elwir Tŷ Croes, yn cynwys amaethdy a thai allan, ac yn osodedig y pryd hwnw i John Lewis, fel tir ddeiliad o flwyddyn i flwyddyn, am 14p. o ardreth flynyddol, yr hyn oedd ei lawn werth. Yr oedd wedi cael ei osod gan y cwrdd plwyfol, a'r plwyf oedd i gadw y rhagenwedigion mewn adgyweiriad. Dywed yr unrhyw adroddiadau y telid y blwydd-dalion canlynol allan o'r ardreth hon, sef:—

Digitized by Google

| | P. | S. | C. |
|---|---|---|---|
| I swyddogion plwyf Llan Aber | 2 | 0 | 0 |
| " " Tywyn | 1 | 0 | 0 |
| " " Llan y Mawddwy | 1 | 0 | 0 |
| | P.4 | 0 | 0 |

A chymhwysid y gweddill, wedi tynu allan y treuliau adgyweiriol, tuag at gynorthwyo ysgol yn y plwyf.

Adeiladwyd ystafell ysgol yn y flwyddyn 1831, trwy gyd-roddion, ar ddarn o dir a roddwyd i'r diben hyny gan Anthony Morgan, Yswain, o'r Hendref, pa un oedd ddigon o faint i gynwys 50 o blant. Arferai o 30 i 40 o blant y plwyf fyned iddi yn gyffredin, yn ol a ddywed yr unrhyw adroddiadau. Addysgid y plant tlodion yn ddidraul, i ddarllen Cymraeg a Saesneg, ac i ysgrifenu a rhifyddu. Hefyd, addysgid hwy yn Holwyddoreg yr Eglwys, a holwyddorid hwy gan weinidog yr Eglwys. Hefyd, cymerai yr athraw blant o dan dâl, wrth y chwarter, yn amrywio yn y tâl yn ol amgylchiadau eu rhieni.

---

## ELUSENAU IARLL PENFRO AC ERAILL.

Dywed adroddiadau y dirprwywyr y cofnoda Bwrdd yr Elusenau yn yr Eglwys y rhoddion canlynol:—

| | P. | S. | C. |
|---|---|---|---|
| Iarll Penfro | 10 | 0 | 0 |
| Y Parch. Rice Price, y diweddar beriglor | 35 | 0 | 0 |
| Mrs. Eleanor Thomas, o'r Hendre' | 24 | 0 | 0 |
| | P.69 | 0 | 0 |

Dywed y dirprwywyr yn yr unrhyw adroddiadau y mynegid wrthynt i'r arian hyn gael eu defnyddio i achosion plwyfol, a bod y plwyf yn caniatau 3p. 9s. am yr unrhyw allan o'r trethoedd, y rhai a delid i'r athraw.

Digitized by Google

## ELUSEN ELISABETH THOMAS.

Trwy ddeintysgrif, dyddiedig y 19eg o Awst, 1803, a chofnodedig yn Nghangell-lys Caernarfon, y 19eg o Awst, 1803, *Elizabeth Thomas*,* o Gaernarfon, o un blaid; Griffith Owen yr ieuangaf, o Lan Enddwyn, Swydd Feirionydd, a chwech eraill crybwylledig oddifewn; o'r ail blaid, tystiolaethwyd ddarfod i'r ddywededig Elisabeth Thomas ganiatau i'r dywededig bleidiau o'r ail blaid, eu hetifeddion a'u dirprwywyr, dyddyn a thiroedd, o'r enw Pig yr Allt, gyda'r perthynolion, llëedig yn mhlwyf Llan Gelynin, i ddal yr unrhyw i'r dywededig Griffith Owen, ac eraill, eu hetifeddion a'u dirprwywyr ar ymddiried, i ddefnyddio ar y 25ain o Ragfyr, yn flynyddol, yr ardrethoedd a'r enillion o honynt tuag at esmwythau a gwell cynorthwy a chynhaliaeth y cyfryw bersonau tlodion, plwyfolion a phreswylwyr y dywededig blwyf Llan Gelynin, neu tuag at roddi yn freintweision i unrhyw gelfyddyd, neu i wasanaeth y môr, blant tlodion, o blwyfolion a phreswylwyr y dywededig blwyf Llan Gelynin, neu gyfryw wasanaethau elusenol da eraill, er cynorthwy y personau tlodion a helbulus o fewn y plwyf rhag-ddywededig, màl y tybiai yr ymddiriedolwyr dywededig yn gymwys; a mynegwyd fod cyfrif neillduol i'w wneuthur yn y dosbarthiad dywededig o'r cyfryw bersonau tlodion a phlant ag a fyddent blwyfolion a phreswylwyr y rhagddywededig blwyf Llan Gelynin, ac wedi eu geni o'i fewn, a'r rhai a fernid gan yr ymddiriedolwyr dywededig yn wrthddrychau cymwys y ddywededig elusen; a mynegwyd yn mhellach, os gommeddai yr ymddiriedolwyr dywededig, eu hetifeddion a'u dirprwywyr, ar unrhyw amser, fod yn bresenol ar y 25ain o Ragfyr, i roddi cyfarwyddiadau priodol mewn perthynas i drefniad y dywededig ragenwedigion, mewn unrhyw gwrdd plwyfol i'w gynal i'r diben hyny, yna galluogodd y gweinidog a'r glwys warcheidwaid, ac arolygwyr y dywededig blwyf Llan Gelynin, neu y rhan fwyaf o honynt, yn uniongyrchol ar ol pob cyfryw gyfarfod dilynol ag a rag-ddywedwyd, i dderbyn yr ardrethoedd blynyddol, ac enillion y dywededig ragenwedigion caniataedig, a defnyddio yr unrhyw ar yr ymddiriedaethau rhagenwededig, dan amod fod, pan leiheid yr ymddiriedolwyr trwy farwolaeth i dri o nifer, i'r oloeswyr ddewis cynifer o'r cyfryw bersonau cymwys eraill i fod yn ymddiriedolwyr, fel ag i wneyd i fyny y nifer o bump neu chwech o leiaf.

Mynega yr unrhyw adroddiadau y cynwysa y Tyddyn a elwir Pig yr Allt, dŷ a thai allan, ac oddeutu dwy erw a haner o dir âr, a thua

* Dibriod, yn ol fel yr ymddengys.

yr un faint o borfa arw. Mynegant, hefyd, ei fod wedi ei osod gan y swyddogion i Jane Roberts, fel tir-ddeiliad o flwyddyn i flwyddyn, am 6p., digoll o ardreth flynyddol, ac mai dyna oedd ei lawn werth. Y cadwai y tir-ddeiliad y lle mewn trefn ar y pryd, ac y derbynid yr ardreth gan yr athraw; ond y byddai iddi yn y dyfodol gael ei derbyn gan y gwarcheidwaid eglwysig, a'i thalu drosodd ganddynt iddo yntau.

---

## ELUSEN LEWIS WILLIAMS.

Dywedir yn adroddiadau y Dirprwywyr a roddwyd o flaen y Senedd yn y flwyddyn 1834, y mynegir yn yr adroddiadau a roddwyd i'r Senedd yn 1786, ddarfod i Lewis Williams, trwy ei Ewyllys, dyddiedig yn y flwyddyn 1737, roddi ardreth-dâl o 10s. y flwyddyn i'r tlodion, pa un, ar y pryd, oedd yn aros yn meddiant y swyddogion plwyfol. Ond dywedir yn yr adroddiadau a nodwyd flaenaf, nas gwyddid y pryd hyny ddim am y gymwynas hon.

---

NODYN.--Yn y tud. 372, yn niwedd y llinell 19eg, yn lle *i'r ffridd*, darllener, *i glawdd y ffridd*. Yn y tud. 373, llinell 11eg, islaw y peniad CARNEDDAU, yn lle, *pa rai yn ol dywediad meddyg*, darllener, *pa rai, meddir, yn ol dywediad meddyg*. Yn y tud. 378, yn niwedd y llinell 15eg, yn lle, *ac ill dwy yn*, darllener, *ac ill dwy fel yntau yn*.

## PLWYF TAL Y LLYN.

Cafodd y plwyf hwn ei enw mewn rhan oddiwrth y llyn prydferth a orwedd yn nghwr isaf gwastadedd Ystradgwyn, ac mewn rhan hefyd, fel yr ymddengys, oddiwrth adeilad a safai ar ei lan. Ac yn ol Samuel Lewis, yn ei *Barthiadur*, yr eglwys oedd yr adeilad hwnw. Ac y mae y llyn wedi cael y dynodiant a roddir iddo yn gyffredin yn awr, oddiwrth ryw wrthddrych a'i safle ar ei lan, ac o ganlyniad a elwir yn ddigon anmhriodol Llyn Tal y Llyn. Ond ceir cyfeirio eto at y llyn, ynghyd â'i enw, yn mhellach ymlaen.

Saif y plwyf yn Nghantref Ystumaner, pa un a ystyrid gynt yn Gwmwd Ystumaner, a'i safle yn Nghantref Meirionydd. Terfyna â'r plwyfydd Llan Fihangel y Pennant, Dolgellau, Mallwyd, Llanwrin, a Phenal. A chan y terfyna â phlwyf Llanwrin, y mae felly yn ffinio â Swydd Drefaldwyn. Ond, ganrifoedd yn ol, yr oedd y rhanbarth a gynwys blwyf Llanwrin yn rhan o Gwmwd Ystumaner, a thrwy hyny yn perthyn i hen Gantref Meirionydd. Ac mewn perthynas i helynt eu gwahaniad, dywed yr hynafiaethydd Robert Fychan, o'r Hengwrt, i'r ystyr hwn, oddieithr y newidiwyd yma yr *ap** Llywelyn Fychan, i *a* Llywelyn Fychan, gan yr ymddengys y rhaid fod *ap* yn wallus:—"Yr ydys yn cael mewn hen ymchwiliad fod y tir rhwng yr afonydd Dyfi a'r Ddulas (hyny yw holl blwyf Llanwrin) yn yr amser gynt yn rhan o Gwmwd Estum manor (Ystum anar), oblegid un Einion ab Seisyllt, yn amser y brenin Ioan neu Harri'r Trydydd a'i daliai *in capite* Llywelyn Fawr (ap Meredydd ap Cynan *a* Llywelyn Fychan) ei frawd, ar y pryd Arglwydd Meirionydd; ar ryw ymrafael rhyngddynt hwy ag yntau a ffodd at Arglwydd Powys, pa un o iawnder a berthynai i'r Cwmwd hwn."

Dywedir mewn nodyn yn yr ach-lyfr gan Lewis Dwnn i'r ystyr ganlynol:—"Ymddengys oddiwrth adysgrif o hen ymchwiliad a gymerwyd yn y Bala yn y chwechedt† flwyddyn i Harri VI. (1427) i'r

* Camb. Reg., Arg. 1796, t. 189. Hefyd, t. 20 ac 21 o'r llyfr hwn.

† Yn ol yr History of Pwys Fadog, Cyf. I., t. 98, gosodir mai ar y Llun cyntaf ar ol Gwyl St. Michael yr Archangel (Mihangel), y chweched flwyddyn i Harri VI., y cynhaliwyd yr ymchwiliad neu y chwiliadlys cyfeiriedig ato uchod.

Digitized by Google

Einion ab Seisyllt hwn atafaelu yn ei etifeddiaeth ei hun, megis am wriogaeth dros yr holl dir ag oedd, ac sydd, rhwng yr afonydd Dyfi a'r Ddulas; a'r pryd hwnw daliai y tir gan Llen Fawr ab M'reth ab Cynan, a Llen Fychan, ei frawd, arglwyddi Meirionydd. Wele ddyfyniad Lladinaidd yn mherthynas yr unrhyw ymrafael, wedi ei gymeryd yma allan o'r *History of Powys Fadog*, Cyf. I., tud. 98—9, ymha un y danghosir mai yn amser y Tywysog Llywelyn ab Iorwerth y bu yr helynt:—

"'Et etiam (Juratores) dicunt quidam Eignion ab Seysyllt fuit seisitus in dominico suo ut de feodo de tota terra que fuit & est inter Aquas de Dyvi & Dewlas temore Llywelyn ab Iorwerth nuper Principis. Et quod terra illa tunc fuit pars & parcella comoti de Estimaner in Comitatu Merioneth & adhuc de jure esse debet. Et quod idem Eignion ab Seysyllt terram illam tunc tenuit de Llywelyn Fawr ab Meredith ab Kynan & Llywelyn Fychan fratre ejus dominis de Merioneth in capite. Et quod idem Eignion propter discentionem & discordiam inter ipsos Llywelyn Fawr & Llywelyn Fychan et ipsum Eignion tunc habitam fugit ad Owenum Kevelock Dominum de Powys & devenit tenens ejus de terra predicta et fecit homagium et fidelilatem suam sibi pro terris predictis. Et sic hucusque terra illa tenta fuit. Et est parcella dominorum de Powys iniuste, etc.''' Ymddengys oddiwrth y dyfyniad hwn mai nid *arglwyddi* Meirionydd, eithr mai *arglwydd* Meirionydd fuasai gywir yn y dyfyniad blaenorol.

Yn y tudalen 98 o'r gyfrol y cyfeiriwyd ati mewn perthynas i'r dyfyniad yr ydys newydd roddi, mynegir y dyd Mr. Shirley, golygydd y "Royal and other Letters, illustrative of the reign of Henry III.," lythyr oddiwrth Llywelyn ab Meredydd, ymha un y dymunai ar y brenin ddarparu rhywbeth ar ei gyfer hyd nes yr adgaffaelai Feirionydd, ei randir, o ba un ei gyrwyd allan gan Llywelyn ab Gruffydd. Mynegir yn yr unrhyw dudalen, hefyd, ddarfod i siryddion swyddi Amwythig a Stafford, gael gorchymyn ar yr 8fed o Awst, 1259, i dalu i Llywelyn, fab Meredydd, yr hwn a ddietifeddwyd oherwydd ei ymlyniad wrth y brenin, y swm o ddeugain marc, yr hyn a ganiataodd y brenin iddo i'w derbyn yn flynyddol, er cynhaliaeth iddo ei hun, a'i wraig, a'i blant; ac ar y 30ain o Fai, 1260, gorchymynodd y brenin i siryddion swydd Amwythig a Stafford y pryd hyny, ymha un y nodir i'r sirydd blaenorol, William Bagod, dderbyn y gorchymyn crybwylledig uchod, ond na dderbyniodd y dywededig Lywelyn namyn deng marc oddiwrth y dywededig William Bagod, "ac y mae yn orchymynedig, gan hyny, i'r sirydd presenol dalu i Llywelyn y deng marc ar hugain sydd yn ol allan o gyllidau ei faerdref ei hun.

## EGLWYS Y PLWYF.

Y mae yr eglwys hon yn cael ei hadnabod fel Eglwys Tal y Llyn, ond yn ol a ddywedir, Llan Fair Bryn Muallt yw ei hen enw. Eithr er hyn, rhy brin, feallai, y cysylltid y dynodiant o Lan â'r eglwys hon ar y cyntaf, canys bu amser pan nad oedd namyn capel eglwysig mewn cysylltiad â'r fam eglwys (Tywyn), a'r pryd hwnw yr oedd yn ngofal periglor y fam eglwys hono, a rhanbarth y plwyf yn rhan o fywioliaeth Tywyn. Ond weithian y mae yn annibynol ar y fam eglwys, ac nid oes a fyno periglor Tywyn â'i gwasanaethu, na phenodi gweinidog iddi. Cafodd ei chysegru i Mair, ac felly, dichon ei bod yn ieuangach fel eglwys na'i chyd-ganghenau eglwysig, Penal a Llan Fihangel y Pennant; neu o leiaf ymddengys ei chysegriad i Mair o ddiweddarach amseriad na chysegriad y ddwy arall, canys yn ol y Proffeswr Rees, byddid yn arfer cysegru eglwysydd i nawdd saint y rhai hyny, yn flaenorol i'r amser y gwneid felly i Mair. Saif yn esgobaeth Bangor, yn neoniaeth Ystymaner, ac yn nawddogaeth yr esgob.* Bu yr eglwys hon a Llanfihangel y Pennant, yn cael eu gwasanaethu am dymor gan yr un gweinidog, ac ymddengys oddiwrth ddalen rydd yn llyfr eglwys Tal y Llyn i'r ddwy guradiaeth gael eu huno yn agos i ddiwedd y ganrif ddiweddaf. Ond yn Awst, y flwyddyn 1868, newidiwyd y drefn hon, a gosodwyd gŵr eglwysig i wasanaethu ymhob un o honynt ar wahan. Gwaddolwyd y fywioliaeth â 400p. trwy rodd frenhinol, ac â 1400p. gan y Senedd.

Mewn perthynas i'w gwasanaeth crefyddol yn yr eilfed ganrif ar bymtheg, mynegir ymhlith yr achwyniadau yn erbyn offeiriaid esgobaeth Bangor, ar ymweliad Lewis Bayly, Esgob Bangor, a gynhaliwyd yn Mehefin, 1623. "Ni arferir cylch gerdded yn wythnos y gweddiau. Syr John Llywelyn yw y Ciwrat yno."

Uwch ben porth yr eglwys y mae yr englyn canlynol:—

> "Aneddfawr sanctaidd noddfa,—gorbreiniol
> Gerbron Duw a'r dyrfa
> Er dim na thyred yma
> Y dyn ond a meddwl da.

Cyn ei hadgyweiriad, a gwblhawyd yn y flwyddyn 1876, yr oedd iddi groes ar ei thu deheuol, yr hon sydd wedi ei throi erbyn hyn yn

* Bangor Diocesian Directory, tud. 47.

Digitized by Google

ystafell i'r cwrdd plwyfol, &c. Yr oedd, hefyd, yn meddu llofft cyn yr adgyweiriad crybwylledig, ac ar un o'r tylathau ag oedd o tani, yr oedd y rhifnodau 1765 wedi eu cerfio yn y pren. Tebygol mai yn y flwyddyn hono yr adgyweiriwyd, neu y rhoddwyd y llofft i fyny y waith gyntaf. Ymddengys, hefyd, mai tua'r un flwyddyn yr adeiladwyd y clochdy, os gellir gosod ei gyfluniad lawn mor foreu. Yr hyn sydd i'w olygu yma wrth y clochdy, y mae yn ymddangos, ydyw y talcen oll ac ychydig o'r ochrau, gan gynwys lle'r gloch, pa un sydd ar uchaf y talcen. Tebygol mai oherwydd cyflwr adfeiliedig y talcen hwn y bu yr adeiladiad dan sylw, ac nid er helaethiad yr eglwys. Caed y ceryg at y gwaith yn Mhynwarch Maes y Pandy, yn ol a ddywedir. Gosodir cryn fri ar ei adeiladwyr fel seiri meini, a hwynthwy a gododd borth gorllewinol y fynwent, yr hwn a ystyrir yn adeiladwaith rhagorol, pa un sydd wedi ei adeiladu o geryg nadd.

Uwch ben y gangell y mae math o fwa, ffurfiedig o ystyllod, pa un sydd wedi ei ranu i ddeuddeg pedryn, o ddwy linell gyfochrog; ac ar bob pedryn luniau lliwiedig, a arwyddocânt rosynau, tebygol, ac ar bob pedryn bedwar mewn nifer o'r cyfryw (ond peth o bedwar o honynt yn ymddangos yn anghyflawn ar un talcen i'r bwa, a hyny mewn rhan oherwydd trwsiad arno, ac mewn rhan trwy gwmrydiad rhy drwchus ar y mur). Yn y canol, rhwng pob pedwar rhosyn, y mae llun lliwiedig pedwar gwyneb dynol. Eithr y mae gwedd lychwinog ar y lluniau hyn gan mwyaf; a hyny, mewn rhan o leiaf, fel yr ymddengys, yn herwydd lleithder yn treiddio i mewn oddiallan. Yn flaenorol i'r adgyweiriad crybwylledig, a gwblhawyd yn y flwyddyn 1876, yr oedd lle y ddau bedryn sydd ar y tu deheuol wedi ei wyngalchu, eithr tebygol y bu yn dwyn cyn hyny, fel yn awr, luniau lliwiedig o fath ag oedd ar y pedrynau eraill.

Ond heblaw yr eglwys a nodwyd, cyfodwyd un arall yn y plwyf, a hyny yn ardal Corus, pa un a agorwyd yn mis Medi, y flwyddyn 1860, Darparwyd fod i ddegwm cyfran o'r plwyf fyned i gynal yr eglwys hon, ac i achosion Eglwysig, ystyrir y gyfran hono yn blwyf arno ei hun, o dan yr enw Plwyf Corus. Ac i nodi terfynau y dosraniad hwnw, cyflewyd nifer o geryg (chwech mewn rhif) mewn gwahanol fanau; ac ar y ceryg hyn dair C yn gerfiedig, y rhai a olygant *Corus Consolidated Chapelry*. Ond nid yw hyn yn newid dim ar achosion gwladol y plwyf.

Digitized by Google

## Y LLYNAU.

---

### LLYN TAL Y LLYN.

Yr ydys wedi crybwyll am y llyn hwn o'r blaen, ond yn awr bwriedir sylwi arno yn helaethach. Y mae dau ddull o'i enwi heblaw yr un a osodwyd i lawr yma, sef a ydynt, Llyn Meingul a Llyn Mwyngil, ac y mae pob un o'r ddau yn lled ddynodol o hono; canys os yr enw blaenaf a gymerir, cyfetyb yn weddol i'r dynodiant, canys cyfrifir ei fod dros filldir o hyd, a thua haner milldir o led. Ac os yr enw olaf a ddewisir, y mae hwnw hefyd yn arwyddocaol, oblegid gorwedd mewn mangre led ddymunol, rhwng y gelltydd a ymgodant ar ei ochrau. Wrth ei ben isaf, ymgyfyd y tir ychydig ar draws y cwm o gyfeiriad Abergynolwyn iddo, a thrwy agorfa fechan yn yr ymgodiad tonog hwn y rhed ei ddwfr yn afon loeyw allan o hono. Wrth ei bén dwyreiniol, gan ymestyn hyd ran o'i du gogleddol, y gorwedd meusydd a gweirgloddiau y rhai a achlesir gan uchelfanau ymestynedig. Ac ar un llaw y mae Cadair Idris yn ymddyrchafu yn dywysogaidd oddiar ei goseiliau rhamantus ac amryfal. Y tu deheuol i'w gwr uchaf, egyr bwlch trwy un o erchwynion y cwm y gorwedd ynddo, i dueddau Corus a Machynlleth. Ac ymhen rhyw dri chwarter milldir oddiwrth ei ben uchaf, dynesa godreu'r mynyddoedd cyferbyniol tuag at eu gilydd, nes gadael ond cwm cul rhyngddynt, gan ymestyn yn llinellau cyfochrog o wahanol ardebweddau, nes ffurfio Bwlch y Llyn Bach, yr hwn sydd yn ymagor i ardaloedd Dolgellau.

Cyflenwir y llyn â dwfr trwy nifer o ffynhonau a fwrlymant eu hylif gloeyw i fyny o waelod ei orweddfan, ynghyd âg o nifer o neint a redant iddo o'r gwahanol diroedd cymydogol. Y mae yn heigio o frithylliaid braf, a byddis yn ymgyrchu i'w dal o'r ardaloedd cymydogol, ynghyd âg o wahanol ranau o Loegr. Mynegir yn* Nghoflyfr Caernarfon, fod deuddeg ceiniog mewn ceffylau a moch i'w dalu dros y llyn hwn, tuag at gofwyliau y Pasg a Sant Mihangel.

---

* Record of Carnarvon, tudal. 276.

Digitized by Google

## LLYN CAU, NEU LLYN CAI.

Gorwedd y llyn hwn wrth droed Graig Cau, neu Craig Cai, ac ym mhen eithaf math o gwm anghysbell, uchel, a mynyddig. A thrwy hyn y mae y gelltydd sy'n ymgodi uwchlaw iddo yn gosod gwedd o unigrwydd arno. Nid yw yn eglur pa un ai fel Llyn Cau ai Llyn Cai y dylid ei ysgrifenu. Dichon mai Llyn Cai, gan olygu rhyw berson neu gilydd a fu yn dwyn yr enw Cai. Modd bynag, nid eir yma yn awr i gynyg penderfynu. Ymddengys y byddai y Dr. William Owen Pughe yn ei alw yn Llyn Cân, a than yr enw hwn y cyfeiria ato mewn llythyr o'i eiddo, argraffedig ymysg y llythyrau yn yr Adgof Uwch Adgof, gan y bardd a'r hynafiaethydd, Mr. John Jones (Myrddin Fardd). Ond nid oes awdurdod dros ei alw fel hyn. Cyfrifir ei fod yn filldir o amgylchedd.

Oddiar ei gwr de-orllewin, ymgyfyd clogwyn tàl, o'r enw Twr Main, pa un a arddengys ardebweddiad rhamantus, ac arddunol ardderchog. Yn y llyn, ac islaw y clogwyn hwn, a cher ei làn, y mae careg, ac nid craig fel yr ymddengys, pa un sydd o gryn faintioli, yn ymgodi oddiar ei arwyneb, ar yr hon y tyf gwelltglas a thyfiant eraill. Encyd oddiwrthi y mae careg, neu feallai ran o graig, yn ymgodi ynddo oddiar yr arwyneb, yn ymyl y làn, a mwswgl yn tyfu ar ranau o honi; a gellir myned yn droedsych ddigon i'w phen yn adeg sychder mawr.

Y mae ar y glanau amryw gwympiadau, neu fanau o enbydrwydd, o barth pa rai y dylai y teithydd nosawl, a ddichon gyniweirio ar ei fin, fod yn dra gwyliadwrus, rhag iddo gyfarfod â'i ddiwedd yn nyfroedd oerion y llyn. A dylai y gofal fod yn fwy felly o gymaint ag fod llwybrau defaid neu fugeiliaid mewn cysylltiad â rhai o honynt. Hefyd, y mae peth daiardwf gwasgarog ar fanau iddynt, yr hyn sydd yn eu gwneyd yn fwy twyllodrus. Ac fel un o'r rhai hyn, gellir nodi serthle creigiog ar y tu deheuol iddo, a thua'r fan yr ymddengys coeden fechan o tros ei ymyl erch. Ac y mae yr olygfa o'r fangre hon ar y dyfnder glasddu pruddaidd islaw yn dra brawychus i'r cyffrous neu'r meddylgar.

Deuwyd a chwch iddo gynt, ac ymddengys oddiwrth y llythyr* crybwylledig mai yn y flwyddyn 1812 y bu hyny. Cwch a gwaelod gwastad ydoedd yn ol a ddywedir, ond y mae wedi suddo i'r gwaelod

* Dyddiad y llythyr yw'r 21ain o Fedi, 1812.

er's llawer o flynyddoedd meithion yn ol. Tebygol iddo ymryddhau oddiwrth y lan, neu ei gollyngwyd yn rhydd mewn direidi barus, ac feallai y taflwyd ceryg iddo, ac mewn canlyniad, suddo o hono i'r gwaelod. Yr oedd wedi bod o dan ddwfr ddwywaith yn flaenorol. Cyfodwyd tŷ i'w ddiddosi yn ochr ogleddol cilfach sydd yn nghwr ddwyreiniol y llyn, ac y mae adfeilion o hono yn aros yno yn awr.

---

## Y LLYN BACH, NEU LYN TRI GRAIENYN.

Gorwedd y llyn hwn yn nghwr isaf gwastadedd bychan gerllaw pen Bwlch Llyn Bach, ac ar fin y brif-ffordd a arwain o Ddolgellau i Fachynlleth. Y mae y dynodiant *bach* a roddir iddo, o'i ystyried yn gymariaethol, yn ddigon addas am faintioli ei arwynebedd. Cafodd ei alw yn Llyn Tri Graienyn, fel yr ymddengys, yn herwydd y chwedl ddychymygol a esyd allan, ddarfod i dair careg sydd gerllaw gael eu dwyn yno megys ceryg bychain yn esgidiau y Cawr Idris. Llawer o son fu am ei ddyfnder, ac y mae Bingley yn dweyd ei fod dros 50 gwrhyd. Ond y mae hyn yn dra chyfeiliornus, canys nid yw yn ymddangos fod dyfnder ei ddwfr namyn oddeutu chwe' throedfedd, eithr y mae iddo tua phum' troedfedd o waelod lled feddal, yr hyn a bair ei fod yn nodedig o beryglus. Effeithia y tywydd i wahaniaethu oddiwrth y mesuriad hwn yn nyfnder ei ddwfr.

---

## FFYNHONYDD Y CWM, NEU FFYNON Y CWM.

Byddai llawer o gyrchu gynt i Ffynon y Cwm—Cwmrhwyfor, a dywedir ei bod yn rhinweddol tuag at wellau y cryd cymalau *poeth*. Dichon mai dyma yr un a eilw Samuel Lewis yn ei Barthiadur yn Ffynon yr Esgob. Y mae ei mangre yn mynydd Cildydd, ac ar fin yr hen brif-ffordd, a thua gwaelod Rhiw Hwb y Wrach, ar y fan neu gwr y fan a elwir Llawr y Cwm. Tua'r flwyddyn 1814, ar adeg gwlaw taranau, cafodd ei llanw âg ysbwrial daiardor, ac nid yw wedi ei hadfer eto i'w ffurf flaenorol, pryd yr oedd yn grynöedig gan glawdd. Ond y mae yno yn awr gronfa fechan a chyflawnder o ddwfr yn rhedeg iddi odditan yr allt uwchlaw.

Digitized by Google

## CARNEDDAU A BEDDAU.

Ychydig o garneddau yr hynafiaethydd sydd yn y plwyf. Ymddengys fod math o garnedd heb fod yn fawr yn llyn Tal y Llyn, ond ni wyddis ddim am ddiben ei chyfodiad. Ac os mai gwaith dynol yw, fel tebygol maie, y mae yn ymddangos yn nodedig ei bod yn gyfleuedig yn y fath le, os ydys i ddeall y gorchuddid ei mangre gan ddyfroedd y llyn ar y pryd. Nid yw ei gorweddfan ymhell o'r lân, ac, megis rhwng y Pentre'—Pentre' Dol Ammarch a Phant y Dwr. Pwy bynag a ddigwyddo fyned ar warthaf y garnedd hon, bydded dra gofalus rhag llithro i lawr i ddyfroedd y llyn oddiar ei cheryg llithrig, rhag ofn i hyny fod yn angau sicr a disymwth iddo. Dywedir fod carnedd arall gerllaw, ond fod mwy o ddwfr yn ei gorchuddio.

Feallai fod gweddillion carnedd ar ucheledd y Mynydd Moel. Canys mewn math o fwlch bychan tua min yr allt islaw y mae y ceryg, fel wedi eu cyfleu a'u talcenau allan. Ac hwyrach eu trefnwyd felly gyda pheth saerniaeth rhag i'r cwr hwnw o'r garnedd, os carnedd hefyd, chwalu a threiglo i lawr yr ymyl.

---

### CRUG AR FYNYDD LLWYDIARTH BACH.

Oddeutu y flwyddyn 1854, darganfyddwyd carnedd o geryg mewn crug o ddaear ar fath o wastadedd, tua phen y bwlch ar fynydd Llwydiarth Bach,* ac yn ymyl y clawdd terfyn sydd rhwng Llwydiarth a'r Hendref Ddu, pa un sydd hefyd yn derfyn rhwng plwyfydd Mallwyd a Thal y Llyn.

Fel yr oeddid yn chwilio am geryg i wneyd y clawdd terfyn a nodwyd, sylwyd ar fryncyn bychan, pa un oedd yn orchuddedig â

* Rhag-dyddyn yn canlyn Llwydiarth yw Llwydiarth Bach yn awr, a hyny er's rhai ugeiniau o flynyddoedd—yn tynu at neu tua chan' mlynedd.

Digitized by Google

daear dyfol. Ond pan roddwyd prawf arno i edrych beth oedd ei gynwys, cafwyd crug o geryg o tan y croen, a defnyddiwyd hwy i gynorthwyo i wneyd y clawdd. Yn y garnedd hon yr oedd bedd wedi ei gyflunio o geryg cyffredin, ac wedi eu balmantu, ac yn cynwys llestr pridd, rhan uchaf o ba un oedd, yn ol a ddywedir, wedi ei dori. Tybid y cynwysai ludw gweddillion dynol. Caed llaw yn y bedd, ond pan gyffyrddwyd â hi aeth yn lludw. Eithr yr oedd ynddo amryw o esgyrn mewn cadwraeth dda. Heblaw a nodwyd caed yn y bedd hefyd dri phwt o dderw, ac arwyddion llosg ar un pen iddynt. Mesurai y mwyaf o'r tri oddeutu deng modfedd o hyd, ac yn debyg o ran praffder i forddwyd gwr. Tybid y gallasai fod yno ddau o feddau bychain eraill.

---

## BEDD RHYFELWR.

Dywedir mewn ysgrif yn y 'Transaction of the Cymmrodorion,' Cyf. I. 154-5, y rhydd Cambden hanes am ddarganfyddiad bedd hen ryfelwr, oddeutu yn agos i ddwy filldir yn îs i lawr nag Eglwys Tal y Llyn, ac ar y tu gogleddol i'r cwm. Ac y tybir mai bedd penaeth o ogledd Lloegr ydoedd, a ddaeth i geisio diogelfa yn Nghymru, ac a gladdwyd yn Mriafael. Ac yr ystyrir mai ei fedd ef ydoedd oddiwrth y linell ddilynol:—

"I Kelli Vriavael bet Cwrthmwl."

Ond o barth i hyn, noda y golygydd iddo fethu cael hyd i'r hanes yn Cambden, nac yn yr ychwanegiadau gan Mr. Edward Llwyd.

Gellir sylwi yma y dywedir yn Nhrioedd y Meirch, mewn perthynas i feibion Gwrthmwl yn dial marwolaeth eu tad:—"Ar trydydd marchlwyth a ddug Gweir a gleis ac Arthanat yn erbyn Allt Faelwc yng Heredigyawn yn dial eu tat."*† Dull arall o'r un Trioedd a ddywed: "Yr trydyd Marchlwyth a duc Erch march meibion Grythmwl Wledic. a duc arnaw Achlen. ac Arthanat yn erbyn riu Vaelaur Yg Keredigyawn y dial eu tat."‡

* Myf. Arch. arg. mdcccl. t. 391.

† Darll. arall yn ngodre'r un ddalen a ddywed:—"Llwyn Gweir Pengleis Rhiw Arthen ac Allt Faelawr yn Ngharedigion."

‡ Myf. Arch. t., 396.

Digitized by Google

Gwelir nad oes yn y dull hwn o'r Trioedd ond enw dau fab i Gwrthmwl yn cael eu henwi, ond ceir ynddo enw'r march ag y gesyd allan ddarfod iddo eu dwyn. Yn mhellach ymlaen ar y llyfr* yr ydys newydd ddyfynu o hono, nodir a ganlyn, a hyny, feallai, mewn cyfeiriad at y ffurf o'r Trioedd a ddyfynwyd flaenaf:—"ar ol y *trydydd marchlwyth a ddug*, darllen Heid march Gwrthmwl wledig a ddug; yn lle *Gweir a Gleis ac Arthanat*, darllen Gneir a Gleis ac Arthynad." Yn ol y cywiriad hwn, gwelir mai enw'r march a'u dygent oedd *Heid*. Yn ngodre'r ddalen y cymerwyd y cywiriad uchod allan o honi, ceir y mynegiant ychwanegol a ganlyn am Allt Faelwr ynglyn â'r Trioedd:—"Ar trydydd, march meibion Gwrthmwl wledig, a ddug arnaw Gwair a Chlais ac Arthenad yn erbyn yr Allt Faelwr yng Ceredigiawn i ddial eu tad. Cyneddf oedd ar Faelwr, na chaye i borth er un marchlwyth, ac yna i lladdasant."

Gesyd y Trioedd ef yn un o dri "lleithig llwyth," neu lwyth brenhinol Ynys Prydain. Ac fel un o'r rhai hyn, yr oedd yn Ben Hynaif yn Mhenryn Rhionydd yn y gogledd, pryd yr oedd Cyndeyrn Garthwys yn ben esgob yno, ac Arthur yn ben teyrnedd yn ôl un o'r Trioedd. Gosodir ef, hefyd, yn un o dri *tharw* ellyll Ynys Prydain, ac mewn Trioedd arall yn un o dri *charw* ellyll Ynys Prydain. Dichon mai yr unrhyw un a'u gilydd o'r creaduriaid hyn a feddylir yn y naill Drioedd fel y llall, ac mai gwall yn y llythyreniad a barodd nodi *tarw* yn un, a *charw* yn y llall. Ond, o'r tu arall, dichon fod gwahanol ddywediadau ar led o barth yr ellyll honedig. Eithr, pa fodd bynag am hyn, cysylltir Llys Merini a Gwidawl yn y ddau â Gwrthmwl Wledig. Ac, feallai y golygir yn y Trioedd, fod eu hysbryd yn ymrithio ar wedd un neu y ddau o'r pawrfilod a nodwyd; canys cyfeirir at ysbryd Gwidol mewn dwy linell werinaidd sydd ar lafar gwlad, y gyntaf o ba rai a red fel hyn:—

"Ysbryd Gwidol wedi'r nos."

Dywedir y byddai ysbryd yn Aber Gwidol, amaethdy yn nghymydogaeth Machynlleth, a thebygol mai at yr ysbryd hwnw y cyfeiriant, pa un bynag ai ato fel ysbryd un o'r enw Gwidol, ai fel un a gyniweiriai yn Aber Gwidol. Dywed Davies yn ei *Mythology of the British Druids*, t. 478, mai offeiriad eilun neu darw cysegredig o'r enw Tarw Ellyll oedd Gwrthmwl, ac y perthynai y tarw i'r duwiau Archäaidd. Ond, er hyn, mwy tebygol mai at ysbryd Gwrthmwl y cyfeirir.

---

* Myf. Arch. t. 414.

Digitized by Google

O barth yr enw Mriafael crybwylledig, gellir nodi fod islaw Tal y Llyn, ac yn ardal Abergynolwyn, dri o leoedd yn dwyn y dynodiant gwerinol o Myriafal, neu o wahaniaethiad yn tebygu, y naill yn rhag-dyddyn, sef Myriafal Uchaf, a'r ddau arall yn dyddyndai neu dyddynod, ac yn dwyn y dynodiadau gwahaniaethol o *Fach* a *Ganol* yn nghysylltiad â'r enw a nodwyd. Yn y *Camb. Reg.*, am y flwyddyn 1795, tud. 304, cyfeirir at ddau o'r lleoedd hyn, y naill wrth y ffurf unigol o "Mryavael," a'r llall wrth yr enw a'r ansoddair o "Mryavael Isaf;" a'r Saesneg a roddir yno am "Mryavael" sydd gyfystyr â Y gafael uchel.* Ond er hyn, ymddengys mai dwyn enw rhyw berson neu gilydd y maent, pwy bynag ydoedd hwnw. Canys ceir y fath enw a Briafael mewn mynegiant i'r ystyr ganlynol allan o'r *Liber Landavenses*, neu Llyfr Llandaf:—"Hawliodd Morgan, brenin Morganwg, mab Arthwys, feddiant heddychol ar ddydd Nadolig o eglwys 'Cyngur Trosgardi.' pa un yn flaenorol a berthynai i Teilo Sant, ac ar yr un pryd, er mwyn ei offrwm, a'i hadferodd i Oudoccus, y prif esgob, ac i sant Teilo a sant Dyfrig (Dubricius), a holl fugeiliaid Llandaf dros byth, a chyda ei holl diriogaethau, a therfynau, a chyda Merwallt o dan yr esgob, unben† yr eglwys hono, a rhoddodd yd holl ryddid i'r eglwys, a'i thiriogaeth, ac i'r preswylwyr a reolai ac a drigai yno, dros fyth; ac heb lywodraethwr neu is-lywodraethwr, a chyda nawdd, ac heb ganlyn aer-gyrchoedd, o fewn y wlad nac o'r tuallan iddi; ac heb gadw gwyliadwriaeth nac yn y dydd nac yn y nos, a chyda rhyddid cyffredin i'r preswylwyr mewn maes ac mewn coed, mewn dwfr ac mewn porfeydd. Y tystion o'r gwyr llên ydynt, Oudoccus yr esgob, Sulien, abad Nantcarfan, Sadwrn, abad Dochou, Gwrhafal, abad Llanilltud, Gwengad, unben "Llanncynuur." O'r gwyr lleyg, Morgan y brenin, Gweddwen, Briafael, Llyned, a Gwyddnerth mab Gwallonir." Yna, yn ddilynol i'r hysbysiad hwn, ceir yn yr unrhyw *Lib. Land.*, ddymuniad am i'r sawl a'u cadwai, gael ei gadw gan yr Arglwydd, ac i bwy bynag na wnelai, fod yn felldigedig. Ac yn ddilynol i hyny nodir y terfynau.

## HEN YSGRIN, AC YSGRUDAU DYNOL.

Dywed Pennant y caed ysgrin o ffawydd yn Llwyn Dolithelt‡ wrth dori mawn, yn y flwyddyn 1684, mewn oddeutu tair llath o ddyfnder o ddaear. Mesurai yr ysgrin saith troedfedd o hyd,

* "The high hold," yn ol iaith y Camb. Reg., crybwylledig uchod.

† "Prince."

‡ Yn y Camb. Reg. am 1795, arg. 1796, t. 302, ceir y ffurf o Llwyn Dylithan.

ac yr oedd ei deuben wedi eu goreuro a'u cerfio. Caed ynddi ddau ysgrud, yn perthyn, fel y tybir, i fab a merch. Gorweddent a phen y naill at draed y llall. Yr oedd yr esgyrn yn iraidd a gwydn, ac o fainticli anghyffredin,—rhai y forddwyd yn mesur saith modfedd ar hugain o hyd. O fewn llathen i'r ysgrin, cafwyd dau ysgrud arall, o'r un maintioli a'r cyntaf, ac yn gorwedd ar glai noeth. Hefyd, o fewn dau bedwaran o erw iddynt, caed bedd yn cynwys ysgrud o faintioli cyffredin. Yr oedd gwiail cyll wedi eu gosod ar hyd y beddau a'r ysgrin, a'r rhisgl arnynt, ac yn dal mor wydn nes bod yn blygadwy. Priodolir cadwraeth dda y gwiail, a gwydnwch yr esgyrn, i ansawdd bygloaidd y fawnog y gorweddent ynddi.

Ceir cyfeiriad yn yr Ychwanegiadau at waith Cambden, gan Mr. Edward Llwyd, at yr ysgrin a nodwyd, lle ei darlunir yn un oreuredig. Dywed am dani i'r ystyr ganlynol:—"Darganfyddwyd yr ysgrin oddeutu 1684, mewn mawnog a elwir Mawnog Ystradgwyn, yn agos i Faes y Pandy, preswylfa yr anrhydeddus John Nanney, Ysw. Yr oedd wedi ei gwneyd o goed, ac wedi ei chadw gystal fel yr oedd y goreurad yn dra ffres, a dywedir y cynwysai ysgrud anferth o faint. Dyma yr unig engraifft y gwn am dani o gladdu yn y cyfryw leoedd, ac eto, gall fod gan y rhai a osodasant yr ysgrin hon yma olwg ar ei chadwraeth barhaol, gan y gwelwn ein bod yn cael, trwy engreifftiau dyddiol o goed wedi eu darganfod mewn mawnogydd, fod y ddaear losglysaidd yn diogelu coed tuhwnt i bob un arall."

## CISTFAEN.

Gan mai fel beddau y defnyddid cistfeini yr hynafiaethydd, ceir cyfeirio yn awr at weddillion un o honynt yn y fan hon. Y mae safle y gweddillion hyn ar fryncyn bychan mewn lle o'r enw Cwmsoeglyd, yr hwn sydd yn nghymydogaeth Hafotty, Corus. Diamheu mai argel wely rhywun neu gilydd o'r cynoesoedd ydoedd y gistfaen hon, ac ymddengys oddiwrth ei maintioli y llosgwyd corff y sawl a gladdwyd ynddi.

## BEDDAU ERAILL.

Y mae beddau eraill yn y plwyf, ond yr ydys yn gwybod trwy a ddywedir mai beddau hunan-leiddiaid ydynt, ac felly ceir eu dwyn

Digitized by Google

i sylw yma ar wahan oddiwrth y lleill. Saif un o honynt, yn ol a ddywedir, yn rhywle ym Mwlch Bangor; ac un arall ar y mynydd rhwng tir Braich Coch a Rhognant a Maes y Pandy. Y mae un o honynt yn y terfyn rhwng Aber Cwm Eiddew a'r Hengae. Dynodir y bedd hwn gan lechfaen, ac yn gerfiedig arni y llythyrenau H. R., ynghyda'r rhifnodau 1664, fel yr ymddengys. Ond ni ellir bod yn benderfynol am y ddau rifnod olaf, er hyny braidd yn ddiamheuol mai dyna ydynt. Dywedir bod un arall o'r beddau hyn mewn man a elwir Ffoslas, lle rhwng Ffynon Badarn a Chambergi, ac Aberllwyfeni.

## HAFOTTAI.

Y mae lliaws o Hafottai, yn fwy neu lai cyfain, o fewn terfynau y plwyfydd a berthynant yn benodol i hynafiaethau y llyfr hwn. Y mae rhai o honynt erbyn hyn yn furddynod, rhai yn gorlanau defaid, rhai yn feudai, ac eraill yn cael eu defnyddio yn dyddyndai trigianol trwy gydol y flwyddyn. Fel y mae'r enw yn arwyddo, math o dai haf oedd yr Hafottai hyn. Cyfodid hwy bellder o ffordd oddiwrth y prif aneddau; ac i'r diben, ar un cyfnod o leiaf, i'r amaethwyr gael y fantais i fod yn nes i borfeydd y defaid a'r buchod am dymor yn ystod yr haf. Ond y mae'r arferiad o ymsymud iddynt fel teulu am adeg, fel y byddid gynt, wedi peidio er's llawer o amser bellach. Eithr ymddengys y gwneid hyny yn lled gyffredinol gan y rhai a feddent Hafottai yn y ganrif ddiweddaf; ac hefyd, y byddai rhai yn dilyn yr arferiad mor ddiweddar a rhan o ddechreu'r ganrif hon. Yn yr Hafottai hyn y trinient y llaeth a'r ymenyn ar y pryd. Ond wedi i'r haf, neu dymor dechreu haf, fyned heibio, ai y teulu drachefn i'r prif aneddau, neu y gauafdai. Neu hwyrach yr elent ar un cyfnod, yn nghyntaf, i'r cynhauafdai; o leiaf, ceir son am gynhauafdy yn hen gyfreithiau Cymru.* Ond feallai mai tai i ddiddosi cynyrch y tir oedd y cynhauafdai. Modd bynag, ceir yn awr aneddau yn cael eu galw Tai Cynhauaf; a thebygol mai oddiwrth yr hen gynhauafdai y cawsant yr enw.

Dywed Pennant y cynwysai yr Hafottai ystafell hir, gyda thwll yn un pen iddi i ollwng y mwg allan oddiwrth y tân a gyneuid islaw.

* Ancient Laws and Institutes of Wales, tudal. 143, 283, 351.

Digitized by Google

Ond, a chaniatau hyn mewn perthynas i niferoedd o honynt, ceir nodi y perthynai simneiau i rai o'r adeiladau hyn, fel y dengys eu gweddillion adfeiliedig; tra yr oedd eraill heb simneiau yn perthyn iddynt. Hefyd, ymddengys fod rhai o'r Hafottai yn lled betrual, a bod rhaniad yn rhai o honynt i'w gwneyd yn ddwy ystafell; a bod rhai hefyd yn weddol uchel a chymeryd y gronglwyd i mewn, os nad oedd taflod hefyd iddynt.

Er fod yn amlwg oddiwrth adfeilion yr Hafottai, iddynt gael eu hadeiladu o feini yn y cyfnod diweddaf arnynt, eto, ymddengys oddiwrth y Trioedd canlynol, mai adeilad o wiail oeddynt gynt, neu o leiaf y byddai rhai felly; canys dywed yr unrhyw: "Tri anhebgor bwd havodwr; nenbren; nenfyrch; a bangor; a rhydd eu tori yn nghoed gwyllt a fyno." Sonir yn awr am *gadw hafod*, ond golygir wrth hyn un yn edrych ar ol tyddyn ac yn byw yn ei dyddyndy perthynol, ac yn ngwasanaeth preswylydd a thrinydd tyddyn arall.

---

## TRADDODIADAU A SYLWADAU.

Dywed traddodiad i frwydr gael ei hymladd gerllaw Aberllyfeni (Aber Llwyfeni) rhwng teulu y tŷ hwn a theulu Mathafarn. Safai un blaid ar faes o'r enw Coedcae, am yr afon ag Aberllyfeni, a'r blaid arall gyferbyn, ar y tu arall iddi. Ond, er y dywed traddodiad fel hyn, i ymladdfa gymeryd lle yn y fan, nid yw yn dywedyd dim i bwy ochr y trodd y fuddugoliaeth. Gellid meddwl, pa fodd bynag, mai teulu Mathafarn oedd yr ymosodwyr, os nad ydys i ddeall fod y rhai hyny yn y fan yn herwydd rhyw achos neu gilydd, ac i deulu Aberllyfeni ymgecru â hwy, a dechreu taflu eu saethau dros yr afon atynt.

Ond i gyfeirio oddiyma tuag ardal Corus. Mynega traddodiad i benaeth o'r enw Ednyfed Fychan fod yn byw yn Mhen y Rhyl, anedd-dy sydd erbyn hyn heb ond ychydig weddillion o hono yn aros. Ac i'r penaeth hwn fod yn ymladd brwydrau gerllaw, ac adroddir y dywedai J. A. Owen (Bardd Meirion) y safai un fyddin yn Maes y Gorwyr, a bod yr enw yn golygu Maes y Goreu Gwŷr, oherwydd cael y trechaf o'r fyddin a wersyllai yno. Ond gellir sylwi nad yw hyn i ddal sylw arno, gan fod yn llawn mor debygol mai maes y gorŵyr yw, os ydys i ddeall mai *r* yw y llythyren derfynol i fod mewn gwirionedd.

Digitized by Google

Mynegir y dywedai hefyd fod Senedd-dy allan o Dre Gorwyr (Maes y Gorwyr) a cher Penrhyl. Dywedir y bu gynt eglwys yn Mhenrhyl, ac fod y lleindir sydd yn ymyl, pa un a elwir Ala Fach, yn gladdfa. Eithr, heblaw yr eglurhad a briodolwyd eisoes i J. A. Owen (Bardd Meirion), priodolir hefyd y dywedai mai maes cör wydd yw ystyr Maes y Gorwydd, a hyny am y tyfai yno lawer o goed mafon cochion, ac mai y coed hyny, *o goed*, oedd y rhai lleiaf.

Mewn llyfr o ardreth* y brenin, yn nghysylltiad â'r flwyddyn 1633, dynodir y lle fel Maes y Gorwydd. Yn awr, os mai Maes y Gorwydd yw ei briodol enw, gellir sylwi fod *gorwydd* yn air cyfystyr â *cheffyl*. Ond er mai *dd* yw y terfyniad yn y llyfr hwnw, nid gwiw rhoddi pwys arno mai dyma'r ffurf briodol, pa un bynag. Gellir sylwi, hefyd, fod gorŵyr, yn y cysylltiad o berthynas, i'w ddeall fel dynodiant perthynasol â'r nebun a fai radd yn mhellach nac ŵyr.

Yn yr amser gynt, elai y ffordd o Ddolgellau i Fachynlleth dros y Bwlch Coch, yna dros y Bwlch Coch Bach, a thu cefn i Graig y Llam, heibio i Faes y Gorwyr. A dywedir y byddai trigolion y ddwy dref hyn yn cyfarfod â'u gilydd i gadw ffair yn Maes y Gorwyr. Ac feallai, yr hyn hefyd sydd debygol, mai yn adeg pla neu ryw afiechyd tost a fu yn y flwyddyn 1637 y cedwid ffair neu ffeiriau yno fel hyn; canys dangosir trwy y penawd canlynol, ynghyd â'r ddau gyntaf o'r hen benillion sy'n dilyn, na chedwid ffair na marchnad am ryw ran, o leiaf, o'r flwyddyn hono yn y Dref Newydd, Llan Idloes, na Machynlleth:—"Gweddi o blaid y Trefi y bu'r pla ynddynt, sef y Dref Newydd, Llanidloes, a Machynlleth, yn y flwyddyn 1637."

"I'r Dref Newydd brudd briw aeth,—llin waedlyd
A Llanidloes helaeth,
Machynlleth eilwaith alaeth,
Y sydd yn dwyn cystudd caeth."

"Dyma'r tair un air mae'n irad—eu ffwyl
Heb na ffair na marchnad;
Lle mae cwyn ac achwyniad,
Llu oer a gloes llawer gwlad."

"Arglwydd Dad, yn rhad er anrhydedd—y groes,
Ac er grym dy fawredd;
Er dy fab a rowd i'w fedd,
Datro gur dod drugaredd."

---

* Crown rent Assessment.

Digitized by Google

"Maddau i'r rhain druain draw waith—eu camwedd,
Cymod â hwy eilwaith;
A bydd Feddyg, diddig daith,
A challaw i Fachynllaith."*

Ceir symud yn awr i gymydogaeth y Llyn Bach. Ar un tu i'r llyn hwn ymestyn Craig y Llam yn ysgythredd daneddog. A cherllaw ei phen dwyrain ogledd, a chyferbyn â'r llyn, ymddyrcha clogwyn uchel, a elwir Pen y Cnycyn. Ymddengys mai y cnycyn hwn yw y man y cyfeirir ato fel Llam y Lladron yn Mharthiadur Samuel Lewis,† dros ba un y dywedir yr arferid taflu troseddwyr gynt i'w dinystr dienyddol. A rhyw dro fel yr oeddid ar fwrw un dros yr ymyl erch, gofynwyd iddo a feddai rywbeth y dymunai ei ddywedyd, pryd yr atebodd nad oedd, eithr y dymunai gael ysgwyd llaw â'r Ynad. Ond pan gafodd afael yn ei law, tynodd y gwr hwnw i'w ganlyn yn bendramwnwgl tros y dibin erchryslon. Ymlaen ar y dwyrain ogledd i Ben y Cnycyn, ond yn rhan o Graig y Llam, y mae Tap Rhys Edward, lle y torodd hwnw druan ei wddf drwy gwympo trosto pan yn dyfod adref o garu o Waen Lyfeni. Ond nis gwyddis pa faint o amser sydd er hyny, ond cymerodd le rywdro cyn oes neb sydd yn fyw.

---

## ACHAU YWENIAID DOLFFANOG.

Nid yw perchenogion presenol Dolffanog yn trigianu yno yn awr, ond ystyrir hwy a'u perthynasau, disgynyddion o'r hen berchenogion, fel yn dwyn cysylltiad achyddol, neu deuluaidd â'r lle. Perthyna i'r llinell hon nifer o bersonau tra nodedig fel meddygon anmhroffesedig briwiau neu archollion, ac esgyrn toredig; a buont yn foddion i arbed tori ymaith aelodau esgyrn drylliedig personau, ag y bernid gan feddygon proffesedig fod eu tori ymaith yn angenrheidiol. Ac y mae yn meddiant y teulu hwn eli rhagorol a neillduol, a elwir *Eli Glas*, pa un a ddaeth, o ran beth yw ei ddefnyddiau, ynghyd â'r wybodaeth o'r modd i'w wneyd, oddiwrth feddygon Myddfai, yn ol a ddywedir.

---

* Cymerwyd y penillion hyn allan o 21 o nifer argraffedig yn y Gwyliedydd am y flwyddyn 1829.

† Lewis's Topographical Dictionary.

Digitized by Google

Rhed achlin Yweniaid Dolffanog i lawr o un tu trwy Cathrin Fychan, ferch John Fychan, fab Gruffydd Fychan, Dolmynllyn, yn mhlwyf Llanelltyd, yn Swydd Feirionydd, pedwerydd mab Robert Fychan, yr hynafiaethydd enwog o'r Hengwrt, a'i wraig Cathrin, ferch Gruffydd Nannau, Ysw., o Nannau, ac felly yn hanu o Lewis Ywain y barwn, disgynydd o Ednywain ab Bradwen, un o Bymtheg Llwyth Gwynedd; canys Margred, etifeddes yr Hengwrt, ac wyres i'r unrhyw farwn trwy ei fab Edwart Ywain, o'r Hengwrt, ydoedd fam yr hynafiaethydd a nodwyd, a'i dad ydoedd Hywel Fychan o'r Wengraig, fab Gruffydd ab Hywel, o'r Wengraig, (yr hwn ydoedd yn fyw yr 20fed flwyddyn i Elisabeth), a Cathrin, ferch Lewis Ywain, disgynes o un ochr o Waithfoed fawr, Arglwydd Pywys. Yr Hywel hwn a nodwyd olaf ydoedd Hywel ab Ynyr, o'r Wengraig, ac yr oedd yn dad i'r crybwylledig Gruffydd ab Hywel, trwy Cathrin ei wraig, ferch Gruffydd ab Gruffydd, disgynydd o Einion ab Sitsyllt, yr hwn a ddynodir yn Arglwydd Meirionydd, un o hynafiaid y Puwiaid gynt o Fathafarn, yn Nghyfeiliog. Yr oedd yr Ynyr a nodwyd yn fab i Ynyr ab Llywelyn, ac yn wyr i Llywelyn ab Ynyr, mab i Ynyr ab Llywelyn a Nest ei wraig, ferch Robyn Llwyd ab Rhys, disgynydd o Gruffydd, un o feibion Ednyfed Fychan, pencynghorydd a chadlywydd enwog y tywysog Llywelyn ab Iorwerth, a disgynydd o Farchudd un o Bymtheg Llwyth Gwynedd. Ac yr oedd yr Ynyr ab Llywelyn hwn yn orwyr i Ynyr Fychan ab Ynyr Arglwydd Nannau, ab Meurig ab Madog ab Cadwgan, Arglwydd Nannau, ab y Tywysog Bleddyn ab Cynfyn.

Ymbriododd y Cathrin Fychan a enwyd, ferch John Fychan, fab Gruffydd Fychan, o Ddolmynllyn, â William Anwyl, o'r Hengae, yn mhlwyf Tal y Llyn; ac ymbriododd Cathrin eu merch (yr hon a fu farw y 5ed o Gorphenaf, 1802, yn 80 mlwydd oed) âg Wmphra Ywain, o Esgair Lwyd, yn Mhlwyf Llanwrin, ac aethant i fyw i Ben y Gareg, yn Mhlwyf Talyllyn. Yr oedd Wmphra Rhydderch, dynodedig o Ddolfanog, wedi rhoddi yr Esgair Lwyd i Ywain Rhydderch, ei ŵyr, tad y crybwylledig Wmphra Ywain, bon., fel y dengys Gweithred, ddyddiedig yn y flwyddyn 1718, ymha un y mae Ywain Rhydderch, mab y naill a thad y llall, yn un o'r pleidiau ynddi. Ymbriododd Mr. Ywain Ywain, mab ac etifedd yr Wmphra Ywain a'r Cathrin a nodwyd, â Dorothi Jones, o'r Plas Brith, Dolgellau; ac aethant i fyw i Ddolffanog. A'u plant o hynaf i hynaf oeddynt Ann Owen, Wmphra Owen, John Owen, Owen Owen, William* Owen, Robert Owen, Edward Corbett Owen, a Cathrin Owen, yr

* Mab i'r William Owen uchod ydoedd y diweddar Barch. Owen Owen, un o weinidogion, uwchrif, y Trefnyddion Wesleyaidd.

ieuangaf o honynt a'r un a fu fyw olaf o'r oll. Yr ydoedd yn wraig i'r Parch. J. D. Edwards, gwr eglwysig yn Rhosymedre, Swydd Ddinbych, yr hon a fu farw yr 28ain o Dachwedd, yn y flwyddyn 1879, gan adael ei phriod ac un ferch, Dorothy Louisa Edwards, eu hunig blentyn, i'w holoesi. Ond y maent hwythau hefyd wedi meirw erbyn hyn, a'u rhan farwol ill trioedd wedi eu dodi i orwedd yn naear mynwent Tal y Llyn, Meirionydd, Yr ydoedd y fam, Mrs. Edwards yn ol ei chyfenw priodasol, yn un ragorol am feddyginiaethu briwiau neu archollion.

Meibion Mr. Owen Owen, fab Mr. Ywain Ywain, o Ddolffanog, fab y crybwylledig Wmphra Ywain, Esgair Lwyd, ac wedi hyny o Ben y Gareg, yw perchenogion presenol Dolffanog, sef ydynt, y Mri. Owen Owen a Hugh Owen,* o'r Hendref, ger Abergynolwyn. Y mae iddynt un brawd ac un chwaer yn fyw, y rhai a fuont yn mhriod, ac sydd yn meddu hiliogaeth. Ond bu feirw dau frawd iddynt yn mhriod ac y mae iddynt hiliogaeth yn eu holoesi; ac ymgymerodd mab i un o honynt â'r alwedigaeth feddygol yn broffeswrol, sef ydyw, Mr. Owen R. Pughe Owen, meddyg, Bala, yn Meirionydd. Ar gareg fedd y crybwylledig Wmphra Ywain, bon., hen daid y Mri. Owen Owen a Hugh Owen, a nodwyd, y mae pedair llinell brydyddol yn mherthynas iddo, yn y rhai y cyfeirir ato fel meddyg esgyrn ac archollion. A chyfeirir ato, hefyd, ar yr unrhyw feddfaen, pa un sydd yn mynwent Talyllyn, fel Humphrey Owen, diweddar o Ben y Gareg, boneddwr,† a nodir arni iddo farw yr 16eg o Ragfyr, 1807, yn 87 mlwydd oed. Ac oddigerth y newidir yr *y* i *u* yma yn y gair *bu* yn y llinell flaenaf, rhed y pedair llinell grybwylledig fel hyn:

Hyd ben ei ddyddiau bu'n ddiddig  
Ai 'wyllys i wella'r briwedig,  
Ag ni arhoese'r trothe y trig‡  
Aur y gwan er ei gynyg.

Hwn ydyw y gwr y cyfeiriai Fychan y Gwyndyll ato yn ei Gywydd Canmoliaeth i Dalyllyn, lle y dywed yn ei gylch ef a'i breswylfa fel hyn:—

* Mam y Mri. Owen Owen a Hugh Owen uchod, yngbyd â'u chwaer a'u brodyr oedd Margaret,—Margaret Pughe yn ol ei henw gwyryfol, ferch Hugh Pughe, o Riwogo, yn Mhlwyf Talyllyn, a'i briod, yr hon ydoedd ferch John Owen, o'r Ddolgoed, yn yr un plwyf, yr hwn ydoedd fab y Dewisbren, yn Mhlwyf Dolgellau, ac ewyrth o frawd tad y diweddar Rolant Owen, o'r Dewisbren, yn Mhlwyf Dolgellau, y meddyg esgyrn (anmhroffesedig) rhagorol. Gweler tudal. 229—231. Yr ydoedd y Fargaret hon, hefyd, yn ddisgynydd o Robert Puw, brawd i'r Huw Puw y mynegir yn ei gylch yn mhellach ymlaen.

† "Humphrey Owen, late of Penygareg, Gent," meddir ar y gareg fedd.

‡ Y trigai.



Digitized by Google

"Ewch a gwyr uwch y gareg,
Gwelan' dŷ* gwiwlan deg;
Llys Owain lle llysieuog,
Cynnar gynt y canai'r gôg;
Lle i weiniaid er llawenydd,
A lle os rhaid fel llŷs rhydd;
Meddygodd amryw ddeugain,
Eli rhoes heb elw 'rhain;
Efe allodd fyw felly,
Ei wenach i wan a chrŷ';
Mae'n llechu yn awr mewn llwchyn,
A'i deulu ar ol yn dal yr un."

Cyfeirir hefyd yn yr un cywydd at ei fab, William Ywain, Braich Coch, tyddyndy yn y gymydogaeth. Canwyd y cywydd hwn pan oedd George IV. yn ymweled â Chymru a'r Iwerddon, a'r gymalwst yn ei flino, ac mewn cysylltiad dychmygol â'r unrhyw boen y dug yr awdwr y ddau i sylw ynddo. Rhed y llinellau crybwylledig fel hyn:—

Pe doi'n Penhedd gwladedd glôg
Trwy Gorus, ŵr trugarog,
Fe gai faidd i'w gyfeddach,
A'r gweision uwd, a'i goes yn iach;
Fe'i cariai bobl Corus,
I lawr y fron, o lwyr frys
I dŷ William da'i waelod,
Ei eli glas a eilw glod:
Ond aros un wythnos yn wan
Fewn dillad heb fyn'd allan;
Rhedai'r gŵr, Brawdwr bro,
Bontinog i ben Tyno,
Ac yna'n lân canlyne,
Ddyn ar draed oddiyno i'r dre.

Ar gareg fedd y William Ywain hwn, a Jane ei wraig, yn mynwent Talyllyn, y mae yr englyn dilynol:—

Daioni i gyrff dynion,—a ranodd
Wrth drin yr efryddion;
Meddyg rhad ei wlad—bu lón—
I wella pob archollion.

Bu farw yr 28ain o Chwefror, y flwyddyn 1840, yn 84 mlwydd oed. Ond bu farw ei briod y 10fed o Ebrill, 1809, yn 42 mlwydd oed.

* Cyfeiriad at Benygareg.

Digitized by Google

Ymbriododd Martha, un o ferched y crybwylledig Wmphra Ywain, o Ben y Gareg, a Catherine ei wraig, â Dafydd Pugh, mab Cefnymaes, yn y Brithdir, yn mhlwyf Dolgellau, a chartrefent yn nhref Dolgellau, lle y bu hi farw, ond ymddengys y bu ei phriod farw oddicartref, ac erbyn hyn nid oes iddynt hiliogaeth yn eu holoesi. Ymbriododd Ann, y ferch arall i'r unrhyw Wmphra Ywain, a Catherine ei wraig, â Gwilym Williams, Pentre, yn nghymydogaeth Llan Bryn Mair, yn Swydd Drefaldwyn, i'r rhai y mae hiliogaeth yn eu holoesi. Yr ydoedd y ddwy chwaer hyn yn rhai rhagorol am feddyginiaethu briwiau ac archollion.

---

## ABER LLWYFENI, ABER CORUS, AC ABER CWM EIDDAW.

Er y gosodwyd y tri man hyn fel un penawd, ceir eu dwyn i sylw eto ar eu penau eu hunain fel yr elir ymlaen. Ac yn nghyntaf cyfeirir at Aberllwyfeni, pa un yn gyffredin a sillebir yn Aberllyfeni, ond ymddengys mai y blaenaf sydd gywir. Dichon nad yw pob aber yn cael ei henw oddiwrth yr afon yr ymarllwysa ei dyfroedd i afon arall mwy o faintioli; ac y mae y dynodiant o aber weithiau yn golygu y ffrwd ddwfr, neu y nant, neu yr afon ei hun. Ond yma, ymddengys y golygir wrth aber, y fan yr arllwysa, neu yr abera yr afon a red i lawr ar hyd y cwm, ac a ymestyna i gyfeiriad Cadair Idris, i'r afon Ddulais, islaw tŷ Aberllwyfeni (Aberllyfeni). Ac os y cymer yr unrhyw aber ei dynodiant oddiwrth enw nant, neu afon, diameu mai yr un y cyfeiriwyd ati yw hono.

Yr ydys yma, fel y gwelir, wedi dodi y ffurf o *Aber Llwyfeni* i'r enw gwerinaidd, *Aberllyfeni*. Er hyny, nid yw y cyfryw ddull o'i sillebu yn newydd, canys yn llyfrgell yr Amgueddfa Brydeinig, 12,230, Plut. clxviii. E., fel penawd i gywydd o waith Ifan Tew, ceir yr enw fel hyn, "Cowydd i Sion llowyd o Aberllwyfeni, cyn iddo fynd yn farchog y sir."* A rhed dwy linell o'r cywydd hwnw fel hyn:—

> "llawer i'r aber a red
> llwyfeni maen (n) lle i fyned."

Ceir yr enw yn yr unrhyw ffurf hefyd yn y ddwy fraich olaf o'r rhai

* "Sir" wedi ei hysgrifenu mewn llaw wahanol.

dilynol, allan o un o'r chwe' cywydd ymryson rhwng Richard Cynwal a Richard Phylip, am Riwaedog, yn amser Sion Llwyd o Riwaedog. Cyfeiriad sydd yn y llinellau a ddyfynir at wraig y Sion Llwyd hwnw, a rhedant fel hyn :—

" Aeres Syr Sion rhoes aur sieb,
Llwyd orau, llew diareb;
Ei thad o'r gyfraith ydoedd,
Rhosyn y tir Sersiant oedd;
Bu'n ben ar bob un beunydd,
A'i fath yn ben fyth ni bydd;
Cyson berl Ceiswyn ei bu,
Cynes yn hoffi canu;
Cawn yn Aber haelder hwn,
Llwyfeni, oll a fynwn."

Ond ceir yr enw yn unedig fel un gair yn y penawd canlynol i nifer o englynion o waith Richard Cynwal, fel hyn :—" Englynion a wnaeth Cynwal pan aeth Mr. Llwyd o Riwedog i fwrw gwyliau i Aberllwyfeni, ac yntau yn Rhiwedawg." Y Mr. Llwyd hwn ydyw y Sion Llwyd o Riwaedog y cyfeiriwyd ato yn flaenorol; ac y mae cyfeiriad at ei wraig, eithr heb ei henwi yn y llinellau a ddyfynwyd allan o gywydd i Richard Phylip. Ac i'w thad hi y canodd Ifan Tew y cywydd crybwylledig o'i waith. Ond wele yr englynion yr ydys newydd roddi eu penawd :—

" Hiraeth am bennaeth byw enwawg,—sy'n llawn
Sion Llwyd o Riwedawg;
A'i wraig rywiog farchawg,
Heb y rhai'n na bwy byw 'rhawg.

Heb weled Marged, nid maith—yw 'nghysur,
Mae hi 'Ngheiswyn berffaith;
Eisiau'i gwin y sy' ganwaith,
Ar was oer di wres ei waith.

Mae 'mhen heb awen, er cael bwyd,—a bir,
Yn barod lle'm carwyd;
Mae eisiau Sion lle soniwyd,
I gadw llŷs â Marged Llwyd.

Hiraeth sy' helaeth am Sion,—a Marged,
A'i mawrgost a'i rhoddion;
Nid iach deu tal fy nghalon,
Nid llawen byd lle ni bon'.

Digitized by Google

Delon a'u gweision o Geiswyn,—adre
I edrych am Benllyn;
Oni ddont llawer gwan ddyn,
Yno etto ân' attyn'.

Cryf a gwan tynnan' o bob tir, lle bon',
Llu beunydd a welir;
Da ydynt yn eu deudir,
I'w tai caffont iechyd hir.

Rhof fi rwydd weddi i'r ddeuddyn—gloywddoeth
Ag arglwyddes Ceiswyn;
Can hawddfyd hyfryd yw hyn,
Cynes wedd canoes iddyn'.

Wedi cyfeirio fel hyn at *Aberllyfeni* yn y ffurf o *Aberllwyfeni* neu Aber Llwyfeni, megis ei briodol ddullweddiad, ceir nodi yr ymddengys fod *llwyfeni* yma o'r un ystyr a choed llwyfen.

Yn un o'r cywyddau ymryson crybwylledig rhwng y beirdd Richard Cynwal a Richard Phylip, am Riwaedog, dywed y blaenaf mewn cysylltiad â gwraig y tŷ hwnw:—

Marged Llwyd mawr geirda llawn,
Merch ganaid marchog uniawn;
Ysda aeres i diroedd;
Syr Sion y tad, sersiant oedd;
Gadawodd lle hoffodd hi
Roddiad ei haelder iddi;
A'i galon, lle mawr goelir,
Gyd a'i dai i gyd a'i dir;
Mawr heddyw ym y rhoddiad,
A mawl i'w thai mal ei thad;
Daionus yw a dinam,
A da imi ydyw'i mam;
Aml i'm gael llawn afael lles,
Aur a gwleddoedd f'arglwyddes;
Dilyn yr wy'r holl deulu,
O Benllyn i Geiswyn gu."

Yn ol nodyn yn ngodreu un o'r Cywyddau Ymryson a nodwyd, ni fu Richard Cynwal fyw ond ychydig wedi canu ei nifer crybwylledig, a gesyd ei wrth-ymrysonydd, Richard Phyllip, yn ei gywydd marwnad iddo, farw o hono yn y flwyddyn 1634. Un o Phylipiaid Ardudwy ydoedd y Richard Phylip hwn. Ac mewn cywydd o'i waith i Sion Llwyd, o Riwaedog, o ba un y dyfynir cyfran yma, sonir, mewn cysyllt-

Digitized by Google

iad â'r grybwylledig Farged, gwraig y Sion Llwyd hwnw, am ddau Ifan a dau Ddafydd; ac ymddengys fod y naill neu'r llall o'r ddau Ifan hyny yr un a'r Ieuan, neu'r John, mab yn nghyfraith Lewis Ywain, y barwn, ag yr amheuir yn mhellach yn ol yn y tudalenau 187-8, am pa un o'r ddau ddull oedd ei enw cywir. Ond, modd bynag am y pethau hyn, ceir yn awr gyfleu gerbron y gyfran grybwylledig o'r cywydd, ac y mae cyfeiriad at y ddau Ifan hyny yn yr unfed lin ar bymtheg o honi:—

"Os haela Sion îs haul sydd,
Am aur ym Meirionydd,
Mae'i wraig ef a mawr gofiwn,
Marged gan haeled a hwn;
Lloer Syr Sion geill wres i'r sir,
Llwyd ydyw'n gwellau daudir;
Ei thad o'r gwaed odiaeth hen,
Fu i'w oes haelef is heulwen;
Marchog oedd mawrgwych gwyddan,
A sersiant glwys eursant glân;
Hithau cofiodd waith cyfion,
Sy' haela gwraig îs haul gron;
El iddi gael o Dduw gwyn,
Rwysg oesol aeres Geiswyn;
Duw a roe hon o dŷ rydd,
Dau dda Ifan, dau Ddafydd;
Cydifor caid ei ofyn,
Caf o'i ryw hael cofier hyn;
Uchel fu'r âch olau frig,
O Waithfoed a thyfedig;
Tirion a hawdd yw trin hon,
Trwy ras Esyllt Rhiw Saeson;
Uchel yw twf, a chlod teg,
Ach Llwydiarth wych oleudeg;
Wyr Domas erioed imi,
Ap Huw fu'r *help* f'aur yw hi;
Mae rhyw ynys mwy rhinwedd,
Y maen gwyn yma'n ei gwedd;
Ba aur a gêd heb awr gâs
Ond aur Einion a Derwas;
Un wraidd a Mathafarn yw,
Un waed a'r Tywyn ydyw;
Pwy yw penes pob bonedd,
Pwy biau glod pawb i'w gwledd;

Digitized by Google

Pwy ond Marged Rhiwedawg,
Bid yn rhoi bwyd yno rhawg."

Yr enw arall yn y penawd ag y ceir cyfeirio ato nesaf, yw Aber Corus; ac yr ydys yma, fel hefyd y gwnaed yn y penawd, yn defnyddio y ffurf o Corus, yn enw yr unrhyw aber, yn hytrach na *Corris*, gan ystyried nad yw'r olaf yn ddull priodol. Ceir y ffurf o Corys a Corus yn y *Cambrian Register** am 1795, ond ymddengys mai y defnyddiad o *u* ac nid *y* sydd gywiraf. Hefyd, yn y gyfrol am yr un flwyddyn, nodir i'r ystyr mai yr hyn a olygir wrth Abercorus† fel arwyddocad enwol, yw ymarllwysiad yr afon Corus. Yn awr, os cywir hyn, ac os nad oddiwrth unrhyw wrthddrych sefydlog ar ei glanau y cafodd yr unrhyw ddynodiant, ymddengys mai yr afon hon a alwyd ar yr enw Corus gyntaf o un man arall yn yr ardal. Eithr, modd bynag, y mae yn rhy hwyr penderfynu erbyn hyn. Ond diameu i'r cyn hen dyddyndy a elwid Aber Corus, pa un sydd wedi ei droi yn aneddau, dderbyn yr enw hwn yn uniongyrchol, neu yn anuniongyrchol, oddiwrth yr aber—Aber Corus. Ac mai yr Aber Corus briodol yw y fan y mae yr afon a red o gyfeiriad Aber Cwm Eiddaw yn aberu i'r Afon Ddulas. Ac ymddengys mai dynodiant benthyciol yw Corus, a gymerwyd gynt oddiwrth ryw fan a elwid ar yr enw hwnw sydd ar y dref ddegwm, a adnabyddir fel tref ddegwm Corus.

Ond pa fan neu fanau bynag a alwyd ar yr enw Corus yn yr ardal ar y cyntaf, ymddengys mai oddiwrth ryw berson o'r enw Corus y cafodd un neu ychwaneg o'r rhai hyny y cyfryw ddynodiant, ac mai yn herwydd y gŵr hwnw, yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol, y gelwir pob man ynddi ag sydd yn dwyn yr unrhyw enw ar hyn o bryd. Ond pwy ydoedd, neu pa bryd yr oesai, nid eir yn awr i gynyg penderfynu; ond ceir nodi fod yn y gyfrol gyntaf o'r *Gwyddoniadur Cymreig*, tudal. 511, son am fynach o'r enw hwn, a chyfeiririr yno ato fel y canlyn:—"Yn fuan ar ol hyn, tra nad oedd Padarn ond pur ieuanc, fel y dengys ei fuchdraeth chwedlonol sydd yn *Mucheddau y Saint*, cynhyrfwyd ysbryd mynach arall, o'r enw Corus, i gasglu cynifer ag a allai o 'saint' i ddyfod ar ol y lleill i'r wlad yma, 'o'r hon yr hanoeddynt.' Am hyny, meddai'r chwedl, 'y cynhyrfodd yr ysgogiad yma'r gwr ieuanc sanctaidd Padarn, ac efe a ymwregyses i fyned tros y môr gydag eraill, ac nid arafach ydoedd na'r rhai oedd gydag ef, ond po ieuengaf ydoedd, mwyaf oll

* Tudal. 189 a 289. Yn y tudal. a nodwyd olaf, y mae'r enw yn gysylltiedig ag aber—Aber Corus.

† Gweler tudal. 289 o'r unrhyw gyfrol ar hyn.

ei yni i lafurio, ac yr oedd ei wasanaeth crefyddol yn tra rhagori ar ei oedran.' Am hyny, daeth yr holl frodyr yng nghyd, ac wedi cytuno o unfryd forio i Brydain, buan y gwnaed Padarn yn bedwerydd arweinydd brawdoliaeth, nid o'i ewyllys ei hun, ond ei gefnderydd yn ei weled yn ymestyn at eithaf perffeithrwydd, a'i hetholasant gan ddywedyd, 'Yn gymaint ag i Dduw beri i ti ragori mewn cynneddfau, iawn dy osod ar ddynion, fel y byddit esampl o fuchedd dda.' Am hyny yr holl wyr llên, ar ol dyddanus fordaith, a diriasant yn Mhrydain. Dilynodd *saith mynach a deugain ac wyth gant Badarn; a chymerodd ef a'i saint le yn yr eglwys a elwir Mauritania*—(Llanbadarn Fawr, wrth Aberystwyth, yn Ngheredigion), lle yr ymenwogodd Padarn Sant wedi hyny trwy wyrth enrhyfeddol."

Diameu fod mwyafiaeth mynachol yn y chwedl; er hyny, rhaid cydnabod dyfodiad Padarn trosodd i'r wlad hon, ac nid yw yn ymddangos fod lle i wrthod hunaniaeth Corus yn nghysylltiad â'r cychwyniad. Gellir nodi y gosodir yn yr ach-lyfr gan Lewis Dwn, sef yr *Heraldic Visitations of Wales*, Cyfrol II., tudal., 104, fod i "Cynedda Wledig" fab o'r enw "Korus."

Ceir yn awr ddwyn Aber Cwm Eiddaw i sylw, oddiwrth ba un y cymer yr hen dyddyndŷ Aber Cwm Eiddaw, ag sydd gerllaw, ei enw. Encyd o bellder oddiwrth yr aber hon y mae tyddyndŷ o'r enw Cwm Eiddaw, a thebygol yr ydys i ddeall y golyga *cwm* yn y cysylltiad hwn, y glyn y cafodd ei enw oddiwrtho. Ond pa un tybed a yw'r gair *afon*, neu *nant* yn ngholl yn yr enw Aber Cwm Eiddaw, ai ynte cymeryd ei henw y mae, mewn rhan, oddiwrth y *cwm* fel *glyn*. Tebygol mai yr olaf. Ond yn y Cam. Reg., am y flwyddyn 1795, nodir i'r ystyr, mai arllwysiad yr afon Cwmeiddan, sydd i'w olygu. Ond yno ceir *eiddan* yn lle *eiddaw*, fel terfyniad yr enw, yr hyn sydd wallus, yn ol dull llafar gwlad o alw y tyddyndŷ a nodwyd; ac o barth y dynodiant o afon Gwmeiddaw (neu "Cwmeiddan" y Cam. Reg.), nid yw namyn y dull cyffredin o ddynodi afonydd neu neint dienw, neu nas gwyddis pa beth ydyw, oddiwrth eu cymoedd perthynol neu y tyddyndai y rhedant heibio iddynt, ac nid yw o bwys yn y cysylltiad hwn.

O barth y dynodiant o *eiddaw* sydd ar Aber Cwm Eiddaw, ymddengys mai enw yw wedi ei gymeryd yn anuniongyrchol oddiwrth ryw berson neu gilydd o'r enw Eiddaw neu Eiddew, â'i osod yn nullweddiad sillebol yr amseroedd hyn. Canys yn Englynion y Beddau yn y Myf. Arch., arg. 1870, ceir yr enw ***Eiddaw*** neu ***Eiddew***, yn y gwahanol ddullweddau o Eitev ac Eitew. Ond wele yr englynion hyny:—

Digitized by Google

"Piau y bet hwn, bet hun a hun,
Gowin ymi mi ae gwnn,
Bet ew bet Eitev oet hun
A bet Eidal tal ysgun.
Eitew ac Eidal diessic alltudion
Kanawon cylchwydrei
Meckid meibion Meigen merch mei."

Gellir sylwi fod cyfran o fynydd-dir o'r enw Moel Eiddaw yn nghymydogaeth Cemmaes, yn Swydd Drefaldwyn.

**NODYN.—Sylwyd yn y tud. 31, yr ymsyniai Virgil y dygid cyrff brenhinoedd, a chadbeniaid o fri ymysg y Lladiniaid, yn y rhyfel y cyfeirir ato yno, i'w claddu yn y ddinas, ond na fynega pa un a gladdwyd hwy trwy losgiad, pa un bynag a olygai hyny ai na wnai. Ond y mae Plutarch yn ei fywgraffiad o Eumenes, un o'r Chersonesiaid, yr hwn a lywyddai lu o'r Macedoniaid yn amser Alexander Fawr, ac wedi hyny, ddarfod iddo ar ol colli brwydr, trwy fradwriaeth un o'i swyddogion, gymeryd ffordd wahanol i'w erlidwyr, a throi yn ddirgelaidd oddiamgylch yn y fath fodd fel ag i adenill maes yr ymladdfa; ac ddarfod iddo wersyllu yno mewn trefn i gladdu y meirw, y rhai a gynullodd ac a losgodd â physt drysau y pentrefydd cymydogol. Y llosgwyd cyrph y swyddogion a'r milwyr cyffredin ar grugiau gwahanol, ac ddarfod iddo wedi cyfodi gwyddfâau mawrion o ddaear trostynt, ddadwersyllu.**

Digitized by Google

# PERSONAU.

## YWAIN O GYMRU, NEU IVAIN DE GALLES.

Yn nghyfieithiad Saesneg Thomas Jones, Ysw., o waith yr hen hanesydd Ffrengig, Froissart, gelwir y dyn enwog hwn, o'i Gymreigio, yn Ifan (Evan) o Gymru. Ond ymddengys mai cyfeiliornad ydyw ei alw Ifan, fel y ceir dangos yn mhellach ymlaen. Sylwir yn yr un cyfieithiad, a hyny, feallai, gan y cyfieithydd ei hun, i'r ystyr a ganlyn: "Wedi yr holl ymchwiliad a wnes, methais a hunanu Ifan o Gymru gyda nebun cymeriad adnabyddus yn yr hen lyfrau Cymreig. Yn ngweithiau Dafydd Nanmor, yr hwn a flodeuai o tua'r flwyddyn 1430 i 1470, y mae adran lle yr edrychai am amseroedd gwell i ddod na'i amser ei hun, ac yn mhlith daroganau eraill, mynegir am Ifan Dyfi. "Yn awr," ebai awdwr y nodyn, "rhaid fod yr Ifan Dyfi hwn yn rhyw un o enwogrwydd mewn rhyw gyfnod o flaen amser yr ysgrifenydd crybwylledig, clod yr hwn sydd wedi ei hollol dywyllu, y mae'n debygol, oherwydd y perygl oedd o amddiffyn ei achos, oblegid ei fod yn elynol i'r llywodraeth a fodolai. Ac ymddengys mai dyna yr unig reswm dros amryfusedd y bardd. Ymddengys hyn hefyd yn ddigonol i gyfrif am ddistawrwydd yr holl ysgrifenwyr Cymreig yn nghylch Ifan o Gymru."

Dywed Carnhuanawc mewn perthynas iddo fel hyn:—"Yr achau Cymreig a fynegant fod i Rodri fab o'r enw Thomas, ac i hwnw fab o'r enw Owain, sef Owain ap Thomas ap Rhodri, yr hwn a alwyd yn Owain Lawgoch; a'r hwn, fel y dangosir gan Angharad Llwyd. Hanes Tylwyth Gwydir, nid oedd amgen na'r clodwiw *Ivain de Galles*, Ivain o Gymru, yr hwn a enillodd y fath enwogrwydd yn

Digitized by Google

Ffrainc, trwy ei ddewrder megis marchog a rhyfelwr; ac hanes pa un a roddir gan yr hen awdwr Ffrangaeg Froissart. Ond y mae yn ddyledus sylwi fod rhai cyfieithwyr Saesneg o waith yr ysgrifenydd hwnnw, gwedi myned ymhell tuag at ddyrysu yr hanes, a diddymu undeb yr enwau trwy ei alw yn 'Evan of Wales,' ond y mae yr achau Cymreig, trwy roddi yr enw Owain, yn cadw y cyfundeb, er y gall ymddangos yn anghyffelyb ar y golwg cyntaf. Canys y dull Ffrancaeg o'r enw Owain ydyw Ivain, fel y gwelir yn yr enw Owain ap Urien, yr hwn a elwir "Ivain fily du roi Urien." Y mae yn ddilys i'r Ffrancod ei gymeryd oddiwrth yr hen lythyreniad Cymraeg Ywain........ Y mae yn rhaid addef yma fod ychydig o anghysondeb yn yr enwau; canys nid oedd un tywysog Cymreig o'r enw Edmund; ac nid oes hanesiad fod Thomas ap Rhodri wedi cael ei ddihenyddio. Ond dichon fod Froissart wedi camsynied yn yr achau, ac wedi dyrysgymysgu enw Edmund Mortimer, gan ŵyr yr hwn y lladdwyd Llywelyn ap Gruffydd, âg eiddo tad Owain."

Cyfeirio y mae Carnhuanawc yma at ddarfod i Froissart osod allan i Ywain alw ei dad yn Edmwnt, fel y gwelir yn mhellach ymlaen i'r hen hanesydd enwog hwnw wneyd. Yn ol nodyn yn ngodreu dalen y cyfieithiad dywededig o Froissart gan Thos. Jones, dywed Barnes, ei olygydd, mai hyd y gallai ef gael allan, mai twyllwr oedd Ywain (Evan fel ei geilw). A'r hyn a rydd fel rheswm dros ei dyb, heblaw iddo fethu gwybod yn amgen, ydyw fod Llywelyn, tywysog olaf Cymru, wedi cael ei ladd mewn brad yn agos i Fuallt, yn nheyrnasiad Edward y I.; a sylwa, fod yn debygol y gwyddai brenin Ffrainc hyn, ond iddo ei gymeryd i'w wasanaeth mewn gobaith o'i gynorthwy yn erbyn Lloegr. Eithr nid yw honiad fel hyn yn werth dal sylw arno. Ac o barth y priodolir gan Froissart y galwai ei dad yn Edmwnt yn ei ddanodiad i Iarll Penfro, yr hyn a gofnodwyd yn mhellach yn ol, gallai y fath gyfeiliornad lithro i'r hanes fel y daeth i lawr i ni, heb i Ywain erioed yngan y fath beth. Ond osydys i olygu ddarfod iddo honi ei hun fel etifedd tywysogaeth Cymru, yn y danodiad crybwylledig, dichon iddo wneyd hyny, mewn rhan, trwy ei gysylltiad perthynasol â'r teulu tywysogol. Ond pa ffurf bynag sydd yn wirioneddol am ei ddynodiad enwol, yr ydoedd, yn ol fel y dengys yr achau, yn ŵyr i Rhodri, brawd Llywelyn ap Gruffydd, tywysog Cymru, yr hwn a laddwyd yn Muallt. Camgymerodd y Parch. R. W. Morgan, Tregynon, trwy ei osod yn fab i Dafydd, brawd arall i'r Llywelyn hwn, ac anghywir damcaniad y golygydd crybwylledig, pan yn nodi mai nid annhebygol mai mab Madog ab Llywelyn ydoedd, sef yr un Llywelyn ag yr ydys newydd gyfeirio ato.

Digitized by Google

Fel y dengys y dyfyniad a roddwyd eisoes allan o waith Cam-huanawc, dywed yr awdwr galluog hwnw y dengys Angharad Llwyd mai yr un oedd Ywain Lawgoch ag "*Ivain de Galles*, Ivain o Gymru." Ac mewn nodyn mewn cysylltiad âg achau Ywain Lawgoch, yn yr argraffiad diweddaraf o Hanes Teulu Gwydir, pa un a ddygwyd allan dan olygiad y diweddar Mr. Askew Roberts, dywed y diweddar Mr. Wynne, o Beniarth, ei fod yn tybio yn gryf mai yr adran y cyfeiria y foneddiges hono ati yw y sylwad canlynol, yr hwn sydd yn un o lawysgrifau yr Hengwrt:—" On Loawgoch alas yn Ffrainc gan Jon Lam ei was drwy frad yn ei wely pan oed yn arfaethy dyfod i oresgyn talaith Cymru." Yr ydoedd i Ywain chwaer o'r enw Elin, yr hon a ddynodid " Elin Ffrances, am ei bod yn Ffrainc gyda'i brawd, ac yn medru Ffranceg."

Sylwa Mr. Wynne, hefyd, mewn nodyn sy'n dilyn odditan gynwys y dyfyniadau hyn, yr ymddengys oddiwrth lythyr yn yr *Archaiologia Cambrensis*, pa un sydd yn dyfynu cofnod gwreiddiol yn Llyfrgell Ymerodrol Ffrainc, mai enwau Syr Ifain oedd " Ivain angruffin," yr hyn a ystyria yn golygu Ifain ap Gruffydd. Pa fodd bynag, i roi cyfrif am hynyna, nid yw'r achau ag y mae y sylw yn argraffedig mewn cysylltiad â hwy, namyn yn ei osod yn orwyr i un o'r enw Gruffydd. Ac yn ol yr achau hyn,* lle y dangosir mai yr un oedd Ywain Lawgoch ag *Ivain de Galles*, mab ydoedd i Thomas ap Rhodri, ap Gruffydd, ap Llywelyn Fawr, tywysog Gwynedd; ap Iorwerth Drwyndwn, ap Ywain Gwynedd.

Wedi sylwi fel hyn pwy ydoedd Ywain o Gymru,' y mae yn ofynol rhoi rhyw reswm dros ei ddwyn i sylw yma. Ond gan mai yr un ydyw ag Ywain Lawgoch, pe ceid dolen a gysyllta yr enw olaf â rhyw fan o fewn y plwyf, byddai hyny yn ddigon o reswm dros wneyd. A'r hyn a gymerir yn awr fel y ddolen hono yw y ffaith, neu y syniad, y byddai ysbryd un o'r enw Ywain Lawgoch, yn ol ei gelwid gan rai, ond gan eraill, Ywain Goch, yn ymweled âg Aber-llwyfeni gynt. Dywedir y byddai yr ysbryd hwn yn arfer dangos ei law, a dywedyd, "Fy llaw goch i." Ond dywedir hefyd y galwai ei hun yn Ywain Goch o Dan y Castell. Cyfeirir ato yn Nghywydd Can-moliaeth Tal y Llyn, gan Fychan y Gwyndyll, fel Owain Goch, ond ar ymyl y ddalen dodir Owain law goch; a gelwir y llyn y dywedir ei hoffrymwyd iddo yn Llyn Ywain Lawgoch, ac hefyd yn Llyn Ywain Goch.

Yr achos o ymweliadau ysbryd y gŵr hwn, yn ol un hen ddywed-iad yw, am ei fod wedi cuddio caib a throsol o dan sylfaen tŷ Aber-llwyfeni. Ond dywediad arall a fynega ei fod yn etifedd Aberllwyfeni,

* The history of the Gwydir Family, arg. 1878.

Digitized by Google

ac ddarfod myned o hono oddicartref, eithr erbyn iddo ddychwelyd, fod arall wedi trwasfeddianu yr etifeddiaeth, ac er mwyn ei atal i ymgeisio ei hadfeddianu, iddo gael ei lofruddio. Adroddir y dywedai hen ferch o'r enw Elin ach Ifan, yr hon a fu yn llaethferch yn Aberllwyfeni, ac a gladdwyd yn hen fynwent eglwys y plwyf, Dolgellau, yn y flwyddyn 1815, fel yr ymddengys, yn gan' mlwydd oed, yr aflonyddai yr ysbryd hwn arnynt wrth odro, pan ydoedd hi yno yn gwasanaethu; ac yr ydoedd yn aros yno flwyddyn y rhew mawr, pryd, yn ol a ddywedai, y rhewid y llaeth o'r picyn at deth y fuwch wrth odro.

Ond i beidio pwyso nac amhwyso yn y fan hon ar yr honiad o barth ymweliadau yr ysbryd crybwylledig ag Aberllwyfeni, y mae yn ymddangos oddiwrtho, ac o'i gysylltu â'r hen draddodiadau carpiog y ceisiwyd rhoddi eu sylwedd gerbron, y bu rhyw gysylltiad â'r lle rhwng y dyn yr honir fod ei ysbryd yn cythryblu yno. A chan, yn ol un dywediad, ei golygir yn ysbryd Ywain Lawgoch, ac, fel y sylwyd eisoes, mai yr un yw Ywain Lawgoch ag *Ivain de Galles*—Ywain o Gymru—cymerir hyn fel rheswm dros ei ddwyn i sylw yma.

Dywed Froissart* mai mab ydoedd y gŵr hwn i dywysog Cymru, ac i'w dad gael ei ddienyddio gan Edward frenin, am ryw achos neu gilydd, ac iddo atafaelu yn ei diroedd a'i dywysogaeth, a'u rhoddi i'w fab ei hun. Ond ymddengys mai cyfeiliornad oedd ei osod yn fab i un o dywysogion Cymru, o leiaf felly mewn ystyr, er ei fod yn un o'r hil tywysogol. Eithr fel canlyniad i'r pethau a nodwyd, êl yr un hanesydd ymlaen gan ddweyd iddo fyned i Ffrainc yn ei blentyndod,† a gosod ei achos o flaen y brenin, sef Charles neu Phylip, canys enwa y ddau mewn lleoedd gwahanol. Ond tebygol mai Phylip ydoedd. Gwrandawodd y brenin arno, gan ei gadw yn agos ato ei hun, a thra fu byw y brenin Phylip cafodd fod yn un o wychweis ei ystafell gyda'r d'Alconiaid ei neiaint, ac amryw o foneddigion ieuainc eraill. Cadwyd ef hefyd gan y brenin John, dan yr hwn y bu yn dwyn arfau, ac yr oedd yn mrwydr Poictiers, o'r hon y bu mor llwyddianus a dianc heb ei ladd na'i ddal yn garcharor. A phan aeth yn heddwch rhwng Ffrainc a Lloegr, aeth yntau i Lombardi, lle y parhaodd i ddwyn arfau. Ond ar doriad y rhyfel allan drachefn rhwng y gwledydd hyny, dychwelodd yn ol i Ffrainc, ac ymddygodd mor rhagorol nes ei mawr ganmolid, a hoffwyd ef gan y brenin a'r arglwyddi mawrion.

Yn y flwyddyn 1372, fel yr ymddengys, anfonwyd ef i'r môr gyda 4000 o ymladdwyr o dan ei law. Wedi iddo gymeryd y gwyr hyn

* Johnes Froissart. † "Infancy."

dan ei lywyddiaeth, ynghyd â'r llestri a barotowyd ac a arfogwyd iddo gan frenin Ffrainc, hwyliodd allan o borthladd Harfleur, a chododd lawn hwyliau am Loegr, gan gyfeirio tuag Ynys Guernsey, yr hon a orwedd gyferbyn a Normandi. Llywydd yr ynys ar y pryd oedd Edmwnd Ross, Yswain o anrhydedd i frenin Lloegr. Pan glywodd hwnw am ddyfodiad y Ffrancod o dan Ywain, ymlidiodd yn fawr, a chychwynodd i'w cyfarfod; ac anfonodd wysiadau trwy yr ynys i gasglu gwyr i'r maes; ac felly, rhwng ei wyr ei hun a'r ynyswyr, yr oedd nifer ei lu tuag 800, gyda'r rhai yr anturiodd frwydr. Yr oedd yr ymladdfa yn un boeth, a pharhaodd dros hir amser; ond y Saeson o'r diwedd a gollodd y dydd, a gadawsant 400 yn feirwon ar y maes. Gorfodwyd Edmwnd, eu llywydd, i ffoi, a diangodd trwy anhawsder mawr i gastell golygus o'r enw Cornet, yr hwn a safai ddwy filldir Ffrengig o'r fan y bu yr ymladdfa, ac yr oedd y castell hwn wedi ei gyflenwi â phob angenrheidiau i'r cyfryw le. Ar ol i Ywain gasglu ei wyr ynghyd, a chlywed i Edmwnd encilio i'r castell hwnw, cychwynodd tuag ato, a gwarchaoedd y fan yn galed, gan wneyd amryw ruthrgyrchoedd yn ei erbyn. Ond yr oedd y castell mor gryf, ac wedi ei ddarbodi gystal ag offer rhyfel, fel na allai y Ffrancod ei enill.

Yn ystod y gwarchau hwn y gorchfygwyd ac y cymerwyd Iarll Penfro a Syr Guiscard d'Angle yn garcharorion ar y mor, o flaen Rochelle, gan yr Yspaeniaid. Pan glybu brenin Ffrainc am lwyddiant yr Yspaeniaid, bu yn dda iawn ganddo, a thalodd fwy o sylw nag erioed i amgylchiadau Peitw, canys tybiodd, hwyrach yn ysgafn ddigon, os cawsai y Saeson ychydig orchfygiadau yn ychwaneg, y rhoddai y dinasoedd a'r prif drefydd eu hunain i fyny iddo. Felly penderfynodd, trwy ei gynghorfa, i anfon y penceidwad* a'i holl wyr wrth arfau i Peitw, Saintonge, a'r Rochellois, er mwyn dwyn y rhyfel ymlaen yn fwy bywiog ar fôr a thir, tra fyddai y blaid Seisnig heb arweinydd, gan fod yr holl wlad yn gwamalu yn ei gwarogaeth. Felly anfonodd genhadau at Ywain o Gymru, yr hwn oedd yn gwarchau ar gastell Cornet, oblegid gwyddai yn eithaf da am gadernid y castell hwnw, a pharodd iddo dori i fyny y gwarchau yn ddiatreg, a morio ymaith i Yspaen, at y brenin Harri, mewn llong oedd wedi ei pharotoi iddo, i geisio gan hwnw roddi iddo gychod a chadlongau, ynghyd â llyngeswyr a gwyr wrth arfau, i warchau La Rochelle. Felly ufuddhaodd Ywain yn ddioed i orchymynion y brenin. Torodd i fyny y gwarchau, dadfyddinodd ei wyr, gan roi benthyg llestri iddynt i'w cario i Hartfleur, a chychwynodd yntau ar ei fordaith i Yspaen.

* Du Guesclin.

Ataliwyd yr Yspaeniaid a gymerasant Iarll Penfro a'i gymdeithion yn garcharorion, am beth amser ar eu mordaith gan wyntoedd croesion. Glaniasant yn mhorthladd St. Andrews yn Miscai, ac aethant i'r dref tua chanol dydd, pryd y dygasant eu carcharorion i gastell cryf, gan eu rhwymo â chadwynau heiyrn. Cyrhaeddodd Ywain o Gymru i St. Andrews ar yr un dydd a hwythau, ac aeth i'r gwesty lle y dygodd Don Ferando de Rosas, a Cabesso de Vaccadent, yr Iarll Penfro a'i farchogion. Hysbyswyd hyn i Ywain yn ei ystafell, gan ddywedyd, "Tyred, Syr, i weled y marchogion Seisnig, y rhai a wnaeth ein gwyr ni yn garcharorion, deuant i'r westfa hon, canys nid oes fawr o amser er pan laniasant." Yna Ywain, yn dra awyddus am eu gweled, er mwyn gwybod pwy oeddynt, a aeth allan. Ac ar ei ymadawiad o'r ystafell, cyfarfu yn rhanbarth y gwestywr ag Iarll Penfro, yr hwn a adnabyddodd ar unwaith, er nad ydoedd ond wedi ei weled nemawr dro erioed o'r blaen. Yna, dywedodd wrtho, mewn dull sengar: "Iarll Penfro, a ddeuaist ti i'r wlad hon i dalu gwriogaeth i mi am y tiroedd a ddeli i mi yn Nhywysogaeth Cymru, etifedd y rhai ydwyf fi, a'r rhai y difeddianodd dy frenin fi o honynt, trwy anogaeth cynghorwyr drygionus." Yna Iarll Penfro a anfoddhawyd ac a gywilyddiwyd yn fawr, wrth gael ei gyfarch fel hyn yn ei iaith ei hun, mewn gwlad estronol, gan un nad oedd yn ei adnabod, ac a ofynodd i Ywain, Pwy wyt ti am hanerch i fel hyn? Yna atebodd y llall, "Ywain o Gymru ydwyf fi, mab ac etifedd Edmwnd,* tywysog Cymru, yr hwn a roddodd dy frenin i farwolaeth yn anghyfiawn a drygionus, ac a'm dietifeddodd inau gwedi. Ond hwyrach y byddaf alluog, trwy gynorthwy fy anwyl arglwydd brenin Ffrainc, i gymwyso meddyginiaeth at hyn, a byddaf yn sicr o wneyd hyny. Dymunaf i ti wybod y bydd i mi, os gallaf dy gwrdd mewn lle ac amser priodol, gynyg ymladd gornest â thi. Dangosaf y camau a wnaethost â mi, yn gystal ac Iarll Henffordd, ac Edward Spencer, oblegid drwy dy dad di a chynghorwyr drwg eraill, y bradychwyd fy nhad, yr hyn a ddylai fy llidio, ac ymddialaf am hyn pa bryd bynag y caf gyfleusdra." Yna St. Aubin, yr hwn oedd un o farchogion yr Iarll, a gamodd ymlaen, ac a ddywedodd yn danbaid wrth Ywain, "Os wyt yn dweyd, ac yn dal i ddweyd, i'm harglwydd yn awr, neu rywbryd, gyflawni gweithred ddianrhydeddus, neu i'm harglwydd ei dad wneyd hyny, neu ei fod yn dy ddyled o ryw wriogaeth, neu unrhyw beth arall, tafl dy faneg i lawr, a che i un yn ddigon parod i'w chodi i fyny. Yna atebodd Ywain, "Carcharor ydwyt, ni enillaf ddim anrhydedd wrth dy alw allan,

* Nid dyna enw ei dad. Elrychec yn mhellach yn ol mewn perthynas i hyn yn y tud.

canys nid ydwyt yn feistr arnat dy hun, ond perthyni i'r rhai a'th gymerasant, ond pan enilli dy ryddid, siaradaf allan yn hyfach, oblegid ni chaiff pethau sefyll fel y maent yn awr." Ac fel yr oedd Ywain yn gorphen y geiriau hyn, aeth rhai marchogion ac Yspaeniaid o ddewrder cydrhyngddynt, ac a'u gwahanasant. Ni arosodd y llyngeswyr yn hir wedi hyn, eithr arweiniasant eu carcharorion i Burgos, i'w traddodi i frenin Yspaen.

Yn ystod yr amser yr oedd y Saeson yn Niort, o ba le yr oedd arnynt ofn ymadael, darfu i Ywain o Gymru, yn nghwmni y llyngesydd Yspaenig, don Roderigo de Rosas, gyraedd i La Rochelle, gyda 14 o longau mawrion, ac wyth o gâd-longau, wedi eu llwytho â gwŷr wrth arfau, ac angenrheidiau. Angorasant o flaen y dref fel nad allai dim fyned i mewn nac allan heb fod mewn perygl o gael ei gymeryd. Gan hyny, y Rocheliaid, y rhai oeddynt yn gwamalu, a gynaliasant amryw gyfarfodydd dirgelaidd gydag Ywain a'r Llyngesydd Yspaenig, ac ymgytunasant i beidio niweidio eu gilydd. Gorweddai y Ffrancod a'r Yspaeniaid wrth angor o flaen La Rochelle, ond yr oedd ganddynt ysbiwyr yn ngwledydd Peitw a Saintonge i'w hysbysu beth oedd yn myned ymlaen o'u mewn.

Yr oedd penceidwad Ffrainc yn dal i aros yn Mheitw (Poitiers), eithr anfonodd yr Arglwydd du Pons, a Thibant du Pons, gyda 300 o ffynwewyr, a chyfrif pob un, yn erbyn Saubise, yr hwn oedd gastell cryf ar lan y môr, yn union gogyfer â genau yr afon Charente. Yr oedd y foneddiges Saubise yn y castell hwn, ond heb lawer o wŷr wrth arfau i'w amddiffyn. Gan hyny, anfonodd yswain yn uniongyrchol i geisio cynorthwy at John de Grailly, Captal de Buch. penceidwad Aquitaine, yr hwn oedd ar y pryd yn St. Jean d' Angely. Anfonodd yntau orchymyn ar i Syr Henri Haye, arolygwr Angonlême, Syr William de Marnail, nai Arglwydd Raymond de Marneil, Arglwydd Thomas Perci, a Syr Creswell, i ddyfod rhag blaen i St. Jean d' Angely.

Hysbyswyd Ywain o bob manylion mewn perthynas i'r gwarchau hwn, yn ogystal ag am y cynulliad i St. Jean d' Angely. Felly pigodd allan o'r holl fyddin 400 o bicellwyr,—o'r dynion y gellid dibynu mwyaf arnynt, a mordwyodd ymaith gyda hwynt a Syr James Montmoy, a Morellet ei frawd, a chyraeddasant y lan gyferbyniol i gastell St. Soubise, lle yr oedd yr Arglwydd de Pons, yr hwn ni wyddai ddim am danynt. Ni wyddai y Captal ddim, ychwaith, am hyn fel yr ydoedd yn cynull ei wyr yn St. Jean d' Angely; oblegid ped amheuasai rywbeth yn eu cylch, mynasai lu lluosocach, ond anfonodd gryn nifer yn eu holau, gan adael llawer hefyd yn St. Jean d' Angely, canys ymgasglodd yno lawer at ei alwad. Eithr ni chymerodd

Digitized by Google

i'w ganlyn ond 200 o bicellwyr ar y goreu, a chyda'r rhai hyn cyrhaeddodd oddeutu haner nos yn agos at y fyddin Ffrengig ag oedd o flaen castell St Soubise. Yna disgynasant oddiar eu meirch yn nghwr llwyn bychan o goed, er tynhau eu câd-fenyg, ac ail genglio eu meirch. Ac wedi iddynt fyned ar gefnau eu ceffylau, codasant eu banerau, gan ruthro i ganol y Ffrancod, a bloeddio eu câd-waedd. Lladdwyd ac archollwyd llawer ar y cyrch hwn, canys nid oedd y Ffrancod ar eu gwyliadwriaeth. Cymerwyd Arglwydd du Pons a Thibaut du Pons, ynghyd â 60 o'r gwŷr penaf, yn garcharorion, a gyrwyd y lleill ar ffo. Ond ar y fynyd hon daeth Ywain o Gymru a'i wŷr ymlaen, wedi croesi yr afon Charente yn frysiog, gyda ffaglau a goleuadau eraill, canys yr oedd yn dra thywyll. Yna y 400 picellwyr hyny, y rhai oeddynt ddynion penderfynol a hollol ffres, a gwympasant ar y Saeson a'r Gwasgwyniaid (Gasgoniaid), llawer o ba rai oeddynt wedi ymwasgaru i ysbeilio, a'r marchogion yn gofalu am eu carcharorion. Triniwyd hwy gan Ywain a'i wŷr yn dost, a gorchfygwyd hwy yn llwyr mewn byr amser. Aeth yswain galluog o Vermendois, o'r enw Peter Donvilliers, mor agos at y Captal de Buch, fel ag ei cymerodd yn garcharor trwy gâd-weithred wronol. Marchog o Gwasgwyn oedd y Captal hwn, ac yn ymlynedig wrth Loegr, ac yr oedd brenin Ffrainc yn dra awyddus am ei ddal, gan ei fod yn gadben gwrolwych ac anturiaethus. Gwnaed Arglwydd Thomas Percy yn garcharor y diwrnod hwnw gan Dafydd Hywel,* offeiriad Cymreig.

Y boreu nesaf, parodd Ywain ddwyn yr holl ysgraffau a'r cychod i fyny o flaen Soubise, a gwnaeth ymosodiad pybyr arno. Hefyd, Arglwydd du Pons a Syr Thibaut du Pons, y rhai a dreis-waredwyd o ddwylaw y Saeson a'r Gwasgwyniaid, a ymosodasant ar y castell o'r tu arall. Amddiffynodd y gwarchodlu a'r trefwyr eu hunain yn wrol; ond galwyd cyngor ynghyd gan y foneddiges, o'r marchogion a'r barwniaid, a deuwyd i'r penderfyniad i gyflafareddu â'r Ffrancod, gan nad allai y castell ddal allan am nemawr dro, ac nad ydoedd, yn ol sefyllfa pethau, yn disgwyl dim cymorth. Felly, anfonodd hwy i gyflafareddu â'r Ffrancod, a gwnaed cytundeb rhwng y ddwy ochr, yn ngrym pa un yr ydoedd y marchogion ag oeddynt yn y dref i gael myned ymaith mewn diogelwch, i Niort, Saintes, Luisignan, neu unrhyw le y dymunent. Ond yr ydoedd boneddiges Soubise i osod ei hun o dan ufudd-dod i frenin Ffrainc. Felly, ymadawodd y Saeson o Soubise, ac hebryngwyd hwy mewn diogelwch ar eu taith i ba le bynag y dewisent fyned. Cymerodd y Ffranc-

* "**David Honnell ei gelwir gan Villanet. Ond tybiaf y dylid ei alw David Howel.**"—**Gweler Johnes Froissort, Pen. cccxi. Cyf. I.**

od feddiant o'r lle, a derbyniasant wriogaeth y foneddiges, yr hon a dyngodd ffyddlondeb i frenin Ffrainc drosti ei hun a'i dilynwyr. Dychwelodd Ywain o Gymru, a Syr James Montmoy, a'u gwŷr i'w cychod, gan gymeryd ymaith gyda hwy y Captal de Buch, a'u carcharorion eraill, i'r llynges fawr a orweddai o flaen La Rochelle. Yr ydoedd Ywain yn parhau i aros o flaen y lle hwnw, yn nghwmni y Llyngesydd Hispaenig, don Roderigo de Rosas, gyda 40 o longau mawrion, 13 o ysgraffau, ac 8 câd-long. Bu llawer cynhadledd cydrhyngddynt hwy a'r dinasyddion, ond ni allai y rhai hyny wneyd dim tra y byddai y castell yn nwylaw y Saeson. Eithr o'r diwedd, wedi i Syr John Devereux, a rhai o warchawdlu y castell fyned ymaith, a'i adael dan lywyddiaeth Phylip Mansel, cymerwyd y castell trwy ddichell gan ddinasyddion La Rochelle. Hysbyswyd cynllun o'r ddichell gan faer y dref, i gynulliad a alwodd ynghyd o'r rhai oeddynt yn fwy tueddol i'r Ffrancod nag i'r Saeson.

Ymhen ysbaid o amser ar ol hyn, ac wedi iddo fod mewn gwledd fawrwych ar yr achlysur o enedigaeth mab i Dug Angou, brawd i frenin Ffrainc, a hyny yn Toulouse, fel yr ymddengys, penodwyd i Ywain, gan yr unrhyw ddug, i gymeryd dan ei lywyddiaeth y Llydawiaid, Peitwiaid, a'r Angeriniaid, ac ymdaith i Peitw, a gwarchau ar Mortain-ser-mer, yr hwn a ddelid gan yr Arglwydd de l' Estrade. Gorchymynodd iddo hefyd am beidio a'i adael er unrhyw orchymyn y gallai iddo ei dderbyn yn wahanol yn enw'r brenin, gan mai gwarchodfa ydoedd a wnaethai lawer o ddrwg iddynt, ac addawodd Ywain ufuddhau yn ffyddlawn iddo, mor bell ag yr oedd yn ei allu. Felly trefnodd y dug, a'r penceidwad, a'r Arglwydd de Concy, yr oll o'r rhai ag oeddynt i fyned gydag Ywain i Peitw. Ac ar hyn, aeth llawn 500 o wŷr da wrth arfau ymaith oddiwrth y dug, gan gymeryd y ffordd tua Saintonge, fel y gellynt fyned ymlaen tua St. Jean d' Angely. Yna, Ywain yn awyddus i ufuddhau i orchymynion y Dug o Angou, gan y gwyddai fod pob peth a wnai yn ol cyfarwyddyd y brenin, ei frawd, a gyrhaeddodd mor bell a Saintes. Yr ydoedd wedi aros i adfywio ei hun a'i gymdeithion yn y wlad gyfoethog hono rhwng Saintes a Peitw, ac ar y gwerddonau ar lanau'r afonydd yn y parthau hyny. Yr oedd gydag ef lawer o farchogion ac ysweiniaid o Peitw,—y cyfryw ag Arglwyddi de Pons, de Souars, de Vivarois, yr Arglwydd James de Surgeres, ac amryw eraill. Ac o Lydaw a Normandi, yr ydoedd Syr Maurice de Trisiquedi, Syr Alain de la Housaye, Syr Alain de St. Pol, Syr Percerval d' Agneval, Syr William de Montcontour, yr Arglwydd de Mommor, a Morelet, ei frawd. Wedi iddo ef a'r barwniaid a'r marchogion gyraedd at gastell Mortain, trefnasant y gwarchau yn dra synhwyrgall. A

darbodasant eu hunain o dipyn i beth â'r oll oedd arnynt ei eisiau; oblegid gwyddent yn eithaf da nas gallent fyth gymeryd y castell trwy ruthr. Gan hyny, parodd Ywain godi pedwar o leoedd cedyrn o flaen y castell, fel nas gellid dwyn dim lluniaeth iddo o'r tir nac o'r môr. Codwyd un o'r gwarchdai hyn ar ymyl craig o flaen y castell ar yr afon Garonne, lle yr ymsefydlodd Ywain ei hun. Codwyd y llall rhwng y dwfr a'r castell isaf, gyferbyn â drws cefn, trwy ba un, o'r herwydd, ni allai dim fyned allan heb fod yn sicr o gael ei gymeryd. Codwyd y trydydd ar y tu gwrth-gyferbyniol i'r castell. A'r pedwerydd oedd Eglwys St. Ledger, yr hon oedd agos i haner milldir Ffrengig oddiwrth y gaerfa. Darostyngwyd preswylwyr Mortain yn fawr dros hir dro trwy hyn, canys parhaodd y gwarchau am fwy na blwyddyn a haner. Ac yn yr amser hwn, yr oedd wedi myned yn galed arnynt am fwyd ac angenrheidiau eraill, heb feddu nac hosanau nac esgidiau am eu traed. Ond, heblaw hyn, nid oeddynt yn gweled dim tebyg am unrhyw gynorthwy yn cael ei anfon iddynt o un man.

Yn yr adeg yma ar y gwarchau, daeth yswain Cymreig, o'r enw James Lambe, trosodd o Loegr ac o gyffiniau Cymru. Trodd hwn allan yn llofrudd bradychlyd i'r eithaf, a lladdodd yn ysgeler yr enwog Ywain o Gymru; a dywedir iddo gael ei anog i gyflawni y llofruddiaeth waedlyd hon gan ryw farchogion Seisnig, oblegid caseid Ywain yn fawr yn Lloegr a Gwasgwyn, oherwydd y Captal de Buch, yr hwn a gymerwyd yn garcharor o flaen Saubise yn Mheitw. Canys nis gellid cael rhyddhad hwnw trwy ei gyfnewid am y Count de St. Pol, nac am yr un arall, nac am unrhyw swm o arian a ellid ei gynyg. Achosodd hyn ei farwolaeth o dan effaith y pruddglwyf, yn nheml Paris, er mawr dristwch i'w gyfeillion.

Cyrhaeddodd John Lambe, y llofrudd, i Lydaw yn ddiogel, ac aeth ymlaen i Peitw, a rhoddid iddo dderbyniad anrhydeddus ymhob man, trwy ei fod yn galw ei hun yn un o gyfeillion Ywain, ac yn siarad yr iaith Ffrengig yn dda iawn. Dywedai ei ddyfod o Gymru i dalu ymweliad âg ef, a chredwyd llawer gormod ar ei druth fradwrus. Ac felly, fe'i hebryngwyd gan wyr Peitw yn ddiogel at y fan yr oeddid yn gwarchau ar gastell Mortain. Wedi iddo ddyfod at Ywain, syrthiodd ar ei liniau ger ei fron, gan ddywedyd wrtho yn iaith ei wlad, ddarfod iddo adael Cymru i'w weled a'i wasanaethu. Yna, yntau, heb yr amheuaeth leiaf yn ei gylch, a'i derbyniodd yn garedig, gan ddiolch iddo am ei ddyfodiad, a'i gymeryd i'w wasanaeth. Ac wedi iddo ei holi am helyntion Cymru, dywedodd wrtho ddigon o wir ac anwir, a pharodd iddo goelio fod yr holl dywysogaeth yn awyddus am ei gael yn dywysog arnynt. Enillodd fel hyn

Digitized by Google

gymaint o serch Ywain, nes ei wneyd rhag blaen yn ystafellydd iddo, a phrifiodd yn ddyn mor fawr yn ei olwg fel nad ydoedd ganddo gymaint ymddiried yn neb arall. Ond druan o hono, ychydig a feddyliodd ei fod yn llochi mor ymddiriedgar yr hwn oedd yn fradwr o'r fath dduaf iddo, a'i lofrudd gwaedlyd, er ei holl ymddangosiad gwenieithus o serch ac ymlyniad wrtho.

Arferai Ywain, os byddai yn foreu braf, fyned allan gynted ag y codai o'i wely, ac eistedd o flaen y castell, lle y byddid yn cribo ac yn plethu ei wallt am gryn amser, ac yntau ar y pryd yn ysbio ar y castell a'r wlad oddiamgylch, canys nid ofnai ymosodiad o un parth. A'r pryd hwn nid oedd yn arferol fod neb yn gweini iddo fel gwarchodwr ond y John Lambe hwnw. Digwyddai yn aml mai yno y gorphenai ymwisgo, ac os byddai ar neb eisiau ei weled yno yr aent i ymofyn am dano. Y tro diweddaf yr ymwelodd â'r fan oedd yn gynar yn y boreu, a'r hin yn deg a chlaear. Yr oedd gwres y noson cynt wedi ei rwystro i gysgu, ac aeth yno heb gau ei ddillad, ac heb ddim am dano ond ei grys a'i siaced, a'i fantell wedi ei thaflu drosto, a John Lambe yn ei ganlyn fel arferol. Yr oedd pawb eraill yn cysgu, canys ni chedwid unrhyw wyliadwriaeth, gan yr ystyriai fod y castell wedi ei orchfygu. Ar ol iddo eistedd ar foncyff pren, dywedodd wrth John Lambe, "Dos i geisio fy nghrib, canys adnewydda hyny dipyn arnaf." Ond beth a wnaeth hwnw, heblaw dwyn y grib, ond dwyn hefyd ddagr Hispaenig byr, blaen llydan, i'w ganlyn, ac a hwnw ei drywanu trwodd, ac yntau yn agos yn noeth, gan ei ladd yn y fan. Yna gadawodd yr erfyn gwaedlyd yn ei gorff, a cherddodd ymaith yn araf tuag amgaerau Mortain, lle ei derbyniwyd gan y gwylwyr, a dygwyd ef at y penaeth, De l'Estrade, a dywedodd wrth hwnw, "Fy arglwydd, mi a'th waredais oddiwrth un o'r gelynion penaf a fu i ti erioed." Ac wedi i'r llall ofyn oddiwrth bwy a pha fodd, ac iddo yntau fynegu, y penaeth gan ysgwyd ei ben, ac edrych yn ddigofus arno, a ddywedodd wrtho, "Ti a'i llofruddiaist, ond gwybydd oddiwrthyf fi, mai ped nad enillasem lawer o fantais oddiwrth dy weithred ddrygionus, y mynaswn dori dy ben ymaith; eto, nis gellir dadwneyd yr hyn a wnaed, ond y mae y cyfryw farwolaeth yn anaddas i foneddwr, a chawn fwy o sen nag o glod o'i herwydd."

Fel hyn, cafodd Ywain o Gymru—Ywain Lawgoch,—ei ladd trwy weithred ddrygionus a bradwrus yn y flwyddyn 1381, er mawr alar i'r fyddin a'r bobl yn gyffredinol. Y brenin Siarl yn neillduol a alarai ei golled ar ei ol. Claddwyd y penaeth milwrol galluog a glewfryd hwn yn eglwys St. Ledger; yr hon yr ydoedd wedi ei throi yn gaerfa

Digitized by Google

fel y sylwyd eisoes. Canlynwyd ei arwyl gan holl foneddigion y fyddin, pa un a gyflawnwyd mewn rhwysg mawr.

Dywed nodyn yn ngodreu'r ddalen yn y cyfieithiad crybwylledig o Froissart, gan Thomas Johnes, Ysw., lle y caed sylwedd yr hanes hwn am Ywain, "Yr ymddengys, pa fodd bynag, oddiwrth y dyfyniad canlynol allan o r Fœdera, o dan y flwyddyn 1381, o'r taliadau a wnaed mewn perthynas i'r rhyfel yn Aquitaine, i John Lambe gael ei anfon o Loegr i'r diben o lofruddio Ywain; o leiaf, talwyd iddo am hyny." Ond wele y dyfyniad hwn :—"Item paie le xviii. jour de Semtembre à John Lambe & à ses deux compagnions, en recompensacion & regarde, si bien de les bons & agréables services qu' il a fait à monsieur le prince, que Dieu assoile & fera au roi g'ore est come de la mourt de you de Galles.—C francs."

Ceir yn y llyfr a adwaenir fel y "Record of Carnarvon," tud. 133, benawd, a hysbysiad dilynol iddo, i'r ystyr a ganlyn : ymddengys mai Gruffydd Sais sydd i'w olygu wrth y Gruffydd Says a geir yn yr unrhyw hysbysiad, ac mai nid Sais mohono o ran gwaedoliaeth. Tebygol y medrai Saesneg, ac mai mewn cysylltiad â hyny, mewn rhan, y cafodd y dynodiant o Sais. Ond wele gynwys y penawd a'r hysbysiad a nodwyd :—Rhyngddadleuon y goron o flaen Richard de Stafford a'i gymdeithion, barnwyr arglwydd a thywysog diweddaf Cymru yn Ngogledd Cymru, yn Nghonwy, yn mhedwaredd flwyddyn a deugain o deyrnasiad y Brenin Edward III. Gruffydd Says, rhydd-dirddeiliad i'r dywededig dywysog yn Swydd Fôn, a farnwyd yn euog ger bron y rhagddywededig farnwyr yn Nghonwy o wrthryfel, mewn canlyniad i apêl oddiwrtho, ddarfod iddo fod yn ganlynwr i Owain Lawegoch, gelyn a bradwr i'r dywededig arglwydd dywysog, a chymeryd rhan yn nghyngor y dywededig Owain i gynhyrfu rhyfel yn Nghymru yn erbyn y rhagddywededig arglwydd dywysog. Oherwydd yr hwn gythrwfl, prisiwyd tiroedd a thyddynod y dywededig Gruffydd yn y swydd rag-grybwylledig, drwy ymchwiliad o flaen y rhagddywededig farnwyr a wnaed ar y pryd, megis wedi eu fforffedu i'r swm o ddeg swllt bob blwyddyn, ynghyd â'r erthyniad blynyddol arferol. Ac yn uniongyrchol atafaelwyd hwy i ddwylaw y dywededig dywysog, ynghyd â holl eiddo a dâoedd yr unrhyw Gruffydd, fel y mae i'w weled yn gystal yn nghoflyfr cyfrifon gweinidogion y dywededig dywysog yn Nghaernarfon. A chymerodd yr unrhyw dywysog, a daliodd y prisiad hwnw yn flynyddol tra y bu byw, yn gystal a'r eiddo a'r dâoedd, fel eu cynhwysir yn llawnach yn y llyfr coffadwriaeth yn Nghaernarfon.

Digitized by Google

## VAUGHAN JONES, NEU FYCHAN Y GWYNDYLL.

Bu Vaughan Jones, neu fel ei adnabyddir yn gyffredin, Fychan y Gwyndyll (Gwyngyll, meddir), am ryw faint o amser yn dilyn yr alwedigaeth o wehydd, ac wedi hyny aeth yn saer coed. Ryw dro, pan y daeth Jonathan Hughes heibio iddo, yr ydoedd yn llifio gyda lli' fawr, fel yr ymddengys. Canys dywedir ddarfod i'r bardd hwnw ei gyfarch fel hyn;

Mae prydyddion o wlad bell
'N cael llafur gwell na llifio.

Ac iddo yntau* ei ateb yn y llinellau canlynol:—

Codi a gostwng ar y pren
I dori 'r dderwen bybyr
Nis gwyr un dyn ond sy 'n ei drin
Fod llifio yn gymaint llafur.

Ymhen amser aeth i Lundain i weithio ei gelfyddyd o saer coed, ac ymunodd â Chymdeithas y Cymrodorion. Ond ymhen rhyw gymaint o amser trodd ei wyneb tua Chymru, a threuliodd nawnddydd ei oes gyda'i chwaer, mewn tyddyn o'r enw Llanerch y Bleiddiau, yn nghymydogaeth Penal. A bu farw yno ar yr 16eg o Fehefin, 1824, yn 71 mlwydd oed.

Yr ydoedd yn cael ei ystyried yn un o'r rhai goreu am chwareu *Interlude*, a pha un bynag a gyfansoddodd un o'r caneuon hyn ei hun a'i naddo, cyfansoddodd ganeuon gwageddus eraill. Ond ar ol iddo ymuno â chrefydd llosgai gymaint a gaffai o hyd iddynt o'i ganeuon ffôl ac ysgafn hyny.

Yr un ydyw a'r Vaughan Jones sydd a'i enw yn Hanes Methodistiaeth Cymru, mewn cysylltiad â helynt dechreuad y Trefnyddion Calfinaidd tua Chorus. Cafodd ei gladdu yn Mhenal, ac ar ei feddfaen cerfiwyd yr englyn dilynol:—

"Rhaid marw er hyd mawredd—ag wedi
Gadael pob anrhydedd;
Un garegg yn ei gorwedd,
'N toi 'r fan mae tir ei fedd."

Cyfansoddodd gywydd i'r gauaf caled, a chyfansoddodd hefyd

* Clywais hefyd iddo ddywedyd fel atebiad iddo :—

"Be' maent yn 'mofyn ar hyd y wlad
I wneyd eu nâd dan udo,"

neu linellau tebyg iddynt.

Digitized by Google

gywydd o ganmoliaeth i Dal y Llyn, at ba un y cyfeiriwyd eisoes, ac y dyfynwyd rhanau o hono. Ond yn awr, gan mai hynafiaethau y plwyf hwnw sydd dan sylw, ceir ei osod gerbron yn gyfan. Ei beniad yw,—

CYWYDD CANMOLIAETH TAL Y LLYN, MEIRIONYDD.

" F'allai fod rhai ond odid,
Ar Dal llyn'n dial eu llid ;
Minnau yn fwy na meinwen
(Chwerwen nhw) i'w charu'n hen ;
Mi rodiais am ryw adeg,
Dair sir ddifyr ar-ddeg ;
O wlad Cymru, wiwgu wedd,
Dan gaglu deau a gogledd.
Yn awr i'm cof 'rwy'n gofyn
P'le o'r llawr fel plwy'r Llyn ?
Gweled glyn a gwaelod gwlad,
Y chwaer Lloegr a chwr llygad ;
Dywedodd un dedwydd wr,
A rhywbeth o ddiharebwr ;
Canmol dy freiniol dew fro,
Athraw y gân a thrig yno ;
Mi neidiais mewn mynudyn,
I'm gwlad fwy hardd glyd fy hun ;
Dei's i lawr mewn dewis le,
Yngheiswyn ar fy nghoese' ;
Da ddamwain ydoedd imi,
A maidd a chaws meddwch chwi ;
Sylwi'r wlad, a'i seler laeth,
Ac am degwch y gym'dogaeth ;
Diau mynydd dymunol,
A gwir dda yw gwair y ddôl ;
Hyf redais mewn hyfrydwch,
Fel yr Hydd dros foel yr hwch * ;
Lle o fynydd Llafeni,†
Dan ei nod adwaenwn i ;
'Rhyd y ffordd o nerth morddwyd,
I basio'r lle ‡ buasai'r Llwyd ;
Dyna'r llys dan wr llon,
Y bu blawd i bobl lwydion ;

* Braich yr Hwch.
† Aberllwyfeni.
‡ Aberllwyfeni.

I'r gweiniaid lladd ugeinoedd,
Ddefaid iach ei ddefod oedd;
Lladd gwartheg yn lle eu gwerthu,
Rhwydd o'i law rhoddai i lu;
Er hardded llyfned y lle,
Mae'n burion y mîn bore;
I'ngheraint mi gynghorwn,
Cyn machlyd haul mochlyd hwn;
Gorau peidio ag aros,
I mi na neb hyd min 'nos;
Rhag 'nafu rhwygo nwyfoch,
Gan ewin gam Owain Goch; *
Fel troell yn myn'd tros lle mae,
Rhangwm a elwir Hengae;
Anwyl gynt yn ei le gaid,
Ac anwyl oedd i'r gweiniaid;
Ni chai was le oedd frasach,
Na gwell i fyw na'i gell fach;
Tros y Waen yn fain a fi,
Chwysu crys a cheisio croesi;
Gwyddwn y cawswn le cau,
Pan elwn i'r Panylau; †
A Llyn Bach lle ni bu,
Brithyll erioed yn brathu;
A Chraig y Llam i'w chamawl,
A'i phen tri chyfuwch a *Phaul*; ‡
Rhaid cofio cyn rhuo rhes,
Ameu gair am y gawres;
A graien ffei goelion gau,
A ysgydwodd o'i hesgidau;
Rhyngddo a'r cwm hwn ei hun,
Fan gwyllt heb fôn gwelltyn;
Rhydis a oedd yn rhedeg,
O'r ddwy ffynon dirion deg;
Ag Idris hir ei godre,
Arall a ddwyd ar y llaw dde;
Ymhen milltir gwelir gwedd,
Ystodiau mewn gwastadedd;

---

* Ar ymyl y ddalen, Owain Law Goch; cyfeiriad at ei ysbryd sydd yma.

† Panylau y gelwir yr ochr agosaf i'r Gadair—Cadair Idris i'r ffordd fawr ger y Llyn Bach (Llyn Trigrainyn). Hefyd gelwir y llethr y tu draw i Fwlch Llyn Bach, ond ar yr un ochr ag a nodwyd o'r blaen, yn Panylau Gwengraig.

‡ Eglwys St. Paul.

Digitized by Google

Lle bu unwaith yn benau;
Deulu'r Cwm a Dolau'r Cau;
Rhaid cofio tra cano cog,
Terfynau tir y *Fawnog*; *
A'r Fannog ddeiliog ddolydd,
Mae'n dda erioed am ddaiar rydd;
Eden berth ydyw'n bod,
A phurdan rhag ofn fferdod;
A'r Llyn a bair i'r glyn glod,
Lle i besgi llu o bysgod;
A dyn a bâd genhadwyd
I ddal y rhai ddêl i'r rhwyd;
Awn hyd y tir filltir fach,
Heb 'run pall ronyn pellach;
Y lle daw Llwyd Blas ei blu,
I'n golwg yn ddigelu;
Maes y Pandy fwyngu faith,
Y bu Nannau'n ben unwaith;
Lle da i wan llwyd ei wedd,
Y Gwyliau am bob ymgeledd;
Lle i anog llawenydd,
Is law'r dorr er's llawer dydd;
Son a wnawn os awn yn îs,
Ag adrodd gair am Gedris;
Ni feiddiai gwr a feddai go'
Droi 'i wegil at Riwogo;
'Nawr dringaf fel dau'r iangach,
I fyny riw fo'n wr iach;
I Gorus olygus le,
I'w hedrych Fai a Hydre';
Ewch a gwyr uwch y Gareg†
Gwelan dŷ gwiwlan dêg;
Llys Ywain le llysieuog,
Cynnar gynt y canai'r gôg;
Lle i weiniaid er llawenydd,
A lle os rhaid fel llŷs rhydd;
Meddygodd amryw ddeugain,
Eli rhoes heb elw rhain;
Efe allodd fyw felly,
Ei wenach i wan a chry',

---

* Mawnog Ystradgwyn.
† Pen y Gareg.

Mae'n llechu'n awr mewn llwchyn,
A'i deulu ar ol yn dal* yr un ;
Ynghorus mae fy nghariad,
Fel ynglyn i foli ngwlad ;
Rhyfygus i'r rhai fagodd,
Wadu byth wedi o'u bodd ;
Na chawsant wrth achosion,
Iawn fwynhad yn y fan hon ;
A'i llenwi gan bob llanerch,
O fir y cae'n fara cerch ;
A menyn melyn y Mai,
Er arian oedd i rywrai ;
A llefrith y fendith a fo,
I fedrus a fu i'w odro ;
I'w mel gwenyn mawl ganaf,
A lluoedd neint eu lladd wnaf ;
O ! na ddoi Sior yn lle morio,
I weled frased y fro ;
Fe alwe'r wlad fel ar wledd,
*Forever* a pha ryfedd ;
Pe doi'n Penhedd gwladedd glog,
Trwy Gorus wr trugarog ;
Fe gai faidd i'w gyfeddach,
A'r gweision uwd, a'i goes yn iach ;
Fe'i cariai bobl Corus,
I lawr y fron o lwyr frys ;
I dy Wiliam † da'i waelod,
Ei eli glâs â eilw glod ;
Ond aros un wythnos yn wan,
Fewn dillad heb fyn'd allan ;
Rhedai'r gwr Brawdwr bro,
Bontinog i ben Tyno ;
Ac yna'n an canlyne,
Ddyn ar draed oddiyno i'r dre.

Canwyd y cywydd hwn pan oedd George IV. yn ymweled â Chymru a'r Werddon, a'r gymalwst yn ei flino.

---

* Ond nid erbyn hyn ; eithr y maent yn dal Dolffanog ; sef lle yn agos iddo, yn eu gafael fel perchenogion.

† William Ywain fab Pen y Gareg, a pherthynas i Yweniaid Dolffanog. Rhoddid clod mawr iddo am wella esgyrn a briwiau. Amaethwr oedd heb fod yn dysgu fel meddyg rheolaidd.

Digitized by Google

## JOHN ATHELYSTAN OWEN (BARDD MEIRION).

Y mae amryw o gyfansoddiadau y bardd hwn yn argraffedig yn yr 'Eurgrawn Wesleyaidd.' Yr oedd yn hanu o hen deuluoedd urdd-asol a hynafol. Cafodd ei ddwyn i fyny yn saer coed, yr un gelfyddyd a'i dad. Bu am ryw hyd tua dechreu ei oes yn pregethu gyda'r Wesley-aid, wedi hyny meddyliodd am fyned i'r weinidogaeth yn Eglwys Loegr, a bu am dro yn ysgol Ystrad Meurig, yn parotoi ar gyfer y swydd, ond ni ddaeth y bwriad hwnw byth i ben. Bu yn gwneyd eli i dyfu gwallt, yr hwn a alwai yn Gymraeg yn Hufen Meirionydd; ond digon tebyg na fu coryn neb nemawr cynesach o ran cnwd o wallt o werth rhin yr hufen hwnw. Yr oedd yn etifedd Hafotty Corus; ac nid ydyw yn annhebyg mai yno y cafodd ei eni, neu ynte tuag ardal Corus. Bu farw yn Nhredegar, wedi dioddef llawer o angenoctyd, a chladdwyd ef yn mynwent Ebeneser, capel perthynol i'r Annibynwyr yn Sirhowi, pentref ger Tredegar.

Yr oedd yn dra hoff o'i fam, ac yn barchus iawn o honi. Cyfansoddodd englyn i'w roi ar gareg ei bedd, yr hwn sydd yn gerfiedig arni yn Nghoelbren y Beirdd, ond nid oes yno namyn yr englyn yn unig yn y llythyrenau hyny. Rhed y cwbl o'r cerfiad sydd ar ei beddfaen fel hyn:—

"Sic transit gloria mundi
Bedd

Cathrine, gwraig John Owen, o Hafotty Coris, Talyllyn. Hi a vu varw Mawrth 1, 1820, yn 60 mlwydd oed.

Diau er seiniaw dwy-iaith—a medru
Ymadrodd yn berffaith,
Ni cheir cân wâr nag araith
Na byd llon yn y bedd llaith."

Ond er mai *Hafotty Coris* sydd yn gerfiedig ar y feddfaen, yn Nolgellau y bu farw, ac yn y dref hono y bu yn byw lawer o flynydd-oedd cyn hyny. Ac y mae ei beddfaen wedi ei gosod ar ei gorwedd yn Nghwr gorllewinol hen fynwent Llanfair Brynmeurig, Dolgellau, gan ddynodi fod ei beddrod yn y llanerch hono. Ond heblaw yr englyn crybwylledig, cyfansoddodd hefyd farwnad ar ol ei anwyl fam a garai mor gu; yr hon sydd i'w gweled yn y penillion canlynol:

O bob rhyw golledion
Mewn creulon fyd croes,
Marwolaeth un tybiaf

Yw'r fwyaf i f'oes
Trwy helynt fy mywyd
Tan glefyd neu glwy;
Yn nyddiau aniddig
Mor unig yr wy,
Mam, mam, O fy mam!
Yn medd mae fy mam, yn medd mae fy mam, &c.

Fy nal, fy nghofleidio,
A llunio fy llês,
Heb oddef i'm poeni
Nac oerni na gwrês;
Am gyrchu im gwarchod
O gariad yn gu,
Mewn mebyd ac ie'nctyd
Bob enyd y bu,
Mam, mam, O fy mam! &c.

Er bod i'm gyfeillion
Rai mwynion a mad,
Ni chefais i'm lloni
Ail iddi'n y wlad;
Yn mhlith yr holl ferched,—
O brudded yw'm bron,—
Ni chaf i'm gydmares
A'i hanes fel hon,
Mam, mam, O fy mam! &c.

Od âf ar rai troion
I Feirion lon wlad,
Caf hiraeth i m gwasgu
Yn nheulu fy nhad;
Af yno'n aniddan
I gwynfan ar goedd,
Wrth gofio'r syberwyd
A'r aelwyd lle'r oedd,
Mam, mam, O fy mam! &c.

Paham rhof ochenaid,
A'm llygaid yn llaith;
Daeth angau hen elyn
A therfyn i'w thaith;
Fy mam er ei marw
A'i bwrw i'r bedd,

Digitized by Google

O gyraedd pob cyffro
Sy'n huno mewn hedd
Mam, mam, O fy mam!
Yn medd mae fy mam, yn medd mae fy mam.

---

## SYR YWAIN AB GWILYM.

Yr ydoedd yn fardd ac yn wr eglwysig. Oesai yn yr eilfed ganrif ar bymtheg, a bu ar un adeg o'i oes yn gwasanaethu fel gwr eglwysig yn y plwyf hwn, Talyllyn. Ond ni wyddis ymha le ei ganwyd nac y bu farw. Mae peth o'i waith ar gael mewn ysgrifen. Cyfansoddodd gywydd marwnad ar ol Lewis Ywain y barwn, yr hwn a laddwyd gan Wylliaid Mawddwy wrth Lidiart y Dugoed, ac y mae y rhan fwyaf o hono yn argraffedig yn y tudalenau 193—5. Nid oedd cyfran o'i ddechreu yn yr adysgrif y cymerwyd y darn argraffedig ynddynt allan o honi. Ond ceir yr unrhyw mewn ysgriflyfr barddonol yn awr gerbron, a chynwys wyth o linellau. Ac ar ryw ystyr priodol eu gosod yma o flaen y darllenydd, er, i'm bryd i, nid iawn oedd i'r bardd restru marwolaeth y barwn fel "Trydydd Aberth" y modd y gwna. Ond wele y llinellau:—

"Deuborth Gwin dwy Aberth gynt,
I Dduw oll a ddeallynt;
Abram ym Mynydd Ebryw;
Offrymai Fâb mewn Ffrâm fyw;
Duw a roe Grist îr Grau,
Drâs Baich dros Bechodau;
Trydydd Aberth gwerth a gaid,
E droes gŵr dros gywiriaid.

Y mae peth gwahaniaeth yn rhai o'r llinellau argraffedig o'r cywydd yn y tudalenau a nodwyd i fel y maent yn yr ysgriflyfr barddonol crybwylledig uchod. A cheir yn yr unrhyw hefyd y rhan sydd yn ngholl yn niwedd y drydedd linell yn y tudalen 194, pa un yn gyflawn sydd yno yn,

"Chwarddent ladron hyd Fôn faith."

A rhed y ddwy linell a adawyd allan yn y tudalen dilynol, fel hyn;

"Mae iddo Goed nid modd gwann,
O Lasderw mal ei Lysdan."

Digitized by Google

Ceir yn yr ysgriflyfr barddonol y cymerwyd y llinellau yr ydys newydd ddyfynu allan o hono, ddau gywydd arall o'i waith, un o ba rai a ddynodir, "Cywydd Merch, o waith Syr Ow. ap Gwilym," a'r llall, "Cywydd i Dduw ac i'r Byd, o waith Syr Owain ap Gwilym." Ac ar ol y naill a'r llall o honynt yr hysbysiad mai "Syr Owain ap Gwilym a'i cant." A rhed yr un y cyfeiriwyd ato gyntaf fel hyn:—

Y Ferch deg ei gwêdd meddyn,
A'i Phrŷd a'i Lliw fal Ffrwd Llynn;
Duw ni wnaeth Dŷn wenithedd,
Dynes mor gynnes ei Gwedd;
Dŷn wyfi yn dwyn ei Fâr,
A roe Dduw a'r y Ddaear;
Heb gael diben o'i Benyd,
Ond ceisio ymbwnio â'm byd;
Gwae fi na bwy trymglwy trais,
Medd a'i gwyl modd y gwelais;
Neu na bai un yn y Bŷd,
Ond un a hoywfun hefyd;
Nychedig o nŷch ydwyf,
Fal Maesen neu Freuen wyf.

Hŷn ydwyf na hên oediawg,
Hên yw'r Haint ni hun 'rhawg;
Hi lusgai drem ar Emul,
A dynnai Gorph Dŷn yn gûl;
Hi wnai wyneb Hoen union,
A dynnai Friw dann y Fronn;
Hi wyddai wedd Carieddlwys,
O Gil Glann a golwg lwys;
Gelynion am galanas,
A'r ael Glyn yw'r olwg lâs;
Cariad a fâg credaf wir,
Nychdod ceudod lle cedwir;
Nŷch a fâg heb orwagedd,
Heintiau i bawb Haint heb wêdd;
Haint celu Heintiau calon,
A fâg Trymder Braender Bronn;
A Thrymder mewn llawer Llann,
A fâg Angef yn gyngen;
Nid haws troi Bun i unoed,
Na throi y Bodlyn a Throed;
Neu rifo a symio'r Ser,

Digitized by Google

Eu gŷd o Benn y Gader;
Neu estyo mewn Glynn o'm Gwlad,
F'un Llaw a'r fin y Lleuad;
Trewis modd trwy Ais mau,
Ni bu Enaid un Boenau;
Och yn ôl Awch Anwylyd,
A'm Angau cyn maddau 'mŷd;
Angau sy' ddiau i Ddyn,
Angyles yw fy Ngelyn;
Gwynnach nag eiry Gwaneg,
Ni bu Elyn Dyn mor dêg;
Rhoed dwl Boen Garoen Gariad,
Rhwyfwr calon synfron sad;
Rhyfig corph er fy ngorphen,
Rhybell i'm gwnaeth nid gwaeth gwenn;
Rhyddwys i'm poenodd rhywddyn,
Rhyfedd na ddaw Diwedd Dyn;
Yr hyd y bwy rhaid yw Bod,
Yn poeni hyd y Pennod;
Mae yn rhaid cael er mael mau,
Boen Ingoedd Bun neu Angau,

Yn nesaf wele y cywydd i Dduw ac i'r byd o waith Syr Ywain ab Gwilym:—

Drych yw'r byd di rychor barn,
Duw sy' Geidwad dwys gadarn;
Deilliaid a fu'r deallwyr,
Dull gwan a wnaeth dwyllo gwŷr;
Ysdyr ddŷn ysdori dda,
Ydd ei ymaith oddiyma;
A'th dda oediog i'th adu,
A'th gymar yw'r ddaear ddu;
Y byd aeth yn gaeth o'r gwir,
Yw roi enyd o'r anwir;
Difeia a'i dy fywyd,
Dall i bawb yw dull y byd;
Na fydd lawen wên *wanar,†
O gwymp cymydog neu gâr;
Gochel dri pheth rhag methu,
Garw o fyd i gywir fu;

* 'Iawn-war" meddir ar ymyl y ddalen.
† "Arglwydd," ar ymyl y ddalen.

Y cnawd gyda'n byd cnodig;
Ofna Dduw'n gall a'i allu,
A'th frenin gorllewin llu;
Bid drŷch it bywyd dra chall
Bid yn wir bai dyn arall;
Ni cheir yden wŷch rediad,
Na cheir ond lle heuir hâd
Ni bu amlach pleidiach pla,
Swyddog er yn oes Adda;
Nag amlach bai nag ymlid,
A lladd mewn malais a llid;
Nag amlach llw maleisiach lle,
Baich adwyth o bechode;
Hefyd ni bu mae'n gu gwg,
Amlach pregethu amlwg;
Y sirif y sy' eirwir,
Y gudd er arian y gwir;
Ar Usdus hwnt ar os-deg,
A wna air twn yn wir teg;
Ond rhyfedd am gyraedd gwall,
Hoyw-ddyn ing heddyw'n angall;
Gwragedd megis goreugwynt,
Dwfn iawn yw, eu dyfein ŷnt;
Gwyddan' meddon ymweddiad,
Ewyllys Duw oll a'i 'sdâd,
A dechreu'r Tâd o'i gadair,
A pheth a wnaeth Mab maith Mair;
Prentisiaid llonaid pob Llan,
A'm wir-gorph Duw eu margan;
Nid esgob a wyr dysgu,
Neu ddoctor pen cyngor cu;
Y ddysg aeth wrth ddewis gwin,
Sion grydd y sy'n y gwreiddin;
Duw fyned y Defeinwyr,
Yn fechgyn gwerin a'i gwyr;
A phob rhyw eneth a'i phen,
A fesur Cyfraith Foesen;
Credwn i Dduw cariadol,
Caru dwy ffordd yw cred ffol;
Duw o Nef da iawn ei waith,
A brynodd bawb ar unwaith;
Nid y weithred seiliad sail,

Digitized by Google

Yw'n Ceidwad a'n cu adail;
Unig ffydd enwog ei phen,
Y geidw y byw ag adwen;
Duw lanwych yw'r da linyn,
Ond da Duw, nid da dyn.

Un o'r llyfrau a ysgrifenwyd gan y Parch. Dafydd Elis yw yr un y cymerwyd y cywydd hwn allan o hono, at ba rai y cyfeirir yn y tudalen 208, o'r llyfr hwn. Cafwyd ei fenthyg gan Myrddin Fardd. Tua'i ddechreu ceir y mynegiad canlynol o eiddo yr unrhyw ysgrifenydd:—"Y cywyddau canlynol a ad-ysgrifenais i yn fy ystafell yn y Ty du, ymhlwyf Llanberis, allan o lawysgrifen William Phylip, o Hendref fechan, yn Nyffryn Ardudwy, yn Swydd Feirion, Bardd gorchestol.

Gorphenaf 1766. DAVID ELLIS."

---

## HUW PUW.

Un o Buwiaid Cwmrhwyfor, ac wedi hyny o Riwogo, ydoedd yr Huw Puw hwn. Yn ol hen ysgriflyfr cafodd ei eni yn Nghwmrhwyfor. Trigianai ei deulu ar un adeg ar eu tir eu hun yn y lle y mynegir ei ganed, ond ymhen amser a symudasant oddiyno i Riwogo. Dywedir ddarfod iddo neidio dros ben ei dad a'i fam yn anisgwyliadwy iddynt pan oeddynt yn myned i lawr i'r eglwys ar foreu Sul trwy goed Rhiwogo, ac i hyny achosi cymaint braw i'w fam nes y clafychodd, ac y bu farw. Yn awr, os cywir hyn, tebygol i'w rieni fyned yno i drigianu. Ond dynodir ei dad ar ei feddfaen yn mynwent Talyllyn fel un o Gwmrhwyfor, eithr nid yw hyn ynddo ei hun yn ddigon o brawf nad oeddynt wedi ymsymud i Riwogo yn ystod ei fywyd, ac iddo farw yno hefyd. Ymadawodd y rhai olaf o'r teulu hyn a fu yno yn dwyn y cyfenw Puw (Pughe), o Riwogo, yn y flwyddyn 1873. A'r penteulu o'r unrhyw ydyw Mr. Hugh Pughe, yn awr o Benbryn, ger Tywyn, Meirionydd. Ond y mae nai o fab chwaer iddo, o'r enw a'r cyfenw Hugh Evans, yn dir-ddeiliad y lle yn bresenol. Ymddengys mai disgynyddion o Robert Puw, brawd i'r Huw Puw a nodwyd yw y rhai hyn, a lliaws eraill sydd wedi ymganghenu yn y cymydogaethau. Dywed traddodiad i Huw Puw gael ei ddwyn i fyny yn wr eglwysig, ac â hyn y cytuna yr ysgriflyfr y cyfeiriwyd ato eisoes, canys dynodir ef ynddo yn "Vicar." Pan yn Rhydychain

enwogodd ei hun yn fawr fel neidiwr, a dywedai y diweddar Barch. Dafydd Dafis, M.A., * gwr eglwysig a ganmolid yn fawr fel darllenwr rhagorol, ac a fu yn gwasanaethu yn eglwys Penal am amser maith, nad oedd neb wedi cyraedd mor agos i farc Huw Puw yn neidio yn y lle hwnw ag y gwnaeth ef. Ceir yn y Brython am fis Medi, 1879, englyn o ganmoliaeth i un Huw Puw, o Feirionydd, ac ymddengys yn ddiamheuol mai at yr Huw Puw sydd dan sylw y cyfeiriant. Y mae yr englynion hyny ynghyd a nodyn yn eu blaenori yn rhedeg fel hyn :—

"Y mae ger ein bron gân anargraffedig o eiddo Dafydd Lewis i Huw Puw o Feirionydd (bl. 1704), yn folawd iddo am ei fedrusrwydd yn y gamp o neidio. Yr ydoedd y Puw hwn o Feirionydd, wedi enwogi ei hun yn y gamp o neidio gerbron gwŷr Rhydychain :"—

"Hynod oedd dy naid ddedwydd—a hybarch
Huw Puw, o Feirionydd ;
Tair llath hanner hyfder hydd,
Heb gêl o'r man bwygilydd.

"Naid gyfan, hoewlan, hwylus,—naid Gymreig,
Naid Cymro mwyn grymus,
Naid rhy ddofn i wyr ofnus,
Naid brif i'w neidio heb rus.

Yn yr hen ysgrifiyfr a nodwyd, ceir yr englynion dilynol o waith Edwart Llwyd am y gamp-naid hon, ynghyd a'r sylw hwn o'u blaenau :—

"Englynion o waith Edwd. Lloyd, A.M., a phen ceidwad y Museum, wedi eu torri ar garreg er coffadwriaeth am naid ryfeddol a roes Huw Pugh a anesid yn Nghwm rhwyfor, plwyf Talyllyn, yn Sir Feirionydd, o risiau'r Museum i'r golofn gerllaw."

"Naid Huw hynod y'w hon,—o'r grisiau
I'r groes ar y golofn,
Nid mab o'r oes hon mwy ei sôn
Na Rhyswr mawr rhosydd Meirion.

Rhyswr Cwm rhwyfor campus,—esgyrnog
O'i sgyfarn† i'w droedfys,
Nerth gwr pybyr mewn pob bys,
Cawr o odre Cader Idrys.

Dewr a llawen darllenydd,

* Yn ol a nodir ar gareg ei fedd yn mynwent Tywyn, Meirionydd, bu yn beriglor Penal am 45 o flynyddoedd, ac yn gurad plwyf Tywyn yn flaenorol.—A bu farw y 14eg o fis Tachwedd y flwyddyn 1851, yn 75 mlwydd oed.

† Clust.

Digitized by Google

Dyro naid (draw'r nod) yn droedrwydd
A thorr obry yn ebrwydd
(Dŷn o'th flaen) d'Enw a'th flwydd.

Mae'n Rhuf, maensgryf Philufer *
Diail o hwyr haul i'r dwyren
Nid bryd hyn Ynys Bryden
Fedd ail, na hafail Huw hên.

Nid gweddus Sôn, ac nid gwiw
Am lamm iwrch ar lannerch o'r unrhyw
Y naid ymma yw'r nod amwyw
Hai naid (neu baid) a Huw Puw."

Y mae yr englynion hyn yn yr ysgrif-lyfr hefyd wedi eu troi i'r Lladin, gan Thomas Richards, "medialanense Parochu." Ynddo, hefyd, ceir y dyfyniadau a ganlyn :—

"On the Death of the above champion, the Revd. Mr. Hugh Pugh, Vicar of Binling" (?) yn Nghent, "Dec. 15, 1743, Ætat 80."

"Rumpuntur nescia vimci
. . Pectora . . . . . Virg:"

"The Hero's gone—Old Cambria feels ye shock,
While groans reluctant sound fro every rock.
Her hardy Sons lament with piteous moan,
And Cantium wails a Hero not her own—
And is the mighty fall'n ? How dire th' alarm ?
Has cruel death unbrac'd his nervous arm ?
And shall ye soul no more his manly bosom warm.
The arm yt weight meredible did wield
The stubborn breast yt knew not how to yield.
He's gone—the loss each Briton may diplore
Such strength & courage join'd are now no more."

Yn ddilynol i hyn, ceir, yn yr un iaith, fynegiad i'r ystyr ddilynol :—

Ganwyd ef yn Nghwmrhwyfor, yn Swydd Feirionydd, Gogledd Cymru; a rhoddodd brawf o'i nerth a'i chwimythder rhyfeddol yn ieuanc iawn. Pan ei symudwyd i Goleg yr Iesu, Rhydychain, hynododd ei hun wrth neidio, codymu, a thaflu trosol, &c. Am ei fedr yn yr ymgampiad blaenaf, y mae coffadwriaeth arosol yn agos i'r Amgueddfa yn Rhydychain, pa un a barodd yr englynion canlynol yn Nghymraeg a Lladin. Ac o'r pryd hwnw hyd ei fod yn 60 mlwydd oed, yr ydoedd ymhell o flaen ei holl gyd-oeswyr ymhob camp. Yna yn dilyn y Saesneg o hyn, ceir y mynegiad byr dilynol: "Experta loquor R : Pierceus Parochus Kelyniensis."

* Campwr Rhufeinig

Digitized by Google

Fel y cyfeiriwyd yn flaenorol, yr oedd ei allu fel codymwr yn nodedig. Dywed traddodiad ddarfod iddo, wedi i'w frawd John gael ei godymu wrth ymaelyd codwm yn Llundain ofyn i'w orchfygwr a wnai ymafael codwm âg ef. Ac ar ol i hwnw gydsynio, ar yr amod na wnai yntau ddim niwaid iddo, aethant ati. Ond tynhaodd Huw Puw ei freichiau cadarn-gryf am dano, nes y dechreuodd wingo dan y wasgfa, a gofyn iddo am ei ollwng. Yna, wedi gweled canlyniad yr ymdrechfa, dywedai ei frawd John, Sut y mae hyn yn bod, yr oeddwn i yn cwympo Robert, a Robert yn dy gwympo dithau. Ond dywedai yr ymaelwr gorchfygedig nad oedd John haner mor gryfed a'i frawd Huw Puw.

Dywed traddodiad yn ei gylch i'r ystyr a ganlyn; sef ddyfod o ryw estron i'r wlad hon o un o'r gwledydd tramor yn amser Huw Puw, yr hwn ydoedd yn fawr o gorff a grymus ei ymddangosiad. Rhoddodd yr estron hèr i Frenin Lloegr yr ymafaelai godwm â'r dewis ddyn o fewn ei deyrnas.—Ac fod y gamp o ymgodymu mewn cymaint bri y pryd hwnw, fel os nad ellid cael neb o fewn y wlad a anturiai gymeryd yr heriad i fyny, yr ystyrid hyny yn iselhad ar y brenin a'i ddeiliaid. A chan fod yr estron o gymaint corffolaeth a nerth, meddyliodd y brenin na chai afael ar neb o fewn ei deyrnas a wnai ei gynyg. Ar ol iddo gael yr heriad amryw droion, ac heb gael neb a feiddiai ymaelyd codwm â'r *cawr*, yn ol fel ei gelwid, parodd ofid mawr iddo. Ond ymhen amser, dywedodd un o wyr ei lys y gwyddai ef am un o'i ddeiliaid, yr hwn, os cymerai yr hèr i fyny, a fyddai yn sicr o'i godymu; eithr dywedai fod anhawsder ynglyn â'i achos, oblegid mai gwr eglwysig ydoedd yr un y cyfeiriai ato. Dywedai hefyd mai Cymro ydoedd o genedl, ac wedi ei eni wrth droed Cadair Idris; a'i fod yn fedrus fel codymwr pan yn y coleg, ac yn drech na phawb oedd yn y lle. Wedi clywed hyn, ymgynghorodd y brenin âg esgob ei esgobaeth; a barnodd hwnw, mai os ydoedd Huw Puw yn ddigon galluog, neu os ydoedd ganddo ddigon o galon i anturio ymgodymu âg ef, nad gweddus oedd gadael i wr o'r fath waradwyddo y wlad â'i herfeiddiad. Ar ol dwyn pethau ymlaen mor belled a hyna, addawodd Huw Puw y meiddiai ei gynyg; felly penderfynwyd i'r ddau gael ymddiddan â'u gilydd ymhen tridiau, ac enwi y pryd a'r fan yr ymafaelent. Ond pan welodd Huw Puw y dyn, arswydodd yn fawr rhagddo, a hyny, nid yn unig oherwydd ei faintioli corfforol, eithr yr oedd yn flewog i gyd drosto, ac yn cyraedd felly dros gefnau ei ddwylaw hyd at ei ewinedd. Ond gan iddo addaw ymgodymu âg ef, ni fynai droi yn ol heb anturio. Felly, penodasant i'r ymdrechfa gymeryd lle yn Llundain ymhen y pythefnos. Pan ddaeth y diwrnod ymlaen,

Digitized by Google

ymgasglodd miloedd i weled yr ymdrechfa, a barnai y lliaws nad oedd gan y Cymro le i obeithio cario'r dydd, gan mor fychan yr ymddangosai mewn cymhariaeth i'w wrthwynebwr. Cyn iddynt ddechreu ymgodymu, rhoddodd Huw Puw neisiad sidan yn ei enau i fod yn arwydd i'r Cymry y gallent gyngwystlo o'i blaid os gollyngai y neisiad o'i enau. Ac yn ol y ddealltwriaeth oedd cydrhyngddynt, gollyngodd y neisiad arwyddol hwnw i lawr ar ol iddo wybod y gallai ei drechu. Dau godwm o dri oedd i benderfynu y gamp, a gadawodd i'r estron ei godymu y tro cyntaf; ond yr ail gynyg, cafodd Huw Puw ei law dan ei asenau, gan ei godi i fyny a'i daro ar lawr y fan.

Cyfansoddwyd yr englynion dilynol iddo oherwydd ei fuddugoliaeth, neu o leiaf canwyd rhai yn rhedeg rywbeth yn tebygu iddynt:—

"Yn Llundain Huw Puw lawen lewyrch,—ymeulodd,
A miloedd yn edrych,
Lle'r oedd canwr yno'n cynyrch,
Rhodd godwm cas i'r gwas gwych."

"Wrth hir ymaelyd milen—gwysgodd*
A gwasgodd ei gefen,
Torodd, ni rusodd, dair asen,
Cyn tynu'i law o tan ei len."

---

DAFYDD HUMPHREY (DAFYDD WMPHRA), ABERCORUS, AC ERAILL;

Mab ydoedd Dafydd Humphrey (neu yn ol dull cyffredin Dafydd Wmphra) i Wmphr a Dafydd, Ty'nyceunant, tyddyndy yn y gymydogaeth a'i wraig Mari Hywel. Yr ydoedd y gwr hwn yn byw yn amser dechreuad y Trefnyddion Calfinaidd yn ardal Corus, ac yn ei gysylltiad â'r enwad hwn ei dygir i sylw yma. Ac wrth wneyd hyny ceir nodi rhai pethau mewn perthynas â dechreuad yr unrhyw yn y plwyf. Ymddengys i'w gysylltiad priodasol fod yn foddion i'w ddwyn i afael a chrefydd bersonol, ac y bu gan ei fam yn nghyfraith gall a chrefyddol law yn hyny. Canys mynegir yn 'Methodistiaeth Cymru' i'r wraig hon glywed y disgwylid pregethwr i Abergynolwyn, ac ddarfod iddi geisio gan ei merch a'i mab yn nghyfraith Dafydd Wmphra, y rhai oeddynt newydd briodi, fyned gyda hi i'w gwrandaw. Ac felly daeth y pregethwr a chafwyd pregeth yno, a bu yr oedfa o

* Ai ynte *gwisgodd*?

Digitized by Google

fendith anrhaethol i Dafydd Wmphra; canys o dan arddeliad yr oedfa hono yr aeth i 'Gyfamod a'r Gwr, i'w gymeryd Ef yn Dduw, a'i bobl yn bobl, a'i achos yn waith iddo tra byddai ar y ddaear.' Ac nid cyfamod gwantan wedi ei wneyd o dan gynhyrfiad yr adeg oedd, eithr un a grym parhaol ynddo iddo ef. Canys mynegir ei fod yn grefyddwr dirodres, gwresog a ffyddlon, ac y mynych soniai am yr adeg y gwnaeth 'Gyfamod a'r Gwr." Hefyd y mae y Parch. Griffith Ellis, M.A., Bootle, yn ei lyfr rhagorol 'Hanes Methodistiaeth Corris a'r Amgylchoedd,'* yn nodi iddo wrth glywed un o'i gyd-flaenoriaid yn cwyno fod arno ofn y dyddiau hyny na ddechreuodd yn iawn gyda chrefydd erioed, ond fod yn gysur ganddo y cai ei hail ddechreu o'r newydd y noson hono drachefn, ddywedyd yn ngwyneb hyn; "Twt, twt, twt, y peth gwiriona' glywais i 'rioed, ail ddechra' o hyd o hyd! Mi wnes i gyfamod â'r Gwr unwaith yn y dechra, a gloewi'r cyfamod y bydda'i byth wedy'n. Pa eisio ail ddechra, o hyd o hyd! Twt, twt, twt." Ac ychwanega yr un awdwr yn mhellach ymlaen † mewn cysylltiad a'i sylwadau ddeuddydd cyn ei farwolaeth, ddywedyd o hono. "ddarfod i'r Arglwydd addaw y byddai Ef yn Dduw iddo yn nechreu ei grefydd; a bod y 'cyfamod' yn dal y dymestl. A chanodd y llinellau:—

> Does bwlch yn hwn fel modrwy'n grwn y mae
> A'i glwm mor glôs heb os nac oni bae."

Dengys ei feddfaen ef a'i briod, a'i dad, a'i fam, yn mynwent Talyllyn, farw o hono y 19eg o Ragfyr, 1839, yn 83 mlwydd oed, ac i'w briod farw yr 22ain o Gorphenaf, 1834, yn 74 mlwydd oed. Hefyd farw o'i dad y 24ain o Ionawr, 1785, yn 70 mlwydd oed, a'i fam y 24ain o Awst, 1804, yn 86 mlwydd oed.

Yn ol 'Hanes Methodistiaeth Cymru,' ymhen blwyddyn ar ol i Dafydd Wmphra fod yn gwrando y bregeth grybwylledig yn Abergynolwyn y cafodd gyfleusdra i wrando un drachefn. Pregethid y waith hon ar Fawnog Ystradgwyn, ac ymddengys na chafwyd llonyddwch dyledus yn yr oedfa hono i wrando a thraddodi y gair, canys dywed yr unrhyw awdurdod y profwyd chwerwder erledigaeth ynddi. "Ar ol hyn," medd yr un hanes, "cafwyd un o bregethwyr cyntaf y Bala i ddyfod ar ryw Sabbath i ardal Corris, ar fin y ffordd fawr. Yr oedd rhyw rai, ar ol clywed fod pregeth i fod yn yr ardal y Sabbath, wedi darpar offer aflonyddwch, sef llestri *tin* a phres i'w curo, fel ag i lesteirio i'r bobl glywed beth a ddywedid gan y pregethwr. Ond yr oedd blys cael clywed ar ryw un yno, yr hwn a gipiodd y llestr pres o law y terfysgwr, ac a'i lluchiodd i'r afon.

* Tud. 31—2.—† Eto tud. 33.

Aed i'w geisio eilwaith, ond bellach ni ellid gan yr agen a wnaed ynddo wneyd nemawr ddefnydd o hono.

Ymddengys mai wrth Abercwmeiddaw y pregethid y waith hon, ac mai Vaughan Jones, (Fychan y Gwyndyll) ydoedd yr un a daflodd y llestr pres i'r afon; canys dywedir iddo gael gafael mewn mortais (padell) bres ag ydoedd merch yn ei churo pan oeddid yn pregethu wrth Abercwmeiddaw, a'i thaflu i'r afon. Dywedir hefyd mai ar gareg farch wrth Abercwmeiddaw y pregethwyd gyntaf gan y Trefnyddion Calfinaidd yn yr amgylchoedd, ac ddyfod rhai o'r ardaloedd i guro caniau i ddyrysu y traddodiad o'r bregeth. Yr oedd y gwr y dywedir fel hyn iddo daflu y fortais bres i'r afon yn gefnder i Dafydd Wmphra, ac yr ydys wedi ei ddwyn i sylw ar ei ben ei hun yn mhellach yn ol, a daw i sylw eto o dan y penawd hwn. Wedi y bregeth grybwylledig "ar fin y ffordd fawr" dywed 'Hanes Methodistiaeth Cymru,' y "bu pregethu mor aml ag y gellid ei gael, yn gyntaf yn Llain-y-groes, a thrachefn, dros ysbaid dwy flynedd, yn Ysgubor-goch. Ond yr oedd dygasedd yr hen sarff yn llesteirio i'r efengyl gael arosiad hir yn unlle, eto, yr oedd yn ennill calon ambell un. Yn y flwyddyn 1790, yr oedd yno bump wedi cael blas ar fara y bywyd, sef Dafydd Humphrey a'i wraig, Jane Roberts, Jane Jones a Betti Lewis. Wedi i ddrysau eraill gau, buwyd yn pregethu ar ben carreg, wrth ddrws ty anedd, ar dir Dafydd Humphrey. Gelwid y ty hwn yr Hen Gastell; ac wedi ymadawiad y gŵr a'i preswyliai y pryd hyny, gosododd ef i ŵr arall am ychydig ardreth, ar yr amod fod pregethu i fod ynddo." A'r gwr hwnw fel yr ymddengys ydoedd y crybwylledig Vaughan Jones—Fychan y Gwyndyll.

Yr ydys wedi nodi am bregeth ar Fawnog Ystradgwyn. Cauwyd y Fawnog hono i fewn oddeutu'r flwyddyn 1809, ac y mae wedi ei ffurfio yn feusydd yn dwyn gwahanol enwau. Math o gyttir oedd y fan hon unwaith rhwng tref ddegwm Ystradgwyn, a chyrhaeddai o'r fan y mae pen uchaf Caeau y Cwm,—Cwmrhwyfor, i ben isaf Cae'r Brenin, perthynol i Lwyndolithel, ac a elwir felly, am mai o fewn ei derfynau y gorwedd y gyfran a elwid Cyfar y Brenin, sef rhan hwnw o'r unrhyw gyttir. Adroddwyd i mi gan hen wr sydd yn awr yn ei fedd, iddo weled ar ddydd Sul, ychydig cyn cau'r Fawnog hono i fewn, gicio pêl droed yn un cwr iddi, a phregethu yr efengyl yn y cwr arall i'r unrhyw. Pregethid felly yn y rhan o honi a elwir Waen Bant Dolffanog Fach, a chicid y bêl droed ymhen uchaf Caeau y Cwm, at y rhai y cyfeiriwyd eisoes. Yn ymyl y fan hono lle y torid deddfau y Sabbath mor gyhoedd ryfygus trwy gicio y bêl droed, ac ar derfyn Mawnog Ystradgwyn, a chan mwyaf ar gŵr ei hen orweddfan y cyfodwyd ac y saif capel Ystradgwyn. Pregethid

Digitized by Google

weithiau yn y fawnog hon yn nghysgod coeden gelyn yn agos i'r fan y pregethid ar y Sul crybwylledig pan gicid y bêl droed yn y cwr arall iddi. Tyfai y gelynen hono yn nghlawdd y Weirglodd Fach, perthynol i Ddolffanog, ond torwyd hi i lawr tua'r flwyddyn 1855, eithr y mae celyn yn tyfu eto yn y gwrych yn y fan lle yr oedd.

Encyd o bellder oddiar gapel Ystradgwyn, ond ar ochr y ffordd fawr a êl heibio iddo, ac wrth ben uchaf y Cae Coch, perthynol i Dolau Cau, neu Dolau Cai, buwyd hefyd yn pregethu gynt, ond yr oedd y fan hon y tu allan i derfynau Mawnog Ystradgwyn. Ryw amser yn ystod y bregeth ceisiai dwy fenyw aflonyddu ar y pregethwr, y naill trwy guro padell bres a'r llall trwy ei luchio a phridd. Tybir mai John Roberts, Llangwm, ydoedd y pregethwr ar y pryd, ac ymddengys fod sail lled dda i'r dybiaeth. Ryw dro, ond ai y pryd hwn ai ar amser arall nid ydys yn gwybod, darfu i'r fenyw a gurai y badell bres wasgu clustiau ei milgi neu filast, er peri i'r creadur nadu er mwyn dyrysu y gwasanaeth. Yr oedd y fenyw hon yn ferch Dolau Cau, ac o deulu yr etifeddion, ac yn brydyddes, ac feallai mai miliast ac nid milgi oedd y creadur a wasgai ei glustiau felly. O leiaf ymddengys fod miliast yn ei chartref yn ei hamser hi, o'r enw *Countes*. Canys ryw dro ymgyfarfu y ferch hon a Fychan y Gwyndyll a'u gilydd yn ardal Ystradgwyn, pan yn y cyfamser ymddangosodd ysgyfarnog iddynt, ac meddai hithau yn ebrwydd yn ei chylch,—

"Er meined yw dy feindroed,
Mae d' einioes bron a darfod;
Gwn na fyddi ronyn iach,
Mae *Countes* fach yn dyfod."

Ac atebwyd hi gan Fychan yn y fan yn y llinellau dilynol,—

"Er cymaint yw dy fales,
Ni chei na chig na photes;
Mi wn y cura i fynu'r rhiw,
Er cynted i'w dy *Gountes*."

Ond modd bynag am ryw y creadur, tebygol, iddi wasgu gormod ar ei glustiau iddo allu yn gysurus ddioddef, ac fel y bu goreu'r gwaith, darfu iddo, yn lle ei boddhau a'i lais aflafar beri iddi * deimlo rhyw gymaint ar awch ei ddanedd. Y mae y ffordd yn y fan

* Y mae yn ysgrifenedig mewn Beibl perthynol i'r diweddar Mr. William Pughe, Nant y Mynach, yn mhlwyf Tywyn, achrestr yn Saesneg i'r ystyr ganlynol.—Dafydd Gomero y preswylydd a breswyliai Dolyddcau fel ei etifeddiaeth ei hun yn mlwyddyn ein Harglwydd Dduw, 1388.—Ei ddisgynyddion a'i dilynasant hyd flwyddyn fy Arglwydd, 17.. Dafydd Gomero neu Gomery a genhedlodd Llywelyn, Llywelyn a genhedlodd Lewis, Lewis a genhedlodd John, John a genhedlodd Hugh Hugh a genhedlodd Richard, Richard a genhedlodd John,

Digitized by Google

y pregethid fel hyn wedi ei chulhau ar ol hyny. Buwyd yn pregethu rai gweithiau yn neu tua'r fan y pregethid y pryd hwnw, a hyny yn nghysgod coeden fasarn, pa un sydd erbyn hyn wedi ei chwympo. Ac y mae wrth gapel Ystradgwyn ddwy anedd * gysylltiedig a'u gilydd, yn yr uchaf o ba rai, yr hon sydd er's amryw flynyddoedd yn ddibreswyl, buwyd yn pregethu cyn adeiladiad yr addoldy hwnw. A bendithiwyd y cynulliad ynddi a diwygiad crefyddol.

Ceir mewn traethawd ysgrifenedig o eiddo y diweddar hen flaenor duwiolfrydig, gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, Robert Evans, Melin Aberllwyfeni, yr ymgynullai ychydig o bersonau i foddion crefyddol yn y Castell, hen dy ar dir Dafydd Wmphra, at yr hwn y cyfeiriwyd yn flaenorol. Eu nifer ydoedd tri o wyr, ac o chwech i ddeg o wragedd, a thair merch ieuainc, ond nid oedd fawr o gysondeb yn eu plith o ran cael moddion gras. Byddid yn cyhoeddi pregeth i fod yno ymhen tair wythnos neu fis, gan na fyddai hanes am neb pregethwr i'w gael yn nghynt. Er hyny, dalient ati i gyd-ymgynull, ac felly y buont am flynyddoedd, a'r wlad yn edrych arnynt yn ddiystyr iawn, gan eu bod yn troi oddiwrth y Llan, ac yn eu cyfrif yn "hereticiaid hollol." Ryw bryd yn yr amser hwnw, daeth Dafydd Richard, Hafod y Goeswen, gwr rhinweddol, meddir, yno i gadw ysgol, a dysgodd lawer o blant i ddarllen yn dda, ac y mae yr olaf o honynt wedi huno er y flwyddyn 1864. Yn y cyfamser, ar ol ei ymadawiad, cafodd y gwyr da oeddynt yn gofalu am yr achos yno ar eu meddyliau i gadw ysgol Sabbothol, er mwyn cadw y plant rhag anghofio yr hyn a ddysgasant. Ac fel hyn y bu y dechreu, sef ryw Sabbath nad ydoedd neb yn pregethu yn yr hen dy yr arferent ymgynull iddo, pryd y digwyddai fod yn dywydd anarferol, nes yr ydoedd pawb yn llechu i mewn; aeth teulu Abercorus,—pob un a

**John a genhedlodd * Hugh, Hugh a genhedlodd Catherine o Margaret † Pughe, o Gwmrhwyfor, ei unig ferch a'i unig etifeddes, yr hon o briododd Rice Pughe, Dolaugwyn neu Bod Ilan, yr hwn a gafodd o honi naw o blant, enwau ac oedran pa rai ydynt i'w cael yn ysgrifenedig islaw yn ol eu genedigaeth, &c.—**

**Hugh Pughe a anwyd Awst y 27ain, 1722.**
**Margaret ‡ Pughe a anwyd Awst y 25ain, 1724.**
**John Pughe a anwyd dydd Sul, Ionawr y 25ain, 1726.**
**Elisabeth Pughe a anwyd dydd Sul, Hydref y 7fed 1727.**
**Rice Pughe a anwyd dydd Gwener, Tachwedd y 13eg, 1730.**
**Dafydd Pughe a anwyd dydd Sul, Hydref y 24ain, 1732.**
**Catherine Pughe, a anwyd dydd Iau, Medi y 22ain, 1734.**
**Lewis Pughe a anwyd dydd Sul, Hydref y 24ain, 1736.**
**Gwen Pughe a anwyd Hydref 23ain, 1738.**

*** Nid yw y Saesneg am genhedlodd agos yn gyflawn yn y gwreiddiol.**
**† Nid yw Puwiaid Rhiwogo yn disgyn o'r Margaret Pughe uchod.**
**‡ Y Margaret Pughe hon yw yr un y cyfeirir ati, fel yn brydyddes.**

*** Gelwir hwy Ty'nywins.**

Digitized by Google

allai,—i ddarllen, a chawsant oll flas mawr ar y gwaith; a phenderfynasant gael ysgol yn yr hen dy y byddid yn arfer ymgynull iddo i foddion gras, sef y Castell, y Sabbath dilynol, ac felly rhoddwyd y gair allan y cedwid ysgol yn y Castell y Sabbath nesa'. Gwnaeth y tri brawd oeddynt yn gofalu am yr achos gytundeb â'u gilydd i wasanaethu yr achos gartref ar gylch bob yn ail, sef i un o honynt ofalu am dano yn Nghorus bob Sabbath, ac i'r ddau arall yn eu cylchoedd gael bod yn rhydd i fyned i ardaloedd eraill lle y gallent gael clywed pregethau. Felly elent weithiau i Fachynlleth, ac waith arall i Ddolgellau, Tywyn, neu Lanwrin.

Oddeutu yr amser y daeth y Ffrancod i Abergwaen, sefydlwyd ar fod cyfarfod gweddi i gael ei gynal am naw o'r gloch bob dydd Mercher, a gwnaed hyny, fel y tybir, gan y Llywodraeth. Weithiau byddai amgylchiadau yn lluddio i'r un o'r tri gwr a nodwyd i fod yn y cyrddau gweddiau hyn, ac o'r herwydd cadwai y gwragedd y moddion hebddynt. A rhyw dro, pan yr ydoedd un hen wraig yn enau cyhoeddus, wedi iddi ddweyd ychydig o eiriau, distawodd am enyd, ond pan gafodd ei hanadl ati, dywedodd, "Gwna di, Catrin bach, yr wyf fi yn methu." Ac adroddai un ydoedd yno yn gwrando ei fod yn un o'r cyfarfodydd difrifolaf y bu ynddo erioed, yn ol fel yr ysgrifenai y dywededig Rolant Evans.

Yr ydys wedi crybwyll eisoes am fam yn nghyfraith Dafydd Wmphra, a cheir yn awr ychwanegu yn ei gylch. Dywedir yn "Hanes Methodistiaid Cymru" o barth iddi fel hyn:—"Yr oedd Jane Roberts a'i gwr yn dal tyddyn* o eiddo gŵr bonheddig tra erlidgar, yr hwn oedd yn byw rai milldiroedd oddiwrthynt. Yr oedd ei theulu yn lliosog, nid llai nag un ar ddeg o blant.† Anfonwyd rhybudd, pa fodd bynag, i ymadael â'r tyddyn. Aeth y gwr at ei feistr tir i ymofyn am gael aros eilwaith yn ei dyddyn, a chafodd addewid o hono, ar yr amod i'r wraig ymadael â'i chrefydd. Dychwelodd John Roberts adref, a gofynodd y wraig iddo:—

'Wel, John bach, sut a fu gyda'r gwr boneddig?'

'Canolig,' ebe John, 'gallasai fod yn waeth.'

'A gewch chwi y tir eto?' gofynai y wraig.

'Caf,' ebe John, 'ond i ti ymadael â'r bobl yna.'

'Wel, John bach,' ebe Jane, 'os ydych chwi yn tybied mai gwell i chwi ac i'r plant fyddai i mi ymadael, ymadael a wnaf â chwi, ond nid â nghrefydd byth.'"

Ymddengys mai i brofi y wraig y dywedwyd hyn, oblegid ni bu raid iddi ymadael â'i thyddyn, na'i theulu, nac â'i chrefydd.

* Sef y Rugog.

† Ystyrir na fu ganddi gymaint, os na fuont feirw yn eu babandod.

Digitized by Google

Nid oedd yr hen Gastell, mwy na thai eraill y pryd hwn, wedi ei gofrestru yn ol y gyfraith i bregethu ynddo; a phenderfynai y gŵr* bonheddig dreio beth a wnai dull arall o erlid tuag at lethu yr heresi newydd ag oedd yn ymdaenu mor arswydus ymhob man. Yr oedd yn cadw rhyw nifer o filwyr, gan ei bod yn amser rhyfel poeth â Ffrainc; ac wedi clywed fod pregethu yn cael ei gynal mewn tŷ, heb gael ei gofrestru, meddyliodd y mynai efe ddal gŵr y tŷ, a chynifer a geid yn ymgynull yno, a'u dirwyo oll, yn ol y gyfraith, o dan y *Conventicle Act*. Yr oedd deg neu ddeuddeg o'r milwyr hyn ar y ffordd tua'r Hen Gastell, dan arfau, i ddal y crefyddwyr; ond daeth hyn i glustiau rhywun a ewyllysiai yn dda iddynt, a rhedai hwn tra y gallai,—un arall a gymerai y newydd ac a redai yr un modd, ac felly o un i arall, cerddai y newydd am ddyfodiad y milwyr yn gynt na'r milwyr eu hunain. Pan glybu Dafydd Humphrey y newydd, brysiodd a chymerodd y pwlpud o'r Hen Gastell, gan ei gario ar ei gefn, a'i guddio dan wellt yn y beudy; yntau a ymguddiodd ei hunan mewn rhedyn yn ngolwg y ffordd. A gwelwn, meddai, y fyddin arfog yn dyfod dan saethu, nes oedd y mwg yn llenwi cwm Corris o ben bwy gilydd. Anfonwyd un o'r gweision i ymofyn am danaf fi, a phan ddywedodd fy ngwraig nad oeddwn yn y tŷ, gorchymynodd i mi fyned at ei feistr dranoeth. Ar hyn aethant ymaith heb wneyd dim llawer o niwaid mwy nac afradu cryn lawer o bylor. Tranoeth aeth Dafydd Humphrey at y gwr mawr, ac wedi arwain y troseddwr i wydd ei arglwydd, gofynwyd iddo:—

A wyt ti yn gosod y tŷ i bregethu ynddo?

Ydwyf Syr, oedd yr ateb.

I bwy? gofynai y boneddwr.

I Vaughan Jones,† Syr, ebe yntau.

Rhaid i Vaughan Jones ateb i'r gyfraith, ebe y boneddwr.

Aeth yr achos i'r Chwarter Sesiwn i'r Bala, ond nid oedd Vaughan Jones ar gael, ac nid oedd cyfreithiwr ychwaith, erbyn hyn, a gymerai yr achos mewn llaw; felly disgynodd yr erlyniad i'r llawr.‡"

Dywedir y gwylid am ddyfodiad y milwyr ar fynydd Dolffanog, a phan ddeallwyd eu bod yn dyfod, i'r sawl ydoedd yn gwylio redeg i hysbysu chwiorydd yn nghyfraith§ Dafydd Wmphra, sef merched y Rugog, ag oeddynt yn cyweirio gwair ar y tyddyn hwnw, y rhai a anfonasant ato i'w hysbysu o'r ffaith.

---

* Sef Mr. Corbett, Ynysmaengwyn.

† Sef Fychan y Gwyndyll.

‡ Methodistiaeth Cymru, cyf. i.

§ Neu yn fanwl, haner chwiorydd yn nghyfraith, oddieithr bod feallai un yn gyfan felly.

Digitized by Google

Wedi yr ymddiddan a gofnodwyd rhwng mam-yn-nghyfraith Dafydd Wmphra a'i gwr, dywedir fyned o honi ar gefn ei cheffyl at y tir-feistr i Ynysmaengwyn, gan fyned yn ei blaen i wyneb y palas, ac i hwnw wrth ei gweled yn dyfod, gael ei daraw gan ei harddwch. Cafodd lythyr ganddo yn peri i'w gwr fyned i Ynysmaengwyn, yr hwn pan aeth a holid gan berchenog y tir pa fodd a pha le y cafodd ei wraig, mai dynes 'glyfar' ydoedd. A dywedodd yn mhellach wrtho y cai ei dir a thriugain mlynedd o brydles arno oherwydd fod ganddo wraig mor synhwyrol. Ond ni chymerodd mo'r tir ar unrhyw delerau ar y pryd, ond ymddengys ddarfod iddo wneyd wedy'n. Cyfeirir at y wraig hon yn y dyfyniad a roddwyd allan o 'Hanes Methodistiaeth Cymru,' fel Jane Roberts. Eithr wrth wneyd hyny, dilynid ei chyfenw morwynol; ac yn ol a ddywedir, adnabyddid hi wrth y cyfenw hwn ar ol iddi briodi, yr hyn a wnaeth ddwywaith, Ac o ran hyny, dyna y cyfenw a olygir ar ei beddfaen yn mynwent Talyllyn. Canys yn y fynwent hon y mae dwy gareg ar eu gorwedd yn gyfochrog a'u gilydd, wrth ben gorllewinol claddfa Llwyndolithel—un o honynt ei beddfaen hi, a'r llall un ei hail wr. Ac ar yr eiddo hi y mae y llythyrenau penigol J. ac R., gan olygu ei henw a'i chyfenw Jane Roberts; ac ar ei un yntau y mae y llythyrenau penigol J. a G., y rhai a olygant John Griffith (Shon Gruffydd) ei hail wr. Bu ef farw yn y flwyddyn 1813, yn 74 mlwydd oed; a hithau, fel yr ymddengys, yn y flwyddyn 1800, yn 59 mlwydd oed.

Ei rhieni oeddynt Dafydd ac Elisabeth Roberts o Gwynfynydd, neu Gefndeuddwr, yn ol a ddywedir, ac yn ddiweddarach o Nannau.* Ond nid yw yn ymddangos y bu eu trigiad yn faith yn y lle olaf hwn. Ei gwr cyntaf ydoedd Ywain Puw, mab Huw Ywain o'r Faner, yn nghymydogaeth Llanelltyd, i'r lle yr aeth hithau i fyw ar ol eu priodas. Bu iddynt dri o blant, sef Dafydd, Elisabeth, a Jane.

Ymbriododd y Dafydd hwn—Dafydd Owen, âg un Lywri Gruffydd, a bu iddynt bedwar o blant, sef y diweddar, erbyn hyn, Owen Owens,

* Y mae Gwynfynydd a Chefndeuddwr yn mhlwyf Trawsfynydd, ond Nannau sydd yn mhlwyf Llanfachraith. Tybiai un hen wr yn gryf iddo glywed mai o Gefndeuddwr y daethant i Nannau. Yr ydoedd Dafydd Roberts ei thad yn dir-ddeiliad Nannau, ac ymddengys y bu tir-ddeiliad neu dir-ddeiliaid y lle hwn yn trigianu mewn anedd neu dyddyndy gerllaw y palas, ac y bu, ar un adeg, un neu ychwaneg o honynt, yn ddilynol i'w gilydd, yn trigianu mewn rhan o'r hen alasdy, cyfran o ba un sydd yn cynorthwyo i wneyd i fyny y palasdy presenol. Ond bu gwr ydoedd yn byw yn nhyddyn a elwir y Ddwyryd, yn nghymydogaeth Corwen, yn dal tyddyndir Nannau o dan ardreth, oddigerth pedwar o gaeau, am ddwy flynedd o amser, ryw naw neu ddeng mlynedd ar hugain yn ol i'r flwyddyn 1838. Ond nid ydys i ddeall ei gosodid bob amser i dir-ddeiliad, ac ni wneir hyny yn awr. Gosodid y pedwar cae eithriadol hyny,—tri o honynt i wr eglwysig Llanfachraith ar y pryd, a'r llall i un a fu yn glochydd yno, pa un bynag a ydoedd felly ar y pryd ai nid ydoedd.

Digitized by Google

yr hwn a fu farw yn Nolgellau, yn y flwyddyn 1887. Ond y mae ei fab o'r un enw a chyfenw ag yntau yn byw yn yr un dref, a chanddo nifer o blant amddifaid o'u mam. Mab arall i'r dywededig Dafydd Owen a Lywri ei wraig ydoedd Gruffydd Owen o Dderwas, yn mhlwyf Dolgellau, lle y mae ei weddw a mab a merch iddynt yn ei oloesi. Bu John, mab arall i'r unrhyw Ddafydd Owen a Lywri ei wraig, farw yn ieuanc, ond ymbriododd Margaret eu merch â William Bebb, Rhiwgriafol, yn Swydd Drefaldwyn, eithr ymfudasant hwy a'u plant i America.

Ymbriododd Jane merch ieuangaf i'r dywededig Jane Roberts ac Ywain Puw, â Robert Cadwaladr, a bu iddynt dri o blant, sef Jane, a John, yr hwn a fu farw yn ieuanc, ac Owen yr hwn a aeth i'r America. Ac ŵyr trwy ei fam, yr hon ynghyd a'i dad sydd yn fyw, i'r ddywededig Jane a'i phriod, Robert Cadwaladr, ydyw Mr. E. W. Evans, Swyddfa'r 'Goleuad,' Dolgellau, i'r hwn y mae brodyr a chwiorydd.

Merch arall i'r ddywededig Jane Roberts ac Ywain Puw ydoedd Elisabeth, yr hon yn ol a ddywedir ydoedd chwaer efeilles i'r dywededig Dafydd Owen ei brawd. Ymbriododd yr unrhyw Elisabeth â'r crybwylledig Ddafydd Wmphra, o Abercorus wedi hyny. Bu farw Ywain Puw, pan nad ydoedd ond 36 mlwydd oed. Ac ymhen amser ymbriododd Jane Roberts, ei weddw, â John Gruffydd, brodor o Lanfachraith, yr hwn ar y pryd ydoedd yn hwsmon i'w thad yn Nannau, i ba le yr ymsymudodd hi a'i phlant i fyw ar ol ymbriodi ag ef.

Gosodir allan yn 'Hanes Methodistiaeth Corris a'r Amgylchoedd,' i Griffith, un o'i phlant o'r ail wr, farw yn ddibriod. Eithr nid felly fu, canys ymbriododd y gwr hwn, Gruffydd Jones fel ei cyfenwid, ddwy waith, a bu iddo blant, mab a merch, o'r gyntaf, ond o'r ail ni bu iddo yr un. Bu farw y ferch yn ieuanc, ac ymbriododd y mab, John Jones, o'r Llwyn,—Llwyndolithel, yn Ystradgwyn, â Sarah, merch John Pughe, o Riwogo, lle yn y gymydogaeth, ill dau wedi meirw, eithr y mae iddynt hiliogaeth. Gwraig gyntaf y Gruffydd Jones uchod, sef Gruffydd Jones o'r Llwyn crybwylledig ydoedd Sarah, merch i Thomas Robert, a Sarah Prys ei wraig, o'r unrhyw Lwyn, y rhai a ddaethant i fyw yno o dueddau Talysarnau a'r Penrhyn, yn y swydd hon, Meirionydd, eithr cyn cyraedd yno, buont yn trigianu am ryw hyd mewn tyddyndy o'r enw Bryn Mawr, yn nghymydogaeth Dolgellau. Chwaer i Sarah, priod y Gruffydd Jones a nodwyd ydoedd Lywri, gwraig Owen Dafydd, Dolaucau, yn Ystradgwyn, yr hon a fyddai yn gwneyd gorchwylion teuluaidd yn y nos neu cyn dydd, digonol er cael y gegin yn rhydd i Lewis Wil-

Digitized by Google

liam,—Lewis William, Llanfachraith, fel ei hadwaenir, gael lle i gadw ysgol ddyddiol am y tymor y bu yn dwyn ymlaen yr unrhyw yn y lle. Ymbriododd Ann, chwaer iddynt, â Richard Evan, mab Ty'n Llechwedd, ac aethant i fyw ar ol priodi i Faes y Bwlch, lle yn y gymydogaeth. Elin, chwaer arall iddynt a briododd John Evans,—Shon Evan, un o gyffiniau Dolgellau, ac aethant i fyw i Dy'n y Maes, yn Ystradgwyn. Bu hi farw gan adael hiliogaeth o hono ar ei hol. Wedi hyny, cymerodd yntau ail wraig, ac ymhen amser symudasant oddiyno i Dy'n y Fach, yn mhlwyf Llan Fihangel y Pennant, ond ni fu iddynt blant. Ymbriododd Mari, un arall o'u chwiorydd â Morris Evans, Brynllwyd, yn mhlwyf Penal, ac aeth Owen Evans, un o'u meibion, i'r America, lle bu farw, gan adael ei briod a phlant iddynt yno i'w oloesi.

Mab i'r crybwylledig Ddafydd Wwphra ac Elisabeth ei wraig, ferch y Jane Roberts hon o'i gwr cyntaf, y dywededig Ywain Puw, ydoedd Mr. Humphrey* (Wmphra) Dafydd, Ty Newydd, Corus, yr hwn a fu yn flaenor gyda'r Trefnyddion Calfinaidd am dros haner can' mlynedd. Yr ydoedd yn cael ei ystyried yn wr bywiog, di-ymdroi, dysyml, a pharod i wneyd ei oreu gyda phob gwaith da. Ac yr oedd ei ddylanwad yn gymaint ar yr ieuenctyd fel yr ofnent gellwair ac arfer iaith anweddus yn ei ŵydd. Bu farw yr 31ain o Ragfyr, 1873, yn 83 mlwydd oed, a rhoddwyd ei ran farwol i orphwys yn y fynwent wrth addoldy Rehoboth, Corus, yr hon a gyflwynasai yn rhodd i fod yn perthyn i'r unrhyw addoldy.

Ail adeiladwyd yr addoldy hwn ddwywaith ar ol ei gyfodiad y tro cyntaf, a'r dywededig Ddafydd Wmphra a roddodd yr adeilad cyntaf o hono ynghyd a'r tir ei cyfodwyd arno i'r Trefnyddion Calfinaidd, ar brydles o ddau can' mlynedd o amser, a hyny am swllt yn y flwyddyn o ardreth. Ac y mae y Weithred am yr unrhyw gan ei orwyr, Mr. W. R. Davies, cyfreithiwr, Dolgellau, a rhed ei chynwys i'r ystyr ddilynol:—

Y DDEINTYSGRIF HON a wnaed yr wythfed dydd ar hugain o Hydref ym mlwyddyn ein Harglwydd un mil, wyth gant, a phedair ar bymtheg CYDRHWNG Dafydd Humphrey o Abercorus, yn mhlwyf Talyllyn, yn Swydd Feirionydd, ac Ann Lloyd o dref Dolgellau, yn y ddywededig swydd dibriod (yr hon sydd dir-wystlai am dymor o flynyddoedd o'r tir a drosglwyddwyd yn y weithred hon) o un blaid, a John Roberts, Llangwm, yn Swydd Ddinbych, amaethwr, Robert Gruffydd o'r rhagenwedig dref Dolgellau, hetiwr, Lewis

* Y mae mab iddo, sef Mr. Humphrey Davies, Ty Newydd, Corus, yn flaenor gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, yn addoldy Rehoboth, Corus, ac hefyd yn Ynad Heddwch dros Swydd Feirionydd.

Digitized by Google

Morris o blwyf Llangelynin yn y ddywededig Swydd Feirionydd, John Peters o'r Bala, yn mhlwyf Llanycil, yn y ddywededig Swydd Feirionydd, cyfrwywr, Ffoulk Evans o Lanuwchllyn yn y ddywededig Swydd Feirionydd, panwr, Lewis Pugh o Gorus, yn y rhagenwedig blwyf Talyllyn, amaethwr, Owen Evan o Dyddynmeurig yn y dywededig blwyf Llangelynin, amaethwr, a John Jones, Penyparc, yn mhlwyf Tywyn, yn y ddywededig Swydd Feirionydd, amaethwr, o'r blaid arall. YN GYMAINT ag i'r dywededig John Roberts, Robert Gruffydd, Lewis Morris, John Peters, Ffoulk Evans, Lewis Pugh, Owen Evan, a John Jones, gyda rhoddion elusenol y bobl a elwir Trefnyddion yn dal erthyglau athrawiaethol Eglwys Loegr fel eu heglurir yn Galfinaidd gyfodi ac adeiladu Addoldy ar ran o dir y dywededig Ddafydd Humphrey, llĕedig yn mhlwyf Talyllyn, yn y ddywededig swydd, pa un a fwriedir ei ddefnyddio fel lle o addoliad crefyddol i'r dywededig bobl a elwir yn Drefnyddion; YN AWR Y MAE Y DDEINTYSGRIF HON YN TYSTIOLAETHU YN ogystal mewn ystyriaeth o'r còstau a'r treulion a osodwyd allan felly ac a wariwyd yn adeiladiad yr addoldy dywededig fel y rhagddywedwyd ag o'r ardreth flynyddol, cyfamodau, amod a'r cytundebau crybwylledig wedi hyn, eithriedig a chynwysedig o du yr amod-ddeiliaid enwedig yn y weithred i gael ei thalu a'i chyflawni; DARFU IDDI HI y ddywededig Ann Lloyd (ar gais a chyfarwyddid y dywededig Ddafydd Humphrey) drosglwyddo, prydlesu, a rhoddi dan ardreth, A thrwy y weithred hon, Y MAE yn trosglwyddo prydlesu, gosod, a dodi dan ardreth; A DARFU i'r dywededig Ddafydd Humphrey drosglwyddo, prydlesu, gosod a rhoddi dan ardreth, cadarnhau a sefydlu, A thrwy y weithred hon, Y MAE yn trosglwyddo, prydlesu, gosod, a rhoddi o dan ardreth, cadarnhau a sefydlu i'r dywededigion John Roberts, Robert Gruffydd, Lewis Morris, John Peters, Ffoulk Evans, Lewis Pugh, Owen Evans, a John Jones Y tŷ newydd adeiladedig hwnw neu yr adeilad, a gyfodwyd ac a adeiladwyd ar ran o dir yn perthyn i dyddyn a thiroedd a elwir Abercorus, yn gorwedd yn y rhagenwedig blwyf Talyllyn pa un a ddefnyddir yn awr fel addoldy ac ysgol, ac hefyd ddwy lath o led o'r tir cysylltiedig, a'r oll o'r tu cefn a'r pen dwyreiniol o'r dywededig addoldy, ac hefyd yr holl dir sydd yn gorwedd o flaen y dywededig addoldy ag a orwedd rhwng yr unrhyw a'r nant fechan a red o'i flaen, YNGHYD a'r oll a phob ffordd, dyfrffos, breintiau, etifeddiaethau a pherthynolion pa bynag perthynol i'r dywededig adeilad, addoldy, a thiroedd, I DDAL A CHYNAL y dywededig adeilad, addoldy a thiroedd trosglwyddedig yma yn flaenorol gyda'r perthynolion i'r dywededig John Roberts, Robert Gruffydd, Lewis Morris, John Peters,

Digitized by Google

Ffoulk Evans, Lewis Pugh, Owen Evan, a John Jones, eu holweinyddion, gweinyddion, a daeredwyr, o'r deuddegfed dydd o Fai a aeth heibio ddiweddaf yn awr am y tymor o ddau can' mlynedd ac i gael eu cwbl gyflawni a dod i ben, YN RHODDI A THALU am hyny yn flynyddol a phob blwyddyn yn ystod y dywededig dymor yr ardreth flynyddol o un swllt o arian cyfreithlon prydeinig yn un llawn daliad digoll o bob trethoedd pa bynag, y taliad cyntaf o honi i ddechreu ac i'w wneyd ar y deuddegfed dydd o Fai a ddilyno nesaf yn awr, AC y mae trwy hyn yn gytunedig a datganedig gan bob plaid i'r weithred hon, ac yn neillduol y mae y dywededig amod-ddeiliaid pleidiau wrthynt drwy hyn bob un ar ei ben ei hun ac ar ran eu gwahanredol olweinyddion, gweinyddion a daeredwyr, yn mynegu a chytuno, Y CAIFF y dywededig amod-ddeiliaid ac ymddiriedolwyr pleidiau i'r weithred hon, a'u holweinyddion, a'u gweinyddion, a phob cyfryw berson neu bersonau ag a enwir yn y dyfodol yn ymddiriedolwyr i'r dibenion mynegedig yn y weithred hon, a'u holweinyddion, a'u gweinyddion, sefyll a meddianu a bod yn gyfranog yn y dywededig adeilad addoldy a thiroedd a drosglwyddwyd trwy hyn MEWN ymddiriedaeth yn unig i'r diben fod i'r unrhyw addoldy a thiroedd gael o bryd i bryd a phob amser yn ystod y dywededig dymor eu defnyddio a'u mwynhau fel ag i fod yn lle o addoliad cyhoeddus ac i gadw ysgol neu unrhyw wasanaeth crefyddol gan y gymdeithas neu'r gynulleidfa o bobl a elwir Trefnyddion yn dal erthyglau athrawiaethol Eglwys Loegr fel eu heglurir yn Galfinaidd, AC AR YR YMDDIRIEDAETH PELLACH HON i ganiatau i'r cyfryw berson neu bersonau yn unig ag a enwir ac a drwyddedir mewn cymanfa chwarterol y dywededig bobl a elwir Trefnyddion, yn unol â rheolau yr unrhyw bobl a barchwyd yn y cyfryw gymanfa chwarterol, wrth enwi a thrwyddedu pregethwyr i addysgu, pregethu, ac egluro Efengyl Sanctaidd Duw yn yr unrhyw Addoldy. AC HEFYD YN YR YMDDIRIEDAETH PELLACH HON, os digwydd i'r pleidiau ymddiriedol i'r Weithred hon, neu unrhyw ymddiriedolwr, neu ymddiriedolwyr eraill ag a ychwanegir at y dywededig bleidiau ymddiriedol tuag at ddibenion ac amcanion yr ymddiriedau mynegedig ynddi gael ar unrhyw bryd ar ol hyn ei droi allan o Gymdeithas y Trefnyddion, yn rhinwedd y rheolau neu y trefniadau y wnaed neu a wneir er rheoleiddio yr unrhyw Gymdeithas, Yna, ac yn y cyfryw achos, ac yn uniongyrchol ar ol y cyfryw fwriad allan y caiff y meddiant hawl ac awdurdod yr oll; a phob ymddiriedolwr neu ymddiriedolwyr ag a droir allan felly o bryd i bryd beidio ynddo ef neu hwy, a myned a bod ym meddiant yr ymddiriedolwr neu yr ymddiriedolwyr eraill a fai am y pryd i'r dibenion a'r

Digitized by Google

amcanion ymddiriedol mynegedig yma yn flaenorol am ac mewn perthynas i'r unrhyw a'r cyfryw ymddiriedolwr neu ymddiriedolwyr a fwriwyd allan yn uniongyrchol, ar fod ar ei neu eu bwriad allan, ymryddhau neu roddi i fyny ei neu eu meddiant, hawl, ac awdurdod, yn neu i y dywededig ragenwedigion ymddiriedol i'r naill neu y lleill o'r dywededig ymddiriedolwr neu ymddiriedolwyr ar ei neu eu traul eu hun ar yr ymddiriedaethau, ac am y dibenion a'r amcanion mynegedig yma yn flaenorol mewn perthynas i'r rhagenwedigion trosglwyddedig trwy hyn, ac y mae drwy hyn yn mhellach yn fynegedig a chytunedig gan a chyd-rhwng y dywededig amoddeiliaid pleidiau i'r weithred hon drostynt hwy eu hunain a'u gwahanredol etifeddion, olweinyddion, a gweinyddion, pa bryd bynag y caiff y dywededig ymddiriedolwyr enwededig i'r dibenion crybwylledig yma yn flaenorol, trwy farwolaeth, bwriad allan, neu ryddhad, neu o fodd arall pa bynag gael eu lleihau i'r nifer o dri, yna fod i'r cyfryw dri o'r dywededig ymddiriedolwyr ar y pryd, neu y rhan fwyaf o honynt, enwi a phenodi cynifer o bersonau i gyflenwi lle yr ymddiriedolwyr blaenorol i'r dibenion crybwylledig yma yn flaenorol ag a wna i fyny y rhif o'r dywededig ymddiriedolwyr i'r amcanion crybwylledig yma yn flaenorol i chwech (yr unrhyw benodiad wedi yn gyntaf ei gyflwyno a'i gymeradwyo gan y ddywededig Gymanfa Chwarterol), ac yn uniongyrchol ar ol y cyfryw enwedigaeth, bydd i'r ymddiriedolwyr arosol neu oloesol, neu olweinyddion neu weinyddion yr ymddiriedolwyr oloesol, neu a fai ddiweddaraf yn aros, trwy drosglwyddiad digonol a sicrwydd yn y gyfraith, drosglwyddo y rhagenwedigion ymddiriedol dywededig, yn y fath fodd fel ag i effeithiol roddi yr unrhyw dŷ, addoldy a thiroedd yn meddiant y cyfryw ymddiriedolwr neu ymddiriedolwyr oloesol neu arosol (os bydd neb), ac yn y personau enwededig a phenodedig fel y dywedwyd yn flaenorol i'w dal a'u meddianu ganddynt, eu holweinyddion a gweinyddion, er hyn i gyd, ar yr unrhyw ymddiriedaethau, ac i ac er mwyn yr unrhyw amcanion a dibenion, ac o dan a darostyngedig i'r unrhyw alluoedd, datganiadau a chytundebau ag sydd yn fynegedig a datganedig yn a thrwy y weithred hon, o barth y dywededig ragenwedigion ymddiriedol, ac felly o bryd i bryd mor aml ag y byddo unrhyw o'r dywededig ymddiriedwyr gosodedig, fel ag y crybwyllwyd ddiweddaf, ddigwydd marw, neu gael eu bwrw allan o'r ddywededig gymdeithas, neu gael eu rhyddhau, neu fel arall, eu diswyddo oddiwrth yr unrhyw ymddiriedaeth, a'r pryd, ac mor aml ag y bydd i unrhyw ymddiriedolwr newydd gael ei enwi a'i benodi fel y dywedwyd yn flaenorol, y meddiant ymddiriedol ag a fo ar y pryd yn aros yn hawl yn y person ne'ur

H 2

Digitized by Google

personau yn marw felly, neu wedi eu rhyddhau, neu eu bwrw allan o'r ddywededig gymdeithas, neu fod wedi eu rhyddhau o fodd arall o'r ymddiriedaeth ddywededig, i gael yn berthynol gyda phob brys cyfleus ei throsglwyddo yn y fath fodd ag y bo i'r unrhyw fod yn effeithiol yn meddiant y cyfryw ymddiriedolwr newydd, a'r ymddiriedolwr neu ymddiriedolwyr oloesol neu arosol (os bydd neb) ar yr ymddiriedaethau a fynegwyd am danynt yma yn flaenorol, ac fod i bob cyfryw ymddiriedolwr newydd weithredu ymhob peth yn nhrefniad a gweinyddiad yr unrhyw ymddiriedaethau neu unrhyw o honynt mor gyflawn ac effeithiol ymhob perthynas a phe buasai ar y cyntaf wedi ei benodi trwy y weithred hon yn ymddiriedolwr i'r amcanion a ragfynegwyd, AC y mae y dywededig John Roberts, Robert Gruffydd, Lewis Morris, John Peters, Ffoulk Evans, Lewis Pugh, Owen Evan a John Jones, trwy hyn drostynt hwy eu hunain yn wahanredol a neillduol, a thros eu gwahanol etifeddion, olweinyddion, gweinyddion, yn cyfamodi, addaw, caniatau a chytuno i a chyda y dywededig Anne Lloyd, ei holweinyddion, gweinyddion, a daeredwyr, ac, hefyd, i a chyda y dywededig Ddafydd Humphrey, ei etifeddion a daeredwyr, trwy y weithred hon yn y modd canlynol, (hyny yw) y byddai iddynt hwy, y dywededig amod-ddeiliaid ac ymddiriedolwyr, eu holweinyddion, gweinyddion neu ddaeredwyr, dalu neu achosi taliad i'r ddywededig Anne Lloyd, ei holweinyddion, neu ddaeredwyr, neu y dywededig Ddafydd Humphrey, ei etifeddion neu ddaeredwyr, yr ardreth flynyddol neu y swm o un swllt o'r cyfryw arian ar y dydd a'r amser penodedig yma yn flaenorol i'r taliad o honi yn ddigoll oddiwrth bob trethi pa bynag, ac hefyd, yn ystod y tymor dywededig gadw y rhagenwedigion trwy hyn mewn trefn dda, ac yn niwedd y dywededig dymor neu ddibeniad arall cynt iddo, adael a rhoddi yr unrhyw i fyny i'r ddywededig Anne Lloyd, ei holweinyddion, gweinyddion neu ddaeredwyr, os byddai hi neu hwy yn dirwystlai neu dirwystlwyr o'r dywededig ragenwedigion a drosglwyddwyd trwy hyn, neu i'r dywededig Ddafydd Humphrey ei etifeddion neu ddaeredwyr, DAN AMOD YN WASTAD, ac y mae trwy hyn yn fynegedig a chytunedig gan a chyd-rhwng y dywededig bleidiau i hyn, mai eu gwirioneddol fwriad a'u meddwl hwy a'r weithred hon yw, os bydd i'r ardreth flynyddol, neu y swm o un swllt, neu ran o hono ddigwydd bod ar ol ac yn annhaledig ymhen haner cant o ddiwrnodau nesaf dros neu wedi y diwrnodau dywededig ar ba rai y dylai yr unrhyw gael ei dalu fel y dywedwyd yn flaenorol (ac wedi yn gyntaf ei gyfreithlon hawlio) Bydd yn gyfreithlon i'r dywededig Ann Lloyd ei holweinyddion, gweinyddion, neu ddaeredwyr cyhyd ag y byddo hi neu

Digitized by Google

hwy yn aros yn dirwystlai neu dirwystlwyr o'r dywededig ragenwedigion, ac hefyd i'r dywededig Ddafydd Humphrey ei etifeddion neu ddaeredwyr ar ol taliad y dywededig arian tirwystlaeth a'r llôg ar y dywededig ragenwedigion neu ran o honynt yn enw yr oll, gyflawn adoresgyn a chael eto adfeddianu a mwynhau yr unrhyw a phob rhan o honynt yn ol ei neu eu hawl cyntefig er unrhyw adran, amod, neu beth cynwysedig yn y weithred hon croes i hyny yn rhyw fodd, AC y maent hwy y dywededig Ann Lloyd a Dafydd Humphrey drostynt hwy eu hunain yn wahanredol a neillduol a thros eu hetifeddion, olweinyddion, a gweinyddion gwahanredol a neillduol ar wahan ac nid yn unedig neu un dros y llall o honynt, ond y naill drosti hi ei hun, a'r llall drosto yntau ei hun yn unig a hyhi dros ei hetifeddion, olweinyddion, a'i gweinyddion hi ei hun, ac yntau dros ei etifeddion, olweinyddion, a'i weinyddion ei hun hefyd, a'u gweithrediadau eu hunain yn cyfamodi addaw a chytuno i a chyda y dywededig amod-ddeiliaid ac ymddiriedolwyr, eu holweinyddion, gweinyddion, a daearedwyr trwy y Weithred hon, Mai trwy ac o dan yr ardreth flynyddol, cyfamodau, amod a chytundebau cynwysedig yn flaenorol yma ar ran y dywededig amod-ddeiliaid ac ymddiriedwyr, eu holweinyddion, gweinyddion, a daearedwyr y bydd iddynt hwy y dywededig amod-ddeiliaid ac ymddiriedolwyr, eu holweinyddion, gweinyddion a daearedwyr yn heddychol a llonydd gael dal, meddianu, a mwynhau y dywededig ragenwedigion trosglwyddedig yma yn flaenorol gyda'r perthynolion ar yr ymddiriedau ac i ac er mwyn yr amcanion a'r dibenion crybwylledig yma yn flaenorol, ac a ddatganwyd o barth yr unrhyw am ac yn ystod parhad y trosglwyddiad hwn heb unrhyw warafun, cyngwysiad, cynwrf, neu lesteiriad ganddynt hwy, y ddywededig Anne Lloyd, ei holweinyddion, gweinyddion, neu ddaeredwyr, neu y dywededig Ddafydd Humphrey, ei etifeddion neu ddaeredwyr, neu unrhyw berson neu bersonau, yn hawlio neu i hawlio yr unrhyw neu unrhyw ran o honynt trwy, oddiwrth, neu o tan hyhi, ef neu hwy, neu unrhyw o honynt, YN DYSTIOLAETH o'r hyn y mae y pleidiau rhagenwededig yn y weithred hon wedi gosod eu dwylaw a'u seliau y dydd o'r flwyddyn a ysgrifenwyd gyntaf uwchlaw.

Digitized by Google

## YR ELUSENAU.

Cymerwyd sylwedd y crybwylliadau canlynol am yr elusenau, oddieithr y mynegiad olaf, allan o'r adroddiadau a roddwyd gerbron y Senedd yn y flwyddyn 1834, at y rhai y cyfeiriwyd o barth elusenau y plwyfydd eraill. A dengys y rhai hyny y nodir yn yr adroddiadau a roddwyd gerbron y Senedd yn y flwyddyn 1786, ddarfod i'r Parch. John Owen roddi 20p. i'r tlodion, a bod yr arian ar y pryd wedi eu gosod yn meddiant Mr. Anwyl. Yn adeg ymweliad y dirprwywyr a roddasant yr adroddiadau sydd yn sail i'r crybwylliadau hyn, derbynid 1p. yn flynyddol gan y gwarcheidwaid eglwysig, oddiwrth Mr. Thomas Owen, perchenog etifeddiaeth a elwid Ty'n y Ceunant, yn mhlwyf Tal y Llyn, pa un a ddyledwyd â'r flwydd-dâl hon. A dosberthid yr unrhyw ynghyd â'r elusenau eraill a enwir yn ddilynol, gan y gweinidog a'r gwarcheidwaid eglwysig, ar bob dydd Nadolig, rhwng tlodion y plwyf yn gyffredinol, mewn dognau yn amrywio o 1s. i 3s.

Mynega adroddiadau 1786 hefyd, i Catherine Hughes roddi 40p. i'r tlodion, y rhai ar y pryd oeddynt wedi eu gosod yn meddiant William Nannau, John Anwyl, a John Owen. Ac yn amser ymweliad y dirprwywyr a nodwyd, derbynid 13s. 4c. yn flynyddol oddiwrth bob un o'r etifeddiaethau canlynol, sef, Maes y Pandy, Hengae, a'r Ddolgoed.

Dywed yr adroddiadau a roddwyd o flaen y Senedd yn y flwyddyn 1834, y mynega adroddiadau 1876 yr elusenau canlynol i'r tlodion:—

| | P. | S. | C. |
|---|---|---|---|
| John Arthur . . . . . . . . | 20 | 0 | 0 |
| Elisabeth Edwards . . . . . . . | 5 | 0 | 0 |
| Ac y mynegid gan y gweinidog ddarfod i Hugh Pugh oddeutu'r flwyddyn 1812, roddi trwy ei ewyllys . . | 10 | 0 | 0 |
| | P 35 | 0 | 0 |

Dywed adroddiadau 1834, ddarfod rhoddi 20p. John Arthur yn

menthyg i warcheidwad eglwysig blaenorol, yr hwn a aeth yn feth-dalwr, ac mai 5p. yn unig o honynt a gafwyd oddiwrth ei bethau. Fod y swm o 20p. yn nwylaw glwys warcheidwaid y plwyf, mewn rhanau cyfartal, ar eu sicrwydd hwy eu hunain, am ba rai yr oeddynt yn talu llôg blynyddol o 20s., pa rai a ddosberthid fel y mynegwyd yn flaenorol. Ond y cyfarwyddodd y dirprwywyr ar i'r arian hyn gael eu galw i mewn, allan o law, a'u rhoddi yn ariandy cynilion Dolgellau, yn enwau y gweinidog a'r glwys warcheidwaid; er budd y tlodion, yr hyn yr ymgymerasant i'w wneyd.

Ni thelir dim o'r elusenau hyn yn awr er's nifer o flynyddoedd; yr elusenau o Faes y Pandy a dalwyd ddiweddaf o honynt.

Digitized by Google

## PLWYF PENAL.

Yn ol y Parthiadau y bu Gwynedd unwaith yn cael ei chydnabod wrthynt, yr oedd y rhanbarth a gynwys y plwyf hwn yn gorwedd ar y pryd o fewn Cantref Meirionydd, ac yn Nghwmwd Penal. Yr ydys yn parhau, yn hanesyddol, i alw y Gantref hon yn Gantref Meirionydd, eithr yn gyfreithiol y mae wedi cael ei rhanu yn ddwy, sef Cantref Tal y Bont a Chantref Ystumaner; ond yr ydys yn awr yn galw y cwmwd y gorwedd ynddo yn Gwmwd Penal, eithr tebygol y cofnodwyd yn ei gylch fel man yn Nghwmwd Ystumaner yn amser Edwart y cyntaf neu yr ail.

Fel y sylwir mewn lle arall, yr oedd rhan o Feirionydd yn cael ei alw yn Gwmwd Penal yn y dosbarthiad a wnaed ar Gymru yn amser y tywysog Llywelyn ab Gruffydd. Eithr yn yr enwau ar ranbarthau'r wlad o dan y penawd "Parthau Cymru," ag y crybwyllwyd yn barod nas gwn ei amseriad, gadawyd Penal allan, beth bynag oedd yr achos.

Y mae gwahanol ddywediadau am ystyr yr enw Penal, ac yn gyffredin rhoddir dwy *n* wrth ei ysgrifenu; eithr ni roddir ond un yma, gan yr ymddengys nad oes eisiau ychwaneg er dangos ei ystyr. Dyga y plwyf enw rhyw wrthddrych, pa beth bynag oedd hwnw. Diameu mai sefydliad yr eglwys a barodd neillduo yn blwyf y rhanbarth a gynwysa. Ond prin y gellir ystyried mai yr eglwys a dderbyniodd yr enw gyntaf yn y gymydogaeth. Dywed y Gwyddoniadur Cymreig mai Penôl a feddylir wrth yr enw Penal; ond gesyd Cathral mai Panael neu Penallt yw yn ol Ecton. Ond, pa fodd bynag am y dyfaliadau hyn, nis gellir cymeryd yr un o honynt fel yn derfynol yn ei gylch. Cyfeirir ato mewn hen gofnodion Lladinaidd o amser Edwart I. neu Edwart II. fel Pennal a Penale. Eithr y mae yn yr unrhyw hen gofnodion lawer o lygriadau enwol, ac nid unffurf fel hyn yw sillebiaeth enw y lle hwn ynddynt. Ym Mharthau Cymru, o amser y tywysog Cymreig Llywelyn ab Gruffydd, cyd-oesydd âg Edwart I., y mae yn cael ei ddwyn i sylw fel Pennal. Ond ym Monedd y Saint, y mae yn cael ei ddwyn i sylw fel Penial yn y

Digitized by Google

ffurf o Mhenial, yn y crybwylliad canlynol:—"Dannwc a Samarws y Saint ym Mhenial ym Meirionydd."

Yn awr os mai Penial yw y ffurf gyntefig, gallai, o ran ystyr y fath enw ynddo ei hun, olygu y brif neu y ben dinas, neu ynte benffestyn, neu helm. Ac os mai yr ystyr o ben dinas neu brif ddinas sydd gywir, gallai i'r enw gael ei gymeryd oddiwrth yr hen amddiffynfa Rufeinig oedd tua'r fan y mae y tyddyndy Cefn Caer. Ond ar ymweliad brysiog â phlwyf Blaen Penal i geisio cael allan beth allai fod ystyr yr enw Penal yn Meirionydd, ni chefais allan fod unrhyw olion amddiffynfa o'i fewn. Eithr, er hyn, gall fod, ond na wyddai y rhai y bum yn eu holi ddim am danynt.* Modd bynag, gall, yn nghysylltiad â Phenal yn Meirionydd, mai Penial neu Pen Iâl yw ei ffurf enwol yn briodol, gan olygu wrth y dull blaenaf, helm neu benffestyn; a golygu wrth y llall, y tir agored neu ben y tir teg neu brydferth. Ond boed fel y b'o, nis gellir yma benderfynu ar ei ystyr.

Cyfeiria yr hen gofnodion Lladinaidd a nodwyd, fel yr ymddengys, at y derbyniadau i'r trysorlys, a rhedant fel hyn:—"Resnauk.—De terra Rosmauk† Kevenstresalet in sunt tres carucate terre lxs. In villa de Pennal.

De quobus hominibus in eadem de medietate vaccarum suarum xxs. De eadem villa pro ponnagio porcorum vs. et hoc pertinet ad castrum. De terra Yerward Vaghan in eadem de redditu annuo iijs, iiijd.

Summa iiijli. viigs. iijd. Probatur." "Penale molendinum.—De molendino ville Penale xls. De quadam piscaria in eadem xlvs. De duabus partibus duorum molendinorum in Cachelon Treneryth xxiiij crannoca farine xlviijs. De mediate unius molendi Davidis Voyl vs. De quadam piscaria que vocatur Tabyth Lyn xijd. et est in calumpnia si Dominus Rex debeat piscare pro voluntate sua vel non

Summa vjlixixs. Probatur."

---

O BARTH YSTYR ENWAU RHAI LLEOEDD ERAILL.

Y mae yn y plwyf a chymydogaeth Penal enwau lleoedd ag y mae yn anhawdd neu yn rhy anhawdd i gael allan eu gwir ystyr, ac y mae

---

* Neu os nad oes, gallai i'r fan dderbyn yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol y dynodiant o Penal yn yr enw Blaen Penal yn herwydd rhyw amddiffynfa neu gilydd o'r tuallan i'w derfynau. A chan mai Blaen Penal y gelwir y plwyf, nid annhebyg yr adnabyddid gynt ryw ardal yn is i lawr wrth y dynodiant neu y rhan ddynodiant Penal.

† Rhosfarch, feallai, ond pa le yw "Kevenstresalet."

enwau lleoedd yn y dyfyniadau Lladinaidd a roddwyd wedi eu tywyllu gymaint trwy gam sillebiaeth, fel y gellir gwneyd sylw o'r fath mewn cysylltiad â hwythau. Ceir cyfeiriad at ystyr yr enw gwerinol Esgir-lyfurum yn nghysylltiad âg achau teulu Pantlludw, ac at Gwmffernol mewn cysylltiad â Meini Hirion, yn hynafiaethau plwyf Tywyn. Ac o barth yr enw gwerinol Felindre neu Felindra, gweler y tudalen 28.* Ond heblaw y rhai hyn, y mae yn y plwyf ac ardal Penal, amryw o leoedd eraill ag y byddai yn ddyddorol allu cael allan eu hystyr. Ac yn ddilynol, bwriedir sylwi o barth rhai o honynt; a'r cyntaf a ddygir ymlaen yw Esgairweddan, pa un sydd a'i safle yn mhlwyf Tywyn. Wrth y rhanenw Esgair, golygir cefnen ymestynol o dir, ac hwyrach fod y dynodiant gwerinol o *Weddan* ag sydd yn gwneyd i fyny y rhan arall o'r enw i'w ystyried fel yn enw personol wedi ei roddi ar y lle. Ond os nade, dichon mai Esgair Wyddan a olygir, sef esgair goediog, neu arall. Modd bynag, y mae yn rhy anhawdd penderfynu. Gellir nodi y ceir yr enwau personol o Gweddwen a Gwaeddan, yn ol fel eu sillebir yn y *Liber Landavensis* neu Lyfr Llandaf, ac a chaniatau cywirdeb y sillebiaeth, byddai yn hawdd i ryw berson yn dwyn y naill neu y llall o'r enwau hyn, gael ei ddynodi gan y werin yn Weddan. Y mae yr enw personol Gweddwen i'w gael yn y llyfr crybwylledig yn nghysylltiad â mynegiad ag y rhoddwyd ei gynwys yn mhellach yn ol yn y tud. 426. Ac yn yr un-rhyw lyfr, ymhlith y gwyrthiau anhygoelus a chelwyddog a briodolir gan fynachod pabyddol i'r Archesgob Teilo, ceir mynegiadau i'r ystyr ganlynol, ac mewn cysylltiad ag un o ba rai y cyfeirir at frenin o'r enw *Gwaeddan*. Ond mewn perthynas i rai o'r gwyrthiau, gosodir allan i'r ystyr mai brutio yr hyn a adroddid a wneir. Ond wele ystyr cynwys y mynegiadau crybwylledig:—

Dywedir ddarfod iddo [Teilo] godi un dyn oddiwrth y meirw ar yr afon Cywyn, enw yr hwn oedd "Distinnic," ac ddarfod iddo, yn eglwys Radly, iachau un dyn ag ydoedd yn glaf o'r parlys, o flaen yr holl bobl ar y dydd Sabbath, ag a pha anhwyldeb bynag y blinid y cleifion, eu hiacheid trwy osodiad ei ddwylaw. Eithr hwynthwy, y rhai mewn unrhyw fodd a'i niweidient, a boenydid dros hir amser, neu a farwent yn ddioed; megis ag y darfu i ddynes haerllug a'i troseddodd drengu o flaen yr holl bobl. Hefyd, rhyw freninyn o'r enw Gwaeddan a ddirdreisiodd ei nawdd yn un o'i lanau, a elwir yn gyffredin Llandeilo Fechan. Fel yr ydoedd yn ffrwyso yno ac yn cyflawni y weithred hon o drais, yn ddiatreg, yn yr unrhyw gladdfa a gollodd yn iselwael ei fywyd; a'r rhai a gydnabyddent eu

---

* Ond darllener yno *Taeogion* yn lle Taeogogion.

Digitized by Google

troseddau a gaent eu hiechyd drachefn yn uniongyrchol, ac a faddeuwyd iddynt trwy foddion o'i weddiau.

Yn agos i dyddyndy Esgairweddan y safai y palas a elwid y Rofft, neu Plas yn y Rofft. Ceir fod amryw o faesydd neu fanau cauedig yn cael eu galw yn Rofft, ac ymddengys y golyga gadlas, claws, neu faes bychan, neu faesan wrth dŷ. Ceir yn lled agos i'w fangre dyddyndy o'r enw Bettws, pa un, fel yr ymddengys, sydd ffurf Gymreig ar yr enw Saesneg *Beadhouse*.

Yn nghymydogaeth y lleoedd hyn, eithr o fewn terfynau plwyf Penal, y mae lle o'r enw Llugwy. Ond yn y Gyf. o'r Camb. Reg. am y flwyddyn 1795, tud. 302, gosodir yr enw yn y ffurf o Llygwy, lle rhoddir yn ystyr iddo, "*the gray stream.*" Hwyrach y gall hyn fod yn gywir, ac y golygir wrth yr enw, yr afon lwydwyn, neu lwydlas, neu oleu. Modd bynag, er yr ystyrir yn gyffredin fod *wy* (*gwy*) yn ddealledig yn enwau nifer o afonydd, megis yn enw yr afon Ddyfi, ac eraill, gellir sylwi mai *hylif* neu *ddwfr* sydd i'w olygu yn benodol wrth y gair. Ond er mai hylif neu ddwfr yw cynwys pob afon, nid ymddengys y gellir galw afon yn *wy* neu *gwy*, heb roddi ail ystyr i'r gair. Ac yn nghysylltiad â'r lle dan sylw, gall mai enw personol yw Llugwy, pa un bynag a'i nant, afon, tŷ, tyddyn, neu arall a'i cafodd gyntaf oddiwrtho. Canys ceir yn y crybwylledig Lyfr Llandaf, fod un o'r enw Llygwy yn oesi yn amser yr Archesgob Dyfrig (Dubricius), gan y gosodir ynddo fod gwr o'r enw hwn, ymysg eraill, yn dyst i gyflwyniad a wnaed i'r unrhyw archesgob. A rhed y mynegiad ynghylch y cyflwyniad crybwylledig i'r ystyr ddilynol:—Yn ystod teyrnasiad Merchwyn ap Glewys, aberthodd Gwordog ei ferch Dulon, yr hon ydoedd forwyn i Dyfrig (Dubricius) archesgob Llandaf, yr hon a gysegrodd i fod yn lleian, a rhoddodd iddo bedwar modii* o dir mewn cysegriad parhaus, heb unrhyw daliad i farwol ddyn, heblaw i Dduw, ac i esgob Llandaf, gyda yr oll o'i urddas a'i ryddid ym maes a choed, mewn dwfr a phorfeydd. Yr archesgob Dyfrig yn dyst, ac yn bresenol gyda ei holl wyr llên Ufelwy, Merchwyn, Cyfelyn; ac o'r gwyr lleyg, Merchwyn frenin, Madawg, Garw, Llygwy, Lunoed, a thystion afrifed eraill. Cyhoeddwyd melldith gan bob genau, ac ysgymuniad ar bob person a wnelai, o'r pryd hwnw yn y dyfodol, neillduo y tir oddiwrth eglwys Llandaf a'i bugeiliaid. A chyhoeddwyd bendith ar y sawl a'i cadwai.

Yn ardal Penal, y mae tyddyndy yn cael ei alw Gyllellog, ond beth feddylir wrth hyny sydd yn rhy anhawdd penderfynu. Dichon y ceir cyfeiriad ynddo at gyllell yn rhyw wedd neu gilydd. A hyny,

---

* Oddeutu un erw ar bymtheg ar hugain.

feallai naill ai fel enw personol neu ddynodiant ar un a wisgai enw arall. Ceir y dynodiant o "gyllelluawr" yn "Ystori Kulhwch ac Olwen neu y Twrch Trwyth" yn y Mabinogion, ar un o'r enw Osla, lle ei gelwir yn Osla Gyllelluawr, neu Osla'r gyllell fawr. Ceir y gair cyllellawr yn y llinell ddilynol:—

"Ni wan cyllellawr cleddyfawr meiwyr."

Ond *Cyllellog* neu *Gyllellog* sydd yn enw gwerinol y lle, a gall mai talfyriad yw o ddynodiant heb fod a fynai cyllell â'r unrhyw o gwbl.

---

## LLYTHYR YWAIN GLYNDWR.

Fel y gwelir oddiwrth ddiwedd y llythyr canlynol o eiddo yr enwog wladgarwr Ywain Glyndwr, cafodd ei ysgrifenu ym Mhenal. Dyfynir ef yma o gyfieithiad y Parch. D. Evans, Gelligaer, ar un adeg. Ac yn ol fel y dywed y cyfieithydd, cafodd ei ysgrifenu yn weiddiol yn yr iaith Lladin, ac y mae yn nghadw ymysg cofysgrifau teyrnas Ffrainc, trysorfa'r breint-ysgrifau, rhestr J., Papyr 516, dernyn 40, ac wedi ei gyhoeddi yn "Histoire de la Conguete de l' Angletere par les Normands," gan Thierry. Anfonwyd y llythyr hwn at Siarl vi., brenin Ffrainc, a chafodd ei ysgrifenu fel y dangosir yn ei ddiwedd, ar y dydd olaf o Fawrth. Ond er y mynegir fel hyn mai y dydd olaf o Fawrth ei hysgrifenwyd, ni ddywedir pa flwyddyn. Tybia y cyfieithydd mai y flwyddyn 1404 y gwnaed, ac nid annhebyg ei fod yn gywir. Ond wele y cyfieithiad:—

"LLYTHYR ODDIWRTH OWAIN GLYNDWR, TYWYSOG CYMRU, AT FRENIN FFRAINC, SIARL VI.

"*Cyfeiriwyd at yr ardderchocaf, a'r enwocaf benaeth, arglwydd Siarl, trwy ras Duw, brenin y Ffrancod.*

"Ardderchocaf benaeth, oddiwrth fy ngostyngedig lythyr cyflwyniad, yr hwn a anfonwyd o'r blaen, bydded wiw genych ddysgu fod fy nghenedl wedi cael ei chynal, drwy lawer o flynyddoedd a aethant heibio, er cynddaredd y barbariaid Sacsonaidd. Oherwydd hyn, o'r amser y buont hwy yn meddianu y llywodraeth, er mewn gwirionedd uwchlaw i ni, eto caniatawyd i ni gydraddoldeb a hwy, ond yn awr ardderchocaf dywysog, drwy y caredigrwydd cynhenid sydd ynoch,

yr ydych wedi fy hyfforddi i a'm deiliaid, yn rhagorol a graslawn, mewn gwahanol ffyrdd, pa fodd i fyned ymlaen tuag at gydnabod gwir raglaw Crist, am yr hwn hyfforddiant yr wyf yn diolch i'ch huchelder a'm holl galon, ac yn enwedig am mai trwy y cyfryw hyfforddiant yr wyf wedi deall fod yr arglwydd Benedict, uchelaf Archesgob Rhufain, yn cynyg ei wasanaeth ymhob modd i ddwyn oddiamgylch undeb eglwys Dduw. Gan ymddiried am hyny yn ei hawliau, a chan fwriadu cytuno â chwithau gymaint ag sydd bosibl, yr ydwyf, drwy fy mreintlythyrau hyn, pa rai sydd i gael eu cyflwyno i'ch Mawrhydi gan y dygiedydd i'r perwyl hwn, ar ran fy hun a'm deiliaid, yn ei gydnabod fel gwir raglaw Crist. Ac oherwydd, ardderchocaf benaeth, drwy y rhaib barbaraidd, fel y dangosir a deyrnasai yma, y gorfodwyd i fam eglwys Ty Ddewi ufuddhau i eglwys Caergaint, a'i bod yn parhau yn y darostyngiad hwn hyd heddyw, a bod llawer iawn o anghyfleusderau eraill o'r un natur a ddygwyd gan y barbariaid ar yr eglwys Gymreig yn bodoli eto, y rhai a grybwyllir yn llawnach yn fy mreintlythyrau, er mwyn pa rai yn benaf y cyfeirir atynt, yr wyf yn fwy dyfal yn erfyn ac yn deisyf ar eich Mawrhydi, gyda golwg ar eu llwyddiant a'u dygiad i feddiant yr arglwydd Brif Esgob Pabol, fel megis y bu wiw genych ein codi o dywyllwch i oleuni, y byddo i chwi ewyllysio eto yn yr un modd, mor belled ag y mae yn eich gallu, i ddiwreiddio a symud ymaith drais a gorthrwm yr eglwys â'm deiliaid; ac i'r diben hwn, bydded i Fab yr ogoneddus Forwyn gadw eich huchelaf Fawrhydi mewn llwyddiant addunawl yn wastadol. Ysgrifenwyd yn Mhenal, y dydd olaf o Fawrth.—Yr eiddoch hyd addunedau,

"OWYNWR, PRINCESS WALLIE."

---

## ADEILADAU.

### YR EGLWYS.

Un o'r tri chapel eglwysig perthynol i Dywyn oedd yr eglwys hon ar y cyntaf. A'r pryd hwnw yr oedd dan ofal y fam eglwys (Tywyn), a'r plwyf hefyd yn rhan o fywoliaeth Tywyn. Ond yn awr, nid oes a fyno periglor Tywyn a'i gwasanaethu na phenodi gweinidog iddi. Ac ymhlith y cwynion yn erbyn offeiriaid esgobaeth Bangor, a

ymweliad Lewis Bayley, Esgob Bangor, yn Ngorphenaf y flwyddyn 1623, mynegir mai capel perthynol i Dywyn ydoedd, neu mai plwyf capel perthynol i Dywyn oedd plwyf Penal, ac nad oeddynt yn cael pregethau yno ond anaml.

Nid ydys yn gallu mynegi pa mor foreu ei cyfodwyd, mwy nag y gellir dywedyd pa bryd y cyfodwyd ei dwy chwaer eglwys ganghenol, Llan Fihangel y Pennant a Llan Fair Bryn Muallt, neu eglwys Tal y Llyn. Ond ymddengys ei bod ryw gymaint yn ddiweddarach na'r flaenaf o'r ddwy hyn, neu ynte y cysegrwyd hono i'w sant nawdd yn nghynt nag y cysegrwyd hi i'w nawdd sant, yr hwn yw Sant Pedr mewn cadwynau. Tynwyd i lawr yr adeilad eglwysig a fodolai yma yn flaenorol i'r un presenol, yn y flwyddyn 1769, ac adeiladwyd yr un sydd yn awr mewn rhan o'r un defnyddiau.*

Ond heblaw yr eglwys, y mae yn y plwyf hefyd bedwar o addoldai perthynol i'r Ymneillduwyr, a saif tri o honynt yn mhentref Penal, sef un yn perthyn i'r Annibynwyr, un yn perthyn i'r Trefnyddion Wesleyaidd, ac un yn perthyn i'r Trefnyddion Calfinaidd; ac y mae safle y pedwerydd, pa un a berthyn i'r enwad olaf a nodwyd, gerllaw y ffordd fawr a arwain tua Chorus, ac yn y pellder o tua phum milldir o bentref Penal.

---

* Gweler tud. 403 o barth defnyddiau adeiladol yn muriau yr adeilad eglwysig.

## LLEOEDD A HELYNTION.

### CEFNCAER.

Ystyrir y safai amddiffynfa Rufeinig * gynt tua'r fan y mae tyddyndy Cefncaer. Dywed Cambden y byddid weithiau yn cloddio i fyny yn Nghefncaer ddarnau bathol Rhufeinig, ac fod yno olion mur crwn o gryn helaethder, a dywedir yn yr ychwanegiadau at waith yr un gŵr i'r ystyr ganlynol:—Adeiladwyd y brif gaer, pa un oedd ar ran uchaf y bryn, yn bedronglog, ac yn amgylchynedig â mur cadarn a ffos lydan, o ffurf hirgrwn, gydag eithrio ag oedd gyferbyn a'r dyffryn, yn estynedig mewn llinell unionsyth. Yr ochr allanol i'r ffos fawr agosaf i afon Ddyfi, darganfyddwyd sylfeini amryw o dai, ac ar îs bryn, safai caerfa fechan, wedi ei hadeiladu, yn ol fel y gellir tybio, o briddfeini, gan y ceir yno ddigonedd o honynt. Adeiladwyd yr oll o'r muriau allanol o gareg arw galed, pa un y rhaid ei cludwyd yno ar hyd y dwfr, gan nad oedd dim o'r cyfryw yn nes na "Tal y Ganeg" (Tal y Gareg (?) ), pellder o oddeutu saith milldir o'r lle hwn. O'r gaer at ochr y dwfr, y mae ffordd lydan galed o fân geryg cyd-gludiedig â phŷg â cheryg eraill, gan barhau mewn llinell union trwy'r gweirgloddiau a'r morfeydd, pa un a all fod tua chan' llath o hyd, a deg neu ddeuddeg o led. Y mae yn dra amlwg i'r gaer hon gael ei dymchwelyd cyn adeiladiad eglwys Penalht (Penal), oblegid cawn yn muriau yr eglwys hono amryw o briddfeini amryblith â'r ceryg, pa rai yn ddiameu a ddygwyd yno o'r lle hwn. Cafwyd arian bathol y Rhufeiniaid yno ar ol amser Mr. Cambden, yn neillduol rai darnau arian Augustus a Tiberius, ac yn agos i'r brif gaer, mewn cae o'r enw Cae Llwyn y Neuadd, gadwyn aur fechan, oddeutu pedair modfedd o hyd, a phryd arall gareg saphir, wedi ei thrwsio yn ddestlus. Darganfyddwyd rhai pethau eraill o lai o werth yn yr un fan, mal callawr pres mawr iawn,

---

* Ymddengys y cyfeirir mewn nodyn yn ngodreu'r ddalen yn Cambden's *Britanica*, gan Gibson, mai yn amser yr ymerawdwr Theodosius, yr ieuangaf, yr oedd yr amddiffynfa hon.

Digitized by Google

pa un a ddefnyddiwyd gwedi megis llestr darllaw yn Nghaerberllan; amryw ddarnau o blwm, a rhai gwydrau tra hynod o ffurf crwn fel cylchau, rhai o honynt oddeutu ugain modfedd o gylchfesur, ac eraill yn llawer llai, &c. Yr oedd y cylch-wydrau hyn wedi eu hymylu yn gywrain, o wahanol liwiau; ac, a rhai o honynt wedi tori, sylwyd fod yr amrywiaeth lliwiau yn dyfod oddiwrth dywod neu bylor o'r un lliwiau, yn amgauedig mewn gwahanol gellau yn y gwydr.

Dywed yr hynafiaethydd o'r Hengwrt, Mr. Robert Fychan, iddo weled darn o arian gerllaw Cefn Caer yn dwyn argraff Domitian, un o'r ymerawdwyr Rhufeinig, a nodir yn y *Cambria Depicta*, ddarfod i weithiwr wrth barotoi darn o dir i blanu cloron, ddarganfod ysten hynafol, a llawer o aur bathedig, y rhai a ranwyd i wahanol foneddigion y gymydogaeth. Nis gwn ai at yr un digwyddiad y cyfeirir yn y Darlundraeth o Fachynlleth a'i Hamgylchoedd, lle y mynegir i hen glochydd Penal gael arian o'r cynoesodd wrth blanu cloron gerllaw y tŷ (Cefn Caer). Dywedir fod ffordd danddaearol yn myned o syler Cefn Caer i Fachynlleth, ac y tystiai hen wraig o Benal, yr hon oedd yn 84 mlwydd oed, yn y flwyddyn 1854, fod pen y ffordd i'w gweled yn syler Cefn Caer, y bwa wedi ei gau i fyny a cheryg.* Hen wraig arall a ddywedai fod y bwa i'w ganfod yn ochr Wttra Cefn Caer, ar ol tipyn o wlaw, o fewn cof ganddi hi. Hefyd, dywedai hen wraig arall iddi weled pen y ffordd grybwylledig yn Machynlleth, pan oedd yn hogen, ac iddi ganfod esgyrn penau wedi eu cael ynddi.† Ond pa fodd bynag am y dywediadau hyn, dywedir nad oes dim coel i'w roddi ar unrhyw beth a ddywedai yr olaf y cyfeiriwyd ati. Ac ymddengys nad oes yn awr ddim arwydd i'w ganfod yn y syler ag y gellir casglu oddiwrtho i'r fath ffordd fodoli. Byddai yn ddymunol pe rhoddai y Gymdeithas Hynafiaethol brawf trwyadl a fu y cyfryw ffordd danddaearol yn bod rhwng y lleoedd a nodwyd erioed. Dywedid fod ffordd danddaearol yn cychwyn o loft perthynol i Wydd Gwian, yn mhlwyf Tywyn, a bod y fynedfa yn y mur. Ond y mae yn ddilys genyf nad yw y fynedfa grybwylledig namyn cyfleusdra i wasanaethu'r corff, ac feallai nad yw'r ffordd danddaearol honedig, namyn un ddychymygol yn y diwedd. Dywedir gan awdwr y Darlundraeth y cyfeiriwyd ato eisoes, sef *Ieuan Dyfi*, yn awr y Parch. Evan Jones, Caernarfon, am draddodiad yn yr ardal yn mynegi fod crochan llawn o aur yn nghudd yn rhywle yn nhyddyn Cefn Caer, ac ddarfod i amaethwr cyfrifol o'r gymydogaeth roddi 20p. i ddywedwyr tesni am ei hysbysu ymha le yr oedd, ond y cadwodd y giwaid yr arian, gan adael y crochan mor guddiedig ag erioed.

*** † Darlundraeth o Fachynlleth, &c., td. 76.**

Digitized by Google

## TRADDODIAD AM FERCH CEFN CAER A'I CHARIAD.

Edrydd traddodiad ddarfod i ferch Cefn Caer roddi ei serch ar fab ieuanc heb fod wrth fodd ei thad. Ac fel teler iddo gyflawni er mwyn ei meddu yn wraig briod, gosododd ei thad o'i flaen y byddai yn rhaid ddo aros allan dros nos yn noethlymyn, a hyny, yn ol un ffurf o'r traddodiad, ar ben Bwlch Pawl.* Ac er mwyn gallu cyflawni y fath deler creulawn, cymerodd y mab ieuanc bawl a gordd i'w ganlyn. Ac wedi cyraedd y fan, defnyddiodd y rhai hyn i fod yn foddion i gadw ei fywyd; canys wedi curo o hono yn egniol ar y pawl, a thwymno o ben yr ordd wrth hyny, gosodai hi ar ei fynwes er mwyn cynesu ei galon fel y gallai barhau i daflu y gwaed i'w wythienau. O'r diwedd, gwawriodd y dydd tros y gorwel draw, ag yntau yn fyw i'w groesawu, ac i hawlio y ferch i fod yn briodwraig iddo. Arosodd ei gariad yn y ffenestr yn dal canwyll trwy'r nos er mwyn ei galonogi i gyflawni y teler a osodwyd iddo.

Ac, ar ryw Sul gwedi hyn, darfu i rieni y ferch, cyn myned o honynt i'r eglwys y diwrnod hwnw, beri iddi rostio gŵydd; eithr beth a wnaeth hithau yn nghysylltiad â'r gorchymyn, yn lle gosod yr edn o flaen eirias o dân, ond ei dodi yn un pen i'r ystafell, a chanwyll yn y pen arall iddi. A chan hyny, wedi i'w thad a'i mam ddod adref, ac heb ganfod fawr debyg am ŵydd rostiedig, dechreuasant ymliw â'r eneth paham nas rhostiasai hi, i'r hyn yr atebodd hithau, fod gan hawdded i'r ŵydd rostio wrth wres y ganwyll ag oedd i'w chariad hi fyw wrth wres canwyll ar ben Bwlch Pawl.

Honir y gelwir y bwlch yn Fwlch Pawl yn herwydd yr amgylchiad traddodiadol a nodwyd. Ond, modd bynag, er yr honiad hwn, ystyrir nad amhriodol yma nodi nad rhy annhebygol mai oddiwrth ryw berson neu gilydd a elwid *Pawl* gan y Cymry gynt, y cafodd yr unrhyw yn wirioneddol. Y mae lleoliad y Bwlch Pawl hwn yn nghymydogaeth Afon Ddyfi, ac ar ben mynydd Esgairweddan megis, ac am y terfyn â mynydd Doldyhewydd, pa un sydd ar y tu arall i'r tir. Ac ymddengys mai at yr unrhyw y cyfeirir yn un o ddarpariadau

* Ymsyniai fy nhad, un o'r ddau y cymerais o'u hadroddiad am hyn mai ar rywle yn nes i Gefn Caer y treuliodd y noson, a thybiaf yr ymsyniai hefyd mai curo craig a wnai. Yr un traddodiad tebygol yw hwn a'r un adroddir yn gyflawnach ond gyda pheth gwahaniaeth, yn "Yr Amser Gynt," yn y *Goleuad* (am y 15fed Rhagfyr, 1877), newyddiadur wythnosol; mewn cysylltiad â Bwlch Pawl, yn nghymydogaeth Llanuwchllyn. Ac yno gosodir mai tair awr oedd amser y prawf, ac mai at ei wasg yr oedd i fod heb ddim am dano.

Digitized by Google

Rhodri Mawr, yn nghysylltiad â rhai o'i feibion, yr hwn a oesai yn y nawfed ganrif. Canys, pan ranodd y tywysog hwnw yr oll o Gymru y ffordd "y cerddai ei fraint" rhwng tri o honynt, sef Anarawd, Cadell, a Merfyn, gan benodi Talaeth i bob un o'r rhai hyn, penodwyd Bwlch Pawl " yn Nglan Dyfi," fel man i fod yn eisteddle barn i benderfynu ymrafael a allai gyfodi rhwng penaethiaid dwy o honynt. Y mae enwau y tair Talaeth yn y dyfyniadau dilynol, ynghyd âg enwau y manau yr oeddid i benderfynu yr ymryson, os cyfodai un rhyngddynt.—

Llyma fal y trefnwys Rhodri Mawr lle ceffid ymryson rhwng neb rhai o'r Tair Talaith, er Barn a therfyn yr ymryson.

O bydd ymryson rhwng Talaith Dinefwr a Thalaith y Berffraw ym Mon, ym Mwlch y Pawl yng Nglan Dyfi y dylai fod yr Eisteddfa, a Brenin Pywys yn Benn Rhaith a Barn.

O bydd ymryson rhwng Talaith Mathrafal a Thalaith Dinefwr, yn

---

NODYN.—Yn nhudalen 30, crybwyllir o barth a ddywedai y bardd Homer am arwyliad yn ol y dull llosgol o gladdu ymhlith y Groegiaid. A cheir yma osod gerbron ystyr yr hyn a ddywed Plutarch am arwyl y cad-flaenor Groegaidd. Philopœmen, wedi ei wenwyniad trwy orchymyn Dinocrates, yn y ddaeargell lle ei rhoddwyd yn archolledig gan ei elynion Messenaidd. Dywed ddarfod i'r newydd am ei farwolaeth lenwi holl Achaia â thristwch a galar. Cyrchodd yr holl wyr ieuainc yn uniongyrchol gyda dirprwywyr y gwahanol ddinasoedd, i Megalopolis, lle y penderfynasant yn ddioed ar fynu eu dialiad. Ac i'r amcan hwn, wedi dewis Sycortas yn gad-flaenor iddynt, aethant i Messene, ac anrheithiasant y wlad, nes i'r Messeniaid yn unfrydol agoryd eu pyrth a'u derbyn i mewn. Rhagflaenodd Dinocrates eu dialedd trwy ladd ei hun, a chanlynwyd ei esiampl gan y rhai a bleidiasant i roddi Philopœmen i farwolaeth. Ond cymerwyd yn garcharorion gan Lycortas y rhai oeddynt o blaid ei roddi dan arteith-boen, a chadwyd hwy i gosbedigaeth fwy poenus.—Wedi i'r rhai hyn losgi gweddillion Philopœmen, dodasent ei ludw mewn ysten, a dychwelasant, nid yn annrhefnus a phlith draphlith, ond gan uno math o ymdaith fuddugol â'r difrifwch angladdol. Yn mlaenaf daeth y gwyr traed, gyda choronau buddugoliaeth ar eu penau, a dagrau yn eu llygaid, yn cael eu dilyn gan eu carcharorion gelynol mewn hualau. Dygid yr ysten gan Polybrus, ei fab, a'r Achaiaid penaf o'i ddeutu, yr hon oedd yn addurnedig â ribanau a deil-dorchau, fel mai prin yr oedd i'w gweled. Amgylchwyd yr orymdaith gan y meirchwyr, mewn cyflawn arfogaeth, ar feirch gorwych, heb arddangos yn eu golygon bruddglwyfder y cyfryw arwylad na llawenydd buddugoliaeth. Heidiau pobl y trefydd a'r pentrefydd allan ar eu ffordd fel pe buasent yn ei gyfarfod yn dychwelyd o ryfelawd clodfawr; cyffyrddent â'r ysten gyda pharch mawr, gan ei harwain i Megalopolis. A'r hen wyr, y gwragedd a'r plant, ag a unasant a'r orymdaith, a godasant y fath chwerw wylofain, fel yr ymdaenodd trwy y fyddin, yr hyn a atebwyd gan y y ddinas, pa un, heblaw ei gofid am Philopœmen, a ofidiodd ei blinfyd ei hun, fel mai ynddo ef y tybiai y collodd ei phrif urddas a'i dylanwad ym mhlith yr Achaiaid. Yr oedd ei gladdedigaeth yn cydweddu â'i urddas, a llabyddiwyd y carcharorion Messenaidd wrth ei wyddfa feddrodol. Syrthiodd Philopœmen yn y ganrif agosaf i'r olaf cyn Cred, ac ysgrifenodd Plutarch yn y ganrif gyntaf o Gred.

y Rhyd Helig ar Wy y dylai fod yr Eisteddfa, a Brenin Gwynedd yn Benn Rhaith a Barn.

O bydd ymryson rhwng Talaith Mathrafal a Thalaith y Berffraw ym Mon. yn Nol yr Hunedd yn Iâl y dylai fod yr Eisteddfa a Brenin Dinefwr yn Benn Rhaith a Barn.

A pha le bynag y byddai'r Eisteddfa, bid yno Deyrnedd y Tair Talaith. sef ydynt,

Teyrnedd Dinefwr. Brenin, Arglwyddi Llys a Gorsedd, a Gwlad, sef yw Gwlad Perchennyddion Tir gan eu Pencenedloedd.

Teyrnedd y Berffraw, Brenin, Pymtheg Llwyth Gwynedd gan eu Pencenedloedd. ag Yngnaid Llys.

Teyrnedd Mathrafal, Brenin. Gwelygorddau Pywys gan Bencenedloedd, ac Yngnaid Llys."

## MAES YM MHENAL.

Cyfeiriwyd eisoes at fan a'i safle yn mhlwyf Tywyn, a bwriedir son am fanau eraill hefyd o fewn ei derfynau, ond a'u mangreoedd yn nghymydogaeth Penal. Ymddengys mai y ffordd fawr a arwain o Benal at y Cwrt, yr hon a elwir yn awr Wtra Benal, ond a elwid gynt Wtra'r Beddau, ydyw y Maes ym Mhenal, y cyfeiria hanesyddiaeth ato. Ymladdwyd brwydr ar y maes hwn rhwng rhanau o fyddinoedd tŷ Caerefrog, a thŷ Caerwerydd. Penaeth y llu yn y frwydr yn mhlaid y blaenaf oedd Syr Thomas ab Gruffydd ab Nicholas, o Ddinefwr; a phenaeth y blaid arall oedd Thomas ab Gwilym, o Lys Henry, un o gadbeniaid Iarll Penfro. Ond enillwyd y dydd gan bleidwyr Caerefrog. Dywedir y caed esgyrn yn Wtra Benal.

Yn y Maes ym Mhenal y bu y dywededig Syr Thomas ab Gruffydd ab Nicholas, a Dafydd Goch (Gough), o Gastell Stapleton, Maeshyfaidd, yn ymladd dau fywyd, lle y cwympodd Dafydd, ar ol ymladd caled iawn, o dan arf ei wrthwynebydd. Ond yr oedd effaith yr ymladdfa gymaint ar y llall, nes y bu iddo orwedd ar y ddaear dan bwys ei glwyfau cyn myned ymhell o'r fan. Felly rhoddodd heibio ei arfau, a gorweddodd ar ei wyneb er mwyn cael ei wynt. Yn y cyfamser, daeth rhyw ddynsawd isel-wael a diegwyddor, ac a'i rhedodd trwodd tra yn y sefyllfa hono. Ac yntau wrth droi, pan wybu ei frathu, gan edrych ar y llofrudd, a ddywedodd wrtho, "O!



Digitized by Google

fy nghyfaill, pe cofiaswn orwedd ar fy nghefn ni feiddiasit ladd Thomas ab Gruffydd yn llwfraidd fel hyn," ac felly bu farw. O barch i'w goffadwriaeth, medd un awdwr,* codwyd ceufedd o geryg a mawn yn y lle. Ond mewn nodyn yn "Hanes Teulu Gwydir,"† dywedir i'r ystyr ddilynol: "Penal, man y lladdwyd Tho' Gruff' ab Nicholas, sydd adnabyddus trwy draddodiad; lle y mae palmant bychan crwn, o'r bron yn orchuddedig â gwelltglas; ac a orwedd yn Ngwtra Benal, yn mhlwyf Tywyn, oddiar Lidiart Parc Crâch, ac yn nghanol y ffordd." Aed a'i gorff i Fynachlog Enlli, lle ei claddwyd.

---

## Y DOMEN LAS.

Tua'r manau y cymerodd yr ymladdau hyn le, y mae dau fan yn dwyn yr enw Domen Lâs—bob un ar ei ben ei hun. Y mae yn ymddangos, os bu y fan arall a adnabyddir fel y Domen Lâs erioed yn un o'r Tomenau‡ hynafiaethol, y cymerwyd mantais ar ychydig godiad o graig sydd yno i'w ffurfio. Ond nid yw yn debygol, pa un bynag, oddiwrth ymddangosiad presenol y fan y cyfodwyd tomen o'r fath ar y lled fryncyn bychan hwnw. Y mae ei safle oddiar Wtra Benal; ond y mae safle y llall y tu isaf i'r Wtra hono.

Ond i gyfeirio drachefn at Thomas ab Gruffydd ab Nicholas, gellir sylwi mai er iddo ef gwympo wrth ymladd pan o blaid Teulu Caerefrog, y newidiodd ei fab, Syr Rhys ab Thomas, ochr ymhen amser, a throdd o du Harri, Iarll Richmond. Ac yn Mywgraffiad y Syr Rhys ab Thomas hwn, cyfeirir yn neillduol at y Salisbriaid, fel rhai o Ogledd Cymru, a ddaethant ato, o dan arweiniad Robert Salisburi, i'w anrhydeddu, ac i fod o wasanaeth iddo yn ei fwriad i daro yn

* Cam. Reg., Cyf. I., tudal. 68-9.

† History of Gwedyr, tudal, 72.

‡ Yr ydys wedi cyfeirio yn tudal. 299 at waith Buddug gynt yn anerch ei gwyr i wroldeb oddiar grug o dywyrch. A cheir yma ddwyn i sylw ddigwyddiad yr edrydd Plutarch am dano yn mherthynas i waith Philip o Macedon yn anerch ei filwyr oddiar godiad tir, neu fryncyn bychan, cyn ymdrechu mewn brwydr yn erbyn Flaminus a'i lu, yn agos i Scotusa. Dywed iddo esgyn i fyny ucheledd o'r tu allan i'r gwersyll, pa un a ddigwyddodd fod yn gladdfa, a hyny naill ai heb wybod ei fod felly, neu yn ei ffrwst heb dalu sylw i'r peth. Ac yno dechreuodd anerch ei wyr, ond a'r argoel o feddrod yn taenu prudd-der ymhlith y llu, ymataliodd, a rhoddodd heibio yr ymladd hyd ddiwrnod arall. Dichon mai crug o dywyrch, neu garnedd a thyfiant drosti, oedd y codiad neu yr ucheledd hwnw.

Digitized by Google

mhlaid Harri, Iarll Richmond i enill y goron oddi ar Richard III. A nodir fod y Robert Salisburi hwn yn gyfaill tyn iddo yn ei ryfel-oedd yn Ffrainc, ac ei hurddwyd yno yn farchog ar y maes gan Charles Brandon, Duc Suffolk. Ac fod y Salisbriaid hyn bob amser yn gadarn unedig â Rhys ab Thomas a'i deulu, trwy yr hyn yr enillasant yr enwad o Salisbriaid y Brain, pa un a roddwyd iddynt gyntaf yn mrwydr Penal, lle y collodd ei dad ei fywyd, ac hefyd lawer o'r teulu urddasol hwn yn yr unrhyw ymryson. O barth y dynodiant o *Frain* yn nghysylltiad â'r Salisbriaid hyn, cyfeiriad sydd ynddo at baisarfau teulu Thomas ab Gruffydd ab Nicholas.

Yr ydoedd y gwr hwn, Thomas ab Gruffydd ab Nicholas, a gwympodd fel hyn yn mrwydr Penal, yn hanu o deulu urddasol a phendefigol, a rhedir ei achlin yn ol i Urien Rheged. Yr ydoedd ei dad, Gruffydd ab Nicholas, yn wr o foddion mawr, yn meddu etifeddiaeth o saith gan' punt yn y flwyddyn o leiaf, yn ol fel y cerdd yr hanes. A dywed y bardd Gwilym ab Ieuan Hen am dano :—

Saith gastell sydd i'th gostiaw,
A saith lŷs sydd i'th law.

Yr ydoedd yn gyfaill mawr i'r beirdd; a than ei lywyddiaeth ef y cynhaliwyd Eisteddfod fawr Caerfyrddin. Tyfodd drwg rhyngddo â rhai o wyr mawr y wlad, ac yr ydoedd yn gas iawn ganddo y Saeson. Ac ymddengys eu bod hwythau, o'r tu arall, yn ei gasau yntau hefyd. Dywed y bardd am dano :—

Ni phlyg i'r Sais briwdrais bren,
Ni ddiwraidd mwy na'r dderwen.

Gweithiai y Cymry ar y cyfryw dueddiad o'i eiddo tuag at y Saeson fel ag i'w anog ymlaen mewn ffordd o ymddial arnynt, gan geisio ei ddarbwyllo ei bod yn adeg dymig i hyny. A darfu i amryw o honynt, gan ymddibynu llawer ar y fath dueddiad ynddo, a'i nodded, wneyd yn dra hŷf ar wyr y Cyffindiroedd, trwy eu hysbeilio o'u hysgribliaid a phob peth o werth a gaent i'w gafael. Gadawai i bethau felly fyned heibio o bryd i bryd yn ddisylw. Achwynwyd llawer oherwydd y pethau hyn; ac o'r diwedd, anfonwyd dirprwy-wyr i edrych i mewn iddynt, ac i'w ddwyn yntau i afael prawf cyf-reithiol. Ond o achos dullwedd gynhyrfus ac ansefydlog amgylch-iadau y deyrnas, a'i ystrywiau a'i nerth milwrol yntau, methwyd ei ddwyn dan brawf. Tua'r adeg yma, ffynai anghydfod blin rhwng teulu brenhinol Caerwerydd a Chaerefrog,—anghydfod a fu yn achlysur i waed lluoedd o wyr penaf y deyrnas ruddgochi meusydd brwydrau caledion, neu lawr y dienyddle, o dan fwyell y dienyddwr, ac i arfau rhyfel fedi miloedd ar filoedd o wyr y wlad i angau yn

Digitized by Google

ystod yr ymdrechfeydd. Nid oedd y rhyfel yn nghysylltiad â hyn yn perthyn yn neillduol i Gymru, eithr yn hytrach i Loegr; er hyny, cymerodd y Cymry ran amlwg ynddo, gan gymeryd hefyd ochrau gwahanol, yn ol eu tueddiadau, neu gysylltiadau ac amgylchiadau. Ond yn y diwedd, lled ymunasant â'u gilydd,—gorff cryf o honynt, mor ddiweddar, yn weithredol gyhoeddus, ag yn ystod ymladd Bosworth, o dan arweiniad y Stanliaid, pryd y cwympwyd Richard III., ac y cawsant i'r orsedd un o'u hil eu hunain o du ei daid, Ywain Tudur o Benmynydd, yn Môn. Ond yn yr ymryson gwaedlyd rhwng tŷ Caerefrog a thŷ Caerwerydd, ymladdai y Cymry fel deiliaid coron Lloegr. Ymgynddeiriogai y Saeson yn erbyn eu gilydd yn mhlaid y naill deulu neu y llall yn yr ymrysonau, a tharawai y Cymry yn ochr y gwahanol dylwythau brenhinol hyn yn ol eu tueddiadau, cysylltiadau, neu amgylchiadau, fel y crybwyllwyd. Fel y mae yn hysbys, gelwir y rhyfel a gymerodd le yn yr ymdrech a fu rhyngddynt am y llywodraeth yn Rhyfel y Rhosynau, neu Ryfel y Ddau Rosyn, a chysylltir y dynodiant o rosynau â'r unrhyw am y gwisgai y naill fel arwydd Rosyn Coch, a'r llall Rosyn Gwyn,—tŷ Caerefrog yn dwyn yr olaf, a thŷ Caerwerydd yn dwyn y blaenaf. Ond hawdd y gallasai pob un o honynt ymatal rhag gwisgo y mathau hyn o arwyddion yn y cyfryw ddinystr ar ddynion ag a achlysurodd eu hymdrechion marwol am y frenhiniaeth. Canys pell yw tegwch caruaidd y cyfryw rosynau, ynghyd â'u prydferthwch teleidiol ardderchog, oddiwrth ymdebygoli i olygfeydd echryslon gweithrediadau ciaidd cyflafanau angeuol maes y gwaed.

Ymddengys y parhäi Gruffydd ab Nicholas i noddi anrheithwyr y Saeson, neu Normaniaid y Gororau, ar ol y cais crybwylledig i'w ddwyn i brawf. A cheir ddarfod i Richard Corbet, Walter Homon, Ralph Lee, ac eraill o brif wyr o nôd yn Swydd Amwythig, achwyn yn dost yn erbyn un Philip ab Hywel o "Knokelas," yn arglwyddiaeth Maelienydd, o fewn cyffinydd Cymru, am y niweidiau a'r colliadau a ddioddefodd y wlad hono oddiwrtho. Ac na ellid cael barn cyfraith arno oherwydd fod Gruffydd ab Nicholas yn ei dderbyn, cynal, a'i achlesu o bryd i bryd, er gwarthruddiad a chollediad ufudd ddeiliaid y brenin a breswylient yn y swydd hono, am yr hyn, fel yr ymddengys, y cafwyd y ddau yn euog gan William Borley, Thomas Corbet, ac ynadon eraill penodedig gan y brenin i gadw yr heddwch yn y ddywededig swydd.

Hyd yn hyn, ymddengys y safai Gruffydd ab Nicholas yn anmhleidiol yn mherthynas i'r ddwy blaid frenhinol a nodwyd; ond ar ol clywed y dyfarniad cyfreithiol yn ei erbyn, penderfynodd daro yn mhlaid yr Caerefrogiaid. Ac feily, ceisiodd ymheddychu â Richard,

Digitized by Google

dug Caerefrog, gyda'r hwn yr ydoedd ar delerau drwg, a chynygiodd ei wasanaeth a'i gynorthwy i adfeddianu y llywodraeth, yr hyn a dderbyniodd yn ewyllysgar a diolchgar. Yna yn ddioed hysbysodd ei gyfeillion o'i benderfyniad, gan fyned dan arfau ac ymfyddino. Ac, ar dro, fel yr ydoedd wedi myned i Henffordd i brynu angenrheidiau at y rhyfeloedd, trwy rhyw ddigwyddiad neu gilydd, cafodd ei ddal a'i gymeryd i fyny, a chanddo o'i amgylch (yn ol a gofnodir) "quingentas marcas in pecunia numerate in quadam boga contenta," pa un a atafaelwyd gan swyddog anar-ddelwon, yn rhinwedd ei swydd, fel peth wedi ei fforffedu i'r brenin. Ond, pan oedd y swyddogion yn brysur gyda'r gôd, cafodd ef ei hun ddiangfa trwy ryw ffordd neu gilydd.

Pan dderbyniodd Richard, dug Caerefrog, ei glwyf marwol yn mrwydr Wakefield, arosai ei fab hynaf, Iarll March, yn Nghaerloyw. Ond, yn fuan wedi iddo glywed am farwolaeth ei dad, gwahoddodd ei gyfeillion ag oeddynt yn trigianu yn Nghyffinydd Cymru i ddyfod yn gynorthwy iddo i ddial ei lofruddiaeth. Ac nid hir y bu heb godi byddin o dair i bedair mil ar hugain o wyr. Ac ymysg y lliaws a ymgynullasant ato, daeth Gruffydd ab Nicholas gyda chattorf o saith neu wyth cant o wyr gwrol, a golygus o faintioli, ac mewn arfogaeth a threfn dda. Bwriad Iarll March oedd cyfarfod ar y maes â'r frenhines a lladdwyr ei dad, ond yr ydoedd Jasper Tudur, Iarll Penfro, yn atalfa ar ei ffordd iddo gael hyny. Ond er fod hyn yn croesi tipyn ar amcanion Iarll March, llawenychai Gruffydd ab Nicholas o'r herwydd, gan obeithio trwy hyn allel llawn ddial ar Jasper am yr anghydfod oedd wedi enyn rhyngddynt. Ac felly cyfarfu y ddwy fyddin ar wastadedd yn agos i Groes Mortimer, lle, wedi i lawer o ddewrder gael ei arddangos o'r ddwy ochr, y cafodd Gruffydd ab Nicholas ei glwyfo yn farwol. Ond er hyn, safodd Ywain ab Gruffydd, ei ail fab, ymlaen gwyr ei dad, gan barhau yr ymladd, a chanlynodd ar Iarll Penfro hyd yn nod i ffoad, ac felly trodd y frwydr o du y Caerefrogiaid. Yna aeth i chwilio am ei dad, a chafodd o hyd iddo yn gorwedd ar y maes yn dyheu am ei anadl. Mynegodd iddo yn fyr am y fuddugoliaeth, a chroesawai yntau y newydd; a thynodd ei anadl olaf, gan wneuthur hyny, tebygol, ar lawr y fan.

Nid ydoedd ei fab hynaf, sef Thomas ab Gruffydd ab Nicholas, yr hwn a gwympwyd ar y Maes ym Mhenal, yn y frwydr hon. Gelwid y gwr hwn, er mwyn gwahaniaethu rhyngddo â'i haner brawd o'r un enw, yn Thomas ab Gruffydd hynaf. Rhoddid iddo glod cyffredinol am ei farchwriaeth a'i fedr yn nhriniaeth ei arf. Cafodd fantais ar addysgiaeth ddinesig, a daeth i fod yn filwr trwyadl, wedi bod

Digitized by Google

flynyddoedd yn gwasanaethu o dan ddau o'r tywysogion mwyaf blagurog yn Nghred y dyddiau hyny, sef Philip y da a Charles y rhyfelgar, un yn dad a'r naill yn fab i'r llall, ac ill dau yn ddugiaid Burgundi, gan gyflawni yno y cyfryw weithredoedd mewn marchofyddiaeth ag a enillodd iddo y gair o fod yn un a wyddai sut i wneyd ei waith ac a'i gwnelai.

Ond dichon mai ar ol marwolaeth ei dad yr aeth trosodd i Burgundi y waith gyntaf, o leiaf aeth yno yn ddilynol i hyny, a bu yn gwasanaethu yn y rhyfeloedd Burgundaidd. Gosodir allan fel rheswm am ei fynediad fel hyn i geisio anturiaethau tros forawl, i'r ystyr, nad ydoedd yn chwenychu bod a llaw ganddo yn y rhwygiadau a'r cynhyrfiadau oedd yn y llywodraeth. Y galwai yr unrhyw yn rhwysg anaturiol, lle yr oedd y tad yn ymladd yn erbyn y mab, brawd yn erbyn brawd, gwas yn erbyn ei feistr, a deiliad yn erbyn ei deyrn; a'i fod yntau o dueddiad heddychol, ac yn dymuno heddwch. Ac o'r tu arall, nad oedd yn hoffi sefyll yn anmhleidiol ar y pryd, mewn amsersoedd o derfysgoedd cartrefol, gan ystyried nad oedd hyny yn gydweddol â'i gymeriad, nac ychwaith yn ddiogel ddo wneuthur felly. Gadawodd ar ei ol gartref ei ddau fab, sef Morgan a Dafydd, am y rhai y ceir crybwyll eto mewn cysylltiad â Rhyfel y Rhosynau.

Wedi gwasanaethu am lawer o flynyddoedd fel hyn mewn gwlad estronol, daeth yn hwyr bryd iddo ddychwelyd adref, oherwydd cysylltiad rhy agos â chares i'r Duc Philip; yr hon hefyd, fel yr ymddengys, a briododd trwy drwydded oddiwrth y pab, tra yr ydoedd ei wraig gyntaf yn fyw.* Ond wedi ei ddychweliad ni chafodd fwynhau heddwch gwirioneddol dros hir dro; ac yn fuan syrthiodd mewn anghydfod ac ymladdfeydd dau fywyd, y rhai a ymladdai yn wastad ar ei farch, ymarferiad yr ydoedd y dyddiau hyny yn sefyll ar ei ben ei hun ynddo, a phob amser yn fuddugol. Y cyntaf a'i cyffrodd i ornestu ydoedd Harri ab Gwilym, o Gwrt Henri, yn Swydd Caerfyrddin, boneddwr o linach hynafol, yn llawn o fawrfrydigrwydd a chalondid, ac un a ragorai yn fawr arno o ran taldra corff. Ond, o ran y darluniad a roddir, yr oedd Thomas ab Gruffydd yn fwy medrus gyda'i arf, yn meddu dewrder wedi ei reoleiddio yn dda, ac yn ochelgar yn ei weithrediadau. A'r llall yn meddu ysbryd anorchfygol, ond gyda hyny yn chwidr ffrom, a rhy anystyrbwyll. Tynodd y rhai hyn gleddyfau yn erbyn eu gilydd mewn wyth neu ddeg o ornestau gwahanol, a phob tro trodd y fuddugoliaeth o du Thomas ab Gruffydd. Ond y llall, er colli o hono y

* Gweler tudal. 65-6, o'r Cambrian Register am y flwyddyn 1795, ynghyd â nodyn yn ngodrau y ddalen a nodwyd gyntaf.

Digitized by Google

dydd fel hyn, a heriai i'r ymladd drachefn a thrachefn. Ac, a Thomas ab Gruffydd yn ymddiried, tebygol, yn ei fedr a'i gyfrwysder, ac heb ewyllysio dangos dim gomeddiad, a dderbyniai yr her y naill dro ar ol y llall. A thrwy hyny, yn ol ei fywgraffydd, yn troseddu y ddeddf wahanol hono a wnaed i'r amcan gan Lycurgus, ymha un y cynghora, "ut non sapius cumeodem Hoste conquederemur nais bellicosior fieret," yr hyn yn y diwedd a gafodd allan yn wirionedd trwy brofiad o lawer pen briwiedig. A phan yn dyfod adref un tro wedi ei niweidio yn ddifrifol, cyfarfu Ywain ei frawd âg ef; ac, a hwnw yn awyddus i wybod yr achos o'i archollion, a'i hysbysodd iddo fod yn ymladd â'i hen wrthwynebydd, a chael trwyn gwaedlyd ganddo. Yna, meddai ei frawd, a wyt ti wedi llonyddu, buasai yn dda genyf pe yn waeth arnat am ei addysgu yn fedrusach na thi gyda'th arf dy hun.

Darfu i anghydwelediad ynghylch rhywbeth neu gilydd, gyfodi rhyngddo ef a William y cyntaf, Iarll Penfro, o deulu yr Herbertiaid, a bu hyn yn achlysur i un Turberville ei herio i ymladd dau fywyd. Yr ydoedd y Turberville hwn yn fostiwr trahaus, ac yn darianydd trystiog hysbys, ac un a ymladdai ar unrhyw achlysur lleiaf, heb falio nemawr beth fyddai yr achos. A rhyw dro, anfonodd hwn ei lythyr heriadol at Thomas ap Gruffydd, gyda'i wâg ymffrost mai os na wnelai iddo iawnder yn ddiatreg, y byddai iddo ei ffuredu allan o'i dwll gwningen Castell Abermarlais. Gwenodd y llall wrth y genadwri, a ffurfiodd iddo atebiad digon difriog, gan ei hysbysu nad oedd, o'i ran ei hun, yn ei adnabod, ac na chafodd erioed achos i ymrafaelio âg ef, ac y dymunai, gan hyny, arno, os ydoedd am gael ei ladd, am iddo ddewis rhywun arall yn hytrach nag ef at y gwaith, oblegid y pryd hyny nad oedd ganddo nac ewyllys nac amser i ymgymeryd â swydd mor gigyddlyd. Cyffrodd y fath atebiad gwatwarus gymaint ar natur drahausfalch Turberville, nes yr ynfyd fynedodd i Abermarlais, ac ar ei fynediad at y porth, pwy a ganfyddai gyntaf ond Thomas ap Gruffydd ap Nicholas ei hun, eithr heb wybod hyny. Ac felly, gan dybio mai y porthor ydoedd, a ofynodd iddo a ydoedd y gŵr hwnw i fewn. Yna, wedi i'r llall fynegi nad ydoedd ymhell, a gofyn, os meddai neges ato, a gai ef ei ddwyn, parodd iddo ei hysbysu fod yno un Turberville eisiau siarad âg ef. Ar ol i Thomas ab Gruffydd ab Nicholas glywed ei enw a sylwi ar ei arweddiad, addawodd wneyd ei gais, ac aeth i'r parlwr ac anfonodd ddau neu dri o'i weision i'w alw i mewn. Yna, gan gynted ag ei gwelodd Turberville ef, ac heb ymesgusodi dim oherwydd ei gamgymeriad, a ddanododd iddo ei anfoesgarwch, a dyfod o hono yno i'w ddisgyblu am ei haerllugrwydd wrth ŵr mor fawr a

Iarll Penfro. Mewn amser da, Syr, ebai'r llall, ond gyda'ch cenad, a'i nid ydyw fy arglwydd yn ddigon calonog i ymgymeryd â'r swydd o ddisgyblu ei hun heb geisio cynorthwy arall. Ydyw, yn ddiameu, meddai, ond yr ydwyt ti yn gyd-gymar rhy isel i un o'i safle a'i anrhydedd ef, ac felly a'th adawodd i'm cystywaeth i. Yna, gan hyny, ebrai y llall, (er y gallwn yn hawdd osod yn erbyn fy athraw), ymha fan y byddai yn hyfrydwch genyt fy nghael dan ddisgyblaeth. Na, meddai Turberville, y man y myni neu y meiddi di. Cyfarchiad gerwin ebrai Thomas ap Gruffydd, ond nid ydwyf yn anwybodus, gan mai fi ydyw'r diffynydd, mai ar fy newisiad i y mae y fan, y pryd, a'r eirf; ond a siarad yn mherson bachgen ysgol (gan nad ymddengys dy fod yn gwneyd uwch cyfrif o honof), tybiaf nad yw yn arfoes i ysgolheigion benodi pa fan y mae eu meistr i'w cywiro, eto, gan ddeall dy fod yn gadael y peth ar fy llaw i, gâd i hyny fod wrth Gareg Arthur, yn Swydd Henffordd, man ag sydd yn ddiwahaniaeth i bob un o honom (canys feallai y gelli dybio nad diogel i mi fai yn Swydd Forganwg, ond yma yn Swydd Gaerfyrddin, yr ydwyf yn sicr nad diogel i ti), yno y byddaf gyda'm cleddyf wrth fy ochr a'm gwaewffon yn fy ngorphwysdra ar y diwrnod a'r diwrnod. Dyna ben ebrai'r llall. Yna, wedi siarad a'u gilydd rywbeth i'r ystyr yna, yn ol fel y cerdd yr hanes, ymadawsant yn sydyn am y pryd. A phan gyfarfuasant eilchwyl, yn unol a'r penodiad, dangosodd Thomas ap Gruffydd yn fuan na thyciodd i Turberville ei fost haerllug, ac mai callach gwaith fuasai iddo beidio ymyraeth yn ymrafael rhai eraill. Canys ar yr ymgyrchiad cyntaf torwyd ei gefn gan ei wrthwynebydd. Achlysurodd yr ymladdfa hon lid mawr rhwng eu teuluoedd am hir amser, fel yr ystyrir y dengys y frwydr a fu rhwng y Turberviliaid a'r Mathewiaid yn maes Trampton, yn Swydd Forganwg, pa un a ymladdwyd rhyngddynt yn ymrafael Rhys ap Thomas, pryd yr enillwyd y dydd gan y rhai a enwyd olaf, yn ol fel yr ymddangosai oddiwrth eu maddeuawd am waith y dydd gwaedlyd hwnw.

Yr ydys eisoes wedi adrodd o barth lladdiad Thomas ab Gruffydd ab Nicholas yn y Maes ym Mhenal. Y digwyddiad angeuol hwnw, wedi cymeryd lle o fewn terfynau ymchwiliad penodol y llyfr hwn, a agorodd megis gil y drws i ddwyn yr hanesion hyn i fewn yn nghysylltiad âg ef a rhai o'i deulu. Cwympodd ef, a'i dad o'i flaen, fel pleidwyr tŷ Caerefrog; ond ceir dau o'i feibion, ar un adeg, yn cymeryd ochrau gwahanol i'w gilydd yn Rhyfel y Rhosynau. Canys wedi i'r frenhines Margaret a'r tywysog Edwart, ei mab, gael eu gorchfygu mor llwyr yn Tewkesburi, ac i Jasper Tudur, Iarll Penfro, gael gwybod am eu dymchweliad pan ar ei daith â chynorthwyon newyddion iddynt, enciliodd ef a'i nai ieuanc, Harri, Iarll Richmond,

Digitized by Google

—Harri VII. wedi hyny, i gastell Chepsto, ac wedi hyny i gastell Penfro. Ni chawsant lonydd yn hir yn y castell hwn, canys darfu i Morgan, un o'r ddau fab crybwylledig i Thomas ab Gruffydd, trwy orchymyn arbenig y brenin, gyfodi llu mawr, a gwarchae ar y castell hwnw mor dŷn fel nad oedd modd iddynt allu dianc. Ond, pan ydoeddynt yn y fath berygl a chyfyngdra, darfu i Dafydd ei frawd, yr hwn oedd yn gyfaill i Iarll Penfro a theulu Caerwerydd, roddi ei holl allu ar waith i geisio pa fodd y gallai eu gwaredu. A llwyddodd trwy y naill ffordd a'r llall i godi dwy fil o wyr mewn wyth niwrnod o amser. Ond ymddengys fod y rhai hyn, gan mwyaf o honynt, yn anfedrus mewn milwriaeth, ac yn ddiffygiol yn eu harfogaeth. Er hyny, darfu iddo, gyda'r fath fyddinlu, ymosod mor bybyr ar y gwarchaewyr nes eu gorfodi i gilio ymaith, ac felly achubwyd y ddau Iarll crybwylledig o'u cyfyngdra hwnw, a dygwyd hwy yn ddiogel i Ddinbych y pysgod, o'r lle eu dodwyd ar fwrdd llong i forio trosodd i Lydaw.

Gelwid y Dafydd neu y Dafydd ap Thomas hwn yn Dafydd Ceffyl Cwta, a chafodd yr unrhyw ddynodiant oherwydd ei feddiant o, a'i weithrediadau gyda cheffyl o'r fath. Yr oedd gan gymydog iddo geffyl ieuanc ag yr ydoedd Dafydd wedi ei hoffi yn fawr, ac er mwyn ei feddu, rhoddodd i'w berchenog bedair ar hugain o wartheg am dano, a phorfa iddynt am flwyddyn, yr hyn a ystyrid yn afradlonedd, ac a achlysurodd ddifyrwch i'w elynion. Ar ol iddo ddyfod fel hyn i feddiant o'r ceffyl, tociodd ei glustiau, holltodd ei ffroenau, tordd ei gynffon, a chyda hyny nododd a heiyrn wahanol luniau hyllion ac anghenfilaidd ar ei groen er mwyn iddo ymddangos yn fwy dychrynllyd i'w elynion. A rhyw dro ar ol hyn, a'i elynion wedi cael gwybodaeth am daith ag yr ydoedd yn bwriadu ei chymeryd, torasant i lawr ddarn o'r bont ar hyd yr hon yr oedd ei ffordd yn arwain. Yna yntau, pan gyrhaeddodd at y fan a'i elynion yn dilyn yn dyn ar ei ol, a yspardunodd y ceffyl cynffon gwta hwnw, yr hwn a neidiodd tros yr afon neu y gwagle yn deg, gan ei ddwyn yntau ar ei gefn yn ddiogel trosodd o afael ei elynion maleisus. A naid ydoedd hon am yr un y dywedir mai "Naid a'r march na neidir mwy," oedd. Wedi iddo gael y lán o'r tu draw i'r afon, trodd ei geffyl yn ol, a heriodd hwy i'w ddilyn gyda'r buchod (ceffylau) y marchogent arnynt, neu am iddynt ei gyfarfod yn nghanol yr afon, y gwrthsafai bob un o honynt. Ac yna nofiodd ei geffyl gryn bellder i'r afon, ond gan na welai neb yn d'od i'w gyfarfod, dychwelodd gan ddanod iddynt eu llwfreiddiwch a'u gwaelder.

Ond wedi i Dafydd ab Thomas a'i fyddin-lu gwladaidd, guro ymaith y gwarchaewyr a nodwyd, a dwyn ymaith y ddau Iarll hyny,

ac iddynt hwythau ddianc allan o'r deyrnas, ymroddodd y brenin Edward IV. i'w bleserau. Ac yn y cyfamser, darfu i lawer o brif wyr y wlad, er i yspeidiad oddiwrth ryfel cartrefol gymeryd lle, fyned yn mhen ben a'u gilydd, yn yr hyn beth yr ymddyrysodd y ddau frawd dan sylw, a thrwy hyny a ddaethant i'w diwedd yn gyn-amserol. Ac ymhen amser wedi eu marwolaeth, daeth Rhys ieuanc eu brawd,—y crybwylledig Syr Rhys ab Thomas,—i chwareu rhan amlwg a thra phwysig yn Rhyfel y Rhosynau. Ar y cyntaf, wedi iddo dd'od i afael o etifeddiaethau ei dad, cymerai yr un ochr ag yntau. Ond oherwydd anynoldeb creulon a llofruddiog Richard III.—Richard y cefn crwca,—mewn rhan, feallai, trodd oddiwrtho, a chymerodd blaid y crybwylledig Harri, Iarll Richmond,—Harri VII., wedi hyny, yr hwn a achubwyd o'i warchaead yn Nghastell Penfro, fel yr ydys wedi crybwyll eisoes; ac o ran hyny, teulu Carefrawg ydoedd yn meddiant o'r orsedd ar eu gafaeliad o'r etifeddiaeth, ar farwolaeth ei frodyr. Yr ydoedd iddo etifeddiaeth ehelaeth yn dreftadol, ac ychwanegodd lawer ati trwy ei briodas ag un o ferched Harri ap Gwilym o Lys Harri, a'r hwn y bu ei dad yn ymladd dau fywyd gynifer o weithiau. Yr ydoedd i'w dad yn nghyfraith ddwy o ferched, a phriodwyd y llall o honynt gan Syr William Matthews, marchog. Yr oedd ei etifeddiaethau yn ogymaint nes y meddai, yn ol a ddywedir gan y Parch. Robert Williams, B.A., yn ei *Eminent Welshmen*, gynifer ag uwchlaw deunaw cant o ddeiliaid, ac y safai y cestyll Carew, Narberth, Emlyn, Abermarlais, Whibley, ac amryw eraill o fewn ei diriogaethau. Ac y mwynhai yn herwydd ei hen linell deuluaidd, a'i feddianau mawrion, ddylanwad heb fod yn annhebyg i'r hyn a feddai gynt dywysogion y wlad hono.

Yr oedd ei dad yn talu sylw mawr i'w fab hwn yn ei faboed, a'i gyw-reinrwydd yn ei gylch mewn perthynas i'w ddyfodol yn gymaint nes yr aeth i ymholi â gwyddoniaid a daroganwyr parthed ei enedigaeth, yr hyn oedd yn groes i ddysgeidiaeth Ysgrythyrol. Yr ydoedd am iddo gael dygiad i fyny priodol, ac o'r nifer y dygwyd eu henwau gerbron, boneddwr o Ogledd Cymru, o'r enw Dafydd Lewis, a ddewiswyd i fod ei athraw cyntaf mewn llythyriant. Yr ydoedd ei athraw hwn yn wr o feddwl cyflym, o farn gref, ac yn ddysgedig yn y gwyddorion breiniol, wedi cael y rhan fwyaf o'i addysg yn Mhrif-ysgol Padua yn Itali. A thybir mai yr un ydyw ag a fu wedi hyny yn physygwr i'r foneddiges Elisabeth, gweddw frenhinol Edward IV., ac a ddefnyddiwyd hefyd yn offeryn arbenigol fel un o'r dolenau hyny yn y gadwen o bersonau a dynodd Rhys ab Thomas ymlaen o blaid Iarll Richmond.

Ond, pan ydoedd Rhys ab Thomas yn cael ei ddwyn i fyny o dan

Digitized by Google

ei athrawon, aeth Thomas ab Gruffydd ab Nicholas, ei dad, trosodd i Burgundi; a chymerodd ei fab hwn i fyned trosodd i wlad dramor. Cafodd Rhys trwy hyn addysg filwrol uchel; a rhyw dro pan oedd Philip, Duc Burgundi, yn golygu ei fyddinoedd, a digwydd ei weled yn y farchwriaeth, a chan ddal sylw ar ei agwedd harddwych yn marchogaeth, gweddusder ei gorff, a syberwyd syfydledig ei ymddangosiad, a anfonodd am Thomas ab Gruffydd ei dad, yr hwn a adwaenai er's hir amser, ac a geisiodd yn ddifrifol ganddo ganiatau iddo ei gael i fod yn wasanaethydd iddo. A chaniatodd ei dad, er yn lled anewyllysgar, iddo ei gael; gan ofni, rhag, wedi i'w gyfeillgarwch âg un o waed y dug ddyfod yn wybyddus, y gallasai hyny fod yn ddinystr iddo. Ac a'r dug yn deall nad hawdd oedd gan ei dad adael iddo ei gael yn wasanaethydd, ond heb wybod paham hyny, a ddywedodd na fyddai yn waeth arno nac ar ei unig fab yntau. Ac felly a'i gosododd gydag Iarll Charoloy. Ymhen amser, a'r iarll hwnw yn gweled ei fod yn alluog i gyflawni swyddogaethau uwchlaw yr hyn y gofynai ei oedran, a gynygiodd iddo, er ei galonogdid, lu o feirchwyr dan ei ofal. Ond, yn lle ymgymeryd â hyny, yn foesgar a wrthododd y dyrchafiad, gan roddi fel rheswm dros ei waith yn gwrthod, ei anwybodaeth a'i anmhrofiad o'r dyledswyddau yn y swyddogaeth, ac yr ystyriai yn ddigon o gyfodiad iddo am y pryd os caffai fod fel boneddwr yn ei osgordd-lu. Caniataodd yr iarll hyny iddo, gan ei gymeryd dan dâl. A bu yntau yn ddyfal yn dysgu milwriaeth, mewn naill ai yn nhriniaeth arfau, nofio, ymgodymu, cerdded, neu unrhyw ymarferiad milwrol a osodid arno. Ac felly, erbyn yr adeg yr oedd yn hen bryd i'w dad ddychwelyd adref, fel y sylwyd eisoes, yr ydoedd wedi ymgodi trwy y gwahanol swyddi y bu ynddynt nes cyrhaeddyd y radd o gadben. Ond, pan fel hyn yn cael ei ddyrchafu yn y filwriaeth, parodd ymddygiad ei dad fod yn ofynol iddo yntau, hefyd, ymadael o Burgundi, a dychwelodd adref i Gymru.

Yna ymhen amser ar ol ei ddychweliad yn ol i'w wlad, ac i farwolaeth ei dad a'i ddau frawd a nodwyd gymeryd lle, cynygiwyd, trwy gyngor ei gynghorwyr, er mwyn cynorthwyo i'w ddwyn ymlaen yn llwyddianus, fod i briodas gymeryd lle rhyngddo ef âg Efa, un o gyd etifeddesau yr unrhyw Harri ab Gwilym, yr hyn hefyd a ddygwyd yn hawdd oddiamgylch. Yr ydoedd yr ymrafael ag a fu yn ffyrnigo am hir flynyddoedd rhwng ei dŷ ef a thŷ ei dad-ynghyfraith wedi bod yn dra dinystriol i'r ddwy ochr. Ond trwy y briodas hon, cafodd Rhys ab Thomas gystlynaeth gref, ac etifeddiaeth, os nad yn gyfartal a'i eiddo ei hun, eto nid llawer yn llai. A bu y fath heddychiad a chyfathrachiad yn gynorthwy iddo ymgodi i fwy bri

Digitized by Google

ac awdurdod. Ac ymhen amser wedi iddo briodi a chael ei dŷ i drefn, yr oedd cyniweiriad boneddwyr yno yn fynych a niferog; a'i osgordd yn ogymaint pan yn myned oddicartref, fel, pa le bynag yr elai, yr ymddangosai yn debycach i dywysog nac i ddeiliad unigol. Ond, er y tynai hyn arno gostau trymion, eto, gofalai ddal y ffrwyn yn ei law ei hun megis, gan gadw o fewn terfynau ei dderbyniadau blynyddol.

Yn adeg ei ddyfodiad i awdurdod eisteddai Edward IV. ar yr orsedd, teyrn o dŷ Caerefrog, yr hwn wedi iddo gael y llaw uwchaf ar dy Caerwerydd, ac Iarll Richmond, a'i ewyrth Jasper Tudur ar ffo tros y mor a ymollyngodd yn fawr i'w bleserau a'i orphwysdra. Ond, ymgymerodd Rhys ab Thomas a dwyn i fyny foneddion ieuainc y wlad ac eraill o'r goreugwyr yn hyddysg mewn milwriaeth. A chyfododd y fath fyddin-lu ragorol yn nisgyblaeth filwrol yr amser fel ag y dywedid y gallasai y gwaelaf o'i mewn gyflawni dyledswydd cadben ar newidiad. Y gwyr a ddewisodd i ddwyn eu dysgeidiaeth ymlaen yn benaf oeddynt Richard Gruffydd ac Arnold Butler, dau gadben tra enwog yn y parthau hyny mewn medr milwrol. A gweithiai y rhai hyn y gwyr dan eu haddysgiaeth yn drwm, gan eu cynefino yn ddyddiol (fel pe buasent mewn rhyfel), i gyflawni dyledswyddau caletaf milwyr, yr hyn, ar y cyntaf, a ymddangosai iddynt yn galed ac anhyfryd, wedi arferyd yn flaenorol â dull afreolus o ymladd gyda chrymanau, pigau, a gleifiau. Ond, ar ol iddynt gyraedd tipyn o wybodaeth ac ymarferiad yn y driniaeth newydd, nodir, y dywedir iddynt ymbleseru cymaint ynddi fel na chai eu hyfforddwyr amser i orphwyso. A chynhaliai y boneddwyr gyfarfodydd yn aml, yn y rhai yr ymddiddanent, yn fwyaf cyffredinol am gaerfeydd, amgloddiau, a threfn brwydrau.

Prifiodd Rhys ab Thomas yn gadarn mewn gwyr meirch trwy y naill ffordd a'r llall, ac yr oedd ganddo rhwng deunaw cant neu bedwar cant ar bymtheg o dir-ddeiliaid, a'r oll o honynt yn rhwym o fod yn barod gyda march pa bryd bynag y galwai am hyny. Ond, oherwydd priodoliad gormod o allu iddo yn y llinellau canlynol gan Rhys Nanmor, bu raid i hwnw fyned ar ei brawf:—

Y brenin bia'r ynys,<br>Ond sy' o ran i Syr Rhys.

Ond amddiffynodd y bardd ei hun yn ngwyneb y cwyn yn ei erbyn mewn perthynas i'r honiad hwn ynddynt, trwy honi mai wedi camgymeryd ei ddywediad yr oeddis, ac mai fel hyn y canasai:—

Y brenin bia'r ynys,<br>A chyrau Ffrainc a chorff Rhys.

Ymddengys fod gan Rhys ab Thomas—Syr Rhys y llinellau hyn—law yn nygiad y bardd i brawf yn nghysylltiad â'r achos, ac esboniai ei fywgraffydd mai ei deyrngarwch a barai iddo weithredu felly. Ond, modd bynag am hyn, hwyrach nad yn hawdd y gallasai osgoi hyny, *a chadw'r cwpan yn wastad*, fel y dywedir, rhyngddo â'r awdurdodau os oedd y llinellau *wedi myn'd i'r gwynt*. Ond hawdd y gellir coelio ei fod yn falch o gael gwaredu ei hoff fardd, canys bu i honiad hwnw ddarfod camgymeryd y llinell, ynghyd a'r ffurf o roddodd iddi ar ei brawf, fod yn foddion i hyny.

Bu Edward IV. yn teyrnasu am tua deng mlynedd o amser ar ol i Rhys ab Thomas ddyfod i afael o etifeddiaeth ei dad, a safodd yntau yn deyrngarol iddo. Ond, cyn hir ar ol ei farwolaeth llwyddodd y gwaedlyd Richard III. i gael gafael o'r orsedd, a chyn diwedd teyrnasiad hwnw, trodd ei holl nerth o blaid Harri Iarll Richmond, y Brenin Harri VII. wedi hyny, at yr hyn y cyfeiriwyd eisoes. Ac, fel penaeth milwrol, a gwr o allu a dylanwad yn y wlad, bu yn un o'r prif rai i droi y dydd o blaid yr unrhyw Iarll yn mrwydr Bosworth. Cafodd ei arwain, mewn rhan, i daro yn ei blaid trwy y moddion canlynol. Darfu i Ddug Buckingham, pan oedd Richard yn teyrnasu, ddigio yn fawr wrtho, wedi yn flaenorol ei gynorthwyo i fyned yn frenin trwy gyd-weithredu âg ef yn ei ddihirwch; ac mewn canlyniad i hyn, er mwyn ei ddiorseddu, bu iddo, trwy gyngor Esgob Eli, gychwyn cynllun a lwyddodd i ddwyn hyny i ben. A hwnw oedd, ceisio cyfodi yr Iarll crybwylledig yn frenin yn ei le. Ac er mwyn rhwyddhau y ffordd i'w osod yn y deyrngadair, geisio trefnu ar fod i briodas gymeryd lle rhyngddo â'r foneddiges Elisabeth, merch hynaf Edward IV., yr hwn ydoedd o dŷ Caerefrog, ac felly uno tŷ Caerwerydd â'r unrhyw yn y llinach frenhinol. Y cyntaf a ddygwyd i mewn i'r gyfrinach oedd un Richard Brag, yr hwn a ymgymerodd â chymeradwyo y peth i'w feistres, yr Iarlles Richmond, mam y crybwylledig Harri, Iarll Richmond. Ac nid hir y bu iddi ddirgelu y cynygiad oddiwrth ei meddyg, y Dafydd Lewis a enwyd, ag a fu, fel y tybir, yn addysgydd am ryw hyd i Rhys ab Thomas. Yr ydoedd y gwr hwn yn ddyn bywiog a gweithgar, ac o allu meddyliol cryf; a chan hyny, o dan gochl ei gelfyddyd feddygol, a ollyngid yn aml i mewn i ymgyngoriadau cyfrinachol. Ac ef a ddewiswyd gan yr Iarlles fel y cymhwysaf i dramwyo rhyngddi hi â'r frenhines waddolog i ddwyn y cenadwriaethau cyfrinachol yn mherthynas i ddygiad ymlaen briodas rhwng ei mab hi a merch y llall, yr hyn hefyd a gyflawnodd yn ffyddlon a boddhaol i'r ddwy ochr. Ond, tua'r pryd hwn yr oedd yn ymrafael blin rhwng Rhys ab Thomas a'r dug crybwylledig, ac yr oedd yn dra phwysig dwyn oddiamgylch gymodiad

Digitized by Google

rhyngddynt, a chael gan y blaenaf bleidio yr achos. Yr oedd yr ymrafael rhwng y ddau hyn wedi codi mor uchel ar y pryd, nes, ychydig ddyddiau yn flaenorol yr oedd Dug Buckingham wedi anfon her lythyr ato, gan fygwth mewn ieithwedd chwyddedig a thrahaus y deuai i'w bastynu allan o'i gastell Caerfyrddin, os na fyddai i fodlondeb buan gael ei roddi i'w arglwyddiaeth am niweidiau a dderbyniodd. Ac, yr anfonodd y llall yn ol, fod y ffyrdd yn fynyddig a chreigiog, y gallai ei radlonrwydd hebgor y drafferth, gan y bwriadai ef ei hun ddyfod ato yn fuan i Frycheiniog, ac yno dderbyn ei eirchion. Yr hyn, yn ol ei fywgraffydd, a olygai nad ydoedd yn ameu y gallai, trwy gynorthwy y Fychaniaid a'r Gamiaid, ynghyd â'i gyfeillion ffyddlon eraill, ei ddarostwng wrth ei ddôr ei hun. A mynega yr unrhyw awdurdod y gallasai hefyd gyflawni hyny, gan na feddai y dug namyn awdurdod noeth i orchymyn iddynt fel personau, ond heb feddu gafael ar eu serchiadau; tra yr oedd gan y llall, trwy eu cydsyniad unol, reolaeth llwyr arnynt.

Ac, i ddwyn heddychiad ymlaen rhwng y ddau hyn, anfonwyd yr unrhyw feddyg, y Dafydd Lewis crybwylledig eisoes, ar y neges pwysig hwn. Ac, ag yntau yn falch o'r gwasanaeth i geisio hyrwyddo y ffordd i gael cwblhad llwyddianus ar yr anturiaeth parthed Iarll Richmond, a ymgymerodd i wneyd a allai yn y cyfeiriad hwnw. Ac i'r cyfryw ddiben teithiodd i Gymru at Rhys ab Thomas, yr hwn, ar y pryd, a drigianai yn ei gastell Abermarlais, lle ei cafodd yn barod i ddullweddu ei ffordd am Frycheiniog, ac yno i benderfynu yr ymrafael rhyngddo â'r dug â min y cleddyf. Ac wedi cyraedd o hono ato, rhoddodd ei holl allu ar waith i ddwyn ei neges i derfyniad heddychol, gan ei hysbysu hefyd fod darpariadau mawrion ar droed er daioni y cyhoedd, am yr hyn, cyn hir, y caffai ei hysbysu, ac felly mai gwell fai iddo gadw ei ddewrder at amgenach amcan. Ac fel hyn, trwy y naill ymresymiad a'r llall, dygwyd Rhys ab Thomas i ymbwyllo ac i ymatal oddiwrth ei ryfelgyrch bwriadedig. Yna, wedi i'r meddyg lwyddo gydag ef, cyfeiriodd ei daith at y dug, a llwyddodd yn ogystal gyda hwnw hefyd. Ac o'r diwedd, cafodd y ddau yn ddigon ystwyth i gyfarfod â'u gilydd yn heddychol mewn lle o'r enw Trecastell, haner y ffordd rhwng Abermarlais a Brycheiniog.

Yn awr, wedi dwyn ymlaen gymod cydrhwng y ddau hyn, yr ydoedd yn angenrheidiol hysbysu Rhys ab Thomas am y gyfrinach ynghylch Iarll Richmond, a'i ddwyn i weithredu yn ei blaid. Ac i'r amcan hwnw, ymddiddanodd yn gyfrinachol â'i hen gydnabod, Morgan o Gydweli, yr hwn ydoedd yn wr call, ac yn gyfaill agos i Rhys ab Thomas yn ei gyfrin gyngor. A chyn iddynt ymadael, ymgymerodd y gwr hwnw a'r gorchwyl, os y caniatai i Esgob Ty-

Digitized by Google

ddewi ac Abad Talleu, (Talyllychau), fod yn gyfranog yn y cynghorion, yr hyn hefyd a ganiataodd y llall.

Daeth y gormes-deyrn Richard i ddeall fod rhyw weithrediad a chynlluniau ar droed i'w ddiorseddu, a cheisiai yntau ddiddymu y cyd-fwriad neu atal ei lwyddiant. Ac, ymysg ei weithrediadau a'i gynlluniau eraill, anfonodd ei ddirpwywyr i Gaerfyrddin at Rhys ab Thomas i geisio llŵ o ffyddlondeb ganddo, ac hefyd i geisio Gruffydd Rhys, ei fab, fel gwystl y byddai iddo yn ffyddlon gadw ei deyrngarwch yn y dyfodol. Ni safodd yntau yn erbyn cymeryd y llŵ a geisid ganddo, eto, y mae yn ymddangos nad oedd yn foddlon iawn i'w gymeryd; ond dymunai ar y dirprwywyr beidio a'i amddifadu o'i unig* fab, yr hwn nad oedd uwchlaw pedair neu bum' mlwydd oed; gan ychwanegu nad amheuai y byddai iddo trwy lythyr roddi y cyfryw foddlonrwydd i'w fawrhydi ag a gyd-fynedai a'i ddymuniadau a'i ddyledswydd i bawb. Ac a hyn y cydsyniodd y dirprwywyr; a dyddiwyd y llythyr crybwylledig o Gastell Caerfyrddin yn y flwyddyn 1484.

Pa dderbyniad bynag a gafodd y llythyr† hwn, addefir gan y rhan fwyaf, yn ol a nodir, ddarfod i Rhys ab Thomas ar hyn fyned yn dra anfoddlon, gan barhau i ofni pa esboniad aswy a roddid i'r hyn a ysgrifenasai. Ac, a'r crybwylledig Esgob Tyddewi, ac Abad Talyllychau, yn sylwi fod ei feddyliau yn derfysglyd, a dybiasant ei bod yn adeg briodol i gyflawni yr hyn a addawodd Morgan o Gydweli wrth y meddyg Dafydd Lewis, gyda eu cynorthwy hwy ei wneuthur yn mherthynas i Iarll Richmond. Ac, felly o dipyn i beth mynegasant yr oll iddo, am yr hyn yr ydoedd yn gwbl anhysbys yn flaenorol, gan bwyso arno trwy eu hymresymiadau ddäed oedd yr achos, a'r angenrheidrwydd ar i bob dyn ei gynorthwyo. Ond, ar y pryd, rhoddodd yn ateb iddynt, fod y Brenin Richard, pa mor ddrwg bynag, ac wedi meddianu y goron trwy drahauswaith, er hyny ei frenin *in esse*, ac felly y daliai ei hun yn rhwym, yn hytrach ag ymostyngiad, i ddioddef y gormesiaeth gwaethaf, nac mewn ffordd o wrthryfel i wrthwynebu eneiniog yr Arglwydd:—y diafol, yn hytrach, ebai yr esgob, fel gwrthateb i hyn. Ymddengys nad ydoedd Rhys yn cael ei anfoddhau gan ddadleuon yr esgob yn erbyn Richard; eto, ymresymai o barth y llw ydoedd newydd ei gymeryd a'r llythyr crybwylledig, fel atalfeydd ar ei ffordd i gydsynio â'r cais. Ac yr ydoedd wedi dweyd yn y llythyr hwnw y byddai yn rhaid i bwy bynag

* Bu iddo lawer o blant anghyfreithlawn o Gwenllian, chwaer i Abad Talyllychau.

† Dywed ei fywgraffydd nas deallodd i'r llythyr hwn gael ei ateb, ond ddarfod iddo glywed am amryw o orchmynion i'w gadarnhau yn ei ffyddlondeb, gan ei annog i ddyfalwch yn ei warchodaeth.

Digitized by Google

drwg ei ewyllys i'r llywodraeth a feiddiai lanio yn y parthau hyny o Gymru ag y meddai ef unrhyw benodiad o dan ei Fawrhydi, benderfynu ynddo ei hun yr elai, ac y rhuthr-gyrchai tros ei fol ef.

Yna yr esgob, er mwyn symud y rhwystrau hyn o'i feddwl, a ymresymodd yn drwm wrtho, ac yn y diwedd a ddywedodd ei fod ef fel ei dad ysbrydol yn ei ddad-gadwyno oddiwrth yr ymrwymiadau hyny, ac yn rhoddi iddo ryddollyngdod. Ac yn mherthynas i'w lythyr at yr adyn anffyddlon hwnw, dywedai (gan apelio at ei arglwydd abad, yr hwn a'i cyfansoddodd) nad ydoedd yn gwybod y cynwysai ddim nas gallai yn iawn ei roddi heibio heb achwyniad ar ei anrhydedd. Ac y barth y rhan benodol hono o'r llythyr, lle yr ymgymerai trwy lw na chaffai neb drwg ei ewyllys i'r llywodraeth lanio yn Aberdaugleddyf heb fyned tros ei fol, mai ei ateb oedd, nas gallai Iarll Richmond fod yn ddyn drwg ei ewyllys i'r llywodraeth wrth ddyfod i geisio ei hawl ei hun, a chyda hyny i'w rhyddhau hwythau oddiwrth eu trwm gaethiwed. Neu, os ydoedd yn mhellach yn betrusgar am hyn, na fyddai iddo byth ddal y byddai yn unrhyw anfri i'w ostyngeiddrwydd i orwedd ar ei hyd ar lawr, i'w gwir a'u diamheuol arglwydd hwy oll gael mynedfa hawdd drosto. Bu i ymresymiadau yr esgob fod yn foddion i wneyd Rhys ab Thomas yn fwy ystwyth, trwy iddynt dawelu yr amheuon a allent fod yn cythryblu ei feddwl. Er hyny, ni ddywedai ddim ar y pryd a ddangosai ei fod yn cydsynio, namyn y dywedai eiriau weithiau ag a roddai iddynt haner sicrwydd nad ydoedd yn caru y gormes-deyrn, trwy yr hyn y casglent nad ydoedd mor gythryblus ei feddwl ynghylch toriad ei addewid, megis pe y disgwyliai, mewn achos o gymaint pwys, yr ymhweddid âg ef gan uwch gwyr. Gan hyny, fe'i gadawyd am amser i lunio ei benderfyniadau ei hun. A thua'r amser hwn, yr ydoedd Iarlles Richmond yn anfon symiau mawrion o arian i'w mab i Lydaw, gyda hysbysiadau am ewyllys da mawrion a chyffredin y wlad i bleidio ei achos. Y gwr a ddefnyddid i'r gwasanaeth hwn ydoedd Huw Conwy, yr hwn yn awr a ddechreuodd ofidio, fel, er y meddai gyfarwyddiadau penodol am i'r Iarll lanio yn Aberdaugleddyf, eto, nis gallasai wybod y canlyniad os na fyddai i Rhys ab Thomas gael ei ddwyn i fod yn gyfranog yn y gweithrediadau, heb yr hyn nid oedd wiw edrych am le i lanio ar yr arfordir hwnw. Ac felly, gan ystyried ei neges yn dra diffygiol, a oedodd cyn cymeryd ei daith am Plymouth, o ba le yr ydoedd i forio trosodd i Lydaw at yr Iarll, gan ddisgwyl clywed pa fodd y llwyddodd cais Morgan o Gydweli. Ond o barth hyn, cafodd wybod mewn pryd trwy y meddyg Dafydd Lewis, yr hwn cyn cychwyn o hono ymaith a ddygodd y newyddion pa fodd y trodd allan gydag ymdrechion yr unrhyw Forgan, ynghyd ag Esgob

Tyddewi, ac abad Talyllychau, i ddwyn Rhys ab Thomas i gydweithredu. A thyb y rhai hyn oedd, er eu bod heb gwbl lwyddo, eto, nad oedd achos anobeithio, os pwysid arno yn deg trwy lythyrau oddiwrth yr Iarll ei hun, neu gan ryw berson o awdurdod ymddiriededig i'r amcan hwnw. Wedi i'w fam, yr Iarlles Richmond, glywed hyn, tybiodd fod haner yr ymdrech wedi ei henill, ac felly cyfarwyddodd Huw Conwy i gynghori ei mab i ysgrifenu ar frys at Rhys ab Thomas, a rhoddi iddo addewidion mawrion am anrhydedd.

Yr oedd y crybwylledig Ddug Buckingham wedi myned dan arfau yn erbyn Richard, a cholli ei ben trwy law y dienyddwr, cyn i Rhys ab Thomas hysbysu ei gyfeillion pa beth a wnai. Ond wedi clywed o hono am hyn, galwodd am ei gyfeillion, y dywededig Forgan o Gydweli, Esgob Tŷ Ddewi, ac Abad Talyllychau, i ymuno mewn cyngor, ac am yr hen filwyr profiadol, Rhisiart Gruffydd, Shon Morgan, ac Arnold Butler. A mynegodd iddynt am gwymp y dug hwnw, gan ymddiddan oddiwrth y ffaith hono ynghylch ei sefyllfa ei hun a Chymru, gan mai Cymry gan mwyaf a ddilynai y dug yn ei ymdaith ryfelgyrchol tua glan yr Hafren, pa un a drodd allan yn aflwyddianus. Yna, ar ol i'r gwyr hyny ei gynghori, rhai fel hyn a rhai fel arall, heb wybod beth a wnai Iarll Richmond pan glywai am fethiant angeuol Dug Buckingham yn ei achos, mynegodd yntau yn eglur ei fod yn bwriadu yn uniongyrchol ac yn benderfynol amddiffyn achos yr iarll; ac os byddai iddynt ei ddilyn y caent weled y gwnelai ei fywyd a'i ffawd ei hun yn gyffredin gyda'u rhai hwythau yn mherygl ac anrhydedd yr ymdrech. Ac wedi iddynt hwythau, trwy iaith ac ymddangosiad, addaw eu ffyddlondeb iddo yn yr achos, chwenychai ef gymeryd y maes yn ebrwydd, a chyhoeddi Iarll Richmond yn frenin dan yr enwad o Harri VII., yr hyn beth y darfu iddynt yn uniongyrchol ei atal hyd nes y dychwelai Huw Conwy yn ei ol o Lydaw. Canys ystyrient na fyddai namyn ynfydrwydd gwneyd hyny heb fod yr Iarll yn bresenol, neu o leiaf heb ei gydsyniad, ac hefyd y byddai myned dan arfau yn ymddangosiad amlwg o wrthryfel, yr hyn a fyddai yn ffordd rwydd i'w darostwng. Eto, gan y deallent trwy hysbysrwydd cyfrinachol gan eu cyfeillion fod Richard yn dechreu drwg-dybio Rhys ab Thomas, ynghyd a'i ddeiliaid eraill, cynghorent ef i sefyll ar ei wyliadwriaeth, gan gadw ei gyfeillion o'i amgylch rhag i unrhyw ymosodiad disymwth gael ei wneyd arno. Ac felly dilynodd yr unrhyw gyngor; canys o dan rith o warchawd yr arfordir, cynhaliai gyfarfodydd yn aml gyda'r rhai galluocaf yn y wlad am wasanaeth, y rhai, gyda'r crybwylledig Shon Morgan, Rhisiart Gruffydd, ac Arnold Butler, a ddisgyblasant ac a hyfforddiasant lu rhagorol o filwyr. Hefyd, rhoddid gwyr



Digitized by Google

ymddiriedol ar waith i geisio cael allan dueddiad y bobl, a dywedai Rhys ab Thomas weithiau eiriau amheus, trwy y rhai y gellid yn hawdd gasglu i ba ochr y gogwyddai. A lled-daenid trwy ganiatad, enllibiau a cherddi difrïog am Richard, pa rai a waherddid drachefn ac a elwid i mewn yn ol, a thrwy y naill beth a'r llall, cythryblid meddyliau y bobl fel nas gwyddent yn mhwy i ymddiried. Y gwyr cyfoethocaf, yn ol a nodir, gan dybio mai hyny oedd ddiogelaf, oedd am bleidio Richard; y canol radd am bleidio Iarll Richmond; a'r rhai ffrochwyllt isel eu hamgylchiadau, fel yn hoffi rhwyfo mewn dyfroedd cynhyrfus, heb falio pa ochr i droi, eto yr oll yn barod i ddilyn Rhys ab Thomas. Tramwyodd yntau i'r naill fan a'r llall lle y meddai awdurdod, gan roddi i rai o gynwys ei bwrs, ac addewidion i eraill, a sicrhai iddynt oll y caffai eu peryglon a'u hawddfyd sylw cyfartal ganddo ag a gai'r cyfryw yn mherthynas âg ef ei hun. Ac wedi nodi iddynt eu dyledswyddau, a'u darbwyllodd i fyned i'w cartrefydd eu hunain, gan ddymuno arnynt fod yn barod ar y rhybudd lleiaf a roddid trwy danio y "carnau gwylathyn," neu trwy rywfodd arall.

O'r diwedd, dychwelodd Huw Conwy gyda chenadwri oddiwrth yr Iarll, ac anfonwyd cenadwri yn ol ato yntau, yn cynwys hysbysiad pa mor barod a galluog oedd Rhys ab Thomas, ac â pha fywiogrwydd y cymerodd ei achos i fyny. Ac ymhen amser, moriodd y gwr hwnw allan o Harfleur, gyda dwy fil o ganlynwyr salw eu harfogaeth ac anfedrus yn nhriniaeth arfau, a gafodd yn gynorthwy gan frenin Ffrainc; ac ymhen saith niwrnod ar ol eu cychwyniad, ymddangosodd y llynges "ar gyfer Aberdaugleddau."

Yn y cyfamser, pryderai Rhys ab Thomas yn fawr rhag ofn i ddichellion negeseuawl rhwng Richard â brenin Ffrainc andwyo honiadau Harri, ac ei gorfodid i ofera ei amser allan mewn deisyfiad am ychydig gynorthwy gan frenin y wlad hono; ac hefyd, rhag ofn na laniai yn y porthladd a enwyd. Ac un tro aeth mor bell ag i fygwth y crogai ei broffwyd neu ei ddaroganydd, os na fynegai iddo o barth ei laniad, a pha un a ddeuai o gwbl i Aberdaugleddyf. Yr ydoedd y gwr hwnw yn flaenorol, trwy fawr gymell arno i ddweyd ei feddwl, wedi darogan llwyddiant yr Iarll, ond wedi gofyn am ddiwrnod o amser cyn mynegi o barth y glaniad, a phan ddaeth i'w gyfarch dranoeth, chwenychai fyned ymaith heb ddarogan parth hyny, ac felly bygythiodd y llall y gosbedigaeth a nodwyd arno, os na chyflawnai ei addewid. Ac yna adroddodd hwnw nifer o linellau a ystyrid yn golygu y deuai i Aberdaugleddyf. O'r diwedd, dygwyd gair i Rhys ab Thomas oddiwrth y gwylwyr, fod llynges fechan yn cyfeirio tua genau'r aber. Parotodd yntau ei lu i fyned tuag yno, a

Digitized by Google

marchogai gyda hwy ar gefn ei farch Llwyd y Bagsau. A derbyniodd yr Iarll i dir, gan gynyg ei wasanaeth yn ostyngedig iddo, yn ei enw ei hun a'i ganlynwyr. Ac yn mherthynas i'w ymrwymiad difrifol y gorfyddai i elyn i'r llywodraeth a anturiai ddyfod i dir yn y parthau hyny, darfu iddo, yn ol ei fywgraffydd, orwedd ar lawr, gan adael i'r Iarll fyned ymlaen drosto. Ond ceir y dywed traddodiad yn y wlad hono mai myned o dan fwa pont fechan a wnaeth, ac aros yno hyd nes i'r Iarll fyned drosti. Modd bynag am hyn, y mae yn ddigon eglur nad oedd y naill na'r llall o'r cyfryw ddulliau namyn rhith o gyflawniad yr ymrwymiad. Ond wedi i'r Iarll sylwi gyda boddhad a chymeradwyaeth ar y milwyr Cymreig a'i croesawent i dir, a'u hanerch oreu y gallai ar y maes agored, rhoddwyd derbyniad tra brwdfrydig iddo ganddynt fel y brenin Harri.

Wedi hyn dechreuwyd ymbarotoi i fyned ymlaen i enill y goron oddiar Richard, a derbyniwyd y Ffrancod yn garedig i dir, a chyflawnodd Rhys ab Thomas eu diffygiadau arfogol ogystal ag y caniatai amgylchiadau iddo. Ac wedi cael pethau yn barod, ac i Esgob Ty Ddewi bregethu i'r fyddin oddiar y bedwaredd adnod o'r bymthegfed Salm a thriugain, ac i'r fyddin gyfarch yr Iarll fel y Brenin Harri, cychwynodd y byddinoedd ymlaen tua'r Amwythig,—yr Iarll trwy Geredigion, a Rhys ab Thomas trwy Gaerfyrddin a Brycheiniog. Ond, ymgyfarfyddodd y ddau drachefn, wedi cyraeddyd y lle hwnw, a chyfarchwyd gwell i'r Iarll gan Rhys ab Thomas, yr hyn a fu o fawr lawenydd iddo wrth ganfod y fath lu o Gymry a arweinid ganddo; canys, er cymaint yr ymddangosodd y gwr hwnw yn ei ffafr ar ei laniad, siaredid y bwriadai droi o blaid Richard, ac yr ymladdai yn ei erbyn i'w atal ymlaen. Ac achlysurwyd y cyfryw chwedlau gan Rhys ei hun, er mwyn dallu llygaid Richard hyd nes y byddai wedi cyraedd ei lawn nerth trwy gaffaeliad adgyfnerthion. Gorweddai Richard y pryd yma yn Nottingham, ac nid yw yn ymddangos y deallai sut yr oedd pethau yn bod mewn gwirionedd yn Nghymru cyn i'r byddinoedd ymdeithio ymlaen i'r ymdrech. Yr ydoedd wedi

---

NODYN.—Mewn cyfeiriad at a ddywedwyd yn y tud. 30, am ddistawrwydd y cyn-feirdd Cymreig o barth y defodau yn nghysylltiad â llosgiad cyrff y meirwon gellir nodi y ceir y crybwylliad canlynol am Fygedorth Rhun, mewn hen gerdd yn dwyn y peniad Daronwy:—

"Mcgedorth run yssef a wc,
Rwg kaer rian a chaer rywc
Rwg dineidyn a dineidwc
Eglur dremynt a wyl golwc.
Rac rynawt tan dychyfrwymwc.
An ren duw an ry amwc.

clywed, heb fod lawer o amser cyn hyny, lanio o'r Iarll yn Aberdaugleddyf, ond fod pob peth angenrheidiol i'w anturiaeth heb eu darparu, a'i fod yn dra egwan o nerth milwrol, yr hyn a'i gwnaeth yn esgeulus o'r canlyniadau pwysig a ddilynodd. Ond, wedi clywed o hono am ymdeithiad y fyddin, a bod Rhys ab Thomas a'i holl nerth o'i blaid, prysurodd i gael ei wyr yn barod i'r maes, a daeth y ddwy fyddin i olwg eu gilydd yn nghymydogaeth pentref Bosworth; ac wedi i gyrn angau alw i'r gâd, dechreuodd yr ymladdfa, ymha un y collodd Richard ei goron a'i fywyd. Ymladdai yn ffyrnigwyllt yn y rhuthr a wnaeth yn y frwydr hon, a chwympodd ar ol eu gilydd ddau fanerwr i'r Iarll, o wyr galluog a dewrder hysbys, sef Syr William Brandon a Syr John Cheney; ac ar hyny, ymaflodd Rhys ab Meredydd, o Hiraethog, yn y faner, ac a'i daliodd yn ddiogel yn nghanol prysurwaith gwaedlyd arfau rhyfel. A rhoddwyd pen ar yrfa Richard gan law anhysbys, ond rhai a ddywedant mai Rhys ab Thomas a roddodd yr ergyd farwol iddo; eithr nid oes cadarnhad i hyn. Ond cafodd ei urddo yn syr ar faes yr ymladdfa. Cymerodd ymladdfeydd le wedi hyn i geisio diorseddu Harri, yr hwn a enillodd y dydd yn y frwydr hon.—Brwydr Bosworth; er hyny ystyrir hi fel yr un a roddodd derfyn ar Ryfel y Rhosynau, ymha ryfel, yn ol Carnhuanawc, yr ymladdwyd tair ar ddeg o frwydrau, ac y lladdwyd can' mil o wyr, ymysg pa rai yr oedd pedwar ugain o arglwyddi o waedoliaeth brenhinol.

---

## PONT AR DDYFI A'R RHYFEL CARTREFOL.

Y mae hanesiaeth wedi dwyn y bont hon (Pont ar Ddyfi) i sylw mewn cysylltiad â digwyddiadau y Rhyfel Cartrefol yn amser Charles I., pan yr oedd y teyrn hwnw mewn ymdrechfa waedlyd yn erbyn gwyr y Senedd. Ar y seithfed dydd ar hugain o Dachwedd, yn y flwyddyn 1644, ymdeithiodd llu o filwyr y Senedd tua Machynlleth, a hyny o Swydd Aberteifi, fel yr ymddengys; ac heb fod ymhell o'r dref, y tu draw iddi, cyfarfyddwyd â hwy gan gattorf o filwyr y brenin, dan arweiniad yr Uchgadben Hookes a Syr Richard Price; eithr curwyd gallu bychan y rhai hyn yn ol trwy y dref, a thros Bont ar Ddyfi; ond wedi cyraedd o honynt y tu hwnt i'r bont hono, gwrthsafasant y gelyn, gan ei gadw draw tra parhaodd eu

Digitized by Google

cad-arlwy. Wedi hyny ffoisant ymaith, yn ngholl o un dyn a rhai carcharorion. Yna ysbeiliwyd Machynlleth yn ddidrugaredd gan wyr y Senedd, a daethant y——dydd o Dachwedd, i Fathafarn, a lladdasant ddau ddyn, a llosgasant y tŷ yn llwyr. Oddiyno aethant trwy Lanbrynmair i'r Dre'newydd.

Yr oedd milwyr yn nghysylltiad â'r Rhyfel Cartrefol hwn wedi ymdeithio i Fachynlleth yn flaenorol i hyn; canys ceir ddarfod i Vavassor Powel ddyfod i'r dref hon ar y cyntaf o Fehefin, 1643, gyda phedwar ugain o wyr meirch dan arfau, i gyrchu Thomas Owen a'i wraig, a'i rwymo i ateb y frawdlys dri misol. Hefyd, cymerwyd rhai eraill, ac anfonwyd hwy yn garcharorion i'r Castell Coch.

Ar y 26ain o Ionawr, 1644, anfonodd Syr William Myddleton fintai o filwyr i Fachynlleth, y rhai a wnaethant beth niwed i rai gwŷr o Benal, ac ymdeithiasant oddiyno i Swydd Aberteifi, mor bell a Llanbadarn, ac yn ganlynol i hyny ysbeiliasant y Trawsgoed, a llawer o dai eraill. Yn ystod eu harosiad yn Llanbadarn, daeth deg ar hugain o warchawdlu Aberystwyth, gan feddwl dyfod yn ddisymwth ar warthaf haner cant o wŷr y Senedd ag oeddynt ar y pryd yn Llanbadarn; ond curwyd hwy yn ol, a boddodd rhyw dri ar ddeg o honynt mewn llyn melin yn agos i'r dref, o ba rai yr ydoedd yr isgadben Powel yn un.

Ceir ddyfod y triugain cyntaf o feirchwyr Myddleton i Fachynlleth oddetu Tachwedd* am arian y cattrethiad, ac iddynt ymadaw oddiyno y diwrnod canlynol, ac ysbeilio Dolguog, a dyfod ger Mathafarn; ond, gan ofni cael eu gorthrechu, fyned o honynt y noson hono a lletya yn Mallwyd. A thranoeth, pa un oedd ddydd Sabbath, ymgasglodd pobl y wlad at eu gilydd i atal eu hymdeithiad i'r Dinas, yr hyn, pan glywsant, aeth rhai o honynt at y bont i'w tarfu ymaith, ond lluchiwyd hwy â cheryg, a chymerwyd is-swyddog† o'r eiddynt yn garcharor, a bu farw dau neu dri o honynt yn fuan gwedi o'u clwyfau.

Yn ol a ddywed traddodiad, ymranodd dwy fyddin rywdro neu gilydd yn Machynlleth, ac aeth un gyfran o honi i fyny Dyffryn Dyfi, ond cyfeiriodd y llall trwy Gorus ac Aberllyfeni, ac ymlaen dros yr Esgair,—Esgair Angell, gan fwriadu cyfarfod â'u gilydd yn rhywle tua Mallwyd, fel y tybir. Nid yw y traddodiad yn dweyd dim o barth pa amser y bu hyn; ond dichon, ac nid annhebyg, mai yn adeg y Rhyfel Cartrefol dan sylw y digwyddodd. Ond, modd bynag, ceir cofnodiad ddyfod dau neu dri chant o bleidwyr y Senedd i Fachynlleth, y rhai a anfonasant wysiadau at hedd swyddogion

* Y flwyddyn 1644, yn ol fel y mae cyflead yr hanes yn Saesneg yn y *Cambrian Magazine* am 1829, tud. 63, o ba le ei cymerwyd.

† Cornet.

Digitized by Google

Meirionydd am ddau cant yn fisol, heblaw mil o bunoedd am y pum mis dywaethaf oeddynt wedi myned heibio. Ond cyfeirir at hyn eto yn mhellach ymlaen, o dan y penawd 'Ynys Maengwyn,' yn hynafiaethau Plwyf Tywyn.

Dygir Mallwyd i sylw mewn cysylltiad â helynt arall yn amser y Rhyfel hwn, ag a gymerodd le tua chanol mis Awst, y flwyddyn 1648; canys, tua'r pryd hwn, daeth Syr Harri Lingen, marchog o Swydd Henffordd, gyda gwyr meirch a gwyr traed, gan ymdaith tua Gogledd Cymru, mewn bwriad i ymuno â gwyr Môn. Ond gwylid ef yn fanwl gan gadluoedd y swyddi cyfagos, y rhai a hysbysent y Cadfridog neu Filwriad Horton o'i fwriad. A phan yr oeddynt yn canlyn ar ei ol, daeth Horton o Benfro ar draws y wlad, a chyfarfyddodd â Lingen yn agos i Lanidloes, a chymerodd ef yn garcharor, wedi ei archolli yn dost, a chymerodd hefyd nifer o'i wŷr yn garcharorion. Ffodd y gweddill, o ba rai y daeth oddeutu deg ar hugain o wŷr meirch, ac ychydig o wŷr traed, i Fallwyd, ar yr eilfed ar bymtheg o'r mis, ac a arosasant yno y noson hono, a thranoeth daethant i Ddolgellau, lle y gorphwysasant hyd y dydd canlynol, pa un oedd ddydd Sadwrn, canys yr oeddynt wedi eu briwo; a daeth Syr Arthur Blaeney yno, ac aethant ymaith i Harlech, ac ymlaen i Fôn.*

## LLADDIAD SIENCYN FYCHAN, O FAES WERN GOCH.

Yn ol fel y dywed un ffurf o'r traddodiad am hyn, cyfarfu y Siencyn Fychan hwn a'i ddiwedd† wrth nant fechan sydd rhwng pentref Dol y Dderwen (Dolwrach) a'r tyddyndy a elwir y Ffridd. Yr hyn a arweiniodd i'r lladdiad oedd, ymrafael a gyfododd rhyngddo a'i was, yr hwn a elwid Dafydd Huw Belis. Tebygol mai ffurf ar ab Elis yw Belis. Ar ol i'r ddau gwympo allan a'u gilydd, gomeddai y meistr dalu ei gyflog; a chan na wnai, cymerodd ef ynghyd a'i frawd un neu ychwaneg o'r gwartheg ymaith oddiar y tyddyn er mwyn cael gwerth ei gyflog. Ond, pan ddeallodd Siencyn Fychan am yr hyn a wnaethant, brysiodd i gael cyfarfod â hwy, ac felly unionodd dros y tir, a chyfarfyddodd â hwy wrth y nant a nodwyd, a

* *Camb. Magaz.* Cyf. I. tud. 72.
† Tua'r flwyddyn 1726, fel y ystyrir.

Digitized by Google

gorchymynodd iddynt dan boen eu bywyd am fyned a'u caffaeliad yn ol i Faes Wern Goch; ond os nad aent, y lladdai hwynt â'r cleddyf oedd yn ei law. Ar hyny, rhuthrodd Dafydd Huw Belis ato, gan ddwyn y cleddyf oddiarno, a thrywanodd ef yn farwol a'i gleddyf ei hun. Yr oedd yr un a laddwyd yn ddyn trwchus, a chan fod yr ymladdfa ar y nant, rhedai ei waed i ffos Melin y Ffridd, nes lliwio y ffrwd a'r hylif coch. Gorfu i Dafydd Huw Belis ddioddef llosgi ei law fel cosbedigaeth am ei alanas. Aeth ei law yn grafanc o dan effaith yr artaith; ond dywedir iddo gael y ffafr o osod cig moch, neu rywbeth o'r fath, rhwng y llosgydd (haiarn poeth, y mae yn debygol) a'i law, onide y buasai yn waeth arno.

Ond y traddodiad arall a ddywed mai ar y rhiw yn agos i Lwyn Gwern y bu y lladdiad hwn, ac mai fel swyddog yr aeth Dafydd Huw Belis a'r anifail, neu'r anifeiliaid, a nodwyd o Faes Wern Goch. Ond, modd bynag, o barth man y lladdiad, gellir nodi fod y manylion cysylltiedig am liwiad ffos y felin gan ei waed yn ategiad yn mhlaid mai cywirach y traddodiad cyntaf.

---

## SIAMBR WMPHRA.

Yn ol a ddywedir, y mae y siambr hon yn Nghwm Siambr Wmphra, yr hwn a ymestyn am encyd o bellder ar hyd y cwm sydd rhwng Esgairlyfuryn a Phant Perthog. Ac y mae rhyw dair rhan o filldir o'r brif-ffordd a arwain o Fachynlleth i Gorus i fyny at y fan lle y dynodir fod y siambr hon. Dywedir mai yn y nant y mae, a bod ffrwd ei ddwfr yn rhedeg dros ei genau. Y mae yn y fan lyn lled ddwfn, a phistillfa ffurfiedig yn y nant yn disgyn iddo. Nid yw cwymp y pistyll ond ychydig, ac ymddengys nad oes yno loches o'r fath yn ei chysgod. Ysbeilydd oedd yr Wmphra hwn, a byddai yn cilio i'w "siambr" y dydd ar ol bod yn lladrata y nos, yn ol a ddywed traddodiad yr ardal.

---

## LLEUCU LLWYD.

Merch ieuanc nodedig ei glendid a'i harddwch ydoedd Lleucu Llwyd, ac yn byw yn Mhenal, neu yn Nolgelynen, tyddyndy yn y gymydogaeth, yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Yr oedd wedi gosod ei serch ar y bardd, Llywelyn Goch o Nanau; ond ei thad, oherwydd

Digitized by Google

rhyw achos neu gilydd, ydoedd anfoddlawn i'r garwriaeth. A rhyw dro, wedi i Llywelyn fyned ar daith i'r Deheudir, dywedodd ei thad wrthi ei fod wedi priodi yno â merch arall. Pan glywodd Lleucu hyn, cymerodd gymaint at ei chalon nes syrthio i lewyg, o'r hon ni ddadebrodd mwy. Ond, cyn ei dodi yn ei bedd, daeth Llywelyn yn ol o'r Deheudir, gan ddyfod i ardal Penal i dalu ymweliad â'i anwylyd. A phan ei gwelodd yn gorwedd yn ei hysgrin, ymddyrysodd yn ei synhwyrau, a syrthiodd i lewyg. Ond, ymddadebrodd eilwaith, a chanodd gywydd prudd glwyfus ar ei hol, pa un a red fel hyn :—

Llyma hâf llwm i hoyw-fardd,
A llyma fyd llwm i fardd;
Nid oes yng Ngwynedd heddiw,
Na lloer na lleuad na lliw;
Er pan rodded trwydded trwch;
Dan lawr dygn dŷn loer degwch;
Y ferch wen o'r Dderw Brenol,
Araith ddig i wr i'th ol;
F' enaid cyfod i fyny,
Agor y ddaiar ddôr ddu;
Dyred feinion ei deurudd,
Ar dy lin o'r priddin prudd;
Gwrthod wely tyfod tir,
Gwrtheb wrth f' wyneb feinir;
Cain ei llun canwyll Wynedd,
Cyd bych o fewn caead bedd;
Mae yma hoewdra hydrael,
Uwch dy fedd hualedd hael;
Trwm yw dy wyneb heboed,
Llywelyn goch gloch dy glod;
Udfardd yn rhoddi adfyd,
Ydwy gwan nidowgnwy gwyd;
Mi âf o Wynedd heddiw,
Ni 'm tawr pa le loywle liw;
Fy mun wybrennig ddigawn,
Duw 'n fâch petyd iach nad awn;
Myfi fun mwyfwy fonedd,
Echdoe a fu uwch dy fedd;
Yn gollwng deigr lled-ddeigr-graff,
Ar hyd yr wyneb yn rhaff;
Tybio 'n ol hun y fun fud,
O'r tewbwll yr attebud;

Digitized by Google

Tawedog dwysog diserch,
Fe addawsud y fud ferch;
Fwyn dy sud faendo sidan,
Fy aros ddŷn loywdlos lân;
Oni ddelwn gwn y gwir,
Da hyder o'r Deheudir;
Ni chiglef* seithlef syrthud,
Air ond y gwir feinir fud;
A genais lugorn Gwynedd,
O eiriau gwawd aur ei gwedd;
O'r genau hwn gwn ganmawl,
A ganwyf tra fwyf o fawl;
F' enaid hoen geirw afonydd,
Fy nghariad far'nad fydd;
Lle 'r elwy llaw fodrwyaur,
Llecu moliant cu yt caur;
Cwmniaeth croyw loyw Leucu,
Gennyd f' anwylyd ym fu;
Ei henaid grair gwlad Feirion,
I Dduw Tad addewid hon;
A'i meingorff eiliw mwyngant,
Meinir y cysegrdir sant;
Dyn pwyllus dan y peillgalch,
A da 'r byd i'r gwr du balch;
A'i hiraeth gofyddiaeth gawdd,
I minau a gymunawdd;
Clymmu derw, garw a chwerw chwael,
Daiar i dêg ei dwyael;
A chlud fur a chlo dur du,
A chlicied yn iach Leucu.

---

## ACHAU.

---

### ESGAIRLYFURUM NEU YSGARLYFURYN, A PHANTLLUDW.

Wrth gyfeirio at wehelyth teulu perchenogion y lleoedd hyn, ceir yn gyntaf sylwi o barth enw y lle a nodwyd flaenaf, sef Esgairlyfur-

* Chlywais, ar ymyl y ddalen.

um, neu Esgairlyfuryn. Yn y bumed gyfrol o Hanes Pywys Fadog,* tudal. 127, cyfeirir at y fan fel Esgair Foel Eirin. Ond yn unol â hen syniad ynghylch ystyr yr enw, pa un, feallai, oedd yn agos a myned i golli cyn ei dygais i sylw, Esgair Foel Euryn yw ffurf briodol enw y lle, neu yn hytrach, mewn ystyr, yw enw y foel y saif yn ei chysgod megis. Ac ystyrir i'r foel hono gael y cyfryw ddynodiant ag *Euryn* oherwydd tlysni ymddangosiadol ei dullweddiad. Ond, gellir sylwi yma fod Euryn yn cael ei ddefnyddio yn enw personol, pa un bynag a oedd a wnelai enw personol â dynodiant yr unrhyw foel ai nad oedd. Dygid yr enw Euryn gan Euryn y Coed Helyg, ac Euryn y Coed Aur, y rhai a restrir ymhlith Saint Ynys Prydain.

I Esgairlyfurum, neu Esgairlyfuryn, yr aed a'r gwely a barotowyd i'r Brenin Charles II., mewn tŷ yn Machynlleth, perthynol i un gainc linellol o'r teulu hwn, a dygwyd yno hefyd ddodrefn yr ystafell lle y codwyd y gwely hwnw yn y dref a nodwyd. Bu Esgairlyfuryn yn gartref i amryw o deulu Mrs. Ruck, er's amser yn ol. A dengys Coflyfr Penal i Oliver Morus, boneddwr, gael ei gladdu ar y 14eg o Ionawr, 1757, ac ymddengys mai taid i'w nain hi ydoedd hwnw. Nid yw yn ymddangos y gellir dweyd pa le yr oedd cartref Morus Oliver ei dad; ond y mae y Drain Llwydion yn cael ei gysylltu âg Oliver Morus ei daid, a dichon iddo fod yno yn byw. Bu farw yn y flwyddyn 1688. Mab ydoedd yr Oliver Morus a enwyd olaf i Morus, o'r Mawnogau, ym Mawddwy; a'i fam oedd Mari, ferch Oliver Gruffydd, perchenog Drain Llwydion ac Esgirlyfuryn, yn nghyd â llawer o dir yn nhref ddegwm Blaenglesyrch, yn Llanwrin, ab John, ab Ifan, ab Hywel.

Hana teulu Pantlludw, o un tu, o'r tywysog Hywel Dda, ab Cadell, ab Rhodri Mawr, ab Merfyn Frych. A disgynant o Hywel Dda trwy Ywain ei fab, tad Oronwy, tad Edwyn, un o Bymtheg Llwyth Gwynedd. A disgynant o'r unrhyw Edwyn trwy Uchtryd ei fab, ac Agnes ei wraig, ferch Llywelyn aurdorchog, arglwydd Ial. Yr oedd yr Uchtryd hwn yn ewythr o frawd tad i'r Ywain ag y dywedir am dano iddo gadw "holl Degeingl o danaw o lwyr nerth a gorchestion, er gwaethaf brenin, a gwlad, ac arglwydd, dros dair blynedd oni heddychwyd y brenin âg ef, ac yna ei eiddaw i bob un a gymerasai efe eu tiroedd."

Hanant mewn llinell arall o Waethfoed Fawr, o Bywys, trwy Ruffydd Llwyd, ab Elis, ab Dafydd Llwyd, ab Tudyr Fychan, ab Gruffydd ab Hywel, ab Gruffydd Derwas, ab Meurig, ab Madog, ab Cadwgan, arglwydd Nanau, ab y Tywysog Bleddyn ab Cynfyn. Ac

* History of Powys Fadog.

hefyd o Ruffydd ab Cynan, tywysog Gwynedd, trwy hiliogaeth Gwenllian ei ferch a'r Cadwgan a enwyd.

Ymbriododd Mari Ann Matthews, sef y ddywededig Mrs. Ruck, merch Richard Matthews, swyddog yn y drydedd gatrawd ar hugain, a thalwr i gartreflu brenhinol Meirionydd, â Mr. Lawrence Ruck, o Newington, yn Nghaint, a disgynydd o hen deulu yn Nghaint,—un o ba rai o'r un enw ag yntau,—oedd gludydd bwa i Harri VIII. Bu iddynt chwech o blant, pedwar o feibion a dwy ferch. Ymbriododd y ddwy hyn,—yr hynaf yn briod yr ail waith,—ond yr ieuangaf wedi marw er yr 11eg o Fedi, 1876, yn 26 mlwydd oed. Eu mab hynaf, y Rhagfilwriad Arthur Ashley Ruck, yr hwn a anwyd yr 2fed o Ragfyr, 1847, ac sydd yn awr yn Ben Heddgeidwad Caernarfon; Richard Matthews, yr ail fab, Uch-gadben gyda'r Peirianwyr Brenhinol; a'r mab ieuangaf, Oliver Idwal, Cadben gyda'r Peirianwyr Brenhinol. Bu Lawrence Ithel, y mab arall, farw yn mis Tachwedd, y flwyddyn 1888, yn 31 mlwydd oed.

## TALGARTH.

Saif Talgarth yn mhlwyf Tywyn, ond yn ardal Penal. Disgyna teulu etifeddol y lle hwn o un tu o Llywelyn ab Iorwerth, tywysog Gwynedd, trwy Ithel, y chweched disgynydd o hono, ac o Gwen, gwraig yr Ithel hwn, merch Meredydd ab Madog ab Meredydd, disgynydd o Elystan Glodrydd, arglwydd Fferlys, sef rhandir rhwng yr Wy a'r Hafren. Ymbriododd Gruffydd ab Dafydd, eu hŵyr, âg Efa, ferch ac etifeddes Llywelyn ab Ifan, o'r Rofft, sef hen neuadd a safai yn agos i Esgairweddan, ac ar y tu gogleddol i'r amaethdy hwnw. Ac oddiwrth Rhys, gorwyr i'r Gruffydd a'r Efa a nodwyd, yr hanodd Prysiaid Esgairweddan, un o ba rai a adawodd yr etifeddiaeth i Edwardiaid Talgarth. Ymbriododd Richard, brawd i'r Rhys a nodwyd, â Gwen, cyd-etifeddes Lewis ab Rhys ab Morus ab Llywelyn o Dalgarth. Ac ymbriododd Lewis Prichard, o Dalgarth, eu mab, boneddwr, â Sian, ferch ieuangaf Wmphra Puw, o Aberffydlan, boneddwr, yr hon oedd yn wraig weddw ar y 18fed o Orphenaf, y 18fed flwyddyn o deyrnasiad Sial I.; ac ymbriododd Edward Lewis, eu mab hwythau, âg Elisabeth, ferch William Fychan, fab Robert un o feibion Rhys, o Gorsygedol. Yr oedd

Wmphra Edward, goresgynydd o'r briodas hon, yn Sirydd Meirionydd, yn y flwyddyn 1759, a bu farw yn y flwyddyn 1772, yn 52 mlwydd oed. Ei wraig oedd Mari, ferch ac etifeddes James Turner, Oldport, yn Sir Amwythig.

Daeth y cyfenw Thruston i'r teulu trwy i wyres y pâr a nodwyd olaf ymbriodi â Charles Thomas Thruston, cadben yn y llynges frenhinol, un o hen deulu Thrustoniaid Hoxne, Swydd Suffolk, y rhai oeddynt rieni y diweddar Charles Frederick Thruston, o Dalgarth, is-gadben dirprwyol Swydd Feirionydd, a sirydd yr unrhyw yn y flwyddyn 1860, ac Ynad Heddwch y swydd hon a Swydd Drefaldwyn. Ymbriododd â Mari, merch Josiah Nisbet, cadben yn y llynges frenhinol. Eu plant ydynt, Mari Ffrances, yr hynaf, yr hon a briododd Edward Allen, M.R.C.S., yn ngwasanaeth meddygol Bengal; Blanche Elisa, Charles Nisbet, Rosa Emily, John Walter, Herbert Edwards, a Lewis Arthur. Ymbriododd Charles Nisbet âg un o ferched John Corbet, A.S. dros Orllewin-barth Caerwrangon.

Bu farw mam y dywededig Charles Frederick Thruston o Dalgarth yn y flwyddyn 1828, yn 38 mlwydd oed, a chymerodd ei dad yn ail wraig, Elisa, ferch y llyngesydd Sotheby, a mab o'r briodas hon ydoedd y diweddar Arthur Clement Thruston o Dwr Penal, Ynad Heddwch dros Swydd Feirionydd, a Sirydd Meirionydd yn y flwyddyn 1870.

---

## YR ELUSENAU.

---

Yn ol adroddiadau y Dirprwywyr a roddwyd o flaen y Senedd yn y flwyddyn 1834, gesyd yr adroddiadau a roddwyd gerbron yr unrhyw yn y flwyddyn 1786, ddarfod i Margaret Carr, trwy ei hewyllys dyddiedig yn y flwyddyn 1774, roddi 20p. i'r tlodion, pa arian ar y pryd oeddynt yn meddiant Mr. Anwyl.

Yn adeg ymchwiliad y Dirprwywyr a osodasant eu hadroddiadau o flaen y Senedd yn y flwyddyn 1834, yr oedd y swm o 20p. yn sefyll yn nwylaw Jonathan Anwyl, Ysw., o Lugwy, yn mhlwyf Penal, yr hwn a ddosbarthai 20s. bob blwyddyn ymysg tlodion y plwyf, yn ol fel y barnai yn oreu.

Digitized by Google

# PLWYF TYWYN.

---

Un o ystyron cyffredinol Tywyn, neu yn gywirach, feallai, un o i ystyron lled gyffredinol, yw glan y môr. Ond ymddengys fod yn rhy anhawdd cael allan i foddlonrwydd pa beth yw ei darddiad fel gair. Os mai oddiwrth *twyn*, sef twmpath neu fryncyn y tardd, yna, nid oes a fyno *gwyn*, fel terfyniad, â'r enw o gwbl. Gellir nodi fod man yn nghwr Waen Greolen, yn nghymydogaeth tarddiad neu tarddiadau yr Afon Maw, neu Mawddach, yn cael ei alw Bryn Tywyn. Ac ystyrir gan rai mai talcen a olygir wrth y gair. Y mae safle y fan sydd yn dwyn yr enw hwn yn anghysbell a mynyddig; ac er ei fod yn lled agos i Lyn Crych y Waen, rhy brin y gellir tybio fod a fyno y llyn hwnw ddim â'r dynodiant o Tywyn ag sydd arno. Ond, feallai, nad gwiw dwyn ymlaen yr enw digwyddiadol hwn megis, o blaid mai twyn neu fryncyn a olygir wrth Tywyn glanau'r môr.

Ceir y dynodiant o *glantywi*, yn y mynegiad canlynol allan o hen ysgriflyfr yn Llyfrgell yr Amgueddfa Brydeinig, "eidech Vr Vchan yssyd y glantywi y Meiriynydd." Pa fan bynag yn benodol a olygir yn y dyfyniad hwn, ymddengys y cyfeirir ynddo at ryw fangre tua glàn môr treflan bresenol Tywyn Meirionydd. Ond y ffurf o *tywi* ac nid *tywyn* sydd ynddo, eithr perthyn yr ystyr o daeniad i'r naill a'r llall o honynt. A cheir yn perthyn i'r olaf, o leiaf, yr ystyr o belydr o oleuni, ac yna dywyniad; a pherthyn iddo, hefyd, yr ystyr o draeth, neu lan y môr. Dichon y cyfeirir yn y llinell flaenaf o'r rhai canlynol at liw y don pan yn ymddryllio yn grychias gwynawg ar y lan neu y traeth. Y mae y llinellau crybwylledig yn rhan o gywydd Gwilym Llyn i ofyn miliast, a rhedant fel hyn:—

> "Lliw ton fôr lle tywyn feirw,
> Lliw rhoddgar hunlle'r hydd geirw;
> Cwrs o wyr cares ewyn
> Crwsi ei gwedd mewn crys gwyn."

Digitized by Google

Dichon nad oedd ar y fan, neu tua'r fan y saif tref neu dreflan Tywyn namyn un tyddyndy yn dwyn yr enw ar y cyntaf. Ond, modd bynag, y mae yn ymddangos fod enw y dref hon wedi ei gymeryd, er yn anuniongyrchol feallai, oddiwrth *tywyn* fel glan y môr. Cyfeirir yn y dyfyniad a roddwyd ynghylch Eidech at amseriad lled foreu, ond nis gellir yma yn awr ddynodi yr amseriad hwnw yn fanwl. Ac y mae yn rhy anhawdd hefyd penderfynu beth yn wirioneddol ydoedd enw y ferch y cyfeirir ati. Mewn cyfieithiad Saesneg cyfochrog â'r hyn a ddyfynwyd eisoes yn mherthynas iddi, mynegir y gelwid hi gan y Dr. Dafis yn "Gwaurdhydh." Ond yn Iolo MSS., wrth gyfeirio at blant Brychan Brycheiniog, dywedir, "Gwenddydd, ei heglwys yny Tywyn yn y Cantref." Ac yn y Myf. Arch., mdccclxx., tud. 425-6, ceir a ganlyn,—"Gwenddydd 'vch Brychan sydd santes yn y lle a elwir y Towyn y meirionydd, C. velly T. W. 2. Eraill a'i geilw hi Gwawrddydd gwraig i Cadell Deyrnlluc; a mam Cyngen tad Frochwel Ysgithrog, C. velly T. W. 2. Gwel Tangwystl."*

Ond, pa enw bynag a berthynai yn briodol i'r ferch yr amrywir fel hyn o barth iddo, os mai merch ydoedd i Brychan Brycheiniog, dichon fod ei hamseriad yn y bumed ganrif. Eithr, os mai merch ydoedd i Brychan yr aeth ef a Gwen ei wraig i Lydaw, feallai mai yn y chweched ganrif yr oesai. O'r tu arall, os mai merch ydoedd i Brychan ap Gwyngon neu Gwyddon neu Gwyngenau, hwyrach y bucheddai o'r seithfed i'r nawfed ganrif.†

Modd bynag am y pethau hyn, dygir Tywyn i sylw yn y ddeuddegfed ganrif, mewn cysylltiad â phregethiad Rhyfel y Groes; canys pan oedd Baldwin, Archesgob Caergaint, ar ei daith trwy Gymru, yn y flwyddyn 1187, neu 1188, yn pregethu ar y pwnc hwn, er mwyn cyfodi gwyr i ymladd am feddiant o'r Bedd Sanctaidd, bu ef a'i gydymaith Giraldus Cambrensis yn cysgu un noson yn Nhywyn, fel y mynega Giraldus ei hun. Yn foreu dranoeth daeth Gruffydd ab Cynan i'w cyfarfod, gan ofyn maddeuant yn ostyngedig a defosiynol am fod mor hir yn oedi talu sylw i'r archesgob. Yr un diwrnod croesasant Afon Mawddach, lle y darfu i Malgo fab Rhys ddarganfod rhyd yn nglan y môr. Gellir sylwi yr ymddengys mai ŵyr i'r tywysog Ywain Gwynedd oedd y Gruffydd ab Cynan hwn.‡

* Fel y gosodwyd eisoes yn tudal. 354 o'r llyfr hwn, dywedir am Tangwystl yn tudal. 430 o'r Myf. Arch. crybwylledig, fel hyn,—"Tangwystl verch Brychan, gwraig Cyngen ap Cadell Deyrnllyg, mam Brochwel ysgithrog a Maig a Ieuaf. T. W. 2." Yn yr Iolo MSS., ceir y sylw canlynol,—"Tudfyl ferch Frychan oedd Gwraig Cynghen ap Cadell Deyrnllwg, a Mam Brochwel Ysgithrawc."

† Gweler y Gwyddoniadur Cymreig, Cyf. II. tud. 67-8, o barth y Brychaniaid hyn.

‡ Gweler cyfeiriad ato yn y tudalen 19.

# YR EGLWYSYDD.

## EGLWYS TYWYN,* NEU LAN GADFAN.

Ystyrir yn gyffredin mai Cadfan o Lydaw ydoedd sylfaenydd yr eglwys neu y llan hon. Ond os cywir y cyfryw syniad, dichon y bu un arall yn rhywle yn y gymydogaeth, os y Tywyn hwn yn hen Gantref Meirionydd sydd i'w olygu yn a ddywed yr Iolo MSS o barth y Gwenddydd, a ddyfynwyd yn nhudalenau 525-6, fel tebygol mai ê. Ni fynegir yn benodol yn y dyfyniadau eraill a roddwyd o barth merch y Brychan hwn, neu ryw Frychan arall (canys tebygol mai Frychan sydd i'w olygu wrth "Vychan" y dyfyniad cyntaf), fod iddi eglwys yn y gymydogaeth, ond cyfeirir ynddynt at Feirionydd. Ac y mae yr amddifadrwydd o hyn yn atalfa i bwyso yn benderfynol fod iddi eglwys yn Nhywyn. Dichon, modd bynag, nad oedd yr oll o eglwysi y Gwyddelod y ceir cyfeirio atynt yn mhellach ymlaen, yn rhy bell oddiwrth lan y mor fel ag i allu cysylltu yr un honynt a'r ferch a nodwyd.

Bu yr eglwys hon yn gwysgo nodau Eglwys Rhufain yn drwm yn yr hen amser. Ond nid ydys yn gallu nodi yma pa mor foreu y dechreuodd ddwyn nodau un o gyfeiliornadau andwyol yr eglwys hono, neu a ydoedd yn hollol rydd oddiwrth ryw ran o'r cyfryw ar ei sylfaeniad. Dichon ei bod. Modd bynag, nid aeth o dan lywodraeth yr eglwys hono trwy sefydliad esgobol hyd y rhan olaf o'r wythfed ganrif. Yn y drydedd ganrif ar ddeg, dygai yr unrhyw nodau yn dra neillduol. Canys dywedir am dani gan Llywelyn Fardd, yr hwn a oesai yn y ganrif hono, yn ei gân i Gaduan (Cadfan) fel hyn :—

"Teir allawr gwyrthuawr gwyrthen glywed
Yssy rwg mor a gorwyt a gwrt lanwed
Allawr veir or peir hygreir hygred
Allawr bedyr yw vedyr ydyrvolhed
Ar drydet allawr a anlloued o nef
  Gwynn y uyd y thref gan y thrwyted
Gwynn y uyd a uyt o nothaed

---

* Ymddengys mae'r enw cyffredinol llafar gwlad yw Eglwys Tywyn.

Digitized by Google

Men y tric gwledic gwlad ednywed
Gwyn y uyd y uryd a vawrhaed yndi
Eglwys gadyr gaduan gan gynweled
Eglwys wenn wyngalch wynhaed
Eglwys fyt a chreut a chred a chymun
Ual wrth duw eu hun y dyrlunyed
Llunywys y dews dewisedryd itaw
Pan ddaeth o lydaw ar lydu bedyt"

Odditan neni bwäog yn mur gogleddol y gangell, y mae dau ddarlun ar eu gorwedd, un o honynt yn cael ei arddangos fel mewn cadwisg milwr cyffyllog, ac yn y weithred o weinio ei gledd. Nid ydys yn gwybod pwy a gynrychiola ei frawd-ddarlun pa un a arddengys offeiriad yn ei wisg berthynol i'w swydd. Ond ystyrir mai cynrychioli Gruffydd ap Adda, o'r Ddol Goch, y mae y llall. Felly, yn unol a'r cyfryw grediniaeth neu wybodaeth, dodwyd ar y mur oddiarnodd, ryw gymaint o amser yn flaenorol i'r adgyweiriad diwaethaf ar yr eglwys, y mynegiad canlynol:—

Hic: jacet: et: Ynisymaengwyn: trii: quarto: et: septimo: Raglotus.*

Sylwa Mr. Matthew Holbeche Bloxham o barth yr arded filwrol hon y perthyna i'r bedwaredd ganrif ar ddeg, ond nad oes dim neillduol yn perthyn iddi, gan nad yw namyn un o ddosbarth lliosog cyffelyb. Gesyd hefyd mai i'r unrhyw ganrif y perthyn y llall, eithr dengys fod i hon hynodrwydd arbenig, ac na welodd ond un arall gyffelyb iddi yn y wlad yma, pa un oedd yn Beverly Minster. A'r hyn a bair gymaint y neillduolrwydd iddi yw, fod y gerf-wenwisg wedi ei dodi fel cwfl neu orchudd tros y pen yn lle oddeutu'r gwddf, ac na ddaeth i arferiad mor gyffredinol. Mynegir gan un hen awdwr nad oes grybwylliad am wenwisg ymhlith y gwisgoedd cysegredig cyn amser Carlymaen, ac iddi gael ei dwyn i arferiad yn yr eglwys Ladinaidd yn y nawfed ganrif, ac na fyddid yn gorchuddio y pen â'r wenwisg hyd ganol y drydedd ganrif ar ddeg.†

Y mae clochdy yr eglwys hon yn sefyll yn awr ar fwa yn yr eglwys, ac felly hefyd y gwnelai ar un adeg gynt; ond ymddengys i'w ran uchaf gwympo i lawr tua'r flwyddyn 1692. Ac yn hytrach na'i adgyweirio, cwtogwyd corff yr eglwys ac adeiladwyd un ar ei phen gorllewinol, mewn rhan ar safle yr eglwys, ac mewn rhan o'r tu allan iddi, yn y flwyddyn 1692. Saif bon-sangau y bwa presenol ag y gorphwys y clochdy arno gyferbyn a'r bon-sangau a ddalient fwa yr hen glochdy, eithr y maent yn mhellach oddiwrth eu gilydd na'r

* Ond nid yw yno yn bresenol ar ol yr unrhyw adgyweiriad.
† Arch. Camb. am fis Gorphenaf, 1875.

Digitized by Google

hen rai. Cyfodwyd y clochdy presenol yn adeg yr adgyweiriad diweddaf, gogyfer â pha un y dechreuwyd tynu yr eglwys yn rhanol i lawr ar yr unfed ar ddeg o Chwefror y flwyddyn 1880. Dywedir fod tair cloch yn yr hen glochdy, ond iddynt dori, pan y cwympodd, fel y sylwyd eisoes, ac y clywid swn un o honynt hyd yn Nghwm-rhwyfor, yn Mhlwyf Talyllyn.

Perigloriaeth ydyw y fywoliaeth, a chynwysa bersondy, a saif yn archddiaconiaeth Meirionydd, ac esgobaeth Bangor. Gwerth digoll y fywoliaeth hyd y flwyddyn 1875, oedd 150p., yn y flwyddyn. Yn y flwyddyn hono daeth tymor y brydles ar y degwm i ben.

Heblaw yr eglwys henafol hon, y mae dwy arall yn y plwyf. Un o honynt yn Aberdyfi, yr hon a gyfodwyd yn y flwyddyn 1837, ond mewn ystyr nid yw hon namyn capel eglwysig. Cynwysa 372 o eisteddleoedd, ac y mae 180 o honynt yn rhydd i bawb i fyned iddynt, ac wedi eu neillduo i fod felly byth. Y mae y llall yn Mryn Crug, a gosodwyd ei chareg goffadwriaethol ar y 26ain o Fedi 1881.

---

## EGLWYSI'R GWYDDELOD.

Y mae tri o hen olion o fewn y plwyf yn dwyn yr enw Eglwys y Gwyddelod. Ac y mae o'i fewn hefyd hen gorlan defaid, ag sydd a'i safle mewn man y dywedir y bu gynt eglwys a elwir Eglwys Wyddelig. Ac fel hyn, er ei bod yn gwahaniaethu peth yn ei henw, dyga hithau, fel yr olion a nodwyd, gysylltiad enwol â'r Gwyddelod. Saif y gorlan hon yn agos i'r fan a elwir Ol Troed March Arthur, ond a gysgodir o'i olwg gan drum bychan o dir. Dywedir i Arthur fod yn ymladd â'r Gwyddelod tua safle yr hen eglwys hono a'u gorchfygu, ac fod ôl troed ei farch yn aros ar y fan a nodwyd. Ond, er y dichon i'r gwron hwnw fod yn ymladd tua'r fan, diameu mai effaith gweithrediad natur ar y graig yw yr ôl crybwylledig a osodir allan fel ôl troed ei farch.

Yn nghymydogaeth y manau hyn, ac ar y Bwlch Glas, pa un sydd yn agos i Fwlch Tywyn, ac yn ngolwg pentref Penal, y mae un o'r tri olion a nodwyd, pa rai bob un ar eu penau eu hun a adnabyddir fel Eglwys y Gwyddelod. Cynwysa yr olion ar y Bwlch hwn nifer o feini wedi eu gosod mewn rhan yn y ddaear, ac o fewn ychydig o bellder i'w gilydd. O'r nifer hyn y mae pump yn gyfleuedig ar eu penau yn y ddaear; ac un arall ar ei chyllell. Mesura yr hwyaf o



Digitized by Google

honynt oddeutu tair troedfedd uwchlaw yr arwyneb, a'r fyraf lai na dwy droedfedd felly. Ymddengys hefyd fod careg arall sydd a'i safle y tu ol i un o'r meini hyn yn perthyn iddynt. Ystyria Mr. E. L. Barnwell* mai un o'r cylchoedd arferol a geir yn amgylchu carnedd neu grug beddrodol ydyw, a bod ychydig o geryg yn eisiau o hono. Ac ystyria hefyd y rhaid mai bychan oedd y cyfryw grug neu garnedd yn y fan hon. Dichon fod Mr. Barnwell yn gywir o barth diben y ceryg hyn, ond y mae yn hollol gyfeiliornus wrth nodi mai Eglwys y Gwyddel yw enw yr hen olion dan sylw, yr hyn sydd lwyr ddymcheliad ar un o'i bynciau.

Fel y mynegwyd eisoes, y mae hen olion yn nghoed Perfeddnant, yn dwyn yr enw Eglwys y Gwyddelod, pa un sydd o nifer y tri olion crybwylledig, a elwir bob un ar ei ben ei hun yn Eglwys y Gwyddelod. Buwyd yn llosgi golosg neu yn fanylach yn llosgi coed yn olosg ar y fan hono yn rhanau o'r blynyddoedd 1875 ac 1876.

Hefyd y mae y llall o'r tri hen olion dan sylw, a elwir Eglwys y Gwyddelod, yn llëedig ar fynydd Ty'nllwyn, ac felly yn nghymydogaeth lled uniongyrchol y Bwlch Glas, y cyfeiriwyd ato yn nghysylltiad âg un arall o'r unrhyw olion. Adeiladwyd corlan Ty'nllwyn ar ran o safle yr hen eglwys hono oddeutu'r flwyddyn 1847, a chymerwyd o'i cheryg i'w hadeilo, yn ol a ddywedir.

Cyfeiriwyd at yr hen eglwysydd hyn yn y pedwerydd tudalen o'r llyfr hwn, mewn cysylltiad â'r helyntion gwaedlyd a fu rhwng y Cymry a'r Gwyddelod, neu Wyddelod a chiwdodau ymgyrchol eraill, tua'r bumed neu'r chweched ganrif. Ac, a chaniatau i'r oll o honynt fod yn eglwysydd mewn gwirionedd, yn ol y dynoda yr enwau, tebygol mai yn ystod yr amser hwnw y cyfodwyd rhai o honynt os nad yr oll. Ond er hyn, dichon nad gan Wyddelod neu Wyddelod a goresgynwyr eraill eu cyfodwyd i gyd; canys gall ddarfod i Gymry, tua'r un adeg, neu yn ddiweddarach, gyfodi un neu ychwaneg o honynt, a hyny mewn cysylltiad â chaffaeliad goruchafiaeth ar y Gwyddelod, neu Wyddelod a chiwdodau eraill, tua eu mangreydd neu yn rhyw fan arall yn Nghymru. Ac awgrymir hyn ar bwys y mynegiant canlynol allan o Iolo MSS tud. 123:—"A Chaswallawn Llaw Hir, ap Einion Yrth, ap Cynneddaf Wledig a wnaeth Eglwys i Dduw yn y lle y cafas ef y Fuddugoliaeth ar ei elynion, ag ei gelwis Llan y Gwyddyl, ag ym Mon y mae honno, ag yn awr ei gelwir Cerrig y Gwyddyl."

Ond, modd bynag am hyn, y mae y mynegiad canlynol allan o'r Man-gofion, o dan y penawd Brynach Wyddel, yn Iolo M.S.S., tud., 845, yn gadarnhad i gywirdeb dynodol yr enwau Eglwys

* Arch. Camb., am Gorphenaf, 1874.

y Gwyddelod a'r Eglwys Wyddelig a geir ar y manau a nodwyd. Ac y mae yr unrhyw enwau hefyd o'r tu arall yn gadarnhad i'r mynegiad crybwylledig o barth ddarfod i'r Brynach hwn adeiladu eglwysydd yn Ngwynedd, pa un bynag a'i ef oedd y cyntaf a wnaeth hyny a'i nade. Cyfeiriwyd at y penawd hwn yn flaenorol, a dyfynwyd rhan o'r mynegiad cysylltiedig. Gweler y tudalenau 4 a 5. Ond wele yn awr ddyfyniad cyflawn o hono :—

"Brynach Wyddel."

"Brynach Wyddyl oedd frenin Gwynedd nid amgen na Manaw a Mon ag Arfon, ag efe oedd y cyntaf O frenhinoedd y gwledydd hynny a gafas y ffydd yng Nghrist a chred a Bedydd i ar law Rhidian Sant o dir Gwyr a Reged. ag efe a wnaeth Eglwysydd gyntaf yng Ngwynedd, ag a fynnes ddodi Cred a Bedydd ar Gymry a Gwyddelod y Gwledydd a bicuffai ef. sef yn amser yr Ymerawdr Maxen Wledig ryttoedd. ag ymladd a bu ryngtho ef ag Owain Vinddu ap Maxen Wledig am Bendefigaeth Gwynedd nid amgen na Maw a Manaw a Mon ag Arfon, A'r Cantref, a'r naill a laddes y Llall, ag yn Ninas Ffaraon y bu hynny, a'r gwaed ar y main hyd yr awr honn."

---

## CAREG CADFAN.

Gorwedd y gareg hon, a elwir gan ysgrifenwyr yn Gareg Cadfan, ar ei gorwedd ar lawr Eglwys Tywyn. Ond bu a'i safle gynt yn y fynwent berthynol; eithr dywedir iddi gael ei chymeryd o'r fynwent hono ar un adeg, a'i gosod yn bost llidiard ym Mod Talog, lle yn y gymydogaeth. Dywedir hefyd ddarfod i deulu Ynys Maengwyn, wedi cwympo o honynt allan a theulu Bod Talog, fynu iddi gael ei dwyn yn ol i'r fynwent hono drachefn. Modd bynag, nodir yn Brittania Cambden, gan Gough, i Dr. Taylor, yr hwn yn y flwyddyn 1761 a gododd yr argraffiad sydd arni, beri ei symud o'r man yr oedd yn bost llidiard. Y mae tyllau yn y gareg a chyrc wedi eu pwyo iddynt, a dywedir mai tyllau y bachau a ddalient y llidiard yw y tyllau hyny. Y mae y gareg wedi tori ar ei thraws yn agos i un pen iddi, ond y mae y darn a wahanwyd felly oddiwrth y prif un yn gorwedd ar lawr wrth ben y llall. Mesura y gareg (neu y ddeuddarn hyn) oddeutu saith droedfedd o hyd, a thua naw modfedd o led ar y

Digitized by Google

ddwy ochr letaf iddi; ond y mae y ddwy ochr arall lawer yn gulach. Ac fel hyn y mae i'r gareg bedwar gwyneb, a cherf ysgrifen arnynt ill pedwar. Cynwys un o'r ochrau lletaf ac un o'r ochrau culaf bob un o honynt nod o groes yn gerfiedig arni, ac ystyria Mr. Westwood fod y croesau hyn yn ddechreuad argreifft gwahanol i goffadwriaeth personau gwahanol. A thybia fod y cerf-argraff ag sydd ar yr ochr gul a gynwys y groes yn gyflawn ynddo ei hun, oherwydd y ddau grwmnod sydd yno gefngefn a'u gilydd (ond heb gyflwrdd y naill a'r llall) ar ei ddiweddiad. Perthyna i'r gareg hon arbenigrwydd neillduol, yn herwydd oedran mawr y cerf-argraffiad sydd arni, ac felly rhoddir yma gryn le i'r ymdriniaeth a fu yn ei chylch er's amser yn ol. Buasai yn ddymunol pe buasid wedi dyfod i benderfyniad boddhaol o barth cynwys y cerf-argraff sydd arni, eithr nid yw yn ymddangos y llwyddwyd i hyny hyd yn hyn. Ac y mae y Proff. John Rhys,* wedi myned mor bell a nodi nad yw hyd yn hyn namyn dyrysbeth. Ond nid yw yntau wedi ysgrifenu yn fanwl arni, nac ychwaith yn taflu amheuaeth namyn am rai pethau. Eithr y mae y rhai hyny yn bwysig, a cheir cyfeirio atynt wrth fyned ymlaen.

Sylwa Mr. Westwood,—J. O. Westwood, Ysw., F.S.A., F.L.S.,†—i'r ystyr fod yr ochr gul a'r groes arni yn weddol ddarllenadwy, y tair llythyren agosaf i'r c gyntaf yr unig rai y gall fod unrhyw amheuaeth yn eu cylch—Mai *n* fach yw y llythyren ddiweddol, yr hyn a ddengys y cymysgid y prif lythyrenau a'r rhai bychain yn ddiwahaniaeth. A darllena yr ochr hono yn:—

×CUNGEN CELEN×

Sylwa fod y gyfran olaf o'r cerf-argraffiad sydd ar yr ochr lydan a'r groes wedi ei ranol niweidio trwy doriad y gareg; ond fod y saith lythyren gyntaf yn eglur, *g* o ffurf gywrain anymcheledig yw y seithfed, eithr yn fanwl debyg i'r g yn yr Efengylau Prydeinig a Gwyddelig gan St. Gatien, yn Touro, o'r seithfed ganrif (Nouv. Tr. de Dipl., III., pl. 37, IV. 11.) Y mae y llythyren nesaf yn anhawdd, y gareg yn ymddangos wedi ei niweidio, ymddengys yn debyg i *n*, ac felly ei rhoddir gan yr esgob Gibson, ond yn y llun yn llyfr Pennant ymddengys yn debyg i CI. Darllenaf y pump llythyren nesaf yn *malte* y groes ar ben y *t* yn amlwg. Yn ngwagle presenol y llinell uchaf

* Arch. Camb., am Gorphenaf, 1874.

† Gwneir defnydd yma o sylwadau y gwr a nodir uchod a'r Parch. John Williams (ab Ithel) ar Gareg Cadfan, a geir mewn llyfryn argraffedig yn y flwyddyn 1850, allan o'r Archaeologia Cambrensis. Cyfeirir ynddo at wahanol ochrau y gareg trwy bedair o lythyrenau penigol—at yr ochr gul a'r groes trwy y nod lythyren A., ac at yr ochr gul heb groes â'r llythyren C. At yr ochr lydan ar groes â'r llythyren B., ac at yr ochr lydan heb groes â'r llythyren D.

Digitized by Google

arddangosir *d* gan Gibson a Pennant, y ddwy lythyren olaf ydynt *gu adgan* yn eglur yn y pum' llythyren gyntaf o'r ail linell, yn gwneyd i fyny yr enw GUADGAN, h.y., CADFAN, eithr y mae y llythyrenau bychain yn y diwedd, y rhai a ffurfiant ddwy linell, yn awr yn amheus, mewn canlyniad i doriad y gareg. Ymddangosant i mi i fod yn *m*, o dan ba un y mae *a*, ail linell yr hon sydd wedi ei dynodi yn wael, fel y gall fod yn unig yn *c*. Y mae lle yn yr encyd toredig i ddwy lythyren, yn cael eu dilyn y mae yn ymddangos ag *R*, ond rhydd Llwyd y llythyrenau olaf hyn (fel eu gwelwyd cyn i'r gareg gael ei thori yn :—

mc
CRTA

Ymddengys i mi, gan hyny, y bwriadwyd y llinell hon i fod am :—

+ tengrug c (?) i malte (d) gu
adgan m
a (?)· ·tr (neu a)

Sylwa fod yr ochr gul heb y groes yn eglur "oddigerth yr ail, yn awr yn doredig, pa un a ymddengys fel rhan o *r* (rhydd Pennant hi yn *n* cyn i'r gareg gael ei thori yma). Y mae yr oll gan hyny i'w darllen.—

an (?) terunc dubut marciau

Dywed fod y llinell uchaf ar yr ochr lydan heb y groes yn amlwg, "y llinell ganol yn fwy anhawdd, y llythyren gyntaf sydd yn amlwg yn *c* y nesaf yn debycach i *l* heb y troad bychan yn y gwaelod, pa un sydd yn ymddangos wedi cael ei droi i'r cyfeiriad gwrth gyferbyniol, ymddengys y ddilynol i mi yn *o*, er nad yw y cylch yn hollol gyflawn ar yr ochr dde. Y mae Cambden a Pennant wedi rhoddi y nesaf fel *p*, ond ymddengys i mi mai *d* yw; ymddengys yr holl lythyrenau yn y llinell isaf i mi yn eglur. Rhaid darllen yr ochr hon o'r cerf-argraff:—

| | |
|---|---|
| molt | tricet |
| clode | |
| tuar | nitanam |

Dywed fod yn anhawdd siarad am eu hamseriad trwy farnu "oddiwrth gymeriad y llythyrenau yn unig, ond gan eu hysgrifenwyd gan mwyaf mewn llythyrenau Rhufeinig tra bychain ac anghelfydd,* tybiaf y gellir eu golygu yn perthyn i gyfnod o gryn amser ar ol ymadawiad y Rhufeiniaid o'r wlad a'u llythyrenau

* In a very debased minuscule Roman characters.

Digitized by Google

penigol wedi myned allan o arferiad, gallai y cyfryw lythyrenau gan hyny gael eu defnyddio o'r chweched i'r nawfed ganrif, pryd yn ddiameu y dylanwadai y gwelliantau a ddygwyd i mewn gan Charlemagne hyd fyn nod ar ysgrifenyddiaeth ysgrifenwyr Cymreig. Prin, pa fodd bynag, y buaswn yn petruso eu golygu yn gynyrchion o'r seithfed neu'r wythfed ganrif. Ac fel y cyfryw, y mae genym yma restrau o frawddegau yn hen iaith Cymru, mwy henafol o amryw ganrifoedd nac unrhyw un arall mewn bodolaeth, a'r rhai yn ganlynol, a osodant ger bron foddion i brofi cywirdeb gweddillion llenyddiaeth Gymreig mwy henafol a ddaethant i lawr i ni mewn adysgrifau o ddyddiad diweddarach. Ac fel y cyfryw y mae y gareg hon hefyd yn un o'r cyfarwyddion gwerthfawrocaf o grefydd a llenyddiaeth Gymreig, a haeddai bob gofal ag a ellir gymeryd o honi i;w gosod yn y cyfryw sefyllfa ag a'i diogela i oesoedd dyfodol."

Nid yw Mr. Westwood yn cynyg esbonio dim o ystyr y cerfargraff oddieithr un gair, sef, *guadgan*, yr hwn a ystyria yn enw personol, ac yn golygu Cadfan. Ond gadawai hyn i allu ieithyddol ab Ithel, gan hyderu y byddai i'w sylwadau yntau alluogi y gwr hwnw i ddarllen yr argraifft.

Cydsynia ab Ithel â Mr. Westwood o barth diben y croesau; ond nid yw yn cytuno âg ef fod y nodau cromfäog ar yr ochr gul, lle y mae'r groes yn dynodi cwblhad yr ysgrifen, ond yn hytrach eu bwriadwyd i lenwi i fyny y gwagle, neu fel cydnod i gysylltu y ddwy ochr. Dull ab Ithel o ddarllen y cerfiad yw dodi dwy ochr gul ynghyd, gan ddechreu darllen yn hono sydd a'r groes arni; ac yn ddilynol, ddarllen yn nghyntaf yr ochr lydan a ddyga'r groes, a diweddu yn yr ochr lydan sydd heb feddu croes, fel hyn :—

×CUNGEN CELEN ARTERUNC DUBUT MARCIAU.

A'i ddarlleniad o'r ddwy ochr lydan ydyw :—

×TEN GRUGCIMALTED GUADGAN MARTH MOLT CLODE TUAR TRICET NITANAM.

Ei ddarlleniad o'r oll o'r gerf-ysgrifen yn ol orgraff ddiweddar yw:

CYNGEN CELAIN AR TU RHWNG DYBYDD MARCIAU.

TAN GRUG CYVAL TEDD GADVAN MARTH MOLL CLOD Y DDAEAR TRIGED NID ANAV.

Yr ystyr yn Gymraeg o'i gyfieithiad i'r Saesneg o'i ddodiad uchod o'r argraifft mewn orgraff ddiweddar ydyw :—

*Corph Cyngen sydd ar y tu rhwng lle bydd y marciau. Odditan grug cyffelyb y mae Cadfan yn estynedig trist yr amgana*

Digitized by Google

*glod y ddaiar. Bydded iddo orphwys yn ddi nam.* Fel y gwelir yn yr aralleiriad hwn o'r gwreiddiol, *cyfal* yw y gair a ddefnyddia ab Ithel yn gyfystyr â *cimal*. Ac y mae y geiriau *cyffelyb, tebyg*, neu *hafal* yn cyfateb i'r gair Saesneg a ddefnyddia fel ystyr o hono yn ei gyfieithiad crybwylledig. Ond yn mhellach ymlaen yn ei ymdriniaeth ar y pwnc, dywed am y gair *cimal* y gall ei bwriadwyd am *cinmael*, sef encilfan neu gornel. Ac, os felly, y cyfieithai y llinell i'r ystyr y rhed y Gymraeg o'r unrhyw fel hyn :—

*Yn yr encilfan dan y crug y mae Cadfan yn estynedig.*

Defnyddia ab Ithel y llythyren *v* yn *cyfal* yn gyfystyr a'r *m* yn *cimal*, oherwydd, yn un peth, y golyga y buasid yn bresenol yn rhoddi y flaenaf yn lle yr olaf mewn geiriau yn y dyfyniad Cymreig dilynol :—" Nigourcosam nemheunaur henoio mitelu nit gurmaur mi amfranc dam calaur." Ceir gweled oddiwrth yr aralleiriad canlynol o'r unrhyw, y geiriau y cyfeiria atynt ac y golyga y defnyddid *v* yn lle *m* ynddynt yn awr :—

" Ni worchysav, ni'm hunawr henoeth ;
Vy nheulu nid gorvawr ;
Mi a'm franc dav a'n callawr."

Y mae peth gwahaniaeth yn y sillebiaeth yn y ffurf ddilynol o gynwys y dyfyniad hynaf o'r ddau uchod. Ac ymddengys ei fod hefyd yn ddarlleniad cywir o'r ysgrifen o hono, pa un a ystyrir sydd o'r nawfed ganrif, ac wedi ei gymeryd yma o argraffiad yn y Four Ancient Books of Wales, cyf. ii., t. 2 :—

" Niguorcosam nemheunaur
Henoid mitelu nit gurmaur
Mi amfranc dam ancalaur."

Hefyd, rhydd ab Ithel y geiriau " irham ac irgaem " a geir yn llyfr St. Chad, ysgrifenedig, fel y tybir, cyn y flwyddyn 720, y rhai a safant am yr " haf a'r gauav."

Cytuna y Proffeswr John Rhys â darlleniad Mr. Westwood o'r ochr gul lle y mae'r groes, ac addefa nas gall wella ar ei ddarlleniad o'r ochr lydan a'r groes, ond noda mai yr unig air eglur yw Adgan, yr hwn sydd i'w weled yn y ffurf o Atgan yn y Cambro-British Saints, tud. 88. Dywed i ab Ithel geisio gwneyd Cadvan* o hono, am yr hwn hyd yn hyn y bu ymchwiliad ofer. Tybia y canfyddai olion *n* yn niwedd y llinell ar yr ochr gul heb y groes, ac felly mai y gair, os na chamgymerai, yw *Marciaun*, yr un ag a ysgrifenir yn awr *Meirchiawn* neu *Meirchion*. Ac ystyria nad yw *Marciau* yn Gymraeg o'r nawfed ganrif. Dywed iddo ganfod olion o gyn bre-

* **Gwna Mr. Westwood hefyd yr un peth.**

Digitized by Google

senoldeb o'r llythyren *a* o flaen *nitanam*, ar yr ochr lydan heb y groes,—ac yn lle *tricet nitanam*, darllena *tricet anit anam*. Gesyd mai *onid* fuasai *anit* yn awr; a dywed nad yw enw y person yn eglur, ac y cyfyd anhawsder arall, sef, a allai *nit* olygu *heb*, yr hyn a ymddangosai iddo ef yn annichonadwy.

Dull Mr. Stephens, Merthyr, o ddarllen yr argraff yw dechreu yn yr ochr lydan a'r groes arni, a chanlyn ymlaen i'r ochr lydan ddigroes; ac yna ddechreu ar yr ochr gul, sydd yn medda'r groes, a diweddu ar yr ochr gul ddigroes. Cydsynia â deongliad Cymreig ab Ithel o'r ddwy ochr gul, ond nid yw yn cydsynio a'i gyfeithiad Seisnig. A gwahaniaetha yn fawr oddiwrtho mewn perthynas i'r ddwy ochr arall. Sylwa fod Gibson a Pennant yn cytuno i lenwi y gwagle cyntaf ar yr ochr lydan lle mae'r groes â *D*; eithr yr ymddengys yn Hanes Cymru gan Jones yn debycach i'r llythyren I. Ond, meddai, " gan fod *tedd*, i'w gael yn cyn-tedd, ac an-nedd, gydag ystyr heb fod yn anmherthynasol yma, gallwn gymeryd fod *Ted* yn gywir. Ychwanegwch eis-tedd at y rhai hyn, eithr y mae yn debygol, er nad oedd yr *dd* mewn bodolaeth y pryd hwnw, na fwriadwyd yn yn wirioneddol i'r *d* gael sain yr *dd*....... Nid oes digon o seiliau am MARTH, ymddengys fod y darn llythyren yn gyfran flaenaf o A, y cyfryw ag a geir amryw weithiau ar y gareg hon; ni ymddengys chwaith fod digon o reswm dros ddarllen yr A yn ddigyfrwng ar ol yr M, yn lle ei dodi yn olaf oll. Darllenaswn i y llythyrenau fel hyn:— M aN ond os nad M A N ydyw nis gallaf gymaint a dyfalu pa A;
beth yn wirioneddol yw y gair. Ymddengys mai talfyriad o Molet yw Molt, dyfaliad ag sydd yn ymddangosiadol awdurdodedig gan ddull tyrfaog y llythyrenau.

Darlleniad Mr. Stephens o'r ddwy ochr lydan sydd fel hyn:—
" TEN GRUG CYMAL TED GUADGAN MAN MOLT CLOD TUAR TRIGET NITANAM.

A gesyd yr unrhyw mewn Cymraeg diweddar fel hyn:— TAN GRUG CYNFAEL TED GYADFAN (MAN A ?) MOLED (EI) GLOD E DAEAR TRIGED NID A NAM. Ystyr ei gyfieithiad Saesneg o'r argraifft i gyd sydd yn Gymraeg i'r perwyl hwn:—*Tan Grug Cynfael gorwedda* (*neu y mae yn estynedig*) *Cyadfan Lle* (?) *y dyrchafa y ddaiar ei glod. Gadawer iddo orphwys (neu gorphwys ef) yn ddinam. Corph Cyngen* (*hefyd*) *a rhyngddynt* (*hwy*) *bydd Marciaw* (*neu Nodau.*)

Mewn perthynas i Marciau neu Marciaw y mae Mr. Stephens ar ol gofyn pwy ydyw, yn dweyd mai mwy tebygol mai yr un person

Digitized by Google

ydyw a Marco y Gododin, ond gofyna drachefn, pwy yw hwnw. Dywed y goddef y geiriau "Arterunc dubut Marciau" gyfieithiad yn tebygu i un ab Ithel, sef, "A rhwng (Cadfan a Chyngen) y (mae neu) bydd marciau." A sylwa mewn perthynas i hyn "fod y ffaith nad oes yno namyn dwy groes yn gwneyd y cyfieithiad hwn yn fwy dilys na'r blaenorol. Nid yw, pa fodd bynag, heb ei anhawsder. Dyna y gair *marc* er y gellir oddiar ystyriaeth dderbyn ei dadogaeth Gymreig, nid yw o fynych arferiad a gellir dweyd ei fod mewn angen am gadarnhad barddol."

Mewn perthynas i pwy ydyw y personau y coffheir am danynt ar y gareg dan sylw, ystyria ab Ithel nas gall fod amheuaeth mai Cadfan mab Gwenteirbron, chwaer Emyr Llydaw, a sefydlydd Eglwys Tywyn, yn Meirionydd a Llangadfan, yn Swydd Drefaldwyn, ydyw un o honynt. A thybia oddiwr y llinellau

"Gwyn a uyd a uyt o nothaed
Men y tric gwledic gwlad ednywed."

iddo gael ei gladdu yn Eglwys Tywyn, "eglwys gadyr gaduan," fel y cyfeiria hefyd ati yn y geiriau dyfynol hyn, allan o hen gerdd, ymha un hefyd y ceir y ddwy linell flaenorol. Ac o barth Cyngen dywed mai tebygol mai mab Cadell ydoedd, a'i fod yn blodeuo rhwng y blynyddoedd 500 a 542.

Dygir i sylw gan y Proffeswr Rees fod traddodiad yn mynegu i Cadfan gael ei gladdu yn Ynys Enlli, a sylwa i'r ystyr yr ymddangosai fod adran dywyll ag yr ydoedd newydd ddyfynu allan o gerdd o waith Llywelyn Fardd, ysgrifenedig rhwng y blynyddoedd 1230 a 1280, yn cadarnhau hyny, ac felly y gellir barnu nad oedd y gareg (Careg Cadfan) ond yn unig groes arw, ac y gellir cael cynyrchion tebyg i'r unrhyw yn dwyn enwau personau seintiedig mewn parthau eraill o'r Dywysogaeth. Ymddengys mai y llinellau hyn a gymerai fel ategiad i'r traddodiad crybwylledig,

"kyn noe dreghi—ydoet
yn cadw rac kyhoet anlloet enlli."

Dywed wrth gyfeirio at yr unrhyw gareg, fod "rai blynyddoedd yn ol yn mynwent Eglwys Tywyn ddwy golofn arw, un o ba rai ar ffurf cŷn, oddeutu saith troedfedd o uchder, yn meddu croes a cherfargraffiad arni, a elai wrth yr enw Careg Cadfan, a thybid ei bod yn rhan o'i feddrod. Y mae darlun o'r cerf-argraff yn ol fel ei cymerwyd ar ddau dro gwahanol yn y ganrif ddiweddaf (gan Llwyd cyn y flwyddyn 1709, a chan Dr. Taylor yn y flwyddyn 1761) wedi ei roddi

Digitized by Google

yn ngwaith Cambden gan Gough, ond yr unig air eglur oedd yr enw Cadfan."

Mewn perthynas i fan beddrod Cadfan, ystyria Mr. Stephens, Merthyr, mai os oes crug, yn y fan y safai castell Cynfael, i Cadfan a Chyngen gael eu claddu ynddi, neu o leiaf, ddarfod i Cadfan gael, gan dybio, yn gywir, oddiwrth wybodaeth barthlenol, nad yr un man yw Cynfael (Cynfal) a Thywyn; ac arweiniwyd ef i gredu y claddwyd Cadfan yno oddiwrth wrthddrycholdeb y mynegiad "Ten grug cimal." A chymer y llinellau

"Gwyn a uyd a uyt o nothaed
Men tric gwledic gwlad ednywed,"

o blaid fod Cadfan, o leiaf, wedi cael man beddrod yno. Nid yw y gwahaniaethiad hwn oddiwrth Ab Ithel namyn o barth lle yn yr un gymydogaeth, ac addefai mai oddiwrth ysgrif y gwr hwnw y cafodd y syniad.

O barth y traddodiad iddo gael ei gladdu yn Enlli, yr hwn a ddygwyd ymlaen gan y Proff. Rees, dywed nad yw y llinellau

"Kyn noe dreghi—ydoet
Yn cad*w* rac Kyhoet anlloet enlli,"

yn rym iddo, gan ymresymu mai siarad y mae y bardd yma am ei fywyd, ac nid am ei farwolaeth,—am Cadfan y mynach byw, ac nid am y sant claddedig. Ac ar ol ymresymu yn helaeth, dywed nad oes sylfaen safadwy dros y grediniaeth i Cadfan gael ei gladdu yn Enlli; ac fod y ffaith nad oes reswm i gredu iddo gael ei gladdu yn un man amgen yn rhoddi dadl arall o blaid y casgliad ei claddwyd yn neu yn agos i Dywyn.*

O barth dyfaliad Mr. Stephens ddarfod i Cyngen a Chadfan gael eu claddu yn nghrug Cynfal, neu o leiaf, i'r olaf a enwyd gael man beddrod yno, gellir sylwi nad yw y crug a elwir Tomen Bryn Castell yn grug feddrodol, eithr yn safle hen Gastell Cynfal. Ac yn ffurfiedig mewn rhan trwy doriad y tir o'i deutu, a dodiad yr ysbwrial ar yr ymylon. Ac nid yw yn debygol i'r un o'r ddau gael eu claddu yn y crug hwn. Ond nid yw hyn yn penderfynu nas claddwyd hwy mewn crug arall yn rhywle yn y gymydogaeth. Modd bynag, er y cwbl, a pha faint bynag o rym sydd yn y traddodiad a ddug y Proff. Rees, ymlaen am gladdiad Cadfan yn Enlli, gellir nodi fod traddodiad yn mynegu iddo gael ei gladdu yn Nhywyn, gan nodi megis, a'i fys y fan y gwnaed, fod ei feddrod yn llëedig yn mynwent eglwys Tywyn. A nodir yn Britania Camden, cyfieithedig gan Gough y gwybyddid

* Arch. Camb., am y flwyddyn 1851.

Digitized by Google

fod y gareg hon yn rhan o'i feddrod. A cheir crybwylliad yn hen lyfr cyfrif eglwys Tywyn, a brynwyd yn y flwyddyn 1723, yn mynegu ddarfod i "Mr. Vaughan" roddi ar y 15 o Gorphenaf, 1740, haner coron "am genad i egor Bedd Cadfan."

---

### SYLWADAU YCHWANEGOL O BARTH CADFAN.

Ond i sylwi yn ychwanegol o barth Cadfan ei hun, ceir yn gyntaf ddyfynu a ganlyn allan o Achau Saint Ynys Prydain, yn ysgrifau Iolo:—"Cadfan Sant ab Eneas Ledwic o Lydaw, a Gwen Teirbron ferch Hywel ab Emyr Llydaw, yn oes Gwrtheyrn Gwrthenau y daeth ef i'r Ynys honn, gyda Garmon ab Rhidiggys o Dir Gâl, lle'r han-oedd, i adnewyddu Cred a Bedydd yn yr Ynys honn." Yn ol hyn, yr oedd Cadfan yn orwyr i'r hwn a ddynodir yma yn Emyr Llydaw. Ond nid yw yn ymddangos fod Emyr yn enw personol o gwbl, eithr yn ddynodiant ar amryw o dywysogion Llydaw yn ddiwahaniaeth. Ac ymddengys mai enw yr un y cyfeirir ato yma yw Hoel neu Hywel, ag a ddynodir Hywel Mawr. Yn ol a fynegir, nid ydys yn cael enw Cadfan yn achrestrau Saint Llydaw, yn herwydd rhyw achos neu gilydd. Dygir ef i sylw yn y fath fodd amlwg yn Achau neu Fonedd Saint yr Ynys hon fel nas gellir lai nag ystyried ei fod yn berson o bwysigrwydd a rhyw faint o aeddfedrwydd oedran pan y daeth tros-odd, ar un cyfnod o'i fywyd o leiaf. Ond gall iddo gael ei eni yma, neu ddod trosodd i ddechreu yn ei fabandod gyda'i rieni yn her-wydd helyntion blin a gwaedlyd ei wlad a'i deulu, a myned yn ei ol drachefn cyn dod trosodd yn yr adeg y cyfeirir ato gan yr awdurdod-au crybwylledig.

Daeth llawer o'r Llydawiaid i Gymru tuag amser oes Cadfan, ond ymddengys i nifer o honynt ddyfod trosodd yn herwydd amgylch-iadau cynhyrfus a blin eu gwlad. Ond dangosir i Cadfan ac eraill ddod yma er adnewyddu cred a bedydd. Modd bynag am hyn, a pha faint bynag o'r Llydawiaid a ddaethant trosodd oherwydd y blinfyd yn eu gwlad eu hun, ymddengys i nifer o honynt fod yn dra egnïol ar ol eu dyfodiad, i ddwyn ymlaen achos yr efengyl yn Nghymru. Tebygol y dodir nifer o bersonau yn Achau neu Fonedd y Saint fel wedi dod yma gyda Chadfan ag na ddaethant gydag ef.

O barth yr helyntion blin a gwaedlyd yn Llydaw ag yr ydys eisoes wedi crybwyll am danynt, yr oedd rhai o hynafiaid a pherthynasau

Digitized by Google

Cadfan* yn dal cysylltiad penodol a'r unrhyw. Canys ymddengys mai Budic, hen daid iddo, oedd prif benaeth neu yr Emyr yn Llydaw yn niwedd y bumed ganrif, a hyny mewn cyngrair neu yn wriogaethol i'r Rhufeiniaid. Yn y flwyddyn 497, goresgynodd Clovis brenin y Ffrancod yr holl wlad yn ogleddol i'r afon Loir gan gynwys Llydaw. Ond, yn y flwyddyn 509, gwrthryfelodd Budic yn ei erbyn, eithr collodd y dydd a'i fywyd yn yr ymdrech. Diangodd Hywel ei fab hynaf a llawer eraill o'r teulu a daethant trosodd i Brydain am ddyogelfa. Bu Clovis farw yn y flwyddyn 511, a rhanwyd ei diriogaethau rhwng ei feibion. Dychwelodd Hywel yn ol i'w wlad yn y flwyddyn 513, ac ymostyngodd i'r awdurdod a fodolai ar y pryd, ac adferwyd iddo y rhan o'r wlad a berthynai i'w dad. Ac nid yw yn ymddangos iddo dori ei warogaeth, a dywedir iddo roddi ei bresenoldeb yn y llys ym Mharis, yn y flwyddyn 522, a chael ei lofruddio yn y flwyddyn 524. Rhanwyd ei diriogaethau rhwng ei feibion, Hywel Fychan, Weroch, Cybyddon, Canao,† a Maelian. Yn y flwyddyn 546, cwympodd y brodyr allan a'u gilydd, a llofruddiwyd Hywel, Weroch, a Cybyddon, gan Canao, a thaflodd Maelian i garchar, o ba un y diangodd gan droi yn fynach am amser. Yn yr helynt gwaedlyd ac annynol hwn, daeth nifer o'r hil tywysogol trosodd i'r wlad hon; ac y mae enwau rhai o honynt, fel yr ymddengys, i'w cael yn Achau Saint Ynys Prydain, megis Lloniaw Llaw Hir, Llynab, Sulien, Rhystud, ac eraill.

Gesyd y Dr. W. O. Pughe amseriad dyfodiad Cadfan i'r wlad hon yn nechreu y chweched ganrif. Ac y mae y *Gwyddoniadur* yn sylwi y tybir iddo ddyfod trosodd tua'r flwyddyn 516. Ond feallai nas gellir rhoi pwys ar unrhyw adeg benodol yn yr unrhyw ganrif fel amseriad ei ddyfodiad, er hyny nid yw yn ymddangos iddo ddyfod trosodd yn y cymeriad ei gosodir allan yn Achau neu Fonedd y Saint yn agos mor foreu arni. Hanai o gyff-âch tywysogol, ac y mae y "Man-Gofion am rai o Saint Ynys Prydain, o wahanol fan-ysgrifau anghysylltiedig," yn ysgrifau Iolo,‡ yn dywedyd fod Emyr Llydaw yn hanu "parth âch a gwehelyth o Ynys Prydain, nid Amgen nag o Gynan Meredawc Tywysawc Cernyw."

———

## LLWYBR CADFAN, PISTYLL CADFAN, AC EISTEDDFA CADFAN.

Gelwir y llwybr neu y ffordd y dywed llafar gwlad yr elai Cadfan ar hyd-ddi wrth dramwyo yn ol a blaen o Lan Gadfan, yn swydd Dre-

* Tybir iddo yntau (Cadfan) fod yn arwain bywyd milwrol yn Llydaw.
† Arch. Camb., am 1850, tud. 209—12.
‡ Iolo MSS., tud. 147.

faldwyn i eglwys Tywyn neu Lan Gadfan, yn Meirionydd, yn nghyflawniad ei weinidogaeth ynddynt, yn Llwybr Cadfan. Parha yr hen lwybr neu y ffordd hon i fod yn ganfyddadwy mewn manau yn y pellder rhwng y ddwy Lan hyn a'u gilydd. Ond, nid yw yn ymddangos y gellir canfod ei ol yn nes i eglwys Tywyn na maes sydd wrth dyddyndy yr Erw, eithr y mae i'w weled yn cyfeirio i fynu ar osgo ar hyd lethr y cae hwn. Ac, ymhellach ymlaen, ond yn ychydig yn îs i lawr na'r llwybr, y mae Pistyll Cadfan, ac ychydig ymhellach y mae Eisteddfa Cadfan. Cyfeiria y llwybr ymlaen oddiwrth yr Eisteddfa i Fynydd y Pentre'—Pentre' Maes Trefnant, ar yr hwn y mae yn weledig am encyd o ffordd. Hefyd, y tu draw i Bont Llaeron, y mae i'w weled yn mynydd Bryn yr Eglwys yn cyfeirio ymlaen ar hyd ochr y cwm i gyfeiriad Bwlch y Groes, man sydd tua blaen yr unrhyw fynydd. Cyfeiria ymlaen trwy ran o blwyf Penal nes cyraedd y tu draw i Afon Ddulas i blwyf Llanwrin, a hyny yn ol rhai trwy fynydd y Fotty (Hafotty), o dan dwll y Daran.—Taran Gesail, ac ymlaen i'r Bwlch Llydan. Yna trwy fynydd Pantperthog, a thir Cwmcadian a thros Afon Ddulas i dir Fron Felen. Cyfeiria ymlaen o dir Fron Felen i fynydd Esgair Geiliog, gan groesi cornel iddo gyferbyn a Gallt y Rhiw. Yn ymestyn i fynydd Ty Mawr y mae llwybr neu gefnffordd a ystyrir yn Llwybr Cadfan. A chyfeiria ymlaen heibio y tu uchaf i adfeilion hen gynt dyddyndy o'r enw Maesgwm, a lle wedi hyny a breswylid mor ddiweddar ac o tua 64 i 70 o flynyddoedd yn ol i eleni (1889), fel ty anedd. Ymhellach ymlaen y mae ffordd a ystyrir yn llwybr Cadfan yn myned ar draws llechwedd Moel Eulyn oddiar Gwm y Gath yn mynydd Foel Friog. Ystyrir hefyd mai Llwybr Cadfan sydd yn myned ar hyd fynydd Esgair Lywelyn gan fyned tros y tir ac ymestyn ymlaen ar draws y Llechwedd yn yr unrhyw fynydd, ag sydd megis ymlaen Cwm Coeg. Ac ystyria rhai mai tros gefn yr Esgair—Esgair Angell y mae ei gyfeiriad oddiyno, ond eraill a ystyriant mai myned y mae ymlaen ar hyd y gefnen rhwng plwyf Mallwyd a Llanwrin ac ymlaen i dir Nancyff a thros Afon Ddyfi yn rhyd Dolcorslwy gan gyfeirio tua'r grybwylledig Lan Gadfan, yn Swydd Drefaldwyn.

Digitized by Google

# HEN AMDDIFFYNFEYDD.

## BRYN Y CASTELL.*

Enw sydd yn awr ar amaethdy yn nghymydogaeth Tywyn a Bryncrug yw Bryn y Castell neu Bryn Castell. Saif y ty hwn yn nghysgod bryn, ar uchaf pa un y mae crug a elwir Tomen Bryn Castell. Diameu mai y bryn hwn a elwid ar y cyntaf yn Fryn y Castell, ond ymhen amser, ddarfod i'r amaethdy gael ei alw ar ei enw. Cysylltwyd yr enw Castell â'r bryn am y safai un gynt ar ei warthaf, olion o ba un sydd yn aros eto ar ffurf y domen neu y crug crybwylledig, pa un a gyfluniwyd mewn rhan drwy dori y tir oddeutu pen y bryn a gosodiad yr ysbwrial ar yr ymylon.

Yn agos i'r bryn hwn saif amaethdy o'r enw Cynfal, ac ymddengys mai Castell Cynfal neu Cynfael oedd enw y Castell a safai ar y fan y mae y domen neu y crug a nodwyd.

Y mae yn ymddangos fod yn Swydd Feirionydd ddau fan y bu amddiffynfeydd o'r enw Castell Cynfael yn sefyll arnynt, ond y mae safle un o honynt yn llëedig y tu allan i derfynau hen Gantref Meirionydd, canys cyfeirir yn yr âchlyfr gan Lewis Dwn at Gastell o'r enw hwn a'i safle yn mhlwyf Maen Twrog. Dengys parthlen gan y Dr. W. O. Pughe, y safai un o'r cestyll hyn yn agos i Dywyn, ac y mae yn ddiameu mai yr un ar Fryn y Castell oedd hwnw. Ond, heblaw y rhai hyn, yr oedd hefyd gastell yn rhywle yn y deheudir o'r un enw a hwy.

Cwympodd un castell o'r enw Castell Cynfael (sef yr un dan sylw

* Yn mhellach yn ol, yn y tud. 17, dywedwyd nad ydys yn gallu nodi yn fanwl safle Castell y Cymer; ond gellir sylwi yma fod man ar dir y Pentre yn cael ei alw Coed Pen y Bryn, ar uchaf pa un, y mae yn ymddangos oddiwrth ychydig o olion, y bu yno gynt gastell neu amddiffynfa filwrol. Ac os nad ydys i ddeall fod helaethder ymddangosiadol ei safle yn rhy fawr i gael ei ystyried i fod yn safle Castell y Cymer, tebygol mai dyma y fan yr oedd. 1878 meddir, oedd y flwyddyn y preswylid Ty'n y Felin. Gwoler nodyn tud. 17.

Digitized by Google

ag a safai ar Fryn y Castell, tebygol) tua'r flwyddyn 1145, trwy law Hywel a Chynan, meibion Ywain Gwynedd, wrth ei gymeryd oddiar Cadwaladr, eu hewythr o frawd eu tad, pryd ei delid iddo gan Morfran neu Merfyn, Abad y Ty Gwyn ar Daf. Darlunir ei gwymp gan Cynddelw yn ei ganu i "Howel M. Ewein" yr Hywel a nodir uchod, fel hyn :—

"Twrwf tonn torchawc hael trwm oet glywel
Twr kynuael yn kwytaw
A flameu odrum yn edrinaw
Ac angert ac ongyr yn llaw
A gwyr gyrth am byrth yn burthyaw—gorwlad
A bragad yn briwaw
A brwydyr a breis rwysg yn brwyscyaw
A breuolyon ewyn yn cwympyaw."

Cyfeirir at yr helynt yn ei gylch yn Mrut y Saeson* fel hyn: "Ni bu bell gvedy hynny yny tyawt tervysc rwc meibion Owein Howel a Chynan, a Chadwaladyr eu hewithr braut ev tat. Odena y doeth Howel a Chynan hyt yn meirionyd y darystwg y wlat ydunt, ac y gastell kynvayl a adeiliassey Catwaladyr. ac a oed yngeidwadayth Morvran abbat y ty gwyn. Ac ymlad ar castell allad rai abrathu ereill, a dianc ereill yn vew o getmeithas."

Brut y Tywysogion,‡ yn ol Llyfr Coch Hergest a ddywed, "Ac o dyna yd aeth Howel o'r neilltu, a Chynan o'r tu arall hyt ym Meirionnyd ae galw a wnaethant y law gwyr y wlat a gilyassant y noduaeu eglwysseu. Ac odyna kyweiraw eu bydin a wnaethant tu a Chynvael castell Cadwaladyr, yr hwn a wnaethoed Cadwaladyr kyn no hynny yn y lle yd oed Moruran Abat y ty Gwyn yn Ystiwert yr hwnn a wrthodes rodi y wrogaeth udunt. kyt ys profit weitheu drwy arwydon vegythyeu. gweithieu ereill drwy aneiryf anregyon a rodyon a gynygyit idaw, kanys gwell oed gantaw marw yn aduwyn no dwyn y vuched yn dwyllodrus. A phan welas Howel a Chynan hynny, dwyn kyrch kynhyruus yr kastell a wnaethant. ac ennill a orugant y dreis. Ac o vreid y diegis keitweit y castell drwy nerth y cyfeillon wedy llad rei oe kedymdeithon, a brathu ereill."

Gan fod peth hysbysiad yn Mrut y Tywysogion yn ol Caradawc, o Lancarfan, na cheir mo hono yn yr un o'r dyfyniadau blaenorol, ychwanegir y canlynol atynt allan o hono :—"Yr un flwyddyn y diffeithiwyd cyfoeth Cadwaladr ab Gruffydd gan ei neieint ac aethant am benn Castell Cynfael a gadwid tros Gadwaladr gan Ferfyn Abad y Ty Gwynn ar Dâf yr hwn ai amddiffynawdd yn wrol,

* Myf. Arch., argraffiad MDCCCLXX., tud. 677.
‡ Myf. Arch. tud. 625.

Digitized by Google

ac ni cheid er na gwerth na gwobr ganthaw ollwng y castell iddynt, achaws hynny maenu'r castell oni thorrwyd ef i'r llawr, a lladd y Gwŷr oll ac oedd ynddaw namyn Merfyn, a hwnnw ni leddynt gan mai mab maeth Eglwys ydoedd, eithr ei ollwng ar ddianc, yna diffeithiaw tiroedd rhai a fynnynt eu gwrthladd, a dwyn ysbail fawr."*

Ar ryw olwg, nid yw arwynebedd y domen neu y crug dan sylw ond bychan o'i ystyried fel safle castell ag y gwneir y fath gyfeiriad ato yn y Gerdd, ac hefyd, salw yr ymddengys yr ymylon o'u hystyried fel ei osail neu oseiliau. Eithr, o'r tu arall, wrth ystyried canlyniadau naturiol ruthr-gyrchiad ffyrnigwyllt arno, a gwrthsafiad mor erchyll ffyrnigwyllt a'r ymgyrchiad, a ddichon fod wedi cymeryd lle yn ei gymeriad; ac, os oeddyd hefyd wedi llwyddo i'w osod ar dân yn ystod yr ymosodiad, (ac yntau, tebygol yn gastell o goed), a'r fflamau goddeithiol yn ffyrnig ruo yn ei ddinystriad, y mae darluniad y bardd yn ymddangos yn ddi-ymchwydd a naturiol. Ond, yn nghysylltiad â'r dyfaliad mai tebygol mai castell o goed ydoedd, teg i'w mynegu y dywedir y codwyd tai yn y gymydogaeth o'i geryg. Eithr, pa fodd bynag am y dywediad hwn, nid yw arwynebedd y fan yn ei gadarnhau.

Yn ol a ddywed traddodiad bu llawer o ymladd yn erbyn eu gilydd rhwng y fyddin oedd ar Domen Bryn Castell a'r un a safai ar y Domen Ddreiniog ag y cyfeiriwyd ati yn hynafiaethau plwyf Llanegryn. Cyfarfuant a'u gilydd rai gweithiau ar y gwastadedd rhwng y ddau le a nodwyd. Ac un tro cyfarfu y ddaulu hyn a'u gilydd gan ymladd mor ffyrnig nes y rhedai eu gwaed yn ffrwd ar y fan, a dywedir y galwyd safle y frwydr o'r herwydd yn Ddol y Ffrwd. Saif y y ddol hon ar y gwastadedd yn agos i Ynys Maengwyn, ond y mae y rhanbarth a gynwysai gynt wedi ei ddosbarthu i dair o ddolydd. Gwnaed clawdd un o'r dolydd hyn oddeutu'r flwyddyn 1840. Ond cauwyd y llall ar ei phen ei hun ryw dro yn flaenorol, a gorwedd am y clawdd a'r ffordd fawr sydd yn arwain o Dywyn tua Bryn Crug, ac adnabyddir hi yn gyffredin dan yr enw Cae'r Bont Wen, eithr yr ydys yn gwybod am dani, fel Dol y Ffrwd Ucha'. Adnabyddir yr agosaf ati fel y Ddol Ffrwd Ganol, a'r llall fel Dol Ffrwd Isa' a hon yw yr un sydd yn cael ei hadnabod yn gyffredin yn awr fel Dol y Ffrwd. Rhed nant neu ffrwd o ddwfr i lawr o Gwm Cynfal heibio am y clawdd a'r ddau ddosraniad agosaf i'r brif-ffordd o'r hen Ddol y Ffrwd, a rhed hefyd am ychydig latheni efo ymyl y dosraniad arall, sef, Dol Ffrwd Isa', ond a drowyd ymaith er's nifer o flynyddoedd yn ol fel nad yw yn llifo ymlaen i'w therfyn eithaf. Ac os oes a fyno ffrwd waedlyd â'r enw Dol y Ffrwd yn nghysylltiad â'r dolydd hyn, mwy tebygol na bod gwaed y ddeulu gelynol yn rhedeg yn ffrwdlif

* Myf. Arch., ail arg., tud. 710.

ddigymysg, ar hyd y gwastadedd, ydyw ei fod yn cochi y nant neu y ffrwd ddwfr dan sylw.

Mynegir ddarfod i wyr Bryn y castell fyned un tro dros Afon Dysyni, a churo eu gelynion oddiwrth y Domen Ddreiniog, ac y buont yn ymladd gerllaw mewn man a elwir Gwaen Llywelyn.

---

## CEFN COCH.

Math o fryncyn yw hwn, sydd yn ymgodi yn gefnen yn Nghwm Dyffryn Gwyn, a saif yn nes i Fwlch Tywyn na'r tyddyndy a elwir Dysyrnant. Ar warthaf y bryncyn hwn erys gweddillion hen gaerfa led fawr; ac o barth ei henilliad, dywedir y safai y gelynion ar ddechreu yr ymosodiad ar ben Mynydd y Llyn—Llyn Barfog, ond y cyrchasant yn ei herbyn, megis o'r tu cefn iddi, sef o ben mynydd y Syrnant neu Dysyrnant, y tu arall i'r cwm. Dywedir hefyd y lladdwyd ei hamddiffynwyr bob un; ac i'r cefn y safai y gaer arno gael ei alw Cefn Coch oherwydd ei gochi gan waed y lladdedigion. Ond, yn ngwyneb hyn, er fod yn ddigon tebygol y collwyd llawer o waed mewn cysylltiad a'r hen gaer hon, ac y rhuddgochwyd y llawr ganddo; eto, pa faint bynag a ruddgochodd y gwaed hwnw ar y fan nid gwiw rhoi nemawr o bwys ar y dywediad mai oherwydd gwaed y lladdedigion y cafodd yr enw, canys ymddengys y cysylltir y dynodiant *coch* â manau heb fod a fyno gwaed a'r enw o gwbl.



Digitized by Google

## CARNEDDAU, BEDDAU, CISTFEINI, A SAFLE CROMLECH.

### CARNEDD AR FYNYDD ESGAIRGYFELA.

Yn y flwyddyn 1874, cafwyd carnedd ar y mynydd hwn, meddir, a gwelltglas tyfol yn ei gorchuddio, mewn man yn lled agos i'r lle a elwir Llidiart Gyriadau,* pa un sydd am y terfyn â ffridd neu fynydd Dyffryn Gwyn. Yr oedd yn ei gwaelod lwch esgyrn, ac hefyd rai darnau mân o esgyrn yn aros. Ac o amgylch y garnedd mewn rhan yr oedd llechfain byrion wedi eu dodi ar eu penau yn y ddaear, yn y pellder o tua haner llath i'w gilydd, pa rai oeddynt hefyd orchuddiedig â thyfiant yr un modd.

### CARNEDDAU ERAILL.

Yn ymyl yr olnod a adnabyddir fel ol troed carn march Arthur, ond ar fin y tu arall i'r ffordd gul sydd yn myned heibio iddo y mae neu yr oedd, ôl ag sydd, feallai, yn dynodi mangre hen garnedd. Ar fwlch bychan gerllaw y Llyn Barfog, ac ar y tu gorllewinol iddo y mae hen garnedd, fel y gellir tybio.

### CARNEDDAU AR FYNYDD CWMFFERNOL.

Ar fan o'r enw y Garn, ar ben mynydd Cwmffernol, saif dwy

* Nid oes yno lidiart.

Digitized by Google

garnedd, heb fod nepell oddiwrth eu gilydd. Y mae y rhai hyn yn garneddau lled fawr, ond y maent wedi cael ymhel â hwy a'u hamharu o fod yn eu ffurf gryno gyntefig. Encyd i'r gorllewin oddiwrthynt, erys un arall, ac megis ar ben yr unrhyw drum, ond heb fod ar fynydd Cwmffernol.

Buasai yn ddymunol allu dwyn hanesyddiaeth neu farddoniaeth i gysylltiad diamheuol â'r crugiau cerygog neu'r carneddau hyn ; ond nid yw yn ymddangos y gellir hyny. Eto, nid annhebygol, wrth ystyried y tebygrwydd enwol rhwng Ffernol, yn Nghwm*ffernol*, â "ffyrnal" a "ffyrnuael" y llinellau dilynol, allan o Englynion y Beddau, y claddwyd y gwr y cyfeirir ato ynddynt yn un o honynt, neu yn rhywle ar neu tua thyddyndir Cwmffernol* :—

"Y Bed yn y Gorvynyd a lyuyaf ai luyossyd
Bed ffyrnnal† hael vab Hyulyd."‡

Neu o fodd arall :—

"Picu yr bet ynymynyt
A lyviasei luossit.
Bet fyrnuael hael ab hyvlyt.§"

Wrth y darn llinell "a lyuyaf ai luyossyd," neu y llinell, "A lyviasei luossit," y golygir ddarfod i "ffyrnnal" neu "fyrnuael" fod yn llywio llu neu yn trefnu byddinoedd. Y mae y gwr hwn, fel y gwelir, yn cael ei ddynodi yn un hael, ac yn fab i Hyflyd neu Hywlyd.

---

## BRYN Y BEDDAU.

Ychydig godiad yn y tir yw y lle hwn a elwir Bryn y Beddau mewn man ar weirglodd berthynol i'r Dyffryn Gwyn ; yr hon sydd am y clawdd a'r hen ffordd a arwain o Dywyn i Benal dros Fwlch Tywyn. Yn lled agos i Fryn y Beddau, ac ar fin yr unrhyw ffordd,

* Y mae ar y fan a elwir Rhos Cwmffernol, ar yr unrhyw dyddyndir, faen ar ei ben yn y ddaear, a dichon ei fod yn dynodi beddrod rhywun neu gilydd.

† Yn ngodreu y ddalen, "Ffyrmail" yw y ffurf ar yr enw.

‡ Myf. Arch., arg. mdccclxx., t., 65

§ Four Anc. Books of Wales, Skene, cyf. ii., t., 31.

Digitized by Google

ond y tu arall iddi, y mae mynwent fechan capel Maethlon. Felly ymddengys y claddwyd rhai o'n cyd-ddynion gynt yn gyfagos i'r fan lle mae mynwent benodedig yn awr.

---

PANT Y BEDDAU.

Yn y fan a elwir Pant y Beddau, ac ar y terfyn rhwng mynydd Bryn y Castell a Bachyrhew, y mae olion wrth ochrau eu gilydd ag y dywedir mai dau fedd ydynt. Ymrafaeliodd perchenogion Bryn y Castell a Bachyrhew ryw amser gynt ynghylch y terfyn, a phenodasant i ymladd dau fywyd gyda chrymanau. Cwympodd y ddau, a'u beddau hwy, meddir, yw y rhai sydd i'w gweled yn y lle a enwyd.

---

BRYN Y CISTIAU.

Saif y fan a elwir Bryn y Cistiau ar fynydd cydranog Coed y Go a Thyddyn y Berllan, yn Nghwm Dolgoch. Tua 34 mlynedd yn ol i'r flwyddyn 1880, yn ol fel y dywedir, yr oedd tair o gistfeini, neu a dilyn enw y fan, dair o gistiau, yn agos i'w gilydd tua phen y bryn, yn fwy neu lai cyfain. Gorchuddid un o honynt, o leiaf, gan garnedd, ac erys dwy o geryg un o'r cistiau hyn ar eu cyllyll yn eu manau, fel cof-arwyddion o'i bodolaeth. Ac ymddengys y gorwedd careg orchudd un o'r cistfeini gerllaw. Dygwyd y garnedd ymaith tua'r adeg a nodwyd, er mwyn cynorthwyo i wneyd corlan o hen Hafotty—Hafotty'r Waen,—Waen Dasau, yr hon a saif gerllaw wrth odreu dwyrain ogledd y bryn. Cafodd y garnedd ei harchwilio ryw dro yn flaenorol i'w symudiad. Y mae safle dwy gistfaen yn lled agos i'r cistfeini a nodwyd, ac ar uchaf yr unrhyw fryn, ac i'r de oddiwrthynt. Y mae hefyd ddwy eraill tua godreu de orllewin y bryn.

Ar fynydd Tyddyn y Berllan, yn nghymydogaeth Bryn y Cistiau, ac yn y lle a elwir Tapiau Tyddyn y Berllan, yr oedd carnedd yn

Digitized by Google

aros gynt. Dywedid fod ynddi grochan a'i lon'd o aur wedi ei guddio gan Gruffydd ab Adda, o'r Ddolgoch. Ond, ryw dro tua'r flwyddyn 1780, agorwyd y garnedd; eithr, yn lle y crochan a'i gynwys euraidd disgwyliedig, cafwyd cistfaen yn cynwys lludw a mân esgyrn.

---

## LLAIN Y BEDD.

Y mae y fangre a ddyga yr enw Llain y Bedd, ar dir rhag-dyddyn o'r enw y Tyno, a cherllaw y ffordd a arwain heibio y tyddyn a elwir y Gesail, o gyfeiriad Llanfihangel y Pennant, tua Bryncrug, ac ar y tir isaf iddi. Yn amser tad neu daid un a fu farw yn y flwyddyn 1865, yn 86 mlwydd oed, yr oedd hen grythor, yn ol a ddywedir, yn byw mewn tŷ yn lled agos i'r Gesail. Byddai hwn weithiau yn arfer myned i deithio trwy dir y De; ond un tro, wedi iddo fyned i rodio y ffordd hono, ni chyrhaeddodd yn ol i'w gartref fyth mwy. Aeth cryn lawer o amser heibio ar ol ei fynediad oddicartref heb i neb ystyrio rhyw lawer yn ei gylch, gan dybio iddo aros yn hwy nag arferol yn y Deheudir. Eithr, fel yr oedd yr amser yn cerdded ymlaen, ac yntau yn parhau heb ddyfod adref, aed i ddechreu holi am dano; a chafwyd sicrwydd ei gwelwyd yn Machynlleth, ar ei ffordd tuag adref, er's llawer o wythnosau yn flaenorol. Ond ni chaed dim o'i hanes gwedi hyny hyd ymhen tuag ugain mlynedd. Ond, tua'r pryd hwn, fel yr oeddis yn agor ffos trwy gors yn y fan a nodwyd, darganfyddwyd esgyrn dynol, a darn o flaen cyllell yn asgwrn y gwddf. Caed yno, hefyd, ben crwth; ac felly, oddiwrth y cyfryw arwyddion, barnwyd mai gweddillion yr hen grythor a'i grwth oeddynt, ac ddarfod iddo gael ei lofruddio wrth ddychwelyd adref, a'i daflu i'r gors hono. A gelwir y fan yn Llain y Bedd oherwydd hyn.

---

## MANGRE CROMLECH A GWEDDILLION RHUFEINIG.

Yn ol a fynegir yn y tudalen 153 o'r gyfrol gyntaf o'r *Trans-*

Digitized by Google

*actions of the Cymmrodorion*, yr oedd Cromlech yn sefyll gynt ar faes o'r enw Cae Glas, perthynol i Fodtalog, ond y cafodd ei dinystrio. Hefyd, mewn cae o'r enw Cae'r Brenin, cafwyd rhai priddfeini Rhufeinig, a gweddillion o weithiau Rhufeinig eraill. Y fath ddifrod ffol ac anystyriol oedd chwalu yr unrhyw Gromlech, a llawer un arall, y mae yn debygol, heblaw hon, yn ngwahanol ranau Cymru. Pe gadewsid y Gromlech hon i sefyll, buasai yn awr yn un o brif atynfeydd ymwelwyr â chyffiniau Tywyn.

---

## MEINI HIRION.

Er bod amgylchedd Plwyf Tywyn yn fawr, ychydig yw nifer y Meini Hirion o fewn ei derfynau. Y cyntaf o honynt a ddygir i sylw yw yr un a elwir y Groesfaen. Saif mewn maes yn ymyl y ffordd fawr a arwain o Fryn Crug i Dywyn, ac yn y pellder o tua thair rhan o filldir o'r lle olaf. Ac ystyrir fod ei safle ar y terfyn rhwng tref-ddegwm Cynfal a threfddegwm y Faenol. Mesura oddeutu wyth troedfedd oddiar wyneb y tir.

Dywed traddodiad ei defnyddid gynt i gael gwared o wiber a lochesai gerllaw yn Nghoed Ynys y Maengwyn; ac yr arferai y wiber hono flino y bobl a dramwyent heibio ar hyd y ffordd. Ac er mwyn lladd y fath fwystfil niweidiol ddarfod pwyo pigau dur i dri thwll ar ben y gareg, a thaenu brethyn coch dros y pigau. Yna, wedi parotoi fel hyn, ddyfod o'r wiber mewn llid mawr gan guro yn ffyrnig yn erbyn y pigau dur yn ei chynddaredd at y brethyn coch. Ond, fel yr ymgurai, trywenid ei mynwes ganddynt, a bu yr archoll-ion a gafodd trwy hyny yn farwol iddi. Eithr, yn ngwyneb hyn, teg yw hysbysu nad oes tyllau o'r fath yn y pen sydd allan o'r ddaear o'r gareg, yn awr o leiaf; a dichon nad oes yn y llall ychwaith, ac na fu y pen hwnw yn osodedig allan o'r ddaear yn lle yr un sydd. Modd bynag, dywedir ddarfod myned a'r maen hwn at Forfa Tywyn amser yn ol, ar fedr ei ddodi yn gapan drws yno, eithr ddarfod i un o deulu Ynys Maengwyn fynu ei gael yn ol; ac ei hail godwyd oddeutu'r flwyddyn 1840. Ystyrir fod llid mawr gan y gwiberod at liw coch, a dywedir y taenid brethyn o'r lliw hwn ar bigau dur er mwyn enyn eu digofaint a'u cynhyrfu i ymguro yn erbyn y pigau.

Nid ydys yma yn gallu mynegu yn benodol paham y gelwir y

Digitized by Google

maen hwn yn Groesfaen. Dichon ei gelwir felly oddiwrth ei safle ger croesffordd. Neu ynte am ei golygid yn faen terfyn, canys ymddengys oddiwrth hen Gyfreithiau Cymru, y gelwid maen terfyn yn groesfaen yn Ngwent, ac feallai y gwneid hyny hefyd yn Ngwynedd. Ond, dyma a ddywed yr hen gyfreithiau hyny yn ol dull Gwent, yw croesfaen, wrth fynegu maint cosbedigaeth "Am Tori Finyeu" yn cynwys y cyfryw: "Croesuen sef yw hwnnw maen ffin neu pren ffin neu peth arall enwedic avo yn kadw ffin wheugeint."*

Y mae un o'r meini eraill a ddynodir yn y penawd yn sefyll ar faes a elwir *Banc* Bryn y Gareg Lwyd, perthynol yn awr i'r Dolau Gwyn. Ac y mae mesuriad y maen hwn oddeutu pedair troedfedd uwchlaw gwyneb y tir. Diameu nad oedd enw ei safle, namyn Bryn y Gareg Lwyd, ar un adeg, y rhan gyntaf wedi ei gymeryd oddiwrth ddullwedd y fan lle y saif, a'r llall oherwydd y gareg ei hun.

Saif y maen arall o'r tri a nodwyd mewn cymydogaeth gryn bellder o safleoedd y lleill, sef yn nghymydogaeth Penal, ac ar dir Cwmffernol,† mewn lle o'r enw Rhos Cwmffernol.

---

## TOMEN CIL PARC.

Saif y crug hirgul o ddaear a elwir Tomen Cil Parc ar fin y ffordd dref ddegwm, sydd yn myned heibio tyddyndy a elwir Pen y Parc, tua Chynfal. Mesura y domen hon ar ei gwaelod oddeutu tri deg a chwech o droedfeddi o hyd. Dywed traddodiad fod milwr wedi ei gladdu ynddi. Ac ymsyniai y werin fod cryd aur yn guddiedig o'i mewn, a dywedir y deuai yn fellt a tharanau bob amser y cynygid cael gafael arno. Dichon fod y traddodiad am ei bod yn gladdfan milwr yn gywir; o leiaf, ymddengys mai crug feddrodol ydyw. Dywed y Proffeswr F. W. Rudler, yn ei ddarlith o flaen Cymdeithas y Cymmrodorion yn Llundain, ar yr 20fed o Chwefror, 1880, fod yr oes gerygog yn cael ei dosbarthu i ddau gyfnod,—un o honynt yn arddangosedig trwy offerynau ceryg geirwon, a'r llall gan y ceryg-offerynau llyfnion, neu gaboledig. Ac y claddai y bobl a breswylient yn Mrydain y cyfnod diweddaf yn gyffredin mewn crugiau

---

* Ancient Laws and Institutes of Wales. tud. 373.

† Gweler nodyn yn tudal. 561.

hirion, ac nid mewn rhai crynion. Neu waith arall y defnyddient yn feddau, ystafelloedd yn y creigiau, ac hyd yn nod mewn llochesau, Modd bynag am hyn, dymunol fyddai, pa bryd bynag ei hagorir neu ei symudir ymaith, wneyd hyny yn ofalus, er mwyn ceisio diogelu y gweddillion beddrodol a ddichon ei bod yn gynwys. *

## FFYNON DYWYN.

Tardd Ffynon Dywyn gerllaw tref, neu dreflan, Tywyn, ac ar y tu gogleddol iddi. Ystyrir fod ei dwfr yn llesol at wella y gewynwst, ac anhwylderau croenaidd. Byddai yn hollol agored gynt; ond ymhen amser, amgauwyd hi er mwyn mantais i'r cyhoedd i'w defnyddio. Cafodd ei ffurfio yn ddwy ymdrochle, yn mesur oddeutu chwe' throedfedd betrual bob un, gyda phedwar o fanau ymwisgo yn gysylltiedig â hwy. Gwnaed llawer o gyfnewidiadau ar ol ei hamgauad cyntaf; a dechreuodd y cyhoedd ymdrochi ynddi o dan y darpariaethau diweddar hyn yn mis Medi y flwyddyn 1873. Cynwysa yn awr wyth o ystafelloedd, sef dwy ystafell aros, tair yn cynwys cyfleusterau at wneyd baddonau oer, poeth, cawodog, ac agerawl, &c., dwy yn cynwys y ffynon yn naturiol, a chyfleustra at wasanaeth yr ymdrochwyr ynddynt, ac un ystafell yn cynwys y berwedydd.

* Syniad un gwr, os wyf yn cofio yn iawn, yw mai gwyr eglwysig a gleddid yn y crugiau neu y tomenau hirion.

# ACHAU A HELYNTION, &c.

## Y DDOL GOCH.

Dygir y lle hwn i sylw mewn cysylltiad â Gruffydd ap Adda, o'r Ddol Goch. Yn ol a ddywedir, saif olion yr hen Ddol Goch, preswylfa Gruffydd ap Adda, yn ymyl afon Dol Goch, ac ar y tu deheuol iddi. Y mae ei safle, hefyd, bron a bod gyferbyn a'r anedd-dy a elwir yn bresenol ar yr enw hwn, pa un sydd yn ymyl yr unrhyw afon, ond ar yr ochr arall iddi. Fel y sylwyd yn mhellach yn ol, ystyrir fod darlun yn cynrychioli Gruffydd ap Adda, o'r Ddol Goch, yn gorwedd yn mur eglwys Tywyn; ac yn ddilynol, wele ystyr y geiriau Lladin a ddyfynwyd eisoes yn ei gylch:—"Yma gorwedd Gruffydd ab Adda, o Ddol Goch ac Ynys y Maengwyn, Rhaglaw y Cwmwd hwn yn y bedwaredd a'r seithfed flwyddyn o deyrnasiad y brenin Edward y Trydydd."

Disgynai Gruffydd ab Adda, o'r Ddol Goch, o Waethfoed, arglwydd Aberteifi, a Morfydd ei wraig, ferch Ifor, brenin Gwent. Mab i'r rhai hyn oedd Cadifor, priod Joan, ferch Elystan Glodrydd, tywysog Fferlys (rhandir rhwng yr Wy a'r Hafren), a Madog, un o'u meibion hwythau ydoedd daid i Gruffydd ab Adda, o Ddol Goch. Merch a chyd-etifeddes iddo ydoedd y Nest y canwyd iddi fel hyn:—

"Yn Ardudwy mae gwraig dda,
Nest ferch Gruffydd ap Adda;
Tri pheth a roe hi ar gardod,
Torth a chosyn a cheiniog."

Ond mewn cysylltiad â thraddodiad, cysylltir y gardod hefyd, fel yr ymddengys, a merch iddi, ynghyd ag ychwanegiad yn rhif y ceiniogau, fel hyn:—

"Yn Nol Goch mae gwraig dda,
Catrin Nest 'ch Adda;

Digitized by Google

Tri pheth a rydd hi 'n gardod,
Torth, cosyn, a chwecheiniog."

Ymbriododd y Nest hon deirgwaith, ac un o'i gwyr oedd Llywelyn ab Cynrig, disgynydd o Osbwrn Wyddwalch,* un o hynafiaid Wyniaid Peniarth, a nifer o deuluoedd eraill. O'r Nest hon, ferch Gruffydd ab Adda, o Ddolgoch, a Llywelyn ab Cynric ei gwr, yr hanai y diweddar, erbyn hyn, Barch. Gruffydd Evans, Cynfal, gynt, gweinidog gyda y Trefnyddion Calfinaidd, yr hwn oedd yn nai o fab chwaer i'r diweddar Mr. Evan Evans (Ap Ieuan.)

Disgyna Mr. Evan Evans (Ap Ieuan) a enwyd uchod, o'r Nest a nodwyd, ferch Gruffydd ab Adda, o'r Ddolgoch, a'i gwr, Llywelyn ab Cynric. Ac heblaw fod iddo yr haniad hwn, disgyna hefyd trwy Madog ab Cadwgan, Arglwydd Nannau, o'r tywysog Bleddyn ab Cynfyn, a thrwy Efa, gwraig yr unrhyw Fadog, o Edwyn, Arglwydd Tegeingl, un o bymtheg Llwyth Gwynedd. Disgyna, hefyd, trwy Gwenhwyfar, gwraig Ynyr Fychan, Arglwydd Nanau, o Seisyllt, Arglwydd Meirionydd. Ac y mae ei haniad, hefyd, trwy Lewys Ywain, y barwn, o Ednywain ab Bradwen, un arall o Bymtheg Llwyth Gwynedd.

Ymbriododd Lewys Ywain o'r Erwgoed, wedi hyny o'r Waen Fach, disgynydd o'r dywededig farwn, trwy John Lewys Ywain, ei fab, â Sian, wyres Robert Fychan, yr enwog hynafieithydd o'r Hengwrt, yr hon ydoedd orwyres i Hywel Fychan, a Margred Ywain, ferch Edward Ywain, mab arall i'r unrhyw farwn. Cathrin Ywain, merch y dywededig Lewys Ywain a Sian ei wraig, a briododd Ifan Siencyn, o'r Ty Mawr,† gerllaw Tywyn, Meirionydd. Gruffydd Evan, o'r Ty Mawr, mab y pâr a nodwyd olaf a briododd Ann, ferch Robert Jones, o Aberllwyfeni. A Gruffydd Evans, o'r Ty Mawr, eu mab hwythau, a gymerodd yn wraig Mari, ferch, John Roberts, o Dafolwern, Llanbrynmair, a hwynthwy oeddynt rieni y diweddar fardd a'r crybwylledig Mr. Evan Evans (Ap Ieuan), yr hwn a ymbriododd â Mari, ferch William Jones, o Dyddyn y Berllan. Y maent hwy ill deuoedd wedi gadael y fuchedd hon, ond y mae iddynt hiliogaeth yn eu holoesi.

Bu un ferch iddynt farw yn wraig briod, eithr gadawodd blant ar ei hol, ac y mae un ferch iddynt ynghyd a'i gwr yn fyw ac yn meddu plant. Hefyd y mae iddynt fab, sef Mr. Griffith Evans, M.D., C.M., Milfeddyg Arolygol yn y Fyddin, Cymrawd o'r Gymdeithas

---

* Neu Osbwrn Wyddel fel ei dynodir yn fwyaf cyffredin.

† Yn y Ty Mawr a nodir uchod y ganwyd Ap Ieuan, ac y bu fyw y rhan fwyaf o'i oes, ond symudodd oddiyno rai blynyddoedd cyn ei farw, yr hyn a gymerodd le yn Mhorthmadog.

Digitized by Google

Frenhinol Ddaearyddol, a Chymrawd o'r Gymdeithas Frenhinol Chwyddwydrol.

Dengys y dyfyniadau dilynol, oddiar feddfaen y crybwylledig Mr. Evan Evans, *Ap Ieuan*, a'i briod, yn mynwent Tywyn, Meirionydd, ymha flwyddyn y buont feirw:—

EVAN EVANS, Y BARDD AP IEUAN.
Aned Ebrill 1801. Hunodd Medi 1882.

Byth ni chiliai led y blewyn
Pan gyfodai storom gref,
Cilied cyfaill, gwawdied gelyn,
Fel y graig y safai ef.

Tan ei fron yn fyw cartrefai
Rhyddid eglwys, gwlad, a dysg;
Trais, a gormes, wrthwynebai
Tra'r arosai yn ein mysg.

MARY, EI WRAIG.
Aned 10 Medi, 1809. Hunodd 11 Gorphenaf, 1877.

Y ddau hyn a ddihunant,—golud mwy
Gwlad y mawl feddianant,
Yno wylo ni welant—plant Sïon
Yn wir fawlyddion a orfoleddant.

Pob un red, pawb yn ei rwn—ar risiau
Yr oesoedd cyflymwn;
I fedi yr ymfudwn,
Pryd i hau yw'r bywyd hwn.

---

## YNYS MAENGWYN.

Cyfenw perchenog y lle hwn yn bresenol, ynghyd a chyfran o'r etifeddiaeth, yw Corbet, — John Corbet, Ysw., yr hwn sydd yn aelod Seneddol dros Orllewinbarth Caerwrangon. Nid yw y gwr hwn yn honi perthynas â'r Corbetiaid a fu yn ei berchenogi o'i flaen; ac nid oedd y cyfenw Corbet a wisgai yr hen berchenogion namyn wedi dod i'r teulu trwy briodas ar y cyntaf; ac ar ol i hil y

Digitized by Google

Corbet a briododd i'r teulu redeg allan yn y llinell wrwyol, gwisgwyd y cyfenw drachefn yn ngrym etifeddrwym.

Daeth y cyfenw Corbet i'r teulu, ar y cyntaf, trwy i Bridget, unig ferch ac etifeddes Syr James Price, ac Elsbeth ei wraig, yr hon oedd gyd-etifeddes â Chathrin ei chwaer, merched Wmphra Wyn, o deulu Ynys Maengwyn, ymbriodi â Robert Corbet, trydydd mab Syr Vincent Corbet, o Morton Corbet, yn Swydd Amwythig. Ymhen amser wedi marw o'i gwr cyntaf, ymbriododd y Bridget hon drachefn. A'i hail wr ydoedd Walter Lloyd, Ysw., o Lanfair Clydogau, yn Swydd Aberteifi. Bu yntau, hefyd, farw o flaen ei wraig, ac yr oedd hithau, fel ei weddw, yn blaid wrth weithred dyddiedig y 5ed o Ebrill, 1662. Cafodd ei hail wr ei urddo yn farchog wedi ei briodas â hi.

Bu etifeddion Ynys Maengwyn, disgynyddion o'r Bridget hon trwy ei gwr cyntaf, yn dwyn yr enw Corbet, hyd nes i Ann, ferch hynaf ac etifeddes Vincent Corbet, Ysw., briodi Athelstan Owen, Ysw., o deulu Rhiw Saeson, yn Swydd Drefaldwyn. Bu farw yr Ann hon (Mrs. Owen) ar y 18fed o Orphenaf, 1760, yn 76 mlwydd oed. Ond, ryw dro cyn ei marw, a'i dau fab wedi marw yn ddihiliogaeth, gwnaeth etifeddrwym yn sefydlu etifeddiaeth Ynys Maengwyn ar ddisgynyddion ei merch ieuangaf, gwraig Price Maurice, Ysw., Lloran, yn Swydd Dinbych, ar y teler iddynt ddwyn yr enw Corbet. O dan y rhwymiad hwn sefydlwyd yr etifeddiaeth ar Athelystan Corbett, Ysw. (yn flaenorol Maurice), yr hwn a fu farw y 26ain o Ragfyr, 1835. Bu yr etifeddiaeth yn cael ei dal mewn ymddiried i'w nith, plentyn hynaf Ann ei chwaer, trwy ei phriodas â Charles Decimus Williams, Ysw. Ymhen amser ymbriododd y nith hon â John Soden, Ysw., y rhai oeddynt rieni y John Soden, Ysw., yr hwn a ddaeth i feddiant o'r etifeddiaeth, ac i fyw i Ynys Maengwyn, lle y bu yn trigianu am rai blynyddoedd, ac yna ymadawodd, a bu farw yn ngauaf y flwyddyn 1870. Y mae yr etifeddiaeth wedi ei gwerthu i gyd, yr hyn a gymerodd le yn ystod ei fywyd. Prynwyd Ynys Maengwyn, a chyfran o'r etifeddiaeth gan y dywededig John Gorbet, Ysw., yr hwn sydd eleni (1890) yn aelod seneddol dros Orllewinbarth Caerwrangon.

Bu Ynys Maengwyn yn dwyn cysylltiad â'r Rhyfel Cartrefol rhwng y senedd a'r brenin Charles I. Ar yr ail o fis Awst, yn y flwyddyn 1645, daeth galluoedd Swydd Drefaldwyn i Swydd Feirionydd, ac arosasant am amser yn Nolgellau. A'r pryd hwn llosgwyd Ynys Maengwyn gan wyr y brenin rhag i filwyr y Senedd gael unrhyw gysgod ynddo. Dywedir mewn nodyn yn Arch. Camb., am Gorphenaf 1875, i Syr Marmaduke Langdale ddechreu cadarnhau y fan

Digitized by Google

yn mis Gorphenaf y flwyddyn 1645; ond iddo gael ei losgi gan y breninolwyr yn y mis dilynol, rhag i'r gwrthryfelwyr, gan olygu gwyr y Senedd, gael unrhyw fantais trwyddo.

Mynegir mewn cyhoeddiad* arall ddyfod tua dau neu dri chant o wyr y Senedd i Fachynlleth yn mis Rhagfyr, y flwyddyn 1644, y rhai a anfonasant warantau i benceidwaid Meirionydd am gattreth o 200p. yn fisol, heblaw 100p. am y pum' mis oedd wedi myned heibio ddiweddaf. Yna oherwydd hyn, wedi i Syr William Owen, Uchel Sirydd Meirionydd, gael rhybudd, a anfonodd at Syr Marmaduke Langdale a'i wyr am iddynt ddyfod i'w cynorthwyo. Daeth yntau, gan hyny, gyda rhyw nifer o wyr yn blaid iddynt, ac wedi iddo aros yno bythefnos, yn ystod pa amser arolygodd Ynys Maengwyn, a dechreuodd ei gadarnhau. Yn fuan wedi hyn ymdeithiodd ef a'i wyr i Fachynlleth trwy Dywyn, ac anfonodd am y gweddill o'i wyr, y rhai oeddynt yn Môn a Chaernarfon.

Os cywir yr amseriad a roddir yn y nodyn crybwylledig o barth amgaeriad a llosgiad Ynys Maengwyn, fel tebygol mai ïe, prin y gellir meddwl na ddaeth Syr Marmaduke Langdale i Feirionydd, ar gais Syr William Owen, yn flaenorol i'r pryd hwn. Neu ynte fod yr amseriad a roddir ynglŷn â'r hanes arall yn rhy gynar, neu fod yr hanes ei hun yn ddiffygiol. Dengys yr un cylchgrawn† ddyfod Syr Marmaduke Langdale gyda rhyw nifer o wyr meirch, yn nechreu Gorphenaf y flwyddyn 1645, o Fachynlleth i Ddolgellau, o ba le, wedi iddo aros ddwy noswaith, yr aeth ymaith tua Swydd Gaernarfon. Ond, yr ydys wedi nodi hyn yn flaenorol.

Anfonwyd llythyr, yn amser y rhyfel hwn, i'r ystyr a ganlyn, gan Robert Corbett, o Ynys Maengwyn, Ysw., at Wm. Wynne, o'r Glyn, a Gruffydd Llwyd, o Faes y Neuadd, Ysweiniaid.

"Foneddigion,—Y mae y peryglon cyfagos sydd yn ein bwgwth ni a'n hardaloedd yn ddyddiol wedi ein cyffroi yn fawr i erfyn am gynorthwy a chad-allu y swydd yn erbyn y gelynion gwaedlyd a geisiant ein dinystr. Darfu i'r Sirydd ar dderbyniad ein llythyr ato ef a Dirprwywyr y Byddinad, benodi cyfarfod i fod ddydd Mawrth diwaethaf, i'r hwn y disgwylid eich presenoldeb chwi eich dau er mwyn cael eich hwyliad a'ch cyngor er ein dyogelwch cyhoeddus. Rhoddodd ini gefnogaeth lesol trwy ei waith yn rhoddi yn rhagflaenol ac ymadael a'r arfau hyny ydoedd barod (y rhai oeddynt yn nghadwraeth Mr. Nannau). Disgwylid cael y rhai hyny sydd yn nghadwraeth y naill a'r llall o honoch, pa rai wedi eu............ a wnant gyda drylliau adara a drylliau gwasgaredig eraill yr ydym

* Cambrian Quarterly Magazine, cyf. i., tud. 63—4.
† Cambrian Quarterly Magazine, cyf. i., tud. 64.

Digitized by Google

yn eu gosod, gryn gad-allu a chryfder. Ond, gan na fu i chwi ein cyfarfod nis gallasem berffeithio a chwblhau y cynllun mewn bwriad. Eto, nis gallwn er hyny ddychymygu na drwgdybio eich hoffedd a'ch ewyllysgarwch i hyrwyddo gwaith mor dda, pa un sydd yn achosi ein cenadwri hon-a'r angenrhaid atoch chwi, a'r fod i chwi drosglwyddo ac ymadael a'r arfau hyny perthynol i'r swydd pa rai a dderbyniasoch o arfdŷ & ystordŷ y swydd. Yr ydym yn disgwyl y sirydd yma tua dydd Llun nesaf gyda'r arfau hyny oddiwrth Mr. Nannau yn ol fel yr addawodd. Yr arfau tân hyny a dderbyniasoch (yr ydym yn clywed ydynt 24 mewn nifer), os meddwch ychwaneg yr wyf yn gobeithio na omeddwch hwy i ni ar yr achlysur hwn. Bid sicr genych ar fy anrhydedd y cedwir yn ffyddlon ac y dychwelir yn ol i chwi yr hyn a anfonwch, os bydd i Dduw ddyogelu ein bywyd ini & rhyddid i'w hamddiffyn, & a fyddwn barod ar eich galwad i gyfranu ein holl gynorthwy i chwi os bydd i ryw berygl neu ymosodiad osio arnoch. Yr ydym yn erfyn am eich llafur i gludo yr arfau i Aber Maw, lle y bydd y wlad yn sicr o'ch cynorthwyo ar eich cais. Cymerwn ni ofal eu cludiad pellach oddiyno. Ystyriwch, Foneddigion, er mai ein cais ni yw hwn, eto, achos ei Fawrhydi cysegredig ydyw, disgwyliad yr hwn i'w gynorthwyo yn y gwrthryfel presenol, sydd yn gosod ein dygiad hyn ym mlaen o dan gymaint o rwymau cymwynas, a'r gofal am ein dyogelwch ein hunain. Y mae y ddeubeth hyn yn bwrw allan bob ystyriaethau a allant rwystro neu oedi y gwaith hwn o fyned dan arfau, ac yn ein cadarnhau a'n cyflymu ym mhob ffordd ag a all ei ddwyn ym mlaen.

"Yr ydym yn gobeithio am y cyffelyb dderbyniad gyda chwi & phob dyn da a ddichon ein cynorthwyo ni & cyduniad chwithau gyda ni yn hyn yn neillduol, yr hyn yn ddiameu a arddengys yn deg y rhelyw o'ch hoffder daionus tuag at ei Fawrhydi fel ag tuag atom ninau.

"Hyn gyda'm hanerchiadau ffyddlawn i chwi eich deuoedd, ydwyf yn cymeryd cenad & yn gorphwys

"Eich tra charedig gyfaill & gwasanaethydd

"ROBERT CORBETT."

Yr ydys wedi nodi yn tudalen 102 am ddyfodiad milwyr y brenin, y rhai a berthynent i gattorf Arglwydd Biron, i Ddolgellau, ar y chweched dydd o fis Ebrill, y flwyddyn 1640, a'u gwaith yn myned oddiyno i Fawddwy ac yn ol ar y nawfed o'r un mis, gan ladrata ac ysbeilio ar hyd yr holl ffordd; ac hefyd, am eu gwaith yn ysbeilio Dolgellau, ynghyd â llawer o fanau eraill yn y wlad. A cheir yn awr fynegu ddarfod i'r Cadfridog Mitton, wedi clywed o hono, ar un o ddyddiau y mis hwnw, fod gwyr Arglwydd Biron yn Nolgellau, ac

Digitized by Google

ysbeilio o honynt ei ddeiliaid yn Mawddwy, anfon mintai o wyr i'r Bala, y rhai, foreu dydd Sadwrn, a ymgyrchasant dros Fignant i Ffestiniog a Thrawsfynydd, gan feddwl dyfod o hyd i wyr Arglwydd Biron. Ond, cafodd y rhai hyny wybodaeth yn eu cylch, a ffoisant dros y dwfr i Swydd Gaernarfon. Felly gwersyllodd anturlu y Senedd yn Maentwrog a Ffestiniog y noson hono, a boreu ddydd Sul aethant yn eu holau i atal y fyddin rhag dyfod ymlaen.

Yr ydys hefyd wedi nodi yn yr unrhyw dudalen (102) ddyfod tua chant o wyr y Senedd i Ddolgellau yn mis Mai, y flwyddyn 1648, o dan arweiniad Twistleton, a Chadben Sontley (camargraffwyd ef yno yn Stontley), pryd y daethant i'r dref brydnhawn dydd Llun, a chyn hir aethant ymaith ar ryfelgyrch, gan ddychwelyd yn ol oddeutu chwech o'r gloch ddydd Mawrth, ac ymadawsant tua haner nos. Ymddengys ddyfod Sontley a'i wyr i Ddolgellau drachefn, a'u bod yno yn mis Gorphenaf yr un flwyddyn; canys mynegir yn y *Cam. Quart. Magaz.*, cyf. I., tudal., 72, ddarfod, tra yr ydoedd Sontley a'i wyr yn Nolgellau, yn Ngorphenaf, i rai gwyr o Fon, wedi deall fod mintai o wyr y Senedd yn Mangor, ddyfod trosodd yn y nos, a chymerydr hwng deg ar hugain a deugain o'r rhai hyny oddeutu'r Aber; a myned o Sontley a'i wyr tua'r Bala foreu dydd Sul, yr unfed ar bymtheg o Gorphenaf, gan olygu y mis hwnw o'r flwyddyn a nodwyd (1648).

## GWYDD GWIAN.

Yn yr âch-lyfr gan Lewis Dwnn, gelwir y lle hwn ynG wydd Gwion, uwchben achau ei gyn berchenogion. Golyga yr enw fel yr ymddengys goed rhyw un o'r enw Gwian neu Gwion. Galwyd coed y fan, neu ryw gyfran o honynt, oherwydd rhyw achos neu gilydd ar enw y Gwian neu y Gwion hwn; ac ymhen amser rhoddwyd yr unrhyw enw ar y tŷ a'r tyddyndir perthynol. Saif tyddyndy Gwydd Gwian ar y tu de orllewin i Gwm Dyffryn Gwyn. Bu y lle gynt yn cael ei breswylio gan ei berchenogion; ond y mae wedi newid dwylaw er hyny, a phreswylir ef yn awr gan dir-ddeiliad.

Ymbriododd Ann Fychan, etifeddes Gwydd Gwian, â William Fychan fab Siencyn Fychan, o Gaethle, lle yn y gymydogaeth. Yr oedd Siencyn Fychan, o Gaethle, tad y Siencyn Fychan a enwyd, wedi priodi Als, ferch Ednyfed Fychan o Gwydd Gwian, fel y gyntaf

Digitized by Google

o'i dair gwraig, yr hon yr ydoedd ei mam yn ferch i Syr John Wogan, marchog Castell Gwys. Ac yr oedd yr Ednyfed hwn yn Sirydd Meirionydd yn y flwyddyn 1608. Bu ymgyfreithio blin rhwng y William Fychan a nodwyd a Vincent Corbet o Ynys Maengwyn, ond trodd y gyfraith yn y diwedd o du y blaenaf a enwyd o honynt.

Yr hyn yr oeddynt yn ymgyfreithio am dano ydoedd dyddyn o'r enw Cilcemmaes, llĕedig yn yr un plwyf (Tywyn) ond yn ardal Bryncrug. Yr oedd taid y William Fychan a nodwyd wedi sefydlu Cilcemaes trwy weithred, ar Edward Prys, ei fab-yn-nghyfraith, gwr Mari ei ferch. Ar ol i'r lle fod yn meddiant yr Edward Prys hwn am oddeutu pymtheg mlynedd, fe'i gwerthwyd ganddo i Vincent Corbet o Ynys Maengwyn. Eithr, pan ddaeth William Fychan i feddiant o'r etifeddiaeth, darbwyllwyd ef nad ellid trosglwyddo Cil Cemmaes, oherwydd gweithred i etifeddu a wnaed gan ei hen daid, Ednyfed Gruffydd o Wyddgwian. Felly, yn y flwyddyn 1658, dygodd gyngaws yn mhrif Frawdlysoedd Meirionydd yn erbyn y tir-ddeiliad, i'w droi allan o'r tyddyn, ac aeth y ddedfryd yn erbyn tir-ddeiliad Cilcemmaes. Yr oedd Vincent Corbet oddicartref ar y pryd yn Sussex, ac ar ei ddychweliad, cynghorwyd ef gen Powis a Charlton, ei gyfarwyddwyr, i ddwyn cyngaws ymlaen yn erbyn y ddedfryd hono. Ac felly fu; ac yn mhrif Frawdlys Amwythig enillodd y dydd ar y pryd, canys dattrowyd y ddedfryd o'i blaid. Ac er mwyn sicrhau y tir yn gadarnach yn ei feddiant, cynghorwyd ef i fyned ymlaen trwy arwaesaf.* Ond er hyny, dygodd William Fychan gyngaws ymlaen yn y frawdlys cynaliedig dros y swydd y gorwedda y tir yr oedd y dadleu yn ei gylch, i geisio adenill drachefn; eithr ni lwyddodd ar y pryd, a chadwyd ef draw am lawer blwyddyn yn ngrym y brawf ysgrif, neu y grybwylledig arwaesaf. Ond o'r diwedd cafodd Lyttleton a Jones, barnwyr cylchdaith Caer, fod y brawfysgrif yn ddiffygiol mewn pwynt o ffurf, a rhoddasant ddedfryd yn ei herbyn; a thrwy hyn adfeddianodd William Fychan y tir drachefn, a derbyniodd 197p. 6s. 8c., neu 157p. 6s. 8c. gan V. Corbet.

Ond, er hyn oll, a V. Corbet wedi ei gynghori gan y rhingyll Glynne, a chynghorwyr galluog eraill, fod y rheithfarn yn gyfeiliornus, a symudodd y cwyn i Lys Westminster. A chyflogodd fel dadleuwyr y Meistri Saunders, Wallop, Williams,—(Siaradwr Ty y Cyffredin wedi hyny, a Chyfreithiwr Cyffredinol), Stephens, a Timothy Turner. Bu yr achos yn cael ei ddadleu am amryw dymhorau gan liaws o gyfreithwyr dysgedig, hyd nes y mynegodd y

* Gweithred yn galw ar arall i brofi ei hawl.

ddedfryd derfynol yn erbyn arwaesaf Mr. Corbet, "*Cetera desunt.*"

Bu y dywededig William Fychan farw yn y flwyddyn 1677; a bu ei weddw farw ar ei hystad ei hun yn Ngwydd Gwian yn y flwyddyn 1719, wedi goroesi ei gwr am hir o flynyddoedd. Ymbriododd Margaretta eu hwyres âg un o'r enw Richard Braithwaite, yr hwn a ddynodid yn yswain mewn gweithredoedd tirwystlol, a pharhaodd yr wyres a'r unrhyw Richard Braithwaite, i aros yn Nghaethle am rai blynyddoedd, gan newid gwystl yr Iuddew am un gynyddedig y cenedlddyn, nes cael gweithred Seneddol yn y flwyddyn 1732, yn galluogi yr ymddiriedolwyr i werthu holl etifeddiaeth Caethle* i dalu y coelwyr. Felly, ar y 25ain o Chwefror, 1734, arwyddodd R. Braithwaite a Margaretta ei wraig, drosglwyddiad terfynol o'u meddianau i Madam Owen, Ynys Maengwyn, merch ac etifeddes y Vincent Corbet a fu yn ymgyfreithio â William Fychan, taid y Fargaretta hon.

Noda Mr. Corbett, Ynys Maengwyn, yn ol y gosodir allan, ddarfod i'r etifeddiaeth dderbyn cymaint ergyd gan draul y gyfraith hono, nes y bu orfod ei gwerthu yn amser wyres William Fychan, sef y Fargaretta a nodwyd. Ond y mae hen ddywediad yn priodoli ei gwerthiad i achos arall. Ond, er hyny, nid yw yn anhebygol ddarfod i'r gyfraith hono achosi llawer o'r ddyled. Ac o ran hyny, mynegir yn *Burke's Dict. of the Landed Gentry*, ddarfod, pan oedd etifeddiaeth Caethle yn meddiant y dywededig William Fychan, dderbyn o honi gymaint ergyd ag na adferodd fyth oddiwrth ei heffeithiau. Eto, gall ddarfod i'r achos a briodolir gan draddodiad drymhau yr unrhyw. Modd bynag, i ddilyn traddodiad, rhedodd llong (Ysbaenaidd, fel y tybir) i'r lan gyferbyn â Chaethle. Cafodd y dwylaw eu hachub, ond aeth y llestr yn ddrylliau, ac anfonodd Braithwaite ei weision gyda'r ychain a'r troliau i ysbeilio ei thaclau a'i llwyth. Ac o'r herwydd ddarfod i gadben y llong ei roddi yn ngafael y gyfraith, ac o ganlyniad fyned o hono yntau i Ynys Maengwyn i fenthyca arian, ac y rhoddwyd rhai iddo ar wystlaeth; ond yr aeth Braithwaite yn rhy wan i fedru talu yr arian yn ol, ac felly fyned o Gaethle yn eiddo teulu Ynys Maengwyn. Mynegir fod etifeddiaeth Caethle y pryd hwn yn fwy o lawer nag etifeddiaeth Ynys Maengwyn. Yr achos, tebygol, mai Caethle yn unig sydd yn cael ei nodi yn y traddodiad, heb ddim son am Gwydd Gwian yw, am, yn ol fel yr ymddengys, mai yno y preswyliai Richard Braithwaite a'i briod.

Mynega traddodiad, hefyd, ddarfod i Braithwaite anfon ei weision i gael darn o fynydd Erw Faethlon at fynydd Caethle. Ond yn y

* Yn cynwys etifeddiaeth Gwydd Gwian hefyd fel yr ymddengys.

cyfamser, ddyfod brawd, o filwr, i wr Erw Faethlon adref ar ymweliad, a myned o hono yno i edrych am dano. Ac yn fuan gwedi ei hysbysu gan ei frawd, gwr Erw Faethlon, am waith y dynion hyny yn trawsfeddianu y darn o'r mynydd, "Mi wnaf fi o'r goreu â hwynt," ebai'r milwr, ac ymaith ag ef tuag atynt yn ei wisg filwriol, a'i ddryll ar ei ysgwydd, a chynyrchodd gymaint o ofn ar y gweision hyny fel na chynygiasant mwy gael y darn tir hwnw at fynydd Caethle.

---

## ERWPORTHOR.

Yn lled agos i Gaethle, y mae tyddyndy o'r enw Erw Porthor, o'i sillebu yn ol fel ei gelwir ar lafar gwlad; eithr yn y *Rental of the Land Revenue of the Crown*, y mae yn cael ei ddynodi fel "Erw Ferthyr, neu Erw Forthor, neu Erw Porthor." Ond yr oedd ysgrifenydd neu ysgrifenwyr yr unrhyw, gymaint yn y tywyllwch o ran ystyr enwau, fel nad gwiw dal nemawr o sylw ar y gwahanol ddulliau hyn. A cheir yma ddilyn dull arferedig y wlad o'i alw, yr hwn hefyd a roddir i lawr fel un o'r dulliau dyfynedig uchod. A chynygir yma ddau ddyfaliad fel rheswm am paham ei gelwir yn Erw Porthor. Un o'r dyfaliadau hyny yw, mai, os yw *Caethle* yn ddull cywir neu gyflawn o enwi y tyddyndy a adnabyddir fel Caethle neu Caethla gan y wlad yn gyffredinol, y gall y bu gynt fath o garchar tua'i fangre, ac fod yr enw yn ddynodiant o hono; ac y perthynai i'w borthor erw o dir, a elwid Erw Porthor, oddiwrtho. Ond gan nad ymddengys yn ddigon diogel fod *le* yn derfyniad cywir, nid yw y dyfaliad hwn yn ymddangos yn derfynol nac yn safadwy. Felly ceir rhoddi y llall, sef, y dichon, yr hyn hefyd sydd debygaf, mai oherwydd rhyw berson neu gilydd a elwid Porthor, ond heb fod a wnelai ddim â'r borthoriaeth awgrymedig, y cafodd rhyw erw neu gilydd tua safle y tyddyndy, ei galw Erw Porthor, ac ymhen amser gwedi ddarfod galw y tyddyndy ar y dynodiant hwn. Ac fel ategiad i'r dyfaliad yma, gosodir gerbron yr englyn canlynol, ac yn y llinell ganol iddo ceir yr enw personol Porthawr (Porthor). Un o'r englynion a elwir "Englynion y Klyweit" ydyw, ac wele yr unrhyw:—

"A glyweisti a gant Cadreith
Fab Porthawr filwr areith
Ni char Dofydd diobeith."

Digitized by Google

# PERSONAU.

---

HARRI JONES, NEU HARRI SHON, O NANT Y MYNACH, AC ERAILL.

Yr oedd Harry Jones, neu Harri Shon, o Nant y Mynach, a'i wraig, Marged Morris, yn ol ei chyfenw gwyryfol, yn aelodau gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, ar adeg gynar yn hanes yr enwad crefyddol hwnw. A'r gwr hwn oedd y blaenor a fu yn perthyn i'r unrhyw yn Aber Trinant. Ar y pryd y gweinyddai ef y swydd hon, arferid cadw moddion yn y Ty Pridd, at yr hwn y ceir cyfeirio yn mhellach ymlaen. Bu farw ar y 6ed o fis Gorphenaf, yn y flwyddyn 1823, yn 64 mlwydd oed, a rhoddwyd ei gorff i orphwys yn mynwent Tywyn. Treuliodd naw mlynedd ar hugain o'i oes gyda chrefydd. Cyfansoddwyd cân goffadwriaethol iddo, yn cynwys dau ar hugain o benillion, gan un a ymgyfenwai Ioan Frawd. Argraffwyd hon yn y flwyddyn 1824, ac wele ddau benill o honi :—

"Dwys ei eiriau, byr ei araeth,
  Eto 'n helaeth treiddiai trwy;
Manwl chwiliai gau lochesau,
  Cyn cymhwysai at y clwy';
Ond i'r gweiniaid rai fu 'n gwaedu
  Bron a threngu gan eu pla,
Ef yn brysur yn eu briwiau
  Roddai win ac olew da.

"Hyder llew, a dwylaw mamaeth
  Ydoedd ynddo 'n odiaeth iawn,
Di bartïaeth mewn disgyblaeth,
  A di weniaeth oedd ei ddawn;

Digitized by Google

Un a'i galon gyda'r achos
  Yn ddios oedd ar bob pryd;
Aeth fel t'wysen aeddfed adref
  I drigfanau 'r nefol fyd."

Yr oedd Morris Jones, a Harri Jones, dau fab iddynt, yn meddu ar ddawn brydyddol; ac y mae yn argraffedig gân o waith merch i Harri Jones, yn cynwys y dynodiant canlynol,—"Hiraeth am fy ngwlad, cyfansoddedig gan y ddiweddar Mary Jones, Bodilan Fach, Llanfihangel y Pennant, Sir Feirionydd, yr hon a fu farw Mehefin 16eg, 1861, yn Ballarat, Australia." Nid oes hiliogaeth iddi yn fyw. Ei henw gwyryfol oedd Mary Jones, ac adnabyddid hi fel o Bodilan Fach. Ond er hyny, yr oedd y lle hwnw wedi peidio bod yn gartref iddi flynyddoedd cyn iddi ymbriodi a morio ymaith o'i gwlad.

O barth y Ty Pridd y cyfeiriwyd ato, cafodd ei osod gan Gruffydd Ywain, Llanerch Goediog, amaethdy gerllaw, i gynal moddion crefyddol ynddo. Ac am wneyd hyny, dirwywyd ef i 50p. Y mae y Ty Pridd hwn yn sefyll yn ymyl capel Aber Trinant, ac yn gynwysedig o ddwy anedd drigianol. Ar bwys un pen iddo, sef y pellaf oddiwrth y capel, y mae anedd drigianol arall, eithr un a gyfluniwyd yn gymhariaethol ddiweddar yw hon. A'r anedd ganol o'r tair hyn yw y lle a osodwyd gan Gruffydd Ywain i gynal moddion crefyddol ynddo. Nid oedd Gruffydd Ywain ei hun yn aelod crefyddol ar y pryd hwnw, tebygol, ond yr oedd ei briod, Beti Puw, yn ol ei chyfenw gwyryfol, yn aelod gyda'r Trefnyddion Calfinaidd ar y pryd, ac ymunodd yntau gwedi. Ac wyr iddynt ydoedd, y diweddar erbyn hyn, Mr. Gruffydd Pugh, Bryn Crug (Berthlwyd gynt, lle yn lled agos i Fryn Crug), yn flaenor gyda'r unrhyw enwad. Ffodd Gruffydd Ywain rhag talu y ddirwy, ac anfonwyd dau ddyn i ddwyn ymaith gyfran o'r gwartheg er mwyn eu gwerthu yn Nhywyn, i gael arian y ddirwy hono. Porai y gwartheg ar y pryd ar y ffridd oddiar y ty; ond wedi i'r ddeuddyn geisio eu hel allan o honi, dechreuasant redeg fel gwartheg gwylltion o'r ffordd. Ac er maint a redai ac a chwysai y dynion yn llewis eu crysau, methasant a'u cael at eu gilydd i'w dwyn ymaith. Pan wybu yr ardalwyr am yr helynt, ymgasglasant yno, ond nid i roi un cynorthwy; ac elai yr hen wragedd ar eu gliniau noethion, a'u dwylaw yn mhleth, i weddio am iddynt fethu myned a'r gwartheg ymaith. Talwyd y ddirwy gan yr enwad; a bu ffyddlondeb hen frodyr crefyddol yn dyfod o'r Bala a Dolgellau ar hyd nos i Lanerch Goediog, i hysbysu pa fodd yr oedd petl au yn myned ymlaen, yn lles mawr i achos crefydd ar y pryd.

Digitized by Google

## Y PARCH. OWEN WILLIAM.

Yr ydoedd y gwr hwn yn weinidog gyda'r Trefnyddion Calfinaidd. Ganwyd ef yn Mryn Crug, ar yr 11eg o fis Medi, 1784. Yr oedd yn ddyn o feddwl eofn ac anturiaethus, fel y dangosai ei ymchwiliadau am drysorau cuddiedig y ddaear, ac hefyd ei ymgais i gael allan feddyliau proffwydoliaethau dyfnion y Beibl. Arweiniwyd ef i gryn brofedigaethau yn herwydd ei duedd gref i gael gafael ar fwnau gwerthfawr y ddaear. Ond ystyrir ei fod yn eithaf gonest a dihoced yn ei weithrediadau gyda hwy. Llafuriodd lawer gydag achos yr Arglwydd am flynyddoedd lawer, a bu yn dra ymroddgar i'r gwaith. Ond daeth terfyn ar ei lafur a'i flinfyd. Bu farw, ar ol cystudd lled fyr, ar y 15fed o Ebrill, 1859, yn 75 mlwydd oed. Rhoddwyd ei gorff i orphwys yn mynwent capel Salem, Dolgellau, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. Richard Robert, o'r unrhyw dref. Yr ydoedd yn awdwr duwinyddol, a'i weithiau argraftedig ydynt,—Darlith ar Dywalltiad y chweched phiol ar yr afon fawr Euphrates ; Traethawd ar Waed Crist,—yr hwn a gyrhaeddodd bedwar argraffiad ; Drych yr Oen a'r bwystfil: neu ddangosiad o'r forwyn bur a'r butain fawr ; Holwyddoreg ar Grist a'r Pab, ac eglwys Crist ac eglwys y Pab, y naill yn cael ei ddal ar gyfer y llall yn ngoleuni y Beibl; Pregeth ar gyfiawnhad, oddiar y bedwaredd adnod ar hugain o'r drydedd benod o'r Epistol at y Rhufeiniaid, yr hon a gyrhaeddodd chwe' argraffiad ; Pregeth ar y ddeunawfed adnod o'r drydedd benod o Malachi ; Pregeth ar Eiriolaeth Crist ; Traethawd ar Fywyd o Sancteiddhad ; a Thraethawd ar yr Adgyfodiad.

---

## DAFYDD RICHARD *(Dafydd Ionawr)*.

Ganwyd y bardd enwog hwn yn Nglan y Morfa, ger y Bryn Crug, ar yr 22ain o Ionawr, 1751 ; ac yr oedd ei fam yn etifeddes y lle. Ganwyd ei dad yn Nghae'r Ffynon, yn Ardudwy ; ac yr ydoedd yn etifedd y lle hwnw, ynghyd âg ychydig o dai heblaw. Yr oedd ei fam yn wraig brydferth a thra synhwyrol, ac edrychai at ei amgylchiadau. Ac yn ben ar y rhagorion hyn, nodir ei bod yn wraig grefyddol ; ac anogai ei mab i ddilyn y ffordd hono yn ei holl fywyd. Rhoddai bob cefnogaeth iddo hefyd i feithrin y ddawn

Digitized by Google

farddonol yr oedd yn ei meddianu, ac o'r hon hefyd y gwnaeth gystal defnydd.

Pan oedd Dafydd Ionawr tua 13 oed, yn ol a nodir, anfonwyd ef i'r ysgol am y waith gyntaf, yr hon a gynhelid yn Nhywyn. Ond er mai yn yr oedran cymharol ddiweddar hwn y dechreuodd ar ei ysgol, ni foddlonai ei dad iddo ei mynychu agos yn rheolaidd, eithr gorfodai iddo aros gartref yn aml dros dymor, i ddilyn gorchwylion y tyddyn. Ond er ei gadw gartref fel hyn, nid oedd fawr obaith gwneyd amaethwr o hono. Darllen a phrydyddu oedd ei bleser. A byddai yn aml yn colli amser gyda'i ddawn farddonol, yn lle dysgu ei wers; a thrwy hyny digiai ei dad yn fawr, yr hwn a'i cadwai gartref o'r herwydd; gan geisio felly ymlid y cyfryw duedd-iad allan o hono. Ond rywbryd, pan oedd tuag 16 oed, daeth y Parch. Evan Evans *(Ieuan Brydydd Hir)* i fyw i Dywyn, ac ymhen amser aeth yn hoff iawn o'r bachgen. Addysgodd ef yn yr ieithoedd Saesneg a Lladin, ac hyfforddodd ef hefyd mewn rheolau barddon-iaeth Gymreig. Ac ar gais taer y periglor, a'r bardd hwn, cyd-syniodd ei dad i'w ddwyn i fyny yn wr Eglwysig, ac felly anfonwyd ef i ysgol Ystrad Meurig. Ar ol iddo fod am tua blwyddyn yn cael ei barotoi tuag at hyny, gan yr unrhyw barchedig fardd, ac ar ryw foreu yn yr amser y dygai ymlaen ei addysgiaeth yn Ystrad Meurig, aeth i bysgota i afon Teifi; ond cyn iddo gael llawer o egwyl i geisio dal nofiedyddion yr afon, daeth yn ystorm o fellt a tharanau, a gwlaw mawr. Ac er mwyn osgoi y dymhestl fygythiol, aeth i ryw ogof oedd ar lan yr afon i ymgysgodi, a'r pryd hwn, pan ydoedd tua 18 mlwydd oed, y cyfansoddodd Gywydd y Daran.

Ar ol iddo ymadael âg Ystrad Meurig, cafodd le cyn hir i fyned yn isathraw yn ysgol un Mr. Tisdale, yn Ngwrecsam; ond ym-adawodd oddiyno yn y flwyddyn 1774, ac aeth yn efrydydd i Goleg yr Iesu, yn Rhydychain, ar ddechreu tymor y Pasg, er mwyn ymbarotoi i gael urddau eglwysig. Ond ymddengys nad arosodd yno yn hwy nag un tymor; ac na fu erioed dan urddau. Aeth drachefn fel isathraw i Mr. Tisdale, yr hwn oedd ar y pryd yn brifathraw Ysgol Ramadegol dra chyfrifol yn Nghroesoswallt. Yn y flwyddyn 1779, yr oedd yn isathraw yn Nghaer Fyrddin, o dan Mr. Barker, periglor y lle. Tra yr arosai yn Nghaer Fyrddin, aeth ei fam i edrych am dano. Ac yn yr amgylchiad hwn, dangosodd barch mawr iddi a chariad cryf tuag ati, yr hyn sydd foglwm disgleirwych yn ei hanes. Yr oedd llawer blwyddyn wedi myned heibio er pan oedd ei fam wedi ei weled ddiwaethaf, ac felly pen-derfynodd yr elai i edrych am dano. Ond mawr flinid hi, druan, rhag ofn y byddai i'w gwisgiad gwladaidd a'i hymddygiad cartrefol,

Digitized by Google

achlysuro i'w bachgen, Dafydd bach, yr hwn erbyn hyn oedd wedi myned yn Mr. Richards, ac yn wr o barch yn y cylchoedd yr ymdroai ynddynt, a son am dano fel bardd yn dechreu ymeangu, gywilyddio ei harddel. Ac er mwyn ceisio rhoddi golwg fwy anrhydeddus ar ei hymweliad, cafodd gan fonedd-wraig o'r gymydogaeth i fyned gyda hi. Ond, fel yr oedd goreu y modd, ni fuasai raid iddi wrthi, a blinder llwyr ddiachos ydoedd ar ei rhan. Canys er ei fod wedi ymddyrchafu i raddau o fri haeddol ymysg cymdeithas, nid oedd hyny wedi enyn dim oerder ynddo at ei anwyl fam, yr hon erbyn hyn ydoedd wedi heneiddio. O na, llechai serch cryf yn ei galon tuag ati, a dangosodd hyny yn amlwg a hollol ddirodres mor fuan ag y canfyddodd hi ar ei hymweliad âg ef. Ond fel y nesai ei fam gyda'i chydymes at dŷ Mr. Parker, y prif athraw, lle y cartrefai, dymunai ar hono fyned yn nghyntaf at y drws. Ac meddai, "Yr wyf yn ofni y bydd yn bur ddig wrthyf am ddyfod yma." Yna wedi i'r forwyn ddyfod at y drws i ateb curiad ei chydymes, gofynodd hono iddi a oedd "Dafydd Richards i mewn." "Dafydd Richards," meddai hono, gan fyfyrio pwy allai hwnw fod. Ond wedi tybio iddi ddod o hyd i'r dirgelwch, dyna hi yn dywedyd, "O, Mr. Richards, yr *Usher*, ydych yn feddwl, mae yn debyg, a welwch chwi yn dda ddyfod i mewn, Ma'm?" Ond meddai ei fam wrth ei chyfeilles y foneddwraig, "Mrs. —— a glywsoch chwi! Mr. Richards meddai yr eneth am Dafydd ni. O! sut y deuaf i fewn? Ni fynai mo'r byd, yr wyf yn sicr, a gweled hen greadures fel y fi ymysg teulu mor barchus. Cerddwch chwi i mewn yn gyntaf." Ar hyn dacw ddrws y parlwr yn cael ei agor, a'r foneddwraig yn myned i mewn ymlaenaf; a chyfododd Mr. Richards (*Dafydd Ionawr*) i'w chyfarch, ond sylwodd ar rywun arall yn nghil y drws, ac adnabyddodd hi yn y fan fel ei hen fam anwyl, ac ar hyny i ffwrdd ag ef heibio i'r foneddwraig ar frys, a'i ddwylaw am wddf yr hen wraig ei fam, gan ei chofleidio yn garuaidd, ac wylai y ddau yn hir yn mreichiau eu gilydd. Ymhen amser dychwelodd ei fam yn ol i'w chartref, ac ni welodd byth mwy ei mab ar y ddaear hon. Ac ar ddarn o ddelid, yn nghroes ogleddol eglwys Tywyn, y mae yr hysbysiad canlynol yn ei chylch, ynghyd âg englyn o waith ei hanwyl fab, y rhai a redant fel hyn:—

Islaw y claddwyd Ann Dafydd, yr hon a fu farw Awst yr 20fed, 1785, ac yn y flwyddyn o'i hoedran, 69.

Is llawr huno 'n awr a wna,—gwraig eirwir
  A garai 'r Gorucha;
Ei henaid byth ni huna,
Mae 'n llaw Duw, mae mewn lle da.

Digitized by Google

Ymhen blynyddau wedi hyn, sef yn nechreu y flwyddyn 1790, daeth i gartrefu i'w fro enedigol, a chafodd y swydd o athraw yr Ysgol Rad yn Nhywyn. Parhaodd i ddal y swydd hono am tua dwy flynedd, a daeth yr ysgol yn dra blodeuog yn ystod yr amser. Ac yn ystod y tymor hwn y gorphenodd Gywydd y Drindod. Ceisiodd gan ei dad roddi iddo arian i'w alluogi i'w gyhoeddi, yn herwydd ei hawl etifeddol i Lan y Morfa, ond gwrthododd y diriad dideimlad hwnw ei gais. Teimlodd yn ddwys iawn am hyn, gan nas gwyddai pa fodd i gael ei waith allan. Ryw dro yn ddilynol, adroddodd ei helynt wrth Mr. Thomas Jones, yr hwn oedd berthynas iddo; ac addawodd y câr hwn fenthyg oddeutu 300p. iddo, ar gyfrif ei hawl i Lan y Morfa. Ymhen amser ar ol iddo gael y gymwynas amserol hon, cychwynodd i'w daith ar hyd y wlad i gasglu enwau derbynwyr i'r gwaith, ond ychydig oedd nifer y rhai a addawsant. Ac ymddengys mai gan rai o'r gwyr mawr a'r offeiriaid yn unig bron y gofynai am eu henwau. Dygwyd y cywydd allan o'r wasg yn Ngwrecsam, yn y flwyddyn 1793, ac arhosodd yntau yno i olygu yr argraffiad. Argraffwyd 300 o gyfrolau o hono, y rhai a werthid am bum' swllt yr un. Ond ni werthid nemawr o honynt heblaw i'r rhai a roisant eu henwau fel tanysgrifwyr yn flaenorol. Bu yn golledwr mawr gyda hyn, ond ymddengys fod cryn fai arno ef ei hun na buasai y gwerthiant yn fwy, pa faint bynag a ddichon oeddynt y rhwystrau eraill. Cymerodd amryw bersonau o'r gwahanol Swyddi nifer o'r llyfrau i'w gwerthu, ond cwynai yr awdwr na chlywodd ddim ychwaneg o'u hanes. Gwnaeth anrheg o lawer o'r llyfrau a safodd ar ei law i hwn a'r llall, a llosgodd y gweddill yn goelcerth danllyd.

Y flwyddyn ddilynol i ddygiad allan y cywydd hwn, daeth i fyw i Ddolgellau, at y câr crybwylledig, lle yr arhosodd am tua saith mlynedd. Yn ebrwydd wedi iddo ddod i drigianu i'r lle, dechreuodd edrych dros yr argraffiad cyntaf i'w adystyried; ond ni wyddys pa faint a gyfnewidiodd, neu a helaethodd arno, gan fyned o'r sypyn a gynwysai y gwaith hwn ar dan, o ddiffyg gofal priodol y rhai y daeth ei ysgrifau i'w llaw ar ol ei farwolaeth. Ond caed cymaint o hono ag a gyrhaeddai hyd hanes y diluw heb ei fwrw i'r tân. A defnyddiwyd y diwygiadau hyny yn nygiad ei weithiau allan gan Mr. R. O. Rees, Dolgellau. Hefyd, defnyddiwyd yn yr unrhyw argraffiad yr ychydig ddiwygiadau a ysgrifenodd oddiyno ymlaen yn ei gyfrol argraffedig o'r cywydd hwn, ac o'i weithiau eraill. Yn y flwyddyn 1799, dygodd y bardd allan Gywydd y Mil blynyddoedd, ac feallai ei digolledwyd yn hwn. Canys nid argraffodd ond

Digitized by Google

ychydig gyfrolau o hono, ac yr oedd wedi bod yn ysgol profiad yn flaenorol gyda'r llall.

Bu farw ei dad yn y flwyddyn 1798, ac o ganlyniad daeth etifeddiaeth ei dad a'i fam i'w feddiant. Ymhen amser gwedi hyn, sef, fel yr ymddengys, yn fuan ar ol cyhoeddi o hono Gywydd y Mil-blynyddoedd, trosglwyddodd ei hawl yn yr etifeddiaeth i'r dywededig Mr. Thomas Jones, yn ngrym cytundeb a wnaed cydrhyngddynt. Ac yn ol ei delerau, yr oedd i gael trigianu gyda Mr. Thos. Jones a'i deulu trwy ystod ei oes, a chael holl angenrheidiau bywyd heb iddo orfod trafferthu dim yn eu cylch. Hefyd, yr oedd yr arian a gafodd yn menthyg i argraffu y cywydd cyntaf yn gynwysedig yn y cytundeb hwn.

Yn y flwyddyn 1800, bu farw prif athraw Ysgol Ramadegol Dolgellau; a chan ei fod yntau yn ŵr o ddysgeidiaeth uchel, ceisiwyd ganddo ymgymeryd â'r swydd ar ei ol. Gan hyny cymerodd afael ynddi, yn fwy er boddhau ei gyfeillion nac er enill y cyflog. Yn ystod y saith mlynedd y gwasanaethodd y swydd o brif athraw yr ysgol hon, rhoddai i fyny mewn tafarndy yn y dref; ond nid ymgymysgai un amser â gwyr y pot a'r bib a ymgynullent yno. Ond cadwai ef o'r neilldu, yn ei ystafell yn y llofft, yn nghwmni ei awen. Ond yn aml, yn ol a nodir, gwnai fwy o swn gyda hi yno nag a wnai yr yfwyr islaw yn y gegin. Effeithiai ei chymdeithas gymaint arno nes peri iddo ar droion neidio, curo ei ddwylaw, a chwerthin yn uchel. Parhâi felly weithiau trwy y nos, nes rhwystro i deulu y tŷ allu cysgu yn briodol. Edliwid ei dwrw iddo gan ei hen letywraig, a dywedai ei fod o'i go'. Ond, er rhoi o honi ambell sen iddo fel hyn, am gadw swn a rhwystro i bobl gysgu, dywedai nad oedd un dyn o'i gallach na'i gampusach yn y wlad. Ac o'r tu arall, hefyd, yr oedd gan y bardd air mawr iddi hithau. Tra yn cadw yr ysgol hon, cyfansoddodd Gywydd Joseph. Argraffwyd y cywydd hwn yn Nolgellau; a thrwy ddawn dylanwadol y Barwn Richards, o Gaerynwch, a'i waith yn casglu enwau yn garedig ato, cafodd well gwerthiant na gweithiau blaenorol yr awdwr.

Yn y flwyddyn 1807, rhoddodd Mr. Thomas Jones ei fasnach i fyny, ac ymfudodd gyda'i deulu o Ddolgellau i Ynysfaig. Yn yr un flwyddyn hefyd rhoddodd y bardd ei swydd o athraw yr Ysgol Ramadegol i fyny, ac aeth eilwaith i drigianu at ei gâr a'i gyfaill Mr. Thomas Jones, i Ynysfaig. Tra yn lletya gydag ef y waith hon, treuliai lawer o'i amser yn ymrodio yn ol ac ymlaen ar hyd y fro rhwng ei gartref ag afon Mawddach, mewn unigrwydd synfyfyriol, yn gyru ymlaen ar ei amcan mawr barddonol. Yn ystod ei arosiad yn y lle hwn y cyfansoddodd y gwaith a elwir "Barddon-

Digitized by Google

iaeth Gristionogol." Dygwyd hwn allan yn Nolgellau yn y flwyddyn 1815; a rhoddodd y wlad dderbyniad tra boddhaol iddo.

Ymhen ychydig o flynyddoedd wedi argraffu y cyfansoddiad hwn, sef yn y flwyddyn 1819, bu farw Mr. Thomas Jones, ac mewn canlyniad i hyny, aeth yntau i letya at fab i Mr. Jones, sef Mr. G. Jones, arianydd, Bryntirion, Dolgellau, gyda'r hwn y cartrefodd wedi'yn trwy y gweddill o'i oes. Yn y flwyddyn 1821, cyhoeddodd Gywydd y Diluw; ac er hyfrydwch mawr iddo, cafodd y cywydd hwn well derbyniad na'r un o'i weithiau blaenorol. Dywedai wrth ei gyfansoddi mai hwn fyddai'r gwaith olaf o bwys a gyfansoddai; ac amcanai iddo ragori ar ei holl weithiau, ac ystyriai iddo lwyddo i'w wneyd felly. Ar ol iddo ei ddwyn allan o'r wasg, cafodd lythyrau oddiwrth esgobion Bangor a Thy Ddewi, y Barwn Richards, ac eraill, yn ei anog i ddwyn ei holl waith allan yn un gyfrol, gan addaw ei gefnogi yn ei werthiant. Ond ni chydsyniai ef â'u cais, ac ymdeimlai fod ei yrfa yn tynu i ben. Treuliodd y rhan fwyaf o weddill ei oes yn ei lyfrgell yn darllen a myfyrio.

Digiodd yn dost wrth D. Thomas (Dafydd Ddu o Eryri), pan glywodd iddo wneyd sylwadau sarhaus ar un o'i gywyddau. Teimlodd mor ddwfn o'r herwydd nes canu tuchangerdd ddigon colynog i beri i'r llall glymu dwy gerdd duchan yn wrth-ateb iddo. Llwyddodd y penill cyntaf o'r ail o honynt i fod yn ergyd mor drwm iddo, fel nad ysgrifenodd linell byth wedy'n i'w sarhau. Teimlodd i'r byw oddiwrth gyfeiriad y penill,—fod bardd o'i fath ef, a gysegrodd gymaint o'i amser i eilio cân a'i hamcan mor aruchel, yn ymostwng i ganu cerdd duchan. Rhed y penill hwnw fel hyn:—

"A'i awdwr Cerdd y Drindod ffrwythddwys fyfyrdod faith,
A droes yn gas i erlid gan newid ei hen waith,
Gan arfer rhyw freuddwydion yn ail i goelion gau,
A geiriau ffol plentynaidd, rhy ffiaidd i'w coffau."

Aeth y ddeufardd yn gyfeillion gwedi hyn, a pharasant felly hyd eu bedd. Pan ddaeth D. Thomas i Ddolgellau, i gyhoeddi Corff y Gainc, yn y flwyddyn 1810, aeth Dafydd Ionawr ato, gan erfyn ei faddeuant, a chwympo dan ei fai. A rhoddodd ei enw fel tanysgrifiwr am y llyfr.

Cyhoeddwyd ei weithiau barddonol yn un gyfrol, yn y flwyddyn 1851, gan y diweddar R. O. Rees, Dolgellau, o dan yr enw Gwaith Dafydd Ionawr. Ac ysgrifenodd y cyhoeddwr hanes ei fywyd, yr

Digitized by Google

hwn sydd argraffedig yn nechreu y gyfrol, a defnyddiwyd o'i gynwys i weithio allan y sylwadau hyn am dano. Ar yr unfed dydd ar ddeg o fis Mai, y flwyddyn 1827, yr oedd yr hen lanc a'r bardd enwog Dafydd Ionawr rywbeth yn gyffelyb o ran ei iechyd i fel y byddai arferol. Bwytaodd ei hwyrbryd ac aeth i'w wely, heb un anhwyldeb penodol yn ei flino. Byddai yn arfer aros yn lled hir yn ei wely y boreuau; ond gan ei fod heb godi dranoeth y dydd a nodwyd nes yr oedd agos yn bryd ciniaw, ac yntau dan wahoddiad i fyned i giniawa i'r Fronwnion, at ferch y teulu lle y lletyai, anfonwyd un o'r morwynion i'w adgoffa o hyny, gan yr ofnid iddo anghofio. Ond nid oedd Dafydd Ionawr yn fyw i'w hateb. Gorweddai yn dawel ar ei ochr yn ei wely a'i law dan ei ben, a Thelemachus, gwaith Fendon, Archesgob Combray, yn agored a'i wyneb i lawr ar y gobenydd. Ymddangosai fel yn cysgu yn drwm, ond huno yn yr angau yr oedd.

Cyfodwyd cofgolofn ar ei fedd yn mynwent newydd Llan Fair Bryn Meurig, Dolgellau, o tua phum llath o uchder, gan ei gyfaill, y Parch. John Jones, Borthwnog, yr hon a gostiodd oddeutu 30p. Y mae yn gerfiedig arni:—"Bedd Dafydd Ionawr. Bu farw Mai 12, 1827. Ei oedran, 76." Ar y tu arall,—"M. T. Bardi Christiani Mervinensis. Ob. A.D. 1827. Atat Tua 76." Ac ar y llall,—"Rev. J. Jones, A.M. De Ynysfaig Posuit."

---

NODYN.—Yr ydys yn y tudal 280—3 wedi cyfeirio at William Huw, Llechwedd. Dywedai Martha William, ei ferch (yr hon ydoedd Eglwyswraig), mai wrth ddarllen y Llyfr Gweddi Cyffredin y daeth i'w feddwl o barth crefydd, pan yn cadw wyn ar ben y fan a alwai "Gwestan," ar fynydd Maesyllan, fel yr ymddengys. Ac ddarfod, wedi iddo fod ryw noswaith yn pregethu yn Nhywyn Meirionydd, ddyfod pedwar ar ddeg (deuddeg a ddywedir yn tudal. 282) i'r Llechwedd cyn iddo gyfodi boreu dranoeth, i'w ddal, wedi cael eu hanfon gan Mr. Corbet, Ynysmaengwyn. Aethant ag ef i lawr i Dywyn, a chafodd ei ddirwyo i 50p. Nad oedd ganddo fodd i dalu, ac y cafwyd benthyg yr arian gan Gwen Jones, Ysgubor Wen, chwaer i Harri Jones, Ty'rgawen. Aeth ei wraig adref cyn gwybod o honi y caed benthyg arian i dalu y ddirwy, a chan fod yn y Llechwedd fuwch o Fwlch Llyngen yn porfäu, anfonodd hi adref rhag i'r ceisiad gael gafael arni. A throdd y "ceffyl bach" y byddai William Huw yn myned ar ei gefn ar ei ffordd i bregethu, i'r foel sydd gerllaw y ty, ond gadaw odd bob peth arall iddynt i'w cael. Ond tybir ddyfod o William Huw yn rhydd yr un diwrnod ag ei daliwyd. Wedi hyn gwnaed iddo fyned i'r "Pulpud" yn Nolgellau, i bregethu, ag yntau heb drwydded, ac o'r herwydd bu am chwarter blwyddyn ar ffo yn y Bala. Dywedai iddo fod yn teithio gyda Mr. Charles, o'r Bala, ac i'r gwr hwnw fod yn cysgu yn y Llechwedd. Y mae gynt dyddyn o'r enw Bwlch, pa un sydd, mewn rhan o leiaf, yn gorwedd yn Mwlchllyngen, yn perthyn yn awr i dyddyndy Maes y Pandy. Nid yw y Llechwedd ond tyddyn bychan.

Digitized by Google

## Y PARCH. HENRY VAUGHAN.

Mab ydoedd y gwr hwn i John Vaughan, Ysw., o Gaethle, a'i wraig gyntaf, sef Jane, ferch Edwart Prys, o Blas yn y Rofft, yn nghymydogaeth Penal, disgynydd o Iorwerth Drwyndwn, tad Llywelyn ab Iorwerth, tywysog Gwynedd. Ganwyd ef yn Nghaethle; a phan yn un mlwydd ar bymtheg oed, daeth yn wrengyn yn Nholeg Oriel. Yn nhymor canol haf y flwyddyn 1632, dewiswyd ef o'r lle hwn yn ysgolhaig Coleg yr Iesu, lle yr arhosodd am rai blynyddoedd o dan ddisgyblaeth lem. Cafodd ei raddio yn y celfyddydau, a gwnaed ef yn gymrawd o'r ty hwnw; ac wedi hyny daeth yn bregethwr, tra yr oedd Charles I. yn cadw ei lys yn Rhydychain, yn amser y rhyfel cartrefol. Yn mis Gorphenaf y flwyddyn 1643, anrhegwyd ef gan Brifysgol Rhydychain i ficeriaeth Pant Teg, yn Mynwy, yn rhinwedd deddf a wnaed y drydedd flwyddyn i Iago I., i rwystro ymwrthodwyr* i gyflwyno personau i fywioliaethau yn eu rhoddion. Yn y flwyddyn 1644,† argraffwyd pregeth o'i eiddo, a bregethodd o flaen Ty y Cyffredin, yn Rhydychain, oddiar Matt. v. 20. Ac yn y flwyddyn 1656, argraffwyd "Conference between him and Jo. Tombs, B.D., in St. Mary's, Abergavenny, 5 Sept., 1653, touching Infant Baptism. London, 1656, 4to." Bu farw oddeutu'r flwyddyn 1661, a chladdwyd ef yn Abergafeni, yn ol y ceir yn *Burke's Dict. of the Landed Gentry*, y mynega Anthony à Wood yn ei *Athena Oxen*, y mynegwyd iddo gan Syr Leoline Jenkins (ysgolor y Parch. Henry Vaughan), yr hwn a fu yn Brifon Coleg yr Iesu, ac wedi hyny yn Farnwr Breintlys Caergrawnt.

Mynegir yn Llyfryddiaeth y Cymry, t., 171—2, wrth gyfeirio at argraffiad o waith John Cragge, M.A., fel hyn :—"Hanes Saesonaeg ydyw am ddadl a fu yn hen Eglwys y Fenni, yn Sir Fynwy, ar y 5ed o Fedi yn y flwyddyn hon,‡ rhwng Mr. Tombs, Mr. H. Vaughan (yr hwn oedd fab i John Vaughan, Gaethle, ger Towyn, Meirion, ac yn Vicar Pant Teg, ger Pont y Pwl, yn Sir Fynwy), a Mr. Cragge, o berthynas i Fedydd Babanod. Yr oedd eglwys newydd o Fed-

* "Recusants."

† "Oxen., printed 1881. 4to."

‡ Ymddengys mai y fl. 1656 a olygir, canys yn yr unrhyw Lyfryddiaeth, nwchlaw y gwreiddiol o'r dyfyniad uchod mewn rhan, ac yn ddilynol i fynegiad am ba beth y cyfeirir ato oedd yr argraffiad, ceir a ganlyn :—"London, Printed by T. W. for H. Twyford, N. Brooks, Tho. Dring, J. Place, and are to be sold at their shops, 1656." Yn y fl. 1653, y gosodir yn *Burke's Dict. of the Landed Gentry* y bu'r ddadl rhwng Mr. Henry Vaughan a Mr. Jo. Tombe, fel y nodwyd eisoes. Ond mynegir yno mai yn y fl. 1656 yr argraffwyd y gynnadl rhwng y blaenaf o'r ddau a'r llall.

Digitized by Google

yddwyr wedi ei ffurfio yn y flenni, yn 1652, ac o ddeutu triugain wedi eu chwanegu ati y flwyddyn gyntaf, neu ychydig gyda hyny. Yn ol eu hanes hwy, darfu i hyn roi, yn hytrach, anfoddhad i fedyddwyr plant yn y parthau hyny. O'r diwedd, cytunodd y ddwy blaid i gael dadl gyhoeddus ar y pwnc, yn Eglwys Fair, yn y dref hono, oddeutu saith wythnos ar ol y Gymanfa. Y dadleuwyr oeddynt, John Tombs, B.D., ficar Llanllieni; Henry Vaughan, A.C., a John Cragge, A.C. Y cyntaf dros fedydd crediniol, a'r ddau olaf dros fedydd plant. Mr. T. a Mr. V. a ddadleuasant gyntaf, yna Mr. Cragge. Wedi hyny, bu iddynt oll argraffu. Enw cyhoeddiad Mr. C. yw, 'The Arraingement and convinction of anabaptism.' Nid yw gwaith Mr. V. yn helaeth. Y mae llythyr cyflwyniadol yn ei ddechreu."

Yn y tudalen 172 o Lyfryddiaeth y Cymry, ceir nodyn yn rhedeg fel hyn,—" Henry Vaughan a fu yn ficar Grantham, yn Sir Lincoln. Yr oedd yn bregethwr rhagorol, ac yn selog iawn dros y Breninoedd Siarl I. a'r II. Pregethai yn gyhoeddus yn erbyn y llywodraeth ag oedd mewn grym ar y pryd; ond er ei fod yn erbyn y weriniaeth fel llywodraeth wladol, yr oedd hefyd yn erbyn y seremoniau eglwysig; ac am hyny efe a garcharwyd pan ddaeth Siarl II. i'r orsedd, oblegid peidio a darllen Llyfr y Weddi Gyffredin. Aeth wedi hyny gyda'i deulu i Bermuda; ond oblegid cael anghefnogaeth oddiwrth y Crynwyr, dychwelodd yn ol.—*Palmer's Calamy's Noncon. Mem.*, Vol. ii., pp. 416—18."

## ENWAU RHAI PERSONAU PENODEDIG I DALU ARIAN PORTH Y BRENIN, YN Y DDEUDDEGFED FLWYDDYN O DEYRNASIAD SIARL I.

Cymerwyd yr enwau a ganlyn allan o'r drydedd gyfrol o'r 'Cambrian Quarterly Magazine,' ymha un hefyd y caed maint y swm gofynedig i bob un o honynt i'w thalu. Tybir y cynwysa y rhestr o honynt sydd yn y gyfrol grybwylledig enwau yr oll o dirfeddianwyr trigianol o fewn Swydd Feirionydd, ond ni roddir yma namyn enwau y rhai a berthynent i'r plwyfydd yr ymdrinir â hwy yn benodol yn y llyfr hwn. Cafwyd y rhestr mewn adysgrif oedd yn meddiant y diweddar Mr. Ellis Owen, a ddynodir yn y gyfrol y cyfeiriwyd ati, fel o Bantphylip.*

* Gweler ei enw yn Achau Pantphylip, yn mhellach yn ol. Efe oedd biau y lle, a bu yn byw yno hefyd, ond nid yno y bu farw.

Digitized by Google

Yn ol a fynegir uwchben y Rhestr, y mae yr unrhyw yn adysgrif o'r drydedd a'r ddiweddaf Borthobr gyflawn o'r tair Porthobr neu Deyrnged Gymorth a ganiatawyd gan y Cyffrediniaid, "Anno Tertio Jacobi, nup' Regs Anglie, &c., and to be levied and payed this p' nt Yeare, Anno Rs caroli nunc Anglie, &c., Duodecimo, 1636."

Yn ddilynol ceir rhoddi yr enwau ynghyd a'r mynegiadau cysyllt-iedig â hwy yn yr unrhyw Restr, a cheir weithiau pan ddilynir ei ffurf yn fanwl, ddefnyddio nodau dyfyniadol :—

## *Cwmwd Ystumanner, Tywyn.*

| | | |
|---|---|---|
| "S. James Price,* marchog, "in terr | vjlixiiijs" | |
| Henry Prise,† Yswain, "in terr | iijlixijs" | |
| "Jane Gwynne,‡ Vid', in terr' | xls | iiijs" |
| "Jenkin Vaughan,"§ bon. "in terr." | xxs | iiijs" |
| "Thomas Owen, in terr' | xxs | iiijs" |
| "David ap Owen, d'd,‖ in terr' | xxs | iiijs" |
| "Edward ap Hugh, in terr' | xxs | iiijs" |
| "David ap Richard, in terr' | xxs | iiijs" |
| "John Rees d'd ap Hoell, in terr' | xxs | iiijs" |
| "William John d'd ap Rs, in terr' | xxs | iiijs" |
| "Evan Jenkin Llywelyn, in terr | xxs | iiijs" |
| "Lewis Hughes," bon., "in terr' | xxs | iiijs" |

## *Llanfihanfel y Pennant.*

| | | |
|---|---|---|
| "Morgan John d'd ap Rs, in terr | xxs | iiijs" |
| "Evan Arthur, in terr' | xxs | iiij" |

* Daeth y gwr a nodir uchod i afael o etifeddiaeth Ynys Maengwyn trwy ei briodas â merch hynaf ac etifeddes Humphrey Wyn, Ysw., a bu farw yn y flwyddyn 1642 neu 1643. Yr oedd yn ddisgynydd o Brysiaid Gogerddan. Ac yr ydoedd yn Sirydd Meirionydd yn 1606–7, yn nheyrnasiad James 1. Wedi ei benodiad yn Sirydd y waith hon ei gwnaed yn Farwnig. Bu yn Sirydd drachefn dros yr unrhyw Swydd yn 1620—1, a chyfeirir ato y pryd hyny fel Syr James Price, o Ynys Maengwyn, marchog. (Gweler Camb. Quart. Magazine, Cyf. iii., tud. 488, a Calendars of Gwynedd, gan Mr. Breese, tud. 73—4).

† Yr ydoedd yn Sirydd Meirionydd yn 1622—30, ac y mae yn cael ei ddynodi mewn cysylltiad a'r swydd hono fel Henry Price, o Daltreuddyn, bon. Mynegir hefyd ei fod o Esgairweddan, yn y plwyf hwn, ac o Daltreuddyn ger Harlech. (Gweler Camb. Quart Magazine, Cyf. iii., tud. 458, a Caland. of Gwynedd, tud 74.

‡ Gweddw "Lewis Gwynne," Ysw., o Ddolaugwyn, a merch "Hugh Nanney," o Nannau. Gweler Quart. Mag., III., tudal., 458.

§ O Gaethle, yn ol yr unrhyw Quart. Camb. Mag.

‖ Yr enw Dafydd y mae y "d'd" uchod yn ei olygu, ac felly yn y manau eraill lle eu gwelir yn y rhestrau enwol hyn.

Digitized by Google

### *Pennal.*

| | | |
|---|---|---|
| Rhys Lloyd,* bon., "in terr'" | xxs | iiijs" |
| Rowland Morgan,† bon., "in terr' | xxs | iiijs" |
| Thomas Pugh, Llugwy,‡ "in terr' | xxs | iiijs" |
| John Roberts,§ Cefncaer, "in terr' | xxs | iiijs" |
| John Thomas ap Rs, "in terr' | xxs | iiijs" |
| Evan Meredydd, "in terr' | xxs | iiijs" |

### *Talyllyn.*

| | | |
|---|---|---|
| Lewis Nanney, Yswain, "in terr | iijli | xijs" |
| "Dame Jane Lloyd,‖ in terr' | iiijli | xijs" |
| William Anwyl, "in terr' | xxs | iiijs" |
| Edward John Evan, "in terr' | xxs | iiijs" |
| Rowland Gwilym, "in terr' | xxs | iiijs" |
| "Humffrey Morris William, in terr' | xxs | iiijs" |
| "Humffrey ap Richard, in terr' | xxs | iiijs" |

### *Cwmwd Tal y Bont, Llan Gelynin.*

| | | |
|---|---|---|
| Humphrey William, "in terr'" | "xxs | iiijs" |
| Owen Evan, "in terr'" | "xxs | iiijs" |
| Hugh ap John ap Hugh, "in terr'" | "xxs | iiijs" |
| William ap Rs Gruffith ap Meurig, "in terr'" | "xxs | iiijs" |
| Evan Griffith, "in terr'" | "xxs | iiijs" |
| Griffith Evan, "id terr'" | "xxs | iiij " |
| Alban Thomas,* bon., "in terr." | "xxs | iiijs" |
| Dafydd ap Hugh Goch, "in terr'" | "xxs | iiijs" |

### *Llanegryn.*

| | | |
|---|---|---|
| Margret Herbert,† "in terr'" | "xls | viijs" |

---

* O Ddolgelynen, yn mhlwyf Pennal. Gweler Quart. Camb. Mag. Gyf., III., tudal., 458.

† O Bumwern, yn ol yr un Quart. Camb. Mag.

‡ Yn mhlwyf Pennal y mae Cefncaer, a Phumwern, a Llugwy.

§ O Faes y Pandy, yn ol y dywedig Quart. Camb. Mag.

‖ Diameu, medd yr un awdurdod ag yr ydys newydd nodi, mai gweddw Syr John Lloyd, o Geiswyn, ydoedd Dame Jane Lloyd, yr hwn a godwyd i'r urddas o Ringyllt yn y Gyfraith ar y 29ain o Ragfyr, 1623, ac a urddwyd yn farchog gan y Brenin James y Cyntaf yn "Whitehall," ar y 10fed o Ionawr dilynol.

* O Hendref, Llwyngwril.

† Etifeddes Lewis Owen, o Beniarth, a'i gwr cyntaf ydoedd Richard Owen, o'r Morben, yn nghymydogaeth Machynlleth; a'i ail wr ydoedd ail fab Matthew Herbert, o Ddolguog, yn nghymydogaeth Machynlleth, ac ewythr i'r enwog Arglwydd Herbert, o Cherbury.

Digitized by Google

| | | |
|---|---|---|
| Hugh Owen,* "in terr'" | "xxxs | vjs" |
| Dafydd ap Wm. ap Regnold, "in terr'" | "xxs | iiijs" |
| John Edward ap John, "in terr'" | "xxs | iiijs" |
| Hugh William d'd, ap Wm., "in terr'" | "xxs | iiijs" |
| Moris ap Wm. Griffith, "in terr'" | "xxs | iiijs" |
| William ap Ieu'n ap Moris, "in terr'" | "xxs | iiijs" |
| Dafydd ap William ap Hugh, "in terr'" | "xxs | iiijs" |
| William ap Ieu'n ap Wm. "in terr'" | "xxs | iiijs" |
| William Lloyd al's cooke, "in terr'" | "xxs | iiijs" |

*Uwch y Gareg.*†

| | | |
|---|---|---|
| Edward Nanney, bon., "in terr'" | "xxs | iiijs" |
| Hugh Dafis, bon., "in terr'" | "xxs | iiijs" |

*Dolgellau.*

| | | |
|---|---|---|
| Dafydd Lloyd Tudyr,‡ bon., "in terr'" | "xxs | iiijs" |
| Hywel Fychan,§ "in terr'" | "xxs | iiijs" |
| Rowland Ellis, "in terr'" | "xxs | iiijs" |
| Gruffydd Lloyd ap Elisau,‖ "in terr'" | "xxs | iiijs" |
| Lewis Simon Owen, "in terr'" | "xxs | iiijs" |
| Robert Simon Owen, "in terr'" | "xxs | iiijs" |
| John ap Richard Vaughan, "in terr'" | "xxs | iiijs" |
| Gruffydd ap John Lewis, "in terr'" | "xxs | iiijs" |
| Moris ap Elisau,* "in terr'" | "xxs | iiijs" |
| Gruffydd ap Hywel Tudyr, "in terr'" | "xxs | iiijs" |
| Rhys ap John Gruffydd "in terr'" | "xxs | iiijs" |
| Simon John ap Hywel ap Lewis "in terr'" | "xxs | iiijs" |
| Tudyr Owen,† "in terr'" | "xxs | iiijs" |

* O Dalybont, yn mhlwyf Llanegryn, ac ewythr y dywededig Margret Herbert. Gweler Camb. Quart. Mag., III. Gyf. t., 458—9.

† Perthyna y dref-ddegwm Uwchygareg uchod i blwyf Llan Fihangel y Pennant.

‡ O Gaerynwch. Yr ydoedd yn dad i Tudur Fychan, enw yr hwn, yn y ffurf o Theodoru Vaughan, sydd ymysg y rhai sydd a'u henwau yn y Wyseb a anfonai y Milwriad John Jones i'r Senedd fel marchog dros Swydd Feirionydd.

§ O'r Wengraig, a thad yr hynafiaethydd Robert Fychan, o'r Hengwrt. (a) Camb. Quart. Mag., Gyf., t,, 450.

‖ Tebygol y ceir ei enw mewn cysylltiad â thir Stent yn y tudalen 81—2.

* Dichon y ceir enw y gwr hwn mewn cysylltiad â Thir Stent, tudal. 80.

† Tebygol mai yr un yw y Tudyr Owen uchod a'r Tudyr (Tudder) Owen ag sydd yn yr achlin yn tudal. 228 o'r llyfr hwn, ac fod enw Owen Tudyr ei fab i'w weled mewn cysylltiad a Thir Stent yn y tudal. 81. Ac, os fel hyn, fel tebygol mai e, mai yr un yw y Tudyr Owen uchod, neu y "Tudder Owen," yn ol ffurf yr enw yn y rhestr yn y Camb. Quart. Mag., III. gyf., tudal., 452, a'r Tudder Owen, yn yr achlin grybwylledig, yr ydoedd ei dad yn dwyn yr enw Owen (Ywain) Tudyr.

Digitized by Google

Hugh ap Elisau d'd ap Owen "in terr'"............. "xxs iiijs"
Rhys Lewis ab John Gruffydd, "in terr'"............ "xxs iiijs"
John "Caddr. ap William in terr'".................. "xxs iiijs"
Richard John ap Rs Gruffydd "in terr'"............. "xxs iiijs"

## YR ELUSENAU.

Yr awdurdod, gan mwyaf, dros yr hanes dilynol o barth yr Elusenau, yw Adroddiadau y Dirprwywyr ag y cyfeiriwyd atynt yn nghysylltiad âg Elusenau y plwyfydd eraill, y rhai a'u cyfleasant gerbron y senedd yn y flwyddyn 1834. A'r Elusen y ceir cyfeirio ati gyntaf yw un Vincent Corbet.

Mynegir yn adroddiadau 1834. y dywed yr adroddiadau a osodwyd o flaen y senedd yn y flwyddyn 1786, ddarfod i Vincent Corbet, yn y flwyddyn 1717, yn ol fel y tybir, ond nis gwyddid drwy ba weithred, roddi tir yn cynyrchu 4p., y flwyddyn, i'r ysgol yn mhentref Tywyn, y rhai ar y pryd oeddynt yn aros yn meddiant Edward Corbet; ac ychwanegwyd y sylw i'r ystyr ddilynol, "darostyngedig i fynediad allan."

Ni feddai swyddogion y plwyf hwn unrhyw ysgrifen o barth yr Elusen hon ar adeg yr ymchwiliad gan y Dirprwywyr roisant eu hadroddiadau yn 1834. Eithr derbyniai yr athraw 4p. yn flynyddol oddiwrth oruchwyliwr Mr. Corbet, a thybid mai dyled oedd a osodwyd ar dyddyn o'r enw Hen Dy, lle-edig yn mhlwyf Tywyn, eiddo Athelstan Owen, Ysw., Ynys Maengwyn. Cyflwynodd Mr. Owen, cyfreithiwr Mr. Corbet, adysgrif trefniant etifeddiaeth Ynys Maengwyn, gan y dywededig Vincent Corbet, ac Ann ei ferch, yn ei throsglwyddo i ymddiriedolwyr i'w wasanaeth ei hun tra fyddai fyw, ac yn ddilynol i wasanaeth ei ferch a'i hetifeddion, ac ynddi yr oedd tyddyn o'r enw Hen Dy yn gynwysedig, eithr heb unrhyw grybwylliad am y ddylyed o 4p. Buwyd yn chwilio yn Llys Eglwysig Bangor am ewyllys Vincent Corbet, ond yn aflwyddianus.

### ELUSEN Y FONEDDIGES MOYER.

Mynega yr Adroddiadau a osodwyd o flaen y senedd yn y flwyddyn



Digitized by Google

1834, y dywed y rhai a roddwyd ger ei bron yn y flwyddyn 1786, ddarfod i'r foneddiges Moyer, o Lundain, roddi trwy weithred 200p. Tair y cant cedsoddion, at addysgiad 24 o blant tlodion yn mhlwyf Tywyn.

Nid oedd gan swyddogion y plwyf yn amser ymofyniad y Dirprwywyr crybwylledig, unrhyw weithred nac ysgrifen o barth yr elusen hon, oddigerth a geir mewn cofnod yn hen lyfr y plwyf, yr hwn sydd i'r ystyr ddilynol:—

"Adysgrif o lythyr y foneddiges Moyer, a chyfarwyddiadau o barth ysgol elusenol Tywyn:—

"Gan fod dyrchafu gogoniant yr Hollalluog Dduw yn ddymuniad gwresog fy nghalon, cymerais y dull hwn o addysgiad plant tlodion, heb wybod pa fodd yn well i'w foddhau Ef, yr Hwn, pan ar y ddaear, a gymerodd gymaint o hyfrydwch yn, ac a ddangosodd gymaint nifer o ffafrau iddynt, bendith yr Hwn yr wyf yn ostyngedig ddeisyfu ar yr ysgol hon, sefydledig yn mhlwyf Tywyn, yn Swydd Feirionydd, yn Alban Hefin 1717. Tuag at hyny, y mae Athelstain Owen, Ysw., wedi rhwymo ei hun, ei etifeddion, gwyllys-weinyddion, ac ol-weinyddion am byth, i dalu yn barhaus 10p. yn flynyddol, yn rhydd o bob trethoedd, sef 5p. ar Ddydd Nadolig, a 5p. ar ddydd St. Ioan Fedyddiwr, i athraw, penodedig gan yr ymddiriedolwyr, i addysgu 20 o blant, bechgyn a genethod, i ddarllen ac ysgrifenu; eu cyfeillion i'w cynysgaeddu a'r cyfryw lyfrau ag a geisid gan yr athraw, megis y Llyfr Cyntaf, Llyfr Gweddi Gyffredin, Llyfr y Salmau, a'r Holwyddorau. Ni chaiff yr un mewn urddau eglwysig fod yn athraw; a phe digwyddai i'r cyfryw gael ei ddewis, caiff ei droi allan yn uniongyrchol, heb ddim cyflog, ac un arall ei ddewis, oherwydd dau reswm: Yn gyntaf, fel na byddo i'r un offeiriad Pabyddol allu eu gwenwyno âg athrawiaeth ddamniol eglwys Rhufain, ac hefyd fel y gallai ei holl amser gael ei dreulio er llesad y plant a roddid dan ei ofal. Bydd yn rhaid i'r athraw fyned gyda hwy i'r ysgol ddwy waith bob dydd Sabbath, a phob dydd y darllenir gweddiau, gofalu am iddynt borthi y gwasanaeth, a datganu eu hemynau ar ol pregeth, a chael eu holwyddori mor aml ag yr ystyriai y gweinidog yn gymwys. Rhaid i'r athraw fforffedu 5p. os gofyna am dâl neu wobr oddiar neb un o rieni y blant tlodion. Rhaid i'r ysgolheigion ddod i'r ysgol am saith yn y boreu yn yr haf, ac am wyth yn y gauaf, aros yno hyd un ar ddeg, dychwelyd am un, ac aros hyd bump yn y prydnhawn. Rhaid i'r athraw weddio gyda hwy yn y boreu cyn dechreu addysgu, ac yn y prydnhawn cyn eu

Digitized by Google

gollwng allan, fel, wedi gofyn yn ostyngedig am fendith Duw, y byddai iddi gael ei thywallt ar ei ymdrechion, er lleshad yr athraw a'r ysgoleigion.

"Y mae y gwreiddiol, o'r hwn y mae yr uchod yn adysgrif, wedi ei ysgrifenu gan y Foneddiges Moyer at y diweddar Athelstain Owen, Ysw., ac y mae yn awr (Mai 26, 1783) yn Ynysmaengwyn. Rhoddodd y Foneddiges Moyer 200p. tuag at yr ysgol, ar gais y dywededig Athelstain Owen, Ysw., yr hon ydoedd weddw i Syr Samuel Moyer, masnachydd yn Llundain. Ymddiriedolwyr, tair merch y Foneddiges Moyer, a'u hiliogaeth, Vincent Corbet, Ysw., Athelstain Corbet, Ysw., William Thomas, a John Jolliffe, Swydd Caerwrangon."

Yn ol a ddywed Adroddiadau 1834, ymddengys oddiwrth y gofyniad yn llyfr y plwyf o benderfyniad y bwrdd plwyfol, yn dwyn y dyddiad yr 17eg o Ebrill, 1786, y pryderai y plwyfolion y pryd hyny o barth y 200p. hyn a roddodd y foneddiges Moyer at wasanaeth yr ysgol yn Nhywyn, i adsefydlu cymwynas Athelstan Owen yn unol â'i hamcan a'i gosodiad gwreiddiol, yr hyn a amlygwyd i'r ymddiriedolwyr penodedig i drefnu yr arian hyny. Ac aethant ymlaen i geisio yr hysbysrwydd angenrheidiol oddiwrth y goruchwylydd a drefnodd amgylchiadau etifedd a dirprwywr y diweddar Athelstan Owen, Rhiw Saeson, ar diroedd yr hwn yr ymddangosai i'r 200p. gael eu rhoddi yn ngwystl. Mynegwyd y pryd hyny y neillduwyd 400p. yn adeg arwerthiant etifeddiaeth Mrs. Owen (gweddw mab Athelstan Owen) i Syr W. W. Wynne, at ariansawdd yn y trysorfeydd, Tair y cant. Dyledsawdd lleihaol; er mwyn cyfarfod â llog arian y foneddiges Moyer, yn ol 5p. y cant; ond hysbysai cwrdd plwyfol yr ymddiriedolwyr mai 6p. 14s. 6c. y flwyddyn a dderbyniwyd er's o leiaf ddeng mlynedd ar hugain, oddiwrth yr ariansawdd ar gyfrif etifeddiaeth Mrs. Owen tuag at yr elusen, at yr hon yr oedd y 10p. blynyddol i fyned. Amlygodd y plwyfolion, hefyd, ddymuniad ar fod i'r 290p., ynghyd â'u llogau, i gael eu talu iddynt hwy, fel y gallent eu rhoddi ar diroedd yn y plwyf, modd y gallent eu cael o dan eu harolygiaeth uniongyrchol i wellau ar amcanion llusenol y rhoddydd, trwy roddi y cyfryw foddion calonogiad er gwellhad plant ac ieuenctyd y plwyf a'r gymydogaeth ag a fai debycaf i allu eu gwneuthur yn ddefnyddiol i'w teuluoedd a'r Wladwriaeth.

Yr oedd yn adeg ymchwiliad y Dirprwywyr a roddasant eu hadroddiad gerbron y Senedd yn y flwyddyn 1834, 420p. Tair y cant, dyledsawdd lleihaol, yn sefyll mewn ymddiried yn herwydd yr elusen hon, yn enwau Thomas Whitfield a Francis Chambre, yr

Digitized by Google

ymddiriedolwyr oloesol; ond bwriadai y plwyf ofyn i'r Cangell-lŷs am benodiad ymddiriedolwyr newyddion o dan Ddeddf 1af i William IV., p. 60.

Tybir i arwerthiant etifeddiaeth Mrs. Owen i Syr W. W. Wynne gymeryd lle rhwng y blynyddoedd 1760 a 1765, er pa amser, i lawr i fis Hydref, y flwyddyn 1825, pryd y gomeddodd yr ariandy a thalu y cyfranau, ni dderbyniwyd ond 6p. 15s. y flwyddyn yn unig tuag at gynhaliad yr ysgol.

Ymddangosai y derbyniwyd yr oll o'r cyfraniadau o'r 420p. trysorged gan deulu yr Adams, Holyland, yn agos i Benfro, o'r hwn deulu y Cadfridog Alexander Adams ydoedd y cynrychiolydd yn adeg yr ymchwiliad gan y dirprwywyr a gyflwynasant eu hadroddiad yn y flwyddyn 1834. A chan fod cymaint o wahaniaeth rhwng y derbyniad a'r taliad ar y drysorged hon, heb yr un rheswm yn cael ei ddodi trwy hyny, cynghorodd y dirprwywyr a nodwyd ar i Mr. Owen, cyfreithiwr i blwyf Tywyn, geisio sicrwydd oddiwrth y Cadfridog Alexander Adams, am yr achos o'r gwahaniaeth hwn rhwng y 12p. 12s., cyfanswm blynyddol y cyfranau, ar 6p. 12s. unigol a delid i'r ysgol, ac i gyfrif am y gwahaniaeth i'r plwyf, os nad ei heglurid yn foddhaol.

Yr athraw ar adeg ymchwiliad yr unrhyw Ddirprwywyr, ydoedd John Thomas, yr hwn a benodwyd gan yr ebrwyad yn ngwanwyn y flwyddyn 1826. Yr ydoedd wedi derbyn fel cyflog 4p., blwydd-dal Vincent Corbet, a rhan o'r cyfranau a gyfodai oddiwrth Elusen y foneddiges Moyer, am yr hyn yr addysgai yn ddidraul 21ain o blant tlodion y plwyf o'r ddeuryw, mewn darllenyddiaeth Saesneg, ysgrifenyddiaeth, a rhifyddiaeth. Yr ydoedd yn cymeryd plant talu am 2s. 6c., y chwarter, i ddysgu darllen Saesneg, ac am o 3s. i 3s. 6c., i ddysgu ysgrifenu a rhifyddu. Nifer yr ysgolheigion ar y pryd ydoedd o 35 i 40, eithr amrywiai y rhif yn ol tymor y flwyddyn, ac yn ystod misoedd y gauaf byddai yn arferol o fod cynifer a 60. Byddai yn myned a'r plant i'r ysgol bob dydd Sabbath.

---

## ELUSEN Y PARCH. EDWART MORGAN.

I gael gweled ychwaneg o fanylion yn nghysylltiad â'r elusen hon nag a roddir yma, edrycher o dan benawd yr Elusenau, yn henafiaethau plwyf Llan Gelynin. Derbynid yr. 20s. blwydd-dal yn

Digitized by Google

rheolaidd gan y gwarcheidwaid eglwysig oddiwrth dir-ddeiliad tyddyn o'r enw Ty Croes, yn mhlwyf Celynin, pa un a ddylyedwyd â'r taliad hwn, y rhai a ddosberthid ganddynt hwy a'r gweinidog ar ddydd Llun y Pasg, ar ol y gwasanaeth eglwysig, ymysg yr hen bobl dlodion, a'r plant goreu am adrodd Holwyddoreg yr Eglwys.

---

## YR ELUSENDAI.

Dywed yr adroddiadau a roddwyd o flaen y senedd yn y flwyddyn 1834, y noda y rhai a ddodwyd ger ei bron yn y flwyddyn 1786, ddarfod i Ann Owen, ond pa bryd a thrwy ba weithred nis gwyddid, roddi tir yn cynyrchu 8p. y flwyddyn i wragedd gweddwon tlodion mewn ty o bum' anedd, yr hwn hefyd a roddodd yn mhentref Tywyn, ac ar y pryd yn aros yn meddiant Edward Corbet, Thomas Powel, a'r Parch. Mr. Maurice.

Yn adeg ymchwiliad y Dirprwywyr hyny, yr ydoedd pump o fwthynod yn mhentref Tywyn, y rhai a adeiladwyd gan Ann Owen, yn cael eu preswylio gan bump o wragedd gweddwon tlodion, plwyfolion Towyn, a phenodedig gan Athelstan Corbet, Ysw., Ynys Maengwyn, yr hwn a dalai 20p., mewn cyfran gyfartal o 4p., i bob un o honynt, o'i dyddyn, y Fadfa, ym mhlwyf Tywyn. Yr ydoedd hefyd yn cadw y bwthynod hyn mewn trefn.

Archwiliwyd ewyllys Ann Owen, a hawl weithredoedd Mr. Corbet, gan Mr. Owen, eithr heb gael gafael mewn unrhyw grybwylliad am y flwydd-dal hon. Dywed adroddiadau 1834 y mynega adroddiadau seneddol 1786 am yr Elusenau canlynol i'r tlodion, y rhai oeddynt ar y pryd* yn aros yn meddiant olweinyddion Henry Arthur Corbet; sef rhai Vincent Corbet, Ann Owen, Mrs. Hall, ac Ann Pugh, a'r oll yn cyraedd i 27p. Mynegir i Mrs. Ann Owen dalu 27s. yn flynyddol yn ystod ei bywyd, ac ar ei marwolaeth daeth ei heiddo i Henry Arthur Corbet, yr hwn a fu farw yn fethdalydd yn 1782, yn mherthynas i'w ddyled syml ei hun, er yr hwn amser nid oedd y plwyf wedi derbyn dim.

Tebygol mai at y Mrs. Hall a nodwyd y cyfeirir yn y sylwadau

* ef yn amser Adroddiad 1786.

canlynol yn un o hen lyfrau plwyf Tywyn. Y blaenaf wedi ei ysgrifenu yno yn Gymraeg a'r llall yn Saesneg :—

"Mrs. Hall, o Fridgnorth, a roddodd bum' punt i dlodion Tywyn yn 1740, ac y mae'r rhain ar lôg gida Mrs. Owen."

"Cofnod y talaf i yn flynyddol o'r dyddiad hwn, Ion. y 7fed, 1740, bum' swllt ar ddydd Gwener y Groglith, i dlodion plwyf Tywyn, y rhai ydynt lôg y pum' punt a roddwyd gan Mrs. Elizabeth Hall, o Bridgnorth, yr hwn lôg a adawaf ar fy olweinydd i'w talu, oddigerth y caf hyd i le dyogel yn ystod fy mywyd i osod allan holl arian y tlodion ag sydd yn fy llaw. AN. OWEN."

---

### TREFDDEGWM IS YR AFON: ELUSEN LEWIS LLOYD.

Gadawodd Lewis Lloyd, Dolycletwr, Swydd Aberteifi, boneddwr, trwy ei ewyllys, dyddiedig y 27ain o Dachwedd, 1691, i'w wyllysweinyddwr, ac arolygwyr olynol y tlodion yn mhlwyf Tywyn, am byth, yr oll o'r tyddynod hyny yn Nhafolgraig Isaf a Bwlch Llanercheidiol, gwerth oddeutu saith neu wyth bunt yn y flwyddyn, tuag at wasanaeth tlodion y rhan hono o blwyf Tywyn ag a elwir Parcel Is yr Afon, i'w rhanu yn gyfiawn a chydwybodol bob blwyddyn, am byth, ymysg y tlodion dywededig, heb na ffafr nac ochraeth; ond neb i gael cyfran o'r unrhyw heblaw y rhai hyny a fyddant wedi trigianu yn y dywededig Barcel Is yr Afon bedwar mis o leiaf cyn y derbyniont ddim; a chyfarwyddodd ei olweinyddwr a'r arolygwyr olynol dywededig, i sefydlu a diogelu yr elusen fechan hon, fel nas gallai fod dim siomedigaeth ynddi, ond fel y byddai iddi effeithio yn ddaionus, yn unol a'i amcan trwy ei ewyllys hon ; a gwnaeth Hugh Lloyd, ei frawd, ei unig olweinyddydd.*

Yn adeg ymchwiliad y dirprwywyr a roddasant eu hadroddiadau gerbron y Senedd yn y flwyddyn 1834, yr oedd tyddyn o'r enw Aber

---

* Yn ol y mynegiant o'r ewyllys hon yn un o hen lyfrau plwyf Tywyn, dywed yr ewyllysydd, Lewis Lloyd, i'r ystyr ei fod yn gadael y tiroedd hyny (ei holl etifeddiaeth) fel ag y gwnaeth, am mai oddiwrth ei ewythr, Lewis Lewis, y cafodd hwy yn uniongyrchol, a thybiai mai yn y Parcel a nodwyd,—Parcel Is yr Afon,—y ganwyd ei ewythr. Mynegir yn yr hen lyfr crybwylledig, iddo farw oddeutu wythnos cyn y Nadolig, y flwyddyn y gwnaeth ei ewyllys dan sylw.

Digitized by Google

Groes, yn mhlwyf Tywyn, cynwysedig o dyddyndy, a thai allan, a 128 o erwau, 3 pedwaren, a 35 ystang (gan gynwys y mynydd-dir), wrth fesur, yn osodedig i John Thomas, fel tirddeiliad o flwyddyn i flwyddyn, am yr ardreth ddigoll o 15p. y flwyddyn. Ac ystyrid fod yr ardreth hono yn rhy isel, a chyfarwyddodd y dirprwywyr ar i'r etifeddiaeth gael ei phrisio, a'i hail osod gan yr ymddiriedolwyr yn unol â'r prisiad hwnw. Derbynid yr ardreth yn haner blynyddol gan yr arolygwyr, y rhai a'i cymerent i gynorthwyo treth y tylodion. Ond cyfarwyddodd y dirprwywyr ar i'r dull hwnw gael ei roddi i fyny, ac i'r ardreth gael ei neillduo tuag at sefydlu ysgol mewn lle cyfleus, er mwyn buddiant holl blant tlodion trefddegwm Is yr Afon, yn ddidraul, yr hyn a gymeradwyid yn fawr gan yr ymddiriedolwyr a'r gweinidog, a'r gwarcheidwaid eglwysig, ac ymgymerasant â dwyn hyny oddiamgylch yn uniongyrchol.

---

## TREFDDEGWM CYNFAL FAWR. ELUSEN DAFYDD IFAN AC ERAILL.

Dywed adroddiadau Seneddol 1834 y mynega adroddiadau 1786, am yr elusenau canlynol i drefddegwm Cynfal Fawr, sef roddi o

| | P. | S. | C. |
|---|---|---|---|
| Dafydd Evan .. .. .. .. | 5 | 0 | 0 |
| Dafydd Huw .. .. .. .. | 5 | 0 | 0 |
| Miss Humphreys .. .. .. .. | 13 | 2 | 0 |
| | P.23 | 2 | 0 |

Ymddengys y derbyniwyd y symiau hyn gan y swyddogion plwyfol, ac iddynt eu cymhwyso at ddibenion plwyfol. Ond cyfarwyddodd y dirprwywyr a roddasant eu hadroddiadau gerbron y Senedd yn y flwyddyn 1834, ar i 1p. 3s. yn flynyddol mewn ystyriaeth o honynt, gael eu talu allan o'r trethoedd, a'u cymhwyso tuag at gynorthwyo yr ysgol rag-grybwylledig ag oedd i gael ei sefydlu yn nhrefddegwm Is yr Afon.

---

Digitized by Google

## TREFDDEGWM DAUDDYFFRYN A CHEFNRHOS-ISAF. ELUSEN RICHARD JONES.

Y mae Adroddiadau Seneddol 1834 yn mynegu y noda Adroddiadau Seneddol 1786, ddarfod i Richard Jones roddi 10p. i dlodion y trefddegymau Dau Ddyffryn a Chefnrhos Isa', y rhai ar y pryd oeddynt yn aros yn meddiant Lewis Edwards a Mrs. Rowlands.

Hefyd, ceir cofnodion i'r ystyr ganlynol yn Adroddiadau Seneddol 1834, wedi eu cymeryd allan o Goflyfr y Plwyf:—

"Hydref yr 8fed, 1773, derbyniwyd 5p. y pryd hyny oddiwrth Mr. Griffith, fel rhan ewyllyseg a adawodd Richard Jones, diweddar o'r Perfeddnant,* i dlodion plwyf Tywyn, genym ni L. Edward, Edward David."

"Y mae y gweddill, yr hyn yw 5p., yn nwylaw Mrs. Rowlands,† yn awr o Bont Fathew. Y mae llog y symiau uchod i'w dosbarthu i dlodion Dau Dyffryn, gan ebrwyad Tywyn, ac etifedd Crychnant. Adysgrifwyd o lyfr cyfrif y plwyf genyf fi, Jeremiah Griffiths, Ebrwyad Tywyn." Nid oeddid wedi derbyn dim oddiwrth yr elusen hon er's llawer blwyddyn yn flaenorol i amseriad ymchwiliad y Dirprwywyr a roisant eu Hadroddiadau gerbron y Senedd yn y flwyddyn 1834, ac nis gwyddid dim yn ei chylch y pryd hwnw.

---

## DYSYCHIAD MORFEYDD GLANAU AFON DYSYNI A MORFA DYFI.

Dechreuwyd sychu y tiroedd, neu y morfeydd, tua glanau afon Dysyni mewn cysylltiad â'r ffos-sychiad diweddar, oddeutu dechreu haf y flwyddyn 1865, a gorphenwyd tua diwedd Mehefin 1871. Y gost o'r dysychiad, gan gynwys pob treulion, oedd 26,105p. 15s. 3½c. Gorweddai y rhanbarth a benodwyd fel dosbarth y dysychiad yn mhlwyfydd Tywyn, Talyllyn, Llanegryn, a Llanfihangel y Pennant, yn ol fel yr oedd terfynau y rhai hyn ar y pryd. A mesurai y rhanbarth hwnw 2645 o erwau 3p. 23y. Cafwyd gweithred Seneddol

* Yn flaenorol o'r Crychnant, fel y dengys un o hen lyfrau plwyf Tywyn, ac yr oedd iddo frawd o'r enw Nicodemus Jones.

† Ymddengys i Mrs. Rowlands fod yn byw yn y Crychnant.

Digitized by Google

tuag at ddwyn hyn ymlaen. Cedwir y ffosydd yn agored trwy fath o dreth osodedig ar y rhai a ystyrir yn cael budd oddiwrth y dysychiad.

Dechreuwyd sychu Morfa Dyfi yn y flwyddyn 1863, a chafodd ei orphen yn y flwyddyn 1865. Dygwyd traul dysychiad y Morfa hwn gan ymddiriedolwyr etifeddiaeth Ynys Maengwyn.

Yn y 'Cambrian Quarterly Magazine' am y flwyddyn 1831, t., 60, ceir adroddiad gan George W. Buck ar enau Afon Dysyni, neu fel arall, Aber Dysyni. Amseriad yr adroddiad hwnw yw Hydref 30, 1830. Ac yn yr unrhyw adroddiad, dyd gynllun o gadw rhedle priodol i'r afon hon i'r mor tua'i genau, fel ag i atal croniad y dwfr ar y tiroedd cyfagos i'w glanau. Ymddengys, yn ol yr hysbysiad a gafodd ar y fan, y rhedai yr afon i'r mor trwy y bar oddeutu pum' mlynedd ar hugain yn flaenorol, ar hyd redle yn agos yn y cyfeiriad gorllewinol, ac wedi hyny y rhedai yn y cyfeiriad de-orllewinol, ar hyd wely lletach a basach, trwy y traeth i lawr at nod y distyll trai. Ac er y pryd hwnw hyd ddechreu y mis a nodwyd fel amseriad yr adroddiad, gyrwyd yr *agored trwy y bar*, yn raddol tua'r gogledd, trwy waith ymsymudiad y traeth, *a'r afon yn treiddio ei ffordd o gylch ei gohiriad*, ac wedi hyny llifai yn agos yn ddeheuol, gan ddianc mewn cyfeiriad cyfochrol tros fath o far ailraddol, yn tebygu i wyfren ddiddefnydd ar raddeg fwy; ac â dwfr yr afon trwy weithredu fel hyn yn llen denau, ni feddai nerth i symud ymaith y gro tros yr hwn y rhedai. Yn ystod gorlifau diweddar y mor, y rhai a ddilynid gan wynt dwyreiniol a chryn gyflawnder o lif o'r tir, torodd yr afon ei ffordd trwy y bar mewn cyfeiriad gorllewinol i'r dwfr wely a feddai cynt, yn y cyfnod a grybwyllwyd yn flaenorol, neu fwy nag ugain mlynedd yn ol i'r pryd yr ysgrifenai ei adroddiad. Yn ol ei hysbyswyd, parodd y perchenogion ar i redle fechan gael ei thori yn y fan yma ychydig o amser cyn i'r afon gwblhau y gwaith, ond barnai yn sicr nad oedd yr amser ymhell hyd nes y buasai yr un effaith yn cael ei gynyrchu gan achosion naturiol heb gynorthwy celfyddyd. Noda Mr. Buck, yn nghynwys ei adroddiad, y sylwyd fod y rhedfa newydd hon trwy y bar yn dyfnhau yn raddol er y pryd ei ffurfiwyd, trwy weithrediad y dylifiad, er nad oedd cyflawnder y dwfr o'r tir yn fwy nag arferol; eithr fod y gro ar yr ochr ogleddol i'r rhedle, mewn man a nodai yn ei ddarlun o'r aber, yn cilio ymaith, ac y dygai pob llanw ychwanegiad i fan, ar yr ochr ddeheuol, a nodai hefyd ar yr unrhyw ddarlun. Ystyriai fod yn amlwg, pe yr amddiffynid ochr ogleddol y rhedle trwy ryw foddion rhag traul ac adfail, y gellid ei chadw yn yr unrhyw fan yn sefydlog, oherwydd y

Digitized by Google

profwyd y meddai yr afon ddigon o rym i symud ymaith y gro, a ffurfio ffordd iddi ei hun trwy y bar, yr hwn oedd wedi cael mwy nag ugain mlynedd o amser i grynhoi, y byddai, o ganlyniad, yn ddigonol i symud ymaith yr hyn a allai gael ei ddwyn gan bob llanw yn olynol. A chan y deallai, os cedwid y rhedle yn y cyflwr yr oedd ar y pryd, yr atebai bob amcan ffos-sychiad, ac nad oedd dim mwy yn ofynol, a nododd allan y moddion drwy y rhai y tybiai yr effeithid hyny.

## ACHAU YR AWDWR, GAN MR. J. JONES *(Myrddin Fardd)*.

Edmwnt Prys, Archddiacon Meirionydd, ab Sion, ab Rhys, ab Gruffydd, ab Rhys, ab Einion Fychan, yr hwn a briododd Angharad ferch Gruffydd ab Cynfrig (disgynydd o Hedd Molwynog, un o Bymtheg Llwyth Gwynedd), ab Ifan, ab Rhys Wyn, ab Dafydd Llwyd, ab Madog, ab Goronwy, ab Cynfrig, ab Iddon, ab Idnerth, ab Edryd, ab Enethan, ab Japheth, ab Carwed, ab Marchudd—un o Bymtheg Llwyth Gwynedd.

Y Rhys ab Einion Fychan a nodwyd a briododd Catrin, ferch ac etifeddes Robert Fychan, ab Dafydd, disgynydd o Rhodri ab y Tywysog Owen Gwynedd. Mam Catrin oedd Myfanwy, ferch Ifan ab Howell, disgynydd o Gollwyn ab Tango, un o Bymtheg Llwyth Gwynedd.

Sion ab Rhys ab Gruffydd, ab Rhys, ab Einion Fychan, a briododd Sian, ferch Owain ab Llywelyn, ab Ifan, ab Madog, ab Rhys, ab Dafydd, ab Rhys Fychan, ab Rhys, ab Ednyfed Fychan, pen-cynghorwr a maes-lywydd enwog Llywelyn ab Iorwerth, yr hwn a briododd Tanglwst ferch Llywarch ab Bran, un o Bymtheg Llwyth Gwynedd, a'i mam oedd Gwenllian, merch Cynan ab y Tywysog Owain Gwynedd.

O briodas Sion ab Rhys â Sian ferch Owen ab Llywelyn, ab Ifan, ab Madog, ab Dafydd Fychan, ab Rhys, ab Ednyfed Fychan, y ganed Edmwnd Prys, Archddiacon Meirionydd, yr hwn a fu a dwy gyfnither—ag Elin ferch John ab Lewis, ab Ieuan, ab Einion, ceidwad Castell Harlech, ac â Gwen, ferch Morys ab Lewis, ab Ieuan, ab Dafydd, ab Ieuan, ab Einion, ceidwad Castell Harlech,

Digitized by Google

ab Gruffydd, ab Llywelyn, ab Cynfrig, yr hwn a briododd Nest ferch Gruffydd ab Adda, o'r Ddolgoch, yn Meirionydd, ac ydoedd fab i Osbwrn Wydd-walch—disgynydd o Nest ferch Rhys ab Tewdwr Mawr, ab Einion, ab Owain, ab Hywel Dda, ab Cadell, ab Rhodri Mawr. Mam Dafydd ab Ieuan ab Einion, oedd Angharad, ferch a chydetifeddes Dafydd ab y Gwyn Llwyd, Barwn yr Hendwr, yn Edeirnion; ac felly yn disgyn o Gruffydd ab Owain, Brogyntyn, ab Madog, ab Meredydd, Tywysog Powys. Disgynai hefyd o Elystan Glodrydd, Tywysog *Fferlis*, drwy i *Joan* ferch Elystan Glodrydd briodi Cadifor ab Gwaithfoed, o Aberteifi.

Mab yr Archddiacon Prys o Gwen, ei wraig gyntaf, oedd Ffowc Prys, yr hwn a briododd aeres y Wern, yn mhlwyf Llanfrothen; ac o'r briodas hon y ganed merch—Lowri, yr hon a briododd Robert ab Ifan, o Fwlch Coed Dyffryn, sef Tan y Bwlch, Maentwrog. Yn marwnad eu mab Evan Evans, Ysw., o Dan y Bwlch, y mae Sion Dafydd Lâs, telynwr a bardd, o Benllyn, yn dywedyd:—

"Un o lwythau goreu gwedd
Brig enwog bröau Gwynedd
Llin Edmwnd Prys, dawnus dôn
Eurwych hygoeth Archiagon."

Yr ail fab oedd Morgan Prys, yr hwn a briododd Margared Williams, etifeddes y Gerddi Bluog, yn Nyffryn Ardudwy; o'r hon y bu iddo bedwar o blant, ond ni bu namyn dau o honynt yn briod; un o'r ddau—Edward Prys, yr ail fab, a briododd Lowri Pool, o wehelyth Cae Nest, a Thyddyn y Felin; ac Edmwnd Prys, mab y crybwylledig Edward Prys, a briododd Margared Prichard, o Fron y Foel, yn Nyffryn Ardudwy; o'r hon y bu iddo ferch a dau fab, sef Lowri Prys, Edward Prys, a Robert Prys, ond bu Edward farw yn anmhriod. Lowri Prys a briododd William Pritchard, o'r Tyddyn Sieffre, wedi hyny o'r Pentref Bach, yn Nghelynin; a ganwyd iddynt y meddygon enwog, Richard Williams, Ysw., Dolgellau, a John Williams, Ysw., Talarfor, yn Eifionydd. Robert Prys, yr ail fab, a briododd Margared Puw, o'r Tŷ Gwyn, yn mhlwyf Dolgellau; o'r hon y ganed iddo ferch—Elin Prys, yr hon a briododd John Morris, o Benrhyn Dyfi, a mab o'r briodas hono yw Robert Prys Morris (*Robyn Frych*), yr hwn a briododd Elen, un o ddisgynyddion Oweniaid Dolffanog, yn mhlwyf Tal y Llyn, yn Meirionydd, ac y mae iddynt fab o'r enw a'r cyfenw John Prys.

Digitized by Google

# Y FFYRDD RHUFEINIG.

Y mae cryn lawer o sylw yn cael ei dalu i'r Ffyrdd Rhufeinig gan hynafieithwyr ac eraill. Ymddengys fod dwy linell o'r ffyrdd hyn yn myned drwy ranau o hen Gantref Meirionydd, ac feallai y dechreuwyd neu y gwnaed un o honynt mor foreu a'r rhan olaf o'r ganrif gyntaf o'r cyfrif presenol. Ond nid yw yn rhesymol tybio i'r un o'r ddwy gael eu gwneyd neu eu dechreu cyn dyfodiad Agricola i'r wlad tua'r flwyddyn 78. Ymddengys fod yr un sydd a'i llwybr yn myned heibio ar yr ochr orllewinol i Gadair Idris, yn rhan o'r ffordd a ddynodir fel y *Via Occidentalis*. Nid oes nemawr o fanau ar ei llinell gyfeiriol ag y gellir ei nodi yn benodol ar hyd ei hymestyniad ymlaen o lan afon Maw, neu y Fawddach, yr hon a red rhwng plwyf Llan Fachraith a phlwyf Trawsfynydd, hyd at lan Afon Dyfi yn ardal Penal. Ond trwy gymorth traddodiad, ac ychydig olion arosol, ynghyd a thebygolrwydd pethau, y mae yn ymddangos y gellir dynodi ei chyfeiriad cyffredinol yn lled gywir.

Ymddengys y rhed y ddwy ffordd hyn ar hyd yr un llinell a'u gilydd, ac megis un ffordd am rai milldiroedd yn nghyfeiriad Peny-stryd, yn mhlwyf Trawsfynydd, o'r hen orsaf Rufeinig Heriri Mons, yr hon a adnabyddir fel Castell Tomen y Mur. Ond heblaw y ddwy ffordd hyn ag ŷnt fel yn canghenu o'r un, a ymestyna yn unigol ar y cychwyn yn y cyfeiriad a nodwyd, allan o'r hen orsaf Rufeinig grybwylledig, tebygol y canghena un arall hefyd o'r ffordd gychwynol hono, gan droi ymaith drwy Gwm Prysor, ac ymestyn ymlaen dros y mynyddoedd tua Chaergai, yn nghymydogaeth Llanuwchllyn. Ac ymddengys y try ymaith o'r ffordd a nodwyd cyn yr ymwahana y ddwy arall.

Ond i sylwi yn mlaenaf yn fwy neillduol o barth cyfeiriad llinellol y ddwy a ymestynant trwy hen Gantref Meirionydd. Y mae yn ymddangos, os nad yw y ddwy hyn yn ymwahanu cyn cyraedd Pen

Digitized by Google

Stryd, neu o leiaf tua'r terfyn rhyngddo a'r tir dan glawdd yn nghyfeiriad Dolgain. Canys yn ol traddodiad ag oedd feallai agos a cholli o fysg y werin, y mae llinell y Ffordd Rufeinig yn cyfeirio i lawr trwy goed y Cefn,—Cefn Deuddwr, gan groesi afon Maw neu afon Mawddach yn Rhyd Meirion, yn ngwaelod y coed hyny, a hon yw yr un a el heibio yn orllewinol i Gadair Idris. Ar ol myned trwy Ryd Meirion, pa un sydd yn croesi y Faw neu y Fawddach o blwyf Trawsfynydd i blwyf Llanfachreth, ac felly i hen Gantref Meirionydd, el ymlaen trwy fynydd Bwlchrhoswen, man y mae neu yr oedd peth o'i hol i'w ganfod, eithr mor lleied fel oni bai am draddodiad, nid nid yw yn ymddangos y meddyliasid mai dyma oedd. Yna ymestyna ymlaen, gan fyned heibio, tebygol, tua Nannau. A chryn bellder wedi croesi yr afon Wnion (Wynion) y mae ei llinell i'w chanfod yn dringo i fyny Llwybr Cam Redynen, ar hyd llechwedd-dir mynyddig tua phen mynydd Gwastadfryn, yr hwn sydd o'r tu arall ac yn mhlwyf Llanfihangel y Penant. Yn mhellach ymlaen y mae ar Ffridd Nancaw Fawr, olion ffordd figamoga hafal i Lwybr Cam Redynen, yn cyfeirio i lawr goriwaered y talcen agosaf i fynydd Nantcaw Bach, i'r ffordd hono, gan fyned tros y terfyn i'r mynydd hwnw, a chroesi cornel fechan iddo. Ac ymddengys mai parhad o'r ffordd Rufeinig sydd yn y manau hyn. Yna, ar ol croesi Cwm Llanfihangel,—Llanfihangel y Penant,—neu, yn hytrach, y dyffryn prydferth hwnw, a chroesi Cwm yr Aber—Abergynolwyn,—a chyraedd ymlaen hyd at fwlch bychan sydd megis yn ael y tir rhwng Taran yr Hendre' (y Daran Lygos neu Lygoes), a'r Daran Fach, tebygol na fethir wrth nodi fod ei llinell yn myned trwy y bwlch bychan hwn, gan ymestyn gwedi hyn ar hyd led-traws y Daran a nodwyd flaenaf, a chyraedd tros y tir i ochr Penal. Yn Mwlch Pawl, man, fel y nodwyd eisoes, yn hynafiaethau plwyf Penal; penodwyd y bwlch hwn (Bwlch Pawl) gan Rhodri Mawr i fod yn eisteddfa barn er penderfynu ymrafael a allai gyfodi rhwng Talaeth Dinefwr a Thalaeth Aberffraw. Ar y gwastadedd wrth bentref Penal, y tu isaf iddo, y mae llain gul o dir rhwng deuglawdd, ag y dywedir am dani ei bod yn ffordd Rufeinig. Pwyntia y pen isaf iddi tuag afon Dyfi, yn nghyfeiriad y Deheudir, ac ymestyna megis efo afon Benal, heb fod ond lled cae cul rhyngddi a'r afon hono. Ac yn agos iddi, y mae tyddyndy a elwir Cefncaer, lle yr ystyrir y safai gynt orsaf filwrol Rufeinig.

NODIAD.—Darganfyddwyd llafn picell fain o ryw fath o elydr ar y seithfed o fis Gorphenaf y flwyddyn 1887, yn nghymydogaeth neu ar gwr Aran Fawddwy. Neu fel arall, ymddengys mai ar neu tua'r fan a elwir Bwlch Cosyn ei cafwyd, yr hwn sydd gerllaw. Y mae yn nghadw yn Amgueddfa yr Athrofa yn Aberystwyth.

Digitized by Google

Yn nesaf, ceir sylwi o barth cyfeiriad y ffordd Rufeinig arall, ag y mae ei llinell yn myned trwy hen Gantref Meirionydd. Yn ei chyfeiriad oddiwrth Gastell Tomen y Mur, elai, yn ol fel yr ymddengys, trwy y Cae Mawr, perthynol i dyddyndy Tyllwyd, ac ymlaen rhwng pentref Trawsfynydd a gorsaf ffordd haiarn y Bala, a thrwy y cae a elwir Cae Deintur, perthynol i'r Pandy, a thrwy Rhos Ucha', y Tyddyn Bach, a ffridd y Gilfach Wen, a mynydd Pen Stryd, at yr hwn y cyfeiriwyd eisoes. Cyfeiria o fynydd Pen Stryd, yn yr hwn y mae i'w gweled yn eglur, tua Chwm Dolgain, gan fyned ymlaen yn rhywle rhwng Bedd Porus a'r maen hir, a adnabyddir fel Llech Idris, gan groesi afon Cain i dir Dol y Mynach. Y mae i'w gweled yn cyfeirio i fyny heibio i dyddyndy Dol y Mynach, ychydig bellder oddiwrtho, ac ar y tu agosaf iddo i Bistyll y Cain. Yna el ymlaen i fynydd Bryn y Gath, ar yr hwn y mae i'w gweled, gan fyned ymlaen, fel yr ymddengys, i dir Pantglas, ac ystyrir yr el trwy ran o dir Brynllin, a chroesa y Fawddach, yn rhywle neu gilydd yn ŷ gymydogaeth, i blwyf Llanfachreth, gan fyned ymlaen i fynydd Rhiwfelen. Yna elai ymlaen i fynydd Dolcynafon, a thros Gefn yr Eryr, tebygol, i gyfeiriad ardal Rhyd y Main. Ond ymddengys nad yw yn ganfyddadwy ar Gefn yr Eryr, mwy na llawer man arall ar hyd llinell ei chyfeiriad. Y tu draw i Ryd Wnion, elai ymlaen o dan yr enw Ffordd Elen, rhwng tir y Gotres Lwyd a thir Pantpanel, ac ymlaen am ryw hyd trwy dir Ty'n y Coed. Cyfeiriai i fyny heibio beudu Ty Newydd Ucha,—a dywedir y codwyd palmant o honi tua'r beudu hwn i wneyd clawdd ceryg. Ac elai ymlaen oddiyma tros y ffriddoedd i gyfeiriad Bwlch Oerddrws, a thebygol y cyfeiria ei llinell ymlaen trwy y bwlch hwn.

Ceir sylwi bellach o barth llinell y gangen arall o'r Ffordd Rufeinig y cyfeiriwyd ati, yr hon sydd yn croesi Cwm Prysor. Y mae hon yn myned ymlaen dan yr enw Ffordd Elen, trwy ddwy ffridd Coed Caedu, fel yr ymddengys, a thrwy Gae Eithyn, perthynol i'r Llwyn Crwn, ac ymlaen trwy fan o'r enw Pantsellar, perthynol i'r unrhyw dyddyn. Ac oddiyma ymlaen i gyfeiriad tyddyndy o'r enw Dola Dinas, ac ar ran o'r llethr tuhwnt iddo y mae i'w gweled yn amlwg am ychydig o hyd, a'i chyfeiriad sydd o tua'r man yr ymuna Nant Bwlch y Llu â Nant Moel Croeso â'u gilydd. Yna êl ymlaen ar hyd fynydd-dir o'r enw Bryn Du, ac i ffridd y Faid Filldir, lle y mae i'w chanfod yn myned heibio yn agos i Lyn Aethlun, pa un a berthyn i dyddyn Bryn Clynog. Yna, encyd yn mhellach ymlaen, y mae i'w chanfod, yn ol fel yr ystyrir, yn cyfeirio ar osgo tuag at Afon Prysor, o gyfeiriad Castell Bryn Clynog. A dywedir fod safle ei llinell, ar y tu arall i'r afon hono, gerllaw

bryncyn ag sydd encyd o bellder oddiwrthi, ac ar y Cornel agosaf i Foel Dol Haidd at Gastell Bryn Clynog. Yna cyfeiria tua Moel yr Wden, ar hyd ledtraws yr hon y mae i'w gweled yn amlwg. A chroesa y tir, fel yr ymddengys, i'r bwlch sydd rhwng bryncyn ar ben Moel y Geifr a Moel y Twr, gan fyned trosodd yn y bwlch hwnw o blwyf Trawsfynydd i blwyf Llanuwchllyn, heibio godreu Moel y Geifr. Ac yna ymlaen, fel yr ymddengys, gerllaw godreu yr unrhyw fryncyn, hyd at fan o'r enw y Gwter Ddu, gan groesi ar ledtraws tua phen uchaf y fan, oddeutu y llinell derfyn rhwng y ddau blwy a nodwyd, ac ymlaen at y llethr sydd uwchlaw Cors Moel Llechi,* lle y mae i'w chanfod yn eglur. Yna cyfeiria ymlaen trwy le gwlyb a brwynog, o'r enw Sarn y Frenhines, gan fyned tros fan a elwir Cefn Amnodd, ar odreu ac ochrau pa un y mae ei llinell i'w gweled. Yna, yn ol a ddywedir, cyfeiria ymlaen i ffridd a elwir Ffridd Castell,† perthynol i Hendref Blaenlliw, a thrwy Ffridd Bach, perthynol i'r unrhyw dyddyn, ac ymlaen i Fynydd Hendref Blaen Lliw a Buarth y Meini, gan gyfeirio ar hyd warthaf Banciau Beddau y Cawri. Yna elai ymlaen drachefn i ffridd perthynol i dyddyndy o'r enw Castell y Waen,—Waen Bryn Coch. Ac y mae olion o honi i'w gweled ar y ffridd hon, mewn gwlyble, man y dywedir y codwyd polion derw oddiar eu gorwedd o honi, rhai o honynt wedi eu hollti, ac eraill heb, ac yn mesur, ar draws amcan, ryw bedair troedfedd neu ddwy lath o hyd. Diameu y cyfeiriai ymlaen oddiyma at Gaergai, lle y mae olion hen gaerfa,—caerfa Rufeinig, fel yr ymddengys. Yna, wedi yr eler y tu hwnt i'r gwastadedd a ymestyn oddiwrth ben Llyn Tegid, ar hyd y llethr perthynol i dyddyn o'r enw y Gyrn, gellir ei gweled yn amlwg ar y mynydd hwn.

---

* Moel Slates ei gelwir gan y werin.

† Y mae y fan ag y golygir fod ei llinell ar y ffridd hon, yn agos i glawdd y mynydd sydd oddiarni.

Digitized by Google

# CANTREF GWAELOD.

Yn ol a ddywedir ar lafar gwlad, gorlifodd y mor tros Gantref Gwaelod ryw dro cynt, ac y mae dyfroedd y fachwy, ag sydd yn ymestyn rhwng glanau Arfon a glanau Ceredigion, yn gorwedd ar ei mangre. A mynega y Trioedd hefyd y gorlifwyd Cantref Gwaelod gan y mor. Ac y mae y naill a'r llall yn gosod allan i hyny gymeryd lle oherwydd cam weithrediad gyda'r llifddorau, eithr ceir cyfeirio at hyn eto.

Nid yw yr enw Cantref Gwaelod ynddo ei hun yn brawf o hyn; ac ymddengys na wna yr enw yn y wedd hon, mewn ystyr, fwy na golygu cantref ar waelod gwlad, ac y gelwid yr unrhyw yn Gantref Gwaelod yn flaenorol i'r gorlifiad honedig. Y mae enw tyddyndy yn Nghwm Nantcol, rai milldiroedd oddiwrth forlan Ardudwy, yn ategiad cryf i'r syniad hwn. Enw y lle hwnw yw Hendref Waelod, pa un sydd yn dra dynodol o ddullweddiad rhan o'i dyddyndir perthynol; canys math y waelottir yn y cwm ydyw, ond saif y tyddyndy ychydig yn uwch i fyny na bod yn adeiledig arno. Er hyny, diameu y derbyniodd y cyfryw (ond tebygol nad yn uniongyrchol) yn herwydd y gwaelot-tir hwnw, os nad ydys i ddeall mai yn herwydd rhyw berson neu gilydd o'r enw Gwaelod ei cafodd. Ac os felly, yr ydys i ystyried mai dwyn enw personol y mae y Gantref hon,—Cantref Gwaelod. Adnabyddid y fangre, lle yr ystyrir y gorwedd Cantref Gwaelod, fel Dyffryn y Cogau gan rai o hen breswylwyr Lleyn ac Eifionydd, ac y mae hyn yn gadarnhad i'r honiad o'r barth y gorlifiad.

Dywed rhai y cynwysai Cantref Gwaelod holl faintioli morgilfach Ceredigion, tra nad yw eraill yn priodoli cymaint helaethder iddi. Ceir yn y 'Brython' y syniad dilynol yn ei chylch:—"Sefyllfa y Gantref hon sydd yn y gwastadedd ar yr ochr ddeheuol i Sir Gaernarfon, gyferbyn a Meirion, ac yn nghyfeiriad gogledd-orllewinol Ceredigion........Ac ar wahan oddiwrth hyny o hanesiaeth ar gof

Digitized by Google

a chadw, ymddengys mai yr ochr nesaf i Arfon y safai y gantref, a gwely y môr rhyngddi â Cheredigion." Dywedir yn yr Arch. Camb., "Mai tebygol pe tynid llinell unionsyth o Ynys Enlli hyd y Ramsey yn Mhenfro, y dangosir helaethder y tir a gollwyd trwy y gorlifiad." Pa faint bynag o dir a gollwyd yn y fachwy a ymdona rhwng glenydd Arfon a Cheredigion, y mae yn ymddangos mai dosran o dir yn gorwedd mewn rhan gogyfer ag Ardudwy, gan ymgydio hefyd a'r unrhyw oedd Cantref Gwaelod yn benodol, ac nad oedd namyn o faintioli cantref gyffredin. Ond nid yw hyn yn golygu na foddwyd llawer ychwaneg o dir na'r Gantref hon.

Mewn perthynas i orlifiad y môr dros y Gantref, dywed y Trioedd fel hyn:—"Seithenyn feddw ab Seithenyn Saidi, brenin Dyfed a ollyngwys yn ei ddiawd y mor dros Gantre'r Gwaelod, oni chollwyd o dai a daer y maint ag oedd yna, lle cyn hyny y caid un dinasdref ar bymtheg yn oreuon ar holl drefydd a dinasoedd Cymru, a gaud yn amgen Caerlleon ar Wysg; a chyfoeth Gwydnaw Garanhir brenin Ceredigiawn ydoedd Cantre'r Gwaelod; ac yn amser Emrys Wledig y bu hyny; a'r gwyr a ddianghasant y rag y bawdd hynny a diriasant yn Ardudwy, a Gwlad Arfon, a mynyddoedd yr Eryri, a lleoedd eraill nad oeddynt gyfannedd cyn no hyny."

Dywedir ar lafar gwlad i'r fan gael ei boddi oherwydd gwall gyda'r llifddor. Ond nid yw y gwahanol ddywediadau yn cyduno ar bwy yr oedd y bai, nac o ba herwydd y digwyddodd. Canys rhai a ddywedant mai bachgen gwirion (anmhwyllog) a'i hagorodd pan oedd y bobl yn yr eglwys; eraill a ddywedant mai menyw aeth i olchi a'i gadawodd heb ei gau. Ond dywed eraill drachefn mai y dyn ag oedd yn edrych ar ol y llifddor a anghofiodd ei gau yn ei feddwdod. Cyduna y dull canol o'r tri a'r ystyr a roddir gan D. Silvan Evans yn ei gyfieithiad Saesneg o'r geiriau *morvin** a *vachteith** a geir mewn hen gerdd o barth y boddiad (gweler "The Four Ancient Books of Wales," Skene., cyf. i. a ii., tud. 302 a 59, 60). Canys yn ol y cyfieithiad Saesneg o honi, golygant lances, morwyn. Ond ceir yn y gerdd gyfeiriad hefyd at loddest neu anghymedroldeb, ac feallai at wendid synwyr naturiol Seithenin yn y llinell olaf ond un o honi, yr hon sydd fel y canlyn:—

"Bedd Seithenin synuir vann."

Ond, yr un pryd, dichon nad oes yma namyn cyfeiriad at ei weithred honedig yn mherthynas i'r llifddorau. Rhed y gerdd fel hyn, yn ol y darlleniad yn Llyfr Du Caerfyrddin:—†

SEITHENHIN sawde allan.
Ac edrychuirde varanres

* "Damsel" a rydd am y cyntaf, a "maiden" am y llall.
† The Four Ancient Books of Wales, Skene. cyf. ii., t., 59—60.

Mor. maes guitnev rytoes.
Boed emendiceid y morvin
Aehellyant guydi cvin.
Finaun wenestir mor terruin.
Boed emendiceid y vachteith.
Ae. golligaut guydi gueith.
Finaun wenestir mor diffeith
Diaspad vererid y ar vann caer.
Hid ar duu y dodir.
Gnaud guydi traha trangc hir.
Diaspad mererid. y ar van kaer
Hetio. hid ar duu y dadoluch.
Gnaud guydi traha attreguch.
Diaspad mererid am gorchuit
Heno. ac nimhaut gorlluit
G. g. tra tramguit.
Diaspad mererid y ar gwinev
Kadir kedaul duv ae gorev.
Gnaut guydi gormot eissev.
Diaspad mererid. am kymell
Heno y wrth nyistauell.
Gnaud guydi traha trangc pell.
Bet Seithenhin synuir vann
Rug kaer kenedir a glan.
Mor maurhidic a kinran."

Fel y gwyddis, y mae dywediad yn y wlad yr amddiffynid y Gantref gan forglawdd, rhag cael ei gorlifo gan y mor. Ac y mae amryw o gefnau dan yr enwau Sarnau, yn ymestyn i'r mor oddiwrth leoedd ar y glanau, sef Sarn Cynfelyn a Sarn Cadwgan, ar dueddau Ceredigion; a Sarn y Bwch,* Sarn Badrig, a Sarn Siria, ar dueddau Swydd Feirionydd. Rhed Sarn y Bwch allan i'r mor yn nghymydogaeth Aberdysyni; Sarn Badrig, o gyfeiriad Ardudwy; a Sarn Siria o tua chyfeiriad trwyn Mochras. Gerllaw Sarn Siria, ac ar y tu deheuol iddi, y mae, yn ol a ddywedir, un ar bymtheg o geryg, y rhai a elwir Ceryg Siria. A rhwng Sarn Siria a Cheryg Siria ar un llaw, a Mochras—Ynys Mochras—ar y llaw arall, y rhedai afon Artro i'r mor gynt. Eithr yn awr, abera yr afon hono i'r mor rhwng Mochras a Llan Danwg, a hyny ar hyd wely a dorwyd iddi gan

* Y mae ar Ben y Bwch, mangre dirol yn nghymydogaeth Sarn y Bwch, olion hen gaerfa filwrol o ryw amser pell yn ol. Ac yn ol a glywais gan hen fugail gynt, ymddengys y dywedid y bu rhyfel rhwng gwyr y gaerfa hon, neu ryw un arall yn y gymydogaeth, a'r rhai oedd yn perthyn i'r Castell yn Nghoed Dysefin (Maes Hefin), yn mhlwyf Llan Fihangel y Pennant.

law ddynol. Cauwyd genau yr hen Aber—Aber yr afon Artro,—tua'r flwyddyn 1843, ac ni ddeuid a llongau i fyny yr afon ar hyd ei hen redle yn uwch na'r odyn galch, pa un sydd a'i mangre, yn ol a ddywedir, ryw haner milldir o bellder oddiwrth enau yr afon. Bum yn nglan y mor yn nghymydogaeth Ceryg Siria ddydd Gwener, yr 21ain o Fedi, 1888, ond ni fu y trai yn ddigon isel brydnhawn y diwrnod hwnw i'm allu gweled ond nifer fechan iawn o honynt.

Yn mherthynas i enw Sarn Badrig, gellir sylwi y dywed Pennant mai mwy priodol na Sarn Badrig, yw Badrhwyg. Ond modd bynag am y priodoldeb, neu pa faint bynag o fadau neu longau a rwygwyd ganddi, Sarn Badrig ei gelwir, ac y mae y dynodiant o Badrig a geir arni yn cyd-daro âg enw tarddell o ddwfr sydd yn nghymydogaeth Llanbedr, yr hon a elwir ffynon Badrig; ac hefyd â dynodiant enwol ffridd yn y gymydogaeth, yr hon a elwir Bron Badrig. Sylwa un ysgrifenydd nad yw y Sarnau hyn* namyn gwelyau o greigiau sylweddol yn ymestyn i'r mor mewn gwahanol gyfeiriadau, ac yn orchuddedig gan dywod; ac yr hona eraill mai ar y creigiau hyn yr adeiladwyd y cloddiau, a bod cyfranau o honynt i'w cael yn awr islaw y mor. Y mae rhai hefyd yn tybio mai prif-ffyrdd y wlad oeddynt.

Ar y 30ain o Ionawr, 1877, ysgrifenwyd ataf yn enw a thros y diweddar Mr. Evan Evans,† Ap Ieuan, gynt o'r Ty Mawr, ger Tywyn, Meirionydd, awdwr "Undeb yr Eglwys,"‡ o barth y Gantref hon fel hyn:—"Nid wyf yn credu yn chwedl y gorlifiad, ond gall yn hawdd er hyny fod yr holl for, a elwir morgilfach Aberteifi, yn wastadtir prydferth amseroedd yn ol, ac iddo gael ei falurio yn raddol fel y malurir y gweddill o hono yn yr oes hon." A dywed hefyd, "Nid ydynt yr haenau cerig a welir yno yn profi dim ychwaith, ond i'r ddaear gael ei malurio oddiwrthynt gan y mor, ac nid ydynt yr haenau ond cyffelyb i haenau a welir mewn llawer man mewn dyfnder daear."

---

*Os yw yn cyfeirio at Sarn Siria fel un o honynt, ac os nad ydyw, rhaid ei heithrio yn y gair *hyn* uchod. Nid yw ei sylw wrth law yn awr.

†Gweler cyfeiriad ato yn mhellach yn ol. Bu farw yn Mhorthmadog, ar yr 22ain o Fedi, 1882, lle yr oedd wedi myned i drigianu at ei ferch a'i fab-yn-nghyfraith. Yr oedd wedi colli ei olwg er's blynyddoedd, er hyny byddai yn gallu ysgrifenu â phwyntil trwy gymorth llinellydd.

‡Llyfryn bychan barddonol gan mwyaf.

NODYN.—Yn nghysylltiad â ddywedwyd yn y tud. 252, o barth yr *i* derfynol yn enwau afonydd; ac hefyd yn nghysylltiad â'r sylw a wnaed yn nhud. 489, wrth ymdrin â'r enw Llugwy, lle y cyfeirir at Afon Ddyfi, ceir nodi yma yr ymddengys mai prin y gellir ystyried yr enw Dyfi sydd arni fel dynodiant o honi fel y Ddofwy. Canys yn mhlwyf Llanfor (?) yn nghymydogaeth y Bala, y mae tyddyndy yn dwyn yr enw Tyddyn Dyfi. A thebygol mai dwyn enw personol y mae oddiwrth ei dyddyndir perthynol. Ac os felly, yna tebygol mai dwyn enw personol y mae Afon Ddyfi.

Digitized by Google

Y mae Mr. Edward Edwards, Faenol, yn mhlwyf Tywyn, yn cofio ei dad (Rolant Edward, o'r un lle) yn dweyd ei fod ef yn cofio y gareg filldir ag sydd yn awr ar ei phen yn y gro, yn agos i Neptune Hall, yn sefyll gynt ar godiad o dir glas; ac i'r môr dreulio o'i deutu, ac iddi gael ei llusgo yn mhellach i'r unrhyw godiad oddeutu ugain llath; ac ddarfod i'r môr dreulio o'i deutu drachefn, ac ei llusgwyd ymlaen i'r tir eilchwyl rywbeth yn debyg o ran pellder. Y mae pen uchaf y ro, neu forglawdd naturiol y môr, nifer o latheni yn nes i'r tir na'i safle bresenol. Bu y crybwylledig Rolant Edward farw yn y flwyddyn 1856, yn 82 mlwydd oed. Careg filldir oedd hon, a berthynai i'r hen ffordd a arweiniai gynt o Dywyn i Aberdyfi, ac a osodwyd i ddynodi pellder o un filldir o'r lle a enwyd flaenaf. A chyn gwneyd y brif-ffordd bresenol rhwng y lleoedd a nodwyd, pa un a wnaed ryw 63 mlynedd yn ol i'r flwyddyn 1888, elai cynhebryngau ar hyd yr unrhyw hen ffordd o gymydogaeth Aberdyfi i Dywyn. Ac yn fwyaf cyffredin, os gellid, gan amgylchiadau amser y marwolaethau, cleddid ar y Suliau, a hyny am y rheswm y byddai yn haws cael digon o bobl ynghyd i'r cynhebryngau tuag at gario y meirw o bellder hir ffordd i'w hargel fanau yn mynwent Tywyn. Ond ymhen amser aeth yr Ymneillduwyr i ddweyd yn erbyn hyn, ac o'r diwedd rhoddwyd yr arferiad i fyny yn llwyr, a hyny feallai er's tua 55 o flynyddoedd yn ol o'r flwyddyn a nodwyd (1888).

Yn nghyfarfod y Gymdeithas Ddaearegol,* a gynhaliwyd yn mis Tachwedd, y flwyddyn 1832, ceir y sylwai y Parch. James Yates, mewn perthynas i'r goedwigfa danforawl yn machwy Ceredigion, yr ymestyna ar hyd arfordir Swydd Feirionydd a Swydd Aberteifi, gan gael ei gwahanu yn ddwy ran gan forgainc Afon Ddyfi, yr hon sydd hefyd yn gwahanu y swyddi hyn. "Ffinir hi," meddai, "ar ochr y tir gan draeth tywodlyd a mur o raian garw. Tuhwnt i hyn y mae rhandir o gorsle, a morfa ffurfiedig gan ffrydiau o ddwfr, y rhai sydd yn ymarllwys mewn rhan trwy hidlo trwy y tywod a'r graian garw hwn. Ymresyma, gan fod sefyllfa y mur hwn yn agored i symud, y gallai iddo fod yn amgau y rhan sydd yn awr o dan y mor, ac nad yw yn angenrheidiol tybio gwaelodiad wedi ei ddwyn ymlaen gan effaith gweithrediad tanforawl.

Gesyd rhai i'r gorlifiad gymeryd lle rhwng y blynyddoedd 500 a 560; eithr cyfeirir at yr amseriad gan un ysgrifenydd i'r ystyr a ganlyn:—"Y mae lliaws o amgylchiadau yn fy arwain inau i feddwl y rhaid y digwyddodd mewn cyfnod boreuach na'r bumed ganrif, canys pe cymerasai le mor ddiweddar a'r amser hwnw, cawsid hanes gwell a mwy amgylchiadol am dano yn gysylltiedig â

* **Rees' Welsh Saints, nodyn, tudal. 235.**

Digitized by Google

hanes Cymru yn yr unrhyw gyfnod, ac nid ydym yn cael dim yn y darluniad daiaryddol o'r wlad yn amser y Rhufeiniaid i ffurfio tybiaeth bod unrhyw helaethder mawr neu drefydd o bwys yn eu hamser hwy yn y man y gorwedd morgilfach Aberteifi. Ni ydym yn cael yn Nheithlyfr Antonius, neu Ptolemaus, neu yn ngweithiau Richard o Cirencester, fod yno unrhyw diriogaethau ehang. Ac nid ydyw yn debyg, pe buasai yno y cyfryw randiroedd ehelaeth yn amser y Rhufeiniaid, y gadawsant hwy yn ddisylw; felly gallwn gasglu yn rhesymol i'r boddiad ddigwydd yn rhyw gyfnod cyn y cyfrif Cristionogol."

Dywed y Proffeswr Rees* i'r ystyr ddilynol:—"Credir mai y cyfnod rhwng y blynyddau 500 a 550 a argynwys ddyddiad y trychineb ar arfordiroedd Cymru, am yr hwn y mae yr hanesion mwyaf gormodol a chyfriniol wedi cyraedd olafiaid. Oblegid honir i ruthriad y mor i mewn ar randir mawr o dir, yr hwn y mae yn parhau i'w orchuddio, gan ffurfio holl forgilfach *Aberteifi*. Nid yw yn angenrheidiol aros ar y profion, nas gallai y cyfryw drychineb ddigwydd i'r helaethder a draethwyd, gan fod tystiolaeth Ptolemy, yr hanesyddwr mor bell yn derfynol yn erbyn y traddodiad. Noda yr awdwr hwn, ag oedd yn byw yn yr eilfed ganrif, y pentiroedd, gan y rhai y mae machwy Aberteifi yn gyfyngedig, a geneuau yr afonydd a ddeibynia, yn agos yn yr un cyfleadau perthynol ag a gadwant yn bresenol, gan roddi lledred a hydred pob lle yn ol ei ddull o gyfrif. Nid yw yn afresymol, pa fodd bynag, i dybio i ddigwyddiad gymeryd lle, cyffelyb i'r un a osododd diroedd Iarll Goodwin dan ddwr ar arfordiroedd dwyreiniol Lloegr. Gorlifwyd rhandir o wlad isel ar hyd arfordir Aberteifi a Swydd Feirionydd, o'r hon y mae peth gweddillion yn aros; a chan ei gelwid Cantref y Gwaelod, tebygol nad ydoedd yn fwy o faintioli na chantref mewn unrhyw ran arall o Gymru."

O barth Ptolemy, dywed Ap Ieuan yn nghorff y gwreiddiol o'r hyn a ddyfynwyd mewn rhan eisoes, fel hyn: "Nid yw fod Ptolemy, yr hanesydd Rhufeinig, yr hwn fu yn gweled y forgilfach mor

* Rees' Welsh Saints.

NODYN.—Aeth llawer o flynyddoedd heibio er pan ddechreuwyd ysgrifenu y llyfr hwn cyn ei orpheniad, a threuliwyd hir amser yn nghorff y rhai hyny yn ei ddygiad ymlaen. Ond eto, er hyn, dichon yr arferwyd gormod brys yn aml. A chan y caed allan yn fuan wedi dechreuad ei argraffu fod yn ofynol ei helaethu, arferwyd gormod brys gyda rhan o hono yn herwydd hyn, yn enwedig gyda rhai cyfeithiadau. Ond gellir sylwi ddarfod, oherwydd pwys lled angenrhaid, fod yn rhy frysiog hyd yn nod yn flaenorol i'r amgylchiadau hyn, a hyny yn mherthynas i helynt y Gwyddelod, &c., yn Ngwynedd, yn nghysylltiad â damcaniaeth awdwr enwog sydd yn oesi yn awr; eithr ni olygir wrth hyn dyniad yn ol ddim o ystyr a ddywedwyd yn yr unrhyw berthynas neu gysylltiad.

Digitized by Google

ddiweddar a'r ganrif gyntaf, oed cred, ac yn dweyd fod y forgilfach y pryd hwnw yr un ffurf ag y darlunir y lle yn yr oes hon, yn profi dim; gallai ei fod yr un ffurf, ond rhaid ei fod filldiroedd yn gulach; ac yr ydym yn colli yn barhaus."

Tebygol fod dyfaliad y Proffeswr Rees yn gywir o barth maintioli Cantref Gwaelod, ond nid yw hyn yn cau allan na foddwyd ychwaneg o dir na'r Gantref hon. Ac er fod yn ddiameu i dir ar y glenydd gael ei feddianu yn raddol gan y mor, eto ymddengys oddiwrth y Trioedd i orlifiad penodol ddigwydd, pa faint bynag o fwyafiaeth sydd ynddo, ac o ddychymyg disail o barth yr achos o'r boddiad.

Hefyd ymddengys oddiwrth Achau Saint Ynys Prydain, yn ysgrifau Iolo,* fod a fynai Seithenin, neu rai o'i feibion, neu y naill a'r llall a chyfran o dir a foddwyd yn machwy Ceredigion. Canys ar gyfer rhestr o enwau ynddynt, ceir y sylw a ganlyn yn eu cylch:— "Meibion Seithenin ab Seithin, frenin o faes Gwyddno a oresgynnes y Mor ei Dir, a myned a wnaethant yn Saint ym Mangor Fawr ym Maelawr yng Nglan Dyfrdwy, yn gosail Dawn Cyngen Frenin ap Cadell Deyrnllwc." Yn mhellach yn ol yn yr Achau, ond gyferbyn â nifer llai o enwau, ceir a ganlyn, "Meibion Saethenin o Faes Gwyddno yng Ngheredigion a oresgynnes y Mor eu Tiroedd Myned yn Saint, Bangor Dunawd." Gellir sylwi mai yr un yw y Fangor y cyfeirir ati yn y ddau ddyfyniad, ond bod gwahaniaeth yn yr enw, ac mai yr un yw hefyd a Bangor-is-y-Coed. Ond dichon mai nid yr un man oedd Maes Gwyddno a Chantref Gwaelod, yr hyn hefyd sydd fwyaf tebygol, ac nad oedd Cantref Gwaelod yn benodol fel man yn dwyn yr enw gynt yn cyraedd i'r de i Afon Ddyfi.

Ceir yn y Cof Cyfarwyddyd yn ysgrifau Iolo† fynegiant am ddau drychineb o barth boddiad tir yn machwy Ceredigion, os nad ydys i ddeall mai mynegu y maent ill deuoedd am yr un trychineb a'u gilydd. Eithr heb awgrymu y naill ffordd na'r llall pa un, gellir sylwi mai os y mynegant mewn gwirionedd am ddau orlifiad gwahanol, ac os nad at yr un o'r rhai hyn y cyfeirir yn y dyfyniadau allan o achau Saint Ynys Prydain o ysgrifau Iolo, a roddwyd yn flaenorol, yna ceir ynddynt gyfeiriad at dri gorlifiad penodol. Ond yn awr, i roddi y mynegiadau hyny, a'r amseriadau cysylltiol:— "339, Daliwyd llawer o'r gwylliaid Gwyddelig ac a'u llosgwyd yn fyw am eu brad er gwaethaf pob cymmod heddwch a damdwng. A chylch yr un amser y dodwyd nawdd a braint ar Lafuriaw daear, ac arodraeth yd a ffrwythau coedydd, a gyrchid o'r Eidal a'r Ysbaen, a'r Un flwyddyn y boddes Morfeydd Gwynedd a Cheredigion." "353 Y colled Morfeydd Gwyned a Cheredigion achos

* Iolo MSS., tud. 141. †—Eto tud. 105.

Morlif aruthrol a daearlif trwm ar ei gefn ac y colled llawer o bentrefydd dinesig."

Nid gwiw ymddibynu ar yr amseriadau yn y dyfyniadau hyn, a thebygol eu bod ganrif neu ddwy yn rhy foreu. Eithr er hyn, ac heb roddi gormod o bwys ar y gwahanol hen ddyfyniadau a gyflëir yma o dan y penawd Cantref Gwaelod, pa un bynag ai barddonol ai rhyddiaethol, nid oes lle rhesymol i ameu ddarfod i lawer o dir gael ei feddianu gan y mor yn machwy Ceredigion, trwy un neu ychwaneg o orlifiadau penodol. Ond heblaw hyn, tebygol fod y mor yn graddol neu led-raddol feddianu y tir ar y glanau tua'r pryd hwnw, megis yn y ganrif hon. Dywed Ap Ieuan mewn llythyr ataf ar yr 20fed o Chwefror, 1877, yr hwn a arwyddodd ei hun â'i enw priodol, na feddai "wrthwynebiad i'r dyb am orlifiad rhanol gyda threuliad graddol." Dywed yr un gwr mewn llythyr a ysgrifenwyd drosto ac yn ei enw ar y cyntaf o'r un mis, fel y canlyn, yr hyn sydd yn profi meddianiad graddol:—"Tua 50 mlynedd yn ol, bu'm yn cynorthwyo dynion fy nhad gyda llwyth o ddodrefn o Ynysfaig ar hyd yr hen ffordd agosaf i lan y mor, nid oedd yno berygl na meddwl am berygl, ond erbyn hyn, y mae darnau lawer o'r ffordd wedi ei difetha yn llwyr gan y mor,—plwyf Celynin oedd hyn, a bu y difethiant yr un fath fe ddyliwn ymhob cyfeiriad o lenydd Teifi hyd lenydd Arfon." Mewn llythyr a ysgrifenwyd drosto ar y 5ed o'r un mis, dywed: "Y mae careg filldir oedd gynt ar yr hen ffordd o Dywyn i Aber Dyfi wedi ei dymchwelyd gan y mor er's llawer blwyddyn."

Hefyd, dyna Ynys Brawd, yr hon sydd a'i mangre tua genau Afon Maw, i'r hon yr anfonid gynt, yn ol a ddywedir, ugeiniau o wyn troi,* fel eu gelwir, i auafu yno. Ond erbyn hyn nid yw yn ymddangos fod yn tyfu yno flewyn o laswellt, neu unrhyw dyfiant arall, oddigerth ychydig o fôr hesg, ac ambell lysieuyn o gelyn y môr. Yn ol a ddywedir, rhedai Afon Maw gynt ar hyd y fan lle mae llinell prif heol Abermaw yn awr. A'r pryd hwnw safai "Tŷ Gwyn, y Bermo," ar yr ochr ddeheuol i'r afon. Ond wedi hyn bu yr afon yn rhedeg trwy y "Bar Bach," fel ei gelwir, yr hwn sydd rhwng mangre yr unrhyw "Dŷ Gwyn, y Bermo," a'r fan a adwaenir fel yr

* Anfonid, yn ol a ddywedir, gynifer a saith ugain o'r cyfryw wyn troi, neu wyn troad, i Ynys Brawd, yn adeg ieuengaidd Robert Richard, amaethydd a meddyg gwerinaidd anifeiliaid, yr hwn a fu farw yr 22ain o Ebrill, 1833, yn 75 mlwydd oed. Ac adroddwyd wrthyf am y nifer hyn gan ei fab, sef y diweddar Mr. Ebenezer Richards, o Ddolgellau, yr hwn a fu farw yr 8fed o Ragfyr, 1888, yn 88 mlwydd oed.

Hefyd, adroddwyd wrthyf gan Mr. Dafydd Richards, Abermaw yn awr, y cofiai ei dad yn anfon defaid i Ynys Brawd o Gorsygedol, pan ydoedd yn hogyn; ac y cofiai hefyd weled coed eirin sirion, neu fel arall, drain duon bach, yn tyfu yno pan ydoedd yn hogyn.

Digitized by Google

Ynys—Ynys Brawd. A thrwy y "Bar Bach" hwnw y nofiai y llongau i fewn i Borthfa Abermaw wedi dechreu y ganrif hon. Ond yn awr y mae rhedfa yr afon ar y tu deheuol i'r fan a elwir Ynys Brawd, a gellir ar drai gerdded o brif heol Abermaw i'r Ynys hon yn bresenol.

Yn ol traddodiad, rhedai yr afon—Afon Maw, ymlaen ar ei thaith i'r môr, heibio i Lanaber. Ac yn ol yr un awdurdod yr oedd lle yn yr eglwys neu y llan hono i gadw y cyrff yr elid a hwy i Ynys Enlli i'w claddu, i aros amser y llanw. Ac ymddengys y gosodid cryn fri ar fod hynafiaid un wedi cael lle beddrod yn yr unrhyw Ynys, gan y mynegir mai pan gyfodai tipyn o ymeiriach rhwng rhai a'u gilydd y danodid weithiau gynt gan un o'r pleidiau nad ydoedd neb o deulu y llall wedi cael eu claddu ynddi.

Buwyd yn ceisio codi goleudŷ yn lled agos i fan y distyll trai ar gwr deheuol hen fangre Ynys Brawd, ond gryn encyd oddiwrth fan y distyll trai, ar y gorllewin dde orllewin iddi. A dechreuwyd ar y gwaith hwn yn niwedd y flwyddyn 1839. Cyfodwyd yr adeilad mor uchel ag oddeutu pedair troedfedd ar hugain uwchlaw nod y gorllanw, ond daeth rhyferthwy mwy na chyffredin, gan ei ddymchwelyd ar lawr y traeth. Yna, wedi i ymddiriedolwyr y porthladd gael eu siomi fel hyn, daethant i'r penderfyniad i geisio adeiladu un ar gynllun gwahanol, sef ei wneyd yn adeilad crwn, yn lle petrual fel yr un dymchweledig. Yr oedd yr adeilad crwn bwriadedig hwnw i sefyll ar forsang petrual o wythlath bob ffordd, a chyfodwyd ef arno fel hyn i tua phymtheg troedfedd o uchder, ac ymddangosai y rhagolygon yn dra chalonogol i lwyddiant yr anturiaeth, Ond er hyn i gyd, digwyddodd iddo ddichwain hafal i'r llall, canys chwythodd corwynt cryf dros y fan, gan godi y môr yn aruthrol, a chwalwyd yntau hefyd i'r llawr, yr hyn a gymerodd le yn niwedd y flwyddyn 1843. Y mae peth o adeiladwaith hwn a'r bonsang yn parhau i aros. Y mae polyn arwyddol i'r morwyr wedi ei osod i fyny ar safle y bonsang hwnw. Ni cheisiwyd cyfodi goleudy ar y fan drachefn, a gwariwyd oddeutu 1800p. yn y cynygion a wnaed, a chollodd un dyn trwy foddiad wrth wneyd yr ail o honynt; canys cyfododd moryn, gan daflu y fath gyflawnder o ddyfroedd i'r cwch yr oedd ynddo nes ei suddo. Enw y dyn oedd John (Shon) Morris, a chymerodd ei foddiad le yn y flwyddyn 1842.

Yr ydys wedi cyfeirio eisoes, mewn cysylltiad â Lewys Edwart, y Crynwr, at y gwaith ar gwr Ynys Brawd, yr hwn a orphenwyd yn y flwyddyn 1805. Cyfeiria i'r de-ddwyrain, gan bwyso i'r de. Y mae wrth ei hen fath o sarn wedi ei phentyru megis, ymhen amser ar ol ei gyfodiad, yr hon sydd yn îs o ran uchder, ac y mae polyn

Digitized by Google

arwyddol i'r morwyr wedi ei osod arni. Buwyd yn rhoddi llusern oleuedig ar y polyn hwn gynt, ond, yn ol a ddywedir, peidiwyd a gwneyd hyny oddeutu'r flwyddyn 1844. Nid ydys yn gallu mynegu yma pa mor fuan ar ol dechreu Trwyn y Gwaith y dechreuwyd codi y sarn bentyredig megis a nodwyd, ond dywedir na chariwyd dim ati ar ol y flwyddyn 1840, oddieithr ambell lwyth yn awr ac eilwaith fel y bernid yn angenrheidiol.

Ond heblaw Trwyn y Gwaith, y mae ar Ynys Brawd weithiau eraill wedi eu cyfodi yn nghysylltiad â morwriaeth, sef yr un a elwir Trwyn Thomas Martyn, yr hwn sydd a'i gyfeiriad i'r gogledd; a Thrwyn William Lloyd, yr hwn sydd a'i gyfeiriad i'r gogledd-orllewin. Cyfodwyd hwy, yn ol fel yr ymddengys, yn y blynyddoedd a ymestynent o tua'r flwyddyn 1826 i tua'r flwyddyn 1829 neu 1830. Ac y mae yn ymddangos mai yr un a elwir Trwyn Thomas Martyn a ddechreuwyd gyntaf. Gelwir hwy fel hyn, ar enwau personol, oddiwrth enwau eu cynllunwyr, neu y rhai a ddadleuent tros eu cyfodiad, neu oherwydd y pethau hyn ynghyd. Ac y mae iddynt y dynodiad o *Drwyn* oherwydd eu dull ymestynol, fel yr ymddengys.

Ond i ddychwelyd i sylwi o barth y traddodiad crybwylledig, y rhedai afon Maw gynt i'r mor heibio i Lan Aber, ac yn unol a'r unrhyw yr oedd gwely y mor yn mhellach oddiwrth Lan Aber nag yw yn awr. Eithr nid yw hyn yn cau allan nad oedd llawer o for rhwng aberiad afon Maw ag Enlli y pryd hyny. Ond a ydys i ddeall, tybed, oddiwrth y ddwy hen linell ddilynol, y dylifai afon Ddyfi ar un adeg gynt hyd at tua mangre Ynys Enlli; ac ddarfod iddi, yn herwydd llif enfawr, ymgodi dros ei cheulanau, a boddi y gwastadedd cymydogaethol. Ai ynte cymeryd gafael wnaeth y bardd yn ngwar yr afon hono megis i fynegi am orlifiad rhyw gyfran o'r tiroedd ag sydd yn awr yn orchuddiedig gan fachwy Ceredigion, heb olygu y cyrhaeddai gan belled cyn aberu i'r mor. Ond wele y ddwy linell hyny,—

"Ac am diroedd Enlli dyvi dylles
Dyrchawr llongau ar glawr aches."

Cyfeiria y Dr. William Owen Pughe at y llinellau hyn yn ei Eiriadur, ond heb ddyfynu yr "Ac." A rhed ei gyfieithiad Saesneg o honynt heb yr unrhyw i'r ystyr ganlynol,—

"Oddiamgylch tiroedd Enlli y llifodd y Ddyfi
Gan godi y llongau ar glawr y gwastadedd."

Digitized by Google

# CADAIR IDRIS AC IDRIS GAWR.

Saif Cadair Idris yn enwog fel un o brif fynyddoedd Cymru, gan ymddyrchu o fewn i hen Gantref Meirionydd, ar y tu deheuol i Ddolgellau. Fel y gwelir, Cad*air* Idris, ac nid Cad*er* Idris, fel y gwneir gan amlaf, yw y dull y sillebir yr enw yma. A gwneir hyny am nad oes olion amddiffynfa filwrol i'w ganfod yn unman ar y mynydd hwn, fel yr ymddengys, ac fod traddodiad neu syniad y werin yn gosod Pen y Gadair fel y fan y byddai Idris Gawr yn syllu ar symudiadau y ser oddiarno. Ac y mae y dull yma a ddefnyddiwyd yn fwy unol a hyn, canys ystyr *Cadair* yw man i eistedd, tra mai un ystyr i *Cader* ydyw amddiffynfa filwrol. Ac y mae yn ymddangos mai oddiwrth y gwr hwn y cafodd y mynydd yr enw, neu, feallai mai y rhan uchaf o hono a alwyd felly i ddechreu. Yn unol a'r syniad hwn o barth achos yr enw y cyfeirir ato fel,

"Arsyllfa serwyddonol y medrus Idris Gawr."

Yn achau y Puwiaid a drigianent gynt yn Mathafarn, yn Nghyfeiliog, nodir un o'u hynafiaid wrth yr enw Idris Arw, lle hefyd y dywedir fod ganddo gell ar ben "Cadair Idris," ac y dyga y bryn yr enw hwnw o'r herwydd "hyd y dydd hwn." Y mae yn ymddangos oddiwrth ach-restrau eraill mai yr un yw hwn ag Idris Gawr, neu y Cawr Idris, er y gwahaniaethiad yma yn mherthynas i'r enw. Ond y mae yn rhy anhawdd erbyn hyn, tebygol, fynegi pa beth oedd yr achlysur o'r fath wahaniaeth. Rhydd awdwr y *Mona Antiqua Restaurant* ar ddeall y byddai yr hynafiaid yn deongli seryddiaeth wrth yr enw Edris,—enw priodoledig i Enoch, yr hwn a gymerent yn ddechreuydd seryddiaeth; y gellir sylwi o barth y dynodiant o Gawr ar y gwr hwn, nad yw y cyfryw, o angenrheidrwydd, yn golygu maintioli a nerth corphorol, canys mynegir y byddid gynt, pan renid y Cymry yn llwythau, yn galw eu penaeth yn gawr. A sylwa Roberts, yn ei *Cambrian Antiquities*, mai mwy priodol o gymwyso yr enw cawr ato ef fyddai ei olygu fel y clodfawr.

Sonir am Wely Idris, ac, yn ol a ddywedid gynt, yr oedd hwnw yn y math o fwlchyn bychan rhwng y ddau glogwyn sydd ar Ben y

Digitized by Google

Gadair megis, neu o fodd arall, un o ba rai sydd yn Ben y Gadair. Dywed chwedloniaeth y byddai y sawl a gysgai noswaith yn Ngwely Idris yn fardd neu yn wallgof erbyn y boreu.

Ymwisga Cadair Idris yn arddunol yn y garw a'r mawreddog. Ac y mae y golygfeydd o'i phen yn amrywiol ac edmygol, a hithau ei hun yn ymddangos mewn mawrfrydigrwydd unigol yn uchelder ei mangre. Ac i ddyfynu o waith y bardd Glasynys mewn perthynas iddi:—

"Mae gwedd hen Gader Idris yn ddibris ar bob llaw.

* * * * * *

Preswylfod yr aruthrol,—ysgythrog drumawg drem,—
Caitrefle 'r blwng dymhestloedd, a thref yr awel lem!
Hafotty 'r gwrdd daranau, a thrigle 'r diflin fellt
O gylch ei chrib ymwibiant, gan hollti 'r meini cellt;
Trywanant ael y nefoedd, dyrwygant gae y gwynt,
A mathrant y mynyddoedd a'r moroedd ar eu hynt;
Ond pan ddaw hinon dawel, yr awel gain a gwyd,
O'r môr y nifwl bolwyn yn wisg i'r clogwyn llwyd,
A'r cnuog darth ddosbartha ei hun yn wregys den,
A'r gweddill fyn ymddyrchu yn dorch o gylch ei phen.
O! fynydd ardderchacaf, a'r harddaf dan y rhod,
Darllenir ar dy wyneb yn hawdd—Mae Duw yn bod."

Yswatied yr anffyddiwr yn ngwyneb y llinell olaf hon.

Ond er mor ddarluniadol a thlws yw darluniad y bardd, ac er mor aml yr ymwisga Cadair Idris mewn niwl tyn; er hyny bydd yn ymddiosg ar brydiau o'i gwisg o niwl a tharth, ac yn ymddangos yn ei bri o dan ffurfafen ddigwmwl. Weithiau pan y bydd y gwres megis yn tewychu yr eangder, a'r pellderoedd yn anamlwg dan effaith ei danbeidrwydd; waith arall, dan wynach gwawr, pryd yr ymeanga yr awyrgylch, ac y bydd y cyffiniau pell yn ymddangos yn amlycach; eithr brydiau eraill bydd pen y Gadair heb y dorch o darth y sonia'r bardd am dani, ond y dyffryn islaw yn dyn o niwl neu darth. Ac felly yr oedd pan ymddangosodd yr olygfa yr adroddir am dani yn y *Beirniad* am Ionawr, 1863. Dywed ysgrifenydd yr hanes y mynegwyd iddo gan offeiriad, ryw ddeuddeng mlynedd yn flaenorol, ddarfod i fintai gychwyn tua phen y Gadair ar ben boreu claer o haf, ac fel yr oeddynt yn dringo i fyny y llethrau, "gwelent y gwaelod isel rhwng y ddwy dref* yn ymlenwi â rhyw darth gwyn, ond yr oedd yr haul yn parhau i dywynu yn braf arnynt hwy; ond nid hir y buont heb weled megis pelenau o dân yn gwneyd eu hymddangosiad am ryw eiliad ar wyneb rhanau o'r tarth gwyn, ond cawsant hwy hin ddymunol tra ar y mynydd, wrth ddychwelyd yn gystal ag wrth fyned. Eithr wedi iddynt ddyfod yn ol i'r lle o'r hwn y cychwynasant y boreu amlygai eu gwestywyr yr ofnau a'r pryder a deimlent yn eu hachos, oherwydd ystorm o fellt

* Dolgellau ac Abermaw, tebygol.

Digitized by Google

a tharanau a gwlaw oedd wedi bod yn y dref; ond er syndod i bawb ni chawsai y cwmpeini oedd ar ben y Gadair yr un dafn o wlaw, ond cofient eu bod tra yno yn clywed ryw swn dieithr megis odditanynt, yn gystal a'r gweledigad tân y crybwyllwyd am dano yn barod."

Codwyd dau dŷ ger pen y Gadair er achlesu ymwelwyr. Codwyd yr un ar y tu gogleddol, yn y flwyddyn 1823 neu 1824. Y mae yn awr yn ymadfeilio, ac heb neb yn ei ddefnyddio. Saif gweddillion muriau moelion y llall ar y tu dwyreiniol, ac yn ymyl ei phen uchaf. Ymddengys y bu mewn arferiad am bum mlynedd, ac feallai ei codwyd ryw saith mlynedd o flaen y llall. Y mae yr amseriad 1822 ar gareg o'r tu fewn yn yr adeiladwaith arosol o adfeilion y tŷ a godwyd gyntaf, ac hwyrach fod hyn yn brawf ei fod wedi ei godi mor foreu a'r flwyddyn hono o leiaf.

Nid yw hanesiaeth yn mynegu ond ychydig ynghylch Idris Gawr, a rhy brin yr ystyrir fod dim a ddywedir yn mherthynas iddo gan y werin, fel chwedloniaeth neu draddodiad, yn werth brutiad yma. Rhoddir clod uchel iddo yn y Trioedd fel seronydd, yn y modd canlynol:— "Tri gwyn Seronyddion Ynys Prydain: Idris Gawr, a Gwydion mab Don, a Gwyn ab Nudd; a chan faint eu gwybodau am y ser a'u hanianau a'u hansoddau y darogenynt a chwenychid wybod hyd yn nydd brawd."

O barth ei amseriad, sylwa y Dr. W. Owen Pughe nas gellir ei benderfynu,– ei fod cyn prifnod hanesyddiaeth. Y mae yn ymddangos fod yn wir nas gellir penderfynu yn benodol pa bryd yr oesai, ond nid yn yr ystyr o ba gyfnod cyfrifiad amser. Canys yn ol yr Achrestrau, yr ydoedd yn byw yn un o ganrifoedd y cyfnod amseryddol presenol; a gosodir ef yn y rhai hyn yn ddisgynydd o Meirion ab Tibion (Tibiawn) ab Cynedda Wledig. Ac ymddengys yr oesai y Meirion hwnw yn y bumed ganrif, os na chyrhaeddai i lawr i'r chweched. Ymddengys mai fel yn bumed disgynydd o'r unrhyw Feirion ei gosodir yn gyffredin yn yr Achrestrau, ond nid ydys yn gosod ei hynafiaid o hono i lawr hyd ato yn yr un drefn a'u gilydd yn yr oll o honynt. A thrwy y naill beth a'r llall, nis gellir nodi yn benderfynol hyd yn nod y ganrif yr oesai ynddi. Eithr, yn ol yr Achrestrau hyn, nid yw yn ymddangos y gellir yn ddiogel osod ei amseriad yn foreuach na'r seithfed ganrif, a dichon y gellir ei ddwyn i lawr i'r wythfed neu y nawfed. Ond os ydoedd gyd-oesydd â Gwydion ab Don a Gwyn ab Nudd, tebygol ei fod yn byw yn y bumed neu'r chweched ganrif. Eithr nid yw yn ymddangos fod dim mewn hanesyddiaeth yn eu cyplysu ynghyd, oddigerth y cyfeiriad atynt yn y Trioedd dyfynedig, ac nid yw eu gosodiad yno gyda'u gilydd fel tri seronydd galluog yn ddigon i brofi eu cydamseriad.

Digitized by Google

# ENWAU Y DERBYNWYR.*

*D.S.—Nid ydys i ddeall fod yr oll o'r personau a enwir yma fel Derbynwyr yn byw yn y lleoedd a roddir ar gyfer eu henwau, ond yn hytrach y dalient neu y daliant ryw gysylltiad â hwy yn rhyw wedd neu gilydd.—Rhai o honynt, erbyn hyn, wedi meirw.*

Mrs. Abraham E. Jones, Abergynolwyn, Swydd Feirionydd.
A. H. Arnfield, Glyndwr House, Dolgellau, ,,
Mr. Bennett Pughe, Tynewydd, Plwyf Celynin, ,,
Mrs. Catherine Evans, 7, Idris Terrace, Dolgellau, ,,
Catherine Parri, Trefaes, Plwyf Celynin, ,,
Miss Catherine Griffiths, Crobsy Buildings, Dolgellau, ,,
Mr. Charles Edwards, Dolsera, Plwyf Dolgellau, ,,
Cadwaladr Davies, Prifysgol Bangor, Swydd Gaernarfon.
Cadwaladr Jones, ieu., Dolgellau, Swydd Feirionydd.
C. R. Williams, Dolmelynllyn, Plwyf Llanelltyd, ,,
C. R. Owen, Hengwrt Ucha, Plwyf Llanfachraith, ,,
D. E. Hughes, Brethynydd, &c., Dolgellau, ,,
Dafydd Davies, Chwegydd, &c., ,, ,,
Dafydd Morris Jones, Maesypandy, Plwyf Talyllyn,
Daniel Williams, Coedmawr, Plwyf Llanfachraith, ,,
Dafydd Robert Pugh, Saer maen, Brithdir, Plwyf Dolgellau, ,,
Dafydd Jones, Gof, Llanelltyd, Swydd Feirionydd.
D. Griffith, Llanbedr, Dyffryn Ardudwy, ,,
Dafydd Jones, Glanllifan, Corris, ,,
Dafydd Jones, Llanfachraith, ,,
Dafydd Meredyth, Crwynwr, Dolgellau, ,,
Dafydd Humphreys, Ty'rgawen, Plwyf Llanegryn, ,,
Dafydd Bennett, Saer maen, Llanegryn, ,,
Dafydd Lloyd, Pantyronen, Plwyf Dolgellau, ,,
D. Lewis (Dewi Idris), Abergynolwyn, ,,
Dafydd T. Ellis, ,, ,,
Dafydd Owen Jones, Frondeg, Tywyn, ,,
Dafydd Jones, Plevna Terrace, ,, ,,
Daniel Daniel, Pantyronen, Plwyf Tywyn, ,,
Dafydd Humphreys, Brynerwas, ,, ,,
D. R. Parri, Henblas, Plwyf Celynin, ,,
Daniel Hughes, Ty'nllwyn, Plwyf Tywyn, ,,
Dafydd Pugh, Gelligain fach, Plwyf Pennal, ,,
Dafydd Rowlands, Pennal, ,,
Dafydd Davies, Saer coed, Pennal, ,,
D. Howell, Craigydon, Aberdyfi, ,,
Dafydd Jones, Llythyrdy, Chwilog, Swydd Gaernarfon.
D. Lloyd George, Cyfreithiwr, Criccieth, ,,

* Cyhoeddir y rhestr yn hollol fel y parotowyd hi i'r wasg gan awdwr y llyfr.

Digitized by Google

Parch. D. Evans, M.A., Talarfor, Plwyf Llanaber, Meirionydd.
,, D. Jones, Dolgaregddu, Blaenau Ffestiniog, ,,
Mr. Dafydd R. Jones, Cemmaes, Swydd Drefaldwyn.
Dafydd Roberts, Isallt, Corris, Swydd Feirionydd.
D. Davies, Penybont, ,, ,,
D. Jones, Brynyraber, ,,
D. Lloyd, Pant, Plwyf Llanegryn, ,,
D. Evans (Dewi Maldwyn), Penyrorin, Trefeglwys, Caersws, Swydd Drefaldwyn.
Dafydd Thomas, Wenallt, Plwyf Llanfachraith, Swydd Feirionydd.
Mrs. E. O. Jones, Victoria Buildings, Dolgellau, Swydd Feirionydd.
E. Ellis, Bro Aran, Dolgellau, ,,
Mr. Evan Williams, Cefnyclawdd, Plwyf Dolgellau, ,,
Evan Jones, Saer maen, Dolgellau, ,,
E. Ylltyr Williams, Llyfrwerthydd, Dolgellau, ,,
Edward Griffiths, Y.H., Springfield, ,, ,, 2 lyfr.
Ellis Jones, Nantgwyrddail, Plwyf Dolgellau, ,,
Edward Griffiths, Maesybryner, ,, ,,
Ellis Evans, Felin-y-Ship, ,, ,,
Evan W. Pugh, Hafod-y-Morfa, Plwyf Llanelltyd, ,,
Evan Edwards, Tandalar, ,, ,,
Edward Owen, English Terrace, Dolgellau, ,,
Evan Evans, Bodilen fawr, Plwyf Llanfihangel-y-Pennant.
Edward Humphrey Owen, Tycoch, ger Caernarfon.
Edward Williams, Argraffydd, Dolgellau, Swydd Feirionydd.
Ellis Pugh Jones, Hendref, Llwyngwril, Swydd Feirionydd.
Edward Humphreys, Frondeg, Corris, ,,
Edward Williams, Frongoch, ,, ,,
Ellis Williams, Bwlchgwyn, Plwyf Celynin, ,,
Enoch Jones, Cefnmaelan, Plwyf Dolgellau, ,,
Edward Evans, Ty'nyreithin, Plwyf Tywyn, ,,
Edward Jones, Hendre Wallog, Plwyf Llanfihangel-y-Pennant.
Edward Owen, Abergynolwyn, Swydd Feirionydd.
Evan Humphrey Jones, Tanygraig, Bryncrug, Plwyf Tywyn.
Evan Lewis, Cyfrifydd, Aberystwyth, Swydd Aberteifi.
Evan Isaac Jones, Bwlchcyfyng, ger Abergynolwyn, Swydd Feirionydd.
Evan Anwyl.
Evan Jones, Lodge, Arthog, Swydd Feirionydd.
Edward Lewis, Gaewern Cottage, Corrus, ,,
Ellis Lewis, Hillsbrough, ,, ,,
Edward Vaughan (Celynin), Criccieth, Swydd Gaernarfon.
E. W. Evans, Swyddfa'r *Goleuad*, Dolgellau, Swydd Feirionydd. 2 lyfr.
Edward Jones, Gaewern ucha', Corrus, ,,
Evan Rees, Gwynfryn, Pantperthog, Plwyf Pennal, ,,
Edward Jones, Beddycoediwr, Plwyf Trawsfynydd, ,,
Edward Pugh, Nevatta St., Llynlleifiad.
Edward Jones, Tainewyddion, Llanfachraith, ,,
Evan R. Evans, Maesyrhelmau, Plwyf Dolgellau, ,,
Edward H. Jonathan, Brethynydd, Blaenau Ffestiniog.

Digitized by Google

Mr. Francis Williams, Abergynolwyn, Swydd Feirionydd.
Griffith Owen, Lledrwr, &c., Dolgellau, ,,
Griffith Hughes, Cwmŷch, Plwyf Llanegryn, ,,
Griffith Rees, Llawr Dolsera, Plwyf Llanfachraith, ,,
Parch. Gwynoro Davies, Abermaw, ,,
,, Griffith Evans, (Cynfal gynt), Aberdyfi, ,,
Mr. Griffith Jones, Bronygader, Dolgellau, ,,
Griffith Jones, Plastrwr, ,, ,,
Griffith Pughe, Tywyn, ,,
Griffith Pierce, Brynrhug, Plwyf Dolgellau, ,,
Griffith Williams, National St., Tywyn, ,,
Griffith Jones, Gelligraian, Plwyf Tywyn, ,,
Griffith Ellis, Ty'ncornel.
Griffith Davies, (Waendasau gynt), Cefnmine, ger Harlech.
Griffith Lewis, Ty'nyffridd, Corris, Swydd Feirionydd.
Griffith Morgan, Tymawr, Plwyf Llanegryn, ,,
Parch. Griffith Ellis, M.A., Bootle, Llynlleifiad.
Mr. George Frederick Smyth, 139, Park Rd., Kensington, Llundain.
Griffith Richards, Llwyniarth, Plwyf Dolgellau, Swydd Feirionydd.
G. J. Williams, F.R.S., Blaenau Ffestiniog, Swydd Feirionydd.
Mrs. Hugh Pier, Sherbourne House, Leamington.
Mr. Hugh Davies, Abergeirw, Plwyf Llanfachraith, Swydd Feirionydd.
Hugh Pugh, Saer Cerbydau, Dolgellau, ,,
Humphrey Morris, Fferyllydd, &c., Dolgellau, ,,
Henry Miles, Cambrian House, ,, ,,
Parch. Hugh Roberts, Rhydymain, Plwyf Llanfachraith
Mr. Humphrey Parri, Plastrwr, Dolgellau, Swydd Feirionydd.
Hugh Roberts, Shop Newydd, ,, ,,
Hugh Caradog Pugh, Garthwynion, Brithdir, Plwyf Dolgellau.
Hugh Williams, Saer coed, Dolgellau, Swydd Feirionydd.
Humphrey Owen, ,, ,, ,,
Humphrey Jones, Porthmon, ,, ,,
Humphrey Jones, Tanybryn, ,, ,,
Hugh Vaughan, Cae'rberllan, Plwyf Llanfihangel-y-Pennant.
Hywel Williams, Ty'nllwyn, Plwyf Dolgellau.
Henry Jones, Bryn Idris, Corrus, Swydd Feirionydd.
Hywel Jones, Plasbach, Friog, Plwyf Celynin, ,,
Humphrey Lloyd Jones, Athraw Ysgol y Bwrdd, Corrus, Swydd Feirionydd.
Parch. Hugh Pugh, Penygraig, Swydd Gaernarfon.
Mr. Hugh Price, Bylan, Plwyf Dolgellau, Swydd Feirionydd.
Hugh R. Ellis, Bryncrug, Plwyf Tywyn, ,,
H. J. Reveley, Brynygwin, Plwyf Dolgellau, ,,
Hugh Roberts, Abergynolwyn, ,,
Hugh Davies, Pantycae, ,,
Hugh Pugh, Cwmffernol, Plwyf Pennal, ,,
Hugh Thomas, Rhoslefain, Plwyf Llangelynin, ,,
Hugh Evans, Hengae, Plwyf Talyllyn, ,,
Hugh Williams, Ty'nygaer, Brithdir, Plwyf Dolgellau
Hugh Rowlands, Brynblew, Plwyf Llanfachraith

Digitized by Google

Mr. Hugh Evans, Glanafon, Rhiwbryfdir, Blaenau Ffestiniog
Proffeswr Hugh Williams, Athrofa y Trefnyddion Calfinaidd, Bala
Mr. John Owen, Ty'nymaes, Plwyf Talyllyn, Swydd Feirionydd.
Cadben Joseph Roberts, Fronallt, Plwyf Dolgellau, ,,
Mr. John Richards, Planigfeydd Dicks ,, ,,
John Richards, Ysgrifenydd, Ariandy y *North & South*, Dolgellau
John Roberts, Ty'nygerddi, Plwyf Llanfachraith
J. E. Jones, Meddyg, Brynffynon, Dolgellau, Swydd Feirionydd.
John Evans, Masnachydd, Dolgellau ,,
John Williams, Cigydd, Dolgellau ,,
John Jones, Bryn Melyn, Plwyf Llanelltyd ,,
John Parri, Glanronw ,, ,,
John Jones (Glanmawddach), Borth, Plwyf Llanelltyd ,,
Joseph Brodie, Heol Bethel, Dolgellau ,,
John Jones, Hafodywain, Plwyf Llanfachraith ,,
John Parri Jones, Meistr y Tlotty, Penrhyn ,,
John Williams, Caerffynon, Corrus ,,
John Harris, Goedwig, Plwyf Pennal ,,
John Jones, Galltyrhiw, Plwyf Llanwrin, Swydd Drefaldwyn.
John Meyrick Jones, Dolgellau, Swydd Feirionydd.
John Roberts, Meddyg, Talarfor, Swydd Gaernarfon.
John Timothy (Ap Einion), Friog, Plwyf Celynin, Swydd Feirionydd.
Parch. John Walters, Brithdir, Plwyf Dolgellau ,,
Mr. John Griffith, Gallestra, Plwyf Dolgellau ,,
John Edwards, Tyddynmawr, Plwyf Dolgellau, Swydd Feirionydd.
John Jones, Hen Shop, Plwyf Llanegryn, Swydd Feirionydd.
John Pugh Jones, Ty'nyffridd, Corrus, ,,
Joseph Jones, Glanllifan, ,, ,,
John Prichard, Hen Dafarn, . ,, ,,
J. Thomas Jones, Meddyg, Bronygraig, Corrus, ,,
James Griffith, Isallt, Corrus, ,,
John Thomas Jones, Dolsera Cottage, Plwyf Dolgellau, ,,
Parch. John Cadvan Davies, Dolgellau, Swydd Feirionydd.
Mr. John Jones, Penclogwyna, Plwyf Dolgellau, Swydd Feirionydd.
John Jones, Ty'nycoed, Plwyf Llanelltyd, ,,
John Jones, Tanybryn, ,, ,,
John Evans Jones, Crosby Buildings, Dolgellau, ,,
John Jones, Geufron, Plwyf Dolgellau, ,,
John Jones, Llwyngrug, gerllaw Dinas Mawddwy, ,,
John Lewis Edwards, Abergynolwyn, ,,
John M. Edwards, ,, ,,
John Griffiths, Saer coed, ,, ,,
John Griffiths, gynt Llanfihangel-y-Pennant, ,,
John Maethlon James, Cambrian House, Tywyn, ,,
John Humphreys, Masnachydd Glo., &c., ,, ,,
John Price, Dolgoch, Plwyf Tywyn, ,,
John Jones, Doldyhewydd, ,, ,,
John Evans, Shop, Pontfathan, Plwyf Tywyn, ,,
Parch. John Hughes, Abergynolwyn, Ficer Talyllyn, ,,

Digitized by Google

Mr. John Jones, Nantmynawyd, Plwyf Llanfihangel-y-Pennant,
John R. Thomas, Athraw Ysgol, Abergynolwyn, Plwyf Llanfihangel-y-Pennant, Swydd Feirionydd.
John Jones, Trychiad, Plwyf Llanegryn, Swydd Feirionydd.
John Jones, Drainllwydion, Plwyf Pennal, ,,
John Jones, Plas Jolly, Plwyf Llanegryn, ,,
John Thomas, (Eivionydd), 27, Heol y Farchnad, Caernarfon.
John Richards, Maesyllan, Plwyf Llanfihangel-y-Pennant, Swydd Feirionydd.
John Parri, Craigyfachddu, Corris, Swydd Feirionydd.
John Jones, Penybryn, Plwyf Llanelltyd, ,,
John Ellis Evans, Milfeddyg, Pentre'r Felin a Phwllheli, Swydd Gaernarfon.
John Roberts (yn awr o Awstralia), mab Mr. John Roberts, Penbryn, Dolgellau, Swydd Feirionydd.
John Davies, Rhydwen, Plwyf Dolgellau, Swydd Feirionydd.
Parch. John Davies, Bontddu, Plwyf Llanaber, ,,
Mr. J. Roberts, Glasgow House, Cefn, Rhiwabon, Swydd Ddinbych.
Jenkin David, Arianydd, Dolgellau, Swydd Feirionydd.
John Evans, Caernarfon.
John Lewis, Balkan Hill, Aberdyfi, Swydd Feirionydd.
Parch. John Evans.
Mr. John Williams, Esgairgoch, Pennal, Swydd Feirionydd.
John Owen, Taicynhauaf, Plwyf Llanelltyd, ,,
James Lewis, Heol Springfield, Dolgellau, ,,
James Berwyn Davies, Athraw Ysgol y Bwrdd, Brithdir, Plwyf Dolgellau, Swydd Feirionydd.
John Edwards, Pobty, Dolgellau, Swydd Feirionydd.
John Griffiths, Craig-y-castell, Plwyf Llanfachreth, ,,
John Evans, Gorsaf-feistr, Trawsfynydd, ,,
John Pugh, 42, Heol Lord, Blaenau Ffestiniog, ,,
J. Henry Silvan Evans, M.A., Meddyg, Fflint.
Kenrick Roberts, Glanwnion, Dolgellau, Swydd Feirionydd.
Lewis Williams, Arwerthwr, Dolgellau, ,,
Lewis Evans, Glanmorfa, Plwyf Llanelltyd, ,,
Lewis James, Berthlwyd, Plwyf Dolgellau, ,,
Lewis Williams, Cyfrifydd, Machynlleth, Swydd Drefaldwyn.
Lewis Thomas, Esgairisa', Plwyf Pennal, Swydd Feirionydd.
Laurence Ruck, Pantlludw ,, ,,
Ll. Pritchard, Gorsafydd Ffordd-haiarn y Cambrian, Dolgellau.
Mrs. M. Pugh, 6, Idris Terrace, Dolgellau, Swydd Feirionydd.
Miss M. Jones, Foelfriog, Plwyf Llanwrin, Swydd Drefaldwyn.
Mr. Morris Jones, Bryndu, Plwyf Llanelltyd, Swydd Feirionydd.
Morris Evans, Ty'nyfach, Plwyf Llanfihannel-y-Pennant, ,,
Morris Thomas, Fferyllydd, Corrus, Swydd Feirionydd.
Meredydd Owen, Llanegryn, (gynt Ty'nllan), ,,
Morris Jones, Plasucha', Dolgellau. ,,
Morris Roberts, (Ysguboriau, Plwyf Tywyn, ar un adeg), ,,
Meredydd Jones, Caethle, Plwyf Tywyn, Swydd Feirionydd.
Morgan Williams, Rhydgaled, Plwyf Pennal, ,,
Morris Jones, Brynclynog, Plwyf Trawsfynydd, ,,
Morris Evans, Penrhosisa', Plwyf Llanfachraith, ,,

Digitized by Google

Mr. Morris Pugh, Buarth-y-re, Swydd Feirionydd.
Meyrick Roberts, Goruchwyliwr Cloddfa Bryneglwys, ,,
Michael Roberts, Goruchwyliwr Cloddfa Aberllefeni ,,
Owen Owen, Hendref, Plwyf Llanfihangel-y-Pennant, ,,
Owen R. P. Owen, Meddyg, Bala, ,,
Owen O. Roberts, Athraw Ysgol y Bwrdd, Dolgellau, ,,
Owen Jones, Saer maen, Frondderw, Bontddu, Plwyf Llanaber,
Owen Roberts, Minafon, Corrus, Swydd Feirionydd.
Owen Griffiths, Llainygroes ,,
Owen Rees, Argraffydd, Dolgellau ,,
Owen L. Edwards, Abergynolwyn ,,
Owen Owen, Bryn, Plwyf Llanegryn, ,,
Parch. Owen M. Edwards, B.A., Coleg Baliol, Rhydychain.
Mr. Owen Pugh, Heol Tanybryn, Abergynolwyn, Swydd Feirionydd.
Robert Pugh, Plascoch, Dolgellau, ,,
Parch, Robert Roberts, Frondirion, ger Dolgellau, ,,
Mr. Richard Williams, ,, ,, ,,
Robert W. Jones (Cynolwyn), Llyfrwerthydd, Tywyn, ,,
Richard Wynne Williams, Fferyllydd, Dolgellau, ,,
Richard Pugh, Dolsera, Plwyf Dolgellau, ,,
Robert Thomas, Doladd, Plwyf Llanfachraith, ,,
Parch. R. J. Morgan, Bryncoediwer, Plwyf Dolgellau, ,,
Mr. Richard Griffith, Brethynydd, Plasnewydd, Dolgellau, ,,
Robert Roberts, Penystynfa, Plwyf Llanfachraith, ,,
Richard Jones, Gwanas, Plwyf Dolgellau, ,,
Robert ap Ithel, Hen Gaerynwch, ,, ,,
Richard Owen, Pil, Plwyf Llanelltyd, ,,
Richard Jones, Faner, ,, ,,
Robert Dafydd, Gribin, ,, ,,
Richard Pugh, Masnachydd, Corrus, ,,
Richard Williams, Heol Waterloo, Dolgellau, ,,
Richard Jones, Brethynydd, Shop Newydd, Dolgellau, ,,
Rhys Owen, Bryn Meirion, Corrus. ,,
Robert Evans, Bryn Idris, ,, ,,
Robert C. Evans, Dolgellau, ,,
Robert Lloyd, ieu., Gof, Dolgellau, ,,
R. Ivor Parry, Llys Ivor, Pwllheli
Richard Edwards, Shop, Heol Lombard, Dolgellau, ,,
Richard Jones, (gynt Sylfaen), Plwyf Tywyn, ,,
Richard Jones, Ffriddbryncoch, Plwyf Trawsfynydd, ,,
Robert Williams, Masnachydd, Llwyngwril, ,,
Robert Thomas Davies, Cwmucha', Plwyf Llanegryn, ,,
Robert Jones, Cemmaes, ,, ,,
Robert Roberts, Gwyddfryniau ,, ,,
Richard Pugh, Arddol Terrace, Corrus ,,
Robert Roberts, Saer coed, Neptune Hall, Corrus, ,,
Richard Lewis, Clywrach, Torrwr, Dinas Mawddwy, ,,
Richard Evans, Is-oruchwylydd Cloddfa Bryneglwys, ,,
Richard E. Pugh, Abergynolwyn, ,,
Robert L. Lewis, ,, ,,
Richard Jones, Tymawr, Plwyf Tywyn, ,,
Parch. R. Arthur Williams (Berw)

Digitized by Google

Mr. Robert William Richards, Pensarn, Plwyf Tywyn, ,,
Richard Rowlands, Gwyddelfynydd, ,, ,,
Richard Vaughan, Tyddyn-y-berllan, ,, ,,
R. D. Williams, Bethel House, Dolgellau, ,,
Richard Williams, Bronygog, Corrus, ,,
Parch. R. G. Edwards, M.A., Ficer, Corrus, ,,
Mr. Richard Edwards, Ceinws, Plwyf Llanwrin, Swydd Drefaldwyn.
Parch. Robert Owen, M.A , Pennal, Swydd Feirionydd.
Mr. Richard Gillart, Llynlloedd, Swydd Drefaldwyn.
Rhys Parri, Esgairweddan, Plwyf Tywyn, Swydd Feirionydd.
Richard Mills, Masnachydd, Dolgellau ,,
Robert Davies, Tymawr, ger Corrus ,,
Robert Roberts, Claughton Road, Birkenhead.
Richard Jones, Saer coed, Arthog, Swydd Feirionydd.
Robert Thomas, Hendref, Plwyf Trawsfynydd ,,
Richard Evan Griffith, Esgairgyfela, Plwyf Tywyn ,,
Richard Griffith, 75, High St., Blaenau Ffestiniog ,,
Richard Pugh, Tycoch, Ystradgwyn, Plwyf Talyllyn ,,
Parch. Richard Davies, Curad, Tywyn ,,
Mr. Robert Thomas, Llyfrwerthydd, Blaenau Ffestiniog ,,
Robert Griffith, Utica, Maentwrog ,,
Richard Evans, Maestryfar, Plwyf Llanelltyd ,,
Robert H. Hughes, Llythyrdy, Blaenau Ffestiniog ,,
Robert Edwards, Fferyllydd ,, ,,
R. D. Evans, Meddyg ,, ,,
Mrs. S. Williams, Glanygoegen, Cemmaes, Swydd Drefaldwyn.
Mr. Simon Jones, Ty Capel, Ganllwyd, Swydd Feirionydd.
P. Walter Evans, 10, Heol Heyworth, Llynlleifiad.
Thomas Roberts, Haiarn Werthydd, &c., Dolgellau, Swydd Feirionydd.
Thomas Morris, Saer coed, Dolgellau ,,
Thomas Humphrey Williams, Llwyn, ger Dolgellau ,, 2 lyfr
Thomas Ellis, Erwgoed, ger Arthog, ,,
Thomas Evans, Garth Bleddyn, Plwyf Llanelltyd (?) ,,
Thomas Griffith, Cambrian House, Llwyngwril ,,
Thomas Thomas, Penyrardd, (?) Llanelltyd ,,
Thomas Edwards, Garnedd Wen, Aberllwyfeni ,,
Parch. Thomas Thomas, Towyn ,,
Mr. T. Ellis Thomas, Abergynolwyn ,,
Thomas Price, Coed, Plwyf Dolgellau ,,
Thomas O. Lewis, Abergynolwyn ,,
Parch. Thomas Edwards, Ficer, Llanfihangel-y-Penant ,,
Mr. Thomas Jones Stevens. Henddol, Plwyf Celynin ,,
Thomas Pugh, Melin Pantperthog, Plwyf Penal ,,
T. Regamy, Gwynfryn, Pantperthog ,,
Thomas Burton, Tywyllnydwydd ,,
T. Marchant Williams, B.Ll., Llundain.
Thomas Elias, Llanrwst, Swydd Ddinbych.
Thomas P. Roberts, America.
T. Edwards, Maesmawr, Plwyf Llanelltyd, Swydd Feirionydd.
Dr. Thomas Charles Edwards, Athrofa Aberystwyth. 2 lyfr
Parch. Titus Lewis, Periglor, Towyn, Swydd Feirionydd.

Digitized by Google

Mr. Thomas Jones, Barcer, Llanuwchlyn ,,
William Williams, Gwengraig, Plwyf Dolgellau ,,
William Williams, Heol Springfield, Dolgellau ,,
William Hughes, Pobty, Dolgellau ,,
Parch. William Davies, Tynewydd, Plwyf Llanegryn ,,
Mr. William Lloyd, Waen, Plwyf Llanegryn ,,
William Williams, Oriedydd, Dolgellau ,,
William Williams, Meistr y Tlotty, ger Dolgellau ,,
William Williams, Masnachydd coed, Dolgellau ,,
W. R. Davies, Cyfreithiwr, Dolgellau ,, 2 lyfr
William Owen, Haiarn Werthydd, &c., Dolgellau ,,
William Richards, Llettymwrdwr, ger Dolgellau ,,
William Griffith, Cyfreithiwr, Glyn Malden, Dolgellau ,,
William Williams, Saer coed, Pantycra, Plwyf Dolgellau ,,
William Evans, Tyddynllwyn, ger Dolgellau ,,
William Roberts, Gwlanweithfa, Dolgellau ,,
William Roberts, Perthi llwydion, Brithdir, Plwyf Dolgellau ,,
William Jones (Graienyn), Cefnisa ,, ,,
William Ellis, Bethania, Corrus ,,
William Lewis, Dafarn Newydd, Corrus ,,
W. R. Williams, Brynderwen ,, ,,
William Parri, Tanywaen ,, ,,
William Jones, Saer maen (Ty'nycornel ?), Plwyf Dolgellau ,,
Parch. William Williams Corrus, (ar un adeg) ,,
Mr. William Roberts, Isallt, Corrus ,,
William R. Williams, Shop, Dolgellau ,,
William Jones, Glanymorfa Bach, Plwyf Llanegryn ,,
William Jones, Dolffanog, Ystradgwyn, Plwyf Talyllyn ,,
Parch. W. Rheidiol Roberts (Llanelltyd, ar un adeg) ,,
Mr. W. H. Jones, Hen Dafarn, Corrus ,,
William Jones (Gwilym o Fon), Brân House, Tywyn ,,
William Roberts, Llythyrdy, Pennal ,,
William Williams, Tanywaen, Corrus ,,
William Evans, Waterloo House, Dolgellau ,,
William Hughes, Tanybryn, Abergynolwyn ,,
William Humphreys, Ysgwydd y Glyn, Plwyf Llanfachraith
William Lloyd, Blaen y Glyn ,, Swydd Feirionydd
William Payne, Arianydd, Portsea.
Parch. William Thomas (Dyffryn Ardudwy, ar un pryd),
Mr. W. Williams, B.A.,(St Mary's Hospital, ar un pryd), Llundain.
Parch. William Williams (Dinas Mawddwy), Swydd Feirionydd.
Mr. William Owen, Gorswen, Plwyf Celynin ,,
Zechariah Evans, Ty'nyceunant, Plwyf Dolgellau ,,
Mrs. Jones, Victoria Buildings, Dolgellau ,,
Miss Lloyd, Hengwrt, Dolgellau ,,
Roberts, Brynmair, Dolgellau ,,
Dr. Lloyd Williams, Dolgellau ,,

---

DOLGELLAU:
ARGRAFFWYD GAN E. W. EVANS, SWYDDFA'R 'GOLEUAD' A'R 'LLADMERYDD.'

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

This book should be returned to the Library on or before the last date stamped below.

A fine of five cents a day is incurred by retaining it beyond the specified time.

Please return promptly.

Digitized by Google